Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

600007094Q

101. f. 919

# ESBONIAD

AR Y

# BIBL SANCTAIDD,

YN CYNNWYS

## Nodiadau Beirniadol,

AR Y

RHANAU ANHAWDDAF EU DEALL O YSGRYTHYRAU YR HEN DESTAMENT, A'R NEWYDD.

*Wedi eu casglu o waith yr Awdwyr goreu, hen, a diweddar,*

GAN OWEN JONES, WYDDGRUG.

CYFROL II.

WYDDGRUG: ARGRAFFEDIG, A CHYHOEDDEDIG, GAN

H. AC O. JONES.

MDCCCXL.

# NODIADAU BEIRNIADOL.

——o——

## LLYFR Y SALMAU

*Sydd gasgliad o Ganiadau Cyssegredig, a ysgrifenwyd gan wahanol bersonau, ar wahanol amserau. Mae yn amlwg eu bod wedi eu cyfansoddi gan ddynion sanctaidd Duw; canys y mae duwiolfrydedd trwyadl yn amlygedig trwyddynt oll. Mae eu testunau yn changf a thra amrywiol. Darlunia rhai o honynt yn yr iaith rymmusaf, gyfyngderau y dyn y byddo ei gydwybod wedi deffro; ammheuon ac ofnau dynion da dan brofedigaethau a chystuddiau; y gobaith a'r gynhaliaeth a ddeillia iddynt o'r datguddiad o drugaredd, gallu a chariad Duw, yn nghyd a'i ffyddlondeb i w addewidion. Mawrygir gogoniant Duw fel crëawdwr, llywiawdwr, a chynhaliwr y byd, yn rhai o honynt: ac eraill a ddarluniant ei berthynas a'i eglwys, ac a ddatganant ryfeddodau ei allu a'i ras i'w bobl Israel; a rhai o honynt ydynt broffwydoliaethol, yn y rhai y rhag-ddarlunid person, gweinidogaeth, llafur, dyoddefiadau, a gogoniant y Messïah; llwyddiant a buddugoliaeth yr efengyl, gwrthodiad yr Iuddewon am eu hanghrediaeth, a galwedigaeth y cenhedloedd.*

*Tadogir y rhan fwyaf o'r Salmau hyn ar Dafydd, ac y mae yn hawdd canfod oddiwrth dystiolaethau tufewnol a gair yn llawer o honynt, eu bod wedi eu hysgrifenu ar amryfal dymhorau yn ystod ei oes ef, ac yn cyfeirio yn llythyrenol at rai o'r amgylchiadau nodedig y bu ef ynddynt. Yn ol y teitlau, mae unarddeg a thriugain o'r Salmau hyn yn cael eu priodoli i Dafydd, deuddeg i Asaph, un i Hemman, un i Ethan, dwy i Solomon, a'r gweddill ydynt heb deitl. Gan bwy neu pa bryd yr ychwanegwyd y teitlau hyn sydd anhysbys; ond y mae lle cryf i gredu oddiwrth brofion tufewnol, eu bod yn gyfeiliornus yn aml. Mae yn amlwg fod llawer o'r rhai a briodolir i Dafydd, wedi ei hysgrifenu yn amser y caethiwed Babilonaidd, neu ar ol hyny; ac ymddengys fod rhai sydd heb deitlau iddynt, yn perthynu i Dafydd. Gan nad oes rhyw gyssylltiad neillduol rhwng y Salmau, mae yn debyg i'w trefniad ddeillio oddiar yr amgylchiad o'u bod wedi eu cyfansoddi gan y proffwydi fel y byddai achlysuron yn galw, a'u casglu yn nghyd drachefn, er lles yr eglwys yn gyffredinol. Mae y Salmau wedi eu dosparthu yn yr Hebraeg i bump o lyfrau; y cyntaf yn diweddu gyd a'r Sal.* **41**. *yr ail gyda Sal.* **72**; *y trydydd gyd a'r* **89**; *y pedwerydd, gyda* **106**; *a'r pummed gyda* 150. *Ond y mae yn lled debyg mai ar ol amser ymgnawdoliaeth ein Gwaredwr y bu y rhaniad hwn, gan ei fod ef yn ei grybwyll fel un llyfr, Luc* **20. 42**.

*Mae yr holl lyfr, medd* DR. GILL, *fel mwn-glawdd goludog o ras, a gwirioneddau efengylaidd, neu gronfa gyfoethog o brofiadau ysprydol, ac yn meddu cymhwysderau neillduol at bob rhyw gyflwr ac amgylchiad, y gall eglwys Dduw neu gredinwyr neillduol fod ynddo ar unrhyw amser; a'r duwiol* HENRY *a ddywaid, gyda golwg ar ddefnyddioldeb y Salmau mewn ymarferion crefyddol, "Pe gwnelem ni ein hunain yn fwy hyddysg yn Salmau Dafydd, fel y gweddai i ni, pa neges bynnag a feddem wrth orsedd gras, mewn ffordd o gyffes, gweddi neu ddiolchgarwch, nyni a allem gael cymmorth mawr oddiyma i droethu ein neges; pa ryw deimladau duwiol-frydig bynnag a fyddo yn ymweithio ynom. dymuniad neu obaith sanctaidd, galar neu lawenydd, nyni a allem gael geiriau cyfaddas yma i'w gwisgo ynddynt, ymadroddion iachus, y rhai ni ellid beiaw arnynt. Gellir canfod y cyfeiriadau a wneir at y Salmau yn y Testament Newydd, yn Math.* 4. 6, 7. *a* 13, 35. *a* 21. 16. 42. *a* 22. 44. *a* 27. *Marc* 15. *Luc.* 20. 42 *a* 23. *Ioan* 13. 18. *a* 19. *Act.* 1. 20. *a* 4. 11, 25, 26. *a* 7. 46. *a* 13. 35. *Rhuf.* 3. 12. *a* 4. 6—8. *a* 8. 36. *a* 10. 18. *a* 11. 9, 10. *a* 15. 9, 11. *Eph.* 2. 20. *a* 4. 7, 8. *Philip.* 1. 6. *Heb.* 1. 5. *a* 3. 9, 15. *a* 4. 7. *a* 5. 5. *a* 10. 5. 1 *Pedr* 2. 4—7

## SALM I.

Adn. 1. Er nad oes deitl i'r Salm hon, bernir yn gyffredin mai Dafydd oedd yr Awdwr o honi; a'r Doctoriaid Iuddewig, y rhai a ddywedent mai Ezra a gasglasai Lyfr y Salmau, a farnent iddo gyflëu y Salm hon yma, fel un gymhwys i fod yn rhagymadrodd i'r lleill. Ac mewn rhai Cyfysgrifau y mae y ddwy gyntaf yn un Salm. MORISON, BOOTHROYD, SCOTT. Meddylia rhai mai am Grist y llefarir yn y Salm hon, GILL; a ROMAINE, a farnai mai am lwyddiant y Gwaredwr glân yn ei waith, a dinystr y rhai na byddont wedi ei hympio trwy ffydd ynddo ef y llefarid yma. Gwel *Essay on Psalmody.*

Mae y gair Hebraeg a gyfieithir *Gwŷn ei fyd*, yn y rhif luosawg, ac yn dynodi helaethrwydd di brin o wynfyd a dedwyddwch. MOUNTANUS, CLARKE,—*Y gwr*, enw yn dynodi rhagoriaeth arbenig, ac yn gweddu yn drwyadl, yn unig i'r Hwn sydd sanctaidd a difeïus, a didoledig oddiwrth bechaduriaid. Mae pawb sydd yn ei dderbyn ef yn ddiffuant fel eu Gwaredwr, yn dilyn ei ôl ef, gan eu cadw eu hunain yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd. Mae yr amrywiol ymadroddion yn dynodi yn dra grymus fod graddau mewn drygioni.—*Rhodio,—sefyll,—eistedd*, ydynt ymadroddion yn arwyddo tri gradd o ddrygau, y naill yn waeth na'r llall.—*Annuwiolion,—pechaduriaid,—a gwatwarwyr*, a ddynodant dri nodweddiad, y naill yn rhagori ar y llall mewn pechadurusrwydd. Y cyntaf sydd yn deillio o wreiddair a ddynoda "annghyfiawn," ac a elwir felly am ei fod yn attal oddiwrth Dduw yr hyn sydd ddyledus iddo. Yr ail o wreiddyn a gyfieithir "troseddwyr" yn

aml, am eu bod yn myned dros y terfynau gwaharddedig. Y trydydd, "gwatwarwr," un heb un grefydd, ac yn byw mewn dirmyg amlwg ar ddeddfau Duw.

Adn. 2. *Ond sydd a'i ewyllys yn nghyfraith yr Arglwydd.* Mae y gair *cyfraith* yn fynych, fel yn y fan hon, yn dynodi yr holl ddatguddiad a dderbyniodd dynion oddiwrth Dduw; gwel Sal. 19. 7. Es. 2. 2. Yma cawn ddarluniad o ddyn wedi adnewyddu ei feddwl trwy ras a i ddwyn i gydffurfio â chyfraith yr Arglwydd, neu â'i holl ewyllys datguddiedig ef.

Adn. 3. *Ac efe a fydd fel pren wedi ei blannu ar làn afonydd dyfroedd.* Hwyrach ei fod ef yma yn cyfeirio at y palmwydd, fel y barnai amryw o'r hen awdwyr, fel y cydmerir y cyfiawn yn bendant i'r balmwydden yn Sal. 92. 12. Mae yr olwg ar goed uchel, tewfrig, o bell yn ngwledydd poethion, sychion Asia, yn arwydd sicr i'r teithydd fod dwfr yn agos iddynt, gan ei fod yn anhebgorol i dyfiant a ffrwythlonrwydd prennau yn yr hinsawdd hwnw. Gwel Nod. ar Deut. 11. 10.—*Yr hwn a rydd ei ffrwyth yn ei bryd,* neu yn ei dymhor priodol; felly mae y cristion yn rhoddi ffrwythau priodol i dymhorau amrywiol ei oes, dyoddefgarwch mewn cystudd, addfwynder yn wyneb gwatwaredd, haelioni mewn llwyddiant, &c.—*A pha beth bynnag a wnel,* neu "Felly," *pa beth bynnag a wnel, efe a lwydda.*

Adn. 4. *Ond fel mân us, yr hwn a chwâl y gwynt ymaith.* Mae yma gyfeiriad at eu dull o nithio yn y gwledydd Dwyreiniol, yr hyn a wneid trwy daflu yr yd i fynu i'r gwynt â math o raw, ar y llawr dyrnu noeth, fel y disgynai y grawn pwysig yn bentwr glân ar y llawr dyrnu, ond yr ûs ysgafn a ddygid ymaith gan y gwynt. Cyffelybir yr annuwiol i us, am ef fod yn ddisylwedd, a di werth; ac am y'u gyrrir i ddystryw yn mhell o fysg pobl yr Arglwydd yn fuan, o flaen corwynt llid digofaint yr Hollalluog.

Adn. 5. *Ni safant yn y farn,* Barnai y rhan fwyaf o'r Esponwyr gorau, mai at y farn olaf y mae cyfeiriad y geiriau hyn; a'u bod yn methu sefyll yno, a ddynoda eu bod yn sicr o gael eu collfarnu pan y'u profir yno; cymh. Math. 12. 41, 42.

Adn. 6. *Adwyn,* n. u, "a gymeradwya" *ffordd y rhai cyfiawn.* BOOTHROYD.—*Ond ffordd yr annuwiolion a ddifethir,* hyny yw, y mae eu hymddygiadau yn arwain i'w dinystr.

## SALM II.

**Adn. 1. Dyma yr ail Salm o ran trefn, ac fe'i gelwid felly yn y Testament Newydd. GILL.—Fe'n sicrheir yn y Testament Newydd, mai Dafydd ei hun a gyfansoddodd hon, a'i fod wedi ei chyfansoddi gyda golwg mwy pendant at enwog "Fab Dafydd," nac at ddim cydiadol a'i hanes personol ef ei hunan.—*Y cenhedloedd.* Herod a'i ddylynwyr, y rhai a geisient ddyfetha ein Gwaredwr pan oedd yn faban; Pilat, yr hwn a'i collfarnai ef, a'r milwyr Iuddewig, y rhai a'i croesholient ef. MASON GOOD.—Y**

*bobloedd*, yr Iuddewon anngrhediniol ac eraill, y rhai oeddynt yn llawn cynddaredd gelynol at yr Iesu.

Adn. 2. *Y mae breninoedd y ddaear*, megis Herod Fawr, Herod Antipus, Marc 6. 14; a Philat, yr hwn a gynnrychiolai yr amherawdwr Rhufeinig, fel llywydd Judea, ac megis y bu holl freninoedd y byd er y pryd hyny hyd yn hyn, o'r rhai a erlidient eglwys Dduw, a Christ yn ei aelodau. GILL.—*Yn ymosod*, fel byddin i frwydr, yn barod i wrthsefyll y gallu a gasäent. DAVIDSON.

Adn. 3. Dyma iaith y cenhedloedd, yr annghredinwyr a'r eilun-addolwyr. Mae *rhwymau a rheffynau*, yn ymadroddion cyfeiriol at yr iau a arferid i gadw anifeiliaid dan lywodraeth gymhwys i wasanaeth ammaethyddol, ac yn gyffelybiaethol dynodant athrawiaethau a deddfau y Messïah, trwy y rhai y llywodraetha efe ei ddeiliaid; gwel Matt. 11. 29, 30.

Adn. 4. *A chwardd*, prïodolir chwerthin i Dduw yn ol iaith dynion, ac yma y mae y gair yn arwyddocâu mor ddïogel yw efe oddiwrth ei holl geisiadau, ac mor ddirmygiedig yn ei olwg ef yw eu cynghorion, Job 5. 22. a 41. 29. GILL.

Adn. 5. *Ac yn ei ddigllonrwydd y dychryna efe hwynt;* neu, "ac yn ei ddigofaint tanllyd y tery efe hwynt â dychryn dirfawr." DAVIDSON.

Adn. 6. *Minnau a osodais fy Mrenin;* neu, "Eto medd efe, myfi, a enneiniais fy Mrenin," BOOTHROYD. Cyssegrid breninoedd Judah trwy eu henneinio âg olew, yn gysgodol o gyssegriad y Messiah gan ei Dad trwy roddi iddo bob awdurdod yn y nef a'r ddaear; neu, mewn geiriau eraill, efe a roddes iddo ef yr Ysbryd heb fesur, trwy yr hwn mae yr Arglwydd yn cyflawni ei holl fwriadau.—*Ar Sïon fy mynydd sanctaidd*, felly y gosodwyd Dafydd ar Sïon, 2 Sam. 5. 6. HAMMOND.—ac fel hyn y mae Crist yn preswylio ac yn llywodraethu yn eglwys Dduw. GILL.

Adn. 7. *Mynegaf y ddeddf*, neu yr arfaeth, y penderfyniad, yr hyn a arfaethodd Duw. HORSLEY, BOOTHROYD.—Yma y mae y Messiah yn datgan bwriad tragywyddol y Tad mewn perthynas iddo ef.—*Myfi heddyw a'th genhedlais*, meddwn sicrwydd anffaeledig mai dydd adgyfodiad Crist oddiwrth y meirw a olygid yma; gwel Act 13. 33. Trwy yr amgylchiad nodedig yma, arddangosid ef yn deilwng i fod ar ddeheulaw y Mawredd yn y goruwch-lëoedd yn Arch-offeiriad mawr, a Brenin pawb oll, gan iddo gwblhau ewyllys ei Dad, trwy ufuddhau iddo ef hyd angau, fel aberth er iawn dros bechaduriaid. Tebygid fod y dëongliad yma yn cael ei gadarnhau trwy Rhuf. 1. 4. Heb. 5. Dynoda yr enw "Mab Duw," gydraddiaeth trwyadl â Duw, gwel Nod. ar Ioan 10. 30.

Adn. 8. *Gofyn i mi*, fel-dy hawl yn ol fy addewid.—*A rhoddaf y cenhedloedd yn etifeddiaeth i ti.* Darostyngwyd y Philistiaid, yr Amoriaid, y Moabiaid, yr Edomiaid, a'r Syriaid gan Dafydd, trwy allu Duw, 2 Sam. 5. a 8, a 10; ac felly ar adgyfodiad Crist dygwyd miloedd o genhedloedd i gredu ynddo ef. HAMMOND.

Adn. 9. Gelwir teyrnwïalen y Messiah yn *wïalen haiarn*, i ddynodi ei hollalluogrwydd, o flaen yr hon y rhaid i'w elynion gwympo, fel y malurir llestr pridd â gwïalen haiarn.

Adn. 10—12. Mae y proffwyd yn terfynu gyda chynghor i frenhinoedd a barnwyr y ddaiar i fod yn ddoeth, trwy ufuddhau i'r Messïah, a derbyn addysg ganddo ef.—*Cusenwch y Mab*, neu yr "Etholedig," fel yr arwyddoca y gwreiddair. BOOTHROYD. Cusanu un yn yr hen amseroedd, oedd yr arwydd mwyaf dynodawl o ymostyngiad i'w awdurdod, a chydnabyddiad o'i uwchafiaeth; gwel 1 Sam. 10. 1. 1 Bren. 19. 18.

## SALM. III.

Adn. 1. Tybir i Dafydd ysgrifenu y Salm hon mewn canlyniad i fradwriaeth Absalom; gwel 2 Sam. 15. Ond, nyni a allwn gyda mwy o sicrwydd eu golygu yn broffwydoliaethol am y Messïah, ymddygiad yr hwn yn ei ddyoddefiadau sydd gynllun teilwng i'w holl ddylynwyr.

Adn. 3. Mae *tarian* yn gyffelybiaeth gymhwys o amddiffynydd, gwel Gen. 15. 1. Deut. 29. Sal. 84. 12.—*A dyrchafydd fy mhen;* mae dyn mewn trallod yn dueddol i ostwng ei ben, a gellir dweyd yn gymhwys am yr hwn a symmudo ei drallod, ei fod ef yn ddyrchafydd ei ben ef.

Adn. 4. *Selah.* Mae y Beirniaid craffaf yn methu penderfynu defnydd neu arwyddocâad y gair hwn, ond y dyb fwyaf rhesymol yw, ei fod yn arwyddo ymattaliad, neu ryw gyfnewidiad yn y beroriaeth.

Adn. 5. *Mi a orweddais ag a gysgais;* darluniad rhagorol o ddïogelwch trwyadl rhag pob perygl, gwel Lef. 26. 6. Job 11. 19.

Adn. 7. *Tarrewaist fy holl elynion ar garr yr ên,* neu, ar y fochgern,—*torraist ddannedd yr annuwiolion,* mae BOOTHROYD ac eraill o'r farn y dylid darllen y geiriau yn y modd galluedigol, "Ti a elli dori," &c.; os amgen, gwnaem i Dafydd weddïo yn daer am yr hyn yr honai yn y geiriau hyn, a wneithid eisioes. Cyfeirir yn y geiriau hyn at fwystfilod gwylltion y rhai a analluogid i rwygo a dyfetha eu hysglyfaeth, trwy eu tarawo ar eu bochgernau, a thori eu dannedd.

Adn. 8. *Iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd*, neu, "Prïodolir iachawdwriaeth i'r Arglwydd; bydded dy fendith ar dy bobl." DAVIDSON.

## SALM IV.

Adn. 1. *Fy nghyfiawnder*, yn hytrach, "fy nghyfiawnhawr." BOOTHROYD.—Mae iaith y Salm hon fel yr un flaenorol yn dra addas i'w phrïodoli i Grist.

Adn. 2. *Pa hyd y trowch fy ngogoniant yn warth?* trwy waradwyddo fy llywodraeth, a chodi gwrthryfel yn erbyn fy mreniniaeth. WELLS.—Yr oedd gwyrthiau Crist yn arddangos ei ogon-

iant ef, ond ei elynion a geisient eu troi yn warth iddo, trwy haeru mai trwy Beelzebub y'u gwnelid; cymh. Ioan 2. 11. DAVIDSON.

Adn. 3. *Ond gwybyddwch*, &c. neu yn ol BOOTHROYD, "Gwybyddwch i'r Arglwydd neillduo ei un duwiol," neu "ei un trugarog," yn ol DAVIDSON, hyny yw, efe a'i gwahaniaethodd ef oddiwrth bawb eraill. megis y neillduasid yr Israeliaid fel cenedl ddewisedig y nef, o fysg pob cenedl, i amlygu ei ogoniant trwyddi.

Adn. 4. *Ofnwch*, yn hytrach, "Er eich cyffrôi gan ddigter," *na phechwch*, BOOTHROYD Mae cyfeiriad y geiriau hyn at y gwrthryfelgar a'r anfoddog, a'u harwyddocâad yw, "Na furmurwch, na thuchanwch." HORSLEY. Os oes genych un achos i ddigio, na adewch i'ch annghariad eich cymhell i wrthryfela yn erbyn Duw a'ch brenin. A CLARKE.—*Ymddiddenwch â'ch calon ar eich gwely*, neu "eich glwth," *a thewch*. Odid nad yr Un neillduedig a bersonolir yma, yn cyfarch y rhai a genfigenent wrth ei fawredd, gan eu rhybuddio yn ddifrifol i ymgynghori yn bwyllig, cyn beiddio cyfodi i'w erbyn ef, ac ymostwng i'r gosodiad dwyfol.

Adn. 5. *Ebyrth cyfiawnder*, hwyrach fod cyfeiriad yn y geiriau hyn at drawsfeddianniad annghyfiawn Absalom a'i wŷr, y rhai a feddiannent Jerusalem ac allorau yr Arglwydd yn bresenol, ar y rhai yr offryment ebyrth, yn yr hyn yr ymogoneddent; fel pe dywedasai, Nac offrymwch ebyrth i Dduw am lwyddiant yn eich ymddygiad gwrthryfelgar presenol. GILL, CLARKE.

Adn 6. *Llawer sy'n dywedyd*, gelynion Dafydd, medd rhai; ond HAMMOND yn fwy cymhwys a farnai mai iaith gwŷr Dafydd oedd y geiriau hyn, y rhai, debygid, a ddyoddefasent galedi dirfawr dros beth amser, nes eu gwneyd yn dra digalon a llwfr. BOOTHROYD. Mae llewyrch wyneb Duw yn dynodi amlygiad o'r nodweddiad Dwyfol, neu ddatguddiad o Dduw yn Nghrist fel Duw cyfiawn ac Achubydd. Dyma ddaioni, yr hwn o'i iawn ddeall, a ddwg ddedwyddwch i ddyn sydd yn ei geisio yn ofer mewn mil o ffrydiau eraill; gwel Sal. 89. 15. 2 Cor. 4. 6. Ioan 17. 3. DAVIDSON.

Adn. 7. *Mwy*, neu "er yr *amser yr amlhaodd eu hyd a'u gwin hwynt*, fel y darllena yr holl gyfieithiadau henaf. Cyfeiriad, debygid at yr adeg hono, pan oedd milwyr Dafydd mewn dirfawr galedi am ymborth, ac y'u diwallwyd yn brydlawn gan Sobi, Macir, a Barzilai; 2 Sam. 17. 27.

Adn. 8. Gwel Nod. ar Sal. 3. 5.

## SALM. V.

Adn. 3. *Yn fore y cyfeiriaf fy ngweddi attat*. neu, "Yn y boreu y gosodaf bob peth o'th flaen, a dysgwyliaf am danat," fel y bydd gwylwyr dinas, neu warchawdwyr amddiffynfa yn sylwi yn fanol ar bob ysgogiad. Cyfeirir yma yn ddïau at wasanaeth y deml, i'r hwn y byddai yr addolwr yn darpar pob peth a orchymynid yn

foreu, ac yn dysgwyl wrth yr Arglwydd am ryw arwydd o'i fod ef yn cymeradwyo ei aberth ef.

Adn. 5. Mae y gair a gyfieithir *ynfydion*, yn arwyddo ffrostwyr gweigion, trahaus, y cyfryw ag oedd eilun-addolwyr yr hen oesoedd, a'r Phariseaid yn yr oesoedd diweddarach.—*Ni safant yn dy olwg*, cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth ddull hoff weinidogion tywysogion yn y gwledydd dwyreiniol, yn cael sefyll yn eu gwydd; ond yma mae y Salmydd yn tystiaw na's derbyniai yr Arglwydd wasanaeth y rhai a ddarluniai efe uchod, sef eilunaddolwyr yn benaf.

Adn. 6. *Gwr gwaedlyd a'r tywyllodrus*, ymadrodd yn dynodi pob math o ormeswyr, llofruddiaid, twyllwyr, a rhagrithwyr.

Adn. 7. Yn y geiriau hyn mae y Salmydd yn datgan ei hyder, er ei fod yn alltud a ffoadur yn bresenol, y caffai efe ddychwelyd eto, a mwynhau gwasanaeth Duw yn ei gyssegr, sef y tabernacl, canys nid adeiladasid y deml eto. GILL, AINSWORTH, &c.

Adn. 8. *Arwain fi yn dy gyfiawnder*, hyny yw, "Tywys fi i gyflawni dyledswyddau crefydd, fel y'u gosodir allan yn dy air, yr hyn a elwir yn llwybrau cyfiawnder," Sal. 23. 3. BOOTHROYD. —*O achos fy ngelynion*, neu, yn hytrach, "Y rhai a'm gwyliant," i'm maglu a'm dystrywio.

Adn. 9. *Gwenieithiant*, neu, "llyfnhânt" *a'u tafod*, medd HORSLEY, yr hwn a farnai mai darluniad yw y geiriau o ddynion tywyllodrus, y rhai trwy rith rhesymau teg, a maglau hyawdledd, a barhäent i wisgo athrawiaethau drygionus, ac ymarferion niweidiol, âg ymddangosiad teg.

Adn. 10. *Distrywia hwynt, O Dduw*, neu "Dal hwynt yn euog," hyny yw, trin hwy yn ol eu heuogrwydd, trwy beri iddynt gwympo trwy eu cynghorion eu hunain. BOOTHROYD. Nid rhêg, ond proffwydoliaeth yw y geiriau hyn, a gellid eu darllen yn yr amser dyfodol, "Ti a'u dystrywi," &c. Gellir cymhwyso y sylw hwn at amryw o'r Salmau a'r proffwydi. Gwel Nod. ar Jer. 10. 19—25. a 11. 29. a 15. 15, 18. DAVIDSON.

Adn. 12. *Megis â tharian*, Mae y gair yn Hebraeg a gyfieithir Tarian yma, yn dynodi math o darian fawr, â'r hon y gorchuddid yr holl ddyn. MANT.

## SALM VI.

Adn. 1. *Na cherydda fi yn dy lidiawgrwydd*, nid oedd Dafydd yn gweddïo yn erbyn cerydd ei hunan, ond yn erbyn cael ei geryddu mewn digofaint, Dat. 3. 19.

Adn. 2. *Llesg ydwyf fi*, neu "gwan iawn ydwyf fi." A. CLARKE.

Adn. 3. *Pa hyd?* Yma gwneir darluniad godidog o'r Salmydd, fel un ar ymdori gan hiraeth ac awydd am Dduw, yn gwaeddi allan, *Tithau Arglwydd, &c.* yna fel pe buasai ei nerth yn pallu, gadewir yr ymadrodd yn anorphen. HORNE.

Adn. 5. Yr esboniad gorau ar yr ymadroddion hyn, yw geiriau y brenin duwiol Hezecïah, Esa. 38. 18, 19.

Adn. 7. *Treuliodd fy llygaid gan ddigter,* am afresymolrwydd a drygedd ei elynion.

## SALM VII.

Adn. 2. Mae *llew* yn ddarluniad a ddefnyddir yn fynych am ormeswr, neu dreisiwr creulawn, ac yma, e ddichon ei fod yn ddynodawl o'r prif erlidiwr; neu yn ddelweddiad o allu a chreulondeb gelynion y Salmydd; cymh. Sal. 22. 13, 21. Pan fyddo y llew yn rhuthro ar ei ysglyfaeth, efe a neidia ddeg neu bymtheg troedfedd, a ddisgyna arno, ac a gydia ynddo a'i balfau blaen; ac wedi ei rwygo â'i ewinedd, efe a'i difa ef. BUFFON.

Adn. 3. *Os gwnaethum hyn,* hyny yw, Os gwneuthum yr hyn y'm cyhuddir o'i wneyd gan Cus, yr hyn, tebygid oedd, ei fod ef wedi ei yspeilio ef o'r hyn oedd eiddo iddo, fel y gellir casglu oddiwrth yr adnod nesaf. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Ië, mi a waredais yr hwn sydd elyn i mi heb achos,* gwel 1 Sam. 24. 4, 5, 7, 10, 17. GILL; ond Esgob HORSLEY a ddadleua dros ddarlleniad gwahanol,—"Neu os yspeiliais fy ngelyn penaf heb achos."

Adn. 6. Dywedir fod yr Arglwydd yn cyfodi, pan fyddo efe yn ei amlygu ei hun trwy ryw weithrediadau nodedig o drugaredd neu farn, Num. 10. 35. Ac ar y llaw arall, mae ef yn tewi, neu yn eistedd, yn dynodi ei ymaros rhag cospi, neu ei oediad ymddangosiadol i gyflawni ei addewidion. DAVIDSON.

Adn. 7. *Felly cynnulleidfa y bobloedd a'th amgylchynant;* mae yma gyfeiriad mae yn debyg at y dull o weinyddu cyfiawnder yn y gwledydd dwyreiniol, yr hyn a wneid yn gyffredin yn mhorth y ddinas, neu ryw le agored ar ganol y rhëol, lle byddai y bobl yn amgylchynu gorseddfainc barn.—*Dychwel dithau i'r uchelder,* hyny yw, esgyn i'r orseddfa ddyrchafedig, a gwysia fy ngelynion o'th flaen.

Adn. 8. *Barn fi O Arglwydd, yn ol fy nghyfiawnder,* sef yn ol cyfiawnder fy ymddygiad tuag at Saul, a'm diniweidrwydd oddiwrth y peth yr achwynir arnaf o'i herwydd: ond y mae rhai yn meddwl fod y geiriau hyn wedi eu llefaru gan Dafydd fel cysgod o'r Messïah yn hytrach, gan na's gallodd neb arall erioed appelio fel hyn, hyd eithaf cynnwys y geiriau, at Dduw am ei farnu yn ol ei gyfiawnder a'i berffeithrwydd.

Adn. 10. *Fy amddiffyn sydd o Dduw,* neu yn ol yr Hebraeg "Fy nharian sydd o," neu, "gyda Duw," hyny yw, yr oedd y Goruchaf megis wedi ymarfogi er ei amddiffyn. Yr ymadrodd cryfaf er dynodi dïogelwch perffaith.

Adn. 11. Mae y beirniaid dysgedicaf yn amrywio llawer iawn yn eu golygiadau ar y geiriau hyn, ac yn eu dull o ddarllen y rhan olaf o'r adnod,—"A fydd efe yn ddigllawn beunydd wrth yr

annuwiol." VULGATE.—"Heb ddwyn allan ei ddigter beunydd." LXX.—"Nid yw yn ddigllawn beunydd." *Syriaeg*,—"Am hyny, y mae efe yn ddigllawn beunydd wrth y drygionus." BOOTHROYD. —"Er nad yw efe yn ddigllawn beunydd, hyny yw, er nad yw ei ddigofaint ef yn tori allan ar bob achlysur; eto daw amser barn yn ddïau." HORSLEY.

Adn. 14—16. Yma y dangosir i ni fel y mae dynion yn ymbarattôi yn brysur i gosbedigaeth uffern dân.—*Efe a ymddwg anwiredd*, mae yn naturiol iddo gynnyrchu pob rhyw ddrygedd.—*Ac a feichiogodd ar gamwedd*, neu a luniodd amcanion niweidiol, er gwrthwynebu gwir grefydd.—*Ac a esgorodd ar gelwydd*, a sefydlodd athrawiaethau cyfeiliornus a thywyllodrus. Dyma y maglau â'r rhai y mae y gelyn yn ceisio dïogelu ei ysglyfaeth, fel yr arferant yn y gwledydd dwyreiniol gloddio pydewau, a gorchuddio eu hwynebau, fel y dalient y bwystfilod gwylltion, neu eu gelynion mewn rhyfel, ynddynt.—*Ar ei goppa ei hun*, ar eisteddle y bywyd. DAVIDSON.

Adn. 17. *Yn ol ei gyfiawnder*, neu, "am ei gyfiawnder," yr amlygiad a wnaed o'i gyfiawnder yn nyrchafiad y cyfiawn, a chosbedigaeth ei elynion.

## SALM VIII.

**Adn. 1. Mae y Testament Newydd yn penderfynu yn ddiddadl, mai yr amlygiad o ogoniant y Duwdod yn nyrchafiad Crist yw testyn y Salm hon, gwel Matt. 21. 16. 1 Cor. 15. 27. Heb. 2. 6—8. Datganai y nefoedd berffeithian gogoneddus eu Crëydd, ond nid yw ei ogoniant arbenig ef yn weledig ynddynt hwy, y mae efe yn trigo tu hwnt i gyrhaeddiad llygad dynol, ac yn anamgyffredadwy i feddyliau crëedig: ond, efe a ddatguddiodd ei ogoniant i ddyn yn Nghrist, yr hwn yw gogoniant Duw mewn modd arbenig.**

Adn. 4.—6. *Pa beth yw dyn?* bregus, gwan, cystuddiedig, a marwol. GILL.—*A mab dyn*, neu "fab Adda," fel y mae y gwreiddair yn arwyddo; mab cwympiedig i dad cwympiedig A. CLARKE. Mae yn ymddangos fod y Salmydd wedi ei lanw â syniadau dyrchafedig iawn pan yn cyfansoddi y Salm hon. Pan feddylir am ddyn mewn cyferbyniad i wychder ac ehangder y nefoedd, mor ddyddim yr ymddangosa; ond pan y'i golygir mewn cydmariaeth a chreaduriaid eraill, pa ryw anrhydedd ac urddas mawr a roddwyd arno! BOOTHROYD. Ond y mae yn eglur mai am y Messïah y lleferir yma yn bennodol, a hyny gyda golwg ar ei sefyllfa o ddarostyngiad, a'i ymddangosiad yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus. Mor ryfeddol ydyw y doethineb a'r gras a amlygir yn nyrchafiad y natur ddynol ynddo ef i lywodraethu ar yr holl fydoedd! Gwel Phil. 2, 8, 9.—*Gwnaethost ef ychydig is na'r angelion*, canys efe a ddarostyngwyd i wendidau dynol hyd oni wnaeth iawn trwy ei aberthu ei hun.

Adn. 9. *Mor ardderchog yw dy enw ar yr holl ddaear!* Oddiwrth y geiriau hyn cawn awgrym, fod darostyngiad a dyrchafiad Crist, i gael ei wneyd yn hysbys i bob dyn, ac yn hyn yr amlygir i ddynion ragorol ardderchawgrwydd, enw, perffeithrwydd a gogoniant yr Arglwydd, cymh. 2 Cor. 2. 14. a 4. 6.

## SALM IX.

Adn. 1. E ddichon fod cyfeiriad yn y Salm hon, fel yr arferai y proffwydi yn gyffredin, at amgylchiadau o'r pwysfawredd mwyaf, megis dymchweliad y Canaanëaid; ond mae yn ddïau mai ei thestyn mawr ydyw, buddugoliaeth drwyadl y Messïah yn y diwedd. Yr oedd AINSWORTH a GILL o'r farn, fod y Salm o'r blaen yn cynnwys rhagfynegiad o gyhoeddiad yr efengyl, a hon, o ddystrywiad annghrist. DAVIDSON.

Adn. 5. *Ceryddaist y cenhedloedd, &c.* cyfeiriad, hwyrach, at ddiwreiddiad y cenhedloedd Canaanëaidd. A. CLARKE.—Yn hytrach, golygu amseroedd yr efengyl, a cheryddiad y paganiaid trwy bregethiad yr efengyl. GILL.

Adn. 6. *Ha elyn, darfu am dinystr, &c.* neu, "Anrheithiau a lwyr ddifäodd y gelyn," BOOTHROYD.

Adn. 9. *Yr Arglwydd hefyd fydd noddfa i'r gorthrymmedig,* neu "Yr Arglwydd fydd yn amddiffynfa uchel i'r gorthrymmedig, amddiffynfa uchel mewn amseroedd o gyfyngder." DAVIDSON.

Adn. 12. *Pan ymofyno efe am waed,* hyny yw, gwaed wedi ei dywallt yn annghyfiawn, yr hwn yn ddïau a chwilir allan, ac a gosbir gan Dduw.

Adn. 13. *Trugarha wrthyf,* neu yn ol y rhan fwyaf o'r beirniaid diweddaraf,

"Graslawn fu yr Arglwydd wrthyf fi,
Gan weled fy mlinder gan fy nghaseion;
A'm dyrchafu o byrth angau,
Fel y mynegwyf, &c."

Adn. 14. *Yn mhyrth merch Sion,* yma mae y Salmydd yn cyferbynu pyrth merch Sïon, â phyrth angau, am y rhai y soniasai o'r blaen. LOWTH.—Arferai yr Iuddewon yn gyffredin alw y brif ddinas yn fam ddinas, a'r trefi a'r pentrefi cyfagos yn ferched. COBBIN. Ond y mae y gair yn cael ei arfer yn gyffelybiaethol am addolwyr y gwir Dduw, 2 Bren. 19. 21

Adn. 15, 16 *Y cenhedloedd,* sef yr holl rai nid ydynt yn addoli yr Arglwydd, ac am hyny nid ydynt o dylwyth merch Sïon; ïe yn hytrach, fe'u darlunir yma fel helwyr yn ceisio ei dyfetha, gan faint eu gelyniaeth iddi.—*Higgaion,* sydd air tebyg i Selah, nad yw yn dwyn perthynas â'r testyn; ond yn perthynu, fel y tybir, i'r beroriaeth, er nad ydys yn sicr o'i wir arwyddocâad.

Adn. 20. ***Gosod, Arglwydd, ofn arnynt,*** neu, yn hytrach, "Gosod Arglwydd, athraw arnynt; gwybydded y cenhedloedd nad ydynt ond dynion." E debygid mai y golygiad yw eu bod o herwydd eu hanwybodaeth yn hunanol, ac yn meddwl eu bod yn meddu gallu y duwiau a addolent; ond, gosod athraw arnynt, a dysged ef hwy am danynt eu hunain, nad ydynt namyn marwolion a fyddant yn trengu yn fuan. BOOTHROYD. HORSLEY. CLARKE.

## SALM X.

Adn. 1. Mae yn amlwg fod y Salm hon yn dwyn perthynas â'r un testyn a'r un flaenorol, ac yn nghyfieithiad y *Septuagint*, nid yw hon namyn rhan a pharâad o'r un flaenorol. GILL.—Dywedir fod yr Arglwydd yn ymguddio, pan na byddo yn rhoddi unrhyw arwyddion gweledig o'i ffafr; Deut. 31. 17, 18.

Adn. 3. *A ymffrostia am ewyllys ei galon*; mae y beirniaid yn amrywio yn eu dull o gyfieithu y geiriau hyn, "Y drygionus a ymffrostia yn y cyflawniad o'i ewyllys, a'r cybydd a'i geilw ei hun yn wynfydedig," GEDDES.—"Ac efe a fendithia olud, gan ddirmygu yr Arglwydd." HORSLEY, MANT.

Adn. 4. *Gan uchder ei ffroen*, hyny yw, gan ei falchder, mae yn hawdd darllen tymherau llywodraethol dyn yn aml yn null ei wynebpryd —*Ni chais Dduw*, neu, nid ymofyna â Duw; mae yn ffiaidd ganddo ymgynghori â'r oraclau Dwyfol.—*Nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef*: mae ei holl drefniadau yn cael eu llunio a'u gweithredu, heb fod dim a wnelo ef â Duw.

Adn. 5. *Ei ffordd sydd flin bob amser*, "hyderus bob amser." HORSLEY,—"Yn peri dychryn." COCCEIUS *Com. in Sacras Scripturas.*—"Trofaus bob amser;" BOOTHROYD —"Ei ffyrdd ydynt halogedig bob amser," LXX.—*Chwythu y mae yn erbyn ei elynion*, gan eu golygu yn eithaf dirmygus; cymh. Sal. 2. 4. Job. 41. 29.

Adn. 7. *Dan ei dafod y mae camwedd ac anwiredd*, cyfeiriad at y seirff hyny a gadwant eu gwenwyn mewn math o gydau bychain wrth wraidd eu tafodau.

Adn. 8. Mae y drygionus yn gyffelyb yn ei ddichell, a'i ymröad i wneuthur drwg, i'r yspeilydd Arabaidd, yr hwn a ymguddia yn agos i driglëoedd cyfanneddol, hyd oni chaffo ei gyfleusdra dewisedig i ruthro ar ei ysglyfaeth.

Adn. 9, 10. Mae y llew, a'r heliwr yn gyffelybiaethau tra arferedig i osod allan ddynion fydd a'u calonau yn wastad yn dychymygu, a'u dwylaw yn barhaus yn gweithredu drygioni.—*Fel y cwympo tyrfa trueiniaid gan ei gedyrn ef*: neu, hyd oni chwympo y truan i'w faglau cryfion. DATHE, BOOTHROYD.

Adn. 15. *Torr fraich yr annuwiol a'r drygionus*, mae braich yn arwydd-lun cyffredin o allu; ac yn y geiriau hyn gweddïai y Salmydd ar Dduw, am iddo ef ddarostwng grym y cyfryw ddynion

fel na's gallont orthrymu mwy.—*Cais ei ddrygioni*, hyny yw, dïal am ei ddrygioni fel na's byddo dim o'i olion i'w gael.

Adn. 16. *Difethwyd y cenhedloedd allan o'i dir ef*, sef y cenhedloedd Canaaneaidd cylchynol, y rhai a ruthrasant ar, ac a feddiannasant ranau o dir yr addewid, ond y rhai yn bresenol a yrrid allan i roddi lle i bobl ddewisedig yr Arglwydd. BOOTHROYD. Felly hefyd SCOTT, a CLARKE.—Mae *Ei dir* mewn iaith broffwydoliaethol yn dynodi breniniaeth y Messïah; gwel Sal. 101. 8. Ezec. 48. 30—35. DAVIDSON.

Adn. 18. *Fel na chwanega dyn daearol*, neu, "Fel na yrrer dyn mwyach allan o'r tir."

## SALM XI.

Adn. 1, 2. *Eheda i'ch mynydd fel aderyn.* Meddylia rhai mai cynghor gwawdus gelynion y Salmydd yw y geiriau hyn,—"Ewch i'ch bryn Sïon, yn yr hwn yr ydych yn ymffrostio; e fydd yn ddigon rhaid i chwi wrth amddiffynfa, canys y mae ystorm yn dyfod. Cymh. Sal, 121. 1. Ond, hwyrach mai cynghor difluant rhai o gyfeillion Dafydd ydoedd y geiriau, y rhai ni's gallent obeithio am ddiogelwch ond drwy ffoi, ac am hyny a ddywedent wrtho ef, "Gâd y llŷs, a phrysura i'r amddiffynfeydd."

Adn. 3. *Y seiliau a ddinystriwyd, pa beth a wna y cyfiawn?* fel pe dywedasai, Pan nad oes un parch yn cael ei ddangos i grefydd na gofal am gyfiawnder cyffredinol, pwy a all ddysgwyl diogelwch, pa mor ddiniwed bynnag y byddo? BOOTHROYD.

Adn. 4. Oddiyma hyd y diwedd y cawn ni y Salmydd yn datgan yn fuddugoliaethus ei ymddiried yn Nuw, yn nghanol y profedigaethau llymion a'i hamgylchynent.

Adn. 6. *Ar yr annuwiol y gwlawia efe faglau tân a brwmstan,* cyfeiriad yn ddïau at gosbedigaeth arswydus dinasoedd y gwastadedd. Y Dwyreinwyr a alwant oruchion a mellt yn faglau a chadwynau.—*A phoethwynt ystormus*, cyfeirid at y poethwynt heintus a alwant y *Simoom*, yr hwn a fydd yn dygwydd weithiau yn yr hinsoddau hyny yn Gorphenaf neu Awst; a dywedir os y parhâ am ddeng mynyd, y lladda bawb yn ei ffordd.

## SALM. XII.

Adn. 1. *Darfu y trugarog.* Yma nyni a gawn y Salmydd yn cwyno o herwydd arferion llygredig yr oes, gan weddïo ar i'r Arglwydd gyfodi yn gymmhorth i'w bobl, ac amddiffynwr i'w achos. Mae rhai yn dadleu gyda llawer o brïodoldeb, fod y Salm hon yn llawer mwy cymhwysiadol at amgylchiad yr eglwys yn oes ymgnawdoliaeth ein Gwaredwr, nac yn amser Dafydd;—Gwel y proffwydoliaethau canlynol a'r Nodiadau arnynt, Esa. 57. 1. Mic. 7. 1—4.

Adn. 2. *Oferedd*, neu "celwydd" *a ddywedant,—A chalon ddau ddyblyg*, neu yn llythyrenol, "â chalon a chalon," sef calon dan ddylanwad drwg mor drwyadl, fel y canmola ei pherchen yr hyn y byddo ei galon yn ei gondemnio.

Adn. 4. *A'n tafod y gorfyddwn.* Yn yr adnod hon y darlunir y *mawrhydri* a grybwyllid yn yr adnod flaenorol. Yr oedd y siaradwyr yn ddoethion iawn yn eu golwg eu hunain; a gwrthodent gyda diystyrwch gydnabod unrhyw awdurdod oruchelach na'r eiddynt eu hunain; felly y mae llawer, fel y Phariseaid, yn ymwrthod â'r Arglwydd Iesu fel Arglwydd Goruchaf, a Barnwr.

Adn. 6. *Geiriau yr Arglwydd*, sef yr addewidion gwerthfawr a dderbyniasai efe gan yr Arglwydd, ac a ail adroddasai efe yn yr adnod flaenorol.

Adn. 7. *Ti Arglwydd a'u cedwi hwynt*, sef datguddiadau purion Duw, y rhai a geidw efe yn dragywydd. DAVIDSON. Yn hytrach, "Ti Arglwydd a'n cedwi ni," y rhai cystuddiedig, a'r tlodion, am y rhai y soniasid yn adn. 5. BOOTHROYD.

Adn. 8. *Pan ddyrchafer y gwaelaf o feibion dynion.* Dyn gwael mewn awdurdod, a ddyrchafa y drygionus, ac a ddarostwng y daionus.—*Assembly of Divines's Annotations.*

## SALM XIII.

Adn. 1. Mae yn debyg i'r Salm hon gael ei chyfansoddi gan Dafydd, pan oedd efe yn ffoadur rhag ei fab Absalom. THEODORET.—*A'i yn dragywydd?* neu, 'Y llwyr annghofi di fi?' BOOTHROYD. Felly hefyd LUTHER, MICHAELIS, &c.

Adn. 2. *Y cymeraf gynghorion yn fy enaid?* neu 'y myfyriaf gynghorion ar gyfrif fy mywyd?' Yr hyn a ddynodai fod ei fywyd mewn perygl oddiwrth fwy nac un cynllun o eiddo ei elynion; fel y gofynai iddo fod yn myfyrio yn ddybryd i ochelyd eu holl ddichellion bradwrus. DAVIDSON.

Adn. 3. *Edrych a chlyw fi*, neu sylwa arnaf ac atteb fi.—*Goleua fy llygaid, &c.* Hwyrach fod llygaid Dafydd wedi pallu gan newyn, fel y bu Jonathan, 1 Sam. 14. 29. Ac felly yr oedd Dafydd, pan ddaeth efe i Nob, 1 Sam. 21; ac yn amser gwrthryfel Absalom, 2 Sam. 17. 29. Ond yn gyffelybiaethol gall ddynodi y llawenydd a gynnyrchir trwy waredigaeth o gystudd blin. HAMMOND.

## SALM. XIV.

Adn. 1. Mae genym yr awdurdod uchaf dros olygu y Salm hon yn ddarluniadol o'r rhan annghrediniol o'r genedl Iuddewig, ac os oedd y rhai a gymerent arnynt eu bod yn meddu ffurf gwir grefydd mor llygredig â hyn, pa faint raid fod llygredigaeth cenhedloedd eraill? Gwel Rhuf. 3. 9, 10—18. Nid oes un enwad mwy cyffredin ar ddynion amddifaid o ffydd ddiffuant yn y datguddiad Dwyfol, a diffygiol o egwyddorion crefyddol ac ymarweddiad sanctaidd, nac *Ynfyd*. Pa honiadau bynnag a wnelont,

nid ydynt yn cydnabod Duw yn eu calonau, gwel Salm. 10. 4, a 12, 2—4. Ioan 5 42—47.—*Ymlygrasant*, maent nid yn unig yn ddiffygiol o fywyd, ond yn bentwr o sylwedd niweidiol. Am ba achos y'u darlunir fel rhai yn cyflawni gweithredoedd ffiaidd a newidiol fel y pla.

Adn. 2. *A edrychodd i lawr*, fel yr edrych gwyliwr oddiar ben rhyw dŵr uchel. *Esgob* HORNE. Yr hyn a arwyddocaäi eu bod i gael eu galw o flaen yr orsedd Ddwyfol i'w barnu am eu hymddygiadau.

Adn. 3. *Ciliodd pawb, cyd ymddifwynasant.* Mae amryw o'r beirniaid craffus o'r farn fod yn y geiriau hyn gyfeiriad at win wedi marweiddio a suro, fel y dywedir yn Hosea 4. 18. 'Surodd,' neu *ciliodd* 'eu dïod;' ac y mae y golygiad hwn yn cael ei gefnogi trwy yr hyn a ddywedir yma yn mhellach, *cyd ymddifwynasant*, gair yn tarddu o wreiddyn sydd yn dynodi pydredd, neu lwgr, ac a arferir am gig braenedig, yr hwn a deflir ymaith; am hyny y mae y LXX yn darllen 'Aethant yn ddifudd.' HAMMOND. Meddyliai ADAM CLARKE fod y gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth laeth wedi ymweithio, a thrwy hyny wedi suro, nes myned yn hollol ddi les.

Adn. 4. *Oni wyr holl weithredwyr anwiredd?* yr Israeliaid drygionus, y rhai a wawdient ac a erlidient y duwiolion a addolent y gwir Dduw.

Adn. 5. *Yno y dychrynasant gan ofn*, neu "y dychrynant gan ofn, canys Duw a fydd gyd a'i bobl gyfiawn." BOOTHROYD.

Adn 6 *Cynghor y tlawd a waradwyddasoch, am fod yr Arglwydd yn obaith iddo*; neu 'Gwaradwyddasant gynghor y cystuddiedig; ond yr Arglwydd fydd ei nodded.' BOOTHROYD.

Adn. 7. *Pwy a ddyry?* neu yn hytrach, 'O na roddid iachawdwriaeth i Israel o Sïon!' Mae Dafydd yn y geiriau hyn yn cyfeirio ei weddi at Dduw fel un yn preswylio yn Sïon; ac yn attolygu arno ddychwelyd ei bobl gaeth on, wrth yr hyn y golygai, debygid, efe ei hunan a'r miloedd lawer oeddynt gyd ag ef, ac amryw hwyrach a ffoisant i wledydd eraill. Meddyliodd rhai fod yr adnod hon wedi ei hychwanegu at y Salm yn amser y caethiwed Babilonaidd; ond mwy hygoel yw y golygiad cyntaf. BOOTHROYD.

## SALM XV.

Adn. 1. *Pwy a drig yn dy babell?* Amcan y Salmydd yn y geiriau hyn ydoedd dangos nodau y rhai hyny yn unig a fyddent yn gymmhwys i gael derbyniad croesawus yn mhabell Duw, a bod yn ddinasyddion yn Sïon. Math o deml symmudol oedd y babell hon, a chynnrych addas o'r eglwys filwriaethus ar y ddaiar. WILLIAMS, CLARKE.

Adn. 2. *Yr hwn a rodia yn berffaith*, Gwel Sylw ar Gen. 6. 9.

a Job. 1. 1.—*Ac a ddywed wir yn ei galon,* hyny ydyw, y gwir y mae ei galon yn ei gredu, a gyffesa ei enau, a'i fuchedd yn cael ei llywio gan ewyllys datguddiedig Duw.

Adn. 3. *Heb absennu a'i dafod.* Mae y gair a gyfieithir *absennu,* yn arwyddo myned oddiamgylch o dŷ i dŷ i ddifrïo un.— *Heb dderbyn enllib,* neu 'heb ddwyn enllib' *yn erbyn ei gymmydog.* Mae cyfeiriad yn y gwreiddair a gyfieithir *enllib,* at ddynoethiad unrhyw beth, dyn o'i ddillad, coed o'u dail, &c. Felly y mae yn enllibiwr yn ysbeilio ei gymydog o'i enw da, ei drysor daiarol gwerthfawrocaf. DAVIDSON.

Adn. 4. *Y drygionus,* un wedi ymroi, neu ymwerthu i wneuthur drwg.—*Yn ddirmygus,* yn ffiaidd, fel pe byddai wedi ei orchuddio â gwahanglwyf.—*Yr hwn a dwng i'w niweid ei hun ac ni newidia,* hyny yw ni thyr unrhyw ymrwymiad difrifol, a fyddo ynddo ei hun yn gyfreithlawn, er y gallai ymlyniad wrth ei air fod yn achlysur o ofid neu golled bersonol iddo ef. Mae amryw gyfieithiadau yn darllen, 'Yr hwn a dwng i'w gymmydog, ac ni newidia' BOOTHROYD.

Adn. 5. *Ar usuriaeth,* Mae y gair yn deillio o wreiddyn yn arwyddo brathu fel sarff; darluniad tra chymhwys o ymddygiad yr hwn a arfero foddion annghyfiawn i ymgyfoethogi, yn enwedig trwy gymeryd mantais ar amgylchiad angenog ei gymmydogion. Yr oedd Duw wedi gwahardd i'r Israeliaid goludog godi llog am fenthyg arian gan eu brodyr tlodion; gwel Deut. 23. 19, 20.

## SALM XVI.

Adn. 2, 3. *Fy enaid, &c* neu yn ol BOOTHROYD ac eraill, 'Wrth Jehofah y dywedais, Fy Arglwydd ydwyt ti, nid oes genyf ddim da ond oddiwrthyt ti. Am y saint, sydd ar y ddaiar, hwynt hwy yw y rhai rhagorol, yn y rhai y mae fy holl hyfrydwch.' Yma y personolir y Messïah yn sefyllfa ei ddarostyngiad, yn cyfarch ei Dad, fel ei was ef, anfonedig i wneuthur ei ewyllys, ac yma yn datgan ei hyder ynddo ef, gan yr hwn y'i hanfonasid i waith y cyfryngwriaeth. Mae rhai yn rhoi golygiad gwahanol i'r cyfieithiad uchod ar ran o'r geiriau, *Fy na nid yw ddim i ti,* gan farnu mai y golygiad yw, na's gallai daioni, neu waith y Messïah ychwanegu dim at fawredd y Duwdod, yr hwn sydd yn anfesurol berffaith; cymh. Job. 22. 2, 3. DAVIDSON.

Adn. 4. Yn y geiriau hyn darlunir y rhai a wrthodant addef y Messïah, ac ni's mynent iddo ef lywodraethu arnynt.— *Eu dïod offrwm o waed,* neu, "eu dïod offrwm gwaedlyd," *nid offrymaf fi.* Mae yr hwn sydd yn llefaru drwy y Salm hon yn llefaru fel offeiriad, yr hyn nid oedd yn gweddu i Dafydd gan nad oedd efe yn offeiriad. Mae y ffieidd-dod mwyaf o ddefodau eilun-addolwyr yn cael ei amlygu yn y geiriau, a'u dïod offrwm yn cael ei alw dïod

offrwm o waed, i arwyddo fod eu cyflawniadau mor ffiaidd gan Dduw, a phed ymhalogasant trwy dywallt gwaed. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Yr Arglwydd yw rhan fy etifeddiaeth.* Mae y geiriau hyn eto wedi eu llefaru mewn cyfeiriad amlwg at yr offeiriad Iuddewig, y rhai nid oedd iddynt gyfran yn nhir yr Addewid; ond yr Arglwydd yn unig oedd eu rhan. BOOTHROYD.

Adn. 6. Rhoddir *y llinynau* trwy drawsenwad am y tir a fesurid â'r llinynau.

Adn. 7. *Fy arennau,* neu y meddyliau dirgelaf.

Adn. 9. *Fy ngogoniant,* y tafod, debygid, a elwir felly am fod dyn drwyddo yn rhagori ar yr holl grëaduriad eraill; ac yn gallu âg ef foliannu Duw. DODD, MANT, &c Ond eraill a farnent mai yr enaid, y rhan ogoneddusaf o ddyn, a olygir, ABEN EZRA, KIMCHI, BEN MELECH, A. CLARKE.

Adn. 10. *Canys ni adewi fy enaid yn uffern,* neu, "Ni adewi fy mywyd yn y bedd. DR. PYE SMITH. Y meddwl ydyw, na adewid bywyd y Messïah dan awdurdod marwolaeth.

Adn. 11. *Dangosi i mi lwybr bywyd,* "Myfi yn gyntaf oll â gaf y ffordd allan o diriogaethau angau, heb fod dan orfod i farw mwy; ac fel hyn yr oedd Crist yn flaen-ffrwyth y rhai a hunasant; canys am bawb eraill a adgyfodasant, buant feirw drachefn. Mae y gair *bywyd* yn y rhif luosawg yn yr iaith Hebraeg, ac e ddichon ei fod yn cynnwys cyfeiriad at y torfeydd afrifol a adgyfodir i fywyd tragywyddol trwy rinwedd eu hundeb a'r hwn sydd fyw, ac a fu farw; ac a fydd byw yn dragywydd. Dat. 1. 18. MORISON.

## SALM XVII.

Adn. 1. *Clyw, Arglwydd gyfiawnder,* neu, "Clyw, O Jehofa cyfiawn." BOOTHROYD, JEROME, AQUILLA, neu, "O Arglwydd fy nghyfiawnder." *Syriaeg.*

Adn. 2. *Deued fy marn oddi ger dy fron.* Yma nyni a gawn y gwr duwiol fel un a anobeithiai gael cyfiawnder i'w achos yn y byd hwn, hyd oni chyfodai Duw ei hun i'w farnu.

Adn. 3. *Gofwyaist fi y nos,* neu, "Ymwelaist a mi yn y nos," Tebygid mai y meddwl yw, fod yr Arglwydd yn sylwi arno yn ei guddlëoedd mwyaf dirgelaidd.—*Ac ni chei ddim,* sef dim gwrthwyneb i "uniondeb," am yr hwn y sonid yn adn. 2.

Adn. 4. Mae amryw yn cyssylltu y rhan olaf o'r adnod flaenorol â'r rhan flaenaf o'r adnod yma, gan ddarllen fel hyn, "Am weithredoedd dynion, ni throseddodd fy ngenau." Hwyrach mai y meddwl yw, ddarfod iddo ef ymgadw rhag rhoddi dim cefnogaeth i ymarferion drygionus ar air na gweithred. Gwel Sal. 119. 11. Matt. 4. 1—10.

Adn. 7. *Dangos dy ryfedd drugareddau,* neu, "Mawrha dy drugareddau, O Achubydd y rhai a ymddiriedant," neu a ymgysgodant "dan gysgod dy ddeheulaw, rhag eu gelynion a ymgyfodant i'w herbyn."

Adn. 9. *Y gelynion marwol* hyn oeddynt y rhai yn ymroddgar a geisient ei fywyd. Darlunir hwynt fel helwyr, neu fwystfilod ysglyfaethus, y rhai wedi canfod eu hysglyfaeth, a'i hamgylchant, i edrych pa le y cant y fantais orau i ruthro arno. KENNICOTT, CLARKE.

Adn. 11. *Gosodasant eu llygaid i dynu i lawr i'r ddaear.* Gwelir fod y Salmydd yn parhau i ddilyn cyffelybiaeth yr heliwr, yr hwn sydd ddybryd a gwyliadwrus hynod, i graffu am ol traed y crëaduriaid a heliant. Ond meddyliai STREET ac eraill, fod y gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth ddull y llew, yn ymgrymmu ar y ddaiar i wylio ar ei ysglyfaeth, ac ymbarottôi i ruthro arno.

Adn. 13. Mae AINSWORTH ac amryw o'r Beirniaid mwyaf dysgedig, yn darllen y rhan olaf o'r adnod hon yn wahanol iawn i'n cyfieithiad arferedig ni, "Gwared fy enaid rhag yr annuwiol, a'th gleddyf," yr hyn oedd arwydd-lun o allu dïaleddol Duw.

Adn. 14. *Rhag dynion, y rhai yw dy law, O Arglwydd rhag dynion y byd,* neu, "Rhag dynion marwol a'th law, O Arglwydd, rhag dynion marwol y byd trancedig." DAVIDSON.—*Llawn,* neu, "*digonol*" *ydynt o feibion.*

## SALM XVIII.

Mae y Salm hon yr un a 2 Sam. 22, gydag ychydig gyfnewidiadau ar rai geiriau. Ysgrifenwyd hi ar y dechreu er coffâad am amryw fuddugoliaethau nodedig yr Israeliaid, a'u sefydliad tawel yn ngwlad yr addewid, yr hyn oedd yn gysgodol o deyrnasiad grasol y Messïah; a gellir ei golygu yn bresenol fel emyn buddugawl yr eglwys gristionogol, i'w chanu ganddi er dïolchus goffâad am ei hadgyfodiad a'i buddugoliaeth yn Nghrist ei phen. GILL, HAMMOND, HORNE, KENNICOTT.—*Caraf di Arglwydd.* Mae y gair yn gwreiddiol a arferir yma yn hynod o rymmus, ac yn dynodi canu â holl deimladau tyneraf natur. AINSWORTH, CLARKE. Mae yn debyg i'r ddwy adnod flaenaf gael eu rhag-ddodi at y Salm yma, pan y cymhwysid llyfr y Salmau i'w arferu yn y gwasanaeth cyhoeddus yn y deml. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Gofidion* neu 'Rheffynau" *angau*, cyfeiriad, hwyrach, at y maglau a osodai yr helwyr i ddala eu hysglyfaeth. Yn 2 Sam. 22. 5. mae y gair a gyfieithir "gofidion angau," yn arwyddocâu "tonnau angau," cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth donnau y môr mewn ystorm, i ddarlunio dyoddefiadau, ac angau bygythiedig.

Adn. 5. *Gofidiau*, neu "reffynau" *uffern*, neu "y bedd," ymadrodd cyfeiriol, efallai, at y dull o rwymo cyrff meirwon i'w gosod yn y beddrod, Ioan 11. 44.

Adn. 7.—15 Defnyddir yr iaith a'r delweddau yma oddiwrth ystorm arswydus o daranau a mellt. Darlunir y Goruchaf fel un

a drigai yn y cwmmwl dudew, yn lluchio y daran-follt allan o'i drigfa, yn siglo y ddaiar i'w pherfeddion, yn anadlu tân allan o'i enau, ac yn ysu ei elynion; cymh. Esa. 29. 6. Nah. 1. Heb. 3. Zech. 9. 14, &c. BOOTHROYD.

Adn. 17. *Yr oeddynt yn drech na mi,* hyny yw, yr oeddynt yn ymddangos felly; ac felly y'u cyfrifid.

Adn. 26. *A'r cyndyn yr ymgyndynni.* Mae peth gwahaniaeth rhwng y geiriau Hebrëig a gyfeithir yma am *gyndyn,* ac *ymgydynnu,* y cyntaf a ddynoda yn fwyaf priodol, càm, trofäus: a'r ail a arwyddocâ ymgylymmu am un, neu ei wasgu, fel y gwna gwr wrth ymafael codwm âg arall; a'r ystyr yw, y bydd i'r Arglwydd lethu y rhai a ymgyndynant, mewn gwrthwynebiad i'w ewyllys ef, â chadernid ei allu.

Adn. 28. *Fy nghanwyll,* darluniad o lwyddiant, gwel Job 18. 5.

Adn. 29. Hwyrach fod y Salmydd yn cyfeirio at ryw frwydr neillduol, lle y cawsai fuddugoliaeth nodedig ar ei elynion, ac y'i galluogasid i gymeryd rhyw amddiffynfa gadarn. A. CLARKE.

Adn. 33. *Fel traed ewigod,* yr hyn a arwyddocäai nerth a chyflymder. MANT. Yr oedd cyflymder yn un o brif anhebgorion gwron yn yr hen amser, am hyny y gelwid *Achilles,* "y cyflymdroed." A. CLARKE.—*Ar fy uchel fannau y'm sefydla,* megis y mae yr ewig droediog yn alluog i ddringo ac ymgynnal ar lëoedd uchel a serth, felly y cant hwythau eu cyflawn sicrhau mewn meddiant dïogel o'u hamddiffynfeydd mynyddig.

Adn. 34. *Fel y dryllier bwa dur yn fy mreichiau,* neu, "Ac yn gwneuthur fy mreichiau fel bwa o bres." Mae yn lled debyg nad ydoedd dûr yn adnabyddus yn amser Dafydd; ond yr oedd yr henafiaid yn fedrus ar dymheru pres, fel yr arferwn ni dymheru dûr. EDWARDS, LOWTH, BOOTHROYD.

Adn. 41. *Sef ar yr Arglwydd*:—gall fod y Salmydd yn y geiriau hyn yn golygu yr Israeliaid hyny a lynent wrth dŷ Saul; neu y paganiaid a allent yn achlysurol fod yn galw ar enw Jehofah, fel Duw galluocach yn eu cyfrifiad na'r eiddynt eu hunain.

Adn. 45. *A ballant,* neu a deimlant eu nerth yn diflannu fel deilen yn Hydref, a chwympant wrth swn fy enw a'm buddugoliaeth. HORNE.—*Dirgel leoedd,* neu amddiffynfeydd. Meddyliai DR. A. CLARKE, mai y rhai a ymffurfiasant yn finteioedd o wibladron a olygid yn y geiriau hyn, y rhai a lechant yn y creigiau a'r amddiffynfeydd dirgelaf.

## SALM XIX.

Adn. 1. E debygid fod y Salm hon wedi ei hamcanu i brofi fod eilun-addoliaeth ac annghrefydd y byd yn hollawl anesgusodawl, gan fod paganiaid eithafoedd y ddaiar yn cael amlygiad o ogoniant Duw yn y cyrff wybrenol. SCOTT Megis y darlunid golygfa ar y nefoedd ganol nos yn Salm 8; felly yma, darlunid gogoniant

dydd di gymmylau yn y gwledydd dwyreiniol. WILLIAMS. Darlunir y nefoedd fel hyfforddwyr dynolryw; nodir testun, cyffredinolrwydd, a dull eu haddysgiad; a darlunir gogoniant, tegwch, ac effeithiau grymmus goleuni yr haul. Mae yn ymddangos oddi wrth grybwylliad a wnai Paul o'r bedwaredd adnod yn Rhuf. 10. 18, fod yn gweddu i ni, wrth geisio esponio y Salm hon, ddyrchafu ein meddyliau oddiar bethau naturiol ar bethau ysbrydol; yr ydym ni i fyfyrio ar ledaeniad yr efengyl, amlygiad Goleuni y Bywyd, Haul cyfiawnder, ac effeithioldeb yr athrawiaeth efengylaidd.

Adn. 2. *Dydd i ddydd a draetha ymadrodd*, neu a dywallt ymadrodd, fel dwfr o'r ffynnon, yn barhaus a di brinder. AINSWORTH. Cyfeiriad godidog at yr amlygiad parhaus a wneir o Dduw yn ei weithredoedd ac yn ei air.

Adn. 3. *Nid oes iaith nag ymadrodd, &c.* "Nid oes iddynt iaith nac ymadrodd, eto eu llais a glywir." *Cyf. Ffrengaeg.*— "Nid oes iddynt iaith nac ymadroddion, ac ni chlywir llais iddynt; eto mae eu sŵn yn myned trwy yr holl ddaiar." HORSLEY.—

"Er nad oes ganddynt air nac iaith,
Da dywaid gwaith Duw Lywydd;
Dïau nad oes na môr na thir,
Na chlywir eu lleferydd."——EDMUND PRYS.

Adn 4. *Eu llinyn*, neu "eu sŵn." *Vulg. Arab.* KENICOTT. CLARKE, BOOTHROYD.—*A'u geiriau hyd eithafoedd byd*, neu, "a'u harwyddion hyd eithafoedd byd."

Adn. 5. *Yr hwn sydd fel gwr prïod yn dyfod allan o'i ystafell.* Mae y gyffelybiaeth a ddefnyddir yma yn un dra godidog, yn yr hon y darlunir yr haul ar ei gyfodiad, i'r prïod-fab, yr hwn fydd wedi ymwisgo y'n addurniadau gwychaf, a'i ymddangosiad yn peri llawenydd i'w gyfeillion, Josua 3. 29; felly y mae yntau yn dyfod allan, ac yn gwasgaru llawenydd drwy holl naturiaeth. BOOTHROYD.

Adn. 7. Wrth *gyfraith yr Arglwydd* yma yn ddïau y dëallir y datguddiad o Dduw yn gyffredinol. SCOTT, BOOTHROYD.

Adn. 9. Yma rhoddir *ofn yr Arglwydd*, trwy drawsenwad, am wir grefydd, a'r addoliad a gais yr Arglwydd genym; cymh. Esa. 29. 12. â Matt. 15. 9.

Adn. 11. *Y rhybuddir*, neu "y cyflawn ddysgir" *dy was.*

Adn. 12, 13. *Camweddau*, oddiar anwybodaeth, efallai;—*beiau cuddiedig*, rhagrith a thwyll;—*anwiredd lawer*, eilun-addoliaeth, neu wrthgiliad.

Adn. 14. *Bydded*, neu "A bydd," &c. Mae Duw yn cymeradwyo gwasanaeth ei bobl pan fyddant yn cael eu hattal oddiwrth ddrygioni, Gwel 1 Ioan 3. 23.—*Prynwr*, cyfathrachwr, yr hwn a adfera yr etifeddiaeth a gollasid, Lef. 25. 25.

## SALM XX.

Mae awdwyr enwog yn amrywio yn eu barnau am yr achlysur o gyfansoddi y Salm hon. Nyni a grybwyllwn amryw o'r golygiadau hyny yma. Meddylia rhai ei bod wedi ei hysgrifenu pan ar fyned i ryfel â'r Ammoniaid, neu y Syriaid, fel yr arferai y bobl hi fel gweddi dros Dafydd, 2 Sam. 10. 6, 18. Eraill, Mai pan oedd Dafydd newydd ennill buddugoliaeth ar y Philistiaid y'i cyfansoddid. Eraill, Mai y Messïah a'i ddyoddefiadau oedd ei phrif destyn, a'r achlysur o'i chyfansoddi.

Adn. 2. *O'r cysseyr*, gelwid y babell a'r deml wrth yr enw yma, o herwydd fod y Duw sanctaidd yn trigo ynddynt.

Adn. 5. *A dyrchafwn faner yn enw ein Duw*, yn arwydd o fuddugoliaeth. Yma y datganent eu penderfyniad i gymeryd y maes yn erbyn eu gelynion, mewn llawn ymddibyniad ar Dduw am ei gynnorthwy. HORSLEY.

Adn. 7. *Ymddiried rhai mewn cerbydau ;* Meddyliai GEDDES fod y geiriau hyn yn gefnogaeth benderfynol i'r golygiad, mai pan ar fyned i ryfel yn erbyn y Syriaid y cyfansoddid y Salm hon.

Adn. 9. *Achub, Arglwydd ; gwrandawed y Brenin arnom yn y dydd y llefom*, neu, "Arglwydd, achub y Brenin, a gwrando ni pan alwom arnat." Felly y cyfieithiadau *Vulg. Ethiop*, ac *Arabaidd*.—Un gwr dysgedig yn ei sylwadau ar y Salm hon a farnai yr arferai y bobl neu yr offeiriaid ddatganu yr adnodau cyntaf ar ddyfodiad y Brenin i aberthu cyn cychwyn i'r rhyfel. Gyd ag adn. 6, mae yr arch-offeiriad yn tori allan yn yr olwg ar yr aberth wedi ei ddifa â thân Duw ; a'r tair adnod olaf a ddatgenid gan y bobl neu yr offeiriaid fel cyd-gan. MUDGE.

## SALM XXI.

Salm o orfoledd a dïolchgarwch am fuddugoliaeth yw hon ; a thebygir ei bod yn darlunio trwy Dafydd fel cysgod, ddyrchafiad, gogoniant a mawrhydi Crist, yr hwn a ennillodd fuddugoliaeth drwyadl ar angau. TRAVELL.

Adn. 6. *Gwnaethost ef yn fendithion yn dragywyddol*, neu "Rhoddaist iddo ef fendithion," &c. Cyflawnwyd y dystiolaeth hon yn berffaith yn y brenin Iesu, yn yr hwn y bydd i holl genhedloedd y ddaiar gael eu bendithio.

Adn. 9. *Ti a'u gwnei hwynt fel ffwrn danllyd*. Dyma ddarluniad ofnadwy o ddystryw gelynion y Messïah ; hwy a losgir gan ddigofaint Duw, a bydd y naill yn foddion i ennyn ac ysu y llall. CLARKE.

Adn. 10. *Eu ffrwyth hwynt*, sef eu hiliogaeth, yr un gwrthddrychau ag a ddynodir drwy y darluniad o *had* yn y rhan arall o'r adnod. GILL.

Adn. 12. Mae AINSWORTH yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth y cyfieithiad arferedig o'r adnod hon; ac y mae y rhan fwyaf o'r Beirniaid diweddaraf yn dewis dilyn y gwr dysgedig hwnw. Fel hyn y'i darllenir gan BOOTHROYD, "Yn ddiau ti a'u gosodi yn nôd i'th saethau, y rhai a barottöaist ar dy linyn i'w herbyn." Cyffelyb yw darlleniad GILL, HORSLEY, ac eraill.

## SALM XXII.

Adn. 1. *Fy Nuw*, meddylia rhai fod Dafydd wedi cyfansoddi y Salm hon pan oedd efe yn aros yn Mahanaim, lle yr ymddangosai Duw i Jacob, ystyriaeth o'r hyn a all daflu goleu ar adn. 3, 4, 5. DELANY. Mae eraill yn ei chymmhwyso at Grist yn gwbl;—Ni all fod neb arall mewn golwg heblaw y Messïah, gwel Math. 27. 35, 43, 46. Heb. 2. 12. Cafodd pob rhan o'r Salm hon ei chyflawni yn Nghrist. GILL. Mae yn amheus a oedd gan Dafydd unrhyw gyfeiriad at ei amgylchiad ei hunan yn y Salm hon, gan fod y cyfan o honi yn dra chymhwysiadol i Grist, a'r rhan fwyaf o honi yn dra annghymwysiadol at Dafydd. SCOTT. Eraill a'i cymhwysant at Dafydd yn y lle blaenaf, dyoddefiadau ac adfydau yr hwn a ddarlunir yn y farddoniaeth fwyaf effeithiol; ond drwy y cyfryw gyffelybiaethau, fel na's cywirwyd yn gyflawn namyn yn nyoddefiadau y Messïah. GROTIUS, *Archdïacon* RANDALPH.—*A geiriau fy llefain*, neu "fy rhüad;" mae y gair yn tarddu o wreiddyn sydd yn dynodi rhüad llew, ac yn cael ei arfer yn aml am ocheneidiau dyfnion dynion mewn cystuddiau, gwel Salm 32. 3. a 38. 9.—"Pa ham yr ydwyt mor bell o'm cynnorthwyo, ac na's gwrandewi ar y geiriau yr ydwyf yn eu rhüo allan." BOOTHROYD.—"Dy ymbelläad oddiwrth waredigaeth, yw baich fy uchel gŵyn." HORSLEY. Yr oedd yn hawdd goddef profedigaethau eraill mewn cydmariaeth; ond hyn oedd yn peri ei drallod paräus.

Adn. 2. *Ac nid oes osteg i mi*, neu, nid oes esmwythdra, neu waredigaeth i mi. AINSWORTH.

Adn. 3. *O dydi, yr hwn wyt yn cyfanneddu ym moliant Israel*, neu, "yn nghanol moliannau Israel." BOOTHROYD. Efe a ddadleuai berthynas gyfammodol âg Israel, fel rheswm dros iddo wrandaw arno ef.

Adn. 6—11. *Prŷf ydwyf*, hyny ydyw, gwàn a dirmygedig, yn cael ei fathru dan draed fel prŷf; a thriniaeth nad yw yn gweddu i ddyn. Os yw yr iaith a arferir yn y rhan yma o'r bennod yn gweddu i Dafydd yn ei dywydd garw, nid yw yn anweddus i Grist hefyd, yr hwn oedd yn ddirmygedig a gwrthodedig gan ddynion. Cymh. Math. 27. 43.

Adn. 12, 13. Yn mysg yr henafiaid, yr oedd anifeiliaid corniog yn ddarluniadau o awdurdod, ac e ddichon eu bod yma yn dynodi y pennaethiaid Iuddewig a'r llywydd Rhufeinig, y rhai a gydfwr-

iadent yn erbyn yr Iesu. BOOTHROYD. *Gwrdd-deirw*, neu "deirw creulawn" *Basan*, yr hon oedd fro enwog am faintiolaeth ei rhywogaeth o anifeiliaid. MANT.

Adn. 14, 15. Mae pob cyffelybiaeth a arferir yn y geiriau hyn yn dynodi gwendid dirfawr, poen arteithiol, syched angerddol, teimlad o ddarfodedigaeth neu ymlewygiad, ac annhueddgarwch eithaf i wrthsefyll ei elynion galluog. DAVIDSON.

Adn. 16. *Cwn a'm cylchynasant.* Yr oedd cwn yn dra dirmygedig yn y gwledydd Dwyreiniol, ac yn ddarluniad cymhwys o'r gwaelaf o feibion dynion; gwel Salm 59. 6, 14. Job 30. 1. Phil. 3. 2.

Adn. 17. *Gallaf gyfrif fy holl esgyrn*, a all arwyddocâu fod ei ddyoddefiadau yn ymwasgaru drwy bob aelod o'i gorff. Gallai gyfrif ei holl esgyrn o herwydd yr amryfal eistedd-leoedd poenau a deimlai yn ei gorff. Gellid meddwl fod y geiriau hyn yn dynodi teneuder anarferol, nes bod yr holl esgyrn yn amlwg; ond fe groeshoeliwyd yr Iesu yn nghyflawnder grym ei natur ddynol.—*Y maent*, sef ei elynion creulawn, *yn tremio ac yn edrych arnaf*, gyda math o orfoledd anwaraidd. DAVIDSON.

Adn. 19—22. Gellir cymhwyso y rhan hon o'r Salm gydag addasrwydd neillduol at yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn a ragfynegodd, nid yn unig ei farwolaeth ei hunan, ond ei adgyfodiad a'i fuddugoliaeth hefyd, ac y mae yr apostol yn cymhwyso y geiriau yn y golygiad uchod yn Heb. 2. 11.

Adn. 25—31. Os ystyriwn ni yr adnodau blaenorol yn dynodi buddugoliaeth y Messïah, ni's gall y rhai hyn lai na bod yn ddarluniadol o fuddugoliaeth yr efengyl, a galwedigaeth y cenhedloedd.—*Y tlodion a fwyttânt*, arferai y brenin gyfrannu bwyd a diod yn mysg y bobl, ac fel y byddai cyflawnder i laweroedd, arferid offrymmu llawer iawn o aberthau, 2 Sam. 6. 19. Mae yn y Gwir aberth arlwy ddigonol i bawb a gredant ynddo. Darlunir bendithion yr efengyl yn aml gan y proffwydi, fel gwledd, Esa. 25. 6. a 55. 1

## SALM XXIII.

Gellir meddwl mai Dafydd a gyfansoddai y Salm hon pan gafodd efe feddiant tawel o'r orsedd gyntaf, ac y mae hyn yn llawer mwy hygoel na'r hyn a dybia rhai am dani, sef mai Emyn dïolchgarwch a gyfansoddid gan yr Israeliaid ar eu dychweliad o gaethiwed Babilon ydoedd; canys nid oes dim neillduol o gymhwysiadol at amgylchiad pobl yn dychwelyd o gaethiwed, yn y cyffelybiaethau a arferir ynddi; ond y mae y cyffelybiaethau a ddefnyddir oddiwrth y bywyd bugeilaidd, y cyfryw ag a allem ei ddysgwyl oddiwrth Dafydd, yr hwn a dreuliasai lawer o'i oes yn fugail. DATHE, MORISON. Yn y Salm hon darlunir dïogelwch a dedwyddwch gwir addolwyr Duw trwy ddwy gyffelybiaeth,

sef dïadell yn cael ei gwylio yn fanol, a'i phorthi yn dda; ac etifeddiaeth lawn ddigonol i holl angenion y teulu a'r ymwelwyr.

Adn. 2. Mae porfëydd gwelltog, a digonedd o ddyfroedd, yn annhraethol werthfawr, ond yn hynod iawn o brinion yn Syria.

Adn. 3. *Efe a ddychwel fy enaid*, pan y crwydrwyf, efe a'm dwg yn ol; neu, pan fyddwyf yn nychu, efe a adfera fy nerth a'm cysur. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Glyn cysgod angeu*, cyffelybiaeth wedi ei benthyca oddiwrth yr ogofeydd tywyll yn y creigiau, y rhai a arferid gan yr Iuddewon fel claddfëydd, dros y rhai y gellid dychymygu fod angau yn hofian gan daenu ei len ddu. MANT. Hwyrach mai ystyr y gair yw, "glyn angeuol," lle y lladdasid llaweroedd gan y gelyn buddugol ar ryw achlysur, yr hwn a ruthrai oddiar y tir uchel arnynt yn y glyn, ac a'u dystrywiai. HEWLETT. Mae yn dra thebyg fod yma gyfeiriad at lyn coedwig Hareth, yn yr hwn yr oedd llochesau eirth, llewod, a dywalgwn, fel mai antur angeuol y cyfrifid gwaith neb yn cynnyg myned trwy y glyn hwnw. DELANEY.

Adn. 5, 6. Mae yr holl ymadroddion yn darlunio llawnder ac anrhydedd a roddid ar ymwelydd, i'w hynodi fel anwyl ddyn y sawl a'i croesawi; ac nid am un diwrnod yr oedd yr ardderchawgrwydd hwn i barhau, ond yn oes oesoedd; cymh. Jer. 52. 31—34. Luc 7. 46.

## SALM XXIV.

Adn. 1. Mae cyfansoddiad y Salm hon fel llawer eraill, yn dangos ei bod wedi ei chyfansoddi i'w chanu yn gyhoeddus. Dechreua gyda chyd-gan gyhoeddiadol o dduwdod Jehofah y Creawdwr; yna trwy ofynion ac attebion gan wahanol leisiau, yn darlunio y cyfiawnder, neu yr ufudd-dod hwnw, a gymeradwyir ac a wobrwyir gan yr Arglwydd; ac yn y diwedd, cyhoeddir fod Brenin gogoniant wedi ei gael yn deilwng o ffafr y Goruchaf. Wrth y Brenin hwn yn ddiau y golygir y Messïah, yr hwn yma hefyd a elwir *Arglwydd y lluoedd*.

Adn. 2. *Ar y moroedd*, neu "gyd a'r moroedd." *Rabbi* MOSES.

Adn. 3—5. Mae glendid dwylaw yn arwyddocâu gweithredoedd da; gwel Job 17. 9. Iago 4. 8.—*Yr hwn ni ddyrchafodd ei feddwl at wagedd*, neu eilun-addoliaeth, debygid; a hwyrach fod yma gyfeiriad at yr hen ddull o wneyd llŵ; gwel Nod. ar Gen. 14. 21—24.—*Ac ni thyngodd i dwyllo*, a ddynoda, mae yn debyg, rith proffes gyhoeddus o wasanaethu y gwir Dduw; yr hyn a wnelid yn gyffredin trwy lŵ difrifol.—Yma rhoddir *cyfiawnder* am ei gyflawn daledigaeth, yr achos am yr effaith; dull digon arferedig yn yr Hebraeg.

Adn. 6. *Y rhai a geisiant dy wyneb di O Jacob?* neu, "dy bresenoldeb di O Dduw Jacob."

Adn. 7—10. Mae yma gyfeiriad union-gyrchol at dderbyniad y Messïah i'r nefoedd fel prawf o'i fod ef wedi cwblhau ei ymrwymiad i wneuthur ewyllys y Tad: ond mae yn debyg fod y iaith wedi ei benthycio oddi wrth fynedfa buddugol brenin yr Israeliaid i Jerusalem neu i'r deml.—*Brenin gogoniant,* neu y brenin gogoneddus. Cyferchir y pyrth, fel yn rhŷ isel i dderbyn y fath Frenin mawr, am hyny erchir iddynt ddyrchafu eu penau.

## SALM XXV.

Adn. 1. Hon yw y gyntaf o'r Salmau egwyddorawg, a elwir felly am fod pob pennill yn dechreu â gwahanol lythyren, oddieithr bod ychydig amrywiaeth, o wall adysgrifenwyr, efallai, weithiau. Meddylia rhai mai dyben y Beirdd Hebrëig yn arfer y dull hwn o gyfansoddi rhai o'u caniadau rhagorol, oedd er cynnorthwyo y côf.

Adn. 3. *Y rhai a droseddant heb achos,* neu, "y rhai a ymddygant yn fradwrus heb achos." COBBIN. Y rhai a ymddygant yn dywyllodrus, yn erbyn dyledswydd, addewid, ac ymddiried a roddid ynddynt. BOOTHROYD.

Adn. 9. *A hyfforddia efe mewn barn,* mewn modd dïogel ac anrhydeddus; neu, yn ol rhëol buchedd uniawn, a gynnwys y gair.

Adn. 11. *Canys mawr yw,* neu, "er ei fod yn fawr." DAVIDSON. Ond y mae prydferthwch anarferol yn y geiriau hyn yn ol y cyfieithiad arferedig, fel pe dywedai, "Mae fy mhechod y fath na's gall ond dy hunan eu maddeu, ac am hyny yr ydwyf yn dyfod attat ti; canys e ddichon dy drugaredd fawr di faddeu pechodau mawrion." COBBIN.

Adn. 14. *Dirgelwch yr Arglwydd sydd gyd a'r rhai a'i hofnant ef,* sef ei air a'i gynghor ef i'w cyfarwyddo, adn. 8. 9, 12: neu ei gariad a'i ffafr, Job. 29. 4. Diar. 3. 32: neu ei ragluniaeth rasol a thadol. POOLE.—"Cynnulleidfa ddirgel yr Arglwydd," myn y cyfryw gael eglwys yn eu tai. CLARKE.—Adnabyddiaeth o ogoniant o chysondeb y prïodoliaethau Dwyfol, cymmundeb Dwyfol, tangnefedd, a llawenydd. SCOTT.—Efe a ddengys iddynt ei gyfammod, ac a bair iddynt ddeall ei ddyledswyddau a'i ammodau, ei fendithion a'i ragorfreintiau; pair iddynt feddu y wybodaeth hon yn *brofiadol.* POOLE.

## SALM XXVI.

Mae yn dra thebyg mai pan ydoedd yn ffoädur rhag Saul y cyfansoddodd Dafydd y Salm hon, yn yr hon y mae efe yn apelio at Dduw yn herwydd ei ddiniweidrwydd, pan oedd Saul yn derbyn achwyniadau yn ei erbyn. THEODORET, GILL, DIMOCK, SUTCLIFFE.

Adn. 1. *Barn fi*, neu "Barn di droswyf," cymer fy achos yn dy law, ac amddiffyn fi.

Adn. 2. *Chwilia fy arenau*, neu fy meddyliau dirgelaf. Salm 17. 3. Jer 17. 9, 10. Mae y gair a gyfieithir yma *chwilio* yn dynodi profi peth yn fanol, fel y prawf y metelydd ei aur, trwy y profedigaethau llymaf, i chwilio allan ei nodweddiad, fel y profir y delid (*metal*) trwy dân. HAMMOND, SCOTT.

Adn. 4. *Dynion coegion*, dynion gau, tywyllodrus. COBBIN.—*Rhai trofäus*, yn llythyrenol, y rhai a ymguddiant neu a ochelant ymddangos yn eu gwir nodweddiad.

Adn. 6. *Golchaf fy nwylaw mewn diniweidrwydd*, arferai yr Iuddewon olchi eu dwylaw yn dystiolaeth o'u diniweidrwydd, Deut. 21. 6. A meddylia AINSWORTH fod y Salmydd yma yn cyfeirio at y gorchymyn a roesai yr Arglwydd i'r sawl a fynnai nesau at ei allor ef i ymolchi, Ex. 40. 32. Felly hefyd y dywedir fod yn rhaid i ni ddyrchafu dwylaw sanctaidd mewn gweddi, 1 Tim. 2. 8. ac Es. 1. 15. Yr ystyr yma, debygid yw, ei fod ef yn ymgadw rhag pob peth a'i hanghymwysai i wasanaeth Duw, yn yr hwn yr oedd ei hyfrydwch diball.

Adn. 8. *Arglwydd, hoffais drigfan dy dŷ*, sef y cyssegr yn ddiau, lle y preswyliai Duw rhwng y cerubiaid.

Adn. 9. *Na chasgl*, hwyrach mai cyffelybiaeth yw y geiriau hyn wedi ei chymeryd oddiwrth y dull o dòri ŷd, a chasglu y cynhauaf i fewn, gwel Matt. 13. 24—30. Ex. 23. 10. Lef. 23. 39. HEWLETT, COBBIN.

## SALM. XXVII.

Meddylir i'r Salm hon gael ei chyfansoddi gan Dafydd ar yr achlysur o'i erledigaeth gan Saul, pan ffoodd efe oddiwrth Saul, ac y daeth efe at Abimelech. ROSENMULLER.

Adn. 2. *I fwytta fy nghnawd*, neu i'm difa; cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddi wrth fwystfilod ysglyfaethus yn difa eu hysglyfaeth.

Adn. 3. *Yn hyn mi a fyddaf hyderus*, neu, "ïe yn y cyflwr hwn," sef mewn rhyfel, "mi a fyddaf hyderus." BOOTHROYD.

Adn. 4. *I edrych ar brydferthwch yr Arglwydd*, i edrych ar yr offeiriaid a'r Lefiaid, a llwythi Israel, fel cysgodion o Grist a'i eglwys yn mherffeithrwydd ei harddwch. GILL, BOOTHROYD.—"I fyfyrio ar Dduw yn ei dŷ." Ei sancteiddrwydd a'i ddaioni yw ei brydferthwch, Sal. 110. 3. Zech. 9. 17. Cysondeb ei holl brïodoliaethau yw prydferthwch ei natur, yr hyn a welir â llygad ffydd a chariad sanctaidd. HENRY.—"I fwynhau y gwasanaeth boreuol, a derbyn cyfarwyddiadau gan Dduw." PATRICK.

Adn. 5. *Yn nirgelfa ei babell y'm cuddia*. Gellir meddwl fod Dafydd yn absenol o'r tabernacl y pryd hwn, a'i fod yma yn datgan ei obeithion, pe buasai yno, y buasai Duw yn gweinyddu

cymmhorth a nodded neillduol iddo ef. BOOTHROYD. Meddylia y Beirniaid fod cyfeiriad yn y geiryn gwreiddiol at babell neu fwth bugail, i'r hon yr arferai efe ddwyn y ddafad lesg i'w chysgodi rhag gwres angerddol yr haul ganol dydd. O'r cyfryw wasanaeth yr oedd y tabernacl i bobl Dduw; gwel Esa. 4. 6. GILL. Eraill a farnant fod yma gyfeiriad at yr allor a'r cyssegr fel nawddle, lle y byddai drwg-weithredwyr yn ffoi am ddïogelwch; gwel 1 Bren. 2. 28. MANT.—*Ar graig y'm cyfyd i.* Yr oedd creigiau neu amddiffynfeydd, yn, neu oddeutu gwlad Judea, y rhai a ystyrid yn anorchfygol cyn dyfeisio pylor, lle y bu gweddillion bychain o fyddinoedd yn dal allan warchae hir, ac yn gorfodi eu gelynion i gyfodi y gwarchae ar ammodau tra ffafriol i'r gwarchaëedig. MANT.

Adn. 6. *Ebyrth gorfoledd,* neu ebyrth dïolch, a elwid felly mewn cyfeiriad at yr arferiad o udganu uwch ben yr ebyrth, Num. 10. 10.

Adn. 13. *Diffygiaswn pe na chredaswn weled daioni yr Arglwydd yn nhir y rhai byw,* neu, "Eto yr ydwyf yn credu y caf fwynhau daioni, O Arglwydd, yn nhir y byw." BOOTHROYD.

Adn. 14. *Disgwyl wrth yr Arglwydd;* mae y gair a gyfieithir *disgwyl,* yn arwyddo estyn y pen a'r gwddf mewn dyfal ddysgwyliad o sylw, fel y gweler pa bryd yr ymddengys y gwrthddrych a ddysgwylir; felly cyfieithir yr un gair Groegaidd, yn Rhuf. 8. 19. Phil. 1. 20. PARKHURST.

## SALM XXVIII.

Adn. 2. *Tu ag at dy gafell sanctaidd,* hyny yw, lle arch y cyfammod, a'r drugareddfa. SCOTT.—Y cyssegr sancteiddiolaf, a elwir *gafell* yn 1 Bren. 6. 23. POOLE.

Adn. 3. *Na thŷn fi gyd a'r annuwiolion,* fel y tynir drwg-weithredwr i'w ddihenyddio. BOOTHROYD —"Na oddef i mi gael fy nhynu a'm llithio trwy eu hudoliaeth." HORSLEY.

## SALM XXIX.

Testyn y Salm hon yw profi llywodraeth oruchel, a gallu anfeidrol Duw, oddiwrth swn arswydus a gweithrediad rhyfeddol y daran, yr hon a alwai yr Hebrëaid llais Duw. LOWTH. Hwyrach ei chyfansoddi mewn coffadwriaeth oddiwrth ystorm fawr; ond y mae yn ddiau fod yr amgylchiad yn cael ei ddefnyddio yn achlysur i ragddangos yr ymrysonfa fawr a fyddai rhwng yr efengyl a'i gwrthwynebwyr yn y dyddiau diweddaf. Llef yr Arglwydd yw pregethiad yr efengyl. HORSLEY.

Adn. 2. *Yn mhrydferthwch ei sancteiddrwydd,* yn y sancteiddiolaf gogoneddus hwnw, lle yr amlygai Duw ei bresenoldeb i'w bobl; yr hwn yn nghyd a'i holl addurniadau gwychion oeddynt yn gysgod daionus bethau a fyddent; Salm 96. 9. cymh. adn. 6, 8. 1 Cron. 16. 29. cymh. adn. 27.

Adn. 3. *Yr Arglwydd sydd ar y dyfroedd mawrion*, y rhai ydynt wedi eu casglu i drysordy y cymmylau. GREEN. Ond MICHAELIS a feddyliai mai Môr y Canoldir a olygid, o dueddau yr hwn y cyfodai yr ystormydd o daranau yn gyffredin.

Adn. 5. *Llef yr Arglwydd sydd yn dryllio y cedrwydd.* Mae y Salmydd yn priodoli yr effaith yma i'r ystorm yn gyffredinol; ond gwyddis yn dda yn yr oes bresenol mai yr hylif gwefraidd neu y fellden yn unig sydd yn gwneuthur hyn. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Sirion*, y rhan ogledd-ddwyreiniol o Libanus, a elwir yn gyffredin Hermon, Deut. 3. 9.

Adn. 7. *Fflammau tân*, neu y mellt. MUDGE.

Adn. 8. *Anialwch Cades;* yr un ag anialwch Sin, Num. 33. 36. GILL.

Adn. 9. *Llef yr Arglwydd a wna i'r ewigod lydnu.* Mae Naturiaethwyr yn tystio fod taranau yn effeithio yn gyffelyb ar ddefaid hefyd; gwel *Pliny's Natural History*, l. 8. c. 47.

## SALM XXX.

Meddylia amryw mai ar gyssegriad tŷ Dafydd y cyfansoddid y gân sanctaidd hon. ABEN EZRA. 2 Sam. 5. 11. a 7. 2. Felly hefyd y barnai STREET, a WILLIAMS; y rhai hefyd a farnent y gallai y cyssegriad yma gymeryd lle yn fuan ar ol ei adferiad o gystudd trwm. Eraill a farnant mai cyssegriad y lle a adeiladasai efe ar lawr dyrnu Arrafnah oedd yr achlysur o'i chyfansoddi, 2 Sam. 24. 25, &c. 1 Cron. 21. 26. CATMET, DATHE, MORISON.

Adn. 2. *A thithau a'm hiachëaist*, mae iachâu yma yn cael ei arferyd yn gyffelybiaethol am faddeuant, gwel Nod. ar Hos. 14. 4. Ond, os y Messïah a olygir fel llefarydd y Salm hon, mae yr ymadrodd yn golygu ei waredigaeth o drallod, gwel Nod. ar Esa. 53. 4.

Adn. 4. *Wrth goffadwriaeth ei sancteiddrwydd*, neu, "Coffewch gyda mawl ei sancteiddrwydd ef." Hwyrach ei fod yma yn cyfeirio at yr amlygiad ofnadwy o'i sancteiddrwydd a wnaethai Duw yn nghosbedigaeth uchel-frydedd Dafydd a'i bobl trwy y pla; at yr hyn hefyd y cyfeiria yr adnod ganlynol. BOOTHROYD.

Adn. 7. *O'th ddaioni, Arglwydd, y gosodaist gryfder yn fy mynydd*, neu, "Tydi, o'th ffafr, Arglwydd, a roddaist y fath gryfder i'm hiechyd: ond can gynted ag y cuddiaist dy wyneb, minnau oeddwn mewn anhwyl." GREEN. Felly hefyd y *Sept.*, y *Syriaeg*, y *Vulg.*, HOUBIGANT, MUDGE.

Adn. 12. Meddylia rhai fod *fy ngogoniant* yn dynodi "fy nhafod;" gwel Salm 16. 9. Ond BOOTHROYD, gan gymeradwyo y darlleniad Syriaeg a ddarllena "Am hyny y'th foliannaf di, fy Ngogoniant."

## SALM XXXI.

Mae y Beirniaid yn gwahaniaethu yn eu barn am yr achlysur o gyfansoddi y Salm hon, rhai a farnant mai enciliad Dafydd o Ceilah ydoedd, 1 Sam. 23. PATRICK, GREEN.—Eraill, mai pan y cynnygiodd y Siphiaid ei fradychu i Saul. KIMCHI, DATHE. Eraill, mai pan ffoodd efe rhag Absalom y'i cyfansoddodd. THEODORET.

Adn. 5. Gallai fod Dafydd yn ei gyfyngder wedi gorchymyn ei ysbryd i ddwylaw ei dad, ond y mae'n eglur fod Crist wedi gwneyd hyn. HORNE. Pan ddefnyddiodd Crist yr ymadrodd yma ar y groes, efe a adawodd y nesaf, fel yn gweddu yn well i'r cysgod nac oedd iddo ef. SCOTT.

Adn. 6. *Casëais y rhai sydd yn dal ar ofer-wagedd*, neu, "Casëaist y rhai a addolant eilunod gweigion." BOOTHROYD. Ac felly y darllena y rhan fwyaf o'r hen gyfieithiadau. E ddichon fod y Salmydd yma yn cyfeirio at y bygythion ofnadwy a gyhoeddasid uwchben y rhai a adawent yr Arglwydd i ddilyn eilunod.

Adn. 7. *Adnabuost fy enaid*, neu sylwaist arnaf, a gofelaist am danaf. Gwel Salm 1. 6.

Adn. 9. *Dadwinodd fy llygad*, neu, "treuliodd fy llygad gan ofid."—*Ie, fy enaid a'm bol.* Arferir yn fynych yn yr Hebraeg, roddi rhan am y cyfan; felly gall y gair *bol*, fod yn ddynodawl o'r corff, FENWICK, GREEN.

Adn. 12. *Anghofiwyd fi fel un marw allan o feddwl; yr ydwyf fel llestr methedig*, neu, "Yr ydwyf yn ddisylw fel un marw; allan o feddwl fel llestr wedi ei ddystrywio." BOOTHROYD.

Adn. 13. *Dychryn oedd o bob parth*, yr hyn a ddynodai hwyrach fod brawiau wedi dal pob graddau; gwel Jer. 20. 2, 3.

Adn. 19. *Mor fawr yw dy ddaioni*, neu "dy bethau da," gall y gair a gyfieithir *daioni*, arwyddocâu unrhyw beth da, anianol neu ysbrydol. Yma y mae yn arwyddo yr hyn oll a amcanodd, ac a addawodd Duw ei wneuthur er, ac i'r rhai a'i hofnant ef. BOOTHROYD.

Adn. 20. *Yn nirgelfa*, neu "orchudd" *dy wyneb*. Yr ystyr yw y byddai yr Arglwydd ei hun yn amddiffynwr iddo ef.—*Rhag balchder dynion*, neu "rhag bradwriaethau dynion."

Adn. 21. *Bendigedig fyddo yr Arglwydd*, "yr hwn a ddangosodd garedigrwydd rhyfedd i mi, fel mewn dinas gadarn." BOOTHROYD, SYMMACHUS.

Adn. 22. *Yn fy ffrwst*, neu "fy nghyffro," yr hyn a achlysurid gan fy mherygl dirfawr.

## SALM XXXII.

Tebygir i'r Salm hon gael ei chyfansoddi ar edifeirwch Dafydd wedi ei gamwedd mawr yn achos Urïas. HALES, ROSENMULLER.

Adn. 1. *Gwyn fyd y neb y maddeuwyd ei drosedd.* Mae y gair

a gyfieithir yma "maddeu," yn arwyddo cymeryd ymaith, sef trwy aberth dirprwyawl. A. CLARKE. Cyfeiriad at y bwch dihangol, a'r pech-aberthau, ar y rhai y rhoddid pechodau yr euog, i'w dwyn ymaith. Lef. 16. MORISON, SUTCLIFFE.—*Ac y cuddiwyd ei bechod*, hwyrach fod cyfeiriad yn hyn at y drugareddfa wedi ei thaenellu â gwaed yn gorchuddio y gyfraith a'u condemniai, yn yr arch. Gwel Rhuf. 3. 21—26.

Adn. 3. *Tra y tewais*, hyny yw, heb gyffesu fy mechodau, ni chefais orphwysdra cydwybod. *Esgob* WILSON.—*Heneiddiodd fy esgyrn*, hyny yw, dygwyd ei holl gorff i deimlad ac ymddangosiad henaidd yn anamserol. MERICK.

Adn. 4, *Fy irder a dröwyd yn sychder haf.* Yr oedd efe yn ei gyffelybu ei hun i blanhigyn gwywedig, wedi ei sychu i fynu gan wres yr haf. HEWLETT.

Adn. 6. *Yn llyfeiriant dyfroedd mawrion*, ydynt yn ddarluniadau a arferir yn aml i osod allan natur y cystuddiau a'r profedigaeth grymmus ydynt yn cyfarfod â'r dyn duwiol yn aml. Yr oedd y Salmydd yn cyfeirio yma yn ddiau at yr afonydd a ddylifent o'r mynyddoedd, y rhai er na's byddent ond bychain ar y dechreu, a chwyddent yn ddisymmwth mewn canlyniad i'r gwlawogydd trymion, nes bod yn achos o ddystryw i'r teithydd anturiaethol; ond yma sicrheir na chaiff y cyfiawn niweid yn nghanol ei brofedigaethau mwyaf.

Adn. 8. *A'm llygad arnat y'th gynghoraf.* Geiriau yr Arglwydd yw y rhai hyn, yr hwn ni's gâd y sawl a'i ceisiant ef, ond a fydd yn wastadol gyd a'r pechadur dychweledig, a'i lygaid megis wedi ei sefydlu arno ef.

Adn. 9—11. Yn yr adnodau hyn cynnwysir y cymhwysiad oddiwrth yr adnodau blaenorol, a'r gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth y march *neu y mul*, y rhai yn hinsawdd gynnes y gwledydd dwyreiniol yn enwedig, y rhaid eu ffrwyno a'u rhwymo i'w dwyn dan lywodraeth.—*Rhag ei ddynesau attat*, sef rhag i'r anifail ruthro arnynt i'w niweidio. Yr addysg yw, os anufuddhau i Dduw a wna dynion, heb wrandaw ei aml gynghorion, ei fod ef yn sicr o'u cosbi. Rhydd Duw ei ffrwyn yn eu safnau, ac a'u harweinia i farn; canys *gofidiau lawer fydd i'r annuwiol.*

## SALM XXXIII.

Adn. 3. Gelwid y *ganiad* hon yn *newydd*, oblegid fod ei thestyn yn un parhaus yn ei natur, neu ei bod wedi ei chyfansoddi ar yr achlysur o dderbyniad rhyw fendith neillduol yn ddiweddar gan addolwyr y Gwir Dduw. Defnyddir y gair *newydd* yn mhob un o'r ddau ystyr debygid, gwel 1 Ioan 2. 7. Dat. 5. 9.

Adn. 13—17. Mae yn rhaid fod yr Arglwydd, yr hwn sydd yn goruwch-reoli pob rhyw weithredoedd, yn eu hadnabod yn dda; am hyny y mae pob meddwl a gweithred o eiddo dyn yn noeth a

gweledig iddo ef, ac efe a all lywio holl ysgogiadau ei holl grëaduriaid i gyflawni cynghorion ei feddwl ei hun. Hwyrach fod Dafydd yn y geiriau hyn, *Peth ofer yw march i ymwared, &c.*, yn cyfeirio at y fuddugoliaeth a gawsai efe ar y Syriaid, 2 Sam. 10. 18. DIMOCK.

Adn. 18—22. Wedi dangos yn yr adnodau blaenorol annigonolrwydd y creaduriaid i'n cymmhorth a'n gwaredu yn yr amgylchiadau cyfyngaf, mae y Salmydd yma yn dangos mai yr Arglwydd yn unig, a ddylai fod yn wrthddrych gobaith ac ymddibyniad genym, gan mai efe yn unig a ddichon ein gwaredu.

## SALM XXXIV.

Adn. 1. *Bob amser*, hyny ydyw, yn mhob amgylchiad y gallaf fod ynddo.

Adn. 5. *Edrychasant*, neu yn hytrach "Edrychwch," yr hwn ddarlleniad a gefnogir gan amryw gyfieithiadau. Wedi datgan y waredigaeth a gawsai ef ei hun mewn attebiad i weddi, y mae Dafydd yn annog eraill i edrych ar Dduw, ac yn eu sicrâu y'u goleuid, ac na chywilyddid eu hwynebau. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Y tlawd hwn*, neu "y cystuddiedig hwn," gan ei olygu ei hunan. EDWARDS, SUTCLIFFE, MANT.

Adn. 7. *Angel yr Arglwydd*, presenoldeb Crist yn yr eglwys filwriaethus megis gynt yn ngwersyll Israel; neu weinidogaeth ysbrydion crëedig, fel yn 2 Bren. 6. 17. *Esgob* HORNE.—*A gastella o amgylch*, i'w dïogelu, fel y dïogelir y tywysog Arabaidd yn nghanol ei wersyll. MANT.

Adn. 10. *Ar y llewod ieuainc*, y rhai ydynt gryfion, danneddog, creulon, ac ysglyfaethus; yma e ddichon eu bod yn dynodi galluogion a chyfoethogion byd, y rhai a ddarostyngir i wasgfeuon a chaledi gan Dduw yn aml. AINSWORTH.

Adn. 12—16. Gwel 1 Pedr 3. 12—16.—*Pwy yw y gwr a chwennych*, neu a ymhyfryda yn y bywyd sydd gynnwysedig mewn mwynhâd o ffarf Duw; canys y mae yn eglur oddiwrth y cyf-destyn mai at fywyd yn eithaf ystyr y gair y cyfeiriai y Salmydd yma.

Adn. 18. Mae calon ddrylliog ac ysbryd cystuddiedig yn wrthwyneb i galon galed, ac ysbryd uchel, ac yn dynodi ymostyngiad trwyadl ger bron Duw, parch mawr i'w air ef, ymostyngiad hollol i'w ewyllys, gostyngeiddrwyddd di ragrith, a dïolchgarwch am ras a thrugaredd Ddwyfol; Gwel Sal. 51. 17. Esa. 66. 2.

## SALM XXXV.

Adn. 1—3. *Dadleu fy nadl Arglwydd.* Mae dadleuaeth Duw yn gynnwysedig mewn gweithrediad; felly y dadleuodd efe achos Dafydd yn erbyn Nabal pan y lladdodd efe ef, 1 Sam. 25. 39. Mae Duw wedi addaw gwneuthur i'w bobl yr hyn y gweddïai Dafydd am dano yma, Esa. 69. 25.

Adn. 4. *A gwarthâer y sawl a fwriadant fy nrygu.*—

"A thrwy gywilydd troed i'w ol
Y ffals niweidiol gablaidd." ED. PRYS.

Adn. 7. Gwel Nod. ar Sal. 7. 15. a 9. 15.

Adn. 8. *Deued arno ddistryw ni wypo, &c.* neu "ystorm." AINSWORTH. Y cyfryw ystorm ag a achosir yn y gwledydd dwyreiniol gan ddeheuwynt, yn dra sydyn, grymmus, a dinystriol. GILL.

Adn. 10. *Fy holl esgyrn;* neu fy holl gorff.—*Rhag yr hwn a fyddo trech nag ef*, e ddichon fod y Salmydd yn golygu Saul yn y gair hwn.

Adn. 13. *A'm gweddi a ddychwelodd i'm mynwes fy hun;* neu "a orphwysodd yn fy mynwes," hyny yw, ni byddai un amser heb weddi yn ei galon drostynt. MUDGE, HOUBIGANT. Pan fyddo y dwyreinwyr yn gweddïo yn ddwys iawn, mewn gofid, arferant guddio eu hwynebau yn eu mynwesau; ac at yr arferiad yma y cyfeiria y Salmydd yma. BOOTHROYD.

Adn. 14. *Fel un yn galaru am ei fam,* neu "fel mam alarus." A. CLARKE.

Adn. 15. *Ie ymgasglodd efryddion yn fy erbyn*, neu, "darawwyr," "llofruddion cyflogedig." A. CLARKE. Mae y gair yn arwyddo gwehilion y ddaiar. GILL.

Adn. 16. *Yn mysg y gwatwarwyr rhagrithiol mewn gwleddoedd;* neu, "fel dynion annuwiol gwratwarent fi yn greulawn." BOOTHROYD.

Adn. 19. *Nac amneidiant â llygad*, mewn gwawd a dirmyg. Cymh. Diar. 10. 10.

Adn. 20. *Yn erbyn y rhai llonydd yn y tir*, neu "lonyddwyr y tir." DAVIDSON.

## SALM XXXVI.

Meddylir yn gyffredin i'r Salm hon gael ei chyfansoddi ar ddechreuad erledigaeth Saul.

Adn. 1. *Y mae anwiredd yr annuwiol yn dywedyd o fewn fy nghalon.* Mae yn lled anhawdd deall meddwl y geiriau hyn, ac y mae y Beirniaid yn amrywio cryn lawer yn eu darlleniad o honynt. Barnai y DR. MORISON, fod anwiredd yn cael ei bersonoli yma, ac yn darllen y geiriau fel hyn, "Anwiredd a ddywaid wrth yr annuwiol, o fewn ei galon, Nid oes ofn: nid yw Duw o flaen ei lygaid ef." Mae y perwyddair Hebraeg a gyfieithir *dywedyd*, yn cael ei arfer am araeth a draddodid gan broffwyd gwir neu gau; a'r ystyriaeth hyny a dueddodd HORSLEY i feddwl fod y gair a gyfieithir *anwiredd*, yn enw a roddir ar satan; a barnu mai y golygiad yw, fod athrawiaethau satan wedi gwreiddio yn

ddwfn yn nghalon y drygionus, y rhai ydynt yn byw heb ofn Duw, calon y drygionus yw teml drygioni, lle mae yn eistedd ar ei gorsedd, ac yn derbyn ufudd dod rhwydd ac ewyllysgar. BOOTHROYD. Oracl y drygionus yw llygredd ei galon ei hun, a dyma ffynhonell fawr ei holl annuwiaeth. WILLIAMS.

Adn. 2. *Nes cael ei anwiredd yn atgas*, neu, "yn lle chwilio allan ei anwiredd i'w gasau." Yr ystyr yw, er mai dyledswydd amlwg pechadur yw chwilio allan ei bechod, i'w gasau ac i edifarhau o'i herwydd, eto y mae efe yn ymwenieithio iddo ei hun ynddo ac ni's addefa ei fod yn deilwng o unrhyw gosb neillduol.

Adn. 6. *Fel mynyddoedd cedyrn y mae dy gyfiawnder*, yn gadarn, annghyfnewidiol, ac amlwg.

Adn. 7.—9. *Dan gysgod dy adenydd*, cyfeiriad at yr iâr, yr hon a daena ei hadenydd dros ei chywion, neu at adenydd y cerubiaid yn gorchuddio y drugareddfa; ac yma mae y gair yn dynodi nodded; cymh. Deut. 32. 11—*A brasder* neu "oreuon dy dŷ."—*Yn dy oleuni di y gwelwn oleuni*, mae goleuni yn arwyddocâu addysg, neu hyfforddiad; ac yn y golygiad yma gallai fod Dafydd yn ystyried yr holl ddatguddiadau a wnaethai Duw o'i ewyllys a'i ras i'r eglwys. Yr oedd yr Israeliaid yn mwynhau y goleuni yma, a thrwyddo y'u goleuid. BOOTHROYD.

## SALM XXXVII.

Hwyrach i'r Salm hon gael ei chyfansoddi er cysuro Mephiboseth, dan enllib Siba. DELANY. Ond CLARKE a dybiai iddi gael ei chyfansoddi er cysuro y caethion yn Mabilon, gan ryw awdwr llawer diweddarach na Dafydd. Pa fodd bynnag y mae ei chynnwys yn gweddu yn hynod i wir addolwyr Duw yn mhob oes.

Adn. 3. *A thi a borthir yn ddiau*, neu, "a borthir mewn diogelwch." Y cyfeiriad a wneir at ddafad yn cael porfa felus mewn lle diogel, heb neb yn gallu ei tharfu.

Adn. 5. *Treigla dy ffordd ar yr Arglwydd*, hwyrach i'r gyffelybiaeth gael ei harfer oddiwrth ddull y camel yn gorwedd, fel y treiglent y pwn ar ei gefn. Wrth "ffordd" dyn yma y golygir pa beth bynnag a amcano, a wnelo, neu a ddilyno dyn.

Adn. 9—11. Cyflawniad trwyadl y proffwydoliaethau hyn, a ddygai freniniaeth Crist i'w gogoniant ar y ddaiar. Cymh. Rhuf. 4. 13—16. Dat. 5. 10, 11.

Adn. 20. *Fel brasder wyn*, hyny yw, fel aberth i gyfiawnder Dwyfol,—cyffelybiaeth a arferir yn aml i ddarlunio cosbedigaeth yr annuwiol, yn enwedig y rhai dan rith crefydd ac eiddigedd dros Dduw, a erlidient ei bobl ef. Gwel Nod. ar Ezec. 39. 17—20. Arferir dwy gyffelybiaeth yma, y naill yn gyssylltiedig â'r llall. Difëir hwynt fel brasder yr aberth, ac fel y mwg a ddyrchafa oddiar yr allor, y diflanant. DAVIDSON, BOOTHROYD.

## SALM XXXVIII.

Cyfansoddwyd y Salm hon gan Dafydd mewn rhyw gystudd blin, a phan oedd ei feddwl yn hynod o drallodus o herwydd ei anwiredd; *er coffa*, i attolygu ar Dduw ei gofio ef; i'w alluogi ei hunan i adgofio ei berygl a'i drueni blaenorol, a thrugaredd Duw tu ag atto yn wyneb yr amgylchiad hwnw; ac fel y gallai eraill gofio yr hyn a wnaeth Duw erddo ef. POOLE.

Adn. 2. *Canys y mae dy saethau yn nglŷn ynof.* Mae cyfeiriad yma at Job 6. 4. Wrth saethau yma y golygir anhwylderau, neu bläau corff neu feddwl; cymh. Sal. 18. 15. a 91. 5.

Adn. 4. *Canys fy nghamweddau a aethant dros fy mhen,* fel llifeiriant dyfroedd, neu fel tònau y môr. Gall y gyffelybiaeth fod yn ddarluniadol o nifeiri a phwysigrwydd ei bechodau.

Adn. 5—8. Mae dyoddefiadau corfforol yn cael eu defnyddio gan y proffwydi yn aml fel arlun o ing meddwl. Llefarai y Salmydd am dano ei hun fel un dan anhwylder trwm, math o bla blin, yr hyn a barai i'w gyfeillion ei adael, a'i elynion orfoleddu arno.

Adn. 9. *O ffieidd-glwyf,* neu "gornwyd llosgedig," fel y mae y gair yn arwyddocâu. GILL.

Adn. 13—15. *A minnau fel bydda ni chlywn;* efe a ymddygai yn dra synhwyrol, mewn pwyll ac amynedd, heb gynnyg rhoddi sèn am sèn, ond gadael ei achos i ddwylaw yr hwn a farna yn gyfiawn.

Adn. 17. *A'm dolur sydd ger fy mron yn wastad,* neu, sydd yn bresenol gyda mi, nes ydwyf bron a'm llethu.

## SALM XXXIX.

Adn. 1. Tebygid mài adrodd ei brofiad ei hunan yr oedd awdwr y Salm hon, yr hwn sydd yn dra thebyg i'r eiddo Jeremïah ar un amgylchiad nodedig, gwel Nod. ar Jer. 20. 9.—*Cadwaf ffrwyn,* neu enfa; mae y gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth fath o fasged a rwymid am eneuau anifeiliaid i rwystro iddynt ynt frathu.

Adn. 2. *Tewais â daioni,* neu "ymatteliais oddiwrth bethau da," BOOTHROYD.—*A'm dolur a gyffrôdd;* neu a wnaed yn waeth.

Adn. 3. *Ennynodd tân,* neu yn hytrach "y tân," sef ei ofid a thrallod ei feddwl, "fel y llefarodd â'i dafod."

Adn. 4—6. Mae cymhwysder a thuedd mewn ystyriaeth brïodol o fyrder bywyd dynol, a diddymdra pethau daiarol, i ddwyn y meddwl i ddwys ystyried y mawr bwys o arfer pob diwydrwydd i ddwyn achos cyfiawnder yn mlaen. Ac e ymddengys mai dyma amcan y weddi hon, yr hon pan y'i hattelid a ddyrchafai galon y gweddïwr uwchlaw ofni y drygionus, yr hyn a'i hattaliai i lefaru dros Dduw. DAVIDSON.

Adn. 11. *Ei ardderchawgrwydd ef*, neu yn ol yr Hebraeg, "ei ddymuniad ef," sef ei iechyd, ei rym, a'i fwynderau. BOOTHROYD. —Mae y corff fel gwisg i'r enaid; ac yn y wisg hon y mae pechod wedi gadael prŷf, yr hwn o radd i radd, a fwytty neu a ddifwyna ei degwch yn gyntaf, yna ei nerth; ac o'r diwedd gymmhlethiad ei rannau. *Esgob* HORNE.

## SALM XL.

Adn. 1. *Disgwyliais yn ddyfal am yr Arglwydd.* Mae y geiriau yn dynodi grym ei ddymuniad a'i hyder, gan ei fod fel un yn estyn ei wddf i edrych am waredigaeth. Yma y mae Dafydd wrth ddarlunio ei ddysgwyliad ei hunan am drugaredd Duw, yn proffwydo am Grist, ac yn ei bersonoli ef. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Pydew erchyll*, cyfeiriad hwyrach at un o ddaiardai erchyll y gormeswyr Asiaidd, Jer. 38. 6—12. WILLIAMS. Ond y mae y geiryn a gyfieithir *pydew erchyll*, yn cael eu cyfieithu gan rai o'r Beirniaid, "Pydew trystfawr," am hyny y meddyliai rhai fod yma gyfeiriad yn hytrach at ogofeydd neu bydewau tàn-ddaiarol, yn y rhai y bydd disgyniad dyfroedd yn achlysuraw swn arswydus ac annyoddefol. GILL, MANT. Efe a waredasid gan Dduw pan oedd efe wedi cwympo i gyfyngder mor ddwfn fel na's gallasai neb arall ei waredu. PATRICK.

Adn. 5. *Dy ryfeddodau*, mae y Salmydd yma yn golygu y gwyrthiau a wnaethid gan Dduw yn ngwarediad Israel o'r Aipht, a'u sefydliad yn Nghanaan.—*A'th amcanion*, sef yr addewidion gwerthfawr a wnaethai Duw i Abraham ac i'w had. Yr oedd Dafydd yma yn ymdeimlo yn debyg i'r apostol Paul pan floeddiai yntau "O ddyfnder golud!" Rhuf. 11. 33. A hyn a agora y drws yn naturiol i'r broffwydoliaeth ganlynol am y Messïah, yr hon a gynnwysir adn. 6—10. Ac efe a ddygir i fewn fel y llefarydd ei hunan, fel y gwna Esaiah yn aml. Crybwyllai Dafydd hyn fel un o lawer o amcanion Duw, y rhai ni's gallai efe eu nodi oll.

Adn. 6. *Nid ewyllysiaist*, hyny ydyw, ar eu cyfrif eu hunain; mae yn wir eu bod wedi eu gosod gan Dduw; ond yn gysgod o aberth gwell.—*Agoraist fy nghlustiau*, gwel Exod. 21. 6. Ti a'm gwnaethost yn was i ti dros byth. CLARKE.

Adn. 7. *Yn rhol y llyfr*, neu "yn y llyfr," canys nid yw y gair *rhol* ddim amgen nac enw arall am lyfr, a arferir gyda golwg at arferiad yr Iuddewon o ysgrifenu ar grwyn, y rhai wedi hyny a rolient hwy ar ddwy ffon, a'r ysgrifen yn golofnau ar y croen. PARKHURST, BOOTHROYD.

Adn. 9. *Pregethais gyfiawnder*, arwyddocäad cyffredin y perwydd-air a gyfieithir "pregethu," yw cyhoeddi newyddion da; a'r gair a arferodd y deg a thriugain am dano yw, "efengylu." Yma fe'n hysbysir hefyd pa beth a bregethai ein Harglwydd fel newyddion da, *dy gyfiawnder*, sef trefn Duw i gyfiawnhau pechaduriaid, Rhuf. 3. 21, 22.

Adn. 11. Mae yr hyn a ganlyn yn perthyn i Dafydd, ac yn gwneyd i fynu y drydedd ran o'r Salm ryfedd hon. BOOTHROYD, POOLE.

Adn. 15. *Anrheithir hwy yn wobr am eu gwaradwydd,* neu "Derbyniant yn lle eu gwobr, waradwydd," &c. LOWTH, BOOTHR.

## SALM XLI.

Cyttunir yn lled gyffredin, fod y Salm hon wedi ei hysgrifenu yn amser gwrthryfel Absalom. SCOTT, DELANY.

Adn. 1. *A ystyria wrth y tlawd;*—mae y gair a gyfieithir *ystyried wrth,* yn dynodi barnu yn gywir am, ac ymddwyn yn addas at y tlawd a'r cystuddiedig, 2 Sam. 13. 4. Cymh. Math. 5. 7. a 7. 1.

Adn. 4. *Iachâ fy enaid,* "maddau fy mhechodau, ac adfera fi i'm hiechyd." WELLS.

Adn. 6. *Ac os daw i'm hedrych,* neu, "os daw un o'r gelynion hyn mewn rhith cyfaill i ymweled â mi."

Adn. 9. *Y gwr oedd anwyl genyf,* meddyliai amryw mai Ahitophel a olygai Dafydd yn y darluniad yma, 2 Sam. 15. 23. Mae ein Harglwydd yn cymhwyso yr adnod hon atto ei hunan, Ioan 13. 18.

Adn. 13. Yma y terfyna llyfr cyntaf y Salmau, yn ol y rhaniad a grybwyllwyd yn y rhagymadrodd i Lyfr y Salmau.

## SALM XLII.

Adn. 1, 2. Mae yn amlwg fod awdwr y Salm hon a'r un ganlynol, yn alltudiedig o'r deml, ordinhadau yr hon a hoffai yn fawr, pan y cyfansoddodd y ddwy. Mae yn debyg mai adroddiad o brofiad Dafydd, yn ysbaid yr erledigaeth lèm a fu arno gan Saul ydyw; ond, onis gall fod yn broffwydoliaethol o'r amser y bu raid i'r Iesu ymdeithio yn Galilea, pan oedd blaenoriaid yr Iuddewon yn ceisio ei ladd. Mor rymmus oedd ei gariad at sefydliadau sanctaidd y cyssegr, fel y dywedai, "*Zel* dy dŷ di a'm hysodd i." Mae yr *hŷdd,* neu y gwrryw o'r ceirw yn dyoddef yn dost oddiwrth syched pan yn cael ei hela, yn enwedig mewn gwledydd poethion, fel pan ddelo o hyd i afon, y rhuthra i'r dyfroedd, er tori ei syched, ac achub ei fywyd hefyd os gall.

Adn. 3. *Fy nagrau oedd fwyd i mi,* hyny yw, yr oedd ei ofid ef mor lym-dost, fel y dygai bob dymuniad am fwyd oddiarno.

Adn. 4. *Tywalltwn fy enaid ynof,* yr hyn a ddynoda ond odid, fod y coffäad o'i ddyoddefiadau yn peri i'w enaid ymdoddi mewn gofid, a hyny yn benaf, o herwydd ei fod yn cael ei amddifadu o fwynäad o gymmundeb âg addolwyr Duw.

Adn. 6. *Am hynny y cofiaf di o dir yr Iorddonen,* neu y tir tu hwnt i'r Iorddonen, lle y ffoisai Dafydd —*A'r Hermoniaid,* amryw gribau Hermon, un o'r mynyddoedd mwyaf yn Nghanaan;

yr oedd Mahanaim, lle yr oedd Dafydd y pryd hwn, yn agos i odreuon y mynyddoedd hyn: a thybir yn gyffredin mai mewn cydmariaeth i'r mynyddoedd hyn y mae efe yn galw mynydd Sïon yn *fryn Misar*, neu "fryn bychan." Yr Hermoniaid cribawg, Sïon, a'r Iorddonen, oeddynt y gwrthddrychau mwyaf nodedig yn y Tir Sanctaidd, ac a enwid efallai i gynnrychioli y cwbl. Penderfynai y Salmydd gofio Duw yn mha lannerch bynnag yr ymdeithiai.

Adn. 7. *Dyfnder a eilw ar ddyfnder;*—Yr oedd sefyllfa Dafydd yn dwyn y delweddiad grymmus yma yn dra naturiol i'w feddwl. Efe a ganfyddai y llifeiriaint yn disgyn dros y creigiau diphwys yn y rhaiadrau mawrion, ac a'u clywai yn adseiniaw yn y ceunentydd, fel pe buasai y naill yn galw am gynnorthwy y llall; felly, eb efe, y mae dy holl donnau, sef cystuddiau a thrallodau, yn dyfod arnaf fi, ac yn fy ngorchuddio. BOOTHROYD.

Adn. 11. *Iachawdwriaeth fy ngwyneb*, sef y ffynhonell fawr o'i holl gysuron a'i lawenydd. DAVIDSON.

## SALM XLIII.

Adn. 1. Mae y Salm hon yn un â'r un flaenorol mewn mwy na deg ar hugain o hen gyfysgrifau o'r llyfr sanctaidd hwn.—*Y genhedlaeth annhrugarog*, sef y lluaws a ymunnasant yn ngwrthryfel annaturiol Absalom. BOOTHROYD.

Adn. 3. *Anfon dy oleuni a'th wirionedd*, wrth yr hyn yn ddiau y golygai ryw arwydd pennodol, mai ewyllys Duw oedd, iddo ddychwelyd i Jerusalem, i'r *mynydd sanctaidd*, sef mynydd Sïon, ac i'r tabernacl, a elwir yma pebyll, am ei fod yn gynnwysedig o gyntedd, a chyssegr sancteiddiolaf. Hwyrach fod yma gyfeiriad at yr Urim a'r Thummim, "y goleuni a'r perffeithrwydd," trwy y rhai yr amlygai Duw ei ewyllys i ddynion. Os felly, y mae hon yn weddi am ddatguddiad goruwch-naturiol o ewyllys Duw mewn perthynas i'r amser y gallai efe ddychwelyd i Jerusalem, y ddinas sanctaidd.

## SALM XLIV.

Mae yn dra thebyg fod Dafydd neu ryw broffwyd arall wedi cyfansoddi y Salm hon i fod at wasanaeth y wir eglwys yn mhob oes, pan dan erledigaethau o achos cydwybod. SCOTT, HENRY. Mae y Salm hon yn esampl addysgiadol o ddull arferedig y proffwydi o ddarlunio amgylchiadau yr eglwys Gristionogol mewn iaith fenthyciol oddiwrth yr hanesiaeth Iuddewig. DAVIDSON.

Adn. 3. *A llewyrch dy wyneb*, cyfeiriad at gwmmwl y gogoniant, yr arwydd o bresenoldeb yr Arglwydd, i waredu a bendithio ei bobl.

Adn. 4. *Ti Dduw yw fy Mrenin*, mae yr eglwys fel corff yn llefaru yn y rhif unigol yn aml; ond, e ddichon mai ei Thywysog, yr Eiriolwr mawr, a olygir yn llefaru yma.

Adn. 5. *Ynot ti y cilgwthiwn ni ein gelynion*, cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth anifeiliaid yn gwthio â'u cyrn.

Adn. 9. Oddiyma hyd y diwedd, ymddengys mai y testyn yw erledigaeth y dysgyblion, y rhai a ymddangosent fel pe buasent wedi eu gwrthod gan eu Duw.

Adn. 12. *Gwerthaist dy bobl*, hwyrach fod yma gyfeiriad at freninoedd, y rhai trwy gyngrheiriau neu ryfel a roddent i fynu neu a gollent ryw nifer o'u deiliaid, heb gael gwobrwy cyfattebol mewn tiriogaethau na deiliaid. Fel hyn cymerid cristionogion yn gaethweision, neu eu lleddid, heb fod eraill yn cael eu cyfodi yn eu lle. Dywedir fod Duw yn gwneyd y peth y mae yn goddef ei wneyd yn unig. DAVIDSON, &c.

Adn. 19. *Trigfa dreigiau*, sef lleoedd annghyfaneddol; diffeithfäoedd; gwel Esa. 34. 13, 14. Mae yr ymadrodd yn cynnwys y golyg-ddrych o ddyn wedi ei fwrw i sefyllfa, yn yr hon y'i cylchynir gan bob rhyw grëadur câs, megis erlinyr, &c. SCOTT.

Adn. 22. *Ië er dy fwyn di y'n lleddir beunydd.* Nid am ein heilun-addoliaeth y daeth ein cystuddiau arnom; ond er dy fwyn di. Yma y mae efe yn gweddïo am waredigaeth.

## SALM XLV.

Tybir yn gyffredin i'r Salm hon gael ei chyfansoddi ar yr achlysur o brïodas Solomon â merch Pharaoh; ond y mae rhanau o honi yn annghymwysiadol at yr amgylchiad hwnw, am hyny y tueddid *Esgob* HORSLEY ac eraill i feddwl ei bod yn broffwydoliaethol drwyddi o ail ddyfodiad Crist, a gogoniant yr eglwys yn y mil-flwyddiant;—Y prïod-fab yw y Mesïah buddugoliaethus; y brïod-ferch yw yr holl eglwys yn gyffredinol wedi ei rhyddhau oddiwrth bob erlidiau, a'i gwneyd i fynu o Iuddewon adferedig, a chenhedloedd impiedig; neu ynte, y brïod-ferch yw yr Iuddewon dychweledig, wedi dyfod yn brif eglwys y byd; a llaw-forwynion y brïod-ferch ydynt yr eglwysi eraill.

Adn. 1. *Traetha fy nghalon*, yr oedd ei galon wedi ei gorlenwi â thestyn pwysig; gan hyny, yr oedd efe yn penderfynu traethu yr hyn a gyfansoddasai yn ei feddwl.—*Dywedyd yr ydwyf y pethau a wnaethum i'r brenhin*, neu, "I'r brenin yr ydwyf yn cyflwyno fy ngwaith." DAVIDSON.

Adn. 2. *Teccach ydwyt na meibion dynion;* Mae y Salmydd yn cael golwg ar y brenin trwy ysbryd proffwydoliaeth, ac yn tori allan i'w fawrygu ef yn yr olwg ar ei harddwch.—*Tywalltwyd gras ar dy wefusau*, darluniad rhagorol o'r Arglwydd Iesu, am yr hwn y dywedid na lefarodd dyn erïoed yn gyffelyb iddo ef. BOOTHROYD.

Adn. 3. *Gwregysa dy gleddyf ar dy glun*, hyny ydyw, ymbarottöa i'r frwydr, ac fel rhyfelwr galluog wedi ymarfogi, dos allan i

ddymchwelyd dy elynion. Wrth gleddyf yma y golygir, naill ai cleddyf yr Ysbryd, gair Duw, neu awdurdod Crist a'i allu.

Adn. 4. *O herwydd gwirionedd, a lledneisrwydd.* Yma crybwyllir yr hyn oedd gan y brenin yma mewn golwg wrth fyned allan, sef amddiffyn achos gwirionedd Dwyfol, addfwynder, a chyfiawnder; ei air oedd wirionedd, ei Ysbryd oedd ledneisrwydd, a'i weithrediadau oeddynt gyfiawnder.—*A'th ddeheulaw a ddysg i ti bethau ofnadwy,* neu, "ergydiad dy ddeheulaw ddychryniadau," felly y mae y Messïah trwy ei air a'i Ysbryd yn argyhoeddi dynion o'u pechodau, ac o burdeb Duw, nes y mae yn saethu dychryniadau i gydwybodau dynion, fel Ffelix gynt dan weinidogaeth Paul, Act. 24. 25.

Adn. 8. *Arogl myrr, aloes, a chasia, sydd ar dy holl wisgoedd.* Mae pobl y dwyrain yn dra hoff o beraroglau, ac arferant berarogli eu gwisgoedd yn fawr cyn myned i wleddoedd, neu ar ryw achosion cyhoeddus eraill. Hwyrach fod y gwisgoedd perarogledig hyn, yn gysgodol neu arwydd-luniol o ddylanwadau yr Ysbryd ar y galon a'r fuchedd.—*O'r palasau ifori,* tai wedi eu dodrefnu yn gyfoethog â'r sylwedd drudfawr hwnw; neu, fel nad oedd yr henafiaid yn fanol iawn yn eu gwahaniaethiad o bethau, hwyrach mai tai wedi eu hadeiladu o farmor caboledig, yr hwn sydd yn wŷn a dysglaer fel ifori. HARMER. Gwisgid palasau breninoedd yn yr hen amseroedd âg ifori yn aml, at yr hyn y cyfeiria yr hen feirdd *Homer*, *Horace*, a *Virgil*. BOOTHROYD.

Adn. 9. *Merched breninoedd oedd yn mysg dy bendefigesau.* Darlunir y brenin yn bresenol fel un yn eistedd ar ei orseddfainc, a'i frenines yn sefyll ar ei ddeheulaw wedi ei thrwsio â'r gwisgoedd mwyaf drudfawr, yn cael ei dilyn â'r pendefigesau mwyaf urddasol. E ddichon fod y *merched breninoedd* yma yn dynodi y credinwyr a ychwanegid beunydd at yr eglwys. POOLE. Neu, gellir eu cymhwyso yn llythyrenol at ddychweledigion breninol dan yr efengyl. CLARKE.—Wrth *y frenines*, y golygir yr eglwys Hebrëaidd; ac wrth *ferched breninoedd*, gangenau eglwysig o fysg y cenhedloedd. HORSLEY. POOLE a farnai mai yr eglwys yn gyffredinol a olygid wrth y frenines; ac yn gyffelyb y golygai SCOTT hefyd.

Adn. 10. *Gwrando ferch;*—Yma y dechreua cyfarchiad cyfeillesau y brïod-ferch i'r frenines, wedi cyfarch y prïod-fab yn yr adnodau blaenorol. CLARKE.—*Anghofia dy bobl dy hun, a thŷ dy dad,* galwad ar yr eglwys Iuddewig i adael ei hen ddefodau, &c. HORSLEY. Yn hytrach, galwad yw y geiriau ar y cenhedloedd i ymwrthod â'u harferion eilun-addolgar, a chofleidio Crist. DR. CLARKE. Mae yr alwad yma yn hynod gymhwys at bawb, Iuddewon a Chenhedloedd, a ddelont at Grist. BOOTHROYD.—*Efe yw dy Iôr di,* neu dy Arglwydd di. Gan dy fod wedi dyfod atto ef drwy ffydd, cofia mai efe yw dy Ben i reoli arnat, i arlwy

erot, ac i'th amddiffyn. Gan hyny ufuddhâ dithau iddo ef, ac anrhydedda ef o'r galon.

Adn. 12. *Merch Tyrus hefyd fydd yno.* Dyma broffwydoliaeth am ddychweliad y Tyriaid, a'u derbyniad i fewn i'r eglwys efengylaidd, ac y mae yn beth teilwng o sylw fod torfëydd o'r Tyriaid yn cyrchu i wrandaw Crist, Marc 3. 7. Ac y mae yr Arglwydd Iesu oddiar eu parodrwydd i wrandaw arno a'i ddilyn ef, yn ymliw â'r Iuddewon am eu hannghrediniaeth hwy, Matt. 11. 20, 21. Act. 21. 3—5. Hwyrach fod Tyrus, y ddinas fasnachol fwyaf yn y byd y pryd hyny, yn cael ei henwi i gynnrychioli yr holl deyrnasoedd arforawl, gan gynnwys yr Ynysoedd Prydeinaidd.—*A chyfoethogion y bobl,* yr amherodraethau mwyaf galluog a goludog. A. CLARKE.

Adn. 13. *Merch y brenin,* yr un a'r frenines,—*sydd oll yn ogoneddus o fewn,* ei meddwl a'i henaid; wedi ei haddurno â doniau ysbrydol. POOLE. Nid yw y geiryn a gyfieithir "O fewn," yma, byth yn golygu y galon neu y meddwl, medd y dysgedig BOOTHROYD, ac am hyny efe a dderllyn y testyn fel hyn,—"Oll ogoneddus yw y frenines yn ei hystafell: ei gwisg sydd emwaith aur." Prin y gwelir y breninesau Asiaidd yn gyhoeddus un amser, y maent hwy yn aros yn yr harem (llŷs y breninesau) mewn moethau a gwychder, a hwyrach fod cyfeiriad at hyny yn y geiriau hyn. A. CLARKE.

Adn. 14, 15. Yma cyfeirir at yr orymdaith rwysgfawr a arferid cyn y wledd, neu berffeithiad y brïodas. Dygir yr eglwys i bresenoldeb y prïod-fab, a'r undeb agosaf atto ef; a'i gwŷryfon a fyddant yn gyfeillesau iddi, sef y dychweledigion ieuainc, a gânt ei dilyn â llawenydd ac â chân. Addewid yw y geiriau hyn am fwynhad helaeth iawn i'r eglwys o bresenoldeb ei Harglwydd, yr hyn a gyflawnir mewn rhan ar y ddaiar, yn amser y llwyddiant mawr sydd yn aros teyrnas Emanuel: ond yn berffaith yn y nef, lle y dygir pob un o'r gwaredigion i fwynhau tragywyddol gymmundeb â'u Gwaredwr gogoneddus.

Adn. 16. *Dy feibion fydd yn lle dy dadau.* Yma mae y proffwyd eto yn cyfarch y Messïah, gan dystiolaethu y byddai iddo, yn lle ei dadau Iuddewig, o'r rhai yr honai yn ol y cnawd, a chan y rhai y'i gwrthodid, feddu meibion, sef had ysbrydol, y rhai a wna efe *yn dywysogion.* Gellir dëall hyn yn llythyrenol, y byddai i lawer o dywysogion gredu yr efengyl; neu, e ddichon eu bod yn cael eu galw felly, fel y gelwid Jacob gynt, oblegid eu hurddas ysbrydol, a'u gallu gyda Duw. BOOTHROYD.

Adn. 17. *Paraf,* neu yn ol amryw o'r hen gyfysgrifau, "Parant" *gofio dy enw;* os felly, y golygiad yw y byddai i'r meibion, y rhai a wneid yn dywysogion, gyhoeddi enw y Mesïah gyd a'r fath lwyddiant, fel y byddai i'r *bobl,* neu y bobloedd, sef yr holl genhedloedd, ei folíannu ef yn dragywyddol. DAVIDSON.

## SALM XLVI.

Hwyrach i'r Salm hon gael ei chyfansoddi yn amser teyrnasiad Jehosaphat, gwel 2 Cron. 20. ROSENMULLER.—Ysgrifenwyd hi gan hiliogaeth Corah ar eu dychweliad o gaethiwed Babilon. CALMET.—Ar yr achlysur o ddaiargryn a fu y noswaith y dinystr-iwyd byddin Senacherib. HOUBIGANT.—Mae yn debyg mai proffwydoliaeth am yr eglwys yn amserau yr efengyl ydyw, ac y mae yn gweddu i unrhyw adeg o gyfyngder a dyryswch. GILL. Dywedir am Luther, pan glywai ryw newyddion di galon, yr arferai ddywedyd, Deuwch, canwn y chweched Salm a deugain. HENRY.

Adn. 1—3. Yr adnodau hyn a gynnwysant y broffes amlycaf o'r hyder cryfaf yn Nuw, fel un galluog ac ewyllysgar i weinyddu cymmhorth yn y cyfyngderau mwyaf, y cynhyrfiadau a'r cyff-roadau mwyaf ar y byd.

Adn. 4. *Y mae afon, &c.*, naill ai Cedron, yr hon a lifeiriai heibio i Jerusalem; neu ddyfroedd Silöam, y rhai a ddylifent trwy y ddinas yn wahanol ffrydiau, gan weinyddu at lawenydd a dyddanwch ei thrigolion. GILL. Yn hytrach, cyfeirir yma at Gihon, yr hon oedd yn ffynnon gref ar y tu gorllewinol i Jerusal-em, o'r hon y gwnaed ffordd dàn-ddaiarol i gludo y dwfr oddi tan y bryniau ar y tu gorllewinol i ddinas Dafydd, gan y brenin Hezeciah; o'r ffynnon yma dygid ffrwd barhaus o ddwfr i'r deml, ac i lynoedd y ddinas, er llawenhau y trigolion trwy ei wasanaeth iachusol. Dylid dëall y geiriau yn allegawl am yr efengyl, y dyfroedd bywiol a aethant allan o Jerusalem, neu yr Ysbryd a'i rasusau, yr hwn a gydmerir i ffynnon ac afonydd o ddwfr bywiol; neu yn hytrach, cariad tragywyddol Duw, gwel Salm 36. 8. Ezec. 47. 5. Dat. 22. 1. GILL. Lled debyg hefyd yw golygiad SCOTT, WILLIAMS.

Adn. 6. *Toddodd y ddaear*, y beirdd Hebreig a ddarluniant effaith ofn trwy yr ymadrodd yma, "toddi," yn gyffelyb y dywed-wn ninnau fod un yn toddi gan ofid. HEWLETT.

Adn. 9. *Efe a lŷsg y cerbydau*, cyfeiriad at arferiad y cenhedl-oedd paganaidd, o losgi arfau y sawl a orchfygasant mewn rhyfel, er anrhydedd i'w duwiau, ac fel arwydd o heddwch. LOWTH.

Adn. 10. *Peidiwch, &c.* Yma mae yr Arglwydd yn gorch-ymyn i'r cenhedloedd beidio â'u gwrthwynebiad, a chydnabod ei benarglwyddiaeth ef. *Esgob* HORNE.

## SALM. XLVII.

Adn. 1. *Curwch ddwylaw*, arwyddion o gymeradwyaeth a llawenydd, a arferid ar goroniad breninoedd, 2 Bren. 11. 12. Salm 98. 8. Yn y geiriau hyn yr oedd y Salmydd mewn ysbryd proff-wydoliaeth, yn gwahodd cenhedloedd y ddaiar i foliannu yr Ar-glwydd. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Efe a ddethol*, neu "a ddetholodd dir da Canaan i fod yn etifeddiaeth i ni." WELLS.—*Ardderchawgrwydd Jacob*, neu, "randir ardderchog Jacob," sef tir Canaan, a'r deml, yr holl ragorfreintiau tymhorol ac ysbrydol a fwynhai meibion Jacob. Ezec. 24. 21. Amos 6. 8. BOOTHROYD.

Adn. 5—7. *Dyrchafodd Duw â llawen floedd*, amlygiad cyhoeddus o'i fod wedi gorchfygu ei elynion. Cyfeiriad, debygid, at fuddugoliaethwr yn myned i'r brif ddinas mewn gorfoledd rhwysgfawr; cymh. Salm 68. 16, 17. 1 Sam. 18. 6.

Adn. 9. Yn yr adnod hon darlunir tywysogion y ddaiar, neu freninoedd y cenhedloedd, yn ymuno â'r eglwys, ac, yn nghyd a'u deiliaid, yn dyfod trwy ffydd yn bobl i Dduw Abraham.—HORNE.

## SALM XLVIII.

Yr achlysur o gyfansoddi y Salm hon oedd cydfradwriaeth Resin a Phecah, Esa. 7. 1. MUDGE.—Goresgyniad Jerusalem gan yr Ammoniaid, &c., yn nheyrnasiad Jehosaphat, 2 Cron. 20. DATHE. Cyfansoddwyd hi yn nheyrnasiad Uzzia, oblegid fod amddiffynfeydd Jerusalem wedi eu cadarnhau yn fawr yn ystod ei deyrnasiad ef, 2 Cron. 26. HORSLEY. Hi a gyfansoddwyd ar ddychweliad Israel o'r caethiwed. CLARKE. Perthyna i amser y Messïah, a gesyd allan ei fawredd ef, &c. KIMCHI.

Adn. 2. *Llawenydd yr holl ddaear*, holl dir Judah y pryd hyny, a'r holl ddaiar wedi hyny; canys yr oedd y gyfraith i fyned allan o Sïon. *Esgob* NICHOLSON.—*Yn ystlysau y gogledd*, yr oedd y ddinas gan mwyaf ar ystlys ogleddol mynydd Sïon. BOOTHROYD.

Adn. 3. Mae yn y geiriau hyn gyfeiriad at gadernid Jerusalem, yr hon a ystyrid gan y dinasyddion yn annoresgynadwy. Ond yr Arglwydd yn unig oedd ei hamddiffyn sicr, fel y cawsant hwy weled ar ol hyn. A phwy ond efe a allai gadw yr eglwys gristionogol hyd yn hyn, ac a ddichon ei chadw eto? DAVIDSON.

Adn. 4—7. Yn y geiriau hyn darlunir gwaredigaeth annysgwyliadwy yr eglwys o ryw gyfyngder dirfawr, drwy y darluniad o fyddin fawr, a llynges gref, yn amcanu goresgyn y wlad, yn cael eu taraw â braw ar yr olygfa ar brif ddinas y wlad, ac yn ffoi yn eu dychryn, ond y demhestl fawr wedi dinystrio eu llongau, maent yn syrthio yn ysglyfaeth i'r trigolion, gwlad y rhai yr amcanent ei goresgyn. Nid oes un amgylchiad tebyg i hwn wedi ei groniclo yn hanesyddiaeth ysgrythyrol yr Israeliaid, canys ni ddaeth gallu morawl yn eu herbyn erïoed. Ac e ddichon nad yw y broffwydoliaeth wedi ei chyflawni yn yr eglwys gristionogol eto.

Adn. 9. *Meddyliasom, O Dduw*, neu, dysgwyliasom yn dawel. DAVIDSON.

## SALM XLIX.

Adn. 2. *Yn gystal gwreng a bonheddig.* Cyfarchai yr Awdwr ddynolryw, yn gyffredinol, ac yna crybwyllai wahanol raddau yn y gymdeithas ddynol; gan fod ganddo addysg i'r cyfoethog i beidio ymddiried yn eu cyfoeth, ac i'r tlawd i beidio bod yn anfoddog am na's meddent gyfoeth; gwel Salm 4. 2. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Gostyngaf fy nghlust at ddiareb,* neu at y gân, yr hyn yw ystyr y gair yma. BOOTHROYD. Os oedd y Salmydd yn personoli y Messïah wrth lefaru yma, yna gellir golygu y pethau canlynol fel esampl o'r hyn a ddysgai efe fel Proffwyd i'w eglwys. DAVIDSON.

Adn. 5. *Pan y'm hamgylchyno anwiredd fy sodlau,* neu "fy nisodlwyr," hyny yw, drygioni y rhai hyny a geisient ei ddystrywio trwy eu dichell anwireddus, fel y gallent hwy fwynhau ei etifeddiaeth ef; gwel Luc 20. 14.

Adn. 8. *Canys gwerthfawr yw pryniad eu henaid, a hyny a baid byth,* neu, "Canys y mae pwrcas pryniad ei fywyd mor fawr, fel y rhoddai y cynnygiad i fynu dros byth." BOOTHROYD.

Adn. 10. *Canys efe a wel,* mae yn amlwg i bawb nad oes na gradd na sefyllfa yn rhydd oddiwrth arglwyddiaeth angau.

Adn. 11. *Eu meddwl yw y pery eu tai, &c.* Mae BOOTHROYD yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth y cyfieithiad arferedig ar y geiriau hyn, gan ddadleu awdurdod lluaws o hen gyfieithiadau dros ei ddarlleniad;—"Eu bedd yw eu tŷ yn dragywydd, a'u trigfa trwy bob cenhedlaeth; er bod eu henwau wedi eu rhoddi ar wledydd."

Adn. 12. *Er hyny,* neu "canys" *dyn mewn anrhydedd nid erys, tebyg yw i anifeiliaid a ddifethir.* Mae y rhan olaf o'r adnod yn egluro meddwl y Salmydd, nid yw dynion mewn anrhydedd ond byr hoedlog, a thorrir hwynt ymaith yn aml fel anifeiliaid.

Adn. 14. *Fel defaid y gosodir hwynt yn uffern.* Fel y gyrrir defaid i'r lladdfa, y rhaid iddynt hwythau ddyfod yn ysglyfaeth i angau, a myned yn finteioedd i'r bedd; caiff y cyfiawn fuddugoliaeth ar forau gogoneddus yr adgyfodiad, a'u tegwch gwywedig a dreulir yn nhrigfa ddystaw y bedd. TRAVELL.

Adn. 15. *Eto Duw a wared fy enaid i o feddiant uffern,* hyny yw, "Myfi a gâf adgyfodiad oddiwrth y meirw, a mynedfa i'w ogoniant ef." A. CLARKE.

Adn. 18. *Canmolant dithau, o byddi da wrthyt dy hun,* neu, "Ac efe a ganmolid tra yr oedd yn dda arno ef." BOOTHROYD.

Adn. 20. *Ac heb ddeall,* hyny yw, heb ddeall ysbrydol; yr hwn a ofala am y bywyd hwn yn unig, ac a esgeulusa yr un a ddaw, mae yn gyffelyb yn ei drafferthion a'i bleserau i'r anifeiliaid.

## SALM L.

Adn. 1. Cynnwysa y geiriau ddarluniad o alwad y Goruchaf ar holl ddynolryw i wrando ei apeliad, yr hwn oedd i gael ei wneuthur gyda mawrhydi ofnadwy ar Sïon, megis o'r blaen ar Sinai. LOWTH. Tybir mai proffwydoliaeth am lwyddiant yr efengyl yn oesoedd cyntaf cristionogaeth, a'r amlygiad o gyfiawnder Dwyfol yn nghosbedigaeth y genedl Iuddewig, yw y Salm hon. DAVIDSON.

Adn. 2. *Allan o Sion, perffeithrwydd tegwch*, neu, "Perffeithrwydd tegwch Duw (yr hwn yw Crist) a lewyrchodd o Sïon." DE DIEU, HORSLEY.

Adn. 3. Er y fath amlygiad rhyfeddol a wnaeth efe o'i gariad trwy anfon ei Fab at yr Iuddewon, dangosir yma na byddai iddo ef gyd ddwyn â'u hanedifeirwch byth: gan mai yr un Duw oedd efe ag a ymddangosodd mewn mawredd ar Sinai. DAVIDSON.

Adn. 4. *Nefoedd a daear*, sef trigolion nefoedd a daiar, angelion a dynion, fel ei dystion. POOLE.—*Ei bobl*, sef y genedl Iuddewig, ei bobl broffesedig, am y rhai y sonia Pedr, 1 Pedr 4. 17. GILL.

Adn. 5. Gwel Nod. ar Gen. 6. 18.—*Cesglwch*, neu "casgler" *fy saint*, mae yn debyg fod yr enw *saint* yn cael ei roddi ar yr holl Israeliaid yma, gwel Deut. 14. 2. a 33. 3.—*Y rhai a wnaethant gyfammod â mi trwy aberth;* yn mhersonau eu tadau wrth Horeb, Exod. 24. 4—8, ac i'r hwn y cydsyniadasant hwythau trwy ymostwng i'r ordinhadau a gadarnheir trwy y cyfammod hwnw. BOOTHROYD. Yr oedd yr holl rai a sancteiddiasid trwy gredíniaeth o'r gwirionedd, neu y cyfammod tragywyddol, i gael eu cynnull ger bron Duw, i fwynhau ei amddiffyniad ef pan fyddai efe yn gweinyddu ei farnedigaethau ar ragrithwyr ac annghredinwyr: gwel Luc 21. 20. DAVIDSON.

Adn. 7—12. Ni roddai Crist na'i apostolion un cwyn yn erbyn yr Iuddewon, eu bod yn esgeulus o gyfraith Moses; ond mae yr iaith yma yn rhoddi amnaid cryf mai rhyw aberth tra gwahanol oedd yr un a fyddai yn gymeradwy er cadarnäad o'r cyfammod, gan nad oedd gwaed yr anifeiliaid ond llwyr ddiwerth yn ei olwg ef. DAVIDSON. Nid yw Duw yn eu ceryddu am gyflwyno yr aberthau oeddynt orchymynedig; ond dylent ddëall nad oedd arno ef ddim o'u hangen, neu nad oeddynt yn ei roddi ef dan unrhyw rwymedigaeth. BOOTHROYD.

Adn. 14, 15. Y meddwl yw, Byddwch ddïolchgar am y doniau a gawsoch; talwch eich addunedau, neu, cyflwynwch eich hunain a'ch eiddo yn wirfoddol a llawen i'm gwasanaeth, ac addolwch fi mewn gwirionedd. Gwel Nod. ar Preg. 5. 4—6.

Adn. 16—22. Nid oes dim sicrach i dynu gŵg y Goruchaf ar ddynion, na phroffes o ymlyniad wrth wasanaeth Duw, neu ffydd yn Nghrist, tra yn parhau i'w caru eu hunain, a'r byd presenol, ac yn weision anufudd-dod, cymh. Rhuf. 2. 17—24.—*Hyn a*

*wnaethost, a mi a dewais;* neu, "Ac a dawwn ni?" Mae Duw yn apelio at gydwybodau y cyfryw bechaduriaid, a fuasai yn weddus iddo ef roddi achlysur iddynt hwy i feddwl ei fod ef yn gyffelyb iddynt hwy, ac yn cymeradwyo eu hymddygiadau. BOOTHROYD.

## SALM LI.

Adn. 1. Mae y Salm hon yn cyfatteb mor gyson â'r hanes am gwymp Dafydd a'i adferiad, yr hwn a gawn ni yn 2 Sam. 11, a 12, fel nad rhaid i neb betruso nad hyny yw testyn y weddi wir edifeiriol hon.

Adn. 4. *Yn dy erbyn di, dydi dy hunan y pechais,* tueddwyd rhai Beirniaid oddiwrth yr ymadrodd yma i farnu na's gallai mai Dafydd oedd y llefarydd, gan ei fod ef wedi pechu yn ddirfawr yn erbyn dyn. Ond y mae yr wrthddadl yna yn hynod o wael, gan na's gall y geiriau olygu nad oedd y pechod yn erbyn dyn; llofruddiaeth oedd y camwedd, fel y mae yn amlwg oddiwrth adn. 14. Mae y dïanrhydedd a deflir ar Dduw trwy droseddau ei gyfraith berffaith, yn ddrwg mor arswydus, ac yn tueddu i gynnyrchu y fath ganlyniadau ofnadwy ar gyflwr moesol crëaduriaid rhesymol, fel y mae yn taflu effeithiau union-gyrchol camwedd yn erbyn cyd greädur dan lèn mewn cydmariaeth iddo. Gan hyny nid yw yn rhyfedd yn y byd fod Dafydd, wedi deffroi ei feddwl i ystyriaeth fywiog o'i euogrwydd personol, yn gweiddi, *Yn dy erbyn di, dydi dy hunan y pechais.*

Adn. 5. *Wele mewn anwiredd y'm lluniwyd.* Mae efe yn addef ei fod nid yn unig wedi ei eni mewn sefyllfa ddarostyngedig i gyflawni anwiredd; ond wedi ei genhedlu yn y sefyllfa hono hefyd; yn amddifad o burdeb ac uniondeb gwreiddiol: a chrybwyllir hyn, nid fel esgus dros ei bechod, ond fel yr achos neu y ffynnon fawr, o'r hon y tarddai yr holl ffrydiau o gyflawniadau pechadurus. BOOTHROYD, HORNE.

Adn. 6. "Wele, ceraist wirionedd yn y rhanau tufewnol! Felly, yn y rhan guddiedig (neu y meddwl) y dysgi ddoethineb i mi." BOOTHROYD.

Adn. 7. Yr oedd y Salmydd yn ei gyffelybu ei hun yn ei aflendid moesol i'r gwahan-glwyfus yn ei aflendid seremonïol, a chan gyfeirio at y dull seremonïol a arferid i buro y gwahan-gleifion, mae efe yn atolygu ar i Dduw ei buro yntau trwy daenelliad o waed Crist, y sylwedd mawr a gysgodid yn y puredigaethau Lefiaidd. Gwel Lef. 14. 6, 7. a 49. 52. Num. 19. 6, 8. Heb. 9. 13, 14. BOOTHROYD, GILL.

Adn. 10—12. Nid all yr hwn a fyddo yn gydwybodol o'i fod wedi pechu yn fwriadol yn erbyn Duw, pa beth bynnag fyddo ei gyflwr o'i flaen ef, neu pa beth bynnag a allasai fod ei brofiad blaenorol, lai na'i ystyried ei hunan yn hollol anmhur, pan y'i dysgir gan Dduw; ac o ganlyniad, ni's gall lai na gweddïo yn

gyffelyb i'r Salmydd, mewn iaith a wedda i bechadur argyhoedd-edig yn hytrach nac i gristion cyson, yr hwn a ddïolcha am ras adnewyddol, ac a ddymuna beunydd am gael ei adnewyddu fwy fwy.

Adn. 13. *Yna y dysgaf dy ffyrdd i rai anwir;*—Ni's gall neb gyflawni y swydd yma yn gymhwys heb i'w enaid gael ei adferu a'i fywiocâu gan yr Ysbryd Glân.

Adn. 14. *Gwared fi oddiwrth waed,* neu "oddiwrth euogrwydd gwaed." BOOTHROYD. Hwyrach fod yma gyfeiriad at y ddinas noddfa; nid oedd ymguddfa a nawdd i Dafydd i'w gael yn yr un o'r rhei'ny, canys nid yn amryfus y bu ei drosedd ef. Duw yn unig a allai fod yn noddfa iddo ef. DAVIDSON.

Adn. 15. *Agor fy ngwefusau,* cynnwysai y dymuniad yma gael symmud ymaith yr euogrwydd, a maddeu y pechodau. Mae euogrwydd yn cau y genau, a maddeuant yn rhoddi hyfdra mewn un i nesâu at Dduw; gwel Rhuf. 3. 19. Heb. 4. 16.

Adn. 16. *Canys ni chwennychi aberth,* hyny yw, dros y camwedd a gyflawnais I; canys nid oedd aberth wedi ei drefnu yn y ddeddf seremonïol dros y pechod o lofruddiaeth.

## SALM LII.

Adn. 1. Wrth y *cadarn* yma y golygir yn fwyaf cyffredin Döeg, yr hwn oedd yn un o elynion chwerwaf Dafydd, ac yn euog o ysgelerder mawr, gwel 1 Sam. 21. 1—7. a 22. 9—23. Esboniai *Esgob* HORNE y Salm hon fel proffwydoliaeth, ac wrth y cadarn yma y barnai efe y golygid y brenin Herod. Ond, y mae un dyn mewn proffwydoliaeth yn aml yn cynnrychioli lluaws o rai hynodol am eu cyffelybrwydd mewn syniadau, tueddiadau, ac ymddygiadau. DAVIDSON.

Adn. 2. *Yn gwneuthur twyll,* yn troi yn llaw yr hwn a'i harfero, ac felly yn lle bod yn ddefnyddiol, yn dwyn y bywyd ymaith.

Adn. 4. *Geiriau dystryw,* y cyfryw ag ydynt yn niweidiol ynddynt eu hunain, a thrwy y rhai y gall y diniwed gael ei ddystrywio. ROSENMULLER.

Adn. 6. *Ac a chwarddant am ei ben.* Nid fel pe byddent yn llawenychu yn nïaledd Duw fel y cyfryw; ond fel y mae yn ddynodawl o ofal Duw am danynt. GILL.

Adn. 8. *Ond myfi sydd,* yn hytrach, "myfi a fyddaf," *fel olewwydden werdd,* mewn llwyddiant sefydlog yn nhŷ Dduw, pan fyddant hwy wedi eu dinystrio.

## SALM LIII.

Edryched y darllenydd Nodau ar Salm 14, o'r hon y meddylir iddi gael ei chymeryd gan rai o'r proffwydi diweddarach, a'i chymhwyso at ryw achlysur arall. THOMAS WILLIAMS.

## SALM LIV.

Adn. 1. Tybir ddarfod i Dafydd ysgrifenu y Salm hon pan addawai y Siphiaid ei draddodi i Saul; gwel 1 Sam. 23. 10—29. Ond, pa beth bynnag a fu yr achlysur o'i chyfansoddi, a phwy bynnag oedd yr awdwr, efe a allai fod yn llefaru yn mherson y Messïah, ac felly gellir ei golygu fel proffwydoliaeth. DAVIDSON.

Adn. 3. *Canys dieithriaid*, neu "y beilchion," mae BOOTHROYD yn dadleu yn gadarn dros y darlleniad yma, ac nid yw yn hawdd deall yn mha ystyr y gellid galw y Siphiaid yn ddieithriaid.

Adn. 4. *Yr Arglwydd sydd yn mysg y rhai a gynhaliant fy enaid*, neu, yn hytrach, "Yr Arglwydd yw cynhalydd fy mywyd." BOOTHROYD.

Adn. 5. *Torr hwynt ymaith*, neu, "torri hwynt ymaith" *yn dy wirionedd*, neu ei ffyddlondeb i'w addewidion. DAVIDSON.

Adn. 7. *A'm llygad a welodd ei ewyllys ar fy ngelynion;* neu, "A'm llygad a edrychodd ar fy ngelynion;" hyny yw, yr oedd efe yn alluog i'w cyfarfod heb arswyd.

## SALM LV.

Yr achlysur o gyfansoddi y Salm hon oedd erledigaeth Saul neu wrthryfel Absalom, yr olaf mae yn debyg.

Adn. 2. *Cwynfan yr ydwyf yn fy ngweddi, a thuchan.* Darlunia ei hun fel un wedi ei fwrw i lawr gan ddigalondid, a'i feddwl, mewn cyffröad mawr fel tònau y môr.

Adn. 3. *Y maent yn bwrw anwiredd arnaf*, neu yn fwy llythyrenol, "y maent yn llithro anwiredd arnaf;" "Cyhuddant fi o gamweddau ofnadwy."

Adn. 4. *Ofn angau a syrthiodd arnaf*, hyny yw, "fe'm dygwyd i fin dystryw."

Adn. 6—8. Dyma gydmariaeth ragorol o brydferth, ac ni's gall darllenydd ystyriol ei darllen heb deimlo grym ynddi; mae efe yn ei gyffelybu ei hun i golomen yn dianc oddiwrth yr adarwr i geisio diogelwch yn yr anialwch.

Adn. 15. *Rhuthred marwolaeth*, neu, "Marwolaeth a'u deil yn ddisymmwth. BOOTHROYD.

Adn. 17. *Hwyr a bore, a hanner dydd, y gweddiaf a byddaf daer.* —*Hwyr*, amser yr offrwm prydnhawnol, sef y nawfed awr, gwel Sal. 141. 2. Act. 3. 1. a 10. 20.—*Boreu*, pryd yr offrwm borëuol, sef y drydedd awr o'r dydd, Act. 2. 1, 15.—*Hanner dydd*, y chweched awr o'r dydd; gwel Act. 10. 9. Rhenid y diwrnod Iuddewig i ddeuddeng awr, gan ddechreu am chwech yn y boreu; a rhenid ef yn bedwar dosbarth;—y cyntaf o 6 hyd 9, yr hon a elwid y drydedd awr; yr ail o 9 hyd 12, yr hon a elwid y chweched awr; y trydydd dosbarth o 12 hyd 3 yn y prydnhawn, yr hon a elwid y nawfed awr; a'r pedwerydd dosbarth o 3 hyd 6 y nos, a elwid yr unfed awr a'r ddeg. TAYLOR'S *Calmet*.

Adn. 22. *Bwrw dy faich ar yr Arglwydd,* cyfeiriad at y dull a arferid o fwrw baich ar y camel. GILL.

## SALM LVI.

Adn. 1. *Canys dyn,* hyny yw, dynolryw yn gyffredinol,—*a'm llyngcai,* darluniad tra grymmus o ddinystr trwyadl, cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth wylltfilod yn difa eu hysglyfaeth, hwyrach. Mae yn ddiau fod y Salm hon yn gweddu yn fwy i Grist a'i eglwys, nac i amgylchiadau Dafydd, yr hwn oedd yn anwyl-ddyn y bobl yn wastadol.

Adn. 5. *Beunydd y camgymerant fy ngeiriau,* y dirdynant fy ngeiriau, gan roddi cam olygiad arnynt.

Adn. 8. Mae pob ymadrodd yn gosod allan mewn modd tra grymmus, gariad Duw at y llefarydd. Efe a gofiai ei holl loches-au, a'r erledigaethau a barai ei symmudiadau; efe a gadwai ei ddagrau yn ofalus fel y cedwid gwin a dwfr mewn gwlad sychedig; a'u cofnodi yn ei gof-lyfr.

Adn. 12. *Arnaf fi, O Dduw;* neu, "Gwneuthum addunedau i ti O Dduw; ac i ti â moliannau y'u talaf." BOOTHROYD.

## SALM LVII.

Adn. 1. Mae y Salm hon yn hynod o gwynfannus yn y chwe adnod gyntaf, ac ar ol hyny mae y Salmydd yn ymorfoleddu yn y sicräad o ffafr Ddwyfol.

Adn. 2. *Galwaf ar Dduw Goruchaf,* yn erbyn yr hwn ni's gall gallu dynol na diafliaidd ffynu.—*Ar Dduw a gwblhâ â mi,* trwy gyflawni ei addewidion i mi yn fy nghynnaliaeth, gwel Salm 138. 8. BOOTHROYD.

Adn. 3. *Denfyn Duw ei drugaredd a'i wirionedd,* hyny yw, efe a enfyn gymmhorth, ac a drefna amgylchiadau yn y fath fodd, fel yn lle i Saul ddwyn ei fywyd ef, y cäai efe gyfleusdra i ddwyn ei fywyd ef.

Adn. 4. *Fy enaid sydd yn mysg llewod,* hyny yw, mae fy mywyd yn mysg dynion creulon fel llewod gwancus, y rhai ydynt yn llosgi gan gynddaredd fel ffwrn.

Adn. 6. Mae un o'r cyffelybiaethau mwyaf cyffredin o ddichellion dinystriol dynion wedi ei ddefnyddio oddiwrth arferion yr heliwr.

## SALM LVIII.

Meddylia rhai fod y Salm hon wedi ei chyfansoddi pan ddyfarnodd Saul yr offeiriaid i'w lladd, 1 Sam. 22. BOOTHROYD Eraill, fod Saul wedi cynnull ei gynghorwyr yn nghyd, y rhai a ddyfarnent Dafydd yn euog o fradwriaeth. PATRICK, GREEN.

Adn. 2. Mae BOOTHROYD yn dadleu fod y ddau berwydd-air wedi eu cam gyfleu yn y geiriau hyn ryw bryd: canys y mae gweithredu â'r galon a llunio neu drefnu â'r dwylaw, yn dra annaturiol, am hyny y cyfieitha efe y geiriau fel hyn, "Yn ddiau,

yn y galon, llunio anwiredd yr ydych; a'ch dwylaw a weithredant drais yn y tir."

Adn. 4. *Y maent fel y neidr fyddar.* Dywedir yma fod eu gwenwyn neu eu malais tufewnol fel yr eiddo y sarff, neu y neidr fyddar, gwel Diar. 26. 13. Mae math o sarff y credir am dani yn gyffredin ei bod yn fyddar; ac y mae ei brathiad yn farwol mewn ychydig fynydau; ac ni chilia er dim o'r ffordd. COBBIN.

Adn. 5. *Ni wrendy ar lais y rhinwyr*, mae yn sicr fod yn yr Aipht ac India ddynion yn feddiannol ar y gelfyddyd o swyno seirff, neu eu gwneuthur yn ddiniwed, a chael ganddynt fyned trwy amryfal ysgogiadau ac ystumiau wrth eu hewyllys.

Adn. 6. *Dryllia, O Dduw, eu dannedd yn eu geneuau.* Mae yr holl dylwyth sarffaidd yn clwyfo â'u dannedd, ac yn dystyllio eu gwenwyn o goden fechan i'r clwyf a wnaethant. Gan hyny, wrth dori eu dannedd, y golygid eu hamddifadu o'r gallu i wneyd niwed.

Adn. 7. *Byddant megis wedi eu torri*, pan yn dyfeisio drygioni, ac yn ergydio geiriau chwerwon, bydded fel pe byddai llinyn ei fwa, a'i holl saethau wedi eu tori yn ddarnau. Darlunir diddymder ymdrechiadau dynol yn erbyn cynghorion Dwyfol, drwy saeth ddrylliedig, yr hon yn lle cyrhaedd y nôd, a gwymp yn annefnyddiol wrth draed yr ergydiwr. GILL, MANT.

Adn. 9. *Cyn i'ch crochanau glywed y mieri,*

> "Tyn hwynt ymaith yn dy ddig,
> Cyn twymnai cig mewn crochan."——ED. PRYS.

—*Megis â chorwynt*, mae corwyntoedd yr anialwch yn dra grymmus un o honynt a ysgubai gamel, ac a'i taflai yn mhell, fel y torrid tair o'i asenau. BRUCE.

Adn. 10. *Efe a ylch ei draed yn ngwaed yr annuwiol*, hyny yw, "efe a fathr y ddaiar lle y tywalltwyd eu gwaed. Mae dinystr y drygionus yn achlysur o lawenydd i'r cyfiawn, fel y mae yn arddangosiad o ragluniaeth gyfiawn Duw.

## SALM LIX.

Hwyrach i'r Salm hon gael ei chyfansoddi ar yr achlysur o ruthriad yr Assyriad i'r tir yn amser Hezeciah. MUDGE. Efallai ei hysgrifenu gan Nehemiah. CALMET; a'i chyfansoddi ar yr achlysur o wrthwynebiad Sanbalat. CLARKE.

Adn. 6. *Dychweient gyd a'r hwyr, &c.* Maent fel lladron ac yspeilwyr, neu fwystfilod rheibus, yn defnyddio pob cyfleusdra i wneyd drygioni. Fel cwn gwancus heb fod neb a'u porthai, yn crwydro i bob man am eu hysglyfaeth. Mae y Dwyreinwyr yn gadael eu cwn i ymdaraw am eu tammaid eu hunain, heb ofalu dim yn eu cylch.

Adn. 9. *O herwydd ei nerth ef*, neu "O fy nerth." BOOTHROYD.

Adn. 11. *Na ladd hwynt*, hyny yw, na lwyr ddinystria hwynt, rhag i'm pobl annghofio, ond gadawer hwynt yn gof-arwyddion o'th ddigofaint. TRAVELL.—Mae y geiriau o adn. 11—15, yn broffwydoliaethol; pe llwyr ddiwreiddiasid yr Israeliaid, neu eu cydgorffori â chenhedloedd eraill, buasai eu camwedd a'u cosb yn cael eu hannghofio yn fuan; ond y mae eu paräad fel pobl neillduedig oddiwrth y byd, er eu bod yn wasgaredig trwy y byd, o bwys mawr i'r byd yn gyffredinol. SCOTT.

## SALM LX.

Adn. 2. *Gwnaethost i'r ddaear grynu.* Mae daiargryn yn arwydd-luniol o wlad mewn cyflwr o gynnwrf a chwyldro dirfawr. Gwel. Esa. 13. 10.

Adn. 3, *A gwin madrondod*, gwin synedigaeth, neu win meddwawl, yr hyn a ddynoda gystudd tra dwys, gwel Esa. 51. 17—23.

Adn. 4 *Rhoddaist faner i'r rhai a'th ofnant.* Yr ystyr yw, "Bydd yn flaenor i ni O Dduw; dwg faner o'n blaen, ac arwain ni i fuddugoliaeth." BOOTHROYD.

Adn. 6—8. *Duw a lefarodd yn ei sancteiddrwydd*, neu "yn ei sancteiddiolaf." Yma mae y peth a lefarwyd yn canlyn; *Sichem*, oedd wlad yn perthynu i Samaria, ac ynddi hi yr oedd dyffryn *Succoth: Gilead a Manasseh* a ddynodai wledydd y llwythi oeddynt yn trigiannu ar du dwyreiniol yr Iorddonen. Gellid meddwl wrth yr ymadroddion hyn, fod y tywysog a'u llafarai yn hyderus y'i galluogid ef i ddarostwng breniniaeth y deg llwyth cystal a Judah. Ac yr oedd efe i chwanegu at y gwledydd hyn, y tiriogaethau a feddiennid gan brif elynion Israel. Mae y broffwydoliaeth hon yn ddiau yn golygu ehangiad prysur teyrnas y Messïah ar y ddaiar. DAVIDSON.—*Moab yw fy nghrochan golchi*, hyny yw, fe'i darostyngir mor drwyadl, fel y gallaf ei rhoddi i wneyd y swyddau iselaf danaf.—*Dros*, neu i *Edom y bwriaf fy esgid*, arwydd-lun o'r un peth, yn cynnwys cyfeiriad, hwyrach, yn estyn ei esgidiau i'w was i'w cymeryd ymaith; cymh. Ioan 3. 11. *Philistia, ymorfoledda di o'm plegid*, neu "ymorfoleddais o'th blegid di." Gall y cyffelybiaethau a'r iaith a arferir, fod yn arwyddocâu nodweddiad neillduol y fuddugoliaeth, y byddai yn fendith neillduol i'r gorchfygedig; gwnai y buddugoliaethwr hwynt yn offerynau i gyflawni gweithredoedd o dynerwch a thrugaredd; y rhoddai efe brofion iddynt o'r bri oedd ganddo arnynt; ac yr amlygai yn eu mysg ardderchawgrwydd rhagorol ei lywodraeth.

Adn. 9. *Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn?* neu brif ddinas Edom; Petra o Bozra, hwyrach.

## SALM LXI.

Y Salm hon a ysgrifenwyd yn Mahanaim. GILL.—Hi a wnaed mae yn debyg ar derfyn y caethgludiad. CLARKE.

Adn. 2. *O eithaf y ddaear y llefaf attat.* AINSWORTH ac am-

ryw feirniaid eraill a feddylient mai eithaf tir Canaan a feddylid, ac am hyny barnent mai yn Mahanaim y'i cyfansoddid. Ond eraill a farnent mai y wlad tu hwnt i'r Euphrates ydoedd, fel yn Salm 65. 5, 8. A. CLARKE.—*Arwain fi i graig a fyddo uwch na mi;* neu, "Cyfod di fi i fynu, ac arwain fi." BOOTHROYD. Neu, "Arwain fi i graig uwch nac y gallaf fi ei dringo." AINSWORTH. "Arwain fi i le o nodded a diogelwch." A. CLARKE.

Adn. 5. *Rhoddaist etifeddiaeth i'r rhai a ofnant dy enw.* Neu, "Rhoddaist yn etifeddiaeth i mi, y rhai a ofnant dy enw." Yr oedd Dafydd yn etifeddu, heblaw rhagorfreintiau cyffredinol yr Israeliaid duwiol, y freniniaeth ar Israel, fel y rhan odidocaf o'i etifeddiaeth. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Ti a estyni oes y Brenin,* mae yn ymddangos fod y Salmydd yma yn defnyddio y moes-gyfarchiad Dwyreiniol a delid i'r Breninoedd, yn gymhwysiadol ato ei hun yma,—"Bydd fyw byth, neu fil o flyneddoedd; caffech fwynhau henaint teg," &c. COBBIN.—*Ei flynyddoedd fyddant fel cenhedlaethau lawer,* hyny yw, yn ei hiliogaeth, ac yn enwedig yn Mherson y Messïah. BOOTHROYD. Mae yr ymadroddion yn rhy rymmus i'w cymhwyso at Dafydd yn unig, mae yn ddiddadl eu bod yn golygu y Messïah, gorseddfainc yr hwn sydd yn oes oesoedd. SUTCLIFFE.

Adn. 7. *Darpar drugaredd a gwirionedd, fel y cadwont ef.* Gellir golygu y geiriau hyn fel attebiad i'r weddi; gellir cyfieithu y rhan uchod fel y canlyn, "Trugaredd a gwirionedd a'i ceidw ef;" neu gyda LOWTH a HOUBIGANT, "Trugaredd a gwirionedd oddiwrth yr Arglwydd a'i ceidw ef," hyny yw, "Yr Arglwydd a gyflawna ei gyfammod âg ef;" Gen. 24. 27.

## SALM LXII.

Adn. 1. *Wrth Dduw yn unig y disgwyl fy enaid,* mewn ymostyngiad a gobaith. Mae yn ddïau fod Dafydd yn gweithredu fel hyn pan oedd efe yn ffoi rhag y cydfradwyr dan Absalom; gwel 2 Sam. 15. 25, 26. Am hyny y meddyliodd rhai mai er coffäad o'i brofiad ar yr achlysur hygof hwnw y cyfansoddodd efe y Salm hon. Ond, pa fodd bynnag, nid yw yn ymddangos oddiwrth yr hanes sanctaidd, fod Dafydd wedi meddu y sicrwydd llawn o waredigaeth a broffesir gan y llefarydd yma, gan hyny, rhaid i ni farnu mai yn Mherson y Messïah y cwblhawyd y geiriau hyn yn drwyadl.

Adn. 3. *Y bwriedwch aflwydd,* y cyfodwch derfysg, y cyfryw ag a ddylyna ymosodiad treisgar ar un.—*Fel magwyr ogwyddedig, &c.,* cyffelybiaethau i ddangos y byddent ar fin dystryw.

Adn. 6. "Ni'm hysgogir, o'm hymddiried yn fy Nuw."

Adn. 9. HORSLEY a ddarllenai yr adnod hon fel y canlyn, "Gwagedd yn unig yw meibion dynion, geudeb yw meibion y mawrion," &c.

Adn. 10. *Ac mewn trais na fyddwch ofer,* neu, "Ac na fyddwch

ofer trwy yspail," hyny yw, yr hyn a gair trwy dreisio eraill. Ac yn wir, os cynnydda golud trwy ffyrdd cyfreithlawn, nac ymddirieded neb ynddo am ddedwyddwch. BOOTHROYD.

Adn. 11, 12. *Unwaith y dywedodd Duw, &c.*, neu yn llythyrenol, "Unwaith y dywedodd Duw; y ddau beth hyn a glywais I, mai eiddo yr Arglwydd yw cadernid, ac i ti Arglwydd y perthyn trugaredd." Y ddau beth datguddiedig yw, mai Duw yw gwreiddyn cadernid, a ffynhonell trugaredd. A. CLARKE.—*Canys*, neu, "Er hyny," *ti a deli i bob dyn yn ol ei weithred.*

## SALM LXIII.

Adn. 1. Mae yn ymddangos yn debyg i Dafydd gyfansoddi y Salm hon, naill ai pan oedd Saul yn ei erlid, neu pan oedd Absalom yn gwrthryfela i'w erbyn ef. GILL. *Mewn tir cras a sychedig heb ddwfr*, y golygddrych yw, tir a bair flinder trwy erwinder y ffordd, serthedd y bryniau, a'r diffyg o ddefnyddiau angenrheidiol cysur. HORSLEY.

Adn. 2. *I weled dy nerth a'th ogoniant, fel y'th welais yn y cyssegr;* neu, "Felly yr hiraethaf am dy weled yn y cyssegr, fel y gwelwyf dy nerth a'th ogoniant." BOOTHROYD. Amlygid nerth Duw a'i ogoniant yn ordinhadau ei gyssegr, a thrwy yr attebion a roddai efe i ymholion a gweddïau ei wir addolwyr oddi ar y drugareddfa.

Adn. 4. *Dyrchafaf fy nwylaw yn dy enw;* mewn gweddi a mawl. WELLS; neu, "Tyngaf ffyddlondeb i ti." Arferai y paganiaid wneyd felly i'w heilunod, Job 31. 27. Sal. 44. 20. Ac felly y gwnelai tywysogion Dafydd wrth dyngu ffyddlondeb i Solomon, 1 Cron. 29. 24. SUTCLIFFE.

Adn. 5. Yma y tystiai ei fod ef yn cael mwy o hyfrydwch wrth adgofio tiriondeb Duw, a myfyrio ar ei ddaioni ef, nac a fwynhai y dyn glwth yn y seigiau mwyaf danteithiol, a'r brasder gorau: ac y mae y cyfryw hyfrydwch annhraethadwy ac annghydmarol i'w gael mewn cymmundeb â Duw yn wyneb Iesu Grist.

Adn. 7. *Am hyny ynghysgod dy adenydd y gorfoleddaf.* Cyfeiriad at y cerubiaid yn lledu eu hadenydd oddiar y drugareddfa, oddi rhwng y rhai yr amlygai Duw ei gyfrinach i'w bobl gynt; neu at yr aderyn tyner yn taenu ei hadenydd dros ei chywion, fel arwydd-lun o ofal yr Arglwydd am y rhai a ymddiriedent ynddo ef.

Adn. 9. *A ânt i iselderau y ddaear*, i uffern. GILL.

Adn. 10. *Rhan llwynogod fyddant.* Mae amryw o'r Beirniaid yn meddwl mai y creaduriaid a elwir gweision y llew, *(jackalls,)* a olygir yma, y rhai a hoffant ymborthi ar gyrff meirw, ac weithiau ar y claf a'r musgrell cyn eu marw. Gwelwyd hwynt yn ymborthi ar gyrff dynion meddwon a orweddent ar heolydd Calaitta. *Orient. Lit. No.* 773.

Adn. 11. *Gorfoledda pob un a dyngo iddo ef*, sef i'r Brenin

medd rhai; ac felly meddyliant mai y Messïah a olygid yma wrth *y Brenin*, tyngu i'r hwn sydd yn dynodi cyffes o ymostyngiad ffyddlawn iddo ef, a phawb a wnant hyny mewn gwirionedd a fydd cymeradwy gan Dduw. Ond, eraill a farnant mai Duw, yn yr hwn y llawenychai y Brenin, a olygir wrth y rhagenw *ef* yn y geiriau, yr hwn y dywedir y gorfoledda, neu yr ymogonedda pawb a dyngo iddo ef.—*Eithr cauir genau*, hyny yw, cywilyddir *y rhai a ddywedant gelwydd*, sef y rhai a daenant ac a amddiffynant dwyll a gau grefyddau.

## SALM LXIV.

Adn. 3. *Ac a ergydiant eu saethau, sef geiriau chwerwon*, cyfeiriad at saethau gwenwynig hwyrach, y rhai a arferid yn forau iawn yn Arabia, fel y gallwn gasglu oddiwrth Job 6. 4. MANT. Tebycach yw, fod y Salmydd yma yn cyfeirio at yr arferiad o sicrhau llythyrau ar saethau, a'u hergydiaw yn y cyfeirydd y byddai y person y'u bwriadid iddo. A dywaid yr Iuddewon fod Sebna a Joab yn anfon llythyrau at Senacherib i'w hysbysu fod holl Israel yn foddlawn i ymheddychu âg ef, ond na oddefai Hezecïah iddynt. GILL.

Adn. 4. *I saethu y perffaith*, yr oedd Dafydd yn berffaith ddieuog o'r cyhuddiadau a roddid i'w erbyn gan ei elynion. SCOTT.

Adn. 5. *Pwy a'u gwel hwynt?* sef y maglau a osodasent yn ddirgel.

Adn. 6. "Chwiliant allan gynghorion anwireddus, trwy ymchwyl dyfal y'u perffeithiant hwynt; a dwfn ydyw meddwl a chalon pob un." Yr oeddynt yn meddwl eu bod wedi dwyn eu cynghorion a'u cynlluniau i'r fath berffeithrwydd, fel nad ofnent unrhyw siomedigaeth. BOOTHROYD.

Adn. 7—9. Yma mae y Salmydd yn darlunio y farn a ddisgynai ar y cyfryw rai anwireddus, *Duw a'u saetha hwynt*, neu "a ergydia saeth attynt," &c.; a'r effaith dda a gaiff hyny ar eraill, "Yna yr ofna pob dyn, ac y mynegant waith Duw, pan ddëallant mai ei waith ef yw hyn.

## SALM LXV.

Tybir i'r Salm felus hon gael ei hysgrifenu ar yr achlysur o adferiad helaethrwydd, wedi y tair blynedd o newyn, 2 Sam. 21. HAMMOND. Eraill, ei chyfansoddi fel cân o ddïolchgarwch i'w harfer ar ŵyl y pebyll, yr hon a gedwid tua diwedd ein mis Medi ni, pan oedd cynhauaf y meusydd wedi ei gasglu i mewn. Ond wrth ystyried fod yma gyfeiriad amlwg at alwad y cenhedloedd, "ni's gallaf lai na meddwl fod bendithion yr efengyl yn cael eu cysgodi yma trwy y gyffelybiaeth o gawodydd cynnyrchiol, a chnydau toreithiog." HORSLEY.

Adn. 1. *Mawl a'th erys di*, mae y geiryn yn arwyddocâu, dysgwyl wrtho ef yn ddystaw fel y dysgwyliai gweision yn y gwled-

ydd dwyreiniol yn y dystawrwydd mwyaf astud ar eu meistriaid, yn barod i wneyd pa beth bynnag a archent hwy iddynt. Hwyrach fod yma gyfeiriad at y gwasanaeth beunyddiol a arferid yn y deml, yn yr hwn y moliannid Duw yn wastadol. BOOTHROYD.—"Arnat ti O Dduw, y gorphwys mawl yn Sïon." HORSLEY. Yr oedd holl addolwyr Duw dan yr hen oruchwyliaeth, yn edrych yn mlaen i amser pan y caent eu gorlenwi â thestyn mawl iddo Ef: a'r amser hwnw oedd y pryd y cyflawnai Dyddanwch yr Israel, y Messïah, yr adduned, trwy ei offrymu ei hun yn iawn difeius i Dduw, dros bechodau dynolryw. Gwel Sal. 40. 6—8. DAVIDSON.

Adn. 3. "Ein hanwireddau a'n gorchfygasant, ond ein camweddau, ti a'u gorchuddiaist," neu ti a'u maddeuaist trwy waed y cymmod; dyma ddarluniad proffwydoliaethol o gydnabyddiaeth ddïolchgar *pob cnawd* a ddeuai at Dduw mewn canlyniad i'w crediniaeth o fod Crist wedi talu yr adduned. Mae y broffwydoliaeth hon fel llaweroedd eraill, i gael ei chyflawni yn raddol, o'r hyn y gwelwyd y dechreuad yn oes yr apostolion, a gwelir ei chwblhad perffaith yn amser da Duw ei hunan; gwel Esa. 40. 5. Col. 1. 23.

Adn. 5. Barnedigaethau Duw ar y drygionus ydynt ei bethau ofnadwy ef, yn y rhai yr amlygir ei gyfiawnder ef tu ag attynt hwy, a'i drugaredd tu ag at ei bobl. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Ac a wregysir â chadernid*, cyfeiriad ond odid at wisg ogoneddus yr arch-offeiriad; ni's gallai yr Hebreaid feddwl am ddarlun-weddau uwch o ardderchawgrwydd Duw, na dywedyd ei fod wedi ymwisgo â gogoniant, ymwregysu âg ardderchawgrwydd, ac ymwregysu â chadernid. LOWTH.

Adn. 7. *A*, neu, "fel" *terfysg y bobloedd;* cyffelybiaeth yn gosod Duw allan fel pennadur mawr holl anian, yn tawelu tonnau mwyaf gerwin y cefnfor, yn rhwyddach nac y tawelai y brenin galluocaf ychydig o derfysg yn mysg gwerin ei lywodraeth. BOOTHROYD.

Adn. 8. *A ofnant dy arwyddion*, hyny yw, yr arwyddion o'i allu yn rhagluniaeth, oud yn enwedig yn ngweithredoedd y grëadigaeth. BOOTHR.—*Gwnai i derfyn boreu a hwyr lawenychu*, pa mor wrthwyneb bynnag ydyw goleuni a thywyllwch i'w gilydd, mae y naill fel y llall yn groesawgar i'r byd yn eu hamserau prïodol. HENRY.

Adn. 9. *Afon Duw*, neu "helaethrwydd o wlaw o'r nefoedd." BOOTHROYD. Hebrëaeth pur yw yr ymadrodd, am helaethrwydd o wlaw. SCHULTENS.

Adn. 11. *A'th lwybrau a ddiferant frasder.* Darlunir Duw yn y geiriau hyn fel Arglwydd haelionus, yn cyfrannu bendithion y ffordd yr elo. *Llwybrau*, a ddynodant weithrediadau Duw yn nhrefn natur, yn rhoddi gwlaw yn ei dymhor, ac yn gofalu am ddychweliad pryd hau a phryd medi. BOOTHROYD. Gellir golygu

y darluniad godidog yma o weithrediadau rhagluniaeth Ddwyfol, fel rhag ddarluniad cysgodol o effeithiau cyhoeddiad y newyddion da am drefn gyfiawn a grasol Duw i achub pechaduriaid: yr eglwys a adeiledid, y lluaws gwrthwynebol iddi o bob gradd a oruwch rëolid, ac a ddarostyngid, a'r holl genhedloedd wedi eu dwyn i ofni a charu Duw, a gynnyrchent ffrwythau cyfiawnder dan ddylanwadau Dwyfol yr Ysbryd a dywelltid ar yr holl gredinwyr.

## SALM LXVI.

Adn. 1. Mae yr eglwys yn y Salm hon yn gwahodd holl ddynolryw i addoli yr Arglwydd, trwy gydnabod ei hollalluowgrwydd, a'i awdurdod benarglwyddiaethol i waredu ei bobl, a darostwng eu gelynion. Gan hyny, tebygid fod y gân yn golygu yr amser pan fyddo pobl Dduw yn y cyfryw amgylchiad, fel y gallo holl ddynolryw eu clywed. DAVIDSON.

Adn. 10—12. *Profaist ni,* trwy gystuddiau a chyfyngderau. Yr oeddym fel gwr wedi ei ddal mewn magl, a baich trwm ar ei gefn, heb un modd ganddo i'w ryddhau ei hunan.—*I le diwall,* sef y tir da a addawsai efe i'w tadau, gwlad gyfoethog Canaan.

Adn. 18. *Pe,* neu, "Ond" *pe edrychaswn ar anwiredd yn fy nghalon,* i'w ddirgel goledd, a hoff lynu wrtho, *ni wrandawsai yr Arglwydd,* ac felly nid ydyw ond oferedd gweddïo am ymwared oddiwrth y cerydd, a byw yn y camwedd.

## SALM LXVII.

Emyn a gyfansoddasid erbyn gŵyl y pebyll oedd hon, ac yn broffwydoliaethol o ddychweliad cyffredinol y byd at addoliad Duw; a thybir yr arferid ei chanu yn y drefn ganlynol, Adn. 1. Llais cyntaf. Adn. 2. Yr ail lais. Adn. 3. Cydgor. Adn. 4. Llais cyntaf. Adn. 5. Cydgor. Adn. 6. Yr ail lais. Adn. 7. Llais cyntaf. HORSLEY.

Adn. 2. *Fel yr adwaener dy ffordd,* fel y byddo i bob dyn adnabod y ffordd i'th addoli di, a'r ffordd yn yr hon y'u cymeradwyi, y maddeui di iddynt, ac y'u bendithi hwy â'th iachawdwriaeth, Act. 18. 25, 26. BOOTHROYD.

Adn. 6, 7. *Yna y ddaear a rydd ei ffrwyth.* Pan hysbyso Duw ei ffordd i ddynion dan deyrnasiad y Messïah, bydd holl anian fel yn gorfoleddu, a phreswylwyr eithafoedd y byd yn ei ofni a'i wasanaethu ef. Lluosogir y bobl, bydd y cynhauaf yn doreithiog, a'r dychweledigion yn aml. BOOTHROYD, CLARKE. Pan fyddo trigolion y byd yn gyffredinol wedi eu dychwelyd at yr Arglwydd, adnewyddir wyneb y ddaiar hefyd. DAVIDSON.

## SALM LXVIII.

Adn. 1. Mae yn dra thebyg i'r Salm odidog hon gael ei chyfansoddi gan Dafydd, i'w chanu ar ryw achlysur o orymdaith gy-

hoeddus, yn yr hon y dygid yr arch i fynydd Sïon, ar ol i Dafydd orchfygu yr Amoniaid a'r Syriaid mae yn dra thebyg. 2 Sam. 11. 11. Mae yn dechreu â'r geiriau a arferfai Moses wrth gychwyn yr arch yn ei amser ef, Num. 10. 35. Ond y mae yn ddiau fod yma gyfeiriad yn eu hystyr gyfriniol at esgyniad Crist; gwel Eph. 4. 8.

Adn. 4. *Dyrchefwch yr hwn sydd yn marchogaeth ar y nefoedd*, neu, "yn yr anialwch." AINSWORTH, LOWTH, HORSLEY, KENNICOTT, CHANDLER, BOOTHROYD, CLARKE.—*Iah*, mae yn fwyaf tebygol mai talfyriad o'r enw Iehofah yw y gair hwn. BOOTHR.

Adn. 5. Oddiyma hyd adn. 15, y cawn ddarluniad nodedig o weithrediadau brenin Israel, enw yr hwn yw Iah, a'r hwn y'n gelwir i'w addoli fel Duw, a hyny trwy gyfeiriad eglur at weithredoedd Iehofah trwy Moses. Gwaredigaeth Israel, cosbedigaeth yr Aiphtiaid, yr arlwy wyrthiol a wnaed i'r Israeliaid yn yr anialwch, eu buddugoliaeth ar y Canaaneaid, a'u sefydliad yn Nghanaan, a ellir eu golygu fel cysgodion o weinidogaeth bersonol Crist, o gwymp cenedl annghrediniol yr Iuddewon, o ddymchweliad Paganiaeth, a buddugoliaeth Cristionogaeth trwy weinidogaeth yr apostolion a'r prif gristionogion. DAVIDSON.

Adn. 6. *Duw sydd yn gosod yr unig mewn teulu;* neu, "yn gwneuthur i alltudiaid drigo gartref." BOOTHROYD. Cyfeiriad at yr Israeliaid yn yr Aipht mae yn debyg, y rhai oeddynt fel alltudion, yn unig mewn tir dieithr.

Adn. 9. *Dyhidlaist wlaw graslawn*, cyfeiriad at y manna, yr hwn y dywedir fod Duw yn ei wlawio arnynt, Exod. 19. 4. Sal. 78. 23, 24. SCOTT, CLARKE. Megis y gwlawiodd y nefoedd fanna wrth orchymyn Duw, i nerthu ac adnewyddu y bobl oeddynt ar drengu o newyn yn yr anialwch; felly, trwy ddisgyniad yr Ysbryd o'r uchelder, gan ddwyn gair y bywyd gyd ag ef, y cadarnhawyd ac yr adfywiwyd yr eglwys yn ddirfawr yn ei chyflwr mabanaidd a llesg. *Esgob* HORNE.—*Ti a'i gwrteithiaist*, neu, "a'th etifeddiaeth flinedig a gynheliaist." BOOTHROYD.

Adn. 10. "Dy gynnulleidfa a gymerasant feddiant o honi; ti, O Dduw, yn dy ddaioni, a'i darperaist i'r rheidus." GREEN.

Adn. 11. *Yr Arglwydd a roddes y gair, &c.*, i Moses, yr hwn a ysbrydolai efe i ysgrifenu caniadau milwraidd, y rhai a genid gan y bobl. A dynion da a gyhoeddent y ddeddf yn y gwersyll, ac yn synagogau yr Hebreaid. SUTCLIFFE.—*Mawr oedd mintau y rhai a'i pregethent.* Meddylia amryw o'r Beirniaid fod yr ymadrodd yn rhoddi lle iddynt i feddwl mai at y fintai fenywaidd yn datgan y gân fuddugol y cyfeirir yma; gwel adn. 25. Exod. 15. 20. 1 Sam. 18. 6. CHANDLER, &c. Nid yw y gair o angenrheidrwydd yn dynodi pregethu, ond mynegi neu gyhoeddi newyddion da, a thestynau llawenydd.

Adn. 12. *Brenhinoedd byddinog*, Jabin, a brenhinoedd y Canaaneaid.—*A'r hon a drigodd yn tŷ*, Deborah y broffwydes, yr hon

a arferai drigo yn y tŷ. CLARKE.—"A'r teulu gartref a rannant yr ysbail." BOOTHROYD. A'r un awdwr dysgedig a sylwa fod y gair gwreiddiol yn arwyddocâu gwragedd a phlant; cymh. Num. 31. a 1 Sam. 30. 18—25.

Adn. 13. *Er gorwedd o honoch yn mysg y crochanau.* Mae cryn amrywiaeth barn rhwng y dysgedigion am arwyddocäad y geiriau hyn. Dodwn ddau neu dri o'r prif olygiadau o flaen ein darllenwyr.—Mae y gair a gyfieithir *crochanau*, yn golygu rhesau o gerrig, ar y rhai y dodid y crochanau i ferwi ymborth; fel yr arfera yr Arabiaid crwydredig hyd heddyw. Gorwedd yn mysg y rhai hyn a ddynoda y sefyllfa iselaf a gwaradwyddusaf; canys tybir mai y lle neillduedig yn orphwysle i'r caethion dirmygedicaf, oedd. NIEBUHR. "Er eich bod chwi gynt yn gaethion gorthrymmedig yn gwneuthur priddfeini a chrochanau yn yr Aipht, bydd eich gogoniant yn awr mor amlwg ag y bu eich gwarthrudd erioed, &c." DELANEY.—"Pan orweddoch i lawr o fewn eich terfynau eich hunain, byddwch fel esgyll colomen wedi eu gorchuddio âg arian, a'i hadenydd wedi eu britho âg aur." Nid oes genym un awdurdod dros y cyfieithiad arferedig, "gorwedd rhwng crochanau." Ni chyfieithwyd y gair felly gan neb o'r hen gyfieithwyr; ond yn gyfystyr â'r cyfieithiad uchod y mae cyfieithiadau y *Sept. Vulg. Cald.* a'r *Arab.* Nodai y Salmydd y fuddugoliaeth yn gyntaf, ac yna, ogoniant y buddugoliaethwyr; y rhai wrth fyned yn ol ac yn mlaen o fewn eu tiriogaethau eu hunain, a fyddent mor brydferth yr olwg arnynt âg un o'r colomenod Dwyreiniol pan yn arddangos eu plu amryliw gorwych. BOOTHROYD.

Adn. 14. Mae llawer o amrywiaeth ddarlleniadau yn cael eu rhoddi o'r adnod yma; ond nyni a debygem wedi sylwi yn lled fanol ar y cyfan, fod y cyfieithiad Cymmreig yn meddu y gwir ystyr yn dra chymhwys. Yr oedd mynydd o'r enw yma yn llwyth Ephraim, at yr hwn hwyrach y cyfeirid yma, yn enwedig os oedd y Salmydd yn bwrw golwg yn ol at faeddiad a gwasgariad breninoedd Canaan o flaen Josuah, a meibion Israel.—BOOTHROYD a gyfieitha y geiryn *Salmon*, "tywyllwch," neu "gysgod," ac a ddarllena y geiriau fel y canlyn,

"Pan wasgarodd yr Hollalluog y breninoedd hyny,
Trwy hyn efe a drodd gysgod angau yn degwch."

Adn. 15, 16. "Mynydd Basan sydd fynydd uchel,
Y mae i fynydd Basan lawer o gribau.
Paham y llemwch, chwi fynyddoedd aml grib?
Y *Sïon* hwn yw y mynydd y chwennych Duw ei breswylio;
Ië, a'r Arglwydd a breswylia ynddo byth."——GREEN.

Gwneir darluniad barddonawl yn y geiriau o Basan a'r mynyddau o'i amgylch, fel pe neidient o lawenydd gan bresenoldeb yr Arglwydd, a phob un yn awyddus am iddo ddyfod a thrigo ar ei gopa, fel pe buasent yn ymryson pa un a gâi yr anrhydedd o'i drigias ef arno. GREEN. Barna rhai fod y mynyddoedd hyn yn ddynod-

awl o freniniaethau y byd a'u llywodraethwyr; a mynydd Sïon yn dynodi yr eglwys. DAVIDSON.

Adn. 17. *Cerbydau Duw ydynt ugain mil;* Yr oedd y Salmydd yma yn darlunio Duw fel rhyw frenin galluog a rhwysgfawr, ac i gwblhau y gyffelybiaeth, efe a ddarluniai y llu, efe a grybwyllai y cerbydau a'r lluoedd a'i canlynai.—*Megis yn Sinai, yn y cyssegr.* Yr oedd yr Iuddewon yn gyffredinol yn credu fod angylion Duw yn gweini iddo ef ar Sinai pan oedd efe yn rhoddi y ddeddf yno, a chadarnheir y golygiad yma gan Stephen, Act. 7. 53; a Phaul, Gal. 3. 19. Heb. 2. 2. O holl ragoriaethau yr eglwys gristionogol, nid oes un mor fawr a rhyfedd, a bod yr Arglwydd yn trigo ynddi, a'i angylion yn weinidogion iddi, Heb. 1. 14.

Adn. 18. *Dyrchefaist i'r uchelder,* Yn y geiriau hyn golygir yr orymdaith wedi esgyn i fynydd Sïon, a'r arch wedi ei dwyn i'r lle sancteiddiolaf, cymh. Sal. 47. 6. a 2 Sam. 6. 15. BOOTHROYD.—*Caethgludaist gaethiwed,* efallai fod y Salmydd yn cyfeirio yma at orymdeithiau cyhoeddus buddugoliaethwyr, pan ddygid y caethion mewn cadwynau, a'r rhai hyny efallai yn freninoedd a gwŷr mawr, y rhai a gaethiwasent eraill. GILL.—*Derbynaist roddion i ddynion,* "Rhoddaist roddion," yw y darlleniad yn ol amryw o'r hen gyfieithiadau, cyfeiriad efallai, at arferiad y buddugoliaethwr o daflu arian yn mysg y gynnulleidfa, ar y cyfryw achlysuron. A. CLARKE. Yr holl fendithion rhagflaenorol a dderbynid oddiwrth Grist, yr hwn a awdurdodasid i'w gweinyddu fel gwobr gyfiawn i'w lafur. Ac e brofwyd yn ddigon eglur mai iddo ef yn unig y perthyn yr anrhydedd hwn, drwy y doniau ysbrydol a dywalltodd efe o'r nef ar ei ganlynwyr, a'r nerth Dwyfol a ddylynai eu llafur er mwyn ei enw ef, yn ol ei addewid; Gwel Ioan 14. 12—21. a 16. 7—17.—*Ie i'r rhai cyndyn hefyd;* neu, "i'r rhai gwrthryfelgar hefyd." *Saesoneg.*

Adn. 21. Mae yr un fath iaith ag a ddefnyddir yn yr adnod hon, yn arferedig yn mysg y Dwyreinwyr hyd heddyw, ac yn gyfystyr â phe dywedid y lleddid y cyfryw un. ROBERTS.

Adn. 22. Tebygid fod y Salmydd yn cyfeirio yma at yr ymwared gwyrthiol a barasai Duw i Israel oddiwrth eu hymlidwyr Aiphtaidd, trwy y Môr Coch, ac ar ymylau y Môr Coch, pan gafodd Pharaoh, Sehon, ac Og, eu gorchfygu a'u llwyr ddyfetha. Mae y cyfryw fuddugoliaethau ar y cenhedloedd Annghristaidd wedi ei addaw yn Ngair yr Arglwydd eto i'r eglwys.

Adn. 24—27. Yn yr adnodau hyn darlunir rhwysgedd a threfn yr orymdaith; yr hyn, tebygid, oedd trefn arferol gorymdeithiau crefyddol; ac y mae yr un ddefod yn arferedig eto yn ngorymdeithiau crefyddol yr Hinŵaid. Y cantorion, feibion a merched, a flaenorant, gan ddatgan caniadau cyfaddas i'r perwyl; ac yna y rhai a chwareuent ar offer cerdd a'u dylynent.—*Gwelsant dy fynediad,* neu, dy fynediadau a welir *yn y cyssegr*; hyny yw, y ffurf o'i fuddugoliaethau addawedig, a fydd sefydliad trwyadl yr

eglwys, yr hon a rag gysgodid trwy drefn gwasanaeth y deml, a ordeiniasid gan Dafydd, a chan Moses yn ngwersyll Israel; cymh. Dat. 7. 1—12. DAVIDSON.—*Y rhai ydych o ffynnon Israel*, cyffelybiaeth, er dynodi hiliogaeth Israel, wedi deillio o'r un ffynhonell gyffredinol. MANT.—*Yno y mae Beniamin fychan a'u llywydd*, neu, "Yma, Beniamin, yr ieuengaf, yw eu llywydd." Er fod Beniamin y llwyth ieuengaf, efe a enwir yn gyntaf, ac a ddarlunir fel y llywydd, a'm mai o'r llwyth hwnw yr hanodd Saul, brenin cyntaf Israel.

Adn. 28. *Dy Dduw a orchymynodd dy nerth*, neu,

"Gorchymyn, O Dduw, dy nerth,
Cadarnha yr hyn a wnaethost erom ni."—BOOTHR.

Adn. 30. *Cerydda dyrfa y gwaywffyn, &c.* neu,

"Cerydda wylltfilod y cyrs,
Cynnulleidfa y cedyrn—arglwyddi cenhedloedd,
Y rhai a sathrant ar ddarnau o arian."

"Gwylltfilod y cyrs" yw y cyfieithiad mwyaf priodol o'r geiriau gwreiddiol a ddefnyddir yma. Mae llewod yn dra lluosawg yn crwydro yn mysg y cyrs ar lannau afonydd Mesopotamia; ac felly y deallwn eu bod oddeutu afon yr Iorddonen, Jer. 4. 7, a 49. 19. MAUNDREB. A gall fod "gwylltfilod y cyrs" yn y fan hon yn ddynodawl o freninoedd Syria, y rhai a ymrysonent â Dafydd yn aml.—"Y rhai a sathrant ar ddarnau o arian." Da y gŵyr y rhai ydynt gyfarwydd mewn hanesiaeth, y fath wychder rhwysgfawr a arferir yn llysoedd brenhinol y gwledydd hyny. Eu lloriau a balmentid âg arian yn aml, ac at hyny debygid y cyfeiriai y Salmydd yma. SCHINDLER, BOOTHROYD.

Adn. 35. *Ofnadwy wyt, O Dduw, o'th gyssegr*, amlygir ei fawrhydi yn bennaf trwy weinidogaeth ei eglwys.

## SALM LXIX.

Adn. 1. Mae y Salm hon mewn rhan yn broffwydoliaethol; e ddichon iddi gael ei chyfansoddi yn yspaid teyrnasiad Absalom, pan oedd Dafydd yn wrthodedig ac erlidiedig, yn gysgod eithaf cymhwys o'i fab Iesu. BOOTHROYD.

Mae y crybwyllion mynych a wnair o'r Salm hon yn y Testament Newydd mewn modd cymhwysiadol at yr Arglwydd Iesu Grist, yn ein sicrhau tu hwnt i bob dadl, o fod y Salm hon yn broffwydoliaethol. Gwneir crybwyllion o honi saith waith o leiaf, fel proffwydoliaeth am Grist, ac amserau yr efengyl, Gwel Ioan 15. 25. a 2. 17. Rhuf. 15. 3. Luc. 28. 34—38. Ioan. 19. 28, 29. Rhuf. 11. 9. 10. Act. 1. 16, 20. MORRISON.—*Y dyfroedd a ddaethant i mewn hyd at fy enaid.* Yr ydwyf bron a chael fy

ngorchfygu gan fy nghystuddiau. WELLS. Barnai rhai fod y Salmydd yn cyfeirio at lestr agenog yn gollwng dwfr i fewn nes ydoedd ar suddo. Eraill mai at orlifiad dyfroedd dros y wlad y cyfeiriai efe yn y geiriau hyn.

Adn 4. *Yna y telais yr hyn ni chymerais.* Yr oedd gorfodi dyn i ddychwelyd yr hyn ni chymerasai, yn annghyfiawder i'r eithaf, Exod. 22. 1—5. Sylwai AINSWORTH fod hyn wedi ei wirio yn arbennig yn Nghrist, yr hwn ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw, Phil. 2. 6, eto am ei addef ei hun yn Fab Duw, efe a roddwyd i farwolaeth gan yr Iuddewon. Ioan 19. 7. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Ti a adwaenost fy ynfydrwydd;* dylid esponio y geiriau hyn fel iaith y cysgod, yn hytrach na'r gwrthgysgod. SCOTT. Yr hen feirniaid a ddarllenant y testyn yn wahanol, "Tydi a wyddost pa un a yw y cyhuddiad o ynfydrwydd a roddir i'm herbyn yn wirionedd. BEZA, CLAUDE. Gwel SUTCLIFFE.

Adn. 6. *Na chywilyddier o'm plegid I,* hyny yw, na fydded i'm dïoddefiadau I fod yn achlysur i'm brodyr duwiol ddigaloni. SCOTT.

Adn. 7. *Ac y todd cywilydd fy ngwyneb,* fel y gorchuddir wynebau galarwyr, neu rai dan gollfarn. MANT.

Adn. 9. *Canys zel dy dŷ a'm hysodd,* neu, "Zel dros dy dŷ a'm difäodd I." HEWLETT.

Adn. 10—12. Yr oedd gelynion Dafydd yn cymeryd achlysur oddiwrth bob rhyw ymddangosiad duwiolfrydig a gostyngedig o'i eiddo, i dramgwyddo, cablu, a gwawdio. BOOTHROYD. *Y rhai a eisteddent yn y porth,* segurwyr, a dreulient eu hamser yno, lle yr oedd cyrchfa pobl. ROSENMULLER.

Adn. 13. *Yngwirionedd dy iachawdwriaeth,* hyny yw, yn ol yr addewidion a wnaethost am fy iachawdwriaeth. WELLS.

Adn. 21. *Rhoddasant hefyd fustl yn fy mwyd,* cyttuna y beirniaid diweddar gan mwyaf, mai y llysieuyn a elwir cegid a olygir wrth y geiryn a gyfieithir *bustl;* a mynych y cyssylltir y gair â wermod, gwel Deut. 29. 18. Cymhwysir yr adnod hon at y driniaeth a gafodd ein Harglwydd, Matt. 27. 34. Ioan 19. 28—30.

Adn. 22. *Bydded,* neu yn hytrach, "Bydd" *eu bwrdd yn fagl ger eu bron.* Gellir meddwl fod y rhan hon o'r Salm, hyd adn. 28, yn cynnwys proffwydoliaeth am y barnau a ddisgynai ar yr Iuddewon am eu hamryw bechodau, yn enwedig eu hannghrediniaeth, a'u gwrthodiad o'r Messiah. BOOTHROYD.—*A'u llwyddiant,* yn hytrach, "eu hedd offrymmau." HORNE, MONTANUS.—"Eu gwleddoedd cyfeillgar." HARE, GREEN.

Adn. 23. *Eu llygaid,* yn gyffelybiaethol am eu deall, fel na's gallent ddirnad arwyddion yr amseroedd, pan y rhaid i'r Messïah ddyfod. GILL.

Adn. 25. *Bydded eu preswylfod yn annghyfannedd.* Cyflawnwyd hyn yn llythyrenol ar elynion Dafydd wedi brwydr Gilböa,

ac yn neillduol gyflawn wedi i'r Rhufeiniaid losgi Jerusalem. SUTCLIFFE. Cymhwysa yr apostol hyn at Judas, Act. 2. 20, ac yr oedd hyny yn eithaf cymmhwys, fel yr oedd efe yn un o'r genhedlaeth ddrygionus ac annghrediniol hono, a bradychwr ein Harglwydd. BOOTHROYD.

Adn. 27. *Dod di anwiredd at eu hanwiredd*, neu, "ychwanega gyndynrwydd at eu cyndynrwydd." CLARKE. Gan iddynt hwy barâu i ymgyndynu yn wyneb pob amlygiad o drugaredd ddwyfol, Duw a'u rhoddes hwynt i fynu i feddwl annghymeradwy, ac i'r cystuddiau mwyaf ofnadwy. BOOTHR. Mae anwiredd yn aml yn dynodi y gosb, drwy fod yr achos yn cael ei roddi am yr effaith. DAVIDSON.

Adn. 28. *Dilëer hwynt o lyfr y rhai byw*; cyfeiriad at yr arferiad o gofrestru enwau dinaswyr, y rhai pan fyddent yn wrthgilwyr, ffoaduriaid crwydedig, neu ddrwg-weithredwyr dan ddedfryd gollfarnol, a ddilëid o'r llyfr. MANT.

Adn. 34—36. Hwyrach i'r adnodau hyn gael eu hychwanegu at y Salm gan ryw un o'r prophwydi yn ystod y caethiwed.

## SALM LXX.

Meddylir i'r Salm hon gael ei chymeryd gan Dafydd o'r 40 Salm, a chyfnewid ychydig arni i'w harfer yn wastadol yn amser gwrthryfel Absalom. WELLS.

Gwel Nod. ar Salm 40. 13, hyd y diwedd.

## SALM LXXI.

Tybia rhai fod y Salm hon wedi ei chyfansoddi gan Dafydd pan oedd Saul yn ei drallodi ef. Eraill mai pan y ffoai efe rhag Absalom y'i cyfansoddai. Eraill mai wedi darostwng gwrthryfel Absalom y'i cyfansoddai.

Adn. 2. *Yn dy gyfiawnder*, hyny yw, Amlyga dy gyfiawnder trwy gosbi fy ngelynion, a'm gwaredu I o'u gafael. BOOTHROYD.

Adn. 4. *A'r traws*, neu "y lefeinllyd," fel y mae y gair gwreiddiol yn arwyddocâu: un surllyd, llawn o lefain malais a drygioni. Hwyrach mai Ahitophel a olygir. GILL.

Adn. 7. *Oeddwn i lawer megis yn rhyfeddod*, mor amrywiol, ac mor anarferol oeddynt fy nyoddefiadau a'm gwaredigaethau.

Adn. 15. *Ni wn rifedi arnynt*, hyny yw, ni's gallaf gyfrif dy holl waredigaethau a'th dosturiaethau.

Adn. 18. *Hyd oni fynegwyf*, ymddangosai yn awyddus am gael byw i ddysgu y genhedlaeth hono, a phob un a ddelai ar ei hol, am weithredoedd galluog a chyfiawn y Goruchaf.

Adn. 20. *O orddyfnder y ddaear*, ymadrodd yn dynodi y sefyllfa iselaf o drueni a dyoddefiadau. HEWLETT.

## SALM LXXII.

Mae yn debyg i'r Salm yma gael ei chyfansoddi gan Dafydd ar yr achlysur o bennodiad Solomon i fod yn olynwr iddo ef. TRAVELL. Ac yn y Gân odidog yma, y mae efe trwy y gyffelybiaeth

o frenhiniaeth heddychol a gogoneddus Solomon yn rhag ddarlunio yn y modd godidocaf, freniniaeth ogoneddus y Messïah. HALES, MANT.

Adn. 1. *Dod i'r Brenin dy farnedigaethau*; hyny yw, par iddo lywodraethu y freniniaeth yn ol dy reolau di. ROSENMULLER.

Adn. 3. *Y mynyddoedd a ddygant heddwch.* Yr oedd, ac y mae eto yn arferiad cyhoeddi newyddion da neu ddrwg yn y gwledydd Dwyreiniol o bennau y mynyddoedd, neu ryw uchelfeydd eraill. BOOTHROYD. Ond efallai y dylid golygu mynyddoedd a bryniau yma yn ddarluniadol o dywysogion ac is-lywodraethwyr, a'r testyn fel rhagfynegiad y cyflawnent eu swydd mewn cyfiawnder, yr hyn a achosai heddwch cyffredinol.

Adn. 6. *Fel gwlaw ar gnu gwlan,* neu ar yr adladd; neu ar y weirglodd a gneifiwyd: ymyl y ddalen, "ar ir-wair."

Adn. 7. *Tra fyddo lleuad.* Hebrëaeth, i ddynodi tragywyddol baräad breniniaeth y Messïah. SUTCLIFFE.

Adn. 8. *O fôr i fôr;* o'r Môr Coch hyd Fôr y Canoldir; ac o'r Euphrates hyd derfynau eraill y Tir addawedig; ond y mae yn eglur nad oedd hyn ddim amgen na darluniad cyffelybiaethol o'r holl fyd, yr hwn sydd wedi ei roddi i'r Messïah yn etifeddiaeth; cymh. Salm 2. 8.

Adn. 9. *O'i flaen ef yr ymgrymma trigolion yr anialwch,* sef yr Arabiaid, cynnrychion cymhwys o unrhyw bobl anwar a thra anhywaith, y rhai a wawdient bob awdurdod ddynol, eto dywedir am y cyfryw, y llwyr ddarostyngir hwy ger bron y Brenin hwn; Gwel Mic. 7. 17. Esa. 49. 23.

Adn. 10. *Breninoedd Tarsis,* neu yn ol MICHAELIS ac eraill, "breninoedd yr Hispaen, a thrigfanau Japheth," Cymh. Gen. 10. 4.—*Sheba a Seba,* Arabia ac Affrica, neu Ethiopia. Cymh. Gen. 10. 7. I Bren. 10. 1—10. Matt. 12. 41. Ond cyflawniad eithaf y broffwydoliaeth hon, fydd dwyn yr holl genhedloedd i dderbyn yr efengyl, a phob glin i blygu i Grist. SUTCLIFFE.

Adn. 16. *Bydd dyrnaid o ŷd,* darlunir y wlad yn nodedig am ei ffrwythlonrwydd, ac am luaws ei thrigolion, y mynyddoedd uchelaf yn ffrwythlawn, a'r ddinas yn orlawn o drigolion; ond pan y sonid am ddyrnaid, neu ychydig o ŷd yn ysgwyd fel Libanus, hwyrach y golygid y llwyddiant rhyfeddol a ddylynai foddion o ymddangosiad mor ddystadl ag a ddefnyddid ar y dechreu er helaethu breniniaeth Crist. DAVIDSON.

Adn. 19, 20. *A'r holl ddaear a lanwer o'i ogoniant ef,* fel y llenwid teml Solomon â'r cwmmwl dysglaer oddiar y drugareddfa. Ni adewid dim yn ychwaneg i fod yn destyn dymuniadau Dafydd, canys y mae hyn yn cynnwys eithaf ei ddymuniadau. Y cyfryw debygid, ydyw ystyr y geiriau olaf o'r gân ragorol hon. Ni roddes mab Jesse i fynu weddïo y pryd hwn; ond nid oedd ganddo ddim mor bwysig a dyddorawl i weddïo am dano a chor-

oniad y Messïah yn Frenin yr holl ddaiar; cymh. 2 Sam. 23. 1—5. Tybiodd rhai mai dyma y cyfansoddiad barddonawl olaf a gyfansoddai Dafydd trwy Ddwyfol ysbrydoliaeth; ond, ni's meddwn un cysgod o brawf o hyny. Gorphenid, neu gyflawnid ei weddïau, canys trwy ysbryd proffwydoliaeth, efe a welai o bell, eu gwrthddrych mawr yn cael ei gwblhau.

## SALM LXXIII.

Adn. 1—3. *Yn ddïau da yw Duw i Israel*, yn rhoddi iddynt ei dir da, a'i gyfreithiau da a sanctaidd. Mae hyn yn derfyniad dymunol i adfyfyrdodau ar droion rhyfedd rhagluniaeth, y rhai a fuasent unwaith yn ymddangos yn dra dyrus i feddwl yr ysgrifenydd. Nid yw yn ymddangos ei fod ef mwy na Job, wedi bod yn amheu dim am ddïogelwch tragywyddol gwir addolwyr Duw; yr oedd efe yn teimlo tuedd i genfigennu wrth lwyddiant personol yr annuwiol; ac yn methu gweled cyfiawnder yn y dosparth yma o weinyddiad y llywodraeth Ddwyfol. Ond pan dywynnodd goleuni gwirionedd i'w feddwl, efe a ganfu mai yr uniawn, neu y *glân o galon* oedd yr unig ddyn dedwydd, yr hwn a fendithiai Duw â phob bendith ddymunol. BOOTHROYD, DAVIDSON.

Adn. 4. *Nid oes rhwymau yn eu marwolaeth*, neu boenau dirfawr, yn peri dirdyniadau ofnadwy; y meddwl debygid, yw, fod yr annuwiol yn aml yn cael mwynhau iechyd a chryfder hyd henaint; ac yn cael marw mewn tawelwch y pryd hyny; cymh. Job 21. 13. DAVIDSON.—Ni lusgir hwynt i angau gan law na dedfryd y barnwr, er eu bod yn haeddu hyny; na thrwy unrhyw ofidiau nychlyd meddwl neu gorff, fel llawer o ddynion da; ond y maent yn cael cyfarfod âg angau yn dawel, fel y ffrwyth aeddfed yn disgyn oddiar y pren, heb fod unrhyw drais yn cael ei arfer attynt. Cymh. Job 5. 26. a 21. 13. POOLE.

Adn. 6. *Cadwynodd balchder hwynt*, cyfeiriad hwyrach at y cadwynau gwychion a wisgai gwŷr mawr oddiamgylch eu gyddfau; cymh. Diar. 1. 9. a Can. 4. 9. BOOTHROYD. Efallai fod yma gyfeiriad at y swyddau yr oedd amryw o honynt ynddynt, ac arferid gwisgo cadwynau aur, fel arwyddion o amryw swyddogaethau. CLARKE.

Adn. 7. *Eu llygaid a saif allan gan frasder*, neu "eu hwyneb a saif allan, &c." *Targum.* "Efe a â allan o frasder eu llygaid," sef eu balchder. MICHAELIS.—*Aethant dros feddwl calon o gyfoeth.* "Cawsant fwy nac a ddysgwylient, er nad mwy nac a ddymunent o gyfoeth." A. CLARKE.

Adn. 9. *A'u tafod a gerdd trwy yr holl ddaear*, neu, "a ymesyd ar bawb ar yr holl ddaiar." Beiant ar goffadwriaeth y cyfiawn—y saint—goruchwyliaethau Duw, &c. CLARKE.

Adn. 10. *Dychwel ei bobl ef yma.* Pobl pwy? Naill ai, 1. Pobl neu deulu yr annuwiol a ddisgryfiwyd yn yr adnodau blaenorol, yn myned yn rhyfygus wrth ddilyn eu drwg esiamplau.

Neu, 2. Pobl yr Arglwydd yn blysio hawddfyd y rhai annuwiol, ac oddiar chwant i gyfrannogi o'u llwyddiant, yn ymgyssylltu â hwynt.—*Gwesgir iddynt ddwfr phïol lawn.* Fe gyst iddynt yfed cwpaneidiau chwerwon o gystudd a gofid am eu hynfydrwydd. Gwel POOLE, *Cottage Bible, &c.*

Adn. 15. *Os dywedwn, Mynegaf fel hyn,* neu os ymresymaf fel y rhai hyn, bradychwn achos crefydd, a chefnogwn eu hannuwioldeb hwy, ac felly byddwn yn achlysur i arwain cenhedlaeth dy blant di ar gyfeiliorn o ffyrdd cyfiawnder.

Adn. 17. *Hyd onid aethum i gyssegr Duw.* Gellid casglu oddi wrth y geiriau hyn ei fod ef wedi myned i gyssegr Duw i geisio eglurâad ar yr hyn oedd yn ymddangos mor ddyrys i'w feddwl. A thra y bu yno, efe a ddysgwyd, naill ai trwy yr ysgrifeniadau sanctaidd oeddynt yn nghadw yno, neu trwy attebiad oddiwrth yr Urim a'r Thummim, y gwirioneddau canlynol, sef bod y drygionus wedi eu rhoddi i'w cadw i ddinystr onid edifarhânt; a bod y cyfiawn dan ofal yr Arglwydd beunydd, yr hwn yw eu rhan yn dragywyddol.

Adn. 21. *Arennau,* dirgel feddyliau.

Adn. 27. Putteinio oddiwrth Dduw, a ddynoda droi at eilunod.

## SALM LXXIV.

Dëongla rhai y Salm hon fel proffwydoliaeth am ddinystr y deml gan Nebuchodonosor; ond y mae amryw ymadroddion a gynnwysir ynddi, yn lled annghyfaddas i oes y caethgludiad Babiloniaidd; am hyny yr ydym ni yn cael ein tueddu i farnu fod y Salmydd mewn ymadroddion cyfaddas i'w amser ei hun, yn portreiadu ansawdd yr eglwys Gristionogol dan deyrnasiad annghrist.

Adn. 3. *Dyrcha dy draed at anrhaith dragywyddol,* neu, "Cyflyma dy gamrau at yr anrhaith drwyadl hon.' BOOTHROYD. Darlunir Duw fel un wedi cilio, ac attolygir arno ddychwelyd yn fuan. *Esgob* HORNE.

"Dyrchafa dy gamrau yn erbyn balchder y buddugoliaethwr,
Mae y gelyn yn gwneuthur drwg yn dy gyssegr."
STREET.

Adn. 5, 6. Tebygid mai ystyr y geiriau hyn yn ol ein cyfieithiad arferedig ni, yw, fod cymmynwr coed medrus, tuag at adeiladu y deml gynt yn cael ei anrhydeddu; ond yn bresenol, mai y mwyaf medrus a bywiog i'w thynu i lawr a ddyrchefid fwyaf; eithr y mae y cyfieithiad a ddyru HORSLEY a BOOTHRYOD o'r geiriau yn wahanol.

"Fel y gwelir dynion â bwyill dyrchafedig,
Yn torri y dyrys-goed i lawr;
Felly holl gerf-waith dy deml,
A dorrasant hwy â chŷn a morthwyl."—BOOTHR.

Adn. 8. Mae y gair a gyfieithir *synagogau* yn arwyddocâu unrhyw le lle yr ymgasglai cynnulleidfaoedd i addoli Duw, ac o ganlyniad, gallai fod tŷ pob proffwyd yn cael ei alw felly, ac ni's gellir casglu oddiwrth arferiad y gair hwn yma, mai ar ol y dychweliad o Babilon y cyfansoddid y Salm hon; am na's gwyddis fod synagogau yn Judea cyn yr amser hwnw; eto, efallai fod cyfarfodydd lluosawg yn cael eu cynnal yn y wlad er dyddiau Jehosaphat; gwel 2 Cron. 17. 9. Ac y mae yn dra thebyg y byddai pobl Dduw yn arferol o ymgynnull yn nhrigfannau y proffwydi a'r barnwyr, ar amserau gosodedig i addoli Duw. Gwel 2 Bren. 4. 23.

Adn. 9. *Ni welwn ein harwyddion;*—"Ni's gwelwn unrhyw arwydd o'th bresenoldeb Dwyfol gyda ni, ac nid oes gyda ni un proffwyd i'n hyfforddi, ein dyddanu, a rhagfynegi i ni pa bryd y bydd diwedd y traddodion hyn." TRAVELL, GREEN.

Adn, 11. *Tyn hi allan o ganol dy fynwes.* Mae llaw yr Arabiad pan na byddo ar weithrediad yn gyffredin yn gorwedd yn mhlygion ei wisg ar ei fynwes; ac y mae rhoddi y llaw yn y fynwes yn fath o ddarluniad diarhebol o un heb wneuthur dim; a'i thynu allan, yn ddarluniad o egnïad. COBBIN.

Adn. 14. *Ti a ddrylliaist ben lefiathan*, sef Pharaoh a'i lu, y rhai a gyffelybir yma i'r crocodiliaid, creaduriaid anferth a fynychent afon yr Aipht.—*Rhoddaist ef yn fwyd i'r bobl yn yr anialwch,* cludid cyrff Pharaoh a'i filwyr i'r lan gan y môr, ac felly daethant yn ymborth i'r gwylltfilod a'r adar ysglyfaethus a drigent yn yr anialwch. HORNE, BOCHART, &c. Ond BOOTHROYD a ddarllena y fraich olaf o'r adnod yn wahanol, yn lle *rhoddaist ef,* darllena, "Rhoddaist fwyd i'r bobl, &c."

Adn. 19. Cyffelybir gweddill meibion Israel i golomen, yn hawddgar; ond yn ofnus, ac yn cael ei hymlid gan ryw adar ysglyfaethus. BOOTHROYD, HORNE.

Adn. 20. *Edrych ar y cyfammod*, neu dy gyfammod dy hunan, yr hwn a wnaed â'n tadau. *Canys llawn yw tywyll-leoedd, &c.* hyny yw, yr oedd holl lochesau y tir yn llawn o finteioedd yspeilgar, y rhai a ruthrent i yspeilio pawb a allent. BOOTHROYD.

Adn. 21. *Na ddychweled y tlawd yn waradwyddus*, hyny yw, na chaffont ddychwelyd oddiwrth orsedd gras fel rhai wedi eu gommedd; ond caffont drugaredd yn dy olwg di. BOOTHR.

## SALM LXXV.

Adn. 1. Os Asaph a ysgrifenodd y Salm hon, mae yn debyg mai ar ddeisyfiad Dafydd y gwnaeth efe hi, ar yr achlysur o'i esgyniad ef i'r orsedd, ac y mae cryn gymhwysder ynddi i'r achlysur hwnw. SCOTT. Yr amcan a grybwyllir yma, a gyflawnid gan y dysgyblion cyntaf: cymh. ct 4. 23—30. Hwy a welsant enw Duw yn agos, pan ddatguddiodd efe ei ogoniant yn rhyfeddodau ymgawdoliaeth, bywyd, angau, a gogoneddiad Crist, yn yr

hwn yr oedd enw Duw yn preswylio; gwel Esa. 30. 27. Ioan 17. 6.

Adn. 3. *Ymddatododd y ddaear a'i holl drigolion*, gall hyn fod yn dynodi, bod pob rhwymyn undeb wedi ei dorri, ac annhrefn yn ffynnu yn gyffredinol, megis yr oedd hefyd yn y rhan olaf o deyrnasiad Saul, ac yn ystod y rhyfel a fu rhwng Dafydd a thŷ Saul; ond galluogwyd Dafydd trwy ei fawr ymdrechion i wneuthur y gyfraith yn effeithiol, i adferu iawn drefn.

Adn. 4, 5. Y *corn*, oedd arwydd-lun o fawrhydi tywysogaidd, a wisgid gan lywiawdwyr y gwledydd dwyreiniol yn yr hen amser; ac y mae llywyddion Abyssinia yn arfer gwisgo math o rwymyn llydan am eu talcenau, yn yr hwn y dodant fath o gorn crwn pig-fain, tua phedair modfedd o hyd, ac fel na's gogwyddo, byddant yn cymeryd y gofal mwyaf i gerdded yn syth; a hwyrach fod yma gyfeiriad at y cyfryw arferiad. BURDER, BRUCE.

Adn. 8. *A'r gwin sydd goch, yn llawn cymmysg*: mae gwin cymmysgedig yn arwyddo gwin o nerth mwy. Yma mae y phïol a'r gwin yn arwyddocâu barnedigaethau cyfiawn yr Arglwydd. BOOTHROYD. Hwyrach fod yma gyfeiriad at yr arferiad o roddi gwin o'r fath gryfaf i ddrwg-weithredwyr cyn eu dihenyddio.

## SALM LXXVI.

Hwyrach i'r Salm hon gael ei hysgrifenu pan waredwyd Jerusalem oddiwrth Senacherib. GREEN, HORSLEY.

Adn. 1. *Hynod yw Duw yn Judah*, yr oedd efe yn adnabyddus yn mysg yr Iuddewon, i'r rhai yr oedd efe yn arfer ei ddatguddio ei hun yn aml.

Adn. 2. *Yn Salem*, hen enw Jebus, a alwyd wedi hyny Jerusalem. A. CLARKE. Arwyddocäad yr enw yw dinas heddwch, ac e dybiodd rhai fod yr enw hwn wedi ei roddi ar y ddinas yma am mai yma yr oedd cymmod i gael ei wneuthur trwy waed y groes. DAVIDSON, BOOTHROYD.

Adn. 3. *Yna y torrodd efe saethau y bwa*, "Saethau adeiniog," medd MICHAELIS, DATHE, a BOOTHROYD.—"Y saethau tanllyd," cyfeiriad at yr arferiad o rwymo defnyddiau hylosg ar flaenau y saethau, ac wedi eu hennyn, eu hergydio i'r ddinas, neu rhoi y tai, a'r tyrau, a'r amddiffynfeydd coed ar dân. Arwyddocäad y geiriau ffigurol hyn, yw fod Duw yn peri i ryfeloedd beidio, ac yn sefydlu heddwch, ac y mae cyfaddasrwydd neillduol yn y darluniad i'r modd y bu yn achos Senacherib. GILL, CLARKE, &c.

Adn. 4. *Mynyddoedd yr yspail*, yn gyffelybiaethol, a ddynodant dywysogion mawrion, a buddugoliaethwyr galluog. MANT.—Hwyrach fod breniniaethau y byd hwn yn cael eu galw yn fynyddoedd yr yspail, mewn cyfeiriad at y mynyddoedd, lle yr

anneddai gwylltfilod, megis llewod, llewpardiaid, &c., Esa. 41. 15. Jer. 51. 25. Zech. 4. 7. Can. 4. 8. GILL. "Tydi, O Sion, ydwyt fwy annorchfygol na'r mynyddoedd ar y rhai y mae yr yspeilwyr, yr Assyriaid, yn eu hamddiffyn eu hunain." HEWLETT.

Adn. 5. *Yspeiliwyd y cedyrn galon*, byddin yr Assyriaid a'u tywysogion, y rhai a ddaethant yn erbyn Jerusalem.—*Hunasant eu hun*, angeuol, fel y bu i'r Assyriaid, pan y'u tarawid gan angel yr Arglwydd.—*Ni chawsant eu dwylaw*; hyny yw, ni allent ymladd.

Adn. 8. *O'r nefoedd y peraist glywed barn*, darlunir Duw fel yn cyhoeddi ei ddedfryd ar ei elynion yn gyntaf, ac yna yn cyfodi i'w rhoddi mewn gweithrediad. BOOTHROYD. Meddylia rhai fod taran ofnadwy wedi ymdorri, pan oedd y Salmydd yn cyfansoddi y gân hon, a'i fod ef yn cyfeirio at hyny. GILL.

Adn. 9. *Pan gyfododd Duw i farn, i achub holl rai llednais*, addfwyn, tyner, *y tir*: neu yn ol BOOTHROYD, holl rai cystuddiedig y tir.

Adn. 12. *Efe a dyr ymaith yspryd tywysogion*, neu, "efe a lywodraetha ysbryd tywysogion," gan faint ei awdurdod, ni bydd dim anhawsder iddo.

## SALM LXXVII.

Adn. 1. Tybir fod y Salmydd yma yn llefaru profiad yr eglwys mewn tymhor o gystudd blin; amser y caethgludiad, medd rhai, amser anghrist, medd y lleill. Os yw y golygiad olaf yn gywir, rhaid fod y Salm yn broffwydoliaethol.

Adn. 2. *Fy archoll a redodd liw nos*:—Mae y nifer fwyaf o'r beirniaid diweddar yn cyduno i ddarllen y geiriau fel y canlyn yn hytrach, "Estynais fy llaw allan ar hyd y nos;" sef, mewn gweddi. Gwel HORNE, LOWTH, HORSLEY, BOOTHROYD, CLARKE, &c.

Adn. 3. *Cofiais Dduw, ac a'm cythryblwyd*, h.y. Yr oedd ei brïodoliaethau ef yn ofnadwy i mi wedi i mi golli fy ymddiried ynddo fel fy Nuw. COBBIN. Cyffelyb hefyd yw POOLE, a SCOTT. Darlunir cyffro tufewnol y meddwl yma, trwy air sydd ddynodawl o gyffro tonnau mewn ystorm, neu gynhwrf tyrfa ffrochwyllt, afrëolus. SCOTT.

Adn. 6. *Cofio yr ydwyf fy nghân y nos*; neu, "Cofio yr ydwyf y caniadau a gyfansoddid i gofio yr hen drugareddau gynt. PATRICK.—*Chwilio yn ddyfal*; mae yr ymadrodd yn dynodi chwilio peth, trwy ddïosg pob gorchudd, a chwilio rhwng yr holl blygion. CLARKE.

Adn. 10. *A dywedais, Dyma fy ngwendid*; neu, yna y dywedais, "Dyma fy nhrallod; deheulaw y Goruchaf a all ei newid." BOOTHROYD.—"Gweddïo a berthyn i mi; cyfnewid, i ddeheulaw y Goruchaf." DE DIEU. "O'r diwedd daethum hyd hyn, fel y meddyliais, O! pabam yr wyt mor ynfyd? E all deheulaw y

Goruchaf newid y cwbl.—"Yna y dywedais, Dyma wendid fy ffydd, coledd y fath feddyliau." WELLS, HORNE. Mae yn amlwg fod cyfansoddwr y Salm mewn man isel o ran ei brofiad, neu yn cynnrychioli yr eglwys yn cwyno yn dost yn yr absennoldeb o arwyddion eglur o'r ffafr ddwyfol; yn penderfynu ymgysuro wrth gofio yr addewidion gwerthfawr a roisai Duw i'w bobl, a'r gweithredoedd grymmus a wnaethai efe erddynt.

Adn. 13. *Dy ffordd*, trefn dy ragluniaeth. PATRICK. *Sydd yn y cyssegr,* "sydd mewn sancteiddrwydd," "sydd sanctaidd." AINSWORTH, GREEN, MUDGE, HORSLEY. Tebyg mai yr ystyr yw, fod ffordd Duw o ymdrin â'i bobl, yn sanctaidd â chyfiawn, pa mor dywyll bynnag a fyddo. BOOTHROYD.

Adn. 16. Y *dyfroedd a'th welsant, O! Dduw*; cyfeiriad at wyrthiau y Mor Coch a'r Iorddonen, cymh. Sal. 104. 3.

Adn. 17. *Dy saethau hefyd a gerddasant:*—Mae y gair a gyfieithir yma *saethau*, yn arwyddo cenllysg hefyd. DAVIDSON.

Adn. 19. *Dy ffordd sydd yn y môr, a'th lwybrau,* neu, "er nad adwaenir dy lwybrau" *yn y dyfroedd mawrion.* Yr oedd Duw yn rhodio o flaen ei bobl trwy y môr yn wirioneddol, er na adawodd ei ol i'w ganfod yno. MUDGE.

## SALM LXXVIII.

Mae y Salm hon yn baräad o hanes yr Israeliaid o'u hymadawiad o'r Aipht, hyd deyrnasiad Dafydd. *Esgob* LOWTH.

Adn. 1—3. *Fy nghyfraith*, yn hytrach, "Fy addysg;" yr hyn yw arwyddocäad y geiryn yma, ac nid *cyfraith*, fel y gwelir, wrth ystyried ei fod yn gyferbyniol â geiriau fy ngenau yn y llinell nesaf. BOOTHROYD.—*Agoraf fy ngenau mewn diareb;* neu, "Agoraf fy ngenau mewn sylwadau doethion; traethaf bethau hygof er cynt." BOOTHROYD. Tebygid fod yma gyfeiriad at y crybwyllion hanesyddol a gynnwysa yr adnodau canlynol: fel ffeithiau hanesyddol, yr oedd y pethau hyn yn bethau a glywsid ac a wybyddid, heb un ddammeg na thywyllwch ynddynt, ond gyda golwg ar yr addysgiadau a gynnwysid ynddynt, yr oeddynt yn *ddammegion o'r cynfyd;* ac yr oedd yn rhaid wrth ddoethineb a sylw i'w deall a'u cymhwyso. *Esgob* HORNE.

Adn. 9—12. *Meibion Ephraim,* wedi crybwyll yn yr adnodau blaenorol am gyndynrwydd y rhai a waredasid o'r Aipht, mae efe yma yn rhoddi esiampl o hyny yn ymddygiad y deg llwyth, o'r rhai yr oedd Ephraim yn gyffredin yn mlaenaf, fel yr oedd y llwyth mwyaf rhyfelgar. Hwy a osodasant i fynu y lloi yn Dan a Bethel, ac a droisant yn dra chyffredin at eilunod. BOOTHROYD.—*Soar,* hên ddinas yn ngwlad yr Aipht, Num. 13. 32; prif ddinas y tir unwaith, lle y cynnaliai Pharaoh ei lys; felly yr ydym yn darllen am "dywysogion Soar," Esa. 19. 11, 13. GILL.

Adn. 15. *Y creigiau*, mae yma gyfeiriad at y graig yn Horeb, Exod. 17. 6; a'r graig yn Cades, Num. 20. 1, 11. Gwel Nodiadau yno.

Adn. 18. *Wrth eu blys*, nid eu rhaid; yr oedd Duw wedi arlwyo cyflawnder ar gyfer eu gwir angen yn y manna. Exod. 16. 2.

Adn 20. *Wele, efe a darawodd y graig*, mae y geiryn Hebraeg, yn arwyddocâu ammheuaeth, "A darawodd," neu "Os tarawodd efe y graig, &c." Ac y mae y cyfryw ddarlleniad yn gweddu yn well yma, i'r hyn a ddywedasid yn yr adnod flaenorol, eu bod yn llefaru yn erbyn Duw, neu yn ol Sal. lxx., yn annheilwng o Dduw," trwy ammeu ei allu, wedi cynnifer o brofion o honaw. BOOTHROYD.

Adn. 25. *Bara angelion*, neu, fel ar ymyl y ddalen, "bara y cedyrn," yr hyn yw y cyfieithiad cywiraf.—Bara o'r rhyw orau, cymhwys i fyrddau y pendefigion a'r rhai galluog.

Adn. 36—39. Mae y ddwy gyntaf o'r adnodau hyn yn cynnwys darluniad o anffyddlondeb ac anwadalwch yr Iuddewon, a'r ddwy olaf yn darlunio trugaredd a thiriondeb Duw. BOOTHROYD.

Adn. 45. *Anfonodd gymmysgbla*, gwel Nod. ar Exod. 8. 21—24. Rai blyneddau yn ol, deuai math o bryfyn allan o dyllau bychain yn y ddaiar, yn Lloegr Newydd, yn debyg yr olwg arnynt i fywion, ond a draws-newidid i ffurf ednod, y rhai a wenwynent ac a ddystrywient holl brennau y wlad am oddeutu dau cant o filldiroedd. *Phil. Trans. Vol.* ii. tu dal. 766 a 781.

Adn. 49. *Trwy anfon angelion drwg*, "cenhadon o ddrwg," sef Moses ac Aaron, y rhai a anfonid i gyhoeddi y pläau cyn eu dyfod; a thrwy ddwylaw y rhai y'u dygid ar yr Aipht. AINSWORTH.—Y pläau eu hunain, a elwid yma *angelion*, neu genhadon drwg. GEDDES.

Adn. 55. *A rannodd iddynt etifeddiaeth wrth linyn;* hyny ydyw, efe a rannodd dir yr addewid gyd a'r manylrwydd mwyaf, fel y cafodd pob llwyth ei gyfran briodol o honaw.

Adn. 57. *Fel bwa twyllodrus*, oni byddai y bwa dwyreiniol wedi ei wneuthur yn dda, yr oedd yn berygl i'r saethwr gael ei anafu wrth ollwng y saeth oddiarno, heblaw ei fod yn cael ei wneuthur yn llwyr aneffeithiol yn ei ymosodiad ar y gelyn; felly yr oedd yr Israeliaid wedi pob gwaredigaeth a thiriondeb, yn dychwelyd yn ol i'w hên ffyrdd drygionus. CLARKE.

Adn. 61. *Ac y rhoddodd efe ei nerth mewn caethiwed*, sef arch ei gadernid, gwel Salm 132. 8. a 1 Sam. 4. 11. Gelwid yr arch yn nerth a gogoniant Duw, am yr arferai efe wneyd amlygiadau nodedig o'i nerth a'i ogoniant oddiarni.

Adn. 63. *A'u morwynion ni phriodwyd*, neu ar ymyl y ddalen, "ni chanmolwyd;" cyfeiriad, mae yn debyg, at arferiad y morwynion ar yr achlysur o wledd prïodas, o ddatgan prïodas-gan o glod i'w cyfeillion ar eu mynediad i'r cyflwr prïodasol.

Adn. 64. *A'u gwragedd gweddwon nid wylasant,* yr hyn sydd yn dangos ëangder y dinystr; ac y mae yr ymadrodd yn llawn o ystyr i'r sawl sydd gyfarwydd â defodau gwledydd a dinasoedd dwyreiniol, ar amser pla, neu ryw aflwydd dinystriol arall. Ar y cyfan mae y cri a'r wylofain sydd yn wastad yn dilyn marwolaeth dan amgylchiadau cyffredin, yn uchel, ac yn aml; ond fel y mae yr anrhaith a'r dystryw yn cynnyddu, mae y galar yn lleihau yn lle mwyhau. Mae angau yn dyfod yn beth cyffredin yn mhob tŷ, a chan fod pob un yn ymdroi yn ei golledion ei hunan, ni's medda nemawr o deimlad i'w hebgor dros eraill. O ganlyniad, mae y wylofain uchaf yn myned heibio yn ddi sylw, ac nid effeithia mwyach i dynu cyfeillion llawn cyd-ymdeimlad i'r lle i gyd alaru, a hyny, yn gystal a'r annheimladrwydd a gynnyrchir trwy gynnefindra â'r cyfryw olygfeydd arswydlawn, a barai eu bod yn derbyn y newydd am farwolaeth un o newydd mewn dystawrwydd, gyda dagrau ac ocheneidiau yn unig. Cludir y marw o'i annedd, a chleddir ef heb ddim o'r galar-ddefodau cyffredin, a heb neb o'i gyfeilion gorfucheddol yn wyddfodol, gau ddynion, y rhai, yn y cyfryw amgylchiadau, a gymerant y gorchwyl arnynt i gludo y meirw ar gefnau asynod, a mulod; a'r trigfannau a adewir ganddynt yn annghyfaneddol.

Adn. 65, 66. *Yna y deffrodd yr Arglwydd,* hyny yw, y cyfododd efe i fynu i ddïal ei bobl ar eu gelynion.—*O'r tu ol.* Meddyliai HARE a GILL, fod cyfeiriad yn y geiriau hyn at darawiad y Philistiaid â chlwyf y marchogion. Gwel 1 Sam. 5. 6. a 6. 1—5. Mae yr ymadroddion a ddefnyddir yma yn cael eu harfer yn aml am rai yn troi eu cefnau i ffoi yn nydd y frwydr, ac ystyrid yn waradwyddus iawn i un gael ei glwyfo yn ei gefn. ROBERTS.

## SALM LXXIX.

Mae y Beirniaid yn amrywio llawer iawn yn eu barnau am amser ac achlysur cyfansoddiad y Salm hon SUTCLIFFE a farnai ei bod yn cyfeirio at yr amser y goresgynodd Sisac Judea: 1 Bren. 14. 25. 2 Cron. 12. 2.—HORSLEY, ei bod yn cyfeirio at amser blin teyrnasiad Manasseh.—At ddinystr y genedl Iuddewig gan Nebuchodonosor, medd Dr. DODD. At amser Antiochus Epiphanes, medd THEODORET. Hwyrach fod yma gyfeiriad proffwydoliaethol at amserau Nebuchodonosor, Antiochus, a Thitus, yn nghyd a chystuddiau y cristionogion dan Rufain baganaidd a phabaidd. GILL. Meddylia rhai mai Jeremïah a'i cyfansoddodd, gan fod adn. 6, 7, yn gyffelyb i Jer. 10. 25. CLARKE.

Adn. 2. *Yn fwyd i adar y nefoedd:*—Yn amser dinystr Jerusalem, ni chladdai y Caldeaid gyrff y lladdedigion, ond gadawent hwy yn ysglyfaeth i fwystfilod ac adar ysglyfaethus.

Adn. 3. *Ac nid oedd a'u claddai:*—Y Caldeaid ni's gwnaent; a chludid yr Iuddewon ymaith fel na's gallent wneyd y gymmwynas olaf hon â'u cyfeillion a gollasent eu bywyd yn y dystryw.

Adn. 9. *A thrugarha wrth ein pechodau,* neu yn ol BOOTHROYD, "a maddeu ein pechodau," *er mwyn dy enw.*

Adn. 11. *Cadw blant marwolaeth:*—Mae yn debyg fod yma gyfeiriad at arferiad buddugoliaethwyr yn yr oesoedd gynt, o neillduo rhai o'u caethion rhyfel i'w rhoddi i farwolaeth. Gwel Jer. 39.

## SALM LXXX.

Y farn fwyaf rhesymol yw, fod y Salm hon yn golygu yr un amgylchiadau a'r un flaenorol.

Adn. 1. Hwyrach mai yr achos o fod Joseph yn cael ei enwi yma yn neillduol yw, am fod yr enedigaeth-fraint wedi ei chymeryd oddiar Reuben, a i rhoddi iddo ef; 1 Cron. 5. 1, 2. Sal. 77. 16, 21. AINSWORTH.—*Yr hwn wyf yn eistedd rhwng y cerubiaid,* yno yr oedd efe yn trigo yn Siloh, yn llwyth Ephraim, cyn sefydlu yr arch yn Jerusalem. SCOTT.—Detholid Ephraim, Beniamin, a Manasseh, i gynnrychioli holl Israel, am fod y llwythi hyny yn nesaf i'r Cohathiaid, y rhai a gludent yr arch ar eu hysgwyddau yn eu hymdeithiau tua thir yr addewid, Num. 2. 17—24. a 10. 21—24.—*Cyfod dy nerth,* sef yr arch, Sal. 78. 61. a 132. 8. GOODWIN, HENRY, GILL.

Adn. 6. *Gosodaist ni yn gynnen i'n cymmydogion,* y rhai a ymrysonent â'u gilydd am yr hawl i'n hysbeilio. BOOTHROYD.

Adn. 8. Mynych y defnyddir y winwydden yn gyffelybiaethol i ddarlunio yr eglwys Iuddewig, Esa. 5. 1. Jer. 2. 21. Ezec. 17. 5, 6, &c.

Adn. 10. *Cuddiwyd y mynyddoedd gan ei chysgod.* Defnyddid y winwydden yn Judea fel cysgod rhag gwres, a phabell i fwytta ac yfed dani; 1 Bren. 4. 25. Mich. 4. 4. Felly yr oedd yr Iuddewon yn amser Dafydd a Solomon, wedi ymdaenu dros yr holl wledydd cymmydogawl, a darostwng y Syriaid, yr Edomiaid, y Philistiaid, y Moabiaid, a'r Ammoniaid. CLARKE.

Adn. 17. *Dros wr dy ddeheulaw,* os wrth y gwr hwn yr ydym i ddëall y brenhin, yna mae yn amlwg mai gweddi am ei gadwraeth ef oedd yr eirchiad yma.—*A thros fab y dyn,* yr un wrthddrych a gwr y ddeheulaw yn y llinell flaenorol.—*Yr hwn a gadarnheaist i ti dy hun.* Felly yr oedd Duw wedi codi Dafydd i'r frenhiniaeth, a sicrhau iddo, mai o'i had ef y cyfodid un i deyrnasu mewn cyfiawnder ar feibion dynion, sef y Messïah; a thrwy yr addewid hon yr oedd efe wedi ei gadarnhau ef, fel na's gallai ei had ef ballu, hyd oni chyflawnid yr addewid. BOOTHROYD.

## SALM LXXXI.

Meddylir fod y Salm hon wedi ei chyfansoddi i'w harfer ar ŵyl yr udgyrn, ar y newydd-löer gyntaf o'r flwyddyn wladol, Lef. 23. 24. HORSLEY, LOWTH.

Adn. 5. *Yn Joseph*, yma eto rhoddir Joseph am holl had Israel. Darllena BOOTHROYD y rhan olaf o'r adnod fel hyn, "Pan ddaeth efe allan o dir yr Aipht, lle y clywodd iaith ni ddëallai;" ac y mae rhesymau y beirniaid crybwylledig yn gryfion dros y darlleniad uchod. Eu bod yn clywed iaith ni ddeallent yn ngwlad yr Aipht, a ddynodai, mai dyeithriaid oeddynt hwy yn y wlad hono.

Adn. 6. *Ei ddwylaw a ymadawsant a'r crochanau.* Mae y geiryn a gyfieithir *crochanau*, yn arwyddocâu math o lestr mawr, yn yr hwn y cymmysgid y pridd i wneuthur pridd-feini. KENNICOT, HORSLEY.

Adn. 7. *Yn nirgelwch y daran*, sef y cwmmwl yn yr hwn y trigai yr Arglwydd, yr hwn oedd yn ddudew tua'r Aiphtiaid, ac o'r hwn y taranai efe, nes eu dyrysu, Exod. 14. 19—25. Sal. 77. 18, 19. BOOTHROYD. Eraill a farnant, mai at ei breswyl ar Sinai y cyfeirir yma. DAVIDSON.

Adn. 8. *Mi a dystiolaethaf i ti*, yr hyn a ellir ei ystyried yn addewid o ddysgeidiaeth ddwyfol mewn perthynas i bob rhyw beth ammheus a dyrus, er eu calondid i lynu yn ei wasanaeth.

Adn. 10. *Lleda dy safn*, hyny yw, traetha dy ddymuniadau mewn gweddi, ac mi a'th atebaf ac a'th ddiwallaf. BOOTHROYD.

Adn. 15. "Casëion yr Arglwydd a gymmerasent arnynt ymostwng iddynt hwy; a'u dedwydd gyflwr a fuasai yn dragywydd." BOOTHROYD.

Adn. 16. Gwel Deut. 32. 13. a 1 Sam. 14. 25, 26.

## SALM LXXXII.

Cyfansoddid y Salm hon gan Asaph y gweledydd, yn nyddiau Heseciäh, er addysg i'r barnwyr. Gwel 2 Cron. 30. a 31. a 29. 30. PATRICK.

Adn. 1. *Yn mhlith y duwiau y barn efe*, sef yn mhlith tywysogion a barnwyr, a elwir yn aml wrth yr enw Hebraeg, a gyfieithir yma, duwiau; cymh. Exod. 21. 6. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Holl sylfaenau y ddaear a symmudwyd o'u lle.* Yr oeddynt hwy yn anhysbys o'u dyledswydd, heb feithrin y cydnabyddiaeth prïodol â'r gyfraith, Mich. 3. 1. Jer. 10. 21; am hyny, yr oedd pob peth mewn annhrefn, ac nid oeddynt yn gofalu am fod y cyfreithiau a roddasai Duw i Israel, y rhai a ddylasent fod fel sylfaenau eu llywodraeth, yn cael eu lle prïodol mewn barn. Gwel Sal. 11. 3.

Adn. 6. Yr oedd Israel, fel cenedl, i gael ei llywodraethu yn hollol wrth y gyfraith Ddwyfol; o ganlyniad, yr oedd eu barnwyr yn eu cymeriad swyddol, i'w golygu fel cynnrychiolwyr Duw, mewn modd mwy arbennig na neb rhyw farnwyr eraill ar y ddaiar; ac hwyrach mai yn y golygiad yma y'u gelwid yn dduwiau; gwel Ioan 10. 34, 35. DAVIDSON.

Adn. 7. "Ond chwi a fyddwch feirw fel dynion eraill; ac y syrthiwch fel hwythau, O! dywysogion." BOOTHROYD.

Adn. 8. *Canys ti a etifeddi,* neu "genyt ti y mae awdurdod ar yr holl genhedloedd."

## SALM LXXXIII.

Adn. 3. *Dy rai dirgel di,* gelwir annwyliaid Duw felly, oblegid eu bod yn dra hoff ganddo ef, ac o dan ei nawdd ef, fel trysorau gwerthfawr wedi eu cuddio er dïogelwch. Casglodd rhai oddiwrth yr ymadrodd yma, y gallai llawer fod yn wir dduwiol, heb fod eu crefydd yn weledig i ddynion; ond y mae hyn yn anmhossibl, canys pa mor annghyoedd bynnag y dichon i gristion fod, rhaid fod rhyw rai yn ei adnabod, ac ni's gellir cuddio ei egwyddorion a'i ymarferion cristionogol. DAVIDSON.

Adn. 13. *Gosod hwynt, O, fy Nuw, fel olwyn.* Mae rhai yn cyfieithu y gair a gyfieithir *olwyn,* yn gorwynt, neu yr hyn a gylch-droir ganddo, ac y mae yn amlwg mai y corwynt a olygir, yr hwn a ysguba i'w drofa, ac a gylch-dröa yn ei rym unrhyw sylweddau ysgeifn a ddamweiniont yn ei ffordd.

Adn. 16. *Fel y ceisiont dy enw;* neu, "fel y ceisier dy enw."

Adn. 18. *Fel y gwypont,* neu yn hytrach, "Fel y gwypo dynion," wrth dy driniaeth ryfedd ar dy elynion hyn, mai tydi *wyt Oruchaf ar yr holl ddaear.*

## SALM LXXXIV.

Efallai mai rhyw Lefiad duwiol a gyfansoddodd y Salm hon, pan oedd byddin Senacherib wedi cau y ffordd i Jerusalem, i fynu. PATRICK. Mae ysbryd Dafydd yn cael ei anadlu drwyddi, ac y mae tebygolrwydd mawr rhyngddi â Salm 63; a thebycach genyf fi yw, mai efe oedd ei hawdwr. HENRY. Mae yn debyg mai Dafydd a'i hysgrifenodd, yn amser gwrthryfel Absalom. POOLE.

Adn. 1. *Mor hawddgar yw dy bebyll:* y babell a wnaethid gan Moses, canys nid oedd y deml wedi ei hadeiladu eto yn amser Dafydd. Gelwir y tabernacl hwn yn y lluaws-rif yma, er dynodi ei ardderchawgrwydd; neu ynte, gyda chyfeiriad at yr amryfal rannau, "y tabernacl cyntaf a'r ail." Heb. 9. 2, 3. Y cyssegr, a'r cyssegr sancteiddiolaf, a'r cyntedd allanol i'r bobl, efallai; neu, e ddichon ei fod yn golygu pabell Dafydd, yr hon a adeiladodd efe i'r arch yn Sïon; a hen babell Moses, yr hon oedd yn Gibëon, 2 Sam. 6. 17, 1 Cron. 21. 19. GILL.

Adn. 3. *Sef dy allorau di.* Gan fod yr allorau yn cael eu defnyddio beunydd i aberthu offrymmau meibion Isael arnynt, a bod yr offeiriaid yn gweini wrthynt yn wastadol: nid yw yn debyg y buasai adar yn gwneyd eu nythod yno, nac yn debyg ychwaith y buasent yn cael eu goddef i hyny; felly y mae gradd o annghysondeb yn ein darlleniad arferedig ni; a sylwa amryw o'r beirniaid, nad yw y testyn gwreiddiol yn gofyn am roddi y geiryn *sef* i fewn: ac y mae PARKHURST, BOOTHROYD, ac eraill,

o'r farn y byddai y darlleniad canlynol yn gywirach cyfieithiad o'r ymadroddion, "Fel y caiff aderyn y tô dŷ, &c."—"Felly yr ydwyf fi yn ceisio dy allorau di, &c."

Adn. 5. *A'th flyrdd yn eu calon,* "a'th esgyniadau yn eu calon," cyfeiriad at yr esgynfëydd i fynydd Sïon, er arwyddocâu eu penderfyniad awyddus i fyned i dŷ Dduw, i ymwneyd â'i ordinhadau ef. HORSLEY. Ond BOOTHROYD a farnai y dylid golygu y geiriau yn gyffelybiaethol o hyder calon dyn yn niogelwch ei gyflwr gan Dduw; am hyny y darllen efe y rhan yma o'r adnod yn ol y cyfieithiad Caldäeg, "Hyder cadarn a deyrnasa yn ei galon."

Adn. 6. *Y rhai yn myned trwy ddyffryn Bacha a'i gwnant yn ffynnon;* neu, "Er eu bod yn myned trwy ddyffryn annghyfannedd, hwy a gant yfed o ffynnon; ïe, y gwlaw a'i gorchuddia â bendithion." BOOTHROYD.—"Dyffryn y wylo," y cyfieithr y gair gan y LXX, a "dyffryn y dagrau," yn y *Vulgate.* Dyffryn garw, a pherthi a cherrig ar hyd-ddo, ar hyd yr hwn yr elid drwy lafur a dagrau, cyffelyb i'r hwn a grybwyllir yn Deut. 21. 4. "Bochim," medd rhai ydoedd, yr hwn a elwid felly oblegyd wylofain Israel yno, Barn 2. 1, 5. GILL.—Mae Baca yn arwyddocâu prysgwydden *(shrub)* fawr, yr hon a elwir Baca gan yr Arabiaid hyd heddyw, a hyny ond odid, o herwydd fod math o lud peraroglaidd yn distyllio o honi. MANT. Nid yw yn debyg ei fod yn dynodi unrhyw le neillduol, trwy yr hwn y byddai raid i'r holl wrrywiaid o feibion Israel fyned ar ei ffordd i Jerusalem, i'r tair gŵyl arbenig; ond unrhyw le blin, dyffryn garw, neu dir sychedig. GILL. —*A'r gwlaw a leinw y llynau,* neu y pyllau, mae dyfrleoedd i'w cael yn aml yn niffeithfäoedd y gwledydd dwyreiniol, y rhai a wneir i dderbyn a dal y dwfr gwlaw; a gwneir y cyfryw byllau yn lluosawg yn ffordd y teithwyr i Mecca. RAUWOLFF.

Adn. 7. *Ant o nerth i nerth.* Cryfâant mewn nerth, fel y mae myned "o ddrwg i ddrwg," yn arwyddo cynnyddu mewn drwg, Jer. 9. 3. Cymh. Rhuf. 1. 17. a 2 Cor. 3. 18. Meddyliodd rhai fod y geiryn a gyfieithir *nerth* yma, yn arwyddocâu "mintai;" ond ni all hyny fod yn brïodol yma, pan oedd yr awdwr yn son am yr holl finteioedd oeddynt yn myned i fynu i Jerusalem. BOOTHROYD. "O lyn i lyn," fel yr arfera y masnach-luoedd. *Esgob* POCOCKE.

Adn. 10. *Dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw,* hwyrach fod swydd porthor i'r deml yn un dra llafurus, pa fodd bynnag yr oedd yn un a ofynai ofal mawr i'w gweinyddu, er cadw pawb anmhrïodol rhag rhuthro i fewn i'r cyssegroedd sanctaidd.

Adn. 11. *Haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw,* goleuni, gogoniant, ac amddiffyn. *Esgob* WILLSON.

## SALM LXXXV.

Efallai mai ar adferiad Manasseh y cyfansoddid y Salm hon. HORSLEY. Mae yn fwy tebyg iddi gael ei hysgrifenu ar, neu wedi

y dychweliad o gaethiwed Babilon. A. CLARKE. Cludir y Salmydd gan gymhelliad proffwydoliaethol i ragfynegu gwaredigaeth lawer mwy trwy ddyfodiad Crist. DIMOCK.

Adn. 1. Gellid meddwl fod y Salm hon yn gyfystyr â Salm 102, a phroffwydoliaethau eraill am ymddanghosiad y Messïah i buro, adferu, a chadarnhau eglwys Dduw. Mynych y darlunir hyn dan y portrëad o ddychweliad pobl o'u caethiwed, Gwel Am. 9. 11—15. Jer. 32. 37—44. a 33. 8—18.

Adn. 4. *Tro ni*, neu dychwel ni, tebygid fod y gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth fugail, yr hwn a dröai ei ddefaid crwydredig yn ol. DR. OYLEY a MANT.

Adn. 8. *Gwrandawaf beth a ddywed yr Arglwydd*, oddiar y drugareddfa, mewn attebiad i'm gweddïau. *Esg.* WILLSON. A'r hyn a ganlyn yn yr adnod hon yw yr attebiad, *Canys efe*, neu "Yn ddïau *efe a draetha heddwch i'w bobl*." BOOTHROYD.

Adn. 9. *Fel y trigo gogoniant*, neu, gyd a'r cyfieithydd Syriaidd, "Efe a bar i'w ogoniant drigo yn ein tir ni." h. y. Efe a adfera ei deml a'i addoliad, ac yn enwedig a gwblha ei addewid trwy anfon y Messïah, yr hwn oedd i fod yn ogoniant i Israel, cystal a goleuni i oleuo y cenhedloedd.

Adn. 10. *Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant.* Pe cyfrifid hyn yn ddarluniad o rinweddau dynol yn unig, y mae yn ddarluniad rhagorol o'i cyd-gyfarfyddiad a'u hundeb yn yr un galon, cair gwirionedd yn yr fan ag y preswylia trugaredd a thynerwch, ac y mae heddwch yn wastadol yn gydymaith i gyfiawnder. Ond os cymerir y geiriau yn ddarluniadol o waith Immanuel, y mae rhyw fwy o odidowgrwydd ynddynt fyth; yr holl ragoriaethau hyn a ymgyfarfuant, ac a ymgofleidiasant yn ei fywyd a'i farwolaeth ef. BOOTHROYD.

Adn. 11. *Gwirionedd a dardda o'r ddaear*, h. y. a fydd yn helaeth a chyffredin fel ffrwyth y ddaiar.

Adn. 13. *Ac a esyd ei draed ef*, neu, "Ac efe, sef Duw a'u gesyd yn y ffordd y rhodia efe ynddi." Mae gosod yn arwyddocâu sefydlu mewn peth. POOLE.

## SALM LXXXVI.

Meddylir yn gyffredin mai Dafydd a gyfansoddodd y Salm hon yn amser erledigaeth Saul. SUTCLIFFE. Mae pob rhan o'r Salm hon yn ei gosod hi allan fel un o'r rhai ydynt wedi eu llefaru yn Mherson y Messïah, neu yntau yn enw ei eglwys ef, ond nid yw hyny mewn un modd yn ein lluddias ni i feddwl fod Dafydd wedi ei chyfansoddi mewn iaith fenthyciol oddiwrth y dïoddefiadau a gyfarfyddai oddiwrth Saul.

Adn. 2. *Canys sanctaidd ydwyf*, neu yn ol BOOTHROYD, yr hwn yma a ddilynai y cyfieithydd Syrïaeg, ac amryw gyf-ysgrifau eraill, "Canys ti wyt drugarog." Ar ymyl y ddalen, "Canys un a gafodd ffafr ydwyf."

Adn. 11. *Una fy nghalon i ofni dy enw.* "Mae fy nghalon wedi ei huno ag ofn dy enw." HORSLEY.—"Fy nghalon a lawenycha yn ofn dy enw." DURELL. Cyd-gyfarfydded meddyliau a dymuniadau fy nghalon oll, mewn parch i ti. BOOTHROYD.

Adn. 13. *Gwaredaist fy enaid o uffern isod;* neu, "gwaredaist fy mywyd o wasgfaeon dirfawr." WELLS.

Adn. 16. *Mab dy wasanaethferch,* yn hytrach, "mab dy wirionedd," math o Hebrëaeth am fab gwirioneddol. DAVIDSON.

Adn. 17. *Gwna i mi arwydd er daioni.* Bydded dy ffafr i mi mor amlwg, fel y cywilyddio fy ngelynion, ac y peidiont a cheisio fy nystrywio. BOOTHROYD.

## SALM LXXXVII.

Adn. 1. Meddylia y rhan fwyaf o'r beirniaid, mai ar sylfaeniad teml Solomon y cyfansoddid y Salm hon.—*Ei sail;* sef sail Duw, fel y gellid galw sylfaeni y deml.—*Ar y mynyddoedd sanctaidd:* yr oedd y deml wedi ei hadeiladu ar ran o fynydd Morïah cystal a mynydd Sïon.

Adn. 3. *Gogoneddus bethau a ddywedir am danat ti,* gan y proffwydi, Esa. 62. 1. 7. a 65. 18, &c. a 66. 10, &c. Zech. 1. 14, &c. a 2. 4, 12. a 8. 3, &c. Y rhai oll a gyfeiriant at ogoniant dyfodol yr eglwys, trwy dderbyniad y cenhedloedd i fewn iddi. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Rahab* a ddynoda yr Aipht, Sal. 89. 10. Esa. 51. 9. Mae yr enw yn cael ei roddi i'r Aiphtiaid, oblegid balchder ei thywysogion a'i phobl. Dygir Duw i fewn yma fel y llefarwr, yn ol barn amryw o'r dysgedigion, ac y mae Dr. BOOTHROYD wedi rhoddi darlleniad llawer eglurach yn ol y golygiad uchod i'r geiriau; fel hyn,

"A grybwyllaf fi Rahab a Babilon,
Yn mysg y rhai a'm cydnabyddant;
Philistia a Thyrus, yn nghyd âg Ethiopia?
A ddywedir eni y gwr hwn yno?
Ië, am Sïon y dywedir,
Y gwr hwn, a hwn acw, a anwyd ynddi!"

Adn. 6. *Yr Arglwydd a gyfrif pan ysgrifeno y bobl, eni hwn yno,* neu,

"Yn nghôf-lyfr y bobloedd, yr Arglwydd a adrodda,
Y gwr hwn a anwyd yno." BOOTHROYD.

Cyfeiriad at ddull tywysogion a phennaethiaid dinasoedd, o ysgrifenu mewn côf-lyfr enwau eu holl bobl; ac felly y dywedir, fod dynion sanctaidd, a gwir Israeliaid, gwedi eu hysgrifenu yn mysg y rhai byw yn Jerusalem, Esa. 4. 3. POOLE.

Adn. 7. *Fy holl ffynnonau sydd ynot ti.* Defnyddir y gair

ffynnonau, i ddynodi helaethrwydd o bob daioni tymhorol ac ysbrydol, Sal. 36. 9. ac Esa. 12. 3. Dyma eiriau y gân a genir gan y rhai a anwyd yn Sïon.

## SALM LXXXVIII.

Yr oedd dau Heman, un yn enwog am ei ddoethineb, 1 Cron. 2. 6. 1 Bren. 4. 31; a'r llall yn gantor a gweledydd i'r brenin, 1 Cron. 6. 33. a 15. 17, 19 a 25. 1, 5. Hwn mae yn dra thebyg oedd yr awdwr. GILL. Meddylir fod iaith y Salm hon wedi ei defnyddio oddiwrth druenus gyflwr un gwahanglwyfus, yr hwn a gauid o fysg dynion, ac a adawid yn unig i alaru uwch ben ei gyflwr adfydus.

Adn. 4. *Y rhai a ddisgynant i'r pwll*, cyfeiriad at yr arferiad gyffredin i ddal anifeiliaid gwylltion, cyn dyfeisio arfau tân, trwy gloddio pyllau yn eu ffordd, a'u gorchuddio.

Adn. 5. *Yn rhydd yn mysg y meirw, &c.*, neu "Fel y marw y'm cyfrifir, fel y lladdedig a orweddont yn y bedd." STREET.—"Noeth yn mysg y meirw, fel rhai a glwyfid yn farwol ar faes y frwydr." A. CLARKE. Cyfeiriad sydd yma at y gwahangleifion, y rhai a fyddent wedi eu symmud oddiwrth bob cymdeithas ddynol, mor wirioneddol a phe buasent wedi meirw mewn gwirionedd. FENTON.

Adn. 10—12. *A gyfyd y meirw a'th foliannu di?* hyny yw, A ddychwelant hwy i fyw ar y ddaiar eto, a'th wasanaethu di? Arwyddocäad yr adnodau hyn yw, na ddefnyddid unrhyw foddion wedi angau, i'w dwyn yn ol ar y ddaiar, ac na chaent mwy gyfleusdra i edifarhau, i adnabod gwirionedd Duw, nac i ymofyn am drugaredd. BOOTHROYD.

Adn. 18. *A'm cydnabod i dywyllwch*, ymadrodd cyffelybiaethol er dynodi nad oedd efe un amser yn eu gweled. HEWLETT.

## SALM LXXXIX.

Mae yn debyg i'r Salm hon gael ei chyfansoddi gan Esay, fel cyfarchiad cyhoeddus i Dduw, pan oedd Pecah a Rezin yn nesâu yn erbyn Jerusalem. KENNICOTT. Mae amryw Iuddewon cystal a Christionogion yn golygu y Salm hon yn broffwydoliaethol am Grist. SOLOMON, ABEN EZRA, &c.

Adn. 2. *Yn y nefoedd y sicrhei dy wirionedd*; neu, peri i'th wirionedd ymddangos yn gadarn a sefydlog fel y nefoedd. GILL.

Adn. 3. *Gwnaethum ammod â'm hetholedig, &c.* Yn yr Arglwydd Iesu Grist yn unig y cyflawnwyd y geiriau hyn; ac y mae yn eglur mai geiriau yr Arglwydd ydynt, yn cael ei hadgoffa gan y Salmydd, 1 Cron. 17. 11. Luc 1. 69, &c.

Adn. 6. *Meibion y cedyrn*, neu feibion Duw. BOOTHROYD.

Adn. 7. *Duw sydd ofnadwy iawn, &c.* Yn ei fawrhydi, ei ogoniant, a'i sancteiddrwydd, y mae mor ofnadwy, fel y mae yr

angelion uchelaf yn gwyleiddio mewn ofn dwys ger ei fron ef.

Adn. 10. Yma defnyddir Rahab, neu yr Aipht, fel yn Esa. 51. 9, i gynnrychioli holl brif elynion yr eglwys: gwel Dat. 11. 8.

Adn. 12. Hwyrach fod Tabor ar y tu gorllewinol, a Hermon ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen, yn cael eu defnyddio yma i gynnrychioli holl dir yr addewid, yr hwn oedd yn gysgod o'r eglwys gristionogol. Gan hyny, gall mai arwyddocäad yr ymadrodd yma yw, bod yr hwn a wnaeth yr holl fyd wedi amcanu ei eglwys i gael buddugoliaeth drwyadl, a gorfoledd llawn.

Adn. 15. *Yr hyfryd lais,* sef llais udgorn y jubili yn cyhoeddi rhyddid i'r caethion, a gwaredigaeth i'r gorthrymedig; ac yma dynoda yn neillduol, y cyhoeddiad o'r gwirionedd fod yr Arglwydd, brenin Sïon, yn eistedd ar orsedd wedi ei gwisgo ar unwaith â thrugaredd ac â chyfiawnder, neu mewn geiriau eraill, ei fod ef yn ei amlygu ei hun yn Dduw cyfiawn ac yn achubydd. Dyma oedd swm cennadwri Crist trwy ei apostolion; gwel Rhuf. 3. 21—26.

Adn. 19—27. *Yna yr ymddiddenaist mewn gweledigaeth â'th Sanct, &c.* Samuel, ond odid, wrth yr hwn y llefarai Duw trwy weledigaeth, neu mewn yspryd proffwydoliaeth, am Dafydd, 1 Sam. 16. 1. GILL. Mae y proffwyd yn y wahanran hon yn troi at y cyfammod a wnaethid â Dafydd, yr hwn a grybwyllid yn adn. 3, 4; ac y mae efe yn ei ystyried a'i olrain fel yn cynnwys sail ei obaith.—*Dafydd fy ngwasanaethwr,* yr oedd Dafydd yn gysgod nodedig o'n Harglwydd, am yr hwn y proffwydid dan yr enw yma, Jer. 30. 9. Ezec. 34. 23. a Hos. 3. 5.

Adn. 30—33. Mae hanes Israel yn dangos y modd y cosbodd Duw y breninoedd drygionus; ac eto, fel y cadwodd efe dŷ Dafydd, hyd oni ddaeth efe, yn yr hwn yr oedd yr holl addewidion i gael eu cyflawni.

Adn. 37. *Ac fel tyst ffyddlawn yn y nef,* cyfeiriad at y bwa, yr hwn sydd yn parâu eto i fod yn dyst o ffyddlondeb Duw i'w air, Gen. 9. 9. MANT, BOOTHROYD.

Adn. 40. *Drylliaist ei holl gaeau ef;* ymadrodd cyffredinol am ddïogelwch a diffyniad. HEWLETT Y caeau, neu yr amddiffynfeydd hyn oeddynt oddiamgylch y trefydd lleiaf, ac a wasanaethent i ddïogelu rhag yspeilwyr, er nad oeddynt yn furiau cymhwys i amddiffyn y ddinas yn amser rhyfel. BLAYNEY.

Adn. 51. *Y gwaradwyddasant ol traed dy enneiniog,* gan ei erlyn ef â gwaradwyddiadau, MUDGE, MERRICK. Gwawdient oblegid oediad ymddangosiadol dyfodiad y Messïah. HORNE.

## SALM XC.

Gyda y Salm hon y dechreua y pedwerydd dosbarth Iuddewig o'r Salmau.

Adn. 1. *Ti, Arglwydd, fuost yn breswylfa i ni yn mhob oen-*

*hedlaeth.* Er i ni fod yn ddieithriaid mewn tir nid oedd eiddom, a chael ein cystuddio bedwar càn mlynedd, yn ol dy air, Gen. 15. 13; ac er ein bod eto mewn anialwch gwag erchyll, yn preswylio mewn pebyll, eto ti a wnaethost ein holl ddiffygion i fynu trwy dy ragluniaeth ofalus a graslawn bob amser. POOLE.

Adn. 3. *Troi dyn i ddinystr, &c.*

"Na thro ddyn bregus i ddinystr,
Ac na ddywed, Dychwelwch i'r llwch, feibion dynion.'—GREEN.

A chyffelyb y golyga y rhan fwyaf o'r beirniaid am ystyr y geiriau; ond Dr. A. CLARKE a olyga y geiriau hyn fel addewid o'r adgyfodiad, ac efe a'i darllena fel y canlyn, "Troi ddyn trancedig i'r manlwch; ond ti a ddywedi, Dychwelwch, chwi blant Adda."

Adn. 4. *Gwyliadwriaeth nos,* tua thair awr.

Adn. 6. Mae yr adnod hon a'r rhai blaenorol iddi, yn cynnwys rhai o'r delweddion mwyaf nodedig o fyrder bywyd dynol. Sylwa Dr. A. CLARKE yma, fod holl oes dyn fel cwsg, neu freuddwyd; y byd tragywyddol sydd sylweddol a gwirioneddol. Darlunir einioes fel ffrwd, ieuenctyd fel y boreu, diwedd einioes fel prydnhawn, angau fel hûn, ac adgyfodiad fel dychweliad y blodau yn y gwanwyn.

Adn. 7. *Ac yn dy lidiowgrwydd y'n brawychwyd,* dy fygythiad, y byddai raid i ni feirw yn yr anialwch, yn lle cael myned i'r tir da. BOOTHROYD.

Adn. 9. *Fel chwedl,* yr hon ni's gedy memmawr o argraff: rhai a'i cyfieithient, "fel niwl."

Adn. 10. *Ac os trwy gryfder y cyrheuddir pedwar ugain mlynedd.* Er fod rhai dynion trwy gryfder eu cyfansoddiad yn cyrhaeddyd pedwar ugain mlynedd, eto y mae gwendidau a gofidiau henaint yn dilyn eu nerth hwythau, ac ebrwydd y'u torrir ymaith.

Adn. 11. *Pwy a edwyn nerth dy soriant?* Nid yw gofidiau y bywyd hwn i'w cydmaru â'r trueni sydd yn aros y rhai a fyddant feirw heb Grist. CLARKE.—*Fel y mae dy ofn y mae dy ddigter.* Mae dy ddigter i'w arwyddo yn ol dy fawrhydi ofnadwy. WILLIAMS.

Adn. 13. *Ac edifarha,* neu yn ol BOOTHROYD, "cymmoda â'th weision."

Adn. 15. *Y gwelsom ddrygfyd,* neu, "y dïoddefasom ddrygfyd." BOOTHROYD.

Adn. 16. *Gweler dy waith tuag at dy weision,* mewn gras a thrugaredd, yn rhoddi edifeirwch i ni, ac yn ein gwaredu oddiwrth ein gelynion.—*A'th ogoniant,* gweithredoedd trugaredd Duw yw ei ogoniant ef; canys ynddynt yr amlygir ei ragoriaethau dwyfol. BOOTHROYD.

Adn. 17. *A bydded prydferthwch,* neu, "ffafr" *yr Arglwydd ein Duw arnom ni.*

## SALM XCI.

Prïodolir y Salm hon yn fwyaf cyffredin i Dafydd, a meddylir ddarfod iddo ei chyfansddi ar yr achlysur o'r pla, am yr hwn y sonir yn 2 Sam. 24. GILL.

Adn. 1. *Yr hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf*, ei galon, ei fynwes; a elwir "dirgelfa ei wyneb," Salm 31. 20; neu yn hytrach, Crist, y graig, yn holltau yr hon y mae y credadyn yn cael ymguddfa, Can. 2. 14. Sonir hefyd am "ddirgelfa ei babell," lle y cuddia efe ei bobl, Sal. 27. 5. Gelwir y cyssegr ei "ddirgelfa," Ezec. 7. 22; ac e ddichon ei fod yn cyfeirio at weinidogaeth y gair a'r ordinhadau, yn y rhai y triga y saint. GILL.—Lle y triga Duw, ar y drugareddfa, yno mae y ffoadur yn ymgysgodi dan darian o Hollalluowgrwydd. SUTCLIFFE.

Adn. 3. *O fagl yr heliwr*, yma cyfnewidir y gyffelybiaeth, a chydmerir yr Israeliad crediniol i'eryr ieuanc, dan adenydd yr hen aderyn breninol, yr hwn ni feiddia un heliwr nesâu at ei nyth. WILLIAMS. Gwel Obadiah 1, 3, 4.

Adn. 6. *Na rhag y dinystr a ddinystrio ganol dydd*, fel yr haint a achlysurwyd trwy i Dafydd rifo y bobl. Hwyrach fod yma gyfeiriad at rym anwrthwynebol haul tanbaid, neu wyntoedd poethion y gwledydd dwyreiniol i ddinystrio nerth dynion.

Adn. 13. *Ar y llew a'r asp y cerddi*, ymadroddion cyffelybiaethol am Satan a'i dylwyth o ddynion drygionus, ar y rhai y bydd i'r credinwyr fel Cadben eu hiachawdwriaeth, gael buddugoliaeth drwyadl. SCOTT.

Adn. 14. *Am iddo adnabod fy enw*, neu, addef fy ngallu, ac ymddiried ynof. PATRICK.

## SALM XCII.

Meddylir mai Dafydd a gyfansoddodd y Salm hon, ac y mae y crybwylliad a wneir ynddi o'r amrywiol offer cerdd, o dŷ yr Arglwydd, ac o gynteddoedd ein Duw ni, yn tueddu i gadarnhau y cyfryw olygiad. GILL. Ond CALMET a feddyliai mai y Lefiaid a'i cyfansoddasai ar derfyn y caethiwed Babilonaidd.

Adn. 4. *Canys llawenychaist fi, O Arglwydd, â'th weithred*, neu "â'th weithrediadau." BOOTHROYD. O greadigaeth. *Esgob* HORNE. O ragluniaeth. ROSENMULLER. At yr hyn y gellir chwanegu ei waith o ras ynom, ac o brynedigaeth drosom. HENRY, GILL.

Adn. 5. *Dy feddyliau*, neu "dy gynghorion," fel yr arferir y gair yn aml. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Gwr annoeth*, sef dyn anianol, heb oleu ei feddwl gan Ysbryd Duw i farnu pethau ysbrydol yn brïodol.—*Ni ddeall hyn*, sef yr hyn a ganlyn mae yn debyg.

Adn. 10. *Ag olew ir y'm henneinir*. Hwy a arferent enneinio eu penau âg olew ar ddyddiau eu huchel-wyliau, Sal. 23. 5, a'i

arfer yn feddygol, er cryfäad i'w nerth. Gan hyny, yr ystyr yw, Ti a ychwanegi fy nerth, ac a roddi achlysur llawenydd i mi. BOOTHROYD. Mae olew yn aml yn cael ei ddefnyddio yn ddarlunadol o'r Ysbryd Glân, ei ddoniau, a'i rasusau; a gall fod olew îr yn dynodi adgyflenwad newydd o ras, a llawenydd a dyddanwch yr Ysbryd Glân. GILL.

Adn. 11. *Fy ngwynfyd*, a *fy ewyllys*, ydynt eiriau llanw a chwanegwyd gan y cyfieithwyr; ac y mae BOOTHROYD, a rhai dysgedigion eraill, yn dewis darllen yr adnod yn wahanol, "Fy llygad a wel gwymp fy ngelynion; fy nghlust a glyw am ddystryw y rhai drygionus a gyfodant i'm herbyn."

Adn. 12. *Y cyfiawn a flodeua fel palmwydden.* Mae y pren uchel yma yn un o'r rhai mwyaf gwasanaethgar yn y gwledydd dwyreiniol; ei ffrwyth sydd ymborth dymunol, cerrig yr hwn a falant i'r camelod i'w fwytta; o'i ddail y gwneir ysgubellau a matrasau, &c.; o'i fân geingciau y gwneir cewyll a gwrychoedd, o'i risgl y gwneir edafedd, rhaffau, a hwyliau; o'i sug, fath o wirod a meddyglyn; a'i fôn a ddefnyddiant yn danwydd. Mae yn oesi tua chàn mlynedd, ac yn dwyn ffrwyth bob blwyddyn am ddeng mlynedd a thriugain, gan gynnyrchu o dri i bedwar càn pwys o ffrwyth, yr hwn a elwir *dates*, yn flyneddol. DR. T. M. HARRIES. Gall y gyffelybiaeth hon fod yn gymhwys i ddarlunio defnyddioldeb y cyfiawn, a'i duedd i adfywio dan bob gormes, canys dywedir mai un o ragoriaethau y balmwydden yw, y bydd iddi hi ymsythu ychwaneg yn wyneb dodiad pwysau arni. COBBIN. Y *cedrwydd* hefyd ydynt ddarluniadau nodedig o nerth ac anllygredigaeth. DAVIDSON.

Adn. 13. *Y rhai a blannwyd yn nhŷ Dduw.* Nid oedd coed naturiol yn tyfu yn, nac yn agos i dŷ yr Arglwydd, ar fynydd Sïon; er hyny, gan fod dynion da, dymuniad y rhai yw cael aros yn y tŷ byth, Salm 23. 6. a 27. 4. (cymh. Luc 2. 37.) newydd gael eu cydmaru i brennau, nid oedd yn anmhriodol siarad am y cyfryw bersonau, fel rhai wedi eu plannu yn y tŷ hwnw, ac yn blaguro yno.

## SALM XCIII.

Mae y LXX, a rhai o'r hen gyfieithiadau yn prïodoli y Salm hon i Dafydd, ac nid oes un sail neillduol yn ymddangos i ammeu hyny. Gellid rhannu ei chynnwys i dri dosbarth neillduol, I. Arhonir breniniaeth Duw ar bob peth yma, yn naturiol ac yn ysbrydol; adn. 1. *Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu.*

II. Darlunir Holldduigonolrwydd Duw i'w freniniaeth hon, yr hyn a osodir allan yn ardderchawgrwydd ei fawrhydi, *Efe a wisgodd ardderchawgrwydd.*—Ac yn ei wroldeb annghyffredinol, *Gwisgodd yr Arglwydd nerth, ac ymwregysodd.*

III. Ymhelaethir ar freniniaeth a llywodraeth yr Arglwydd

yn mhellach, trwy yr effaith o honi, adn. 1.—*Y byd hefyd a sicrhawyd, fel na syflo.*—A thrwy dragywyddoldeb ansigledig y llywodraeth ei hunan, adn. 2.—Trwy gydmariaeth o'r cynnyrfiadau mwyaf ofnadwy yn y byd isod yma, â'r Arglwydd yn yr uchelder, yr hwn sydd yn annhraethol gadarnach na hwynt oll, fel y gall eu darostwng pan y myno, adn. 3, 4.—Trwy ffyddlondeb trwyadl ei dystiolaethau yn ei eglwys, a'r sancteiddrwydd o'r hwn y mae ei dŷ i gael ei wneuthur yn gyfrannog yn ol ei dystiolaethau, adn. 5.—*Sancteiddrwydd a weddai*, neu "yw tegwch" *dy dŷ di.*

## SALM XCIV.

Mae yn amlwg i'r Salm hon gael ei chyfansoddi mewn cyfyngder mawr, yn nghaethiwed Babilon, medd rhai. A. CLARKE.—Dan orthrymder mawr yn amser rhyfel, medd eraill. SUTCLIFFE.

Adn. 1. *Ymddysgleiria*, mewn trugaredd i ni, a dychryn i'n gelynion, Salm 80. 2.

Adn. 2. *Ymddyrcha*, h. y. Esgyn i orsedd barn.

Adn. 5. *Dy bobl*, neu "dy bobl dy hun" *a ddrylliant*, sef y rhai gwir dduwiol, y rhai oeddynt Israeliaid yn wir.

Adn. 7. *Dywedant hefyd, Ni wel yr Arglwydd.* Mae yn debyg fod llawer o honynt, gan eu bod yn annghredinwyr, yn gwadu rhagluniaeth Duw, a'i ymyriad â phethau dynol, fel pe buasent yn annheilwng o'i sylw ef.

Adn. 9—11. *Oni chlyw yr hwn a blannodd y glust, &c.* Dyma apeliad o'r fath gymhwysaf a mwyaf argyhoeddiadol at amgyffred a chydwybodau dynion.

Adn. 15. *Eithr barn a ddychwel at gyfiawnder.* Amlygir llywodraeth Duw, a'i ragluniaeth ef yn uniawn, er cammed y gall ei bod yn ymddangos yn bresenol. HENRY. Yn bresenol, y mae barn fel pe byddai wedi ei hysgaru oddiwrth gyfiawnder, y cyfiawn yn dyoddef, a'r anwir yn cael dïanc; ond yma addewir y gwaredir y duwiol, ac y cosbir y drygionus, ac yna barn a ddychwel at gyfiawnder. ROBERTS.—*A'r holl rai uniawn o galon a ânt ar ei ol ef*, hyny yw, fe gadarnheir y rhai uniawn o galon i fyned yn fwy siriol ar ol Duw, wrth weled uniondeb ei ragluniaeth ef.

Adn. 19. *Yn amlder fy meddyliau*, y rhai ydynt drystfawr fel tyrfa, a thra afrëolus, cyffröus, a thrallodus o'm mewn.

Adn. 21. *Yn finteioedd y deuant yn erbyn enaid*, sef "bywyd" *y cyfiawn.*

## SALM XCV.

Mae yr Iuddewon yn unfryd yn prïodoli y Salm hon at amser y Messïah; ac y mae yn debyg mai Dafydd a'i cyfansoddodd hi pan oedd Duw wedi rhoddi yr holl genhedloedd cylchynol i'w law ef. SUTCLIFFE.

Adn. 8. *Na chaledwch eich calonnau.* Nac ymgyndynwch mewn gwrthodiad o'r Arglwydd. Mae y cynghor difrifol yma, yn gymhwysiad tra phrïodol oddiwrth y gwirionedd pwysig a ddysgasid yn yr adnodau blaenorol, sef mai Duw yw pen Arglwydd pawb a phob peth. Ac y mae yr apostol yn dyfynu yr ymadrodd yma i'r un perwyl; canys efe a'i dwg i fewn ar ol profi Duwdod Crist, a'i ddyrchafiad ef i orsedd y nef, i waredu a llywodraethu y cenhedloedd. Gwel Heb. 3. 7—11.

## SALM XCVI.

Nyni a welwn yn 1 Cron. 16, fod Dafydd wedi traddodi y Salm hon ar yr achlysur o symmudiad yr arch i'r lle a barottoisid iddi hi ar fynydd Sïon, i'w chanu er coffadwriaeth o bresenoldeb neillduol yr Arglwydd yn eu plith hwy. Mae Iuddewon a Chenhedloedd yn cydunaw i'w chymhwyso yn broffwydoliaethol at amserau y Messïah. HORNE, TRAVELL. A deallwn oddiwrth y cyfieithiad Groegaidd, iddi gael ei defnyddio gydag ychydig gyfnewidiadau ar gyssegriad yr ail deml. ROSENMULLER.

Adn 5. *Ydynt eilunod,* neu wagedd, pethau llwyr ddiles.

Adn. 7. *Tylwythau y bobl rhoddwch i'r Arglwydd.* Yr oedd efe wedi annog yr Israeliaid yn adn. 3, i ddatgan gogoniant Duw yn mysg y cenhedloedd, ac yma y mae efe yn gwahodd y cenhedloedd hwythau i roddi gogoniant i Dduw.

Adn. 9. *Mewn prydferthwch sancteiddrwydd.* "Yn ei deml sanctaidd." *Sept.*—"Yn mhabell ei sancteiddrwydd." SHERLOCK. "Mewn gwisgoedd sanctaidd." CLARKE. "A pharch sanctaidd." BOOTHROYD.

## SALM XCVII.

Adn. 1. *Ynysoedd lawer,* mae y gair yn fynych yn dynodi y gwledydd ar lànau y moroedd; ond hwyrach ei fod yn cynnwys pob parth trigiannol o'r byd. Gelwid ar y rhai hyn oll i lawenychu, oblegid fod Duw am amlygu ei oruchelder yn mhob man, er dymchwelyd eilun-addoliaeth, a dyrchafu y cyfiawn.

Adn. 2—6. Trwy gyfeiriad at yr olygfa arswydus ar Sinai, darlunir yn yr ymadroddion hyn y cyfnewidiad moesol mawr a gymerai le mewn canlyniad i ymddangosiad Crist, a gweinidogaeth ei eglwys, yr hyn a ddarlunir yma trwy y nefoedd yn mynegi ei gyfiawnder ef. Cymh. Heb. 12. 26.

Adn. 7. Gwel Heb. 1. 6. Yr hon, yn ol barn HAMMOND a BOOTHROYD, sydd ddyfyniad o'r fan yma.

Adn. 8. *Merched Judah,* neu ei dinasoedd, yn mysg y rhai yr oedd Sïon fel y fam ddinas.

Adn. 11. *Hauwyd goleuni i'r cyfiawn,* neu "taenwyd goleuni dros y cyfiawn." HORSLEY. Y cwmmwl a orchuddiai freniniaeth y Messiah a chwalwyd gan oleuni y gwirionedd a dywelltid ar y

byd trwy ei angau, ei adgyfodiad, a'i ogoneddiad ef. Ac yn y goleuni hwn y mae y cyfiawn yn ymorfoleddu. DAVIDSON.

## SALM XCVIII.

Testun y gân hon yw cyflawniad yr addewidion a wnaethpwyd i'r tadau, am iachawdwriaeth drwy y Messiah; cymh. Mich. 7. 18—20. Sal. 96. 1. 11—13. Luc 1. 46—55.

Adn. 2. *Hysbysodd yr Arglwydd ei iachawdwriaeth*, trwy ymddangosiad ei Fab yn y cnawd, a'r rhyfeddodau a wnaed ganddo ef.—*Datguddiodd ei gyfiawnder y'ngolwg y Cenhedloedd*, trwy yr efengyl, yr hon sydd yn wynebu â'i chenadwri at yr holl genhedloedd; yn yr hon y datguddir cyfiawnder Duw trwy ffydd.

Adn. 7—9. Yma gelwir ar y crëaduriaid difywyd i ymuno yn y gyd-gan o fawl ar ymddangosiad y Gwaredwr.

## SALM XCIX.

Adn. 1. *Eistedd y mae rhwng y cerubiaid*, mae hyn yn dynodi gras a thrugaredd Duw, trwy gyfeiriad at yr arch, a cherub y gogoniant ar bob pen iddi, ar gauad yr hon, yr hwn hefyd a elwid y drugareddfa, yr ymddangosai y Secinah.

Adn. 4. *A nerth y brenhin*, neu, "A'r hwn sydd frenin nerthol a chadarn." GILL. Er bod nerth ein Brenin yn anfeidrol, nid yw efe byth yn ei arfer ond mewn cyfiawnder a barn. *Esgob* HORNE.

Adn. 6. *Moses ac Aaron y'mhlith ei offeiriaid*. Gweinyddai Moses fel offeiriad cyn galw a neillduo Aaron i'r swydd hono; ac efe a gyssegrodd ac a osododd Aaron yn ei swydd, trwy amrywiol ddefodau, ac yn mysg pethau eraill, trwy offrymu aberth, Exod. 29. 1. Gwel hefyd Exod. 24. 7, 8. Num. 7. 1, &c. GILL. Crybwyllir y rhai hyn yma fel esamplau.

Adn. 8. *Duw oeddit yn eu harbed*, neu, "Duw maddeugar oeddit iddynt, er cosbi o honot eu drwg-weithredoedd." BOOTHROYD. Meddylia rhai mai drwg-weithredoedd y bobl a olygid yma, ond y mae yn debycach mai at ymddygiadau Moses ac Aaron trwy yr hyn y digiasant yr Arglwydd fel na chaniattai iddynt fyned i dir yr addewid, y cyfeirid yma. Gwel Num. 20. 12. Deut. 32. 50—52.

## SALM C.

Nid yw yn sicr pwy a gyfansoddodd y Salm hon; yn nghyfieithiad y Deg-a-thriugain, prïodolir hon a'r rhai blaenorol iddi, i Dafydd; ond pwy bynnag oedd ei hawdwr, cyttunir yn dra chyffredin mai y dyben o'i chyfansoddi oedd, fel y'i harferid gyd âg offrymiad yr aberth dïolch, Lef. 7. 12.

Adn. 3. *Efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain*, neu, yn hytrach, "A'i eiddo ef ydym." Wedi ein gwneyd, ein cynnal, a'n bendithio, medda yr hawl gryfaf ynom.

Adn. 5. *A'i wirionedd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth,* sef ei ffyddlondeb i gyflawni ei holl addewidion.

## SALM CI.

Mae yn debyg i'r Salm hon gael ei hysgrifenu gan Dafydd pan oedd efe newydd ei sefydlu yn y freniniaeth, ac ynddi y darlunia yr egwyddorion wrth y rhai yr amcanai ddwyn achosion y llywodraeth yn mlaen.

Adn. 1. *Canaf am drugaredd a barn,* penderfynai foliannu Duw am yr adfyd a'r hawddfyd a'i cyfarfuasai yn nhrefn rhagluniaeth; neu ynte hwyrach mai math o ddatganiad o'i eiddo ar ddechreuad ei deyrnasiad oedd hyn, ei fod ef yn llawn amcanu cyd-dymheru cyfiawnder a thrugaredd yn ei holl benderfyniadau barnol. CLARKE, WILLIAMS.

Adn. 2. *Pa bryd y deui attaf?* neu, pan y deui attaf, h.y. pan ysbrydolech fi â dawn yr Ysbryd Glân.—*Rhodiaf,* neu gwnaf benderfyniad cryf i rodio fel hyn. A. CLARKE.

Adn. 3. *Ni osodaf ddim anwir o flaen fy llygaid,* hyny yw, ni choleddaf, ac ni chyd-ddygaf âg unrhyw weithred annghyfreithlawn. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Nid adnabyddaf ddyn drygionus,* h.y. ni chaiff dyn drygionus ffafr gennyf;—ni chefnogaf ef yn ei ddrygioni. WILLIAMS, &c.

Adn. 6. *Yr hwn a rodia mewn ffordd berffaith,* neu " yn ffordd uniondeb." GREEN.

Adn. 8. *Yn foreu y torraf ymaith holl annuwiolion y tir,* efe a amcanai neillduo y boreuau i weini cyfiawnder, fel y mae yr arferiad mewn amrywiol o'r gwledydd dwyreiniol eto, 2 Sam. 15. 2. Jer. 21. 12. CHANDLER. Yr ystyr yw, y byddai iddo ef wneyd esampl o honynt ar frys, cyn caffael o honynt amser na chyfleusdra i lygru eraill. HEWLETT. Yn nechreuad neu foreu ei freniniaeth. WILLIAMS.

## SALM CII.

Gellid casglu oddiwrth adn. 13, mai tua diwedd amser y caethiwed y cyfansoddid y Salm hon, ond ni's gwyddis pwy oedd ei hawdwr, tybia rhai mai Daniel, ac eraill mai Nehemiah ydoedd; ond ni's medd neb ddim amgen na thŷb yn y diwedd. Un peth sydd sicr mewn perthynas iddi, sef ei bod yn cynnwys ystyr broffwydoliaethol o ddyfodiad y Gwaredwr a'i waith. Y rhan gyntaf o honi, hyd adn. 24, a leferir gan yr eglwys, neu gan y Messiah fel ei chynnrychiolydd. Ac oddiyno hyd y diwedd, cyferchir y Messiah gan yr Arglwydd, Heb. 1. 8—12.

Adn. 3—5. Yn yr adnodau hyn, mae y cyffelybiaethau cryfaf yn cael eu defnyddio i osod allan lymder dïoddefiadau, cymh. Sal. 37. 20. Job 30. 30. Sal. 31. 10. Galar. 4. 8.

Adn. 6. *Tebyg wyf i belican yr anialwch.* Y pelican a arfera wneyd ei nyth yn gyffredin mewn lleoedd mawnog, mewn ynysoedd yn nghanol afonydd neu lynoedd, yn mhell oddiwrth bob trigfa ddynol. MANT. Mae llais yr aderyn hwn yn dra annymunol, ac yn lled debyg, medd rhai, i gwynfanau aethus dyn mewn gofid dwys. T. M. HARRIS. Gellir gweled y pelican yn eistedd wrthi ei hunan am ddiwrnod cyfan, ar fin craig, o fewn troedfedd neu ddwy i wyneb y dwfr, i'r hwn y disgyna yn awr ac yn y man, gyda chyfeiriad di feth at y pysgodyn anffodus a ddigwydda ddyfod o fewn ei chyrhaedd; yna eistedda wrthi ei hun fel cynt drachefn. Bryd arall gellir ei gweled yn ehedeg yn gyflym, ddeg-ar-hugain neu ddeugain milldir i'r wlad, fel y caffo wledda wrthi ei hunan yn yr anialwch annghyfanneddol ar yr ystor bysgod a ddaliasai y dydd.

Adn. 7. *Fel aderyn y tô*, neu, "fel yr aderyn bychan unigol;" canys y mae y gair a gyfieithir *aderyn y tô*, yn arwyddocâu aderyn bychan yn fwyaf neillduol.—Math o aderyn bychan a eistedda wrtho ei hun ar gribau hen adeiliadau, neu nenau temlau, ac a gân yn beraidd iawn, yn enwedig yn y boreu. *Pictorial Bible.* PARKHURST.

Adn. 9. *Bwytteais ludw fel bara*, ymadrodd diarhebol grymmus, er dynodi y cyflwr isaf o gystudd a thruenusrwydd. HEWLETT.

Adn. 13. *Yr amser nodedig a ddaeth*, sef diwedd y deng mlynedd a thriugain, a bennodasai Duw yn ysbaid parāad y caethgludiad, Jer. 25. 12. a 29. 10. Dan. 9. 2.

Adn. 15. *Felly y Cenhedloedd a ofnant enw yr Arglwydd.* Pan arferer Sïon, ac y delo y tywysog, y Messiah, yna y Cenhedloedd a'th fawrhânt, ac a'th addolant.

Adn. 18—22. Mae yn dra thebyg fod yma gyfeiriad at ddyfodiad a gwaith y Gwaredwr yn yr adnodau hyn, a galwad y Cenhedloedd i adnabyddiaeth o Dduw, a'i iachawdwriaeth ef. BOOTHROYD.

Adn. 28. *Plant dy weision a barhânt*, yr hyn a arwyddocâ y bydd gan yr Arglwydd ei eglwys, a'i hâd sanctaidd yn mhob oes.

## SALM CIII.

Yr oedd PATRICK, DELANEY, ac amryw ddysgedigion eraill o'r farn mai ar ei adferiad o ryw gystudd peryglus y cyfansoddai Dafydd y Salm hon; ond barnai DATHE mai ar ol ei gystudd yn achos y plentyn o Bathseba y'i cyfansoddasai efe hi.

Adn. 5. *Fel yr adnewyddir dy ieuenctyd fel yr eryr.* Yr hen farn gyffredin oedd fod yr eryr yn bwrw ei blu yn ei hen ddyddiau, ac yn cael adnewyddu ei blu, a chyda hwy ei ieuenctyd, ac er y buasai hyn yn ddigon o awdurdod i fardd i ddefnyddio y golygiad fel cyffelybiaeth, neu addurn yn ei gân, eto haws genym gredu

mai at adnewyddiad grym a bywiogrwydd adar wedi bwrw eu plu a chael plu newyddion, y mae y cyfeiriad yma. Mae y cyfnewidiad hwn yn ymddangos yn amlycaf yn yr adar cryfaf a mwyaf pluog fel yr eryr. Nid yw y testyn hwn mewn un modd yn cefnogi yr hen dŷb gyfeiliornus o fod yr eryr mewn gwirionedd yn adnewyddu ei ieuenctyd yn ei henaint.

Adn. 15. *Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn*, yma cyferbynir byrder einioes dyn, â pharhâd trugaredd Ddwyfol, yr hon a gofleidia holl yspaid amser, ac a ymestyna i dragywyddoldeb.

## SALM CIV.

Mae y prif feirniaid yn cydunaw i arganmol y Salm hon fel yr un ragoraf o'r holl ganiadau sanctaidd hyn, o ran rhëoleidd-dra ei chyfansoddiad, amrywiaeth ei meddyl-ddrychau, a gwychder ac eglurder ei geirweddiad.

Adn. 3. *Yr hwn sydd yn gosod tylathau ei ystafelloedd yn y dyfroedd:* yma mae y bardd sanctaidd yn golygu y cymmylau uchel fel goruwch ystafell llŷs Duw, lloriau yr hon ydyw y dyfroedd a gynnwysa y cymmylau. BOOTHROYD.—*Ac yn rhodio ar adenydd y gwynt*, darluniad godidog o dawelwch, a llywodraeth berffaith ar yr elfen fwyaf cyffrous yn ei grym a'i gwylltedd eithaf. HERVEY.

Adn. 4. *Yr hwn sydd yn gwneuthur ei genhadon yn ysbrydion, &c.*, neu, " Yr hwn sydd yn gwneuthur y gwyntoedd fel ei genhadon, a'r tân fflamllyd, neu y mellt, fel ei weinidogion." BOOTHROYD, BERKLEY. Mae yr apostol yn Heb. 1. 7, yn rhoi ar ddeall i ni fod yma gyfeiriad pellach yn y geiriau at y bodau ysbrydol a elwir angelion, naill ai o herwydd eu bod wedi ymddangos ar ddull yr elfenau crybwylledig, neu o herwydd eu bod wedi eu doniaw â rhagoriaethau y gwynt, a'r tân fflamllyd. *Esgob* HORNE.

Adn. 6. *Töaist hi â'r gorddyfnder, megis â gwisg.* Cyfeiriad mae yn debyg at gyflwr y ddaiar yn y dechreuad, fel y cawn ni hanes gan Moses, yn orchuddiedig â dyfroedd. GILL, CLARKE, BOOTHROYD. Meddylia eraill mai at y dylif y cyfeirir yma yn hytrach.

Adn. 16—18. Mae haelioni y Goruchaf yn gyffredinol; ac efe a arlwyodd yn helaeth ar gyfer pob un o'i grëaduriaid, ac a'u doniodd â galluoedd i ddefnyddio y cyfan o'i holl ddoniau gwerthfawr er eu cysur a'u gwasanaeth. Mae y gair a gyfieithir adar, yn ddynodawl o adar bychain yn fwyaf neillduol.—*Y ciconia* a berthyna i ddosparth yr adar mawr. Mae yr adar hyn yn gorchuddio yr awyr fel cwmmwl weithiau mewn parthau o'r Tir Sanctaidd. DOUBDAN. Maent yn dra lluosawg yn Barbari, lle yr adeiladant eu nythod o frigau crinion ar gribau uchaf hen adfeiliau a thai; ond pan fethont a chael y cyfryw fanteision, gwnant eu triglëoedd yn y ffynidwydd. SHAW.

Adn. 27. *Y rhai hyn oll a ddisgwyliant wrthyt, &c.*, yma mae y grëadigaeth fawr yn cael ei darlunio fel un teulu lluosawg, yn cael ei gynnal ar oludoedd a haelioni y Jehofah fel penteulu mawr. SCOTT.

Adn. 30. *Pan ollyngech dy Ysbryd y crëir hwynt*, hyny ydyw, y mae tô newydd yn cyfodi i lanw lle y rhai a drengasant.

Adn. 32. *Efe a edrych ar y ddaear, a hi a gryna*, fel Sinai, pan ddisgynodd Duw arno gynt, Sal. 68. 8. a 77. 19. Gwel Exod. 19. 18.

## SALM CV.

Cyfansoddid y rhan gyntaf o'r Salm hon gan Dafydd, pan oedd efe yn dwyn yr arch i Sïon, 1 Cron. 16; ac y mae yn dra thebyg mai efe a'i hëangodd wedi hyny. EDWARDS.

Adn. 4. *Ceisiwch yr Arglwydd a'i nerth*, neu ei arch ef, a elwir hefyd, "ei nerth, arch ei gadernid ef." Salm 78. 61. a 132. 8, oblegid iddo ddangos ei nerth mawr trwyddi hi wrth yr Iorddonen, Jericho, &c. GILL.

Adn. 14. *Ceryddodd freninoedd o'u plegid*, Pharaoh, Gen. 12. 17; ac Abimelech, Gen. 20. 3.

Adn. 16. *Galwodd hefyd am newyn ar y tir.* Mae y Salmydd yma yn darlunio newyn fel un o weision yr Arglwydd, yn barod i fyned ac i ddyfod wrth alwad a gorchymyn Duw.—*Ac a ddrylliodd holl gynhaliaeth bara*, neu ffon bara, yr hon yw ffon a chynhaliaeth bywyd, tori hon oedd ddarluniadol o ddwyn gwasgfa, angen a chaledi ar y wlad. HORNE, HEWLETT.

Adn. 19. *Hyd yr amser y daeth ei air ef*, neu y cwblhawyd yr hyn a ragfynegasai efe, cyfeiriad mae yn debyg at y dëongliad a roisai efe i freuddwydion pobydd â thrulliad Pharaoh yn y carchar.—*Gair yr Arglwydd a'i profodd ef*, neu, "a'i heglurodd ef," BOOTHROYD. h. y. ei oracl i Pharaoh, pan y'i cyflawnid, a'i profai ger bron pawb, yn wir broffwyd i'r Arglwydd.

Adn. 28. *Ac nid anufuddhasant hwy ei air ef.* Cyfeiriad at ryw weithred arbenig o ufudd-dod o eiddo Israel,—enwaediad, cyn bwytta y pasg, efallai, Exod. 12. 48. LIGHTFOOT—Moses ac Aaron a olygir, a rhai a gyflawnasant eu cennadwri yn mhob peth yn fanwl, "heb ofni llid y brenin." SCOTT. Ond y cyfieithiadau *Sept. Vulg.* ac *Arabäeg*, a'i darllenant yn wahanol, "Eto hwy a wrthryfelasant;" felly BOOTHROYD.

## SALM CVI.

Tebygid mai math o arddawd *(appendix)*, i'r Salm flaenorol ydyw hon; ac y mae yr adnodau olaf o honi, y rhai a fuant yn achlysur i rai feddwl mai yn nghaethiwed Babilon y'i hysgrifenid, i'w canfod o ran y sylwedd o honynt yn y Salm a arferai Dafydd ar symmudiad yr arch i fynydd Sïon, 1 Cron. 16. 34. SCOTT.

Adn. 4, 5. *Cofia fi Arglwydd.* Mae y Salmydd yn gyntaf yn

offrymmu ei ddeisyfiadau drosto ei hun, ac yna yn cyfeirio at holl gorff y bobl, yn llwyddiant, llawenydd, a gorfoledd y rhai y dymunai efe gael cyfranogi.

Adn. 6. *Pechasom gyd a'n tadau*, neu, yn ol eu siampl hwynt. HORNE.

Adn. 12. *Canasant ei fawl ef*; cyfeiriad at gân Moses, Exod. 15. BOOTHROYD.

Adn. 13. *Yn y fan yr anghofiasant ei weithredoedd ef*, sef, yn mhen tri diwrnod, wrth ddyfroedd Marah, Exod. 15. 24.—*Ni ddisgwyliasant am ei gynghor ef*, h.y. hyd oni fyddai i Dduw gwblhau ei fwriadau ei hun, yn ei lwybr ei hun. A. CLARKE.

Adn. 15. *Eithr efe a anfonodd gulni i'w henaid*, neu, fath o gystuddiau nychlyd arnynt. BOOTHROYD.

Adn. 20. *Felly y troisant eu gogoniant*, hyd y gallent hwy, gan gyflwyno yr addoliad a berthynai i'r Duw pur, ac anweledig, *i lun eidion yn pori glaswellt*; Exod. 32. 2, &c.

Adn. 26. *Yna y dyrchafodd efe ei law yn eu herbyn hwynt*, ymadrodd yn dynodi llw difrifol, gwel Num. 14. Cym. Exod. 20. 5. a 32. 34. Lef. 26. 33. BOOTHROYD.

Adn. 28. *Ebyrth y meirw*, neu, eilunod, y rhai a enwid yn gyffredin ar enwau rhai o'u hên wroniaid a fuasent feirw, ac a addolid ganddynt yn yr eilunod hyn.

Adn. 45. *Ac efe a gofiodd ei gyfammod â hwynt*, sef, ei gyfammod âg Abraham, Isaac, a Jacob, gwel Sal. 105. 8, 9, 10. GILL.

## SALM CVII.

Nid ydys yn sicr pwy all fod awdwr y Salm hon, ond y mae yn debyg mai Dafydd ydoedd, er fod rhai yn casglu yn hytrach oddiwrth adn. 16., ei fod yn fwy tebyg iddi gael ei chyfansoddi ar ol y dychweliad o gaethiwed Babilon. Mae llawer o hynodrwydd yn nghyfansoddiad y Salm hon, ac y mae yn amlwg ei bod wedi ei chyfansoddi i'w chanu yn ymattebol. Mae math o air cyrch dyblyg yn aml ynddi; y cyntaf a gair yn adn. 6, 13, 19, 28; a'r ail yn adn. 8, 15, 21, 31; hyny yw, wedi y darluniad o ryw ddosbarth neillduol o anhwyldeb, y dylyna y cyd-gor cyntaf, yn cynnwys gweddi ar Dduw am waredigaeth; yna, mewn un adnod darlunir y gweinyddiad o'r waredigaeth, yr hon a ddilynir gan gyd-gor o ddïolchgarwch, ac felly yn mlaen hyd adn. 35, lle y mae y drefn-ddull yma yn terfynu. Ond y mae y ddau gyd-gor olaf yn cael eu hysgaru gan ddwy adnod yn lle un fel o'r blaen.

Adn. 3. *Ac o'r dehau*, neu, yn ol yr Hebraeg llythyrenol, "ac o'r môr," y Mor Coch mae yn dra thebyg a olygid, yr hwn gan ei fod ar y tu deheuol i Judah, a ddefnyddid i ddynodi y dehau.

Adn. 4. *Heb gael dinas i aros ynddi*, neu, heb gael dinas drigiannol, sef, man addas i wneyd eu trigfa ynddo, a disgwyl adfywiad ar ol eu lludded o'u blinder.

Adn. 10—14. Cyfeiriaid amlwg at rai a garcherid mewn daiar-dai. Yr oedd yr hên garcharau yn yr oesoedd gynt yn llëoedd tywyll, drygsawrus, llawn o dawch afiachus a niweidiol.

Adn. 16—20. Mae yn ddïau mai rhai wedi eu carcharu mewn amddiffynfa, neu ddinas, ac nid mewn daiar-dai, yw y trueiniaid a ddarlunir yn yr adnodau hyn, ac fel y cyfryw yn gaeth-weision debygid. Mae yr ymadroddion *pyrth pres*, a *barrau heiyrn*, yn ddïau yn cyfeirio at ddinasoedd cedyrn yr henafiaid; gwel Esa. 45. 3.—*Anfonodd ei air*, cyfeiriad hwyrach, at y dull arferedig o dderbyn datguddiad o ewyllys Duw trwy y proffwydi.—*Ac iachäodd hwynt*, maddeuodd iddynt, ac adferodd hwynt.

Adn. 23—30. Dyma ddarluniad rhagorol wych o ystorm ar y môr, yn yr hon y mae y morwyr yn ymddyrysu, a'u holl fedr yn methu gweini ymwared iddynt, nes bod yn rhaid iddynt droi at yr Arglwydd yn unig am waredigaeth. A byddai yn brïodol i'r darllenydd sylwi, fod pob gwaredigaeth a grybwyllir wedi ei rhoddi mewn attebiad i weddïau rhai wedi eu llwyr argyhoeddi nad oedd dim ond dystryw annocheladwy ar eu rhan oddieithr i'r Arglwydd amlygu ei drugaredd a'i allu ar eu rhan, a'r rhai, o herwydd hyny, a ddyrchafent eu llygaid a'u calonau ato ef yn unig am ymwared.

Adn. 39. *Lleiheir hwynt hefyd*, neu, "lleiheir eraill hefyd," BOOTHROYD. Mae y Salmydd yma yn tystio, y byddai i Dduw eu rhoddi hwynt i fynu am eu camweddau, i drais a chaethiwed; ac y byddai iddo ef gosbi y tywysogion drygionus âg alltudiaeth, neu ddystryw, tra fyddai i'r rhai a ormesid ganddynt gael eu dyrchafu i anrhydedd. BOOTHROYD.

Adn. 42. *A phob anwiredd a gau ei safn*, yr holl annghyfiawnion a geir yn euog, a chosbedigaeth gyfiawn a'u goddiwedda. Mae yn amlwg fod y gwaith yma yn cael ei roddi am y gweithydd; cymh. Sal. 63. 11.

## SALM CVIII.

Ail adroddiad yw y Salm hon o Sal. 57. 7—11. a 60. 5—12., ar y rhai edryched y darllenydd y Nodiadau.

## SALM CIX.

Adn. 1—5. Mae yn llwyr ddïangenrhaid i ni geisio cyfiawnhau Dafydd, neu pwy bynnag oedd ysgrifenydd y Salm hon, a'i chyffelyb, oddiwrth y cyhuddiad o greulondeb ac ymddïal; gan fod eu nodwedd broffwydoliaethol wedi ei sicrhau drwy yr awdurdod uchelaf, sef, eglurhad yr Ysbryd Glân; gwel Act. 1. 20—*Minnau a arferaf weddi;* neu, "Minnau, gweddi," fel pe dynodasai mai dyma fyddai holl arfogaeth y llefarydd yn mhob ystyr, yn ddiffynol ac ymosodol. Nyni a ganfyddwn yr un dull Hebrëaidd o ymadroddi yn Sal. 120. 7. "Heddychol fi;" hyny yw, Yr ydwyf wedi ymroddi i heddwch, ac am heddwch yr ymofynaf. DAVIDSON.

Adn. 6. Hwyrach y byddai yn haws deall rhag-fynegiadau o'r fath yma, pe byddent wedi eu geirio yn yr amser dyfodol, fel y gellid yn hawdd gyda phrïodoldeb, megis, "Gosodi dithau un annuwiol arno ef; saif satan wrth ei ddeheulaw ef;" h. y. efe a fydd yn hollol dan lywodraeth y diafol. Mor ofnadwy y gwiriwyd hyn yn Judas; gwel Ioan 13. 27.

Adn. 8, 9. *A chymered arall ei swydd ef,* os Ahitophel a olygid gyntaf, yna, wrth ei swydd y golygid ei sefyllfa fel cynghorwr; ond fel y golygid Judas fel gwrthddrych eithaf y broffwydoliaeth, yna y golygid ei swydd fel un o'r deuddeg. Ni's gwyddom ni ddim am deulu y bradwr; ond nyni a allwn gasglu oddiwrth y manylrwydd â'r hwn y cwblheid y broffwydoliaeth yn ei pherthynas âg ef ei hun, fod yr hyn a ychwanegir mewn perthynas iddynt hwythau wedi eu cywiraw mor fanwl; gwel Act. 1. 25, 26. Neu, hwyrach fod ei deulu yn cael eu defnyddio yma i gynnrychioli y rhai a ymdebygent iddo ef mewn oesoedd dyfodol. BOOTHROYD, DAVIDSON.

Adn. 18. *A hi a ddaeth fel dwfr i'w fewn, ac fel olew i'w esgyrn.* Hwyrach fod cyfeiriad yn y geiriau hyn at ddwfr eiddigedd; gwel Num. 5. 17, 18. HOUBIGANT. Dywedir bod olew, o'i gymhwyso at asgwrn noeth, yn peri poen dirfawr, ac yn peri iddo fraenu.

Adn. 23. *Aethum fel cysgod pan gilio,* yr hwn sydd yn myned wanach wanach wrth ymestyn, ac o'r diwedd yn cilio o'r golwg yn hollawl. HORSLEY.—*Fel locust y'm hysgydwir,* mae yn hynod o hawdd ysgwyd haid o locustiaid yma a thraw gyda'r awelon cyfnewidiol. SHAW.

## SALM CX.

Mae esponwyr yn gyffredinol yn cyttuno i olygu y Salm hon fel proffwydoliaeth am y Messïah; edryched y darllenydd y cyfeiriadau ati, a ganfyddir yn Math. 22. 42—45. Act. 2. 34. 1 Cor. 15. 25. Heb. 1. 13. a 10. 13.

Adn. 1. *Dywedodd yr Arglwydd,* Duw Dad yn ei gynghor tragywyddol, a ddywedodd wrth ei Fab, 'Cymer di bob awdurdod a gallu, fel yr unig Gyfryngwr â gwir Frenin dy eglwys, hyd oni lwyr ddarostyngwyf yr holl rai a feiddiant gyfodi i'th erbyn; yna y rhoddi di dy freniniaeth gyfryngol hon i fynu.' *Esgob* HALL.—*Hyd oni osodwyf dy elynion yn droedfainc i'th draed,* cyfeiriad at arferiad gorchfygwyr yn sathru ar yddfau y gorchfygedig, gwel Jos. 10. 24. GILL. Ar amser cyssegriad eu breninoedd yn unig yr arferai y Persiaid gadeiriau, ac arferent wneyd y rhai hyn mor uchel, fel y byddai raid iddynt wrth droedfainc. Heblaw y chwe gris oedd i orsedd Solomon, yr oedd troed-fainc yn nglŷn wrth yr orsedd. 2 Cron. 9 18. LOWTH, CHARDIN.

Adn. 2. *Gwialen dy nerth,* neu, "teyrn-wialen dy awdurdod."

GREEN, HORSLEY. Ei air dan arddelwad ei Ysbryd. *Esgob* HORNE.—*O Sïon.* Yn Sïon, neu Jerusalem, y pregethid yr efengyl gyntaf, ac oddiyno yr aeth y gair allan i holl barthau y byd; gwel Esa. 2. 3. Luc 24. 47. Act. 1. 4. a 8. 4. GILL.

Adn. 3. *Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth.* Mae y beirniaid yn amrywio cryn lawer yn eu cyfieithiadau o'r adnod hon.—

> " Dy bobl a'u hoffrymant eu hunain yn rhwydd
> Yn y dydd y cynnullech dy luöedd
> Ar y mynyddoedd sanctaidd. Ieuenctyd dy fyddin
> A fyddant fel y gwlith o groth y boreu." GREEN.

> " Tra ewyllysgar a fydd dy bobl
> Yn y dydd yr amlygir dy allu
> Ar y mynyddoedd sanctaidd hyn;
> A'th hiliogaeth fel gwlith o groth y boreu." BOOTHROYD.

> " Tra lluosawg a fydd dy bobl
> Yn nydd dy gadernid,
> Yn ngogoniant sancteiddrwydd.
> Tu hwnt i groth y boreu
> Y llifeiria gwlith dy gynnydd." MASON GOOD.

Ar bobl ewyllysgar y mae Crist i lywodraethu, canys nid oes neb ond y cyfryw yn ddeiliaid cymhwys iddo ef; gwel Matt. 11. 29; eto, yn nghanol gelynion y mae efe yn eu llywodraethu, sef, Iuddewon a Chenhedloedd: neu, yn ysbrydol, y byd, y cnawd, a'r dïafol.—*Dydd ei nerth* y gelwir goruchwyliaeth yr efengyl mewn modd neillduol, oblegid fod pob awdurdod wedi ei rhoddi iddo ef yn y nef, ac ar y ddaiar, Math 28 18.—*Yn mhrydferthwch sancteiddrwydd,* yr hyn yw prif nodweddiad breniniaeth Crist a'i grefydd; neu ynte, efallai mai amser eu dychweliad at Dduw trwy ail enedigaeth a olygir, pan na's gallo llygredigaethau eu natur wrthsefyll dylanwadau cynnyddol gras yn hwy, a phan y byddont yn eu hoffrymu eu hunain yn ewyllysgar i'w Prynwr. A bydd y plant a genhedlir i ti trwy yr efengyl, yn rhagori mewn nifer, cystal ac mewn dysglaerdeb a harddwch, ar wlith y boreu. HORNE.

Adn. 4. *Tyngodd yr Arglwydd, &c.* Llw Duw yw sêl fawr y nefoedd, trwy yr hyn yr amcenid dangos pwysigrwydd y weithred wrth yr hon y'i dodid, ac i ddangos i ettifeddion yr addewid, annewidioldeb ei gynghor ef. HORNE.—*Ti wyt offeiriad yn dragywyddol*;—Gwneir y datguddiad yma gyda'r difrifwch mwyaf, am fod ei gynnwys o'r pwys mwyaf, sef, fod y Goruchaf yn gosod ei Fab yn yr offeiriadaeth â llw, ac nad edifarha, Heb. 7. 20—22. Yr oedd dynion cyffredin, y rhai a weinyddent y swydd hon dan y ddeddf yn meirw; ond y mae yr Iesu yn aros yn dragywydd, am hyny, bydd ei offeiriadaeth ef yn annewidiol.—*Yn ol urdd*

*Melchisedech.* Nid un deilliedig o Lefi, fel yr offeiriaid cysgodol ond, o lwyth arall, cymh. Heb. 5. 6—10, &c. Mae yr adnod hon mewn cyssylltiad â'r ail, yn dangos uniad y meitr a'r deyrnwïalen, y freniniaeth a'r offeiriadaeth yn yr un person, megis y rhag-fynegodd Sechariah hefyd, Zech. 6. 13.

Adn. 5—7. Mae y Salmydd yma yn troi oddiwrth y Mab yr hwn a gyfarchai yn yr adnodau blaenorol, ac yn cyfarch y Tad yma;—*A drywana freninoedd;* cwblheir hyn mewn modd ofnadwy pan ddystrywir pob gallu annghristaidd, ac y gosodir breniniaeth Crist i fynu ar yr holl ddaiar; gwel Sal. 149. 7—9. Esa. 34. a 63. 1—6. Ezec. 38. a 39. Dat. 6. 9—17. a 19. 11—21. SCOTT. *Efe a ŷf o'r afon, &c.* Mae y gyffelybiaeth wedi ei benthycio oddiwrth fuddugoliaethwr lluddedig a sychedig yn y frwydr, yn yfed o'r afon wrth fyned rhagddo, ac felly yn ymadnewyddu i ymlid y gelyn gyda nerth ychwanegol, a dichon fod yr ymadrodd yn golygu y byddai i'r Messïah ymadnewyddu wedi ei fuddugoliaeth fawr, a llywodraethu yn heddychol fel pen pawb a phob peth; gwel Col. 1. 18. Eph. 1. 20—23.

## SALM CXI.

Adn. 1. Gelwir ar bawb i addef ac addoli yr Arglwydd, fel Llywydd goruchaf pawb, ac Iachawdwr pob un a'i haddolo ef mewn gwirionedd.—*Yn nghymanfa y rhai uniawn,* mae y gair a gyfieithir yma *cymanfa*, yn arwyddocâu cymdeithas gyfrinachol, a hwyrach mai cyfarfodydd teuluaidd i addoli Duw a olygir yma; ac wrth *y gynnulleidfa*, y golygir y gynnulleidfa gyhoeddus a ymgynnullai i gyhoedd addoliad Duw yn y deml.

Adn. 5. *Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofnant ef,* cyfeiriad hwyrach at waith Duw yn arlwyo ymborth i'r Israeliaid yn yr anialwch; cymh. Sal. 132. 15. Ioan 6. 27—35, 48—51.

Adn. 9. *Gorchymynodd*, neu "ordeiniodd" *ei gyfammod yn dragywyddol.* Gwel Esa. 55. 1—3.—*Ofnadwy yw efe;* mae yn debyg fod yma gyfeiriad at yr amlygiad ofnadwy o'i fawrhydi, a wnelid yn y cwmmwl gogoneddus, cymh. Ezec. 1. 22.

Adn. 10. *Y rhai a wnant ei orchymynion ef.* Ychwanegiad o eiddo y cyfieithwyr yw *ei orchymynion ef*, ac y mae yn debycach mai ofn yr Arglwydd a olygir, ac amryw feirniaid a'i darllenant felly, "Dëall da sydd gan y rhai a'i gwnant," sef a wnant ofn yr Arglwydd.

## SALM CXII.

Adn. 4. *Cyfyd goleuni i'r rhai uniawn.* Yr oedd y Salmydd yma mae yn debyg yn cyfeirio at bla y tywyllwch yn yr Aipht, a'r rhagoriaeth a ganiattëid i'r Israeliaid, trwy beri i oleuni amgylchynu eu hanneddau hwy y pryd hyny. Mae BOOTHROYD yn darllen yr adnod hon fel y canlyn,

"Mewn tywyllwch cyfyd goleuni i'r uniawn,
I'r trugarog, y tosturiol, a'r cyfiawn."

Adn. 5. *Wrth farn y llywodraetha efe ei achosion,* gan ofalu i bwy y cyfrana, ac i bwy y benthycia; heb fod yn afradlon nac yn grintachlyd.

Adn. 7. *Nid ofna efe rhag chwedl ddrwg,* efe a ŵyr fod Duw yn llywodraethu y byd, ac nid yw yn gofalu cymmaint am yr hyn a fydd.

Adn. 8. *Hyd oni welo ei ewyllys ar ei elynion. Ei ewyllys* sydd eiriau llanw, a roddai y cyfieithwyr i fewn, fel y gellir gweled wrth eu bod wedi eu hargraffu mewn llythyrenau italaidd yn y testyn; eraill a'i darllenant, "Tra y gwelo *gwymp* ei elynion." Y meddwl yw, na siglid ei ymddiried ef, tra fyddai barnedigaethau Duw yn gorchuddio ei elynion.

## SALM CXIII.

Y Salm hon, a'r pump canlynol, a elwir yn Hymnau, ac a genid gan yr Iuddewon ar eu huchel wyliau, yn enwedig gŵyl y pebyll, a gŵyl y pasg: a meddylir mai y rhai hyn a ganodd Crist a'i apostolion ar ol bwytta y pasg. PATRICK, GILL. Gwel Matt. 26. 30. Marc 24. 26.

Adn. 5, 6. Mae y fath fawredd a gorucheldér yn perthynu i'r Arglwydd, fel pe byddem angelion, y byddai yn ymostyngiad mawr ynddo ef i wneyd sylw o honom; ond pan feddyliom mai dynion pechadurus, gwrthryfelgar, euog, ydym ni, mor fawr raid fod ei ymostyngiad! pan y mae yn sylwi ar y cyfan a berthyn i ni, ac yn ein dyrchafu o'r cyflwr truenus i'r hwn yr oeddym wedi ein darostwng trwy bechod!

Adn. 9. *Yr hwn a wna i'r anmhlantadwy gadw tŷ, &c.* Mae yn debyg fod yr angrheifftiau o Sarah, Rahel, a Hannah, yn gysgodion o alwad y cenhedloedd, pan y parid i'r rhanau ehang hyny o'r ddaiar, a fuasent mor ddiffrwyth cyhyd, gynnyrchu torfeydd o wir ddychweledigion, meibion a merched i'r eglwys, ac i'r Arglwydd Hollalluog, yr hwn a'i dywedd'iasai âg ef ei hun. SCOTT.

## SALM CXIV.

Adn. 1. *Pobl annghyfiaith,* neu o iaith ddïeithr, nid oedd yr Israeliaid yn deall iaith yr Aiphtiaid pan aethant i'w gwlad hwynt gyntaf, gwel Sal. 81. 5. Gen. 42. 23. GILL.

Adn. 2. *Judah oedd ei sancteiddrwydd;* neu oedd yn sancteiddrwydd i'r Arglwydd, neu yn bobl sanctaidd iddo ef. Gwel Jer. 2. 2, 3.

Adn. 3. *Y môr a welodd hyn,* hyny yw, y Môr Coch, a'i gwelodd yn ngweinyddiad ei gadarn allu, pan ddygai ei bobl yn ddiogel trwy ei ganol, Exod. 14. 21; a'r Iorddonen a dreiglodd ei thònau chwyddedig yn ol, i wneyd ffordd i'w bobl ddewisedig ef, Jos. 3. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Y mynyddoedd a neidiasant,* Sinai, Horeb, a'r mynydd-

oedd o'u hamgylch, a grynent pan ddisgynodd Duw i ddodi ddeddf, Exod. 19. 18. Hab. 3. 6.

Adn. 5, 6. *Beth a ddarfu i ti, O fôr?* Mae yn anmhossibl dychymygu dim prydferthach nac a gynnwysir yn yr adnodau hyn lle mae y Salmydd fel pe doniai amryfal rannau difywyd anian â galluoedd priodol i fodau byw a rhesymol; ac yna yn en hol am yr achos o'r cyffröad digyffelyb a gymerodd le arnynt pan oedd Duw yn dwyn ei bobl i'w bro eu hun, ac yn cyflawni yr addewidion a wnaethai efe i'w tadau.

Adn. 7. *Ofna di ddaear*, neu, "Wrth wyddfod yr Arglwydd, y crynodd y ddaiar, wrth brsenoldeb Duw Jacob." BOOTHROYD. Yma y cawn ni reswm da am y cynhyrfiadau rhyfeddol hyny mewn anian,—Yr oedd awdwr anian yno.

## SALM CXV.

Hwyrach i gyfansoddiad y Salm hon gael ei achlysuro pan y gwelodd Jehosaphat fyddin fawr yn dyfod yn ei erbyn ef, 2 Cron. 20. 2, 14, 15, 20. PATRICK. Nid oes un amgylchiad yn debycach i fod yn achlysur o'i chyfansoddi, na ffoedigaeth Senacherib wedi dinystr ei fyddin. HORSLEY. Ond pa olygiad bynnag a all fod yn gywir am yr achlysur o'i chyfansoddi, mae yn ymddangos mai y testyn yw cydnabyddiaeth ddiolchgar a llawen, mai yr Arglwydd yn unig sydd yn rhoddi i'w bobl fuddugoliaeth ar eu gelynion, gan hyny, mae yn gweddu iddynt hwy fod yn fwy dïanwadal yn ei wasanaeth ef.

Adn. 1. *Nid i ni*, h. y., na wared ni er mwyn ein hanrhydeddu ni trwy hyny; ond er mwyn gogoniant dy enw dy hun. BOOTHROYD.—*Er mwyn dy drugaredd, ac er mwyn dy wirionedd*, sydd o'r un arwyddocäad a phe dywedasai, er mwyn dy gyfammod tragywyddol; gwel Gen. 24. 27.

Adn. 8. *Y rhai a'u gwnant ydynt fel hwythau.* Pa iaith a allai ddynodi yn gryfach, ynfydrwydd ac euogrwydd eilun-addolwyr! Meddyliwn am ragoriaeth natur dyn a'i urddas, a chyferbynwn hyny a'i ddarostyngiad, pan trwy addoli eilunod, y mae efe yn dangos na's medd fwy o wybodaeth na theimlad rhesymol, na phren, maen, neu eilun.

Adn. 14. *Yr Arglwydd a'ch chwanega chwi fwy fwy*, neu, a bentyro arnoch chwi. Mae bendithion gorlifeiriol y Goruchaf yn cael eu haddaw yn mhob peth yn gyffredinol, ac nid yw yr addewid yn gyfyngedig i gynnydd poblogaeth yn unig, fel yr ymddangosa yn ein cyfieithiad arferedig ni.

Adn. 16. Y nefoedd uchaf a gyfrifir fel trigfan arbenig y Goruchaf: ond efe a roddes y ddaiar i fod yn drigfa i ddyn.

Adn. 17. *Y meirw ni foliannant yr Arglwydd;* fel pe dywedasai, Os gadewi di ni i'n lladd gan ein gelynion, pwy fydd ar y ddaiar i'th folianu di?" Yr holl genhedloedd a foliannant eu

heilunod, a'th enw di a fydd yn anadnabyddus, a heb sôn am dano.

Adn. 18. *Ond nyni a fendithiwn yr Arglwydd*, mae efe yn terfynu y Salm gyda datganiad o'i ymddiried hyderus y cedwid Israel i foliannu enw yr Arglwydd yn wastadol.

## SALM CXVI

Adn. 1. Meddylia rhai fod y Salm hon wedi ei chyfansoddi ar yr achlysur o adferiad iechyd Hezeciah mewn modd gwyrthiol; ond y mae yn fwy tebyg fod yr awdwr ysbrŷdoledig yn personoli y Messïah ynddi. Gwel 2 Cor. 5. 13. DAVIDSON.

Adn. 7. *Dychwel, O! fy enaid, i'th orphwysfa:* h. y., Ymdawela trwy ymddiried yn Nuw.

Adn. 10. *Credais, am hyny y lleferais;* neu, "Credais yn yr Arglwydd, er i mi ddywedyd, Cystuddiwyd fi yn rhŷ fawr."

Adn. 11. *Pob dyn sydd gelwyddog*, hyny yw, na's gellid rhoddi ymddiried mewn unrhyw gymhorth dynol. Hwyrach fod Hezeciah yn ammeu gwirionedd addewid Duw trwy Esaiah, am yr hyn y ceryddai efe ei hun yma.

Adn. 13. *Phïol iachawdwriaeth a gymeraf.* Mae yma gyfeiriad, debygid, at arferiad yr aberthwr o wledda ar yr aberth, yn arwydd o'u cymmundeb â Duw yn yr aberth. Gelwid y phïol a ddefnyddid ar yr achlysuron yma, yn *phïol iachawdwriaeth*, neu, waredigaeth, am mai mewn coffäad o ddaioni Duw yn gweithredu gwaredigaethau y'i defnyddid. BOOTHROYD, DAVIDSON. Neu, hwyrach fod yma gyfeiriad at benteulu, yr hwn, ar ddiwedd gwledd, neu bryd o fwyd, a gymerai phïol yn ei law, ac a roddai ddïolch, Math. 26. 27. GILL.

Adn. 15. *Gwerthfawr yn ngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei saint ef;* neu, "Rhy werthfawr yn ngolwg yr Arglwydd, yw ei saint i'w rhoddi i farwolaeth." BOOTHROYD. Ni oddef yr Arglwydd yn hir i'r annuwiol ladd ei saint. GROTIUS, ROSENMULLER.

## SALM CXVII.

Mae y Salm fechan hon yn cynnwys crybwylliad proffwydoliaethol o gynnulliad y cenhedloedd at y Messiah, gwel Rhuf. 15. 8–11. MORISON. Nid yw hon namyn rhan o'r Salm nesaf. HORSLEY.

Adn. 2. *Sydd fawr.* Mae yr un gair wedi ei ddefnyddio am gynnydd y dyfroedd dros y ddaiar, Gen. 7. 18, ac yn ddynodawl o amlhad, a rhagor amlhad grâs Duw. GILL.

## SALM CXVIII.

Adn. 1. Yma y cawn ni olwg ar frenin Israel yn arwain ei bobl mewn gor-ymdaith ddifrifol i'r deml, neu y tabernacl, i offrymu ebyrth ar ol buddugoliaeth. *Esgob* HORNE.

Adn. 3. Enwir tŷ Aaron mewn modd arbenig, fel rhai dan ddyled nodedig i folianu yr Arglwydd ar gyfrif eu hurddas a'u swydd sanctaidd.

Adn. 10. *Yr holl genhedloedd a'm hamgylchynasant.* At ddechreuad teyrnasiad Dafydd yn unig y mae hyn yn gymhwysiadol, pan oedd y cenhedloedd oddiamgylch yn ymgyngrheirio yn ei erbyn ef. SUTCLIFFE.

Adn. 13. *Gan wthio y gwthiaist*, neu yn hytrach, "y gwthiasant fi," canys ei elynion a olygai, y rhai a ruthrent arno fel pe buasai anifail aflywodraethus, cymh. Sal. 22. 12—16. ROSENMULLER, BOOTHROYD.

Adn. 19. Yma y darlunir y brenin yn sefyll o flaen drysau y cyssegr, ac yn erchi i'r offeiriaid a'r Lefiaid agoryd y pyrth iddo, gwel Sal. 24. 8.—Pyrth cyfiawnder, sef pyrth y cyssegr, Esa. 26. 2. a 2 Cron. 23. 19. BOOTHROYD.

Adn. 20. *Dyma borth yr Arglwydd.* Tybiai KENNICOTT, ac amryw feirniaid eraill, fod yr adnod hon yn cael ei llefaru, neu ei chanu gan yr offeiriaid,—y nesaf gan y brenin,—y tair ganlynol yn gyd-gor gan y bobl,—y bummed a'r hugain gan y brenin,—y ddwy nesaf gan yr offeiriaid,—yr wythfed ar hugain gan y brenin, —a'r olaf yn gyd-gor ardderchog y cyfan.

Adn. 22. *Y maen a wrthododd yr adeiladwyr, a aeth yn bèn i'r gongl.* Mae yn ddïau fod y geiriau hyn yn allegawl, a'u bod yn golygu Dafydd yn gyntaf, ond fel cysgod o'r Messiah yr hwn oedd i ddyfod o'i had ef; a'r hwn oedd y prif wrthddrych mewn golwg yma.

Adn. 24. *Dyma y dydd a wnaeth yr Arglwydd;* os gellir cymhwyso hyn at y dydd yr esgynodd Dafydd i'r orsedd, gellir ei gymhwyso yn llawer mwy neillduol at y dydd y cyfododd ein Harglwydd oddiwrth y meirw; a'r hwn mewn canlyniad i hyny, a anrhydeddwyd fel sanct yr Arglwydd. BOOTHROYD.

Adn. 26. Lleferid yr adnod hon gan yr offeiriaid, y rhan gyntaf wrth y brenin, a'r rhan olaf wrth y bobl.

Adn. 27. *Rhwymwch yr aberth a rhaffau hyd wrth gyrn yr allor.* Nid oedd ganddynt y fath ddefod a rhwymo yr aberth oedd i gael ei ladd, wrth gyrn yr allor. HAMMOND. Mae yn debyg mai y meddwl oedd, y byddai y lle yr arferid rhwymo yr ebyrth i aros i'r Lefiaid gael amser i'w defnyddio, mor gyfyng yn fuan, fel y byddai raid eu rhwymo wrth gyrn yr allor. D'OYLEY a MANT.

## SALM CXIX.

Mae hon yn un o'r Salmau egwyddorol, y rhai y dechreua eu prif odlau â llythyrenau yr egwyddor yn ol eu trefniad prïodol. Cynnwysa ddwy ar hugain o ranau, yn ol nifer llythyrenau yr egwyddor Hebraeg, a phob un o'r rhanau hyn a ddosberthir i wyth o adnodau; a phob adnod yn y rhan a ddechreua yn yr un

lythyren; felly *Aleph* yw y llythyren gyntaf o bob adnod yn y rhan gyntaf; *Beth*, yw y llythyren gyntaf o bob adnod yn yr ail ran, ac felly yn mlaen. Mae yr holl Salm yn cynnwys byr ddywediadau pwysig, er dangos gwerthfawrogrwydd cyfraith yr Arglwydd. Mae yn debyg iddi gael ei chyfansoddi er addysg ieuenctyd yn benaf, a bod y dull celfyddydol o'i chyfansoddi wedi ei ddefnyddio gan y Salmydd yn benaf er mantais i'w thrysori yn y cof. Peth arall teilwng o sylw am y Salm hon yw, nad oes dim mwy na dwy neu dair o adnodau ynddi, heb ryw grybwylliad ynddynt am gyfraith yr Arglwydd dan ryw enw neu gilydd.

Adn. 1. *Y rhai perffaith eu ffordd;* neu yn ol BOOTHROYD,

"Gwyn eu byd hwy, y rhai yn uniawn a diffuant yn y ffordd,
A rodiant yn ol cyfraith yr Arglwydd."

Adn. 3. *Y rhai hefyd ni wnant anwiredd;* neu "Yn ddïau nid ydynt hwy yn gwneuthur anwiredd." Pan ydym yn cilio o'i ffyrdd ef yr ydym yn pechu. BOOTHROYD, COBBIN.

Adn. 4. *Ti a orchymynaist gadw dy orchymynion yn ddyfal,* neu gyd a'r gofal mwyaf. Mae y gair yr arwyddo yr ufudd-dod mwyaf trwyadl. DAVIDSON, CLARKE.

Adn. 6. *Yna ni'm gwaradwyddid*, Y ffordd fwyaf dïogel i ochel gwaradwyddiadau dynion, yw ymgadw wrth orchymynion Duw. BOOTHROYD.

Adn. 7. Wrth *farnedigaethau* Duw yma y golygir y gosodiadau, y penderfyniadau, neu y trefniadau a ddatguddiodd Duw; nid yr hyn a ellir ei ddysgu trwy geryddon ei ragluniaeth, fel y mae yr un gair yn arwyddocâu yn fynych.

Adn. 8. *O na âd fi yn hollol.* Na âd fi byth i'm nerth fy hun, nac i'm calon fy hun. A. CLARKE.

Adn. 9. *Pa fodd y glanha?* neu, "y pura," cyfeiriad at y golchiadau dan y gyfraith, mae yn debyg. Cyfrifid y sawl a esgeulusai y rhai hyn yn anmhur, a chauid hwynt allan o'r cyssegr. Ond mewn trefn i buro eu *ffordd*, neu eu hymddygiad, rhaid i'r ieuainc fel yr hen fod dan arweiniad gair yr Arglwydd yn barhaus; a chan na all neb feddu golygiadau cywir ar air yr Arglwydd heb eu goleuo gan Ysbryd yr Arglwydd, mae yn addas i ni annog ein gilydd i fod yn ddyfal mewn gweddi am i'w Ysbryd ef ein tywys ni i bob gwirionedd.

Adn. 11. *Cuddiais*, neu "Trysorais" *dy ymadroddion yn fy nghalon.* GREEN.—Yr ydwyf yn cofio ac yn deall dy ymadroddion; a'm calon yn cael ei nawseiddio trwyddynt. MANTON.

Adn. 16 *Yn dy ddeddfau yr ymddigrifaf,* mae y gair yn arwyddocâu, neidio gan lawenydd, ac yn cyfeirio, hwyrach, at y gorfoledd a'r llawenydd a fyddai yn llanw pobl yr Arglwydd dan yr hen oruchwyliaeth ar eu huchel wyliau, ac ar yr achlysuron o'u gorymdeithiau buddugoliaethus. Darluniad godidog o effeith-

iau adfywhäol gair Duw ar feddyliau y credinwyr pan yn nychlyd dan feichiau gofalon y byd hwn.

Adn. 18. *Fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di;* neu, "bethau rhyfedd dy gyfraith di." Yr oedd cyfraith y cysgodau yn cynnwys rhyfeddodau na's gwelid ond gan berchen ffydd, trwy oleuo eu meddyliau â goleuni Dwyfol; a gweddïai y Salmydd am y goleuni yma, er attegu ei obaith am fywyd gwell.

Adn. 19. *Dieithr ydwyf fi ar y ddaear; na chudd di rhagof dy orchymynion.* Megis un ar daith mewn gwlad ddieithr, y mae arnaf eisiau arweinydd i gartref mwy parhaus, ac nid oes cyfarwyddyd digonol i'm bath i'w gael, ond yn ngair yr Arglwydd. MANTON, HORNE.

Adn. 20. *Drylliwyd fy enaid gan awydd:* neu, "Treuliwyd fy enaid gan hiraeth am dy farnedigaethau bob amser." BOOTHROYD. Mae yr ymadrodd yn gyfystyr â'r gair a arferir genym ni yn gyffredin, "Tori calon." CLARKE.

Adn. 21. Neu, "Ceryddaist y beilchion: melldigedig yw y rhai a gyfeiliornant oddiwrth dy orchymynion" DAVIDSON.

Adn. 22. *Tro oddiwrthyf*, neu, "Treigla oddiwrthyf." MONTANUS. Yr oedd y gwaradwydd â'r hwn y'i gwaradwyddid, yn gorwedd fel baich trwm arno ef. GILL. Tueddwyd rhai i farnu oddiwrth y geiriau hyn, mai Dafydd a gyfansoddodd y Salm hon, ac mai pan oedd efe ar ffo rhag Saul y'i cyfansoddodd hi hefyd; ac mai at y cywilydd a'r dirmyg a gyfodid i'w erbyn fel bradwr ei frenin a'i wlad, y cyfeiriai yn y geiriau hyn; gwel PATRICK.

Adn. 25. *Glynodd fy enaid wrth y llwch*, hyny ydyw, Yr ydwyf dan gystudd dirfawr, ac yn barod i farw o ran corff a meddwl. BOOTHROYD.

Adn. 26. *Fy ffyrdd a fynegais*, hyny yw, Darluniais ansawdd fy nghalon yn fanol a didwyll. MANTON.

Adn. 29. *Cymmer oddiwrthyf ffordd y celwydd;* y gau ffyrdd hyny, trwy y rhai y mae dynion yn eu twyllo eu hunain ac eraill, neu yn cael eu twyllo gan Satan a'i offerynau SCOTT. Meddyliodd rhai fod Dafydd yma yn cyfeirio at ei waith ei hun yn rhith ynfydu o flaen Achis. COBBIN. Nid oedd Dafydd yn golygu ffordd celwydd wrth ddynion, cymmaint, canys nid oedd Dafydd yn dueddol i hyny; ond gau athrawiaeth a gau addoliad; pob rhyw gyfeiliornad, coel grefydd, ac eilun-addoliaeth. GILL. Efe a ddymunai gael ei symmud yn mhell oddiwrth y drygau hyn, y rhai a allai efe fod yn ei ganfod yn agos ato, neu yn ei galon ei hunan. COBBIN.—*Ac yn raslawn dod*, neu yn hytrach, yn ol y cyfieithiad Syriaeg, ac eraill, "dysg" *i mi dy gyfraith.*

Adn. 32. *Pan ehangech fy nghalon*, trwy ddoethineb, neu ddyddanwch a gwroldeb; gwel 1 Bren. 4. 29. Esa. 60. 5. Rhaid gwneuthur gwaith Duw, yn nerth Duw. WILLISON.

Adn. 38. *Sicrha dy air i'th was*, trwy gyflawni yr addewidion. —*Yr hwn sydd yn ymroddi i'th ofn di;* neu, "Yr hwn sydd i'th ofn di;" sef yr hwn air sydd i'th ofn di, yn arwain i'th ofn, ac yn meithrin yn dy ofn di. GILL, SCHMIDT, MICHAELIS. Neu, "Fel y rhodiwyf yn dy ofn di." BOOTHROYD.

Adn. 39. *Tro heibio fy ngwaradwydd yr ydwyf yn ei ofni.* Y mae gwaradwyddiadau nad rhaid eu hofni; ond yn hytrach ymogoneddu ynddynt; ond yr oedd gwaradwydd ac yr oedd gan Dafydd achos i'w ofni, oblegid y weithred a wnaethai i roddi achlysur i elynion yr Arglwydd gablu. BRIDGES.

Adn. 45. *Rhodiaf hefyd mewn ehangder*, heb wasgu arno gan ofn, ond yn mwynhau rhyddid mewn cariad, fel un mewn rhodfa gyhoeddus, heb gywilydd nac arswyd perygl arno. MANTON, DAVIDSON.

Adn. 46. *Ger bron breninoedd*, megis Saul ac Achis. HENRY, DELANY. Mae yn fwy prïodol golygu y geiriau wedi eu hysgrifenu yn ystod y caethiwed Babilonaidd, a chymhwyso yr ymadrodd yma at Daniel, ac Israeliaid dewrion eraill, y rhai a lefarent yn ddiarswyd o flaen Nebuchodonosor, Belsassar, a Darius. CLARKE.

Adn. 48. *A'm dwylaw a ddyrchafaf at dy orchymynion*, i'w derbyn yn llawen, a'u cofleidio yn serchog.

Adn. 53. *Dychryn a ddaeth arnaf.* Mae y gair a gyfieithir *dychryn* yn gyffredin yn arwyddocâu ystorm neu dymhestl fawr, a hwyrach y gall ei fod yn dynodi yr erledigaethau llymion a ddyoddefai y Salmydd. Yr oedd ei brofedigaethau fel y poethwynt ystormus ofnadwy, yr hwn a bair anrhaith dirfawr, Jer. 4. 11, 12. BLANEY a gyfieithia y geiriau fel y canlyn, "Poethwynt ystormus a ymaflodd ynof, oddiwrth y drygionus, y rhai ydynt yn gado dy gyfraith di." DAVIDSON.

Adn. 56. *Hyn oedd genyt*, neu yn ol y Syriaeg, "Hyn oedd fy nghysur." Yn nghanol y profedigaethau llymaf, yr oedd yn meddu heddwch cydwybod, am na chiliodd oddiwrth orchymynion yr Arglwydd.

Adn. 61. *Minteioedd yr annuwiolion a'm hysbeiliasant*; neu, yn ol cyfieithiad BOOTHROYD ac eraill, "Rhwydau yr annuwiolion a'm hamgylchasant."

Adn. 69. *A glytiasant gelwydd*, neu, "a luniasant gelwydd," gan gymeryd arnynt fod Dafydd yn ceisio bywyd Saul, mae yn debyg. SUTCLIFFE.

Adn. 70. *Cyn frased a'r bloneg yw eu calon;* neu, "Y mae eu calon yn ddiffygiol o bob teimlad." MICHAELIS, BOOTHROYD — Mae brasder calon yn cael ei arfer yn aml i ddynodi dideimladrwydd, a chnawdolrwydd y syniadau hyny i'r rhai y golygir y galon yn eisteddle, ac os gwir a ddywed anianyddion, mai y rhannau teneuon, llinynawg, o'n cnawd, yn unig sydd yn deimladwy, mae y prïodoldeb mwyaf yn y gyffelybiaeth.

Adn. 74. *Y rhai a'th ofnant a'm gwelant.* Bydd yn gysur mawr i bob dynion da, fy ngweled I wedi fy ngwaredu o'r holl drallodau hyn; canys hwy a gadarnheir trwy hyny yn eu hymddiried yn yr addewidion. PATRICK.

Adn. 75. *Cyfiawn yw dy farnedigaethau,* sef ei oruchwyliaethau rhagluniaethol. CLARKE.

Ad. 83. *Canys ydwyf fel costrel mewn mwg.* Mae yn ddiau fod yma gyfeiriad at y costrelau crwyn a arferir gan drigolion y gwledydd dwyreiniol, yn y rhai yr arferant gadw amrywiaeth o bethau sychion a gwlybion, ac er dïogelwch, crogant hwy wrth y tô, neu wrth ystlysau eu hanneddau tlodion: ac y maent yn duo yn fuan yn y sefyllfa yma; canys anfynych iawn y mae simneiau i'w tai, a'r unig ffordd y dichon y mwg ddïanc yw trwy dwll bychan yn nghanol y tô; o ganlyniad, can gynted ag y cynneuir tân yn y tai, byddant yn llenwi o fwg. Mae yn debyg mai y prif gyfeiriad sydd yma at y *duwch*, yn nghyd a'r olwg sychlyd, grebychlyd, a barai y mwg ar y costrelau, a hyny yn ddynodawl o gystudd, galar, a thristwch.

Add. 84. Hwyrach fod y Salmydd yn lled debyg ei deimladau pan ddywedai yma, *Pa nifer yw dyddiau dy was?* i Job pan ddywedodd yntau, "Ffieiddiais einioes, ni fynnwn fyw byth," Job 7. 16.

Adn. 89. *Yn dragywydd, O Arglwydd, y mae dy air wedi ei sicrhau yn y nefoedd;* neu yn ol y Syriaeg, yr hwn ddarlleniad a gymeradwya SCOTT, BOOTHROYD, &c., "Ti wyt yn dragywydd, O Arglwydd! Dy air sydd wedi ei sicrhau yn y nefoedd," sef yn nhrefniad y cyrff nefol, y rhai ydynt oll yn ufuddhau i'th osodiad di.

Adn. 91. *Wrth dy farnedigaethau y safant heddyw,* sef y nefoedd a'r ddaiar, am y rhai y soniasai efe mor ddiweddar. GILL, HEWLETT. Neu, yn ol y *Septuagint,* "Wrth dy ordeiniad di y mae y dydd yn parhau; hyny yw, olyniad rheolaidd dydd a nos mewn amser. HORSLEY.

Adn. 96. *Yr ydwyf yn gweled diwedd ar bob perffeithrwydd.* E debygid fod *pob perffeithrwydd* yma, yr hyn a gyferbynir â *gorchymyn* Duw, yn golygu y pethau a welir. Efe a ddeallai am bob peth daiarol, pa mor gadarn a sefydlog bynnag yr ymddangosent, eu bod oll yn dreuliedig a darfodedig; ond gwelai fod gorchymyn yr Arglwydd, neu ei ddatguddiad yn gwneuthur yn hysbys y ddawn fawr o fywyd tragywyddol, yn dra ehang.—Gelwir hyn, yr anchwiladwy olud; dirgelwch mawr duwioldeb, pethau y mae yr angelion yn chwennychu edrych arnynt, ac y bydd eu holrhain yn orchwyl tragywyddol i holl deulu y gogoniant; gwel Deut. 30. 11—14. Rhuf. 10. 6—9.

Adn. 98—100. *A'th orchymynion yr ydwyt, &c.* Mae yn dra sicr fod y gair gorchmynion yma yn golygu holl ewyllys datgudd-

iedig Duw. Trwy fyfyrio yn hwn, y daeth efe yn ddoethach hyd yn nod na'r offeiriaid a'r proffwydi a gydoesent âg ef. Ië, ni chafodd Samuel y fraint o adeiladu yr eglwys gymmaint a Dafydd trwy ei Salmau. SUTCLIFFE.

Adn. 105. *Llusern yw dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybrau.* Cyfeiriad yw hyn mae yn debyg, at y dull arfeerdig wrth deithio yn y nos yn ngwledydd poethion y Dwyrain, o gario tân coed yn oleu mewn alch *(grate)* haiarn ar ben math o bawl hir, er llewyrchu i'w llwybrau. Mae un o'r goleuadau hyn yn canlyn pob mintai yn gyffredin. *Scripture Illustration.*

Adn. 106. *Tyngais a chyflawnaf.* Yr oedd Dafydd yn dra gofalus am gadw barnedigaethau yr Arglwydd o'r blaen: ond efe a benderfynai fod yn fwy felly o hyn allan. CARYL.

Adn. 108. *Ewyllysgar offrymau fy ngenau.* Offrymau ysbrydol, o fawl a gweddi. GILL. Offrymau ewyllysgar, oeddynt y cyfryw aberthau nad offrymid yn ol y ddeddf, neu o blegyd unrhyw gamwedd; ond fel diolchgarwch.

Adn. 109. *Y mae fy enaid yn fy llaw yn wastadol;* bod enaid, neu fywyd un yn ei law, sydd yn dynodi bod mewn perygl bywyd yn wastadol; Gwel Barn. 12. 3. 1 Sam. 19. 5. a 22. 28. Job 13. 14. MANT.

Adn. 113. *Meddyliau ofer a gasëais.* Y meddyliau ofer hyn oeddynt feddyliau ammheus, anwadal am wrthddrych addoliad; sef pa un ai Duw ai eilunod oedd i'w addoli. Yr un geiryn gwreiddiol ydyw, ag a arferodd Elïas gynt, pan yn cyfarch yr Israeliaid, 1 Bren. 18. 21, ac gyfieithir yno, "*cloffi* rhwng dau feddwl." BOOTHROYD. Meddyliai AINSWORTH ddysgedig fod cyfeiriad yn y geiryn a gyfieithir yma *ofer*, at frigau uchaf coed, y rhai a ysgydwid yn barhaus gan y gwynt yn ol a gwrthol.

Adn. 116. *Cynnal fi,* neu "Attega fi," dyro dy hunan i mi i bwyso arnat, fel na byddwyf yn anwadal felly mwy. A. CLARKE.

Adn. 118. *Canys twyllodrus yw eu dichell,* twyllodd hwy eu hunain, a dug eu dystryw arnynt. HORSLEY, HARE.

Adn. 122. *Mechnïa dros dy was er daioni.* Cymmer fy achos arnat, a sâf yn nodded i'm diniweidrwydd.

Adn. 126. *Amser yw i'r Arglwydd weithio,* i ddangos ei gasineb at ffyrdd drygionus dynion, trwy dywallt ei farnedigaethau arnynt. ESGOB HALL. Neu yn ol cyfieithiad y LXX, "Amser yw i weithio dros yr Arglwydd;" ac yn ol y *Targum*, "Amser yw i wneuthur ewyllys yr Arglwydd."—*Diddymasant dy gyfraith di,* gwneir hyn gan bawb a wadant awdurdod a digonolrwydd Gair Duw i'n dysgu a'n cyfarwyddo am bethau bywyd tragywyddol. J. COBBIN.

Adn. 30. *Agoriad dy eiriau a rydd oleuni.* Gall y geiryn fod yn arwyddocâu y dëongliâd a roddir ar y gair, neu y gair ei hun, trwy ddëall yr hwn y cair goleuni i'r meddwl i farnu yn gywir am bob peth.—*I rai annichellgar* neu, y mwyaf diddysg.

Adn. 131. *A dyheais*, fel y teithydd yn y gwledydd poethion, yn dyheu am yr awel oeraidd iachus, er adfywio ei natur lesg. *Esgob* HORNE.

Adn. 136. *Afonydd o ddyfroedd a redant o'm llygaid.* Mae y Dwyreinwyr yn nodedig am wylo llawer, ac y mae yr ormodiaeth gref yma yn cael ei harferyd yn aml ganddynt hyd heddyw, i ddynodi galar tra dwys.

Adn. 140. *Purwyd dy air yn ddirfawr*, neu, "Y mae dy air yn dra phur," fel aur wedi ei goethi yn y ffwrn, yn hollol berffaith, heb ddim o sothach gwagedd a ffaeledigrwydd yn perthynu iddo, fel y mae i bob ysgrifenadau dynol. *Esgob* HORNE.

Adn. 147, 148. *Achubais flaen y cyfddydd*, hyny yw, yr oedd efe yn ymwneyd âg ymarferion crefyddol o flaen gwasanaeth boreuol y deml; ac yn treulio y nos, cystal a'r dydd yn aml mewn myfyrdodau. Arferai yr Hebreaid ddosparthu y dydd naturiol i dair rhan, y boreu, canol dydd, a'r hwyr; crybwylla Dafydd y rhai hyn fel oriau, neu amserau gweddi. Y nos hefyd a ddosberthid i dair rhan, y rhai a elwid "gwyliadwriaethau," crybwyllir y rhai hyn yn anmhenodol gan y Salmydd; ond nyni a ddarllenwn yn Galar. 2. 19. am "ddechreu y wladwriaeth;" yn Barn. 7. 19. am "wyliadwriaeth ganol;" ac yn Ex. 14. 24, am "y wyliadwriaeth fore," Yr oedd gwyliadwriaethau y nos, yn cynnwys deuddeng awr, o chwech yr hwyr, hyd chwech y boreu.

Adn. 150, 151. Mae dechreuad y ddwy adnod hon yn gyfattebol i'w gilydd. Yr oedd y gelyn yn nesau; ond yr oedd Duw yn agos hefyd, ac am hyny yr oedd y Salmydd yn ddïogel, canys yr oedd y datguddiad Dwyfol, yn yr hwn y cynnwysid addewid o nodded iddo ef, yn eirwir.

Adn. 152. Yma mae y Salmydd yn addef ei fod ef wedi cael hir brofiad o wirionedd y tystiolaethau Dwyfol.—*Seilio*, neu "sicrhau" *o honot hwynt yn dragywydd.*

Adn. 158. *Gwelais y troseddwyr;* neu "Gwelais y rhai bradwrus.—*A gresynais*, neu, "ffieiddiais hwynt." SCOTT.

Adn. 160. Mae y geiriau hyn yn honiad tra difrifol o wirionedd gair Duw, *o'r dechreuad*, o'r addewid gyntaf o Had y wraig, hyd ddiwedd y datguddiad, sydd wirionedd o angenrheidrwydd, gan ei fod fel afon yn llifeirio o'r un ffynnon fawr. SCOTT, CLARKE.

Adn. 162. Yr oedd y Salmydd yn cael mwy o hyfrydwch mewn gwneuthur ewyllys Duw, ac yn yr hyn a addawsai Duw ei wneuthur drosto yntau, nac yn y fuddugoliaeth fwyaf trwyadl ar ei elynion. PATRICK. Yr oedd pob datguddiad newydd o ryfeddodau Duw yn ei air, fel ysglyfaeth gwerthfawr yn ei olwg ef. A. CLARKE.

Adn. 171. *A draetha dy foliant:* Mae y gair yn arwyddocâu, bwrw allan yn barhaus, fel y bwrir dwfr o ffynnon yn ddi ball. MANTON, GILL, SCOTT.

## SALM CXX.

CANIAD Y GRADDAU y gelwir hon, a'r pedair Salm ar ddeg a'i dilyna; a mawr y dadleuaeth a fu rhwng dysgedigion yn nghylch yr achlysur o'u galw felly. Ystyr fwyaf union-gyrchol y geiryn gwreiddiol a gyfieithir "graddau," yw *esgyniad;* ac y mae amryw wedi bod yn dadleu yn gryf mai "Caniadau yr esgyniad" y dylent gael eu galw, a'u bod wedi eu bwriadu i'w cânu naill ai ar esgyniad y bryn, ar yr hwn yr oedd y deml yn sefyll; neu, ar ryw amserau nodedig yn ystod taith y bobl i Jerusalem dair gwaith yn y flwyddyn; ac eraill a farnent mai ar yr achlysur o ddyfodiad yr Iuddewon adref o gaethiwed Babilon y'u defnyddid; ac yn wir y mae yn ddigon eglur fod cyfeiriad mewn rhai o honynt o leiaf at yr achlysur hwnw; ond, nid yw hyny o angenrheidrwydd yn peri i ni farnu eu bod oll wedi eu hysgrifenu ar yr un achlysur. Hwyrach fod rhai o honynt wedi eu cyfansoddi ar y dechreu i'w canu gan yr Iuddewon yn eu tair taith flynyddol i Jerusalem, ac i'r caethion ar eu dychweliad o Babilon, wrth ystyried cyfaddasrwydd ynddynt i'w taith fwy hwythau, eu cymhwyso at yr achlysur hwnw, gan ychwanegu attynt rai Salmau eraill, yn dwyn perthynas fwy union-gyrchol â'r sefyllfa yr oeddynt hwy ynddi y pryd hyny. Gelwir hwy "Caniadau y Graddau," er dynodi rhyw fath neillduol o farddoniaeth Hebrëaidd, hwyrach, gan fod yr holl Salmau hyn yn fyrion, a rhyw esgyniad graddol yn eu cynnwys hyd y diwedd. GESENIUS. Caniadau a ganai y Lefiaid ar y pymtheg gris, ar hyd pa rai yr oeddynt hwy yn arferol o esgyn o gyntedd y gwragedd i gyntedd yr Israeliaid; ac ar bob gris, hwy a ganent un o'r Salmau hyn. KIMCHI. Mae amryw opiniwnau eraill mewn perthynas iddynt; ond y mae hyn yn gymmaint ag a ystyriwn ni yn angenrheidiol i ni ei ddweyd ar destyn mor anhawdd bod yn benderfynol arno. Meddylir yn gyffredin fod y Salm yma wedi ei chyfansoddi gan Dafydd, ar gyfrif Doeg yr Edomiad gan ei bod yn gyffelyb i Salm 52. GILL.

Adn. 3. *Beth a roddir i ti?* neu, "Pa beth a ddyru tafod twyllodrus i ti?" GILL, MONTANUS, &c.

Adn. 4. *Llymion saethau cawr*, neu, "Cyffelyb ydynt," sef y gwefusau celwyddog, a'r tafod twyllodrus, "i saethau llymion, yn cael eu hergydio gan wr grymmus; a llosgedig fel y tân poethaf." BOOTHROYD.

Adn. 5 Mesech oedd fab Japheth, Gen. 10. 2, o'r hwn yr hanai y Moschiaid, y rhai a boblasant Rwssía mewn amser; a Chedar, yr hwn oedd o hiliogaeth Abraham, Gen 25. 13, yn nghyd a'i bobl a feddiannasant ran o Arabia. Yr oedd y ddau bobl yma yn rhai hynod o greulawn, ac yn dilyn buchedd ansefydlog, gan drigo mewn pebyll, a byw ar yspail ac anrhaith; ac y mae yr

Awdwr yn cydmaru cyflwr yr Iuddewon, i un yn trigo yn eu plith, yn ansefydlog, ac annïogel. BOOTHROYD. Eraill a farnant nad yn enwau prïodol y dylid arfer Mesech a Cedar yma, ac a ddarllenant y geiriau fel y canlyn, "Gwae fi, fod fy mhererindod yn cael ei estyn; yr ydwyf yn trigo yn fy mhabell gan alaru." HORSLEY.

Adn. 6. *Gyd a'r hwn*, neu, yn lluaws-rif, "Gyd a'r rhai" *oedd yn casau tangnefedd.—Septuagint, Vulgate.*

## SALM CXXI.

Adn. 1. *Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd*, y mynyddoedd y cyfeirir attynt yma, ydynt Sïon, a mynydd Morïah, ar y rhai yr oedd y deml yn sefyll. SUTCLIFFE. Ond rhoddir cyfieithiad gwahanol ar ymyl y ddalen mewn rhai argraffiadau o'r Bibl, yr hwn a gymmeradwyir yn fawr gan rai Beirniaid diweddar.—"A ddyrchafaf fi fy llygaid i'r mynyddoedd?" Wrth fynyddoedd yma y golygir yr eilunod a addolid yn yr uchelfëydd hyny. Ac y mae y golygiad yma yn ymddangos yn hynod o esmwyth pan ystyriom ni y cyfattebiad sydd rhwng yr adnod hon a'r un nesaf. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheulaw*, fel cysgod craig neu goed cauad-frig mewn tir blinedig, gwel Esay 32. 2; Can. 2. 3. Gall fod cyfeiriad yma at y golofn gwmmwl, yr hon a'u cysgodai y dydd rhag y gwres, Esay 4. 5, 6. a 25. 4, 5. GILL.

Adn. 6. *Ni'th dery yr haul y dydd.* Mae pelydr yr haul yn y gwledydd Dwyreiniol yn taraw yn union-gyrchol ar ddyn, yn gadael effeithiau tra grymmus ar y gwrthddrych truan yn aml. Clywsom am fwy na chant o ddynion wedi meirw mewn un tymhor, mewn rhan o'r wlad yn agos i Benares, trwy gael eu taraw gan yr haul.—*Na'r lleuad y nos.* Mae yn ddïau fod y lleuad yn effeithio mwy ar olygon un yma, pan y cysgo yn yr awyr agored dros nos, yn agored i'w thywyniadau, na'r haul. Buan yr andwyir golwg un a gysgo heb orchudd ar ei wyneb yn yr awyr agored y nos. CARNE.

## SALM CXXII.

Meddyliai y Cyfieithydd Syriaeg mai pan orchymynodd Cyrus i'r gaethglud fyned i fynu i'w gwlad y cyfansoddwyd y Salm hon. CLARKE. Ond GILL a farnai mai at wasanaeth yr Israeliaid ar eu mynediad i fynu i'r gwyliau dair gwaith yn y flwyddyn y'i cyfansoddwyd.

Adn. 3. *Fel dinas wedi ei chyd-gyssylltu ynddi ei hunan.* Yr oedd y ddinas uchaf a'r isaf wedi eu cydio yn un yn amser Dafydd, yr heolydd wedi eu hadeiladu yn rheolaidd, a'r tai yn gydiol â'u gilydd, nid yn wasgaredig, un yma ac un acw. GILL. Darluniai un *Hecataus*, ysgrifenydd paganaidd, y ddinas fel dinas gaerog gadarn, yn cynnwys *chwech ugain mil* o eneidau. EUSEB.

Adn. 4. *Yn dystiolaeth i Israel*, neu, "at dystiolaeth Israel," sef Arch y dystiolaeth, yr arwydd o'r presenoldeb Dwyfol. WELLS, MERRICK, GILL.

Adn. 6—8. Os oedd yr Iuddewon i weddïo am heddwch dinas dramor, yn yr hon y digwyddai eu bod yn gorfod aros, pa faint mwy dyledus oedd arnynt weddïo am heddwch Jerusalem.

Adn. 9. *Er mwyn tŷ yr Arglwydd ein Duw, y ceisiaf i ti ddaioni*. Tŷ yr Arglwydd a ddyrchafai Jerusalem i'r bri a'r anrhydedd mwyaf, ac er mwyn ei dŷ ef, y ceisiai holl weision yr Arglwydd ddaioni a llwyddiant y ddinas. BOOTHROYD.

## SALM CXXIII.

Adn. 2. *Fel y mae llygaid gweision ar law eu meistriaid*. Mae yn arferiad gyffredin yn Twrci, Persia, yr Aipht, ac amrywiol o'r gwledydd Dwyreiniol, fod y meistri yn rhoddi gorchymynion a chyfarwyddiadau i'w gwasanaethyddion trwy arwyddion â'u dwylaw, ac mor wyliadwrus yw y gweinyddion yn craffu ar ysgogiadau dwylaw eu meistri, fel na raid i'r meistr dori ar ei ymddiddan â'r dyeithriaid a fyddont gyd âg ef, na *throi i edrych* ar ei weinidogion pan yn gwneyd yr arwyddion yma iddynt; a barnodd llawer o Esbonwyr, mai at y cyfryw arferiad y cyfeiriai y Salmydd yma, er arwyddocàu yr astudrwydd â'r hwn y sylwai pobl yr Arglwydd arno ef: ond, y mae yn debycach genym mai HARMER sydd wedi cael gafael ar wir arwyddocäad y geiriau hyn, yr hwn a farnai fod yma gyfeiriad at gaethwas, yr hwn y gorchymynasai ei feistr ei geryddu am ryw gamwedd; yn troi ei lygaid eiddunawl tua'r meistr hwnw, nes y gwelo yr ysgogiad dymunol ar y llaw, a rydd derfyn i'r chwerwder a deimlir ganddo; felly, y mae ein llygaid ninnau arnat tithau, O! ein Duw, hyd oni roddo dy law yr arwydd hwnw, a bair ymwared i ni.

## SALM CXXIV.

Efallai mai ar yr achlysur o'r ymwared a gyfodwyd i'r Iuddewon rhag bwriad gwaedlyd Hamman, y cyfansoddwyd y Salm hon. CLARKE.

Adn. 5. *Dyfroedd chwyddedig*, a olyga dònnau y môr mewn tymhestl, a hyny yn ddynodawl o dorfeydd yn ymuno i erlid y cyfiawn. Cymh. Esa. 59. 16—21.

## SALM CXXV.

Adn. 2. *Fel y mae Jerusalem a'r mynyddoedd o'i hamgylch*. Cyffelybiaeth nodedig er darlunio gallu a gofal gwastadol Duw am y rhai a ymddiriedant ynddo ef.

Adn. 3. *Canys ni orphwys gwïalen annuwioldeb ar randir y rhai cyfiawn*. Hyny ydyw, ni bydd i deyrnwïalen awdurdod y drygionus rëoli ar, a gormesu pobl yr Arglwydd yn wastadol, rhag

y'u gorchfygir gan eu dyoddefiadau, a gwrthgilio o honynt oddiwrth y gwir Dduw, at eilunod.

Adn. 5. *Ond y rhai a ymdröant i'w trofeydd;* hyny yw, proffeswyr gwir grefydd, yn troi o ffordd cyfiawnder, i rodio yn ol eu dychymygion eu hunain. Cosbir y rhai hyn gyda *gweithredwyr anwiredd*, sef, y Cenhedloedd eilun-addolgar. Cymh. Dat. 22. 15.

## SALM CXXVI.

Mae yn dra thebyg i'r Salm yma gael ei chyfansoddi gan Ezra, i'w chanu ar ddychweliad yr Iuddewon o Babilon.

Adn. 1. *Pan ddychwelodd yr Arglwydd;* hyny yw, pan roddes efe bèn ar ein caethiwed, trwy orchymyn Cyrus.

Adn 2. *Yna y dywedasant yn mysg y Cenhedloedd*, yr oedd y cenhedloedd paganaidd yn addef fod Duw Israel wedi gwneuthur pethau mawrion erddynt hwy, a'i bobl ef yn ad-lais hyny yn ddïolchgar, adn. 3.

Adn. 4. *Dychwel Arglwydd;* hyny yw, cwblha ein dychweliad. Ni ddychwelodd yr holl gaethion Iuddewig ar unwaith; ond, hwy a ddychwelasant ar wahanol amserau, a than wahanol arweinwyr, megis Ezra, Nehemïah, Zorobabel, &c. A CLARKE. Neu, gellir rhoddi darlleniad gwahanol i'r geiriau heb wneyd càm â hwy;—"Dychweliad ein caethiwed, O! Arglwydd, sydd gyffelyb i'r afonydd yn y dehau," neu, yn niffeithwch Judea; mor ddymunol â gwerthfawr a'r gwlaw ar diroedd sychion. DURELL.

Adn. 5. *Y rhai a hauant mewn dagrau.* Ymadrodd dïarhebol ydyw hwn debygid, i ddynodi unrhyw beth a ddylynir âg anhawsderau a pheryglon: a'r meddwl yw, y dichon i lawer o brofedigaethau llymion a blinion fod yn rhan i'r rhai a geisiant ddaioni Sïon; a bod ganddynt lawer o achosion i wylo, eto nid i anobeithio, gan y byddai eu llafur yn llawer sicrach o gael ei goroni â llwyddiant na'r eiddo y llafurwr medrus. BOOTHROYD, DAVIDSON.

## SALM CXXVII.

Adn. 1. Nid oes dim yn fwy arferol yn yr Ysgrythyr na rhangymeriad, hyny yw, cymeryd rhan am y cyfan o ryw beth: ac felly, efallai fod *tŷ* a *dinas* yma yn dynodi holl anturiaethau dynol; ac y mae yn wirionedd teilwng o gred ac ystyriaeth, na lwydda yr un heb fendith Duw.

Adn. 2. *Bwyta bara gofidiau*, naill ai bara a ennillir trwy ofidiau, Diar. 4. 17. neu y cyfryw ag a arfera dynion mewn cystudd ei fwytta. Dichon y gair yma fod yn arwyddocâu pryder, gofal a thrallod anfuddiol. Ond y mae yr hwn sydd yn cyflawni dyledswyddau y fuchedd hon, ac yn ymddiried yn Nuw, yn mwynhau heddwch, canys felly y rhydd efe hun i'w anwylyd: cymh. Sal. 37. 3—6. Matt. 6. 34. Phil. 4. 6, 7.

Adn. 4. *Felly y mae plant ieuenctyd*, neu, "felly y mae ieuenctyd bywiog," Felly yr eglurhäai AINSWORTH y gair yma, gan feddwl mai dynion ieuainc grymmus a olygai y Salmydd, y rhai ydynt yn gymmhorth i'w rhïeni yn erbyn eu gelynion, fel ymae y saethau i'r milwyr mewn rhyfel. Diar. 20. 29. a 1 Ioan 2. 14.

Adn. 5. "Gwyn ei fyd y gwr y mae ei gawell saethau yn llawn o honynt ni's gwaradwyddir hwy, ond dinystriant y gelynion yn y porth." Wrth gawell saethau y golygir ei dŷ, lle maent yn trigo hyd oni's gelwir hwynt i weithrediad, fel y saethau yn y cawell, hyd oni byddo eisiau gwneyd defnydd o honynt. BOOTHR.

## SALM CXXVIII.

Meddylia rhai mai cân brïodasol a arferid gan yr Israeliaid oedd hon. TRAVELL. Mae yn debyg, pa fodd bynnag, nad yw hi yn ddim amgen na pharäad, neu yr ail ran o'r Salm flaenorol-CLARKE.

Adn. 3. *Fel gwinwydden ffrwythlawn.* Mae pobl y Dwyrain yn hoff iawn o orchuddio eu tai â gwinwydd. ROBERTS. Mae gwinwydd wedi eu plannu o fewn y tai dwyreiniol yn aml, ac yn tyfu ar hyd y grisiau a arweiniant i'w goruwch ystafelloedd. RUSSELL. Y winwydden, planhigyn isel, a feithrinir trwy ofal tyner; sydd o'r diwedd yn dyfod yn ogoniant y tŷ, ar yr hwn y'i cynhelir, ac felly y mae yn gyffelybiaeth addas iawn o wraig deg, rinweddol, a ffrwythlawn. *Esgob* HORNE. *Dy blant fel planhigion olewydd o amgylch dy ford;* cyfeiriad at yr olewydd a blanai y Dwyreinwyr oddeutu y byrddau, neu y gwledd-lëoedd yn eu gerddi, i loni y llygad â'u hireidd-dra, ac adfywio y corff â u cysgod oeraidd, yn yr hyn y dynodir y pleser a fwynhâ rhïeni yn yr olwg ar hiliogaeth luosawg a blodeuog. HORNE.

## SALM CXXIX.

Mae amryw yn barnu mai Ezra neu Nehemiah a gyfansoddodd y Salm hon er cysuro yr Iuddewon yn wyneb ymdrechiadau eu gelynion i'w lluddias i ail adeiladu y deml a'r ddinas. DIMMOCK, WILLIAMS.

Adn. 1, 2. Mae yr ysgrifenydd yn personoli cenedl Israel yn y geiriau hyn mewn modd prydferth iawn. Yn lle *llawer gwaith*, gellid cyfieithu y geiryn gwreiddiol yn fwy prïodol, "Dirfawr" *y'm cystuddiasant.—Eto ni'm gorfuant.* Ni's gallai yr Aiphtiaid ffynu yn erbyn Israel, pa fwyaf y cystuddient hwy, mwyaf y cynnyddent ac y y lluosogent: ac yn amser y Barnwyr cyfododd un ar ol y llall yn Waredwyr iddynt. Ie, ni allodd yr Assyriaid, y Caldeaid, na'r Rhufeiniaid, nac unrhyw bobl arall eu tori ymaith o fod yn genedl. GILL.

Adn. 3. *Yr arddwyr a arddasant ar fy nghefn.* Ymadrodd cyffelybiaethol grymmus, i ddynodi effeithiau fflangelliadau cy-

hoeddus. HEWLETT. Yr oedd eu cefnau wedi eu rhwygo fel y rhwygir y ddaiar gan yr arddwyr. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Efe a dorodd raffau y rhai annuwiol*, sef rhaffau iau gormes. BOOTHROYD. Cyfeiriad at y rhaffau â'r rhai y sicrheir yr aradr wrth yr ychain, wedi torri pa rai, bydd yn anmhossibl iddynt aredig mwyach; neu at reffynau y ffrewyll, â'r rhai wedi eu tori ni's gellir fflangellu i wneyd niwed. GILL. Meddyliai JEROME fod yr Iuddewon wedi cael eu rhwymo fel anifeiliaid i dynu yr aradr gan rai o'u gorthrymwyr, ac mai at hyny y cyfeiriai y Salmydd yma. CLARKE.

Adn. 6. Hwyrach y byddai *glaswellt* i'w weled ar bennau tai yn Judea yn lled aml, gan fod eu pennau yn wastad, gallai had ddisgyn arnynt yn achlysurol, ag egino yn fuan: ond, gan nad oedd iddo ddyfnder daiar, a'i fod ar le uchel yn agored i darawiadau poethion yr haul, efe a wywai yn fuan.

Adn. 7. *Na'r hwn fyddo yn rhwymo yr ysgubau ei fynwes*, y plygiad a wneid yn mynwes y fantell i dderbyn unrhyw beth; felly hefyd. Neh. 5. 13. a Luc. 6. 38. HEWLETT.

Adn. 8. *Bendithiwn chwi yn enw yr Arglwydd*, oedd fath o gyfarchiad cyffredin yn amser cynhauaf, Gwel Ruth 2. 4.

## SALM CXXX.

Adn. 1. *Dyfnder*, neu "O'r dyfroedd dyfnion," sef trallodau a chystuddiau blinion. Salm 69. 2, 15.

Adn. 3. *Os creffi ar anwireddau*, neu, "Os nodi anwireddau i lawr, i'r dyben o gosbi am danynt," *O Arglwydd pwy a saif?* BOOTHROYD, &c.

Adn. 6. *Yn fwy nac y mae y gwylwyr am y boreu*, cyfeiriad at wylwyr y ddinas, neu at yr offeiriaid a osodid yn eu cylch i wylied yn ddyfal am ymddangosiad y wawr, fel y gallent offrymu y boreuol aberth. BOOTHROYD, HAMMOND.

## SALM CXXXI.

Mae yn debyg i Dafydd gyfansoddi y Salm hon cyn ei ddyfodiad i'r orsedd; a thra yr oedd yn llys Saul, dan ryw achwyniad fel pe mynasai wneuthur rhyw ymgais yn erbyn Saul. GILL.

Adn. 1. *Pethau rhy fawr*, neu ry uchel, uwchlaw amgyffrediadau y meddwl dynol; gwel Salm 139. 6.

Adn. 2. *Fel un wedi ei ddiddyfnu oddiwrth ei fam.* Nid yw plentyn teir-blwydd oed yn ffurfio rhyw ddyfeisiau mawrion pa fodd yr ennilla efe fawredd a golud; ac felly yr oedd Dafydd yn tystio fod ei feddwl yntau yn rhydd oddiwrth y cyfryw amcanion. BOOTHROYD. Ystyr y geiriau yw, "Yr ydwyf yn ymddibynu yn hollol ar ragluniaeth Duw am y ffordd a'r pryd i'm dwyn i'r freniniaeth, fel y mae y plentyn newydd ei ddiddyfnu yn ymddibynu ar ei fam am gynhaliaeth. POOLE.

## SALM CXXXII.

Mae y Beirniaid yn amrywio cryn lawer mewn perthynas i awdwr y Salm hon, a'r achlysur o'i chyfansoddi, ac efallai mai y mwyaf rhesymol a hygoel yw yr un a'i prïodola i Nathan fel awdwr, ac i ddygiad yr arch i deml Solomon fel yr achlysur o honi

Adn. 1. *A'i holl flinder*, neu yn hytrach ei holl lafur duwiol gyda pharottoi at dy Dduw, a lle i arch ei sancteiddrwydd ef. BOOTHROYD, DATHE, MICHAELIS, SECKER.

Adn. 3—5. Ni's gwiw i ni esbonio yr adduned yma yn rhy gaeth. Yr ystyr yw, ei fod ef yn llawn benderfynu cael lle i'r arch, ac na's gallai efe fod yn ddibryder am hyny ddydd na nos. Mae y cyffelyb ymadrodd bron, yn ddïarhebol yn ein plith ninnau, mai prin y gall un gysgu gan bryder a gofal am y cyfryw beth. Felly y cawn ni hanes am Dafydd, ei fod ef wedi rhoddi ei fryd yn fawr ar hyn, gwel 2 Sam. 7: ond, oni all fod yma gyfeiriad at y Messïah, yr hwn a addunedodd gyfodi teml i'r Arglwydd, ac ni's gorphwysodd ddydd na nos nes cyflawni ei adduned. DAVIDSON.

Adn. 6. *Wele, clywsom am dani yn Ephratah, cawsom hi yn maesydd y coed.* Nyni yn Ephratah, neu Bethlehem a'r ardaloedd cylchynol, a glywsom am yr arch, ei bod hi yn Jair, neu Ciriath-jearim, ac nyni a'i cawsom hi yno, ac a'i cyrchasom hi oddiyno. WALL. Neu, hwyrach mai y golygiad yw, Arferai dynion ddywedyd yn yr amser gynt, Nyni a glywsom o enau y proffwydi mai yn agos i Bethlehem Ephratah yr oedd y lle dewisedig, yn unig ni's gwyddem y fán yn fanol. ABEN EZRA.

> "Wele, clywsom am dani fel yn agos i Ephratah,
> Cawsom hi yn rhandir y goedwig."

Hyny yw, Nyni a glywsom am y lle a ddewisai Duw yn drigfa iddo ei hun.—"Rhandir y goedwig." Mae yn dra thebyg fod y mynydd wedi bod yn goedwig, a bod llawer o goed eto yn aros, pan oeddid ar fyned i adeiladu y deml yno. 1 Cron. 20. 18. a 22. 1. BOOTHROYD.

Fel yr oeddwn wedi penderfynu adeiladu teml i'r arch, a chlywed ei bod yn Ephratah, myfi a aethum ac a'i cefais hi yn maesydd Jaar, (nid coed ond Ciriath-jaar, neu Jearim; lle yr oedd yr arch y pryd hyny) ac wedi ei chael, efe a aeth i fewn i'r babell, adn. 7. A. CLARE. Pan oedd Dafydd yn ieuanc yn Bethlehem Ephratah, y clywodd efe gyntaf am yr arch, ei bod hi yn Siloh; ond pan aeth efe allan i fyned i'w chyfarfod, efe a gafodd ei bod hi wedi ei dwyn mor bell a gwlad goediog Ciriath-jearim, 1 Sam. 6. 1, &c. FENTON.

Adn. 8. *I'th orphwysfa*, yr oedd yr arch yn symmudol hyd

oni adeiladwyd y deml; ond ni symmudwyd hi o'r cyssegr sancteiddiolaf hyd y caethgludiad, pan y'i collwyd neu y'i dinystrwyd; gan hyny yr oedd yn addas galw y fan hon yn Orphwysfa yr arwydd gweledig o bresenoldeb grasol yr Arglwydd gyd a'i bobl SCOTT.

Adn. 9. *Gwisged dy offeiriaid gyfiawnder*, hyny yw, Bydded iddynt weinyddu eu swydd offeiriadol yn gyfiawn a sanctaidd, Job 29. 14. BOOTHROYD.

Adn. 10. *Na thro ymaith wyneb dy Enneiniog:* hyny yw, "Na wrthod ei weddi ef." BOOTHROYD.

Adn. 17. *Paraf i gorn Dafydd flaguro.* Hyny yw, paraf i frenhiniaeth a gallu gynnyddu yn nhŷ Dafydd trwy y Messïah. BOOTHROYD—*Darperais lamp i'm Henneiniog.* Efallai fod yma gyfeiriad at y cannwyllbren a losgai yn oleu yn y deml bob amser; ond pa fodd bynnag, y mae yn amlwg fod yr ymadrodd yn ddelweddiad cymhwys o lwyddiant a pharäad breniniaeth y Messïah.

Adn. 18. *Ei elynion*, sef gelynion yr hwn a elwir *Corn Dafydd*, y Messïah, â gywilyddir a chywilydd tragywyddol: ond y goron a flodeua ar ei ben ef, heb fod yn ngallu neb gymmylu ei ogoniant, na niweidio ei awdurdod.

## SALM CXXXIII.

Hwyrach i'r Salm hon gael ei chyfansoddi pan berswadiodd Abner y llwythau i ymuno dan lywodraeth Dafydd, 2 Sam. 5. 1. HENRY, SCOTT, WILLIAMS.—Neu, pan oedd y llwythau yn ymryson pwy a gai ddwyn y brenin adref ar ol gwrthryfel Absalom. FENTON.

Adn. 2. *Fel yr ennaint gwerthfawr*, sef yr olew sanctaidd, Exod. 30. 23.—*Ymyl ei wisgoedd ef*, neu yn ol yr Hebraeg, "genau ei wisgoedd ef." Arferent wisgo y dilledyn y cyfeirir atto yma, trwy ei roddi dros y pen, a gwddf, neu golar y wisg a olygir yn y fan hon wrth y gair *ymyl*.

Adn. 3. *Gwlith Hermon.* Mae yn debyg nad yr un Hermon oedd hwn a'r Hermon a grybwyllir yn y Nod. ar Deut. 3. 8, fel rhan o Libanus Ond. BUCKINGHAM a'i darlunia fel rhes o fynyddoedd yn ymestyn am lawer o filldiroedd o'r dwyrain i'r gorllewin, ac yn ffurfio terfyn deheuol gwastadedd Esdraelon, yn yr hwn y mae mynydd Tabor yn sefyll. Wrth lefaru am yr Hermon yma y dywedai MAUNDRELL, "Cawsom ein dysgu trwy brofiad pa beth a olygai y Salmydd pan soniai am wlith Hermon: gan fod ein pebyll mor wlybion a phe buasai wedi bod yn gwlawio trwy y nos." *Journey*, p.p. 57. 1707.—*Yno y gorchymynodd yr Arglwydd y fendith*, sef ar frodyr a fyddont yn byw yn nghyd mewn brawdgarwch diffuant. BOOTHROYD.

## SALM CXXXIV.

Adn. 1. *Y rhai ydych yn sefyll yn nhŷ yr Arglwydd y nos.* Yr

oedd rhai o'r Lefiaid i fod yn eu cylch yn cadw tŷ yr Arglwydd y nos, Deut. 10. 8. Lef. 8. 35. 1 Cron. 9. 33.

Adn. 2. *Dyrchefwch eich dwylaw yn y cyssegr*, neu, "dyrchefwch eich dwylaw cyssegredig;" cyfeiriad at ddull arbenig o addoli.

## SALM CXXXV.

Adn. 2. Megis yr ymddengys fod y Salm o'r blaen wedi ei chyfeirio mewn modd neillduol at y rhai a wylient y nos yn y deml, mae yn debyg mai Hymn foreuol yw hon, a genid gan yr offeiriaid wrth agor y deml yn y boreu. WELLS, PATRICK.

Adn. 4. *Ac Israel yn brïodoriaeth iddo*, neu yn drysor prïodol a neillduol iddo ei hun, gwel Titus 2. 14. 1 Pedr 2. 9.

Adn. 11—14. *A holl freniniaethau Canaan*, dan unarddeg ar hugain o freninoedd, fel y cyfrifir yn Jos. 12. 9—24. Gwel Deut. 32. 36.

## SALM CXXXVI.

Mae yn dra thebyg mai Dafydd a gyfansoddodd y Salm hon i'w chanu gan y Lefiaid yn y gwasanaeth beunyddiol.

Adn. 1. *Canys ei drugaredd sydd yn dragywydd*, neu, "canys ei dyner drugaredd sydd i'r oes ddyfodol," gan gyfeirio efallai, at yr amlygiad hynod hwnw o'i drugaredd yn mhrynedigaeth y byd trwy yr Arglwydd Iesu.

Adn. 2. *Clodforwch Dduw y duwiau;* wrth Dduw y duwiau nid ydys i olygu fod yr Arglwydd yn Dduw eilunod; ond gall fod y gair yn dynodi offeiriaid a phennaethiaid ysbrydol, fel y mae Arglwydd yr arglwyddi yn dynodi breninoedd a phennaethiaid gwladol. CLARKE. Ystyr y gair yw Arglwydd yr holl luoedd nefol, gwel Exod. 18. 11. PATRICK.

## SALM CXXXVII.

Adn. 1. Os wrth Babilon yma y golygir y freniniaeth, yna ei hafonydd oeddynt y Chebar, yr Ulai, y Tigris, yr Euphrates, ac eraill; gwel Ezec. 1. 1. Dan. 8. 2; ond os y ddinas ei hunan a olygir, yna Euphrates yn unig a ddynodir wrth y gair *afonydd*, yr hon a lifeiriai trwy ganol y ddinas; ac e ddichon ei bod hi yn cael ei galw yn *afonydd*, oblegid ei maint, a'i lluaws dyfr-ffosydd, a elwir "dyfroedd lawer." Jer. 51. 13. GILL. Hwyrach fod yr Iuddewon yn lled hoff o gyrchu i lannau afonydd i gyflawni eu defodau crefyddol er pan y'u caethgludwyd i Babilon, gwel Act. 16. 13. Meddylia rhai fod y caethion Iuddewaidd wedi bod yn cael eu defnyddio i sychu y llëoedd lleidiog o bob tu i'r afonydd yn ngwlad eu gorthrymwyr. HEWLETT.

Adn. 2. *Ar yr helyg*, yr oedd lluaws o helyg yn tyfu ar lanau yr Euphrates, fel y'i gelwid gan Esaiah, "afon yr helyg." Esa. 15. 7. CLARKE.

Adn. 3. *Cenwch i ni rai o ganiadau Sion.* E ymddengys oddiyma fod yr Hebrëaid yn enwog fel cantorion trwy y gwledydd dwyreiniol. SUTCLIFFE.

Adn. 4. *Pa fodd y canwn? &c.* Yr oedd amryw o'r cantorion wedi eu dwyn yn gaethion, Ezra 2. 41. A'r rhai hyn a ddygasent eu hoffer cerdd gyda hwy, am y rhai y sonir yma: ond yr oedd eu caniadau cyssegredig yn annghymwys i'w canu o flaen eilun-addolwyr; ac nid oedd calon ynddynt hwythau i ganu yn ngwlad eu caethgludwyr. SECKER, BOOTHROYD.

Adn. 7. *Cofia, Arglwydd, blant Edom yn nydd Jerusalem*, neu, "y rhai a ddywedasant yn nydd cyfyngder Jerusalem, Dynoethwch, &c." BOOTHROYD. Yr oedd yr Edomiaid wedi ymuno â byddin Nebuchodonosor yn erbyn eu brodyr, yr Iuddewon, a hwynt hwy oeddynt y prif offerynau yn dynoethi ei muriau hyd y llawr, gwel Jer. 12. 6 a 25. 14. Galar. 4. 21, 22. Ezec. 25. 12. Obad. 11—14. A CLARKE. Yr oedd yr Edomiaid yn gorfoleddu yn nghwymp Jerusalem, ac yn llawenychu yn ninystr rhai o'r un gwaed a hwy eu hunain; ac yn mhen pum mlynedd wedi, cosbwyd hwythau yn yr un modd gan y Caldeaid. SUTCLIFFE.—*Yn nydd Jerusalem*, dydd dinystr Jerusalem. ROSENMULLER.

Adn. 8. *O ferch Babilon a anrheithir.* Wedi ei chymeriad gan Cyrus, yn O. B. 3468, ni's gellid ei chyfrif mwyach yn brif ddinas, a gwaelodd o radd i radd, hyd oni lwyr ddinystriwyd hi. CLARKE.—*Fel y gwnaethost â ninnau*, pan gymerodd Darius Hystaspes y ddinas wedi iddi wrthryfela, efe a laddodd y dinaswyr a'u gwragedd, mewn modd barbaraidd. HERODOTUS. *lib.* 3.

Adn. 9. *A darawo dy rai bach wrth y meini*, Prin y buasai llawer yn credu eu bod yn arfer y fath farbareidd-dra, oni buasai fod hen awduron cenhedlig, megis Homer yn sicrhau y peth. DAVIDSON.

## SALM CXXXVIII.

Adn. 1. *Yngwydd y duwiau*, tywysogion a phennaethiaid y ddaiar. HEWLETT. Salm 82. 6, 7. Mae eraill yn cyfieithu y geiriau, "Yn ngwydd Elohim," gan farnu mai eu harwyddocäad yw, y byddai iddo ef foliannu Duw o flaen yr arch, lle yr oedd yr arwyddion sanctaidd o bresenoldeb y Bod Goruchaf. CLARKE.

Adn. 2. *Tu a'th deml sanctaidd;* nid y deml yn Jerusalem, canys nid oedd hono eto wedi ei hadeiladu, ond pabell Moses, lle yr oedd arch yr Arglwydd. GILL, ABEN EZRA, KIMCHI. Pa le bynnag yr oedd arch Duw, yno yr oedd teml yr Arglwydd, gwel 1 Sam. 3. 3. DIMMOCK.—*Oblegid, ti a fawrhëaist dy air uwchlaw dy enw oll;* neu "Ti a fawrheaist dy enw yn mhob gair o'r eiddof." KIMCHI. neu, "Trwy dy addewid, ti a fawrheaist dy enw uwchlaw pob enw," mae y nifer fwyaf o'r Esponwyr yn cyttuno mai gair yr addewid a olygid yma. BOOTHROYD. Yr

oedd efe yn mawrygu ffyddlondeb i'w addewid yn fwy na'i brïodoledd o allu. KENNICOTT. "Ti a fawrheaist dy enw a'th allu uwchlaw pob peth." BEN MELECH, DIMMOCK, &c. "Mawrheaist uwchlaw pob peth, dy enw, dy air." DAVIDSON. Mae enw a gair yr Arglwydd yma yn golygu yr un peth, sef perffeithiau y Duwdod wedi eu hamlygu yn Nghrist; cymh. Ioan 17. 6, 14. Dyma y datguddiad perffeithiaf o Dduw; mewn cydmariaeth nid yw yr amlygiad a wnaed yn y grëedigaeth, ddim mwy na llewyrch y seren wanaf mewn cydmariaeth â llewyrch yr haul ganol dydd.

Adn. 6. *Er bod yr Arglwydd yn uchel, &c.* Mae y dysgedig HOUBIGANT yn darllen yr adnod hon fel y canlyn; "Uchel yw yr Arglwydd: ond efe a wel yr isel; a dyrchafedig, ond efe a edwyn o bell."

## SALM CXXXIX.

Adn. 1. Mae yn anmhossibl penderfynu pwy oedd awdwr y Salm hon; ond y mae y dysgedigion oddiwrth y dulliaith Caldeaidd a arferir ynddi, yn casglu iddi gael ei chyfansoddi yn yspaid, neu wedi y caethgludiad.

Adn. 3. *Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddfa,* neu, "gogrynaist fi," y mae efe yn craffu yn fanol ar weithredoedd dynion, ac yn eu nithio, i ysgaru y da oddiwrth y drwg, neu ddaioni gweithred oddiwrth ei drygioni a'i hanmherffeithrwydd. GILL.

Adn. 7 Mae SUTCLIFFE yn dadleu athrawiaeth y Drindod oddiwrth y geiriau hyn. "Yma, eb efe, nyni a gawn yr ARGLWYDD, ei Ysbryd, a'i bresenoldeb ef, sef y Messïah, am yr hwn y llefarai Esaiah gan ddywedyd, "Angel ei gynddrychioldeb, neu bresenoldeb, a'u hachubodd hwynt." Mae athrawiaeth y Drindod fendigedig yn pelydru allan yn nysglaerdeb datguddiad yr Ysgrythyrau, Gen 1 2. Esa. 63. 7.

Adn. 14. *Canys ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed,* yma yr oedd y Salmydd wedi mawrygu doethineb Duw yn yr ystyriaeth o'i adnabyddiaeth o galonau dynion, a'u holl agweddau, yn mawrygu yr un doethineb yn yr amlygiad o honaw yn ffurfiad cywrain ein cyrff yn y modd cyfaddasaf i atteb perwylion eu cyfansoddiad.

Adn. 15. *Ac y'm cywreiniwyd yn iselder y ddaear.* Mae yma gyfeiriad at waith edau a nodwydd o'r fath gywreiniaf, cyffelyb i'r cywreinwaith oedd ar lenni y babell, Exod. 26. 36. a 28. 39, er darluniaw cyfansoddiad manol a thra chywrain y corff dynol, Ezec. 26. 20. a 32. 18, 24.

Adn. 24. *A thywys fi yn y ffordd dragywyddol,* yr hen ffordd, y ffordd yn yr hon y rhodiodd ein tadau y rhai a'th addolent di. A. CLARKE. Gwel Job 22. 15. Gellir galw llwybr ufudd-dod yn ffordd dragywyddol, am ei bod yn arwain i wynfydedigrwydd tragywyddol. DAVIDSON.

## SALM CXL.

Adn. 1. *Gwared*, neu "cipia" *fi rhag y dyn drwg*;—tybir i'r Salm hon gael ei chyfansoddi gan Dafydd pan oedd efe yn cael ei erlid yn yr anialwch gan Saul.

Adn. 3. *Golymmasant*, llymasant, hogasant, gwnaethant eu tafodau yn llymion i'm melldithio a'm gwaradwyddo.

Adn. 4. *Y rhai a fwriadasant fachellu fy nhraed*, neu y rhai a fwriadasant ddymchwelyd fy nghamrau.

Adn. 5. *Y beilchion a guddiasant faglau i mi*, fel pe buasai yn rhyw fwystfil gwyllt peryglus, arferent bob dichellion i'w ddinystrio. CLARKE, BOOTHROYD.

Adn. 10. *Syrthied marwor arnynt*, cyfeiriad, debygid, at ddinystr y Sodomiaid, y rhai a boenent enaid Lot gyfiawn, trwy eu trais a'u hannuwioldeb:—*bwrier hwynt mewn ceuffosydd*, mae y geiryn yn arwyddocâu holltau yn y ddaiar, wedi eu hachlysuro gan ddaiar-gryn, a hwyrach fod yma gyfeiriad at gosbedigaeth Corah a'i gyfeillion, y rhai a ymgyfodasent yn erbyn enneiniog yr Arglwydd ynyr anialwch.

Adn. 12. *Gwn y dadleu yr Arglwydd ddadl y truan*. Wedi rhagfynegi dymchweliad ei elynion yn yr adnodau blaenorol, y mae y Salmydd yma yn datgan ei hyder y byddai i'r Arglwydd ymddangos drosto, ac amddiffyn y gorthrymedig.

## SALM CXLI.

Barnai llawer fod y Salm hon wedi ei chyfansoddi tu a'r un amser a'r un flaenorol, a chan yr un awdwr sef Dafydd.

Adn. 2. *Fel arogl-darth*. Yn y boreu yr offrymmid yr arogldarth, ac fe'i cyferbynir â'r offrwm prydnhawnol, ar ba amser, sef pryd yr offrwm prydnhawnol, tua thri o'r gloch y prydnhawn, y byddai yr holl Iuddewon duwiol er bod yn mhell o Jerusalem, yn arfer cyflwyno eu gweddïau i Dduw. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Na âd i mi fwytta o'u danteithion hwynt*, sef gwleddoedd annuwiol yr eilun-addolwyr, hwyrach.

Adn. 5, 6. "Cured y cyfiawn fi o garedigrwydd, a cherydded fi: ond nac enneinier fy mhen âg olew peraroglaidd y drygionus, canys fy ngweddi a fydd byth yn erbyn eu drwg arferion hwy." GREEN.—Nac enneinied olew yr annuwiol fy mhen, hyny yw, na foed i mi gael fy mherswadio i fyned fel ymwelwr i driglëoedd y drygionus; neu dderbyn unrhyw groesawiadau ganddo ef, ond bydded fy ngweddi byth yn erbyn eu drygioni, gan ddywedyd, Tafler eu barnwyr dros ymyl y graig, fel y gwrandawont ar eiriau yr Arglwydd, canys peraidd ydynt. STREET.—*Pan dafler eu barnwyr mewn lleoedd carregog*: cyfeiriad mae yn debyg at y gosbedigaeth a arferid gynt trwy fwrw rhai dros ddibynau y creigiau. MUNSTER, GILL. Lladdodd Elias y gau broffwydi yn ngwely carregog yr afon. Yr oedd hyn yn ddefod yn mysg yr

Hebreaid, i roddi drwg weithredwyr i farwolaeth mewn lleoedd geirwon, neu ar lannau afonydd. Hwyrach fod yma gyfeiriad at y pedwar ugain offeiriaid a lofruddiasai Saul, geiriau y rhai oeddynt beraidd; eto eu hesgyrn a wasgarwyd yn annuwiol ar hyd wyneb y ddaiar. SUTCLIFFE.

Efallai mai yr ystyr yw, y byddai i ryw wŷr mawr, ymarweddiad y rhai a geryddasai y Salmydd, pan ganfyddent eu hunain wedi eu hamgau yn nghanlyniadau niweidiol eu hynfydrwydd eu hunain, wrandaw ar ei gynghor, a bod yn ystyriol o'i brïodoldeb. HORSLEY. Yr esponiad olaf yma a ddewisa MANT hefyd.

Adn. 7. *Y mae ein hesgyrn ar wasgar, &c.*, delweddiad yw y geiriau o laddfa fawr, fel yr oedd esgyrn y meirw oeddynt heb eu claddu yn gorchuddio y ddaear, yn debyg i ysglodion y saer o ddeutu y gweith-dy neu y pwll llif. HORSLEY. Barna amryw mai cyfeiriad sydd yma at laddiad offeiriaid Nob, gan Doeg, trwy orchymyn Saul. WILLIAMS.

## SALM CXLII.

Meddylir mai pan oedd efe yn yr ogof yn Engedi neu Adulam y cyfansoddodd Dafydd y Salm hon, gwel 1 Sam. 22. 1. a 24. 1—3. Y golygiad mwyaf hygoel ydyw fod Dafydd wedi cyfansoddi y Salm hon, ar ol argyhoeddi Saul, trwy arbed ei fywyd pan dorasai gŵr ei fantell, nad oedd efe yn amcanu un niwed iddo ef, ar yr hyn yr ymadawodd Saul; ond Dafydd a'i wŷr a aethant i'r amddiffynfa, sef ogof Engedi drachefn heb feiddio ymddiried eu hunain i Saul; ac y mae yn dra thebyg mai y pryd hyny y cyfansoddodd efe y Salm hon, yn yr hon y mae efe yn gweddïo ar Dduw ar fod yn wiw ganddo ei waredu ef, a'i ryddhau oddiwrth ei erlidwyr unwaith eto, fel y gallai foliannu yr Arglwydd, ac y gallai cyfiawnion eraill gyd lawenhau ag ef, adn. 6, 7. Mae y Salm hon wedi ei hamcanu gan yr Ysbryd Glân i fod yn addysg i holl bobl Dduw yn eu cyfyngderau mwyaf pan fyddo pob cynnorthwyon dynol yn methu, a phan byddo eu hysbrydoedd hwy eu hunain yn pallu ac yn soddi, i ffoi at yr Arglwydd yn unig, am waredigaeth, trwy ffydd a gweddi. ROBERTS'S KEY.

## SALM CXLIII.

Adn. 2. *Na ddos i farn a'th was*, "Na thyred i lŷs barn, fel tyst i'm herbyn, neu farnwr arnaf, onide fe'm dystrywir." A. CLARKE.

Adn. 3. *Mewn tywyllwch*, "Yn ytlysau y bedd." KIMCHI. Neu mewn cystudd trwm, o gorff neu feddwl.—*Fel y rhai a fu feirw er ys talm*, neu, "Fel y rhai ydynt wedi meirw am byth." BOOTHROYD.

Adn. 6. *Fel tir sychedig*, cyfeiriad at yr agenau a welid yn y

tiroedd yn y gwledydd dwyreiniol ar sychder mawr, mor ddyfnion fel na's gellid gweled eu gwaelod. CHARDIN.

Adn. 7. *Rhag fy mod*, neu yn ol BOOTHROYD, "Gan fy mod" *yn gyffelyb i'r rhai a ddisgynant i'r pwll.* Yr oedd ei sefyllfa yn druenus iawn, ac am hyny yr oedd efe mor daer am gael gwaredigaeth fuan.

Adn. 10. *I dir uniondeb*, neu ar hyd ffordd wastad, uniawn, y fath ag oedd cyfraith yr Arglwydd; o'r hon os ciliai, tramgwyddai yn fuan. Mae ymadrodd cyffelyb yn Salm 32. 11. MUDGE.

## SALM CXLIV.

Adn. 1. Sylwai DR. MORRISON yn dra phrïodol, fod hon mor debyg i Salm 18, fel y gellir ei golygu yn dalfyriad o honi.—*Yr hwn sydd yn dysgu fy nwylaw i ymladd*, yr oedd Duw wedi cymeryd Dafydd o gorlanau y defaid, a gwneuthur milwr o honaw. GILL.

Adn. 2. *Yr hwn sydd yn darostwng fy mhobl danaf*, neu, yn eu gwneuthur yn ufudd i mi; hwyrach ei fod ef yn golygu darostyngiad y terfysg a achlysurwyd trwy wrthryfel Absalom yma.

Adn. 7. *Gwared fi o ddyfroedd mawrion;* hyny yw, oddiwrth elynion lawer, y rhai ydynt fel llifeiriaint grymmus. KIMCHI, BOOTHROYD.

Adn. 8. *Y rhai y llefara eu genau wagedd*, hyny yw, celwydd, ac nid gwirionedd; ac yn eu llwon, pan fyddont yn dyrchafu eu deheulaw at Dduw, i dyngu wrth gyfammod, maent yn ymddwyn yn dwyllodrus. BOOTHROYD.

Adn. 15. Yr oedd y tair bendith a ddarluniwyd yn yr adnodau blaenorol, sef hiliogaeth lluosawg a iachus, ffrwythlondeb maesydd a dïadelloedd, a dïogelwch cyffredinol rhag pob rhyw elyn mewn mwynäad o heddwch didòr, yn addawedig i'r bobl ddewisedig os ufuddhäent iddo; ac yr oedd y mwynäad o'r pethau hyn yn brawf lled sicr o'i gymeradwyaeth ef.

## SALM CXLV.

Dyma yr olaf o'r Salmau egwyddorol, ac y mae godidogrwydd neillduol yn ei chyfansoddiad, a chymhwysder rhagorol ynddi i feithrin yr egwyddorion mwyaf duwiol-frydig.

Adn. 5. *A draethaf*, yn hytrach, "A draethant."

Adn. 6, *Traethant hwy,—mynegaf finnau*, neu, "Traethant gadernid dy weithredoedd ofnadwy, ac adgofiant dy weithredoedd grymmus." HORSLEY.

Adn. 9. *A'i drugaredd sydd ar ei holl weithredoedd.* Efallai fod yma gyfeiriad gan y Salmydd at waith y prynedigaeth yn yr hwn y datguddir gogoniant y prïodoliaethau Dwyfol yn fwy ardderchawg nac yn mhob peth arall o'i weithredoedd ef.

Adn. 11—13. *Dy frenhiniaeth*, yr hyn a ddynoda lywodraeth

naturiol a moesol Duw ar bob peth, yr hon sydd i barhau yn dragywyddol.

## SALM CXLVI.

Meddylia amryw i'r Salm hon gael ei chyfansoddi ar ol amser y caethgludiad, ac yn amryw o'r hen gyfieithiadau, megis y *Vulgate*, yr Ethiopaidd, a'r Arabaidd, fe'i priodolir i Haggai a Zechariah; ond tueddid SCOTT i farnu yn hytrach ddarfod iddi gael ei chyfansoddi gan Dafydd yn agos i ddiwedd ei freniniaeth.

Adn. 3. *Yr hwn nid oes iachawdwriaeth ynddo;* hyny yw, nid oes gallu ynddo i'w achub ei hunan, llawer llai eraill. Mae y Salmydd oddiar yr ystyriaeth o annigolrwydd pob math ar ddyn, yn annog i ymddiried yn Nuw yn unig; a'i foliannu ef fel gwrthddrych teilwng i ymddiried ynddo.

Adn. 7—9. Yn ei lywodraeth foesol, y mae efe yn cosbi y gorthrymwyr, ac yn gwaredu y gorthrymedig; yn arlwy i'r angenhawg, yn rhyddâu carcharorion, ac yn dwyn y rhai a gauasid mewn tywyllwch i oleuni.

## SALM CXLVII.

Adn. 1. Meddylia amryw mai Nehemïah a gyfansoddodd y Salm hon, ac mai dychweliad Israel o gaethiwed Babilon yw prif destyn y mawl. Ond y mae yr iaith yn dra chymhwys i'w harferu am waredigaeth ysbrydol drwy Grist. Gan hyny, hi a all fod yn brophwydoliaeth am amgylchiadau dyfodol yn llawn cystal a datganiad o rai mynedol. DAVIDSON.—*Gweddus yw mawl.* Mae yn gweddu i'w nodweddiad, ac yn ddyledswydd hoff ganddynt ei chyflawni.

Adn. 4. *Y mae efe yn rhifo rhifedi y ser*, yr hyn ni's gall un dyn ei wneyd, drwy gymhorth y syllwydrau goreu, Gen. 15. 5. Esa. 40. 26. Jer. 33. 22.

Adn. 9. Mae yn ddïau fod rhyw beth nodedig yn nghywion y gigfran, pan dueddid awdwr Llyfr Job, a'r Salmydd hefyd i'w dethol fel esamplau nodedig o ofal rhagluniaethol. Cymh. Luc 12. 24. â Matt. 6. 26. Haera BOCHART fod y gigfran yn bwrw ei chywion o'r nyth can gynted ag y gallant ehedeg i ymdaraw drostynt eu hunain; ac yn y cyflwr llesg yma maent yn llefain yn druanaidd, yr hwn lef y dywedir fod Duw yn ei wrandaw, gan eu hamddiffyn ac arlwy erddynt. BOOTHOYD.

Adn. 10, 11. Rhoddir march yma am feirch rhyfel, y mae breninoedd y ddaiar yn eu gwerthfawrogi hwy yn fawr; ond llawer gwerthfawrocach gan y Brenin mawr, yw yr addolwr gostyngedig. Nid nerth a harddwch anianol ei grëaduriaid yw hyfrydwch penaf Duw; ond cyffelybrwydd dynolryw i'w ddelw ef.

Adn. 15. *A'i air a red yn dra buan.* Cyfeirir yma yn ddïau at genhadwyr breninoedd, yn prysuro i hysbysu ei gyhoeddiad trwy y wlad. BOOTHROYD.

Adn. 18. *A'i wynt y chwŷth efe,* o ryw begwn cynnes;—*a'r dyfroedd a lifant.*

## SALM CXLVIII.

Prïodolir y Salm hon i Haggai a Zecharïah yn y cyfieithiadau Groegaidd, ac Ethiopaidd; ond y mae llawer o feirniaid craffus iawn, yn dewis barnu yn hytrach mai Dafydd a'i cyfansoddodd yn nyddiau ei lwyddiant, pan oedd ei galon yn orlawn o ddïolchgarwch i'r Arglwydd. Personoliad y nefoedd a'r ddaiar sydd un brydferthion addefedig barddoniaeth Hebräeg. Ac y mae gwaith y Salmydd yn eu gwahodd i foliannu yr Arglwydd, yn dangos ei fod ef yn credu yn gadarn fod holl weithredoedd Duw yn amlygu ei berffaith ragoriaethau ef, a'i bod yn anmhossibl ei anrhydeddu ef fel y dylid, heb fod ei holl weithredoedd yn cydunaw mewn un anthem fawr i ddatgan ei fawrhydi, ei ymostyngiad, ei ddaioni, ei ras, a'i drugaredd.—*Molwch ef yn yr uchelderau,* sef teulu gwych gogoniant y nef, fel yn yr adnod nesaf. BOOTHROYD.

Adn. 4. *A'r dyfroedd y rhai ydych oddiar y nefoedd,* sef y cymmylau, y rhai ydynt oddiar y ffurfafen, a elwir yma *y nefoedd.* CLARKE, *Esgob* HORNE.

Adn. 7. *Y dreigiau,* seirff, neu ryw rai eraill o greaduriaid mawrion y dyfnfor.

Adn. 14. *Ac efe sydd yn dyrchafu corn ei bobl;* efe a'u cadarnhäodd ac a'u llonodd a'i waredigaethau.—*Pobl agos atto,* rhai yn mwynhau cyfeillach neillduol ag ef, ac yn ei ffafr, Deut. 4. 7. Rhuf. 9. 4, 5.

## SALM CXLIX.

Adn. 4. *Efe a brydfertha y rhai llednais,* neu, "Efe à addurna y rhai gostyngedig *a iachawdwriaeth.* Y rhai a wisgid â sach lïan yn herwydd eu gelynion, y mae efe yn eu hachub a'u gwisgo â llawenydd. BOOTHROYD.

Adn. 5—9. Mae y rhan yma o'r Salm yn gweddu yn hynod dda i'r Israeliaid, y rhai oeddynt yn adeiladu mur Jerusalem, yn arfog, fel rhai parod i ryfel; ac hwyrach eu bod yn arferol o ganu y Salm hon er mwyn ymgalonogi gyd a'r gwaith, Neh. 4. 13, &c. —*A chanant ar eu gwelyau,* neu eu glythau, ar y rhai y gorweddent i gyd ymddiddan, neu wledda: canant fawl i'r hwn sydd yn rhoddi iddynt y fath ddedwyddwch a dïogelwch. BOOTHROYD.

Adn. 6. Rhoddir y cleddyf dau finiog am bob math o arfau rhyfel yma; ac y mae yn cael ei ddefnyddio yn arwydd-lun o *Air Duw,* prif arf byddin y Messïah, cymh. Hab. 4. 12. Ephes. 6. 17. 2 Cor. 10. 3—6. Matt. 19. 27—30. DAVIDSON.

## SALM CL.

Hwyrach i'r Salm hon gael ei chyfansoddi o bwrpas i derfynu y Llyfr hwn; gan Ezra efallai. SCOTT.

Adn. 1. *Molwch Dduw yn ei sancteiddrwydd*; yn ei gyssegr, y deml; neu yn hytrach, trwy ei ddylanwad sanctaidd ei hunan ar eich calonau. A. CLARKE. Neu, "Molwch Dduw am ei sancteiddrwydd ei hun." Purdeb hanfodol, a pherffeithrwydd natur Jehofah, ydyw testyn cyntaf y mawl a ofynir yma; a'r ail yw yr amlygiad o'i allu anfeidrol yn ffurfiad y ffurfafen, ac yn ei holl weithredoedd. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Molwch ef am ei gadernid*, neu "am weithredoedd cedyrn," yn nghynhaliad a llywodraethiad yr holl grëedigaeth. Dyma y trydydd testyn mawl a nodir yma; a'r pedwerydd yw "amlder ei fawredd," fel Brenin Israael yn amlygu ei brïodoliaethau moesol, ac yn derbyn gwasanaeth a moliant ei bobl.

Adn. 3—6. Yma enwir amrywiol o offer cerdd a arferai yr Iuddewon i gydganu â'r llais yn eu gwasanaeth crefyddol. Yr oedd peroriaeth offerynawl wedi ei neillduo i wasanaeth y cyssegr gyda hwy, ac nid yn wasanaethgar i bechod, fel y maent gyda ni yn aml.

## LLYFR Y DIARHEBION.

*Un dull arferedig gan yr henafiaid i gyfranu doethineb, oedd trwy draethu rhyw wirioneddau pwysig mewn ymadroddion byrion cynhwysfawr, ac mewn iaith farddonawl, fel y gellid eu cofio yn well. Fel hyn y traddodai doethion Groeg eu gwersi moesol, ac felly y rhyngodd bodd i'r Arglwydd gyfarwyddo Solomon i ysgrifenu er addysg ieuenctyd, a chyfarwyddyd henaint. Mae yn wir fod cymhwysder neillduol yn y Dïarhebion at bob oedran, sefyllfa, a gradd o ddynion. Awdwr y Diarhebion hyn oedd Solomon, yr hwn meddir a ysgrifenodd* dair mil *o honynt!* 1 *Bren.* 4. 32., *ac y mae y rhai a ystyrid yn fwyaf defnyddiol o honynt wedi eu casglu yn nghyd yn y llyfr hwn. Mae y rhan* gyntaf, *o'r bennod gyntaf hyd y ddegfed, yn cynnwys annogaeth i ddoethineb. Yr* ail ran, *o'r ddegfed, bennod hyd y bummed ar hugain a gynnwysa y gwersi moesol hyny, yn y rhai y mae y ddoethineb hon yn gynnwysedig. Y* drydedd ran *a gynnwysa y Diarhebion a gynhullwyd trwy orchymyn Hezeciah, o bennod y bummed ar hugain, hyd y nawfed bennod ar hugain: a'r* bedwaredd *a gynnwysa y ddwy bennod olaf, y rhai a ysgrifenwyd gan ryw awdwr ysbrydoledig arall efallai.*

*Mae yn ddiamheuol fod y Diarhebion hyn wedi eu hysgrifenu trwy ysbrydoliaeth Duw, ac fe'n cadarnheir yn y dyb hon gan ysgrifenwyr y Testament Newydd, y rhai a ddefnyddiasant luaws o ymadroddion o'r Llyfr hwn, Gwel Rhuf.* 12. 20. *Heb.* 12. 5, 6. 2 *Pedr* 2. 22. *Y rhai a ddyfyn-nodwyd o Diar.* 25. 21, 22. *a* 3. 11, 12. *a* 26. 11.

*Mae Llyfrau eraill o'r Ysgrythyr Sanctaidd, megis rhyw wëoedd cywrain a godidog o sidan neu aur, yn meddu trefn gymhlethedig*

*drwyddynt, ac yn ymddibynu y naill ran ar y llall yn y fath fodd, fel na's gellir agor na deall y naill heb y llall; ond y mae y llyfr hwn gan mwyaf fel* pentwr o berlau, blwch gwerthfawr o aur fedrwyau *neu drysorfa o* emmau *a* meini gwerthfawr, *heb y cyfryw gyssylltiad rhyngddynt, ond pob diarheb yn cynhwys synwyr cyflawn ynddi ei hunan. Tystiolaeth yr hen Basil dduwiol am dano oedd, "Mae y llyfr hwn yn dysgu llawer o wybodaeth Ddwyfol a dynol; yn ffrwyno y tafod niweidiol: yn symleiddio y llygad gwammal; ac yn rhwymo llaw annghyfiawn mewn cadwynau. Ymlidia ddiògi; pura ddymuniadau ynfyd; dysg gallineb; grymmusa ddewrder dyn, ac arddangosa gymhedroldeb a diweirdeb yn y fath fodd ag yr ennillant barch cyffredinol."—Ond ni waeth ymattal: y mae mwy o ragoroldeb ynddynt nac a ddichon tafod ei draethu, na meddwl ei ddychymygu.*

## PEN. I.

Adn. 1. *Diarhebion Solomon.* Mae y gair *Mashal*, a gyfieithir *Diarhebion*, yn dynodi dulliaith farddonawl a chyffelybiaethawl, cystal a gwir-eiriau cynnwysfawr. Diarhebion cynganeddawl a ddewisid fel y llwybr pennaf i gyfrannu addysg gan bob rhyw genedl yn oesoedd boreuaf cymdeithas. Felly y ffynai y dull hwn yn yr Aipht, Judea, ac yn mysg yr hen Roegiaid a'r Rhufeiniaid.

Adn. 2. *I wybod doethineb ac addysg*, neu "i gyfrannu." BOOTHROYD.—Ysgrifenwyd hwy i fod yn gyfryngau gweinyddiad gwybodaeth grefyddol, foesol, a gwladol. WILLIAMS.

Adn. 5. *A'r deallgar a ddaw i gynghorion pwyllog*, neu farn gywir, y fath ag a fedd y mor-lywydd (*pilot*) medrus, yr hwn sydd yn gwybod pa fodd i lywio ei lestr yn brïodol. Yn y geiriau hyn, fel y mae yn amlwg oddiwrth eu hystyr wreiddiol yr oedd Solomon yn golygu oes dyn dan y darluniad o fordaith, a doethineb fel y mor-lywydd, yn goruwch lywyddu ei chyfeiryd. BOOTHROYD.

Adn. 6. *I ddeall diarheb a'i deongl*, yr oedd llawer o astudiaw ar ddïarhebion yn amser Solomon; fel y gallwn ni gasglu oddiwrth y cwestiynau caled a roddai brenines Seba iddo ef—*Geiriau y doethion*, dammegion, neu gywrein-eiriau y doethion, trwy y rhai y profent fedrusrwydd y naill y llall.

Adn. 7. *Ofn yr Arglwydd yw dechreuad gwybodaeth.* Mynych yr arferir y gair yma, *ofn yr Arglwydd*, am dduwioldeb yn gyffredinol; canys y mae gwir ofn Duw yn tueddu dyn i ufuddhau i Dduw, a rhyngu ei fodd ef. BEVERRIDGE.—Hyn yw dechreuad gwybodaeth, canys y mae gwybodaeth gadwedigol yn seiliedig ar barch gostyngedig a duwiolfrydig i Dduw. HAMMOND Mae hyn yn rhoddi y gwr ieuanc ar y ffordd gywir sydd yn arwain i rinwedd a gogoniant. SUTCLIFFE.

Adn. 8. *Fy mab.* Enw cyffredin a roddid ar ddysgyblion;

1 Bren. 20. 35. 2 Bren. 2. 3. a 4. 38. Gelwid prophwyd, neu athraw ysbrydoledig yn dad, a phroffwydes yn fam, Barn. 5. 7. a 17. 10: gwel hefyd Nodau ar 1 Tim. 1. 2. a 1 Ioan 2. 1. DAVIDSON.

Adn. 9. *Canys cynnydd gras*, neu "addurn o ras," *Saes.* Meddylia rhai ei fod yn cyfeirio yn y gair at benwisg *(turban)* pobl y dwyrain, y rhai a wneir o ddefnyddiau tra gwerthfawr i'r pennaethiaid a'u mawrion; ond eraill a farnent mai math o addurn-bleth odidog, a arferir yn aml gan bendefigesau gorwych y dwyrain a olygai: ond pa un bynnag, mae yn eglur mai gwybodaeth iachusol o bethau crefydd, a ddyru yr addurn moesol rhagoraf o bob addurn ar ddyn, Sal. 73. 6. Can. 4. 9. 1 Tim. 2. 9, 10. 1 Pedr 3. 3, 4.—*A chadwyni am dy wddf*, math o fodrwy aur am y gwddf, wedi ei britho â gemmau, wrth yr hon y crogai y wisg weithiau. SUTCLIFFE.

Adn. 10. *Os pechaduriaid a'th ddenant.* Mae y gair pechaduriaid yma yn arwyddocâu y rhai a fynent ymgyfoethogi trwy unrhyw foddion, ac yn eithaf parod i ladratta ac i ladd er mwyn golud. BOOTHROYD. Gellid meddwl fod llawer o wŷr ieuainc yn Israel wedi eu tueddu i ymuno a'r minteioedd yspeilwyr oeddynt yn llechu yn y diffeithwch a'r coedwigoedd, yn byw yn llwyr ar anrhaith a thrais. SUTCLIFFE.

Adn. 12. "Dystrywiwn hwynt fel y bedd, er eu bod yn fywiog; er eu bod yn berffaith, fel rhai yn disgyn i'r pwll." Hyny yw, rhuthrwn arnynt yn ddïarbed fel y bedd; fel na allo bywiogrwydd nerth, na llawnder llwyddiant, eu gwaredu o'n dwylaw. BOOTHROYD.

Adn. 15. *Na rodia yn y ffordd gyda hwynt*, nac ymuna a'u cymdeithas, na ddilyn eu hesampl. DAVIDSON.

Adn. 17. *Gwaith ofer yw taenu rhwyd, &c.* Mae yr aderyn ffolaf yn barod i ffoi pan y gwelo efe y rhwyd. BOOTHROYD. Ac os cymer aderyn rybudd, pa ham na chymerai yr ieuenctyd hyny rybudd? SUTCLIFFE.

Adn. 18. *Ac*, neu "Ond" *y maent hwy yn cynllwyn am eu gwaed eu hun.* Mor bell o fod yn gochel y perygl, y maent yn rhedeg iddo; ac yn chwilio am gyfleusderau i wneuthur drwg, yr hyn sydd yn eu harwain i ddistryw.

Adn. 19. *Sydd chwannog i elw*, neu awyddus am elw anghyfiawn, fel y mae y gair yn dynodi yn aml, 1 Sam. 8. 3. Esa. 33. 15. Ezec. 22. 13, 27. Mae cosbedigaeth oddiwrth Dduw yn sicr o oddiweddyd y cybydd, y cribddeiliwr, y treisgar, a'r annuwiol. —*Yr hwn a ddwg einioes ei berchenogion*, neu fel y gellir darllen y geiriau, "Yr hwn a ddwg einioes y rhai ydynt dan ei awdurdod," fel caethion. Truenus ydyw cyflwr y rhai ydynt yn eu rhoddi eu hunain i fod yn weision i gybydd-dod, neu chwant i ymgyfoethogi trwy lwybr anghyfreithlawn. DAVIDSON.

Adn. 20. *Doethineb sydd yn gweiddi, &c.* Yma cawn Ddoethineb yn cael ei phersonoli; a'i darlunio fel un yn agor athrofa mewn lle cyhoeddus, i'r hon y mae hi yn gwahodd pawb a gyfarfydda. Ond meddylia rhai fod y rhan olaf yma o'r bennod yn broffwydoliaethol am y Messïah, a natur ei weinidogaeth ef. Ond y mae yn fwy cysson â dull iaith y Dïarhebion i olygu *doethineb* yn bersonoliad o wir grefydd, yr hon a welir yn mhawb sydd yn gwneyd derbyniad gwirioneddol o'r datguddiad o ddoethineb Duw yn mhrynedigaeth dyn. Mae yn wir fod crefydd yn hoff o neillduaeth; ac nid oes nemmawr o gyfaddasrwydd rhwng ei hanadliadau nefawl, a'i hymarferion tawel hi, i ymgymmysgu â thrwst y fuchedd bresenol. Ni chlywid byth mo'i llais yn yr hëol o'i rhan ei hunan. Ond, gan gael ei chynhyrfu â zel dros ogoniant Duw, ac â thosturi at ddynion, hi a ymddangosodd yn mhob oes, o flaen pob rhyw ddynion, wedi ymwisgo yn mawrhydi y gwirionedd, a theyrnwïalen y nefoedd yn ei deheulaw. Ei dysgyblion ffyddlawn gan fyned o'i blaen, yn mhob rhyw oes, a gyhoeddasant ddigofaint y nef yn erbyn troseddwyr, a maddeuant a bywyd trwy ffydd yn y Messïah; a dystryw sicr, anocheladwy, a thragywyddol i'r anedifeiriol a'r annghrediniol. Ymddiriedwyd y Datguddiad Dwyfol yn forau i genedloedd yn preswylio mewn gwlad dra adnabyddus i genhedloedd mwyaf yr hen oesoedd; ac mewn oesoedd diweddarach, y mae Awdwr mawr y Datguddiad yma wedi, ac yn gorchymyn i bawb a'i caffont ei hysbysu i bob cenedl dan y nef, er ufudd-dod ffydd. Mae pob hanesyddiaeth yn profi mor dra gwrthwyneb yw hyn oll i ddoethineb y byd hwn, yr hwn a ymdrechai i gadw y lluaws yn ddieithr i'w llesion gorau, neu i'w twyllo trwy ledaeniad cyfeiliornad, neu sefydliad ynfydrwydd ac anwiredd trwy y ddeddf; gwel Esaiah 45. 19. DAVIDSON.

Adn. 23. *Wele mi a dywalltaf fy yspryd i chwi*, neu, "Mi a agoraf fy holl galon i chwi." MICHAELIS. Mae y llinell nesaf yn profi fod y geiryn Hebraeg a gyfieithir yma *yspryd*, yn cael ei ddefnyddio yn y fan hon i ddynodi y meddwl. BOOTHROYD.

Adn. 28. *Yna y galwant arnaf.* Fe'u gwesgir gan drallod i waeddi; ac fe'u gorfodir gan gyfyngder ac ing meddwl, i ystyried eu hynfydrwydd yn esgeuluso doethineb a duwioldeb.—*Ond nid attebaf*, am nad ydynt yn gwaeddi oddiar egwyddor o edifeirwch diffuant, ond oddiar ofn yn unig.

Adn. 32. *Canys esmwythdra*, neu yn ol y *Saes.*, "Enciliad," *y rhai anghall a'u lladd.* Mae yr ymadroddion a ddefnyddir yma, yn dynodi cyflwr o galedwch anedifeiriol. BOOTHROYD.

## PEN. II.

Adn. 1—6. Mae yr adnodau hyn yn cynnwys darluniad grymmus o'r angenrheidrwydd o fod yn ddyfal yn yr arferiad o fodd-

ion i gyrhaedd gwybodaeth a doethineb; ac yn neillduol myfyrio ar air Duw, canys yr Arglwydd sydd yn rhoddi doethineb.—*Os cuddi*, fel y cuddid trysor mewn lle dirgel rhag ei ddwyn gan yr yspeilydd a'r traws; neu fel yr oedd y gyfraith gynt wedi ei chuddio dan y drugareddfa yn yr arch.—*Os cyfodi dy lef am ddeall*, arfer y fath daerni, ac amlygu y fath awydd am ras a doethineb, ag y bydd y plentyn pan yn llefain am y fam a'r fron; na bydd dim arall a'i boddlona.

Adn. 8. *Y mae efe yn cadw llwybrau barn;* neu, gan gydio y llinell hon â'r adnod flaenorol,—"I'r rhai a gadwant lwybrau barn; canys y mae efe yn cadw ffordd ei saint." BOOTHROYD.

Adn. 16. *Y fenyw estronaidd*, un wedi estroneiddio ei serchiadau oddiwrth ei phrïod, neu oddiwrth ei Duw. DURELL. Yr oedd putteindra yn waharddedig, a phuttain i'w chosbi a marwolaeth yn ol y gyfraith a roisai Duw i'w bobl Israel; gan hyny mae yn debyg mai estronesau, neu ryw rai o hil yr hen Ganaanëaid, oeddynt butteiniaid cyhoeddus y tir, y rhai yr oedd perygl hefyd iddynt ddenu pobl yr Arglwydd at eilun-addoliaeth.

Adn. 17. Hwyrach mai y gosodiad dwyfol o brïodas a olygir wrth "gyfammod ei Duw;" ac mai ei phrïod a olygir wrth *lywodraethwr ei hieuenctyd;* ond, os cyfammod Duw ag Israel a olygir yn y geiriau hyn, yna rhaid mai Iuddewes yw y fenyw estronaidd a ddarlunir yma; ac mai yr Arglwydd ei hun a olygir wrth lywodraethwr ei hieuenctyd.

Adn. 18, *Yn gwyro at angau.* Pläau a thrallodau yn y byd hwn, ac angau tragywyddol. HAMMOND,

Adn. 20. *Fel y rhodiech di ar hyd ffordd gwŷr da;* mae cyssylltiad rhwng y geiriau hyn a'r hyn a ddywedir yn adn. 10, 12. Mae y rhai a barchant ddoethineb, yn cael eu cynnal a'u cadw trwy gynghor a synwyr rhag y drygau a grybwyllir, a'u gogwyddo o ran eu meddyliau i rodio yn holl ordinhadau a gorchymynion Duw.

Adn. 22. A'r troseddwyr, neu y rhagrithwyr, y rhai a ymwisgant mewn nodweddiad annghyson a'u natur.

## PEN. III.

Adn. 3. *Na ad i drugaredd a gwirionedd ymadael a thi.* Nac annghofia y *drugaredd* ddatguddiedig yn yr addewidion, a'i *wirionedd* neu ei ffyddlondeb ef i'w cyflawni; gwel Nod. ar pen. 16. 6. Gen. 32. 10. Salm 85. 10, 11. Mica 7. 18—23.—*Cylymma hwy am dy wddf*, fel cadwynau er addurn. GILL. Ond y mae yn ddïau fod yma gyfeiriad at yr arferiad o wisgo gorchymynion yr Arglwydd yn gylymmedig ar eu talcenau, ac wrth eu harddyrnau.—*Ysgrifena hwy ar lech dy galon.* Cyfeiriad at ysgrifeniad y ddeddf ar lechau cerrig. Gwel Deut. 6. 8, 9. Mae Solomon yn ein dysgu yma fod gwir grefydd yn addurno yr ymarweddiad, ac

yn unioni y dyn oddifewn. Dyma yr addurn ardderchocaf a ellir gael ar gorff ac enaid: a'r rhai a wneler yn gyfrannogion o drugaredd a gwirionedd y cyfammod tragywyddol, a addurnir yn odidog â phurdeb ac â gwirionedd.

Adn. 4. *Felly y cei di rás a dëall*, neu a chymeriad *da ger bron Duw a dynion.*

Adn. 8. *Hynny a fydd iechyd i'th fogail*, trwy gamdriniaeth ar y plant dwyreiniol yn eu genedigaeth yn aml, mae y bogail yn fawr ac afiachus; ac y mae math o ddïareb yn arferedig yn y gwledydd hyny eto wrth son am un yn llwyddo yn y byd hwn, a dyfod o dlodi i gyfoeth, i ddywedyd, "Mae ei fogail ef wedi tyfu llawer." Felly y mae y gwr doeth yn sylwi y byddai ofn yr Arglwydd fel meddyginiaeth ac iachäad i'r enaid, yn peri iddo lwyddo a ffynu mewn daioni.—Mae y gair *bogail* yn cael ei ddefnyddio weithiau debygid i ddynodi prif eisteddle nerth, Job 40. 16. Ezec. 16. 4.—Yn lle *bogail*, mae y cyfieithiadau Syriaeg ac Arabaeg yn darllen "cnawd;" ac y mae cnawd ac esgyrn yn cael eu cyferbynu i'w gilydd yn fynych iawn yn yr ysgrythyrau, tra na's gwelwn ni y bogail a'r esgyrn yn cael eu cyferbynu yn un man arall, pen. 4. 22. a 14. 30. Sal. 38. 4. Ond barnai DR. A. CLARKE mai cyfeiriad oedd yma yn hytrach at gyfluniad anianyddol dyn. Trwy gyfrwng llinyn y bogail, trwy yr hwn y cyssylltir y baban a'i fam hyd ei enedigaeth, y mae dyn yn derbyn ei holl feithriniaeth ar y dechreu, heb yr hyn ni's gallai byth weled y goleuni. Felly y mae ymddiried yn yr Arglwydd mor hanfodol i fywyd ysbrydol.—*Mêr i'th esgyrn*, neu yn hytrach ennaint i'r esgyrn, gan mai cyfeiriad at gymhwysiad moddion meddygol yn allanol yn unig sydd yn y geiriau. DAVIDSON.—Mae esgyrn, heb fêr ynddynt yn sicr o ddarfod, felly y derfydd am bob enaid a wrthodo yr Arglwydd. A. CLARKE.

Adn. 9. *A'r peth pennaf*, neu yn ol y *Saesoneg*, "y blaenffrwyth" *o'th holl ffrwyth:* cyfeiriad at gynhaliad yr offeiriaid a'r Lefiaid dan y gyfraith. GILL.

Adn. 10. *A'th win wryfoedd a dorant gan win newydd*, neu a orlifeiriant gan helaethrwydd y gwin newydd. Dyma annogaeth rymmus i fod yn haelionus at waith yr Arglwydd a chynhaliaeth y gwir dlodion, bod holl lwyddiant ein llafur tymhorol a chynnyrch ein maesydd yn ymddibynu ar fendith yr Arglwydd yr hwn sydd wedi addaw gwobrwyo y cyfryw haelioni yn y modd yma, Exod. 23. 19. Deut. 26 2. Hag. 1. 7—11. Mal. 3. 10—12.

Adn. 11, 12. Gwel Esponiad anffaeledig ar y geiriau hyn yn Heb. 12. 5—11.

Adn. 13. *A'r dyn a ddygo*, neu "a dyno" *ddeall allan*, fel y tynir y trysorau gwerthfawr o'r ddaear trwy gloddio a chwilio am danynt: neu fel y tynir dwfr o'r ffynnon. MONTANUS, GILL.

Adn. 15. *Gwerthfawrocach yw hi na gemmau*, perlau neu feini

gwerthfawr, y rhai a brisid yn fawr gan yr Iuddewon, y Rhufeiniaid, y Mediaid, y Persiaid, a'r Indiaid. BOCHART, MONTANUS.

Adn. 16. Mae doethineb yn ymddangos fel brenines, a chanddi yn un llaw yn lle teyrnwïalen, hir ddyddiau; ac yn y llall, gyfoeth ac anrhydedd. DAVIDSON. Nid cyfoeth tymhorol, canys y mae y doeth yn aml heb feddu y rheiny: ond cyfoeth ysbrydol, golud gras. GILL.

Adn 18. *Pren bywyd yw hi i'r neb a ymaflo ynddi.* Cyfeiriai y gwr doeth yma at Gen. 2. 9. a 3. 22; a'r ystyr yw, fod y ddoethineb Ddwyfol ysbrydol yma, yn wystl a moddion bywyd a dedwyddwch tragywyddol. BOOTHROYD.—*Gwyn ei fyd a ddalio ei afael ynddi hi,* yr hyn a ddynoda yr angenrheidrwydd i fod yn ddyfal a dïanwadal yn ein hymwneuthuriad â phethau crefyddol. MICHAELIS.

Adn. 32. *Ond gyda'r rhai uniawn y mae ei gyfrinach ef,* yr hyn a ddynoda fod cyfeillgarwch agos yn hanfodi rhyngddynt, gwel Salm 55. 14. Ioan 19. 19. a 28. 4. cymh. Sal. 94. 20. a 138. 6. Hab. 1. 13. Salm 25. 14. Amos 3. 7.

Adn. 35. *A gwarth fydd dyrchafiad ffyliaid,* neu yn ol BOOTHROYD, "Ond gwaradwydd a ddyrchafa ffyliaid i sylw;" hyny ydyw, eu henwogrwydd a fydd yn anenwog, a'u coffadwriaeth yn annymunol; canys enw y drygionus a bydra. Pa beth a ddyrchafodd annuwiolion, pa un bynnag a'i athronyddion, tywysogion, neu ryfelwyr; ïe, y rhai mwyaf enwog yn mhob rhyw oes? Onid gweithredoedd sydd yn warth i'w coffadwriaeth.

## PEN. IV.

Adn. 4. *Efe a'm dysgai.* Mae yr addysg a roddai Dafydd i Solomon yn cyrhaedd oddiyma hyd ddiwedd y nawfed adnod, ac yn y ddegfed y mae Solomon yn dechreu llefaru drachefn.

Adn. 16, 17. Dyma iaith yn cael ei harfer er dangos yr hyfrydwch dirfawr y mae y drygionus yn ei gael mewn pechu yn erbyn Duw. Pan y'u gwrthwynebir yn eu hamcanion, maent yn teimlo y siomedigaeth i'w gobeithion am fwynäad o'u pleserau pechadurus mor llym, fel y mae eu cwsg yn cilio oddiwrthynt. *Bara* a arferir yma i gynddrychio angenrheidiau bywyd, a *gwin*, bob rhyw bethau danteithiol; y naill a'r llall, a gais y drygionus yn aml, trwy annghyfiawnder, twyll, a gormes.

Adn. 18. *Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni,* yr hwn sydd yn cynnyddu mewn cryfder a dysglaerder hyd ganol dydd; felly y bydd gyd a'r dyn duwiol, o'r fynyd gyntaf yr argyhoedder ef yn rasol gan Ysbryd Duw, cynnydda yn barhaus mewn adnabyddiaeth o bethau ysbrydol, a phurdeb sanctaidd, hyd oni ddechreua ar ganol dydd perffeithrwydd yn y nef. Mae cynnydd y saint mewn gras mor anwrthwynebol ag yw cynnydd y goleuni, o wawr wan y boreu hyd gryfder canol dydd.

Adn. 23. *Canys allan o honi y mae bywyd yn dyfod.* Gellir meddwl fod ystyr ddyblyg i'r geiriau hyn, y naill yn ddarluniadol o'r llall. Y galon naturiol yw y ffynnon o'r hon y mae y gwaed yn ffrydio drwy bob rhan o'r corff; a gelwir y gwaed yn fywyd y corff, Gen. 9. 4—6. Ond yn allegawl, wrth y galon y golygir y meddwl a'i dueddiadau, ei serchiadau, ei nwydau, a'i ddymuniadau, dyma ffynnon y bywyd moesol; ac os bydd y galon yn llygredig, felly y bydd yr ymarweddiad. Gan hyny mae yn gweddu i ni warchod arnom ein hunain âg eiddigedd sanctaidd, a chadw gwyliadwriaeth fanol ar holl byrth yr enaid, fel y cadwom ein calonau rhag gwneuthur na chael niweid.—*Y mae bywyd* yn dyfod allan o galon a fyddo yn cael ei chadw yn dda, mewn ffrwythau sanctaidd er gogoniant Duw a lles dynion. Hwyrach fod y gwr doeth yn y geirian hyn yn cyfeirio at yr arferiad o *gadw* neu warchod ffynnonau yn y gwledydd hyny, lle yr oedd dwfr da yn brin, ac yn fwy gwerthfawr nac y gallwn ni ddychymmygu yn y gwledydd hyn, Gwel Gen. 26. 18—22.

Adn. 24—27. Mae HOLDEN yn cyfieithu y geiriau fel hyn, "Bwrw oddi wrthyt enau llygredig. Edryched dy lygaid ar yr hyn sydd uniawn; a chyfarwydded dy amrantau di yn y ffordd o'th flaen di. Ystyria yn ddyfal lwybrau dy draed, a'th holl ffyrdd a sefydlir." Ac y mae cyficithiad y LXX, y Syriaeg, a'r Targum, yn tueddu i gefnogi ei olygiad ef.

## PEN. V.

Adn. 3, 4. Er fod ei geiriau yn llawn o hudoliaethau melus i'r galon lygredig, y canlyniad o ymollwng gyda hwy a fydd chwerwder a gofyd calon.

Adn. 5 *Ei thraed hi a ddisgynant*, neu, a ruthrant *i angau* tragywyddol ac amserol, yn eithaf caled, anystyriol, a dïarswyd o'r dystryw y mae hi yn ei dynu arni ei hun ac eraill.—*A sang uffern*, neu "y bedd," hwyrach ei fod yn golygu arferiad puteiniaid o fynychu y claddfeydd, a chyflawni eu ffieidd-dra yn mysg y beddau. GILL.

Adn. 6. Mae cyfieithiad DR. BOOTHROYD o'r adnod yma yn gwahaniaethu cryn lawer oddiwrth ein cyfieithiad arferedig ni. Fel hyn y mae efe yn darllen;—

"Nid yw hi yn gofalu am ffyrdd ei bywyd;
Cyfnewidiol yw ei llwybrau, ac ni's gellir eu hadnabod."

Yr ystyr debygid yw, bod y fenyw ddieithr yn hollol ddïofal pa fodd yr ymddygo, am y caffo hi fwynhau ei dymuniadau aflan, ac yn arfer y fath amrywiaeth o foddion i hudaw a thwyllo dynion ieuainc, fel y mae yr anmhrofiadol yn y perygl mwyaf o fyned yn agos ati, na chellwair mewn un modd â hi.

Adn. 9. *Rhag i ti roddi dy harddwch*, neu, "dy ogoniant," *i*

*eraill;* rhag treulio o honot dy gyfoeth i'w cynnal, a cholli dy gymeriad a'th enw da wrth ymgyfeillachu â'r fath rai.—*I'r creulawn,* hyny yw, y buttain a'i chymdeithion, y rhai, er mor dêg yw eu gwenau, ydynt yn llwyr amddifaid o bob teimladau o dynerwch, ac yn ymhyfrydu mewn dystrywio dynion yn unig. DAVIDSON.

Adn. 14. *Bum o fewn ychydig at bob drwg,* neu yn ol DATHE, ac eraill, "Yr oeddwn ar syrthio i'r trychineb mwyaf;" hyny yw, buasai agos i'w ymddygiad ei arwain i gael ei ddal, ei brofi, a'i gollfarnu yn nghanol y gynnulleidfa. BOOTHROYD.—Ond y mae eraill yn barnu mai y golygiad yw, fod ei bechodau ef yn cael eu mwyhau yn ddirfawr trwy gael eu cyflawni yn *nghanol cynnulleidfa Israel,* y rhai a addolent y gwir Dduw. Arswydus yw llygredd, ac ofnadwy yw euogrwydd y rhai hyny a ymollyngant i gyflawni pechodau ysgeler ar draws addysg grefyddol, a barn gwlad; y rhai nid ofnant Dduw ac ni pharchant ddyn. DAVIDSON.

Adn. 15—19. Mae y geiriau hyn yn cynnwys darluniad allegawl godidog o'r cyflwr prïodasol, ac fe gryf heir cymhwysder y gyffelybiaeth trwy y dybiaeth (yr hon sydd dra hygoel oddiwrth 2 Bren. 18. 39.) o fod ffynnon neu bydew yn perthyn i bob tŷ yn gyffredin yn y gwledydd hyny. Mae *ffynnon,* yr hon sydd mor werthfawr yn y Dwyrain, yn cael ei defnyddio yn fynych yn ddarluniad o wraig; gwel pen. 9. 17. Can. 4. 12. Num. 24. 7. Esa. 41. 1.—*Ffynnonau* a *ffrydiau* a ddynodant hiliogaeth luosawg.—*Iyrches hawddgar,* math o grëadur cyflym a hardd iawn, a elwir gan yr Arabiaid *Gazelle,* ac y maent hwy yn arfer y crëadur yma hyd heddyw fel darlun farddonawl o fywiogrwydd a thegwch. Mae yn wir fod y crëadur yma yn hardd iawn, a bod llawer o ryw fath o ofn diniwed yn perthyn iddo, yr hwn a all fod yn ddarluniad tra chymhwys o wylder benyw ieuanc.

## PEN. VI.

Adn. 1. Mae yr arfer o fechnïo yn hen iawn yn y byd; gwel Gen. 43. 9. Phil. 18. 12. Yr oedd peidio mechnïo dros gymmydog, neu gyfaill, yn wrthwyneb i ysbryd deddf Moses ac ysgrifeniadau Solomon, Lef. 19. 18. pen. 14. 21; a 17. 17. Ond yr ydys wedi cael digon o addysg trwy brofiad lawer gwaith bellach, fod doethineb a gwyliadwriaeth yn angenrheidiol i ystyried pethau yn bwyllog cyn myned yn feichiau, hyd yn nod dros gyfaill, llawer mwy dros un na byddys prin yn ei adnabod; a hyny yw y peth a ddysgir gan Solomon yma. Mae yn ymddangos hefyd fod taro llaw mewn llaw, yn hen ddefod arferedig yn mhob oes a gwlad, er arwyddocâu gwneuthuriad cyfammod. DAVIDSON, HEWLETT.

Adn. 3. *Gan i ti syrthio i law dy gymmydog, &c.* Neu, "Gan dy fod yn llaw dy gyfaill, dos, brysia, ac annog dy gyfaill rhag-

ddo," hyny yw, cymhell ef i gyflawni ei ymrwymiad mor fuan ag y gallo. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Gwared dy hun fel yr iwrch o law yr heliwr.* Mae y gair a gyfieithir *iwrch* yma yn wahanol i'r un yn pen. 5. 19; a meddylia amryw mai yr *Antelope* a olygir.

Adn. 6. *Cerdda at y morgrugyn, &c.* Mae myfyrdod ar ffyrdd y morgrugyn, i'r hyn y'n hannogir yn y geiriau hyn gan y doethaf o ddynion, wedi ei phrofi yn fuddiol a thra addysgiadol lawer gwaith, am eu bod yn foddion cymhwys i amlygu doethineb Duw yn rhai o'i grëaduriaid dystadlaf, ac i weini i ni rai o'r gwersi mwyaf dyddorawl, y rhai ni ddylai dystadledd yr awdwr ein lluddias i'w derbyn a'u gwerthfawrogi. Mae ymchwilion diweddar REAUMUR, HUBER, KIRBY, SPENCE, a Naturiaethwyr eraill, i ansoddion ac ymarferion y crëaduriaid bychain hyn, yn ein galluogi ni i ganfod grym a chymhwysder y cyfeiriad yma yn well na'r hen Esponwyr, pa un bynnag a wnelom ai meddwl am eu diwydrwydd, eu medrusrwydd, neu ynte eu trefnusrwydd cymdeithasol. Mae y medr, y diwydrwydd, a'r llafur a ddangosir yn ngwneuthuriad preswylfeydd y gwahanol forgrug, a'u hystyried yn gyferbyniol i faint yr adeiladyddion, yn tra rhagori ar lawer o gynnyrchion mwyaf medr a llafur dynol, trwy yr hyn y cyffrôwyd syndod y byd.

Gwneir eu nythod i fynu weithiau trwy luaws o ystafelloedd, mewn ugain uchder uwchlaw y ddaiar, a thu a'r un nifer islaw y ddaiar; a thrwy y trefniad yma y'u galluogir i gymedroli gwres eu hystafelloedd yn rhwydd, drwy gilio i'r ystafelloedd isaf pan fyddo y rhai uchaf yn rhŷ frwd; ac esgyn i fynu pan fyddo y rhai isaf yn rhŷ oerion. Rhywogaeth eraill a naddant eu hystafelloedd, eu mynedfäau, eu llofftydd, a'u colofnau yn ngwraidd neu gyrff prenau tyfadwy, gyda llafur dirfawr, a medr tra hynod; a rhywogaethau eraill a wnant eu nythod yn mysg, neu ar frigau y coed, yn amrywio llawer mewn dull a maint, ond oll yn brofion o fedr a diwydrwydd, yn nghyd a grym rhyfeddol cydweithrediad, hyd yn nod rhwng crëaduriaid mor fychain fel y gellid llethu myrddiynau o honynt dan droed dyn yn ddi sylw Ond pan feddyliom am adeiladau y morgrug gwynion yn yr hinsoddau poethion; mae yr hyn oll a grybwyllasom yn diflannu yn ddiddym mewn cydmariaeth. Gellid meddwl fod eu diwydrwydd yn rhagori llawer ar wenyn a morgrug ein gwlad ni; ond y mae yn ddiau eu bod yn tra rhagori mewn cywreinrwydd adeilyddol. Mae uchder eu hadeiladau hwy yn fwy na phum canwaith uchder yr adeilyddion. Ped adeiledid ein tai ni yn ol yr unrhyw gymmesuriaeth, byddent yn ddeuddeg neu bymtheg gwaith uchder Tŵr Llundain, a phedwar neu bûm waith uchder y Pyramidiau Aiphtaidd, a chymmesuriaeth gyfattebol yn ngosail yr adeiladau. Nythod y morgrug gwynion ydynt yn ddeuddeg troedfedd o uchder yn aml; a chrybwyllir

am rai a welwyd cyfuwch ag ugain troedfedd, ac yn ddigon ehang i gynnwys deuddeg o ddynion o'u mewn. Heb i ni ymhelaethu yn fanol ar y testyn dyddorawl yma, gan na's goddef ein terfynau cyfyng hyny i ni; nyni a welwn fod llawer iawn o ddefnydd addysg, a thestun syndod, yn nodweddiad y crëaduriaid bychain hynod hyn. Eu diwydrwydd diflino, ymdrechion egnïol a diffuant pob un tuag at yr amcan cyffredin, eu rheoleidd-dra yn eu llafur, eu parodrwydd a'u zel i gynnorthwyo y sawl a fyddo wedi ei orlwytho; eu sylw gofalus ar amserau a thymhorau, y farn dda, â pha un y defnyddiant amgylchiadau cyflëus; a'r prawf amlwg a gair yn y crëaduriaid bychain hyn o'r effeithiau a ellir ei gynnyrchu trwy gydweithrediad lluaws mewn gorchwyl da a defnyddiol; y pethau hyn oll ydynt yn dangos grym a chyfaddasrwydd yn nghynghor y gwr doeth, *Cerdda at y morgrugyn, tydi ddïogyn; edrych ar ei ffyrdd ef a bydd ddoeth.*

Adn. 12. *Dyn i'r fall,* dyn dïog, ynfyd, drygionus, nad yw yn gofalu am fod ei dafod a'i ymarweddiad dan lywodraeth yr Arglwydd. HAMMOND.

Adn. 13. Y cyfryw un a arfera holl aelodau ei gorff, cystal a galluoedd ei feddwl, i ddenu a dinystrio dynion.

Adn. 16. *I chwe pheth hyn, &c.* Dull dïarhebol o lefaru: gwel pen. 30. 15, 11, 29. Job 5. 19. Amos 1. 3. BOOTHROYD.—*Ie y saith beth,* dull Hebreaidd o lefaru, yn yr hwn, trwy nodi y seithfed, y rhoddir mwy o fawredd ar y cwbl; benthyciwyd y dull yma o lefaru oddiwrth ddyddiau yr wythnos. SUTCLIFFE.

Adn. 22. *Hi a gyd ymddiddan â thi.* Dyma ddarluniad rhagorol o'r addysg y soniwyd am dani yn adn. 20, fel cydymaith a chynghorydd gwastadol y sawl a'i meddo. BOOTHROYD.

Adn. 25. *Ac na âd iddi dy ddal â'i hamrantau.* Mae yn dra thebyg fod yma gyfeiriad at y gofal â'r hwn yr arfera benywod yn y gwledydd Dwyreiniol liwio eu hamrantau, er mwyn caethiwo serchiadau y dynion trwy eu tegwch.

Adn. 26. *Oblegid y fenyw buteinig y daw dyn i dammaid o fara,* hyny ydyw, i dlodi dirfawr, fel y dygpwyd llawer hefyd trwy ddilyn y pechod yma. SCOTT.—Neu, "Canys nid yw pris puttain namyn tammaid o fara." BOOTHROYD. Mor lluosawg oeddynt yn y tir, fel y llogent eu hunain am ryw fath o gynhaliaeth. A. CLARKE.—*A gwraig gwr arall a hela yr enaid gwerthfawr,* neu y bywyd gwerthfawr. Yr oedd y buttain yn dilyn ei ffyrdd aflan er mwyn ei chynhaliaeth, a dyn yn gorfod talu iddi hi am ei gamwedd; ond yr odineb-wraig heb gymmaint o wobrwy a thammaid o fara, a gyffry eiddigedd ei gwr, gan beryglu ei bywyd ei hun a'r eiddo ei chydymaith mewn pechod. DAVIDSON. Gwel Ezec. 13. 18.

Adn 29. Cymh. Gen. 6. 4; a 19. 31; a 20. 6; a 38. 9. 1 Cor. 7. 1.

Adn. 30. *Ni ddirmyga neb leidr a ladrattao i ddiwallu ei enaid pan fyddo arno newyn;* neu, "Nid edrychir dros leidr a ladrattäo, &c." Er yr ystyrir ei angen dirfawr yn rhyw fath o esgus dros ei drosedd ef, eto os delir, efe a orfydd dalu yn saith ddyblyg. Gan hyny mor ynfyd ydyw fod yn ei roi ei hun yn agored i'r fath berygl! A pha faint mwy ynfyd y godinebwr! Canys y mae efe yn ei roddi ei hun yn agored i waradwydd mwy dïesgus, ac yn ymarfer â phechod sydd yn ei arwain i ddinystr ei ddedwyddwch amserol, ac i ddystryw tragywyddol.

## PEN. VII.

Adn. 4. *A galw ddeall yn gares.* Ymadroddion yn dynodi y cariad cryfaf, a'r cyfeillgarwch mwyaf; cymh pen. 6. 20—23. Job 17. 14.

Adn. 9. "Yn y cyfnos, yn yr hwyr, neu pan fyddo yn nos dywell a du." DR. BOOTHROYD. Gwahanol amserau ar y nos. SCHULTENS.

Adn. 10. *A chanddi ymddygiad puttain,* neu drwsiad puttain. Yr oedd putteiniaid yn adnabyddus wrth eu gwisgoedd yn y Dwyrain: a gorfyddent wrth gyfreithiau Athen a Rhufain, i wisgo rhyw fath neillduol o wisgoedd. DAVIDSON. Mewn rhai o'r gwledydd Dwyreiniol mae y cyfryw fenywod yn arfer gwisgo yn wych, mewn gwisgoedd ysgarlad, ac addurniadau lluosawg oddi amgylch i'r pen a'r gwddf; a lliwio eu hwynebau, yn enwedig eu hamrantau. Gwel 2 Bren. 9. 30. ROBERTS.

Adn. 14, 15. *Yr oedd arnaf fi aberthau hedd, &c.* Dychwelid y rhan fwyaf o'r aberthau hedd i'r offrymydd i wledda arno gyd a'i gyfeillion; a gwleddent arnynt yn llawen ar ddiwrnod talu yr addunedau, gan nad oedd dim o honaw i'w adael hyd y borau, os aberth dïolch a fyddai, Lef. 7. 15. Mae hi yn dweyd hyn wrtho i'w berswadio fod ganddi hi helaethrwydd o'r arlwyon brasaf i'w groesawi yn ei thŷ.

Adn. 22. *Neu fel yr ynfyd yn myned i'r cyffion i'w gosbi.*—Neu, "Ië fel yr ynfyd y rheda rhagddo i gosbedigaeth." DR. HODGSON.

Adn. 26. *Canys llawer a gwympodd hi yn archolledig,* megis Solomon, Samson, &c. PATRICK.

Adn. 27. *Yn disgyn i ystafelloedd angau,* cyfeiriad at y grisiau oedd yn disgyn i feddrodau yr Iuddewon, y rhai a wneid mewn ogofeydd neu ddaiar-gelloedd mawrion. PARKHURST.

## PEN. VIII.

Adn. 1. *Onid yw doethineb yn gweiddi?* Mae doethineb yma yn cael ei phersonoli, fel rhyw un ragorol iawn yn mhob peth dymunol, yn dyrchafu ei llef i rybuddio y gwr ieuanc i ochelyd y maglau a'r peryglon oeddynt mor agos iddo, ac i adael ffyrdd drygionus. M. GOOD. Mae llawer wedi bod yn dadleu, pa un a

olygid yma, ai y brïodoledd o ddoethineb, ai ynte ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a elwir yn ddoethineb Duw, Luc 11. 49. Trwy yr hwn y crewyd pob peth. Ioan 1. 1—7. A'r hwn hefyd a hysbysodd feddwl Duw i'r proffwydi o'r dechreuad, 1 Pedr 1. 11; a 3. 18, ac am hyny efallai fod yr Ysbryd yn amcann rhoddi y fath ddarluniad yma, ag a weddai yn dda i'r brïodoledd naturiol o ddoethineb Ddwyfol; ac i'r Cyfryngwr bendigedig, yn yr hwn y'i hamlygid mor ragorol. BOOTHROYD.—Os wrth ddoethineb y golygwn ni Grist, neu bregethiad yr efengyl ganddo ef ei hun yn bersonol yn gyntaf, a chan ei apostolion, ei efengylwyr, a'i weinidogion wedi hyny; neu os dëonglwn ni y geiriau hyn yn ddarluniadol o honaw ef a'i athrawiaeth yn y cyhoeddiad o honi, fel y crybwyllwyd, mae yr apeliad hwn at ddynolryw yn ymddangos yn llawer mwy dwysedig nac ar yr un golygiad arall. SCOTT. Cyffelyb hefyd yw golygiad HENRY, GILL, a SUTCLIFFE.

Adn. 2, 3. Darlunir doethineb yn sefyll yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus, a'r fantais orau i'r nifer luosocaf gael clywed ei chennadwri.

Adn. 15. *Trwof fi y teyrnasa breninoedd*, yn ddoeth a chyfiawn. Pan fyddont yn ymgynghori â gair yr Arglwydd y sicrheir eu hawdurdod.

Adn. 22. *Yr Arglwydd a'm meddiannodd i yn nechreuad ei ffordd.* Mae y darluniad yma yn dra chymhwysiadol at ein Harglwydd a'n Hiachawdwr, trwy yr hwn y gwnaethpwyd pob peth, cystal ag at y brïodoledd o ddoethineb sydd yn hanfodol i'r natur Ddwyfol. BOOTHROYD.

Adn. 31. *A'm hyfrydwch oedd gyda meibion dynion.* Yr oedd Doethineb yn ymhyfrydu ac yn ymfoddhau yn ei gwaith ei hunan, yn ffurfiad hardd pob peth; ond yn enwedig yn meibion dynion. Felly yr oedd ein Harglwydd a'i hyfrydwch gyda meibion dynion, fel rhai yr oedd efe wedi eu caru yn rhad, ac ymrwymo i'w prynu, ac i'w hadferyd i sancteiddrwydd a dedwyddwch.

Adn. 34. *Gwyn ei fyd y dyn—a wylio yn ddyfal beunydd wrth fy nrysau;*—Efallai fod yma gyfeiriad at yr arferiad o fod rhai yn gwylio wrth ddrysau palasau breninoedd yn eu swydd, neu ynte fel arwydd o barch i'r Pennadur, neu ddysgwyliad am ffafr oddiwrtho ef.—Felly y mae gwynfydedigrwydd yn gyssylltiedig âg ymarferiad diffuant o'r moddion a drefnodd Duw er dysgu a meithrin egwyddorion crefyddol.

## PEN. IX.

Adn. 1. *Doethineb a adeiladodd ei thŷ, &c.* Yma darlunir Doethineb dan gyffelybiaeth arall, fel tywysoges, neu frenines ardderchog, wedi adeiladu palas teg iddi ei hun, ac arlwy gwledd odidog, i'r hon y gwahoddai bawb, yn enwedig y tlodion, Matt. 27. 2. Luc 14. 16. PATRICK, BOOTHROYD. Efallai fod Solomon

yma yn golygu y deml odidog a adeiladasai efe, i'r hon y gwahoddid dynion i ymgynnull, i addoli Duw, yn lle mynychu ffyrdd drygioni ac oferedd; ond yr oedd hyn hefyd yn gysgodol o Grist a'i Efengyl.—SCOTT.

Adn. 2. *Hi a laddodd ei hanifeiliaid*, hi a wnaeth arlwy helaeth i bob rhyw eneidiau newynog a sychedig. PATRICK.

Adn. 3. *Hi a yrrodd ei llawforwynion*, gweinidogion y gair, swydd y rhai yw gwahodd pechaduriaid i wledd yr iachawdwriaeth, a ddarparwyd gan ddoethineb a chariad. BOOTHROYD. Dywaid HASSELQUIST iddo ef weled deg neu ddeuddeg o ferched yn myned oddiamgylch yn Alexandria, i wahodd pobl i wledd fawr, gan wneuthur rhyw leisiau anarferol. PARKHURST.—Ar uchel fannau y ddinas yr arferai ysgolion y proffwydi fod; 1 Sam. 10. 5, 10. ac efallai fod y gair *mannau uchel y ddinas*, yn cyfeirio at hyny, gan mai gwahoddiad ar rai i dderbyn addysg sydd yn y geiriau. PATRICK. Neu, at bennau tai, oddiar y rhai y cyhoeddid unrhyw beth pwysig yn aml, CALMET. Gwel Matt. 10. 27.

Adn. 8. *Na cherydda watwarwr*, gocheliad yw y geriau rhag ceryddu pawb yn mhob amgylchiad yn ddiwahaniaeth, heb weithredu mewn barn; canys y mae yn ddyledus ceryddu hyd yn nod gwatwarwr weithiau; cymh. pen. 26. 4, 5. a 23. 9. Matt. 7. 6.

Adn. 10. *A gwybodaeth y sanctaidd yw dëall;* neu, "a gwybodaeth o bethau sanctaidd yw deall;" hyny yw, gwybodaeth gywir am bob peth a berthynant i wasanaeth Duw. BOOTHROYD. Neu, "gwybodaeth y Rhai Sanctaidd," sef y Drindod fendigedig. HOLDEN, DR. PYE SMITH.

Adn. 12. *Doeth fyddi i ti dy hun;*—Tydi a dderbyni y budd o hyny; ond ni wnei ddim llesäad i mi;—felly, os gwatweri, ni's gwnei un niweid i mi;—*Tydi dy hun a'i dygi*, sef a ddyoddefi gospedigaeth am hyny. Cymh. Job. 35. 5—8. BOOTHROYD.

Adn. 13. *Gwraig ffol a fydd'siaradus.* Megis y darluniwyd doethineb fel brenines, yn gwahodd rhai i'w gwledd, felly y mae ffolineb yn cael ei darlunio drwy fenyw ffol; yn gwahodd, hithau, gan arfer y cyffelyb ymadroddion ag a arferai doethineb. Gall fod y wraig ffol yma yn ddarluniad o bleserau bydol, ac ymarferion eilun addolgar, yn denu eneidiau oddiwrth y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu. SCOTT.

Adn. 16—18. Mae ffolineb yn mabwysiadu iaith doethineb, ac yn addaw pleserau i'w charedigion; ond y mae hi yn cuddio terfyniad sicr y pleser hwnw mewn trueni.—*Dyfroedd lladrad sydd felus, a bara cudd sydd beraidd*, ni fedd ffolineb i'w gynnyg i'w phleidwyr ond y pleserau gwaharddedig, y rhai a gaent mewn modd lladradaidd, a'r rhai mewn gwirionedd nid oeddynt yn bleser, eithr yn hytrach trueni: a'r rhai a'i mwynhant ydynt feirw tra y maent yn fyw; gan mai dinystr trwyadl corff ac enaid fydd y canlyniad o ufuddhau i alwad ffolineb.

## PEN. X.

Adn. 5. Mae *haf* a *chynhauaf* yn cael eu defnyddio yma i ddynodi tymhorau manteisiol i ieuenctyd a chanol oed i lafurio am eu bywiolaeth, a chyflawni gweithredoedd buddiol; cymh. Jer. 8. 20.

Adn. 6. *Ond trawsedd a gau ar enau y drygionus.* Cyfeiriad efallai at y dull o orchuddio wynebau y rhai a euog-farnid, gwel Esther 7. 8. a Job 9. 24. A'r ystyr yw, y telid iddynt am eu trais, ac y byddent fel drwg weithredwyr collfarnedig, a'u hwynebau wedi eu gorchuddio. BOOTHROYD, HEWLETT.

Adn. 12. *Ond cariad a guddia bob camwedd;*—" A edrych dros bob camwedd." MICHAELIS.—" A esgusoda bob camwedd yn ewyllysgar." DATHE. Arwyddocäad mwyaf naturiol y gair yw, " a faddeu bob camwedd." BOOTHROYD.

Adn. 14. *Y doethion a ystoriant*, neu " a drysorant" *wybodaeth*, fel y byddo at alwad wrth angen, ac y maent yn ei defnyddio er eu lles eu hunain cystal ag adeiladaeth eraill.

Adn. 16. Gwaith y cyfiawn a dŷn at fywyd, hyny yw, at gynhaliaeth bywyd ; ac y mae efe yn derbyn ac yn mwynhau yr hyn sydd angenrheidiol er cynnal bywyd.—*Ond ffrwyth*, neu gynnydd *y drygionus tuag at bechod*, gan ei fod trwy ychwanegu iddo y moddion i foddio ei ddymuniadau pechadurus, yn achlysur i chwanegu ei bechod.

Adn. 19. Mae amlder geiriau yma fel mewn rhai mannau eraill, yn arwyddocâu geiriau gwammal, gweigion, a ffol.

Adn. 21. *Gwefusau y cyfiawn a borthant lawer*, hyny ydyw, a gyfranant addysg, canys darlunir addysg neu wybodaeth yn aml drwy y gydmariaeth o ymborth, Jer. 3. 15. Act. 20. 28.

Adn. 25. *Fel y mae y corwynt yn myned heibio, felly ni bydd y drygionus mwy ;* a'i drwst yn fawr dros dymhor, ond yn diflannu yn fuan pan ddel ystorm digofaint i guro arno.

Add. 26. Megis y mae finegr yn annymunol ac yn niweidiol i'r dannedd, a mwg yn boenus a niweidiol i'r llygaid, felly y mae cennad ddïog yn boen a cholled i'r sawl a'i hanfono ar unrhyw gennadwri.

Adn. 32. *Gwefusau y cyfiawn a wyddant beth sydd gymmeradwy ;* mae y gair a gyfieithir yma gwybod, yn aml yn dynodi sylw ar, parch i, a chymeradwyaeth o beth ; pen. 5. 6. cymh. 15 26. a a 16. 13. Salm 119. 15. Col. 4. 6.

## PEN. XI.

Adn. 1. *Clorianau anghywir.* Mae yr arferiad o bwysau a mesurau twyllodrus mewn masnach, yn dra annghymeradwy gan Dduw.

Adn. 6. *Ond troseddwyr a ddelir yn eu drygioni*, fel y delir y bwystfil ysglyfaethus yn magl yr heliwr ; gwel pen. 5. 22.

Adn. 8. *A'r drygionus a ddaw yn ei le ef.* Gwaredir y cyfiawn oddiwrth gyhuddiadau di sail; a'u gau gyhuddwyr a ddïoddefant y gospedigaeth a fwriadent ei dwyn arnynt hwy.

Adn. 12. A ddïystyra ei gymmydog, heb barchu ei gynghorion, na derbyn ei addysgiadau, ond rhuthro yn rhyfygus ar unrhyw antur; tra y mae y gwr doeth yn ymroddi i wrando ar gynghor yn ddystaw, a'i ddilyn pan fyddo yn dda.

Adn. 14. *Ond lle y byddo llawer o gynghorwyr y bydd dïogelwch.* Mae dïogelwch yn ymddibynnu ar ddoethineb cystal a nifer cynghorwyr, 1 Bren. 12. 1—20. Ond y mae y cyfieithiadau Syrïaeg, Arabaeg, a'r Groegaidd gan y LXX, yn lle *llawer o gynghorwyr*, yn darllen, "llawer o gynghorion.

Adn. 18. *Y drygionus a wna waith twyllodrus*, neu, "A lafuria am wobrwy twyllodrus," pen. 10. 2. Jer. 17. 11. Math. 13. 22: cymh. Luc 16. 9. DAVIDSON. Felly y mae y drygionus wrth geisio twyllo eraill, yn eu twyllo eu hunain yn sicr. SCOTT.

Adn. 20. *Ffiaidd gan yr Arglwydd y neb sydd gyndyn eu calonau*; mae y geiryn gwreiddiol yn arwyddocâu calon anwadal, ragrithiol; yn cymeryd arni wneyd cyfiawnder, ond yn amcanu gwneyd cam. HENRY.

Adn. 21. *Er maint fydd cymmhorth, y drygionus ni bydd dïeuog;* "Er cydio llaw a llaw," yn ol y cyfieithiad Seis'nig; hyny ydyw; er ymgyngrheirio o honynt i gymmhorth y naill y llall; fe'u goddiweddir gan ddydd dïal. BOOTHROYD.

Adn. 22. *Fel modrwy aur yn nhrwyn hwch, &c.* Mae y merched dwyreiniol yn arfer gwisgo trwyn-addurnau aur, y rhai ydynt weithiau yn rhai tra heirdd a gwerthfawr; ond fel y byddai yr addurn hwnw yn nhrwyn hwch, felly y mae harddwch mewn benyw heb synwyr: y mae yn resyn gweled y fath harddwch yn cael ei ddifwyno trwy ei hymddygiadau ansynhwyrol hi.

Adn. 23. *Sydd ddigter*, neu sydd yn myned heibio, yn diflannu fel mwg. BOOTHROYD. Felly hefyd y LXX. a'r Arabaeg.

Adn. 24. *Rhyw un a wasgar ei dda*, trwy gyfranu i'r tlodion, ac at achosion daionus, Sal. 112. 2: ac eto trwy fendith Ddwyfol, cynnydda mewn golud. Ac arall yn arbed yn afresymmol, ac yn ymlenwi o gariad at y byd; eto yn syrthio i dlodi. Hwyrach fod yma gyfeiriad at ddyn yn hau; y naill yn hau yn helaeth, ac yn cael ei wobrwyo mewn cnwd toreithiog; y llall o wir gynnildeb, yn attal yr had oddiwrth y ddaiar, ac felly yn sicr o golli y cnwd a ddysgwyliai. Mae bendith ddirgeledig yr Arglwydd yn sicr o ddilyn cyfraniad prïodol i wrthddrychau teilwng, fel y dylyna hau had i gynnyrchu cnwd, 2 Cor. 9. 6—10.

Adn. 25 *A'r neb a ddyfrhao, a ddyfrheir yntau hefyd.* Mae cyfeiriad yn y geiriau hyn, debygid, at y gorchwyl tra angenrheidiol yn y gwledydd poethion o ddyfrhau y ddaiar. A rheswm y gwr doeth, mae yn debyg ydyw, Mor wir ag y bydd i'r hwn a

wnelo y fath gymmwynas a hyny i eraill, gael y fath gymmwynas yn ol yn rhwydd; felly y bydd i'r hwn a ddyhidlo o'i olud ar y tlodion, gael ei fendithio yn helaeth gan Dduw a dynion, 2 Tim. 1. 17, 18. Heb. 6. 10.

Adn. 26. *Y neb a attalio ei ŷd, y bobl a'i melldithia.* Yr oedd pennaethiaid y gwledydd Dwyreiniol yn arfer ystorio eu hŷd, am fod hyn yn brif ran o'u cyfoeth; ond yr oedd ei attal nes peri prinder a drudaniaeth, yn ormes ar y werin, ac yn sicr o gyffrôi digofaint y bobl.

Adn. 27. *Y neb a ddyfal geisio ddaioni*, neu, "Y neb a gyfodo yn forau i wneuthur yr hyn sydd dra dymunol." DAVIDSON.—"Y neb a astudio i wneuthur daioni." BOOTHROYD. Ceisio llesäad pawb yw y ffordd fwyaf llwyddiannus i ennill ffafr y rhai y mae yn werth meddu eu cymeradwyaeth: ond yr hwn a chwilio, ac a ymwrandawo am ddrygau a wnaed gan eraill, er mwyn hyfrydwch dirgel yn eu gwarthruddiad, yn gyffredin, gwarth a ddisgyn arno ef ei hunan.

Adn. 28. Gwel Salm 1. 2. a 92. 12. Jer. 17. 8. Hos. 14. 5.

Adn. 31. Mae Duw yn berffaith gyfiawn yn holl oruchwyliaethau ei ragluniaeth. Mae uniondeb yn argraffedig ar bob fflangell o'i eiddo ar y cyfiawn a'r drygionus; y naill sydd yn ymostwng ac yn edifarhau, a'r lleill yn ymgaledu, ac yn y canlyniad yn cael eu dystrywio byth yn eu pechodau.

## PEN. XII.

Adn. 4. *Sydd goron i'w gwr*, cyfeiriad at yr hen ddefod arferedig gynt o wisgo coron blethau prïodasol. WILLIAMS. Gwel Can. 3. 11.—*Ond y waradwyddus sydd megis pydrni yn ei esgyrn ef*, yn ofyd a phoen anfeddygyniaethol, yn nychu ei ysbryd, ac yn ei ddifa. PATRICK.

Adn. 6. *Geiriau y drygionus yw cynllwyn am waed.* Cyffelybir geiriau y drygionus yma i fintai o yspeilwyr yn cynllwyn gyda bwriad i lofruddio rhyw un. Maent yn achosi marwolaeth y llefarydd a'r gwrandawwyr, y rhai a dwyllir drwyddynt. DAVIDSON. Meddyliai BOOTHROYD fod yma gyfeiriad at arwyddeiriau y minteioedd yspeilgar, wrth y rhai y gweithredent yn nghyflawniad eu hamcanion gwaedlyd.

Adn. 12. *Y drygionus sydd yn deisyf rhwyd y drygionus;* hyny ydyw, maent yn awyddus am feddu pob moddion i faglu eraill, wrth eu llaw. Ni's gallant edrych ar y dychymmygion twyllodrus a ddefnyddia bydolion yn llwyddiannus i ymgyfoethogi ar draul eraill, heb chwennychu cael cyfle i ddefnyddio yr unrhyw ddychymmygion eu hunain.—*Ond gwreiddyn y cyfiawn a rydd ffrwyth.* DAVIDSON.—Mae eu golud hwy yn gwreiddio mewn diwydrwydd a gonestrwydd didwyll. WILLIAMS.

Adn. 14. Gwel Dan. 12. 3, 4. 2 Thes. 1. 7, 8.

Adn. 16. *Mewn un dydd y gwybyddir digter yr ynfyd,* neu, "Yr ynfyd a amlyga ei ddigter ar unwaith," efe a ffroma ac a ymwylltia ar unrhyw annogaeth; heb unrhyw sylw ar amser, personau, nac amgylchiadau. BOOTHROYD. Ond y cyfiawn a arfera foddion prïodol i guddio yr hyn a allai beri gwaradwydd iddo ei hun neu eraill. DAVIDSON.

Adn. 18. Gwel Sal. 55. 21. a 57. 4. a 59. 7. a 64. 3.

Adn. 21. *Ni ddigwydd i'r cyfiawn ddim blinder.* Rhaid ystyried hyn yn gyferbyniol â'r trueni a ddyoddefa y drygionus. Ni's dyoddefa y cyfiawn fel hwy, yn y byd yma na'r hwn a ddaw. BOOTHROYD.

Adn. 23. *Gwr pwyllog a gela wybodaeth,* pan fyddai ei datguddio yn ddifudd, neu yn niweidiol.

Adn. 27. *Ni rostia y twyllodrus ei helwriaeth.* Mae y gair a gyfieithir *twyllodrus*, yn ein cyfieithiad ni yn yr adnod hon, ac adn. 24, yn cael ei gyfieithu gan y Saeson, "Y dïog," ac fel y sylwai SCOTT, y mae yn ddigon cymhwys galw y dïog yn dwyllodrus; canys y mae dïogi yn agorfa i anonestrwydd, ac yn wir, i bob rhyw ddrygau o'r bron. Darlunir hwn yn y geiriau hyn, fel un rhy ddïog i orphen yr hyn a ddechreuodd; hyd yn nôd i rostio ei helwriaeth wedi ei ddal.—*Ond golud y dyn diesgeulus, sydd werthfawr;* y mae efe yn gwybod ei werth ac yn ei fwynhau.

## PEN. XIII.

Adn. 3. *Y neb a geidw ei enau, a geidw ei einioes.* Nid oes dim yn fwy angenrheidiol er ein dedwyddwch a'n defnyddioldeb, nac ydyw gwyliadwriaeth ddyfal ar ein tafodau.

Adn. 4. *A wneir yn fras,* hyny yw, efe a fwynha helaethrwydd, pen. 11. 25. Salm 92. 16.

Adn. 7. *Rhyw un a ymffrostia ei fod yn gyfoethog, ac heb ddim ganddo,* fel y gallo ennill ymddiried dynion a'u twyllo yn fwy. —*Ac arall, ei fod yn dlawd, a chyfoeth lawer iddo:* fel y gallo eu tyru a'u cadw yn fwy dïogel. BOOTHROYD. Mae ymddygiad y ddau yn bechadurus; y naill yn dwyn dinystr ar ei deulu, yn peri colled i'w gymmydogion, a gwaradwydd i grefydd; a'r llall yn ymddwyn yn annïolchgar i Dduw, ac annghyfiawn i bawb o'i amgylch. HENRY.

Adn. 8. *Iawn am einioes dyn yw ei dda.* Mae yn wir fod cyfoeth yn galluogi dyn i ddianc o afael llawer o ddrygau y mae y tlawd yn ddarostyngedig iddynt; ond y mae mor wir a hyny, nad yw y tlawd yn clywed llawer cerydd sydd yn dyfod a'r y cyfoethog. Mynych iawn y mae y gormeswyr Dwyreiniol yn cyfodi rhyw achwyniadau ar y cyfoethog, yn unig er mwyn cael esgus i ddwyn eu golud; ond y mae yr yspeilwyr a'r trawsion yn gadael llonydd i'r tlawd.

Adn. 9. *Goleuni y cyfiawn a lawenha,* neu, a lewyrcha yn fwy

dysglaer. Mae goleuni yn aml yn arwyddo sefyllfa o lwyddiant a dedwyddwch, Job. 18. 5, 6, 18. a 29. 3. Salm 18. 29. a 97. 11. Esa. 58. 8.

Adn. 13. *Yr hwn a ddirmygo y gair*, hyny yw, datguddiad Duw, Deut. 30 14. Rhuf. 10. 18. 1 Tim. 5. 17. HEWLETT.

Adn. 14. *Cyfraith y doeth*, y rheolau wrth ba rai y'u llywodraethir, neu yr addysgiadau a roddant.—*Sydd ffynnon bywyd*; o'r hon y tardda dyddanwch a boddlonrwydd parhaus. HENRY.

Adn. 17. *Ond cennad ffyddlawn sydd iechyd*, neu, sydd feddyginiaeth iachusol; canys ei swydd yw gwneyd amrafaelion i fynu, a meithrin heddwch rhwng pleidiau. HOLDEN.

Adn. 19. Cyfieithir yr adnod hon yn dra gwahanol i'r darlleniad cyffredin gan BOOTHROYD, MICHAELIS, &c.

"Dymuniad gwaharddedig sydd felus gan yr enaid,
Ac ymadael â drygioni yw ffieidddra ynfydion."

Adn. 23. *Llawer o ymborth sydd yn maes y tlodion*, y tir a drinir â'i ddwylaw ef ei hunan trwy ddiwidrwydd, a gynnyrcha ddigonedd at ei wasanaeth; ond y mae rhai o ddiffyg barn i iawn drin eu tir, yn sicr o ddyfod i eisiau. BOOTHROYD.

## PEN. XIV.

Adn. 1. *A adeilada ei thŷ*, trwy addysg, diwydrwydd, cynnildeb, a challineb, y mae hi yn abl i ddyrchafu ei thylwyth, a chynnyddu eu golud a'u cymeriad da.—*Ond y ffolog*, trwy esgeulusdra, drwg drefn, a moethau, a'i tyn i lawr yn ddigon isel. PATRICK.

Adn. 3. *Yn ngenau y ffol y mae gwialen balchder*, neu yn hytrach, "y mae gwaywffon lem;" gwaradwyddiadau, rhegfeydd, a melldithion llymion y drygionus, a olygai Solomon. MICHAELIS. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Lle nid oes ychain, glan yw y preseb*, os gadewir y maesydd yn anniwyll, gan esgeuluso eu trin i dderbyn had; rhaid y canlynir hyny â newyn. Ychain a ddefnyddir yn y gwledydd Dwyreiniol i aredig, i gludo y cnwd adref, ac i ddyrnu yr ŷd. PATRICK.

Adn. 6. *Y gwatwarwr a gais ddoethineb, ac ni's caiff*, am nad yw yn ei cheisio oddiar egwyddor gywir, ac mewn dull priodol. Mae gwatwarwyr yn gofyn am addysg er mwyn cael mantais i wawdio ac ymgecraeth.—HENRY.—*Ond gwybodaeth sydd hawdd i'r deallus*, fel yr ymadawo oddiwrth ddrwg, canys hyny yw deall; rhoddi rhagfarn, &c. heibio. HENRY.

Adn. 11. Sylwa SCOTT ar y geiriau hyn, y dylid cymeryd sylw neillduol ar y gwrth gyferbyniad a wneir yma rhwng *tŷ*, neu balas ardderchog y drygionus, a *phabell* y cyfiawn.

Adn. 12. *Y mae ffordd sydd uniawn yn ngolwg dyn*, megis addoliad ffurfiol, coel grefydd, hunan gyfiawnder, ac mewn gair, pob peth a elwir yn grefydd; ond sydd yn anysgrythol. SCOTT.

Adn. 13. *Ië, wrth chwerthin y bydd blin ar y galon.* Yn y fuchedd ansicr yma, dilynir llawenydd gan drallod dwys yn fuan, ac weithiau tra fyddo gwên ar y wyneb, bydd y galon yn llawn gofyd. BOOTHROYD. Ac y mae tristwch yn sicr o ddilyn llawenydd pechadurus.

Adn. 14. *Y gwrthnysig o galon,* yr hwn sydd yn cilio oddiwrth Dduw a'i orchymynion, a gospir, ac a ddygir i flino ar y pechodau yn y rhai yr ymhyfrydai. SCOTT.

Adn. 19 Mae *pyrth* yn aml yn dynodi lle barn; gwel Pen. 1. 21. Mae cydwybod y drygionus yn gorfod ymostwng yn aml o flaen barn y cyfiawn; ac y maent yn gorfod eu parchu yn aml ar gyfrif eu hymddygiadau.

Adn. 20. *Ond llawer fydd yn caru y cyfoethog;* hyny yw, yn cymeryd arnynt ei garu; canys ni all golud byth genhedlu cariad cywir, na bod yn rhwymyn cyfeillach ddiffuant.

Adn. 22. *Onid ydyw y rhai a ddychymygant ddrwg yn cyfeiliorni?* neu "yn methu eu nôd?" Eu hamcan hwy wrth ddychymygu drwg, yw sicrhau iddynt eu hunain gyfoeth ac anrhydedd: ond hwy a fyddant yn sicr o gael eu siomi. BOOTHROYD.

Adn. 23. *Yn mhob llafur y mae elw; ond o eiriau y gwefusau nid oes dim ond tlodi.* Gweithio heb siarad a wna ddynion yn oludog; ond siarad heb weithio a wna ddynion yn dlodion. HENRY.

Adn. 26. *Ac i'w blant ef,* sef plant Duw, *y bydd noddfa.*

Adn. 30. *Calon iach yw bywyd y cnawd,* hyny yw, y mae meddwl uniawn, boddlawn, a haelfrydig, yn tueddu yn fawr at iechyd a hir oes, cystal a chysur yn yr oes. SCOTT.

Adn. 31. *A gywilyddia ei Greawdwr,* neu, "a ddïanrhydedda ei Wneuthurwr," fel pe buasai efe wedi gwneyd y tlawd o ryw rywogaeth arall, neu wedi eu bwrw i lawr o bwrpas, fel y'u methrid. SCOTT.

Adn. 32. *Y drygionus a yrrir ymaith,* mae efe yn glynu mor agos wrth y byd; fel na's mynai efe er dim ymadael ag ef; ond efe a yrrir ymaith o honaw, er ei holl afael ynddo.

## PEN. XV.

Adn. 4. *Tafod iach,* neu ymadrodd synhwyrol a heddychol, yr hwn a gymmoda bleidiau ymrysongar, ac a iachâ y tramgwyddiadau oedd rhyngddynt: neu ymadrodd tyner teimladwy, yr hwn sydd yn dra effeithiol i iachau y meddwl trallodus. GILL, DURELL, HOLDEN.

Adn. 6. *Ond am olud yr annuwiol y mae trallod,* gan iddo ei gael trwy dwyll ac annghyfiawnder, ni's gall ei fwynhau yn gysurus gan ofn a thrallod, yn deillio oddiar ystyriaeth o euogrwydd.

Adn. 8. *Aberth yr annuwiol sydd ffiaidd gan yr Arglwydd;* hyny yw, ni's gall unrhyw gyflawniad allanol o ymarferiadau crefyddol, heb gyfnewidiad calon, fod yn gymeradwy gyda Duw.

Er egluraad pellach, edryched y darllenydd, pen. **21. 27.** 1 Sam. **15. 22.** Salm 51. 17, &c.; Esa. 1. **11.** a 61. **8.** a 66. 3. Jer. **6. 20.** Amos 5. 22. Mal. 1. 10.

Adn. **11.** *Uffern a dinystr sydd ger bron yr Arglwydd.* Mae yr holl fyd anweledig o dan sylw a llywodraeth yr Arglwydd. Gan fod ei lygaid tanbaid ef yn treiddio i eithafoedd y bydoedd anweledig, pa faint mwy y craffa efe ar holl ddirgeloedd enaid dyn!

Adn. **19.** *Ffordd y dïog sydd fel cae drain:* hyny yw, y mae yn ymddangos felly iddo ef. Mae yn llawn o anhawsderau, yr hyn y mae segurdod ei feddwl yn ei bortreiadu fel anhawsderau anorfodol.

Adn. **23.** Mae cyfrannu addysg dda, yn ymarferiad mwyaf hyfryd, ac y mae y lles a ddeillia o honi pan y'i gweinyddir yn brydlawn, yn annhraethol.

Adn. **24.** Y ffordd i gyrhaedd bywyd yw i ddyn roddi ei fryd ar y pethau sydd uchod; a bod ei ymestyniad parhaus at ogoniant byd arall, fel y gallo fyw yn sanctaidd yn y byd hwn. BOOTHR.

Adn. **27.** *Ond y neb a gasäo roddion, fydd byw,* sef rhai wedi eu hamcanu i geisio cael gwyro barn a gwirionedd. Ni's gall dim fod yn fwy canmoladwy na rhoddion o elusen, neu yn gydnabyddiaeth o ddïolchgarwch, neu fel arwyddion o gyfeillgarwch; maent yn adfywio, yn lloni, ac yn dedwyddoli y derbynwyr yn aml. DAVIDSON.

Adn. **30.** *A gair dâ, a frasha yr esgyrn.* Nid oes dim a adfywia fwy ar feddwl dyn da yn ei lafur daionus, na chlywed gair da i'w ymdrechiadau i wneuthur daioni; a chael newyddion da am ymdrechiadau llwyddiannus dynion da eraill yn yr un amcan.

## PEN. XVI.

Adn. **2.** *Holl ffyrdd dyn ydynt lân yn ei olwg ei hun.* Mae anwybodaeth, dïofalwch, balchder, a hunan weniaeth yn peri i ddynion farnu yn dra chyfeiliornus yn eu hachos eu hunain yn aml; ond y mae yr Arglwydd yn sicr o farnu yn eithaf cyfiawn, a diduedd. SCOTT.

Adn. **3.** *Treigla dy weithredoedd,* dy ofalon a'th orchwylion cyffredin, ac yn enwedig, ymddiried am fywyd ac iachawdwriaeth ar yr Arglwydd, yr hwn sydd yn llwyr abl a pharod i gyflawni y cwbl erot.

Adn. **4.** *Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun; a'r annuwiol hefyd erbyn y dydd drwg.* Mae y Beirniaid wedi rhoddi amryw gyfieithiadau i ni o'r geiriau uchod; ac o honynt, nyni a grybwyllwn y tri a ganlyn,—

"Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun, Ië, hyd yn nôd y drygionus, y mae efe yn ei gynnal beunydd." HOLDEN.
"Duw a ordeiniodd bob peth i'r hyn sydd gyfaddas iddo, a'r drygionus a ordeiniodd efe i'r dydd drwg;" hyny yw, y mae Duw

yn ei ddoethineb wedi cymhwyso y naill beth i'r llall; cosbedigaeth i bechod; a dydd drwg i'r drwg-weithredwr. TILLOTSON.—"Yr Arglwydd a wnaeth bob peth i wasanaethu ei amcanion ei hun; ïe, hyd yn nod y drygionus yn nydd drygfyd." GROTIUS, SECKER, BOOTHROYD. Yr ystyr yw, gan mai Duw a wnaeth bob peth, fod pob peth yn y byd naturiol a moesol dan ei lywodraethiad doeth a digyfeiliorn ef; ïe, hyd yn nod y drygionus, y rhai sydd yn gwrthod ufuddhau i'w air ef; mae yn eglur eu bod hwy dan ei awdurdod ef, fel y gwelir yn nydd drygfyd, pan ymwelo efe â'u pechodau hwy â chosbedigaeth. BOOTHROYD.—Nid yw Duw yn awdwr drygioni dyn; ond efe a'i rhagwelodd, ac a drefnodd ei gynllun gyda golwg ar hyny. SCOTT.

Adn. 10. *Ymadrodd Duw sydd yn ngwefusau y Brenin.* Mae yn ddïau fod y geiriau hyn yn golygu y Brenin yn ei gymeriad goruchel o brif farnydd ei ddeiliaid; swydd nad ymddiriedid i gynnrychiolwyr gan freninoedd yn yr hen oesoedd fel y gwneir yn gyffredin yn yr oesoedd diweddaraf. Mae yr hyn a ddywaid efe o bwys, am hyny dylai ymholi yn fanol cyn rhoi barn, fel y gallo farnu yn ol gwirionedd.

Adn. 11. *Pwys a chloriannau cywir, yr Arglwydd a'u pïau*; neu, "sydd oddiwrth yr Arglwydd:"—*ei waith ef yw holl gerrig y god.* Yr oedd pwysau gynt yn gyffredin o gerrig, ac nid haiarn, yr hwn oedd yn ddarostyngedig i rydu, ac felly i golli yn ei bwysau; ac hwyrach eu bod yn cael eu cadw mewn cod, nid yn unig rhag ofn iddynt gael eu treulio wrth eu gadael yn unrhyw le arall; ond hefyd fel y'u ceffid gyd a'u gilydd yn rhwydd pan fyddai eu heisiau. Dywedir mai ei waith ef oeddynt, nid yn unig am ei fod ef wedi eu hordeinio; ond hefyd am iddo ef ordeinio bod iddynt gyfatteb â phrawf-bwysau y cyssegr, cymh. pen. 11. 1.

Adn. 14. *Digofaint y Brenin sydd megis cennad angau*, fel yr oedd digofaint Ahasferus i Haman. GILL. Pan fyddo gelynion gwr mawr wedi cael digon o ddylanwad ar y Tywysog yn Twrci, i gael awdurdod i'w ddihenyddio; y maent yn arfer anfon swyddog, sef y dihenyddwr atto, yr hwn a ddengys iddo y gorchymyn a gawsai efe i ddwyn ei ben ef ymaith; mae yntau yn cusanu yr archiad, ac yn rhoddi ei ben i fynu yn rhwydd. THEVENOT.—Mae yn eglur fod defod gyffelyb mewn arferiad yn Palestine, 1 Bren, 2. 25. Math. 14. 10. HARMER.

Adn. 17. *Sarn,* neu brif-ffordd *y cyfiawn yw dychwelyd oddiwrth ddrwg.*

Adn. 21. *A melusder y gwefusau a chwanega ddysgeidiaeth,* hyny ydyw, gwir hyawdledd, neu wirionedd yn cael ei draddodi mewn iaith brïodol, a dull dymunol; Can. 2. 14. Preg. 12 9, 10. a 5. 16.

Adn. 23. Doethineb yn y galon yw y prif beth a wna hyawdledd gwirioneddol. HENRY.

Adn, 24. *Ac yn iachus i'r esgyrn.* Mae esgyrn yn cael eu rhoddi am yr holl berson; pa beth bynnag a siriolo ac a wrolo y meddwl, a effeithia yn dda ar y corff hefyd; cymh. pen. 3. 8. a 4. 22. a 15. 30.

Adn. 31. Gwel pen. 20. 29. Lef. 19. 32. Job 32. 6, 7. Salm 92. 14, 15.

Adn. 33. *Y coelbren a fwrir i'r arffed,* neu yn hytrach, i'r erwth lestr, neu, y cawg, yn yr hwn y bwrid y coelbren, gan ei gwyd bob ffordd cyn ei dynu allan.

## PEN XVII.

Adn. 2. *Gwas synhwyrol a feistrola ar fab gwaradwyddus.* Mae doethineb yn tueddu i ddyrchafu dynion, a ffolineb i'w darostwng; ac y mae hyn yn peri cyfnewidiad parhaus yn amgylchiadau bywioliaethol dynolryw. SCOTT.

Adn. 8. Mae dylanwad anrhegion yn fawr yn mhob man; ond yn neillduol felly yn y Dwyrain. Mae y golud a alluoga un i'w rhoddi yn werthfawr fel gemmau gwerthfawr. *Pa le bynnag yr a,* hi a wna ffordd i'r sawl a'i rhoddodd, i'w dilyn.

Adn. 9. *Y neb a guddia bechod,* neu drosedd ei gyfaill, a geidw gariad; ond y neb a edliwio bob angaredigrwydd bychan a difwriad, sydd yn sicr o golli ei gyfeillion. *Esgob* HALL.

Adn. 11. *A chennad greulawn a anfonir yn ei erbyn ef;* yr hyn sydd yn dynodi y bydd iddo gael ei gosbi â marwolaeth yn fuan. Gwel Nod. ar pen. 16. 14.

Adn. 12. *Gwell i wr gyfarfod âg arthes wedi colli ei chenawon, &c.* Mae y gyffelybiaeth hon yn cael ei defnyddio yn aml yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd; ac y mae Naturiaethwyr wedi sylwi fod rhyw hoffder anarferol rhwng yr arthes a'i chenawon; a bod ei chynddaredd yn ofnadwy pan fyddo rhai o honynt wedi eu lladd neu eu dwyn oddiarni. Yr oedd llaweroedd o'r creaduriaid hyn yn Palestine, Gwel 1 Sam. 17. 34, 36. a 2 Sam. 17. 8. 2 Bren. 2. 13, 14.

Adn. 14. Megis wrth dorri argau yr afon, y mae y llifeirant er dechreu yn fychan, yn cynnyddu yn raddol nes gorlifo y wlad, felly y mae ymryson, o'i goleddu yn cynnyddu yn llid annghymmodlawn; am hyny doethineb ydyw peidio dechreu ymyrraeth â defnyddiau amrafaelion. Mae ysbryd ymrysongar yn anghymhwys i'r nef: ac os mynwn ninnau weled yr Arglwydd, ein dyledswydd yw dilyn heddwch â phawb.

Adn. 17. Mae gwir gyfaill yn dyfod yn frawd mewn caledi. Yr oedd efe yn gyfaill o'r blaen; y mae hyn yn ei wneyd ef yn frawd.

Adn. 19. *A'r hwn sydd yn gwneuthur ei ddrws yn uchel, sydd yn ceisio niwed.* Dywaid THEVENOT fod drws y tŷ yn yr hwn y trigiannai y masnachwyr Ffrengig yn Rama, dan dair troedfedd o

uchder; a bod yr holl dai yn gyffredin yn gyffelyb, er attal yr yspeilwyr Arabaidd i allu dod i mewn i'w tai ar gefnau eu meirch, canys arferent farchogaeth i dai y rhai yr amcanent eu hanrheithiaw. Os oedd y minteioedd Arabaidd yn arferol o gymeryd mantais o'r fath ar ddrysau uchel ar gyffiniau breniniaeth Solomon, y mae y cymhwysder mwyaf i'w weled yn y gyffelybiaeth. HARMER. Ond efallai, yn hytrach, mai gocheliad yw y geiriau rhag rhyw arddangosiad ymffrostgar o gyfoeth, trwy wneuthur ty gwych; yr hyn a wnelai ddynion yn y gwledydd dwyreiniol yn agored i gael eu dystrywio gan eu Llywodraethwyr treisgar er mwyn eu cyfoeth. JARCHI, ABEN EZRA.

Adn. 23. *Yr annuwiol a dderbyn rodd o'r fynwes.* Yn y fynwes yr arferai yr Hebreaid ddwyn eu côd, eu harian, a phob rhyw drysorau a feddent i'w gludo: gan hyny y mae yr ymadrodd yn arwyddocâu, nid yn unig rhywbeth dirgel, ond rhywbeth gwerthfawr hefyd. CALMET.

Adn. 24. Mae doethineb a synwyr yn cael ei amlygu yn ngwynebpryd gwr; tra mae edrychiad gwibiog ansefydlog dyn arall, yn dangos ei ffolineb. BOOTHROYD.

Adn. 26. *Nid da cospi y cyfiawn, na tharo pennaethiaid pan fyddont ar yr iawn.* Os bydd cosbedigaeth yn disgyn yn drom yn ngweinyddiad cyfiawnder ar unigolion weithiau; ni ddylent wrthryfela oblegid hyny yn erbyn y tywysog neu y pennaeth sydd yn gweithredu yn ffyddlawn yn ol y cyfreithiau: canys gweinidogion Duw ydyw pennaethiaid a llywiawdwyr gwlad; ac y mae ceisio eu niweidio, dan ba esgus bynnag, yn wrthdarawiad ar ddeddf uniawn Duw. Gwel Rhuf. 13. 15.

## PEN. XVIII.

Adn. 1. *Y neillduol a gais wrth ei ddeisyfiad ei hun,* Mae rhai yn barnu mai darluniad yw y geiriau hyn o ddyn myfyrgar, yr hwn a lafuria yn ddyfal i chwilio am yr hyn sydd ddymunol; eraill a farnant mai darluniad ydynt o ddyn hunan-dybus, yr hwn a fynai fod yn *neillduol* oddiwrth bawb yn ei olygiadau a'i eiriau. Ond y golygiad mwyaf hygoel yw, mai darluniad o nodweddiad gwr doeth sydd yma, yn wrth-gyfeiriol i'r ffol, yr hwn a ddarlunir yn yr adnod nesaf. Y cyntaf sydd yn ymneillduo oddiwrth bob ymddiddan a chyfeillach anfuddiol, fel y gallo ymofyn trwy bob peth am wir ddoethineb, tra mae y llall yn sugno ei holl bleserau o holl arferion gorwageddol y lluaws, i'r rhai y datguddia wagedd ei feddwl ei hun; dymuniadau gwaelion, a nwydau aflywodraethus ei galon lygredig ei hunan. DAVIDSON.

Adn. 3. Pan ddelo y drygionus i gymdeithas, y mae yn dueddol i oganu a gwaradwyddo rhai eraill. HEWLETT. *Esgob* HALL. Neu, pan y'u gosodir mewn swyddi o bwys, y maent yn debyg o ddwyn gwaradwydd arnynt eu hunain ac eraill. SCOTT.

Adn. 4. *Fel dyfroedd dyfnion.* Mae y dyn deallus yn meddu trysor o bethau buddiol ynddo ei hun ; e ddichon fod ei wybodaeth, fel dyfroedd dyfnion yn lled ddi drwst, ond nid yw byth yn debyg o gael ei sychu i fynu.

Adn. 6. *A'i enau a eilw am ddyrnodiau;* mae yn ei wneyd ei hun yn agored i gosbedigaeth gyfiawn, trwy droseddu cyfraith yr Arglwydd.

Adn. 8. *Geiriau yr hustyngwr sydd megis archollion, &c.* Maent yn archolli y sawl y'u lleferir am dano, yn ei gymeriad a'i amgylchiadau ; y sawl y'u lleferir wrtho, yn ei gariad a'i haelfrydedd ; a'r sawl y'u lleferir ganddo, yn ei gydwybod. HENRY.

Adn. 14. Tra byddo ysbryd gwr yn fywiog, a'i feddwl yn wrol, efe a ddichon ymgynnal yn lew yn wyneb anhwylderau corfforol : ond pan fyddo yr ysbryd wedi ei archolli, pa fodd y cynhelir ef? BOOTHROYD.

Adn. 16. *Ac a'i dwg ef ger bron pennaethiaid.* Mae anrhegion yn anhebgorol i gael derbyniad i un ger bron pennaethiaid yn y gwledydd Dwyreiniol. Gwel pen. 17. 8.

Adn. 18. *Ac a athrywyn rhwng cedyrn,* " Ac a wahana, neu a dyr ymrafael rhwng cedyrn.

Adn. 19. *Brawd pan ddigier.* Nid oes braidd ddim mor anhawdd, a chymmodi brodyr, neu berthynasau agos, pan syrthiont i amrafaelio â'u gilydd.

Adn. 21. *Angau a bywyd sydd yn meddiant y tafod* ; llawer a gollasant eu bywydau trwy y tafod ; a llawer a ennillasant eu bywydau trwy iawn arferiad o'r tafod. Mae y geiriau yn gweddu gyda grym arbennig i ddadleuwyr cyhoeddus. A. CLARKE.—*A'r rhai a'i hoffant ef, a fwyttânt ei ffrwyth ef.* Y rhai a garant y tafod, neu yr hyn a lefarir ganddo, a deimlant ei ddylanwad yn rymmus ar y galon a'r fuchedd, yr hwn a duedda at ddaioni neu ddrygioni, yn ol natur yr hyn yr ymhyfrydant ynddo.

Adn. 22. *Y neb sydd yn cael gwraig, sydd yn cael peth daionus :* neu yn ol y nifer fwyaf o'r hen gyfieithiadau, " Y neb sydd yn cael gwraig dda." Prif amcan y gwr doeth, yw canmol prïodas fel ordinäad Duw.

## PEN. XIX.

Adn. 1. *Na'r traws ei wefusau, ac yntau yn ffol:* neu, " Na'r gwrthnysig yn ei ffyrdd, er ei fod yn oludog."

Adn. 7. *Holl frodyr y tlawd a'i casant ef;* hyny yw, ymddygant tuag atto fel pe baent yn ei gasau : a'r rhai a gymerent arnynt fod yn gyfeillion iddo a safant o'r neilldu, ac ni chymerant arnynt glywed ei daerni.

Adn. 10. *Nid gweddaidd i ffol hyfrydwch:* os wrth y ffol yma yr ydym i olygu y drygionus a'r traws ; yna yr hyn a olygir fel gwrthddrychau ei hyfrydwch ef yw awdurdod a mawredd; ond byddai gallu ac awdurdod fawr yn nwylaw y cyfryw un yn dra pheryglus a niweidiol.

Adn. 13. *Ymserth gwraig sydd megis defni parhaus:* neu, "A gwraig ymrysongar sydd megis defni parhaus." Mae hen ddihareb yn arferedig gan yr Illyriaid, i'r perwyl a ganlyn. "Nid rhaid i'r sawl sydd ganddo dŷ myglyd, to dyferllyd, a gwraig ymrysongar, fyned i ryfel, gan fod rhyfel wastadol iddo ef yn ei dŷ ei hun." GEIERUS. Mae yn debyg fod y drychfeddwl wedi ei gymeryd oddiwrth y deildai, neu y gwŷdd-dai Dwyreiniol, y rhai a wnaent ar nenau eu tai, ac yn y rhai y cysgent ar hin frwd yn yr haf; y mae y gwŷdd-dai hyn yn dra dymunol yr amser hyny; ond yn annymunol iawn ar hin wlybyrog: ond mwy annymunol na hyny yw gwraig ymrysongar.

Adn. 14. Nyni a allwn fod yn ddyledus i rïeni am lawer o bethau, megis *tŷ a chyfoeth*; ond ni's gallant hwy roddi gwraig bwyllog i ni; gan hyny dylid gofyn am y rhodd yma gan Dduw, yr hwn yn unig a all ei rhoddi; a'r rhai a'i cafodd a ddylent gydnabod yr Arglwydd yn ddiolchgar am y fath ddawn werthfawr ag yw pwyll mewn gwraig.

Adn. 17. Gwel pen. 13. 7. Math. 10. 42. 2 Cor. 9. 6, 7.

Adn. 21. Cymh. Esa 14. 26, 27. a 46. 10.

Adn. 22. *Deisyfiad dyn yw ei drugaredd ef.* Yma rhoddir y gair *deisyfiad*, am yr hyn sydd ddymunol, yr hyn sydd ddulliaith Hebrëig gyffredin.—*A gwell yw y dyn tlawd na'r gwr celwyddog.* na'r gwr goludog celwyddog, addewidion yr hwn a gyfodant ddysgwyliadau i'w siommi yn unig.

Adn. 24. *Y dyn swrth a gudd ei law yn ei fynwes:* neu yn hytrach "yn y ddysgl," cyfeiriad at ddull y Dwyreinwyr o fwytta gan drochi eu dwylaw yn y llestr a gynnwysa yr ymborth, a'i godi yn eu bysedd i'w geneuau; ond y mae y dyn swrth yn rhy ddïog i'w borthi ei hunan. HARMER, CLARKE.

Adn. 25. *A'r ehud fydd cyfrwysach.* Mae gwatwarwr ac ehud yma yn ddau enw gwahanol ar yr un person: a dysgir pwyll a synwyr iddo drwy gosbedigaeth brydlawn a chyfaddas.

## PEN. XX.

Adn. 1. *Gwatwarus yw gwin*, mae ymarferiad âg ef yn gwneuthur dynion yn watwarus a therfysgaidd. Mae yn amlwg mai effeithiau gwin a diod gadarn ar y sawl a'u harferont a olygir yma. Sylwa y dysgedigion fod y gair *sicera*, a gyfieithir yma *diod gadarn*, yn dynodi unrhyw wlybyroedd meddwol, pa un bynnag ai o ŷd, sudd afalau, mêl, neu ryw ffrwythau y'u gwnelid.—Gan fod y fath effeithiau yn dilyn ymarferiad a hwy, a'u bod mor hudoliaethus a siomedig, cadw yn mhell oddiwrthynt fyddai y doethaf.

Adn. 4. *Y diog nid ardd o herwydd oerder y gauaf*; dros un mis y mae y gauaf yn oer yn Palestine, ac nid yw y rhewiau un un amser mor lymion ag i attal y trigolion i aredig. Maent yn arferol o ddechreu aredig yn y wlad hono tua diwedd Medi, a

hau eu gwenith cynnaraf tua chanol Hydref. O ddiffyg aredig mewn pryd, bydd ei faesydd yn annghynnyrchiol amser cynhauaf; a'i gymmydogion yn gwybod mai ei ddiogi yn unig a barai hyny, ni theimlant un parodrwydd i gyfrannu er tori ei angen ef.

Adn. 8. *A wasgar â'i lygad bob drwg*, Mae iawn weinyddiad cyfiawnder yn attal hyfdra troseddwyr.

Adn. 10. *Amryw bwysau, ac amryw fesurau.* Neu, "maen a maen, ac ephah ac ephah;" hyny yw, un math o bwysau a mesurau i brynu wrthynt, ac arall i werthu, er twyllo y cyffredin. Mae y cyfryw ymarferion yn ffiaidd gan yr Arglwydd.

Adn. 14. Mae dynion yn dueddol i arferyd dichellion er elwa oddiar eu gilydd, i brynu yn rhad, neu werthu yn ddrud; ac yn lle cywilyddio, fel y gweddai iddynt am arfer twyll a chelwydd, maent yn barod i ymffrostio yn eu cyfrwysdra.

Adn. 15. Yr hwn sydd yn dewis gwir wybodaeth o flaen cyfoeth amserol, sydd yn dilyn ffyrdd crefydd a dedwyddwch. Pe credem ni y gwirionedd yma yn drwyadl, gwerthfawrogid gair Duw fel yr haedda genym, a chollai y byd dylanwad hudol sydd ganddo ar lawer yn bresenol.

Adn. 16. Rhoddid gwisgoedd yn wystlon er sicräad taliad dyled yn fynych gynt yn y gwledydd dwyreiniol, Job 22. 6. Deut. 24. 10—13. Yr oedd yn weddus cymeryd rhywbeth mwy na'i air er sicräad, gan yr hwn a fechnïai dros y dyeithr, neu dros buttain; gan nad yw ei waith yn mechnïo dros y cyfryw rai yn arwyddion o nemmawr o ddoethineb nac o rinwedd. DAVIDSON.

Adn. 17. E ddichon cyfoeth a gaffer trwy dwyll fod yn felus, canys y mae meddwl anianol yn ymhyfrydu yn llwyddiant dyfeisiau drygionus; ond e drŷ y coffa o honaw yn chwerw yn y diwedd.

Adn. 19. Drud y pryna y rhai hyny eu clod eu hunain, a ymddiriedant mewn dynion am eu bod yn siarad yn deg.

Adn. 20. Mae plant anufudd i'w rhïeni, ac anmharchus o honynt, yn sicr o ddyfod i drueni. Nid yw ond oferedd iddynt ddysgwyl llawer o dangnefedd a dyddanwch.

Adn. 21. *Etifeddiaeth a geir ar frys yn y dechreuad*, neu, "Gellir cael etifeddiaeth ar frys, &c." anfynych iawn y mae etifeddiaeth a gair yn hynod o ddisymmwth yn fendithiol i'r sawl a'i caffo.

Adn. 23. *A chlorian tywyllodrus nid yw dda;* nid yw gymeradwy yn ngolwg yr Arglwydd, ac nid yw yn debyg o droi allan yn ennillgar i'r sawl a'u harfero, yn hir.

Adn. 25. *Magl yw i wr lyncu peth cyssegredig*, neu "gadw yr hyn sydd sanctaidd." Mae yn ddïau fod y gwr doeth yn cyfeirio yma at y gyfraith mewn perthynas i addunedau, Lef. 27. 1—27; ac yn golygu y pechadurusrwydd o beidio talu i Dduw yr hyn a addunedwyd.

Adn. 26. *Ac a dry yr olwyn arnynt*, cyfeiriad debygid, at y

dull dwyreiniol o ddyrnu â'r olwyn, ac felly ysgaru y grawn oddiwrth y gwellt a'r ûs; gwel Salm 1. 4; felly brenin doeth a ysgara y drygionus oddiwrth y daionus â grym ei awdurdod.

Adn. 27. *Canwyll yr Arglwydd yw ysbryd dyn.* Mae yn debyg mai y gydwybod a olygai y gwr doeth yn y geiriau hyn, yr hon a gyffelybir i lamp Duw yn y deml, yr hwn a oleuai y lle sanctaidd, ac a ddangosai yr holl ddodrefn sanctaidd; felly y mae cydwybod dyn, pan nad yw yn cael ei diffoddi gan bechod, yn amlygu holl gelloedd dirgelaf y galon ddynol. T. WILLIAMS.

Adn. 29. Mae manteision yn perthynu i hen ac ieuainc; am hyny na fydded i'r ieuainc ddirmygu yr hen, na'r henafgwyr genfigenu wrth y rhai ieuainc.

Adn. 30. Mae ceryddon llymion weithiau yn llesol iawn; ond y fath yw llygredigaeth y natur ddynol, fel y mae yn anhawdd iawn gan ddynion dderbyn ceryddon am eu pechodau. Os yw Duw yn defnyddio cystuddiau llymion i buro ein calonau, a'n cymhwyso i'w wasanaeth, mae genym achos i fod yn ddïolchgar iawn iddo ef

## PEN. XXI.

Adn. 1. *Fel afonydd o ddwfr, &c.* Mae y credadyn wrth ganfod fod yr Arglwydd yn alluog i lywodraethu pob calon fel y gwelo yn gymhwys, fel y trŷ y llafurwr y ffrydiau dwfr y ffordd y myno trwy ei dir er dyfrhau a meithrin ei blanhigion, yn ceisio cael llywodraethu ei galon ei hun a chalonau eraill ganddo mewn ffydd, ac ofn, a chariad ato.

Adn. 4. Pechod yw balchder, gogoniant, llawenydd, a gorchwyl yr annuwiol,—Mae yr esponiad cyffredin a roddir ar yr adnod hon yn cynnwys gwirionedd pwysig ac anwadadwy, sef nad yw yr annuwiol yn cyflawni unrhyw weithred wrth fodd yr Arglwydd, am nad yw yn golygu ei awdurdod, yn parchu ei air, nac yn gofalu am ei anrhydedd a'i ogoniant ef mewn dim.

Adn. 5. Mae holl amcanion y diwyd yn tueddu yn y cyffredin i ddwyn llawnder iddynt; ond am y rhai a brysuront i ymgyfoethogi heb ofalu am natur y moddion a arferont i hyny, y mae tlodi yn debyg o'u goddiweddyd; cymh. pen. 20. 21. a pen. 28. 20, 22.

Adn. 6. Tra mae dynion yn ceisio cyfoeth trwy ymarferiadau annghyfreithlawn, maent yn ceisio angau, nid yn fwriadol, mae yn wir, ond yn sicr, canys y maent yn gwrthwynebu Duw y gwirionedd.

Adn. 9. *Congl yn nen tŷ,* congl a orchuddid â changenau neu â brwyn, ac a wnelid fel math o wŷdd-dy bychan ar ben y tŷ, yn yr hwn yr arfera y dwyreinwyr gysgu yr hâf, ond yr hwn o angenrheidrwydd oedd yn lle hynod o anfanteisiol i drigo ynddo ar bob hin. HARMER.—*Tŷ ehang,* mae y gair yn arwyddo tŷ yn yr

hwn y byddo amryw deuluoedd yn cyd fyw, yr hyn sydd yn dra chyffredin yn y gwledydd Dwyreiniol. Gwell yw trigo yn unig mewn gwŷdd-dy ar ben tŷ, na thrigo yn y fath gymdeithas, os budd un wraig gynhyrfus, anynad yno. Gwel Nod. ar pen. 19. 13.

Adu. 12. Nid yw dynion da yn cenfigenu wrth lwyddiant y drygionus; y maent yn gweled fod melldith arnynt.

Adn. 16. *Ffordd deall,* yw yr ymarweddiad hwnw a ganmolir, ac at yr hwn yr annogir dynion yn yr Ysgrythyrau.—*Cynnulleidfa y meirw,* yw y rhai hyny ydynt yn dïoddef yn uffern am eu pechodau, fel y bydd y rhai oll ydynt yn gwrthod byw i Dduw; cymh. pen. 2. 18. a 9. 18.

Adn. 17. *A'r neb a garo win ac olew, ni bydd cyfoethog.* Mae buchedd o afradlonrwydd, ac ymdreigliad mewn pleserau bydol, yn sicr o ddwyn dinystr ar ddynion.

Adn. 18. Mae y cyfiawn yn cael ei waredu o drallod yn aml, a'r drygionus yn dyfod yn ei le ef, ac felly yn ymddangos fel pe y'i rhoddasid yn iawn drosto ef; fel y grogwyd Haman ar y crogbren a ddarparasai efe i Mordecai. Gwel Esa. 43. 3, 4.

Adn. 19. Mae nwydau afrëolaidd yn anrheithio holl fwynderau pob cymdeithas.

Adn. 22. Mae y rhai a feddant ddoethineb yn gwneuthur pethau mawrion yn aml, ïe, yn erbyn y sawl ydynt dra hyderus yn eu cadernid.

Adn. 24. Mae balchder ac uchder yn gwneuthur dynion yn nwydwyllt, a chynddaredd balchder yw y creulonaf o bob digofaint; y mae fel ffwrn yn ysu pawb a ddelo yn agos atto. A chyda phrïodoldeb y gellir galw y dyn digofus *y balch a'r gwatwarwr uchel.*

Adn. 25,26. Yma y darlunir y dïog a'i drueni; ei ddwylaw a wrthodantweithio mewn galwedigaeth gyfreithlawn, trwy yr hon y gallai ennill bywiolaeth onest; eto ni's gall lai na chwennychu golud, pleser, ac anrhydedd, y rhai ni's gellir eu cyrhaedd ond trwy lafur: ond y cyfiawn a'r diwyd a ddiwellir â'u dymuniadau.

Adn. 27. Pan gymero dynion arnynt fod yn sanctaidd er mwyn cael cyfleusdra i wneuthur drwg, pa mor ffiaidd raid fod y cyfryw ymddygiad yn nghyfrif yr Arglwydd cyfiawn, yr hwn sydd yn adnabod dirgelion y galon!

Adn. 28. *Ond y gwr a wrandawo, a lefara yn wastad,* neu yn argyhoeddiadol. Y meddwl yw, y bydd i'r hwn a dystiolaetha yn gywir y peth a ŵyr, gynnyrchu argyhoeddiad o wirionedd ei dystiolaeth yn y sawl a'i gwrandawo. DAVIDSON.

Adn. 29. Mae yr annuwiol fel pe beiddiai fygythion y ddeddf, a cheryddon rhagluniaeth; ond y mae y duwiol yn barod i ofyn, Pa beth a gais yr Arglwydd genyf?

Adn. 30, 31. Dylid bod yn ddyfal yn yr arferiad o foddion;

ond wedi y cwbl, o'r Arglwydd yn unig y mae dïogelwch ac iachawdwriaeth yn mhob ystyr; ac yn enwedig yn ein milwriaeth ysbrydol, nyni a ddylem gymeryd attom holl arfogaeth Duw; ond rhaid i ni ymnerthu yn yr Arglwydd, ac yn nghadernid ei allu ef, os mynwn lwyddo.

## PEN. XXII.

Adn. 2. *Y tlawd a'r cyfoethog a gyd-gyfarfyddant*;—Maent yn cyd fyw, ac mewn angen y naill o gynnorthwy y llall; ac ewyllys Duw, Creawdwdwr pob un o'r ddau, yw bod iddynt ofalu y naill am ddedwyddwch y llall. Dylai tlawd a chyfoethog gofio hefyd, er fod cryn wahaniaeth yn amgylchiadau eu bywyd yma, eu bod, y naill fel y llall yn euog ger bron Duw; a bod cystal croesaw i dlawd a chyfoethog wrth orsedd gras.

Adn. 3. *Ac a ymgùdd*, hyny yw, efe a ddefnyddia foddion prïodol i ymddïogelu rhag y drwg a fwriedir. Felly y mae ffydd yn rhag-weled y drwg a ddisgyn ar bechaduriaid, ac yn ffoi at Iesu Grist am noddfa ddïogel rhag yr ystorm.

Adn. 5. Mae ffordd pechod yn ofidus a pheryglus; ond ffordd dyledswydd sydd ddïogel a hyrwydd.

Adn. 6. Dylem hyfforddio plant, nid yn y ffordd y *mynnent* fyned, yn ol eu calonau llygredig; ond yn y ffordd y *dylent* fyned; a'r hon, os ydych yn eu caru, y mynech iddynt fyned ynddi. Dylid dysgu pob plentyn am y Gwaredwr can gynted ag y byddo modd; cymh. Gen. 14. 14.

Adn. 8. *A gwïalen ei ddigofaint ef a balla.* Mae gwïalen yn cael ei defnyddio yn aml yn arwydd-lun o allu neu awdurdod; ac ystyr y geiriau hyn yw, y bydd i'r rhai a gam arferont eu gallu, ei golli yn fuan.

Adn. 9. Yma rhoddir y *llygad* am y meddwl; ac y mae llygad hael yn dynodi calon haelfryd, ac yn cael ei ddefnyddio yn gyferbyniol â llygad drwg, a meddwl cenfigenus, Gwel Deut. 15. 9. a 23. 54, 56. Matt. 20. 15. Marc 7. 22.

Adn. 11. Mae *gras*, neu diriondeb gwefusau yn cael ei gyferbynu â gwefusau trofäus, a grybwyllir yn pen. 4. 24; a dynoda y geiriau y bydd syniadau, iaith, ac ymddygiadau yr hwn a gàr lendid calon, o duedd hawddgar; a'r brenin doeth a'i hadnabyddo, a fydd yn gyfaill iddo, yr un modd a phob dyn doeth. DAVIDSON.

Adn. 12. *Llygaid yr Arglwydd a gadwant wybodaeth*, neu, yn hytrach, y sawl a'i meddo.

Adn. 13. Siarada y dïog lawer am beryglon oddi allan, heb ystyried fod ei wir berygl oddiwrth y dïafol, y llew rhuadwy sydd o fewn, ac oddiwrth ei ddïogi ei hun yr hwn sydd yn ei ladd ef.

Adn. 14. *Ffos ddofn yw genau gwragedd dieithr*, dichellgar a dinystriol. Arferir gwneyd pydewau yn Syria o bwrpas i ddal

bwystfilod gwylltion; ac mor ddichellgar y maent yn cael eu gorchuddio gan yr helwyr, fel y syrthiai y teithwyr annghyfarwydd iddynt yn ddifeddwl, oddieithr eu rhybuddio yn aml gan yr arweinyddion craffus.—*Y neb y byddo yr Arglwydd yn ddig wrtho a syrth yno.* Yr unig rai a ddaw dan y cymeriad yma yw y rhai ydynt yn meithrin cariad at bechod, ac yn parhau i wrthwynebu ewyllys datguddiedig Duw yn fwriadol.

Adn. 28. *Na symmud mor hen derfyn,* terfynau etifeddiaethau treftadol oeddynt dra chyssegredig yn mysg yr Israeliaid yn enwedig, fel rhodd Duw i'w henafiaid, ac iddynt hwythau ar eu hol. A pharasai yr Arglwydd, fel Brenin Israel, i gyfreithiau nodedig gael eu sefydlu yn mysg y genedl, er sicrhau paräad y rhandiroedd treftadol yn y gwahanol deuluoedd, gan hyny yr oedd bod i un geisio helaethu ei dreftadaeth ei hun, â'r eiddo ei frawd tlawd, yn drosedd dirfawr yn Israel; a dïau nad ydyw ymdrech gorwancus llawer yn ein gwlad a'n hoes ni, i "gydio maes at faes," yn ganmoladwy yn nghyfrif Duw; cymh. Deut. 19. 14. a 27. 17.

## PEN. XXIII.

Adn. 2. *A gosod gyllell ar dy geg, os byddi ddyn blysig;* iaith rymmus yw y geiriau hyn yn arwyddo y duedd ddinystriol sydd mewn annghymedroldeb Mae gormodedd mewn bwytta neu yfed yn ffiaidd yn ngolwg pob dyn doeth; yn enwedig yr olaf, yr hyn a arweinia i arferiad iaith gyffrous, ac ymddygiad trahaus; yr hyn yn mhresenoldeb tywysog tra arglwyddiaethol a barai fod bywyd dyn mewn perygl mor fawr a phe rhoisai gyllell ar ei wddf, neu geg. DAVIDSON.

Adn. 4, 5. Yma y cawn ni gynghor rhagorol rhag bydolrwydd; a'r rheswm cryf am hyny yw, am na all pethau y bywyd hwn fod yn rhan gymhwys i enaid. Ni's gall y rhai tynaf eu gafael ynddynt, eu dal byth, na'u dal yn hir yn eu gafael.

Adn. 5—8. *Y drwg ei lygaid,* neu y cenfigenus. Yma fe'n cynghorir i ochelyd pwyso ar neb, yn enwedig y rhai na's byddont yn ddi ragrith.—*Canys fel y meddylia yn ei galon, felly efe a ddywed wrthyt;* neu "felly y mae efe; efe a ddywed wrthyt, &c." BOOTHROYD.—*Y tammaid a fwytteaist a fwri i fynu;* hyny yw, efe a deimla pan ystyrio, nid yn unig yn annghysurus fel un a fyddai yn glaf iawn; ond yn ofidus am fod a wnelai â'r fath grëadur rhagrithiol di waelod, fel pe buasai yn gyfaill.

Adn. 10, 11. Mae yr amddifaid dan nawdd arbennig Duw, efe yw eu Gwaredwr hwynt, yr hwn a'u hymddiffyn, ac i'r perwyl yma y mae efe yn *nerthol,* ïe yn Hollalluog.

Adn. 13, 14. Mae sylw manol yn cadarnhau y gosodiad fod y sawl a geryddir yn gymhwys yn moreu yr oes, yn gochel camweddau ysgeler a arweiniant i farwolaeth waradwyddus, ac yn gyffredin yn rhodio yn ffordd bywyd tragywyddol. Mae yn eglur fod

yr ymadrodd *curo â gwialen* yn ddynodawl o holl gylch hyfforddiad da, yr addysgu, y rhybuddio, y ceryddu, a'r cwbl. DAVIDSON.

Adn. 19—28. Mae yr Iachawdwr bendigedig, yr hwn a ddug fywyd ac anllygredigaeth i oleuni yn ein byd tlawd ni, yn ein cynghori â holl dynerwch y tad anwylaf, i wrando a bod yn ddoeth; ac yn amlygu y parodrwydd mwyaf i dywys ein calonau yn ei ffordd uniawn ei hun. Yma y cawn ni yr alwad fwyaf difrifol ar ieuenctyd i dderbyn cynghorion eu rhïeni duwiol, a dal arnynt. Os cyfarwyddir y galon yn ddigyfeiliorn, bydd yr ymarweddiad yn addas.—*Pryn y gwir, ac na werth ef;* bydd yn ewyllysgar i ymadael ag unrhyw beth er ei fwyn; ond nac ymâd â gwirionedd am bleserau, anrhydedd, cyfoeth, na dim a fedd y byd hwn.—*Moes i mi dy galon.* Y galon y mae Duw yn ofyn genym. Ni's gwiw i ni feddwl am ranu y galon rhwng Duw a'r byd; rhaid iddo ef ei chael yn llwyr, neu ni fydd a wnelo â hi. Edrychwn ar rëol gair Duw, goruchwyliaeth ei ragluniaeth ef, ac esamplau da ei bobl ef.—Rhoddir rhybuddion neillduawl yn erbyn y pechodau mwyaf dinystriol i ddoethineb a gras yn y galon. Yma rhoddir gocheliadau neillduol i ieuenctyd i ochel y llwybrau sydd yn arwain i annghymedroldeb. Mae hudoliaethau mawrion i'r pechod yma, ac y mae yn anhawdd encilio o honaw; gan hyny goreu yw gochel yr achlysuron a arweiniant iddo.

Adn. 29—35. Mae Solomon yn ein rhybuddio yn y modd mwyaf difrifol a dwys yn y geiriau hyn i ochel meddwdod. Rhaid i'r neb a fynnont ymgadw oddiwrth bechod, gilio yn mhell oddiwrth yr achlysuron o honaw, a gwylio yn ddyfal rhag dyfod o fewn cyrhaedd ei hudoliaethau, gan ystyried y gosbedigaeth yr arweina iddi, oddieithr ei rhagflaenu trwy edifeirwch grasol. Mae y meddwon yn meithrin gwae a gofyd iddynt eu hunain yn wirfoddol: ac y mae ymarfer â gwlybyroedd meddwol yn arwain dynion, nid yn unig i feddwdod; ond drwy hyny i amrafaelio â'u gilydd, gan fod yn drahaus, ac yn chwyddedig eu hymadroddion, gan draethu o'u calonnau llygredig bethau croes i reswm, gwyleidd-dra, a chrefydd. Mae y meddwon yn eu gosod eu hunain yn y perygl mwyaf i syrthio yn ebyrth i angau anamserol, a damnedigaeth dragywyddol, fel pe baent yn cysgu ar ben hwylbren uwch ben y dyfnder trochionog; eto yn eithaf dïogel yn eu tyb eu hunain; heb ofni perygl pan fyddo dychryniadau yr Arglwydd o'u blaen, na theimlo oddiwrth farnedigaethau Duw pan fyddont arnynt. Mor ddiffygiol o rinwedd ac anrhydedd yw y meddwyn, mor arswydus y mae ei gydwybod wedi ei serio mewn dideimladrwydd, fel nad oes arno gywilydd dywedyd, *Mi a'i ceisiaf drachefn.* Gan hyny tra rhesymol yw ein cynghori i ymattal cyn dechreu. Pwy meddiannol ar synwyr cyffredin, a feithrinai y fath ymarferiad enbyd, neu a ymwerthai i bechod sydd yn arwain i'r fath euogrwydd a thrueni, ac yn gosod dyn mewn perygl beunydd i farw

yn orphwyllog, a deffroi yn uffern.—E ymddengys fod Doethineb yn llefaru yn y pennodau hyn eto, fel yn nechreu y llyfr; ac y mae yn addas golygu y geiriau fel cynghorion Crist i bechaduriaid.

## PEN XXIV.

Adn. 3. *Trwy ddoethineb yr adeiledir tŷ*, neu dylwyth, fel yn pen. 14. 1. Gen. 39. 4. Mae yr ymadrodd yn yr iaith wreiddiol yn yr amser dyfodol, yn cynnwys cynghor ac addewid yn hytrach na thystiolaeth, "Adeilader dy dŷ trwy ddoethineb." Mae twyll ac annonestrwydd yn ymddangos y ffordd rwyddaf i gyfoeth yn aml; ond pwyll a duwioldeb a arweiniant ar hyd y ffordd sicraf i lwyddiant. DAVIDSON.

Adn. 5. *Gwr doeth sydd nerthol.* Mae ei ddoethineb yn ei alluogi i lunio amrywiaeth mawr o beiriannau, trwy y rhai y gall efe wneyd gwaith cant neu fil o wyr ei hunan. I'r un perwyl yr oedd gwir-air Arglwydd Bacon, "Nerth yw gwybodaeth.". O ddoethineb y mae pob dysgeidiaeth rifyddedigol, a gwybodaeth gelfyddydol yn deillio, cymhwysiad ymarferol o'r hyn sydd yn cynnyrchu gorchestion mewn nerth tra rhagorach nac unrhyw rym anifeilaidd, neu gryfder gewynawl a adnabuwyd erïoed. Synwyd y byd lawer gwaith gan effeithiau rhyfeddol gallu moesol doethineb, neu wir grefydd: a pha mor ryfeddol yr ymddengys y rhai hyn pan fyddo yr holl genhedloedd wedi ymuno yn un frenhiniaeth, dan Grist yr Arglwydd!—Mae rhai drwy olygu y geiryn *geber* yn berwyddair yn lle enw, yn darllen y geiriau fel hyn, "Y doeth a orchfyga y cadarn, a'r gwr pwyllog a ffynna ar y nerthol." DAVIDSON, BOOTHROYD.

Adn. 9. *Bwriad y ffol sydd bechod:* wrth ffol yma y golygir "dyn drygionus." GILL, CLARKE.

Adn. 10. Yr ydym yn dra thueddol i lwfrhau mewn adfyd, ac annobeithio cael ymwared o'n trallodau; ond, ymgalonogwn yn yr Arglwydd, ac efe a nertha ein calonau.

Adn. 11, 12. *Gwared y rhai a lusgir i angau*, wedi syrthio i ddwylaw lladron ac yspeilwyr, ac yn cael eu trin yn greulon ganddynt. GILL. Neu hwyrach fod yma gyfeiriad at yr aferiad oedd yn mysg yr Iuddewon, o floeddio o flaen un a arweinid i'w ddihenyddio, "Mae y gwr hwn yn cael ei arwain yn awr i'w ddihenyddio am y cyfryw gamwedd; a'r cyfryw rai ydynt y tystion i'w erbyn; pwy bynnag sydd yn gwybod ei fod ef yn ddi niwed, deued yn mlaen a phrofed." DODDRIDGE. Yr ystyr yw, Os gweli ddyn yn cael ei ddal a'i ddyfarnu yn annghyfiawn, pan y mae ar dy law di ei waredu, ac ni's gwnei; ond ymesgusodi, gan ddywedyd, Nid wyf fi yn ei adnabod, nac yn gofalu pa beth a wneir iddo ef; oni ofyn Duw ei waed ef oddiar dy law, am i ti esgeuluso amddiffyn a gwaredu dy gyd-ddyn? BOOTHROYD.

Adn. 13, 14. Fe'n cymhellir i lafurio am wybodaeth drwy yr ystyriaeth o'r hyfrydwch a'r buddioldeb a berthyna iddi. Mae pawb yn blasu yr hyn sydd beraidd i'r archwaeth; ond y mae llawer heb flas ar y pethau ydynt beraidd i enaid puredig, ac yn ein gwneuthur ni yn ddoeth i iachawdwriaeth.

Adn. 15, 16. Gall y cyfiawn syrthio fel y teithydd trwy dramgwyddo wrth ryw rwystr yn ei ffordd; ond y mae efe yn cyfodi drachefn, ac yn myned rhagddo yn ei ffordd gyda mwy o ofal a chyflymder. Nid yw y geiryn gwreiddiol a arferir yma yn cael ei ddefnyddio i ddynodi syrthio i bechod, un amser; gwel pen. 11. 5—15. a 13. 17. a 17. 20: ac y mae y cyssylltiad agos sydd rhwng y ddwy adnod, yn dangos yn eglur mai syrthio i drallodau neu brofedigaethau a olygir yma. DAVIDSON, BOOTHROYD.

Adn. 21, 22. *Ac nac ymyrr â'r rhai anwastad*, neu, "y rhai sydd yn ymroi i gyfnewid" cyfreithiau a sefydliadau a osodasid gan frenin doeth, yr hwn a arweinir wrth ewyllys datguddiedig Duw. Mae duwiolion yn ddeiliaid tangnefeddus, ffyddlon, di fradwriaeth bob amser. Gall fod achos ac amgylchiadau yn galw am gyfnewid peth er gwell; ond y mae rhai na's mynnant fod yn esmwyth, ond sydd yn ymhyfrydu i greu terfysg yn barhaus, yn llawn grwgnachrwydd ac anfoddlonrwydd i'w cyflwr presenol, ac awydd am ryw newydd deb yn wastadol. Oddiwrth y cyfryw rai y cynghorai y gwr doeth ei fab i ymgadw.

Adn. 26. *Pawb a gusana wefusau y neb a attebo bethau uniawn*, hyny yw, a'i parchant ac a'i hanrhydeddant, canys arwydd o hyn oedd y cusan, gwel Gen. 41. 10. 1 Bren. 19. 18. Hos. 13. 2. GILL. DAVIDSON.

## PEN. XXV.

Adn. 1. *Dyma hefyd ddiarhebion Solomon*, sef yr hyn a gynnwysir yn y bennod hon a'r pedair pennod ganlynol. Mae yn ymddangos fod y ddwy ran flaenorol o'r Llyfr hwn, pen. 1—9. a pen. 10—24., yn mysg y llyfrau cyssegredig yn amser Hezecïah; ond y rhan olaf yma a gasglwyd ac a chwanegwyd at y gyfrol sanctaidd gan *wyr Hezeciah*; gwyr enwog ei lys ef; o ba rai, heblaw Elïakim a Sebna, yr oedd Esaiah, Mica, a Hosea; yn ddynion ysbrydoledig, a hynod o gymhwys i'r gwaith yma. DAVIDSON, CLARKE. Meddyliai y beirniad craffus DR. LIGHTFOOT, mai pan lanhawyd y deml yn nechreuad teyrnasiad Hezeciah, y cawsid y rhan yma o ddiarhebion Solomon, a bod gwyr Hezeciah wedi eu hadysgrifio o'r hen law ysgrif gyntefig, yr hon ond odid oedd wedi ei difwyno a'i hanmharu yn ddirfawr gan amser ac esgeulusdra.

Adn. 2. Gogoniant Duw yw, bod ei holl amcanion a'i weithredoedd yn anchwiliadwy, ac anolrheinadwy i'w holl grëaduriaid; ac na's gall y bodau mwyaf deallus a grewyd ganddo, ddir-

nad dim am dano, ond yn ol y datguddiad a welo efe yn dda ei wneyd o honaw ei hun.—*Anrhydedd brenin yw chwilio peth allan*, ymofyn am y gwirionedd, a dwyn gweithredoedd y tywyllwch i oleuni. Neu chwilio i fewn i oleuni datguddiad Dwyfol, i'r hwn berwyl yr oedd yn ofynol i bob brenin yn Israel feddu eiliad o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, yn yr hwn yr oeddynt i ddarllen beunydd. Mae teml gwirionedd dwyfol yn anfesuredig ac yn gyflawn o ogoniant, ac ni's gallwn trwy ein hegnïadau penaf, ond prin gyrhaedd ei phyrth hi yma, yr hyn sydd yn fendith annhraethol; ond yn y byd a ddaw, caiff y saint ymlenwi o'i hyfrydwch yn dragywyddol.

Adn. 4—7. Megis y mae anmhuredd yn niweidiol i'r arian, felly y mae llys-swyddwyr annuwiol i'r brenin: gan hyny call y gwna y brenin a symmudo y cyfryw rai o'i ŵydd, ac a ddyru ddynion da yn eu lle.

Adn. 10. *Rhag i'r neb a fyddo yn gwrando ddwyn gwarth arnat ti*, neu dy gollfarnu, fel un yn ymddwyn yn waradwyddus trwy fradychu yr ymddiried a roddasid ynot.

Adn. 11. Mae cynghor neu gerydd a rodder yn ei bryd yn hynod o ddymunol: ac y mae y geiryn a gyfieithir yma *mewn amser*, yn arwyddocau yn llythyrenol, "ar ei olwynion," medd dysgedigion, er dynodi yr angenrheidrwydd o fod yn fywiog i gymeryd gafael yn yr adeg fwyaf manteisiol i'r gair a ddyweder gael yr argraff ddymunedig. Arferid dwyn ffrwythau i'r bwrdd mewn gwleddoedd breninol yn y gwledydd Dwyreiniol, mewn basgedi o waith arian cywrain: ac y mae yn debyg mai at hyny y mae y cyfeiriad yma.

Adn. 13. *Megis oerder eira*, neu iâ, yr hwn a ddefnyddid i oeri gwin, neu ryw ddïodydd eraill, trwy yr hyn y'u gwnelid yn llawer mwy bywiocäol i'r sychedig. Rhaid fod dïod oer mewn bri mawr yn amser y cyhauaf, mewn gwlad ammaethyddol, o hinsawdd boeth, pan y byddai yn rhaid i'r trigolion fod lawer allan yn yr awyr agored. Felly y mae cennad lwyddianus yn ddymunol i'w feistr, yr hwn fyddai yn y pryder mwyaf rhag mai aflwyddo a wnelai yn ei genhadaeth.

Adn. 14. Mae y sawl a gymero arno dderbyn neu roddi yr hyn ni's gwnaeth erioed, yn debyg i'r cwmmwl boreuol a siomma y sawl a ddysgwylio am wlaw.

Adn. 16. Yr oedd helaethrwydd o fêl yn Palestine; cair ef yn y coed eto, fel yn amser Saul, 1 Sam. 14. 24. Bu effeithiau arswydus yn dilyn bwyta gormodedd o fêl cyn hyn. Dywedir fod lluaws mawr o'r Saeson a ddylynasent Edward I. i Judea, wedi meirw o herwydd bwytta gormod o fêl, ac o ffrwythau mewn hin boeth. Efallai mai ysbryd y ddiareb yw, fod y sawl a chwilio ormod i ddirgeledigaethau, yn debyg o gael ei ddyrysu ganddynt. DAVIDSON.

Adn. 17. *Cadw dy draed o*, neu "Na ddos yn rhy aml i" *dŷ dy gymmydog, &c.—A'th gasau*, neu oeri yn ei gariad attat, fel y mae y gair yn arwyddo yn aml; gwel Nod. ar Rhuf. 9. 6—13.

Adn. 19. *A throed wedi tyrfu*; "troed o'i gymal," yn ol y Saesoneg.—"Troed cloff." BOOTHROYD. Mae ymddiried mewn dyn anffyddlawn yn boenus a gofidus; pan rodder unrhyw bwysau arno, mae nid yn unig yn methu ein dal; ond yn peri gofid dwys i ni gyda siomedigaeth.

Adn. 20. Y peth a alwn ni *soda*, oedd nitr yr henafiaid, yr hwn pan dywallter unrhyw sur-lyn arno, a bair ymferwad cryf; felly y mae y fath annghyfaddasrwydd mewn canu caniadau i galon drist, at esmwythau arni, ac sydd mewn gwinegr i'w cymhwyso at nitr, yn peri cyffröad ar nwydau gwrthwynebol yn y galon, yn lle symmud y tristwch ymaith.

Adn. 22. *Canys marwor a bentyri ar ei ben ef.* Defnyddia yr adeg y bydd dy elyn mewn cyfyngdra i ddangos caredigrwydd iddo, yr hyn a bair iddo fwrw ymaith ei elyniaeth, fel y bwriai farwor oddiar ei ben; neu a dawdd ei galon haiarnaidd, fel y toddir yr haiarn yn y ffwrn. Dyfyna Paul yr ymadrodd yma o gyfieithiad y LXX. Cymh. Exod. 23. 4; a gwel Nod. ar Rhuf. 12. 20.

Adn. 23. *Gwynt y gogledd a yrr y gwlaw ymaith;* neu yn hytrach "a ddwg y gwlaw," canys yn Jerusalem, o'r gogledd y mae y gwlawogydd amlaf, gan fod gogledd-wynt yn dwyn tarthion Môr y Canoldir i'w ganlyn; felly y mae tafod athrodgar, neu sisialaeth mewn cymdeithas, yn magu drwg dyb fod rhyw beth yn cael ei ddweyd yn ddrwg am ryw un gwyddfodol, a hyny yn achlysuro wynebpryd digllawn.

Adn. 26. *Gwr cyfiawn wedi syrthio i lawr ger bron y drygionus*, wedi llithro, tramgwyddo, neu gyfeiliorni.—*Sydd megis ffynnon wedi ei chymmysgu â gofer budr*, fel y mae yn gofidio ei gyfeillion, ac yn gwarthruddo ei gymeriad ei hun, fel y mae budreddi wedi ei fwrw i ffynnon, yn ei halogi a'i gwneyd yn llwyr ddi fudd. WILLIAMS. Un dull a arferid i flino gelyn, oedd bwrw budreddi i'w ddyfroedd; ac efallai fod Solomon yn cyfeirio at hyny yn y geiriau hyn. HARMER.—Pan arweinier y cyfiawn i bechod, y mae mor niweidiol a phe byddai ffynhonau dinas wedi eu gwenwyno. —*Miniature Commentary.*

Adn. 27. SCOTT a gynnygiai ddarllen y geiriau hyn mewn modd boliadol, fel llwybr tebyg i osod yr ystyr allan yn oleuach, —"Nid da bwytta mêl i ormodedd; ac a'i gogoniant i ddynion yw ceisio eu gogoniant eu hunain?"

## PEN. XXVI.

Adn. 1. Mae gwlaw y cynhauaf mor anfynych ag yw eira yr

haf yn Judea: gwel 1 Sam. 12. 17. Ni's gellid cael darluniadau mwy bywiog i osod allan yr annghymhwysder o anrhydeddu dynion anwybodus, ac anfoesol. Dylid ymofyn am deilyngdod a chymhwysder i dderbyn anrhydedd mewn dyn, cyn ei ddyrchafu.

Adn. 2. Ni wna y felldith a gyhoeddir uwch ben un heb achos, ddim mwy o niwed iddo na'r aderyn bychan a fyddo yn ehedeg uwch ei ben ef. *Min. Com.*

Adn. 3. Yr oedd asynod y gwledydd Dwyreiniol, megis y maent eto, yn rhagori llawer ar asynod ein gwlad ni, mewn maint, prydferthwch, cyflymder, a bywiogrwydd, a llawn cymmaint o angen ffrwyn i'w hattal hwy, ag oedd o angen am y ffrewyll i yru y march. PARKHURST.

Adn 4, 5. Gellir atteb ynfyd, heb ystyried ei wrthddadleuon, neu ei nodweddiad; ac y mae yn eglur fod yr hwn a'i hattebo fel hyn yn debyg iddo ef. Ond attebiad cyfaddas i amlygu gwendid ei achos, a gwaeledd ei resymau, sydd y cyfryw ag y mae ei ynfydrwydd yn ei ofyn er ei ddarostwng.—*Na atteb ynfyd*, pan fyddo yn nwyd-wyllt, neu yn feddw, canys felly, byddi yn euog o fwrw gemmau o flaen moch. *Atteb yr ynfyd, &c.* pan fyddo mewn pwyll; argyhoedda ef o'i ynfydrwydd, cerydda ef yn llym, fel y cywilyddio, ac y byddo efe yn ffiaidd yn ei olwg ei hun. DAVIDSON.

Adn. 6. *A dyrr ymaith y traed*, y meddwl yw, fod y neb a anfona gennadwri gyd ag un annghall, fel pe torrai draed y negeseuwr, a dyoddef niwed a cholled yn y canlyniad, trwy oediad ei gennadwri, neu gam-ddarluniad o honi.

Adn 7. Mae geiriau doethion yn colli eu defnyddioldeb wrth gael eu traddodi gan ffyliaid.

Adn. 8. *Fel un yn rhwymo carreg mewn tafl;* mae carreg wedi ei rhwymo yn llwyr ddi fudd yn y dafl; felly y mae anrhydedd ar un ffol. GILL.

Adn 9. *Fel draen yn myned i law dyn meddw*, neu, "fel cangen ddreiniog yn llaw dyn meddw." BOOTHROYD. Ni ddylai ffyliaid ymyrraeth âg ymadroddion doethion, mwy na dyn meddw â drain. Esgob HALL.

Adn. 13—17. cymh pen. 19. 25. a pen. 22. 13.

Adn. 18, 19. Rhaid i'r rhai a bechant mewn cellwair, edifarhau mewn difrif, neu fe'u dystrywir o herwydd eu pechodau. Dylem fod yn ofalus iawn am gymeriad ein gilydd, na ddywedom ddim y naill am y llall mewn cellwair, y byddai ei gredu yn ddifrifol yn debyg o niweidio nodweddiad neb.

Adn. 20—22. Mae cynhen yn poethi yr ysbryd, ac yn gwneuthur teuluoedd a chymdeithasau yn fflam yn aml; a mynych iawn y cludir cynnud ar y tân hwnw, ac y'i cedwir i fynu gan athrodwyr a hustyngwyr.

Adn. 23. Fel y mae *sorod arian* yn ymddangos yn hardd-deg,

ac yn gorchuddio y clai, felly y mae *gwefusau poeth*, hyny yw, gwefusau gwenieithgar, yn proffesu caredigrwydd cynnes iawn; er mor ddymunol y gallant fod, nid ydynt yn ddim amgen na golchiad twyllodrus ar galon ddrwg. BOOTHROYD.

Adn. 27. Cloddio pydew, a threiglo carreg i niweidio eraill, a olygir yma; bydd taledigaeth yn hir weithiau cyn dyfod i un; ond y mae yn sicr o ddyfod i'w ran, pen. 28. 10. Salm 7. 15, 16. Preg. 10. 8. Matt. 7. 1, 2. Y neb a lunio foddion i niweidio eraill, efe ei hun a gaiff ddyoddef. Y fath boen y mae dynion yn ei gymeryd i niweidio eu cyd ddynion! Ond cloddio pydew, treiglo carreg ydyw, gwaith caled i fod wrtho; ac yn y diwedd, gwelir mai parottoi drwg iddynt eu hunain yr oeddynt.

Adn. 28. Mae y celwyddwr yn casâu y sawl y gwnaeth efe gam â hwy, gan wybod ei fod ef yn haeddu ei gasâu ganddynt hwy. Esgob HALL.

## PEN. XXVII.

Adn. 5, 6. Mae ceryddon ffyddlawn, a di rodres, nid yn unig yn well na digofaint cuddiedig; ond yn well na chariad cuddiedig, yr hwn a wenieithio i un mewn pechod er niwed i'w enaid.

Adn 8. Mae gan bob dyn ei le, neu sefyllfa brïodol yn y byd yma, lle y gall fod yn ddïogel a chysurus, a mwynhau bendith Duw. Ond y mae perygl i ddyn gilio oddiar lwybr ei ddyledswydd, ac esgeuluso cydnabod Duw yn ei holl ffyrdd.

Adn. 10. Nac ymddiried am gymmhorth ar geraint o herwydd eu bod yn geraint; ymofyn â'r sawl a fyddo gerllaw i ti, ac a'th gynnorthwyant mewn angen. Ond y mae Cyfaill a lŷn yn well na brawd, a da y gwnawn fod yn ymddiried yn ddïysgog ynddo ef.

Adn. 12, 13. Cymh. pen. 22. 3. a 20. 16.

Adn. 14. *Y neb a fendithio ei gymmydog â llef uchel y boreu pan gyfodo, &c.* Meddylia amryw mai yr hyn a osodir allan yn y geiriau hyn yw, yr anmhrïodoldeb o ganmol hyd yn nod y sawl a fyddont yn teilyngu eu canmol, yn rhy fuan; canys e ddichon canmol dyn yn ddirfawr, cyn rhoddi prawf digonol arno, fod yn niweidiol iddo trwy feithrin balchder ynddo. Gwel Nod. ar adn. 21.

Adn. 15, 16. Gall cynhenau cymmydog fod fel cawod drom, yn ofidus iawn dros amser; ond y mae blinder gwraig anynad fel defni paraus, y mae càn hawsed tawelu yr ystorm, ag yw cael ganddi hithau dewi, neu guddio ei blinder a'i hysbryd tuchanllyd; yr hwn a dyna sylw dyeithriaid mor sicr ac olew, neu beraroglau y ddeheulaw, yr hon y mae agos yn anmhossibl peidio ei harfer ar bob rhyw achlysur. Yr oedd peraroglau y Dwyreinwyr yn hynod o rymmus a threiddgar; ac nid arbedent unrhyw draul i fynnu cael rhai o'r fath orau; gwel 2 Bren. 20. 13. Can. 4. 10. Dat. 18. 13.

Adn. 17. *Haiarn a hoga haiarn, felly gwr a hoga wyneb ei gyfaill*, neu a siriola wynebpryd ei gyfaill, trwy lawenychu ei galon, adfywio ei obaith, ac felly ei gymhell i arferyd egnïadau grymusach, a dyoddefgarwch mwy ymroddawl, yr hyn sydd yn lliniaru llawer ar ofidiau ei oes.

Adn. 18. Er y gall fod galwedigaeth llawer un yn llafurus, a dirmygedig yn ngolwg rhyw rai, eto caiff y sawl a ymröant atti weled fod rhyw beth i'w gael oddiwrthi.

Adn. 19. *Megis mewn dwfr y mae wyneb yn atteb i wyneb.* Mae y beirniaid yn amrywio yn eu cyfieithiadau o'r adnod hon; "Megis y mae dwfr yn dangos y wyneb i'r wyneb, felly y dengys y galon y dyn i'r dyn." CASTELLIO, LE CLERC, GREY, HOLDEN, HODGSON. Gall hyn arwyddo y dichon i ddyn gael adnabyddiaeth o'i galon, anmherffaith a dyryslyd yn wirioneddol, trwy edrych iddi, cystal ag o i wynebpryd trwy edrych arno mewn dwfr. HEWLETT. "Megis y mae wynebau fel wynebau, felly y mae calon un dyn yn atteb i'r eiddo arall." HOUBIGANT, CLARKE. Cyffelyb hefyd yw BOOTHROYD.

Adn. 21. *Felly y mae gwr i'w glod*, neu, felly y mae gwr i enau, neu ymadrodd yr hwn a'i canmolo. Rhoddir nodweddiad dyn i'r prawf drwy glod, fel y profir y metteloedd gwerthfawr yn y ffwrn. Mae clod yn deffroi y meddwl puraidd i fod yn fwy gwyliadwrus a diwyd i gyrhaeddyd yr hyn oll a deilynga glod, ac i ddefnyddio y ddylanwad a'i dylyna i ehangu cylch eu defnyddioldeb, er anrhydedd i Dduw a daioni i ddyn. Ond ar feddyliau anwybodus a halogedig y mae clod yn cael effaith niweidiol yn fwyaf cyffredin, trwy gyffroi hunan-dyb, balchder, ysgafnder, a haerllugrwydd, fel y maent yn syrthio i waradwydd a magl diafol. Mae eraill yn esponio y geiriau beth yn wahanol. Fel y mae y tawdd-lestr yn ysgaru y sorod oddiwrth y metteloedd gwerthfawr, felly y mae cydwybod dyn yn gwahaniaethu yr hyn sydd haeddiannol yn y clod a roddir iddo, a'r hyn nad yw namyn gweniaith, ac felly efe a brofir gan ymadrodd y rhai a'i mawrygant.

Adn. 22. *Er i ti bwyo ffol mewn morter.* Bu rhai cenhedloedd, megys y Tyrciaid, &c., yn arfer cosbi drwg weithredwyr gynt am ryw droseddau ysgeler, drwy eu pwyo i farwolaeth â phestl trwm mewn morter mawr. Ond y mae yn amheus pa un a allwn ni gasglu oddiwrth y testyn yma fod y fath gosbedigaeth yn adnabyddus i'r Iuddewon ai peidio.—*A phestl ym mhith gwenith.* Mae yr Arabiaid tlodion yn y mynyddoedd yn arfer gwneyd math o ymborth maethlawn iawn â gwenith, trwy ei bwyo mewn mortar mawr, nes cael y wisg oddiam dano, ac yna ei ferwi, yr un modd a *rice* i'w barottoi yn ymborth. Mae gwyr a gwragedd yn ennill eu bywioliaeth trwy y llafur yma yn y gwledydd hyny. Eu harfau i'r perwyl yw mortar pren mawr, wedi ei gafnio mewn boncyff praff, â phestlau tua phum troédfedd o hyd, a boncyff trwm o bren ar un

pen iddo; a gogr i ridyllio yr ŷd pwyedig. Pan fyddo dau yn cydweithio, maent yn gyffredin yn sefyll ar gyfer eu gilydd, ac yn taraw y pestl yn y mortar bob yn ail, fel y bydd y gof a'i darawwr yn curo yr haiarn. Mae y llafur hwn yn orchwyl tra chaled gan drymmed fydd y pestl.

Yr addysg a gynnwysir yn y geiriau hyn yw, fod rhai dynion mor gyndyn fel na's gwna, hyd yn nod moddion llym mo'u gwellau; pa beth gan hyny a wneir iddynt heblaw eu gwrthod? Ni's gall dim ond crëadigaeth newydd trwy rymmus weithrediad gras Duw wneuthur y cyfnewidiad angenrheidiol ar bechadur.

Adn. 23—27 Dylai fod genym ryw alwedigaeth i'w dilyn yn y byd yma, ac nid byw mewn seguryd, nac ymyraeth â phethau na's byddom yn eu dëall Mewn gwlad ammaethyddol o fath Judea, rhaid mai cynnyrchion naturiol y wlad a wnaent i fynu ei golud parhaus; nid oedd yr hyn a ennillent yn yspail rhyfel na masnach dramor, ond ansicr; gan hyny yr oedd o'r pwys mwyaf iddynt fod yn ofalus am eu cynnyrchion eu hunain.

## PEN. XXVIII.

Adn. 2. O herwydd camwedd gwlad, aml fydd ei phennaethiaid; neu, "Trwy wrthryfel mewn gwlad, aml fydd ei phennaethiaid," sef blaenoriaid pleidiau. BOOTHROYD Neu "Gormeswyr a lywodraethant arni. HODGSON.—*Ond lle byddo gwr pwyllog synhwyrol y peri hi yn hir:* neu, "Ond trwy wr synhwyrol, adferir trefn." BOOTHROYD.—"Ond lle byddo y bobl yn synhwyrol, tywysog galluog a deyrnasa yn hir." HODGSON.

Adn. 3. Os caiff dynion anghenawg gyfle i ormesu, bydd eu trais yn greulonach na'r eiddo rhai cyfoethocach. HOLDEN, HUNT, HODGSON, BOOTHROYD.

Adn. 4. *A ymladd â hwynt*, nid yn unig, a feia ar eu hymddygad; ond a'u gwrthwyneba yn ddi wyro, er yn addfwyn.

Adn. 5. *Ond y neb a geisiant yr Arglwydd a ddeallant bob peth*, angenrheidiol i ryngu bodd Duw a'i fwynau ef; cymh. 1 Cor. 2. 15. Eraill a ddarllenant, "Dynion drygionus ni's gofalant pa beth sydd uniawn; ond y rhai a geisiant yr Arglwydd a ofalant am dano yn mhob peth;" at ba orchwyl bynnag y'u galwer, eu hymofyniad dïoed yw, Pa beth sydd uniawn? neu, Pa beth a gyfatteba ag ewyllys Duw?

Adn. 8. *Sydd yn casglu i'r neb a fyddo trugarog wrth y tlawd*, hyny yw, mae hyny yn cymeryd lle weithiau yn ol rhagluniaeth Duw.

Adn. 12. *Pan fyddo llawen y cyfiawn, y mae anrhydedd mawr;* neu, pan fuddugoliaetho y cyfiawn ar eu gwrthwynebwyr, ac y'u cyfodir i lëoedd o awdurdod ac ymddiried, yna y dïogelir anrhydedd gwladwriaeth.—*Y chwilir am ddyn*, neu "y dynoethir dyn." PARKHURST. hyny yw, efe a yspeilir o'r hyn oll a fedda.

Adn. 13. Ynfydrwydd yw coledd pechod a'i esgusodi: ac ni's gall y neb a geisio guddio ei bechodau, fwynhau gwir heddwch: ond y neb a gyfaddefo ei bechodau yn ostyngedig mewn gwir edifeirwch, a ffydd ddiffuant, a gaiff drugaredd gan Dduw. Mab Duw yw yr iawn dros ein pechodau ni; a than ddwys deimlad o'n heuogrwydd a'n perygl, nyni a allwn ofyn am iachawdwriaeth o'r drugaredd sydd yn teyrnasu trwy gyfiawnder i fywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Adn. 14. Gwel Jer. 32. 40. Heb. 12. 28, 29.

Adn. 17. *Dyn a wnelo drawsedd i waed neb*, ymadrodd darluniadol o lofrudd.—*A ffy i'r pwll; nac attalied neb ef;* neu, "A ffy i'r pwll, rhag i neb ei ddal." BOOTHROYD. Yr oedd yr henafiaid yn arferol o wneyd pydewau yn gudd-lëoedd i ddïogelu eu trysorau gwerthfawrocaf mewn amserau o berygl gwladol; ac y mae yn ymddangos fod y gair yn cael ei arferyd weithiau er dynodi nawddle fel yma; cymh. pen. 23. 11.

Adn. 20. Y ffordd gywir i fod yn ddedwydd, yw bod yn sanctaidd ac yn onest; ac nid cyfodi etifeddiaeth ar frys, heb ofalu pa un ai trwy gyfiawnder ynte trwy gam.

Adn. 22. Nid yw y neb a brysuro i ymgyfoethogi yn orawyddus, byth yn ystyried yn ddifrifol mor fuan y gall Duw gymeryd ei gyfoeth oddi arno, a'i adael ef mewn tlodi.

Adn. 24. *Dinystriwr*, un yn byw ar yspail.

Adn. 27. *A guddio ei lygaid*, hyny yw, gwrthod sylwi ar eu hangen, na chyfrannu iddynt.

## PEN. XXIX.

Adn. 1. *Ac a galedo ei wàr*, ymadrodd cydmariaethol wedi ei gymeryd oddiwrth ychain afrëolus, yn gwrthod yr iau, ac yn dynodi annghrediniaeth cyndyn, ac anufudd-dod ymroawl, gwel 2 Cron. 36. 13. Jer. 17. 23.

Adn. 4. *Ond y neb a garo anrhegion a'i dinystria hi;* sef anrhegion fel gwobrau am wyro barn; onite gallai unrhyw frenin dderbyn anrhegion yn briodol, a heb anrhegion nid arferir nesau at unrhyw wr mawr yn y gwledydd Dwyreiniol. Ond y mae y geiryn gwreiddiol yn arwyddocau, offrymmau; a hwyrach fod yma gyfeiriad at dywysog yn cymmeryd arno weinyddu yn yr awdurdod a berthyna i Dduw yn unig, trwy faddeu i droseddwyr a gollfarnasid yn gyfiawn yn wyneb y ddeddf ddwyfol, ar dderbyniad digon o anrhegion ganddynt.

Adn. 9. *Pa un bynnag a wnel a'i digio a'i chwerthin, eto ni bydd llonyddwch.* Yr ystyr yw, dangos fod pob rhyw ymdrechion i droi y ffol o'i ffolineb, yn ofer. GILL.

Adn. 10. *Ond yr uniawn a gais ei enaid ef*, hyny ydyw, a gais gadw ei fywyd ef.

Adn. 11. *A'i hattal hyd yn ol*; hyny yw, hyd ryw adeg gyfleus.

Adn. 12. Mae y llywydd a wrandawo ar wenieithiwyr yn sicr o gefnogi y maleisus, a pheri i'w lys gael ei lanw âg yspïwyr ac achwynwyr; a'i holl weision a fyddant yn ddrygionus a maleisus.

Adn. 13. Mae y *twyllodrus* yma yn gyferbyniol i'r tlawd, yn golygu y goludog, a ymddirieda mewn cyfoeth twyllodrus, gwel pen. 22.2.—*A'r Arglwydd a lewyrcha eu llygaid hwy ill dau*, trwy roddi llygaid i weled, a goleuni yr haul iddynt i ganfod yn yn ei lewyrch.

Adn. 18. *Lle ni byddo gweledigaeth*, neu ddatguddiad, o'r fath a roddid i'r proffwydi; *methu a wna y bobl*; neu yn llythyrenol, "dynoethir y bobl," hyny yw, o'u crefydd, eu moesau da, eu hanrhydedd, a'u hamddiffyn.

Adn. 20. Mae gwell gobaith am ddiwygiad yr anwybodus, a'r afradlon, nac am y dyn hunan-dybus, rhyfygus, ac ymrysongar.

Adn. 26. *Ond oddiwrth yr Arglwydd y mae barn pob dyn;* h.y., Efe yw y Goruchaf, ac sydd yn goruwch-reoli barn pawb; gan hyny y doethineb mwyaf yw ceisio ffafr Arglwydd yr Arglwyddi; canys ni all un creadur ein niweidio, ond fel y'i goddefer ganddo ef.

## PEN. XXX.

Adn. 1. Er nad ydyw yr enwau hyn i'w cael yn un man arall, eto nid oes genym un sail i gasglu fel y gwna rhai esponwyr nad ydynt namyn enwau cyfriniol, ac nid enwau rhyw bersonau neillduol. Y golygiad mwyaf hygoel yw, fod *Agur* yn ddysgawdwr cyhoedd, ac mai ei brif ddysgyblion a'i gyfeillion oeddynt yr *Ithiel* a'r *Ucal* yma—*Sef y brophwydoliaeth*; ni ragfynegir unrhyw amgylchiad yma, ond traddodir swrn o addysg dyddorawl trwy yr Ysbryd yr hwn a lefarai trwy Agur; a'r hyn ond odid a ychwanegwyd at y Llyfr hwn gan wyr Hezeciah.

Adn. 2, 3. *Ac nid oes deall dyn genyf, &c.* Gallasid cymhwyso y geiriau hyn yn brïodol at Amos, yr hwn nid ydoedd yn broffwyd, na mab i broffwyd, namyn bugail defaid, hyny ydyw, nid ydoedd wedi cael addysg rëolaidd yn ysgolion y proffwydi, Amos 7. 14. Neu at unrhyw ysgrifenydd ysbrydoledig, yr hwn ni chawsai ei ddysgu yn ieuanc mewn pethau Dwyfol, ac ni dderbyniasai addysg. O ganlyniad ni's gellid cymhwyso y geiriau at Solomon, gwel 1 Bren. 3. 5, 12. HOLDEN.

Adn. 4, 5. *Pwy a esgynodd i'r nefoedd, &c.*, ydynt eiriau a gymhwysir gan ein Iachawdwr atto ei hunan, Ioan 3. 13.—*A pheth yw enw ei fab? &c.* Mae y geiriau hyn yn cynnwys tybiaeth o fod dyn yn anwybodus iawn am Dduw a'i bethau; ac yn enwedig am Dduw a'i Fab ef. Lleferir yma am y Messiah fel person gwahaniaethol oddiwrth y Tad; ond yr oedd ei enw yn ddirgelwch hyd yma. Wrth ei enw, y golygir yma, fel mewn llawer man arall, ei berson, neu ei nodweddiad, nid rhyw enwad

arno yn unig; canys adwaenid Duw yn foreu wrth yr enw Tad, a'r Messïah wrth yr enw Mab, mewn ffordd o ragoriaeth, Salm 2. 7. Felly fe'n dysgir fod y Mab fel y Tad, yn ei berson a'i nodwedd, yn annirnadwy i neb o'i grëaduriaid. Ond y mae digon wedi ei amlygu am Dduw er rhoddi boddlonrwydd i'r sawl a fyno wybod, am ei *holl air* ef, ei fod yn *bur*, yn dra rhagorol mewn ardderchawgrwydd a gwirionedd; a bod pawb a ymddiriedant ynddo ef, ac a'i gwasanaethant mewn ysbryd a gwirionedd, yn ol y datguddiad a roddes efe o honaw ei hun, yn berffaith ddïogel.

Adn. 6. Nid oes un sail i ni i feddwl fod dim yn ddiffygiol yn Ngair Duw; ac y mae ychwanegu dim at ei eiriau ef, yn agoryd y ffordd i gyfeiliornadau a llygredigaethau.

Adn. 7—9. Mae Agur yn gweddïo yn ddoeth yma am ryw sefyllfa ganol, fel y'i eedwid rhag ymylon temtasiynau; efe a ofynai am ei fara beunyddiol, a'i gynhaliaeth wastadol, yn gyfattebol i'w sefyllfa a'i deulu; ac y mae profiad cyffredinol yn dangos fod rhyw sefyllfa ganol yn fwyaf manteisiol i ymarweddiad crefyddol.

Adn. 10. Mae y ddyledswydd bwysig o gariad yn gofyn na byddo i ni guddio camweddau gwas oddiwrth ei feistr: ond y mae y rhybudd cyffredinol a roddir yma yn dra theilwng o sylw, canys os achwynwn heb brawf digonol, darostyngwn ein cymeriad ein hunain dan waradwydd, a byddwn yn agored i gosbedigaeth am gau gyhuddiad.

Adn. 11—14. Dyma ddarluniad o bedwar dosbarth o annuwiolion, y rhai a elwir cenhedlaethau, am eu bod yn ymddangos mewn oesoedd olynol, fel pe disgynnent o dad i fab. (1.) Plant anraslawn. (2.) Rhagrithwyr tywyllodrus. (3.) Dynion beilchion. (4.) gormeswyr creulawn.

Adn. 15. *I'r gele y mae dwy ferch, &c.* Darluniad cyffelybiaethol o syched di dór am waed, yr hyn yw nodwedd y gelëod, y rhai ydynt yn ddarluniau cymhwys o'r uchel-frydig a'r cybyddlyd, y rhai yn eu chwant anniwalledig, a ddarlunir yn mhellach trwy y bedd, y groth anmhlantadwy, y ddaear sech am wlaw, a'r tân am gynnud.

Adn. 17. *A dynn cigfrain y dyffryn.* Yr oedd y sawl a watwarai ei dad, ac a ddiystyrai ei fam, yn rhwym i farw dan gyfraith Moses: ac yma y golygir ei gorff yn cael ei adael ar wyneb y maes, i'w ddyfetha gan adar ysglyfaethus, y rhai, medd naturiaethwyr, a dynant lygaid eu hysglyfaeth yn gyntaf oll.

Adn. 19, 20. *A ffordd gwr gyda morwyn,* neu, "A ffordd gwr yn ei ieuenctyd." BOOTHROYD, ar awdurdod amryw o'r hen gyfieithiadau. Mae y cyffelybiaethau blaenorol yn dangos fod yr olaf yma yn cynnwys rhywbeth na's gellid rhoddi cyfrif am dano, ac na byddai dim o'i ol. Ni's gallai Agur roddi cyfrif am ehediad eryr yn yr awyr, ysgogiad neidr ar y graig, neu symmudiad llong yn y môr; ac nid oedd yr un o'r pethau hyn yn gadael eu llwybr

yn weledig ar eu hol. Mor ddyeithr ac annirnadwy iddo ef ydoedd ffordd gwr yn ei ieuenctyd, yr hwn a hyrddid yn mlaen gan rym ei nwydau, heb ei lywodraethu gan unrhyw egwyddorion sefydlog; ac yn coledd ei gamweddau mor ddirgelaidd yn fynych, fel y byddai yn dra anhawdd eu canfod: felly y mae dichellion merch odinebus, yn anhawdd iawn eu holrhain; am hyny y dylid ei gochelyd yn ofalus, fel un wedi ymarfer â thwyll, ac ymgaledu mewn pechod.—*Hi a fwytty*, a ymhyfryda mewn pleser pechadurus; pen. 9. 17. a 20. 17.—*Ac a sých ei safn*, gan guddio ei chamweddau yn ofalus; ïe, a chyfiawnhau ei hymddygiad; cymh. Nod. ar pen. 7. 14.

Adn. 24—31. *Y morgrug*, gwel Nod. ar pen. 6. 6—8.—*Nid ydynt bobl rymmus*, gelwir yr amrywiol grëaduriaid bychain hyn yn *bobl*, mewn iaith farddonawl, gwel Joel 1. 6. a 2. 2.—Amlygir doethineb a daioni Duw mewn modd neillduol yn yr amrywiol rywogaethau hyn o grëaduriaid.—*Milgi cryf yn ei feingefn.* Gall y geiryn gwreiddiol ddynodi unrhyw grëadur hynod am ei gryfder, ac y mae SCHULTENS, MICHAELIS, a BOOTHROYD, wedi defnyddio y gair "rhyfel-farch," yn lle *milgi*.

## PEN. XXXI.

Adn. 1. *Geiriau Lemuel*, nid y rhai a lefarwyd gan Lemuel; ond y rhai a lefarwyd wrtho; canys y fam a ddarlunir yn llefaru yma. Mae dysgedigion yn methu penderfynu pwy a allai y Lemuel yma fod; rhai a haerant mai Solomon a olygir, am fod y gair Lemuel, fel Jedidiah, yn arwyddocau "un yn perthynu i'r Arglwydd." GRAY, SCHULTENS, HENRY. Eraill a farnant mai rhyw dywysog Caldeaidd ydoedd, gan fod gair Caldäeg yn cael ei arfer dair gwaith yn nghyfarchiad ei fam iddo; a gair arall o derfyniad Caldeaidd. Gallai fod ei fam o'r genedl Iuddewig. PATRICK.

Adn. 6. *Rhoddwch ddïod gadarn i'r neb sydd ar ddarfod am dano*, sef i'r troseddwyr coll-farnedig, pan fyddent ar gael eu dihenyddio, i wneuthur poenau eu hymadawiad yn llai llym a theimladwy iddynt, fel yr arferai yr Iuddewon. WINTLE.

Adn. 10. Yma y canlyn Awdl ardderchog, er darlunio a chanmol gwraig rinweddol, cymdeithas yr hon a ganmolir yn ddïau fel moddion effeithiol i warchod rhag yr hudoliaethau i bleserau pechadurus.

Adn. 11. *Anrhaith*, sef helaethrwydd o bethau dymunol; Sal. 119. 162.

Adn 13. Nid esgeulusai benywod o'r radd uchaf nyddu, neu unrhyw orchwylion teuluaidd eraill, yn oesoedd boreuaf pob cenedl.

Adn. 15. *A'u dogn i'w llancesau;* neu, ac a bennoda eu dogn, sef eu gorchwyl i'w llancesau. BOOTHROYD.

Adn. 16. Ammaethyddiaeth oedd brif ffynhonell cyfoeth yn Palestine, ac yr oedd benywod y gwledydd hyny yn dra chyfarwydd ar bob rhan o'r gorchwylion perthynol iddo.

Adn. 17. *Hi a wregysa ei llwynau â nerth*, cyfeiriad at wisgoedd lled-rydd trigolion y gwledydd Dwyreiniol, y rhai a rwymid ganddynt â'r gwregys pan yn ymbarottôi at ryw galedwaith; gwel Exod. 12. 11. Luc 12. 35.

Adn. 18—20. Yma canmolir ei diwydrwydd, yr hyn a ddarlunir trwy ddweyd na ddiffydd ei chanwyll ar hyd y nos. Yna canmolir ei helusengarwch; ei pharodrwydd i gyfrannu, cystal a'i diwydrwydd i gasglu.

Adn. 21. *Canys ei holl dŷ hi a ddilledir âg ysgarlad*, neu â dillad deublyg, fel y mae y gair yn fwyaf prïodol yn arwyddocâu. Yr oedd hi yn ofalus am ddigon o wisgoedd cynnes i ddilladu ei thylwyth ynddynt y gauaf oer.

Adn. 24. *Ac a rydd wregysau at y marsiandwr.* Yr oedd cryn fasnach yn cael ei wneyd mewn gwregysau, ac arferid llawer dull i'w haddurno. Yr oedd rhai o honynt yn hynod o gostus, a'r gwŷr mawr yn unig a'u gwisgent

Adn. 29—31. Yn yr adnodau hyn cynnwysir canmoliaeth ei thylwyth iddi.—*Rhoddwch iddi o ffrwyth ei dwylaw*, sef y glod a haeddai.—*Yn y pyrth:* lle y byddai cyrchfa fwyaf pobloedd

# LLYFR Y PREGETHWR.

*Bu llawer o ddadleu rhwng dysgedigion, pwy a allai fod awdwr y Llyfr hwn. Y golygiad mwyaf hygoel yw, mai Solomon ydoedd, gan ei fod yn ei alw ei hun yn fab Dafydd. Ac y mae yr hyn a ddywed yr awdwr am ei weithfeydd, ei olud, a'i bleserau, yn cyfatteb yn hynod â'r hanes a gawn ni am Solomon yn hanes y Breninoedd, a'r Croniclau. Mae yn hawdd casglu oddiwrth amgylchiadau a grybwyllir yn y llyfr hwn, na's gallai yr awdwr fod yn ieuanc pan y'i hysgrifenai. Rhaid fod yr awdwr wedi ei ysgrifenu ar gil ei einioes, pan wrth adolygu y gweithfeydd gorwych a wnaethai efe, a'r pryder a'r blinderau a brofasai, a'r pechodau a'r ffoleddau a gyflawnasai, yr addefai mai gwagedd sydd mewn pob peth yn y byd hwn. Felly gan hyny, nyni a allwn gyfrif y llyfr hwn fel prawf o edifeirwch Solomon, ar ol ei wrthgiliad at eilunod dros dymhor.*

## PEN. I.

Adn. 1. *Y Pregethwr;* mae y geiryn gwreiddiol, *Koheleth*, yn dynodi "un a gynnulla," ac y mae yn dra thebygol, oddiwrth amryw ymadroddion yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, fod Solomon yn arferol o draddodi addysg a chynghorion i gynnulleidfäoedd o wrandawwyr, yn ol y ddoethineb ragorol, â'r hon y'i doniasid ef yn oruwch-naturiol, gwel pen. 12. 9, 10; cymh. 1 Bren. 4. 32—34. a 10. 2—8. 2 Cron. 9. 1—7. Mae genym brawfion digonol mewn hanesyddiaeth, y byddai y tywysogion Dwyreiniol, pan yn gweithredu dan y cymeriad o farnwyr, neu ddeddfwyr, yn cyf-

ranu llawer i'r bobl, o'r hyn a gyfrifent hwy yn addysg bwysig, gwel Job 29. 7—15. 1 Bren. 3. 27, 28.—*Mab Dafydd,* sef Solomon; canys ni's gall y darluniad a gawn ni yma o'r Pregethwr, fod yn gweddu i un mab arall i Dafydd.

Adn. 2. *Gwagedd o wagedd;* mae y geiryn Hebraeg yn dra grymmus, ac yn dynodi gwagedd i'r radd eithaf; ac yn y golygiad hyny y'i cymhwysir at eilunod, y rhai "nid ydynt ddim yn y byd." Mae bod yr un peth yn cael ei ail ddywedyd, yn arwyddocâu fod yr hyn a ddywedir yn dra phwysig, ac yn teilyngu sylw difrifolaf y darllenydd. Mae pob daioni crëedig, ar wahan oddiwrth gariad Duw, a'i wasanaeth ef, yn annghyfaddas ac annigonol i'n gwneuthur ni yn ddedwydd. Dyma yw testyn y Pregethwr, ar yr hwn ni's collodd ei olwg drwy y llyfr hwn,

Adn. 3. *Pa fudd sydd i ddyn o'i holl lafur, &c.,* hyny yw, pa fudd ysbrydol, sylweddol, a thragywyddol, a ennilla dyn o'i holl drafferthion gyda phethau amser? Ni's gall yr hyn oll a ennilla efe trwy y cyfryw lafur, wneyd i fynu ddiffygion ei enaid, na diwallu ei ddymuniadau; ni's gallant wneyd iawn am gamwedd ei enaid, na bod yn foddion i'w gadw rhag digofaint: a pha fudd a weinia golud y byd trancedig hwn yn angau, barn, a'r byd tragywyddol?

Adn. 4—8. Mae y Pregethwr yn ymhelaethu mewn egluräad o'i destyn, trwy sylwi ar fyrder einioes, a chyfnewidioldeb parâus y byd anianol. Nid yw wedi ei holl lafur blin, yn ddim nês i ganfod gorphwysdra, na'r haul, y gwynt, neu liferiant afonydd; ac ofer fyddai iddo ddysgwyl gorphwysfa i'w enaid, oddieithr iddo ei chael oddiwrth Dduw.

Adn. 9—11. *Nid oes dim newydd dan yr haul;* yn ymddangosiad natur, neu yn y byd moesol; canys yr unrhyw achosion a gynnyrchant yr unrhyw effeithiau yn mhob oes. DUNELL.—Ofer yw holl ymchwiliadau dyn am ffordd *newydd* i ddedwyddwch: mae pobl yr oesoedd diweddar yn llawn mor anwybodus a'r henafiaid yn hyn. Dylai hyn ein dysgu i beidio dysgwyl dedwyddwch yn y crëadur, a'n bywiogi i ymofyn am fendithion tragywyddol.—Pa ryw gynnifer o bersonau a phethau, a gyfrifid yn fawr iawn yn oes Solomon, ydynt heb unrhyw gôf am danynt erbyn hyn!

Adn. 13, 14. Yn y geiriau hyn, mae y pregethwr yn dangos gwagedd ac annigonolrwydd doethineb ddynol i wneuthur dynion yn ddedwydd, er cymhwysed y gallai hyny ymddangos i gyraedd y dyben yma.—*Y llafur blin yma, &c.* Os mŷn dynion feddu gwybodaeth, rhaid iddynt ei chyrhaedd trwy lafur dybryd iawn, ac o bob llafur, y blinaf a mwyaf nychlyd i natur, yw llafur caled yr ymgeisydd esgud am wybodaeth.—*Gwagedd a gorthrymder yspryd yw y cwbl;* neu, "Ac wele, gwagedd yw hyn oll; ïe, ymborthi ar wŷnt;" hyny yw, mae yn diweddu mewn siomiant gobaith. Cymh. Hos. 12. 2. "Ephraim sydd yn ym-

borthi ar wŷnt," hyny yw, yn dilyn pethau ofer, y rhai a siomant ei ddymuniadau a'i ddysgwyliadau. BOOTHROYD. Felly hefyd ACQUILA, a SYMMACHUS.—Mae pob cyfryw efrydiau, llafur, ac ymchwiliadau, yn annigonol i wneuthur dyn yn ddedwydd: y maent yn achlysuro cystudd a thrallod, ac am hyny, ni's gallant fod yn ddaioni pennaf dyn.

Adn. 15. *Ni ellir uniawni yr hyn sydd gam.* Gellir cymhwyso hyn at aneffeithiolrwydd ymchwiliadau a llafur doethineb dynol i attal drwg neu drueni, neu gyfnewid trefniadau Rhagluniaeth. Nid yw yn cydsynio yn mhob peth â dymuniadau dyn, y mae rhywbeth yn aml yn gwrthdaro ei gynlluniau a'i geisiadau, ac yn baeddu ei ddoethineb, ei ewyllys, a'i ddymuniadau, gwel pen. 7. 13. Esther 7. 9—13.—*Na chyfrif yr hyn sydd ddiffygiol;* mae y pethau ceimion, neu y pethau ydynt angenrheidiol i ddedwyddwch, yn anadnabyddus, neu mor luosawg fel y maent uwchlaw gallu dyn i'w rhifo. Pa faint bynnag a ddichon dyn bydol ei feddu, mae rhywbeth o hyd yn ddiffygiol i beri i'w galon ymdawelu; gwel 1 Bren. 21. 1—6. Mae y darluniad mor gywir hefyd o ddyn, ag yw o'i amgylchiadau. Mae y natur ddynol wedi gwyro oddiwrth berffeithrwydd, ac ni's gall dyn ei hunioni; ni's gŵyr eithafoedd ei diffygion, ac ni's gwiw eu cyfrif yn mhlith pethau hysbys iddo.

Adn. 17. *I wybod ynfydrwydd a ffolineb,* gall y cyfieithiad cyffredin ymddangos yn ddigon cysson a'r cyf destyn, ond y mae DR. BOOTHROYD yn darllen yn dra gwahanol, ac yn dadleu mai "Ac i wybod ardderchawgrwydd a challineb" ddylai y darlleniad fod. Mae ystyr y geiryn gwreiddiol a gyfieithia y Beirniad uchod *ardderchawgrwydd*, yn lled amheus; ond y mae yn eglur mai arwyddocaad y geiryn arall yw callineb, ac nid ffolineb. Llafuriai Solomon am wybod pa beth bynnag oedd ardderchog a mwyaf dymunol a chymhwys i gynnyrchu dedwyddwch presenol. A phrin y mae achos i ni sylwi, ein bod yn meddwl mai yn y bennod nesaf y mae y gwr doeth yn dechreu darlunio ei yrfa wageddol ei hunan ar ol ynfydrwydd a ffolineb.

Adn. 18. *Canys mewn llawer o ddoethineb y mae llawer o ddig.* Nid yw doethineb yma, mwy nac yn yr adnodau blaenorol, yn golygu dim mwy na'r hyn a ddichon dyn ei gyrhaedd trwy astudrwydd a llafur yn unig; a pha mor fanteisiol bynnag y gall ymchwiliadau am wybodaeth fod, neu pa faint bynnag o bleser a ellir gael ynddynt, y mae yn anwadadwy fod gofid a thrallod, yr hyn a arwyddocëir wrth y gair *dig*, yn eu dilyn yn wastadol. Mae y golygiad mwyaf ffafrawl arnynt yn dangos eu bod yn agor golygfa bruddaidd iawn o flaen y meddwl; canys pwy, wrth resymu a theimlo fel y gweddai i fodau rhesymol, a all fyfyrio ar ddiffygion a drygau y fuchedd hon, heb deimlo chwerwder ysbryd, pan y canfydda ei analluogrwydd i wneyd i fynu y naill, nac i sym-

mud y llall? Anfynych y mae y doethaf, e ddichon, yn cyrhaedd yr hyn a hir ddisgwyliasant trwy eu doethineb a'u gwybodaeth. Ofer yw pob ymdrechion i gael allan filoedd o wrthddrychau yn y gwyddion a'r celfion; ychydig a iawn brisia wybodaeth y gwybodus, ac oddieithr bod ei pherchenog yn meddu ofn yr Arglwydd, ni wneir cyfrif yn y byd o'i wybodaeth yn ngolwg y Nefoedd: gan hyny, ai chwithig y cyfrifir dweyd, "Mewn llawer o ddoethineb y mae llawer o ddig," neu dristwch? a bod ychwanegiad gwybodaeth, yn ychwanegiad gofid hefyd? Yn wir, y mae hyn i raddau yn wirionedd hyd yn nod am ddoethineb a gwybodaeth ddwyfol yn y byd yma; oblegid y mae yr hwn sydd ragoraf yn y perchenogaeth o honynt, yn gweled ynddo ei hunan ac eraill, ddwfn achos galar ac ymostyngiad enaid ger bron Duw mewn edifeirwch, yn llawer mwy amlwg nac y gwela rhai tywyllach eu meddyliau. Yfed o ffynnonau anhysbydd gwybodaeth, heb ddagrau, sydd ragorfraint a gedwir hyd y nef i'r rhai oll a wasanaethont yr Arglwydd yn ffyddlawn. DAVIDSON.

## PEN. II.

Adn. 1, 2. Wedi i Solomon ganfod fod gwybodaeth anianol yn annigonol i ddiwallu y galon, efe a benderfynodd chwilio am ddedwyddwch yn mhob rhyw fwynderau anianol. Yr oedd ei galon yn cael ei harwain mewn doethineb o hyd; ac am hyny nid oedd a wnelai â phleserau annghymedrol; bwriai y rhai hyn o'r neilldu, fel yn llwyr annheilwng o'i sylw. Trwy ddynsodweddiad prydferth, y mae efe yma yn darlunio *chwerthin* a *llawenydd* fel personau a gyffröent y sawl a sylwent arnynt, i'w dirmygu ac nid i'w mawrygu. Mae chwerthin a llawenydd, fel y maent yn arwyddion naturiol o ddedwyddwch rhesymol, a llawenydd pur, yn gweddu i ddyn, yr hyn a addefir gan yr Ysgrythyrau a chydsynied cyffredinol dynolryw. Ond yma, fe'i defnyddir yn allegawl, er arwyddocâu eithafion pleser anianol yn unig, llawenydd cyfeddach afrëolaidd, a chrechwen cynnulleidfäoedd gloddestgar. Chwerthiniad yr afradlon, *gwallgofrwydd* yw, mewn cam olygiad y mae yn gwreiddio yn hollawl; ac nid yw yn ddim amgen na drychiolaeth, neu gysgod dïenw a di sylwedd; heb ddim mwy o berthynas rhyngddo a llawenydd sylweddol, nac sydd rhwng breuddwydion gwallgof-ddyn, â rhesymiadau meddwl synhwyrol. Darlleniad BOOTHROYD o'r geiriau sydd fel y canlyn,—"Wrth chwerthin y dywedais, A wyt ti yn wallgof? ac wrth lawenydd, Pa ham y gwnei hyn?" Tuedd naturiol, a chanlyniad cyffredinol, coleddiad annghymedrol ar bleserau anianol, fel pe byddai daioni penaf dyn yn gynnwysedig ynddynt, yw darostwng dyn islaw anifail.

Adn. 3. *Mi a geisiais yn fy nghalon ymroddi i win;* neu, "Mi a gynnygiais yn fy meddwl foddhau fy archwaeth â gwin, eto yn

arwain fy meddwl â doethineb, a gafael mewn ynfydrwydd, hyd oni allwn weled pa le y mae y da hwnw i feibion dynion, yr hwn y dylent ei wneyd dan y nef holl ddyddiau eu bywyd." HOLDEN. —"Chwiliais fy nghalon fy hun, a ymroddwn I i win, a'm calon eto yn cael ei harwain gan ddoethineb; neu, a gofleidiwn I ffolineb, hyd oni welwn yn mha beth y mae y da hwnw, am yr hwn y mae dynion yn llafurio dan y nefoedd, holl ddyddiau eu bywyd." BOOTHROYD.—Mae *gwin* yn y geiriau hyn yn cynnrychioli pob rhyw luniaeth fras a danteithiol, efallai, fel y dynoda mewn mannau eraill, Dïar. 9. 2. Can. 8. 2. Eto penderfynai Solomon na's byddai a wnelai efe â'r pethau hyn yn annghymedrol; ond y byddai iddo ei lywodraethu ei hunan mewn doethineb; hyny yw, doethineb ddynol, yr hyn a olygir wrth y gair *doethineb* yn y Llyfr hwn, ac nid un ddwyfol. Yr oedd efe eisoes wedi canfod ffolineb annghymedroldeb, ac yr oedd doethineb anianol yn collfarnu hyny yn wastadol, er ei haneffeithioldeb i ddïogelu ei pherchenog rhag hyny.—Wrth *gofleidio ffolineb* y golygir, erlyn pleserau cnawdol, porthi dymuniadau ei galon anianol, yr hyn yn nghyfrif y ddoethineb sydd oddi uchod, sydd ffolineb, pa mor gymeradwy bynnag y gall fod gan ddoethineb ddynol.

Adn. 4—8. Mae yn ddïau fod son mawr drwy yr holl fyd adnabyddus yn yr oes hono, am fawredd adeiladau a gweithfeydd Solomon; ac y mae traddodiad yn mysg y Dwyreinwyr hyd heddyw, yn prïodoli iddo ef, holl olion gorwych celfyddyd, yn y gwledydd y bu ef yn teyrnasu arnynt.—*A thrysor penaf breninoedd;* neu, A thrysor "neillduol" breninoedd; sef gemmau, aur, arian, a phethau gwerthfawrocaf y cenhedloedd a orchfygasai ei dad ef; ac hwyrach, anrhegion y tywysogion hyny a geisient fwynhau ei gyfeillgarwch ef.

Adn. 10, 11. Dylai y rhan olaf o adn. 10, fod yn gyssylltiedig ag adn. 11, fel hyn, "A hyn oedd fy rhan o'm holl bleser, bod i mi edrych ar fy holl waith, &c." Nid yw y golygiad cyffredin, sef, bod ei ran ef yn gynnwysedig mewn llawenychu yn ei lafur yn gyson âg amcan yr ymadrodd, yr hyn ydoedd dangos fod ei holl foethau a'i holl lafur, yn flinder a gorthrymder ysbryd; *edrych* ar, neu fyfyrio ar ei holl waith, oedd ei holl ran ef; ni roddent unrhyw foddäad sylweddol, na *budd* iddo ef *dan yr haul*, sef yn y fuchedd hon. Nid oedd dim ynddynt i liniaru drygau presenol, cadw rhag angau neu roddi gobaith o fywyd gwell. DAVIDSON.

Adn. 12. *Ac ar ynfydrwydd a ffolineb,* neu "wag-ogoniant a ffolineb." Mae y geiryn gwreiddiol a gyfieithir yma *ynfydrwydd*, yn arwyddo enwogrwydd a ddeillia oddiar gyfoeth, adeiladau gwychion, &c., a'r gair arall yn arwyddocâu ffolineb y rhai a ddisgwylient ddedwyddwch o'r pethau hyn. BOOTHROYD. — *Canys pa beth a wnai y dyn a ddeuai ar ol y brenin, &c.* Mae Solomon yn y geiriau hyn, fel pe rhoddai awgrym nad oedd unrhyw ffyn-

nonell o bleserau bydol wedi ei hesgeuluso ganddo ef; fel na's gallai y dyn a fyddai mor ffol a dilyn yr un llwybr, gael allan unrhyw ffynnonell newydd o ddedwyddwch daiarol.

Adn. 14. *Y doeth sydd a'i lygaid yn ei ben*, hyny ydyw, y mae efe yn defnyddio y manteision a roddes Duw iddo, fel y dylai. HEWLETT. Mae efe yn edrych megys oddiar ei wylfa; yn canfod ei beryglon, yn ymbarottoi yn eu herbyn, ac yn cyflawni ei ddyledswydd yn ffyddlawn.—*Etto mi a welais yr un ddamwain yn dygwydd iddynt oll*, gwagedd yw eu rhan yn y byd hwn, ac er fod llawer o fanteision yn perthynu i'r doeth ragor i'r ffol yn amgylchiadau y bywyd hwn, eto yr un diwedd fydd iddynt oll.

Adn. 17, 18. *Am hyny cas genyf einioes*, mae y geiryn a gyfieithir *cas* yn dynodi bod heb sylw ar, bod yn ddïofal am, cystal a chasau rhywbeth. Gen. 29. 30. a 31. 33. Yr ystyr yw, nid ei fod ef yn casâu bywyd ar bob golygiad; canys efe a lefarai yn anrhydeddus am fywyd mewn mannau eraill; ond ei fod ef wedi colli pob blas ar fywyd o bleserau, er eu bod dan lywodraethiad doethineb ddynol, ac ar bob mawr wychder, am ei fod yn gweled y byddai yn rhaid iddo adael y cwbl ar ei ol, i un na's teilyngai, ac na's gallai ei fwynhau efallai.

Adn. 19. Meddylir fod y gwr doeth yn cyfeirio yn y geiriau hyn at Rehoboam, ei fab a'i ettifedd; ac efallai ei fod yn gweled y fath ddiffygion ynddo eisioes, nes peri iddo anobeithio hyd yn nod am baräad ei fawredd bydol.

Adn. 24. *Nid oes daioni mwy i ddyn, nac iddo fwytta ac yfed, a pheri i'w enaid gael daioni o'i lafur.* Glyn wylofain yw y byd hwn i'r rhai a feddant fwyaf o honaw; a pha mor ffol yw y rhai hyny ydynt yn eu gwneyd eu hunain yn gaeth weision iddo, pan na's gall arlwy mwy i ddyn na chynhaliaeth i'r corff; a'r mwyaf a all dyn gyrhaedd yn y golygiad yma, yw, bod iddo ganiattâu iddo ei hunan gyfrannogiad sobr, a siriol o honynt, yn ol ei radd a'i sefyllfa. Ond, nyni a ddylem fwynhau daioni yn ein llafur; a defnyddio y pethau a welir i'n gwneyd yn fwy diwyd a siriol gyd a'n galwedigaeth fydol. A rhodd Duw yw hyn. Mae golud yn fendith neu felldith i ddynion, yn ol fel y byddo neu na byddo ganddynt hwy galon i'w defnyddio yn dda.

Adn. 26. *Hynny hefyd sydd wagedd, &c.* Hyny yw, gyda golwg ar y *pechadur*, i'r hwn y mae Duw yn rhoddi meddwl anniwalladwy i lafurio am yr hyn na's gall ei fwynhau nemmawr.

## PEN. III.

Adn. 1—8. Yn y rhan yma o'r bennod, mae y pregethwr yn dangos gwagedd y bywyd dynol, drwy yr ystyriaeth o fod pob peth yn ddarostyngedig i gyfnewid, ac nad ydynt yn parhau onid dros amser byr yn unig: ac y mae dysgwyl dedwyddwch digyfnewid mewn byd cyfnewidiol, yn sicr o ddiweddu mewn siom-

medigaeth· gan hyny ein dyledswydd a'n doethineb ni, yw ein dwyn ein hunain at ein sefyllfa yn y byd hwn. Ceir gweled fod trefn Duw o lywodraethu y byd, yn gyfiawn, doeth a da, drwyddi oll; a'n dyledswydd ninnau yw defnyddio y cyfleusderau tra y maent genym at bob gwaith ac amcan da. Mae amser i farw yn nesâu yn brysur, a llafur a thrallod yn llanw y byd.

Adn. 11. *Efe a osododd y byd hefyd yn eu calonnau hwy.* Mae y gair a gyfieithir yma *byd*, yn arwyddocâu yn ei ystyr brïodol, dirgel, cuddiedig, ac am *galon*, darllener yn y canol. Mae rhai yn darllen y geiriau fel y canlyn, "Hefyd, efe a roddes yr oes yn eu calon," gan feddwl wrth hyny y dueddfryd sydd wedi ei roddi yn meddyliau rhai dynion i chwilio i hanesion helyntion yr oesoedd. Eraill, yn lle oes, a ddarllenant, Dragywyddoldeb, ac a feddyliant fod y geiriau hyn yn cynnwys rhyw awgrym o fod tuedd naturiol mewn dyn i edrych rhagddo am anfarwoldeb; ond y cyfeithiad mwyaf boddhaol o'r adnod hon, efallai, yw yr eiddo PARKHURST, yr hwn hefyd a gymeradwyai HOLDEN, ac amryw Feirniaid dysgedig eraill:—"Efe a wnaeth bob peth yn deg yn ei bryd, eto efe a roddes dywyllwch yn eu canol hwynt fel na's gall dyn o'r dechreu i'r diwedd, gael allan y gwaith y mae Duw yn ei wneuthur." A hynod mor ddyryslyd raid fod ein golygiadau ar grëedigaeth neu ragluniaeth, pan yn barnu oddiar brofiad, neu sylw personol; canys pa fudd a ymddengys o lafur dyn, ond gwagedd, a gofid meddwl yn barhaus? Ond wrth fyfyrio ar ryfeddol ehangder, nifeiri, a mawredd gweithredoedd Duw, a'r yspaid maith o'u dechreuad i'w perffeithiad, mewn cyferbyniad i fychander ein hamgyffrediadau, a'n hanwybodaeth ni, nid yw mor ryfedd fod yr hyn sydd berffeithrwydd tegwch, heb ei weled felly mor amlwg genym ni, fel ag i'n cyffrôi i fawrygu, a'n rhwymo i ymddiried yn Awdwr y cyfan. Mae rhagluniaeth Duw fel rhyw beiriant rhyfeddol o gywrain, yn meddu cyfaddasiad perffaith i'r perwylion y'i ffurfid erddynt, er na's gellir canfod ei rhagoriaeth, namyn gan beiriannydd celfydd. Dirgelwch yw rhagluniaeth, i'w deall pan ddatguddir yr oll o honi. Yr ydym ni wedi ein llunio i gyflawni dyledswyddau bywyd, ac nid i lywodraethu tyngedfen dyn; am hyny ni's rhaid i ni fod yn gwybod holl waith Duw.

Adn. 14. *Mi a wn beth bynnag a wnel Duw, y bydd hynny byth.* Mae ei holl fwriadau a'i weithredoedd ef mor berffaith, fel na's gall un crëadur ychwanegu ato, na chymeryd oddiwrtho:—"Ei gynghor a saif, a'i holl ewyllys a wna."—"Gwnaf, a phwy a'm lluddia?"

Adn. 15. *Duw ei hun a ofyn y peth a aeth heibio;* neu, a eilw yn ol, a ddwg drachefn y peth a aeth heibio. Mae ei ragluniaeth ef yn unffurf yn mhob oes.

Adn. 16, 17. Yma y cawn ddechreuad dosbarth newydd, yr

hwn sydd mewn cyssylltiad union-gyrchol, debygid, â'r bennod ganlynol. Yn y pymtheng adnod flaenorol, cair darluniad cyffredinol o ragluniaeth Ddwyfol, ac yma y mae y pregethwr yn myned rhagddo, i ddarlunio y modd y mae yr annuwiol yn gwneyd yr hyn sydd ddrwg, ac yn tynu digofaint yr Hollalluog arnynt eu hunain. Er fod Duw yn casâu holl weithredwyr anwiredd, eto y mae efe yn goddef i'r drygionus lywodraethu ar y ddaiar yn aml, gweithredu fel breninoedd a barnwyr, y rhai dan ddylanwad y tueddiadau gwaethaf yn fynych, a gyflawnant fwriadau Duw, er yn anfwriadol yn aml, eto yn ei amser da ef, ac er gogoniant i'w enw.—*Ac i bob gwaith,* neu, yn ol HOLDEN, "Ac efe a benderfyna bob gwaith," gan roddi barn gyfiawn i bawb, pen. 12. 14. Meddyliai DR. WARDLAW bod yr ysgrifenydd yn y geiriau hyn yn golygu cenedl amddifad o ofn Duw.

Adn. 18—20. *Fel y byddai i Dduw eu hamlygu hwynt,* neu, "Mae Duw yn eu profi hwynt, fel y gwelont nad ydynt hwy eu hunain namyn anifeiliaid." BOOTHROYD.—*Eu hamlygu hwynt,* hyny yw, amlygu gwir nodweddiad rheolwyr y byd hwn, iddynt eu hunain, ac i eraill, fel y'u hargyhoedder, nad ydynt, o barth pob daioni daiarol, yr hyn yw eu temtasiwn fawr, yn meddu un fantais ragor na'r anifeiliaid a ddyfethir; rhaid iddynt hwythau feirw; ac yna pa beth yw y byd hwn iddynt hwy? DAVIDSON.

Adn. 21. *Pwy a edwyn yspryd dyn yr hwn sydd yn esgyn i fynu?* Mae yr holiad yma yn rhoi ar ddëall i ni mai ychydig oedd yn iawn ystyried, neu yn gwerthfawrogi anfarwoldeb, ac yn ystyried yn brïodol y gwahaniaeth mawr sydd rhwng enaid rhesymol dyn, ag ysbryd neu fywyd anifail. Mae ysbryd dyn yn myned i fynu i'w farnu, ac yna yn cael ei sefydlu mewn cyflwr annewidiol o wynfyd neu drueni; ac mor sicr a hyny, y mae ysbryd anifail yn myned i waered i'r ddaiar; ac yn darfod am dano yn ei farwolaeth.

Adn. 22. Nid oedd yr athrawiaeth am y byd a ddaw wedi ei datguddio mor amlwg dan yr hen oruchwyliaeth, ag ydyw hi dan oruchwyliaeth yr efengyl, felly y casgliad a wnelai Solomon oedd, mai y llwybr doethaf i ni, yw boddloni ar yr hyn a drefner i ni gan Ragluniaeth yn y byd yma, heb flino ein meddyliau yn nghylch pa beth a fydd ynddo wedi i ni ymadael âg ef. BOOTHROYD. Ni's gall, dyn ddwyn dim o'r byd yma gyd ag ef oddiyma, ac oni's gall efe fwynhau dedwyddwch o'r byd hwn fel rhodd Duw, y mae ei gyflwr yn druenus iawn; cymh. pen. 5. 18, 20. a 6. 1, 2. a 7. 9, 10.

## PEN. IV.

Adn. 1. Mae y gwr doeth yn myned yn mlaen yma ar yr un testyn, ac yn dangos fod annghyfiawnder a chreulondeb yn ffynu drwy y byd yn gyffredinol; ac felly y mae y gwledydd na's dyg-

wyd dan ddylanwad yr efengyl hyd heddyw yn llawn trais, anghyfiawnder, a gorthrymder; heb neb yn meddu tuedd, neu wroldeb digonol i amddiffyn y gorthrymedig a dadleu eu cwyn.

Adn. 2, 3. Pe pethau daiarol ac anianol a fyddai ein daioni penaf, buasai anfodoliaeth yn llawer mwy dymunol na bywyd, yn enwedig pan ystyrier y gorthrymderau aml yr ydys yn ddarostyngedig iddynt isod.

Adn. 4. Yn y geiriau hyn nyni a gawn y pregethwr yn troi oddiwrth genhedloedd annghyfiawn, i sylwi ar nodweddiad a rhan unigolion, o hyn i ddiwedd y bennod, ac yn dyfod i'r un penderfyniad yn yr ymchwil yma hefyd, sef mai gwagedd a gorthrymder ysbryd yw y cwbl. Mae effeithiau anfad cenfigen, i'r hyn y mae y dyn uniawn llwyddiannus yn agored, yn fwy na gwrthbwyso yr holl ddaioni tymhorol y mae ei ymddygiad da yn ei gynnyrchu; cymh. Diar. 27. 4.

Adn. 5. *Y ffol a wasg ei ddwylaw ynghyd:* fel y dïog, Diar. 6.10. a 24. 33.—*Ac a fwytty ei gnawd ei hun*, a'i difa ei hun trwy ei ffolineb a'i genfigen; cymh. Diar. 14. 4. Mic. 3. 3.

Adn. 8. *Y mae un yn unig, ac heb ail.* Dyma ddarluniad o'r fath gywiraf o gybydd truenus; yr hwn er na's medda ettifedd i feddiannu ei eiddo ar ei ol ef, eto y mae yn erlyn ar ol cyfoeth yn ddiflino, heb adael iddo ei hunan hamdden i fwynau dim o gysuron amser, ond yn ei amddifadu ei hunan o angenrheidiau bywyd; cymh. pen. 6. 2.

Adn. 9—12. Yma, cawn ddarluniad prydferth o fanteision bywyd cymdeithasol, ragor cyflwr y cybydd yr hwn sydd yn byw wrtho ac iddo ei hun; a gellir ei gymhwyso at undeb prïodasol, cyfeillachol, a chrefyddol. E ddichon cyfeillion gynnorthwyo y naill y llall lawer ffordd, yn enwedig mewn amser adfyd.

Adn. 13—16. Mae Solomon yn y geiriau hyn yn cyfeirio at anwadalwch ffafr y lluaws, hyd yn nod at dywysogion, ac o ganlyniad, y gwagedd o fri tywysogaidd. Meddylia rhai y gall fod yma gyfeiriad at ryw amgylchiad oedd newydd gymeryd lle yn un o'r taleithiau cymmydogawl i Judea.—*Gyd a'r ail mab, yr hwn a saif yn ei le ef.* Blina y bobl ar frenin eu dewisiad, a byddant yn barod i roddi rhyw un ieuanc arall, naill ai ei fab ef, neu ryw un arall, i deyrnasu yn ei le ef. *Y rhai byw oll*, sef holl drigolion y wlad hono, yn cymeryd ei blaid ef, a'r ail fab yma yn dyfod yn bennaeth arnynt; eto y fath yw eu hanwadalwch, fel na lawenychant ynddo yntau yn hir; Gwel Barn. 9.

## PEN. V.

Adn. 1. *Gwylia ar dy droed, &c.* Cynnwys y geiriau hyn gyfeiriad at ddull y Dwyreinwyr o dynu ymaith yr esgidiau, neu y sandalau, a chadw y traed yn noethion pan fyddent yn y cyssegr, yn arwydd o'r parch mwyaf trwyadl, gwel Exod. 3. 5. Jos. 5. 15.

—*A bydd barottach i wrando nac i roddi aberth ffyliaid*, neu, "Canys y mae bod yn barod i ufuddhau yn well aberth nac offrymmau ffyliaid;" gwasanaeth corfforol yn unig yw addoliad y ffol, mae ei galon ef yn mhell oddiwrth yr Arglwydd.

Adn. 2. Gwel Nod. ar Matt. 6. 1—8.

Adn. 3. *Canys breuddwyd*, neu, "Canys megys y daw breuddwyd, &c. felly ymadrodd y ffol o laweroedd o eiriau." HODGSON, HOLDEN, BOOTHROYD.

Adn. 4—7. Cymh. Lef. 27. 2. &c. *Na ddywed ger bron yr angel, &c.* Swydd yr offeiriad oedd barnu, a phenderfynu mewn perthynas i addunedau; ac fe elwir yr offeiriad yn angel, neu gennad yr Arglwydd.—*Amryfusedd fu*; myfi a addunedais yn anwybodus ac ynfyd; ac yr ydwyf yn gobeithio y bydd i chwi fel cennad Duw fy rhyddhau I ar offrymiad aberth dros bechod o anwybod, Num. 15. 26. BOOTHROYD. Eraill a farant, mai darluniad tybiaethol a gynnwysa y geiriau o ddyn yn dyfod at yr offeiriad, gan gymeryd arno fod ei adduned wedi ei gwneyd mewn amryfysedd byrbwyll, ac am hyny na's byddai yn uniawn iddo ei chyflawni. Byddai i'r cyfryw watwar ar Dduw dynu anfoddlonrwydd Dwyfol ar y dyn, yr hyn a allai *ddifetha* y peth a gam-attaliasai efe fel hyn.

Adn. 8. *Canys y mae yr hwn sydd uwch na'r uchaf yn gwylied, ac y mae un sydd uwch na hwynt:* neu, "Canys y mae un uwch yn gwylied ar yr uchel, ac y mae yr hwn sydd uchaf yn gwylied ar y ddau;" mae barnwyr îs raddol yn gyfrifol i'w huwch-raddolion, a hwythau yn gyfrifol i'r brenin, yr hwn sydd gyfrifol i Dduw cyfiawn ac uniawn.

Adn. 9. *Wrth dir llafur y mae y brenhin yn byw.* Ystyr yr adnod hon yw, y dylai y brenin wylio dros lesion y werin, gan eu diogelu rhag trais a gormes, gan ei fod ef fel hwythau yn ymddibynu am eu cynhaliaeth ar gynnyrch y ddaiar. BOOTHROYD.

Adn. 10. *Hyn sydd wagedd*, sef bod casgliad ac amlhad golud, yn lle diwallu meddwl dyn, yn cyfodi awydd am ychwaneg.

Adn. 11. Po mwyaf a fyddo gan ddynion, goreu fydd y tai fydd raid iddynt gadw, mwyaf o weinidogion fydd raid fod ganddynt, mwyaf o ymwelyddion a fydd yn rhaid iddynt groesawi, a mwyaf fydd yn pwyso arnynt: fel nad yw golud i'r sawl a'i caffo onid ychwanegu gofal a thrafferth

Adn. 12. *Llawnder y cyfoethog ni ád iddo gysgu*, gan effeithiau afiachus gorlwythiad ei gylla, mae yn aml yn cael ei luddias i fwynhau gorphwysdra. Neu, efallai fod yma gyfeiriad at y gofal mawr sydd yn angenrheidiol yn y gwledydd Dwyreiniol i gadw cyfoeth rhag yr yspeilwyr; canys nid oes nemmawr o ariandai yn y gwledydd hyny: ond y goludog a guddiant eu cyfoeth yn eu tai eu hunain, neu mewn rhyw ddirgelfa o'u dewisiad; ac y mae rhai yn arfer gwylio eu trysorau trwy y rhan fwyaf o'r nos, a chysgu y dydd; gan gymmaint eu gofal am dano. ROBERTS.

Adn. 14. *Ac efe a ynnill fab, ac nid oes dim yn ei law ef*, naill ai dim yn meddiant y tad i'w roddi i'w fab; neu, ddim yn meddiant y mab, er iddo gael ei eni i fod yn etifedd golud mawr, debygasid.

Adn. 15—17. *Megis y daeth allan o groth ei fam yn noeth.* Pe mwynhai dyn ei olud hyd ddiwedd ei einioes, rhaid fyddai iddo ei adael y pryd hyny. Dyosgai angau ef o'r cyfan.—*Ei holl ddyddiau y bwytty efe mewn tywyllwch*, mae ei fwynderau yn cael eu chwerwi, trwy ansicrwydd ei sefyllfa. A. CLARKE. Neu, e ddichon fod y gair tywyllwch yma, fel mewn llawer man arall, yn ddarluniadol o drueni.—*Mewn digter mawr*, neu dan anfoddlonrwydd y Goruchaf, yr hyn a'i hamddifadai o hyfrydwch a llawenydd yn mhethau y ddaiar, gan adael y meddwl yn ysglyfaeth i fraw ac adgnöadau meddwl.—*Gofid*, neu wendid a llesgedd cystudd, yr hyn a dyn y blas oddiar holl bethau y fuchedd hon.

Adn. 18—20. Gwel pen. 2. 24. a 3. 12, 13. Mae yn ddïau nad oedd Solomon yn amcanu annog neb i fyw yn loddestgar, ond ei feddwl oedd y dylem ddefnyddio y daioni amserol a welo Duw yn dda ei roddi i ni, gyda dïolchgarwch a boddlonrwydd; nid mewn llawenydd ynfyd, ond mewn sobrwydd. OSTERVALD. Ac ni bydd i'r hwn a dreulio ei oes fel hyn i wasnaethu Duw fel Awdwr ei holl ddaioni, gael ei ofidiaw gan adfyfyrdodau ar yr amgylchiadau a aethant heibio yn ei oes, gan y bydd efe yn ymddiried yn ffyddlondeb Duw am faddeuant o'i bechodau, am gyflenwad i'w angenion dyfodol, ac am ei ddïogelu rhag pob drwg. Mewn geiriau eraill, efe a fydd byw yn llawen trwy weddi a mawl —*Am fod Duw yn atteb i lawenydd ei galon ef*, yn gwneuthur i bob rhyw amgylchiadau gyfatteb i'r gobeithion a feithrinid yn ei feddwl ef gan yr Ysbryd daionus; bydd pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai ydynt yn caru Duw.

## PEN. VI.

Adn. 1. Gellir golygu y bennod hon fel parhäad ar y testyn a ddechreuasid yn adn. 9, o'r bennod flaenorol; ond yn cael ei ddarlunio dan wedd newydd mewn rhan. Wedi dangos yr ynfydrwydd o garu golud, y mae efe yma yn dangos mai gwagedd hefyd yw gor-awydd i'w gasglu, ac i'w dyru. Mae rhai sydd yn caru cyfoeth yn meddu hyfrydwch yn ei wasgaru, ac eraill na's gallant ei fwynhau eu hunain, ac na's rhoddant i eraill ychwaith. Pa mor uchel bynnag y gall fod sefyllfa y bydol-ddyn, ni's gellir ei gyfrif yn uwch ei gymeriad na'r cybydd.

Adn. 2. *Heb roi gallu*, neu "ysbryd," *i fwytta o hono.* Hyny yw, y mae efe yn goddef dynion yn aml yn nghanol llawnder, i ymdroi yn eu cybydd-dod eu hunain, fel nad oes ganddynt ysbryd i gyfrannogi o'r pethau a feddant. BOOTHROYD.

Adn. 3—6. Yr oedd lluaws o blant yn beth dymunol a thra anrhydeddus yn mysg yr Hebreaid, ac y mae hir oes yn ddymunol

gan ddynolryw yn gyffredinol. Eto gyd a'r holl fanteision yma, e ddichon dyn fod yn analluog i fwynhau ei olud, ei deulu, a'i einioes gyda hyfrydwch. Mae y cyfryw un yn ei fynediad trwy amser megis pe buasai wedi ei eni heb un dyben na defnydd iddo. Ac y mae erthyl, na's gwnaeth namyn profi bywyd yn brin, a'i adael y fynyd nesaf, yn fwy dewisol ei ran, na'r hwn a gafodd fyw yn hir, ond heb allu mwynhau cysuron bywyd.

Adn. 7—9. Gall ychydig fod yn ddigon i'n cynnal ni yn gysurus, ac ni's gall llawer iawn wneuthur ychwaneg. Ni's gall dymuniadau yr enaid gael dim yn ngolud y byd a'i diwalla. Mae ei gysuron o fewn cyrhaedd y tlawd i'w fwynhau fel y mwyaf cyfoethog, ac nid yw dan unrhyw wir anfantais.—*Gwell yw golwg y llygad nag ymdaith yr enaid*; neu, "Gwell yw y mwynäad o bethau presenol, nac ymlid ar ol pob gwrthddrych dymuniad." BOOTHROYD. Ynfydrwydd yw coledd rhyw wag ddymuniad am bethau tu hwnt i'n cyrhaedd ni.

Adn. 10. *Beth bynnag fu, y mae enw arno.* Mae cyfieithiad DR. WARDLAW yn gosod synwyr y geiriau hyn allan yn dra eglur;—"Canys yr hwn sydd, (neu pwy bynnag a fu) ei enw a enwyd er ys talm, a gwybyddir pa beth yw, sef dyn; ac ni's gall efe ymryson â'r Hwn sydd gryfach nag ef." Gellir dywedyd fod pob dyn wedi derbyn ei enw pan y galwyd y dyn cyntaf yn *Adda*, sef llwch, yr hyn a ddynoda ei fod yn wàn a thrancedig, ac am hyny mai ofer yw iddo gynnyg cyrhaedd dedwyddwch trwy gynnyg gwrthwynebu trefn Rhagluniaeth Duw. DAVIDSON.

Adn. 11. *Gan fod llawer o bethau yn amlhau gwagedd.*—Pa fodd a all fod i ddyn luosogi geiriau yn erbyn Rhagluniaeth? A all hyny gyfnewid natur pethau? Ni's gŵyr dyn beth a allai fod yn orau iddo, ac am hyny efe a ddylai ymostwng i drefniadau y Duw unig ddoeth.

## PEN. VII.

Adn. 1. Meddyliai yr *Esgob* PATRICK fod y bennod hon a'r un ganlynol wedi eu hysgrifenu er hyfforddiant pa fodd i ochel gwagedd a gorthrymder ysbryd. Mae yr athrawiaethau â'r rhai y dechreuir y bennod hon, yn llwyr wrthwyneb i opiniynau cyffredin y byd. Dygwyd profion digonol yn mlaen yn y rhanau blaenorol o'r llyfr hwn, na's gall gwybodaeth anianol, mawredd, a chyfoeth, namyn gwisgo eu perchenogion âg enwogrwydd amserol, gan hyny rhaid fod *enw da*, enw gwir ddymunol, yn deillio oddiar ryw rinweddau rhagorach, sef rhai parhaol eu hardderchawgrwydd. Nid yw y rhai hyn yn hanfodol i enw mawr yn y byd hwn; ond rhaid i'r cyfryw enw ddarfod am dano gyd a'r rhagoriaethau a roisant fod iddo. Yr enw hwnw yn unig sydd yn dragywyddol, yr hwn sydd yn gyssylltiedig âg ymarweddiad da, cyssegredig at anrhydedd Duw, a lles dyn. Mae yr enw hwn yn

werthfawrocach nac ennaint gwerthfawr, yr hwn nid oedd dim mewn mwy o fri nag ef yn y gwledydd dwyreiniol, gwel Diar. 27. 9.—*A dydd marwolaeth na dydd genedigaeth*. Mae dydd marwolaeth y cyfryw un, yn terfynu ei holl ofidiau i'r rhai y'i dygid ar ddydd ei enedigaeth, ac yn ei arwain i ddechreu tragywyddol wynfyd heb wae.

Adn. 2—6. Mae y sylwadau hyn yn seiliedig ar brofiad, ac yn eithaf cywir a theilwng o sylw. BOOTHROYD.—Nyni a allwn fyned i dŷ gwledd ac i dŷ galar yn gyfreithlawn; bu yr Iesu yn gwledda yn Nghana Galilea, ac yn wylo yn Bethania: ond mae myned i dŷ galar yn debyg o wneyd mwy o ddaioni i ni, a gadael argraffiadau gwell arnom. HENRY. Arferai y Dwyreinwyr wneyd gwleddoedd mawrion ar ddydd eu genedigaeth: ac at y cyfryw ddyddiau yn ddïau y cyfeirir yma, yn wrthgyferbyniol i ddydd marwolaeth. CLARKE.—*Fel clindarddach drain dan grochan*, yn hynod o drystfawr; ond yn darfod yn fuan. HARMER.

Adn. 7. *Yn ddïau trawsedd a ynfyda y doeth*. Mae trais a gormes yn ddigon i lethu y cyfansoddiad dynol, a dyrysu holl drefn natur, a gall fod yn achlysur i ddifuddio hyd yn nod gwr doeth o'i synwyr. Rhagfynegid yr effaith yma ar yr Iuddewon gormesedig, Deut. 28. 32—34.—*A rhodd*, neu wobr, *a ddyfetha*, neu a lygra *y galon*. Mae yn debyg fod yn anmhossibl i neb lenwi unrhyw swydd wladol yn ngwledydd tra arglwyddiaethol y Dwyrain, heb fod yn ddarostyngedig i'r demtasiwn gryfaf i ormesu a derbyn gwobrau; ac am hyny y cair mynych rybuddion yn erbyn y drygau hyny yn yr Ysgrythyr Lân, Deut. 16. 18—20, a 24. 14—22. Mae rhai yn cymhwyso yr adnod hon at y gormeswr yn hytrach na'r gormesedig.—"Y dyn a gyfrifir yn ddoeth, a ynfyda pan syrthio i ormes." Ond y mae eraill yn cyfieithu y rhan gyntaf yn dra gwahanol, gan feddwl fod Solomon yn golygu y defnydd moesol a wneir gan y gwr doeth o ormes, a dywedir fod y geiryn a gyfieithir ynfydu, yn dynodi fynychaf "dysgleirio." Felly y cyfieithai HOLDEN y geiriau, "Yn ddïau trawsedd a bair i'r doeth ddysglaerio," hyny yw, a bair i'w ragoriaethau ef lewyrchu yn amlycach. Ac efe a feddyliai mai llwyddiant a olygid wrth *rodd*, rhodd rhagluniaeth, trwy yr hyn y mae calonnau llawer yn cael eu llygru: ac y mae y golygiad yna yn cael ei led gefnogi, debygid, trwy yr adnod nesaf.

Adn. 10. Arferiad gyffredin yn mhob oes yw canmol y dyddiau o'r blaen, a meddwl eu bod yn well na'r dyddiau presenol; ond y ffolineb o hyn yw, bod y rhai oeddynt yn byw yn yr amseroedd gynt yn dweyd yr un modd am yr amseroedd o'u blaen hwythau. Mae pob amser ac oes, dan oruwch-lywodraeth doethineb a daioni anfeidrol, a chredu hyn a wasanaethai lawer tuag at ein gwneuthur yn foddlawn ar ein rhan a'n tymhor.

Adn. 11, 12. *Da yw doethineb gydag etifeddiaeth*, neu, "Gwell

ydyw doethineb nag etifeddiaeth; a mwy buddiol i'r rhai sydd yn gweled yr haul." Y ddoethineb a olygir yma, mae yn ddïau, yw yr un sydd yn disgyn oddi uchod, yr hon a ddarlunir yn tra rhagori ar ddoethineb ddynol, yr hon nid yw yn amgen na gwagedd a gorthrymder ysbryd, tra mae y ddoethineb hon yn rhoddi bywyd i'w pherchenog.—*Canys cysgod,* neu "amddiffyn" *yw doethineb.*

Adn. 13. Un o brif orchwylion doethineb, yw edrych yn ddifrif-ddwys ar waith Duw, wrth yr hyn y golygir ei ragluniaeth yma yn benaf; cymh. Hos. 13. 9. Mae y gwaith hwn yn annewidiol, canys cynghor yr Arglwydd a saif yn hyn; ac y mae pob amgylchiad a damwain yn *uniawn*, yn tueddu yn union-gyrchol i gwblhau ei holl fwriadau ef. Er hyny, y mae llawer o honynt yn ymddangos yn geimion i ni, naill ai yn wrthwyneb i'r hyn a fernir yn uniawn genym ni, neu mor ddyryslyd fel na's gallwn eu holrhain. DAVIDSON.

Adn. 14. Ein doethineb ni yw peidio ymddyrysu i geisio chwilio allan ffyrdd anchwiliadwy Duw, ond ymostwng i'w ewyllys pen-arglwyddiaethol ef, a defnyddio yr amgylchiadau a'n cyfarfyddo yn ol cyfarwyddyd ei air ef; gan fod yn gwbl sicr, y bydd i bob peth gyd weithio i'w ogoniant ef yn iachawdwriaeth dynion, yr hyn yw ei amcan eithaf ef, a'r hyn ni's gall ei luddias ef i'w gyrhaeddyd; Job 9. 12; a 12. 14; a 34. 29. Dan. 4. 35.—*Duw hefyd a wnaeth y naill ar gyfer y llall, &c.*, fel y meini wedi eu gosod oll yn eu lle prïodol yn yr adeilad gan y pen adeiladydd medrus, er perffeithio ei gynllun. Felly y mae Duw yn trefnu i bob cenedl neillduedig, neu i'r holl deulu dynol, adfyd a hawddfyd, bob un yn y tymhor, ac i'r gradd mwyaf prïodol i gwblhau ei amcan eithaf ei hun; a'u dyledswydd hwy yw gwneyd y defnydd cymhwysaf o'r naill a'r llall, bob un yn ol ei dueddiad naturiol ei hunan i feithrin eu llesion goreu; ond, fel y mae waethaf, anfynych iawn y gwneir hyn: eithr ymddyga dynolryw yn ol cyndynrwydd eu meddyliau. Er hyny ni's metha efe a chael ei amcan.—*Er mwyn na chai dyn ddim ar ei ol ef,* neu, "yn ei erbyn ef." Yr ystyr fwyaf naturiol ac esmwyth yw, fod Arglwydd Goruchaf pawb a phob peth yn trefnu pob peth yn y fath fodd uniawn fel na's gall dyn gael un diffyg, nac un achos i feiaw ei gyfiawnder a'i ddaioni ef tuag at ein rhyw ni.

Adn. 15. *Yn nyddiau fy ngwagedd*, cyfeiriad debygid at yr amser y buasai efe yn byw mewn oferedd; ac y mae y crybwylliad yma yn cynnwys math o amnaid fod trugaredd Ddwyfol wedi ei ddychwelyd i ffordd gwir ddoethineb.

Adn. 16. Mae amrywiaeth esponiadau wedi eu rhoddi i'r geiriau hyn, ac amryw a ddefnyddiant y geiriau yn esgus dros eu diofalwch am grefydd, neu eu hawydd i wasanaethu Duw yn y fath fodd ag a ennillai gymeradwyaeth y byd.—*Na fydd rŷ gyfiawn,*

wrth ystyried y rhybudd yma yn ei gyssylltiad â'r adnod flaenorol, nyni a welwn brïodoldeb neillduol ynddo. Pan y gwelom un cyfiawn yn diflannu yn ei gyfiawnder, neu yn marw yn ferthyr oblegid ei uniondeb; a phan welom y drygionus yn estyn ei ddyddiau trwy ei ddrygioni, gochelwn gymeryd arnom fod yn gyfiawnach neu ddoethach na Duw, trwy feiaw ar ddoethineb neu gyfiawnder ei ragluniaeth ef. Canys y mae ganddo ef ei resymau dros oddef y pethau hyn, er eu bod yn anchwiliadwy i ni.—*Paham y'th ddyfethit dy hun?* Trwy anedifeirwch am dy bechodau dy hunan, ac annghrediniaeth gyda golwg ar lywodraeth ddoeth Duw.

Adn. 17. *Na fydd rŷ annuwiol;* ni's gwiw i ni feddwl fod Solomon yn barod i ganiattau un radd o ddrygioni, pan y soniai am fod yn rhŷ annuwiol, neu rŷ ddrygionus; ond ei feddwl yw, fod rhyw ysgelerder mawr mewn drygioni yn sicr o ddiweddu mewn angeu y rhai a fyddont felly. BOOTHROYD. Mae DR. WARDLAW yn golygu y ddwy adnod yma fel math o wawdiaith lem. Os mŷn dyn fwynhau cyfeillach y byd, a'i fywyd ei hunan, ni's gwiw iddo fod yn rhŷ grefyddol, na chymeryd arno fod yn rhŷ ddoeth. Gormodedd mewn drygioni hefyd a'i gwna yn agored i berygl; gan hyny gochel y pethau hyn os myni fod yn gymeradwy gan y byd.—*Paham y byddit farw cyn dy amser?* Mae annuwioldeb ysgeler, a ffolineb, yn arwain dynion i angau anamserol, neu annysgwyliadwy yn aml.

Adn. 18. *Y neb a ofno Dduw, a ddaw allan o honynt oll.* Ofn Duw a ddysg ddyn i ymostwng o'i flaen, a chydnabod uniondeb ei farn ef, i beidio ei gyhuddo ef yn ffol ar un llaw, na phechu a throseddu yn rhyfygus ar y llaw arall.

Adn. 19—20. *Deg o gedyrn,* sef llawer, canys fe arferir y gair i'r ystyr hwnw yn aml, Gen. 31. 7. Job 19. 3.—*Canys nid oes,* neu, "Er nad oes dyn cyfiawn ar y ddaiar." Mae doethineb yn annhraethol werthfawr er yr holl anmherthffeithrwydd sydd yn gyssylltiedig â'n cyflwr presenol.

Adn. 23—29. Cafodd Solomon ei dwyllo yn dost wrth chwilio i natur a'r rheswm am bethau. Ond y mae efe yn ymadroddi am hyny yma mewn duwiol dristwch. Yr hwn a amcano ryngu bodd Duw yn wastadol yn unig a all ddisgwyl cael dïanc; ond y pechadur dïofal sydd yn debyg o gwympo fel na's cyfyd mwy.—Efe a ganfyddai y pryd hwn yn eglurach nac erïoed, echryslonrwydd y pechod mawr hwnw o'r hwn y buasai yn euog,—caru llawer o wragedd dieithr, 1 Bren. 11. 1. Methasai a chael un wraig ddiffuant mewn uniawnder a duwioldeb yn eu mysg hwy oll. A pha fodd y gallai efe ddysgwyl cael y cyfryw un yn mysg y fath rai ag a gasglasai efe? Pe buasai ryw un o honynt o dueddfryd ddaionus, yr oedd eu sefyllfa yn tueddu i'w gwneuthur oll yn lled gyffelyb o ran eu nodweddiad. Mae y gwr doeth yma

yn rhybuddio ereill i ochelyd y pechodau, i'r rhai y'i llithiasid ef. Gall llawer dyn duwiol gydnabod gyda dïolchgarwch, iddo ef gael merch rinweddol, yn ngwraig ei fynwes; ond ni's gall y dynion a ddylynont lwybrau Solomon ddysgwyl hyny.—Mae efe yn olrhain holl ffrydiau, pechodau gweithredol i'r ffynhonell brïodol o honynt, sef llygredigaeth trwyadl. Mae yn eglur fod dyn wedi ymlygru a gwrthryfela yn erbyn Duw, ac nad yw yn awr fel y'i gwnaed gan ei Greawdydd. Mae yn alarus meddwl fod dyn, yr hwn a wnaed gan Dduw yn uniawn, wedi cael allan gynnifer o ffyrdd i'w wneuthur ei hun yn ddrygionus ac yn druenus.—*Miniature Commentary.*

## PEN. VIII.

Adn. 1. *Doethineb gwr a lewyrcha ei wyneb.* Nid haws y gwahaniaethir rhwng y delid *(metal)* caboledig a'r pren garw, nag y gwneir rhwng wynepbryd y doeth a'r anwybodus; mae llewyrch ei wyneb ef yn dysgleirio, nid fel yr eiddo gwr balch; ond math o sirioldeb addfwyn ydyw, yn hyfrydu calon y sylwedydd. Mae synwyr da yn pelydru yn ei lygaid, ac eofndra gwrol, cynnyrchedig gan ymwybyddiaeth o'i wybodaeth ac uniondeb ei egwyddor, yn llewyrchu yn ei wynepbryd.

Adn. 2. *Llw Duw*, sef y llw o ffyddlondeb i'r brenin a gymerid yn enw yr Arglwydd, 1 Bren. 39. 40. Eraill wrth lw Duw a olygant y cyfammod âg Abraham ac â'i had. DAVIDSON.

Adn. 3. *Na ddos ar frys allan o'i olwg ef*, hyny yw, na wna achos, y bydd raid dy yru mewn cywilydd, ar frys o ŵydd y brenin.—*Ac na saf mewn peth drwg*, neu, nac ymgyndyna mewn rhyw gyngrhair i wrthwynebu y Brenin; gan fod ei awdurdod ef yn hollawl rydd, heb derfyn iddo ond cyfraith Duw. Llefara yr ysgrifenydd yma megis mewn dïarhebion, am frenin doeth yn unig, yr hwn a ofnai Dduw.

Adn. 5. *A chalon y doeth a edwyn amser a barn*, yr hyn a ddylid ei wneyd, a'r amser cymhwysaf i'w wneyd.—POOLE.

Adn. 6, 7. *Canys y mae amser a barn i bob amcan*, neu, "Canys y mae amser prïodol i bob perwyl; eto y mae trueni dyn yn fawr yn hyn, nas gŵyr efe pa beth a fydd; canys pwy a ddichon fynegi iddo beth a fydd?" BOOTHROYD.

Adn. 8. Mae WEMYSS, BOOTHROYD, ac amryw feirniaid eraill, yn meddwl mai y gwynt a feddylir yn y rhan flaenaf o'r adnod yn hytrach nag *ysbryd*. Megis nad oes gan un dyn awdurdod ar y gwynt i'w attal, felly ni bydd gan neb awdurdod yn nydd marwolaeth, &c. BOOTHROYD. Y meddwl yw, na's medda dyn fwy o awdurdod ar angau i'w wrthsefyll, nac a fedd ar y gwynt i'w attal.

Adn. 10. *O le y Sanctaidd*, ymadrodd yn arwyddoccau y deml mae yn ddïau; ond y mae rhai yn ei gymhwyso at orsedd barn.

Er iddynt gymeryd arnynt wisgo nodweddiad crefyddol yn eu hoes, buant feirw heb alar ar eu hol, ac heb neb a'u cofiai ond i'w casau.

Adn. 11. *Sydd yn llawn ynddynt,* neu yn llwyr ymroddgar ynddynt i wneuthur drwg. Meddylir fod cyfeiriad yn yr ymadrodd a ddefnyddir yma at long dan lawn hwyliau, yn cael ei gyru rhagddi o flaen y gwynt grymmus.

Adn. 13. *Ac ni estyn efe ei ddyddiau.* Yn yr adnod flaenorol soniasai y Pregethwr am estyniad dyddiau pechadur yn dybiaethol, neu ammodol, *Er estyn ei ddyddiau,* neu, "Pe estynai ei ddyddiau, ac yma efe a ddywed yn bendant, na's estyn efe ei ddyddiau yn hwy nac eraill.

Adn. 14. Mae hyn yn dangos anmherffeithrwydd y fuchedd bresenol, a'r angenrheidrwydd mewn canlyniad, am farn, a chyflwr dyfodol, i roddi i bawb uniondeb yn ol eu hymddygiadau.

Adn. 15. *Mi a ganmolais lawenydd,* Mae yn ddïau na chanmolai Solomon namyn defnyddiad cymedrol a chyfreithlawn o bethau da y fuchedd hon. OSTERVALD. Am bethau y ddaiar, nid oes dim yn well na bod i ddyn fwynhau yr hyn a roddes Duw iddo yn rhydd a siriol, gyda dïolchgarwch ac mewn cymedroldeb. GILL. Mae eraill yn meddwl mai gwrthddadl a gyfodai rhyw wrthwynebwr i Solomon yn erbyn ei athrawiaeth ef yn yr adnod flaenorol, yw y geiriau hyn, fel pe dywedasai,—"Gan hyny nid oes dim yn ddoethach i ddyn nac ymlenwi o bleserau anianol." Mae Solomon drachefn yn gwadu prïodoldeb y casgliad yma, gan ddangos y ffolineb, y pechadurusrwydd, a'r niweidiolrwydd o annghymedroldeb, ynghyda'r ddyledswydd o fod yn amyneddgar dan brofedigaethau, gan ystyried y bydd barn eto, yn yr hon y rhydd Duw i bawb yn ol eu gweithredoedd.

## PEN. IX.

Adn. 1. *Ni wyr dyn gariad neu gas wrth yr hyn oll sydd o'u blaen.* Pe buasai llwyddiant yn arwydd sicr o gariad Duw, ac aflwyddiant o'i gas ef; yna gallai gweled y drygionus a'r duwiol yn cael yr un gyffelyb driniaeth, fod yn drangwydd i ni; ond nid felly y mae. HENRY.

Adn. 3. Mae yn debyg mai yr hyn a ddysgai y gwr doeth yn y geiriau hyn oedd, bod y drygionus yn ymgaledu yn eu drygioni wrth ganfod nad oes un gwahaniaeth yn cael ei wneyd rhwng y cyfiawn a'r drygionus yn nhrefn Rhagluniaeth yn y fuchedd hon; gan eu bod yn ymwenieithio iddynt eu hunain nad yw yr Arglwydd yn gweled, neu o leiaf yn sylwi ar ffyrdd dynolryw.

Adn. 5. *Ac nid oes iddynt wobr mwyach,* nis gallant hwy fwynhau unrhyw hyfrydwch daiarol mwyach. D. COLLYER.

Adn. 7. *Dos, bwytta dy fwyd yn llawen, &c.* Gwna yn fawr o fanteision bywyd, a defnyddia yr hyn a feddi yn y modd doethaf.

Adn. 8. *Bydded dy ddillad yn wynion bob amser*, yn arwyddocäol o sirioldeb a llawenydd, gan ochel afradlonrwydd a chybydd-dod. Dat. 3. 4.

Adn. 9. *Gyd a'th wraig anwyl;* mae prïodas, nid yn unig yn anrhydeddus, ond hefyd yn wasanaethgar i ddedwyddwch bywyd. BOOTHROYD.

Adn. 11, 12. Anfynych y mae llwyddiant dynion yn cyfatteb i'w dysgwyliadau. Nyni a ddylem arfer moddion, ond nid ymddiried ynddynt; ac os llwyddwn yn ein hymdrechiadau, nyni a ddylem roddi y clod i Dduw am hyny; ond os ein siommi a gawn, dylem ymostwng i'w ewyllys ef. Mae y rhai ydynt esgeulus o'u heneidiau yn cael eu dal gan Satan yn ei rwyd, i'r hon y'u hudir gan ryw wrthddrych bydol, am yr hwn y maent yn gwrthod, neu yn esgeuluso yr efengyl, gan fyned rhagddynt mewn pechod, nes disgyn yn ddisymmwth i ddystryw.

Adn. 15. *Etto ni chofiodd neb y gwr tylawd hwnw.* Mae lle i feddwl fod hyn yn ffaith a gymerasai le mewn rhyw wlad gymmydogawl; ac y mae llawer un a deilyngasant yn dda oddiar law eu tywysog a'u gwlad, wedi eu hanghofio yn gyffelyb lawer gwaith; y fath fyd anniolchgar yr ydym yn byw ynddo!

Adn. 17. *Geiriau y doethion a wrandewir mewn distawrwydd.* Nid oes yma ddim cyfeiriad at ddyrchafiad na gostyngiad llais y llefarydd; ond at nerth ei resymmiad, a'r diffyg o bob rhyw beth a allai beri cynnwrf a therfysg yn mysg y bobl. Nid enwogrwydd, ond lles y cyffredin sydd yn ngolwg y gwr doeth; gwel Math. 12. 14—21.

Adn. 18. *Ond un pechadur a ddinystria lawer o ddaioni.* Trwy droseddu y gyfraith, gall un dyn drygionus wneyd llawer o niwed mewn dinas neu wlad, cystal ag iddo ei hunan. BOOTHROYD. Mae y geiriau hyn wedi eu llefaru am ddyn drygionus a'i ddylanwad niweidiol, yn gyferbyniol i ddoethineb a'i llesoldeb; ac felly, gellid meddwl fod y pregethwr yn golygu gallu dinystriol hyawdledd, pan y'i defnyddir i berwyl drwg. Pwy a ddichon ddywedyd pa faint o ddaioni a ddinystriwyd, ac o ddrygioni a gynnyrchwyd gan yr areithydd hunanol? O'i flaen y cwympa cynghorion y doethaf; ond y mae y gosodiad yn gywir am bob *pechadur*, gair sydd yn gyfystyr âg ynfyd yma. Ystyr benaf y geiryn yw, cyfeiliorni oddiwrth rëolau doethineb a rhinwedd.—DAVIDSON.

## PEN. X.

Adn. 1. *Gwybed meirw.* E bar gwybed meirw ymweithiad ac ymlygriad yn mheraroglau yr *apothecari*, am hyny byddent yn dra gofalus i attal i wybed fyned i'w peraroglau: ac fel y gall un pryf bychan fel hyn ddystrywio y peraroglau gorau, felly y gall ychydig agweddau anweddus, y rhai ni's cymerid nemmawr sylw

o honynt mewn dynion cyffredin, wneuthur niwed i holl ragoriaethau gwr enwog am ei ddoethineb. Ac nid oes un egwyddor a ddylai gael ei deall yn fwy trwyadl, na gweithredu arni yn fwy hollawl, na bod yn ofynol i wyr cyhoeddus, mewn trefn i fod yn ddefnyddiol, fod o ymarweddiad diargyhoedd. Mae mân ronynau o lwch, anweledig ar garreg gyffredin, yn amlwg ac annymunnol i'r llygaid yn y fan ar y gem tryloyw gwerthfawr. DAVIDSON.

Adn. 2. *Calon y doeth*, neu ei synwyr, *sydd ar ei ddeheulaw;*—Mae y cyfryw un yn barod i wneyd y defnydd goreu o bob amgylchiad; ond bydd raid i'r ffol chwilio am ei synwyr tra y dylai fod yn ei ddefnyddio. BOOTHROYD.

Adn. 3. *Ac yn dywedyd wrth bawb ei fod yn ffol.* Y mae yn bradychu diffyg o farn yn mhob peth, ac yn ei ymddygiad yn dweyd wrth bawb mai ynfyd yw; yn enwedig wrth gyfrif pawb yn ffyliaid mewn cydmariaeth iddo ei hunain. COBBIN.

Adn. 5—7. Nid oes un cyfeiliornad mynychach tua llysoedd breninol, na'r cam a wneir wrth lwytho dynion annheilwng âg anrhydedd; tra yr esgeulusir rhai gwir deilwng yn aml.

Adn. 8—10. Dyma ymadroddion dïarhebol, er dangos na's gall y sawl a wnelont bethau ffol a chamweddus, ddysgwyl dim yn amgen na chael eu cosbi trwy eu ffolineb eu hunain.—*Doethineb sydd ragorol i gyfarwyddo.* Un o brïodolderau doethineb yw y cyfarwydda ei pherchenog i wneyd y defnydd cymhwysaf o bob amgylchiad i ennill ei amcan. WILLIAMS, BOOTHROYD.

Adn. 11. *Os brath*, neu yn ol y Saes'neg, "Yn ddïau e frath" *sarph heb swyno: ac nid gwell dyn siaradus.* Mae y dwyreinwyr yn credu y gallant swyno seirff drwy beroriaeth, at yr hyn y cyfeirir yn y geiriau hyn; gwel Salm 58. 4, 5 Jer. 8. 17. Wrth *ddyn siaradus* y golygir dyn a siarado yn fedrus, ond heb nac egwyddor na synwyr, gwel Diar. 11, 13. a 18. 8. a 23. 29. Ac fel y dylid defnyddio y moddion cymhwysaf i attal sarff wenwynig i wneyd niwed i neb, felly hefyd y dylid arfer y moddion cymhwysaf i wrthdaro dylanwad niweidiol y cyfryw ddyn.

Adn. 14. Nis gellir dysgu dim gyda sicrwydd, gan y dyn siaradus, am a fu, sydd, neu a fydd. DAVIDSON. Ped ystyriem ni ein hanwybodaeth am bethau dyfodol fel y gweddai i ni, nyni a luosogem lai o eiriau ofer ac ynfyd.

Adn. 15. *Canys ni fedr efe fyned i'r ddinas;* efallai mai diareb arferedig yn y gwledydd hyny oedd y geiriau hyn, er dynodi na's gwyddai y cyfryw un pa fodd i ymddwyn fel dinesydd da; neu ei fod yn anwybodus o'r pethau egluraf.

Adn. 16. *Gwae di y wlad sydd a bachgen yn frenin i ti;* hyny yw, un gwanaidd, ansefydlog fel bachgen, a llwyr annghyfaddas i lywodraethu pobl.—*A'th dywysogion yn bwytta yn fore*, nid pob math o fwytta a waherddir yma, ond gloddesta, yr hyn a'u han-

nghymwysai i gyflawni eu dyledswyddau. Arferai y dwyreinwyr gymeryd eu lluniaeth yn y boreu, ac ymroi at eu gwahanol orchwylion wedi hyny; ond ni arferai neb wledda hyd yr hwyr, oddieithr gloddestwyr. HEWLETT, ROBERTS, WILLIAMS.

Adn. 17, *Yn fab i bendefigion*, yn un wedi dyfod i'r orsedd yn gyfreithlawn. A. CLARKE. Yn hanes breniniaeth Israel, nyni a gawn gofres ddu o dreiswyr wedi dyfod i'r orsedd, a darluniad o'r canlyniadau arswydus o hyny. COBBIN.

Adn. 18. Mae hyn yn wirionedd am amgylchiadau bywyd amghyhoedd, ac y mae mor wir y bydd i gam drefn ac esgeulusdra mewn llywodraeth, ddinystrio yr adeilad wladyddol. BOOTHROYD.

Adn. 19. *Ond arian sydd yn atteb i bob peth.* Mae arian yn hynod o gyfleus i ymdrin âg amgylchiadau y byd presenol â hwy, ac am hyny dylid gofalu am eu defnyddio yn y modd y gwasanaethont fwyaf at les dynolryw yn gyffredinol, ac nid eu gwastraffu i arlwyo gwleddoedd i beri i ddynion chwerthin, a gwinoedd meddwol i'w hynfydu.

Adn. 20. *Na felldithia y brenin*, na'i lywodraeth, ond gweddïa drosto ef, a phawb mewn awdurdod.—*Canys ehediad yr awyr a gyhoedda y llais.* Ymadrodd dïarhebol debygid, fel pe dywedasid, y gallai y peth ddyfod i'r golwg mewn rhyw ffordd mor ryfedd ac annysgwyliadwy, a phe byddai un o adar yr awyr wedi clywed y peth wrth ehedeg heibio, a'i fynegi. BOOTHROYD.

## PEN. XI

Adn. 1, *Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd.* Mae y geiryn *bara* yma, yn cael ei gyfieithu "yd bara," yn Esa. 28. 28, ac y mae yn ddiau mai hyny a roddai yr ystyr fwyaf synhwyrol i'r gair yma hefyd; canys y meddwl yw, "Hau dy had yn y tymhor cyfaddas, a bydd yn hyderus y cei ddigon o ffrwyth yn y cynhauaf."—*Ar wyneb y dyfroedd*, neu ar ymddangosiad y dyfroedd; hyny ydyw, cyn dechreu y tymhor gwlawog. Dyma oedd y tymhor cyfaddas i fwrw yr had i'r ddaiar. Mae yn dra thebyg fod cyfeiriad yn y geiriau at y dull o hau yn y gwledydd hyny, ac mai annogaeth ydynt i elusengarwch a haelioni, gan fod yn hyderus na edy Duw i'r llafur fyned yn ofer. Ond yr ESGOB LOWTH a farnai mai annogaeth yw y geiriau hyn i gyfrannu i'r rhai na byddo dim lle i ddysgwyl dim yn ol oddiwrthynt, mwy nac y gallai dyn ddysgwyl elw o fwrw ei had ar wyneb y môr; eto fod Duw yn cefnogi yr annogaeth yma âg addewid sicr y gofalai efe na chai y cyfryw elusengarwch fyned heibio i'w sylw ef heb ei wobrwyo ganddo.

Adn. 2. *Dyro ran i saith, &c.* Na phalla yn cyfrannu tra y gwelych neb mewn cyfyngder, ag y byddo modd genyt tithau i'w gynnorthwyo.—*Canys ni wyddost pa ddrwg a ddigwydd ar y ddae-*

*ar.*—Yma fe'n cymhellir i ddiwydrwydd mewn cyfrannu oddiar ansicrwydd bywyd a phob peth gweledig.

Adn. 3. *Hwy a ddefnynant ar y ddaear*, Felly y rhai haelionus a gyfranna o'u haelioni. *Lle y syrthio y pren, yno y bydd efe;* nid yw yn debyg o ddwyn ffrwyth ar ol ei dorri i lawr; felly ni's gallwn ninnau wneuthur dim daioni yn y byd yma, ar ol ein torri ymaith drwy angau. Gan hyny gweithiwn tra y mae yn ddydd. BOOTHROYD.—Eraill a farnant mai golygiad y geiriau hyn yw, Pa un bynnag a fydd i'ch elusengarwch chwi ddisgyn ar wrthddrychau teilwng ai peidio, y mae eich amcan chwi yn dda.

Adn. 4. *Y neb a ddalio ar y gwynt, &c.* Mae yn debyg fod y gwr doeth yn cyfeirio yn y geiriau hyn at y sylw coelgrefyddol a gymerai llawer o rai anwybodus ar y gwynt a'r cymmylau, am yr hyn y mae llawer o'r cenhedloedd paganaidd yn nodedig. WILLIAMS. Mae yn ddïau mai amcan y geiriau yw ein hannog i ochelyd cymeryd ein digalonni gan bob rhyw amgylchiad a'n cyfarfyddo, fel ag i'n lluddias i wneuthur daioni a chyfrannu. *Esgob* HALL.

Adn. 5, 6. *Megis na's gwyddost ffordd yr Yspryd.* Ystyr y geiriau hyn yw, fod holl weithredoedd Duw yn llawn o ddirgelwch; a chan hyny, mai ein dyledswydd ni yw defnyddio pob cyfleusdra i wneuthur daioni, a gadael y canlyniadau iddo ef. WILLIAMS —Galw y llafurwr i gof, mor ddiwyd y mae ef yn llafurio, ac fel yntau ymdrecha dithau yn ddiflino i wneuthur daioni ar bob egwyl, gan gofio ffyddlondeb yr hwn a addawodd na phalla pryd hau a phryd medi; cymh. Iag. 5. 7.

Adn, 7—10. *Melus yn ddiau yw y goleuni*, sef bywyd a'i gysuron, y rhai ydynt hyfryd.—*Eto cofied ddyddiau tywyllwch;* neu ddyddiau trallod; y rhai ar y cyfan ydynt yn llawer mewn cydmariaeth i ddyddiau pleser a llwyddiant trwyadl.—*Gwna yn llawen wr ieuanc, &c.* Yma y cynnwysir cymhwysiad i'r ddwy adnod flaenorol; gellir dywedyd am wr ieuanc, ei fod ef yn meddu melusder bywyd, a manteision gorau bywyd, ac am hyny y mae Solomon mewn math o wawdiaith sanctaidd, yn erchi iddo eu mwynhau; ac erlyn pob gwrthddrych dymuniad o'i eiddo, eto bod iddo gofio y farn a fydd, lle y bydd raid iddo roddi cyfrif o'i holl weithredoedd. BOOTHROYD

## PEN. XII.

Adn. 1. *Cofia yn awr*, neu "Cofia gan hyny;" mae yn amlwg mai casgliad yw y geiriau hyn oddiwrth y rhan olaf o'r bennod flaenorol, a bod rhaniad y pennodau hyn yn anmhriodol. BOOTHROYD. Mae cofio ein Creawdwr, o angenrheidrwydd yn cynnwys crediniaeth yn yr hyn oll y mae y Duw mawr wedi gweled yn dda ei ddatguddio i ni trwy ei weithredoedd a thrwy ei air am dano ei hunan, fel Ffynnonell fawr pob peth, Barnwr goruchel pawb oll, ac unig Achubwr Hollalluog pechadur colledig.

Adn. 2—5. Mae llawer o ddyfalu wedi bod gan ddysgedigion ar y geiriau hyn, ac o ganlyniad y mae amrywiaeth o esponiadau wedi eu rhoddi arnynt. *Cyn tywyllu yr haul a'r goleuni, a'r lleuad a'r ser*, darluniad tra bywiog o brudd-der henaint, yr hyn a achlysurir trwy ball yn y golwg, a chynnydd gwendidau eraill. Mae holl brydferthion anian wedi eu cau i fynu mewn tywyllwch am byth, heb obaith ganddo mwyach i fwynhau melusder y goleuni, a'r hyfrydwch o weled yr haul. Mae goleuni yn arlun cyffredin o lwyddiant a hyfrydwch; a thywyllwch, o aflwyddiant ac adfyd. Darlunir olyniad paräol trallodion, trwy y gyffelybiaeth o'r *cymmylau yn dychwelyd ar ol y gwlaw*, i barottoi am ychwaneg o walw. Nid all henaint ddysgwyl nemmawr o hindda; ac nis gwiw iddynt ddysgwyl gwanwyn hyfryd ar y ddaiar, ond yn mharadwys Meddylia rhai fod yr iaith yma yn darlunio adfeiliad galluoedd y meddwl, y rhai ydynt ogoniant dyn. Cyffelybir y corff i dŷ, pabell, neu, yn ol barn rhai i balas, a *cheidwaid* iddo, y rhai a elwir hefyd *gwyr cryfion*, dywedir fod y rhai hyn yn *crynu* ac yn *crymmu* i ddynodi nad yw yr aelodau uchaf ac isaf yn cyflawni eu swydd yn gymhwys mwyach. Ni's gall y dyn mwyach rodio yn syth, na dal arfau neu offerynau celfyddyd yn rymmus megis cynt. Cefnogir y cymhwysiad yma o'r ymadroddion hyn trwy rannau eraill o'r Ysgrythyrau, Job 4. 10. 2 Cor. 5. 1. Sal. 44. 3. a 31. 21, 22. Gen. 49. 24.—*Ac y metha rhai sydd yn malu*, sef y dannedd yn adfeilio neu yn cael eu symmud, fel nad ydynt mwyach yn barod i falu yr ymborth, na chynnorthwyo y llais i siarad. Mae yma gyfeiriad amlwg at wragedd yn malu yn y gwledydd Dwyreiniol â'r felin law; gwel Nod. ar Luc 17. 34—36.—Yr olygfa oedd yn un bruddaidd, tywyllwch nos yn teyrnasu, hyd oni chlywid swn y malu yn y boreu, ac agoryd y drysau; canys ymddangosai y tŷ neu y ddinas yn wrthodedig ac annghyfannedd; ac er y gallai rhai o'r merched roddi eu gwylder o'r naill du, ac edrych trwy y ffenestri, ni byddai un gwrthddrych dyddorawl yn weledig. At yr arferion hyn y cyfeirir yn y geiriau hyn, *Ac y tywylla y rhai sydd yn edrych trwy y ffenestri; a chau y pyrth yn yr heolydd, pan fo isel swn y malu;* ac yn allegawl dynodant nychdod offerynau gweledigad ac ymadrodd. Mae bywyd cymdeithasol wedi colli hanner ei ddymunoldeb, pan fyddo y golwg a'r ymadrodd wedi pallu i raddau helaeth; a phan fyddo y corff wedi colli y mwynaad o'r adfywiad hwnw a ddeillia o gwsg esmwyth ar hyd y nos, a'r holl bleserau amrywiol a fwynheir o iechyd da drwy y dydd, yr ydys yn llawer annghymhwysach i fwynhau cysuron bywyd cymdeithasol.—Yn mhellach, darlunir profiad gofidus henaint trwy yr ymadroddion, *A'i gyfodi wrth lais yr aderyn*, y swn lleiaf yn eu deffroi, ac heb allu canu eu hunain gan wendid offerynau lleisiad, na mwynhau peroriaeth gan wendid yn offerynau y clyw.—*Ie yr amser yr ofnant yr hyn sydd uchel.* Pan fyddo

dynion yn hen, ni's gallant esgyn i leoedd uchel; ac y maent hyd yn nod yn ofni cwympo ar y brif-ffordd. Mae pob peth yn rhybuddio henaint i gilio o'r byd gwag presenol, ac ymofyn am orphwysfa lle na ddaw cyfnewidiadau byth yn agos, lle bydd einioes y preswylwyr yn un tragywyddol wanwyn, a'u trigias yn baradwys o hyfrydwch, heb storm na thymestl byth o'i mewn, nac angau yn beiddio brawychu neb o'r teulu.—*Ac y blodeua y pren almon.* Bydd blodau gwynion yn torri allan ar y pren hwn yn mis Rhagfyr, pan y mae holl natur yn llom a phruddaidd ei gwedd, dan ddylanwad y gauaf rhynllyd; ac felly meddylir fod y gyffelybiaeth yn arwyddo y penwyni sydd yn dilyn hen ddyddiau.—*Ac y bydd y ceiliog rhedyn yn faich*, y pwysau lleiaf yn ormod baich i'w gario. CLARKE. Neu, "yn faich iddo ei hun," yn ol BOOTHROYD, Dr. SMITH, ac ereill, y rhai a farnant mai yr hen wr ei hun a gyffelybir i'r ceiliog rhedyn, ar gyfrif eu deneuder, a'i ystum grymmedig; ac y mae yn eithaf gwir fod dyn yn faich iddo ei hun yn y cyflwr yma.

Adn. 6. Yn yr adnodau blaenorol, nyni a gawn ddarluniad effeithiol iawn o dreuliad graddol y corff, ac yn hon, cawn ddarluniad o ymdrech olaf bywyd i ddïanc o'r tŷ o glai. Meddylia rhai fod y *llinyn arian, a'r cawg aur* yma, yn darlunio terfyniad bywyd dan y gyffelybiaeth o lusern orwych mewn neuadd odidog lle byddai llawer wedi ymgasglu yn nghyd i wledda, yn cael ei llwyr ddinystrio, nes gadael yr holl luaws mewn tywyllwch gorddu; a bod y cyffelybiaethau eraill wedi eu cymeryd oddiwrth bydew trefnus yn myned yn hollol annefnyddiol, yn dynodi dystrywiad y cyfansoddiad corfforol.—Wrth y llinyn arian, debygid, y golygir pabwyryn asgwrn y cefn, yr hwn nid yw yn ddim amgenach na pharäad o'r ymenydd, ac o'r hwn yr anfonir gewynau annifeiriol trwy y corff hyd ei ranau eithaf. Toriad y llinyn yma, a barai derfyn ar bob teimlad trwy y corff yn y fan.—*Y cawg aur*, pilionen yr ymenydd, os nid yr ymenydd ei hunan hefyd, gelwir hwn yn gawg aur, mae yn debyg, er dynodi ei ddefnyddioldeb a'i werthfawrogrwydd.—*Y piser* ond odid, a ddynoda y rhedweli fawr, sydd yn derbyn y gwaed o'r galon, ac yn ei gludo i'w arllwyso drwy bob rhan o'r corff.—*Y ffynnon* neu *y pydew*, yw y galon, yn yr hon y mae y gwaed, einioes y dyn. Yr *olwyn* a arferid i gyfodi dwfr o'r pydew, neu y ffynnon; ac y mae yn debyg mai yr ysgyfaint a arwyddoceir trwy y gyffelybiaeth yma, ar ysgogiad yr hwn y mae symmudiadau y galon ei hunan yn ymddibynu.

Adn. 7, 8. *Ac y dychwel yr yspryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef.* A ellir cael iaith mwy eglur nac a gynnwysa y geiriau hyn, i ddynodi bodoliaeth yr enaid dynol wedi ei ymadawiad â'r corff, a'i gyfrifoldeb i'w Awdwr, yn nghyd a'i rwymedigaeth i ddedfryd annewidiol o'i enau ef? Ac felly y'n dysgir yn yr holl Ysgrythyr,

fod wedi ei osod i ddynion farw unwaith, ac wedi hyny bod barn. Gan hyny, gyda golwg ar bob peth a welir, mae yn addas iawn ychwanegu yma, *Gwagedd o wagedd, gwagedd yw y cwbl.*

Adn. 11. *Fel symbylau,* offerynau a blaenau heiyrn pigfain iddynt, y rhai a ddefnyddid i yru yr ychain yn gyflymach; gwel Nod. ar Act. 9. 3—6.—*Ac fel hoelion wedi eu sicrhau,* cyfeiriad, efallai, at yr hoelion a ddefnyddid i sicrhau corlanau y defaid, medd rhai; neu fel unrhyw hoelion wedi eu gyru yn sicr, fel y byddo yn anhawdd eu tynu allan; felly y mae addysgiadau y doethion yn llymion, yn cyffroi meddyliau y gwrandawwyr, ac yn gadael argraff ddwys arnynt.—*Gan feistriaid y gynnulleidfa;* neu, "Y cynnullwyr a appwyntiwyd gan un bugail." Cynnullwyr yr ysgrifeniadau sanctaidd a'u cyhoeddasant fel rhai wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth un bugail, sef Duw. HOLDEN. Barnai eraill mai Solomon ei hun oedd yr *un bugail* yma, a enwid felly am ei fod yn frenin Juda; ac wrth feistriaid y gynnulleidfa y golygant wyr doethion a bennnodid ganddo ef, a than ei arolygiad, i gasglu yn nghyd ysgrifenadau dynion sanctaidd Duw, ac i ofalu na byddai dim anmhrïodol yn cael ei roddi yn nwylaw y bobl. BOOTHROYD, A. CLARKE.

Adn. 12. *Cymmer rybudd wrth y rhai hyn,* sef ysgrifenadau y gwyr doethion, medd rhai; ond eraill a farnant yn hytrach, yr un bugail, a meistriaid y gynnulleidfa. Mae yn debyg fod y rhybudd yn golygu efrydiaeth dra dwys, mewn gwybodaeth ddynol; y cyfryw ymchwil i ymddangosiadau natur a Rhagluniaeth, ag a gynnygiasai Solomon. Mae y cyfryw efrydiaeth yn gweddu i ddoethineb y byd, ac y mae yn ddefnyddiol yn ei lle; ond nid oes derfyn arni.—*Nid oes diben ar wneuthur llyfrau lawer.* Ysgrifenid llyfrau y pryd hyny ar lïan neu femrwn, ac yr oedd yn waith gofalus, anniben, a blin iawn. WILLIAMS.—*A darllen llawer sydd flinder i'r cnawd.* Ni byddai yr ysgrifenwyr sanctaidd un amser yn ddirmygus o ddysgeidiaeth neu wybodaeth ddynol, oddieithr pan fyddai yn cael ei chyfodi yn ngwrthwyneb i ddoethineb Duw; ond gwasgent at ystyriaethau dynion yn wastadol, bwysigrwydd rhagorach datguddiad dwyfol; cymh. 1 Cor. 1. 18—31. A'r un peth yw amcan Solomon yma; y mae efe yn galw sylw y darllenydd oddiwrth wybodaeth anianyddol, at wir grefydd.

Adn. 13, 14. *Swm y cwbl a glybuwyd yw, &c.* neu, "Swm y cwbl a ysgrifenais yw." &c. Amcan y gwr doeth oedd dangos trwy y llyfr hwn, mai mewn ofni Duw, ac ufuddhau iddo ef yn unig y mae dedwyddwch yn gynnwysedig. Rhaid i'r ofn fod yn deillio oddiar adnabyddiaeth o Dduw, nid yn unig fel un mawr ac ofnadwy, ond hefyd fel un yn cadw cyfammod o ras a thrugaredd. Gall myfyrio ar ei fawredd ef, beri i ddyn grynu, a cheisio ffoi oddiwrtho ef; ond ei adnabod ef fel un mawr a graslawn, sanct-

taidd a thrugarog, cyfiawn a maddeugar mewn Cyfryngwr, yw yr unig foddion effeithiol i gymmodi y galon âg ef a'i wasanaeth. A phwy bynnag a'i hadnabyddo ef fel hyn, efe a all ddywedyd yn brofiadol, "Fy holl iachawdwriaeth a'm holl ddymuniad yw." Hwy a rodiant ger bron Duw mewn ofn, ac a'i gwasanaethant ef mewn llawenydd, gan ddisgwyl am ei ymddangosiad ef a'i deyrnas. Nid oes gan neb arall ddim i edrych am dano tu hwnt i'r byd gwag presenol, heblaw ymddangos o flaen ei orsedd ef, a chael eu barnu ganddo ef, a'u gwobrwyo mewn cyfiawnder.

# CANIAD SOLOMON.

*Alegori Ddwyfol yw y Llyfr hwn, yn yr hwn y darlunir y cariad sydd rhwng Crist a'i eglwys o wir gredinwyr, dan gyffelybiaethau wedi eu cymeryd oddiwrth y berthynas a'r serchawgrwydd a hanfoda rhwng y prïodfab a'i ddyweddi, cyffelybiaeth a ddefnyddir i'r un perwyl yn aml yn yr ysgrythyr, i ddarlunio y berthynas agosaf, gryfaf, a sicraf, gwel Salm* 45. *Esa.* 54. 5, 6. *a* 62. 5. *Jer.* 2. 2. *a* 3 1 ; *hefyd yn Ezekiel, Hosea, a chan yr Arglwydd Iesu ei hunan. Matt.* 9. 15. *a* 25. 1. *Gwel hefyd Dat.* 21. 2, 9. *Eph.* 5. 27. *Nid oes un nodweddiad yn Eglwys Crist, na sefyllfa yn yr hon y gall credadyn fod, na's gellir ei olrhain yn y llyfr hwn, fel y gwel yr ymofynydd gostyngedig, wrth ei gydmaru âg Ysgrythyrau eraill, trwy gymhorth yr Ysbryd Glân, mewn attebiad i'w ddymuniadau. Ond y mae yn ddiau fod llawer o esponwyr a chyfieithwyr wedi cam ddëall ei iaith i raddau helaeth. Dylid cadw mewn golwg yn barhaus, y gwahaniaeth mawr rhwng defodau ac arferion Ewrop, a'r eiddo Dwyreinwyr ; canys y mae yn ddiau fod annghydnabyddiaeth ein hesbonwyr boreuaf âg arferion a defodau y Dwyrain, wedi bod yn brif achos i'w harwain ar gyfeiliorn lawer gwaith.*

*Dylid ystyried y gân hon fel gwaith Solomon yn ddïau ; a chynnwysa rai o'r mil a phump caniadau hyny a ddywedir eu hysgrifenu ganddo,* 1 *Bren.* 4. 32. *Mae yn eglur fod y Gan yn gynnwysedig o amrywiol rannau, o ba rai y mae rhai yn gydymddiddanol, ac ereill yn ymsonau, neu hunan-ymddiddan, pan ddygwyddant fod ar wahan.*

## PEN. I.

Adn. 1. *Cân y caniadau,* Neu, "Cân ragoraf Solomon." BOOTHROYD. Mae hi yn rhagori ar bob cân arall, am ei bod oll wedi ei llenwi â darluniad o ragoriaethau Crist, a'r cariad sydd rhyngddo ef a'r prynedigion.

Adn. 2—4. Yma y darlunir y brïodferch yn ymadroddi am ei hanwylyd wrth, neu yn nghlyw ei morwynion.—*Cusaned fi ;*— Cyfeiriad at arferiad y priodfab yn mysg yr Iuddewon, yr hwn

trwy gusanu ei ddyweddi yn gyhoeddus, a wnai addefiad cyhoeddus, mai y cyfryw un oedd gwraig ei ddewisiad. Ystyr yr ymadrodd yw, Rhynged-bodd iddo ymostwng i'm harddelwi fel ei anwylyd.—*Ennaint tywalltedig yw dy enw.* Cydnabydda ddymunoldeb ei nodweddiad, a rhagoroldeb ei rinweddau, trwy y gyffelybiaeth hon.

Adn. 4. *Tyn fi,* gad i mi gael sicrwydd cyflawn o'th gariad.—*Ni a redwn ar dy ol,* yma, dan deimlad o wylder, y mae hi yn llefaru am dani ei hun yn y rhif luosawg.—*Y Brenin,* mae fy mhrïod I yn frenin ardderchog.—*A'm dug i'w ystafelloedd,* i'w ymddiried. A. CLARKE. Mae y gair *heder* a gyfieithir *ystafelloedd,* yn cynnwys y drychfeddwl o ymneillduaeth, ac amddiffyn; ac fe'i defnyddir i ddarlunio trigleodd yn gyffredinol, Deut. 32. 25. Diar. 24. 4. Jer. 35. 2, ac efallai ei fod yma yn dynodi ystafelloedd y gwragedd yn y llys breninol. Mae hi yma yn cydnabod y boddäad a gafodd trwy ei dwyn i'w deulu, ac yna yn y geiriau nesaf, y mae y morwynion, ei chyfeillesau yn ei llon-gyfarch ar ei hawddgarwch a'i phrydferthwch, gan ddywedyd, *Ni a ymhyfrydwn, ac a ymlawenhawn ynot, &c.*

Adn. 5, 6. Mae y brïodferch yn hynod o'r didwyll, yn cydnabod ei hannheilyngdod ei hunan. *Du ydwyf fi, ond hawddgar, O ferched Jerusalem.—Du—fel pebyll Cedar,* gwneid gorchuddiau pebyll yr Arabiaid, o flew geifr neu gamelod, ac felly y maent o ymddangosiad du, neu wineu. *Hawddgar—fel llenni Solomon.* Llenni pabell oedd ganddo yn ei ardd, efallai; y rhai a wnaethid o deisben (*tapestry*) hwyrach; ond o leiaf oeddynt yn wych ac ardderchawg mewn cydmariaeth i bebyll llwyd-ddu yr Arabiaid; gwel Gen. 25. 15 —*Nac edrychwch arnaf am fy mod yn ddu,* na sylwch arnaf o herwydd hyny, ac na'm gwaradwyddwch.—*Am i'r haul edrych arnaf:* ac â'i belydr poethion fy nuo.—*Meibion fy mam a ddigiasant wrthyf,*—Plant i'w mam o wr blaenorol efallai. HOUBIGANT.—*A ddigiasant wrthyf,* yn llythyrenol, "a ffroenasant arnaf;" hyny yw, hwy, a'm trinasant yn ddirmygus.—Gall mai ystyr y gair, *Gosodasant fi i gadw gwinllanoedd eraill,* yw, bod y llafur a'r drafferth wastadol y'i darostyngid dano gan ei pherthynasau, yn peri iddi esgeuluso ei thrwsiad personol ei hunan.

Adn. 7. *Mynega i mi, yr hwn a hoffodd fy enaid, pa le yr wyt yn bugeilio, &c.* Mae yn amlwg oddiwrth yr atteb a ddyru ei chyfeillesau iddi yn yr adnod nesaf, nad oedd ei hanwylyd hi yn bresenol; ac am fwynaad o hono ef yr oedd ei henaid yn hiraethu.—*Pa le y gwnei iddynt orwedd ganol dydd?* Ychydig cyn canol dydd gellir gweled y bugeiliaid a'u praidd yn symmud yn araf tua rhyw bren cysgodfawr, lle y gorweddant nes myned poethder y dydd heibio.—*Pa ham y byddaf megis un yn troi heibio wrth ddiadellau dy gyfeillion?* neu fel crwydryn yn eu mysg, yr oedd hi yn teimlo ei sefyllfa yn annghysurus, fel dafad mewn diadell ddyeithr.

Adn. 8. Yma y mae y morwynion yn atteb i'w hymolion, ac yn ei chyfarwyddo i ddilyn ol traed ei braidd, gan adael y mynnod oedd dan ei gofal hi ei hunan i ymborthi gerllaw pebyll y bugeiliaid. Tybir yn y gân, ei bod hi wedi dilyn y cynghor yma, a myned i chwilio am ei hanwylyd. Ac yma y terfyna y dosbarth cyntaf o'r Llyfr hwn, ac y mae y llall yn dechreu; fel pe buasai ei hanwylyd yn ei gweled o draw, ac yn torri allan i ganmol ei hawddgarwch.

Adn. 9. *I'r meirch yn ngherbydau Pharaoh y'th gyffelybais.* Mae meirch yr Aipht yn cael eu cyfrif yn nodedig o heirdd; ac y mae yr Arabaid yn hoff anarferol o'u meirch, y rhai a gofleidiant fel pe byddent eu plant. Y prif ragoriaethau a gyfrifir yn angenrheidiol er gwneyd i fynu degwch y march, yw taldra, a chorffolaeth gyfattebol, yn nghydag ymddangosiad mawreddawg, yr unrhyw ragoriaethau ag a fawrygent hwy yn eu gwragedd. NIEBUHR. Mae yn ymddangos mai ar y gydmariaeth yma yn benaf y seiliwyd y dyb o fod Solomon wedi cyfansoddi y gân hon ar yr achlysur o'i brïodas â merch Pharaoh: ond nid yw y crybwylliad o feirch yn ngherbydau Pharaoh, ac o ddyfodiad y ddyweddi i fynu o'r anialwch, (yr oedd anialwch yn gorwedd rhwng yr Aipht a Chanaan) yn ddigon o resymau i foddloni meddyliau yr ymofynydd di duedd, dros y cyfryw olygiad; e fyddai yn llawn mor brïodol i ni ddadleu ei bod hi wedi dyfod o Syria neu Moab, am fod y prïodfab yn galw arni i ddyfod i Libanus a Hermon. SCOTT.

Adn. 10. *Hardd yw dy ruddiau gan dlysau.* Tybiai OLEARIUS fod penwisg y brïodferch yr un a'r un a arferir yn fynych yn y Dwyrain yn yr oes yma. Efe a ddywaid fod holl benwisgoedd y boneddigesau Persiaidd yn gynnwysedig o ddau gylch neu dri o dlysau, neu berlau, a wisgir o amgylch y pen, gan ddechreu ar y talcen, a disgyn ar hyd y gruddiau a than yr ên, fel y byddai eu hwynebau wedi eu haddurnaw yn hynod â pherlau. HARMER.

Adn. 11. Wedi clywed y brenin yn ei mawrygu fel hyn, mae cyfeillesau y brïodferch yn cynnyg ei harddu eto yn llawer rhagorach na'r pryd y'i mawrygid fwyaf gan y Brenin.

Adn. 12. *Tra yw y brenin ar ei fwrdd,* neu yn ei gylch, yn y canol, a'i gyfeillion o'i amgylch. Caniatteid i'w anwylyd ddyfod yn eu plith i'r wledd, yr hyn oedd ffafr arbenig.—*Fy nardus,* math o blanhigyn Indiaidd, yr hwn sydd hynod am ei berarogledd, ac a werthfawrogid yn ddirfawr am ei ragoriaethau meddygol cystal ag fel un y gwneid ennaint gwerthfawr o'i sudd; Marc 14. 3.

Adn. 13. *Yn bwysi myrr.* Math o glud tra gwerthfawr, yr hwn a gedwir gan y pendefigesau dwyreiniol mewn blwch aur, ac a wisgid ganddynt rhwng eu bronnau yn grogedig wrth gadwaen hardd am y gwddf. HARMER.

Adn. 14. *Cangen o rawn Camphir*, neu flodau y cypreswydd, yr un fel y bernir yn fwyaf cyffredin yn bresenol, a'r llysieuyn a alwai yr Arabiaid *Al-henna*. Mae hwn yn blanhigyn hardd iawn yr olwg arno, yn hynod o beraidd ei arogl, a'i flodau yn tyfu yn sypiau tewion arno. Mae merched y dwyrain yn hoff iawn o honynt, dygant hwy yn eu dwylaw, cludant hwy yn eu mynwesau, a chadwant hwy yn eu hystafellau i berarogli yr awyr. BOOTHROYD, SONINNI, SHAW, SYR W. JONES.—*Engedi* oedd le yn agos i Jericho, enwog am ei phalmwydd. GILL. Nid oedd yr Hebreaid yn cyfyngu yr enw gwinllanoedd, at dir neillduedig i driniad a chynnyrchiad gwinwydd yn unig, ond cynnwysai ynddo bob math o blanfeydd er meithriniad planhigion cywrain a dyeithr. CALMET, HARMER.

Adn. 15. *Y mae i ti lygaid colomenod.* I ganfod grym y gyffelybiaeth hon, dylem feddwl am golomenod Syria, llygaid mawrion y rhai ydynt yn hawddgar odiaeth.

Adn. 15, 16. Yn y geiriau hyn mae y brïodferch yn dychwelyd geiriau ei hanwylyd yn ol, yn ganmoliaeth iddo ef, *Wele di yn deg fy anwylyd;* ac yna y mae hi mewn dull barddonawl yn darlunio y llwyn yn yr hwn yr eisteddent: gan gyffelybu y ddaiar ireidd-las i wely esmwyth, a changenau y cedrwydd a'r ffynidwydd, i swmerau a distiau tô eu hystafell. BOOTHROYD, GOOD, PERCY.

## PEN. II.

Adn. 1. *Rhosyn Saron, a lili y dyffrynoedd ydwyf fi.* Neu, "Nid wyf fi namyn Rhosyn Saron, &c." Mae y brïodferch yma yn wylaidd yn addef nad oedd ynddi ddim teilyngdod i'r ganmoliaeth fawr a roesai ei hanwylyd iddi am ei thegwch, gan nad oedd hi yn ddim amgen na *rhosyn Saron*, rhosyn cyffredin a gwyllt; canys tir cymhwys i fod yn borfeydd oedd Saron, ac nid i fod yn flodeufa wych.—*A lili y dyffrynoedd*, nid lili gardd. Dyma farn y Doctoriaid Iuddewig, AINSWORTH, BRIGHTMAN, LYRA, VATABLUS, COCCEIUS, MICHAELIS, HARMER, WILLIAMS, BOOTHROYD, M. GOODE, & CLARKE. Ond SCOTT, HENRY, WATTS, DURHAM, SUTCLIFFE, &c., a farnent mai y prïodfab a lafarai y geiriau hyn. A'r llafurus DR. GILL, a ddywedai na's gallai ef benderfynu pa un ai y prïodfab, ynte y brïodferch a lefarai yr ymadroddion hyn.

Adn. 2. Er mor isel ydoedd golygiad yr eglwys am dani ei hun, yr oedd ei hanwylyd yn ei chyfrif yn rhagori ar eraill fel y rhagora y lili ar y drain.

Adn. 3. *Megis pren afalau yn mysg prennau y coed.* Meddylia amryw mai pren afal eurad (*citron*) a olygir yma, yr hwn sydd bren mawr a thewfrig, yn iraidd trwy y flwyddyn, a'i arogl yn gryf a pheraidd iawn. Wedi cydmaru ei phrïodfab i'r pren hwn, mae y ddyweddi yma yn dymuno cael gorphwys dan ei gysgod, a

mwynhau ffrwyth ei gariad, yr hwn a brofasai hi yn beraidd o'r blaen.

Adn. 4. *Efe a'm dug i'r gwindy;* neu "O dwg fi." BOOTHROYD, *Sept.—I'r gwindy;* Ogof gwin; neu ryw loches oer yn y gerddi breninol i gadw gwin. WILLIAMS.—"Ty hyfrydwch." M. GOOD.—*A'i faner drosof ydoedd gariad.* Cyfeiriad medd, PARKHURST, at y faner lewyrchedig, cynnwysedig o amrywiol oleuadau, yr hon a ddygid o flaen gorymdaith prïodasol.—Ond MR. T. WILLIAMS, a feddyliai y byddai yr Hebreaid yn arferol o ddyrchafu baner uwch ben eu pebyll, ar ryw achlysuron gwleddawl, ac mai at y cyfryw arferiad y cyfeirid yma.

Adn. 5. *Cynneliwch fi â photelau, &c.* Yma y darlunir un ar ddisgyn i lesmair gan ddwysder ei theimladau, ac i gael ei hadferu drwy beraroglau cryfion. PATRICK.

Adn. 6, 7. Darluniai y brïodferch ei hanwylyd yn y geiriau hyn, fel un wedi cysgu gyda hi ar y glwth, a thynghedai ei chyfeillesau mewn dull bugeilaidd i ochelyd ei ddeffroi ef. Dull arferedig yw tynghedu neb un trwy y peth anwylaf a gwerthfawrocaf. PERCY.

Adn. 8. *Dyma lais fy anwylyd.* Mae y geiriau hyn yn dechreu cân newydd. Darlunia y brïodferch y modd y daethai y prïodfab gyd a'i gyfeillion i'w gwahodd hi i ddyfod allan a mwynhau prydferthion y gwanwyn. Hi a ail adrodda ei gyfarchiad bugeilaidd godidog, ac yna wedi twymno ei chalon wrth ail adrodd ei eiriau serchawg ef, y mae hi yn ymdori mewn cyfarchiad caruaidd i'w hanwylyd, fel pe buasai yn wyddfodawl.

Adn. 9. *Tebyg yw fy anwylyd i iwrch neu lwdn hydd.* Mae y crëaduriaid hyn yn nodedig am eu harddwch, eu cyflymder, a'u haddfwynder; Gwel 2 Sam. 1. 19. a 2. 18. Hab. 3. 19.—*Y tu ol i'n pared;* amgylchynid yr adeiladau Dwyreiniol yn gyffredin â mur neu bared allanol, rhwng yr hwn a'r ty, yr arferai fod cyntedd eang. Gellid meddwl fod y brïodferch yma yn darlunio ei phrïodfab fel yn dyfod i fewn i'r cyntedd allanol, a'r modd y dynesáai yn raddol; yn gyntaf o'r tu ol i'r pared: yna yn edrych trwy y ffenestri, ac yn olaf yn rhoddi ei ben trwy y dellt. PERCY. Yn hytrach y mae y darluniad yma yn cyfeirio at wŷdd-dy, neu ddeildy, o'r fath a feddent yn eu gerddi, yr hwn a gynnwysai o ystafell fawr, a ffynnon, wedi eu hamgau â dellt goreurawg oddiamgylch y rhai y bydd gwinwydd, a phrysgwydd peraroglaidd yn tyfu, yr hwn sydd yn gwneuthur yr olygfa yn un dra difyrus.

Adn. 10—13. *Amser i'r adar ganu,* pan fydd yr ëos yn dechreu ei chân, yr hyn a fydd yn flaenorol i'r adar eraill.—*Clywwyd llais y durtur yn ein gwlad,* clywir llais yr aderyn hwn yn gynnar yn mis Ebrill, ac erbyn canol y mis hwnw, bydd blodau wedi ymagor yn gyflawn yn Judea.

Adn. 14. *Fy nghholomen*, Mae Solomon wedi dechreu dynsodweddu ei anwylyd dan y nodweddiad o golomen, yma yn prïodoli arferion yr aderyn gwyl hwn iddi, ac megis y cais y golomen loches rhag y dymhestl, yn *holltau y graig, ac yn lloches y grisiau*, neu lethrau y creigiau, yr oedd hithau wedi ymguddio o'i wydd ef gan ei gwylder. GREEN, HARMER, &c.—Mae ffenestri y tai Dwyreiniol yn gulion, ac wedi eu croesi â ffyn heiyrn yn gyffredin, yr hyn a rwystrai y prïodfab i gael golwg gyflawn ar berson ei anwylyd; am hyny y mae efe yn ei chyffelybu i'r golomen yn agenau y creigiau, ac yn attolygu arni ddyfod allan. HEWLETT.—Yr eglwys yw colomen Crist; ac atto ef y mae hi yn dychwelyd fel ei Noah. Crist yw y Graig, yn yr hwn yn unig y gall hi ei hystyried ei hunan yn ddïogel. Mae Crist yn ei gwahodd i ddyfod yn hyderus at orseddfainc y gras, gan fod iddi Archoffeiriaid Mawr yno, i adrodd ei dymuniad. Mae llais gweddi yn beraidd a dymunol gan Dduw; a'r rhai a fyddont wedi eu sancteiddio a gyfrifir yn harddaf ganddo ef.—*Miniature Commentary.*

Adn. 15. *Deliwch i mi y llwynogod bychain.* Tybir mai creadur bychan a adwaenir wrth yr enw *jackal*, neu was y llew, a olygid wrth y gair a gyfieithir yma ac mewn mannau eraill, llwynog, ac y mae y crëaduriaid bychian hyn yn hynod am niweidio gerddi a gwinllanoedd, fel yr arferid gosod gwylwyr i'w cadw rhagddynt yn y nos. SHAW. HASSELQUIST. Mae gorchwylion gwageddawl trwy yr hyn y gwastraffir amser, ymadawiadau bychain oddiwrth y gwirionedd, pob rhyw arferion a duedda i gydffurfiad a'r byd, fel llwynogod bychain, y rhai y dylem fod ar wyliadwriaeth rhagddynt, fel nas nycher ein crefydd ganddynt. Ac y mae y geiriau hyn yn fath o siars i gredinwyr i farweiddio eu chwantau a'u nwydau anianol, y rhai ydynt fel math o lwynogod yn dystrywio eu grasusau a'u cysuron, ac yn andwyo dechreuadau daionus. Nyni a ddylem ymwrthod â phob rhyw beth a dueddo i'n hattal yn yr hyn sydd dda. *Min. Com.*

Adn. 16. *Mae efe yn bugeilio yn mysg y lili*, hyny yw, y mae ei anadl ef mor beraidd a phe byddai efe yn bugeilio yn mysg y lili. BOOTHROYD.

## PEN. III.

Adn. 1—5. Y golygiad mwyaf cyffredinol gan y beirniaid ar y geiriau hyn yw, mai adrodd breuddwyd yr oedd y brïodferch yma. A'i meddwl yn llawn o ddelw ei hanwylyd, hi a'i gwelai ei hunan yn cyfodi ac yn myned o amgylch heolydd y ddinas i ymofyn am dano. Mae yn cyfarch y gwylwyr, ac o'r diwedd er ei llawenydd yn cael gafael arno, ac yn ei ddwyn adref. BOOTHROYD. DATHE. WILLIAMS, &c. Yr oedd yn anhawdd i Eglwys yr Hen Destament ganfod Crist yn y ddeddf seremonïol; ac ychydig o gymmhorth a roddai gwylwyr yr Eglwys hono i'r rhai a ymofynent

am dano ef. Amser oerni, tywyllwch, syrthni, a golwg annghraff ar bethau ysbrydol yw y nos. Ar y cyntaf mae y dyn yn ymdeimlo yn lled anesmwyth, ac y mae yn gwneuthur rhai ymdrechiadau gweiniaid am gael mwynäad o gymmundeb â Christ. Mae hyn yn ofer ac aflwyddiannus, yna mae y credadyn yn cael ei gyffroi i ymröad mwy diwyd i'w geisio. Wrth yr *heolydd* a'r *ystrydoedd*, gellid golygu moddion gras, yn y rhai y dylid ceisio yr Arglwydd. Darlunir yr eglwys yn ymofyn â'r rhai a wylient dros eneidiau yma, ac yn methu cael boddlonrwydd dioed yno: oddiwrth yr hyn y'n dysgir na's dylem ymorphwys mewn unrhyw foddion, ond ymwneyd yn union-gyrchol â Christ ei hunan, trwy ffydd. Mae dal Crist heb ei ollwng, yn dynodi ymlyniad difrifol wrtho ef. Mae pob gwir gredadyn tra yn ei le, yn awyddus i wneuthur eraill yn adnabyddus o Grist a'i ragoriaethau. Pa le bynnag y caffom afael ar Grist, rhaid i ni ei ddwyn ef gyda ni i'n cartrefi, yn enwedig ei groesawi yn ein calonnau: ac nyni a ddylem alw arnom ein hunain ac ar eraill i ochelyd tristâu ein Dyddanydd sanctaidd, ac annog yr Anwylyd i'n gadael.

Adn. 6. *Pwy yw hon sydd yn dyfod i fynu o'r anialwch?* Meddyliai BOOTHROYD fod cân newydd, a golyg-ddrych newydd yn dechreu yn y geiriau hyn; bod y brïodferch, tra yn eistedd yn y deil-dy, yn canfod rhywbeth o bell, tua ffordd yr anialwch, yn gofyn *Pwy yw hon?* neu, "Beth yw hyn?"—*Megis colofnau mwg;* cyfeiriad mae yn debyg at yr arferiad o ddwyn arogl-darth llosgedig mewn llestri o flaen gorymdeithiau prïodasol breninol yn y gwledydd hyny, er mwyn croesawi y prïodfab breninol â'r peraroglau gorau a druttaf; a gwelid mwg yr arogl darthau hyn yn esgyn i fynu yn golofnau, o flaen y cwmnïau prïodasol, o bell. Ond SCOTT a farnai mai geiriau merched Jerusalem oedd y rhai hyn, yn y rhai y mawrygent zel, a chariad gwresog y Ddyweddi. Ymofynent, "Pwy yw hon sydd yn dyfod i fynu o'r anialwch?" gan gyfeirio hwyrach at ddyfodiad Israel trwy yr anialwch gynt, i feddiannu tir yr addewid. Ond, y mae anialwch yn ddarluniad o'r byd hwn; ac y mae y credadyn yn dyfod i fynu o hono, pan y mae yn cael ei waredu rhag cariad at ei bleserau a'i arferion pechadurus; ac yn gommedd cydsynio â'i ddefodau a'i arferion, gan ymofyn am ddedwyddwch mewn cymmundeb â'r Gwaredwr. Pen. 4. 8. a 8. 5. Sal. 63. 1—4. a 107. 1—7. Jer. 2. 2—6. a 31. 2. Dat. 12. 3—6.—Esgynai *colofnau mwg* tua'r nefoedd, tra fyddai y poeth-offrwm yn cael ei losgi ar allor y poeth offrwm, a pherarogl-au drudfawr y masnachydd yn llosgi ar allor aur yr arogl-darth. Gall hyn ddarluniaw serchiadau bywiog, gweddïau a mawl gwresog y credinwyr, y rhai a esgynant i'r nefoedd ger bron Duw, trwy iawn ac eiriolaeth Crist, Pen. 1. 12—14. a 4. 12—14. a 5. 5, 6. Exod. 13. 21, 22. a 30. 34—38. 2 Cor. 2. 14—17. Phil. 4. 14—20. Heb. 13. 15, 16. 1 Pedr 2. 4—6.

Adn. 7 8. *Wele ei wely ef, &c.* BOOTHROYD oedd o'r farn mai attebiad un o forwynion y brïodferch oedd yr ymadroddion hyn, fel pe dywedasai, "Gwely-gludai *(palanquin)* Solomon ydyw. Cludid breninoedd a gwyr mawr ar ysgwyddau eu gweinidogion yn y gwledydd dwyreiniol, mewn math o wely esmwyth; ac y mae yr un dull mewn arferiad yno eto.—*Y mae triugain o gedyrn o'i amgylch,* sef gwarchawdlu presonol y brenin, yn barod i'w amddiffyn rhag pob rhuthr. Ond *Esgob* PATRICK, a olygai y geiriau yn baräad o'r gammoliaeth a roddai merched Jerusalem i zel a dedwyddwch y ddyweddi, ac a arall-eiria yr ymadroddion hyn fel y canlyn, "Wele y fath gariad sydd gan y Brenin mawr iddi hi, fel y mae efe wedi parottoi pob peth i'w derbyn hi i gymdeithas âg ef ei hunan, O berson urddasol, â dedwyddwch yr hwn, nid oedd Solomon ei hun yn ei holl ogoniant ond cysgod. Amgylchynir ef â chedyrn nos a dydd; ond nid ydynt i'w cydmaru â'r cadernid a'r lluaws o lu nefol ydynt yn dïogelu ei mwynderau i'r eglwys, ac yn gofalu am ei dïogelwch gwastadol."—A SCOTT a farnai mai ymadroddion y Ddyweddi ydynt, yn galw ar ei chyfeillesau i edrych ar ei Hanwylyd, yn lle mawrygu ei grasusau gweiniaid, a'i gwasanaeth anmherffaith hi. Ac megys yr oedd gwely ac ystafell wely Solomon yn cael ei warchawd gan nifer o gedyrn arfog, rhag i ddim ei aflonyddu, na rhuthro arno yn y nos, y mae gwylfa o angelion yn amddiffyn yr eglwys yn wastadol rhag rhuthriadau a dychryniadau ei gelynion yn yr oriau tywyllaf, tra y mwynha hi gymmundeb â'i Hanwylyd; ïe, yr Arglwydd ei hunan a fydd ei Cheidwad nos a dydd.

Adn. 9. *Gwnaeth y brenin Solomon iddo gerbyd.* Nid yw y gair gwreiddiol (*aperion*) a gyfieithir yma *cerbyd,* yn cael ei arfer am gerbyd yn un man arall; ac y mae yn fwy tebyg mai y gwely-gludai a grybwyllwyd o'r blaen, a olygid yma, ac felly y darllena BOOTHROYD y geiriau, "Gwnaeth y brenin Solomon iddo ei hunan y gwely-gludai hwn, o goed Libanus." Yma y mae Solomon yn gysgod o Grist, Brenin Israel, a Thywysog ein Tangnefedd: a'r *cerbyd,* neu y gwely-gludai hwn, yr hwn a wnaethai Solomon iddo ei hunan a'i ddyweddi freninol i ymddangos ynddo ar achlysuron cyhoeddus, a allai olygu efengyl Crist neu y Cyfammod tragywyddol, yn yr hwn y cyfryngodd efe ar ein rhan, yn yr hon y mae ei ogoniant ef a'n dedwyddwch ninnau wedi eu cydrwymo. Y *pyst o arian,* a allant fod yn dynodi yr addewidion gwerthfawr, a'r ymrwymiadau, y rhai ydynt attegion ac addurn y cyfammod hwn; a dïogelwch yr holl gredinwyr; y *llawr o aur,* a'r *llenni o borphor,* a all fod yn dynodi y bendithion goludog, a'r rhagorfreintiau breninol a berthyna i'r credinwyr oll: a'r canol wedi ei *balmantu â chariad i ferched Jerusalem,* a ddangosai fod yr holl fendithion hyn yn deillio o gariad Duw yn Nghrist Iesu at bechaduriaid colledig SCOTT. Meddylia amryw o'r Beirniaid, fod y rhan

a gyfieithir *A balmantwyd â chariad i ferched Jerusalem*, yn arwyddo ei fod wedi ei weithio yn gywrain âg amryw luniau o waith edau a nodwydd gan ferched Jerusalem, er amlygu eu cariad at Solomon. DAVIDSON.

Adn. 11. Mae yr adnod hon yn cynnwys y cyfeiriad mwyaf union-gyrchol at brïodas Solomon, o un ran o'r Llyfr yma; ond ni's gwyddys pa un ai ei brïodas â Naamah yr Amonëes, ei wraig gyntaf hyd y gwyddom ni, ynte ei brïodas â merch Pharaoh, neu ryw un arall o'i wragedd, a olygid. Mae yn ymddangos ei fod yn ddefod arferedig yn yr amseroedd gynt i'r prïodfab, neu y brïodferch, neu y ddau, wisgo coron brïodasol, a gellid meddwl fod coron Solomon yn dra gorwych ar y cyfryw achlysur llawen. Dodid y goron ar ei ben, gan ei fam, Bathseba.

Pan fyddo y pechadur yn cael tangnefedd a llawenydd gan gredu; ac yn gwneuthur cyffes gyhoeddus o'i ffydd a'i gariad; yn enwedig pan fyddo torfoedd mawrion yn ymunaw fel hyn â'r Arglwydd, fel ar ddydd y Pentecost, gellir galw y cyfryw dymhor dedwydd yn ddydd dyweddi y Prïodfab nefol, a *dydd llawenydd ei galon:* canys nid rhyw oruchwyliaeth gyfrinachol ydyw dyweddïad; ond addefiad o flaen tystion cyfaddas, neu yn gyhoeddus, o gydsyniad unfrydol y ddwy blaid gyfammodol, i ymunaw mewn prïodas, Esa. 61. 10, 11. Jer. 2. 2, 3. Hos. 2. 18–20. 2 Cor. 11. 1–6. Dat. 19. 1–8. a 21. 1–4.

## PEN. IV.

Adn. 1–5. Yma y mae Solomon yn y portreiad wedi ei ddwyn i ŵydd y brïodferch, a'i daraw â syndod gan ei thegwch, yn torri allan i ganmol ei rhagoriaethau personol mewn iaith allegawl orwych. BOOTHROYD.—*Dy lygaid ydynt golomenaidd rhwng dy lawethau:* neu, "Dy lygaid, dan dy gudynau, ydynt fel llygaid colomenod." BOOTHROYD.—*Dy wallt sydd fel dïadell o eifr.* Mae blew y geifr Dwyreiniol yn esmwyth a llathraidd fel y sidan tyneraf, ac yn dra chyffelyb i gudynau heirdd, gwallt merch BOCHART. Meddylia rhai fod yma gyfeiriad at ymddangosiad prydferth dïadell o eifr yn dilyn eu gilydd yn llinell hardd ar hyd llethrau serth mynydd Gilead. Ar gyfer y rhai hyn y darlunir y dannedd fel *diadell o ddefaid gwastad-gnaif*, i arwyddo gwynder, trefn, a pherffeithiad. BOOTHROYD, LOWTH.—*Dy wefusau sydd fel edau ysgarlad;* yn deneuon a chochion, i arwyddo iechyd a harddwch. —*Dy arleisiau rhwng dy lawethau;* neu, "dy ruddiau o'r tu ol i'th gudynau," *sydd fel darn o bomgranad*, yr hwn pan y'i torrer sydd o'r lliw coch harddaf. DURELL.—*Dy wddf sydd fel twr Dafydd;* oddiwrth y gydmariaeth a wneir oddiwrth y twr hwn, mae yn rhaid ei fod yn uchel, main, syth, a theg iawn yr olwg arno. LOWTH, WILLIAMS. Gan y byddai yr Iuddewon yn arferol o adeiladu â meini gwynion, neu farmor, meddyliodd amryw Feirn-

iaid fod cyfeiriad yn y gyffelybiaeth hon at wynder gwddf y briodferch. COBBIN.—*Dy ddwyfron sydd fel dau lwdn iwrch o efeilliaid, &c.* yn deg a hawddgar, fel y crëaduriaid prydferth hyny. WILLIAMS. Meddylia eraill mai cyfeiriad at y gwddf gadwynau, a'r addurniadau a wisgai y brïodferch sydd yma, megis yr oedd arfau eu gelynion, a'r yspail a gawsent yn eu buddugoliaethau yn crogi ar y twr hwn. BOOTHROYD.—Wrth y ddyweddi a gyferchir yma gan ei Hanwylyd, gyda'r fath serchawgrwydd, ac ymadroddion canmoliaethol, y gellir golygu naill ai credinwyr unigol neu yr eglwys yn ei chymeriad cymdeithasawl; ac fe ellir meddwl fod yr amrywiol gydmariaethau hyn yn dynodi amryfal rasau yr eglwys, neu y cristion ffyddlawn; er y dichon na's gallwn ni wneuthur y cymhwysder prïodol i bob un. Hwyrach fod y "llygaid colomenaidd rhwng y llawethau," yn dynodi y gwylder â'r hwn y cuddia credinwyr eu gweithredoedd da, y rhai a ddeilliant oddiar gariad hynaws a sanctaidd; neu, e ddichon fod llygaid gwyryfaidd, yn cael eu cysgodi â chudynau gwallt, yn arwyddoccau annhueddgarwch i lygad-rythu o'i hamgylch, ac anewyllysgarwch i fod yn nôd llygadrythiad neb. "Y gwallt fel dïadell o eifr," y rhai ydynt yn hynod am ddilyn y bwch yn drefnus, a allai fod yn arwyddoccäol o broffes synhwyrol y credadyn o'i ffydd; a'i ymarweddiad rhëolaidd, fel y canlyniad o wybodaeth a barn iachus. "Y dannedd," gwasanaeth y rhai yw parottoi yr ymborth i'w dreulio yn y cylla, y rhai a gydmerir yma i ddïadell o ddefaid gwastad-gnaif, a allant ddynodi tueddfryd hyddysgawl y credadyn, ei ymlyniad dyfal wrth addysg, ac effaith fuddiol yr unrhyw ar ei ymddygiad yn ei wneuthur yn dra ffrwythlawn yn mhob gweithredoedd da. Ond y mae rhai yn cymhwyso y gydmariaeth yma at y gweinidogion, y rhai ydynt yn parottoi ymborth ysbrydol er meithriniad yr eglwys; a chyssondeb a phurdeb eu hathrawiaeth, yn nghyd a'i heffeithioldeb yn nychweliad pechaduriaid a sancteiddiad credinwyr. "Y gwefusau fel edau ysgarlad," a'r "pârabl," neu yr ymadrodd "yn weddus," a ddynoda yn ddïau ddefnyddiad buddiol y ddawn o ymadroddi, mewn ymddiddan adeiladol, pregethiad yr efengyl, ac addoliad Duw. Sal. 37. 29—31. a 45. 2. Dïar. 15. 4. a 25. 11, 12. Esa. 50. 4. Eph. 4. 29. Iago. 3. 3—12. "Yr arleisiau fel darn o bomgranad" a all fod yn arwyddoccau ymostyngiad enaid ger bron Duw, am y diffygion neu y pechodau, adnabyddus iddo ef ei hunan; neu y gwylder, cystal â'r callineb, â'r hyn y dylai gweinidogion y gair fod wedi eu haddurno yn eu gwaith; neu y rhagoriaethau hyny yn yr eglwys a'r credadyn, a gymeradwyir gan Grist mewn modd arbenig, ond ydynt yn guddiedig o olwg y byd, Sal. 45. 13—15. 1 Pedr 3. 1—4. "Y gwddf," trwy yr hwn yr unir y pen â'r corff, a olygir yn gyffredin fel arwydd-lun o *ffydd*, trwy yr hon yr unir y credinwyr â Christ ein Pen; a'r hon sydd darian, i droi ymaith

a diffoddi picellau tanllyd y fall, a thrwy yr hon y mae yr enaid yn cael ei roddi dan nawdd y Goruchaf, fel mewn twr cadarn. Eph. 4. 14—16. a 6. 14—17. Col. 2. 18, 19. "Y ddwyfron fel dau lwdn iwrch," &c. os y'i cymhwyswn at y credadyn, a all fod yn dynodi y cariad diffuant sydd ynddo at Grist, a'r hyfrydwch y mae Crist o'r tu arall yn ei gymeryd ynddo ef, megis priod yn serchawgrwydd gwraig ei fynwes; neu y cyssylltiad sydd yn ngweithrediadau gwahaniaethol grasusau ysbrydol, y rhai ydynt megis gefeilliaid; ac e ddichon fod yn y gyffelybiaeth o "ddau lwdn iwrch yn pori yn mysg lili," gyfeiriad at gydffurfiad y credinwyr â Christ, yr hwn a ddarlunir trwy y gyffelybiaeth yma, pen. 2. 16. Ond os cymhwysir y "ddwyfron" at gorff yr eglwys, efallai eu bod yn dynodi y ddau Destament, neu ysgrifeniadau y proffwydi a'r apostolion, y rhai ydynt ddymunol fel iyrchod ieuainc, a gefeilliaid mewn athrawiaeth; o'r rhai y dylai gweinidogion yr efengyl dynu eu holl addysgiadau; ac o'r rhai y mae dychweledigion ieuainc yn sugno "didwyll laeth y gair, fel y cynnyddont trwyddo;" a hen gristionogion, nid yn unig yn sugno defnydd cynnydd a gwelliant paraus, ond hefyd yn dysgu y pethau hyny a gyfrennir ganddynt er llesäad rhai eraill, Diar. 5. 15—19. Esa. 66. 10—14. 1 Pedr 2. 1—3. Nid yw rhai o'r ymadroddion hyn yn ymddangos mor gyfaddas i ddarlunio prydferthwch benywaidd; ac yr ydwyf yn cymeryd yn ganiatäol fod arwyddocäad ysbrydol iddynt, er na's gallaf haeru yn benderfynol fod yr ystyr prïodol i bob cyffelybiaeth wedi ei nodi yn y sylwadau uchod. Ond y rhai hyn yw y golygiadau mwyaf hygoel a ganfyddais I ar y peth. SCOTT.

Adn 6. Wrth "fynydd y myrr," a "bryn y thus," efallai y golygid y mynydd ar yr hwn yr adeiladasid y deml, lle y llosgid yr arogl-darth, a lle y byddai y bobl ar yr un pryd yn addoli yr Arglwydd. Dyma y fan oedd ei drigias neillduol ef, lle y dysgwyliai efe i drugarhau, hyd oni wasgerid cysgodau yr oruchwyliaeth ddeddfol trwy doriad gwawr dydd yr efengyl, a chyfodiad Haul y cyfiawnder; ac yma yr ymgynnullai credinwyr i gyfarfod âg ef yn ei ordinhadau. Hos 5. 15. Mal. 1. 9—11. a 4. 2—6. Ioan 4. 21—24. Yn bresenol y mae efe yn preswylio yn y natur ddynol, ac wedi myned i'r gwir gyssegr, i gyflwyno addoliad ei bobl o flaen yr orsedd, gydag arogl-darth ei eiriolaeth; ac er fod Crist o ran ei natur ddynol yn absenol oddiwrth ei eglwys ar y ddaiar, ac y bydd efe felly hyd oni wawrio y dydd nefol, ac y byddo i'r cysgodau daiarol hyn gilio; eto, y mae efe yn dwyn ein hachos ni yn mlaen yn y nef, ac y mae efe yn bresenol mewn modd *ysbrydol* yn ei ordinhadau, gyd a'i bobl, megys y dywedodd pan esgynodd, "Wele yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. Amen." Matt. 18. 19, 20. a 28. 19, 20. Heb. 9. 24—28. SCOTT.

Adn. 8. *Tyred gyda mi,* neu, "Tyred attaf fi o Libanus. Dechreuir cân wahanol yma. Ac ynddi y mae Solomon yn ei arddelwi ei hun yn amddiffynwr ei ddyweddi; gan addef ei fod ef wedi ei derbyn hi yn bur a dihalog; a'i fod yn mwynhau holl gysuron y cyflwr prïodasol. Yr oedd gwylltfilod rheibus yn trigiannu uchelderau y mynyddau a grybwyllir yma; ac y mae yn anmhossibl dychymygu dim godidoccach na'r cyfarchiad hwn, yn yr hwn y gwahoddai y brïodferch i'w freichiau, megis i le diogel. BOOTHROYD.

Y mae dull ymadroddiad y geiriau hyn yn yr iaith wreiddiol yn dynodi, nid yn unig wahoddiad; ond addewid hefyd, y bydd i'r wir eglwys gael ei dwyn o bob perygl a phoen, i fwynäad o ddedwyddwch perffaith, yn mhresenoldeb a ffafr ddilen ei Hanwylyd, Sal. 45. 9—11. a 76. 4. Esa. 35. 8—10. 2 Cor. 6. 14—18. Yn mha ystyr y gellid galw merch Pharaoh i ddyfod at Solomon *wedi eu dyweddïad* o bennau y mynyddoedd ofnadwy hyn? A pha beth a'i dygai hi cyn ei phriodas ychwaith i wylltoedd Libanus, ar gyffin gogleddol Canaan, neu grib Hermon, ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen?—canys yr oedd yr Aipht yn gorwedd ar y tu de-orllewin i Ganaan. SCOTT. Y mae yr enw Libanus yn gyffredin, yn cynnwys yr holl fynyddoedd a enwir yma; gan nad oeddynt namyn gwahanol gribau ar un gainc o fynyddoedd a elwid Libanus. Y fynydd-gainc hon a ysgara rhwng Syria a Phalestine, ac yr oedd yn dra enwog am ei lluaws afonydd a ffrydiau, ei chedrwydd godidog, a'i hamryfal brennau, planwydd, a blodau rhagorol a dyfent yn dra ffyniannus a ffrwythlawn ar ei llethrau. Moses a'i galwai "Y mynydd da hwnw." A dywedai VOLNEY am dano, "Ar bob cam a roddem, yr oeddem yn cyfarfod â golygfeydd, yn y rhai yr oedd anian fel yn lledaenu ei godidowgrwydd o'n blaen mewn hynodiaethau amrywiaethol." Ac efe a ychwanegai, gan ddywedyd fod y sawl a gyrhaeddai ei grib, "fel pe gwelai yr holl fyd yn gorwedd islaw iddo, tra fyddai y llygaid wrth grwydro o'r naill fynydd-res i'r llall, yn cludo y meddwl mewn mynydyn o Antiochia i Jerusalem." Gwelwn fod rhai o'r mynyddau hyn wedi cael eu henwau, nid yn unig oddiwrth eu cynnyrchion, ond hefyd oddiwrth y creaduriaid a drigiannent ynddynt. Ond tybir yn y gân, fod y rhai hyn oll yn encilio ar ddynesäad y Prïodfab ardderchawg yma a'i ddyweddi. Daw y pryd y geilw ein Harglwydd ei brïodferch i adfyfyrio ar holl ryfeddodau ei ras a'i allu amlygedig yn ei oruchwyliaethau i barottoi ei eglwys erbyn ei buddugoliaeth olaf, ac ar yr holl wynfydedigrwydd a ddylyna hyny i'r byd. Cymh. Nod. ar Datt. 19. 1—8. DAVIDSON.

Adn. 9. *Dygaist fy nghalon âg un o'th lygaid.* Hwyrach fod yma gyfeiriad at arferiad sydd yn y gwledydd Dwyreiniol, gan y pendefigesau, o ddyrchafu y gorchudd oddiar un llygad tra fydd-

ont yn ymddiddan a neb un, gan adael y llall yn orchuddiedig. WILLIAMS. Neu, "Ar unwaith a'th lygaid;" hyny yw, yn y fan, âg un drem. KENNICOTT.

Adn. 10, 11. Gwel pen. 1. 2, 3. Diar. 5. 3. a 34. 13 a 25. 16. Esa. 7. 15.

Adn. 12—15 MR. FRY a olygai y geiriau hyn yn ddarluniad o ardd y ddyweddi, ac nid o honi hi ei hunan: ac fel hyn y darllenir ei gyfieithiad ef or geiriau,—"Y mae gardd gauedig, fy chwaer a'm dyweddi; y mae ffynnon wedi ei chau i fynu, y mae ffynnon wedi ei selio. Ffynnon dy ardd sydd ffynnon o ddyfroedd byw, ffrydiau o Libanus." Ond y mae y rhan fwyaf o'r beirniaid o olygiad gwahanol;—Mae y brenin yn cyffelybu ei ddyweddi i ardd wedi eu chau a'i diogelu rhag i dreiswyr ymyrraeth â hi; neu i ffynnon o ddwfr gloyw pur, wedi ei chloi a'i selio at ei wasanaeth ef ei hunan. Efallai fod yma gyfeiriad at ddull arferedig o gloi a selio ffynhonau at wasanaeth gwyr mawr yn y gwledydd Dwyreiniol; megis yr arferai breninoedd Persia, neillduo ffynonau at eu gwasanaeth eu hunain, o'r rhai ni's byddai neb i yfed ond y Brenin a'i fab hynaf yn unig. PERCY, GILL.—Anialwch yw y byd hwn, ond y mae yr eglwys fel gardd gauedig gan ddwyfol ras, ac ystoredig â phob rhyw blanhigyn gwerthfawr, y rhai a feithrinir yn dda, ac ydynt yn dra ffyniannus. Y mae o'i mewn ei hunan ffynnon ragorol, o'r hon y dwfrheir pob rhan o honi yn helaeth, h. y. dylanwadau meithrinawl yr Ysbryd Glan. Ond y mae y ffynnon hon yn gauedig ac yn seliedig; nid yw y byd yn adnabod y "ffynnonau iachawdwriaeth hyn;" ac ni's gall un gwrthwynebwr attal ei tharddiad neu ei llygru, neu attal llifiant ei ffrydiau iachusol. E all dynion weled yr effeithiau; ond ni's gallant ganfod yr achos; canys y mae bywyd y credadyn "wedi ei guddio gyda Christ yn Nuw." Mae rhai yn meddwl mai dychweledigion ieuainc a olygir wrth y *planhigion* yma, a bod cau yr ardd, a chloi y ffynnon, yn arwyddoccau cau y drygionus allan o ordinhadau cyssegredig yr Eglwys. Gellid meddwl hefyd fod ymlyniad diffuant y wir Eglwys wrth Grist, a'i ffyddlondeb iddo ef yr hwn a'i dyweddïodd ag ef ei hunan, yn cael ei olygu yma. Pen. 1. 12—14. a 7. 10—13. Sal. 46. 4. Diar. 5 15—19. Esa 12. 1—3. a 41. 17—20. a 61. 11. Ioan 4. 10—15. Col. 3. 1— 4. SCOTT.

Adn. 16. Mae y ddyweddi gan ei chyfrif ei hunan yr ardd grybwylledig, yr hon a ddwfrheid ac a drinid mor dda; yn dwys ddymuno ar fod i'w grasusau gael eu bywiogi, ei pherlysiau yn fwy peraroglaidd, a'i ffrwythau yn fwy toreithiog; ac y mae yn galw ar y *gwynt* (cyffelybiaeth arall o'r Ysbryd Glan yn ei weithrediadau amrywiol) i chwythu ar ei gardd i'r perwyl hyny. Esa. 37. 1—10. Ioan 3. 7, 8. Act 2. 2, 3. Gall fod y gogleddwynt yn arwyddoccau gweithrediadau argyhoeddiadol, yr Ysbryd, y rhai

er eu bod yn llymion ac annymunawl i'r teimlad, ydynt yn dra buddiol er hyny: ac e feddylir fod y deheuwynt yn dynodi ei ddylanwadau adfywiawl a dyddanawl, y rhai sydd yn peri i obaith, cariad, dïolchgarwch, a zel, ymhelaethu yn y galon, Ioan 15. 6—8. a 16. 8—11, 14, 15. Rhuf. 7. 14—17. a 8. 10—13. Phil. 1. 9—11. a 4. 14—20. Heb. 13. 15, 16. Dymunai gael hyn, fel y byddai ei gwasanaeth yn fwy dymunol ac anrhydeddus i'w Hanwylyd, ac y byddai hithau yn sicrach o gael mwynhau ei bresenoldeb gwastadol. SCOTT.

## PEN. V.

Adn. 1. Mae yr adnod hon yn diweddu y bennod flaenorol mewn rhai Cyfieithiadau, a buasai yn fwy addas felly hwyrach, nac i ddechreu pennod newydd, gan mai attebiad y Prïodfab i ddymuniad y brïodferch yn yr adnod flaenorol yw y geiriau, a gwahoddiad i'w gyfeillion i gyd lawenhau âg ef. Ac y mae yn deilwng o sylw yma, fod y cyflawniadau hyny o addoliad crefyddol, trwy ba rai y mae pobl yr Arglwydd yn ei anrhydeddu ef, yn gyfryngau neu foddion, drwy ba rai y cyfrennir gras iddynt hwy.

Adn. 2. Dyma ran arall o'r farddoniaeth yn dechreu yma, a golyg-ddrych newydd yn dyfod i'r golwg. Yr oedd Solomon oddicartref, ac adrodda y brïodferch ei breuddwyd oddiyma hyd adn. 7, i'w llawforwynion. Hi a ddychymmygai fod ei Hanwylyd wedi dychwelyd, a'i fod yn curo wrth y drws gan ddywedyd, "Agor i mi."—*Llanwyd fy mhen à gwlith.* Mae y gwlith yn disgyn yn helaeth iawn y nos yn y gwledydd poethion, ac mor niweidiol i iechyd ag yw gwres dirfawr y dydd. BOOTHROYD, DAVIDSON, WILLIAMS. Ond y mae SCOTT yr hwn sydd yn erbyn prïodoli y gân hon i Solomon a'i ddyweddi, nac i neb amgen neu is na Christ a'i eglwys, yn dadleu yn gryf yn erbyn y golygiad o fod y geiriau yn adroddiad o freuddwyd, ond ei fod yn ddarluniad allegawl o gyflwr o syrthni a llwfrdra ysbryd, i'r hwn y cwympasai yr eglwys ar ol y ganmoliaeth ragorol a roisid iddi yn y bennod flaenorol. *Myfi sydd yn cysgu, a'm calon yn effro.* Yr oedd hi yn hynod o hwyrdrwm, eto nid yn hollol ddi sylw ar ei sefyllfa ysbrydol. Yr oedd ei barn a'i dewisiad yr un; ond yr oedd ei serchiadau yn oerion, a'i gwasanaeth yn ffurfiol: ac ysywaeth fe wyr y credadyn am y cyffelyb brofiad yn lled fynych. Matt. 25. 5—9. Dat. 2. 2—5. Tra yn y cyflwr yma, y mae hi yn adwaen llais ei Hanwylyd, yn ei glywed ef yn curo ac yn ceisio derbyniad i fewn. Trwy hyn y darlunir y rhybuddion, y ceryddon, a'r gwahoddiadau a roddir i'r Cristion tra yn y cyflwr swrth yma, yr argyhoeddiadau a gyffröir gan yr Ysbryd Glân, y dymuniadau aneffeithiol a deimlir, a'r hanner penderfyniadau a ffurfir ar y cyfryw achlysuron. Y mae efe yn gweled ei fod ar fai, ac y dylai efe fod yn fwy difrifol; efe a geryddir yn dyner

am ei ffolineb a'i annïolchgarwch; eto y mae yn ymollwng dan syrthni, llesgedd, neu glaiarineb, Dat. 3. 20—22. Y mae geiriau Crist fel y'u darlunir yma, yn llawn o'r serchawgrwydd tyneraf, heb yr arwydd lleiaf o ddigter nac edliwiad; eto y mae efe yn cwyno fod "ei ben yn cael ei lanw â gwlith, a'i wallt â defnynau y nos," yr hyn a ddynoda y caledi a'r dyoddefiadau yr aeth efe danynt er cwblhau iachawdwriaeth i'w bobl, a'i fod yn arwydd o annïolchgarwch ac anngharedigrwydd mawr ynddynt, oni byddent yn barod i'w dderbyn a'i groesawi ef. Fel pe buasai gwr tirion wedi myned i daith faith, flinedig, yn unig er llesäad a chysur ei wraig; ac wedi teithio yn hwyr iawn yn y nos, trwy yr oerni neu y gwlaw, drwy ei hoffder o'i chymdeithas hi; ond yn y diwedd yn cael ei gau allan, ac yn gorfod bod ar yr heol trwy y nos! Matt. 26. 40, 41. Ioan 15. 3—5. Rhuf. 13. 11—14. 2 Cor. 5. 13—15. Eph. 4. 30—32. SCOTT.

Adn. 3. *Diosgais fy mhais, &c.* Mae yr esgusion gweigion a ddadleuid gan y Ddyweddi, yn dynodi ansawdd anmharod calon y credadyn, pan fyddo wedi colli ei wyliadwriaeth, myned yn esgeulus o'i waith, caru seguryd ac esmwythdra, ac ymlenwi o gasineb at lafur ac annghyfleusdra. Tra mae yr enaid yn y fath agwedd, y mae pob peth yn attalfa nerthol ar ei ffordd; a chymerir yr achlysuron mwyaf dibwys yn ddefnydd esgusodion dros esgeulusiad dyledswydd.—E ddichon fod cyndynrwydd i ddangos ein cariad at Grist trwy hunan ymwadiad, a haelfrydigrwydd at ei bobl dan eu trallodau a'u cystuddiau, yn cael ei olygu yma. SCOTT.

Adn. 4. *Fy anwylyd a estynodd ei law trwy y twll.* Yr oedd yn hen arfer gynt i ddïogelu drysau tai trwy roddi trawst-lath neu follt ar draws y drws, yr hwn a ddïogelid yn y nos trwy roddi pin neu hoel yn y bollt yma. Gadewid twll crwn yn mhen uchaf y ddôr, trwy yr hwn y gallai un roddi ei fraich, a symmud y drawst-lath yma, oddieithr bod yr hoel grybwylledig wedi ei rhoddi ynddo. Mae yn eglur mai y darluniad a wneir yn y gân ydyw y prïod-fab yn ceisio agor y ddôr trwy symmud y bollt; ond wedi methu gwneuthur hyny yn myned ymaith. LE CLERC, BOOTHROYD. Ond, pa fodd bynnag, e debygid fod hyn yn cynnwys darluniad o ddylanwadau effeithiol Ysbryd Crist ar y galon, yn peri argyhoeddiadau llymion, ac yn cyffröi gweithrediadau grasol yn y galon, mewn dymuniadau hiraethlawn am fwynäad o Grist a chymmundeb âg ef; yn nghyd a gofid llym, a chywilydd, a braw calon, oblegyd ymddygiad mor anngharedig tuag atto. Salm 110. 3. Ioan 16. 8—11. Act. 16. 13—15. Heb. 4. 1, 2. Dat. 2. 14—16. a 3. 18, 19. SCOTT.

Adn. 5, 6. Wrth waith y ddyweddi yn cyfodi i agor i'w Hanwylyd, y golygir gweithrediad adnewyddol edifeirwch a ffydd y credinwyr hyny, a ymollyngasent i esgeulusdra: trwy yr hyn y

maent yn cyfodi o'u syrthni a'u hunan-foethau, gan ymofyn mewn gweddiau gwresog am gysuron cariad Crist, ac ymdrechu yn ddifrifol i symmud ymaith bob rhwystr i gymmundeb âg ef. Darlunir y gweithrediadau hyn trwy y gyffelybiaeth o fod y dwylaw a'r bysedd yn dyferu gan fyrr ar hyd hespenau y clo, er dynodi eu bod ynddynt eu hunain yn rasol, yn gyfaddas i'r amgylchiad, ac yn gymeradwy gan yr Arglwydd. Ond, er hyn oll hi a ganfyddai fod ei hanwylyd wedi cilio a myned ymaith: canys rhwydd y collir cysuron cymmundeb â Duw, ac nid mor hawdd y'u hennillir yn ol. Salm 30. 6—8. a 51. 11—13. a 130. 1, 2.—*Fy enaid a lewygodd pan lefarodd:* wrth yr hyn y golygir, naill ai ei bod hi wedi adgofio yn bresenol ei alwad dyner a serchog o'r blaen, i'r hon yr anufuddhasai hi; neu efe a lefarai air ceryddol wrth ymadael, yr hyn a'i llanwai â gofid dirfawr. Salm 77. 3, 4. Esa. 57. 15—18. Pa fodd bynnag y mae hi yn ymroddi yn y modd mwyaf difrifol, heb oedi yn hwy, i ymofyn am dano, ond methai a'i gael; galwai arno, ond nid attebai. Felly y mae yn rhaid i'r credadyn yn yr amgylchiad yma ddysgwyl cael ei adael i ddefnyddio pob moddion o ras gyd a'r diwydrwydd mwyaf, heb brofi y cysur a fwynäai gynt ynddynt, hyd oni's ceryddir, ac oni's darostyngir yn ddigonol am ei gamwedd.

Adn. 7. *Y gwylwyr y rhai a aent o amgylch y ddinas a'm cawsant.* Gall fod y rhai hyn yn ddynodawl o rai mewn enw yn weinidogion, y rhai a allant fod yn gwylio ar amgylchiadau allanol crefydd mae yn wir, ond ydynt yn amddifaid o wybodaeth brofiadol o'i gallu. Mae y cyfryw rai yn gyffredin yn ymddwyn yn lled lym a diystyr tuag at y rhai a gwynant gan eu trallodau a'u gofidiau tufewnol, gan eu galw yn rhagrithwyr, penboethiaid, ac, hyd yn nod yn lloerigion gwallgofaidd. Cyfodwyd yr erledigaethau llymaf yn mhob oes gan rai o'r nodweddiad yma; y rhai dan y rhith o wylio muriau Sïon, a ymddygasant at y credinwyr mwyaf ysbrydol a gostyngedig, fel pe buasent y gwaethaf o ddynion, gan ychwanegu at dreisiadau a chamwri eraill, y brofedigaeth lem o watwariadau, enllibiau, a gwaradwyddiadau creulawn, "Y gwylwyr a'm tarawsant, a'm harchollasant,—gwylwyr y caerau a ddygasant fy ngorchudd ymaith." Heblaw hyny, gall fod yr ymadroddion yma yn dynodi y duedd a all fod hyd yn nod mewn gweinidogion duwiol weithiau i ymddwyn yn lled galed at eneidiau trallodedig a phrofedigaethus, gan feddwl eu bod yn rhagrithwyr, yn lle arfer y tynerwch a weddai i'w hamgylchiad. 2 Cor. 2. 5—11. Gal. 6. 1—5.

Adn. 8 Meddylid fod y siars yma a roddir gan y ddyweddi i *ferched Jerusalem,* yn arwyddoccâu dymuniad y credadyn am weddïau y cristion gwanaf, neu y dychweledig ieuanc, na's byddo namyn newydd adnabod y Gwaredwr. Y mae eneidiau deffröedig yn teimlo mwy oddiwrth guddiad wyneb Crist, nac unrhyw drallod arall.

Adn. 9—16. *Beth yw dy anwylyd*, &c. Rhoddai hyn gyfleusdra neillduol i'r ddyweddi i ddarlunio rhagoriaethau ei Hanwylyd. Wrth ferched Jerusalem yma y golygid, debygid, rai dan argraffiadau crefyddol, yn meddwl wrth yr olwg ar awydd hen grefyddwyr am gael mwynäad helaethach o gymmundeb âg ef, fod mwy o ragoriaethau ynddo nac a welsant hwy eto, a mwy o ddedwyddwch yn ei gymdeithas na dim a brofasant nac a ddychymmygasant erïoed. Esa. 53. 2, 3. Ioan 1. 14. 2 Cor. 4. 3—6. Yna y mae yr eglwys yn myned yn mlaen gan ddarlunio rhagoriaethau ei Hanwylyd—Dywedai ei fod yn *wyn a gwridog*, yn hawddgar a iachus —*Yn rhagori ar ddeng mil*, neu yn bennaf yn mysg deng mil, hyny yw, yn ben ar holl Israel, fel y mae y gair yn arwyddo yn Num. 10. 36. *Ei ben fel aur coeth*, wrth yr hyn y golygid y goron aur a wisgai, oddi tan yr hon y gwelid ei wallt crych-ddu hardd, yn crogi i lawr ar hyd ei ruddiau a'i wddf. Ei lygaid yn llewyrchu mewn bywiogrwydd, eto mewn addfwynder, fel yr eiddo colomenod pan yn llawn hyfrydwch ar lan yr afon, fel y meddylia rhai fod y geiryn gwreiddiol yn arwyddo. Meddylir fod y geiriau *wedi eu golchi â llaeth*, yn golygu y colomenod, y rhai oeddynt mor wynion a phe buasent wedi eu golchi â llaeth. Dan. 7. 9—12. Dat. 1. 12—20.—*Ei ruddiau fel gwely per-lysiau*, wrth yr hyn yma y golygir rhosynau ond odid, yr hyn a gynnwysa y golyg-ddrych o wrid iachus a hawddgar yn ei ruddiau, fel lliw gwely rhosynau. HARMER.—*Ei wefusau fel lili*, lili rhuddgoch, y rhai oedddynt mewn bri tra mawr yn Syria.—*Yn diferu myrr diferol*, i arwyddo fod ei ymadroddion yn fwy dymunol a gwerthfawr na'r myrr gwerthfawroccaf. BOOTHR.—*Ei ddwlyaw fel modrwyau aur wedi eu llenwi o beryl*, a ddynodent addurniadau gwerthfawroccaf ar ei fysedd a'i arddyrnau.—*Ei fod fel dysglaer ifori, wedi ei wisgo â saphir*. Neu, "Ei gorff fel dysglaer ifori." Meddyliai ESGOB PERCY fod y geiriau hyn yn arwyddocâu ymddangosiad y gwythienau yn leision fel saphir, trwy ei groen claer-wyn.—*Ei goesau fel colofnau marmor*, yn gryfion a lluniaidd;—*Ar wadnau o aur coeth*, cyfeiriad at wychder y sandalau, debygid; ac arfera gwyr mawr yn y gwledydd Dwyreiniol, addurno eu sandalau âg addurniadau aur yn helaeth.—*Ei wynebpryd fel Libanus, mor ddewisol a chedrwydd;* neu yn fawreddawg fel cedrwydd; hwyrach fod y golyg-ddrych o daldra hefyd yn cael ei gynnwys yn y gyffelybiaeth hon. LOWTH, CLARKE.—*Melus odiaeth yw ei enau;* ei hyawdledd yn fawr, a'i lais yn beraidd. Yma y mae y ddyweddi fel pe buasai wedi defnyddio pob cydmariaeth ar a allai ei ddychymygu i osod allan ei hawddgarwch, eto yn gweled ei degwch yn annhraethol tu hwnt i bob darluniad, yn torri allan i waeddi, *Ië, y mae efe oll yn hawddgar*.

## PEN. VI.

Adn. 1—3. Rhoddir ar ddeall i ni yma, fod y darluniad bywiog

blaenorol a roisai y ddyweddi o'i Hanwylyd, wedi cyffröi yn meddyliau ei chyfeillesau benderfyniad i'w geisio ef gyda hi; ac wrth ei chanfod yn galaru am ei absennoldeb, ymofynent â hi i ba le yr aethai efe: ac ar yr ymofyniad yma, hi a gofiai yn y fan pa le yr oedd efe i'w gael, er ei bod hi yn ei geisio ef heb ei gael. Mae yn ddïau ei fod yn bresenol gyd a'i eglwys, a'i saint cynnulledig, y rhai ydynt fel gwelyau perlysiau, o'r rhai y mae eu haddoliad ysbrydol yn esgyn i fynu yn gymeradwy gan Dduw. Yma y mae efe fel bugail yn porthi eneidiau â doniau ei Ysbryd. Y mae efe hefyd yn chwanegu gwir ddychweledigion attynt, ac yn eu cynnull yn barhaus, o un i un, i'w deyrnas nefol. Yr hyn a ddysgir yn y geiriau hyn yw, mai yn yr eglwys yn unig y mae ymofyn am gymmundeb â Christ. PATRICK. Pan fyddo Crist yn dyfod i'w eglwys, y mae yn dyfod yno i groesawi ei gyfeillion; ac i gymeryd credinwyr atto ei hunan; y mae efe yn casglu ei lili o un i un, ac yn y dydd mawr efe a enfyn ei angelion i gasglu ei holl lili, fel y'i gogonedder ef ynddynt yn dragywydd. Nid yw marwolaeth credadyn yn ddim amgenach na gwaith perchen yr ardd yn cymeryd ei hoff flodeuyn i'w fynwes ei hun; ac efe a'i ceidw rhag gwywo; ïe, a bair iddo flodeuaw yn dragywyddol mewn tegwch rhagorol. Os gall ein calonau ni ein hunain dystiolaethu ein bod ni yn eiddo Crist, nid rhaid i ni ammeu a yw efe yn eiddo i ni. Mae yn gysur i'r eglwys gofio ei fod ef yn bugeilio yn mysg y lili, ac yn ymhyfrydu yn ei bobl. *Miniature Commentary.*

Adn. 4. Wedi i'r ddyweddi gael ei darostwng yn brïodol, a dyfal barhau yn yr ymarferiad o ffydd a chariad sanctaidd, mae Crist yn ei amlygu ei hun iddi drachefn: ac yn adnewyddu ei ganmoliaeth o honi.—*Tirzah*, a fu wedi hyn yn llys i freninoedd Israel, ac y mae yn ddiau fod ei sefyllfa yn hynod o ddifyrus, fel yr arwyddoccâi yr enw; a Jerusalem, oedd y ddinas sanctaidd, lle yr oedd teml Duw, yr hon a elwid yn "berffeithrwydd tegwch," Salm 48. 2, 3. Gan hyny, y mae hyn yn arwyddocâu fod yr holl wir ragoriaeth a sancteiddrwydd sydd ar y ddaiar yn cyfarfod yn yr eglwys. Dywedir hefyd ei bod *yn ofnadwy fel llu banerog;* canmoliaeth ryfedd yn wir i brydferthwch benywaidd! Ond, pan fyddo eglwys Dduw wedi theccau mewn sancteiddrwydd, a'i hunaw mewn cariad, hi a fydd yn ofnadwy i'w gelynion. Milwr i Grist yw pob credadyn, wedi ymrestru dan ei faner ef, ac yn gwneyd i fynu ran o'i fyddin ef.

Adn. 8, 9. Meddylia rhai fod Solomon yn cyfeirio yma at y gwragedd a'r gorddechadon, yn nghyd a'r llancesau oedd yn gweini arnynt y pryd hwn yn ei lys ef ei hunan; ond tebyccaf yw ei fod ef yn cyfeiriaw yn hytrach at ddefod gyffredinol y breninoedd Dwyreiniol: yn yr hyn y darfu iddo ef eu hefelychu, ïe, a rhagori arnynt oll yn fuan. Pa fodd bynnag, y mae yr iaith yn

arwyddo, er fod lluaws o'r rhai a gyfrifir yn anrhydeddus ac ardderchawg ar y ddaiar, eto y gwir gredinwyr yn unig ydynt yn meddu prydferthwch sancteiddrwydd, â'r hwn nid oes dim arall yn deilwng i'w gydmaru. Wedi eu geni o Dduw, a'u hunaw â Christ; ac felly wedi eu gwneuthur yn blant yr eglwys; wedi eu cyfiawnhau, eu sancteiddio, a'u cymeradwyo fel pobl sanctaidd, y mae y cyfan yn gwneyd i fynu un corff, ac yn feddiannol ar yr un rhagoriaeth, gan eu bod o un galon ac un farn yn mhrif bethau crefydd; a phan amlygir eu gwir nodweddiad, ni's gall hyd yn nod y rhai y byddo eu rhagoriaeth yn cymmylu mwyaf ar eu hanrhydedd, lai na'i fawrygu a'i ganmol, Deut. 4. 6—8. Sal 45. 9—15. Jer. 32. 39—41. Ioan 17. 20, 21. Act. 4. 32—35. Eph. 4. 1—6, 22—27. Dat. 19. 7, 8.

Adn. 10. *Pwy yw hon?* Mae y geiriau hyn naill ai parâad o ganmoliaeth yr Anwylyd i'w ddyweddi, neu yn cynnwys canmoliaeth y breninesau, y gordderchadon, a'r llancesau a grybwyllir yn yr adnod flaenorol. O'u cymhwyso at yr eglwys, gallant fod yn ddynodawl o wawriad graddawl dydd yr efengyl, o'r addewid gyntaf i Adda gwympedig, hyd gyfodiad Haul y cyfiawnder, a galwad y cenhedloedd, neu ddyfodiad cyflawnder y cenhedloedd i mewn. Mae yr eglwys ar y ddaiar, trwy adlewyrchu gogoniant Crist, *yn deg fel y lleuad;* ond yn y nef, lle y caiff gyflawnach golwg arno, a pherffeithiach cydffurfiad âg ef, hi a fydd *yn bur fel yr haul:* ac yn ei sefyllfa filwriaethus a gorfoleddus, y mae *yn ofnadwy fel llu banerog.* A gellir darlunio gyrfa y credadyn o'i gychwyniad cyntaf yn yr ail enedigaeth, hyd ei fuddugoliaeth drwyadl, a pherffeithiad ei iachawdwriaeth, trwy yr un cyffelybiaethau, 2 Sam. 23. 3, 4. Diar. 4. 18, 19. Esa. 30. 26. a 60. 1—3, 15—22. Zech. 14. 6—9. Mal. 4. 2, 3. Matt. 13. 36—43. Dat. 12. 1, 2. a 21. 22—27. a 22. 2—5.

Adn. 11, 12. Darlunir Crist yma, debygid, yn ymddiddan â'r eglwys am ei ymadawiad diweddar oddiwrthi, a'i ddychweliad. Wedi ei dristau gan ei hesgeulusdra, efe a aethai ymaith ac a'i gadawsai; ond i waered i'w *ardd gnau* yr aethai efe; yr oedd efe yn bresenol yn ei eglwys o hyd, ac yn gofalu am ei bobl; ac yr oedd efe yn bresenol i sylwi ar, a chymeradwyo *ffrwythydd y dyffryn* yn enwedig, sef gweithredoedd da y gostyngedig a'r cystuddiedig o ysbryd; ac i sylwi ar flodeuad hen gristionogion, a blaendarddiad dychweledigion ieuainc. Ond yr oedd ei lygaid ar ei ddyweddi, yr hon oedd mewn galar dan guddiad ei wyneb am ei throsedd, yn barhaus, ac wrth ei chanfod hi mor ddigysur, yn ymofyn am dano, a'i henaid yn brefu am fwynâad adnewyddol o ddyddanwch ei bresenoldeb, ni's gallai ymattal yn hwy; ac fe'i tueddwyd gan angerdd ei gariad i ddychwelyd atti yn ddisymmwth *fel cerbydau Ammi-nadib,* yr hwn oedd yn rhyw dywysog hynod am yru yn gyflym, debygid. Salm 92. 12—15. Esa. 5. 2—4. Luc 13. 6—9. Ioan 15. 1—8.

Adn. 13. Darlunir y ddyweddi fel un yn gywilyddus am ei cham ymddygiad, ac yn gydwybyddus o'i hanheilyngdod, bron yn methu credu fod ei hanwylyd wedi llawn gymmodi â hi; neu yn methu anturio nesau atto gyd a'r un hyder a chynt; ac megis pe ciliai yn ol o fysg ei gyfeillion; ond y mae merched Jerusalem yn galw arni gyda thaerni mawr i ddychwelyd fel y gallont edrych arni. Y gair *Sulamees* a all fod yn ddeilliedig o Solomon, brenin heddwch, neu yn hytrach o Salem, dinas heddwch; a meddylid ei fod yn arwyddoccâu, yr un heddychlawn, neu dangnefeddus. Yna y mae y ddyweddi yn gofyn pa beth a allai yr anwylyd neu y cyfeillion ei ganfod ynddi hi yn deilwng o sylw; i'r hyn yr attebir, ei bod *fel tyrfa dau lu*. E ddichon fod hyn yn golygu eglwysi yr Hen Destament a'r Newydd, neu, yr Eglwys filwriaethus a'r un orfoleddus, fel dau lu; neu, fe ddichon fod yma gyfeiriad at yr amrafael dufewnol barhaus rhwng llwgr naturiol, a'r anian dduwiol a blanwyd yn yr enaid, o'r hyn y mae yn dra phrofiadol; ac efallai fod yma gyfeiriad at gam ymddygiad ac edifeirwch diweddar y ddyweddi. Gen. 32. 1, 2. a 49. 10. Rhuf. 7. 22—25. Gal 5. 16—18 Eph. 2. 14—18. a 6. 10—17. Ond gallai y gair a gyfieithir *tyrfa* yn ddigon priodol, fod yn arwyddoccâu mintai, neu gôr o ddawnsyddion, a fyddont yn gorfoleddu gan lawenydd; a meddyliodd rhai fod yma gyfeiriad at luaws angelion, gyda chyfeiriad at weledigaeth Jacob, y rhai a lawenychent ac a ganent fawl ar enedigaeth y Gwaredwr, ac ydynt yn llawenhau am un pechadur a edifarhäo. Luc 2. 8—14. a 15. 3—10.

## PEN. VII.

Adn. 1—5. *Mor deg yw dy draed, &c.* Iaith y llancesau yw y geiriau hyn, tra yn dïosg oddi am y ddyweddi i'w pharottoi i ymdrochi, neu i fyned i orphwys. BOOTHROYD. Dylai y darllenydd gofio mai darluniad yw y geiriau o wrthddrych perffaith luniaidd, ac mai hyny yn hytrach na'r amryfal rannau sydd i'w gymeryd dan sylw wrth wneuthur casgliadau addysgiadol, moesol neu grefyddol oddiwrth y cyfryw rannau. DAVIDSON.—*Dy fogail sydd fel gor-flwch crwn, heb eisiau lleithder:* neu, "Dy wasg a fydd fel cwpan luniaidd yn llawn o gymmysg-win." BOOTHROYD.—*Fel twrr gwenith, wedi ei amgylchu â lili.* Yr oedd yn ddefod arferedig yn mysg yr Iuddewon, wedi dyrnu y gwenith a'i nithio, ei osod yn dyrrau, a lluchio lili ar hyd-ddo yn amser llawenydd a gorfoledd y cynhauaf, Ruth 3. 7. Hag. 2. 16 Wrth *y bru*, neu "y bol," yn ol y cyfieithiad Saesoneg, "ymysgaroedd," yn ol rhai beirniaid, y golygir ond odid, y duedd dosturiol a thrugarog sydd mewn credinwyr, yr hyn sydd yn eu gwneuthur mor ddefnyddiol i esmwythau ar gyfyngderau y rheidus, fel twrr gwenith, ac yn addurn i'w proffes, fel pe buasai y twrr hwnw wedi ei amgylchu

â lili.—*Dy ddwyfron, &c.* Gwel Nod ar pen. 4. 5.—*Dy lygaid fel pysgod lynoedd yn Hesbon,* y rhai e ddichon oeddynt hynodol am dryloywder eu dyfroedd, ac a allant fod yn ddynodawl o wybodaeth fanol, a doethineb nefol yr eglwys, ac yn enwedig ei hathrawon, y rhai a olygir wrth ei llygaid mae yn debyg. Ephes. 1. 15—23. Phil. 1. 9—11. Col. 1. 9—14. a 3. 16, 17. Iago 3. 13—18.—*Dy drwyn fel twr Libanus,* yr oedd twr Libanus yn adail diarhebol am ei harddwch; ac efallai mai hyny a olygid yma. DAVIDSON. Ond eraill a farnant mai synwyroldeb ysbrydol a ddynodid trwy hyny, yr hyn sydd yn effaith blas sanctaidd ar bethau dwyfol, a chydnabyddiaeth brofiadol â hwynt. Yr arogliad sydd fel gwyliedydd i'r cylla, ac yn penderfynu pa un a yw hyn neu y llall mewn ansawdd addas i ymborthi arno; felly mae y rhai ydynt wedi ymarfer eu syniadau ysbrydol i wahaniaethu rhwng da a drwg, yn abl i wahaniaethu rhwng gwirionedd a chyfeiliornad, er mor wyneb deg y byddo. Heb. 5. 11—14. Ac fel hyn y mae y credadyn, neu athrawon yr eglwys, yn gallu canfod o bell, ddynesäad perygl gau athrawiaeth, neu demtasiwn hudolus, fel y gwelai y gwyliedyddion oddiar dwr Libanus y gelynion o bell, yn enwedig y Syriaid, hen elynion creulawn Israel, y rhai a breswylient tua Damascus.—*Dy ben sydd arnat fel Carmel,* yr hyn yn ol barn rhai, a ddynodai, orchudd, neu addurn y pen; a'r gair a gyfieithir *gwallt,* a olyga, meddant, y rhwymyn, neu yr ysnoden â'r hwn y rhwymid y gwallt.—Carmel oedd fynydd uchel, tra golygus, a ffrwythlawn. Mae rhai wrth y *pen arnat* yma yn golygu y gobaith nefol sydd yn deillio oddiar ffydd, ac yn ymgyfodi uwchlaw gwrthddrychau daiarol, gan beri cynnydd bywiog ar sancteiddrwydd yn yr enaid. A'r rhwymyn porphoraidd, y lliw a arferid gan freninoedd a llywodraethwyr, a all ddynodi yr urddasolrwydd a berthyna i bob gweithred a gyflawnir dan ddylanwad y gobaith uchel a phuredigawl yma. Ond, y mae yn dra thebyg yn hytrach mai Crist ei hun, Pen yr eglwys, a'r anrhydedd a arddodir ar y credinwyr llesgaf trwy rinwedd eu hundeb âg ef, a olygir. Mewn gair, mor ddymunol yw yr eglwys, a phob gwir aelod o honi, fel y mae y Brenin, Arglwydd y lluoedd, wedi ei rwymo yn y rhodfeydd, neu ei fod mor hoff o'r ordinhadau, a chynnulliadau ei saint, fel n'as gall, mewn ystyr, gilio oddiwrthynt.

Adn, 6—8. Tybir fod y Prïodfab yn dyfod i fewn yma, ac yn llefaru wrth y ddyweddi mewn iaith mawrygiad a chariad cryf: —*Mor deg ydwyt, ac mor hawddgar, fy nghariad a'm hyfrydwch.* Yna y mae efe yn myned rhagddo i gyffelybu dynsawd hardd y ddyweddi i'r balmwydden uchel-frig, tra y darluniai ei bronau, sef ei chariad trwyadl at Grist, a'r ufudd-dod deilliedig oddiar hyny, ac athrawiaeth yr ysgrythyrau, y proffwydi a'r apostolion, a broffesir ac amddiffynir ganddi, fel sypiau grawnwin gwerthfawr.

Felly pan aeth efe i ymaflyd yn nghangenau y balmwydden, yn ol ei fwriad, efe a'u cafodd yn llwythog â'r ffrwythau gwerthfawrocaf, y rhai oeddynt yn mhob modd yn hyfryd iddo. Neu, efe a ymrwymai i'w gwneuthur yn fwy ffrwythlawn a defnyddiol eto, trwy ei bresenoldeb a'i ras, fel y gallai eto, ymlawenychu mwy o'i herwydd, gan wneuthur daioni iddi, Esa. 66. 10—14. 2 Cor. 2. 14—16.

Adn. 9. Prïodolder tafod y genau yw archwaethu yr ymborth, a ffurfio ymadroddion; ac felly, rhoddir ar ddeall yma, fod y credadyn yn cael blas ar bethau ysbrydol, ac yn medru ymddiddan am danynt yn brofiadol ac yn bwysig. Pan gynneser y galon â'r *gwin goreu* hwn, sef y cyfryw ymadroddion grasol, y mae yr hen gredinwyr mwyaf llesg a marwaidd yn cael eu bywiogi, a phechaduriaid cysglyd yn cael eu deffröi i ymofyn am Grist, ac i ddatgan ei fawl. HALL, PATRICK, SCOTT.

Adn. 10. Yma y mae y ddyweddi yn addef yr hawl a feddai ei Hanwylyd o honi, ac yn cydnabod ei gariad grasol tu ag ati.

Adn. 11—13. Golygir mai ymadroddion y brïodferch yw yr adnodau hyn; ac wrth ei gwahoddiad i'w Hanwylyd fyned gyda hi i'r maes, &c., y deallir yn un peth ei bod yn chwennych myned allan o dwrf y ddinas, i fwynhau cyfeillach mwy dirwystr âg ef. Ond wrth y *maes* y mae rhai yn deall y mannau lle mae goleuni yr efengyl wedi tywynnu; ac wrth y *pentrefydd*, cynnulleidfäoedd neillduol, y rhai y mae y brïodferch yn hiraethu am weled eu ffrwythau a'u cynnydd ysbrydol.—*Bibl Teuluaidd y diweddar Barch.* J. HUMPHREYS.

## PEN. VIII.

Adn. 1, 2. *O na bait megis brawd i mi.* Yr oedd y ddyweddi wedi gwahodd ei hanwylyd i gyfrannogi o wledd a arlwyasai hi iddo yn un o'r pentrefydd gerllaw, lle yr addawsai hi roddi iddo bob prawf o'i chariad; ond yma y mae gwylder ei rhyw yn ei hattal i amlygu ei serchawgrwydd fel y dymunai; ac am hyny, y mae hi yn datgan dymuniad am fod ei berthynas â hi, fel yr eiddo brawd mabanaidd wrth fronnau ei mam, yn hytrach na phrïod, fel y buasai yn fwy rhydd i ddatgan ei serchawgrwydd atto ef. T. WILLIAMS. Ond gellir golygu y geiriau hefyd fel darluniad o weddïau taerion credinwyr yr oesoedd boreuol, am gael gweled cyflawniad o'r addewid am ymgnawdoliaeth yr Iachawdwr. Yn y drefn ryfeddol hono, y daeth Arglwydd y gogoniant, Prïod yr eglwys, yn frawd iddi. A phan ddarfu i'r dyn Iesu gynnyddu mewn doethineb, wrth ymarfer âg ordinhadau yr eglwys Iuddewig, yr oedd efe megis yn sugno bronnau ei mam hi. Ac y mae y brïodferch, fel un yn cynnrychioli y cyn-gredinwyr, yn datgan yma ei phenderfyniad, pan y caffai ef, am yr Hwn yr ysgrifenasai Moses a'r Proffwydi wedi dyfod *allan*, hyny yw, wedi dyfod i

lawr o'r nefoedd, ac ymddangos yn y cynteddau allanol hyn o'r deml, y byddai iddi gyd a'r hyfder mwyaf, amlygu ei serchawgrwydd-tu ag atto, a'i hyfrydwch ynddo, heb ofni cael ei gwahardd ganddo ef, na'i gwawdio gan ddynion am wneuthur felly. Penderfynai hefyd, ddatgan ei ffydd ynddo, ac ymofyn am ei bresenoldeb yn ei ordinhadau, er mwyn cael ei haddysgu yn mhellach yn y gwirionedd; gan hyderu y byddai ei chariad cyssegredig, ei haddoliad ysbrydol, a'i hufudd-dod parodol, yn fwy cymeradwy ganddo na'r diodydd hyfrydaf.

Adn 5. *Pwy yw hon? &c.* Iaith merched Jerusalem eto, debygid, am y ddyweddi, neu hen gredinwyr wedi eu sefydlu yn ffydd, ac yn nghariad Crist, y rhai ydynt yn dyfod i fynu o'r byd drwg presenol, lle nid oes ond anialwch gwag erchyll i'w profiadau hwy, gan roddi eu serch ar bethau sydd uchod, "a chredu, a chyfarch, a chyfaddef, mai dyeithriaid a phererinion ydynt ar y ddaiar." A thrwy ymnerthu yn y gras sydd yn Nghrist Iesu, y maent yn cael eu galluogi i orfodi rhwystrau, gwrthsefyll temtasiynau, goddef cystuddiau, a rhodio heb ddiffygio yn ffyrdd ufudd-dod sanctaidd. Sal. 63. 1—4 Gal. 2. 17—21.—*Dan yr afallen y'th gyfodais.* Y golygiad mwyaf naturiol yw, mai ymadroddion Crist yw y rhai hyn, fel pe buasai yn troi at ei ddyweddi yn wyneb mawrygiad merched Jerusalem o honi, ac yn dywedyd, "Cofia fy nyweddi y cyflwr isel y'th gefais ynddo, ac o'r hwn y'th gyfodais trwy fy ngras fy hunan." Efe sydd yn bywhau eneidiau ar y dechreu, ac yn eu cyfodi odditan felldith pren y trosedd, gan effeithioli ei air a'i ordinhadau trwy ei Ysbryd i'w hadgenhedlu, ac yna y mae efe yn eu meithrin a'u dyddanu yn ei eglwys, "ein mam ni oll." Gellir cyfieithu y gwreidd-air am *yr hon a'th ymddug*, gyda phriodoldeb, "yr hon a'th wystlodd;" canys y mae yr eglwys yn y sacramentau yn enwedig, yn cyssegru ei holl blant i Grist. Ioan 1. 4—51. Gal. 4. 21—31.

Adn. 6, 7. *Gosod fi megis sel ar dy galon;* hyny yw, cadw fi yn dy feddwl yn wastadol. PATRICK. Pan fyddo Hindŵ yn myned i wlad bell, bydd ei wraig yn arfer dweyd wrtho, "O gosod fi fel sel ar dy galon;" dyro le i mi yn argraffedig yn dy serchiadau. ROBERTS. Yr oeddynt yn arferol weithiau o wisgo sel ar y fynwes, yn grogedig wrth gadwaen oddiam y gwddf; ac oddiwrth yr arfer hon y daeth fod sel yn cael ei ddefnyddio yn arwydd-lun o serchawgrwydd. Jer. 22. 24. Diar. 6. 12. a 7. 3. BOOTHROYD. Yn y geiriau hyn mae y ddyweddi yn attolygu ar ei Hanwylyd roddi hyder sicr iddi o le arhosawl yn ei gariad, a nawdd dan ei gadernid ef; a gosod o honaw ei henw, megis âg argraff nod dwfn sel ar ei galon ac ar ei fraich; fel na's collai ei rhan o'i gariad, na'r cysur o honaw. Wrth wasgu y deisyfiad yma, hi a ddarluniai rym cariad sanctaidd: yr hwn os y'i cedwid mewn ymarferiad priodol, a fyddai yn gryf fel angau, ac a'i galluogai i ddyoddef pob

caledi yn hytrach na'i wadu neu ei ddïanrhydeddu ef. Ond byddai y dyb na's byddai yn wrthddrych ei gariad ef, "yn greulawn fel y bedd;" neu yn fwy ofnadwy iddi hi nac angau yn ei olygfa fwyaf arsswydlawn. Canys y mae cariad yn gyffelyb i dân wedi ei ennyn mewn glô, neu olosg-goed o'r fath a fwria allan y gwres cryfaf, a'r fflam fwyaf angerddol: ac y mae y fath dân, na's gall dyfroedd lawer ei ddiffoddi, nac afonydd ei foddi; hyny yw, y fath, fel na's gall unrhyw brofedigaethau na dyoddefiadau ffynnu yn ei erbyn; ïe, ni's gellir am unrhyw gyfoeth gael gan berchen y cariad hwn ymadael ag ef, ac ni's gellir ei bwrcasu â dim, neu wneud i fynu y diffyg o honaw. Ex. 28. 6—30. Sal. 84. 1, 2. Diar. 6. 27—35. Rhuf. 8. 32—39. 1 Cor. 13. 4—13. 2 Cor. 5. 13—15. a 11. 1—6.—SCOTT.

Adn. 8, 9. *Y mae i ni chwaer fechan.* Cyfeiriai y frenines yma at chwaer ieuanc anmhrïod oedd iddi, dros yr hon yr eiddunai arganmoliaeth i sylw a ffafr rhyw dywysog cymmydogawl a chyngrheiriawl. T. WILLIAMS.—*Os caer yw hi.* Yma y cawn ni attebiad y Prïodfab mewn ymadroddion cyffelybiaethol grymmus a chynnwysfawr. Os cyffelybir y chwaer i gaer, nyni a adeiladwn arni balas arian, neu mewn iaith ddi addurn, nyni a roddwn waddol helaeth iddi. BOOTHROYD. Gellid meddwl fod yr eglwys oedd y pryd hyny, yn eiriol yma dros y Cenhedloedd, o blith y rhai yr amcanai Duw gymeryd pobl i'w enw. Gan hyny y mae y ddyweddi yn galw yr eglwys ddyfodol hono, yn "chwaer fechan nid oes fronnau iddi." Er fod rhai credinwyr i'w cael yn mysg y Cenhedloedd hyd yn nod y pryd hyny; eto nid oeddynt yn meddu gair Duw, na moddion gras, ac undeb ysbrydol â'r Iachawdwr addawedig. Ond mewn amser dyledus "dywedid am danynt" ganddo ef, a pha beth oedd i eglwys Israel i'w wneuthur trostynt y pryd hyny, fel offerynau i gyflawni ewyllys grasol Duw; I hyn y mae Crist yn atteb, "Os caer yw hi, ni a adeiladwn arni balas arian." Os cyffelybid dechreuad y gwaith hwn, sef dychweliad y cenhedloedd gan Ysbryd Crist, trwy weinidogaeth apostolion ac efengylwyr wedi eu cyfodi o fysg y genedl Israel, i gaer wedi ei hadeiladu arno ef y Sylfaen a'r Congl-faen gwerthfawr, i fod yn rhan o'r deml ysbrydol; fe'i lluosogid ac a'i cyfoethogid i'r fath raddau mewn amser, fel y byddai i'r eglwys yn mysg y Cenhedloedd ddyfod megis palas i'r Brenin mawr, wedi ei adeiladu o arian pur, a llawer mwy gorwych na theml Solomon. Os cyffelybid pregethiad cyntaf yr efengyl iddynt hwy i wneuthuriad drws drwy ganol-fur y gwahaniaeth; dïogelid y drws hwnw yn y modd mwyaf effeithiol, megys pe y'i gwisgid â'r cedrwydd mwyaf parhaus. Sal 147. 19, 20. Ezec. 16. 52—63. Ioan 10. 14—18. Act. 11. 1—18. a 26. 16—18. Rhuf. 3. 1, 2. a 10 12—17. 1 Cor. 3. 10—15. Eph. 2. 14—22. Dat. 21. 9—21. SCOTT.

Adn. 10. Gellid meddwl fod yr hen eglwys yma yn adfyfyrio yn ddïolchus ar ei rhagor-freintiau; yr oedd hi cyn dyfodiad y Messïah fel caer wedi ei hadeiladu ar y Sylfaen safadwy, a rhan o'r deml ogoneddus oedd i gael ei hadeiladu; a'i horaclau a'i hordinhadau bywiol y rhai a fwynheid ganddi, oeddynt ei dïogelwch hi, cystal a chynhaliaeth a chysur ei phlant: ac fe'i hynodid fel hyn, oblegyd *yna*, (sef hyd yn nod pan ddechreuai y gwahaniaethiad yma) *yr oedd yn ei olwg ef megis wedi cael tangnefedd*, neu "ffafr" gyd ag ef. Deut. 7. 6—8. Esa. 5. 1—4. a 41. 8, 9. Jer. 31. 3—5. Ezec. 16. 6—8. Eph. 1. 3—8. a 2. 4—10. 2 Thess. 2. 13, 14. 1 Tim. 1. 12—16. Tit. 3. 4—7.

Adn. 11, 12. Mae yn debyg fod gan Solomon winllan fawr, yr hon ni's arolygai efe ei hunan, ond a osodai efe allan i lafurwyr, pob un o ba rai a dalent iddo ef fil o ddarnau arian, neu siclau am ei ffrwyth, a chyfrifid eu bod hwythau yn gwneuthur dau cant bob un o elw oddiwrthi. Gyda chyfeiriad at hyn y darlunir rhagorfreintiau yr hen eglwys yn aml i winllan, wedi ei hymddiried gan ei pherchen i lywodraethwyr, athrawon, a chynnulleidfa Israel; ac y mae y ddyweddi neu yr eglwys yn penderfynu cadw y winllan hon dan ei gofal union-gyrchol ei hunan, fel yr ymhelaetho mewn ffrwythau cyfiawnder er anrhydedd ei Hanwylyd, a lles arbenig y rhai oll a lafuriant gyda hi. Sal. 80. 8—13. Esa. 5. 1—7. Mat. 21. 33—44. Luc 13. 6—9. Ioan 15. 1—8. Phil. 1. 9—11. Yr oedd y gwir gredinwyr yn Israel yn dëall y rhwymedigaethau hyn, ac yr oedd y winllan *ger eu bron*, fel gwrthddrych eu gofal arbenig, a'u hymdrech oedd am ei chael yn gynnyrchiol o ffrwyth lawer. Ac fel hyn y derbyniai yr Arglwydd ei gyllid o glod; a'r offeiriaid, y Lefiaid, y proffwydi, ac ereill pa rai yr oedd eu llafur, eu gweddïau, a'u hesamplau yn tueddu tua'r dyben yma, a wobrwyid yn rasol. A phan (ar ddyfodiad Crist) yr oedd yr athrawon a'r pennaethiaid gosodedig wedi myned yn esgeulus o'u dyledswydd, cyfodwyd apostolion ac efengylwyr o'r rhan iachus o'r hen eglwys, gan y rhai y llafuriwyd y winllan yn llwyddiannus; ac felly, wedi cau allan y rhan lygredig o'r eglwys hòno, gwnaed y cenhedlodd dychweledig yn brif ran o'r winllan, a derbyniwyd hwynt i gyfrannogi o'r holl ragor-freintiau, a'i bendithion helaethach, Dïar. 4. 23. Esa. 7. 21—25. Act. 20. 28. 1 Tim. 4. 11—16.—SCOTT.

Adn 13, 14. Yr adnodau hyn a derfynant yr ymddiddan rhwng Crist a'i eglwys. Efe yn gyntaf a'i cyfarchai hi, fel un a breswyliai yn y gerddi, cynnulleidfaoedd ac ordinhadau y saint. Efe a'i hannogai hi i fod yn ddyfal mewn gweddïau, deisyfiadau, a mawl, yn yr hyn yr ymhyfryda efe. I hyn y mae hithau yn atteb, gan attolygu arno ef ddychwelyd yn fuan i'w chymeryd hi atto ef ei hun yn hollawl. Wrth "fynyddoedd y perlyssiau" debygid, y golygir y nefoedd a'i haddoliad goruchel; o'r hyn yr oedd yr holl

arogl-darth a'r addoliad yn y deml yn gysgod gwan. Ymddengys fod Solomon yma yn hiraethu am ddyfodiad cyntaf y Messïah, fel yr hiraethai Ioan am ei ddyfodiod olaf ef, yr hwn a derfynai lyfr y Datguddiad yn gyffelyb i'r modd y terfynai Solomon y llyfr hwn, gan ddywedyd, "Tyred, Arglwydd Iesu." SCOTT. PATRICK.

# LLYFR Y PROPHWYD ESAIAH.

*Y gair Hebraeg am brophwyd a arwyddocâ* llafarwr, pregethwr, *neu* weithiwr, cennad, *neu* ddëonglwr: *un a draddodai gennadwri oddiwrth Dduw i blant dynion; fel cyhoeddwr i gyhoeddi rhyfel, neu gennad i gynnyg heddwch.*—M. HENRY. *Blodeuai y prophwydi mewn olyniad parhaus am fil o flynyddoedd, a chyfrif o Moses hyd Malachi:--oll yn cydweithredu yn yr un amcanion, ac yn cydfwriadu yn yr un ysbryd, i draddodi yr un rhyw athrawiaethau, ac i brophwydo am yr un bendithion dyfodawl.* GRAY. *Mae testynau prophwydoliaeth yn ehang ac amrywiol, ïe yn wir, mor ehang, fel y dangoswyd gan* Esgob Newton, *eu bod yn ffurfio cadwaen o ragfynegiadau, o ddechreuad i ddiwedd y Bibl a'r byd; ond prif destyn prophwydoliaeth, yw dyfodiad a breniniaeth y Messïah, yr hwn a addawyd fel Had y wraig, Had Abraham, Mab Dafydd, a Mab Duw. A dyma brif destyn y rhan fwyaf o'r prophwydi yr ydym ar wynebu arnynt yn bresenol, yn enwedig Esaiah. Gwelir fod llawer o'i ragfynegiadau ef yn cyfeirio atto Ef yn unig; ac eraill, er y gallant gael eu cyflawni mewn rhan, mewn amgylchiadau nes ac is, eto a dderbyniasant eu cwbläad trwyadl a chyflawn ynddo ef.* WILLIAMS. *Mae barddoniaeth brophwydoliaethawl yn fwy addurniadawl, gorwych, a llawn o flodau, nac unrhyw farddoniaeth arall. Mae yn llawnach o ddarluniadau, cyffelybiaethau, a throell-ymadroddion godidog, ac o ganlyniad yn fwy goruchel ac ardderchawg na chyfansoddiadau eraill.* LOWTH. *Cyfrifir bod Esaiah wedi bod yn prophwydo am o gylch triugain mlynedd.* BOOTHROYD. *Mae y crybwylliadau a wneir o'r Llyfr hwn yn y Testament Newydd yn lluosawg ac yn amlwg.*

## PEN. I.

Adn. 1. *Gweledigaeth Esaiah, fab Amos,* neu y datguddiad a wnaed i Esaiah o ewyllys Duw, trwy Ysbryd Sanctaidd prophwydoliaeth. Mae y brophwydoliaeth a gynnwysir yn y bennod hon yn sefyll yn unigol ac annghysslltiadol. Cynnwysa ymliwiad llym yn erbyn y llygredigaethau oeddynt yn ffynnu yn mysg Iuddewon yr oes hono; annogaethau grymmus i edifeirwch; bygythion trymion ar yr anedifeiriol; ac addewidion graslawn o amserau gwell, wedi eu diwygio drwy farnedigaethau Duw.

LOWTH. Nid yw yr amser y traddodwyd rhai o brophwydoliaethau Esaiah, wedi ei nodi yn amlwg, nac yn hawdd i'w gasglu oddiwrth yr hanes at ba un y cyfeiriant; ond am eraill, gellir casglu ei hamseriad yn lled ddïamheuol oddiwrth ryw nodau tufewnol ynddynt, ymadroddion, darluniadau, neu grybwylliad o amgylchiadau, a gair wedi eu cyd wau â hwynt. Gan hyny, gallai fod o beth gwasanaeth yn yr ystyr yma, ac er rhwyddhau y ffordd i ddëall ei brophwydoliaethau yn gyffredinol yn well, i ni gael golygiad cryno ar hanesyddiaeth ei amser ef. Mae yn ymddangos fod breniniaeth Judah mewn cyflwr mwy blodeuog yn amser teyrnasiad Uzziah a Jotham, nac ar unrhyw adeg arall wedi gwrthryfel y deg llwyth. Y cyntaf oedd yn ddi esgeulus a llwyddiannus yn ei ryfeloedd, ac mor ddyfal a llwyddiannus yn dwyn yn mlaen gelfyddydau heddychawl. Efe a feddai barch y cenhedloedd cymmydogawl, ac a ddyfal ymdrechai i lesäau ei ddeiliad. Yr olaf a helaethai, ac a gadarnhai y sefydliadau a'r diwygiadau a wnaethid gan ei dad: er i'r cyngrair rhwng Pecah brenin Israel, a Rezin, brenin Syria, yn erbyn Judah, gael ei wneuthur tua diwedd ei frenhiniaeth ef. Ond, yn nheyrnasiad Ahaz mab Jotham, nid yn unig fe gollwyd yr holl fanteision hyn; ond fe ddygwyd breniniaeth Judah i ddibyn dystryw. Eithr pan ddaeth Hezeciah ei fab ef i'r orsedd, efe a adferodd addoliad Duw yn ol y gyfraith yn ddïoed, yr hyn a lygrasid yn ddirfawr gan ei dad ef yn Jerusalem a thrwy Judea. Efe a adgyweiriodd y ddinas, a gadarnhäodd yr amddiffynfeydd, a adeiladodd ystordai o bob math, a wnaeth ddyfr-ffos newydd, ac a ymegnïodd i ddwyn yn mlaen les cyffredinol y wlad. Tua'r bedwaredd flwyddyn o'i deyrnasiad ef, goresgynodd Salmaneser brenin Assyria freniniaeth Israel, ac a'i llwyr anrheithodd, gan gludo y bobl i gaethiwed, a chyflëu pobl o'i wlad ei hunan yn eu lle hwynt. Ond ni ddarfu i'r esiampl ofnadwy yma attal Hezeciah yn ei benderfyniad i ommedd talu teyrnged i'r buddugoliaethwr trahaus hwnw, yr hon a osodasai efe ar Ahaz, a hyn a achlysurodd i Senacherib ruthro ar y wlad yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad, am yr hyn y cawn ni hanes yn mysg prophwydoliaethau Esaiah. Wedi gwaredigaeth fawr a gwyrthiol oddiwrth y fath elyn cadarn, parhäodd Hezeciah i deyrnasu mewn heddwch; ffynnodd yn ei holl weithredoedd, a gadawodd ei freniniaeth yn flodeuog i'w fab Manasseh; yr hwn yn mhob ystyr oedd fab annheilwng o'r fath dad.—DAVIDSON.

Adn. 2. Mae yr Arglwydd mewn dull mawreddawg ac ardderchawg iawn yma, fel mewn amryw rannau o'r Ysgrythyr Lan, yn apelio at yr holl grëedigaeth yn y ddadl rhyngddo a'i bobl, gwel Deut. 4. 26. a 32. 1. Sal. 1. 3, 4. Jer. 2. 12, &c. SCOTT.—*Canys yr Arglwydd a lefarodd*, neu, sydd yn llefaru.—*Megais*, mae yr ymadrodd yn hytrach yn arwyddocâu dyrchafu, neu anrhydeddu.—*A meithrinais*, neu gwneuthur yn fawr; gwel

pen. 23. 4. Yr oedd gofal a haelioni yr Arglwydd tuag at Israel, ac yn enwedig tuag at Judah, yn ddi eilfydd yn holl hanesiaeth y byd; o ganlyniad gellid dethol eu gwrthryfel a'u cosbedigaeth hwy i'w derchafu fel esiampl i bob rhyw ddynion; Sal. 147. 12—20. 1 Cor. 10. 1—12. DAVIDSON.

Adn. 3. *Yr ych a edwyn ei feddiannydd.* Yn y geiriau hyn cwynir gan ddideimladrwydd ac anystyriaeth y bobl hyn, ar y rhai ni's gadawai na thrugareddau na barnedigaethau nemmawr argraff. Jer. 4. 22. BOOTHROYD.

Adn. 4. *O genhedlaeth bechadurus,* rhai sydd yn pechu yn barhaus, heb wneuthur dim ond pechu; yn llwyr wrthwyneb i'r hyn y'u dewisasid i fod. Deut. 7. 6. GILL.—*Meibion yn llygru;* dywaid y beirniaid fod y geiryn hwn yn dra grymmus yn yr iaith wreiddiol, fel y mae yn anhawdd cael un gair digon cynnwysfawr i osod allan ei arwyddocäad; arwyddocäa y gair rai wedi ymlygru hyd eu dinystr eu hunain. JENOUR.

Adn. 5. 6. Yr oedd drygioni y bobl wedi dyfod mor anfeddygiaethol, fel nad attebai un dyben i'w ceryddu mwy, gan nas gwnaent namyn gwrthryfela mwy; canys pa lesäad a fyddai bwrw physygwriaeth ar y dyoddefydd trengedig, pan na's gwnelent namyn llymâau ei gystudd? Gan hyny, gallai fod yn brïodol eu gadael, hyd oni addfedent i ddystryw trwyadl. Jer. 5. 3—6. a 6. 27—30. Matt. 15. 12—14. Neu, efallai fod yr ymadrodd yn golygu eu bod mor llawn o glwyfau ac archollion ar ol curiadau blaenorol, fel y gellid gofyn pa fodd y gellid taraw dyrnod mwyach? neu, paham yr ymgyndynent yn y camweddau hyny, a sicrhäent gosbedigaeth ychwanegol arnynt, pan oeddynt eisoes mewn cyflwr mor druenus? Yna trwy gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth gorph afiach a chystuddiedig, y darlunir, naill a'i ansawdd lygredig yr Iuddewon gyda golwg ar grefydd; neu at y gofidiau yr oeddynt danynt fel cenedl. Yn yr ystyr gyntaf yr oedd y tywysogion a'r prophwydi, neu yr offeiriaid (pen a chalon y corff gwladol ac eglwysig) wedi eu llanw âg anhwyldeb, ac yn llesg, fel ar fin marwolaeth; yr oedd crefydd a chyfiawnder fel pe buasent yn trengu; ac eilunaddoliaeth, annuwioldeb, rhagrith, a phob rhyw anwiredd, oeddynt wedi dyfod yn gyffredinol o'r bron. Yr oedd yr afiechyd wedi bod yn cynnyddu cyhyd, a'r swyddogion gwladol a chrefyddol wedi bod mor esgeulus o'r moddion prïodol i attal ei gynnydd, fel yr oedd yr holl gorff megis pe buasai wedi ei orchuddio a gwelïau crawnllyd, a llynorod blinion, y rhai a dueddent i ddarfodedigaeth farwol, Jer. 8. 21, 22. a 30. 12—18. Ezec. 34. 2—6. Matt. 9. 10—13. Gellid cymeryd *achlysur* oddiwrth yr ymadroddion hyn i ddarlunio llygriad trwyadl y natur ddynol; ond nid yw yn weddus ar un cyfrif ddefnyddio y geiriau hyn i brofi yr athrawiaeth hono, o'r hyn nid ydynt yn brawf, oddieithr fod agwedd halogedig

Judah yn beth nad ydoedd i'w gyfrif i unrhyw egwyddorion eraill.

Adn. 7. *Y mae eich gwlad yn anrheithiedig*;—Mae y darluniad yma yn cyttuno yn dda âg amser Ahaz, pan oedd Judea yn cael ei hanrheithio drwy oresgyniad Israel, gan y Syriaid o'r gogledd, yr Edomiaid o'r dehau, a'r Philistiaid o'r gorllewin, gwel 2 Cron. 28. Eraill a farnent y gallai fod y broffwydoliaeth hon wedi ei hysgrifenu tua diwedd teyrnasiad Jotham, pan oedd Resin brenin Syria, a Phecah mab Remalïa yn rhuthro ar y wlad. 2 Bren. 15. 37.

Adn. 8. *Megis lluesty mewn gwinllan.* Rhyw fwthyn bychan a adeiladid o gangenau coed, neu dywarch, i lettya gwylwyr dros ychydig wythnosau, a'u cysgodi rhag gwres y dydd, ac oerni a gwlith y nos, tra fyddent yn gwylied y gwinllanoedd a'r gerddi dros y tymhor y byddai y ffrwythau yn addfedu, oedd yr hyn a olygid yma; Job 27. 18; ac a symmudid ymaith yn ebrwydd wedi y gwasanaethai y perwyl hyny; Can. 2. 15; a'r hwn tra fyddai yn sefyll, ni's byddai nemmawr o sylw arno, nac o ofal am dano; a thrwy hyn y darlunid Sïon yn dra phriodol yn ei chyflwr annghyfanneddol ac anrheithiedig.

Adn. 9. *Fel Sodoma y buasem,* hyny yw, yn genedl wedi ei llwyr ddifa.

Adn. 10. *Tywysogion Sodom,* felly y gelwir y tywysogion Iuddewig yma, er dynodi eu cyffelybrwydd i'r bobl ysgeler hyny, yn eu moethau, eu haflendid, eu balchder, eu gormes, a'u ffieidd-derau eraill.

Adn. 11. *Beth yw lliosowgrwydd eich abrthau i mi?* Gallasent ddadleu lluaws eu haberthau yn esgus; ond nid oedd y rhai hyn yn cael eu gofyn ar gyfrif unrhyw wiwdeb oedd ynddynt hwy eu hunain; ac yr oeddynt hwythau yn llwyr ddïofal yn nghylch eu harwyddocäad cysgodawl, ond yn eu defnyddio yn rhagrithiawl a hunanawl, ac nid fel moddion sancteiddäad; am hyny, er fod Duw wedi trefnu yr aberthau hyn i fod tros amser, fel cynnorthwyon i'w ffydd i weithredu trwyddynt ar ei addewidion ef; eto, gan nad oedd ganddynt na ffydd nac edifeirwch wrth ymarfer a hwy, yr oedd Duw yn eu ffieiddio.

Adn. 13, 14. *Eich newydd-loerau,* ar yr achlysuron hyn, gorchymynasid iddynt offrymmu i'r Arglwydd yn ychwanegol at eu haberthau beunyddiol, boeth-offrwm, bwyd offrwm, dïod-offrwm, a phech-aberth, gwel Num. 28. 11, &c. MACCULLOCH.

Adn. 15. *Mi a guddiaf fy llygaid rhagoch.* Ymadrodd nodedig i ddynodi na's byddent mwyach yn wrthrychau ei ofal ef. Efe a ymddygai tuag attynt fel pe na's adwaenasai hwynt; cymh. 2 Cron. 7. 16. Salm 94. 9.—*Eich dwylaw sydd lawn o waed,* hyny ydyw, yr oeddynt yn euog o dywallt gwaed, am yr hyn nid edifarhasent, ac oddiwrth yr hyn nid ymattaliasent.

Adn. 16. *Ymolchwch, &c.* Cyfeiriad at y golchiadau deddfol, oeddynt orchymynedig ar amryfal achlysuron. LOWTH. Gwel Lef. 14. 8, 9, 47.

Adn. 18. *Deuwch yr awr hon ac ymresymwn*, nid fel cydraddolion; ond fel barnwr a'r cyhuddedig; ond barnwr mor drugarog ag yw e o gyfiawn; canys y mae efe yn ymhyfrydu mewn maddeu i'r rhai a addefant eu heuogrwydd, a dderbyniant drugaredd, ac a ymostyngant i'w lywodraeth gyfiawn ef. DAVIDSON.—*Pe byddai eich pechodau fel ysgarlad.* Ysgarlad oedd hoff liw yr hen buteiniaid paganaidd, Jer. 4. 30. ROBERTS. Yr oedd yn anmhossibl cyfodi y lliw cryf hwn trwy unrhyw gelfyddyd neu allu dynol. LOWTH. Efallai fod yma gyfeiriad at y ddefod o rwymo darn o frethyn ysgarlad wrth gorn y bwch dihangol, cym. Salm 51. 7. Dat. 7. 14. a gwel Lef. 16. 22. HEWLETT.

Adn. 21. *Pa wedd yr aeth y ddinas ffyddlawn yn buttain?* Yr oedd Israel wedi ei phrïodi â Duw trwy gyfammod, ac am hyny, pan roisant eu serchiadau i ymgylymmu â gwrthddrychau eraill yn ei le ef, hwy a gyhuddid o butteindra ysbrydol.

Adn. 25—27. *A mi a ddychwelaf fy llaw arnat;* i ddangos trugaredd, fel yn Zech. 13. 7.—*Ac a lan buraf dy sothach*, neu yn hytrach, "a mi a doddaf dy sothach yn y ffwrn." Yr ystyr yw, debygid, bod Duw yn bwriadu diwygio y rhai goreu o'r genedl, a llwyr ddinystrio y rhai gwaethaf; Dan. 12. 10. *Assembly's Annotations.*—*Sion a waredir â barn;* trwy weithrediad cyfiawnder manol Duw, yn cosbi y rhai cyndyn a gwrthnysig, gwel adn. 28, ac yn gwaredu y rhai edifeiriol. BOOTHROYD.

Adn. 29, 30. *Canys cywilyddiant o achos y derw a chwennychasoch.* Y llwyni derw, dan ba rai y cyflawnid defodau eilunadoliaeth. Gorchymynasid i Israel eu distrywio, ond hwy a ddaethant yn dra hoff o honynt yn fuan. Ezec. 20. 28. Heb. 4 15.—*Gardd heb ddwfr iddi*, sydd ymadrodd yn dynodi y radd eithaf o anffrwythlonrwydd; canys pe byddai gardd ychydig o ddyddiau yn ngwledydd poethion y Dwyrain heb ei dyfrhau, fe lwyr ddystrywid pob peth o'i mewn gan y gwres. Dygir cyflenwadau gwastadol o ddwfr i bob gardd yn y gwledydd hyny, naill ai o afon gymmydogawl, neu ryw ddyfrle prïodol i'r perwyl hyny. Byddai cadw hyn mewn cof yn fanteisiol i ganfod prydferthwch arbenig, ac addysgiadau pwysig mewn amrywiol ymadroddion Ysgrythyrol. Gen. 2. 10. Diar. 21. 1. Sal. 1. 3. Jer. 17. 8. Preg. 2. 5, 6

Adn. 31. Gall fod y geiriau hyn yn ddarluniad o gyflwr truenus y genedl Iuddewig, yn neillduol pan y cymerwyd Jerusalem gan y Caldeaid, a dinystr yr eilunod a'r eilun-addolwyr. SCOTT.

## PEN. II.

Adn. 1. Mae y bennod hon a'r ddwy ganlynol, yn gwneyd i

fynu un broffwydoliaeth ddosbarthedig, neu genadwri oddiwrth Dduw at yr Iuddewon; yr hon efallai a draddodwyd oddeutu diwedd teyrnasiad Uzziah. SCOTT.

Adn. 2. *Yn y dyddiau diweddaf.* Mae y Rabiniaid Iuddewig gorau yn barnu yn unfryd fod y dyddiau diweddaf yn wastadol yn golygu amser y Messïah. KIMCHI. LOWTH.—*Mynydd ty yr Arglwydd*, sef y mynydd ar yr hwn yr oedd tŷ yr Arglwydd, sef teml Solomon wedi ei hadeiladu: a hwnw ydoedd mynydd Sïon, yr hwn hefyd a elwid mynydd Morïah. Ystyrid y deml hono fel y mae yn hysbys, yn gysgod nodedig o eglwys Dduw, Sal. 2. 6. a 87. 5. Pen. 40. 9. Felly yma y rhagfynegir llwyddiant cyffred inol yr efengyl yn y dyddiau diweddaf, galwad y cenhedloedd, a dymchweliad pob gau grefydd. *Assembly of Divines.* SCOTT.

Adn. 3. *Deuwch ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd*, ymunwn â'r eglwys Gristionogol; gan gyfeirio at arferiad yr Iuddewon yn myned i fynu i Jerusalem ar eu huchel-wyliau. LOWTH. *Canys y gyfraith a â allan o Sïon*, wrth yr hyn tebygid y golygir athrawiaethau a rheolau yr efengyl.

Adn. 4. *Efe a farna rhwng y Cenhedloedd*, fel cyflafareddwr er peri heddwch rhyngddynt.—*Ac a gerydda bobloedd lawer*, trwy eu hargyhoeddi a'u haddysgu yn ei gyfraith, cystal a thrwy eu cosbi; fe weithreda Brenin Sïon mewn awdurdod a nerth effeithiol. Mae y cyffelybiaethau ammaethyddawl a ddefnyddir yma yn ddarluniau tra phrïodol o heddwch a dïogelwch, yr hyn sydd yn naturiol i ddilyn teyrnas Crist yn y byd. Mae ei holl wir ddylynwyr ef am ymwrthod â rhyfel hyd y mae ynddynt; a thanguefeddwyr yw eu nodweddiad prïodol Ond y mae cyflawniad y cyfryw brophwydoliaethau a hon, yn cynnwys holl yspaid teyrnasiad y Messiah, yn rhwym o fod yn raddawl; gwel Dat. 11. 15.—*Sychau*, yn hytrach, cwlltwrau.

Adn. 5. *Ty Jacob, deuwch, a rhodiwn yn ngoleuni yr Arglwydd.* Llefara y prophwyd yma gan bersonoli yr Iuddewon duwiol, y rhai ar y pryd hyny a fyddent yn annog y naill y llall i wneyd defnydd o'r moddion hyny o ras a roddai Duw mor helaeth iddynt. Hwyrach fod yma gyfeiriad at y llusernau a oleuid i lewyrchu i ddynion ar brydnhawniau yr uchel-wyliau. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Am eu bod wedi eu llenwi allan o'r dwyrain*; meddyliai LOWTH a BOOTHROYD fod yma ryw enw wedi colli o'r testyn yn y lle yma, a meddyliant hwy mai y meddwl yw, eu bod wedi eu llenwi â *dewiniaid* o'r dwyrain; neu eu bod wedi eu llanw âg arferion, defodau, a drygau y bobl a breswylient y gwledydd dwyreiniol; sef yr Arabiaid, y Syriaid, a'r Caldeaid yn enwedig, y rhai oeddynt enwog fel swynyddion a dewiniaid. LOWTH, BOOTHROYD, JACKSON. Mae y dwyrain eto yn parhau i anfon dewiniaid a swynyddion i'r ynysoedd cyfagos yn finteioedd. ROBERTS.—*Ac mewn plant dieithriaid yr ymfoddlonant;* defodau

ac arferion estroniaid a arferant. JACKSON. Mae yr ymadrodd yn arwyddo eu bod wedi ymroi i eilun-addoliaeth. BOOTHROYD.

Adn. 7. *A'u tir sydd gyflawn o arian, &c.*, hyny yw yr oedd eu cybydd dod, a'u hymddiried mewn golud, ac mewn gwychder a chadernid dynol, yn peri i Dduw eu gwrthod, gwel Deut. 17. 16, 17.

Adn. 9. *A'r gwreng sydd yn ymgrymmu, a'r bonheddig yn ymostwng, &c.* Neu yn hytrach, "Gan hyny crymmir y gwael, a darostyngir y gwr cadarn, ac ni's maddeui di iddynt." Yr oeddynt hwy yn ymgrymmu i'w heilunod, gan hyny crymmid hwy i lawr, a darostyngid hwynt dan law ddïaleddawl Duw. DAVIDSON.

Adn. 10. *Dos i'r graig, &c.* Cyfeiriad at yr ogofeydd oeddynt luosawg yn nghreigiau Judea, i'r rhai y fföai y trigolion am nawdd mewn amserau o berygl dirfawr, Gen. 23. 17. Jos. 10. 16. Barn. 6. 2. 1 Sam. 13. 6. Mae y rhan olaf o'r bennod hon yn cynnwys rhagfynegiad o ryw farn gyffredinol, yr hon a ddiweddai yn ninystr trwyadl y llywodraeth Iuddewig. Mae llawer o'r ymadroddion yn perthynu gyd a'r cymhwysder mwyaf i ddydd y farn. LOWTH. Fe'n sicrheir gan ysgrifenydd ysbrydoledig fod craig Horeb, ar yr hon y safodd Moses, ac o'r hon y tynodd efe ddwfr i r Isräeliaid, yn gysgod nodedig o Grist. Hwn yw y Graig ysbrydol, at yr hon y gwahoddir pechaduriaid i ffoi.

Adn. 12. *Canys dydd Arglwydd y lluoedd*, y dydd yn yr hwn y barna efe ei bobl mewn uniawnder. BOOTHROYD. Gellid cymhwyso yr ymadrodd at unrhyw o'r dyddiau hyny yn y rhai y byddo Duw yn cyfodi i roddi dïal ar genhedloedd euog. Anrheithiad Judah gan yr Isräeliaid a'r Syriaid, yn nheyrnasiad Ahaz, 2 Cron. 28. 5—8. A gall fod rhuthrgyrch Senacherib yn gynllun arwyddocäol o gyflawniad y broph wydoliaeth: ond cymmeriad Jerusalem gan y Caldeaid, a'r caethgludiad i Babilon, y pryd y byddai i eilun-addoliaeth gael ei lwyr ddileu o fysg yr Iuddewon, a ymddengys sydd yn cael ei arwyddo yma yn benaf. SCOTT.

Adn. 13—22. Nyni a ganfyddwn mewn amryw ranau o'r Ysgrythyrau heblaw y fan hon, fod *cedrwydd Libanus*, a derw *Basan* yn cael eu defnyddio yn allegawl am freninoedd, tywysogion, a phennaethiaid galluawg y ddaear: ac felly hefyd y defnyddir *mynyddoedd uchel*, a *bryniau dyrchafedig*, am freniniaethau, gwladwriaethau, taleithiau, dinasoedd, trefydd, ac amddiffynfeydd; ac weithiau am amddiffynwyr neu noddwyr, trwy gynghor neu nerth, mewn heddwch neu ryfel; *Llongau Tarsis*, a'r celfion cywrain a ddefnyddid i'w haddurnaw, a ddynodant fasnachwyr, dynion wedi ymgyfoethogi trwy drafnidiaeth, ac yn meddu helaethrwydd o wychderau a moethau bywyd, fel yr eiddo Tyrus a Sidon; canys y mae yn ymddangos oddiwrth yr holl ddarluniad, fod yr amddiffynfeydd a'r llongau i'w golygu yn gyffelybiaethol, cystal a'r coed

uchel a'r mynyddoedd dyrchafedig. *Yr holl luniau dymunol*, wrth yr hyn y golygir, debygid, ddarluniadau costus o waith celfyddyd. ond y mae y LXX yn cyfieithu y gair, rhanau addurniadawl y llong.—*A hwy a ant i dyllau y creigiau;* sef yr eilun-addolwyr, y rhai a geisiant ffoi o afael dïaledd Duw, trwy ymguddio mewn ogofeydd.—*Y teifl dyn ei eilunod—i'r wadd, ac i'r ystlummod*, y rhai a fynychant ogofeydd, a thyllau y creigiau; arwyddocâi hyn, na's byddai iddynt ymddiried ynddynt mwyach.—*Peidiwch chwithau â'r dyn.* Yr oedd yr Iuddewon yn dueddol i osod hyder eilun-addolgar yn eu cymmydogion paganaidd, â pha rai yr oeddynt wedi ymgyfammodi. Yn y modd hyn yr oeddynt ar amserau gwahanol yn pwyso ar yr Aiphtiaid, Syriaid, a'r Assyriaid: ond yma y maent hwy a phawb yn cael eu galw i beidio ymddiried mewn dyn marwol, yr hwn nad oes gallu ynddo i gynnorthwyo mewn dirfawr berygl, ac na's gellir hyderu yn ei broffes o'i ffyddlondeb a'i gyfeillgarwch. Salm 62. 8—10. a 146. 3, 4. Jer. 17. 5—8. SCOTT.

## PEN. III.

Adn. 1. Bernir mai dynesiad gwarchaëedigaeth a dinystr Jerusalem gan y Caldeaid sydd yn cael ei olygu a'i ragfynegi yma. SCOTT.—*Holl gynhaliaeth bara*, a elwir yn gyffredin, ffon bara, neu ffon bywyd. Lef. 26. 26. Ezec. 14. 13. LOWTH.

Adn. 4. *A rhoddaf blant yn dywysogion iddynt*, cyflawnwyd hyn yn drwyadl yn yr olyniad o freninoedd gweiniaid a drygionus a fu arnynt o farwolaeth Josiah hyd ddinystr y ddinas a'r deml. BOOTHROYD.

Adn. 7. *Na dillad;* yr oedd trysorau yr henafiaid gan mwyaf yn gynnwysedig mewn helaethrwydd o ddillad, ac y mae felly i raddau mawr eto yn y gwledydd dwyreiniol. LOWTH. CHARDIN.

Adn. 8. *I gyffroi llygaid ei ogoniant ef*, neu y cwmmwl fel y darllenir yn y Syrïaeg, yr hyn a farnai A. CLARKE oedd y darlleniad cywir, ac efe a farnai fod cyfeiriad yma at gwmmwl y gogoniant yn y cyssegr sancteiddiolaf.

Adn. 10, 11. *Dywedwch mai da fydd i'r cyfiawn;* y mae rhagluniaeth yn gwahaniaethu yn fynych rhwng y cyfiawn a'r drygionus yn y byd yma; ac y mae yn sicr y gwneir y gwahaniaeth mwyaf rhyngddynt yn y byd a ddaw. Jer. 45. 5. Mal 3. 18. DAVIDSON.

Adn. 12. Gelwir llywodraethwyr gwaelion a gweiniaid, yn *blant*, ac yn *wragedd*, er dynodi eu hannghyfaddasrwydd i'w swyddi. LOWTH.—*A ffordd dy lwybrau a ddystrywiant*, neu, a wŷr-droant; yr ystyr yw, fod y gau brophwydi yn peri iddynt gyfeiliorni oddiar ol yr Arglwydd.

Adn. 13—15. *Yr Arglwydd sydd yn sefyll*, i arwyddoccâu ei barodrwydd i gefnogi ac amddiffyn ei gyfreithiau a'i awdurdod ei hunan. Cymh. Mic. 3. 1—3.

Adn. 16, 17. *Rhodio â gwddf estynedig, ac â llygaid gwammal.* Mae y prophwyd yma yn ceryddu merched Jerusalem, yn neillduol y rhai oedd yn y sefyllfaoedd uchaf; y rhai a rodient a gwddf estynedig, i'w dangos eu hunain, i edrych ar eraill, ac fel yr edrychai eraill arnynt hwythau; a chyda llygaid trythyll, ac amrantau wedi ei lliwio yn gelfydd, yn denu yr edrychwyr i'w cyfarch. Balchder, a manyl-foes coegaidd a ymddangosai yn eu holl ysgogiadau, ac yn ol dull eu cymmydogion paganaidd, gwisgent addurniadau i'r traed, math o gadwynau, neu fodrwyau bychain, y rhai trwy dincian ar eu hysgogiadau ysgafn-droed, a gyhoeddent eu dynesäad er tynu sylw ar eu gwychder. Ond y mae Duw yn eu bygwth â chosbedigaeth gyfattebol i'r trosedd; a mynych y mae balchder yn cael ei gosbi â rhyw anhwylderau ffiaidd.

Adn. 18—24. Mae merched y dwyrain yn hynod o hoff hyd heddyw o ymdrwsio mewn gwisgoedd gwychion, ac addurniadau rhodresaidd, o'r fath a ddarlunir yma: efallai y byddai yn annichonadwy i ni gael penderfyniad diammheuol pa beth a olygid wrth bob un o'r enwau a ganfyddwn ni yn y rhestr yma; ac nid yw o ryw bwys mawr i ni allu ychwaith. Yr oedd eu dulliau yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth ein dulliau ni yn yr oes hon; ond y mae y natur ddynol yr un yn mhob oes: ac y mae afradloni arian ac amser i borthi balchder, er esgeuluso ymarferiad o dduwioldeb ac elusenau, ïe. hyd yn nod cyfiawnder; er dinystr i deuluoedd, a dymchweliad i bob gwahanol sefyllfäoedd mewn cymdeithas, yn cyfarfod ag annghymeradwyaeth Duw yn y modd mwyaf penderfynol.

Adn. 26. *A hithau yn anrheithiedig a eistedd ar y ddaear.* Y mae Jerusalem yn cael ei harddangos yma fel gwraig wedi eu hamddifadu o'i phlant, yn eistedd ar y ddaiar i alaru yn yr agwedd fwyaf athrist. Ac fe'i harddangoswyd yn y drych aethus hwn ar yr arian bathedig, trwy orchymyn Vespasian, wedi i'r Rhufeiniaid ddinystrio y ddinas. LOWTH.

## PEN. IV.

Adn. 1. *Ac yn y dydd hwnw saith o wragedd,* yr un dydd ag a grybwyllasid o'r blaen, am hyny dylasai y bennod hon fod yn anysgaredig oddiwrth yr olaf. Yma darlunir y byddai y dystryw mor fawr drwy y rhyfel, fel y byddai saith o wragedd wedi eu gadael i un gwr; a chan fod y sefyllfa anmhrïodasol yn cael ei hystyried yn waradwyddus yn Israel, darlunir y gwragedd hyn yn gweithredu yn groes i'r arferiad gyffredin, gan geisio gwŷr iddynt eu hunain, ïe, y byddai llawer o honynt yn ceisio gan yr un dyn eu prïodi oll; a rhag y buasai y draul yn rhyw rwystr, hwy a addawent eu cynnal eu hunain.

Adn. 2. *Y pryd hwnw y bydd Blaguryn yr Arglwydd.* Nid yr

un pryd ag a olygir yn yr adnod gyntaf, ond y pryd sydd i gael ei grybwyll rhagllaw, sef ar ol cyflawni yr hyn a addewir yn adn. 4. *Assembly's.* Mae y *pryd hwnw* yn golygu, nid yn unig sefydliad brenhiniaeth Crist yn amser yr apostolion; ond rhagfynegir ei helaethiad hefyd drwy gynnull yr Iuddewon gwasgaredig i'r eglwys. Gelwir Crist yn Flaguryn yr Arglwydd yn aml, Pen. 11. 1. Jer. 23. 5, 6. Ezec. 17. 22—24. Zech. 3. 8. a 6. 12, 13. Ac er y dichon fod Zorobabel o ach-lin Dafydd, neu Josua o ach-lin Aaron yn cael ei alw "Blaguryn yr Arglwydd;" a'r helaethrwydd cynnyrch ffrwythau a fyddai yn y tir wedi dychweliad yr Iuddewon o'r caethiwed yn cael ei ragfynegi, nis gall y cyfryw bethau fod namyn cysgodion tywyll a gweiniaid o gyflawniad llawnach a goleuach o'r brophwydoliaeth yn y Messiah a'r oruchwyliaeth Gristionogol.

Adn. 3, 4. *Sef pob un ar a ysgrifenwyd yn mhlith y rhai byw yn Jerusalem.* Cyfeiriad at y cofrestrau a gedwid gan y teuluoedd a'r llwythau Iuddewig. LOWTH. Ni lithrodd yr Iuddewon byth i gaethiwed wedi y caeth-gludiad i Fabilon; ac yr oeddynt wedi eu diwygio yn fawr, a llawer o wir grefydd yn eu mysg. Merched Sïon hefyd, pa rai oeddynt yn eu tybied eu hunain yn hynod o foneddigaidd, pan oedd yr Arglwydd yn eu gweled yn dra ffiaidd, a burwyd yn y caethiwed, a'r gwaed gwirion a dywalltwyd, a garthwyd allan o Jerusalem trwy y barnedigaethau anrheithiol hyny, Ezec. 23. 18—22. a 24. 9—14. SCOTT.

Adn. 5, 6. Mae yn y geiriau hyn gyfeiriad amlwg at y golofn o niwl a thân, ydoedd yn amddiffyniad, arweiniad, ac anrhydedd i Israel pan oeddynt yn myned trwy yr anialwch, Exod. 13. 21, 22. a 40. 36—48. Ac yma fe ddywedir y byddai i Dduw gymeryd gofal cyd-radd am holl drigfannau ei bobl, cystal a'u holl gynnulleidfaodd o addoliad cyhoeddus, Exod. 13. 21, 22. SCOTT.—*A phabell fydd, &c.* Y mae pabell gludadwy yn angenrheidiol fel rhan o glud ymdeithydd, yn y gwledydd sydd yn ddarostyngedig i dymhestloedd angerddol cystal a gwres annioddefol, i'w gysgodi a'i amddiffyn. LOWTH. Salm 27. 5. Ezec. 11 16.

## PEN. V.

Adn. 1. Mae y bennod hon yn annghyssylltiedig â'r rhai blaenorol, na'r rhai canlynol, ac y mae ei thestun braidd yr un peth a'r bennod gyntaf. Dechreua gyda dammeg wedi ei ffurfio mewn cân gyssegredig, yr hon y mae y prophwyd yn cynnyg ei chanu i'w anwylyd. Jehofah ydyw meddiannydd y winllan: ond y mae y Tad yn ei ddatguddio ei hun trwy ei unig anedig Fab, yr hwn ydyw ei anwylyd ef a phob gwir gredadyn.—Yr oedd ganddo ef winllan mewn bryn tra ffrwythlawn, neu yn ol yr Hebraeg, "yn nghorn mab yr olew:" yr oedd sefyllfa gwlad Canaan yn uchel iawn, ac yn cael ei darlunio drwy gorn, yr hwn yw y rhan uchaf

o'r anifail; ac y mae "mab olew" yn ymadrodd Hebreaidd a ddynoda ffrwythlondeb: oblegyd mai ffrwyth yr olewydden ydoedd cynnyrch mwyaf gwerthfawr tir yr addewid. Ond e ddichon fod rhagorfreintiau crefyddol yr Israeliaid yn cael ei osod allan yn y darluniad hwn hefyd, cystal a ffrwythlonder eu gwlad.

Adn. 2—7. Gwel Nod ar Matt. 21. 32—43.—*Grawn gwylltion*, neu wenwynig: rhai oeddynt, nid yn unig yn ddiles, ond hefyd yn niweidiol. Tybia rhai mai y pethau a elwir Llysiau y nos llwydion *(hoary night-shade)* a olygid yma,—planhigyn tueddo iawn i dyfu mewn gwinllanoedd, tra niweidiol i'r gwinwydd, er fod llawer o debygolrwydd ymddangosiadol ynddo i'r winwydden. HASSELQUIST. Hyny, ydyw, rhagrith ac annuwioldeb, yn lle cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd. SCOTT.—*Mi a hysbysaf i chwi yr hyn a wnaf i'm gwinllan.* Yma y mae yr Arglwydd yn adrodd trwy y prophwyd pa beth a wnai efe i'w bobl am eu hanffrwythlonrwydd.—Y tynnai efe ymaith ei amddiffyniad oddiwrthynt; y rhoddai efe y tir, y ddinas, a'r deml i fynu i'w gelynion i'w hanrheithio; yr ymddifadai efe hwy, sef yr Iuddewon, o foddion gras, ac y gadawai luaws o honynt i ymgymmysgu a'r paganiaid; ac felly y gadawai efe ei winllan i gael ei gorchuddio a drain a mieri; ïe, gorchymyna i'r cymmylau beidio gwlawio arni; a'r hyn oedd, drymach na'r cwbl, yr attaliai efe oddiwrthynt ddylanwadau grasol a sancteiddhäol yr Ysbryd. Fe gyflawnwyd hyn mewn rhan yn yspaid y caethiwed yn Mabilon; ond yn llawer mwy manwl yn ninystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid, eu toriad allan o'r eglwys; eu gwasgariad maith a pharhaus, hyd y dydd hwn. SCOTT.

Adn. 8—10. Cyhoeddir gwae Duw yn y geiriau hyn ar y bydolion chwannog i ymgyfoethogi, y rhai yn awchus a geisient ychwanegu tŷ at dŷ, a maes at faes; ond tystir yma fod eu llafur yn ofer, gan y byddai eu tai yn annghyfanneddol, a'u meusydd yn ddiffrwyth; fel na's byddai i winllan o ddeg cyfair, neu erw, ddwyn mwy nac un bath [llai nac wyth galwyn] o win, ac na chai y llafurwr fedi namyn tu a'r degwm o'r hyn a hauasai o had.

Adn. 11, 12. Dyma ei wae uwch ben annghymedrolwyr y tir.—*Diod gadarn*, a ddynoda unrhyw wlybwr meddwol a wnelid, pa un bynnag ai o ŷd, ynte ffrwyth y balmwydden, neu ynte o rawn-win. Ychydig iawn a arferai yr Iuddewon fwytta nac yfed yn y boreu; fel y deallwn oddiwrth Preg. 10. 16. Act. 2. 15; ac yn yr hwyr yn gyffredin yr arferent gadw eu gwleddoedd. Am ba achos y mae y prophwyd yn cymeryd achlysur i feiaw eu dirfawr annghymedroldeb, nid yn unig am eu bod yn arfer yfed i ormodedd; ond hefyd, am eu bod yn arfer ymollwng i hyny yn y borau. BOOTHROYD.

Adn. 13, 14. Yma y mae y prophwyd yn llefaru am y pendefigion y rhai oeddynt anrhydedd y genedl, oeddynt i feirw o newyn a'r bobl gyffredin i drengu o syched. Uffern (y sefyllfa anweledig,

yr hon sydd yn cynnwys yn nghyd a'r bedd, y lle poenus i ba un y mae yn rhaid i eneidiau yr annuwiolion ddisgyn,) oedd yn dyfod yn mlaen fel angenfil gwancus, dan agoryd ei safn annigonol yn llydan, ac yn difa ei ysglyfaeth yn ddifesur, gan lyncu y pendefigion a'r werin, y mwyaf gwammal a thrythyll.

Adn. 16. *Mewn barn*, sef y farn a wna efe arnynt hwy.—*A'r Duw sanctaidd a sancteiddir mewn cyfiawnder*, neu a gyfrifir yn sanctaidd trwy yr amlygiad o'i gyfiawnder. BOOTHROYD.

Adn. 17. *Yr wyn hefyd a borant yn ol eu harfer.* Yr ystyr yw, y byddai iddynt bori yn eu ffordd eu hunain, heb nac attaliad nac arweiniad. WILLIAMS. Megis y'u harweinir gan eu hewyllys eu hunain. LOWTH. Mâe yn ddïau y dylem ni ddëall hyn yn allegawl; gan hyny, pobl neillduol Duw, ac yn enwedig y rhai ieuainc a llesg yn eu plith, a olygir wrth yr wyn. Cäent hwy ymborthi ar eu mwynderau uchel a chyssegredig, mewn heddwch a dïogelwch, yn yr amser a olygid yn y brophwydoliaeth hon. MACCULLOCH.

Adn. 18. *A rheffynau oferedd*, neu, 'âg oferedd, megis rhaff hir.' Efallai fod y gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth reffynwr, yr hwn trwy ychwanegu y cywarch a estyna y llinyn, a thrwy eu cyssylltu a'u gilydd, a wna raff mor braff ag y myno; yr ystyr yw, bod dynion yn myned rhagddynt o ddrygau llai i ddrygau mwy, nes o'r diwedd y cyrhaeddont y radd uchaf mewn drygioni, BOOTHROYD. Ai tybied nad oes yma gyfeiriad yn y gaïr cyntaf, *rheffynau oferedd*, at y llinynau sidanaidd, wrth ba rai yr arweinid y trueiniaid a fyddent wedi eu haddurnaw a'u neillduaw i'w haberthu i'r eilunod; a'r gair arall at y rhaffau anferthol, â pha rai y llusgir menau cyssegredig eu gau dduwiau?

Adn. 25. *A chrynodd y mynyddoedd.* Cyfeiriad, medd rhai, at y ddaiar-gryn a fu yn nyddiau Uzziah. Am. 1. 1. Zech. 14. 5.

Adn. 26. *Ac a chwibana arnynt hwy.* Cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth chwibaniad bugail ar ei braidd, i ddangos fod calonnau pawb yn llwyr yn llaw yr Arglwydd. GILL. Yn hytrach, oddiwrth geidwaid gwenyn, y rhai yn y gwledydd hyny a feddant y fath awdurdod ar y gwybed bychain hyny, fel y gallant eu denu yn heidiau o'u cychod, â'u chwiban, a'u harwain yn ol, yn yr un modd. LOWTH. gwel pen. 7. 18.

Adn. 27. *Ni ddattodir gwregys ei lwynau*, i orwedd i lawr a hunaw. GILL. Yr oedd gwregys yn rhan arbenig o wisg milwr, ac yn ddynodawl o nerth a bywiogrwydd. LOWTH. Mae yr holl ymadroddion a ddefnyddir yma yn arwyddoccau ymröad diflin, diwyd, gwresog, a phenderfynol. GILL.

Adn. 28. *Carnau ei feirch ef a gyfrifir fel callestr.* Yr oedd carn caled yn un o brif ragorion march, cyn dyfeisio y gelfyddyd o bedoli. LOWTH.—*A'i olwynion fel corwynt*, yr hwn a wasgar anrhaith, a dinystr anwrthwynebol o'i flaen. MACCULLOCH.

Adn. 30. Suddir gwlad Judea gan y cyfyngder a bair yr anrhaith ofnadwy yma, fel pe byddai goleuadau y nefoedd wedi eu tywyllu, Matt. 24. 29. Rhagfynegid yma y byddai y gelynion hyn mor ofnadwy i'r Iuddewon a rhuad y môr i'r morwr mewn llong-ddrylliad ganol nos; yr hwn a edrych tu a'r tir, ni's gallai ganfod ymwared, ond wedi ei amgylchu a thrallod ac âg anobaeth: oblegyd y byddai pob pelydr o obaith a chysur, yn cael ei guddio â chymmylau duon a thywyll, fel y bydd y nefoedd ar rai prydiau mewn ystormydd mawrion. SCOTT.

## PEN. VI.

Adn. 1. *Yn y flwyddyn y bu farw y brenin Uzzïah.* Meddylia amryw feirniaid craffus mai hon yw y weledigaeth gyntaf mewn trefn, o brophwydoliaethau Esaiah; gan ei bod yn cynnwys neillduad difrifol i'r swydd brophwydoliaethol. BOOTHROYD.—*Yn eistedd ar eisteddfa uchel*, mae y cyfeiriad llythyrenawl at rwysfawredd y tywysogion ennaduriaid dwyreiniawl. LOWTH. Golygfan y weledigaeth hon oedd deml, ac yn enwedig y cyssegr sancteiddiolaf, lle yr oedd yr arch, a'r cerubiaid, oddiar yr hon yr arhosai yr Arglwydd yn yr arwydd gogoneddus o'i bresenoldeb, a lle y nesäai ei weinidogion atto ef; cymh. Jer. 17. 12. Ezec. 43. 7. Dat. 4. BOOTHROYD. Dywaid Ioan, mai Crist oedd y person gogoneddus a welodd Esaiah. Ioan 12. 41.

Adn. 4. *A'r ty a lanwyd gan fwg;* cyfeiriad mae yn debyg at y modd y llenwid y cyssegr â chwmmwl yr arogl-darth, yr hwn a orchuddia y drugareddfa ar ddydd y cymmod. Lef. 16. 13. GILL.

Adn. 5. *Canys darfu am danaf;* neu, "canys tarawwyd fi yn fûd," (fel y darllenir yn amryw o'r hen gyfieithiadau) a hyny o herwydd eu wefusau halogedig. COBBIN.

Adn. 6. *Oddiar yr allor*, sef allor y poeth offrwm, o flaen porth y deml, ar yr hwn y cedwid y tân a ddaethai i waered o'r nef, i losgi yn wastadol, Lef. 6 12, 13. a 9. 24. 2 Cron. 7. 1.

Adn. 7. *Ymadawodd dy anwiredd, a glanhawyd dy bechod;* Ystyrid yr allor yn nodedig o sanctaidd; a pha beth bynnag a gyffyrddai â hi ydoedd sanctaidd. Hi a sancteiddiai y rhodd a offrymmid arni; ac yn awr rhoddid amnaid i'r prophwyd y gallai yntau fyned allan gyd a'i gennadwriaeth dros Dduw, gan fod cyffyrddiad y marworyn oddiar yr allor hon â'i wefusau, yn wystl o fod ei halogrwydd a'i bechod wedi ei symmud. BOOTHROYD.

Adn. 9, 10. Fe ddywedir yn aml fod y prophwydi yn gwneuthur yr hyn a ragfynegent yn unig, ac y mae yr adnodau hyn yn esampl o hyny. Gwel hefyd Jer. 1. 10. Ezec. 43. 3. Matt. 13. 14. Act 28. 26. Rhuf. 11. 7—10.—*Brasâ galon*, Tybir nad oes teimlad mewn brasder dynol, ac am hyny y defnyddir yr ymadrodd yma i ddynodi di deimladrwydd ac anystyriaeth y bobl hyn. HEWLETT.—*A chau eu llygaid;* cyfeiriad hwyrach, at yr arferiad

o selio y llygaid yn gauedig, yr hyn oedd fath o gosb yn y gwledydd dwyreiniol. HARMER.

Adn. 11, 12. Nid oedd y prophwyd yn gwrthddadleu yn erbyn y gwasanaeth a roddwyd iddo; nac yn petruso cyfiawnder a daioni Duw yn y ddedfryd aethus a gyhoeddwyd ganddo ar yr Iuddewon. Ond efe a ymofynai Pa hyd y byddai yr achos felly? ac fe'i hattebwyd, mai hyd oni anrheithid y dinasoedd a'r tiroedd, a dwyn y trigolion ymaith i gaethiwed; ac y byddai i'r anrhaith hwn barhau am hir amser. Gwiriwyd hyn mewn rhan yn amser y caethiwed yn Mabilon; ond yn llawer mwy arbenig yn yr anrhaith ddiweddaf ar y deml a Jerusalem gan y Rhufeiniaid, a'r sefyllfa wasgaredig a gwrthodedig y mae y genedl ynddi yn awr, er's agos i ddeunaw cân mlynedd; pen. 49. 10. SCOTT.

Adn. 13. *Eto bydd ynddo ddegwm.* Prin y gadawwyd cynnifer gan Nebuchodonozor, na chan Titus. BOOTHROYD. Y mae'r geiriau yn cynnwys addewid, na bydd i'r Arglwydd byth wrthod yn hollawl y genedl Iuddewig, pa mor lym bynnag yr ymddŵg efe tuag attynt. LOWTH. Y mae tu hwnt i bob ammheuaeth fod adferiad cenedl Israel i'r wir eglwys, ac efallai i'w gwlad eu hun yn cael ei ragfynegi yma. Gwel pen. 65. 8—10. Matt. 24. 21, 22. SCOTT.

## PEN. VII.

Adn. 1. *Ni allodd ei gorchfygu.* Yr oedd yr Israeliaid a'r Syriaid wedi gorchfygu yr Iuddewon lawer gwaith trwy laddfeydd echryslawn; ond nid oeddynt yn alluog i gymeryd Jerusalem, a dïorseddu teulu Dafydd. 2 Bren. 15. 37. a 16. 5. 2 Cron. 28. 5—8.

Adn. 2. *Ephraim,* am ei fod yn bennaf o'r deg llwyth, a roddir am y cwbl. *Esg.* NEWTON.

Adn. 3. *Pistyll,* neu ddyfrffos y llyn uchaf; lle hygof i dywysogion Judah, gwel 2. Bren. 18. 17.—*Sear-jasub,* neu "Gweddill; a ddychwel;" ni's gwyddys pa ham y gorchymynid i'r plentyn hwn ddilyn ei dad ar yr achlysur presenol, oddieithr i fod fel arwydd y cyflawnid addewidion Duw am ddychweliad Israel o'r caethgludiad â'r hwn y'u bygythid.

Adn. 4. *Ymgadw,* neu bydd lonydd, yr hyn a arwyddoccai y dylasai beidio ac ymofyn cymhorth tramor; eto hyny a wnaeth Ahaz, er dystryw Judah; 2 Bren. 16. 7—18.—*Dwy gloren y pentewynion myglyd hyn.* Rezin a Phecah oeddynt ddau bentewyn dinystriol, y rhai oedd yn goddeithio yn echrydus; ac yr oedd yr Iuddewon yn ofni effeithiau mwy arswydus oddiwrth eu cydfwriad: ond yr oedd terfynau eu llwyddiant yn agoshau, ac nid oeddynt ond dwy gloren pentewynion myglyd, y rhai ydoedd yn barod i ddiffoddi, ac mor analluog i ddifa unrhyw beth arall, a'u bod bron a'u difa eu hunain. LOWTH.

Adn. 5, 6. Yr oedd Rezin a Phecah wedi bwriadu darostwng

holl deyrnas Judah, a'i rhanu rhyngddynt; a gosod arni frenhin arall, fel deiliad iddynt hwy. Nid ydyw yn hysbys pwy oedd y *Tabeal* hwn, meddyliai PRIDEAUX mai rhyw Iuddew gwrthgiliedig ydoedd. Mae y mynych grybwyll am dŷ Dafydd yn y geiriau hyn, a'r arwydd a roddir wedi hyny, yn dangos eu bod hwy wedi bwriadu dinystrio y teulu hwnw. LOWTH, SCOTT.

Adn. 8, 9. *Canys pen Syria yw Damascus*, &c. Prif ddinas Ephraim yw Samariah er's talm; a'r dyn penaf yn Samariah yw Pecah yn bresenol: ond y mae eu terfynau wedi eu gosod i bob un o'r rhai hyn, ac ni's gallant eu hëangu drwy ranu Jerusalem. HENRY,—*O fewn pum mlynedd a thriugain y torir Ephraim rhag bod yn bobl.*—

| | |
|---|---|
| Teyrnasodd Ahaz wedi y pryd y derbyniodd Esaiah y gennadwri hon ................ | 14 o flyn. |
| Teyrnasodd Hezeciah .............. | 29 |
| Manasseh, cyn ei chyflawniad ...... | 22 |
| | 65 |

Adn. 10—12. Wrth ganfod Ahaz mor annghrediniol o'r addewid a roddid iddo, rhoddai yr Arglwydd gennad iddo i ofyn yr arwydd a fynai er cadarnäad i'r unrhyw, sef rhyw weithred anarferol a gwyrthiol, a hyny pa un bynnag a chwennychai ai ar y ddaiar, megis pan yr agorodd hi ei safn i lyncu Corah a'i gynnulleidfa, Num. 16 30; neu ddaiargryn ddychrynllyd, fel yn nyddiau Saul, 1 Sam. 14. 15; ynte, yn y nefoedd, megis pan safai yr haul a'r lleuad yn amser Josuah, Jos. 10. 13. *Assembly's Annotations.*—*Ni ofynaf, ac ni themtiaf yr Arglwydd.* Yma y mae Ahaz, naill ai oddiar ei annghrediniaeth o addewidion ac arwyddion, neu oddiar frys i ollwng y prophwyd ymaith, rhag iddo ei argyhoeddi o'i bechodau, yn cymeryd arno fod mor ostyngedig fel na chwennychai un math o arwydd i brofi cywirdeb a gallu yr Arglwydd, ac felly yn gwrthod y cynnygiad dan ymddangosiad o dduwioldeb, er iddo fyned yn mlaen mewn dull ag oedd yn profi yn eglur ei fod dan awdurdod annghrediniaeth ac ymbellâad oddiwrth Dduw. SCOTT.

Adn. 14. *Yr Arglwydd ei hun a ddyru i chwi arwydd.* Er cyndynrwydd Ahaz, mynai yr Arglwydd gysuro tŷ Dafydd a holl ddynolryw, âg arwydd a sefydlai ffydd ei bobl yn yr addewid. CHANDLER, MACCULLOCH.—*Wele morwyn, &c.* Cymhwysir y geiriau hyn yn bennodol gan Matthew at y Forwyn Fair, a'i mab Iesu. Ynddo ef y cwblhawyd y brophwydoliaeth yn ei hystyr llythyrenawl a phrïodawl. Ni's gallasai fod yn golygu gwraig Ahaz a'i fab Hezecïah, yr hwn oedd wedi ei eni y pryd hwn er ystalm; ac ni's gallasai fod yn golygu gwraig Esaiah na neb o'i feibion ef, fel y tybiai KENNICOTT: canys ni esgynodd un o honynt hwy yr orsedd: ac ni's gellir cyfaddasu geiriau y brophwydoliaeth hon at

unrhyw amgylchiad heblaw ganedigaeth wyrthiol Iesu Grist. MACCULLOCH. Dull arferedig y prophwyd yma oedd cyssylltu gwaredigaethau ysbrydol, yn nghyd; a mynych y gwelir yr olygfa ar yr olaf fel yn rhuthro i'w feddwl fel cenllif anorchfygol, nes cuddio y llall ynddo ei hunan yn hollawl. DR. PYE SMITH, J. SMITH, CHANDLER, HURD.

Adn. 15. *Fel y medro, &c.* neu, "Hyd oni fedro," &c. fel y mae yn y cyfieithiad Caldaeg, ac a gymeradwyir gan amryw wyr dysgedig. POOLE. Dyru y prophwyd ddarluniad yn mhellach o'r bachgen rhyfeddol yma, y cynnyddai efe fel bechgyn eraill yn gyffredin, trwy yr ymborth a arferid yn gyffredin yn y gwledydd hyny; ond yn annhebyg i blant eraill, y rhai fel y cynnyddont ydynt yn tueddu i ddewis y drwg, ac ymwrthod â'r da, y byddai iddo ef yn wastad *ymwrthod a'r drwg ac ethol y da.*

Adn. 16. *Canys cyn medru o'r bachgen, &c.* Mae anhawsder mawr i egluro y cyssylltiad rhwng yr adnod hon a'r rhai blaenorol: megys y mae mewn rhai eraill o'r rhag ddywediadau hynottaf yn yr Ysgrythyr; a hwyrach fod yr Arglwydd yn fwriadol yn eu gadael dan len o aneglurdeb, er rhoddi prawf ar ein gostyngeiddrwydd ni: ac er profi pa un a dderbyniem ni addysg oddiwrth yr hyn sydd amlwg, er na allwn gael deongliad boddhaol ar bob ymadrodd aneglur; neu ynte, ai gwrthod y cyfan mewn balchder a wnaem ar y cyfrif hwnw. Y mae rhai yn tybied fod y prophwyd yn meddwl wrth *y bachgen hwn*, ei fab ei hun, Sear-jasub, yr hwn oedd yn sefyll yn ei ymyl; ond nid ydyw hyny yn naturiol; ac y mae yn amheus pa un a ellir yn briodol gymhwyso yr ymadrodd, *ymwrthod â'r drwg ac ethol y da*, atto ef. Meddylia eraill mai meddwl y prophwyd yw, mai mewn llai o amser, wedi geni Mab y wyryf, nac ydoedd yn ofynol iddo i gyrhaeddyd i'r medrusrwydd hwn, (sef o fewn dwy neu dair blynedd) y dinystrid y gelynion yr oedd Judah yn brawychu rhagddynt. Ond y mae rhai yn tybied mai holl wlad yr addewid a olygir, ac mai terfyniad ar yr awdurdod yn Israel a Judah, cyn y medrai yr Immanuel "ymwrthod â'r drwg, ac ethol y da," a ragfynegid yn y geiriau hyn. Cyn y gallo y bachgen hwn adnabod gwahaniaeth rhwng da a drwg, bydd y wlad hon, yr ydwyt ti yn pryderu cymmaint yn ei chylch yn bresenol, yn cael ei hamddifadu o'i dau frenin; nid breninoedd Syria ac Israel, canys ni allesid galw y cyntaf ei brenin hi, sef Canaan, ac nid oedd gan yr olaf ond rhan fechan o honi: ond breninoedd Israel a Judah, a olygid; fel yr oedd ansawdd y wladwriaeth mewn gwirionedd ar ddyfodiad y Messïah. —*Universal History.* Mae yn beth tra nodedig fod Herod Fawr, yr hwn oedd yr olaf a ellid ei alw yn frenin ar Judah, neu Israel, wedi byw hyd ar ol genedigaeth y Messïah; ond yn marw pan ydoedd efe yn faban: y pryd hyny yr oedd Siloh wedi dyfod, yna y deyrnwïalen a ymadawodd yn hollawl o Judah, fel yr ydoedd

wedi ymadael er's amser maith o'r blaen o Israel. Pa mor bell y gellir meddwl i'r brophwydoliaeth hon gael ei chyflawni ar y cyntaf yn ngwaredigaeth Judah, o fewn dwy neu dair blynedd wedi ei chyhoeddi, rhag y ddau frenin oedd yn bygwth ei dinystrio y pryd hyny; ac eto iddi gael cyflawniad llawer mwy nodedig a manwl wedi hyny, pan y ganwyd yr Immanuel, a thra yr oedd efe yn faban; a bod y cyntaf yn gadarnäad a gwystl sicr o'r diweddaf, gadewir at benderfyniad y darllenyddion, ond ystyriwn fy hun yn rhwym i ddwyn yn mlaen yr amrywiol olygiadau a dueddent i roddi agoriad ar destyn mor bwysig a dyrys. SCOTT, &c.

Adn. 17—19. *Yr Arglwydd a ddwg arnat ti, &c.* Er i'r Iuddewon gael eu gwaredu oddiwrth y breninoedd cyngrheiriol, eto hwy a gosbid am eu pechodau trwy law brenin Assyria. Gwasgodd Tiglath-pileser ar Ahaz, ac a'i hysbeiliodd ef yn dost; 2 Cron. 28. 20. Meddiannodd Senacherib amryw o ddinasoedd Judah, yn nheyrnasiad Hezecïah, 2 Cron. 32. A chaethgludwyd Manaseh a Jehoiachin i Babilon. 2 Cron 32. 11. a 36. 10.—*Chwibanu am y gwybedyn, &c.* Yr oedd yr Aipht yn dra llawn o wybed ffiaidd a blinderus; ac Assyria yn nodedig am ei gwenyn, y rhai a gasglent eu mel o bob parth, ac a barent ddirfawr boen i'r sawl a bigent â'u colynau. Mewn cyfeiriaid at y pryfaid hyn yr oedd yr Arglwydd yn hysbysu ei fwriad i roddi yr arwydd i'r cenhedloedd hyny i ddyfod yn lluoedd mawrion, a meddiannu pob rhan o'r wlad.—SCOTT.—*Yn yr yspyddaid, &c.* Wrth ddarlunio helaethrwydd goresgyniaid y wlad gan y gelynion crybwylledig, y mae y gyffelybiaeth o wybed a gwenyn yn cael ei dilyn, a'r rhai hyny yn disgyn yn mhob man, ac ar bob peth, hyd yn nod yr *yspyddaid*, neu y drain, fel y mae y gair yn cael ei gyfieithu yn pen. 55. 13. Ezec. 28. 24.

Adn. 20. *Yn y dydd hwnw yr eillia yr Arglwydd â'r ellyn a gyflogir.* Mae eillio yn dynodi anrheithiad hollawl. HEWLETT. Yr oedd eillio y farf, a thorri y gwallt, yn nodau a wneid ar gaethion, ac am hyny yr arwyddion prïodol i ddynodi y caethwasanaeth hwnw dan ba un y darostyngid yr Iuddewon gan eu gelynion. L. HOLDEN.—*Cyflogedig*, am fod gweinyddwyr dïaledd Duw yn cael eu gwobrwy, Ezec. 29. 18—20. Gwel hefyd, 2 Bren. 10. 40. Yr oedd Ahaz hefyd wedi cyflogi brenin Assyria i'w gynnorthwyo ef; 2 Bren. 16. 7, 8. 2 Cron. 28. 21. LOWTH.—*Y pen*, sef y graddau uchaf.—*Y traed*, y bobl gyffredin.—*Y farf*, y brenin, neu yr archoffeiriaid, rhai uchaf mewn urddas, canys cyfrifid y farf mewn bri mawr. LOWTH, &c.

Adn 21. *I wr fagu anneir-fuwch, a dwy ddafad;* yr hyn a arwydda brinder dynion ac anifeiliaid.

Adn. 22—25. *Bydd hefyd o amldra y llaeth a roddant, iddo fwyta ymenyn;* gan fod ychydig o wartheg, a llawer o borfa. GILL. Mae yr holl ymadroddion hyn yn ddarluniad o annghyfanneddiad y wlad.—*Er mil o arian bathol,* siclau, medd rhai, y

rhai a osodid, neu a werthid er cynnifer. -*Yn fieri ac yn ddrain y bydd*, o ddiffyg llafurwyr i'w trin.—*A saethau ac â bwäau y daw yno*, oblegyd y byddai gwylltfilod ac yspeilwyr wedi goresgyn y wlad annghyfanneddol; gan hyny y mynyddoedd a'r bryniau a geibid ac a wrteithid.

## PEN. VIII.

Adn. 1. *Cymmer it' rôl fawr, &c.*—Gorchymynai yr Arglwydd yma i'w brophwyd gymeryd *rhôl fawr*, digon i gynnwys mewn llythyrenau eglur y brophwydoliaeth ddywededig; ac i'w hysgrifenu à *phin dyn*, sef yn y dull mwyaf eglur. Am y gair a gyfieithir *rhôl*, y mae rhai yn dodi "dalen o bres caboledig," y fath ag a arferid yn ddrychau; ac am *hin dyn*, offeryn cerfio; fel ar ol ysgrifenu y peth yn y cyfryw ddull, y gellid ei ddangos yn gyhoeddus; Hab. 2. 1, 2, 3.—SCOTT.—*Am Maher-shalal-has-baz*, yr hyn sydd yn arwyddo "prysuro i'r yspail," neu, "gymeryd yr ysglyfaeth gyda brys." Mae yn debygol fod yr enwad yma yn cael ei roddi fel enw neu deitl i'r brophwydoliaeth yma, a'i fod yn dynodi y byddai i'r Assyriaid yn fuan a chyda brys gyflawni y dïaledd bygythiol.

Adn. 2. *A chymmerais yn dystiolaeth i mi dystion ffyddlawn*, i danysgrifio eu henwau wrth y brophwydoliaeth yr hon yr amcenid ei gwneyd yn gyhoeddus, ac fel y byddai yn debyccach o ennill sylw Ahaz a'i bobl, a'u hargyhoeddi. MACCULLOCH. Cauai hyn allan bob amheuaeth hefyd pa un a draddodasid y brophwydoliaeth hon cyn yr amgylchiad. LOWTH.

Adn. 3. *Y brophwydes*, a elwid felly, am ei bod yn wraig i brophwyd.—*Galw ei enw ef*, yna, bob tro yr enwid enw y bachgen hwnw, gwasanaethai hyny fel cof nodydd o ddynesäad y barnau. HENRY.

Adn. 4. *Cyn y medro y bachgen alw, Fy nhad.* Felly cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon o fewn tair blynedd, gan Tiglath-Pileser, brenin Assyria, yr hwn a gymerodd Ddamascus, &c. 2 Bren. 15. 29. a 16. 9. 1 Cron. 5. 26 BOOTHROYD.

Adn. 5—8. Efallai fod yn Judah blaid gref ag oedd yn anserchog tuag at deulu Dafydd, ac yn dirgel bleidio y cydfwriadwyr; a gall fod y rhan yma o'r brophwydoliaeth yn cyfeirio at y rhai hyny, cystal ag at bobl Israel, pa rai oedd wedi gwrthgilio oddiwrth dy Dafydd o'r blaen.—Afon oedd yn agos i Jerusalem oedd Siloah, oddiwrth ddyfroedd pa un yr oedd llyn Siloam efallai yn cael ei gyfenwi, ac i enw pa un yr oedd ystyr gysgodol, Ioan 9. 7. Yr oedd arafwch y ffrwd fechan hon yn arddangos llarieidd-dra ac arafwch llywodraeth Dafydd a'i hiliogaeth, mewn cymhariaeth â thywysogion cymmydogaethol. Megis y mae ffrwd sydd yn cerdded yn araf yn gynllun o lywodraeth lariaidd; felly y mae afon fawr a fyddo yn gorlifo dros ei cheulennydd, yn

ddarluniad cymhwys o orchfygwr galluog, a gormeswr nerthol; ac yr oedd yr Arglwydd ar ddwyn y fath lifeiriant gorchfygawl i gosbi y bobl am wrthod teulu Dafydd, ac am eu haneirif bechodau. Pen. 59. 16—19. Dat. 12. 13—17.—Darlunir breniniaeth Judah fel corph dynol; ac yr oedd y llifeiriant i gyrhaedd hyd y gwddf; ond yr oedd y pen, sef y brif ddinas Jerusalem, i fod uwchlaw y dwfr o hyd. Darlunir llwyddiant yr Assyriaid hefyd trwy y gyffelybiaeth o aderyn ysglyfaethus angenfilaidd, yn estyn ei adenydd dros yr holl dir. Gwel Ezec. 17. 3, 4, 7, 8. Eto, yr oedd y prophwyd wrth ragfynegi y golygfeydd arswydus hyn, yn cyfarch Immanuel yn ei berson, fel meddiennydd y tir hwnw. Y Messiah addawedig yn ffurf Duw ydoedd yn Arglwydd neillduol y tir y pryd hyny; yno yn nghyflawnder yr amser y cymerodd efe natur ddynol, ac yr ymddangosodd mewn "agwedd gwas:" gan hyny yr oedd Immanuel yn sicr o waredu ei dir oddiwrth ruthr-gyrch Senacherib er ei fwyn ei hun, ac er mwyn ei addewid i dŷ Dafydd, ei was; 2 Bren. 19. 30, 31. Matt. 22. 41—46.

Adn. 9, 10. Yr adnodau hyn ydynt gyfarchiad beiddgar at y cyngrheirwyr, yr Israeliaid a'r Syriaid, yn y rhai y tystiai y prophwyd mai ofer fyddai eu holl egnïadau i ddinystrio yr Iuddewon, am fod Duw yn penderfynu eu cadw eto.

Adn. 11. *Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd wrthyf a llaw gref,* neu, "pan y'm cymerodd â llaw;" hyny yw, pan y gwelodd efe yn dda fy nghymeryd dan ei neillduol ofal a'i nawdd, gwel Job 31. 22.

Adn. 12. *Na ddywedwch Cydfwriad.* Yma y mae y prophwyd yn cyfarch y rhai ffyddlonaf, gan eu hannog i beidio ofni ymbleidiaeth a chydfwriad y rhai drygionus, ond i ofni Duw, ac ymddiried ynddo ef.

Adn. 13—15. *Arglwydd y lluoedd ei hun a sancteiddiwch.* Yn y geiriau hyn mae y prophwyd yn eu cyfeirio at feddyginiaeth effeithiol rhag yr ofnau anmhrïodol hyny, a dueddent i'w llethu. Wrth sancteiddio yr Arglwydd yma y golygir anrhydeddu ei fawrhydi gogoneddus ef, arswydo ei ddigofaint, parchu ei awdurdod, glynu wrth ei addoliad a'i wasanaeth, ac ymddiried yn ei drugaredd, ei wirionedd, a'i allu: canys y mae ef yn gyssegr ac yn noddfa i'r rhai hyny sydd yn ei sancteiddio ef; ond ar yr un pryd *yn faen tramgwydd, ac yn graig rhwystr i ddau dŷ Israel;* hyny ydyw, yn achlysur o gwymp i'r rhan fwyaf o'r ddwy genedl, y rhai na's ymddiriedent ynddo, ac ni's gwasanaethent ef: ac yn neillduol yn fagl ac yn rhwyd i breswylwyr Jerusalem, Yn amser rhuthr Senacherib, ac wedi hyny yn yspaid y gwarchae a fu ar Jerusalem gan Nebuchodonosor, a'r caethiwed a'i dilynodd, yn nghyda llawer o amserau eraill, tra yr ydoedd gwir gredinwyr yn adnabod yr Arglwydd yn amddiffynfa iddynt, yr oedd lluaws o Iuddewon annghrediniol yn ymhyfau mewn hyder rhyfygus o'u

perthynas allanol â Duw, a'u breintiau, ac felly yr oedd eu hyder ddisail tra yr oeddynt yn para yn wrthryfelgar ac annuwiol, yn troi allan yn fagl iddynt eu hunain, ac yn prysuro eu dinystr. Ond y mae y cyfeiriadau a wneir yn y Testament newydd at yr ymadroddion hyn a'r rhai cyffelyb iddynt, yn dodi allan y goruchel gyflawniad o honynt, ac yn dangos pwy oedd yr apostolion yn ei ddeall wrth "Arglwydd y lluoedd" yn y lle hwn, Matt. 21. 40—44. SCOTT. Mae y testyn hwn yn cael ei lefaru yn uniongyrchol am Dduw gan y prophwyd; ond yn cael ei gymhwyso i Grist yn y lleoedd rhag-grybwylledig; yr hyn sydd yn brawf eglur mai Duw ydyw Crist, a'i fod yn cael ei osod allan fel y cyfryw gan y prophwydi. LOWTH

Adn. 16. *Rhwym y dystiolaeth, &c.* Mae y gair Hebraeg a gyfieithir yma, rhwymo, yn arwyddo yn hytrach ysgrifenu, argraffu, neu gerfio, yr hyn mae yn debygol a olygir yma.—*Selia y gyfraith;* gall hyn fod yn cynnwys ynddo holl ddybenion selio, megis, er profi gwirionedd gweithred, er dangos gwaith pwy yw y peth, er cuddio peth o olwg y cyffredin, neu er diogelu peth rhag twyll a thrais. MACCULLOCH. Rhoddir amnaid yma y byddai y brophwydoliaeth yn fwy eglur ar ol hyn. CHANDLER.

Adn. 17. Mae y prophwyd yma eto yn datgan ei hyder yn addewidion Duw; a'i obaith am fwynäad o'i ffafr ef, er ei fod ef yn cuddio ei wyneb y pryd hwn oddiwrth Jacob.

Adn. 18. *Wele fi a'r plant a roddes yr Arglwydd i mi.* Mae yn dra thebyg fod y prophwyd yn llefaru yma am ei blant ei hun, enwau pa rai a roisid arnynt trwy drefniad dwyfol, er bod yn arwyddion i'r genedl. *Sear jasub,* "gweddill a ddychwel;" a *Maher-shalal-has-baz,* "brysia i'r yspail, cymer yr ysglyfaeth yn fuan." BOOTHROYD. Ond JEROME a farnai fod y geiriau yn golygu prophwydi eraill, a meibion y prophwydi, neu dduwiolion, y rhai a anwyd o Dduw, Ezec. 24. 24. a Zech. 3. 8. Cymhwysai yr apostol y geiriau hyn at ein Harglwydd, fel Prophwyd mawr yr eglwys, Heb. 2. 13.

Adn. 19. *Dros y byw at y meirw?* Yr oedd yr hen ddewiniaid yn cymeryd arnynt wysio y meirw, i ymgynghori â hwy; a'r ffolineb o hyny a ddangosir yn y geirau hyn, Deut. 26. 14, &c. L. HOLDEN.

Adn. 20—22. Mae y gair *cyfraith* yn cael ei arfer am yr holl ddatguddiad dwyfol; a'r *dystiolaeth* yn benaf yn golygu yr oraclau prophwydoliaethol: a'n dyledswydd ni yw troi oddiwrth bob rhyw athrawon hunanol at athrawiaeth a phrophwydoliaethau dynion sanctaidd Duw; cymh. Luc 16 31. Mae y beirniaid yn gwahaniaethu cryn lawer yn eu cyfieithiadau o'r adnodau hyn; ond ar y cyfan nid ydynt nemmawr ragorach na'n cyfieithiad arferedig ni. Hwyrach mai BOOTHROYD a roddes y darlleniad egluraf iddynt. "Bydded iddynt ymofyn â'r gyfraith ac â'r dystiolaeth; os na laf-

arant yn ol y gair hwn, yn yr hwn nid oes dywyllwch, tramwya pob un o honynt trwy y tir yn galed arnynt ac yn newynog. A phan fyddo efe (sef pob un) wedi newynu, ac ymddigio yn fawr, efe a felldithia ei frenin a'i Dduw. Ac efe a edrych i fynu, ac yna i waered ar y ddaiar; ac wele gyfyngder a thywyllwch, niwl, a thrallod, a thywyllwch wedi ei bentyrru!" Darluniad tra bywiog o anobaith a braw yr Iuddewon annghrediniol, er pan wrthodasant y Messïah yn enwedig.

## PEN. IX.

Adn. 1. *Etto ni bydd y tywyllwch, &c.* Mae y gair *etto* yn nechreu y bennod hon yn dangos ei chyssylltiad â diwedd y bennod o'r blaen; er fod yn lled anhawdd egluro yr unrhyw. Ond y mae yr anhawsdra yn cael ei symmud i raddau helaeth trwy y cyfieithiad a ddyru yr *Esgob* LOWTH o'r geiriau:—"Ond o hyn allan ni bydd tywyllwch yn y wlad a fu yn y gofid; yn yr amser cyntaf efe a ddarostyngodd dir Zabulon a Naphthtali: eithr yn yr amser diweddaf, efe a'i gwnaeth yn ogoneddus; sef ffordd y môr, tu hwnt i'r Iorddonen, Galilëe y cenhedloedd." Breninoedd Assyria ar y cyntaf a anrheithiasant y gwledydd hyny oeddynt yn gorwedd ar dueddau Môr Tiberias, ac ar gwr gogleddol yr Iorddonen, a elwid "Galilëe y cenhedloedd," am eu bod yn terfynu ar dir y cenhedloedd, neu yn cael yn hir eu perchenogi gan y rhai hyny, 1 Bren. 9. 11. Yr ardal hono a gafodd wedi hyny y fraint a'r anrhydedd o gael pregethu yr efengyl iddi gan Grist a'i apostolion, Ioan 1. 43—46. a 2. 1—11. SCOTT.

Adn. 2. *A welsant oleuni mawr.* Yr ymadroddion yn yr adnodau hyn ydynt i'w hystyried yn hytrach fel addewidion cysurus i'w cyflawni dan yr efengyl, mewn amser oedd i ddyfod, yr hwn y llefarir am dano yn y brophwydoliaeth hon fel wedi cymeryd lle eisoes. LOWTH.

Adn. 3. *Ni chwanegaist lawenydd.* Cyfieitha amryw y rhan hon mewn dull holiadol, "Oni chwanegaist lawenydd?" hyny yw, llawenydd ysbrydol, fel y mae yr ymadrodd nesaf yn dangos; sef llawenydd ger bron Duw, am fendithion ysbrydol yr efengyl, yr hyn oedd i'r gwir Israeliaid yn fwy llawenydd na'r eiddo annuwiolion pan amlhai eu hŷd a'u gwin. SCOTT, POOLE.

Adn. 4. *Canys dylliaist iau ei fraich ef*; neu ei iau flinderus ef; gwel Barn. 7. 22.—*A ffon ei ysgwydd*, cyfeiriad, naill ai at ffon a roddid ar draws ysgwydd caethion, ar yr hon y cludent feichiau; neu at arferiad meistri creulawn o guro eu caethion yn gïaidd ar eu cefnau â ffon.

Adn. 5. *Canys pob cad y rhyfelwr.* Yr ystyr debygid yw, y byddai i holl arfau rhyfel gael eu dystrywio, a'u gwneyd yn gynnud tân, fel yn Salm 46. 9, lle y defnyddir y gyffelybiaeth i ddarlunio buddugoliaeth drwyadl, a sefydliad perffaith heddwch: a

LOWTH, yn nghyd ag amryw feirniaid dysgedig, a gyfieithiant y geiriau fel hyn,—"Canys bottasau y rhyfelwr blinedig yn y frwydr, a gwisgoedd wedi eu trybaeddu mewn llawer o waed, a fyddant er llosgiad: ïe yn gynnud i'r tân."

Adn. 6, 7. Mae y prophwyd yma yn rhoddi rheswm am yr hyn a ddywedasid yn yr adnodau blaenorol Efe a ragwelai enedigaeth yr Iachawdwr, person rhyfeddol, a llywodraeth annherfynol yr hwn a ddarluniai efe yma. BOOTHROYD.—*A bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef.* Cyfeiriad at arferiad llywiawdwyr yn y gwledydd hyny o ddwyn cleddyf, teyrnwialen, neu agoriad ar yr ysgwydd, yn arwydd o fod y llywodraeth yn eiddo iddynt.—*A gelwir ei enw,* neu, "Ac efe a fydd yn" &c. Dull arferedig y prophwydi, oedd gosod enw ar un, er dynodi ei radd, neu ei gymhwysderau.—*Ar orseddfa Dafydd,* ar yr hon y dywedir fod y Messiah yn eistedd, oblegid fod yr holl addewidion perthynol i'w freniniaeth ef, wedi eu cyflawni ynddo ef.

Adn. 8. Dyma brophwydoliaeth wahanol, yr hon a gyfeirid at freniniaeth Israel. LOWTH.—*Ac efe a syrthiodd ar Israel:* hyny yw, y gair a gynnwysai fygythiad o ddistryw, fel y disgyn yr had ar y ddaiar. JACKSON.

Adn. 11. *Am hyny yr Arglwydd a ddyrchafa wrthwynebwyr,* neu yn hytrach, "dwysogion" *Resin yn ei erbyn ef,* canys amlwg yw mai anffyddlondeb bradwrus y Syriaid a ragfynegid yma, y rhai a gaent hwy eu profi yn fuan eu gelynion gwaethaf. BOOTHR.

Adn. 12. *Yn safnrhwth,* fel bwystfil ysglyfaethus a'i safn yn agored, yn barod i lyncu ei ysglyfaeth.

Adn 13—17. Yr oedd blaenoriaid y bobl hyn wedi ymröi i bob annuwioldeb a drygioni, a'r bobl yn gyffredin yn dilyn eu siampl Wrth y *pen* y dëallir yr henuriaid, a phendefigion y wlad: a'u gau-brophwydi ydoedd y gynffon y rhan fwyaf dirmygedig a gwaradwyddus o'r corph gwladwriaethol, Gwel pen. 29. 9—12. a 56. 9—12. Jer 23. 16—30. Ezec. 13.1—6. Mal. 2. 4—9. Dat. 19. 17—21. SCOTT, &c.

Adn. 18—21 Yr oedd annuwioldeb y genedl am yspaid o amser fel tân wedi ei fygu a'i ddiffoddi, ond o'r diwedd yn torri allan yn oddeithiad cyffredinol, ac yn achos i'w holl ogoniant ddiflannu, fel colofnau mwg yn esgyn i fynu ac yn gwasgaru. Ac mor ofnadwy fyddai eu cyfyngder, fel yr yspeilient ac y dyfethent eu perthynasau agosaf, a'u cyfeillion anwylaf, oddiwrth y rhai y gallasent ddysgwyl cynhaliaeth a chymhorth; yr hyn a fyddai yr un peth mewn ystyr gyffelybiaethol, a phe buasent yn bwytta bob un gnawd ei fraich ei hun.

## PEN. X.

Adn. I—4. Mae y prophwyd yn yr adnodau hyn yn cyfarch gormeswyr beilchion ei bobl gartref. HENRY.—*Hebof fi,* hyny

yw, heb fy nghymorth i, y'u cymerir yn gaeth, hyd yn nod gan y caethion; ac y'u darostyngir, hyd yn nod gan y gorchfygedig. A. CLARKE.

Adn. 5. Mae prophwydoliaeth wahanol yn dechreu yma, ac y mae yn ymddangos oddiwrth adn. 9—11, ei bod wedi ei thraddodi ar ol cymeriad Samaria gan Salmaneser, yr hyn oedd yn y chweched flwyddyn o deyrnasiad Hezecïah: a chan fod y rhan flaenaf o honi yn cynnwys rhagfynegiad o ruthrgyrch Senacherib i Judah, a dinystr ei fyddin ef, y mae yn rhaid ei bod wedi ei thraddodi cyn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o freniniaeth Hezeciah. BOOTHROYD.

Adn. 7. *Ond nid felly yr amcana efe.* Amcanai Duw geryddu ei bobl am, a'u meddyginiaethu oddiwrth eu rhagrith; ond pell oddiwrth y cyfryw fwriad oedd meddwl calon yr Assyriad balch, unig amcan yr hwn oedd helaethu ei fuddugoliaethau, a boddio ei uchel-frydedd ei hunan. HENRY, LOWTH.

Adn. 15. Wedi i'r prophwyd yn yr adnodau blaenorol, bersonoli brenin Assyria yn ei ymffrost hunanol, y mae efe yma yn enw Duw yn dangos yr ynfydrwydd o hyny, gan nad oedd Brenin balch Assyria yn ddim amgen na'r offeryn yn llaw Duw i gyflawni ei ewyllys ef.

Adn. 16. *A than ei ogoniant ef*, hyny yw, yr hyn oll y gallai efe ymffrostio o hono, fel byddin fawr a nerthol, a ddifa yr Arglwydd yn hollawl megys â thân.

Adn. 17, 18. *A bydd goleuni Israel yn dan;*—Efallai fod Duw yn cael ei alw felly yma, er coffäad o'r modd y bu efe yn eu harwain hwy gynt trwy yr anialwch gan eu goleuo y nos mewn colofn o dân; neu, efallai fod yma gyfeiriad at ei breswyliad yn y Secinah golau a dysglaer yn y deml.—*Ei ddrain a'i fieri* oeddynt bobl gyffredin brenin Assyria:—*Gogoniant ei goed* oeddynt ei bendefigion a'i wŷr mawr ef. Dywedir yma y byddai i dân digofaint Duw eu difa yn llwyr a thrwyadl.

Adn. 20—23. Yr oedd yr Iuddewon yn arferol o bwyso ar y cenhedloedd cymmydogaethol iddynt am gynnorthwy, ac yn cael eu harcholli yn aml drwy hyny: Gwel pen. 7. 17—19. 1 Bren. 16. 7—9. Ond y gweddill a ddïangodd rhag anrhaith Senacherib trwy wyrthiol gyfryngiad yr Arglwydd a ymwrthodasant â'r hyder wag hono, ac a ddysgasant bwyso mewn gwirionedd ar *Sanct Israel;* canys yr oeddynt nid yn unig i ddychwelyd i'w trigfannau, o'r rhai yr oedd eu gormeswyr wedi eu gyru ymaith, ond hefyd at addoliad yr Arglwydd a'i wasanaeth. SCOTT.—Nid yw yr ymadrodd "Yn y dydd hwnw," yn cael ei gyfyngu yn wastad i'r amser diweddaf y sonir am dano, ond y mae yn arwyddo yn fynych ryw amser nodedig o drugaredd Duw tuag at ei bobl. Fe ymddengys ei fod yma yn cyfeirio at yr amser nodedig hwnw, pan y bydd yr Iuddewon yn gyffredinol yn cael eu dychwelyd at Dduw. LOWTH.

Y mae y defnydd y mae yr Apostol yn ei wneyd o'r ymadrodd hwn yn dangos fod amcan yr Ysbryd Glan i ragfynegi hefyd am ddigwyddiadau mwy pwysig, sef dychweliad y gweddill o'r Iuddewon at Grist, a chyflawniad hollol o ddwyfol ddialeddau ar gorph y genedl, y rhai a'i gwrthodasant ef. Gwel pen. 28. 21, 22. Dan. 9. 24—27. Rhuf. 9 24—29. DAVIDSON, SCOTT.

Adn. 24—26. Yr oedd yr addewidion am waredigaeth rhag rhuthgyrch Senacherib, yn cael eu gwneuthur i drigolion Sïon a Jerusalem yn unig; pen. 37. 32, 33 ; y rhai oeddynt yn cysgodi yr etholedigion yn mysg yr Iuddewon, yn y rhai y cyflawna Duw yr addewidion a wnaeth efe i'r tadau. Gwel Rhuf. 11. 7, 28. LOWTH. Yr oedd Senacherib a'r Assyriaid yn ol dull Pharaoh a'r Aiphtiaid, yn bygwth dinystrio Israel yn hollawl; ond fe ymddangosodd yn mhen amser byr fod digofaint Duw yn erbyn ei bobl wedi ei droi ymaith; canys efe a ddystrywiodd eu gelynion, yr un modd ag y dinystriodd efe y gorthrymwr Midianaidd drwy ychydig Israeliaid gweiniaid; neu, fel y dymchwelodd efe Pharaoh a'i fyddin yn y Môr Coch. SCOTT.

Adn. 27. *A dryllir yr iau o herwydd yr eneiniad.* Er mwyn pobl ddewisedig yr Arglwydd, y gweddill neillduol a grybwyllir yn adn. 20, 21, y rhai a elwir yn Salm 105. 15. "Ei rai eneinniog ef;" ac hefyd er dïogelu y freniniaeth a'r offeriadaeth; ond y mae yn ddi ddadl mai y Messiah, yr Eneinniog mewn modd arbenig a olygir yma yn benaf. Fe gadwodd yr Arglwydd deyrnas Judah rhag cael ei llwyr ddinystrio, am fod y Messiah i ddyfod o'r llwyth hwnw. LOWTH.

Adn. 28—32. *Daeth at Aiath.* Mae yr holl leoedd a grybwyllir yma yn nghymmydogaeth Jerusalem: ac yn y geiriau hyn cynnwysir darluniad o ddynesäad byddin Senacherib tua Jerusalem mewn trefn i'w chymeryd hi. LOWTH. *Aiath*, yr un ag *Ai*, efallai, Jos. 8. 28, yr hon a ail adeiladwyd yn amser Nehemïah, dair milldir o Jericho.—*Migron*, yn llwyth Beniamin, a grybwyllir yn 1 Sam. 14. 2.—*Michmas* oedd fwlch cul rhwng dwy graig, 1 Sam. 13. 23. a 14. 4, 5, 31. Gallesid gwrthwynebu byddin fawr âg ychydig wŷr yn fanteisiol yn y lle yma; ac yr oedd bod y gelyn wedi eu goddef i fyned trwy y cyfyngle yma yn ddiwrthwynebiad, yn brawf amlwg nad oedd gan yr Iuddewon un meddwl eu gwrthsefyll ar faes agored: ac mai eu hunig nerth oedd cadernid eu dinas. Yma y rhoddes y gelyn *ei ddodrefn i'w cadw.* hyny yw, efe a adawodd ei glud yma.—*Aethant trwy y rhyd*, neu, "fwlch Michmas," 1 Sam. 13. 23.—*Geba*, dinas yn llwyth Beniamin, 1 Bren. 15. 22.—*Ramah*, yn yr un llwyth, tua saith milldir o Jerusalem, Jos. 18. 25.—*Gibeah Saul a ffoes*, hyny yw, y trigolion a ffoisant. Dinas yn llwyth Beniamin oedd hon, 1 Sam. 11. 4. a 13. 2.—*Merch Galim*, neu drigolion Galim, o'r lle yr oedd Phalti, yr hwn a brïododd Michal, merch Saul.—*Lais*, yr un lle

ag a alwyd Dan gan y Daniaid, efallai.—*Anathoth*, dinas yn llwyth Beniamin, tua thair milldir o Jerusalem, Jos. 21. 18. Yn lle *O Anathoth dlawd*, y mae amryw o'r beirniaid dysgediccaf yn darllen y gair, "Atteb hi, O Anathoth;" a meddyliai DR. CLARKE fod y lle wedi cael ei enw, yr hwn a arwydda cyfattebiadau, oddiwrth adlais *(echo)* nodedig oedd yn y lle, at yr hwn y cyfeiriai y prophwyd yma efallai.

Adn. 33, 34. Mae y prophwyd wedi dangos yn yr adnodau blaenorol mor agos i Jerusalem y deuai y gelyn; yn dechreu dangos yma y modd y byddai i'r Arglwydd ei siommi yn ei amcan, a dinystrio ei fyddin fel yr ysgythrir cangau cedrwydden gan ystorm, trwy angel ei gadernid, yr hwn a dorodd i lawr gant a phedwar ugain a phump o filoedd o'i filwyr, fel pe buasai goed yn cael eu torri i lawr mewn coedwig. Gelwir brenin Assyria yn gedrwydden yn Libanus, Ezec. 31. 2,

## PEN. XI.

Adn. 1. *Yna y daw allan wïalen o gyff Jesse.* Dyma anghraifft o'r modd yr arferai y prophwydi neidio oddiwrth waredigaethau tymhorol at waredigaethau ysbrydol. Yn niwedd y bennod o'r blaen cydmerid yr Assyriad i gedrwydden yn Libannus, mewn cyferbyniad i'r hwn y darlunir Crist fel gwïalen fain yn unig o gỳff hen bren torredig. LOWTH. Wrth grybwyll Jesse, yr hwn nid oedd yn frenin, ond dyn annghyhoedd a chyffredin, gellid meddwl fod y prophwyd yn rhoddi rhyw amnaid am y cyflwr isel yn yr hwn yr ymddangosai y Messiah. ALLIX.

Adn. 2. *Ac ysbryd yr Arglwydd a orphwys arno ef.* Trwy Ysbryd yr Arglwydd y i cyssegrwyd ef i'w swydd sanctaidd, ac y'i cymhwyswyd yn berffaith i lenwi y nodweddiad goruchel dan yr hwn yr oedd efe i weithredu, ac i gwblhau yr holl addewidion grasol mewn perthynas i iachawdwriaeth ei eglwys.

Adn. 4. *Ac efe a dery y ddaear*, hyny yw, dynion daiarol.—*A gwialen ei enau;* y meddwl yw, y byddai iddo ef fel Barnwr ddedfrydu pob troseddwr cyndyn i gael ei dorri ymaith. BOOTHROYD, MACCULLOCH.

Adn. 5 *A chyfiawnder fydd gwregys ei lwynau ef.* Y meddwl yw, y byddai i zel dros gyfiawnder a gwirionedd, ei wneuthur ef yn fywiog a grymmus yn y cyflawniad o'r gwaith mawr a gymera efe arno i'w wneyd. BOOTHROYD.

Adn. 6—9. Mae gwynfydedigrwydd breniniaeth y Messiah yn cael ei osod allan yn dra godidog yn y geiriau hyn, mewn iaith gyffelybiaethol wych. Bydd ysbrydoedd dynion ydynt wrth natur yn greulawn, aflywodraethus, ac erlidigaethus, yn cael eu dwyn trwy ei ras yn addfwyn, gostyngedig, a hynaws, fel wyn, pob annghydfodau yn cilio, ac heb wenwyn cenfigen mwyach yn y galon ddynol. DAVIDSON. Mae yr ymadroddion a ddefnyddir

yma yn dynodi y fath gyfnewidiad hynod yn y byd, a phe byddai y creaduriaid yn cael eu cyfnewid fel y darlunir uchod. DR. T. BURNETT. Am gwblhad o'r brophwydoliaeth hon, nyni a edrychwn am ddystryw Anughrist, pan fydd i'r eglwys fwynhau heddwch, a graddau mawrion o wybodaeth ysbrydol, sancteiddrwydd, a chysur. MACCULLOCH. Ni lanwyd erïoed eto mor ddaiar o wybodaeth yr Arglwydd fel y mae y dyfroedd yn toi y môr, ac felly y mae y brophwydoliaeth ogoneddus hon heb ei chyflawni eto. SCOTT.

Adn. 10. *Yr hwn a saif yn arwydd i'r bobloedd,* cyfeiriad at hen arferiad tywysogion a blaenoriaid byddinoedd, y rhai mewn amserau o berygl mawr, a barent gyfodi banerau ar glogwyni uchaf y wlad, fel y gellid galw yr holl drigolion yn nghyd yn y fan, i wrthsefyll y gelyn. Fel hyn y mae Crist wedi ei dderchafu fel arwydd i'r cynnulleidfäoedd yn mhregethiad yr efengyl; ac atto ef yr ymgynnullant, fel canol barth undeb, &c.—*A'i orphwysfa*; ei eglwys, lle ei drigias a'i orphwysfa.—*A fydd yn ogoniant,* fe'i prydferthir â'r presenoldeb Dwyfol.

Adn. 11—16. Trwy yr un gallu yr oedd yr Arglwydd yn adferu gweddill ei bobl o Assyria a Babilon, ac y dug efe yr holl genedl allan o'r Aipht; ac fe ragfynegir yma y byddai iddo ef gasglu yn nghyd y rhai hyny a adewid o honynt, o blith yr holl genhedloedd, yn mysg y rhai yr oeddynt wedi eu gwasgaru; ac y mae amryw o'r gwledydd oeddynt gyfagos, yn nghyda rhai hynod o bell yn cael eu dynodi. Wrth "ynysoedd y môr" yr ydym i ddeall yn gyffredin, yr holl barthau dosbarthedig oddiwrth Asia; ac yma, yn *mysg lleoedd eraill,* fe gynnwysir yr Ynysoedd Brutanaidd. Mae yn ddiammeu mai y Gwaredwr croeshoeliedig, fel y'i gosodir allan yn mhregethiad yr efengyl, ydyw y Faner at yr hon yr hon yr ymgynnulla crwydriaid Israel, a gwasgaredigion Judah o bedair congl y ddaiar. Ac mewn ymddibyniad unol ar Dywysog y tangnefedd, ac mewn ufudd-dod iddo, y bydd i'r genfigen, y gyd ymgais, a'r elyniaeth a gadwodd yr Iuddewon a'r Isräeliaid gyhyd o amser mewn amrafael, hollol derfynu. Gwel Jer. 3 16—18. Ezec. 37. 15- 28. Hos. 1. 11. Zech. 11. 12—14. Eu gwrthwynebwyr oeddynt i gael eu torri ymaith, a llawer o'r rhai a fuasai yn elynion iddynt o'r blaen, oeddynt i gael eu darostwng, neu ymostwng yn ewyllysgar i fod dan dreth iddynt, neu eu galluog gynnorthwyo, yr hyn a ymddengys oddiwrth yr ymadrodd, *Ehedant ar ysgwyddau y Philistiaid tua'r Gorllewin.* Canys bydd i'r Arglwydd y pryd hyny symmud pob rhwystrau, trwy yr un cyfryngiad galluog ag y rhyngodd bodd iddo ei roi allan ar Israel, pan yr holltodd efe dafod, neu gainc Môr yr Aipht, sef y Môr Coch, ac y dinystriodd efe yr hyn oedd yn attal iddynt ymadael; ac â gwynt nerthol y rhana efe ddyfroedd yr afon (Euphrates) yn ei holl ffrydiau yr un modd, fel y gallo rhai fyned

trwyddi yn droedsych. Dan. 11. 40—45. Zech. 10. 5—12. Dat. 16. 12—16. Mae yn eglur fod adferiad Israel a Judah yn cael rhagfynegi am dano yma. SCOTT. Yr wyf fi yn cymeryd fod y rhan hon o'r bennod yn rhagfynegi am yr amseroedd gogoneddus, pan yr adferir y genedl Iuddewig; pan y derbyniont yr efengyl, ac y dychwelir hwy i'w gwlad eu hunain o'u hamrywiol wasgaradau. LOWTH.—*A hi a fydd yn brif ffordd i weddill ei bobl ef.* Gan y byddai y deg llwyth, y rhai a gaethgludasid i Assyria, neu oeddynt i gael eu caethgludo yno yn fuan yn ol pob ymddangosiad wedi eu colli, gan eu bod wedi eu cludo yn llawer pellach na'r Iuddewon, y rhai a gludwyd i Babilon, ac heb ddychwelyd o'u caethiwed pan ddychwelodd Judah, mae y prophwyd yn rhoddi awgrym yma, y byddai hyd yn nod iddynt hwy gael eu dychwelyd adref yn fuan trwy bregethiad yr efengyl. JACKSON.

## PEN. XII.

Adn. 1. Dyma gân fuddugoliaethol eglwys Crist, pan fyddo ei fuddugoliaethau ef yn gyffredinol; ac yn enwedig cenedl ddychweledig Israel, wrth adolygu eu cyflwr blaenorol am yspaid mor faith o amser, o herwydd eu bod dan ŵg yr Arglwydd am eu gwrthodiad cyndyn o'r Messiah, yn torri allan i orfoleddu, gan ddywedyd, *Molaf di*, &c. LOWTH.

Adn. 3. *Mewn llawenydd y tynwch ddwfr*, &c. Cyfeiriad at ddefod arferedig gan yr Hebreaid ar ŵyl y pebyll, pan fyddai mintai o wyryfon mewn gwisoedd gwynion, yn cludo dwfr mewn piserau aur o ffynnon Siloam, yr hon ydoedd yn tarddu yn ngodrau mynydd Sïon, tu allan i'r ddinas, gan ganu Salmau ar hyd y ffordd i'r deml, lle y'u tywalltent yn gymmysgedig â gwin, ar yr aberth, pan fyddai ar yr allor, gyda llawenydd mawr. Cymhwysodd ein Iachawdwr y seremoni hon, atto ei hun, a'r tywalltiad addawedig o'r Ysbryd drwyddo ef. LOWTH.

## PEN. XIII.

Adn. 1. *Baich Babilon.* Mae y gair gyfieithir *baich*, er fod rhai yn ei gyfieithu oracl, yn arwyddo fod dïaledd trwm yn cael ei ragfynegi, yr hyn a welwyd gan y prophwyd mewn gweledigaeth, fel pe buasai eisioes wedi syrthio ar Babilon. SCOTT. Mae y bennod hon a'r un nesaf oddieithr y pum adnod olaf o honi, yn cynnwys un brophwydoliaeth gyfan, yn yr hon y rhagfynegir dinystr Babilon gan y Mediaid a'r Persiaid; yr hon a draddodwyd yn nheyrnasiad Ahaz efallai, tua càn mlynedd cyn i hyny gymeryd lle. DAVIDSON, LOWTH.

Adn. 2. *Dyrchefwch faner.* Gorchymyn Duw i gynnull y lluoedd a amcanai efe i'w wasanaethu yn erbyn Babilon. LOWTH.—*Ar y mynydd uchel*, hyny yw, dangoswch y modd mwyaf cyhoeddus y faner a gyfodwyd i gynnull goresgynwyr Babilon. DAVIDSON.

—Babilon ei hunan, a elwir felly oblegyd ei gallu mawr, er ei hadeiladu mewn gwastadedd, Jer. 51. 25. SUTCLIFFE.—*Fel yr elont i fewn pyrth y pendefigion*, i ymrestru dan eu gwahanol dywysogion, trwy fyned i'w pyrth, a rhoddi eu henwau i fewn.—LOWTH. E ddichon mai myned i fewn i byrth pendefigion Babilon i gael yspail werthfawr a olygir yn hytrach GILL, HEWLETT.

Adn. 3. *Myfi a orchymynais i'm rhai sanctaidd*, neu neillduedig, a pharottöedig i'r gwaith: cymh. Jer. 1. 44. a 2. 27. CLARKE, DAVIDSON.—*Gelwais hefyd fy nghedyrn i'm digter:* i gyflawni fy niger.—*Y rhai a ymhyfrydant yn fy nyrchafiad*, neu yn yr hyn a fyddai yn anrhydedd i'r Arglwydd; nid fel pe buasent hwy yn ei adnabod; ond, fel yr oeddynt hwy yn ymhyfrydu yn narostyngiad Babilon, yr hyn oedd yn anrhydedd i Dduw fel yr oedd yn gyflawniad o'i fwriad ef, ac yn gwblhâd o'r hyn a ragfynegasai efe trwy y prophwydi.—*Yn gyffelyb i bobl lawer:* yr oedd byddin Cyrus yn cael ei gwneyd i fynu o laweroedd o genhedloedd amrywiaethol, Jer. 1. 9. a 51. 27, 28 HEWLETT.—*O eithaf y nefoedd.* O ryw barthau pellenig iawn o'r ddaiar odditan y nefoedd. ROSENMULLER.

Adn. 6. *Udwch*, cyfarchiad at y Babiloniaid, y rhai oeddynt yn awr yn uchder eu nerth. BOOTHROYD.

Adn. 8. *Eu hwynebau fyddant wynebau fflamllyd.* Hyny ydyw, gwelw-las, a du-las, fel y mae dychryn yn gwneyd dyn; canys y fath ydyw lliw y fflam: nid yn gôch, megys o ddigofaint, yr hyn ydyw lliw y tân, o'r hwn y mae y fflam yn dyfod. SCOTT.

Adn. 9, 10. Mae y prophwydi yn darlunio dymchweliad llywodraethau, pan fyddo breninoedd a llywodraethwyr yn cael eu darostwng neu eu dinystrio, trwy amryw gyffelybiaethau, wedi eu cymeryd oddiwrth yr haul, y lloer, a'r sêr; a'r terfysg, braw, a dychryn, a ganlyna y fath gynhyrfiadau angerddol. Jer. 4. 19—27. Joel 3. 9—17. Matt. 24. 29—31. Mae gorwychedd y darluniadau, ac addurniant yr iaith yn y pennodau hyn, wedi bod yn achos i gyffroi syndod y beirniaid mwyaf treiddgar. LOWTH.

Adn. 11. *A mi a ymwelaf a'r byd am ei ddrygioni.* Rhoddir y byd yn y fan hon am yr ymerodraeth Fabilonig, fel y'i rhoddir mewn man arall am yr ymherodraeth Rhufeinig, Luc 2. 1. Act. 11. 28.—*Y rhai ofnadwy.* Y gormeswyr.

Adn. 12. Dyma ddarluniad o ehangder y difrod a wnelid ar ddynion cymhwys i ddwyn arfau rhyfel, fel y byddent mor brined a'r aur coeth, ac yn rhy anhawdd eu prynu am dano; cymh. pen. 4. 1. 2 Sam. 3. 1.

Adn. 14. *A hi a fydd*, neu, "A'r gweddill a fydd" yn ofnus a ffoedig, *megis ewig wedi ei tharfu.*

Adn. 15. Cyfieitha BOOTHROYD yr adnod hon fel y canlyn, "Pob un a oddiweddir, a drywenir; a'r fintai drefnus a syrth drwy y cleddyf." Felly hefyd LOWTH.

Adn. 17 *Wele fi yn cyfodi y Mediaid yn eu herbyn hwy*. Cenedl isel, ddigyfrif oedd y Mediaid pan y traddodwyd y brophwydoliaeth hon gan Esaiah; a'u gwlad yn dalaeth dan frenin Assyria; 2 Bren. 17. 6, ac ni chyfodwyd mo honynt i fod yn deyrnas ar ei phen ei hun, hyd oddeutu yr ail flwyddyn ar bymtheg o deyrnasiad Hezecïah. Ond wedi hyny hwy a gynnyddasent ac a ddaethant yn bobl dra enwog. LOWTH.

Adn. 19—22. Yr oedd Babilon yn bedrorfa fawr, tua 45 milldir o amgylchedd; wedi ei hamgau o fewn caerau dau càn troedfedd o uchder, a hanner cant o led, yn y rhai yr oedd cant o byrth, cauedig â dorau pres. Cymerodd Cyrus hi trwy droi dyfroedd yr Euphrates, yr hon a lifeiriai trwyddi, a myned i fewn i'r ddinas ar hyd gwely yr afon yn y nos; a chan nad adferwyd yr afon i'w rhedfa blaenorol mwyach, hi a barhäodd i orlifo y tir oddiamgylch y ddinas, nes ei wneuthur yn forfa; ac nid oedd y trigolion a adawwyd ond ychydig nifer, gan faint y lladdfa. Cyn pen hir ar ol hyn aeth Darius Hystaspes i gospi trigolion y ddinas am eu gwrthryfel, di boblodd hi yn ddirfawr, gostyngodd ei muriau, a dryllodd ei phyrth. Xerxes ar ol hyny a ddinystriodd ei themlau. Wedi hyny, pan adeiladodd Seleucus ddinas ar y Tigris, yr hon a alwodd efe ar ei enw ei hun, Seleucia, efe a ddyhysbyddodd Babilon o'i thrigolion i bobli ei ddinas newydd. Yn mhen ysbaid wedi hyny, un o freninoedd Parthia a'i cymerodd ac a a gludodd lawer iawn o'i thrigolion i'w gwneuthur yn gaethion, ac a ddystrywiodd y rhan fwyaf o'r ddinas, gan losgi yr adeiladau harddaf oedd ynddi. Mae teithwyr diweddaraf yn darlunio yr holl wlad oddiamgylch yn bresenol fel diffaethwch annghyfanneddol: ac ni's gwyddys yn ddi betrus, pa le y gorweddai y ddinas hon, a fu unwaith yn rhyfeddod y byd. HERODOTUS, STRABO, LOWTH.

## PEN. XIV.

Adn. 1, 2. Yr oedd dinystr Babilon yn gyssylltiedig uniongyrchol â thrugaredd Duw i'r Iuddewon; a buddugoliaeth Cyrus a wnaeth ffordd i'w hadferiad hwy o'u caethiwed. Mae yn rhaid fod yr enwau Jacob ac Israel, yn dynodi fod trugaredd wedi ei bwriadu i rai, o'r hyn lleiaf, o'r deuddeg llwyth oll. Gellir meddwl fod amryw broselytiaid wedi dyfod at y grefydd Iuddewig pan yr adferwyd yr Iuddewon i'w gwlad: a thrigolion y gwledydd yn y rhai yr oeddynt yn gaethion, yn eu cynnorthwyo trwy gyfraniadau i ddychwelyd, ac felly yn *eu dwyn i'w lle*. Gwel Ezec. 7. 11—28. Ond, nid ydym yn darllen fod yr Iuddewon erïoed yn llywodraethu ar y Caldeaid, nac yn meddu unrhyw nifer o honynt yn weision. Gellir casglu, gan hyny, fod digwyddiadau mwy pwysig yn cael eu rhagfynegi yma: ac y mae yn ddiamheuol fod yr holl brophwydoliaethau yn gyffredinol a berthynant i ddinystr Babilon, yn cyfeirio yn gysgodol at ddinystr Rhufain a'r

llywodraeth Babaidd, fel y rhagfynegir gan Ioan; yn canlyn yr hyn y bydd adferiad i Judah ac Israel gyda mawr lwyddiant ac anrhydedd; a'r pryd hyny y bydd y rhan yma o'r brophwydoliaeth yn cael cyflawniad llawer mwy amlwg, Pen. 11. 11—16. a 60. 10—14. Zech. 8. 20—23. Dat. 19. 11—21.

Adn. 3—8. Dyma gân y Gwaredigion, wrth edrych yn synedig ar ddinystr aruthrol Babilon.—*Dihareb*, dywediad ardderchog a dëallus, wedi ei ffurfio yn gelfydd, a'i addurnaw â chyffelybiaethau areithyddawl. Job 27. a 29. 1. LOWTH. *Gorphwysodd a llonyddodd yr holl ddaear.* Mae yn ymddangos fod yr holl ddaiar wedi profi gwaredigaeth brysur ac annysgwyliadwy, a'i hadferu i dawelwch a dïogelwch trwy ddinystr y gorthrymmwr hwn. Wrth y *ffinnidwydd* a'r *cedrwydd* y deallir tywysogion y ddaiar, y rhai a welsent luaws o'u rhifedi yn cael eu tynu i lawr gan frenin Babilon, ac oeddynt mewn braw eu hunain, ond yn awr yn llawenychu yn ei ddinystr ef, ac yn yr heddwch a'r dïogelwch a ddygid iddynt trwy hyny.—*Y dref aur*, gelwir Babilon felly yn gymhwys, gyda golwg ar ei chyfoeth dirfawr, yn nghyd a'i hymddygiad gwancus am aur a chyfoeth.

Adn. 9—11. Mae yr olygfa yn newid yma. Gosodir ardaloedd y meirw megis yn agored o flaen y dychymmyg: a'u trigolion megys mewn cyffro ar ddyfodiad y pennadur balch hwn i ymuno a'u cymdeithas hwy: a brenhinoedd a llywyddion galluog (yn neillduol y rhai hyny a ddinystriasai Brenin Babilon) yn cael eu darlunio fel pe gadawent eu hamrywiol orseddau i ddyfod i'w gyfarfod ef; nid i gyd ymdeimlo âg ef, neu ei groesawi; ond i'w ddirmygu, am ei fod yn awr wedi dyfod megis un o honynt hwythau.

Adn. 12—15. Mae yr Iuddewon yn cael eu darlunio yma fel yn ail ddechreu ymadroddi, ac yn cyfarch brenin Babilon fel seren forau wedi cwympo o'r nef; fel y cyntaf mewn gwychder ac urddas yn y byd gwladol, wedi disgyn o'i sefyllfa uchelaf; a chyferbynir ei amcanion uchel-frydig a'i ymffrost chwyddedig, â'i sefyllfa druanaidd ac isel yn bresenol.

Adn. 16—20. Mae y testyn yn amrywio yma i olygfa wahanol. Darlunir yma amryw bersonau, fel pe deuent heibio i gorff brenin Babilon, wedi ei fwrw allan, ac yn gorwedd yn noeth ar y ddaiar yn mysg y lladdedigion, yn fuan ar ol cymeryd y ddinas, wedi ei orchuddio âg archollion, a'i anurddaw yn y fath fodd, fel y buant beth amser cyn ei adnabod ef; ac wedi ei adnabod, y maent yn datgan eu syndod yn yr olwg arno, a'u dirmyg tuag ato, gan ei feiaw yn dost am ei uchel-frydedd dinystriol, a'i driniaeth greulawn ar y rhai a orchfygid ganddo, yr hyn a ddug y driniaeth waradwyddus hon, yn gosbedigaeth gyfiawn arno ef. Lladdwyd Belsassar mewn chwyl-dröad prysur, ac efallai i'w gorff gael ei adael am ryw yspaid i orwedd ar y maes, a'i gladdu yn llwyr ddi-

barch wedi hyny, gan ei fwrw i'r ffos yn y gwisgoedd y lladdwyd ef, fel y cleddir milwyr cyffredin yn y maes wedi y darfyddo y frwydr. DAVIDSON, LOWTH.

Adu. 21—27. I gwblhau yr olygfa, y mae Duw ei hun yn llefaru yma, ac yn gorchymyn i deulu breninol Babilon gael eu dinystrio yn hollawl, ac i'r ddinas gael ei llwyr anrheithio; ac y mae efe yn cadarnhau y penderfyniad â llŵ annewidiol. Yr un bobl oedd yr Assyriaid a'r Babiloniaid; ac yr oedd dinystr yr Assyriaid dan Senacherib yn nheyrnasiad Hezeciah, yn rhagddarlunio eu dystryw trwyadl, am eu bod yn gwrthwynebu pobl Dduw. Ar ol *tadau* yn adn. 21, darllener yn ol VITRINGA,—"Rhag codi o honynt a meddiannu y ddaiar; ac i derfysgwyr lanw wyneb y byd trigiannol."—*A mab ac ŵyr;* felly y torwyd ymaith yn mlodau eu dyddiau, Efil morodach, *mab*, a Belsassar, *ŵyr*, Nebuchodonosor. PRIDEAUX, XENOPHON.—*Ac â'i gosodaf hi yn feddiant i aderyn y bwn, ac yn byllau dyfroedd.* Mae hanesyddiaeth yn eiliad perffaith o'r brophwydoliaeth hon. Yr oedd dinas Babilon wedi ei hadeiladu ar wastadedd, trwy yr hwn y llifeiriai yr afon Euphrates rhwng ceulenydd isel; a'r llifogydd a'i chwyddai hi fel y Nil ar ryw dymhorau, a achlysurai iddi orlifo dros ei cheulennydd, gan adael llynoedd a morfeydd mawrion yn ei chymmydogaeth, wedi i'r afon encilio i'w gwely arferol: ond tra fu Babilon yn ei gwychder, yr oedd ei thrigolion anturiaethol, yn gwneuthur yr amgylchiad yma yn fanteisiol er chwanegu ffrwythlonrwydd y tir oddiamgylch i'r ddinas, gan fod gwastadedd Babilon yn ddarostyngedig i hir sychdwr, a gwres dirfawr yn yr haf, am hyny byddai pob peth yn sicr o wywo yn ei thir sychedig, oddieithr ei fwydo â dyfräad celfyddawl. Ond yn bresenol, y mae y gwastadedd yma yn annghyfannedd a diffrwyth, heb ddim o weddillion y ddinas ardderchawg hon ond bryniau o adfeilion didrefn, a lluaws o hen ddyfr-ffosydd dirywiedig oddeutu pa rai y mae llynoedd a chorsydd diffaeth ac afiachus—*Ysgubaf hi hefyd ag ysgubau dystryw*, neu "trochaf hi yn llynclyn lleidiog dystryw." DAVIDSON, MACCULLOCH, *Pictorial Bible.* Mae SCOTT ac amryw Esbonwyr da eraill yn barnu, fod y rhan olaf o'r brophwydoliaeth hon yn enwedig yn cyfeirio at ddinystr Babilon y Testament Newydd, sef Pabyddiaeth yn benaf, a holl elynion yr eglwys, yn nghyd ag adferiad Israel mewn cyssylltiad â hyny.

Adn. 28—30. Darostyngasai Uzziah y Philistiaid, 2 Cron. 24. 6, 7; ond wedi ei farw ef, hwy a gymerasent fantais ar deyrnasiad wanaidd Ahaz ddrygionus, goresgynasent Judea, a chymerasent feddiant o rai dinasoedd yn y parth deheuol o'r wlad. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon drwy Hezeciah, 2 Bren. 18. 8. Gan hyny, wrth y *wïalen* y golygir Uzziah; ac wrth *wreiddyn y sarph*, y golygir cyff Jesse, o'r hwn y deuai *sarph danllyd hedegog* allan, sef Hezeciah, ei ŵyr ef, yr hwn a fyddai yn elyn llawer mwy ofn-

adwy iddynt nac y buasai ei daid Uzziah erioed.—*A chyn-blant y tlodion*, ymadrodd yn dynodi y tlottaf o'r tlodion, fel y mae "cyntaf-anedig angau," yn dynodi y mwyaf peryglus o glefydon, Job 18. 13.

Adn. 31. *Canys mwg sydd yn dyfod*, cyfeiriad at y cwmmwl o lwch a ddyrchafai oddiwrth gamrau byddin Hezeciah, yn ei hymdaith yn erbyn Philistia. BOOTHROYD, CLARKE.

Adn. 32. *A pha beth a attebir i genhadau y genedl?* sef cenhadau unrhyw genedl, a anfonid i longyfarch brenin Judah ar ei fuddugoliaeth; mae yntau yn ei atteb, yn priodoli yr oll o'i lwyddiant i nodded Duw. 2 Cron. 32. 23.

## PEN. XV.

Adn. 1. *Baich Moab.* Yr oedd Josuah wedi arbed y genedl hon trwy orchymyn dwyfol, am eu bod o hiliogaeth Lot, Deut. 2. 9. Ond anweddus iawn i'r fath arbediad a fu eu hymddygiadau hwy. Eglon a orthrymmodd Israel ddeunaw mlynedd. Balchder, gwaed, ac eilun-addoliaeth, a wnai i fynu fesur ei hanwiredd. Hi a fu yn achlysur o gamweddau ffieiddiaf Israel, Deut. 23. 3. Dafydd a'i cosbodd yn ei amser ef, Sal. 83; a phan ddisgynodd hi dan awdurdod y deg llwyth a gwrthryfela, hi a orthrechwyd wedi hyny, ond yr oedd ei chwppanaid chwerwaf yn ol iddi hi eto. Pan oedd Salmaneser yn rhyfela a'r deg llwyth, cymerodd y fyddin Assyriaidd hynt amgylchynawl, o Samaria at Moab, ac at Ammon,ac yna yn ol i Ninefeh, ar draws yr Euphrates: a thair blynedd cyn hyn, galwesid ar Esaiah i brophwydo baich Moab. SUTCLIFFE. *Ar*, a *Cir*, oeddynt brif amddiffynfeydd Moab. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Fy nghalon a waedda am Moab.* Mae y prophwyd wrth ragweled adfyd a chyni y Moabiaid, yn tosturio wrthynt fel ei gyd-greaduriaid.—*Hyd Soar.* Yr oedd ffordd bell iawn o brif ddinasoedd Moab i Soar, yr hon oedd ar y tu deheuol i'r Môr Marw; ac felly yr oedd eu bod yn parhau i wylo ar hyd y ffordd yno am nodded, yn dangos llymder eu cyni. Tybir fod brefiad anner yn ddwysach na brefiad eidion; gan hyny defnyddir ei brefiad hi i ddynodi galar dwys Moab.

Adn. 6. *Nimrim*, naill ai tref oedd a'i sefyllfa yn agos i ryw ffynnonau dwfr da, y rhai na's byddent yn pallu un amser o'r braidd; neu y dyffryn, o'r hwn y tarddent.

Adn. 7. *Afon yr helyg*, neu ddyffryn yr Arabiaid; yr hyn a arwyddai, naill ai y byddai i'r Moabiaid ymddiried eu meddiannau gyd a'r Arabiaid, neu y byddai iddynt hwy eu hysbeilio a'u dwyn ymaith. Ond y mae rhai yn tybied mai Babilon a feddylir wrth "ddyffryn yr helyg." Sal. 137. 1—6. SCOTT.

Adn. 8, 9. *Llewod.* Mae yn debyg fod llewod a bwystfilod rheibus eraill, yn aflonyddu y gwledydd annghyfanneddol hyny, ac yn difa y gweddill a adawwyd ynddynt. SCOTT.

## PEN. XVI.

Adn. 1. *Anfonwch oen i lywodraethwr y tir.* Mae y Beirniaid yn amrywio llawer yn eu cyfieithiadau o'r geiriau hyn. LOWTH a'i darllena fel y canlyn, "Myfi a anfonaf fab llywodraethwr y tir o Selah o'r anialwch, i fynydd merch Sïon." Ond y mae cyfieithiad HORSLEY yn cael mwy o gymeradwyaeth, "Anfon yr oen, O lywodraethwr y tir! o graig yr anialwch i fynydd merch Sïon." Ond BOOTHROYD a gymeradwya y darlleniad cyffredinol, gan farnu fod y prophwyd yma yn cyfarch y Moabiaid, gan eu cynghori i anfon oen y deyrnged i frenin Judah, a thrwy eu hymostyngiad i geisio heddwch a ffafr yr Iuddewon. 2 Sam. 8. 2. a 2 Bren. 3. 4.

Adn. 2. *Bydd fel aderyn, &c.* Neu yn ol cyfieithiad BOOTHROYD yr hwn sydd yn oleuach, "Canys fel aderyn crwydredig yn cael ei yru o'i nyth, y bydd merched Moab wrth rydau Arnon." Yr ystyr yw, y byddai trigolion Moab pan ddelai y goresgynwyr i'w tir yn ffoi rhagddynt, gan gyrchu tua rhydau yr afon Arnon, yr hon oedd ar derfyn eu gwlad, fel pe buasent ar fedr cilio i wlad arall. SCOTT, POOLE, &c.

Adn. 3—5. *Ymgynghora.* Sïon a gyferchir yn y geiriau hyn, ac annogir ei phobl i ystyried eu dyledswydd tuag at y Moabiaid yn eu cyfyngder. LOWTH. *Gwna dy gysgod fel nos, &c.* Hyny yw, dïogela hwy yn effeithiol rhag y gelyn, fel y dïogelai y nos rhag gwres canol dydd, neu fel y caua allan oleuni y dydd.—Wrth gysgod yma y golygir unrhyw beth a dueddai i liniaru eu gofidiau. Mae eraill yn barnu mai mewn gwawdiaeth y cyfeirid y cyfarchiad hwn at Moab. Efallai i'r Iuddewon mewn cyfyngder mawr yn nyddiau Ahaz, ac yn neillduol wedi buddugoliaeth Peccah ar Judah, fyned i ymofyn am nodded yn mysg y Moabiaid, ac y mae yn debyg iddynt hwythau eu bwrw hwynt ymaith a'u bradychu, 2 Cron. 28. 5—11. Pe buasent hwy, sef y Moabiaid, yn gweithredu y pryd hyny yn ol y cynghor rhesymol a roddir iddynt yma, gallasant ysgôi y dinystr oedd yn eu haros yn bresenol; ond yr oeddynt trwy eu creulondeb at bobl Dduw, wedi cyffrôi ei ddigofaint ef: yr ydoedd Peccah, Remaliah, a gorthrymwyr eraill wedi eu torri ymaith; Ahaz annuwiol, brenin Judah, wedi marw; ac nid ydoedd yn angenrheidiol mwyach i Judah wrth gynnorthwy Moab; canys yr ydoedd gorsedd Hezecïah wedi ei sicrâu mewn trugaredd. SCOTT.—*O fewn pabell Dafydd.* Efallai fod yn yr ymadrodd yma gyfeiriad at ei sefyllfa ef gynt fel bugail, tra yr oedd yn byw mewn pebyll, cyn ei ddyrchafu i'r freniniaeth; ond yma, ac yn Amos 9. 11, yr unig leoedd y defnyddir yr ymadrodd, y mae yn arwyddo mewn ystyr gyfrinol, yr eglwys. Cymh. Lef. 25. 11. â Dat. 21. 3. LOWTH.

Adn. 7. *Am sylfeini*, neu yn hytrach, "am wŷr Cirhares," fel yn Jer. 48. 31. LOWTH, BOOTHROYD.

Adn. 14. Yr oedd yr Arglwydd wedi hysbysu i'w brophwydi o'r blaen fod dinystr Moab yn nesâu; ond yn bresenol, yr oedd yr amser pennodol yn cael ei ddarlunio, sef o fewn tair blynedd yn bendant. SCOTT.

## PEN. XVII.

Adn. 1. *Baich Damascus.* Perthynai hefyd yn llawn cymmaint i freniniaeth y deg llwyth, y rhai a gydfwriadasant â'r Syriaid yn erbyn Jerusalem. Fe gyflawnwyd y brophwydoliaeth hon pan gymerodd Tiglath-pileser Ddamascus, ac y cludodd y bobl yn gaethion i Cir, &c. 2 Bren. 16. 9.—Cyferchir Damascus yn y brophwydoliaeth, am ei bod yn cael ei golygu fel prif ddinas y Syriaid a'r Israeliaid, tra yr oeddynt mewn cyngrhair â'u gilydd er mai prif ddinas Syria yn unig ydoedd. Yr oedd y ddinas hon yn gorwedd tua dau càn milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Jerusalem, ac yn nodedig am ei harddwch, ei chyfoeth, a gwychder ei heilun-addoliaeth; pen. 8. 4. 2 Bren. 16. 10, 11. cymh. Jer. 49. 23--27.

Adn. 2. *Gwrthodwyd dinasoedd Aroer.* Aroer oedd ddinas ar làn afon Arnon, ac ar ffiniau Moab ac Ammon, Deut. 2. 36. a 3. a 3. 12; yr hon a berthynai unwaith i'r Amoriaid; ond yn ddiweddarach i'r Syriaid. GILL.—Pa beth oedd â wnelai Aroer ar làn yr Arnon, a Damascus? Mae y cyfieithiad arferedig yn dra annëalladwy; ond y mae y LXX yn lle *Aroer*, yn darllen "am byth." LOWTH.—"Y dinasoedd a wrthodwyd hyd byth." BOOTHR.

Adn. 3. *A derfydd ymddiffynfa o Ephraim,* sef y deg llwyth, y rhai oeddynt y pryd hwn mewn cyngrhair â'r Syriaid, a phrif ddinas neu amddiffynfa y rhai oedd Samaria.– *Fel gogoniant meibion Israel y byddant,* hyny yw, bydd i'r Syriaid, y rhai ydynt mewn cyngrhair â meibion Israel syrthio dan yr un farn.

Adn. 4. *Bydd i ogoniant Jacob teinhau;* mae Jacob yma yn golygu yr un ag Ephraim, ac Israel, sef y deg llwyth, y rhai yr oedd eu gogoniant yn gynnwysedig mewn bod mwy o lwythi yn perthyn iddynt, nac i freniniaeth Juda. COBBIN.

Adn. 5—8. Yr oedd Rephaim yn gorwedd rhwng llwythi Beniamin a Juda. Bu agos i freniniaeth Israel gael ei llwyr ddinystrio gan Tiglath pileser, 2 Bren. 15. 29. Hwyrach fod am ryw o'r rhai a adawwyd yn y tir, wedi eu hargyhoeddi o'u heuogrwydd, a dychwelyd at yr Arglwydd eu Duw: a gall hyn fod yn rheswm dros ymddygiad Hezeciah, yn anfon gwahoddiad iddynt i gadw y pasc; 2 Cron. 30. 10. 11.

Adn. 10. *Planhigion hyfryd,* ar y rhai yr impid *canghenau dieithr,* a all ddynodi yn allegawl, dduwiau dyeithr, ac ymarferiadau paganaidd DAVIDSON.

Adn. 11. *Ond bydd y cynhauaf yn bentwr, ar ddydd llesgedd a dolur gofidus;* hyny yw, pan fyddo y cynhauaf wedi ei gasglu yn

nghŷd, syrth y gelyn arno ac a'i hysglyfaetha, heb adael dim i chwi. BOOTHROYD.

Adn. 12—14. Wedi i'r prophwyd yn yr adnodau blaenorol ragfynegi dymchweliad a dystryw brenhiniaethau Syria ac Israel, y mae efe yma yn rhagfynegi rhuthr-gyrch Senacherib a'i fyddin nerthol i wlad Juda, a'u dymchweliad disymmwth.—*Ac wele drallod ar brydnhawn:* neu, "ar brydnhawn, cyffröant drallod; ond cyn y borau, ni byddant" BOOTHROYD.

## PEN. XVIII.

Adn. 1. *Gwae y tir sydd yn cysgodi âg adenydd.* Mae yn dra anhawdd penderfynu pa wlad a olygir wrth y tir yma, a pha ham y dywedir ei fod yn cysgodi ag adenydd. Mae y rhan fwyaf o'r beirniaid yn meddwl mai yr Aipht a ddarlunid gan y prophwyd yn y geiriau hyn. Fföai yr Iuddewon am nawdd dan aden y wlad yma. Wedi i'r prophwyd ragfynegi dymchweliad y gelyn, y mae efe yn anfon y newydd yn gyntaf i'r Aipht, ac yna yn anog cenhadon cyflym yr Aipht i'w anfon i Nubia. BOOTHROYD. Neu, "Ho! i dir y symbal asgellog." Mae yma gyfeiriad at ddull symbal yr Aiphtiaid, yr hwn nid ydoedd yn annhebyg i adenydd. Yr oedd y tir "tu hwnt," neu yn terfynu "ar afonydd Cush." Y mae afon Nilus yn rhedeg trwy Ethiopia a'r Aipht, ac yn ymwahanu yn saith ffrwd, neu afonydd cyn cyrhaedd y mor. SCOTT.

Adn. 2. *Yr hwn a hebrwng genhadau hyd y môr.* Yr oedd y tir a olygai y prophwyd yn nodedig am anfon cenhadau ar hyd y môr, neu yr afonydd, mewn llestri brwyn; neu longau wedi eu gwneyd o'r papur-frwyn, neu y cyrs, ac fel yr arferai yr Aiphtiaid wneyd llestri mordwyol o'r fath ddefnydd, y mae yn cadarnhau y golygiad blaenorol, mai yr Aipht oedd y wlad a olygid yn y brophwydoliaeth.—*At genhedlaeth wasgaredig ac yspeiliedig;* neu fel y gellir darllen yn brïodol, "At genhedlaeth wedi ymestyn allan a'i llyfnhau," yr hyn a all fod yn cyfeirio at hyd gwlad yr Aipht, o'r gogledd i'r dehau, yr hon sydd yn ddyffryn uwchlaw saith gân milltir o hyd, oddeutu afon y Nilus; y mae Ethiopia yn cyrhaedd yn faith o'r tu dehau iddi, a'r holl wlad wedi ei llyfnhau, neu ei gwastadhau, gan lifiant y Nilus. SCOTT.—*Pobl ofnadwy;* mae hyn hefyd yn dra chyfaddas i nodweddiad yr Aiphtiaid, yn ol pob hanesion a feddwn ni am danynt.—*Cenhedlaeth wedi ei mesur a'i sathru.* Dichon fod hyn yn cyfeirio at yr arferiad oedd yn mysg yr Aiphtiaid o fesur y tir ar ol pob gorlifiad o eiddo yr afon, er mwyn sicrhau terfynau yr amrywiol berchennogaethau; neu, at eu harferiad o daenu eu had ar wyneb y llaid a adewid gan y llif, a sathru yr unrhyw gan yr anifeiliaid, y rhai a yrrent trwy eu maesydd newydd eu hau, yn finteioedd i'r perwyl hyny. SCOTT, BOOTHROYD, &c.

Adn. 5. *Pan gyfodo efe faner.* Barnai LOWTH mai Duw yw y

gweithredydd yn yr adnod hon; ac mai yr hyn a olygid wrth y *faner* a'r *udgorn*, oedd goruchion *(meteors)* y taranau, a'r mellt, trwy y rhai y dinystriwyd byddin Senacherib, yn ol yr hanes yn 2 Bren. 19. 35. Gwel hefyd pen. 29. 6. a 30. 30, 31. a 10. 16, 17.

Adn. 4—6. Darluniad tra bywiog o ddinystr y fyddin Assyriaidd gan angel yr Arglwydd; pen. 30. 36.

Adn. 7. Y genedl a ddarluniwyd o'r blaen, wedi clywed am ddinystr byddin Senacherib, trwy yr hyn y'u gwaredid hwythau rhag syrthio yn ysglyfaeth i'r buddugoliaethwr trahaus, a anfonent roddion i'w hoffrymmu i'r Arglwydd ar fynydd Sïon. Mae rhai yn barnu fod yma gyfeiriad at ddychweliad yr Ethiopiaid i ffydd Crist yn y dyddiau diweddaf. Act. 28. 27. Eraill a farnant mai yspail byddin Senacherib a olygid, o'r hyn fel arferol y dygid offrymmau i Arglwydd y lluoedd. Num. 31. 50. Meddyliai yr Esgob HORSLEY a FABER, fod y brophwydoliaeth hon yn golygu dinystr Annghrist, ac adferiad yr Iuddewon i'w gwlad eu hunain wedi eu dychwelyd at Grist, trwy gynnorthwy rhyw genedl Gristionogol, a chanddi gadernid mawr ar y môr, sef Brydain Fawr. Ond y mae SCOTT, T. WILLIAMS, a'r rhan fwyaf o'r esponwyr sobraf, yn methu cyduno â'r golygiad yma.

## PEN. XIX.

Adn. 1. *Baich yr Aipht;* sef darluniad o'r barnedigaethau oeddynt i ddisgyn ar y tir hwnw, o'r pryd hyny, sef o oes y prophwyd i waered. HORSLEY, SCOTT. Wedi i fyddin Senacherib gael ei dinystrio o flaen Jerusalem, fe ryddhawyd yr Aiphtiaid oddi tan iau y gelyn hwnw: ond buan y cyfododd amrafaelion tufewnol yn eu plith, yr hyn a achlysurodd ryfel gartrefol, yn yr hon y cyflawnid creulonderau anhygoel. Dylynid hyn yn fuan gan lywodraethiad, neu yn hytrach ormes y deuddeg tywysog; wedi hyny buant yn dyoddef dan ormes Psamiticus 54 mlynedd; ar ol hyny darostyngwyd y wlad gan Nebuchodonosor; ac wedi hyny darostyngwyd hwy gan y Persiaid dan Cambyses, mab Cyrus. LOWTH. Mae y brophwydoliaeth yn cynnwys rhagfynegiad o'r amrywiol flinderau oeddynt i ddyfod ar yr Aipht, hyd ei darostyngiad gan y brenhinoedd Macedonaidd, olynwyr Alexander Fawr; ac yn terfynu â phrophwydoliaethau am fendithion ysbrydol i gael eu cyfrannu o'r diwedd i lawer o'r trigolion. SCOTT. Fel yr oedd yr Iuddewon yn rhoddi llawer o'u hymddiried yn yr Aiphtiaid am gynnorthwy ac ymwared, traddodid y brophwydoliaeth hon iddynt hwy, er torri yr hyder hwnw.—*Wele yr Arglwydd yn marchogaeth ar gwmmwl ysgafn,* i ddynodi y mawrhydi a amlygai yn ei ymweliad â'r Aipht; a chyflymder ei weithrediadau. Esgob NEWTON, GILL, &c.

Adn. 4. *A mi a gauaf ar yr Aipht yn llaw arglwydd caled*i Mae rhai yn cyfieithu y geiriau yn y rhif luosawg, "Arglwydd.

celyd;" ac felly gellid meddwl mai y deuddeg tywysog gormesol a grybwyllwyd, a olygid. Ond os dewisir y gair yn unigol, *Arglwydd,* mae yn fwyaf naturiol meddwl mai Nebuchodonosor, neu rai o'r teyrnbenau Persiaidd a'i dylynodd, megis Cambyses, Ochus, neu Darius Nothus, a olygid, y rhai a ddesgrifir mewn hanesyddiaeth fel gormeswyr creulawn *Esgob* NEWTON, SCOTT, &c.—*Y dyfroedd a ddarfyddant o'r môr.* Gelwir yr afon Nilus yn fôr, ac nid yn anmhrïodol y'i gelwid felly yn amser ei gorlifiad. Hwyrach fod yma gyfeiriad union-gyrchol at ryw sychder caled, yr hwn a achlysurid trwy i'r Nilus fod heb dderbyn o'i chyflenwadau arferol, i'w galluogi i orlifo y wlad: ond y mae eraill yn haeru bod y geiriau yn allegawl, er dynodi nychiad nerth yr Aiphtiaid, gan mai yr afon Nilus oedd prif achlysur eu llawnder a'u llwyddiant. VITRINGA, *Preben,* LOWTH.—*A ffrydiau ymddiffyn a ddyhysbyddir,* sef y camlesydd, y rhai oeddynt yn amddiffyn i'r maesydd neu y dinasoedd. SCOTT, LOWTH.—Gwnaed hyn yn llythyrenol gan Megubyzus, maes-lywydd Persiaidd. WELLS.—*Y papurfrwyn wrth yr afon,* o'r rhai y gwnelid papur gynt. Yr oedd y gweithfëydd papur yn yr Aipht yn dra lluosawg, a'r fasnach ynddo bron yn annghredadwy, pan oedd holl genhedloedd dysgedig y byd yn gorfod cyrchu eu papur o'r wlad hon, a rhoddi pris mawr am dano. Ac heblaw hyn, yr oeddynt yn arferol o wneyd hwyliau, rhaffau, gwrthbannau, brethynau, rhestogau, *(mats)* a llongau hefyd, o'r cyrs yma: a'r offeiriaid a wisgent esgidiau wedi eu gwneyd o honaw; gan hyny buasai gwywiant cyffredinol ar y llysieuyn yma, yn golled wladol ddirfawr i'r genedl hon —*Soan,* hen ddinas yn yr Aipht, Num. 13. 22. gwel Sal. 78. 12, 43. Mae lle i feddwl mai hi oedd y ddinas freninol, GILL.—*Noph,* a adwaenir yn well wrth yr enw Memphis. LOWTH.—*Bydd tir Juda yn arswyd i'r Aipht,* nid oblegid rhyfel rhyngddynt, ond ar gyfrif yr hyn a glywent am greulondeb Senacherib yn ei ruthrgyrch cyntaf ar Judah, yr hyn a fu yn flaenorol i'w fynediad i'r Aipht. 2 Bren. 18. 13. a 19. 9—13. GILL, SCOTT.

Adn. 18—25. Y farn fwyaf cyffredin a hygoel yw, mai Heliopolis, neu ddinas yr haul a olygid wrth *ddinas distryw:* a'r peth tebyccaf yw, fod *pump,* yn arwyddo nifer annherfynol o ddinasoedd i gael eu hanrhydeddu â'r rhagorfreintiau hyn; a bod un o'r rhai hyny, a hono yn ol pob golygiad, y fwyaf nodedig am ei heilun-addoliaeth, a'r aeddfettaf i farn, i fod yn gyfrannog er hyny o'r rhagorfreintiau gwerthfawr hyn. Mae y rhan hon o'r brophwydoliaeth, debygid, yn cynnwys rhagfynegiad o ledaeniad gwybodaeth o'r gwir Dduw yn yr Aipht a Syria, dan olynwyr Alexander; ac mewn canlyniad i hyny y derbyniad cynnar a gafodd yr efengyl yn y gwledydd hyny. Caniattäai y breninoedd Macedoniaidd a ddylynasant Alexander, freintiau lluosawg i'r Iuddewon, yr hyn a dueddai niferi mawr o honynt i ymfudo i'r Aipht a Syria;

ac mewn amser fe gyfieithwyd yr Ysgrythyrau i'r iaith Roeg, yr hon a ddëallid yn lled gyffredin yn yr Aipht, fel y daeth y trigolion yn raddol yn hysbys o'r gwir Dduw a'i ewyllys, ac yr ennillwyd llawer o honynt yn broselytiaid i'r grefydd Iuddewig.—*Bydd allor i'r Arglwydd yn nghanol tir yr Aipht.* Yn mhen talm o amser ar ol cyhoeddiad y brophwydoliaeth hon, cyfododd blys ar un Onïas i'w chyflawni yn llythyrenol, ac efe a adeiladodd allor a theml yn yr Aipht, at wasanaeth yr Iuddewon yn Heliopolis, neu ddinas yr haul, yr hon gan feddwl ei chyfodi yn gydradd â Jerusalem, a alwai Iuddewon yr Aipht, yn "ddinas cyfiawnder;" ond Iuddewon Canaan, gan fod yn eiddigeddus dros eu dinas a'u teml, ac yn ddiystyr o'r sefydliad newydd hwn yn yr Aipht, a gyfnewidient un lythyren yn yr enw gwreiddiol oedd arni yn y brophwydoliaeth hon, fel y'i galwent byth mwyach, "dinas dystryw," ac nid "dinas yr haul." BOOTHROYD, SUTCLIFFE, &c.—*Ac efe a enfyn iddynt iachawdwr a phennaeth.* Alexander, yr hwn a'u gwaredodd oddi tan iau greulawn y Persiaid. LOWTH, Esgob NEWTON, &c. Naill ai Alexander, a'i Ptolemy mab Lagus, a olygir, cyfenw yr hwn oedd Soter, "yr iachawdwr." VITRINGA. Yr Iachawdwr Crist, a'r waredigaeth ysbrydol drwyddo ef, a olygid yn benaf, os nid yn unig yn y geiriau hyn. SCOTT.—*Prif-ffordd* rhwng y teyrnasoedd hyn, a ddynodai heddwch trwyadl rhyngddynt. GILL. Mae yn dra thebyg fod prif gyflawniad y brophwydoliaeth hon yn ol eto. SCOTT.

## PEN. XX.

Adn. 1. *Tartan* oedd un o gadlywyddion Senacherib, 2 Bren. 18. 17.—Asdod oedd ddinas ar ffiniau Judah, yr hon a gymerasai Hezeciah oddiar y Philistiaid, 2 Bren. 18. 8, 13.—*Sargon* yr un fel y bernir yn gyffredin à Senacherib, gan fod Tartan yn un o'i gadflaenoriaid ef. GILL. Mae yn debyg mai Sargon oedd olynwr cyntaf ei dad Salmanaser; ond gan ei farw yn fuan, a'i ddilyn gan ei frawd ieuengach Senacherib, ni sonir ychwaneg am dano. ROSENMULLER, BOOTHROYD, &c. Yr oedd yr Asod yma, neu Azotus, yn lle cadarn, canys yr ydym yn deall i'r lle ddal allan ar ol hyn naw mlynedd ar hugain yn erbyn Psametticus, brenin yr Aipht.

Adn. 2—5. *Yn noeth,* sef heb ei wisg uchaf, math o fantell arw a wisgai y prophwydi, Zech. 13. 4 WILLIAMS.—*Dair blynedd,* tri diwrnod mae yn fwyaf tebygol, i ddynodi y cyflawniad yr hyn a ragfynegasid, mewn tair blynedd; diwrnod am flwyddyn, yn ol rheol brophwydoliaethol. LOWTH. Fe gyfrifir fod Senacherib wedi bod yn absenol o'r amser cyntaf y gosododd efe Hezeciah dan deyrnged, hyd oni ddychwelodd efe yn ol drachefn, gyda bwriad i warchae ar Jerusalem, tua thair blynedd; ac efe a ennillasai lawer o fanteision yn ei frwydrau â'r Aiphtiaid yn yspaid yr amser hwnw: ac ychydig cyn ei ddychweliad, efe a ennillodd

fuddugoliaeth gyflawn ar Tirhacah, brenin Ethiopia, y pryd y tybir i'r rhag ddywediad hwn gael ei gyflawni yn llythyrenol. SCOTT. Pan welodd trigolion gwarchaëedig Asdod fod yr Aiphtiaid a'r Ethiopiaid, wrth y rhai y dysgwylient am gymmhorth, wedi eu baeddu gan yr Assyriaid, pallodd eu gobaith, ac ymostyngasant i'w gwarchaewyr.

Adn. 6. *Yr ynys hon*, neu "y wlad hon," sef gwlad Canaan, a elwir felly am ei bod yn terfynu ar làn y mòr.

## PEN. XXI.

Adn. 1. *Baich anialwch y môr.* Yr oedd y wlad o amgylch Babilon, ac yn enwedig islaw iddi, tu a'r môr, yn forfa mawr, gwastad ac isel, yr hwn a orchuddid yn fynych gan orlifiad yr Euphrates a'r Tigris. A'r modd y'i gwnaed yn gyfanneddol oedd, trwy agoryd lluaws o gamlesydd drwyddo, i'w sychu: ac yn fuan ar ol i Cyrus gymeryd Babilon, gollyngwyd y wlad i annhrefn, fel nad ydoedd yn mhen ychydig o flyneddoedd yn ddim amgen nac anialwch, neu gorsydd anial, llawn o lynnoedd Byddai y corwyntoedd yn neheudir Arabia, yn dwyn dinystr arswydus i'w canlyn yn aml; felly y dinystr arswydus hwn a ddeuai ar Babilon a Media a Phersia; byddinoedd anwrthwynebol y rhai oeddynt yn dra arswydus, ac a ddeuent trwy yr anialwch oedd rhwng y gwledydd hyny â Babilon.—*O wlad ofnadwy*, gwlad yn cynnyrchu y milwyr ffyrniccaf, a mwyaf annorchfygol.

Adn. 2. *Yr anffyddlon sydd yn anffyddloni, &c*,, neu, "Mae yr anrheithiwr wedi ei anrheïthio, a'r dinystrydd wedi ei ddinystrio." SCOTT. Yr un olygiad hefyd ydoedd LOWTH, a BOOTHROYD, &c.

Adn. 3—5. Gellid meddwl fod y prophwyd yn yr adnodau hyn yn presenoli Belsassar y noson y cymerwyd Babilon, ac y lladdwyd yntau, a hyny tua dau càn mlynedd cyn i'r amgylchiad hwnw gymeryd lle. Yr ydym yma megis yn cael ein harwain i ystafell wledd y tywysog hwnw, a'n gwneyd yn dystion o'i fraw: ei ing, a'i ddychryn a ddarlunir yma, pan y gwelodd efe y darn llaw yn ysgrifenu ar y pared; a'r nos a neillduasai ef i gael ymbleseru mewn modd nodedig arni, a drowyd yn fraw ac aeth ofnadwy iddo; canys pan oedd efe wedi rhoddi gorchymyn i barottoi y wledd, ac i osod gwyliadwriaeth, a thra yr ydoedd efe a'i dywysogion yn bwytta ac yn yfed, yr oedd Cyrus yn gorchymyn i'w gadbeniaid loywi eu harfau, ac ymbarottoi i'r ymosodiad; neu ynte, yr ydoedd yn alwad uchel ar dywysogion Belsassar i fyned oddiwrth eu gloddest at eu harfau. SCOTT.

Adn. 6—8. Mae y prophwyd yn troi i lafaru yn ei berson ei hun yma drachefn, gan ddywedyd fod Duw wedi gorchymyn iddo yntau osod *gwyliedydd*, a bod hwnw wedi rhoddi rhybudd.—*Efe a welodd gerbyd.* Mae aneglurdeb y geiryn Hebraeg am gerbyd, yn peri fod yr adnod hon yn dra anhawdd ei ddeall, canys arferir

y gair weithiau am gerbyd, bryd arall am farchogwr. LOWTH a gyfieitha yr ymadrodd fel y canlyn, "Cerbyd a dau farchogwr; marchogwr ar asyn, a marchogwr ar gamel." Ond y DR. BOOTHROYD fel hyn, "Ac efe a welodd gerbydau a minteioedd o wŷr meirch, marchogion ar asynod, a marchogion ar gamelod." Ond pa ddarlleniad bynnag sydd fwyaf cywir, cyttunir yn gyffredinol mai y Mediaid a'r Persiaid a olygir, dan arweiniad Darius a Cyrus. Dywedir ddarfod i'r olaf yn ei frwydrau a Chroeses brenin Lydia, ddïosg y gludwriaeth, oddiar ei gamelod, a gosod ei feirchfilwyr yn eu lle, ac yna i feirch y gelynion dramgwyddo wrth ddryg-sawredd y camelod, a throi eu cefnau i ffoi.—*Efe a lefodd, Llew.* Dyma waedd rybuddiol y gwyliedydd craff a gofalus, *Llew,* i arwyddo fod dinystrwyr Babilon yn dyfod ag ëondra a ffyrnigrwydd, fel y bwystfil ysglafaethus hwnw. Ond ar ymyl y ddalen mae y darlleniad yn amrywio cryn lawer, sef, "Efe a lefodd fel llew," hyny yw, yn groch iawn. SCOTT, &c.

Adn. 9. *Efe a attebodd*; hyny yw, y prophwyd ei hun a attebodd y gwyliedydd, neu Arglwydd y prophwyd drwyddo, ar orchymyn yr hwn y gosodasid y gwyliedydd. POOLE.

Adn. 10. Bernir fod y prophwyd yn troi at ei genedl ei hun yma, ac fel pe dywedasai wrthynt, "O fy mhobl, y rhai a roddir i ddwylaw y Babiloniaid i'ch ceryddu, i'ch profi ac i ddidoli yr ûs oddiwrth y gwenith, y drwg oddiwrth y da yn eich plith; gwrandewch hyn er eich cysur; eich cosb, eich caethiwed, a'ch gorthrymder, a ddeuant i ben, a hyny yn ninystr eich gormeswyr. LOWTH.

Adn. 11, 12. Yr oedd yr Edomiaid cystal a'r Iuddewon wedi eu darostwng gan y Babiloniaid, a phan y maent yn holi y prophwyd pa hyd y parhäai eu darostyngiad, mae yntau yn atteb, y gwaredid yr Iuddewon o'u caethiwed, ond nid felly yr Edomiaid. Ond os oeddynt yn ddifrifol yn eu hymofyniad, ac nid fel arferol yn tueddu i wneyd gwatwar o bethau difrifol, y mae efe yn eu cynghori i ddychwelyd, o'u hanffyddiaeth a'u gwrthgiliad, ac ymuno â chymdeithas pobl yr Arglwydd. Neu fel pe dywedasai, "Os ydych yn ymofyn yn ddi ragrith, ac yn holi o ddifrif, ymofynwch â Duw yn gyntaf, ymbiliwch am ei drugaredd ef; ac ar ol hyny, deuwch drachefn a chwi a gewch atteb mwy ffafriol. LOWTH.

Adn. 13—16. *Baich ar Arabia.* Dyma brophwydoliaeth fer eto yn nghylch y trallodau oeddynt yn dyfod ar yr Arabiaid. Y wlad helaeth a breswylid gan y bobl hyny, ydoedd o du y dwyrain a'r dehau i wlad Canaan, a'r trigolion gan mwyaf o hiliogaeth Abraham, er nad o'i wraig Sarah. A'r bobl a elwir yma *fforddolion Dedanim*, oeddynt hiliogaeth Dedan, ŵyr Abraham o Ceturah, Gen. 25. 3, a'u preswylfod ydoedd barth o Arabia Garregog; ac er eu bod yn arferol o drigo mewn dinasoedd, mae y prophh-

wyd yn rhagfynegi yma y byddai iddynt gilio i Arabia Ddiffaeth, i osgoi rhuthr Senacherib, pan elai i oresgyn gwlad Canaan. Ac yma annogir eu cymmydogion a fyddent yn dawel arnynt i fod yn dosturiol ac yn gymmwynasgar tuag attynt yn eu cyfyngder, yr hyn oedd i gymeryd lle o fewn yspaid blwyddyn ar ol cyhoeddiad y brophwydoliaeth, sef ar fynediad cyntaf byddin Senacherib yn erbyn Judah, mae yn debyg.

## PEN. XXII.

Adn. 1. *Glynn gweledigaeth*, sef Jerusalem, a elwid felly am ei bod yn eisteddfa prophwydoliaeth, lle yr amlygai Duw ei hunan mewn arwydd gweledig yn y cyssegr: yr oedd Jerusalem wedi ei hadeiladu ar ddau fryn bychan mewn dyffryn, ac yn amgylchynedig gan fynyddoedd. Yr oedd pennau y tai dwyreiniol yn wastad yn gyffredin, a rhagfur isel o'u hamgylch, er attal i'r rhai a gysgent neu a ymrodient ar hyd-ddynt, i gwympo drosodd a chael eu hanafu. Bod y bobl oll yn rhedeg i bennau y tai, a ddarlunia yn fywiog iawn eu bod wedi eu dal â braw disymmwth a chyffredinol. LOWTH. Marc 2. 4.

Adn. 2—14. Mae y darluniad yma yn cyfatteb yn dra manol â chymeriad y ddinas yn amser Sedeciah.—*Ni laddwyd a chleddyf*, eithr gan newyn a haint, a rhai gan ddychryn yn unig. *Elam*, neu yr Elamiaid, sef y Persiaid, y rhai oeddynt y pryd hyny yn ddeiliaid i'r Assyriaid, ac yn gwasanaethu yn myddin Senacherib. *Cir*, oedd enw dinas yn Media, ac yn ddynodawl o'r Mediaid, y rhai hefyd oeddynt dan deyrnged i'r Assyriaid y pryd hwn; gwel 2 Bren. 16. 9. a 17. 6. VITRINGA. GILL.—*A ddynoethodd y darian*. Yn amser heddwch, gorchuddid y tarianau, i'w cadw rhag rhydu; a dynoethid hwy ar ddydd brwydr, nes y byddent yn dysgleirio yn llewyrch yr haul. L. HOLDEN.—*A ddynoethodd do Judah*, Senacherib a dynnodd i lawr amryw o amddiffynfeydd Judah, gan fygwth gwarchae ar Jerusalem; a'r peryglon hyn a gymhellasant Hezeciah a'i dywysogion i edrych ansawdd eu harfdai, i gadarnhau eu hamddiffynfeydd, ac i ddarparu adgyweiriad y brif ddinas. Gwel 2 Cron. 32. 3, 4, 5. Rhifent y tai, naill ai er mwyn gwybod pa nifer oedd yn mhob teulu yn addas i wisgo arfau, neu tuag at fwrw pa faint o ymborth a fyddai yn angenrheidiol mewn amgylchiad o warchae. Gwnäent lynn i ddyfroedd yr hen bysgodlyn hefyd, fel y byddai digon o ddwfr yn y ddinas, a phrinder i'r gelynion oddiallan ar amser y gwarchae. 2 Cron. 32, 3, 4.

Adn. 15—24. Gwel Math. 16. 19. Dat. 1. 12—20. a 3. 7. *Sef at Sebna*, efe a allai fod yn brif arweinydd yn y rhysedd annuwiol a feïid o'r blaen. LOWTH. Tebygid fod Sebna yr ysgrifenydd, yr hwn a grybwyllir yn hanes Hezecïah, pen. 36, yn wr gwahanol i'r Sebna yma, yr hwn oedd drysorwr, neu oruchwyliwr y tŷ, i'r

hwn y perthynai y brophwydoliaeth hon. Mae yn debyg mai yr un oedd yr Eliacim hwn a'r un oedd yn drysorydd pan ddaeth Senacherib i ymosod ar y ddinas. BOOTHROYD.—*Fel treiglo pel i wlad ehang;* nid yn hawdd y canfyddir pêl a dafler o'r ffon dafl i faes ehang. Wrth wisgo Eliacim â gwisg, a'i wregysu â gwregys Sebna, y dynodid ei gyfodi i'w swydd ef. Yr oedd rhoddi agoriad ar ysgwydd un yn yr amser gynt, fel y mae rhoddi sêl i un yn y dyddiau hyn, yn arwyddoccau rhoddiad awdurdod i'r cyfryw un i weinyddu. Y mae Crist yn cymhwyso y rhan yma o'r arwydd atto ei hunan, gan hyny nyni a allwn edrych ar Eliacim fel cysgod mewn rhyw ystyr o hono ef. Yr oedd yn dra chyfleus, angenrheidiol, ac o'r braidd yn anhebgorol, wrth adeiladu tai yn y gwledydd dwyreiniol, sicrhau hoelion yn y muriau wrth eu hadeiladu, gan fod y muriau o'r cyfryw ddefnyddiau na's goddefent guro hoelion iddynt, wedi eu gorphen, a gosodid hoelion yn y muriau yn y fath fodd, fel y byddent yn cyfrwymo yr adeilad, ac yn ei chryfhau, yn gystal a gwasnaethu er hwylusdod y teulu; Ezec. 15. 3. Ezra. 9. 8. Zech. 10. 4. Un ran arbenig o wychder tywysogion dwyreiniol oedd yn gynnwysedig mewn swm mawr o lestri arian a feddiennid ganddynt at amryfal ddybenion; 1 Bren. 10 16—21. Golygir Elïacim fel y brif hoel, wedi ei sicrhau yn ddisigl yn y mur, i ddal yr holl lestri, appwyntiedig i wasanaeth cyffredin a chyssegredig; hyny yw, fel prif gynhalydd yr holl sefydliadau gwladol a chrefyddol; a'r canlyniad o'i baräad dïysgog ef mewn mawredd a bri, a fyddai dyrchafiad a llwyddiant ei holl deulu ef.

Adn. 25. Mae yn ddïau mai Sebna a olygid wrth yr hoel yma, yr hon oedd i gael ei thorri, ac nad ydyw y geiriau hyn namyn ail adroddiad, a chadarnhâad o'r ddedfryd a gyhoeddasid uchod o'r blaen. Nyni a allwn ddysgu oddiyma, y bydd i bob uchder a ymgyfodo yn erbyn arglwyddiaeth y Messiah, gael ei dymchwelyd a'i llwyr ddinystrio.

## PEN. XXIII.

Cynnwysir yma ragfynegiad am ddinystr Tyrus gan Nebuchodonosor. Bernir i'r brophwydoliaeth hon gael ei chyhoeddi o leiaf 125 o flyneddoedd, cyn ei chyflawniad, a hyny pan ydoedd y Babiloniaidd yn ddeiliaid ac yn gaethion i'r amherodraeth Assyriaidd; ac felly, ar amser, pan yn ol pob ymddangosiad dynol, yr oedd y cyfryw ddygwyddiadau yn dra annhebygol o gael eu dwyn i ben. T. WILLIAMS. Tyrus oedd ddinas enwog yn Phenicia; yr hon yn nghyd a dinasoedd arforawl eraill, a syrthiasant i ettifeddiaeth llwyth Aser, yn amser rhaniad y Tir Sanctaidd gan Josuah, (Jos. 19. 28.) Ond nid yw yn ymddangos ddarfod i hiliogaeth Aser fod yn alluog i ddiwreiddio y cyn drigolion, Barn. 1. 31, 32. Mae yn debyg fod darn o'r wlad hon ar duedd Mor y

Canoldir, yn cael ei feddiannu gan yr hen Ganaaneaid hyny, a bod hen ddinas Tyrus wedi ei hadeiladu ar y làn, ac i ychwanegiad gael ei wneuthur atti, ar ynys-graig gyfagos, er mwyn cyfleusdra porthladdol: ar y golygiad hwn y mae Tyrus yn cael ei galw a'i darlunio fel ynys, yn y bennod hon, ac mewn mannau eraill. CALMET.—*Tarsis*; Bernir fod amrywiol leoedd o'r enw hwn, ond pa un o honynt a feddylir yma sydd ansicr. Yr oedd Tarsus yn Cilicia, o'r hon yr oedd yr apostol Paul yn brïodor, Act. 21. 39. Ond ni buasai ond ofer i drigolion Tyrus ffoi yno am ddïogelwch rhag Nebuchodonosor ac Alexander, fel y crybwyllir yma, adn. 6. Gan hyny barna amryw awdwyr enwog, mai Tartasus yn yr Hispaen a feddylir. Neu ynte, fe ddichon fod y gair Tarsis, ystyr yr hwn yw gwyrdd, fel lliw y môr, yn golygu môr borthladdoedd yn gyffredinol, fel yn Esa. 60. 9. Salm 48. 7.—*Bibl Teuluaidd.*—Cyrhaeddai y newyddion am ddinystr Tyrus hwy o *Chittim*, yr ynysoedd ar ororau Mor y Canoldir.

Adn. 3 *Had Sihor.* Y Nilus a elwir Sihor yma, megys hefyd yn Jer. 2. 18. 1 Cron. 13. 5. Yr oedd y Tyriaid yn masnachu yn helaeth â'r Aiphtiaid mewn ŷd, amledd o'r hwn a gynnyrchid yno trwy orlifiad y Nilus, ac ydoedd nwydd o elw nid bychan i'r Tyriaid. SCOTT, DAVIDSON

Adn. 4. Dywedir ddarfod i'r Sidoniaid pan gymerwyd eu dinas gan frenin Ascalon, ffoi yn eu llongau hyd Tyrus, lle y glaniasant, ac yr adeiladasant ddinas i gyfanneddu ynddi, yr hon gan hyny a elwir merch Sidon; ac yma fe ddarlunir Sidon fel mam yn dwys deimlo yn achos adfyd ei merch.

Adn. 7. Er nad oedd Tyrus can hyned a Sidon, eto yr oedd yn hen ddinas, canys nyni a welwn ei bod yn ddinas gadarn yn amser Josuah, Jos. 19. 29. 2 Sam. 24. 7.

Adn. 10. *Nid oes nerth*, neu ddyfrglawdd, fel gwregys, *mwyach*, i'w cadw rhag ymledu. Wrth *ferch Tarsis* y golygir brodorion Tarsis, yr hon ond odid oedd drefedigaeth i'r Tyriaid; ond yn ninystr Tyrus, torrid yr iau a'r attalfa oddiarnynt, ac y mae y prophwyd yn awgrymmu yn y geiriau hyn, y byddai iddynt gynnyddu, a llwyddo, ac ymledu fel afon faethlawn.

Adn. 13. *Nid oedd y bobl hyn*, hyny yw, nid oeddynt o un bri, namyn haid o yspeilwyr crwydredig yn gwillio ar hyd yr anialwch, hyd oni ddarfu i Assur, rhyw frenin galluog o'r Assyriaid eu corphori yn nghyd, a'u sefydlu yn Mabilon, a'r gwledydd cymmydogaethol. LOWTH.

Adn. 15. *Megys dyddiau un brenin*, neu un freniniaeth. Dechreuasai Nebuchodonosor ar ei fuddugoliaethau yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad; ac o hyny hyd gymeriad Babilon gan Cyrus, yr oedd deng mlynedd a thriugain; pan oedd yr holl genhedloedd a gymerasid gan Nebuchodonosor i gael eu hadferu i ryddid. O fewn y deng mlynedd a thriugain hyn y cyfyngir

yspaid parhad yr unbennaeth Fabilonaidd; a thua canol yr yspaid hwnw y cymerwyd Tyrus, o ganlyniad ni's gwasanaethodd hi frenin Babilon, namyn dros y rhan oedd yn aros o'r yspaid hwnw. BOOTHROYD.

Adn. 17. *Ac a butteinia â holl deyrnasoedd y byd;* mae y gyffelybiaeth o buttain yn cael ei ddal i fynu, yn unig er dangos ei thrafnidiaeth â'r holl genhedloedd.

Adn. 18. *Yna y bydd ei marchnad a'i helw yn sancteiddrwydd i'r Arglwydd.* Gellid meddwl mai yr ystyr yw,* y byddai i rai o'r Tyriaid mewn amser dyfodol, ddyfod yn broselytiaid Iuddewig, a chyssegru rhan o u golud at wasanaeth y deml yn Jerusalem. *Preb.* LOWTH. Pregethwyd yr efengyl, a phlanwyd eglwys Gristionogol yn foreu yn Tyrus, yr hon a ddaeth fel mam eglwys i eraill, cyssylltiedig â hi. Act. 21. 1—6 SCOTT.—*Y rhai a drigant o flaen yr Arglwydd,* sef gweinidogion yr efengyl, y rhai a safant o flaen yr Arglwydd, ac a weinant mewn pethau sanctaidd. GILL. Cyfeiriad at swydd yr offeiriaid a r Lefiaid, y rhai yn eu cylch a weinient yn wastadol ger bron yr Arglwydd. *Preb.* LOWTH.

## PEN. XXIV.

Adn. 1—12. Mae amryw dybiau yn nghylch y dygwyddiadau a grybwyllir yn y bennod hon, yn yr hon y dechreuir ar destyn newydd, yr hwn a ddilynir hyd ddiwedd y seithfed bennod ar hugain. Tybia rhai mai cyhoeddiad ydyw, o ddialeddau cyffredinol oddiwrth Dduw, ar genedloedd pechadurus, yn gynnwysedig fel amryw brophwydoliaethau eraill, mewn ymadroddion a ellir eu cymhwyso i amryw ddygwyddiadau cyffelyb, a braidd y gellir dysgwyl cyflawniad trwyadl iddynt, ond yn ninystr pob peth. Ond y mae yn ymddangos fod y rhag ddywediadau hyn yn fwy uniongyrchol yn cynnwys rhestr o brophwydoliaethau perthynol i genedl Israel, ac i'r eglwys, y rhai sydd eto mewn grym, ond heb eu llwyr gyflawni. SCOTT. Wedi rhagfynegi dinystr cenhedloedd tramor, y rhai oeddynt yn elynion i Judah, mae y prophwyd yn cyhoeddi y barnedigaethau oedd yn crogi uwch ben pobl Dduw, o herwydd eu hannuwioldeb a'u gwrthgiliadau; a'r annghyfannedd-dra oedd i gael ei ddwyn ar yr holl wlad. LOWTH. Gall fod yma gyfeiriad at anrheithiad teyrnas Israel gan yr Assyriaid, a Judah gan y Caldeaid; a'r galanastra a wnaed wedi hyny gan Antiochus Epiphanes: ond fe ymddengys mai dinystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid, a gwasgariad yr Iuddewon i fysg yr holl genhedloedd, yn nghyd a'r dygwyddiadau cyssylltiedig â'r oruchwyliaeth aethus hono, a olygir yn benaf.

Adn. 13—15. Mae y rhan yma o'r brophwydoliaeth yn golygu y rhai a ddïangent rhag adfydau eu gwlad eu hunain, ac a gaent noddfa yn mysg y cenhedloedd cymmydogaethol. BOOTHROYD.—*Hwy a ddyrchafant eu llef ac a ganant;* yr oedd gan yr Iuddewon

gwasgaredig luaws o synagogau, yn yr Aipht, Asia Leiaf, ac ynysoedd Groeg; a thrwy hyny buant yn offerynol mewn mesur mawr i ledaenu gwybodaeth o'r gwir Dduw yn mysg y cenhedloedd hyny. LOWTH. Mae yn ymddangos i'r brophwydoliaeth hon gael ei chyflawni yn benaf wedi dinystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid. Y pryd hyny yr oedd mintai fechan o honynt, fel lloffion y winwydden neu yr olewwydden, y rhai a gofleidiasant Gristionogaeth; y rhai hyn wedi eu gwasgaru yn mysg y cenhedloedd a ddyrchafasant eu llef mewn caniadau gwresawg o fawl. SCOTT. —*Am hyny y gogoneddwch yr Arglwydd yn y dyffrynoedd*; neu, "yn y tân," sef yn nghanol fflammau poethion trallodau mawrion, fe'u hannogir i obeithio ac ymddiried yn Nuw, i ba le bynnag y'u gwasgerid. HOLDEN.

Adn. 16. *O fy nghulni!* Mae y prophwyd yn llefaru yma yn mherson trigolion y tir, y rhai a wesgid ac a nychid gan eu gormeswyr cryfion. BOOTHROYD.

Adn. 17—20. *Dychryn, a ffos, a magl, &c.* Cyfeiriad at y gwahanol ddulliau o ddal crëaduriaid gwylltion. *Dychryn* oedd linyn hir, yn yr hwn y byddai lluaws mawr o blu o bob lliwiau, yr hon gan gael ei hysgwyd yn yr awyr, a ddychrynai y crëaduriaid, nes eu gyru i'r ffos, ac i'r fagl a barottoisid erddynt. Torrid y ffos, neu y pwll yn ddyfn, a gorchuddid ef a changau coed a glaswellt, &c., y fagl a wneid drwy amgylchynu tir mawr yn yr hwn yr arferai y crëaduriaid gynnywair, â rhwydau, y rhai a dynnid yn nghyd o fesur ychydig ac ychydig, nes eu dal ynddynt. LOWTH. Yr ystyr yw, os dïangent o un adfyd, y byddent yn sicr o ddisgyn i un arall, Amos 5. 9. BOOTHROYD.—*Ffenestri o'r uchelder a agorwyd*. Cyfeiriad amlwg at y dylif, Gen. 7. 11. *Preb.* LOWTH. Mae yma gyfeiriad amlwg at ddinystr yr Iuddewon am eu gwrthodiad o'r Messiah, ac o'r efengyl, y rhai y byddai digofaint a dïaledd Duw yn ei goddiweddyd oddi uchod ac oddi isod, fel na allent ddïanc mwy na'r rhai hyny rhag y dylif yn amser Noah. Yr oedd daear-grynfäau mawrion o ddeutu yr amser y gwarchaewyd ar Jerusalem; ac yr oedd Crist yn rhagfynegi dinystr y ddinas mewn ymadroddion hynod o gyffelyb, y rhai hefyd a ellir eu prïodoli i ddinystr pob peth. SCOTT. Gwel Mat. 24 29—41.

Adn. 21. Ymddengys fod yma fath o draws-symmudiad oddiwrth ddinystr cenedl yr Iuddewon am wrthwynebu yr efengyl, at ddinystr y galluoedd Annghristaidd, er mwyn parottoi y ffordd i ledaeniad gwir grefydd. SCOTT. Wrth *lu yr uchel* y gellir golygu lluaws mawr wedi eu dyrchafu i radd uchel fel llywodraethwyr gwladol, ac eglwysig.

Adn. 22. *A chesglir hwynt, &c.* Gellid meddwl fod cyfeiriad yn y geiriau hyn at arferiad brenhinoedd gynt o gadw câd-flaenoriaid eu gelynion mewn dalfa hyd ryw ddiwrnod o orfoledd cyhoeddus, pan y'u dygid allan i'w cosbi. LOWTH.

Adn. 23. *Y lleuad a wrida, &c.* Fel yr oedd yr haul a'r lleuad yn rhai o brif eilunod y cenhedloedd, efallai eu bod yn cael eu henwi yma, i gynnrychioli pob math o eilunod, addoliad y rhai a ddirmygid yn wyneb goleuni teyrnas y Messiah. Neu ynte, gellir ystyried y ddau brif oleuad hyn yn arwyddo breninoedd cedyrn, a phennaethiaid galluog y ddaiar, yr hon sydd gyffelybiaeth arferol yn yr Ysgrythyrau; ac felly yr ystyr a roddir ar ddeall yw, y byddai i bob galluoedd daiarol golli eu dysgleirdeb yn wyneb ardderchawgrwydd mawrhydi Crist, Brenin y breninoedd.—*Ei henuriaid, &c.* Swyddogion a gwŷr llys Brenin y gogoniant, ac yn enwedig ei apostolion, y rhai oeddynt dystion o'i eiriau a'i weithredoedd, ac yn neillduol o'i adgyfodiad, a'i esgyniad i gymeryd meddiant o'i deyrnas. Gwel POOLE. Arferai y prophwydi ysgrifenu ar ddarnau o femrwn, ac y mae yn ymddangos na bu y rhai a'u cynnullent yn fanol a chywir iawn yn y trefniad. Or pen. 13, hyd pen. 25, y mae cyfres o ragfynegiadau perthynol i gwymp amrywiol genhedloedd, heb unrhyw drefn; canys y mae Babilon, dinystr yr hon a ddygwyddai yn mysg yr olaf, yn sefyll yn mlaenaf. SUTCLIFFE.

## PEN. XXV.

Adn. 1. *Moliannaf dy enw*, am farnedigaethau Duw ar yr Assyriaid annuwiol, a'i ofal graslawn am ddïogelu ei bobl ffyddlawn. SUTCLIFFE.

Adn. 2. *Gosodaist ddinas yn bentwr.* Gan nad oes un ddinas neillduol yn cael ei chrybwyll, mae y gân yn gymhwysiadol at gwymp Babilon, a phob amddiffynfa o eiddo eu gelynion Paganaidd. T. WILLIAMS.—*Palas dieithriaid*, Paganaidd, sef "dieithriaid oddiwrth wladwriaeth Israel," fel y'u gelwir gan yr apostol. LOWTH

Adn. 5. *Sef gwres â chysgod cwmmwl, darostyngir cangen yr ofnadwy.* Fel cwmmwl tew, yn ardymheru poethder yr haul ar ddaiar ddeifiedig; felly y bydd i ti trwy gyfryngiaeth dy allu ddwyn i lawr, ac iselu terfysg y balch, a gorfoledd yr ofnadwy. LOWTH.

Adn. 6, 7. *Y mynydd hwn*, yr eglwys, a gydmerir i fynydd, er dynodi ei hamlygrwydd. GILL, POOLE. Yr oedd y wledd a sonid am dani yma, i'w chynnal ar fynydd Sïon, a gwahoddid yr holl bobl heb wahaniaeth i ddyfod iddi. Nis gall fod hyn yn golygu dim amgen na sefydliad breniniaeth Crist, yr hyn a ddarlunir yn fynych drwy y gyffelybiaeth yma, Matt. 8. 11. Luc. 14. 6. a 22. 29, 30. Cefnogir y golygiad yma trwy yr hyn a ddarlunir yn gyssylltiedig â'r wledd hon; sef symmudiad y llén oddiar y cenhedloedd, a difodiad angau: wrth y peth cyntaf y golygir pregethiad llwyddiannus yr efengyl, yr hyn a fu yn foddion i ddifa y gorchudd a'r llèn o anwybodaeth, hudoliaeth, ac eilun-

addoliaeth, oeddynt wedi eu taenu dros wyneb yr holl bobloedd, nes eu hattal i weled gogoniant pethau ysbrydol. POOLE. Wrth yr ail y golygir y fendith o anfarwoldeb, a ddygwyd i'w bobl gan Grist, yr hwn a lyncodd angau mewn buddugoliaeth, a thrwy ei angau ei hun a ddinystriodd yr hwn oedd a nerth marwolaeth ganddo, Heb. 2. 14. 1 Cor. 15. 54, 56.

Adn. 10—12. *A orphwys*, neu a "rydd orphwysfa" *yn y mynydd hwn*, trwy ddystrywio y gelyn. Gellid meddwl fod Moab yma yn cael ei defnyddio yn draws-enwawl i ddynodi unrhyw elyn i eglwys Dduw.—*Ac efe*, sef yr Arglwydd, POOLE.—*A estyn ei ddwylaw*, a rydd ei nerth mewn gweithrediad, gan daro ar y ddau du, fel y nofiedydd. GILL. Megis y bydd y nofiedydd yn torri y dwfr â'i freichiau estynedig, felly y byddai i'r Arglwydd estyn ei ddwylaw allan, fel y cyrhaeddai gonglau eithaf Moab. MACCULLOCH. Efallai fod yma gyfeiriad at freichiau estynedig yr Iachawdwr ar y groes, pan y buddugoliaethodd ar ei elynion. SCOTT. Mae y gyffelybiaeth yn hytrach yn gweddu i Moab, yn ymwingaw, fel dyn ar foddi mewn dyfroedd dyfnion, ac yn ceisio nofio â'i holl egni. LOWTH. Cyffelyb hefyd oedd golygiad DR. BOOTHROYD, yr hwn a gyfieithai adn. 11. fel y canlyn:——

"Ac efe a estyn ei ddwylaw yn eu canol hwy, fel yr estyn y nofiedydd ei ddwylaw i nofio.
Ond Duw a ddarostwng ef falchder ef, yn nghyd a grym ei ddwylaw."

## PEN. XXVI.

Adn. 1. Gelwir yr eglwys yma yn *ddinas gadarn*, mewn gwrthgyferbyniad i ddinas y gelyn, yr hon a ddinystriasai Duw, pen. 25. 1. Gelwir yr eglwys yn ddinas Duw, Sal, 48 1. ac 87. 3. Heb. 12. 22.

Adn. 2. *Agorwch y pyrth fel y del y genedl gyfiawn i mewn;* mae yr ymadrodd yn arwyddocâu cynnydd mawr ar aelodau yr eglwys. GILL, *Preb.* LOWTH. Yr ydoedd galwad y cenhedloedd yn y prif amseroedd, yn gyflawniad mewn rhan o'r brophwydoliaeth hon, ond bydd helaethach cyflawniad iddi eto, pan ddychwelir Israel a Judah at y Gwaredwr, ac y delo cyflawnder y cenhedloedd i mewn, Rhuf 11 16—32. SCOTT.

Adn. 5, 6. *Efe a ostwng*, neu, "Efe a ostyngodd." Yma eto y mae efe yn cyferbynu cwymp a dinystr y ddinas orthrymus, â thangnefedd a diogelwch Sïon.

Adn. 13. *Yn unig trwot ti y coffawn dy enw;* neu, "Tydi yn unig, a'th enw a goffawn ni." BOOTHROYD.

Adn. 14. *Meirw ydynt*, sef gorthrymwyr pobl Dduw, y rhai y dywedir am danynt na chyfodant mwy.

Adn. 15. *Ychwanegaist ar y genedl*, neu, "Cynnyddaist y genedl, O Arglwydd;—Cynnyddaist y genedl; ti a ogoneddwyd. Ti a estynaist yn mhell holl derfynau y tir." BOOTHROYD.

Adn. 19. *Dy feirw a fyddant byw, &c.* Yma y mae Duw trwy y prophwyd yn cefnogi ei bobl i obeithio, er bod eu cyflwr yn cael ei gydmaru i'r eiddo y meirwon, gan eu hannog i ddyrchafu eu golwg atto ef, yr hwn sydd alluog i gyfodi y meirw; ac felly i roddi adgyfodiad tymhorol ac ysbrydol iddynt hwythau. THOMAS WILLIAMS.—*Fel gwlith llysiau*, neu, "Fel gwlith yr hoccys." Ystyrid yr hoccys gynt yn fath o feddyginiaeth gyffredinol; sugnant lawer iawn o wlith, o herwydd pa ham byddant yn iraidd a gwych yr olwg arnynt. Yr oedd gallu mor adfywiol i'r eglwys Iuddewig, ag oedd gwlith i'r hoccys; y gallu hwn oedd addewid a gras Duw ei Gwaredydd. Gellir casglu oddiwrth y geiriau hyn fod athrawiaeth adgyfodiad y meirw yn un dra chyffredinol hyd yn nod yn amser y prophwyd hwn, canys pan ddefnyddier cyffelybiaeth mewn trefn i osod peth allan mewn dull allegawl, pa un bynnag ai mewn ystyr gyffredin neu brophwydoliaethol, mae yn rhaid i'r gyffelybiaeth hono fod yn un hysbys a dëalladwy, onide nid ettyb y dyben o'i defnyddio. LOWTH.

Adn. 20. *Dos i'th ystafelloedd, &c.* Yma mae yr Arglwydd yn annog ei bobl dan eu holl erledigaethau a'u gorthrymderau, i ddysgwyl yn dawel am gyflawniad o'r rhagfynegiadau blaenorol, gan ymneillduo oddiwrth y byd, a thrwy ffydd a gweddi, eu rhoddi eu hunain i'w nodded ef. SCOTT. Gellid meddwl fod y geiriau hyn wedi eu llefaru gyda chyfeiriad at y gorchymyn a roisai Moses i'r Israeliaid, y nos yr oedd yr angel dinystriol yn tramwyo trwy dir yr Aipht, Exod. 12. 22.

## PEN. XXVII.

Adn. 1. Mae cyssylltiad agos ac eglur rhwng yr adnod hon â'r ddwy adnod olaf yn y bennod flaenorol. Ymddengys fod yma dri o anghenfilod yn cael eu crybwyll, ac os felly, dylai y *vau* Hebraeg, a gyfieithir *ie*, gael ei gyfieithu "ac" yn yr adnod hon.—Wrth y *lefiathan y sarph hir-braff*, efallai y golygir y crocodil caled-groen, ac anystwyth; wrth y *lefiathan y sarph dorchog*, y golygir y sarph, neu y ddraig ystwyth, dorchawg: ac wrth *y ddraig*, y golygir y morfil mawr *(whale.)* Defnyddir yr anghenfilod hyn yn allegawl, i ddynodi pennaduriaid cryfion, gelynion ac erlidwyr creulawn pobl Dduw. LOWTH.

Adn. 2. *Gwinllan*, yr eglwys, a elwir felly yn aml; Gwel pen. 5.—*Y gwin coch*, y gwin mwyaf gwerthfawr, fel yr ymddengys oddiwrth Diar. 23. 31: a elwir hefyd "gwaed y grawnwin." Gen. 49. 11. Deut. 32. 14. POOLE. Neu, "Yn y dydd hwnw, am y winllan hoff, cenwch yn gyfattebol am dani." BOOTHROYD. Ac y mae yr adnod hon, a'r pedair adnod ganlynol, yn dynodi gofal gwastadol Duw a'n, a'i nawdd i'w winllan, mewn dull o ymddiddan. DAVIDSON.

*Arglwydd.* "Myfi yr Arglwydd a'i ceidw, &c.

*Gwinllan.* Nid oes i mi fûr i'm hamddiffyn:
O na feddwn fagwyr o ddrain a mieri!

*Arglwydd.* Myfi a awn i'w herbyn mewn rhyfel,
Myfi a'u llosgwn hwynt oll yn nghyd
O! yn hyttrach, ymafled yn fy nodded I.

*Gwinllan.* Gwneled heddwch â mi;
Heddwch, gwneled â mi!

*Arglwydd.* Y rhai a ddeuant o wreiddyn Jacob a fiodeuant, Israel a flaendarddant, ac a lanwant wyneb y byd â chnwd." LOWTH.

Lled gyffelyb i'r darlleniad uchod y dyru y dysgedig BOOTHROYD hefyd gyfieithiad o'r geiriau.

Adn. 7, 8. Yr oedd y barnedigaethau Dwyfol a ddisgynent ar bobl yr Arglwydd, wedi eu cymmysgu â thrugaredd. Er trymmed y cosbedigaethau a ddisgynasent ar Israel, ni fuant, ac ni fyddent i'w cydmaru a'r rhai a syrthiasant ar eu gelynion a'u gorthrymwyr.—*Wrth fesur pan êl allan, yr ymddadleu âg ef.* Hyny yw, medd rhai, pan estyno Duw ei wïalen geryddol allan, yr ymddadleu a'r troseddwr, fel tad yn gofyn i'w blentyn cyn ei geryddu, "A wnei di felly drachefn?" Ond yn ol y cyfieithiad Saes'neg, yn lle *pan êl allan*, dywedir, "Pan flaendardda;" ac felly megis yn golygu blaendarddiad gwinwydden, yr hyn a dorrir gan y gwinllanydd: ond yr hwn er hyny a ofala am beidio niweidio y pren. POOLE, WILLIAMS.

Adn. 9. *Holl gerrig yr allor*, sef pob allor eilun-addolgar Trwy drawsenwad, gelwir holl gyfundrefn eilun-addoliaeth yma yn *allor*.

Adn. 10, 11. Er fod gan Dduw ei weddill yn gyssegredig i'w cadw iddo ei hunan, rhaid i'r *ddinas gadarn*, Jerusalem, yr hon a gymerid yn gynnrychioledig o'r holl genedl, gwympo; ac fel cangenau diffrwyth, rhaid iddynt gael eu difa yn ddïau. Cymh. Rhuf. 11. 22.

Adn. 12, 13. *Bydd i'r Arglwydd ddyrnu, &c.* Nid mewn ffordd o farn mwy, ond fel dyrnu brigau coed, er mwyn casglu y ffrwythau oddiarnynt, pen. 17. 4, 9.—*O ffrwd yr afon, &c.* Sef o'r afon Euphrates, hyd yr afon Nilus, hyny yw, o'r holl fannau lle yr oedd yr Iuddewon wedi eu gwasgaru.—*Udgenir âg udgarn mawr, &c.* Wrth yr hyn y cyfeirir yn neillduol at bregethiad yr efengyl, drwy yr hyn y bydd i'r Arglwydd gasglu yn nghyd wasgaredigion Israel, o'r holl wledydd lle y maent, gan eu cynnull i'r eglwys, a'u himpio yn eu holewyddeu eu hunain. SCOTT. Gwel Galat. 4. 25. Heb. 12. 18—24. Rhuf 11. 11, 12.

## PEN. XXVIII.

Adn. 1, 2. *Coron balchder*, sef Samaria, prif ddinas y deg llwyth y rhai a ddynodir wrth yr enw *Ephraim*. Yr oedd y ddinas hon yn gorwedd ar fynydd hir-grwn, yr hwn a gylchynir yn gyntaf gan ddyffryn ffrwythlawn, ac yna rhes o fryniau yn amgylchynu y dyffryn hwnw, yr hyn a achlysurodd y drychfeddwl o goronbleth o flodau, a arferent wisgo am eu penau yn eu gwleddoedd arbennig. Gan fod y lle hwn yn cynnyrchu amledd o winwydd, yr oedd y trigolion yn ymroi i feddwi ar y gwin, gan ymfalchio yn yr unrhyw, er nad oedd y cyfryw falchder, ond blodeuyn diflannedig. T. WILLIAMS, &c.

Adn. 3. *Un grymmus*, sef Salmunaser, brenin Assyria, yr hwn a gludai y deg llwyth i gaethiwed, ac a ddistrywiai eu breniniaeth, cymh. pen. 29. 6. a 30. 30. *Pried.* LOWTH.

Adn. 4. *Megis ffigysen gynnar.* Ar ddechreuad pob ffrwythau yn gyffredin y mae dynion yn fwyaf eu blŷs iddynt, ac felly yn eu bwytta gyda mwyaf o frys ac awydd: felly trwy y gydmariaeth hon y dangosir â'r fath rwyddineb y byddai i'r Assyriaid gymeryd y ddinas a'r deyrnas, ac a'r fath wanc yr ymaflent yn yr yspail. *Esgob* LOWTH.

Adn. 5. Mae y prophwyd yma yn troi oddiwrth freniniaeth y deg llwyth, at freniniaeth Judah, dan Hezeciah, gan ddangos mor ardderchog oedd eu coron hwy, sef Arglwydd y lluoedd, mewn cydmariaeth i'r eiddo Ephraim, a enwid o'r blaen.

Adn. 6. *Rhai a ddychwelant y rhyfel i'r porth*, gan ymlid eu gelynion ffoedig, hyd byrth eu dinasoedd eu hunain, 2 Sam. 11. 23. a 17. 52. LOWTH.

Adn. 7. *Amryfusasant mewn gweledigaeth.* Er y llwyddiant uchod yn Judah yn amser Hezeciah, buan yr ymollyngasant hwythau i gyffelyb bechodau ag Ephraim ar ol ei farwolaeth ef.

Adn. 9. *I bwy y dysg efe wybodaeth?* Meddylia rhai mai iaith y dynion gwatwarus a grybwyllir yn adn. 14, yw y geiriau hyn, ac mai am y prophwyd y'u llefarent, fel pe dywedasent, Ai myned i'n trin fel plant bychain y mae efe, gan ddysgu i ni yr egwyddor, ac elfenau gwybodaeth, *llin ar lin*, gwers ar ol gwers? *Esgob* LOWTH. Eraill a dybiant mai am yr offeiriaid a'r prophwydi a ddarlunid yn yr adnodau blaenorol y llefarid y geiriau; fel pe dywedasai y prophwyd, I bwy y gall y cyfryw offeiriaid a prophwydi meddwon ddysgu gwybodaeth; y rhai ydynt mor annghymwys i'w swydd ag a fuasai plant newydd eu diddyfnu. BOOTHR.

Adn. 10. Yn yr adnod hon gwneir darluniad godidog o'r dull addfwyn ymostyngar, yn yr hwn y mae yr Arglwydd Dduw, yn cyfrannu addysg iddynt gyda gofal a diwydrwydd fel i'r plant ieuengaf. MACCULLOCH. Ond y mae BOOTHROYD yn gwahaniaethu oddiwrth y golygiad uchod, gan ddweyd ei fod ef yn cael ei dueddu

i'r un golygiad ag AURIVILLIUS, sef fod y testyn yn cynnwys nid geiriau, ond sillau, er darluniaw yn fwy bywiog ymadroddiad diffygiol ac anmherffaith yr offeiriaid meddwon hyn. Yn gyson â'r golygiad yma, gellid darllen y geiriau fel y canlyn, "Yn awr adroddant un sill, yna un arall; un gair, ac yna un arall a ollyngant allan;—ychydig yma, ac ychydig yna;" ac y mae y golygiad a'r darlleniad yma yn arwain yn fwy naturiol i'r hyn a gynnwysir yn adn. 11, ystyr yr hon yw, mai megis yr oeddynt hwy yn bloesg lefaru, ac heb wybod pa beth a ddysgent, felly y byddai i Dduw lefaru wrthynt trwy bobl, y rhai ni ddëallent eu hiaith. BOOTHROYD, ROSENMULLER, KOPPE.

Adn. 15. *Gwnaethom ammod âg angau*, math o ymadrodd dïarhebol, i ddynodi dïogelwch perffaith oddiwrth unrhyw ddrwg neu niweid, Job 5. 23. Hos. 2. 18.—*Celwydd* a *ffalsder*, ydynt ymadroddion a ddefnyddir i ddynodi eilunod, cystal a chyfeiliornad. Er fod y prophwydi yn llefaru am amgylchiadau dyfodol, eto yr oeddynt yn llefaru mewn iaith addas i fod yn gyfrwng addysg i'w cyd-oeswyr.

Adn. 16. *Wele fi yn sylfaenu maen yn Sïon, &c.* Yr oedd y pechaduriaid hyn yn tybied eu bod hwy wedi gosod sylfaen ddisigl i'w dïogelwch eu hunain; ond mewn gwrthgyferbyniad i hyny, y mae Duw yn datgan mai efe yn unig a allai osod y cyfryw sylfaen, a chonglfaen y byddo yn werth pwyso arni, gan y cynhalia yn ddïogel yr hyn a adeiledir arni. Mae yr apostol Pedr yn cymhwyso hyn at yr Arglwydd Iesu Grist; ac y mae yn ddiau ei fod ef yn wrthddrych gobaith y tadau, 1 Pedr 2. 6. Nid yw y golyg-ddrych o gongl-faen, a ddefnyddir mor aml yn yr Ysgrythyrau, i'w gymeryd oddiwrth ddull adeiladau diweddar; ond oddiwrth ddull adeilwaith oesoedd boreuach ac anwareiddiach. Mewn trefn i feddu y drych-feddwl yn gywir, meddylier am faen mawr pwysig, fel un o'r hen feini derwyddol a ganfyddir mewn rhai parthau o Gymmru, a hwnw wedi ei dorri yn ysgwâr, a'i osod yn yr adeilad yn y fath fodd fel y byddo dwy ochr i'r maen yn gorwedd ar hyd y ddwy fagwyr, a fyddont yn cyfarfod yn y gongl, ac felly yn cyfrwymo yr adeilad mor rymmus, fel na's gallo na rhuthriad nac ystorm eu hysgaru.—*Ni frysia*, neu yn ol y LXX., "Ni chywilyddia." Nid arfera foddion annghyfreithlawn i ymddïogelu. *Preb.* LOWTH. Ni's cyffroir ef i unrhyw nwydau gwylltion, i frys brawychedig; neu ing ac arteithiau anobaith, wedi ei siomi am yr hyn y gobeithiai am dano, neu y gwrthddrych yr ymddibynai arno. HOLDEN.

Adn. 17—19. *Barn wrth linyn, &c.* Yma y gosodir y barnedigaethau oeddynt i ddyfod ar lywodraethwyr a deiliaid gwatwarus Judah, yn wrthgyferbyniol i ddïogelwch a hyder disigl y credadyn, a ddarluniwyd yn yr adnod o'r blaen; canys yn awr yr oedd yr Arglwydd yn myned i weinyddu cyfiawnder diduedd ar y

drygionus, yn ol rhëol fanol ei gyfraith sanctaidd, fel y mae yr adeiladydd yn myned a'i waith yn mlaen wrth linyn ac wrth bwys. SCOTT.

Adn. 20. *Canys byrrach yw y gwely,—a chul yw y cwrlid;* dywediad dïarhebol, er dangos bod pob moddion amddiffyniad a feddent, yn annigonol i'w dïogelu, a'u cuddio rhag y drwg oedd ar ddyfod arnynt.

Adn. 21. *Megis yn mynydd Perasim,—yn nglyn Gibeon.* Cyfeirir yma at waredigaethau Israel oddiwrth y Philistiaid, 2 Sam. 5. 20, ac oddiwrth yr Amoriaid, Jos. 10. 1—14. Ond yn yr amgylchiadau hyny yr oedd yr Arglwydd yn gweithredu er ymwared i'w bobl, eithr yma, i'r gwrthwyneb, er eu cosbi, yr hyn a elwir ei *ddieithr-weithred.* W. LOWTH.

Adn. 23—29. Mae y prophwyd yn terfynu gydag egluräad ac amddiffyniad o ddull Duw yn ymwneyd â'i bobl, mewn dammeg odidog, yn yr hon y defnyddiai luaws o gyffelybiaethau wedi eu cymeryd oddiwrth y gelfyddyd o ammaethyddiaeth. Fel yr arfera yr ammaethydd amryfal ffyrdd i drin ei dir, ac i ysgaru yr ŷd, y gwellt, a'r us, yn ol natur y gwahanol rawn; felly y mae Duw â doethineb digyfeiliorni, ac â chyfiawnder perffaith, yn addysgu, yn hyfforddi, ac yn ceryddu ei bobl, gan eu cosbi mewn amryfal ffyrdd, fel y byddo amgylchiadau yn gofyn. Mae pob cenedl yn cyduno i briodoli ammaethyddiaeth, y fwyaf defnyddiol ac angenrheidiol o'r celfion, i'w duwiau. Yma prïodolir eu dechreuad i'r Arglwydd, Awdwr pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith; efe sydd yn rhoddi doethineb i'r annghall, ac fel hyn yn mhob rhyw gelfion dynol buddiol, y mae efe yn amlygu ei hun yn *rhyfedd yn ei gynghor, ac ardderchog yn ei weithred.*

## PEN. XXIX.

Adn. 1. Y gair *Ariel*, a arwydda, "Llew Duw," Efallai fod Jerusalem yn cael ei galw felly mewn cyfeiriad at y llew, oedd yn arwydd-lun llumman llwyth Judah. Eraill a gyfieithiant y gair *Ariel*, 'tân Duw," gan farnu fod yma gyfeiriad at allor y poethoffrwm. Ond HOLBIGANT a farnai y gallai mai hen enw y ddinas oedd Ariel, yr hwn enw a roisid arni oddiwrth y crëadur ardderchog hwnw.

Adn. 2, 3. *A hi a fydd i mi fel Ariel.* Hyny yw, fel yr allor yn fflamio gan y tân cyssegredig yn difa yr offrymau, ac yn cael ei hamgylchu gan waed a chelaneddau yr aberthau; ac felly yn gynllun addas o'r dwyfol gyfiawnder yn cosbi pechod; ac felly y byddai i Jerusalem gael ei ei llenwi â chelaneddau dynion, a'i difa a thân cyfiawnder dïaleddol yr Arglwydd. SCOTT.

Adn 4. *Gwersyllaf yn grwn.* Nid yw y desgrifiad hwn yn gwbl brïodol i ymgyrch byddinoedd Senacherib na'r Assyriaid; Gwel 2 Bren 18. 17—25. a 19. 8. Esa. 37. 33. a 36. 21, 22.

2 Bren. 18. 36, 37. Eithr llwyr gyflawnwyd y brophwydoliaeth yn ninystr Jerusalem gan y Caldeaid a'r Rhufeiniaid. SCOTT.

Adn 4. *Hustyng o'r llwch.* Yr oedd dychymmyg cyffredinol yn mysg y paganiaid, fod ysbrydion yn llefaru mewn llais dwfn, fel o'r bedd; ac at hyny mae yn debyg y cyfeirir yma. Yr oedd llawer o'r hen swynyddion yn fol-lefarwyr (*ventriloquists*,) ac felly yn mwngial eu hymadroddion, megys allan o'r pridd. WILLIAMS.

Adn. 5—7. Meddyliai *Esgob* LOWTH ac amryw feirniaid eraill, mai desgrifiad o ddinystr byddin Senacherib yw yr ymadroddion hyn.

Adn. 8. *Megys newynog a freuddwydio, &c.* Yn y gyffelybiaeth fywiog yma, darlunir siomedigaeth ddwys yr Assyriaid; y rhai yn eu dychymmygion eu hunain oeddynt megys wedi llyncu Jerusalem eisioes: ond yn y cyfamser, yr oedd Duw wedi penderfynu eu siommi yn ddisymmwth, a'u hanfon ymaith yn weigion ac yn waradwyddus. W. LOWTH. Meddyliai eraill fod yma gyfeiriad at ddinystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid. Ac y mae yn debyg na bu blaenoriaid na byddin erïoed a siommwyd yn fwy na'r Rhufeiniaid yn eu hymosodiad ar Jerusalem, yr hyn a achlysurid yn benaf gan ystyfnigrwydd y blaenoriaid Iuddewig. DAVIDSON.

Adn. 9—12. Mae yr ymadroddion hyn yn dra annghyfaddas debygid i oes Hezecïah, yr hyn sydd yn peri fod y golygiad olaf a nodwyd ar yr adnod flaenorol yn ymddangos yn dra hygoel. Yr oeddynt mor synedig, fel na's gallent ffurfio golyg-ddrych mwy eglur o'r pethau y buasent wedi bod yn feddwon, neu yn breuddwydio: canys ni's gellid rhoddi eglurâad ar ymddygiad yr Iuddewon, ar unrhyw egwyddor adnabyddus; ond y mae rheswm digonol yn cael ei roddi am hyn yn y fan gan ysbryd prophwydoliaeth.

Adn. 13, 14. Gwel Matt. 15. 9. a 11. 25. 1 Cor. 1. 19. Mae JENOUR yn cyfieithu y rhan gyntaf o adn. 14, fel y canlyn, "Gan hyny, wele, myfi a wnaf y bobl hyn eto yn rhyfeddod fawr." Ac felly yr oeddynt yn wrthddrychau o syndod mor fawr yn eu sefyllfa fwyaf dyrchafedig.

Adn. 15, 16. Yr oeddynt yn ddyfal yn dyfeisio ffyrdd i guddio eu gwir amcanion a'u tueddiadau, fel y byddai yr offeiriaid paganaidd, pan yn ymgynghori âu horaclau, gan feddwl nad oedd Duw yn debyg o gael allan eu dichell: ond y mae yr Arglwydd yn eu ceryddu, gan ddywedyd (yn ol cyfieithiad LOWTH, "Er mor drofaus ydych, a gyfrifir y crochenydd fel y clai?") Ac y mae DR. BOOTHROYD ac amryw eraill yn cydunaw â'r cyfieithiad yma.

Adn. 17. Ymadrodd dïarhebol yw hwn, yn arwyddo cyfnewidiad dirfawr ar bethau, ac yn cyfeirio yn neillduol tu hwnt i'r digwyddiadau oedd y pryd hwnw ar gymerydlle, sef at wrthodiad yr Iuddewon, a galwad y Cenhedloedd Y rhai blaenaf oeddynt winllan Duw, ond hwy a wrthodid ganddo ef, nes eu myned yn

anialwch; a'r olaf, y rhai hyd yn hyn a fuasent yn ddiffrwyth, oeddynt i gael eu gwneuthur yn ffrwythlawn; pen. 5. 1—7. Matt. 21. 43. Rhuf. 11. 30, 31.

Adn. 18—24. Y prif destyn dan sylw yma yw, gwynfydedigrwydd yr eglwys wedi galwad y Cenhedloedd. Ei haelodau a dderbyniant air y gwirionedd gyd ag astudrwydd, ac addfwynder; eu llawenydd a barhâ, a'u gelynion a ddyrysir, tra fyddant hwy yn cynnyddu mewn lluaws ac mewn gwybodaeth.—*Eithr pan welo efe ei feibion, gwaith fy nwylaw o'i fewn,* neu, "Pan welo ei feibion waith fy nwylaw, &c." BOOTHROYD.

## PEN. XXX.

Adn. 1—7. *A orchuddiant â gorchudd.* E ddichon yr ymadrodd Hebraeg a gyfieithir fel uchod, fod yn arwyddocâu "Tywallt dïod offrwm," y cyfryw ddefod a arferid gan y rhan fwyaf o'r cenhedloedd, yn yr hen oesoedd, er cadarnhau cyfammod, neu gyngrhair. Cyhoeddir gwae ar yr Iuddewon am eu bod yn ymgyngrheirio â'r Aipht, heb ymgynghori â'u Duw. Dewisent bwyso ar gorsen yssig, o flaen Craig yr Oesoedd; a nerth dynol, o flaen yr Hollalluog Gan hyny, pa beth a allent hwy ei ddisgwyl heblaw siommedigaeth, a chywilydd parâus.—*Hanes,* neu Tapanhes, tref flodeuog yn yr Aipht, gynt.—*Baich anifeiliaid y dehau;* neu, "Am y baich a gludir gan yr anifeiliaid tu a'r dehau;" cyfeiriad medd rhai, at yr anrheg fawr a wnaed gan Hosea brenin Israel i frenin yr Aipht, er pwrcasu ei gymmhorth yn ei gyfyngder.—*I dir cystudd ac ing,* y wlad y bu eu henafiaid mewn cystudd ac ing. Yr oedd y bobl yn eu tlodi eu hunain wrth geisio cyngrheirio â'r Aipht, yr hyn ni allasai fod o un buddioldeb iddynt, gan hyny mae y prophwyd yn cyhoeddi iddynt mai doethineb a dïogelwch iddynt, ydoedd gadael heibio y bwriad, ac aros yn llonydd gartref, gan ymddiried yn yr Arglwydd, a defnyddio moddion cyfreithlawn er eu diogelu eu hunain.—Mae eraill yn meddwl fod yma gyfeiriad yn hytrach at nodweddiad yr Aiphtiaid yn y geiriau hyn, ac fel hyn y cyfieitha BOOTHROYD y rhan olaf o adn. 7.—"Llawn balchder ydynt, eto pobl ddïoglyd;" fel pe dywedasai, eu bod yn fwy dyledus am eu golud i'w daiar fras, nac i'w diwydrwydd eu hunain; ac yn fwy dyledus am eu dïogelwch eu hunain, i sefyllfa eu gwlad, nac i'w dewrder hwy ei thrigolion

Adn. 8—11. *Yn oes oesoedd.* Mae y gorchymyn hwn o eiddo yr Arglwydd i'r prophwyd i ysgrifenu y brophwydoliaeth ar lech, i'w gosod i fynu, ac mewn llyfr i'w chadw i ymofynwyr mewn oesoedd pell i ddyfod, yn arwyddo fod y brophwydoliaeth yn perthynu i genhedloedd oedd eto i ddyfod, er mai rhuthr-gyrch yr Assyriaid oedd yr achlysur cyntaf o honi. Yr un ysbryd gwrthryfelgar, y rhagrith a'r twyll oedd yn meddiannu yr Iuddewon y

pryd hyny, a gynnyddodd mewn oesoedd canlynol; a hwy a aethant yn fwy cyndyn i ufuddhau i gyfraith Duw, Jer. 20. 1. a 38 4, 6. Amos 7. 19. 1 Bren. 22. 8, 27. SCOTT, *Preb.* LOWTH.

Adn. 13. *Fel rhwygiad chwyddedig mewn mur uchel ar syrthio;* cyfeiriad at eu muriau clai, o'r hwn ddefnydd y gwneid y rhan fwyaf o adeiladau yn Asia. Defnyddir y gyffelybiaeth i ddynodi dinystr disymmwth a thrwyadl yr Iuddewon.

Adn. 14. *Fel na chaffer yn mysg ei darnau, gragen i gymeryd tân o'r aelwyd.* Tuag at feddu dirnadaeth cywir o'r golyg-ddrych a gynnwysir yn yr ymadrodd hwn, dylem gofio bod agos yr holl lestri yn y rhai y trinir bwyd yn y gwledydd dwyreiniol, yn llestri pridd; felly y mae bod heb gragen, neu ddernyn o lestr pridd wedi ei adael, yn ddynodawl o gyflwr tra thruenus. Pe dygwyddai i'r tân ddiffodd yn y nos, arfera y wraig gymeryd dernyn o lestr pridd i fyned i dŷ ei chymmydog yn y boreu, i gyrchu ychydig farwydos i'w ail ennyn. ROBERTS.

Adn. 18. *Am hyny,* neu, "Ar ol hyny;" neu, "Er hyny." Y mae o'r adnod hon hyd adn. 27, amryw addewidion grasol o drugaredd, ac ni's gellir gyd ag un prïodoldeb eu cymhwyso at yr amseroedd dyfodol yn nheyrnasiad Hezeciah; gan hyny, gellir yn rhesymol dybied, fod y prophwyd yn golygu yr amseroedd dedwydd a ddilynant y waredigaeth hono, ac yn cael ei ddwyn i olwg dyddiau gwell, oeddynt i'w dysgwyl dan oruchwyliaeth lwyddiannus yr efengyl. LOWTH.

Adn. 21. *A glywant air o'th ol yn dywedyd,* &c. Cyfeiriad at ysgol feistri, yn sefyll o'r tu ol i'w hysgolheigion, neu wrth eu cefnau i'w dysgu; neu at y bugeiliaid yn dilyn eu praidd, gan alw y rhai a elent ar gyfeiliorn, yn ol.

Adn. 22. *Yna yr halogwch ball dy gerf-ddelw,* neu, "Yna yr ymddygwch at eich eilunod y rhai ydynt wedi eu gwisgo âg arian, ac at eich delwau, y rhai ydynt wedi eu gwisgo âg aur, fel pethau halogedig." BOOTHROYD.

Adn. 26. *A bydd llewyrch y lleuad fel llewyrch yr haul,* &c. Yr unig ffordd drwy yr hon y gellir egluro yr adnod hon, yw, fel y mae yn rhagarwyddol o fendithion ysbrydol, ac yn cynnwys rhagfynegiad o gynnydd rhyfeddol, llwyddiant, gwybodaeth, a phurdeb yn eglwys Dduw ar y ddaiar, pan y dychwelir yr Iuddewon, ac y dygir cyflawnder y cenhedloedd i fewn. Canys y mae yn ymddangos mai am y mil blyneddoedd y prophwydir yma, ac nid am gyflwr yr eglwys yn y nefoedd; yn neillduol anrhydedd a llwyddiant cenadol Israel. SCOTT, FABER.

Adn. 27, 28. Dinystr byddin Senacherib a fynegir yma yn fwyaf union gyrchol; ond y mae yn ymddangos fod dinystr yr holl awdurdodau annghristaidd, mewn trefn i'r efengyl gael goruchafiaeth drwyadl ar bawb, yn cael ei olygu yn neillduol. SCOTT.

Adn. 32. *A pha le bynnag yr elo y wïalen ddiysgog,* yr hyn a

arwyddocâ y fath wïalen neu darawiad, ar a suddo yn ddwfn, gan adael nodau parhaus yn y cnawd; ac y mae yr ymadrodd yn cyfeirio at y wïalen â'r hon y tarawodd, neu y ceryddodd yr Assyriaid bobl yr Arglwydd.—*Gyda thympanau a thelynau y bydd:* hyny yw, fe ddylynir y fath ddinystr rhyfeddol ar y gelyn, â phob rhyw amlygiadau o lawenydd; âg emynau mawl, a pheroriaeth gelfyddydawl. DAVIDSON.

Adn. 33. *Tophet*, sydd ddyffryn yn agos i Jerusalem, ar y tu de ddwyreiniol, a elwir hefyd, dyffryn Hinnom, neu Gehena; lle y byddai y Canaaneaid, a'r Israeliaid ar eu hol, yn offrymmu eu plant, gan eu tynu trwy y tân, hyny yw, eu llosgi i Moloch. Gan hyny fe'i defnyddir fel lle o gosbedigaeth, a darluniad o dân uffern. Cymh. Dat. 19. 3.

## PEN. XXXI.

Adn. 1. *Ac ni cheisiant yr Arglwydd.* Prin y gallai hyn fod yn gymhwys i'w ddywedyd am Hezeciah a'i lys: ond y mae yn ddarluniad tra chywir o'r deg llwyth gwrthgiliedig. Mae yn amlwg mai math o grynodeb o'r brophwydoliaeth a gynnwysid yn y bennod flaenorol ydyw hon. DAVIDSON.

Adn. 5. *Megis adar yn ehedeg, &c.* Mae y gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth y fam-aderyn yn lledu ei hadenydd dros ei chywion, ac yn neidio rhyngddynt a'r perygl oddiwrth unrhyw aderyn ysglyfaethus a fyddo am ymosod arnynt; felly y darfu i Dduw gynt neidio rhwng y dinystrydd a thai yr Israeliaid yn yr Aipht fel na leddid y cyntaf anedigion: ac felly yr addawai efe wneyd er amddiffyniad Jerusalem yma.

Adn. 6. *Dychwelwch at yr hwn, &c.*, neu, "Meibion Israel a ddychwelant at yr hwn y gwrthryfelasant mor ddwfn i'w erbyn;" mae y cyd-destyn yn dangos mai prophwydoliaeth am ddychweliad Israel yw y geiriau hyn, yn hytrach nac annogaeth neu gynghor iddynt. DAVIDSON.

Adn. 8, 9. Yr oedd byddin ac awdurdod y buddugoliaethwr Assyriaidd i syrthio, nid drwy gleddyf yr Aiphtiaid galluog, na'r eiddo yr Iuddew dirmygedig: ond drwy weithrediad angel nerthol. Gwel 2 Bren. 19. 35—37 Senacherib a ffodd, rhag y cleddyf anweledig hwnw a ddinystriodd ei farch-luoedd dewisol, ac a brysurodd i Ninefeh, ei amddiffynfa gadarn, neu graig, lle yr erlyniwyd ef gan ddïaledd Dwyfol: ei dywysogion hefyd, y rhai a ddïangasent, a yrrwyd ymaith mewn braw, o herwydd baner yr Arglwydd oedd yn amlwg yn Sïon. Y tân oedd ar ei allor ef yn difa yr ebyrth cymmodadwy, ydoedd yn amddiffyniad i'w bobl, ac fel ffwrn i'w puro hwy; eithr yr ydoedd yn bygwth dinystrio eu holl elynion. Gwel pen. 4. 3, 4. a 20. 29—32. a 33. 10—14. Zech. 2. 1—5. Mal. 3. 1—4. a 4. 1. SCOTT.

## PEN. XXXII.

Adn. 1. *Wele brenin*, &c. Mae y rhan fwyaf o'r Esbonwyr yn meddwl mai Hezeciah a olygid yma, yn yspaid teyrnasiad yr hwn yr oedd crefydd yn blaguro, a chyfiawnder yn cael ei weinyddu. Ond, nyni a ddylem ei olygu ef a'i freniniaeth yn gysgodawl o Grist, yn ddiau.

Adn. 2. *Megis yn ymguddfa rhag y gwynt;*—mae y teithwyr yn darlunio gwyntoedd y gwledydd dwyreiniol yn arswydus o ddinystriol yn eu heffeithiau; yn enwedig y *sammiel*, neu y gwyntoeddpoethion. COBBIN.—*Cysgod craig fawr*, y cysgod mwyaf adfywiol a ddichon fod mewn gwledydd poethion, nid yn unig fel y mae yn cadw pelydrau yr haul ymaith yn hollawl; ond hefyd am ei bod yn oer naturiol ynddi ei hun, a'r oerni hwnw yn effeithio ar bob peth o amgylch iddi. LOWTH. Diau mai Emanuel, y "Duw a ymddangosodd yn y cnawd," a olygir yma. Efe yn unig ydyw y gwr sydd yn cysgodi pechaduriaid rhag digofaint Duw, temtasiynau Satan, a chynddeiriogrwydd y byd; canys efe a ddyoddefodd yr holl dymhestl ei hunan. SCOTT.

Adn. 3—5. Yma y darlunir effeithiau y diwygiad a ddygwyd yn mlaen dan lywodraeth Hezeciah ddaionus; yr hwn oedd yn dra gofalus am i'w bobl gael addysg briodol, fel yr oedd yn dra manteisiol i'r rhai a feddent unrhyw ddirnadaeth mewn pethau ysbrydol i weled yn eglur: ac mewn canlyniad i'r waredigaeth rhag yr Assyriaid, yr oedd, hyd yn nod yr anystyriol a'r annoeth yn ymofyn am ddëall pethau dwyfol; a'r rhai nad oeddynt o'r blaen braidd yn alluog i eirio ar y testynau hyn yn floesg a thrwsgl, a ddysgasant lefaru am danynt yn hyawdl a chyd ag addasrwydd. Ond gwybodaeth uwch, a doniau a grasusau ysbrydol teyrnas Crist a feddylir yn benaf, yn nghyd a chyfeiriad at ei wyrthiau ef a'i apostolion—*Ni elwir mwy y coeg-ddyn yn fonheddig*—Bydd y fath ddirnadaeth gywir am bob peth, fel na bydd i rinweddau fyned am ddrygau, na drygau gael eu camgymeryd am rinweddau; eithr golygir pobl yr hyn a fyddont. Dynion gwaelion sydd yn cael eu dyrchafu yn fynych dan bennaduriaid annuwiol, a'u moli gan weision gwenieithus; ond y fath rai a ddarostyngir ac a ddirmygir dan dywysogion duwiol. Fel hyn yr ydoedd i raddau yn ddïamheu dan deyrnasiad Hezeciah, ond cyflawnir y brophwydoliaeth yn fwy manol a sicr yn neiliaid teyrnas efengylaidd Crist, yn enwedig yn amser y diwygiad mawr sydd eto yn ol mewn addewid.

Adn. 9—14. Os cywir y golygiad a grybwyllwyd eisioes, mai teyrnasiad Hezeciah fel cysgod o deyrnas Crist a ragfynegid yn y rhan flaenorol o'r bennod, gellir penderfynu yn naturiol fod esgeulusiad yr Iuddewon o dderbyn addysg dan ei lywodraeth ef yn gysgod o wrthodiad y Messiah gan y genedl, a'r canlyniadau aethus o hyny. Gellid meddwl fod gwragedd Jerusalem yn nydd-

iau Esiah, yn hynod o wageddol, gwleddgar, afradus, a thryllyll: ac yn dra diystyr o wir grefydd. Gwel pen. 3. 16—26. Jer. 44. 15—25. Am hyny yr oedd y prophwyd yn eu cyfarch hwy yn neillduol, ac yn sicrhau iddynt fod llawer o ddyddiau, ïe, a blynyddoedd o drallodau yn eu haros hwy. SCOTT.

Adn. 15—20. Mae y cyssylltiad rhwng y rhan flaenorol o'r brophwydoliaeth hon a'r hyn sydd yn canlyn yma yn dra thywyll drwy unrhyw ddehongliad arall heblaw yr un a roddwyd uchod. Gallai fod yr ysbryd yn cael ei dywallt i gymhell yr Iuddewon i edifarhau a gweddïo am eu hadferiad o Babilon, cyn y waredigaeth hono; a thrwy ail adeiladiad Jerusalem, a'r adferiad a fu yno y pryd hyny, yr anialwch a ddaeth yn ddoldir, ac ymwrthodiad hollawl y genedl Iuddewig âg eilun-addoliaeth, a'u hymlyniad parhaus wrth addoliad yr Arglwydd, a all fod yn cael ei ddynodi trwy fod y doldir yn cael ei gyfrif yn goed tir; hyny yw, nid ydoedd agwedd crefydd ond gwael mewn cymhariaeth i'r hyn ydoedd wedi hyny. Ond ni ymddengys hyn mewn un modd yn gyfattebol â grymmusder yr iaith a ddefnyddir yma. Ni bu unrhyw annghyfanneddiad blaenorol ar Jerusalem neu Judah, yn aros hyd oni ddaeth tywalltiad nodedig yr Ysbryd o'r uchelder; ond y mae gwasgariad presenol ar yr Iuddewon, a Jerusalem i gael ei sathru gan y cenhedloedd, hyd oni bydd tywalltiad llawer mwy helaeth ar yr Ysbryd, nag a fu ar ddydd y Pentecost, neu pan alwyd y Cenhedloedd. Y pryd hyny y bydd yr anialwch yn ddoldir; ac nid ydyw agwedd yr eglwys hyd yn hyn, ond anialwch mewn cyferbyniad i'r amseroedd gogoneddus a ddaw. Rhuf. 11. 11—15. Mae y dehongliad hwn yn dra goddefol a naturiol, oblegyd na bu unrhyw ddygwyddiadau hyd yn hyn yn cyfatteb â'r hyn a arwyddir yn yr iaith a ddefnyddir yma; ac y mae yn cydfyned yn hollawl âg amryw brophwydoliaethau eraill a draddodwyd oddeutu yr un amser. Gwel pen. 44. 3—5. Ezec. 36. 25—27 a 37. 1—22. a 39. 21—29. a 48. 25. Joel 2. 28—32. a 3. 18—21. Zech. 12. 9—14. SCOTT.—*A gwaith cyfiawnder fydd heddwch.* Pan adfero yr Arglwydd ei bobl, a'u gwneuthur yn ddoldir ffrwythlawn yn lle anialwch, hwy a wnant gyfiawnder, ac a fwynhant heddwch, llwyddiant, a diogelwch. BOTHROYD.—*Gwyn eich byd y rhai a heuwch gerllaw pob dyfroedd, &c.* Mae y darluniad yma yn cyfatteb yn fanol i'r dull yr arferant blanu *rice*, canys y maent yn ei hau ar y dwfr, neu ar y ddaiar, tra fyddo yn lleidiawg ac yn wleb, wedi ei gorlifo gan ddwfr; a chyn hau, tra fyddo y ddaiar yn yr ansawdd uchod, byddant yn gyrru yr ychain, y meirch, a'r asynod drwy y tir i'w sathru, y rhai a suddant hyd hanner eu coesau bob cam, ac felly y'i parottoir i dderbyn yr had.

## PEN. XXXIII.

Adn. 1. *Gwae di anrheithiwr,* sef Senacherib, yr hwn heb un

achos, ond dirgymhelliad ei wanc a'i uchel gais, a yspeiliasai y cenhedloedd cymmydogaethol, ac a dorasai y cyfammod a wnaethai efe a Hezeciah, er ei fod wedi cymeryd ei holl drysorau ef yn iawn am heddwch.

Adn. 2. *Bydd fraich iddynt,* sef i'r rhai oll a ddysgwyliant wrthyt. SCOTT.

Adn. 3, 4. Mae y prophwyd yma eto fel pe cyfarchai Senacherib a'r Assyriaid, gan dystio y byddai i'r golud a gasglent, syrthio yn ysglyfaeth i eraill.

Adn. 7—9. Darluniad prydferth o'r cyfyngder a'r braw oedd wedi dal trigolion Jerusalem cyn eu gwaredigaeth rhag yr Assyriaid.

Adn. 14. Yma y mae Duw yn darlunio yr ofnau arswydus a oddiweddent annuwiolion yn yr amser enbyd hwn.

Adn. 15, 16. Yn yr adnodau hyn cyferbynir hyder a dïogelwch y duwiol âg ofnau yr annuwiol, a ddarluniasid yn yr adnodau blaenorol. Bydd y cyfryw un mor ddïogel a di ofn a phe byddai yn trigo o fewn rhyw graig anorfodawl.—*Ei fara a roddir iddo, a'i ddwfr fydd sicr.* Mae bara a dwfr weithiau yn arwyddocâu pob arlwyon angenrheidiol o bethau y bywyd hwn; ac weithiau, pob rhyw gysuron ysbrydol. MACULLOCH.

Adn. 17—19. *Y brenin yn ei degwch,* nid mewn sach-lïan fel galarwr, ond yn ei wisgoedd breninol, gwychion a gogoneddus.—*Gwelant y tir pell,* hyny yw, ni byddant mwyach wedi eu cyfyngu o fewn Jerusalem; ond wedi i'r gwarchae gael ei godi, a'r gelyn ei ddystrywio, gallont ymweled a'r rhan a fynont o'r tir; neu unrhyw wlad dramor.—*Pa le y mae yr ysgrifenydd.* Y swyddog a ysgrifenai enwau y rhai oeddynt i dalu y dreth.—*Y trysorwr,* oedd y swyddog pennodedig i gasglu y trethi.—*Rhifwr y tyrau,* tywysog y lluoedd gelynol; yr hwn a ystyriai amddiffynfeydd y ddinas. BOOTHROYD. Yr ystyr, debygid, yw, er fod y gelynion wedi cymeryd llawer o boen a thrafferth i barottoi erbyn yr ymosodiad a amcanent ar y ddinas, y byddai iddynt ddiflanu yn fuan o flaen cennad ddinystriol yr Arglwydd, fel na byddent mwy i ddychrynu preswylwyr Jerusalem. Neu, efallai mai swyddogion Hezeciah a olygid, y rhai a wnaethent barottoadau mawrion i wrthsefyll rhuthr gyrch y gelyn, ac ymosod arno; ond gwelid yn fuan nad hwy a'u dyfeisiau a roisai yr Arglwydd ar waith i ddinystrio gwersyll yr Assyriaid: ond angel cadarn, yr hwn a gyflawnai ei neges mewn noswaith heb gymmhorth neb o honynt.

Adn. 21. *Yn fangre afonydd a ffrydiau llydain.* Mae y gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth y dyfr-flosydd dyfnion a llydain a wnaed o amgylch dinasoedd amddiffynedig er eu dïogelu; ond er nad oedd Jerusalem yn cael ei chylchynu âg unrhyw afon fawr, megis Babilon, neu Ninefeh, addawai Duw fod yn amddiffyn digonol iddi, â'i bresenoldeb Hollalluog.

Adn. 23, 24. Yr oedd y crybwylliad a wnaethai y prophwyd o'r blaen am longau cedyrn, yn ei arwain i ddarlunio dinystr byddin yr Assyriaid fel dryllіad llong mewn tymhestl, yr hon a deflid ar draeth gelyniaethus, a'i llwyth yn dyfod yn yspail i'r trigolion; heb fod neb o'i berchenogion wedi eu gadael i'w amddiffyn, fel yr oedd, hyd yn nod y cloff yn gallu cymeryd rhyw ran o'r anrhaith; ac heb fod afiechyd yn lluddias y bobl yn gyffredinol i ddyfod i gyfrannogi o'r yspail.—*Ni ddywed y preswylydd Claf ydwyf*, ni bydd ol nychdod y gwarchae ar neb o'r preswylwyr, ond pawb a annghofiant eu cystuddiau, ac a drigant mewn heddwch.

## PEN. XXXIV.

Adn. 1. *Neshewch genhedloedd*, &c. Mae y testyn o'r fath ddyddordeb, fel y mae y prophwyd yn galw gylw holl ddynolryw atto. Mae y bennod hon a'r un ganlynol yn gwneyd i fynu un brophwydoliaeth; y rhan gyntaf yn cynnwys bygythiad o farnau Duw ar elynion ei bobl; a'r ail ran yn cynnwys darluniad o gyflwr blodeuog yr eglwys mewn canlyniad i gyflawniad o'r barnau hyny. Crybwyllir Edom yn neillduol yn mysg y gelynion oeddynt i gael eu dyfetha; prif drosedd y rhai oedd dirmygu yr Iuddewon yn eu cyfyngder, ac ymuno a'u gelynion, y Caldeaid, i'w herbyn. Gwel Sal. 137. 7. Ezec. 25. 12. a 35 15. Am. 1. 11. Gan hyny, nyni a welsom i'r Edomiaid, yn nghyd a'r cenhedloedd cymmydogawl eraill, gael eu hanrheithio gan Nebuchodonosor. Gwel Jer. 25. 15—26. Mal. 1. 3, 4. LOWTH.

Adn. 2. *Difrododd hwynt*, neu dïofrydodd hwynt fel aberth i'r allor; yr oedd y gwaed a'r brasder yn eiddo neillduedig i'r Arglwydd, Lef 7. Ezec. 39. 16. Mae efe yn ymddangos trwy yr holl ddarluniad fel yr archoffeiriad cystal a'r buddugoliaethwr, yn amddiffyn ei gyfiawnder ac achos ei bobl, trwy wneuthur Edom yn aberth. DAVIDSON.

Adn. 3. *A fwrir allan*, gan eu gadael heb eu claddu, yr hyn a ystyrid gan yr hen genhedloedd gynt yn un o'r anfodiau trymaf.

Adn. 4. *Holl lu y nefoedd*, rhai mewn sefyllfeydd goruchel, megis brenhinoedd, tywysogion, a rhai ehang eu hawdurdod.—*A'r nefoedd a blygir fel llyfr.* Mae yr ymadrodd yn dynodi llwyr ddifodiad cyfundrefn wladychawl y freniniaeth. Efallai fod y rhagddywediadau hyn wedi eu cyflawni mewn rhan yn yr anrheithiau a achlysurwyd gan yr Assyriaid, y Caldeaid, y Macedoniaid, a'r Rhufeiniaid; ond nid oedd un cyssylltiad rhwng y dygwyddiadau hyny a'r lledaeniad gogoneddus ar yr achos crefyddol y rhag fynegir am dano nesaf; ac nid ydyw yn ymddangos eu bod yn cyfatteb i'r fath ddarlun arswydus. Gan hyny, gellir golygu Edom fel enwad cyffredinol, a ddefnyddir i ddynodi yr holl genhedloedd gelynol i eglwys Dduw, ac am deyrnas

Annghrist yn mhob ffurf. SCOTT. Mae yr ysgrifenwyr Iuddewig yn gyffredinol yn tybied fod Edom yn ysgrifeniadau y prophwydi yn myned am Rufain. LOWTH.

Adn. 9, 10. Mae yn debyg fod yma gyfeiriad at y dull ofnadwy drwy yr hwn y dinystriwyd dinasoedd y gwastadedd: cymh. Dat. 14. 10. a 20. 2, 3.—*Ni bydd cynniweirydd drwyddi byth bythoedd.* Ceisiodd lluaws o deithwyr diweddar gynniwair drwy Idumea, ond yn llwyr ofer; canys y mae eiddigedd y llwythi Arabaidd mor fawr, fel mai prin y gall y sawl a anturio cân belled, obeithio gallu dïanc a'i fywyd yn ysglyfaeth ganddo; ac ni's gellir cael arweinyddion am unrhyw arian. Llwyddodd y Cadbeniaid Irby a Mangles, wedi symmud mynyddau o rwystrau, i gael golwg ar adfeilion yr hen brif ddinas, ond ni's gallent mewn un modd dreiddio yn mlaen drwy Idumea.

Adn. 11. Yn yr adnod hon darlunir ei llwyr annghyfanedd-dra. Y *pelican* a'r *draenog*, a fynychant leoedd annghyfanneddol; y *ddylluan*, hen adfeilion; a'r *gigfran* a wledda ar ysgerbydau meirw.

Adn. 16. *Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd;* hyny yw, Ystyriwch y brophwydoliaeth, a chydmerwch hi â'r canlyniad, a chwi a gewch weled fod pob rhan o honi wedi ei chyflawni yn fanol. Yr Arglwydd a ofala am fod yr holl grëaduriaid a nodwyd o'r blaen, yn lluosogi yn ddi rwystr yn y lle a bennodwyd iddynt.

## PEN. XXXV.

Adn. 1, 2. *Yr anialwch a'r annghyfanneddle a lawenychant o'u plegid.* Mae y bennod hon yn cynnwys darluniad o gyflwr blodeuog eglwys Dduw mewn canlyniad i gyflawniad y barnedigaethau a ragfynegid o'r blaen. LOWTH. Cymhwysid amryw o ymadroddion cynnwysedig yn y bennod hon, at amserau yr efengyl, gwel Matt. 11 3—5. Wrth yr anialwch y golygir yr eglwys, gwel Dat. 12. 14.

Adn. 3, 4. *Cadarnhewch y dwylaw llesg.* Yma cyferchir gweinidogion crefyddol, neu ddysgawdwyr Israel, gan eu hannog i gysuro a chalonogi pobl Dduw y rhai ydynt yn barod i lesgau, trwy eu sicrhau o'r iachawdwriaeth a weithredir erddynt.

Adn. 5. *Yna yr agorir llygaid y deillion.* Mae ein Iachawdwr ei hun yn apelio at y brophwydoliaeth yma, fel wedi ei chyflawni yn llythrenawl ganddo ef, Matt. 11 2—5. Eto, fe allai y geiriau fod yn golygu cyflawniad helaethach eto, symmudiad pob rhyw ddallineb a rhagfarn.

Adn. 6. *Yna y llamma y cloff*, a ddynoda y byddai i'r eglwys a'i haelodau adnewyddu eu nerth. *Prieb.* LOWTH. Arwydda fywiogrwydd yn y cyflawniad o ddyledswyddau ysbrydol. DUMBARTON. Marc 7. 37 —*Canys dygroedd a dyrr allan*, arwydd-lun o'r gweinyddiad helaeth o ddylanwadau Dwyfol. MACCULLOCH, W. LOWTH.

Adn. 7. *Y crasdir*. Mae y gair gwreiddiol yn arwyddo gwastadedd tywodog, y rhai o bell a ymddangosant mewn gwledydd poethion fel llynnoedd o ddwfr, yr hyn weithiau a ddena y teithydd sychedig i gilio o'r llwybr cywir i'w ddinystr.

Adn 8. *Yna y bydd prif-ffordd, &c.* Mae symmudiad pob rhwystrau o ffordd dychweliad pobl Dduw yn cael ei ddynodi mewn lle arall trwy y gyffelybiaeth o barottoi ffordd yr Arglwydd, pen. 40. 3, gwel hefyd pen. 42. 16. Mae yn dra thebyg fod hyn yn golygu adferiad yr Iuddewon yn yr amseroedd diweddaf, er y gallai fod y brophwydoliaeth yn cyfeirio yn y lle cyntaf at y dychweliad o Babilon, fel cysgod o hyny.—*A ffordd sanctaidd y gelwir hi*, fe'i llenwir âg ymdeithwyr sanctaidd tua Sion, gwel pen. 2, Mica 4. SUTCLIFFE.

Adn. 9. *Ni bydd yno lew*, yr oedd bwystfilod rheibus yn mynychu yr anialwch oedd rhwng Babilon a Judea; ond y mae y prophwyd yn sicrhau gwaredigion yr Arglwydd, y byddent hwy yn berffaith ddïogel yn ffordd sancteiddrwydd. BOOTHROYD.

Adn. 10. *A ddychwelant ac a ddeuant i Sïon â chaniadau.* Cyfeiriad at ddull yr Iuddewon yn myned i fynu i Jerusalem ar eu huchel-wyliau.—*A llawenydd tragywyddol ar eu pennau.* Ymadrodd yn cyfeirio at y goron flodau a wisgid ar achlysuron o lawenydd cyhoeddus, fel nodau o anrhydedd ac urddas. MACCULLOCH, LOWTH.

## PEN. XXXVI.

Nyni a gawn yr hanes a gynnwysir yn y bennod hon a'r tair ganlynol yn 2 Bren. pen. 18, 19, 20. Nid oes un gwahaniaeth o bwys rhwng yr hanes yma ag yno, o ganlyniad cyfeirir y darllenydd i ymofyn am y sylwadau angenrheidiol yn llyfr y Brenhinoedd. Meddylia rhai mae y prif reswm am gyfleu y crynodeb yma o'r hanes yn y fan hon, yw ei bod yn fanteisiol i fwrw golau ar amryw o brophwydoliaethau Esaiah; ond, efallai mai y rheswm cryfaf, yn hytrach yw, am mai Esaiah a ysgrifenasai yr hanes yn gyntaf. Gallwn sylwi gyda phrïodoldeb ar y gwahaniaeth mawr sydd yma rhwng nodweddiad Hezeciah a'r eiddo Senacherib. Yr olaf a fostiai ac a fygythiai heb unrhyw ystyriaeth; y llall a fawrygai yr Arglwydd, ac a ymddiriedai yn ei nodded ef yn nghanol y peryglon a'i bygythiai. Ac yr oedd y gweision yn gwahaniaethu yn eu nodweddiad lawn cymmaint a'u meistri; a'u diwedd a fu yn gyfattebol i'w hymddygiadau; yr Assyriaid a ddarostyngwyd ac a ddyfethwyd; ond yr Iuddewon a ddyrchafwyd ac a fendithiwyd.

## PEN. XXXVII.

Adn. 4. *Dros y gweddill sydd i'w gael.* Gelwir llwyth Juda yn weddill, oblegid fod y rhan fwyaf o had Abraham, deg llwyth Israel, wedi eu caethgludo eisioes.

Adn. 25. *A gwadnau fy nhraed hefyd y sychais holl afonydd y gwarchäedig.* Amddiffynniad pennaf prif ddinasoedd yr Aipht, lle y cyflawnasai y buddugoliaethwr bostfawr ei orchestion diweddaf, oedd dyfr ffosydd dyfnion, neu lynnoedd mawrion, wedi eu gwneyd drwy lafur a chelfyddyd, â'r rhai y'u hamgylchid.

Adn. 29. *Rhoddaf fy mach yn dy ffroen di.* Yn gyffelyb i'r modd yr arferwn ni yn y dyddiau hyn roddi modrwy yn ffroen yr arth, yr ych gwyllt, neu anifeiliaid gwylltion eraill, i'w llywodraethu a'u harwain pan fyddont yn aflywodraethus. LOWTH.

Adn. 30—32. Yr arwydd a roddid i Hezeciah oedd bendith bresenol, ac un mewn addewid i'w dysgwyl mewn amser dyfodol. Y gyntaf oedd gynnwysedig mewn llwyddiant gwladol yn amser Hezeciah; a'r ail oedd, y byddai i weddill tŷ Judah gynnyddu fel pren mawr a chadarn, yr hwn a allai feiddio gwaethaf pob ystorm. Dylem sylwi yma, nad yw yr addewid hon yn cynnwys yr holl weddill o Israel a grybwyllir yn adn. 4, ond *gweddill o dŷ Judah*, ymadrodd sydd yn dynodi y rhai y ffurfid cyff yr eglwys Gristionogol o honynt yn gyffredin. Gwel pen. 6 13. a 11. 11. Mic. 5. 7, 8.

Adn. 36. Cymerodd yr amgylchiad arswydus yma le yn y nos, 2 Bren. 19. 35: yr hyn a'i gwnelai yn fwy ofnadwy fyth i'r Assyriaid os oedd bossibl. Mae Hosea yn rhagfynegi am y waredigaeth hon yn eglur, pen. 1. 7.

## PEN. XXXVIII.

Adn. 2. *Yna Hezeciah a droes ei wyneb at y pared.* Congl yr ystafell, a ystyrir y lle mwyaf anrhydeddus yn mysg yr Arabiaid. Dylem olygu gorweddfa Hezeciah wedi ei osod ar un o'r ddwy ochr i gongl yr ystafell fel hyn; a'i fod yntau ar dderbyniad y gennadwri ddifrif hon wedi troi ar ei orweddfa, a'i wyneb at y pared; er mwyn ymneillduaeth oddiwrth bawb oedd yn yr ystafell, i dywallt ei weddi ger bron Duw am waredigaeth.

Adn. 8. *Felly yr haul a ddychwelodd.* Wrth ddarllen hanes y wyrth hon yn 2 Bren. 20. 9—11, ni's cawn un crybwylliad am yr haul; ond yn unig am ddychweliad y cysgod, yr hyn a allai gael ei achosi drwy wrthdoriad (*refraction*) goruwch naturiol ar y pelydrau.

Adn. 9—12. Nid yw y gân hon o eiddo Hezeciah i'w chael yn llyfr y Brenhinoedd. Mae yn dra thebyg iddo ei chyfansoddi ar ei adferiad o'i anhwyldeb, fel tystiolaeth o'i ddiolchgarwch i Dduw am ei ddaioni tuag atto.—*Yn nhoriad fy nyddiau:* neu yn nghanol fy nyddiau, fel y darllenir mewn llawer o gyfieithiadau. Meddylir nad oedd Hezeciah yn llawn deugain mlwydd oed y pryd hyn.—*Torrais ymaith fy hoedl megis gwehydd;* neu, "Torrir ymaith fy hoedl fel y tyr gwehydd ei wê ymaith oddiwrth yr eddi; yn nghorph y diwrnod y gwnei ben am danaf." BOOTHROYD.

Adn. 14, 15. *Esmwytha arnaf*, neu, "Cymmer fy achos i'th

law," fel mechnïydd yn cymeryd achos dyledwr i'w ryddhau o'i gaethiwed.—*Beth a ddywedaf.* Yr oedd ei waredigaeth mor ddisymmwth, fel yr oedd efe megis un wedi ei or-lethu gan syndod, ac heb allu cael geiriau i draethu ei ddiolchgarwch. W. LOWTH. —*Mi a gerddaf yn araf.* "Mi a adfyfyriaf ar fy chwerwder enaid yma; weddill fy mlynyddoedd." LOWTH. Neu, "Myfi a af i'w dŷ fy holl flyneddoedd, ar gyfrif fy chwerwder enaid yma." BOOTHR.

Adn. 16. *Trwy y pethau hyn yr ydys yn byw, &c.* Neu, "Ië, O Arglwydd, cyhoeddir hyn am danat, mai tydi a fywhaodd fy ysbryd." BOOTHROYD. Mae yn debyg mai yr ystyr yw, fod trallodau o'r fath yma yn fendithiol i ddwyn dynion i afael ar wir fywyd a goleuni enaid. STOCK.

Adn. 17. *Wele, yn lle heddwch i mi chwerwder, &c.* Neu, "Wele, fy ngofid chwerw, a gyfnewidiwyd yn heddwch." LOWTH, BOOTHROYD.

## PEN. XXXIX.

Adn. 1. *Merodach*, ydoedd enw un o'r eilunod a addolid gan y Babiloniaid, a Baal, neu Bel ydoedd un arall, Jer. l. 2, a'r ddau hyn, yn nghyd ag ychwanegiad y gair Adan, neu Adon, yr hyn sydd yn arwyddo Arglwydd, oedd yn gwneyd i fynu enw y brenin hwn ar Babilon. Yr ydoedd breninoedd Babilon yn arfer cymeryd eu henwau oddiwrth yr eilunod a addolent. Gwelwn fod un o honynt yn cael ei alw Efil-merodach, 2 Bren. 25. 27. Neba ydoedd yn eilun arall gan y Babiloniaid, oddiwrth yr hwn yr oedd Nebonassar, Nebuchodonosor, ac amryw eraill o freninoedd Babilon yn cael eu henwau. Un achlysur o anfon y gennadwriaeth hon oedd er mwyn cael hysbysiaeth foddhäol am y rhyfeddod o fod yr haul wedi dychwelyd yn ol ar adferiad Hezeciah, 2 Cron. 31. 31. Yr oedd y Babiloniaid yn enwog am fyfyrio seryddiaeth, yr hyn oedd yr achos i'w brenin fod yn fwy ymofyngar yn nghylch y fath ymddangosiad annghyffredinol. LOWTH, SCOTT.

## PEN. XL.

Adn. 1. *Cysurwch, cysurwch fy mhobl.* Mae yn dra thebyg i'r gyfres o brophwydoliaethau sydd oddiyma hyd ddiwedd y llyfr hwn, gael eu traddodi yn y rhan olaf o deyrnasiad Hezeciah. Gan fod testyn ei brophwydoliaethau canlynol i fod yn benaf i ddyddanu, y mae efe yn dechreu arnynt trwy addewid o adferiad y deyrnas, a dychweliad y bobl o'u caethiwed drwy gyfryngiad grasol yr Arglwydd o'u plaid. Ond ni chyfyngid golygiadau y prophwyd i'r dygwyddiad hwnw, fel yr oedd adferiad y teulu breninol a llwyth Judah, yn angenrheidiol yn niben rhagluniaeth, er cyflawni addewidion Duw i godi i fynu deyrnas fwy gogoneddus a thragywyddol o dan y Messiah, yr hwn oedd i gael ei eni o lwyth Judah, a theulu Dafydd, mae y prophwyd yn cyssylltu y

ddau ddygwyddiad hyn yn nghyd, ac nid ydyw efe braidd byth yn ymdrin â'r blaenaf, heb daflu rhyw olygiadau ar yr olaf: ac yr oedd efe ar rai prydiau yn cael ei feddiannu mor gyflawn âg ystyriaethau am ogoniant dyfodol y deyrnas oedd i ymddangos, fel y gellir meddwl ei fod yn gadael testyn union-gyrchol ei gennadwri braidd yn hollawl. LOWTH.

Adn. 2. *Gyflawni ei milwriaeth.* Cydmerir unrhyw gaethiwed, neu wasanaeth caled, yn yr Ysgrythyr i filwriaeth. 2 Tim. 2. 3, 4. Mae yr ymadrodd yn cyfeirio at y gollyngdod a roddir i filwyr wedi iddynt fod am ysbaid o flyneddoedd mewn gwasanaeth, Job 7. 1. LOWTH.—*Derbyniodd—yn ddau ddyblyg am ei phechodau.* Neu, "Derbyniodd o law yr Arglwydd fesur cyflawn o gosbedigaeth am ei holl bechodau." BOOTHROYD. Yr hwn a sylwa ar y lle, mai ystyr y geiryn gwreiddiol yw, bod Duw wedi cosbi ei bobl i'r cyfryw raddau ar a fyddai yn ddigonol i gyflawni ei amcanion ef.

Adn. 3—5. *Llef un yn llefain yn yr anialwch.* Mae y golygddrych a gynnwysir yn y geiriau hyn wedi ei gymeryd oddiwrth ddull y pennaduriaid dwyreiniol, pan fyddent yn myned trwy wledydd anial, yn anfon cenhadon o'u blaen i barottoi pethau iddynt, a chloddwyr i dorri ffyrdd trwy fynyddoedd anhygyrch, i wneyd pontydd tros afonydd, a chodi ffyrdd drwy ddyffrynoedd isel a chorsydd, er mwyn gwastadhau a rhwyddhau eu mynedfa hyd ag y gellid. Er mai y dychweliad o Babilon a olygid yn gyntaf yn y brophwydoliaeth, cymhwysir hi mewn modd arbenig at Ioan Fedyddiwr. Matt. 3.3. Ioan 1. 23. LOWTH, MACCULLOCH. —*A gogoniant yr Arglwydd a ddatguddir.* Ei allu, ei drugaredd, a'i ffyddlondeb gogoneddus a ddatguddiwyd mewn modd neillduol yn nychweliad yr Iuddewon o gaethiwed Babilon: ond, y mae yn debyg fod yma gyfeiriad yn bennaf at ymddangosiad Crist, dysgleirdeb ei ogoniant ef, neu y gwaith rhyfeddol o brynedigaeth dyn, yn yr hyn y gwnaed yr amlygiad gogoneddusaf o'r prïodoliaethau Dwyfol. JACKSON.—*A phob cnawd yn nghyd a'i gwel;* sef pob rhyw genedl, yr Iuddewon a'r cenhedloedd. POOLE.

Adn. 6—8. Gwel y darllenydd eglurâad ar y cyhoeddiad hwn yn 1 Pedr 1. 24, 25. Ymffrostiai yr Iuddewon yn eu rhagoriaethau; ystyrient eu hunain fel cenedl yn anwyliaid y nef; ond buan y caent weled eu ffolineb; gwywasant fel blodeuyn y maes o flaen ystorm ddïaleddol y Goruchaf; ac ni ffynnai eu gwrthwynebiad i Grist mwy nac ysgydwad blodeuyn gan dymhestl, yr hyn a bair ei ddystryw ei hunan. Yr efengyl, yn yr hon y cyhoeddid ei ogoniant ef a orfyddai yn mhob gwlad, gan weinyddu gwynfydedigrwydd i bob rhyw genedl. DAVIDSON.

Adn. 10. Yn y geiriau hyn mae yr Arglwydd yn cael ei ddarlunio fel brenin buddugoliaethus a galluog, yn dyfod i galonogi a gwobrwyo ei bobl.

Adn. 11 *Ac a goledda y mammogiaid,* neu, "ac a arwain y mammogiaid gyda thynerwch; cyfeiriad prydferth a thra phrïodol at ddull gofalus a thyner bugail am ei braidd, er dynodi sylw a gofal Duw am ei bobl. Gwel Gen. 33. 13, 14. a Ioan 10. 11.

Adn. 12—17. Yn yr adnodau hyn y mae y Prophwyd yn darlunio mawredd doethineb gallu, a gogoniant Duw, mor dra rhagorol, fel nad ydyw pob crëadur ond megys dyddim mewn cydmariaeth iddo ef. BOOTHROYD.

Adn. 18—26. Mae yn anmhossibl cael ymadroddion digon grymmus mewn unrhyw iaith, i ddynodi i berffeithrwydd anwybodaeth a ffolineb yr eilun-addolwr, yr hwn a fawryga gelfyddyd ddynol, ac a ddirmyga anfeidrol ddoethineb y Crëydd gogoneddus; yr hwn a ymddirieda mewn pethau darfodedig, ac a ymwrthoda â'r Duw oll ddigonol, y Barnwr goruchaf, a Chynhalydd tragywyddol pob peth oll.—*Ni phalla un;* neu, nid a un o honynt ar gyfeiliorni; ond cedwir pob un yn ei le a'i gylch prïodol. DAVIDSON.

Adn 27—29. Gwrthwynebir digalondid ac anymddiried yn Nuw dan brofedigaethau yma, trwy y rhesymau cryfaf, sef doethineb, gallu, ac annewidioldeb Duw.—*A'm barn a aeth heibio i'm Duw,* hyny yw, "Ac nid yw Duw yn cymeryd un sylw o'n hachos."

Adn. 30, 31. Cyfran gyffredin y milwyr glewaf, a ddilynant y llywyddion medrusaf, a'r tywysogion galluocaf, yw eu bod yn cael eu lluchio fel peiswyn o flaen tymhestl; ond y mae yr Arglwydd yn sicr o gynnal ei weision a ymddiriedant ynddo ef. Fel yr eryr, derbyniant nerth yn ol eu dydd. Yr oedd yr henafiad yn gyffredin o'r farn fod yr eryr nid yn unig yn parhau yn ei fywiogrwydd am oes faith; ond hefyd ei fod yn cael gwisg o blu newyddion yn ei henaint, a chyda hwy, yn adnewyddu ei ieuenctyd; Salm 102. 5. Nid yw o gymmaint o bwys i ni i ymofyn yma pa un a yw y golygiad yma yn gywir neu beidio; digon i fardd ysbrydoledig neu gyffredin yw, cael awdurdod tyb boblogaidd er cyfnerthiad i gyffelybiaeth a ddefnyddir ganddo er eglurhad neu addurn. LOWTH, &c.

## PEN. XLI.

Adn. 2. *A gyfododd y cyfiawn o'r dwyrain;* un a wn gyfiawnder a'r gorthrymwyr, ac a waredai y gorthrymmedig. Cyrus a olygir. BOOTHROYD. Mae y prophwyd yn galw Cyrus wrth ei enw yn pen. 44. a 45; ac yn y naill bennod efe a elwir yn fugail yr Arglwydd, ac yn y llall efe a elwir ei eneiniog ef. LOWTH, GATAKER, DR. J. SMITH, &c. Ond y mae amryw Esbonwyr tra chymeradwy o'r farn y cyduna y nodweddiad a roddir yma yn well âg Abraham: yr hwn a alwyd o'r dwyrain, a had yr hwn a ddygwyd i mewn i dir Canaan er dystryw i'r eilun-addolwyr. JACKSON, HENRY, SCOTT, *Esgob* LOWTH, DAVIDSON, &c.

Adn. 14. *Nac ofna di bryf Jacob.* Yr oedd yr Iuddewon yn dra dirmygedig yn ngolwg y cenhedloedd; ac yr oedd y gweddill a achubwyd yn eu mysg, y rhai a ddefnyddiwyd gan Grist i ledaenu ei efengyl, yn neillduol felly: ond trwy gadarn allu Duw hwy a lwyddasant yn eu gwaith, ac a orfodasant bob gwrthwynebiad oddiwrth wŷr mawr y byd. DAVIDSON. Mynyddoedd a bryniau ydynt gyffelybiaethau arferedig gan y beirdd Hebreaidd i ddarlunio y goludog a'r galluog. Gwel pen. 28. 23—29.

Adn. 17—19. Efallai fod y prophwyd yn y cyffelybiaethau hyn yn rhagfynegi gwaredigaeth yr Iuddewon o'r caethiwed, yr hyn oedd mor ryfedd a phe gwnaethid diffaethwch diffrwyth yn dir o'r fath ffrwythlonaf. Ond y mae yn hysbys i ddarllenwyr yr Ysgrythyrau fod y cyffelybiaethau godidog a ddefnyddir yn yr adnodau hyn wedi eu cyssegru gan y prophwydi i ddynodi dylanwadau yr Ysbryd, a'u heffeithiau dedwydd er adnewyddu calonau a bucheddau dynion. A bod y dylanwadau hyn yn dilyn gweinidogaeth Crist a'i ganlynwyr, a brofai yn ddiwad fod Duw gyda hwy: gwel pen. 35. Efe a ddoniai ei bobl â hwy mewn attebiad i'w gweddïau. Mae yr adnewyddiad moesol a gynnyrchir trwy yr efengyl, yn profi fod Duw yn gweithredu drwyddi mor amlwg ag y i profasid trwy gyfnewidiad trwyadl ar wyneb natur; megys arllwysiad afonydd cryfion o'r graig, neu lanw wyneb gwastadoedd tywodog poethion Arabia, yn ddisymmwth a'r prenau mwyaf dewisol. Ni thyfai y myrtwydd a'r prenau eraill a grybwyllir yma, ond yn y tiroedd a ddyfrheid yn dda. DAVIDSON, &c.

Adn. 25. *Cyfodais un o'r gogledd.* Meddylir yn gyffredin mai Cyrus oedd yr un hwn, yr hwn o du ei dad oedd Bersiad, ac yr oedd Persia yn gorwedd i'r dwyrain o Babilon; ond Mediad ydoedd o du ei fam, ac yr oedd Media yn gorwedd i'r gogledd. BOOTHROYD.—Nid oes genym un prawf penderfynol fod Cyrus wedi dyfod yn wir addolwr yr Arglwydd, yr hyn a olygir wrth "alw ar ei enw ef;" ond nyni a wyddom fod yr iaith yn eithaf cywir am y Messiah. Cymh. Ezec. 43 1, 2. DAVIDSON.

Adn. 27. *Y cyntaf a ddywed wrth Sïon:* neu, "Myfi a ddywedais yn gyntaf wrth Sion." BOOTHROYD. Mae Duw yma yn cael ei ddarlunio fel pe honnai iddo ei hun yn hollawl yr hawl, a'r modd i ragweled, a rhagfynegi yr hyn a fydd ar ol hyn; ac yn yr adnodau nesaf y mae y prophwyd yn llefaru fel un a edrychai yn ofer am y cyfryw beth oddiwrth eilunod. BOOTHROYD.

## PEN. XLII.

Adn. 1—4. Darlunir yr iachawdwriaeth fawr yn dra gogoneddus yn y bennod hon, a darlunir y Messiah heb un len alegori drosto: gwel Matt. 12. 18—21.—*Ni ddryllia gorsen yssig.* Y mae efe yn dyner iawn at y rhai drylliedig o galon, y rhai y mae profedigaethau a chystuddiau yn eu darostwng fel corsen yssig; ni's

dryllia efe hwy mewn un modd, ond efe a gefnoga y dechreuad cyntaf o ddymuniad sanctaidd mewn dysgybl ieuanc, ac a adfywia y wreichionen a fyddo braidd wedi diffoddi yn y credadyn gwrthgiliedig, er nad yw ond fel mwg oddiwrth gallod llin, pan na byddo yn torri allan yn fflammau; ac efe a ddwg allan farn pob dyn mewn perffaith gyd gordiad â'i achos a'i nodweddiad. SCOTT.—*Yr ynysoedd hefyd.* Mae y geiryn Hebraeg yn arwyddo gwledydd y cenhedloedd yn gyffredinol, pa un bynnag a fyddent hwy yn gylchynedig gan fôr ai peidio. COBBIN.

Adn. 6. *Ymaflaf yn dy law;* hyny yw, cynhaliaf di yn mhob cyfyngder.—*A rhoddaf di yn gyfammod pobl:* neu, "yn gadarnhawr cyfammod pobl." BOOTHROYD. Dylid cyfieithu y gair *cyfammod* yma yn "aberth cyfammod," medd DR. A. CLARKE.

Adn. 7. *I agoryd llygaid deillion, &c.* Yma darlunir y waredigaeth ysbrydol oddiwrth gyffelybiaethau wedi eu benthyca oddi wrth waredigaeth dymhorol. Meddyliodd rhai ysgrifenwyr fod yma gyfeiriad at yr arferiad ofnadwy a ffynnai mewn rhai o'r gwledydd dwyreiniol yn yr hen amser, o dynnu llygaid y carcharorion gwladol. Ond fe roddes Crist y gwaredigaethau a ddarlunir yma yn llythyrenol i laweroedd; ac iachäai pan yma yn y cnawd, anhwylderau y corph, i ddangos ei allu a'i ras i achub yr enaid.

Adn. 10—12. *Cenwch i'r Arglwydd.* Galwai y prophwyd ar bob cenedl, pell ac agos, i foliannu yr Arglwydd am ei fawr drugaredd yn rhoddi datguddiad o'r fath Waredwr i'r byd. Yn mysg y rhai hyn, efe a grybwyllai yr Arabiaid a gyfanneddent Edom fynyddig, a rhan o Arabia garegog.

Adn. 13—17. Mae yr Arglwydd yn y geiriau hyn yn datgan ei benderfyniad i fuddugoliaethu ar ei holl elynion; y rhai onid ymostyngant i'w drugaredd, a ddystrywir dan ei farnedigaethau. Rhaid i bob gradd deimlo ei allu neu ei ras, y mynyddoedd uchel, a'r llysiau tyneraf; mor ofer fydd iddynt geisio ei wrthwynebu ef a'i bobl, ag oedd i'r Aiphtiaid gynt geisio gwrthwynebu mynediad Israel trwy y Mor Coch.

Adn. 18—25. Cyfieithia LOWTH adn. 19, fel y canlyn.

"Pwy sydd ddall ond fy ngwas,
A byddar fel yr hwn yr anfonais fy nghenad atto?
Pwy sydd ddall fel yr hwn a ddysgwyd yn berffaith;
A byddar fel gwas yr Arglwydd?"

Mae yn debyg mai darluniad prophwydoliaethol yw y geiriau hyn o'r bobl Iuddewig ar amser ymddangosiad Crist, ac o'r gosbedigaeth a roddwyd arnynt am eu hannghrediniaeth. Hwy a ddiystyrasant y prawf cyflawn a roddes efe o'i ddwyfol anfoniad, a ffieiddiasant y geiriau grasol a lefarodd efe, a'r gweithredoedd trugarog a gyflawnodd; canys yr oeddynt wedi eu llanw o falchder a hunan-gyfiawnder. Ond yr oedd ef a'i waith wrth fodd

Duw; ac efe a'i dyrchafodd i'r anrhydedd uchelaf, ac a dywalltodd ei lid ar ei elynion. Gan hyny gochelwn ninnau wrthod Eneiniog Duw. Meddylia rhai mai y dysgawdwyr Iuddewig a ddarlunir trwy *was* yr Arglwydd yn adn. 19, y rhai a ddylasent fod wedi eu dysgu yn berffaith, neu a feddylient am danynt eu hunain eu bod felly; gwel Rhuf. 2. 17—24. Eraill a farnant mai y Messiah a olygid wrth y darluniad, am yr hwn mae yn amlwg y llefarir yn adn. 21. Yr oedd efe yn ddall a byddar i waradwyddiadau a chableddau ei elynion drygionus; gwel Sal. 38. 13, 14, lle y gwneir defnydd o'r unrhyw gyffelybiaethau i'r un perwyl. DAVIDSON.

## PEN. XLIII.

Adn. 3, 4. Mae y geiriau hyn yn arwyddo fod Duw yn fynych yn gwaredu ei bobl ar draul cenhedloedd eraill, y rhai a ddyru i ddystryw yn eu lle hwy mewn ystyr. Pan oedd Senacherib bron yn barod i ddisgyn ar Jerusalem, tueddwyd ei feddwl ef yn rhagluniaethol oddiwrth yr amcan hwnw, ac efe a drodd ei arfau yn erbyn yr Aiphtiaid, a'u cyngrheirwyr yr Ethiopiaid, pen. 20, a 37. 9. Oni ddarostyngodd Cyrus hefyd y cenhedloedd hyn, ac oni allasent hwy fod yn cael eu rhoddi iddo am ryddhau yr Iuddewon? Gellid casglu hyny oddiwrth pen. 45. 13, 14. Dywedir yn yr Ysgrythyrau, fod cenedl neu berson yn cael ei roddi yn iawn dros arall, pan drwy ddïoddef unrhyw beth yn wirfoddol neu yn orfodol, y byddo yn achlysur i arall gael peidio dïoddef; gwel Diar. 21. 18. Cyn y bydd i'r Eglwys Gristionogol feddu awdurdod gyffredinol ar yr holl genhedloedd, bydd yn rhaid chwyldroi, a llwyr ddymchwelyd yr holl alluoedd gwrthgristaidd.

Adn. 8. *Y bobl ddall, sydd a llygaid iddynt, &c.* Sef y cenhedloedd eilun-addolgar, y rhai ydynt mor ddeillion am wir wrthddrych addoliad, ac am natur gwir addoliad, ag yw y delwau meirwon a addolir ganddynt.—*Pwy yn eu mysg a fynega hyn?* Pwy yn mysg yr eilun-dduwiau, neu y cenhedloedd eilun-addolgar, trwy ddatguddiad oddiwrth eu duwiau, a allent ragfynegi y waredigaeth o Babilon, a'r prynedigaeth trwy Grist. JACKSON.

Adn. 10. *Fy nhystion I ydych chwi medd yr Arglwydd;* hyny yw, tystion o'i Ddwyfoldeb, yr hyn a amlygasid trwy ei ragwybodaeth, ei allu, a'i ras, yn ngwaredigaeth ei bobl. BOOTHROYD.

Adn. 13. *Cyn bod dydd yr wyf fi*; hyny yw, cyn bod amser.

Adn. 14—17. *A'r Caldeaid, sydd a'u bloedd mewn llongau.* Yr oedd sefyllfa Babilon yn dra manteisiol i lwyddiant masnachol, a gallu morawl yn nyddiau Esaiah; gan ei bod yn agored i'r Culfor Persiaidd trwy yr Euphrates, yr hon oedd yn fordwyol i lestri mawrion; ac â'r hon y cydid y Tigris o'r tu uchaf i Babilon, trwy ddyfr-ffos a elwid Naharmalca, neu yr Afon Freninol, trwy yr hyn y cyflenwid y ddinas â chynnyrchion yr holl wlad ar y tu gogledd-

ol iddi can belled a'r Mor du, a'r Mor gwyn, *(Caspian Sea)*. Darlunir y Caldeaid fel rhai yn ymffrostiaw yn eu gallu morawl, tra y gelwir ar Israel i ddysgwyl eu llwyr ddinystr, ac mewn canlyniad eu gwarediad eu hunain o'u caethiwed. DAVIDSON.

Adn. 18—21. Mae yn debyg fod y ffordd o Babilon i Ganaan, fel ffordd o'r Aipht i Ganaan, yn gorwedd trwy wlad anial, yn yr hon y byddai i Dduw ofalu am y caethion dychweledig, fel y gofalai am Israel gynt yn eu hymdaith trwy yr anialwch ar eu dyfodiad o'r Aipht. HENRY. Efallai fod y geiriau hyn yn y lle cyntaf yn golygu dychweliad yr Iuddewon o Babilon i'w tir eu hunain; ond y mae yn ymddangos yn lled eglur, mai yn nychweliad y Cenhedloedd, y cyflawnir y brophwydoliaeth hon. MACCULLOCH.—*Bwystfil y maes, y dreigiau, a chywion yr estrys a'm gogoneddant.* Efallai fod yma gyfeiriad at y waredigaeth o Babilon; ond wrth y crëaduriaid hyn yn hytrach y dëallir y Cenhedloedd anwar, creulawn, a hurtaidd, y rhai a fawrygent Dduw am yr efengyl. GILL, POOLE, WELLS.

Adn. 22—24. Mae Duw yma yn eu hadgofio mor annheilwng oeddynt o unrhyw ffafr ganddo ef; gan nad oeddynt wedi ei anrhydeddu ef a'r offrymmau a ofynai efe ganddynt; ond wedi ei flino a'u pechodau a'u hanwireddau. BOOTHROYD.

Adn. 25. Yn y geiriau hyn cyferchir y rhai a edifarhasent o'u ffurfioldeb a'u rhagrith; neu yn hytrach, y maent yn cynnwys datganiad prophwydoliaethol o fod yr aberth sylweddol wedi ei offrymmu: a bod maddeuant i'w gael i'r neb a fyno, heb offrymmau y ddeddf seremonïol. Gwel Act 3. 25, 26. DAVIDSON.

Adn. 27. *Dy dad cyntaf a bechodd, &c.*, neu "Dy brif arweinydd." LOWTH. Yr oedd y brenin wedi pechu, trwy gefnogi eilunaddoliaeth, ac ymunaw yn yr ymarferiad o'i defodau. SUTCLIFFE.—Adda. KIMCHI. Hwyrach mai Abraham a olygid, yr hwn tra fu yn Caldea, ond odid, a gyfrannogai o ysbryd eilunaddoliaeth. JARCHI. Ond y mae yr enw yn perthynu yn fwy prïodol i Aaron, yr hwn a wnaeth y llo aur, yn yr hwn bechod y tebygolai athrawon Israel yn fawr iddo. Yr oedd *Tad* yn enwad cyffredin gan yr Iuddewon ar gyfarwyddwyr crefyddol, Matt. 23. 9. DAVIDSON. "Dy dad yr archoffeiriad a bechodd." Mae yn eglur wrth y llinell nesaf, mai yr archoffeiriad a olygid, canys wrth athrawon y golygir yr offeiriaid, swydd pa rai oedd dysgu y bobl. Gelwir yr offeiriad pennaf yn *dad*, er dynodi ei urddas a'i radd uchel. Cymh. Barn. 17. 10. a 18. 19. a 2 Bren. 2. 12. a 13. 14.

## PEN. XLIV.

Adn. 3. *Canys tywalltaf ddyfroedd ar y sychedig;* yr hyn a ddynodai weinyddiad helaeth o fendithion ysbrydol. Mae dylanwadau adfywiol, sancteiddiol, a dyddanol yr Ysbryd Glan, yn

cael son am danynt yn yr Ysgrythyrau yn aml, dan yr enw dwfr, Ioan 7. 37—39. MACCULLOCH.

Adn. 5. *Ac arall a ysgrifena â'i law*, neu "yn ei law," *Eiddo yr Arglwydd ydwyf*. Hyny yw, hwy a'u haddefant eu hunain yn gyhoeddus ar air a gweithred, mai gweision y gwir Dduw ydynt, 2 Cor. 8. 5. Mae yma gyfeiriad at y nodau a wneid yn nghnawd dynion; ac felly y dywedir y byddai milwyr yn yr amseroedd gynt yn cael eu nodi yn eu llaw âg enw eu tywysog; caethweision âg enw eu meddiannydd, ac eilun-addolwyr âg enw, neu arwydd-lun eu duw Gwel Dat. 13. 13—17.

Adn. 9. *Oferedd ydynt*, hyny ydyw, yr eilunod, a'r addurniadau perthynol iddynt. Gwneid rhai eilunod o aur, ac o ddefnyddiau gwerthfawr eraill, a chymerid trafferth fawr i'w haddurno yn y modd cywreiniaf; eto, er mai eu *pethau dymunol* oeddynt, mae y prophwyd yn datgan na's gwnai y pethau hyn lesäad iddynt.

Adn. 10—20 Mae yr ysgrifenwyr sanctaidd yn gyffredin yn ymhelaethu mewn hyawdledd pan yn son am eilun-addoliaeth; yn ei drin gyda llymder, ac yn gosod allan ei afresymolrwydd yn y golau egluraf. BOOTHROYD.—*Ymborth ar ludw y mae*, math o ymadrodd dïarhebol sydd mewn arferiad hyd heddyw yn mysg trigolion India Ddwyreiniol er dynodi llafurio yn ofer. ROBERTS.

Adn. 21—28. Dyma brophwydoliaeth gyffredinol am y waredigaeth trwy y Messiah, a gyflawnid trwy gyfryngiad gwyrthiol a graslawn Arglwydd pawb oll.—*Yr hwn wyf yn dywedyd wrth y dyfnder, Bydd sych; a mi a sychaf dy afonydd.* Hyny yw, Gan mai yr Arglwydd sydd yn llefaru, fe symmudir pob rhwystrau i gyflawniad ei drugaredd fwriadol ac addawol yn y fan. Cafwyd prawf llythrenol o hyn yn y waredigaeth wyrthiol wrth y Mor Coch, a'r Iorddonen; ac y mae yr Arglwydd yn ymrwymo i wirio yr unrhyw yn allegawl, trwy gyfodi Cyrus, i adferu llwyth Judah i'w gwlad eu hunain, yr hyn oedd yn un o'r amgylchiadau mwyaf hanfodol er cyflawni yr addewid fawr o Had Abraham, yn yr hwn y byddai i'r holl genhedloedd gael eu bendithio. Yn wir fe'i cyflawnwyd mewn ystyr gyfyngedig pan drodd Cyrus yr Euphrates o'i rhedfa arferol, gan sychu ei dwfr-wely; Jer. 1. 38. a 51. 36. DAVIDSON.

## PEN. XLV.

Adn. 1. *Wrth ei enneiniog*,—cyfeiriad amlwg at yr hen arferiad o enneinio y rhai a addurnid a mawrhydi ac awdurdod freninol. MACCULLOCH.—*I ddarostwng cenhedloedd o'i flaen ef.* Gorchfygodd Cyrus y cenhedloedd canlynol;—y Syriaid, yr Assyriaid, yr Arabiaid, y Cappadociaid, y Phrygiaid, y Lydiaid, y Cariaid, y Phœniciaid, a'r Babiloniaid; ac heblaw hyny, efe a deyrnasai ar y Bactriaid, yr Indiaid, y Ciliciaid, y Paphlagoniaid, ac amryw genhedloedd eraill. XENOPHON.—*Myfi a ddattodaf lwynau bren-*

*inoedd.* Mae bod lwynau breninoedd wedi eu rhwymo â gwregys, yn dynodi nerth; ac felly wrth ddattod y lwynau, golygir amddifadu o nerth. LOWTH.—*I agoryd y dorau o'i flaen ef.* Gadewid dorau pyrth y ddinas yn agored trwy ryw esgeulusdra, y noswaith hòno; a'r Brenin yn ei anmhwyll meddwawl, a barodd agor dorau pyrth ei balas, i gael chwilio i'r achos o'r terfysg oddiallan, pan ruthrodd y Persiaid i fewn. XENOPHON.

Adn. 2. *Mi a af o'th flaen di.* Darlunir y nawdd Ddwyfol a ddylynai Cyrus, ac a wnelai ei ruthr-gyrch yn erbyn Babilon yn hyrwydd a llwyddiannus, mewn modd godidog yn y geiriau hyn, trwy y darluniad o Dduw yn myned o'i flaen ef, yn gwastadhau y mynyddoedd, ac yn torri y dorau pres a'r barrau heiyrn. Dywedir fod yn y mur a amgylchynai Babilon, gant o byrth, ar y rhai yr oedd dorau pres; felly hefyd yr ydoedd y dorau oeddynt o fewn y ddinas, a dorau teml Belus, o bres.

Adn. 3. *Ac a roddaf i ti drysorau cuddiedig.* Trysorau a bentyrasid mewn lleoedd cuddiedig er's blynyddoedd. *Esg.* NEWTON. Dywaid XENOPHON fod Cyrus wedi cael delw o aur, deugain cufydd o hyd, yr un yn ddïau a delw Nebuchodonosor, yr hon oedd yn driugain cufudd o uchder, trwy ei bod ar fonsang *(pedestal)* o 24 o gufuddau. SUTCLIFFE. Pan ddarostyngodd Cyrus Asia, efe a ddug ymaith 34, 000 pwys o aur, heblaw llestri aur, a 500,000 o dalentau o arian, a chwpan Semiramis, yr hon a bwysai bymtheg talent. PLINY. Byddai yr aur a'r arian a gynnwysir yn y cyfrifon uchod, yn werth tua chant a chwech a'r hugain mil-fil, a dau gant a phedair ar hugain o filoedd o bunnoedd o'n harian ni. (126,224,000*l*.) BREREWOOD

Adn. 5. *Er na'm hadwaenit:* er mai pagan oeddit, hollol anwybodus am danaf. GILL.

Adn. 7. *Yn llunio goleuni, ac yn creu tywyllwch.* Cyfeirir y geiriau hyn at Cyrus brenin Persia, gyda golwg ar y Magiaid crefydd-ddewiniawl hyny, y rhai a farnent mai darluniad o dda a drwg, oedd goleuni a thywyllwch, y rhai yn eu tyb hwy oeddynt fodau cyfoed a chyfuwch, wrth anmaid y rhai y llywodraethid pob peth. Ond y mae yr Arglwydd yma yn dangos iddo, nad oes unrhyw allu, da na drwg, yn anymddibynnol ar yr un Duw goruchaf, yr hwn sydd yn anfeidrol mewn gallu a daioni.

Adn. 8. *Defnynwch nefoedd.* Mae y prophwyd yma yn gadael Cyrus, ac yn dychwelyd at ei brif a'i hoff destyn, y waredigaeth fawr drwy y Messiah. Efallai fod y cyffelybiaethau hyn yn cael eu defnyddio yn y lle blaenaf i osod allan gyflwr dedwydd a blodeuog pobl yr Arglwydd wedi eu hadferu i'w gwlad; ond rhaid eu bod yn bennaf yn golygu y bendithion cyssylltiedig a'r waredigaeth fawr trwy y Messiah. BOOTHROYD.

Adn. 9. Mae y prophwyd yn yr adnod hon yn rhagflaenu

gwrthddadleuon tuchangar yr Iuddewon annghrediniol, y rhai oeddynt yn barod i rwgnach yn erbyn Duw, ac i alw doethineb a chyfiawnder ei ymddygiadau ef tuag attynt hwy i gyfrif; fod yn eu goddef hwy i gael eu gormesu gan eu gelynion, ac yna yn addaw gwaredigaeth iddynt, yn lle attal eu caethiwed. Defnyddiodd Paul y gyffelybiaeth yma i ymresymmu i'r un pwrpas, yr hyn a gymhwysa efe hefyd gyda grym a godidowgrwydd tra rhagorol, Rhuf. 9. 20, 21. BOOTHROYD.

Adn. 10. Megis y byddai yn ffolineb i'r eithaf i blentyn amrafaelio a'i rieni, am ei eni yn faban, ac nid yn ddyn, felly y mae yn ffoledd i'r eithaf i neb o honom ymryson a Thad pawb oll, am ddim o'i weithrediadau.

Adn. 11. *A gorchymynwch fi am waith fy nwylaw*; neu yn ol BOOTHROYD, "A ydych chwi yn ymofyn a mi mewn perthynas i'm plant, ac yn fy nghyfarwyddo i am waith fy nwylaw?" Fel pe dywedasai, Ai fy ngalw I i gyfrif yr ydych am yr hyn yr amcanaf ei wneyd i chwi, a chymeryd arnoch fy nghyfarwyddo pa fodd y trinaf waith fy nwylaw? BOOTHROYD

Adn. 14. Yr oedd rhai o'r cenhedloedd amgylchynol yn anfon anrhegion i Dduw Israel pan oedd yr ail deml yn cael ei hadeiladu, ac felly cyflawnid cynnwys y broph-ydoliaeth hon mewn rhan; ond y mae yn ddiau mai yn nerbyniad y cenhedloedd i'r eglwys y llwyr gwblheid yr hyn a ragfynegir yma: cymh. Salm 68. 32. a 67. 10. pen. 60. 6—9. Ac hwyrach fod y cenhedloedd hyn yn cael eu henwi er dynodi trwy drawsenwad arferol mewn barddoniaeth, genhedloedd galluog a goludog yn gyffredinol.

Adn. 15.—17. *Ti yn ddiau wyt Dduw yn ymguddio;* hyny yw, o ran dy gynghor a'th fwriadau. BOOTHROYD—Gogoniant y Duwdod yw bod yn anamgyffredadwy yn ei gynghorion hyd oni byddo iddo weled yn dda eu datguddio. Yr oedd y caethiwed yn Babilon, a goruchwyliaethau adfydus eraill wedi eu bwriadu yn ei arfaeth ddoeth a da ef, i arloryd y ffordd i ehangu yr eglwys, ac er cynnydd i'w phurdeb a'i hanrhydedd. Fel yr ymddangosai yn y diwedd y byddai i'r holl eilun addolwyr gael eu gwaradwyddo yn nghyd, ac y cäai holl Israel gwirioneddol Duw eu hachub âg iachawdwriaeth dragywyddol. Gwel pen 44. 9—11. Salm 97. 3—7. Jer. 2. 26—30. a 10. 11—15. Seph. 2. 11. a 3. 9—13, 18—20. SCOTT.

Adn. 19. *Ni lefarais mewn dirgelwch, &c.* Dywedir hyn er dangos mor wrthwyneb i ddull oraclau paganaidd yr oedd y gwir Dduw yn rhoddi datguddiadau i'w addolwyr. Arferent hwy roddi attebion i'r sawl a ymgynghorent â hwy yn gyffredin, o ryw ogofeydd tywyll a dirgelaidd, ac mewn dull ammwys ac annëallus: ond yr oedd y Duw byw yn gwneyd ei holl ddatguddiadau yn y modd mwyaf eglur a di bettrus, gan roddi profion digonol o'i eirwirdeb,

fel y gallai pob dyn wybod yn sicr pa beth oedd iddo i'w ofni neu ei ddysgwyl oddiwrtho ef.

Adn. 20—25. *Rai dihangol y cenhedloedd*, neu y gweddill dewisedig gan Dduw yn mysg yr holl genhedloedd, y rhai a elwir i wylio rhag eilun-addoliaeth, a ddysgir yn helaeth ac eglur am nodweddiad y gwir Dduw, ac a annogir i ymddiried ac ymogoneddu ynddo ef; Rhuf. 3. 25—29. 1 Ioan 5. 20, 21. Mae y cymhwysiad o'r brophwydoliaeth bwysig hon at Iesu Grist, ar unwaith yn gwirio ei chwbläad, ac yn profi ei fod ef yn wrthddrych addas o addoliad crefyddol, neu addefiad cyhoeddus mai efe yw ein Duw ni, a gweddi arno ef fel y Bod oll-ddigonol, yr hwn yw Arglwydd a Barnwr pawb oll; cymh. Rhuf. 14. 11. Phil. 2. 10, 11.

## PEN. XLVI.

Adn. 1. *Bel*, mae yn debyg a olygai yr un eilun ag a elwir mewn rhanau eraill o'r Ysgrythyr yn Baal, gair yn arwyddoccau "arglwydd;" neu, efallai mai byriad o Belus yw, yr hwn oedd dad i Ninus, sylfaenydd yr unbennaeth Fabilonaidd, er anrhydedd i'r hwn mae yn debyg y gwnaethid y ddelw hon. MACCULLOCH. Gelwir Bel gan ysgrifenwyr cenhedledig, yn *Jupiter Belus*. BOOTHROYD.—Tybir mai yr haul a ddynodid drwy Bel. VITRINGA.—*Nebo* oedd frenines Bel, ac a gynnrychiolai y lloer, ac a elwir yn Jer. 44. 17, yn frenines y nefoedd. Pan gymerodd y Persiaid ddinas Babilon, hwy a gymerasant ddelwau y duwiau dychymmygol hyny, ac a'u torrasant i lawr, ac yn eu plith yn ddiau, yr oedd y ddelw aur a osodasai Nebuchodonosor i fynu: canys yr oedd y Persiaid yn gyffredinol o'r un egwyddorion a'r Magiaid, y rhai nad oeddynt yn addoli eilunod, ond yr haul, dan arwydd y tân. Gan hyny, hwy a lwythant eu hanifeiliaid, neu eu certwyni pedair-olwynog, a'r aur a'r arian, o'r rhai yr oedd y delwau hyn wedi eu ffurfio, ac a'u dygant i gaethiwed. SCOTT

Adn. 3. *Ac a arweddwyd*, neu a gludwyd *o'r bru*. Megis tad tyner, efe a ddygasai ei bobl yn ei freichiau, gan eu hamddiffyn a'u gwaredu o'u holl gyfyngderau.

Adn. 7. *Dygant ef ar ysgwyddau*. Cyfeiriad at arferiad y paganiaid o gludo eu delwau ar ysgwyddau yn eu gorymdeithiau, ar eu huchelwyliau, neu pan fyddo haint neu glefyd cyffredinol trwy y wlad. ROBERTS.

Adn. 11. *Yn galw aderyn o'r dwyrain*, sef Cyrus, arwydd-lun yr hwn oedd yr eryr auraidd. LOWTH.—*O'r dwyrain;* o Bersia, yr hon oedd i'r dwyrain o Ganaan a Babilon. MACCULLOCH.

Adn. 13. *Neseais fy nghyfiawnder*; hyny yw, yr ydwyf yn barod i gwblau fy addewidion, a buan y gwelir mai Duw cyfiawn a ffyddlawn ydwyf. BOOTHROYD.

## PEN. XLVII.

Adn. 1. *Ti forwyn-ferch Babilon*, yr oedd Babilon heb gael ei darostwng erïoed gan neb mae yn debyg, hyd oni chymerwyd hi gan Cyrus, ac am hyny y'i gelwid yn *forwyn-ferch*. GILL.—*Eistedd ar lawr*, agwedd yn dynodi galar a chyfyngder mawr LOWTH.—*Ti ferch y Caldeaid*, a elwid felly am ei hëangu, a'i chadarnhau gan y Caldeaid. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Mala flawd*, gwaith arferol caethesau, gwel Exod. 11. 5. a 12. 29. a Barn. 16. 21. Matt. 24. 41.

Adn. 3. *Ac nid fel dyn y'th gyfarfyddaf;* neu, yn ol darlleniad amryw, "Ac ni chyfarfyddaf ddyn;" hyny yw, ni's goddefai efe i neb eiriol drosti; yr oedd ei dedfryd wedi ei gosod yn ddi alw yn ol. DAVIDSON. Yr un golygiad hefyd yw LOWTH, a BOOTHR.

Adn. 6. *Ni chymeraist drugaredd arnynt.* Mae yr Arglwydd yn cyhuddo y Babiloniaid o drin ei bobl yn greulawn, er mai efe a'u rhoisai hwynt yn eu llaw hwy. Mae Duw yn fynych yn defnyddio un genedl ddrwg i ffrewyllu un arall, a gall yr un a fyddo yn offeryn y gosbedigaeth fod mor feius a'r un a fyddo yn dioddef dan y gosb, ac wedi i'r offeryn gyflawni y gwaith a ordeiniodd dïaledd Dwyfol iddo i'w wneyd, odid na fwrir yntau ei hun o dan y gosbedigaeth. LOWTH, BOOTHROYD.

Adn. 9. *Diepiledd a gweddwdod.* Mae colli yr amherodraeth, a dystrywiad ei thrigolion, i ddinasoedd a fuasent yn eisteddfäau llywodraeth, fel diepiliaeth a gweddwdod. SCOTT. Cymerodd Cyrus y ddinas yn y nos, ac er ei fod ef yn enwog am ei ddyngarwch, gwnaeth ei filwyr anrhaith arswydus y noswaith hono, gan ladd pawb a gyfarfyddent ar yr heolydd. SUTCLIFFE. Hwyrach mai pan oedd Darius yn gwarchae ar Babilon y cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon; canys y pryd hwnw er arbed yr arlwyon at gyfreidiau y fyddin yn y ddinas, hwy a barasant dagu eu holl fenywod eu hunain, eu gwragedd, eu chwïorydd, eu merched, a'u holl blant, heb adael namyn un wraig a llaw forwyn ar gyfer pob gwr. PRIDEAUX.—*Am amlder dy hudoliaethau, &c.* Yr oedd y Caldeaid yn nodedig am ser-ddewiniaeth, a chelfion ofergoelus eraill, ac ymfalchïent yn fawr yn eu gwybodaeth ragorol o'r pethau hyn. Gwel Dan. 2. Mae coffadwriaeth Babilon yn ddrewedig a melldigedig yn ffieidd-derau penaf paganiaeth y dwyrain hyd heddyw; a'r swynyddion a'r dewiniaid a roddes hi i'r India, ydynt mewn bod hyd y dydd hwn. ROBERTS.

Adn. 13. *Safed yn awr astronomyddion*, neu "ser ddewiniaid" *y nefoedd;* y rhai a faldorddent ryw beth tua'r nefoedd, gan gymeryd arnynt eu bod yn meddu rhyw ddylanwad mawr gyd a'r duwiau.—*Y rhai a dremiant ar y ser*, y rhai a graffent ar sefyllfa y ser, gan wag-honni y meddai hyny ryw ddylanwad grymus ar dynghedfen dynion.—*Y rhai a hysbysant am y misoedd;* oeddynt y rhai a astudient ymddangosiadau y lloer, oddiwrth yr hyn y cym-

erent arnynt benderfynu pa ddyddiau a fyddent yn fwyaf ffawdus i gyflawni unrhyw orchwyl.

Adn. 14. *Hwy a fyddant fel sofl,* heb un modd ganddynt i ragweled eu dinystr eu hunain nac ymachub rhagddo; ond yn sicr o syrthio yn y dystryw cyffredinol.

## PEN. XLVIII.

Adn. 1. Mae y bennod hon yn cynnwys casgliad ymarferol oddiwrth yr hyn a fu dan sylw o'r blaen, sef cwymp Babilon. Hysbysir yr Iuddewon mai ffafr bur yn gyfan-gwbl a fyddai eu gwaredigaeth; ac nid dim a deilyngent hwy oblegyd unrhyw ragoriaeth yn eu nodweddiad hwy fel cenedl, y rhai a fuasent bob amser yn wrthryfelgar; cymh. Deut. 9. 4, 5.

Adn. 6. *Ti a glywaist, gwel hyn oll,* neu,

"Ti a'i clywaist o'r blaen, wele, y peth wedi ei gwblhau;
Ac oni chydnabyddwch chwi hyn yn eglur?"—LOWTH.

Adn. 7, 8. *Cyn y dydd ni chlywaist son am danynt,* neu, "A chyn y dydd hwn ni chlywaist, &c." Yr oeddynt yn guddiedig yn nghyngor Duw, hyd oni eglurwyd hwy trwy weinidogaeth Esaiah.—*A'th alw o'r groth yn Droseddwr;* hyny yw, O'th febyd yn yr Aipht, yr oeddit yn gogwyddo at eilun-addoliaeth.

Adn. 10. *Ond nid fel arian:* mae arian yn gofyn gradd uchel iawn o wres, a thriniaethau tra llymion i'w buraw; yr oedd yr Arglwydd hyd yma heb geryddu ei bobl wrthgiliedig yn ol cyflawn fesur eu hanwiredd.—*Dewisiais,* neu "profais di" *mewn pair cystudd.*

Adn. 14. *Yr Arglwydd a'i hoffodd: efe a wna ei ewyllys ar Babilon:* neu, "Yr hwn a hoffodd yr Arglwydd a gyflawna ei ewyllys ar Babilon." SYMMACHUS.

Adn. 16. *Nesewch,* Duw yw y llefarydd yn y rhan gyntaf o'r adnod; ac amcan y geiriau yw dangos fod y rhagfynegiadau am yr amgylchiad uchod wedi eu cyhoeddi yn mhell cyn i'r cyflawniad gymeryd lle.—*Ac yn awr, yr Arglwydd Dduw a'i Ysbryd a'm hanfonodd.* Geiriau y prophwyd yw y rhai hyn, yr hwn wedi llefaru yn enw Jehofah, a'i bersonoli ef yn nrhaddodiad y gennadwri i'r bobl, sydd yma yn sicrhau yr Iuddewon mai yr Arglwydd a'i hanfonasai ef trwy ei Ysbryd, a barasai iddo ef draddodi y pethau hyn iddynt BOOTHROYD. Mae eraill o'r farn mai y Messiah a olygir yma, yr hwn a ddatguddiasai ei feddwl i'w eglwys o'r dechreuad Cadarnheir y golygiad olaf yma trwy gydmaru yr adnodau blaenorol, 12—15, a phen. 45. DAVIDSON, DR. J. PYE SMITH.

Adn. 18. *Fel yr afon,* yn helaeth a pharhaus. JACKSON.—*A'th gyfiawnder,* neu, "dy lwyddiant," a elwir felly am ei fod yn ffrwyth cyfiawnder; gwel 1 Sam. 12. 7. Hos. 10. 12. POOLE. Neu, ef-

allai fod y gair yma yn arwyddoccau gweithredoedd cyfiawnder. —*Fel tonnau y môr.* Yn fawr, yn helaeth, ac yn lluogawg GILL.

Adn. 19. Ni buasai y genedl Iuddewig yn cael ei dinystrio o fod yn wladwriaeth, pe buasai heb wrthod y gwirionedd. DAVIDSON.

Adn. 21. *Ac ni sychedant.* Mae y prophwyd yma yn rhagfynegi cariad Duw at ei bobl, a'i ofal am danynt yn eu dychweliad o Babilon, gan gyfeirio at y gwyrthiau a wnaethai efe dros eu tadau, yn eu dychweliad o'r Aipht. Cymh. pen. 61. 17, 18. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon i Ezra, ac o ddeutu hanner cân mil o bobl a ddychwelasant gydag ef; ac y mae yn cael ei chyflawni yn ysbrydol yn y rhai a ryddheir gan Grist trwy air y gwirionedd.

## PEM. XLIX.

Adn. 1. Mae Esaiah yn llefaru y geiriau hyn yn enw Crist. Ysbryd yr hwn a'i doniai â'r datguddiadau o honaw: darluniasid ei berson a'i swydd yn Pen. 42; ac yma efe a bersonolir fel yn darlunio ehangder cylch ei gennadwriaeth, yn cynnwys y cenhedloedd cystal a'r Iuddewon.

Adn. 2. *Gosododd fy ngenau fel cleddyf llym.* Gwnaeth fi yn athraw mawr ei eglwys, a'm gair a'm hathrawiaeth yn llymion i ladd chwantau dynion, &c. Gwel Heb. 4. 12. POOLE. Cymh. Dat. 1. 16.—*Saeth loyw,* yr offeryn mawr yn llaw Duw, trwy yr hwn y tarawodd ac yr archollodd efe achos y gwrthwynebwr mawr, ac y dystrywiodd efe amherodraeth pechod. SUTCLIFFE.

Adn. 3. *Israel.* Gelwir y Messiah dan yr enw yma, Israel, yr hyn a arwyddocca "un yn ffynu gyda Duw," i ddynodi ei eiriolaeth alluog a ffynnadwy, sydd yn seiliedig ar ei aberth dros feibion dynion. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Yn ofer y llafuriais.* Nid oedd efe yn canfod y ffrwythau hyny y gallasai efe yn dra rhesymol eu dysgwyl o'i lafur, ond efe a wyddai y byddai ei waith yn gymeradwy, ac y'i gwobrwyid yn helaeth yn y diwedd.

Adn. 6. *Gwael yw,* fod y fath berson gogoneddus yn cael ei anfon at ddim ond un genedl fechan yn unig; "Na," fel pe dywedasai yr Arglwydd, "fy amcan I yw dy roddi di i ddysgu dynolryw, ac i achub yr holl genhedloedd." BOOTHROYD.

Adn. 7. *Wrth yr hwn sydd ffiaidd gan y genedl.* Yr oedd y genedl Iuddewig yn ei ffieiddo ac yn ei gasau mor fawr, fel y'i croeshoeliasant ef. Yr oedd efe yn *was llywodraethwyr;* talai deyrnged i Cæsar, Matt. 17. 24, 25; ac ymostyngai i bennaethiaid yr Iuddewon, gan ddysgu i'w ddysgyblion wneyd yn gyffelyb, Matt. 23. 2.—*Breninoedd a welant, ac a gyfodant.* Daw amser pan fydd breninoedd yn dy anrhydeddu fel prophwyd, offeiriad, a brenin yr eglwys.

Adn. 8. *Mewn amser boddlongar y'th wrandewais.* Meddylir fod yma gyfeiriad at arferiad tywysogion yn neillduo rhyw ddiwrnod arbenig, neu ryw ranau neillduedig o'u hamser, i dderbyn eirchion a chyfarchiadau oddiwrth eu deiliaid. L. HOLDEN.—Mae Duw Dad yn llefaru wrth Grist yn y geiriau hyn eto. Ac y mae yn eglur, mai yr ystyr amlwg yw, pan y deuai yr amser cymeradwy i gwblhau prynedigaeth dyn trwy angau Crist, y byddai i'r Tad yna wrando ei weddïau a'i eiriolaeth ef dros ei bobl: a chan mai trwy bregethiad yr efengyl y gwneir gwaith mawr y prynedigaeth yn hysbys, a bod gwneuthur hyn yn yr amser gosodedig gan Dduw o'i rad ras er iachawdwriaeth ei brynedigion ef, ie yn mysg y cenhedloedd, yn rhan o swydd Crist fel Cyfryngwr, mae yn rhaid fod hyny hefyd yn gynnwysedig yn yr amser cymeradwy yma. Gwel 2 Cor. 2. 2. JACKSON.—*Ac a'th roddaf yn gyfammod y bobl.* Mae cyfammodau yn wastad yn dynodi heddwch a chyfeillgarwch; a thrwy fod Crist yn cael ei roddi yn gyfammod y bobl y dangosid y byddai efe yn ganol-bwynt undeb rhwng Duw a dyn; fel y dylai pechaduriaid o bob math edrych atto ef fel y ffordd i gymmod â Duw. Efallai fod hyn yn arwyddocâu hefyd mai Crist a fyddai swm a sylwedd yr holl fendithion addawedig i'w bobl. SUTCLIFFE.—*I sicrhau y ddaear*, neu "I adferu y tir." Gellir meddwl fod yr ymadrodd yn cyfeirio at ansawdd annghyfannedd breniniaethau a dinasoedd, wedi eu hanrheithio trwy ryfel, ond oeddynt i gael eu hadferu i gyflwr blodeuog. Ac hwyrach, ei fod yn cyfeirio yn mhellach at y cyfnewidiad oedd i gael ei gynnyrchu ar y cenhedloedd, y rhai oeddynt yn hollawl ddiffrwyth mewn pethau da, ond a heuid â had da, &c.

Adn. 9. *Fel y dywedych wrth y carcharion, &c.* Darlunir Iuddewon a Chenhedloedd yma fel rhai mewn tywyllwch a charchar, o'r lle y'u gwaredid trwy weinidogaeth yr efengyl. MACCULLOCH.—*Ewch allan*, cyfeiriad at flwyddyn y Jubili, pan fyddai pawb a fyddai mewn caethiwed i gael rhyddâad.—*Ar y ffyrdd y porant, &c.* Cyrus oedd bugail yr Arglwydd, efe oedd i gynnull dïadell wasgaredig Israel, a'u hanfon yn ol i'w tir eu hunain; ac o dan y gyffelybiaeth odidog yma, y rhag ddangosir Crist, y Bugail mawr. SUTCLIFFE, MACCULLOCH.

Adn. 12. Mae yn amlwg mai rhyw wlad bell oedd y *tir Sinim* yma; tybia rhai mai yr Aipht a olygid; eraill, mai China, yr hon a elwir gan y brodorion Sin; a chan yr Aiphtiaid a'r Arabiaid Zin.

Adn. 16. *Ar gledr fy nwylaw y'th argreffais.* Mae yn ddïau fod yma gyfeiriad at ryw ddefod oedd mewn arferiad cyffredinol yn mysg yr Iuddewon y pryd hyny, o wneuthur nodau yn eu dwylaw, trwy dyllu y croen, a gwneyd rhyw fath o arwydd neu ddarluniad o'r ddinas neu y deml yr oeddynt, er amlygiad o'u hoffder o honi, a'u heiddigedd drosti. Felly mae yr Eglwys yn nôd gofal arbenig yr Arglwydd, ac y mae yn ymhyfrydu ynddi

Adn. 17. Mae yr *Esgob* LOWTH yn cyfieithu yr adnod hon fel y canlyn,—"Y rhai a'th ddystrywiant, a fyddant dy adeiladwyr yn fuan, a'r rhai a'th anrheithient a fyddant yn blant i ti." Ac felly y dygwyd gelynion creulonaf pobl Dduw, yn gyfeillion anwylaf, diffuant a gweithgar iddynt. DAVIDSON.

Adn. 18. *Y rhwymi hwynt am danat fel priod-ferch;* neu "fel prïod-ferch ei thlysau." LOWTH. Darlunir yr eglwys fel prïod-ferch Crist, ac felly e ddichon fod dychweliad yr Iuddewon a'r Cenhedloedd yn cael ei ddynodi yma trwy addurniad y brïodferch â thlysau, &c. Dat. 19. 7, 8. WELLS.

Adn. 20—22. *Plant dy ddïeppiledd,* neu "Y plant a gaffech ar ar ol colli y lleill," yn ol y cyf. Seisnig. Yr oedd y rhan fwyaf o'r bobl Iuddewig i gwympo ymaith trwy wrthgiliad gofidus; gwel pen. 10. 20; ond yr oedd y diffyg i gael ei wneyd i fynu yn helaeth trwy ddychweliad y cenhedloedd. BERRIMAN. Yn hytrach, dëallwn wrth y rhai a gollodd, nid yr Iuddewon gwrthodedig, ond yn hytrach y duwiolion o'r rhai yr amddifadid yr eglwys trwy erledigaethau paganaidd ac annghristaidd; ac wrth y plant a gaffai ar ol y di eppiliad yma y golygir y dychweledigion lluosawg ar gwymp Annghrist. GILL.—*A dygir dy ferched ar ysgwyddau.* Arfera y dwyreinwyr yn gyffredin ddwyn eu plant ar eu hysgwyddau. Y bechgyn a eisteddant ar ysgwyddau y tad, a'u traed o bob tu, gan ymafael yn ei ben â'u dwylaw, a'r merched a eisteddant ar yr ysgwydd fel ar gadair, a'u traed o'r tu blaen. Gellir gweled miloedd o rïeni yn cludo eu plant felly o'r gwleddoedd paganaidd. ROBERTS.

Adn. 23. Yma rhagfynegir y byddai i frenhinoedd a breninesau ddangos gofal tyner am lwyddiant eglwys Dduw. Dangosodd amryw o'r breninoedd Persiaidd ffafr i'r Iuddewon, trwy eu hadferu i'w gwlad eu hunain, a'u cynnorthwyo i ail adeiladu eu dinas sanctaidd a'u teml: ond cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon yn helaethach dan oruchwyliaeth yr efengyl, ac y mae yn ddiau y'i cyflawnir yn helaethach eto.

Adn 24. *A ddygir y caffaeliaid oddiar y cadarn?* Gwrthddadl a gyfodid yn erbyn cyflawniad y rhagfynegiadau blaenorol, oddiwrth amledd a chryfder y gelynion, y rhai y byddai yn rhaid eu gorchfygu cyn y'u cyflawnid. W. LOWTH, MACCULLOCH. Ac yn yr adnodau canlynol y mae Duw Israel yn atteb y byddai iddo ef wneyd yr hyn a lafarasai.

## PEN. L.

Adn. 1. *Pa le y mae llythyr ysgar eich mam?* Yr oedd Duw wedi dyweddïo had Abraham, a hwythau wedi dyfod yn eiddo iddo ef megis trwy gyfammod prïodasol. Wrth fam y golygir yr eglwys ar wladwriaeth Iuddewig, i'r hon yr oedd y bobl yn perthynu fel plant i'w mam. Ond yr oedd Duw wedi rhoddi

llythyr ysgar iddynt am eu pechodau; ond oni allai y gwr dderbyn ei wraig ysgaredig yn ol? Onid ellid prynu y caethion hyn? BOOTHROYD—*Pwy o'm dyledwyr y gwerthais chwi iddo?* Neu "pwy o'm gofynwyr?" yr oedd personau a rhyddid plant yn attebol am ddyled eu rhieni, gwel 2 Bren. 4. 1. Matt. 18. 25. W. LOWTH.

Adn. 2. *Pa ham, pan ddaethum, nad oedd neb i'm derbyn? &c.* "At yr eiddo ei hun y daeth, a'r eiddo ei hun ni's derbyniasant ef" Wedi dysgwyl am ddymuniad yr holl genhedloedd dros oesoedd lawer, hwy a'i collfarnasant yn annghyfiawn yn lle talu parch iddo pan y daeth.

Adn. 4, 5. Mae yn eglur mai y Messiah yw y llefarydd yn yr adnodau hyn a'r rhai canlynol. Yr oedd efe wedi ei ddoniaw â doethineb ac a gwybodaeth berffaith i ddysgu yr anwybodus, i gysuro yr annyddanus, i gynnal y profedigaethus, ac i nerthu y llesg. Yr oedd yn llwyr ymostyngar i ewyllys ei Dad nefol, ac ymddygai mewn amynedd tuag at bob dyn.

Adn. 6. *A'm cernau i'r rhai a dynnent y blew.* Yr oedd tynu blew y cernau yn cael ei ystyried yn anfri mwyaf a ellid ei roddi ar Iuddew, pen. 7. 20. 2 Sam. 10 4. 5. Poeri ar y wyneb oedd ddull arall o ddangos gwaradwydd i'r eithaf ar un; fe'i gorchymynid yn nghyfraith Moses fel cosbedigaeth lém, yn cynnwys ynddi waradwydd oesol, Deut 25. 9. Num. 12. 14. Gwiriwyd hyn oll yn Nghrist Iesu; Marc 14. 65. a 15. 19.

Adn. 10, 11. Gellid meddwl fod yr adnodau hyn yn cael eu cyfeirio at ddylynwyr ein Harglwydd, ac at ei elynion ef. Yn nhymhor ei ddarostyngiad yr oedd ei ddylynwyr ef yn isel eu meddyliau, *yn rhodio mewn tywyllwch*, Luc 24. 17, 21; a'i elynion a orfoleddent, fel pe buasai eu cynghorion a'u cynlluniau wedi llwyddo yn gyflawn yn ninystr Iesu o Nazareth; rhodient yn ngoleu gwreichion a gynneuasent eu hunain. Ond achos cyfiawnder a fuddugoliaethodd o'r diwedd; llanwyd dylynwyr yr Iesu â llawenydd drwy ei adgyfodiad ef oddiwrth y meirw a'r gogoniant a ddylynodd hyny; a'i elynion a warthruddwyd, daeth digofaint arnynt hyd yr eithaf, ac mewn gofid y trefnwyd gorweddfa iddynt. Gan hyny, mae yn amlwg fod y tywyllwch yma yn dynodi cystudd wedi ei gynnyrchu trwy adfydau allanol, ac nad yw yn dwyn un radd o berthynas â sefyllfa o ddirywiad ysbrydol, yr hwn nid yw yn gyson âg ymddiried yn yr Arglwydd, canys gwir hanfod hyny yw annghrediniaeth, ac ymadawiad oddiwrth Dduw; ac os yw neb yn cymeryd arno orphwyso yn dawel yn y fath gyflwr, maent yn cyffroi Duw i ddigio wrthynt, ac yn peryglu eu heneidiau eu hunain yn ddirfawr Pa beth a all ddynodi anniolchgarwch yn fwy, na bod i addolwyr proffesedig y gwir Dduw wrthod ymlawenhau yn y ffafr Ddwyfol, a amlygwyd mor helaeth yn ei anwyl Fab ef?—*Chwi oll, y rhai ydych yn cynneu tân;* hwyrach fod y

geiriau hyn yn cyfeirio at deithwyr, gan y rhai ni bydd ond ych ydig danwydd, wedi cynnull ychydig ddrain a mïeri, y rhai a ysir can gynted ag y'u hennynir, gan adael y rhai a addawent iddynt eu hunain gysur oddiwrth eu golau a'u gwres, i orwedd mewn tywyllwch ar y ddaiar. Felly y bydd i bob gau athrawiaeth fethu diogelu dynion rhag y Dwyfol lidiawgrwydd. DAVIDSON.

## PEN. LI.

Yn y bennod flaenorol dygasai yr Ysbryd prophwydoliaethol y Messïah ger sylw, fel un galluog i achub, perffaith gymhwys i ddysgu, llawn tosturiaethau at ddïoddefiadau ei ddysgyblion, a ffyddlawn yn ei rybuddion i'w elynion. Mae y bennod hon yn cynnwys golyg ddrych ar holl yspaid breniniaeth y Messiah, debygid. Gelwir ar ei ddilynwyr i gadw mewn cof y gras, y drugaredd, y gallu, a'r ffyddlondeb a amlygodd Duw yn ei ymdriniaethau âg Abraham, pan wnelai y patriarch unigol hwnw yn dad hiliogaeth annifeiriol, yr hyn oedd yn ddigon i'w hargyhoeddi mor afresymmol yw i neb byth ammeu gwirionedd addewidion Duw, pa mor fawr neu luosawg bynnag a fyddont, neu pa gynnifer bynnag o rwystrau a ddichon ymddangos ar y ffordd i'w cyflawniad. Rhaid fod credu y byddai i genedl alluog gyfodi o Abraham a Sarah, y rhai oeddynt wedi myned mor oedranus cyn planta, yn cael ei olygu mor ddirmygedig gan bawb a gymerent eu dylanwadu gan reswm dynol, ac y golygasent ddysgwyliad i fodau dynol darddu o'r graig, neu o ffos neu ogof, Ond gyd a'r Arglwydd, y mae pob peth a amcanodd, neu a addawodd ef yn bossibl.

Adn. 4. *Agos yw fy nghyfiawnder*, sef y cyflawniad ffyddlawn o holl addewidion Duw er gwaredigaeth i'w bobl.

Adn. 6. Gwel Sal. 102. 26. Math. 24. 35. Hwyrach fod y *nefoedd* yma, fel y mae yn fynych yn y prophwydoliaethau, yn ddarluniad o freniniaethau y byd, a'u sefydliadau eglwysig a dinesig, mewn cyferbyniad i deyrnasiad cyfiawnder. Cefnogir y dyb yma drwy y dyddanwch a weinyddir i'r Eglwys yn yr adnodau canlynol dan ei dyoddefiadau er mwyn Crist. DAVIDSON.

Adn. 9--11. *Deffro, deffro, gwisg nerth.* Yma y mae pobl Dduw yn ei gyfarch ef, gan attolygu arno amlygu ei allu mawr yn eu hiachawdwriaeth.—*Rahab*, sydd enw arall ar yr Aipht, yr hwn a roddir iddi ar gyfrif ei balchder.—*Y ddraig* oedd arwyddlun o Pharaoh, Sal. 74. 13, 14. a 87. 4. Es. 27. 1.—*Am hyny y dychwel gwaredigion yr Arglwydd.* Mae yr ymadroddion godidog hyn, yn y rhai y dynodir llawenydd yr eglwys Gristionogol, tra yn myned rhagddi yn ei buddugoliaeth ar ei gelynion lluosawg, wedi eu benthycca oddiwrth ddull teithwyr gyd a'r masnach-luoedd, y rhai a ganant ar hyd y nos yn aml yn eu teithiau; ac er mwyn eu gwneuthur yn fwy difyrus byddant yn cylymmu clychau wrth yddfau [illegible] eu camelod, yr hyn, nghyda lleisiau eu meistri a wnaent sain peraidd. Gwel pen. 35. 10. Dat. 14. 1—5.

Adn. 13. *A pha le y mae llid y gorthrymmydd?* Onid yw hyn yn rhoddi ar ddeall nad oedd unrhyw achosion i'r eglwys ymlethu dan ofnau, er fod yma addefiad fod iddi orthrymmydd llidiog, ond pa ham yr ofnai, fel pe buasai yn abl i'w dystrywio, gan fod ganddi Dduw i'w hamddiffyn, yr hwn oedd yn Arglwydd pawb oll? DAVIDSON.

Adn. 14. Mae Esgob LOWTH yn darllen yr adnod hon fel hyn, "Mae yr hwn sydd yn dyfod i ryddhau y carcharor yn brysio, fel na byddo farw yn y pydew, ac na phallo ei fara." Mor fawr yw cariad ein Duw! Y mae efe, nid yn unig yn ymhyfrydu mewn trugaredd, ond hefyd yn cadw gwrthddrychau ei drugaredd rhag darfod am danynt hyd oni ddelo amser eu hymwared.

Adn. 16. Meddylia rhai mai y Messiah a gyferchir yn y geiriau hyn; ond fe'n tueddir yn yr adnodau cylchynol i farnu mai ei Eglwys a gyferchir ganddo; i'r hon y rhydd sicrâad o'i nawdd, tra yn gwneuthur y gwaith a drefnasai efe iddi hi.—*Dywedwn wrth Sion,* sef, fel y deallwn wrth y geiriau canlynol, yr Iuddewon, —*Fy mhobl ydwyt,* hyny yw, tydi ydwyt yn ol y bwriad a'r addewid ddwyfol i ffurfio rhan o r eglwys; ac oddiyma dysgwn lafurio mewn gobaith am dröedigaeth yr Iuddewon.—*Fel y plannwn y nefoedd, &c.* Mae yn ddiau mai yr unig gyflawniad trwyadl i'r brophwydoliaeth rymmus hon a fydd yn effeithiau gogoneddus dyfodiad y Messiah i'r byd, yr hwn wedi myned trwy ei holl lafur a'i ddyoddefiadau, a esgynodd i'w orsedd gyfryngol, a anfonodd ei efengyl at yr holl genhedloedd, a'i Ysbryd Glân i'w gwneuthur yn llwyddiannus, ac fel hyn i lanw y nefoedd â thrigolion sanctaidd, a sicrhau ansawdd foesol y ddaiar; ac efe a addefa ei eglwys warwyddedig fel pobl agos atto, ac anwyl ganddo ei hunan. Pen. 45. 18, 19. a 49. 1—6. a 50. 4. a 59. 20, 21. a 60. 15—22. a 61. 1—3. SCOTT.

Adn. 17—20. Mae y prophwyd yn y geiriau hyn yn darlunio dïoddefiadau Jerusalem, ac mor weiniaid ac annoethion oedd ei phobl, gan nad oedd neb o honynt yn alluog i'w harwain na'i chynnal.—*Y ddau beth hyn,* sef anghyfannedd dra trwy newyn, a dystryw trwy y cleddyf. LOWTH.

Adn. 21. *Ac nid trwy win;* ond trwy gwppan llidiowgrwydd yr Arglwydd. MACCULLOCH.

Adn, 23. *Gostwng, fel yr elom trosot,* cyfeiriad at greulondeb buddugoliaethwyr paganaidd, y mae yn debyg. Sapor brenin Persia, a orfodai yr amherawdwr Valerianus, yr hwn a gwympodd i'w ddwylaw, i orwedd ar lawr, fel y gallai efe roddi ei draed arno i esgyn ar ei farch, neu i'w gerbyd; gwel hefyd Job. 10. 24. Barn. 1. 7.

## PEN. LII.

Adn. 1. *Deffro.* Mae y prophwyd yma yn llon-gyfarch Jerusalem ar ei hadferiad; ac y mae yn amlwg fod ei lygaid hefyd at

adnewyddiad yr eglwys dan yr Efengyl. W. LOWTH.—*Gwisg wisgoedd dy ogoniant.* Arfera y dwyreinwyr wisgo eu dillad gwaelaf ar amserau o adfyd a galar; ond ar ddychweliad llwyddiant, ymwisgent yn eu gwisgoedd gwychaf. ROBERTS. *Ni ddaw i'th fewn mwy ddïenwaededig,* neu, "y dïenwaedig," sef yr Assyriad, yr hwn a'u blinasai mor dost; neu yn ysbrydol, y dïenwaededig o galon. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Cyfod, eistedd Jerusalem.* "Esgyn dy eisteddfa ddyrchafedig." LOWTH. Y dull cyffredin o eistedd yn y gwledydd dwyreiniol sydd ar lawr, a'r coesau yn groes i'w gilydd; ond pan sonir am eistedd fel rhyw ddull mwy anrhydeddus na'i gilydd, fe olygir eistedd ar eisteddfa neu orsedd ddyrchafedig.

Adn. 3—6. Goddefasai yr Arglwydd i'w bobl gael eu gormesu gynt yn yr Aipht; ond efe a'u gwaredasai, ac a'u dygasai allan oddiyno mewn llawenydd; ac oni's gwna efe yr un peth eto er mwyn gogoniant ei enw ei hun?

Adn. 7—10. *Mor weddaidd ar y mynyddoedd, &c.* Yn y geiriau hyn darlunir y gwylwyr, fel yn gweled o bell, ar y mynyddoedd, y cenhadon yn dwyn y newydd a ddymunid ac a ddysgwylid yn fawr, am y waredigaeth o Fabilon, ac yn prysuro i daenu y cyfryw hysbysiad llawen yn ddïoed. LOWTH.—*Yw traed yr hwn sydd yn efengylu.* Mae traed llychlyd y cenhadon, y rhai a wisgent sandalau, yn cael eu darlunio fel ped ymddangosent yn deg a phrydferth, ar gyfrif y newyddion daionus a ddygent. L. HOLDEN. Mae y beirniaid gan mwyaf yn dëongli y geiriau hyn fel yn dynodi y cenhadon o Babilon, yn dwyn cyhoeddiad Cyrus, am ail adeiliadaeth y deml a dinas Jerusalem; ond nid oedd Jerusalem yn bod y pryd hyny, na gwylwyr i'w gweled yn dyfod, na dinasoedd yn Judah i gyfrannogi yn llawenydd hon: yr oedd y dinasoedd yn anrheithiedig, a'r tir yn annghyfannedd, fel y mwynäai ei Sabbathau; gan hyny nid yw mor brïodol golygu y testyn hwn yn yr ystyr uchod; ond yn yr apostolion, a gweinidogion yr efengyl, y'i gwelwn yn cael ei wirio yn drwyadl. SUTCLIFFE. Efallai fod y geiriau wedi eu llefaru yn allegawl am y ddau amgylchiad, ac yn yr ystyr hwnw, y mae mor addas eu cymhwyso at y naill amgylchiad a'r llall. COBBIN.—*Gwelant lygad yn llygad,* neu, "A'u llygaid eu hunain y gwelant, ddychwelyd o'r Arglwydd Sïon." BOOTHROYD.

Adn. 10. *Dïosgodd yr Arglwydd fraich ei sancteiddrwydd.* Nid oedd llewis i'r arwisgoedd dwyreiniol, ac yn gyffredin byddent wedi amwisgo eu breichiau ynddynt; gan hyny, pan fyddai y bobl yn amcanu cyflawni rhyw orchwyl o bwys, byddai yn rhaid iddynt ddïosg eu breichiau, Ezec. 4. 7.—*Oriental Customs,* 267. Rhan o gân y gwylwyr a'r gweinidogion yw y geiriau hyn, yr hon a genid ganddynt wrth syllu ar ryfeddol weithredoedd Duw yn ei ymwared iddynt. BOOTHROYD.

Adn. 11, 12. *Ciliwch, ciliwch, ewch allan oddiyno.* Mae y prophwyd, fel pe buasai yn bresenol, pan roddwyd y gorchymyn allan, am eu hadferiad, ac yn bloeddio arnynt, Ciliwch ! ciliwch, ac yn enwedig chwi feibion Aaron, a'r Lefiaid.—*Canys nid ar frys yr ewch allan.* Dengys hyn nad yn yr un dull ag y gwaredwyd eu tadau o'r Aipht. Rhyddäai y llys Persiaidd y caethion wrth gynghor, ac adferid yr holl lestri o aur ac arian, y rhai a ddygasai y Caldeaid o'r deml. SUTCLIFFE.

Adn. 13. *Wele fy ngwas a lwydda.* Mae BOOTHROYD wedi cyssylltu yr adnodau hyn â'r bennod nesaf; am eu bod yn dwyn perthynas â'r un person gogoneddus, ond aml ei ddyoddefiadau. Mae yr Arglwydd yn ei alw ei was, gan ddatgan ei anrhydedd, a'i ddyrchafiad dyfodol. BOOTHROYD.

Adn. 14. *Megis y rhy eddodd llawer, &c.* Yr Iuddewon annghrediniol a synnant, ac a'i gwrthodant gyda dirmyg a chasineb; gan ei groeshoelio ac anurddo ei wedd a'i ffurf; eto bydd i'r Cenhedloedd edrych arno gyda syndod, a chredu ynddo fel Iachawdwr y byd.

Adn. 15. *Felly y taenella efe genhedloedd lawer.* Efe a bura genhedloedd cyfain â'i waed, ac a'u cyflwyna yn sanctaidd i Dduw; mae yr ymadrodd yn gyfeiriol at y taenelliadau deddfol trwy yr hyn y sancteiddid y bobl mewn modd seremonïol; cymh. Ezec. 36. 25. Heb. 9. 13, 14 1 Pedr 1. 2. W. LOWTH. Yn y gwleddoedd a gynhelir yn y gwledydd dwyreiniol, bydd un yn sefyll â llestr arian yn ei law, yn llawn o wlybwr peraroglaidd, yr hwn a daenellai ar yr ymwelwyr ar eu dynesäad, er dynodi eu bod y pryd hyny yn westeiwyr y tywysog, ac yn ei ffafr a than ei nawdd. ROBERTS.

## PEN. LIII.

Adn. 1. *Pwy a gredodd i'n hymadrodd?* Y gennadwri a anfonasai Duw trwy ei weision at ei bobl. MACCULLOCH. Y newyddion daionus, a grybwyllwyd yn pen. 52. 7. JACKSON. Ymadrodd y prophwydi, Ioan Fedyddiwr, ac ymadrodd Crist ei hunan am dano ei hun. CLARKE.—*Braich yr Arglwydd;* ei gadarn allu, a amlygir yn ngweinidogaeth yr efengyl. MACCULLOCH.

Adn. 2. *Efe a dyf o'i flaen ef fel blaguryn,* sef fel unrhyw flaguryn cyffredin, heb ei fod yn tynu sylw neillduol —*Ac fel gwreiddyn o dir sych;* yr hwn sydd yn byw ac yn bwrw allan gangenau er mor anffafrol y tir y byddo wedi ei blannu ynddo. Gwel pen. 11. 1.—*Nid oes na phryd na thegwch iddo.* Nid oedd yn meddu y peth a eilw y byd yn degwch, y gwychder a'r arddurniadau allanol hyny ydynt yn dilyn cyfoeth a mawredd daiarol. BOOTHR.

Adn. 3. *Ac yr oeddym megis yn cuddio ein hwynebau oddiwrtho.* Neu, "Ac yr oedd efe fel un yn cuddio'ei wyneb oddiwrthym."

BOOTHROYD, LOWTH. Arferai galarwyr guddio y rhanau isaf o'u hwynebau â'u dwylaw, fel y deallwn oddiwrth 2 Sam. 15. 30. Ezec. 24. 17.

Adn. 4. *Diau, efe a gymerth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau*, neu, "ein trallodau. "Yr oedd tosturi Crist yn anfeidrol, yr hyn a amlygid yn dra nodedig yn ei gydymdeimlad hynod a'r cystuddiedig bob amser, ac yn y gwyrthiau o drugaredd a gyflawnodd efe er gwaredu y truenus. Matt. 8. 17.

Adn. 5. *Cospedigaeth ein heddwch*, neu ein heddychiad, fel y darllenir mewn amryw gyfieithiadau. Y gosbedigaeth a roddwyd arno ef yw y ffordd drwy ba un yr ydym ni yn cael heddwch â Duw. DAVIDSON.

Adn. 6. *A'r Arglwydd a roddes arno ef*, neu yn ol PURVER, ac eraill, "a barodd i gosbedigaeth ein hanwireddau ni gyfarfod arno ef."

Adn. 7. *Efe a orthrymwyd, ac efe a gystuddiwyd*, neu, "Gofynwyd, ac efe a wnaed yn attebol." Mae y perwyddair gwreiddiol yn arwyddo gofyn yr hyn a fyddo deilwng oddiar ddyledwr, Deut. 15. 2, 3. Gofyn, neu fynnu gwasanaeth, Ezod. 3. 7. a 5. 6—9. Dyma yr ystyr fwyaf priodol yma; gofynid ganddo ef y gospedig ddyledus am anwireddau dyn ac efe a wnaed yn attebol fel mechnïydd dros y dyledwr. Pan y'i gwysiwyd i atteb o flaen y Sanhedrim, ac o flaen Pilate, nid agorodd ei enau mewn hunanddiffyniad; ond efe a ymostyngai i'r hyn a adwaenai ei fod yn ewyllys ei Dad, ac i'r angau hwnw, er mwyn yr hwn y'i ganesid. Cymh. Matt. 26. 57—63. a 27. 12—14. Marc 14. 53—56. a 16. 3—6. BOOTHROYD.

Adn. 8. *O garchar ac o farn y cymerwyd ef;* neu, "Yn ei sefyllfa isel, ei farn a gymerwyd ymaith," yr hyn a all ddynodi nad oedd un gofal am gyfiawnder yn ei brawf ef. Efe a gollfarnwyd heb un rhith prawf o unrhyw fai i'w erbyn.—*A phwy a draetha ei oes ef?* neu pwy a ddwg dystiolaeth i'w ddiniweidrwydd? Cyn y cosbid neb am ryw drosedd arbenig, byddai cyhoeddiad yn cael ei wneyd fel hyn o flaen y carcharor.—"Pwy bynnag sydd yn gwybod dim am ei ddiniweidrwydd, deued yn mlaen, a myneged hyny." KENNICOTT. Ond e ddichon fod y gair a gyfieithir *oes*, yn arwyddo achyddiaeth, cystal a'i fuchedd, Luc 16. 8. Er y gellid profi achyddiaeth breninol yr Iesu, cystal a rhagoriaeth ddigyffelyb ei ymarweddiad ef; eto nid ymddangos ar ei ran: efe a arweinid fel carcharor o'r cynghor-dy lle y buasai rai oriau, i sefyll o flaen brawdle Pilat, ac oddiyno i'w ddihenyddio ar Galfaria. DAVIDSON.

Adn. 9. *Ac efe a wnaeth ei fedd gyd a'r rhai anwir*. Mae amryw o'r beirniaid yn darllen y geiriau yn wahanol. "A'i fedd a bennodwyd gyd a'r drygionus; ond gyd a'r goludog yr oedd ei feddrod." LOWTH. Mae yn ddiau fod ei elynion wedi bwriadu

iddo gael ei gladdu yn "Lle y benglog," claddfa gyffredinol drwg-weithredwyr, gwel Ioan 19. 31; ond rhoddes yr Arglwydd ddigon o ddewrder a dylanwad i'r mwyaf annewr i fynnu claddedigaeth anrhydeddus iddo. DAVIDSON.

Adn. 10. *Ond yr Arglwydd a fynnai ei ddryllio ef.* Neu, "A'r Arglwydd a foddlonid yn ei ddrylliad," neu yn ei glwyfau ef.—*Pan osodo efe ei enaid yn aberth dros bechod*, neu "Pan osodo efe ei fywyd, neu ei hunan, canys y mae y geiryn gwreiddiol yn cynnwys yr ystyr yma." Rhoddes y bugail da ei einioes dros y defaid, Ioan 10. 11. Efe a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau ni, Gal. 1. 4. Mae yn amlwg mai yr Arglwydd yw y llefarydd o'r adnod hon hyd y diwedd; ac efe a addawai na byddai aberth y Messiah yn ofer. BOOTHROYD.

Adn. 11. *O lafur ei enaid y gwel, &c.* Ei ddyoddefiadau fel pangfeydd esgor, a gynnyrchant y ffrwyth amcanedig, fel y'i diwellir.—*Trwy ei wybodaeth.* Cyfiawnheir llawer trwy y wybodaeth o hono ef. BEVERIDGE.

Adn. 12. *Am hyny y rhannaf iddo ran gyda llawer;* neu, yn ol BOOTHROYD, "Am hyny y rhoddaf y mawrion iddo ef yn rhan, a'r cedyrn a feddianna efe fel yspail." Yr ystyr yw y byddai iddo ef gael arglwyddiaeth ar y mawrion a'r galluog; neu ar dorfeydd, neu ar y cenhedloedd mwyaf galluog; ac y byddai iddo gael y llywodraeth hon fel gwobrwy i'w ddïoddefiadau ei hun.

## PEN. LIV.

Adn. 1. *Anmhlantadwy.* Eglwys yr Hen Destament. LOWTH. Yr oedd hi wedi bod yn hir yn anmhlantadwy cyn marwolaeth y Messiah. MACCULLOCH. Yn y geiriau hyn annogir yr eglwys i arfer pob ymdrechion er ei chynnydd, ac addewir iddi y bydd i'w theulu gael ei gynnyddu yn ddirfawr o fysg y cenhedloedd, pen. 49. 20, 21; ac ar y cyfrif yma y byddai iddi hi annghofio gwaradwydd ei hieuenctyd; canys ni elwid ei Gwneuthurwr, ei Phriod, a'i Gwaredydd, yn Dduw yr Iuddewon yn unig mwyach; ond yn Dduw y Cenhedloedd hefyd: Duw yr holl ddaiar y gelwir ef. Eto, efallai fod yr *anmhlantadwy* yma yn dynodi yr eglwys Gristionogol yn ei hoesoedd boreuaf; cymh. Gal. 4. 27. Sal. 113.

Adn. 2. *Helaetha le dy babell;* cyfeiriad at ddull y Patrieirch yn byw mewn pebyll. Rhaid i bob pabell gael ei gwneyd yn fwy, a gwneyd mwy o bebyll, i dderbyn a chynnwys yr had ysbrydol gan eu cynnydd dirfawr. BOOTHROYD.—Meddylia eraill mai at y tabernacl, neu y babell gyssegredig y mae y cyfeiriad yma, a bod y gyffelybiaeth yn darlunio ehangiad y babell gyssegredig i gynnwys y torfeydd newyddion a fyddant yn ymgyrchu i addoli.

Adn. 3. *A'th had a etifedda y Cenhedloedd.* Ein Harglwydd a'i apostolion oeddynt had naturiol yr eglwys Iuddewig, ac y mae efe fel Pen yr eglwys, yn awr yn etifeddu y Cenhedloedd.

BOOTHROYD.—*A dinasoedd anrheithiedig a wnant yn annghyfanneddol*, dinasoedd amddifaid o Grist a'i iachawdwriaeth, a breswylir gan ddynion ysbrydol, ac felly y bu yn Rhufain, Corinth, Ephesus, &c. GILL.

Adn. 4. *Ti a annghofi waradwydd dy ieuenctyd.* Cyfeiriad at y caethiwed y bu y genedl Iuddewig ynddo yn ei mebyd, yn yr Aipht.—*A gwarthrudd dy weddwdod*; y caethiwed yn Mabilon; annghofir yr amgylchiadau gofidus hyn yn ol llaw yn y llwyddiant a fydd ar yr eglwys, a'i llawenydd o herwydd hyny. Cymh. Gen. 41. 51. a Ioan 11. 16. SECKER.

Adn. 5. *Dy brïod yw yr hwn a'th wnaeth.* Crybwyllir hyn er mwyn dangos cariad Duw, ac er sicrâad iddynt y gallai ac y mynnai efe gyflawni ei addewidion.

Adn. 6. *Canys fel gwraig wrthodedig, &c.* Yr oedd gan yr Iuddewon hawl i roddi llythyr ysgar i'w gwragedd ar ryw achlysuron, a'r cyfryw wragedd a fyddent wrthodedig a chystuddiedig o ysbryd; ond gallai y prïod mewn rhyw amgylchiadau arbenig, eu galw yn ol, ac adferu iddynt eu holl iawnderau a'u rhagorfreintiau. Felly y gwnelai Duw iddynt hwythau.

Adn. 9. *Canys fel dyfroedd Noah y mae hyn i mi.* Bydd cyfammod Duw â'i eglwys mor gadarn, ac mor sicr o gael ei gyflawni a'r cyfammod a wnaeth efe â Noah, yr hwn a gyflawnwyd, ac a gyflawnir hyd ddiwedd amser. JACKSON.

Adn. 10. E ddichon fod y *mynyddoedd* a'r *bryniau* yma yn allegawl yn arwyddocâu y byddai i'r awdurdodau Babilonaidd a Rhufeinaidd gorme-ol gael eu dymchwelyd. SUTCLIFFE. Neu, gellir deall y geiriau yn gydmariaethol cystal ag yn allegawl, fel pe dywedasai mai cynt y caai diluw arall, croes i lw yr Hollalluog, ddinystrio wyneb y byd drachefn, nac y palla Duw a bendithio ac amddiffyn ei bobl.

Adn. 11, 12. Yn y geiriau hyn mae y delweddau a ddefnyddid yn fwyaf cyffredin i ddynodi prydferthwch, gwychder, purdeb, nerth, a sylweddolrwydd, yn ol syniadau pobl y dwyrain, yn cael eu defnyddio i gyflëu drwyddynt addewidion Duw am gyfodi ei eglwys o'i chyflwr pruddaidd i gyflwr o ardderchawgrwydd a gogoniant tra rhagorol, ac annghredadwy o'r braidd.

Adn. 13, 14. Mae hyn yn eithaf gwir gyda golwg ar yr eglwys Gristionogol mewn modd arbenig, yn mhob oes; gwel Ioan 6. 45. Heb. 8. 11.

Adn. 16. *Wele, myfi a grëais y gôf.* Gan mai creaduriaid Duw yw y gôf a wna arfau rhyfel a'r milwr a'n defnyddia, y maent dan ei awdurdod ef yn hollol, i'w trefnu fel y gwelo yn dda. JACKSON.

## PEN. LV.

Adn. 1—3. Mae y bennod hon yn ddarluniad prophwydoliaethol o'r drefn Ddwyfol i ddychwelyd y byd at Grist, ac i sefydlu ei

freniniaeth ef ar y ddaiar; ac fe ddarlunir bendithion yr efengyl trwy y cyffelybiaethau mwyaf dynodawl o'u godidowgrwydd;—*dwfr*, yr hyn sydd fwy gwerthfawr na'r holl olud bydol i'r sychedig mewn anialwch sych, cras-boeth, a diffrwyth.—*Gwin a llaeth*, pethau yn meddu cyfaddasrwydd i fod yn fuddiol i'r iach, y llesg, neu yr afiach. Mae y bendithion hyn yn rhydd ac yn rhad i bwy bynnag a'u ceisio: mae bywyd.—ïe bywyd tragywyddol yn addawedig i bwy bynnag a dderbynio y cyhoeddiad am Grist mewn cariad.—*Heb arian*, hyny yw, heb deilyngdod o r eiddynt eu hunain.—*Prynwch*, yr hyn a arwydda fod yn rhaid ymadael â rhywbeth os mynir mwynhau bendithion yr efengyl: rhaid ymwadu â nwydau llygredig, arferion pechadurus, cymdeithion drygionus, gofalon bydol, &c. MACCULLOCH—*Pa ham y gweriwch arian?* amser, nerth, a thraul. GILL.—*Am yr hyn nid yw fara*, am y cyfryw wybodaeth na lesâ i chwi, megys gwag philosophi y cenhedloedd, a thraddodiadau yr Iuddewon, yn nghyda chyfeiliornadau gau athrawon. W. LOWTH, GILL.—*Dafydd*, yr hwn a roddir yma am y Messiah, mab ac olynydd Dafydd, a'r hwn gan hyny a elwir Dafydd yn yr Ysgrythyrau prophwydoliaethol, Jer. 30. 9. Ezec. 34. 23, 24. a 37. 24, 25 Hos. 3. 5. Cadarnheir y golygiad hwn trwy yr ystyriaeth o fod yr adnod nesaf, yr hon sydd mewn cyssylltiad agos â hon, yn cael ei golygu a'i haddef yn gyffredin yn golygu Crist. POOLE.

Adn. 4. *Wele, rhoddais ef*, sef Crist, a grybwyllid yn niwedd yr adnod o'r blaen dan yr enw Dafydd,—*yn dyst*, un a dystiolaetha wirionedd anffaeledig, trwy gredu yr hwn y'n hachubir, Ioan 18. 37, 38.—*Yn flaenor*, neu dywysog, un yn myned o flaen eraill, i'w harwain yn y ffordd, yr hyn a wna efe, fel cynnrychiolydd ac esampl fawr ei ddysgyblion; Ioan 14 3. Heb. 6. 20.

Adn. 6—9. Mae yr alwad yma i edifeirwch, wedi darlunio bendithion rhadlawn yr efengyl, yn gyffelyb i gyfarchiad ein Harglwydd, Matt. 4. 17 Act. 8. 19.

Adn. 12, 13. Mynyddoedd a bryniau, ydynt ddelweddau barddonawl bywiog yn dynodi y sefyllfa ddedwydd a effeithir drwy air Duw a'r llawenydd a ddylyna hyny.—*Yn lle drain y cyfyd ffynidwydd*, cyffelybiaethau eto yn cael eu defnyddio i ddynodi cyfnewidiad mawr a dedwydd er gwell: yr ystyr, heb gyffelybiaeth yw, y bydd cyfiawnion yn cyfodi yn lle y drygionus, a rhai yn ofni Duw ac yn cilio oddiwrth ddrygioni yn amhlau yn y wlad yn lle pechaduriaid, y rhai a ddarfyddant o'r tir. Cymh. pen. 35 a 41. 9.—*Yn enw*, neu goffadwriaeth, Ephes. 2. 1.

## PEN. LVI.

Adn. 1—8. Dyma brophwydoliaeth fer am uniad trwyadl Iuddewon a Chenhedloedd, ac o ganlyniad, o lwyr ddifodiad goruchwyliaeth Moses, yr hon a barai yr ysgariad gweledig. Ac y

mae yn deilwng o sylw neillduol, bod cadwraeth y Sabbath yn cael ei ofyn mewn modd neillduol, yr hyn sydd brawf cadarn, nad i'r defodau hyny a ysgarent yr Iuddewon a'r Cenhedloedd y perthynai. Mae ei rwymedigaeth mor rymmus a'r gorchymyn Na wnewch ddrwg. Mae ufudd-dod crefyddol yn cael ei gymhell yma trwy yr annogaethau tyneraf a grymmusaf, wedi eu tynu oddiwrth y cyfnewidiad mawr a thra manteisiol a gyn nyrchid yn yr Eglwys drwy y Messiah. Dan oruchwyliaeth Moses, yr oedd y Cenhedloedd i ryw berwylion angenrheidiol yn gorfod goddef rhyw anfanteision neillduol, yn enwedig rhyw rai yn eu plith, megys yr eunuchiaid, y rhai a gauid allan o gynnulleidfa yr Arglwydd; cymh. Deut. 23. 1—4. Ond trwy ei angau darfu i Grist ddilëu pob gwahaniaeth rhwng Iuddewon a Chenhedloedd crediniol, gan eu cyd gorffori yn un Eglwys, i'r hon y mae efe ei hun yn Ben gogoneddus, Eph. 2. 13—22. DAVIDSON. —*Enw gwell na meibion ac na merched.* Yr oedd bod yn ddi-tlant yn cael ei ystyried yn anffawd fawr, ac anfri yn mysg yr Iuddewon. SCOTT.—*Canys fy nhy i,* neu fy eglwys,—*A elwir yn dŷ gweddi i'r holl bobloedd*, cenhedloedd cystal ag Iuddewon. JACKSON.

Adn. 9—12. Yma y mae prophwydoliaeth newydd yn dechreu, yr hon a gyfeiria yn bennaf at yr offeiriaid a'r tywysogion, a'u gormes a'u cybydd-dod anniwalledig, a'u hannghymedroldeb.—*Cwn mudion ydynt hwy oll.* Eu dyledswydd oedd dysgu a rhybuddio y bobl, ond eu hanwybodaeth, eu meddwdod, a'u drygau eraill, a'u llwyr annghyfaddasai i gyflawni eu dyledswydd. BOOTHROYD. At eu helw eu hunain yr ymgyrchent hyd eithaf eu gallu trwy bob modd yn eu gallu. HEWLETT.

## PEN. LVII.

Adn. 1. *Darfu am y cyfiawn, &c.* Gellid meddwl wrth ddull pwysig y geirweddiad yn yr iaith wreiddiol, fod rhyw un arbenig yn cael ei olygu yma wrth *y cyfiawn.* Anfynych iawn y mae y gair yma yn cael ei arferyd yn llyfr y prophwyd Esaiah, heb ei fod yn golygu yr Arglwydd Iesu Grist; ac y mae yn debyg mai efe a olygir yma. "Y Cyfiawn hwnw." Nid oes angen ceisio profi nad oedd yr Iuddewon drygionus yn rhoddi ei farwolaeth ef at eu calon. A. CLARKE. Mae eraill yn meddwl mai marwolaeth Hezecïah ddaionus a olygid. WELLS. Dynion duwiol, cyfiawn, a da, y rhai ydynt golofnau y wladwriaeth yn yr hon y byddont yn byw. POOLE. Mae y geiryn a gyfieithir *darfu* yn cael ei arfer i ddynodi symmudiad anifeiliaid o un borfa i un arall: felly gellir dywedyd am y cyfiawn pan fyddo yn marw, ei fod wedi myned heibio i ddynion i'w gartref a'i etifeddiaeth dragywyddol. A. CLARKE.

Adn. 2. "Efe a â mewn heddwch efe a orphwys yn ei wely,

set y gwr perffaith a rodia yn uniawn." BOOTHROYD. Wrth *eu hystafelloedd*, neu "ei wely," y golygir y bedd, pen. 14. 9, 10, 18.

Adn 3—5. *Meibion yr hudoles*, sef rhai wedi ymroi i hudoliaeth ac arferion drygionus eraill.—*Y rhai a ymwresogwch*, ymadrodd yn dynodi zel danbaid, GILL; a chydmariaeth rhwng eilun-addoliaeth â gwyn tanbaid anlladrwydd; gwel Ezec. 16. 23. Ac heblaw hyny, yr oedd y llwyni cysgodfawr hyny oeddynt wedi eu cyssegru i eilun-addoliaeth, yn lleoedd manteisiol iddynt i gyflawni pob rhyw ffieidd-derau ynddynt. Gwel. Hos. 4. 13, 14. W. LOWTH.—*Gan ladd y plant*, trwy eu hoffrymmu i Moloch, yr hyn a waharddasid iddynt yn bendant; Lef. 20, 2; ond a gyflawnid ganddynt, 2 Cron. 28. 3. 2 Bren. 23. 10. Ezec. 16. 20. W LOWTH

Adn. 6. *Yn nghabol feini*, neu feini llyfnion *yr afon*. Yr oedd yr Iuddewon yn dra thueddol i laweroedd o ddefodau coel grefyddol eilun addoliaeth, yn erbyn y rhai y llefarai y prophwyd yma yn dra llym. Mae amryw o'r hen awdwyr yn crybwyll am addoliad a gyflwynid i fath o feini cyssegredig afluniaidd. Mae yn debyg i'r arferiad darddu oddiar gamddefnydd o'r hen ddefod batriarchaidd o gyfodi colofnau, a'u cyssegru trwy eu heneinio âg olew, fel cof-arwyddion o ddaioni a chedau Duw iddynt; ac, ond odid, fel cysgodau o honaw Ef, yr hwn yw sylfaen yr Eglwys, a'r arwydd mwyaf nodedig o gariad a thrugaredd Duw. Arferai pob un a ymhonai ei fod yn fwy crefyddol nac eraill, enneinio y meini cyssegredig âg olew, yr hyn oedd yn ddigonol i'w gwneuthur yn llyfnion. Ond dywaid JENOUR na's gellir olrhain dim o olion y ddefod ofergoelus hon yn mysg yr Iuddewon; ac efe a gyfieitha y geiryn fel y canlyn, "Yn mysg rhaniadau y dyffryn y mae dy gyfran; yna, y rhai hyn yw dy gwttws, (neu dy goelbren) di." Dewisent yn etifeddiaeth iddynt y gyfran a allai rhyw eilun a addolid mewn rhyw ogof mewn glyn ei roddi iddynt.

Adn. 8. *Yn nghil y drysau hefyd a'r pyst y gosodaist dy goffadwriaeth*, sef delwau eu duwiau teuluaidd, mewn gwrthwynebiad llwyr i ddeddf Duw, Deut. 6. 9 a 11. 20.—*Helaethaist dy wely*: cyfeiriad parhaus at ddull puttain.

Adn. 9 *Cyfeiriaist hefyd at y brenin ag ennaint*, brenin Assyria, neu frenin yr Aipht, heddwch neu nawdd yr hwn a geisient trwy anrheg o ennaint, Hos. 12. 1. BOOTHROYD.

Adn. 10. *Yn maint dy ffordd yr ymflinaist*, hyny yw, Ti a brofaist bob ffordd i'th achub dy hunan, trwy gyfeillach tywysogion a'u duwiau; fe'th siommwyd yn y cyfan, eto yr ydwyt yn coleddu gobaith.—*Cefaist fywyd dy law*, hyny yw, llwyddaist trwy yr ymdrechion hyn i ymgynnal dros yr amser presenol. W. LOWTH.

Adn. 12. *Myfi a fynegaf dy gyfiawnder*, drwy ddangos ei lwyr aflesiant a'i annheilyngdod.

Adn. 13. *Dy gynnulleidfaoedd*, neu, dy gyngrheirwyr eilun-

addolgar. Ond canfyddir mai cynnorthwywyr ofer a fyddant hwy a'u haddolwyr.

Adn. 14. *Ac efe a ddywed:* yn hytrach, "Ac mi a ddywedaf." Mae yn eglur mai Duw yw y llefarydd

Adn. 16. *Yr ysbryd a ballai*, neu "a lethid" *o'm blaen.* Ni's gallai un dyn ddal dan arllwysiad cyflawn o'r dïaledd Dwyfol.

Adn. 17. *Am anwiredd ei gybydd-dod, &c.* Yr oedd y pechod yma yn dra ffynnadwy yn Israel, ac fe'u cospid gan Dduw o'i herwydd, ond gwaethygu yr oeddynt yn hytrach na gwellhau dan eu ceryddon. Eto tosturiai Duw wrthynt ac a'u harbedai o'i ofal am yr ychydig dduwiolion oeddynt yn eu plith.

Adn. 19. Aberth moliant. medd Paul, yw *ffrwyth y gwefusau.* Mae Duw yn crëu ffrwyth hwn y gwefusau trwy roddi testyn ac achos newydd o ddiolchgarwch, trwy gyhoeddi cymmod a madd. euant i Iuddew a Chenedl ddyn; cymh. Ephes. 2. 13, 17. Act. 2. 39. Salm 103. 3.

Adn 21. Terfynir pen 48. yn gyffelyb i hon, er dynodi na chaiff yr anedifeiriol a'r annuwiol gyfrannogi o'r heddwch a addewir i'r pechadur dychweledig, pen. 55. 6, 7.

## PEN. LVIII.

Adn. 1, 2. *Llefa a'th geg, nac arbed.* Mae yn amlwg mai y prif amcan yn y bennod hon yw dynoethi rhagrith a i gollfarnu.—*Beunydd y'm ceisiant*, yr oeddynt yn ddyfal yn yr arferiad allanol a'r ordinhadau.—*Ewyllysiant wybod fy ffyrdd*, fel Herod, yr hwn a wrandawai Ioan yn llawen, a'r gwrandawwyr a ddarlunid trwy y creig-leoedd, y rhai a dderbynient had y gair yn llawen; yr oedd y gair iddynt fel cân cariad un hyfrydlais, Ezec 33 32.—*Ewyllysiant*, neu "ymhyfrydant mewn" *nesau at Dduw*, nid er ei fwyn ef at yr hwn y nesäent, ond er mwyn rhyw amgylchiad dymunol, y cwmni, neu y wledd. HENRY. Nid ar gyfrif ardderchawgrwydd ei ffyrdd, neu sancteiddrwydd ei wasanaeth, yr ewyllysiant ymwneyd â hwy: ond am fod ymarferiad â ffurfiau crefyddol yn tawelu eu cydwybodau, ac yn porthi eu balchder, fel pe byddent yn anwyliaid y nef; cymh. Matt. 15. 7—9. âg Ezec. 33. 30—32.

Adn. 4. *Wele, i ymryson a chynnen yr ymprydiwch;* gan ymryson i ragori y naill ar y llall mewn ymddygiadau teg, a barnu a beiaw y naill y llall. HENRY. Gorchuddient eu trais â rhith o grefydd. JACKSON.

Adn. 5—7. *Ai dyma yr ympryd a ddewisais?* A yw yn debyg y bydd i Dduw gymeradwyo y cyfryw gyflawniadau allanol, tra mae calonau dynion yn mhell oddiwrtho ef; ysbryd isel a drylliog y mae efe yn ei geisio, a gweithredoedd da yn deillio oddiar hyny a gymeradwyir ganddo ef. BOOTHROYD.

Adn. 8. *Gogoniant yr Arglwydd a'th ddilyn;* cyfeiriad mae

yn ddiau at y cwmmwl a ddïogelai Israel tra yr oeddynt yn yr anialwch.

Adn 9. *Estyn bŷs.* Cyfeiriad at yr arferiad bechadurus o waradwyddo a dirmygu eraill. HEWLETT.

Adn. 10. *Os tynni allan dy enaid i'r newynog;* hyny yw, cynnorthwyo yn haelionus ac egnïol.

Adn. 13. *O throi dy draed oddiwrth y Sabbath*, hyny yw, peidio llafurio ar y Sabbath. BOOTHROYD. Cymh. Deut 11. 10. a 22. 20.

## PEN. LIX.

Adn. 1. *Wele, ni fyrhawyd llaw yr Arglwydd.* Gellir meddwl fod yr Iuddewon yn barod i amheu gallu Duw, am na buasai yn eu gwaredu o law y gelynion, fel yn yr amser gynt.

Adn. 3 *Eich dwylaw a halogwyd â gwaed.* Gallwn benderfynu amser y brophwydoliaeth hon oddiwrth yr ymadrodd yma. Yn y rhan flaenaf o deyrnasiad Manasseh, pan oedd babanod yn cael eu haberthu i Moloch, a llawer o waed gwirion yn cael ei dywallt yn Jerusalem gan weinyddiaeth ymbleidgar, a llywodraethwyr eilun-addolgar: y pryd hyny hefyd y bernir i'r prophwyd hwn gael ei lofruddio. SUTCLIFFE.

Adn. 5—8. *Wyau asp a ddodwasant.* Ymadroddion cyffelybiaethol, i ddynodi eu hamcanion drygionus, a'u hymddygiad gormesol ac anghyfiawn. BOOTHROYD.

Adn. 9—15. Mae y prophwyd yma fel yn cynnrychioli y genedl yn cyffesu eu camweddau, ac yn galaru oblegid eu cyflwr truenus. Hwy a suddasant i'r digalondid dyfnaf dan bwys eu hadfyd, yr ing o herwydd yr hyn a ychwanegid yn ddirfawr gan eu cydwybodolrwydd mai y prif achos o'u holl drallodau oedd eu hanwireddau hwy eu hunain. A chan alaru oblegid eu gofidiau dwysion, hwy a gydnabyddent fod yr holl achwyniadau a ddygid i'w herbyn yn hollawl eirwir a chyfiawn. Efallai fod y geiriau hyn yn golygu edifeirwch yr Iuddewon yn y dyddiau diweddaf, pan y'u dygir i ystyried eu heuogrwydd yn gwrthod y Messiah: ac y mae yr adnodau canlynol yn cefnogi y golygiad yma debygid.—*Oeddym mewn lleoedd anghyfannedd,* neu, yn ol amryw gyfieithiadau, "mewn tywyllwch dudew fel rhai meirw." DAVIDSON. Ni's gallent ymryddhau o'u caethiwed mwy na'r meirw o'r beddau. POOLE.

Adn. 16—21. Mae Duw yn addaw o'i drugaredd, waredu ei bobl o'u cyflwr truenus, o herwydd yr hwn y cwynent mor dost. Efe a ddarlunia fawredd eu gwaredigaeth trwy ddarlunio y canlyniadau pwysig a ddilynai hyny; byddai i'r cenhedloedd o'r dwyrain i'r gorllewin ei addoli ef yn wyneb y datguddiad gogoneddus o'i hollalluowgwydd, ei drugaredd oludog, ei ffyddlondeb tragywyddol, a'i gyfiawnder di wyrni. Gellir meddwl y bydd i elynion yr Eglwys ymegnïo yn ddirfawr yn ei herbyn yn yr adeg a

olygir yn y brophwydoliaeth, ond Ysbryd yr Arglwydd, trwy ei foddion arferol, yr Ysgrythyr, a gyfyd faner yn ei erbyn. Daw y Gwaredwr i weini gwaredigaeth iddi, i ddychwelyd yr Iuddewon, a dwyn cyflawnder y Cenhedloedd i mewn. Derbynia yr Iuddew a'r Cenedl-ddyn yr Ysbryd, ac a barchant ei air o hyn y allan byth. Mae yn addas i ninnau annog ein gilydd i ddysgwyl am hyn mewn gobaith a gweddi daer; cymh. Rhuf. 11. 26, 27.

## PEN. LX.

Adn. 1. Prin y gall neb ammeu nad paraad o'r brophwydoliaeth flaenorol yw y bennod hon; yn yr hon y portreiadir cyflwr yr Eglwys pan adferer had naturiol Abraham iddi, yr hyn a osodir allan trwy amrywiaeth o gyffelybiaethau godidog iawn.—*Cyfod llewyrcha.* Mae y prophwyd fel pe gwelai Haul y cyfiawnder yn llewyrchu pelydrau gwirionedd a gras, ac y mae yn galw ar bawb i fwynhau y bendithion a weinyddid ganddo, a gwneyd defnydd priodol o'i addysg, gan lewyrchu yn mhob gras er ei ogoniant ef. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Canys wele tywyllwch a orchuddia y ddaear.* Cyn i'r amgylchiad yma gymeryd lle, bydd tywyllwch mawr, rhyfeloedd, erledigaethau, a chyfyngderau; ond yn nghanol hyn oll, datguddir gogoniant yr Arglwydd.

Adn 5. *Yna y cei weled, ac yr ymddisgleiri*, neu "Yna yr ofni ac y th orlenwir gan lawenydd." BOOTHROYD

Adn. 6, 7. Mae yr ymadroddion hyn yn amlwg yn gosod allan lwyddiant cyffredinol yr eglwys. Camelod oeddynt yn mysg yr anifeiliaid clud mwyaf defnyddiol, a'r dïadellau defaid a gyfansoddent brif olud y Tir Sanctaidd.

Adn. 8. *Pwy yw y rhai hyn?* Yr oedd y prophwyd yn y weledigaeth yn canfod pobl ddieithriol, o genhedloedd tra phellenig, yn prysuro i Sion, fel y cwmmwl cyflym a yrrir gan y gwynt, neu fel colomenod a brysurant i'w tai rhag yr aderyn ysglyfaethus.

Adn. 9. *Yr ynysoedd a'm dysgwyliant, &c.* Y cenhedloedd, yn enwedig trigolion gwledydd arforawl a olygir.—Mae yn debyg fod y geiriau hyn yn arwyddo y byddai i'r cenhedloedd mwyaf nodedig am eu golud a'u hanturiaethau masnachol, gael eu dychwelyd at yr eglwys gyntaf, ac y byddent yn fwyaf egniol i ledaenu y gwirionedd dwyfol yn oes fuddugoliaethus yr Eglwys; canys y cyfryw genhedloedd a gynnrychiolir trwy longau Tarsis. Gwel Jer. 27. 25.

Adn. 10. *A meibion dieithr a adeiladant dy furiau, &c.*, yr hyn a gyflawnwyd mewn gradd trwy y cymmhorth a roddes Cyrus a'i ddilynwyr iddynt i adferu eu dinas a'r deml, yn Jerusalem. Ond, y mae yn ddiau fod yma gyfeiriad at lwyddiant mawr yr eglwys yn y dyddiau diweddaf, pan y bydd i Dduw gyfodi hyd yn nod yn mysg y cenhedloedd, ddynion dysgedig, y rhai trwy eu preg-

ethau a'u hysgrifeniadau, a thywysogion, y rhai trwy eu haelioni a'u ffafr, a achlysurant adeiladaeth yr eglwys, a chynnydd i'w nerth a'i gogoniant JACKSON.

Adn. 11. *Dy byrth a fyddant yn agored yn wastad*, yr hyn sydd ddarluniadol o'r tangnefedd rhyfedd a fwynha, a'r cyrchu mawr a fydd i'r eglwys. GILL.

Adn. 13. *Gogoniant Libanus a ddaw attat.* Mae yr ymadrodd yn arwyddoccau y byddai i'r cedrwydd, ac unrhyw brenau eraill a dyfent yn Libanus, weinyddu er addurno a harddu teml Duw. W. LOWTH. Ond yr oedd y prenau hyn, y rhai oeddynt yn nodedig am eu godidogrwydd, eu defnyddioldeb, a'u harddwch, yn cynnrychioli dynion o alluoedd mawrion, cyrhaeddiadau godidog, rhinweddau hynod, a defnyddioldeb ehang, a gyfodid gan Dduw i amddiffyn, addurno, a dyddanu ei eglwys. MACCULLOCH.—*Harddaf hefyd le fy nhraed.* Gelwid y deml yn lle preswylfod, neu orphwysfa Duw; ac yr oedd y Secinah yn y cyssegr sancteiddiolaf, uwch ben yr arch; ac fel y mae troedfainc yn cael ei golygu yn perthynu o angenrheidrwydd i orseddfainc, felly, ystyrir yr arch megis troedfainc Duw, ac fe'i gelwir felly yn Sal. 99. 5. 1 Cron. 28. 2. LOWTH.

Adn. 16. *Sugni hefyd laeth cenhedloedd;* hyny yw, tynnu gynhaliaeth oddiwrthynt. COBBIN.

Adn. 17—19. *Yn lle pres y dygaf aur.* Mae yn ymddangos fod y rhagfynegiadau hyn heb eu cyflawni eto; ac y mae yn rhaid i ni eu cymhwyso at yr amser hwnw, pan ddygir yr Iuddewon, a chyflawnder y Cenhedloedd i mewn i'r eglwys, ac y bydd Duw yn teyrnasu ar y ddaiar mewn modd arbenig trwy ei air a'i Ysbryd. BOOTHROYD. Ni's gall dim gyfatteb i'r darluniad gogoneddus yma, ond rhyw sefyllfa ogoneddus ar yr eglwys ar y ddaiar, sydd eto yn ol; neu gyflwr gwynfydedig yr eglwys yn y nefoedd; ond y mae amryw o'r ymadroddion yn ein tueddu i feddwl mai cyflwr yr eglwys ar y ddaiar a ddarlunir, er fod amryw o'r cyffelybiaethau godidog yn ein hadgofio pa mor gyffelyb fydd y cyflwr hwnw i'r eiddo yr eglwys yn y nef. SCOTT.

## PEN. LXI.

Adn. 1. Er y gallai fod y prophwyd yn llefaru y geiriau hyn am dano ei hunan yn bersonol, eto mae yn amlwg eu bod yn cyfeirio at Grist yn benaf; oblegyd efe a gymhwysai y testyn yma atto ei hunan. Luc 4. 18. POOLE.—*Yr Arglwydd a'm heneiniodd*, trwy ddisgyniad yr Ysbryd arno yn ei fedydd. HORSLEY.—*I efengylu i'r rhai llariaidd*, neu "i'r tlodion," tlodion yn yr ysbryd, gwaelion yn eu golwg eu hunain. MACCULLOCH.—Tlodion o ran eu hamgylchiadau, y rhai ni's dysgai yr athrawon Iuddewig, am nad oeddynt yn abl i roddi gwobrwy mawr iddynt. TILLOTSON.

Adn. 2. *I gyhoeddi blwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd.* Mae

yma gyfeiriad amlwg at gyhoeddiad blwyddyn y Jubili trwy sain udgorn; gwel Lef. 25. 9. Yr oedd hon yn flwyddyn o ryddäad cyffredinol, oddi tan ddyledion a rhwymedigaethau; ynddi rhyddheid caethweision a chaethforwynion, tiroedd a meddiannau, y rhai a werthasid oddiwrth y teuluoedd a'r llwythi y perthynent iddynt. BOOTHROYD—*Dydd dial*, neu yr amser i wneyd amlygiad cyfiawn o gyfiawnder Duw, yn nghosbedigaeth yr Iuddewon gwrthgiliedig. Rhagfynegid yr amgylchiad yma yn aml gan ein Harglwydd, Matt. 3. 7—10. a 23. 34—39. a 24.

Adn. 4—9. *Adeiladant hefyd yr hen ddiffaethfa.* Cyflawnwyd hyn yn llythyrenol pan ddychwelodd yr Iuddewon o Babilon, ac yr adeiladasant eu hen gartrefi a'u dinasoedd anrheithiedig. GILL. Ond os cymhwyswn y geiriau at oes yr oruchwyliaeth efengylaidd, gall eu bod yn arwyddoccau y byddai i ddinasoedd a thaleithiau y Cenhedloedd, y rhai oeddynt yn diffaeth a gwag o grefydd, gael eu hadnewyddu trwy sefydliad o addoliad y gwir Dduw yn eu plith —*A dieithriaid a safant ac a borthant eich praidd.* Cenhedloedd a bregethant yr efengyl gyntaf i gynnulleidfaoedd o Iuddewon. A. CLARKE —*Yn lle eich cywilydd y cewch ddau ddyblyg.* Neu, "Yn lle eich cywilydd, y cewch anrhydedd deublyg; ac yn lle eich gwaradwydd, y llawenychwch yn eich rhan: canys yn eich tir y meddiennwch hyfrydwch dwbl, &c." BOOTHROYD gan ddilyn y cyfieithiad Syrïaeg.

Adn. 10. *Gan lawenychu y llawenychaf yn yr Arglwydd.* Yn y geiriau hyn y mae yr eglwys yn personoli yr eglwys fel yn datgan ei llawenydd yn yr Arglwydd.—*Gwisgodd fi â gwisgoedd iachawdwriaeth;* cyfeiriad mae yn debyg at yr hen ddefod o wisgo un a fyddai dan gyhuddiad â mantell y brenin neu yr ymherawdr, er ei ddïogelu. *Oriental Literature, No.* 946.—*Megis y mae priodfab yn ymwisgo â harddwisg;* y mae yn amlwg fod cyfeiriad yn y geiryn Hebraeg yma at wisgoedd yr offeiriaid Iuddewig, y rhai oeddynt wynion a gwychion iawn; cymh. Exod. 28. 40. BOOTHR.

## PEN. LXII.

Adn. 1. *Er mwyn Sion ni thawaf.* Mae yn dra thebyg mai y Messiah ei hunan yw y llefarydd yn y saith adnod gyntaf; yr hwn sydd yn eiriol dros Sïon, sydd hefyd yn gosod gwylwyr arni. —*Fel lamp yn llosgi*, i roddi goleuni i'r rhai sydd yn eistedd mewn tywyllwch yn mhob gwlad, ac oes, a chyflwr. MACCULLOCH.

Adn. 2, 3. *Enw newydd*, yr hyn a ddynoda gyflwr newydd, a chyfnewidiad er gwell. VITRINGA, SCOTT.—Mae hyn yn cynnwys y byddai i Dduw ei amlygu ei hun mewn modd arbenig fel Priod ei eglwys; a'i chyfoethogi â grasusau ei Ysbryd, fel y byddai megis coron ogoneddus yn ei law ef. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Hephzi-bah*, neu, "Fy hyfrydwch sydd ynddi," mewn cyferbyniad i *Gwrthodedig.*—*A'th dir Beulah*, neu, "Y tir a brïod

wyd," mewn cyferbyniad i *Annghyfanneld;* yr ystyr yw, y bydd ai i'r tir gael ei gyfanneddu a'i berchenogi. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Y prioda dy feibion dydi*, yr hyn a arwydda y byddai iddynt etifeddu, a meddu awdurdod yn eu tir eu hunain, fel gwr ar ei wraig.

Adn. 6, 7. Mae y gyffelybiaeth a ddefnyddir yma wedi ei chymeryd oddiwrth y wyliadwriaeth wastadol a gedwid gan y Lefiaid yn ngwasanaeth y deml, yn enwedig y cantorion, gwel 1 Cron. 9. 33.—Gellid cymhwyso y geiriau hyn mewn modd arbenig at weinidogion yr efengyl; ond y mae pob cristion mewn mesur yn wyliedydd. Gwel Heb. 12. 15.

Adn. 8, 9. Pan fyddo i'r Eglwys gael ei bendithio gan Dduw, hi a fwynha helaethrwydd, a hi a'i gwasnaetha yn llawen; cymh. Lef. 19. 23—25. Deut. 12. 17, 18. Num. 19. 1—6. Meddylir fod y geiriau hyn yn cynnwys cyfeiriad at wyliau y blaen-ffrwythau, neu wyl yr udgyrn.—*Tyngodd yr Arglwydd i'w ddeheulaw*, yr arwydd-lun o allu; yr hyn sydd yr un peth a thyngu iddo ei hunan, Heb. 6. 13.

Adn 10. *Cynniwcirwch trwy y pyrth;* sef pyrth yr amrywiol ddinasoedd lle yr oedd yr Iuddewon mewn caethiwed, fel yr elont allan i'w gwlad eu hunain; gwel pen. 48. 20. a 52. 11. JACKSON. —*Parottowch ffordd y bobl;* yr oeddys yn arferol o barottoi prif-ffyrdd yn y gwledydd dwyreiniol, a'u palmantu trwy draul ddirfawr gan eu bod yn arferol o'u gwneuthur yn llydain, ac i groesi corslëoedd HERBERT. Pobl Jerusalem a gyferchid yn y geiriau, ar y rhai y gelwir i barottoi y ffordd i'r bobl i ddwyn eu blaenffrwythau i fewn. BOOTHROYD. Efallai fod y geiriau hyn yn golygu symmud pob rhwystrau a allai fod yn attalfa i ddychweliad y cenhedloedd i fewn i gymmundeb yr eglwys. MACCULLOCH. —*Cyfodwch faner i'r bobloedd*, cyfeiriad at arferiad milwyr o osod eu lluman i fynu, fel y gwybyddo y fyddin i ba le i ymgasglu o bob lle. POOLE.

Adn. 11. *Wele dy iachawdwriaeth*, neu yn hytrach, "Dy Iachawdwr," fel y mae yn y rhan fwyaf o'r hen gyfieithiadau.—*Wele ei gyflog gydag ef, a'i wobr o'i flaen;* neu, "Wele y mae ganddo daledigaeth gydag ef, a'r wobr a ddyru sydd o'i flaen ef." BOOTHR.

## PEN. LXIII

Adn. 1. *Pwy yw hwn, &c.* Mae golygiadau y beirniaid yn dra amrywiol ar y geiriau rhyfedd hyn; dodwn yma rai o'r rhai teilyngaf o sylw. Ni's gellir cymhwyso y brophwydoliaeth hon at un amgylchiad mewn hanesyddiaeth cyfattebol i'w phwysigrwydd, heblaw dinystr Jerusalem a'r wladwriaeth Iuddewig, yr hyn a elwir yn yr efengyl yn ddyfodiad Crist, a dydd ei ddïal ef, Matt. 16. 28. Luc 21. 22. Ond, y mae lladdiadau mawrion ar elynion Duw yn ol eto, yn aros i'w cyflawni. Gwel Ezec. 28. Dat. 20.

Gan hyny, e ddichon fod y brophwydoliaeth hon yn cyfeirio at yr un peth ag a elwir yno GOG A MAGOG. LOWTH.—Mae y brophwydoliaeth hon yn cyfeirio at ddyfodiad ysbrydol Crist, yr hyn sydd eto yn ddyfodol, i ddïal ar Annghrist, a phob rhyw alluoedd annghristiaidd. Mae yn beth digon cyffredin yn yr ysgrythyrau i ddynodi gelynion eglwys a phobl Dduw, dan oruchwyliaeth yr efengyl, dan enwau y rhai oeddynt elynion annghymmodlawn a chyhoeddus i Israel gynt GILL.—Lleferir hyn am Dduw, yn dyfod fel rhyw dywysog buddugoliaethus, o ddystrywio y Babiloniaid, a gelynion eraill ei bobl; a rhag-nodir yn gysgodol trwy hyn fuddugoliaethau Crist ar ei elynion ysbrydol. JACKSON. Crist yw yr hwn a ddarlunir yn yr ymadroddion gorwych hyn, fel arwr buddugoliaethus, yn dychwelyd i'w brif ddinas, o dir y gelyn, wedi bod yn nyfnderau ei ddyoddefiadau. *Esgob* HORNE. Mae y gwrthddrych godidog a ddygir ger bron ein sylw yma, yn cael ei ddarlunio, nid fel dyoddefydd, ond fel gweithredydd, a'i wisg wedi llychwino, nid â'i waed ei hunan, ond â gwaed ei elynion, ac yn y weithred, nid o ddyhuddo digofaint Dwyfol yn achos ei etholedigion, ond o'i gyflawni yn nghosbedigaeth ei elynion. VITRINGA. Ni's gall dim fod yn fwy eglur na bod Crist yn cael ei ddarlunio gan y prophwyd yma, fel un wedi cael ei orchuddio â gwaed ei elynion, fel buddugoliaethwr a dïalydd galluog, ac nid fel oen wedi ei ladd yn aberth. SCOTT.

Adn. 3. *Sethrais y gwinwryf fy hunan.* Yma y mae y Messïah yn atteb, ei fod ef wedi llethu ei wyrthwynebwyr cyndyn trwy ei alla ei hunan heb unrhyw gymmhorth dynol; ac yn sicrhau y byddai iddo eu mathru oll yn ei lidiowgrwydd, a chyfrif eu gwaed a lychwinai ei wisgoedd, yn anrhydeddus i'w gyfiawnder, ei wirionedd, a'i allu; o herwydd fod dydd dïal yn ei galon. &c. SCOTT.

Adn. 4. *Blwyddyn fy ngwaredigion a ddaeth.* Fel yr oedd blwyddyn wedi ei phennodi i waredu yr Israeliaid o'u caethiwed yn yr Aipht, ac amser wedi ei bennodi ar yr hwn y rhyddheid yr Iuddewon o'u caethiwed yn Mabilon, felly y mae blwyddyn wedi ei phennodi i waredu yr eglwys dan y Testament Newydd oddiwrth drais ac erledigaeth. MACCULLOCH.

Adn. 5. *Edrychais hefyd, ac nid oedd gynnorthwywr; rhyfeddais hefyd.* Lleferir yma yn ol dull dynion, fel yr ymddangosai mawredd yr iachawdwriaeth, ac y dynodid yn eglur mai gwaith Crist ei hunan ydoedd; canys ni's gellir gyda chymhwysder brïodoli dysgwyliad a siommedigaeth, syndod a rhyfeddod, i'r Gwaredwr mawr yma. GILL.

Adn. 7. Mae LOWTH ac amryw feirniaid enwog eraill, yn cyfrif y rhan olaf o'r bennod ganlynol, fel cyffes edifeiriol, ac eidduniad gostyngedig yr Iuddewon yn eu cyflwr presenol o wasgaredigaeth. Ond, yr eglwys Gristionogol sydd yn gwneyd i fynu had gwirioneddol Abraham, a gall aelodau yr eglwys hono fabwysiadu yr

iaith yma yn brïodol, pa un bynnag ai Iuddewon ai Cenhedloedd fyddont. Ac ni's gellir gyda phrïodoldeb eu cymhwyso at neb eraill yn gyflawn, gan fod yr apostol wedi cymhwyso rhan o'r ymadroddion hyn at yr Eglwys dan yr oruchwyliaeth Gristionogol; cymh. pen. 64. 4; a gwel 2 Cor. 2. 9.

Adn. 8. *Meibion ni ddywedant gelwydd*, neu, "Ni thywyllant;' dygir y cyffelyb dystiolaeth yn aml i'r gwir Israel, y rhai ydynt uniawn o galon, ac yn glynu wrth y cyfammod newydd, cymh. Jer. 32. 39, 40.

Adn. 9. *Angel ei gynddrychioldeb ef*, sef y Messiah, yr hwn a elwir yn angel cynddrychioldeb, neu bresenoldeb, neu wyneb Duw, am fod wyneb Duw i'w weled ynddo ef, Ioan 14. 9. Col. 1. 15. Heb. 1. 3. Yr oedd efe yn aros yn mynwes y Tad, mae yn dwyn ei bobl i bresenoldeb Duw, ac yn ymddangos drostynt hwy beunydd, fel eu dadleuwr a'u heiriolwr. GILL.

Adn. 11. *Mae yr hwn a'u dygodd hwynt i fynu o'r môr?* neu, yn ol JENOUR, BOOTHROYD, ac eraill, y rhai a ddarllenant y geiriau heb fod mewn modd holiadol, "Y modd y dygodd efe hwynt i fynu o'r môr, gyda bugail ei braidd; y modd y gosododd efe ei Yspryd sanctaidd o'i fewn ef." &c.

Adn. 13, 14. *Fel march yn yr anialwch*, neu wastadedd agored, fel y mae y gair yn arwyddo weithiau: mae yn eglur fod yma gyfeiriad at y Môr Coch, trwy yr hwn yr elai meibion Israel mor rwydd a march ar hyd gwastadedd, ac fel y disgyn anifail yn ewyllysgar i'r dyffryn i gael adnewyddiad a gorphwysfa.—"Fel y disgyn y ddïadell i'r dyffryn i orphwyso, y parodd Ysbryd yr Arglwydd iddynt hwy orphwyso." BOOTHROYD.

Adn. 16. Onid yw y geiriau hyn yn tueddu i ddangos nad oedd y rhai a weddïent fel hyn o hiliogaeth naturiol Abraham a Jacob? Ac eto y mae yr holl ymadroddion cylchynol yn profi eu bod yn blant ysbrydol iddynt.

Adn. 17–19. *Y gwnaethost i ni gyfeiliorni:* neu "y goddefaist i ni gyfeiliorni." LOWTH, WATERLAND, BOOTHROYD. *Ac y caledaist ein calonnau oddiwrth dy ofn*, neu, "i galedu ein calonnau,&c." Mae y geiryn gwreiddiol yn aml yn arwyddo caniattâu hyny yn unig.' W. LOWTH.

## PEN LXIV.

Adn. 1. Mae y bennod hon yn barhad o'r hyn oedd dan sylw yn y bennod flaenorol. Hwyrach fod iaith yr adnod hon yn cyfeirio at Sinai yn llosgi wrth bresenoldeb yr Arglwydd, yr hwn y gweddïa yr Eglwys arno, am ymddangos o honaw mewn modd nodedig o'i phlaid. Mae mynyddoedd yn ddarluniadol o freniniaethau neu lywodraethau gwrthwynebol i fynydd neu freniniaeth yr Arglwydd. Mor ofnadwy ydyw y darluniad a osodir o'n blaen! mynyddoedd yn toddi fel plwm neu haiarn mewn ffwrn. Meddyliodd rhai fod yma gyfeiriad at ymdoriad llosg-fynyddau.

Adn. 2. *Fel pan losgo y tân greision.* hyny yw, tanwydd cras lyd, sychion.

Adn. 3. *Pan wnaethost bethau ofnadwy*, mae yma gyfeiriad mae yn debyg at ddisgyniad Duw ar Sinai, Exod. 19. 1. Cymh. Salm 68. 7.

Adn. 4. Mae Paul yn cymhwyso yr adnod hon at ddatguddiad yr Efengyl, 1 Cor. 2. 9, gwybodaeth o'r hon a roddwyd i'r apostolion, a thrwyddynt hwy i'r rhai oll a ddysgwyd gan Dduw i ddeall a chredu eu tystiolaeth am Grist. Traddodasai y prophwydi lawer o addewidion a phrophwydoliaethau am y Messiah a'i frenniaeth; ond fel nad oeddynt hwy eu hunain yn deall yn gyflawn, felly llafurient yn ddyfal am ddeall yr hyn a draddodid ganddynt i eraill, trwy ysbrydoliaeth Ddwyfol, 1 Pedr 1. 10—12. Ond rhoddwyd golygiadau eglur a chyflawn o'r pethau hyn i'r rhai hyny yn yr oes apostolaidd, oeddynt yn dysgwyl am ddyddanwch yr Israel, Matt. 13. 16, 17. Ioan 1. 49—51.

Adn. 5. *Cyfarfyddi â'r hwn sydd lawen, ac a wna gyfiawnder:* neu, "Cyfarfyddi â llawenydd â'r rhai a wnant gyfiawnder." Ni attal yr Arglwydd ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn uniawn —*Ynddynt hwy y mae para*, hyny yw, yn *ffyrdd* Duw, fel y'u hamlygir yn Nghrist, y rhai nid eglurasid o'r blaen fel y maent wedi eu datguddio yn bresenol dan y Testament Newydd. Gelwir ffyrdd, neu lwybrau Duw, yn drugaredd, yn Salm 25. 10. Ac y mae trugareddau yr Arglwydd o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb ar y rhai a'i hofnant ef, Salm 103. 17.—Y mae efe yn dysgwyl yn barhaus ar orseddfainc ei drugaredd am le i drugarhau; ac yn cyfarfod â'i addolwyr yn mhob cenhedlaeth, yn ei ordinhadau. *Ynddynt hwy y mae para:* nid ydynt yn gyffelyb i arferiadau a dulliadau cyfnewidiol dynion: felly, er fod Duw Israel wedi digio wrth ei bobl o herwydd eu pechodau; yr oeddynt yn awr yn dechreu ymofyn am dano ef, fel y Duw a gyfarfuasai â'u tadau, ac a'u bendithiasai, pan y gwasnaethasant ef, yr ufuddhasant iddo, ac y llawenychasant ynddo, ac yr oeddynt yn ymddiried y byddai iddo ef eu cyfarfod hwythau hefyd, a'u hachub, Salm 37. 4. a 112. 1. Mal. 3. 13—18. a 4. 2, 3. Ioan 7. 14—17. Act. 10. 1—8. SCOTT.

Adn. 6. *Megis peth aflan*, neu fel un gwahanglwyfus —*Megis bratiau budron*, gwisg wrthodedig; cyfeiriad mae yn debyg at y dillad a wisgid gan y gwahanglwyfus, y rhai oeddynt i gael eu bwrw ymaith pan y'i hiacheid ef, am eu bod yn llawn o'r afiechyd ffiaidd hwnw.

Adn. 12. *A ymatteli di, Arglwydd, wrth y pethau hyn?* A fydd i ti dan y fath amgylchiadau a'r rhai hyn, neu er hyn, attal dy gymmhorth. Cymh. Dat. 6. 9—11. lle y cawn gwynion y saint ar y ddaiar, y rhai a ddyoddefent bob math o gystuddiau, yn yspaid annghyfannedd-dra Sïon, y wir Eglwys.

## PEN. LXV.

Adn. 1. Mae y bennod hon yn cynnwys amddiffyniad o ymddygiad Duw tuag at yr Iuddewon, y rhai a wrthodwyd ganddo ef oblegyd eu gwrthgiliad. Yn yr adnod hon y mae Duw yn datgan ei fod ef wedi galw y Cenhedloedd, er nad oeddynt hwy wedi ei geisio ef; ac yn yr adnodau nesaf y mae efe yn tystiolaethu ei fod ef wedi gwrthod ei bobl ei hunan, am eu gommeddiad i wrandaw ar ei alwadau mynych. LOWTH.

Adn. 3, 4 Yma crybwyllir amryw engrheifftiau o ofergoelion paganaidd, ac arferion eilun-addolgar, at yr hyn yr oedd yr Iuddewon yn dra thueddol cyn eu caethgludiad i Babilon.

Adn. 6. *Talaf i'w mynwes*, hyny yw, talaf yn helaeth iddynt: mae yr ymadrodd wedi ei gymeryd oddiwrth rai pan fyddont yn rhoddi yn lled helaeth o unrhyw beth. a'i bwriant i'r arffedog, heb ymdroi i gyfrif neu fesur yr hyn a roddent. JACKSON.

Adn. 8—10. Tra yr oedd Duw yn gwrthod y genedl Iuddewig, efe a gadwai weddill, i'r rhai y cyflawnai ei hen addewidion; y rhai hyn a fendithiai efe â llwyddiant ysbrydol. Darlunir eu cyflwr dedwydd trwy ansawdd y gwledydd mwyaf cynnyrchiol; Saron, a glyn Achor, oeddynt y ddau barth mwyaf ffrwythlawn o Judea, ac yn dra enwog am eu porfeydd breision; y cyntaf yn y gorllewin, heb fod yn mhell o Joppa, ar llall i'r gogledd o Jericho, yn agos i Gilgal. DAVIDSON.

Adn. 11. *A arlwywch fwrdd i'r llu acw*, neu, "Gad,"—*I'r nifer i acw*, neu, "Meni." Gall y cyntaf fod yn arwyddo ffawd dda, enw y Seren Iou yn Arabaeg; a'r olaf yn dynodi y Lloer, yr hon yr oedd ei haddoliad yn dra phoblogaidd unwaith yn mysg yr Hebreaid. *Rabi* MOSES, LOWTH. Hen ddefod eiluna-ddolgar, a gynhelid mewn amryw o ddinasoedd y dwyrain, yn enwedig yn yr Aipht, oedd arlwyo bwrdd ar y dydd olaf o'r flwyddyn, wedi ei hulio â phob rhyw ddanteithion; a chwpan fawr yn llawn o win newydd, er dynodi eu diolchgarwch i'w duwiau am ffrwythlonrwydd y flwyddyn a aethai heibio, neu eu dymuniad am i'r flwyddyn ddyfodol fod felly. Ac arferai yr Israeliaid y cyfryw ddefod, gan addoli pob math o eilunod, a thywallt diod offrymau ar yr achlysuron dywededig. JEROME.

Adn. 12—15. Cyhoeddir y bygythion llymaf yma yn erbyn yr annuwiolion o'r Iuddewon, y rhai a wiriwyd mewn modd ofnadwy yn y dystryw trwyadl a ddaeth ar eu dinas a'u cenedl. -*Fy ngweision a fwyttant, a chwithau a newynwch:*—Pan oresgynodd y Rhufeiniaid Jerusalem, yr oedd yr Iuddewon yn trengu gan newyn a syched, tra yr oedd y Cristionogion, y rhai a adawsent y ddinas a'r tir diofryd, yn cael eu gwala, ac yn ymlawenychu yn yr Arglwydd eu Duw. SCOTT.—*A eilw ei weision ar enw arall*, sef Cristionogion ac nid Iuddewon, Act. 11. 26. POOLE, HENRY.

Adn. 17. *Wele fi yn creu nefoedd newydd.* Os ystyriwn ni yr hyn a ddywedir yn adn. 21, 22, nyni a welwn nad at y byd a ddaw, y mae cyfeiriad yn y geiriau hyn; ond yn hytrach at sefydliad goruchwyliaeth newydd ROBERTS, HURD. Dechreuwyd cyflawni y brophwydoliaeth hon yn moreu oes Cristionogaeth, pan y cynnyrchid trwy bregethiad yr Efengyl, wedd newydd ar bethau yn Judea a gwledydd y Cenhedloedd; fe'i cyflawnir yn helaethach yn nychweliad yr Iuddewon i'r Eglwys Gristionogol, ac fe i cyflawnir yn llawn yn amser y llwyddiant mawr ar grefydd, pan fydd delw newydd ar bob peth, yn wladol a chrefyddol, a phob trallodau annghristaidd wedi darfod, a'r hen sarph ei hunan wedi ei rhwymo a'i bwrw i'r pydew di waelod, fel na's twyllo y byd mwyach. Cymh. Matt. 19. 27—36. Heb. 12. 26—28.—*A'r rhai cyntaf ni chofir.* Mae yn ddïau na's gall fod annghofio gweithredoedd Duw na dyledswydd na braint; ond ystyr y geiriau hyn, debygid ydyw, na byddai yr Eglwys yn sugno ei chysur mwyach oddiwrth yr oruchwyliaeth gysgodol, neu gyfansoddiad gwladol ac eglwysig yr Iuddewon, nefoedd a daiar yr hen eglwys; ond hwy a osodasant eu bryd ar yr efengyl, yr hon sydd yn parhau yn dragywydd, ar y freniniaeth hono na's gellir ei syflyd.

Adn. 20. Y mae cyflwr dedwydd yr eglwys yn cael ei ddarlunio trwy amrywiol gyflelybiaethau. Yma y mae hir oes yn cael ei haddaw, ac y mae yn ymddangos y bydd marwolaeth anamserol, yn cael ei chau allan oddiwrth y sefyllfa ddedwydd hono ar yr eglwys. O hyny allan, ni bydd yn beth cyffredinol i blant gael eu torri ymaith yn eu mabandod, na hyd yn nod yr hen bobl hyd oni chyflawnont fesur eu dyddiau, yn gymmaint ag y tybir y bydd yr hwn na byddo ei oes yn ddim mwy na chan mlynedd, yn marw yn ei ieuenctyd, neu y bydd yr hwn a fyddo marw yn gant oed, yn cael ei ystyried yn marw yn ieuanc, fel cosb am ei bechodau. Y cyflawniad yn unig a ddichon benderfynu pa un ai yn llythyrenol ai yn gyffelybiaethol y mae i ni ddeall ystyr yr ymadroddion hyn; ond y mae yn sicr y bydd llwyddiant mawr ar wir Gristionogaeth, yn effeithio i derfynu rhyfeloedd, llofruddiaethau, segurdod, annghymedroldeb, cynhenau, a phenrhyddid, fel y tueddir yn fawr i estyn oes dyn. SCOTT.

Adn. 21-24. Hwy a gânt fwynhau eu hunain o ffrwyth eu llafur; cymh. Deut. 28. 30.—*Megis dyddiau pren, y bydd dyddiau fy mhobl.* Tybir yn gyffredin, fod y dderwen, y mwyaf hir-hoedlog o'r prenau, yn parhau am oddeutu mil o flyneddoedd; yr hyn sydd gyfrifiad lled gywir debygid. LOWTH. Mae yn debyg fod cedrwydd Libanus yn llawer mwy parhaus na'r derw. HEWLETT.

## PEN. LXVI.

Adn. 1—4. Yr oedd yr Iuddewon yn eu mawrygu eu hunain ar gyfrif eu teml a'i gwasanaeth rhwysgfawr, yr hwn a farnent oedd

i fod byth. A phan oedd y barnedigaethau a gyhoeddir yn adnod 6, a'r 12 o'r bennod flaenorol yn crogi uwch eu pennau, yr oeddynt hwy yn ail adeiladu y deml mewn modd tra gorwych, trwy haelfrydedd Herod. Dynoethir eu rhagrith mewn modd tra grymmus; tra yr oeddynt hwy yn dra manol yn y cyflawniad o bethau allanol crefydd, yr oeddynt yn euog o goledd y camweddau ffieiddiaf ar yr un pryd. Mae yn eglur fod y ddwy bennod yma yn dwyn perthynas â galwad y Cenhedloedd, sefydliad yr oruchwyliaeth Gristionogol, gwrthodiad yr Iuddewon gwrthgiliedig, a'u dinystr gan y Rhufeiniaid.

Adn. 5. *Gwrandewch air yr Arglwydd.* Yn y geiriau hyn y mae y rhai a gredent yn yr Iachawdwr, ac a waradwyddid ac a erlidid gan eu brodyr annghrediniol, yn cael eu cyfarch.—*A ddywedasant, Gogonedder yr Arglwydd:* maent yn galw yn wawdus ar Dduw i wneyd rhyw beth anarferol erddoch. JACKSON. Neu, galwant eu gilydd i ymegnïo i'ch erlid, gan feddwl eu bod trwy hyny yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw, Ioan 16. 2. POOLE.

Adn. 6. Yma mae y prophwyd fel pe buasai yn y lle, yn clywed ac yn gweled dinystr pechaduriaid yn Sïon; mae y ddinas mewn terfysg, y gelyn wedi rhuthro i mewn iddi, a'r deml, yr encilfa olaf, o'r diwedd yn cael ei chymeryd, a swn dinystr i'w glywed yn mhob cwr. Cydmarer y geiriau hyn â rhagfynegiadau yr Arglwydd Iesu Grist, Matt 24. 1—28. Luc 2. 15, &c.—*Llef o'r deml:* dywaid JOSEPHUS fod llef i'w glywed o'r deml ychydig cyn ei dinystr diweddaf, yn gwaeddi, "Dychwelwn oddiyma."

Adn. 7. *Cyn ei chlafychu, yr esgorodd, &c.* Darlunir Sïon yma yn ymddwyn had ysbrydol yn ddisymmwth: trwy yr hyn yn ddïau y rhag nodid lledaeniad a llwyddiant yr efengyl yn y byd; yr hyn a gwblheid trwy nerthol weithrediad Duw Hollalluog. BOOTHROYD.

Adn. 14 *Eich esgyrn hefyd a flodeuant fel llysieuyn:* cyfeiriad at adfywiad llysiau trwy wres maethlawn y gwanwyn, drwy yr hyn y dynodir bywiocäad pob gallu ysbrydol. MACCULLOCH.—Yr oedd pobl Dduw yn Mabilon, fel swp o esgyrn meirwon a sychion, Ezec. 37. 11: ond yr oedd yr esgyrn sychion hyn i gael eu hireiddio a'u hadfywio drachefn. JACKSON. E debygid fod yma gyfeiriad at adgyfodiad y meirw. S. CLARKE.

Adn. 17. *Ac a ymlanhant yn y gerddi, yn ol eu gilydd yn y canol.* Wedi darllen golygiadau amrywiaethol, lluaws o feirniaid dysgedig ar yr adnod hon, yr ydwyf yn gorfod meddwl fod y cyfieithiad Cymmreig awdurdodedig o honi mor agos i'w le ag unrhyw ddarlleniad, ac mai yr ystyr gywiraf yw yr un a briodolai KIMCHI i'r geiriau; yr hwn a farnai fod yma gyfeiriad at bysgodlyn, neu ddyfr-gist fawr a fyddai ganddynt yn gyffredin yn nghanol eu gerddi neu eu llwyni cyssegredig, lle y gallai addolwyr yr eilun ymsancteiddio ac ymlanhau, y naill ar ol y llall.

Adn. 19. *A gosodaf yn eu mysg arwydd*, wrth yr hyn y meddylia amryw, y golygir y doniau gwyrthiol a roddwyd i'r dysgyblion cyntaf. DAVIDSON—*Tarsis*, dinas yn Cilicia, lle y ganwyd Paul; neu Carthage, yr hon unwaith a fu yn ddinas alluog iawn ar dueddau Barbari; neu ddinas flodeuog yn yr Hispaen, a elwid gynt wrth yr enw hwn.—*Lydia*, prif ddinasoedd yr hon oedd Sardis, Philadelphia, Thyatira, &c; i'r rhai y dygwyd yr efengyl yn foreu iawn.—*Y rhai a dynant mewn bwa:* mae amryw o'r beirniaid craffaf yn barnu mai llygriad o'r geiryn gwreiddiol *Moschi* yn y testyn trwy ryw fodd a arweiniodd i'r darlleniad uchod, "y rhai a dynant mewn bwa," ac mai "Mesech" yn hytrach y dylai y gair fod, sef enw cenedl a drigiannai ar ororau y Mor Dû.—*Yr ynysoedd pell*, a allant fod yn cynnwys Prydain Fawr, yr Iwerddon, ac ynysoedd eraill mwy pellenig na hyny o Judea. MACCUL.

Adn. 20. *Elorau meirch*, neu yn hytrach, "pyniaduron," o'r fath ag a grogir, un ar bob ystlys i'r camel, ac yn y rhai yr eisteddai dynion i gael eu cludo. LOWTH. Mae y geiriau hyn yn arwyddo yr helaethrwydd o offerynau a moddion a ddefnyddir gan yr Arglwydd i ddychwelyd pechaduriaid, ac i dderbyn dychweledigion i'r eglwys. SCOTT.

Adn. 24. *Canys eu pryf ni bydd marw*. Cafodd yr Iuddewon a'r Cenhedloedd credinioI fod yn dystion o wrthodiad olaf yr anufudd a'r anedifeiriol. Darlunir hyn mewn geiriau cyffelyb i'r rhai a ddefnyddiodd yr Arglwydd Iesu wedi hyn, i ddarlunio cosbedigaeth dragywyddol yr anuwiol yn uffern. Yr oedd Gehenna, neu ddyffryn Hinnom yn agos i Jerusalem, ar y tu de ddwyreiniol iddi, yno yr arferai yr Iuddewon eilun addolgar gyflawni y ddefod ofnadwy o dynu eu plant trwy y tân, hyny yw, eu llosgi yn ebyrth i Moloch. Er rhoddi attalfa ar yr arferiad ffiaidd yma, halogodd Josïah y lle trwy ei lanw âg esgyrn dynol, 2 Bren. 23. 10, 14; ac hwyrach eu bod yn arfer wedi hyny, fwrw ysgerbydion anifeiliaid yno, ac e ddaeth y lle yn gladdfa gyffredin i bobl dlottaf Jerusalem. Y cyrff meirw hyn wrth lygru, a gynnyrchent bryfaid yn lluosawg; ac er attal unrhyw ganlyniadau niweidiol oddiwrthynt, cedwid tân i losgi yno yn wastadol, gwel 2 Bren. 23. 10. Jer. 7. 31, 32. a 19. 13. Marc 9. 44. WILLIAMS, L. HOLDEN.

# LLYFR Y PROPHWYD JEREMIAH.

*Yr oedd Jeremiah yn offeiriad o hil Aaron, ac yn frodor o Anathoth, un o ddinasoedd yr offeiriaid, bedair milldir o Jerusalem. Gwel Jos. 21. 18. Efe a ddechreuodd ar ei swydd brophwydoliaethol yn dra ieuanc,—pan oedd yn bedair blwydd ar ddeg oed, medd rhai, ac oddeutu deng mlwydd a thriugain wedi marwolaeth Esaiah. Dechreuai brophwydo tua'r drydedd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad*

***Josiah, a pharhaodd drwy ystod teyrnasiad gythryblus a drygionus Jehoahaz, Jehoiacim, Jeconiah, a Zedeciah. Dros yspaid dwy flynedd a deugain, efe a gyhoeddai farnedigaethau Duw yn erbyn ei gydwladwyr eilun addolgar. Perthynai ei ragfynegiadau i'w wlad ei hun, ac i genhedloedd tramor, ac yr oeddynt yn nodedig o fanol a phennodol, a'r rhan fwyaf o honynt a gwblhawyd yn ei oes ef ei hunan; ond y mae rhai o honynt yn aros eto heb eu cyflawni. Pan ddinystriwyd Jerusalem, ac y cludwyd y rhan fwyaf o'r bobl yn gaethion i Babilon, arhosodd Jeremiah gyda Gedaliah yn Mispah; ond wedi lladd Gedaliah, efe a ddygwyd i'r Aipht, lle y bu yn prophwydo, ac e ddygwaid yr Inddewon i do gael ei labyddio i farwolaeth yn Tapahanes, dinas yn ngwlad yr Aipht, am ei ffyddlondeb. Mae y rhan flaenaf a'r rhan olaf o'r llyfr hwn yn farddonawl, a'r canol yn hanesyddol, gan mwyaf. Canfyddir cyfeiriadau at Jeremiah yn y rhannau canlynol o'r Testament Newydd, Matt.* 2. 17. 18. *a* 11. 29. *a* 21. 13, 33. *Marc* 12. 1. *Luc* 20. 9. *Ioan* 4. 14. *Act.* 7. 52. *Rhuf.* 9. 20. 1 *Cor.* 1. 29, 30, 31. 1 *Tim.* 2. 2. *Heb.* 8. 8—10. *a* 10. 16, 17.**

## PEN. I.

Adn. 1—3. Dyma ragymadrodd a theitl y llyfr, ac y mae yn debyg mai gan Ezra y'i rhag-ddodwyd; yr hwn hefyd, fel y credir, a chwanegodd y bennod olaf. Nid yw ei brophwydoliaethau wedi eu cyfleu mewn trefn amseryddol; ac y mae y beirniaid wedi ceisio eu hegluro trwy lawer dull o drefniad arnynt i'r perwyl o'u gwneuthur yn hawdd eu deall. Hwyrach fod dull BLAYNEY cystal a'r goreu; yr hwn a farnai y dylasent gael eu cyfleu fel y canlyn: pen. 1 hyd 20 22. 23. 25. 26. 45. 24. 29. 30 31. 27. 28 21. 34. 37. 32. 33. 38. 39. adn. 15—18. a 1—14. pen. 40. 41. 42 43 44. 46, &c.

Adn. 4. *Gair yr Arglwydd* Cennadwriaeth Duw, neu yn hytrach y denyddiau, o'r rhai yr oedd y brophwydoliaeth i fod yn gynnwysedig. POOLE. Ymddangosiad gweledig o'r Mawrhydi Dwyfol a wneid gan Fab Duw, yr hwn a ymddangosai ar wedd ddynol yn fynych cyn ei gnawdoliaeth, a'r hwn y dywedir am dano yn adn. 9, iddo gyffwrdd â genau y prophwyd â'i law, gwel Esa. 6. 1. Gen. 3. 8. a 18. 2. Jos. 5. 13. Ezec. 1 26. Dan. 8. 15, 18. a 10. 6, 10. W. LOWTH, SCOTT, SUTCLIFFE, DAVIDSON.—

Adn. 5. *Mi a'th adnabum:* neu, "Mi a'th gymeradwyais, fel gwrthddrych priodol i'r swydd," Act. 15 18. Exod 33. 12, 17.—*Sancteiddiais di:* neu, "Neillduais di i'm gwaith arbenig;" gwel Nodau ar Esa. 13. 3. Ioan 10. 36. Gal. 1 15, 16.—*I'r cenhedloedd,* canys yr oedd rhai o'i brophwydoliaethau yn gyfeiriedig at amryw o honynt; gwel pen. 25. 15. cymh. pen. 27. 2, 3.

Adn. 6—10 *Canys bachgen ydwyf fi:* felly y dywedai Solomon, pan oedd yn ugain mlwydd oed, 1 Bren. 3. 1—7.—Cyfieithir yr

un gair yn wr ieuanc yn 2 Sam. 18. 5. MANT.—*Ac a gyffyrddodd â'm genau:* fel arwydd o'i gyssegriad i'w swydd, neu yn hytrach o'i fod wedi ei ddoniaw yn wyrthiol gan Dduw, a'i fod ef dan ofal arbenig Bugail Israel, gwel Esa 6. 7. a 62. 3. a 49 2. a 51. 15. 16.—*Heddyw y'th osodais ar y cenhedloedd:*—Dywedir am ddynion ysbrydoledig eu bod yn gwneyd yr hyn y maent fel prophwydi yn sicrhau, a wneir. Gwel pen. 18. 7—10. Esa. 6. 10. Matt. 16. 18, 19. a 19. 27—30.

Adn. 11, 12. Gwel Preg. 12. 5. Mae blodeuad cynnar y pren almon, yn ei gwneuthur yn gyffelybiaeth dra godidog o gyflawniad buan y prophwydoliaethau. Mae y pren hwn yn blodeuo yn Ionawr, ac yn dwyn ei ffrwyth i aeddfedrwydd erbyn Mawrth, mewn gwledydd o hinsawdd dwym, medd PLINY, &c.

Adn. 13—16. *Crochan berwedig*, er dynodi llymder y barnedigaethau:—*A'i wyneb tua'r gogledd*, er dynodi ymerodraeth y Babiloniaid a'r Caldeaid, yr hon oedd i'r gogledd o Judea, y rhai a dywalltent eu lluoedd ailan fel agerdd tew, nes gorchuddio y wlad. BLAYNEY—*Holl deuluoedd teyrnasoedd y gogledd*, sef y llwythi, a'r mân genhedloedd oeddynt yn ddeiliaid i Babilon.—Mae bod i un osod ei orseddfainc, yn dynodi cymeryd meddiant cyflawn o freniniaeth, pen. 43. 10. a 49. 38.—*A mi a draethaf fy marnedigaethau*, fel barnwr cyfiawn yn adrodd dedfryd y gyfraith.

Adn 17—19. *Gwregysa dy lwynau*, ymbarottoa i'th waith yn drwyadl.—*Rhag i mi dy ddystrywio di:* neu oddef i ti gael dy lethu. Dywedir yn fynych fod Duw yn gwneuthur, neu yn peri gwneuthur yr hyn nid yw namyn goddef i eraill ei wneyd. Nid yw y geiryn a gyfieithir *rhag*, yn fygythiol, ond yn hytrach yn cynnwys rhybudd difrifol o berygl. Am hyny y sylwai BLAYNEY fod y prophwyd trwy y geiriau hyn, yn derbyn sicräad arbenig gan Dduw, o'i nodded a'i amddiffyn ef. DAVIDSON.

## PEN. II.

Adn. 1—3. Mae y brophwydoliaeth hon yn parhau hyd adn. 5. o'r bennod nesaf, BLAYNEY.—*Caredigrwydd dy ieuenctyd.* Mae geirweddiad y testyn yn anmhennodol, a gallant fod yn golygu caredigrwydd a chariad y bobl at Dduw, neu yr eiddo ef attynt hwy. Y golygiad olaf a gymeradwyir fwyaf gan y beirniaid diweddaraf, oblegyd fod y caredigrwydd yn gyfan o du Duw, fel y tystiolaethodd Moses wrthynt lawer gwaith: ac yn ail, oblegyd fod y prophwyd yn yr adnodau canlynol yn beio ar eu tadau am eu heilunaddoliaeth, a'u pechodau aml.—*Dy ieuenctyd:* hyny yw, eu dyfodiad allan o'r Aipht, yr hyn a elwir eu genedigaeth, Esa. 44. 2. Hos. 2. 3; a'u hieuenctyd, Esa. 54. 6. Hos. 2. 15.—Y cyfammod a wnaed yn Horeb a olygir wrth eu dyweddïad. Cymh. Deut. 4. 20, 23, 34. Ezec. 16. 8. BOOTHROYD.—*Israel ydoedd sancteiddrwydd i'r Arglwydd:* neu, "ydoedd beth sanct-

a'dd i'r Arglwydd." Arbedid Israel mewn modd tra nodedig, a chosbid eu gelynion, nid cymmaint oblegyd eu daioni rhagorach hwy; ond, oblegyd fod yr Arglwydd yn cofio ei sanctaidd gyfammod o drugaredd â'u tadau, gwel Deut. 9. 4—6. Sal. 106. 45. Esa. 63 11. Ezec. 11. 60.

Adn. 4—8. Yma cyferchir *holl deuluoedd tŷ Israel*, neu y llwythi, fel yn pen. 1. 15. Yr oedd y rhan fwyaf o honynt yn alltudion; ond yr oedd llawer wedi ymuno â Judah, 2 Cron. 34. 9, 33. a 25. 18.—*Tir diffaeth*, sef tir na's gellid trwy unrhyw driniaeth ei wneyd yn ffrwythlawn a chynnyrchiol, fel nad oedd yn bossibl i dyrfa ymgynnal ynddo ond drwy wyrth.—*Pyllau*, yr hyn a all fod yn ddynodawl o beryglon, efallai.—*A chysgod angau:* gwel Esa. 9. 2. Sal. 23. 4. Yr oedd tywyllwch y bedd mewn modd arbenig yn cylchynu Israel yn yr anialwch, yr hwn a wnaethpwyd yn fedd i'r rhai oll a ddaethant o'r Aipht heblaw Caleb a Josuah.

Adn. 9—13. *Mi a ddadleuaf â chwi eto:* trwy y prophwydi, a thrwy farnedigaethau; mae ei ddadleuaeth trwy y prophwyd yn yr adnodau canlynol.—*Ynysoedd Chittim*, y rhai a orweddant ar lanau Môr y Canoldir, megis Itali, a gwledydd Ewropaidd eraill, y rhai oeddynt ar du y gorllewin i Judah, fel yr oedd Cedar ar du y dwyrain. E ddichon fod y rhai hyn yma yn cynnrychioli yr holl genhedloedd paganaidd, a phob rhyw eilunaddolwyr, y rhai a allant chwanegu, ond yn anfynych iawn a roddent i fynu yr un o'u gau dduwiau na'u hofergoelion.—*Byddwch annghyfannedd iawn;* neu, crynwch yn ddirfawr.—*Ffynnon y dyfroedd byw:* mae yr ymadrodd *dyfroedd byw*, yn iaith y dwyreinwyr, yn arwyddocau, dyfroedd yn berwi i fynu yn barhaus. Duw yw y ffynhonell anhysbyddawl o bob rhyw fendithion tymhorol ac ysbrydol. Roberts, W. Lowth.—*Pydewau wedi eu torri;* nid oedd dim yn fwy angenrheidiol yn y gwledydd dwyreiniol nac ydoedd meddu ffynnon neu bydew da wrth y tŷ; gwel Diar. 5. 15. Esa. 36. 16. 2 Cron. 26. 10 Neh. 9. 25. Ac ni's gallesid cael unrhyw gyffelybiaeth fwy grymmus er dynodi y ffolineb o ymwrthod â Duw a'i wasanaeth, a cheisio cymmhorth oddiwrth eilunod.

Adn. 14—17. *Ai gwas ydyw Israel?* neu, "Ai gwas oedd Israel?" Ai dyma oedd ei gyflwr cyntefig ef? Onid mab oedd efe yn hytrach? Oni alwodd Duw ef, ac oni ymddygodd efe tuag ato fel cyn-fab?—*Pa ham yr yspeiliwyd ef?* Cyfeiriad amlwg at gaethgludiad y deg llwyth, yr hyn a achlysurasid eisioes trwy eu pechodau, er fod Duw wedi ymddwyn tu ag attynt hwy fel meibion, ac nid fel caethion a ennillasid trwy fuddugoliaeth, neu a brynasid am arian, nac fel rhai a anesid yn y teulu fel caethion, Gen. 17. 12, 13 —*Llewod*, ydynt ddarluniau o fuddugoliaethwyr, Pen. 50. 17.—*A dorrasant dy goryn;* neu yn hytrach, "A dorrant

dy ben;" yr hyn a wiriwyd trwy farwolaeth Josiah, 2 Bren. 23. 33, 34.—*Pan ydoedd efe yn dy arwain ar hyd y ffordd.* Mae yn debyg fod yma gyfeiriad at ymgais yr Iuddewon i ddiwygio yr eglwys a gwladwriaeth Israel, yr hyn a ymddangosai yn obeithiol dros amser; ond buan y dychwelodd y bobl at eu heilun-addoliaeth a'u drygau eraill. BOOTHROYD.

Adn. 18. *I yfed dwfr yr afon:* ymadroddion yn arwyddo ceisio cymhorth gau, a ffurfio cyngrhair â'r Aipht ac Assyria. BOOTHR.

Adn. 20. ***Mi a dorrais dy iau***, sef iau gaethiwus yr Aipht, a fuasai yn gwasgu yn dost ar eu hynafiaid. WILLIAMS. Llawer gwaith y gwelwyd y genedl hon yn ymrwymo na throseddent mwyach, pan fyddai Duw yn eu gwaredu o'u cyfyngderau; ond ni buant ffyddlawn yn ei gyfammod ef, Salm 78. 34—37. a 106. 12--14. Ond y mae rhai yn darllen y geiriau yn ol y LXX. "Yn ddiau, er ys talm, ti a dorraist dy iau, ti a ddrylliaist dy rwymau, ac a ddywedaist, Ni byddaf dan awdurdod: canys ar bob bryn uchel, a than bob pren deiliog y putteiniaf." DAVIDSON.

Adn. 21. *Nitr*, neu natron, (*soda*) yw yr hyn a olygir yma, pa un bynnag ai naturiol ai puredigol; toddir ef mewn ychydig ddwfr, ac y mae defnydd mawr yn cael ei wneyd o honaw i olchi, mewn llawer o barthau o Asia, lle y'i gelwir sebon-bridd. BLAYNEY. Gwel Diar. 25. 20.

Adn. 23. *Edrych dy ffordd yn y glynn*, sef glynn Hinom, lle y cyflawnid defodau ffieiddiaf eilun-addoliaeth; gwel pen. 7. 31. Esa. 57. 5, 6.

Adn. 24. *Asen wyllt, &c.* Mae y beirniad dysgedig BOOTHROYD yn darllen yr adnod hon fel y canlyn, "Asen wyllt wedi ei chynnefino â'r anialwch, wrth ei dymuniad cryf yn sugno y gwynt i'w ffroenau; yn ei hachlysur pwy a'i try heibio? nid ymflina neb i'w cheisio hi, pan fyddo ei gwres drosodd, hwy a'i cânt.' Dywedir fod y creaduriaid hyn ar ryw dymhorau neillduol, fel pe baent yn llawn cynddaredd yn ymofyn am y gwrryw od, gan arogli y gwynt i edrych a allant hwy ganfod pa le y byddant; ac mai ofer i neb feddwl cael llywodraeth arnynt tra fyddont dan ddylanwad y nwyd hono; ond y mae eu nwyd hwy drosodd yn fuan, ac yna gellir ymhel â hi; eithr nid oedd un attalfa ar awydd yr Israeliaid am eu heilunod.—Neu, hwyrach fod yr ymadrodd, *Yn ei mis y cant hi*, yn cyfeirio at gyflwr yr asen wyllt yn drom gan iwdn, pan fydd yn hawdd ei dal, ermor aflywodraethus ydoedd o'r blaen; felly, ni's gellid attal y bobl hyn yn eu herlyniad awchus ar ol eu defodau eilun addolgar, hyd oni theimlent effeithiau gofidus eu hymddygiadau, yn y barnedigaethau a ddisgynai arnynt. SCOTT.

Adn. 25. *Cadw dy droed rhag noethni, a'th geg rhag syched.* Yr oedd traed noethion yn dra annymunol i deithwyr yn y gwledydd poethion, ac ofnadwy hefyd ydoedd syched. Y drygau hyn a ddisgynent yn gyffredin i ran y caethion pan yn cael eu mudo o'r

naill wlad i'r llall, Deut 27. 48. Esa. 20. 4. Yr oedd holl rybuddion Duw i'w bobl wedi eu hamcanu i'w dysgu i ochel tynu y farn o gaethgludiad yn eu penau, ond ni's mynent wrando.—*Nid oes obaith.* Meddylient nad oedd un gobaith am ddiogelwch iddynt ond trwy ymgynghreirio â phaganiaid, ac ymwneyd â defodau eilun-addolgar; neu, nad oedd ganddynt un lle i obeithio am drugaredd oddiwrth Dduw, ac ymwared o'u cyfyngderau; neu, nad oedd un gobaith iddynt am welläad o'u cyndynrwydd. Am hyny, gan eu bod wedi *caru dieithriaid*, a duwiau dieithr, yr oeddynt yn penderfynu myned ar eu hol hwynt, a beiddio yr holl ganlyniadau fel dynion mewn anobaith a gorphwylldra. DAVIDSON, SCOTT.

Adn. 28. *With rifedi dy ddinasoedd, y mae dy dduwiau di, O Judah:* yn ol dull ac arfer y cenhedloedd, y rhai yr oedd ganddynt nid yn unig dduw gwahanol yn mhob gwlad, ond yn mhob dinas a thref hefyd, yr hwn a gyfrifid fel noddwr y lle hwnw, gwel 2 Bren. 17. 29, 30, 31.

Adn. 30. Yn lle derbyn llesâad drwy rybuddion a chystuddiau, hwy a laddent genhadon ffyddlawn yr Arglwydd, gwel 2 Cron. 24. 20, 21. a 36. 16. Neh. 9 26. Matt. 23. 30—37.

Adn. 31. *Arglwyddi ydym ni*, hyny yw, yr ydym yn feistri arnom ein hunain.

Adn 34. *Gwaed eneidiau y tlodion diniweid*, neu waed bywyd plant a offrymmid i Moloch, gwel adn. 23. pen. 19. 4. Sal. 106. 38. W. LOWTH.—*Nid wrth chwilio y cefais hyn*, neu, yn ol llawer o'r beirniaid medrusaf, "Nid mewn twll cuddiedig y cefais hyn, ond yn amlwg ar bob derwen;" a meddylir fod yma gyfeiriad at y gorchymyn a roddid yn Lef. 17. 13; ond yr oedd pob lle wedi ei halogi â gwaed wedi ei offrymu i eilunod. BOOTHR., &c.

## PEN. III.

Adn. 1—5. Nid oedd trosedd a ofynai am ysgariaeth, yn faddeuadwy yn ol cyfraith Moses, nac yn ol defod y wlad. Deut 24. 1—4. Gan hyny, gwelwn mor oludog yw trugaredd Duw! Er y gallai efe yn gyfiawn wrthod Judah am ddewis duwiau eraill o'i flaen ef, eto efe a dystiai am dano ei hunan, ei fod yn barod i fadden iddynt a'u derbyn, os dychwelent hwy atto ef fel eu Harglwydd cyfiawn.—*Megis Arabiad yn yr anialwch*. yr hwn a wylia am gyfle i yspeilio. felly tithau ydwyt yn dysgwyl am gyfleusderau i gyflawni putteindra ysbrydol. BOOTHROYD, &c

Adn 6—11. Yma y dechreua prophwydoliaeth newydd, yr hon a draddodwyd yn fuan ar ol yr un flaenorol mae yn debyg; neu, o bellaf yn y ddeunawfed flwyddyn o freniniaeth Josiah, pan yr oedd rhyw ymddangosiad o ddiwygiad o leiaf; ond cyhuddir llawer o'u bod yn euog o ragrith, ac fe'u rhybuddir o'u perygl, tra yr annogir y gwir addolwyr i ddysgwyl gogoniant a dedwyddwch rhagorach na dim a wybu eu tadau am dano.—*A mi a ddywedais*,

trwy y prophwydi Elïas, Eliseus, Hosea, Amos, &c.—*Eithr mewn rhagrith*; ni chymerodd rybudd trwy gwymp Samaria; ond hyd yn nod ar y pasc ardderchog a gadwodd Josïah, yr oedd y tywysogion yn cuddio eu delwau, pen. 31. 18—20. SUTCLIFFE.—*A'i cyfiawnhaodd ei hun, &c.*, hyny ydyw, ymddangosai yn gyfiawn mewn cydmariaeth i Judah, felly Luc 18. 14. BLAYNEY. Yr oedd Judah yn pechu yn erbyn argyhoeddiadau cryfach, heb gymeryd rhybudd oddiwrth yr hyn a ddyoddefasai Israel am eilunaddoliaeth, cymh. Ezec. 16. 51.

Adn. 12. *Tua'r gogledd.* Assyria a Media, lle y cludasid y deg llwyth, oeddynt yn gorwedd i'r gogledd o Judea. W. LOWTH, SCOTT, CLARKE. Neu, hwyrach ei fod yn golygu y prif ran hwnw o'r Tir Sanctaidd, lle yr oedd rhai o'r deg llwyth eto yn aros. SUTCLIFFE.

Adn. 14. *Myfi a'ch prïodais chwi*, am hyny myfi a ymddygaf tuag attoch eto fel eich Arglwydd.—*Un o ddinas, a dau o deulu.* Dyma addewid o'u derbyniad i mewn i'r eglwys Gristionogol; lle y rhoddai y prophwyd ryw awgrym iddynt o'r gwahaniaeth rhwng y cyfammod newydd a'r hen gyfammod; dan hwnw, fe'u dygid fel cenedl i'r eglwys; ond dan hwn rhaid oedd eu dwyn yn bersonol: ond, efallai fod yr ymadrodd *dau o deulu*, yn arwyddocäu parhad yr addewid a wnaed i gredinwyr gyda golwg ar eu teulu. Anfynych iawn, os byth, y mae Duw yn gadael teulu heb achub ond un o honaw, ar ol dechreu, gwel Luc 19. 9.

Adn. 16 Rhoddir awgrym gref yma, o gyfnewidiad, neu ddiddymiad sefydliadau Moses, yn y rhai y meddai yr arch le tra arbennig, gan ei bod yn cynnwys y gyfraith ynddi, a bod y cerubiaid oddiarni. Ni's gallai Iuddew byth fod yn esmwyth hebddi, oddieithr bod ei sylwedd mawr, y Messiah, yn bresenol ei hunan.

Adn 17. *Gelwir Jerusalem*, yn orseddfa yr Arglwydd; hyny yw, cyfrifir yr eglwys Gristionogol felly, am y bydd iddo ef ei hunan breswylio ynddi, cymh. Esa. 65. 17.

Adn. 19. *Pa fodd y'th osodaf yn mhlith y plant?* Yr oedd y bendithion a addawid yn yr adnodau blaenorol yn fawrion iawn, ac ymddangosai yn anhygoel y'u cyflawnid, gan ddyfned euogrwydd y genedl, ac mor drwyadl eu llygredigaeth: canys pa fodd y gallai yr Arglwydd, yn gyson a'i gyfiawnder â'i sancteiddrwydd, roddi y fath wrthryfelwyr cyndyn yn mysg ei blant, a rhoddi y tir gogoneddus a dymunol hwnw yn etifeddiaeth iddynt, a fuasai cyhyd yn meddiant y cenhedloedd a'u byddinoedd? Dan. 8. 9, 10. Ezec. 20 5, 6. Dan. 11 40—45. Luc 21. 20—24. I hyn y mae efe yn atteb, y byddai iddo eu dwyn i edifarhau, i gredu, a gweddïo, y rhoddai efe "ysbryd mabwysiad" iddynt; ac yna y galwent hwy arno ef, gan ei garu a'i ofni fel Tad;—Gwel Deut. 30. 1—10. Rhuf. 8. 14—17. Gal. 4. 4—7: ac y byddai iddo ddylanwadu eu calonau â i ras yn y fath fodd, fel nad ymadawent mwy oddiwrtho.

Adn. 20—25. Yn y geiriau hyn y cynnwysir darluniad prophwydoliaethol o'r dull yn yr hwn y cyflawnir y cyfnewidiad rhag grybwylledig. Lle y dangosir y byddai i'r Arglwydd argyhoeddi ei bobl o'u drygioni yn ymadael âg ef yn anffyddlawn; yna clywid llais eu cri a'u gweddi, hyd yn nod yn y fan lle y cyflawnasid eu camweddau, yr hyn oedd angenrheidiol, oblegyd eu bod wedi ymgyndynu cymmaint mewn anufudd-dod i Dduw, ac annghof o honaw ef. Yna y mae efe yn eu gwahodd hwy yn raslawn i ddychwelyd atto ef, gan addaw maddeu eu camweddau, ac iachau eu gwrthnysigrwydd. SCOTT.—*Gwarth a ysodd lafur ein tadau.* Gelwid yr eilun Baal, mewn ffordd o waradwydd, yn *Bosheth*, sef "cywilydd," neu *warth:* gwel pen. 11. 13. Hos. 9. 10. W. LOWTH. Mae allorau, ac addoliad Baal, a holl dduwiau Syria, yn cael eu galw "y peth gwaradwyddus hwnw," pen. 11. 13. SUTCLIFFE.

## PEN. IV.

Adn. 1, 2. Mae yn amlwg fod y ddwy adnod yma yn perthynu i'r bennod flaenorol, ac yn cynnwys atteb yr Arglwydd i gyffes Israel; ac y mae testyn newydd yn cael ei ddechreu gyd a'r adnodau canlynol. BOOTHROYD, DAVIDSON.

Adn. 3, 4 *Ymenwaedwch*, yr oedd enwaediad yn arwyddoccâu bwrw ymaith holl chwantau pechadurus y cnawd. BLAYNEY.

Adn. 5, 6. *Udgenwch udgorn yn y tir:*—Mae y prophwyd yma yn seinio yr alarwm, ac yn cynghori y bobl i beidio beiddio ymosod ar y gelynion, ond yn hytrach i ymofyn am noddfa yn y dinasoedd caerog.—*Mi a ddygaf ddrwg o'r gogledd*, yr hyn sydd ragfynegiad am oresgyniad y wlad gan Nebuchodonosor, yr hyn a gymerodd le yn mhen deng mlynedd ar hugain ar ol hyn. SCOTT, Wrth son am freninoedd Babilon a Chaldea fel rhai yn dyfod o'r gogledd, ni's golygid eu sefyllfa ddaiaryddol yn gymmaint, a'r llwybr arferol ar hyd yr hwn y dygid byddinoedd o'r wlad hono gan fod yn anmhosibl i fyddinoedd mawrion groesi anialwch Arabia, hwy a arferent groesi yr Euphrates wrth Tuphsah, a dyfod i Judea o'r tu gogleddol, trwy Damascus a Syria. CALMET.

Adn. 7. *Y llew*, sef Nebuchodonosor, breniniaeth yr hwn a gyffelybir i lew; Dan. 7. 4. W. LOWTH.—*Difethwr y cenhedloedd* un a ddystrywiasai lawer o genhedloedd eraill. GILL.

Adn. 9, 12. *A'r prophwydi a ryfeddant*, hyny yw, y gau brophwydi, y rhai a oddefasai yr Arglwydd i dwyllo y bobl.—Yma dywedir fod Duw wedi twyllo y bobl hyn, pan mewn gwirionedd nid oedd namyn wedi eu goddef i gael eu twyllo gan y gau brophwydi, gwel pen. 1. 17. a Rhuf. 9. 17—19. 2 Thes. 2. 11.

Adn. 11, 12. *Gwynt sych yr uchel leoedd*, neu ddeif-wynt y gwastadedd; mae y gair a gyfieithir *uchel-leoedd* yn arwyddo gwastadrwydd a noethder. Meddylia amryw feirniaid mai y

*samuel.* neu boethwynt y diffaethwcn yr hwn sydd ddinystriol i fywyd pawb a'i hanadla, a olygid yma, oddiwrth yr hyn y defnyddid cyffelybiaeth yma, i ddangos mor ddinystriol fyddai y byddinoedd Caldeaidd iddynt.

Adn. 15. *Canys llef sydd yn mynegi allan o Dan.* Dan ac Ephraim oeddynt lwythi ar gyffiniau gogleddol breniniaeth Judah; ac yma darlunir y newydd yn cael ei gludo oddiyno i Jerusalem, fod y Caldeaid wedi disgyn ar y parthau hyny o'r wlad yn barod.

Adn. 16. *Cyhoeddwch yn erbyn Jerusalem,* neu, "Cyhoeddwch am Jerusalem." BOOTHROYD.

Adn. 17. *Megis ceidwaid maes y maent.* Gosodir gwylwyr i gadw y maesydd agored yn Arabia, pan fyddo y ffrwythau ar aeddfedu. Syr J. CHARDIN.

Adn. 18. *Dyma dy ddrygioni,* neu, yn ol BOOTHROYD,

"Y cyfryw yw dy adfyd; canys chwerder yw;
Ië, pla yw, hyd nod at dy galon."

Adn. 19. *Gofidus wyf o barwydenau fy nghalon,* parwydenau, neu amwisg y galon; darlunir y gofid yn gyntaf fel yn effeithio ar yr ymysgaroedd, yna ar y *pericardia,* neu amwisg y galon, ac yn ddiweddaf ar y galon ei hunan; yr hon, heb allu cynnwys y gofid yn hwy, a ymdyr allan yn yr iaith rymmus yma. BOOTHR.

Adn. 23—26, *Mi a edrychais ar y ddaear:* yn y geiriau hyn, nyni a gawn y darluniad mwyaf dyddorawl o wlad anhreithedig; mae ddaiar yn cael ei darlunio fel pe y'i dygid yn ol i'w sefyllfa gynhwynol o dryblith didrefn. BOOTHROYD.

Adn. 27 *Ac eto ni wnaf ddiben.* Mae yn debyg mai dynodiad o'r tosturi dwyfol yw y geiriau hyn, ac y byddai i'r Arglwydd arbed gweddill, i'r rhai y cyflawnai efe ei addewidion gwerthfawr.

Adn. 30, 31. *Er ymwisgo o honot ag ysgarlad.* Yma y cynnwysir darluniad manol o buttain yn y gwledydd dwyreiniol; ac y mae y cyfeiriadau yma yn dangos mor atgas a ffiaidd oedd cyflwr Jerusalem. ROBERTS.

## PEN. V.

Adn. 1. *Heolydd Jerusalem,* mae y gair yn dynodi marchnadlëoedd, a manau cyhoeddus yn y ddinas, lle yr arferai mwyaf o'r dinasyddion ymgyrchu. Mae yr iaith a arferir yn y testyn hwn yn dynodi mewn modd tra grymmus, y dirywiad cyffredinol oedd wedi cymeryd lle yn mysg y bobl, gwel Esa. 57. 1—4. Mica 7. 1—7. Gen. 18. 3.

Adn. 2. Yr oeddynt ar eiriau yn eu haddef eu hunain yn addolwyr i'r Arglwydd: ond ar weithredoedd yn ei wadu ef. Gwel pen. 4. 2.

Adn. 4, 5. Yr oedd y prophwyd yn lled hyderu mai am na's dysgasid hwynt yn well, yr oedd drygioni a halogrwydd yn han-

fodi yn mysg llaweroedd; ond erbyn edrych, yr oedd y gwŷr mawr hefyd, er cael pob manteision dysg, yn gyffelyb i ychain anbywaith, yn gwrthod cymeryd yr iau, ac yn dryllio pob attalfa a roddid arnynt.

Adn. 6. *Llew, blaidd, a llewpard,* ydynt gyffelybiaethau a ddefnyddir i ddynodi brenin Babilon a'i fyddinoedd, y rhai a ddyfethent bawb o'u blaen, fel gwylltfilod rheibus.

Adn. 7—9. Yr oedd camweddau y bobl o'r natur atgasaf, nid oedd y prïodasol na'r anmhrïodasol yn eu plith yn gofalu dim am ddiweirdeb, a pha fodd y gallai y cyfryw bobl ddysgwyl cael maddeuant?

Adn. 10. *Dringwch ar ei muriau hi,* neu yn ol llawer o'r beirniaid goreu, "Ewch i fynu yn erbyn ei gwinwydden wyllt, a dystrywiwch," &c. Darlunid Israel yn dra mynych dan y gyffelybiaeth hon, gwel Salm 8. 8. Esa. 5. 1—7.

Adn. 12—14. *A dywedasant, Nid efe yw:* hyny yw, Nid geiriau Duw yw y rhai hyn a draethir gan y prophwyd. POOLE. Ond y mae yr Arglwydd yn tystio y caent hwy deimlo nad rhyw beth fel gwynt yn myned heibio oedd ei eiriau ef yn ngeneuau ei weision.

Adn. 16. *Fel bedd agored:* hyny ydyw, yr oedd eu saethau yn gwasgaru anrhaith ar bob llaw, ac fel bedd agored yn anniwalladwy. CALMET.

Adn. 17. *Yr hwn a gawsai dy feibion di a'th ferched,* neu, "hi a fwytty dy feibion a'th ferched;" gwel Salm 14. 4. Preg. 5. 11.

Adn. 20—24. *Mynegwch hyn.* Tra yr oeddynt yn addef gallu Duw, eto nid oeddynt yn ei ofni ef, nac yn wir ystyriol o'r doniau a gyfrannai efe mor helaeth iddynt. BOOTHROYD.

Adn. 27. *Fel cawell yn llawn o adar.* Mae yn amlwg fod yma gyfeiriad at yr hud-gawell a arferai yr adarwyr i ddenu yr ehediaid i'r maglau, trwy roddi adar dôf yn y cawell.

Adn. 28. *Aethant tu hwnt i weithredoedd y drygionus.* Mewn llysoedd barn gwnaent benderfyniadau mwy ffafrawl i'r rhai a'u gwobrwyent, nac a ddysgwyliai y cyfryw ddynion er mor ddiegwyddor oeddynt.

Adn. 31. *A lywodraethant trwy eu gwaith hwynt,* neu yn llythyrenol, "A ddisgynasant ar eu dwylaw hwynt," neu a gyttunasant â hwy i dwyllo y bobl. Yr oedd y prophwydi mor awyddus i rëoli a'r offeiriaid.

## PEN. VI.

Adn. 1. *Meibion Beniamin,* neu breswylwyr Jerusalem, a elwid felly mae yn debyg, am fod y ddinas hono yn rhandir Beniamin, Jos. 18. 28.—*Beth-haccerem,* pentref bychan oedd ar fryn, yn lled agos i Jerusalem; ac yr oedd *Tecoah,* tref fechan arall, a enwir yma, o fewn tua 12 milldir i'r brif ddinas. BLAYNEY, CLARKE.

Adn. 2. Mae amryw o'r beirniaid yn rhoddi cyfieithiad tra gwahanol i'r adnod hon, ac yn cael eu harwain i hyny trwy roddi arwyddocäad gwahanol i'r perwydd-air, megys y rhoddir mewn amryw fannau eraill, Sal. 79. 7. a 48. 2, &c.—

"Amcenais yr orphwysfa, ïe, yr un ddymunol,
O ferch Sïon, i ddystryw."

Adn. 3. *Y daw y bugeiliaid, &c.*, sef y tywysogion Caldeaidd a'u byddinoedd; gwel pen. 25. 34. W. LOWTH, GILL.

Adn. 4—6. Mae awyddfryd y fyddin i ddystrywio yn cael ei ddynodi mewn modd grymmus yma; ni chymerent eu hattal gan wres y dydd, na chan wlith oer y nos: cymh. Gen. 31. 40.

Adn. 7. *Gofid a dyrnodiau*, hyny yw, trais ac yspail ar y tlodion, oeddynt ger bron y Duw cyfiawn ynddi beunydd.

Adn. 9. *Tro dy law yn ei hol, megis casglydd grawnwin i'r basgedau*, neu, "i'r cangenau," yn ol y cyfieithiad Syrïaeg. Mae Duw yn cyfarch y Caldeaid yn y geiriau hyn, gan erchi iddynt ddychwelyd ar ol y tro cyntaf, a chasglu y gweddill o'r trigolion, fel y cynnullir lloffion grawn, gan eu dwyn i gaethiwed; ac felly y gwnaethant, gwel pen. 3. 28—30. BLAYNEY.

Adn. 10. *Wele, eu clust hwy sydd ddienwaededig*, neu gauedig, fel pe buasai groen yn orchuddiedig drostynt, fel nâ's gallent glywed; yr hyn a arwyddai na fynent wrando ar leferydd yr Arglwydd.

Adn. 11. *Yr ydwyf fi yn llawn o lid yr Arglwydd*, yr oedd y felldith brophwydoliaethol yn dylenwi ei feddwl yn y fath fodd, fel nad oedd le i ddim arall yn ei galon ef.—*Blinais yn ymattal.* Cymh. Esa. 32. 3. a 39. 2, 3.

Adn. 16, 17 *Sefwch ar y ffyrdd*; cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth deithwyr, y rhai mewn amheuaeth am eu ffordd, a safant, a ymbwyllant, ac a ystyriant pa un a yw y cyfarwyddyd a gawsent gan ryw arweinwyr yn gywir ai peidio.—*Yr hen lwybrau*, ffydd yn y cyfammod ag Abraham, ac ufudddod i holl ewyllys datguddiedig Duw, Heb. 11.—*A chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau*, neu yn hytrach, adferiad i'w heneidiau, y rhai a andwyasid trwy eu gwrthgiliadau, gwel pen. 31. 2. a 47. 6. a 49. 19. a 50. 34, 44.—Yr oedd y cyngor yma iddynt yn dra graslawn a doeth; ond gwrthodai y bobl ef yn ddirmygedig.

Adn. 20. *Sebah* oedd ran o Arabia Felix, ac ydoedd yn enwog am ei phераroglau a gynnyrchid o honi.

Adn. 21—25. Wele fi yn rhoddi tramgwyddiadau, hyny yw, yn appwyntio pob offerynau a moddion, y rhai oblegyd eu calonau gwyrawg a throfaus, hwy a dueddent i'w dinystr yn annocheladwy. —*O ystlysau y ddaear*, sef o eithafoedd y ddaiar.

Adn. 27. *Mi a'th roddais di yn dwr ac yn gadernid*; meddylia amryw y gellid darllen y geiriau, "yn chwiliwr ac yn brofwr," a bod yma gyfeiriad at swydd profwr arian ac aur. BLAYNEY.

Adn. 28. *Efydd a haiarn ynt*, nid aur neu arian, ond yr oedd-ynt, wedi dyfod yn gyffelyb i'r metteloedd gwaelaf, y rhai a ddefnyddid i lygru yr arian pûr. BLAYNEY, BOOTHROYD.—Yr oedd eu digywilydd-dra yn gyffelyb i bres, a'u cyndynrwydd i haiarn. GROTIUS.

Adn. 29. *Llosgodd y fegin.* Mae ffroen y fegin wedi toddi gan rym angerddol y tân a arferid i geisio puro y sylweddau. CLARKE. Hyny yw, yr oedd pob moddion a ellid ei ddefnyddio i buro y bobl hyn oddiwrth eu hanmhurdeb, yn aneffeithiol. W. LOWTH. —*Gan dân y darfu y plwm.* Gan na's meddai yr Hebreaid air priodol am arian byw; ond y defnyddient yr un gair, "*ipereth*," am blwm ac am arian byw, yr hwn a ddygai eu masnachwyr o'r Hispaen, Ezec. 27. 12; ni's gall fod anmheuaeth nad arian byw a olygid; ac fel y cyssodda y sylwedd yma yn rhwydd âg arian, ac y'i myg-derthir yn y tân, y mae yn eithaf priodol dweyd yn ol iaith y testyn ei fod yn darfod yn y tân, yr hyn ni's byddai mor briodol ei ddweyd am blwm. SUTCLIFFE.

Adn. 30. *Arian gwrthodedig*; megis y gwrthodir arian diwerth a drwg yn mysg dynion, felly y gwrthodir y rhai hyn gan Dduw. W. LOWTH

## PEN. VII.

Adn. 1. Yma y dechreua prophwydoliaeth newydd, yr hon a barhâ hyd pen. 9. 23, a thybir ei bod wedi ei thraddodi yn gynar yn nheyrnasiad Jehoiacim, yr hwn a adferodd eilun-addoliaeth, wedi i'w dad Josïah fod yn dra ymdrechgar i ddifodi eilun-addoliaeth. O'r pryd hwn dechreuodd gau brophwydi luosogi yn y tir; ac yr oedd y rhai hyn yn elynion annghymmodlawn i Jeremïah, yr hwn a barhai yn ddiball, dan berygl colli ei fywyd, i ddynoethi eu gwir nodweddiad, ac i gyhoeddi eu dinystr sicr. DAVIDSON.

Adn. 4. *Teml yr Arglwydd ydynt*, neu "yw y rhai hyn." Y peth mwyaf tebyg yw, mai iaith y gau brophwydi yw y geiriau hyn, y rhai gan gyfeirio at amryfal adeiladau y deml, a haerant na's byddai i Dduw wrthod ei bobl na'u rhoddi i fynu, ar gyfrif ei deml oedd yn eu plith, Matt, 24. 1, 2. BOOTHROYD.

Adn. 8—10. Cwyna Duw trwy ei was yma, eu bod hwy yn ymddiried i'w gau athrawon, ac yn dysgwyl i'r Jehofah eu gwaredu er cyflawni o honynt bob rhyw ffieidd-dra yn ei erbyn ef. BOOTHROYD.

Adn. 11. Yr oeddynt yn cyfnewid ffurfiau crefyddol i fod yn offer annghyfiawnder, trais a gormes; gwel Matt. 21. 12, 13.

Adn. 13. *Gan godi yn forau ac anfon*; cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth rai diwyd yn eu galwedigaeth. POOLE.

Adn. 16—20. *Na weddia dros y bobl hyn.* Y weddi a waherddid yma, oedd am barhad yr Iuddewon yn ngwlad Canaan, nid am eu dedwyddwch ysbrydol, am yr hyn y'n rhwymir i weddio dros bob

dyn gan y gyfraith annewidiol sydd yn erchi i ni garu ein cymmydog fel ni ein hunain. Ond yr oedd yr Arglwydd wedi penderfynu yn annewidiol gaethgludo y genhedlaeth hono, am hyny yr oedd yn gweddu i'w wir weision ef ymostwng i'w ewyllys penarglwyddiaethol ef. DAVIDSON.

Adn. 21. *Rhoddwch eich poeth offrymau at eich aberthau.* Cynnwysai y geiriau hyn awgrym amlwg nad oedd gosodiadau Moses mor anhebgorol i wir grefydd ag y meddyliai yr Iuddewon. Mor ddiwerth oeddynt yn nghyfrif yr Arglwydd, fel y gallent chwanegu eu poeth offrymau at yr aberthau hyny, ar y rhai y caniattai y gyfraith iddynt wledda, os ewyllysient, a bwytta y cyfan.—DAVIDSON.

Adn. 22. *Canys ni ddywedais I wrth eich tadau am boeth offrymau.* Mae yn ddiau fod Duw wedi rhoddi gorchymyn mewn perthynas i boeth offrymau ac aberthau o bob rhyw yn mynydd Horeb, ac am hyny meddylia rhai fod rhyw annghysondeb yn ymddangos yn y geiriau hyn, ond cyfarfyddir â'r anhawsdra yma gan rai o'r cyfieithwyr dysgedicaf trwy ddarllen y rhan olaf o'r adnod fel hyn;—"Am boeth offrymau ac aberthau yn unig;" a dygant resymau cryfion dros y cyfryw ddarlleniad, Cymh. Hos. 6. 6. â 1 Sam. 15. 22. Ordeiniodd Duw ebyrth, nid er eu mwyn hwy eu hunain yn unig, ac nid er mwyn eu bod yn brawfion o ufudd-dod yn unig; ond yn neillduol fel cysgodau o bethau gwell.

Adn. 24. *Aethant yn ol, ac nid yn mlaen.* Mae yr ymadrodd wedi ei gymeryd oddiwrth rai anhywaith, a dynant yn ol, ac a wrthodant roddi eu gyddfau dan yr iau. Gwel adn. 26. Neh. 9. 29. Hos. 4. 16. W. LOWTH.

Adn. 29. *Cneifia dy wallt.* Arferiad cyffredin mewn galar mawr, pen. 47. 5. a 48. 37. Esa. 15. 2. W. LOWTH. Ychwanegiad o eiddo y cyfieithwyr yw, *O Jerusalem*, ac mae yn debycach mai i'r prophwyd y rhoddir gorchymyn i gneifio ei wallt ac ymddangos fel un mewn dwys alar, er arwydd i'w gydwladwyr. DAVIDSON.

Adn. 31. *Hwy a adeiladosant uchelfeydd Tophet*, math o wyddion neu fryniau bychain a wneid ganddynt er mwyn cyflawni eu defodau eilun-addolgar arnynt yn ddigon cyhoeddus, yn ngolwg yr holl bobl.--*Yr hyn ni orchymynais*, ïe mewn gwirionedd, yr hyn a waharddasai efe yn y modd mwyaf pendant, fel y mae y dull ymadrodd yma yn arwyddoccau yn aml. Gwel Esa. 65. 12. Jer. 2. 8. Diar. 18. 5. a 28. 21. Rhuf. 1. 28. W. LOWTH

Adn. 32. *Glynn lladdedigaeth:* oblegyd y niferi a leddid, neu a gleddid yno. GILL.

## PEN. VIII.

Adn. 1—3. *Y dygasant hwy esgyrn breninoedd Judah.* Mae yn debyg mai y prif beth a'u cymhellai i gyflawni y traha yma, oedd

gobaith am drysorau; gan yr arferid yn yr hen oeseodd, gladdu trysorau mawrion yn meddrodau breninoedd. WILLIAMS.

Adn. 4. *A gwympant hwy ac ni chodant?* Nid ydynt yn ymddwyn fel rhai meddiannol ar synwyr cyffredin · os gwr a gwymp, onid ymdrecha efe i gyfodi drachefn, ac oni bydd efe yn dra dïolchgar am unrhyw gymhorth? ond yr ydych chwi wedi cwympo trwy eich anwireddau, eto heb un meddwl am gyfodi trwy edifeirwch; yr ydych wedi cefnu ar Dduw, ac er ei fod ef yn galw yn dirion arnoch i ddychwelyd, yr ydych chwi yn parhau i ymgyndynu yn eich gwrthryfel.

Adn. 7. *Ni wyddant farn*, neu air yr Arglwydd, yr unig arweinydd anffaeledig i ddyn.

Adn. 8. *Ofer yw pin yr ysgrifenyddion.* Yn ofer yr oeddynt yn ymdrafferthu i ysgrifenu eiliadon o'r gyfraith, pan na's gwrandewid, na's darllenid, ac na's ufuddheid iddi. Neu, hwyrach eu bod hwy yn cael eu rhoddi ar waith i roddi cam esboniad arni; ac â'r golygiad olaf yma y cyd una darlleniad Dr. BOOTHROYD o'r geiriau. "Yn ddiau, pin gan yr ysgrifenyddion, a gyfnewidiodd hyn yn geudab."

Adn. 14. *Ac a roes i ni ddwfr bustl i'w yfed.* Meddylir mai rhyw lysieuyn gwenwynig a olygir, â sug neu drwyth pa un, yr arferent ladd dynion; gwel Hos. 10. 4. Ac yma y mae y gyffelybiaeth yn dynodi barnedigaethau chwerwon, dinystriol yr Arglwydd. POOLE.

Adn. 16. Sylwai JEROME fod Nebuchodonosor wedi darostwng Phœnicia, yn myned trwy randir *Dan* i ymosod ar Jerusalem.

Adn. 20. *Y cynhauaf a aeth heibio, &c.* Mae yr amser yn yr hwn yr edrychem am gymhorth wedi myned heibio heb i un cymmhorth ddyfod oddiwrth ein cyngrheirwyr: nid ydym gadwedig; mae ein holl obeithion wedi troi yn siomedig. BOOTHROYD. Gan fod y cynhauaf a'r haf wedi myned heibio, yr oedd pob gobaith am i'r Aiphtiaid ddyfod i'w gwaredu oddi wrth warchaëedigaeth y Caldeaid drosodd. GILL.

Adn. 22. *Onid oes driagl yn Gilead?* Yr oedd son mawr am rinweddau trïagl Gilead, yr hwn oedd fath o lud a geid o bren a dyfai yn agos i Jericho. Y meddwl yw, "A yw ei harcholl yn anfeddygyniaethol? Oni ellir cael meddyg? Os oes drïagl a physygwr, pa fodd na's gwellheid Sïon? Arni ei hunan y mae y bai, hi a wrthododd foddion iachäad a diogelwch.

## PEN. IX.

Adn 1. *O na bai fy mhen yn ddyfrodd!* neu yn llythyrenol, "Pwy a rydd i'm pen ddyfroedd?" Mae fy ngalar dros fy mhobl wedi ei sychu o ddagrau. A. CLARKE. Bernir yn gyffredin fod yr adnod hon yn perthynu i'r bennod flaenorol, â'r hon hefyd y'i cydir mewn rhai argraffiadau.

Adn. 2. *O na byddai i mi yn yr anialwch letty fforddolion!* Mae BLAYNEY, BOOTHROYD, ac eraill yn barnu mai yr Arglwydd ei hunan yw y llefarydd yn y geiriau hyn; ac fe gadarnheir y golygiad yma drwy yr hyn a ddywedir yn niwedd yr adnod nesaf. Efe a sonia am dano ei hun yn aml fel un yn preswylio yn Sïon: ac yma, gan lafaru yn ol dull dynion, efe a ddymunai fod yn mhell oddiwrth ei bobl, fel na's gwelai eu drwg arferion; ac yr oedd fel pe rhoisai amnaid iddynt yn y geiriau hyn y buasai pabell mewn anialwch yn fwy dymunol ganddo yn bresenol, na'r deml yn Jerusalem.

Adn. 7. *Wele fi yn eu toddi hwynt.* Mae y dull o buro meteloedd yn un o'r cyffelybiaethau a ddefnyddir fynychaf i ddynodi arferiad o foddion i buro dynion oddiwrth ddrwg moesol; gwel pen. 6. 27—30. Esa. 1. 25—27. Zech. 13. 8, 9. DAVIDSON.

Adn 9—11. *Onid ymwelaf â hwynt am hyn?* Yr oedd mesur eu hanwiredd yn awr yn gyflawn, ac oedd yn brïodol i Dduw ymweled â hwy; am hyny yr oedd yn weddus iddynt gyfodi cri wylofus o herwydd fod Jerusalem a'r tir i ddyfod yn anrheithiedig.

Adn. 12—16. *Pa wr sydd ddoeth, a ddeall hyn?* Pe buasasent wedi sylwi ar gyfraith neu fygythion Moses, ac iaith y prophwydi, gallasent fod mor ddoeth a deall pa beth oedd yr achos o'u holl gystuddiau: ond y fath oedd eu hanwybodaeth a'u hannghredininiaeth, fel y dysgwylient heddwch pan oedd dinystr disymmwth ar fin disgyn arnynt.

Adn. 17. *Galar-wragedd,* oeddynt wragedd a gyflogid yn y claddedigaethau Hebreaidd i wylofain, a datgan galarnadau, gan wneuthur yr arwyddion mwyaf gorphwyllog o alar, er cyffroi galar mewn eraill.—*Y rhai cyfarwydd,* yr oedd y gelfyddyd yma yn gofyn medrusrwydd i'w chyflawni yn effeithiol. Gwneir cyfeiriad at y ddefod hon yn 2 Cron. 35. 25. Preg. 12. 5. Amos 5. 16. Matt. 9. 23. Marc 5. 38.

Adn. 19. *O herwydd i'n trigfannau ein bwrw ni allan;* neu, "Canys hwy a fwriasant i lawr ein trigfannau." BOOTHROYD, BLAYNEY, DAVIDSON.

Adn. 21. *I ddystrywio;* yma darlunir mor ddisymmwth ac anocheladwy fyddai y distryw, disgynai ar y plant a'r ieuenctyd tra fyddent ar ganol eu chwareuyddiaethau pleserus arferol.

Adn. 22. Rhaid i ŷd wedi ei dorri i lawr a'i adael heb ei gynnull, bydru ar wyneb y maes.

Adn. 23—26. Meddylir fod y geiriau hyn yn cynnwys prophwydoliaeth wahanol, amcan yr hon yw yr amlygiad cyflawn o Dduw, yn nymcheliad holl elynion ei lywodraeth, Iuddewon a Chenhedloedd; o ganlyniad, y mae yma gyfeiriad at fuddugoliaeth y Messiah. Yn hyn y gwneir yr amlygiad rhagoraf o hyfrydwch yr Arglwydd mewn gweithredu cariad, barn, neu gyfiawn-

der a ffyddlondeb: ac yn gyssylltiedig a hyn y dyfynnodai yr apostol, Paul adn. 23, 24. Gwel 1 Cor. 30. 31.—*Enwaededig a dienwaededig*, a gynnrychiolant y rhai oll ydynt addolwyr proffesedig i'r Arglwydd, a'r rhai oll a wasanaethant eilunod; cymh. Rhuf. 2. 25—29.—Y cenhedloedd a enwir yma, a ddynodant elynion yr Eglwys yn gyffredinol.—*A'r rhai oll sydd yn y cyrrau eithaf*, neu yn ol y darlleniad ar ymyl y ddalen, "A dorwyd cyrrau eu gwallt;" yr hyn, meddir sydd ddarluniad cymhwys o Arabiaid y diffaethwch, y rhai a dorrant e ugwallt yn gwtta, er anrhydedd i ryw dduw a addolent. Cymh. Lef. 19 27. a 21. 5.—*Holl dy Israel sydd a chalon ddïenwaededig;* dyma y rheswm pa ham y parid i Israel ddyoddef gyd a'r rhai dïenwaededig, canys ni lesäa enwaediad cnawdol yn unig, ddim; gwel pen. 4. 4. Rhuf. 2. 25.

## PEN. X.

Adn. 1—6. *Gwrandewch y gair.* Mae yn debyg i'r gennadwri hon gael ei thraddodi yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Jehoiachim. DAHLER.—*Na ddysgwch ffordd y cenhedloedd.* Yr oedd y Caldeaid, yn mysg y rhai yr oedd yr Iuddewon i fyw mewn caethiwed, yn nodedig o hoff o sêr-ddewiniaeth: ac yn prïodoli dylanwad mawr i'r cyrph nefol ar amgylchiadau meibion dynion, ac y mae yr Arglwydd trwy y prophwyd yn rhybuddio ei bobl i ochel cymeryd eu llithio i'r unrhyw gyfeiliornad ofergoelus. —*Deddfau y bobloedd*, neu, "Defodau cyssegredig y cenhedloedd," *sydd oferedd.*

Adn. 8. *Athrawiaeth oferedd yw cyff:* hyny yw, delw o bren, nid yw ond oferedd, neu dwyll: neu, yn ol darlleniad BOOTHROYD, BLAYNEY, &c. "Mae y pren ei hunan yn sén i oferedd," neu eilunod. Mae y defnydd o'r hwn y'u llunir yn cyhoeddi ynfydrwydd eu haddolwyr yn uchel; gwel Salm 115. 4—7. Esa. 44. 9—20.

Adn. 9. *Arian wedi ei yru yn ddalenau,* defnyddient y gorau o bob peth i addurno eu heilunod.

Adn. 10—16. Mor wych y mae yr apostol yn cyferbynu y gwir Dduw âg eilunod yn y geiriau hyn! gan ddangos fod gwneuthurwyr y delwau tawdd tecaf yn cywilyddio wrth feddwl mai pethau difywyd ydynt y pethau hyn a wneir ganddynt i fod yn wrthddrychau addoliad eu cyd-ddynion; ond mor ddedwydd yw addolwyr y gwir Dduw, y rhai y mae Lluniwr y greädigaeth yn noddwr ac yn etifeddiaeth iddynt!—*Israel yw gwïalen ei etifeddiaeth ef;* hyny yw, yr oedd y genedl hon wedi ei neillduo gan Dduw i fod yn etifeddiaeth arbenig iddo ei hun, fel y neilldir tir â gwïalen Jeser.

Adn. 17, 18. *Casgl o'r tir dy farsiandïaeth.* Cyferchir Sïon yn y geiriau hyn, ac awgrymir ynddynt y byddai raid iddi adael yr amddiffynfa yn fuan, a myned i gaethiwed. BOOTHROYD.—*Wele*

*fi yn taflu trigolion y tir y waith hon.* Yr oedd eu Hamddiffynwr hollalluog wedi eu gwaredu lawer gwaith; ond yr oedd tymhor ei hir ymaros ar derfynu; efe ei hunan a'u taflai o'u tir, fel y taflai rhyfelwr garreg o'i dafl-ffon.

Adn. 19—25. Mae y prophwyd yn y geiriau hyn yn cynnrychioli ei wlad yn cwynfan dan y farn.—*Wele, trwst y sôn a ddaeth*, neu, "Clywch, swn! wele nesaodd." BLAYNEY.—*Cospa fi Arglwydd, eto mewn barn*, gan dy fod am ddwyn y Caldeaid arnom i'n cosbi am ein pechodau, bydded i hyny fod yn gerydd arnom yn unig, ac nid yn ddinystr i ni. POOLE.

## PEN. XI.

Adn. 1—8 Mae y bregeth, neu y brophwydoliaeth, o'r hon y mae yr adnodau hyn yn rhan, yn parhau hyd ddiwedd y bennod nesaf. Tybiai LIGHTFOOT fod y prophwyd yma yn adgofio yr Iuddewon o'u hadnewyddiad o'r cyfammod gwladol yn nheyrnasiad Josiah, 2 Bren. 23. 3. Meddylia rhai iddi gael ei thraddodi yn niwedd breniniaeth y tywysog hwnw; ac eraill a farnant mai yn y flwyddyn gyntaf i Sedeciad y'i traddodwyd.—*Gwrandewch eiriau y cyfammod hwn*, naill a'i y crynodeb a gynwysir yn adn. 4, 5. neu hwyrach ei fod ef wedi darllen hanes gwneuthuriad cyntaf y cyfammod ar yr achlysur yma, Gwel Exod. 20. 1—21. a pen. 24. 3—8. Y cyfammod yma oedd y siartr, trwy yr hwn yr etifeddent Ganaan, o ras penarglwyddiaethol; ond er fod yr etifeddiaeth wedi ei gwneyd drosodd iddynt yn rhad, yr oeddynt yn sicr o golli y fendith os coleddent galon ddrwg o annghredin-iaeth a gwrthryfel. Yr oedd yr Arglwydd wedi eu haddef fel ei wraig ei hunan; ond gan eu bod wedi ymddwyn yn anffyddlawn, yr oedd yn rhaid iddo eu hysgaru, a'u troi dros y drws, mewn cyfiawnder, er amddiffyn uniondeb ei lywodraeth; cymh. Deut. 9 4, 5. a 10. 12—17. a 28. 1, 2, 15. Heb. 3. 16—19.

Adn. 9—14. *Cyd fradwriaeth a gafwyd.* Mor bell oeddynt o fod yn glynu yn eu cyfammod a'u Duw, ymddangosent fel pe buasent wedi cyd fwriadu, ac ymgyfammodi mewn gwrthryfel yn erbyn Duw, trwy eu hymlyniad cyffredinol at eilunod.

Adn. 15. *Beth a wna fy anwyl yn fy nhŷ?* Mae yn debyg mai dyma iaith arferol gwr pan lefarai wrth, neu am ei wraig; a chan fod Duw wedi dyweddïo had Abraham âg ef ei hunan, efe a'u geilw dan yr un cyfenwad, "fy anwyl," er eu bod wedi torri y cyfammod.- *A'r cig cyssegredig a aeth ymaith oddiwrthyf*; neu, "A fydd addunedau, a chig cyssegredig oddiwrthyt yn gymeradwy?" BOOTHROYD, gan ddilyn y LXX.

Adn. 16. *Olewydden ddeiliog deg.* Cymh. Sal. 80. 8—11. Mae yma gyfeiriad at eu sefydliad cyntaf yn Nghanaan, pan oeddynt wedi ymroddi i Dduw, ac yn llwyddo dan ei nawdd ef.—*Cynnwrf mawr*, y fyddin Galdeaidd, yn dyfod i ddifa yr olewwydden hon.

Adn. 18—23. Mae y prophwyd yn y geiriau hyn, wedi ei orlenwi a dïolchgarwch i Dduw am ei nawdd iddo, yn troi oddiar y peth oedd ganddo mewn llaw, i draethu y modd y datguddiasai Duw frad fwriad gwŷr Anathoth yn ei erbyn.—*A minnau oeddwn fel oen neu fustach a ddygid i'w ladd*; ymadrodd diarhebol, er dynodi anwybodaeth hollol un o'i berygl; efallai mai pobl ei dref enedigol, Anathoth, fuasai y rhai olaf y buasai efe yn teimlo tuedd ynddo i'w hofni; gwel pen. 1. 1. Diar. 7. 22.—*Gwelwyf dy ddialedd arnynt*, neu yn llythyrenol, "Gwelaf dy ddïaledd." A. CLARKE. Gwel pen. 10. 25. 4. 14.

## PEN. XII.

Adn. 1—4. Mae bod yr anwir yn llwyddo, a'r annuwiol yn ffynnu, wedi peri dyryswch i feddyliau llawer duwiol, yn enwedig y rhai oeddynt yn byw dan yr hen oruchwyliaeth, yn yr hon yr oedd addewidion a bygythion tymhorol yn meddu lle amlwg; gwel Salm 73. 1—22; a llyfr Job: ac y mae yn amlwg fod hyn yn peri cryn ddyryswch i feddwl Jeremiah, yr hwn yma yn dra gostyngedig, a ddymunai egluräad gan yr Arglwydd ar y cyfryw ymddygiad.—*Ni wel efe ein diwedd ni.* Mae yn debyg mai iaith yr Iuddewon annghrediniol yw y geiriau hyn, fel pe dywedasent, Nid yw o nemawr o bwys pa fodd y byddwn ni byw, ac nid oes nemmawr o bwys i'w roddi ar fygythion Duw ychwaith, canys nid yw yn debyg y gofala, efe ddim am ein gwobrwyo na'n cosbi ni rhagllaw.

Adn. 5. 6. Yn y geiriau hyn y mae Duw yn cyfarch y prophwyd, ac yn rhoi ar ddeall iddo nad oedd yr hyn a ddyoddefasai efe oddiwrth fygythion a malais gwŷr Anathoth, yn ddim mewn cydmariaeth i'r hyn y gorfyddai ei ddyoddef oddiwrth dywysogion yr Iuddewon, a blaenoriaid Jerusalem, gan hyny bod yn dra afresymol iddo ef ddigaloni yn bresenol. Yna y mae yn ei rybuddio i ochel ymddiried gormod yn ei berthynasau agosaf.

Adn. 7—13 *Y mae fy etifeddiaeth i mi fel aderyn brith.* Mae y gair a gyfieithir *brith* o arwyddocäad ansicr, ac yn dygwydd yn y lle hwn yn unig; ond credir ei fod yn tarddu o wreiddyn sydd yn arwyddo lliwio, neu ystaenio â gwahanol liwiau; a meddyliai awdwyr dysgedig yr Esboniad a elwir "Esboniad y Gymanfa," ei fod yn dynodi aderyn ysglyfaethus, lliwiedig â gwaed, yr hyn oedd yn gyffelybiaeth dra phrïodol i ddarlunio eu nodweddiad fel cenedl wedi ymroi i annghrediniaeth, annghyfiawnder, trais, a chreulonderau.—*Bugeiliaid*, llywodraethwyr gwladol neu eglwysig, pen. 2. 8. a 3. 15. a 10. 21.—*Am nad oes*, neu, "Er hyny" *nid oes neb yn ei gymeryd at ei galon.—Ar yr holl fryniau*, neu yr holl wastadoedd, pen. 9. 10; y llannerchau hyny o'r anialwch ond odid, y rhai na's gwrteithiasid, ond oeddynt yn borfeydd, ac yn ymestyn o Ganaan tu a'r Euphrates. Mor luosawg fyddai yr ys-

peilwyr, neu yr *anrheithwyr*, fel y gorchuddient yr holl leoedd hyn. DAVIDSON

Adn. 14—17. Meddylia rhai fod y brophwydoliaeth hon yn golygu yr Edomiaid, a *chymmydogion drwg* eraill i'r Iuddewon, megis y Moabiaid, yr Ammoniad, a'r Philistiaid, yn erbyn y rhai y prophwydai Jeremiah ; pen. 47, a 48, a 49. ac Ezec. 25. COBBIN. Ar gwymp Israel a Judah, cymerodd y cenhedloedd cymmydogaethol feddiant o amryw ranau o'u tir ; ond y mae Duw yma yn addaw adferiad i'w bobl, ac yn bygwth ei farnedigaethau ar y cenhedloedd hyny, oni ddysgent hwy ffyrdd ei bobl, trwy ddewis eu Duw hwy, ac ymostwng i'w gyfreithiau ef. BOOTHROYD.

## PEN. XIII.

Adn. 1. Mae prophwydoliaeth wahanol yn dechreu yma, yr hon a gynnwysa ddau arwyddlun o ddinystr trwyadl y genedl Iuddewig,—sef gwregys wedi ei adael i bydru, a llestri wedi eu llanw â gwin.

Mae yn debyg fod y gwregys y gorchymynwyd i'r prophwyd ei brynu, yn un o'r rhai a wisgai yr offeiriaid fel addurn yr amser hwnw. Efallai fod yn ofynol i'r prophwyd ei wisgo am ryw ysbaid o amser heb ei olchi, hyd oni byddai yn fudr, ac y darfyddai a bod yn addurniadol, fel y byddai yn arwyddlun prïodol o gyflwr llygredig Israel. Mae llawer o'r Esbonwyr yn meddwl mai mewn gweledigaeth yn unig y bu hyn ; ond y mae y peth yn cael ei hysbysu fel gweithred, ac y mae perygl cefnogi y fath ddeongliad gwrthwyneb i ystyr amlwg yr ysgrythyr heb angenrheidrwydd tra eglur.Ië, yr oedd ufudd-dod diffuant, a hunan-ymwadiad llafurus y prophwyd, yn cymeryd y fath deithiau pell, o amryw gannoedd o filldiroedd, yn tueddu yn gymhwys i beri i'w arwydd ymddangos yn dra phwysig, i waradwyddo y bobl am eu hanufudd-dod, ac i ddangos y gorthrymderau dirfawr i'r rhai y'u darostyngid yn y caethiwed oedd yn agosâu. SCOTT.

Adn. 10, 11. Yn yr adnodau hyn y cynnwysir y cymhwysiad o'r arwyddlun a ddefnyddiasai y prophwyd. *Felly y gwneuthum*, neu, "felly y gwneuthwn," fel y mae yn eglur y dylai y darlleniad fod, oddiwrth ddiwedd adn. 11.

Adn. 12—14. *Pob costrel a lenwir â gwin.* Dyma yr ail arwyddlun yn y brophwydoliaeth. Gellir meddwl fod hwn yn ymadrodd diarhebol, a ddefnyddid mewn gwahanol ffyrdd. Mae y prophwyd yn egluro ei arwyddocäad, mai megis yr oedd y gostrel yn gymhwys i ddal gwin, felly yr oedd eu pechodau hwythau wedi eu gwneuthur yn llestri digofaint, cymhwys i farnedigaethau yr Arglwydd. SCOTT.—*Wele fi yn llenwi, &c.* Mae barnedigaethau Duw yn cael eu darlunio yn aml dan y gyffelybiaeth o phïol lawn o wlybwr meddwol, gwel pen. 25. 15, &c. W. LOWTH.

Adn. 15—17. *Rhoddwch ogoniant i'r Arglwydd*, drwy gyffesu

eich pechodau, cydnabod ei gyfiawnder ef, ymddarostwng mewn edifeirwch, erfyn maddeuant, a dychwelyd at ei addoliad a'i wasanaeth ef, yn lle diystyru y gennadwri a ddygai y prophwyd atynt. SCOTT.—*Cyn i chwi daro eich traed wrth y mynyddoedd tywyll;* cyfeiriad efallai at yr ogofeydd a ddefnyddid fel claddfeydd, ac hwyrach mai oddiwrth yr un peth y defnyddiwyd y gyffelybiaeth gyffredin hono o "lyn cysgod angau," a arferir i arwyddocâu adfydau gofidus, Esa. 59. 9, 10. Ni byddai pelydr goleuni byth yn treiddio i'r ogofeydd hyn; ond yn llawn tywyllwch bob amser. DAVIDSON.—Cyn i chwi gyfarfod â rhwystrau anorfodol. CLARKE.

Adn. 18—21. *Eisteddwch i lawr*, mewn agwedd alarus, Esa. 3. 26.—*Canys disgynodd eich pendefigaeth*, neu, "Efe a bair gwympo oddiam eich pen, goron eich anrhydedd." BLAYNEY, BOOTHROYD.—*Dinasoedd y dehau*, sef Judeah, a elwir felly mewn cydmariaeth i Caldea, a elwid "y Gogledd."—*A gauir*, mae y gair yn aml yn dynodi rhoddi i fynu i awdurdod un arall, gwel Deut. 23. 15. a 32. 30. 1 Sam. 23. 12. Job 16. 11. Sal. 78. 48. *Canys ti a'u dysgaist hwynt yn dywysogion, ac yn ben arnat.* Pan alwodd Ahaz am Tiglath-pileser i'w gynnorthwyo, ac y'i rhoddes ei hunan dan deyrnged i frenin Assyria, efe a ddysgodd yr Assyriaid pa fodd y gallent ddyfod yn feistri ar ei wlad ef pan y mynent, gwel 2 Bren. 16. 7. 2 Cron. 28. 20. W. LOWTH. Drygioni y bobl a olygir yn benaf, yr hyn a barodd i'r Hollalluog dynu ei nawdd oddiam danynt. BLAYNEY.

Adn. 22—27. *O herwydd amlder dy anwiredd y noethwyd dy odre, &c.* Cyfeiriad at yr arferiad greulon oedd yn yr oes hono, o ddwyn pobl i gaethiwed yn noethion, gwel Esa. 3. 17. a 20. 4. a 47. 3. Galar. 1. 8. a 4. 21. Nah. 3. 5. W. LOWTH.—*A newidia yr Ethiopiad ei groen?* Defnyddir yr ymadrodd yma i ddynodi cyndynrwydd anfeddyginiaethol yr Iuddewon, ac i ddangos na byddai un moddion cyffredin yn effeithiol er eu diwygio; y buasai mor resymol dysgwyl y gallesid dwyn Ethiopiad trwy ymresymiad, i newid lliw ei groen, neu y llewpard i ymddiosg o'i frychau, a thybied y buasai cynghorion yn tueddu yr Iuddewon i ymwrthod â'r eilunaddoliaeth a'r anwireddau oeddynt wedi eu dysgu, ac â'r rhai yr oeddynt wedi ymgynnefino. SCOTT.

## PEN. XIV.

Adn. 1—6. *O achos y drudaniaeth.* Mae y gair Hebraeg *Batzaroth*, a gyfieithir drudaniaeth, yn arwyddo attaliad, neu rwystr, hyny ydyw, pan fyddo y nefoedd wedi ei chau i fynu fel na byddo gwlaw, Deut. 11. 17. 1 Bren. 7. 35.—*A'i phyrth a lesgäant*, y pyrth oeddynt y cyrchleoedd cyhoeddus, a'r meddwl yw, fod golwg llesg alarus ar y rhai a fynych gyrchent i'r lle hwnw, ac oll yn gwisgo eu galar wisgoedd duon am gyni eu gwlad.—*Gwaedd Jerusalem a ddyrchafodd i fynu*, cyfeiriad efallai at eu

hymprydiau, pan oedd gweddïau yn uchel ac yn fywiog, Esa. 58. 4. Joel 1. 14.—*Eu rhai bychain i'r dwfr.* Yr oedd eu boneddigion mewn cyfyngder o eisiau dwfr, yn anfon eu plant eu hunain i'w gyrchu o'r ffynhonau, neu y pydewau, ond nid oedd dim i'w gael, a hwythau yn dychwelyd gyd a'u llestri gweigion, yn gywilyddus, wedi gorchuddio eu pennau fel galarwyr. SCOTT.—*Yr ewig hefyd a lydnodd yn y maes,* yn lle yn y mynyddoedd a'r anialwch, fel yr arferai, yr oedd hi wedi gorfod dyfod i'r tiroedd isel, i edrych a allai hi gael dim glaswellt; ond darfyddai y cwbl yma yn fuan, ac er serchocced yw y rhai hyn wrth eu rhai bach, bu raid iddi eu gadael, i chwilio am wlybaniaeth yn rhywle arall, gan nas gallai roddi sugn iddynt o ddiffyg ymborth iddi ei hunan.—*A'r asynod gwylltion,* o ddiffyg dwfr a aent i ben y bryniau, lle yr oedd yr awyr oeraf, ac a sugnent y gwynt. POOLE.—*Fel dreigiau,* dywed rhai naturiaethwyr am seirff mawrion, yr arferant ymgodi yn syth a sugno yr awyr i mewn am oriau beunydd, er mwyn oeri eu cylla. BLAYNEY.

Adn. 7—9. *Gwna di er mwyn dy enw:* hyny yw, gweithreda yn y fath fodd, fel na's dianrhydedder dy enw, Ezec. 20. 9, 44.—*Gobaith Israel, &c.* Mae y prophwyd yn apelio at Dduw fel un a fuasai yn waredwr iddynt hyd yn nod o'u trallodau a dynasent arnynt eu hunain o herwydd eu pechodau, ac a fyddai iddo ef yn awr eu llwyr wrthod? ac fel pe dadleuai, os parai efe i ymddwyn fel hyn tuag attynt, y byddai y cenhedloedd yn barod i benderfynu, wrth weled y bobl a fuasai yn ei addoli er ys yspaid mor faith, y rhai yr oedd ei deml yn ei mysg. ac y galwyd ei enw arnynt, yn y fath drallodau di ymwared, ei fod fel dyn a frawychasid gan ryw ddygwyddiad annysgwyliadwy, ac a'i gwnaethai ei hun yn analluog i gynnorthwyo y rhai a ddysgwylient am gynnorthwy oddiwrth ei allu a'i wroldeb.

Adn. 10—12. *Na weddia dros y bobl hyn am ddaioni.* Mae yr Arglwydd yma yn galw yr Iuddewon *y bobl hyn,* ac nid "fy mhobl;" ac yn erchi i Jeremiah, na's gweddiai drostynt am *ddaioni* iddynt, sef am eu llwyddiant a'u dedwyddwch yn y tir; yn yr ystyr yma yn ddiau y gwaherddid i'r prophwyd weddio drostynt. Efe a allai, ac y mae yn ddiau ei fod yn gweddio dros eu heneidiau.

Adn. 13—18. Ni's gallasai y prophwyd lai nac addef cyfiawnder y gwyn oedd gan yr Arglwydd yn erbyn y bobl, eto y mae efe yn awyddus am ryw lwybr i ddadleu eu hachos hwy. Dadleuai mai y gau brophwydi oedd y prif droseddwyr, o herwydd eu bod yn gwenieithio i'r bobl y byddent yn sicr o heddwch a llwyddiant, ac yn eu hannog i ymgaledu yn erbyn rhybuddion y gwir brophwydi. Addefa yr Arglwydd mai hyny oedd y gwir achos, a chyda thanbeidrwydd mawr, y cyhoeddai ddedfryd ar y prophwydi hefyd, ond gan fod y bobl yn caru eu gweniaith hwy, nid oeddynt i gael

eu hesgusodi na dianc; ond yr oedd barnedigaethau cyfattebol i'w hannuwioldeb anfad ar gael eu tywallt arnynt. SCOTT.—*Canys y prophwyd a'r offeiriad hefyd, sydd yn amgylchu i dir nad adwaenant.* Mae yn debyg mai yr ystyr yw, fod y prophwydi a'r offeiriaid yn gorfod gadael y dinasoedd, a chrwydro mewn lleoedd dyeithr ac anhygyrch i geisio eu cynhaliaeth. CLARKE.

Adn. 19—22. *Na fwrw i lawr orseddfa dy ogoniant.* Wrth yr hyn y golygir Jerusalem efallai, ond yn benaf, y deml yn Jerusalem, yr hon a halogid gan annghredinwyr. W. LOWTH. Nid yw yr ymholion hyn yn rhoddi sail i ni gredu fod Duw wedi llwyr wrthod Judah, na bod y prophwyd yn credu hyny ychwaith; ond dadleuai y prophwyd, os nad ydoedd, pa ham y tarawai efe hwynt, ac yr ymdrinai mor llym-dost tuag attynt? Mae yn ymostwng wrth feddwl am eu pechodau, ac yn dadleu am drugaredd iddynt. BOOTHROYD.

## PEN. XV.

Adn. 1, 2. Mae yr un testyn ag oedd dan sylw yn y bennod flaenorol, yn cael ei ddwyn rhagddo yn hon hefyd. Yr oedd Jeremiah yn llawn tosturi dros ei gydwladwyr, yn cael ei yru i weddio ar i'r drygau oeddynt yn crogi uwch eu penau gael eu troi draw; ond yr oedd hyny yn groes i fwriad Duw, megys y'i hamlygasid ganddo ef lawer gwaith; ac er mwyn cymmodi meddwl ei was â'i fwriad, efe a ddywedai, pe buasai rai o'r eiriolwyr dynol mwyaf llwyddiannus a fuant yn y byd erioed, yn bresenol i weddio dros y bobl hyn, na buasai efe yn eu gwrando drostynt; Gwel Num. 14. 20. 1 Sam. 7. 9. Salm 99. 6, 8.

Adn. 3. *Bedwar rhywogaeth*, hyny yw, o farnedigaethau; ni's gallai fod dim yn fwy gofidus i feddyliau pobl a dalent y fath barch i ddefodau claddedigaeth, na'u hysbysu y byddai iddynt gael eu llwyr ddifa gan wylltfilod ac adar ysglyfaethus. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Ac a'u rhoddaf hwynt i'w symmudo i holl deyrnasoedd y ddaear.* Nid oes un wlad ar wyneb y ddaiar lle mae yr Iuddewon yn anadnabyddus: maent i'w canfod yn Ewrop, Asia, Affrica ac America; maent yn ddinaswyr y byd, ond heb wlad neillduol ynddo; nid yw mynyddoedd nac afonydd, diffaethfaoedd na chefnforoedd, y rhai ydynt ffiniau preswylfod cenhedloedd eraill, yn abl rhoddi terfyn ar eu crwydrau hwy; ac yn hyn y mae y brophwydoliaeth hon yn cael ei chyflawni yn llythyrenol, ac yn aros yn brawf eglur hyd heddyw o eirwirdeb Duw.—*Herwydd Manaseh*, yr oedd hwn yn rhagori mewn ffieidd-dra ar bawb, 2 Bren. 21. 7, 9, 11. Attaliai yr ymarferiad âg addoliad y gwir Dduw, a dygai eilun addoliaeth i'r deml, fel y cyflawnodd ei bechodau fesur anwireddau yr Iuddewon, gwel 2 Bren. 23. 26. a 24. 3, 4. LOWTH.

Adn. 6. *Myfi a flinais yn edifarhau*, neu, "yn eu goddef," fel y mae y cyfieithiadau Syriaeg, a'r LXX. Mae yr Arglwydd yn oedi

cyflawni ei fygythion, a phan y mae yn gwneyd felly, dywedir ei fod yn edifarhau, ac yn eu goddef. Cawsai Israel brofiad dros oesoedd o'i hir oddefgarwch cystal ag o olud ei ddaioni, ond yr oedd amser ei oddefgarwch wrthynt ar ddarfod, gwel pen. 4. 28, 29. a 17. 7—10. Gen. 6. 6, 7.

Adn. 8. *Dygais arnynt yn erbyn mam y gwyr ieuainc*, Neu,

> "Dygais yn erbyn eu mam-ddinas
> Un dewisedig, a anrheithia ganol dydd." BOOTHROYD.

Y fam oedd Jerusalem, prif ddinas y genedl, cymh. pen. 6. 4. gwel Esa. 50. 1. Hos. 2. 2. Y dewisedig a'i hanrheithia oedd Nebuchodonosor. BLAYNEY, BOOTHROYD.—Neu, "Yn erbyn mam y bobl ddewisedig." POOLE.

Adn. 9. *Yr hon a blantodd saith a lesghaodd.* Hyny ydyw, Jerusalem, er lluosocced ei meibion, ni chaiff nodded oddiwrthynt. Hi a dorrir ymaith, ei haul a â i lawr tra mae eto yn ddydd, a'r sawl a ddiangant o'i meibion, a gwympant trwy gleddyf y gelyn buddugawl. BOOTHROYD.

Adn. 10. *Ni logais, ac ni logwyd i mi; eto pawb o honynt sydd yn fy melldithio i.* Yr oedd llogi yn drosedd o ddeddf bendant yn mysg y genedl Iuddewig, a phawb yn barod i felldithio yr usuriwr, fel treisiwr y tlawd; ac er nad oedd y prophwyd yn euog o hyn, yr oedd e'n cwyno fod pawb yn elyn iddo am draddodi ei gennadwri yn ffyddlawn dros ei Dduw. BLAYNEY.

Adn. 11. Y mae yr Arglwydd yma yn addaw y byddai iddo oruwchrëoli y cwbl o'i ddyoddefiadau er ei lesäad, y byddai iddo heddychu ei elyn âg ef yn yr amser mwyaf profedigaethus; fel y cantyddwn iddo wneyd hefyd. Cymh. 39. 11—24.

Adn. 12, 13. *A dyr haiarn, &c.* Yr oedd yr Iuddewon yn haiarnaidd mewn calon galedwch, ac anystyriaeth; ac yn eu tybied eu hunain yn gryfion fel haiarn: ond y mae yr Arglwydd yn dangos trwy y prophwyd mai yn ofer yr ymrysonent â gallu milwraidd y Caldeaid y rhai yn dra phrïodol a elwir yma yn *haiarn o'r gogledd a dur.—Nid am werth*, y colledion hyn oll a'u cyfarfyddent yn gosbedigaeth am eu pechodau.

Adn. 15—18.—*Na ddwg fi ymaith yn dy hir ymaros*, neu, "Yn mharäad dy ddigofaint." BOOTHROYD.—*Ac mi a'u bwytteais*, neu, a'u cofleidiais; hyny yw, derbyniodd hwy yn groesawgar ac ufudd. —*Canys dy enw di a alwyd arnaf fi;* hyny yw, galwyd fi dy brophwyd, neu dy gennad. W. LOWTH.—*A fyddi di i mi megys celwyddog?* Neu, yn ol darlleniad amryw feirniaid enwog, "A fyddi di i mi megys ffynnon fethedig, fel dyfroedd nad ydynt byth yn sicr!" MICHAELIS, BOOTHROYD, WATERLAND,—"Neu fel siomedigaeth dyfroedd, y rhai nid ydynt ddiogel." BLAYNEY. Mae yn debyg fod yma gyfeiriad at afonydd yn y gwledydd poethion, y rhai a ddiflanant yn y tymhor sych, neu at ymddangosiad twylledig dwfr yn yr anialwch tywodlyd, yr hyn sydd yn fynych

y fath, fel ag i demtio y teithydd sychedig i adael ei ffordd gywir er ei ddinystr yn aml, dan ddylanwad gobaith am gael dwfr, mewn lle a fydd yn ymddangos iddo ef fel llyn, pan mewn gwirionedd na bydd yno ddim amgen na gwastadedd o dywod llosgedig.

Adn. 19—21. Gellid meddwl wrth y geiriau hyn, fod graddau o arwyddion gwrthgiliad ar y prophwyd, neu, o leiaf, anmharodrwydd i i draddodi y gennadwri Ddwyfol. Dewisai ymneillduaeth, pan oedd ei ddyledswydd yn gofyn iddo ddatgan yn gyhoeddus yr oraclau â pha rai y'i hysbrydolasid.—*Os dychweli, yna y'th ddygaf eilwaith, a thi a sefi ger fy mron.* Neu,

> "Os troi pan barwyf i ti ddychwelyd,
> Yna y sefi ger fy mron." BOOTHROYD.

"Os edifarhai o'r anymddiried pechadurus yma, a chyflawni dy swydd, myfi a'th gadwaf ynddi; ac os ymdrechi yn ffyddlawn i argyhoeddi ac ennill rhagrithwyr drygionus, ac i gysuro y saint, yna y'th anrhydeddir fel gwir brophwyd. Ond, cerydda hwy yn ffyddlawn, a darostwng hwy i ufudd-dod; ac na chydffurfia â hwy ac na wenieithia iddynt yn eu harferion pechadurus." *Parch.* J. BROWNE.

## PEN. XVI.

Adn. 1. *Gair yr Arglwydd a ddaeth hefyd attaf.* Mae y brophwydoliaeth a ddechreua yma yn parhau hyd y 18fed adnod o'r bennod nesaf; ac y mae yn debyg ei bod wedi ei chyfleu yn ddigon priodol, gan fod genym bob lle i gasglu ei bod hi fel y bennod flaenorol wedi ei thraddodi tua dechreu teyrnasiad drygionus Jehoiacim. BOOTHROYD.

Adn. 2—4. Yr oedd y prophwydi yn cael eu galw i ddysgu y bobl yn aml trwy ymddygiadau a gweithredoedd arwyddoccâol. Nid oedd i Jeremiah brïodi, am yr un rheswm ag a gawn ni gan Paul, 1 Cor. 7. 26. Yr oedd prïodas yn dra anrhydeddus yn mysg yr Iuddewon, ac ystyrid y rhai anmhrïod ac anmhlantadwy, fel gwrthddrychau tosturus, os nad dirmygus. Mae yn ddiau fod gwaith un o'r dynion mwyaf cyhoeddus yn y wlad, fel y prophwyd, yn dewis byw fel hyn, yn tynu sylw cyffredinol, ac y byddai pawb yn barod i ofyn pa beth a barai iddo ymddwyn yn y fath fodd; ac efe a amlygai hyn yn ddi-gel i bawb, fel peth yn dwyn perthynas â phawb; trwy yr hyn yr oedd efe fel cof-arwydd parhaus o flaen eu llygaid, er rhybudd iddynt i ymbarottoi erbyn y caethgludiad.

Adn. 5—7. Gorchymynid i'r prophwyd ymddwyn fel yr ymddyga dynion ar amser pla; pob un yn ceisio ei ddïogelwch ei hunan, gan adael ei gymmydogion yn aml, os nid ei berthynasau hefyd i feirw wrthynt eu hunain, a gadael y meirw heb eu claddu. Mae y gyrchfa i "dŷ galar" yn y Dwyrain bron yn annghredad-

wy; bydd cyfoethog a thlawd yn prysuro i'r tŷ lle byddo un newydd farw, a mawr y trwst a gyfodir ganddynt. Gwel pen. 9. 17—22. Marc 9. 38. a Ioan 11. 19.—*Nid ymdorrir ac nid ymfoelir*, gwel Lef. 19. 28. Bydd y marwolaethau mor lluosog, fel na bydd amser i'r arferion paganaidd gwaharddedig hyn.—*Ni ranant iddynt fwyd mewn galar*, cyfeiriad at arferiad o gludo arlwyon i dŷ galar rhag y byddai y galarwyr wedi esgeuluso arlwyo erddynt eu hunain mae yn debyg: gwel Job 42. 11 Ezec. 24. 17.

Adn. 8, 9. Nid oedd y prophwyd i ymuno á hwy yn eu gwleddoedd ychwaith, fel y byddai ei ymddygiad yn rhybudd i bawb i gredu fod eu cysuron cymdeithasol ar ddiflanu.

Adn. 10—13. Yn y geiriau hyn cyfarwyddir y prophwyd i dystiolaethu i'r bobl am ba beth y dygid yr holl ddrygau hyn ar y bobl yma, fel y'u cludid yn gaethion i dir estronol, ac y'u cyfleid i breswylio yn mysg eilun-addolwyr.

Adn. 14, 15. Mae Duw yn melysu ei fygythion chwerwaf ag addewid o waredigaeth o gaethiwed Babilon, yr hon a fyddai mor fawr, fel mai prin y cofid y waredigaeth o'r Aipht mwyach, gan ragoroldeb hon.

Adn. 16. Trwy yr enwau cyffelybiaethol o bysgodwyr a helwyr, y darlunir eu gelynion a'u gormeswyr, y rhai a arferent bob moddion, dichellion, a dyfalwch, i'w dystrywio, ac os methai un ddichell, gwnaent gynnyg ar un arall yn ddioed. Gwel Esa. 24. 17—23.

Adn. 18. Wrth *dalu yn ddwbl* am eu hanwiredd, y golygir nid eu cosbi yn ddau cymmaint ag a haeddai eu hanwireddau; ond eu cosbi yn fwy nag yr arferai. Meddyliai HORSLEY fod yma gyfeiriad at y ddau gaethgludiad, gan y Babiloniaid a chan y Rhufeiniaid; cymh. Nod. ar Esay. 40. 2.—*A'u ffiaidd gelanedd*, wrth yr hyn y golygid naill a'i cyrff yr eilunod, heb fywyd ynddynt, neu gyrff y creaduriaid a offrymmid iddynt.

Adn. 19, 20. Yma y mae y proffwyd fel un wedi ymlenwi gan ofid yn yr olwg ar gyflwr gwrthgiliedig ei gydgenedl, a theimlad eiddigeddus dros ogoniant ei Dduw, yn edrych yn mlaen at yr amser, pan y byddai, fel y rhagfynegai efe, y cenhedloedd eu hunain wedi gweled ynfydrwydd crefydd eu tadau, yn dychwelyd i addef y gwir Dduw.

Adn. 21. *Mi a wnaf iddynt wybod y waith hon.* Mae yn ddiau mai yr amser y cyfeirir ato yma yw yr amser y pregethid yr efengyl i'r Cenhedloedd, ac y'i derbynid ganddynt; pan addawai Duw wneyd y fath amlygiad o'i gadarn allu, ag a'u llwyr argyhoeddai o wirionedd ei fodoliaeth a'i Dduwdod. BOOTHROYD.

## PEN. XVII.

Adn. 1--4 Un o'r moddion mwyaf effeithiol a adnabyddai yr henafiaid i gof-nodi rhyw beth, ydoedd ei gerfio ar faen, *a phin o*

*haiarn*, neu *ewin o adamant*. Gwel Job 19. 24. Yr oedd eilun-addoliaeth wedi cael argraff annilëadwy ar galonnau yr Iuddewon; ac ymdrechent i ddysgu eu plant i goleddu yr unrhyw barch i'w defodau; ac fel hyn yr oedd eilun-addoliaeth wedi cael lle priodol deddf Duw. Deut. 11. 18—20.—*O fy mynydd*, mae y gair yn cael ei ddefnyddio i ddynodi Jerusalem oll, gwel Esa 2. 2. W. LOWTH.—*yn y maes, &c.* "O fy mynydd, dy olud yn y maes, a'th holl drysorau, a roddaf yn anrhaith."—*Uchelfeydd i bechod;* "ar gyfrif pechod." BLAYNEY. "Y rhai a ddefnyddid i bechod." GILL. Rhoddid yr amddiffynfeydd i fynu i'r gelyn, am bechod Judah. DURELL.

Adn. 5. 8. *A wnelo gnawd yn fraich iddo;* cyfeiriad at allu milwraidd yr Aipht. SUTCLIFFE. Mae yr ymadrodd yn arwyddoccâu ymddiried mewn galluoedd dynol, o ba ryw bynnag y byddont, canys e ddefnyddir *cnawd* weithiau am yr hyn oll a berthyn i ddyn; cymh. Matt. 17. 17. Rhuf. 6. 1.—*Fel y grug yn y diffeithwch;* neu fel y pren deiliedig ar y diffeithdir. BOOTHROYD. Y golygiad yw, rhyw blanhigyn diffrwyth, wedi ei blanu mewn tir diffrwyth, heb fod yn well er na gwlith na gwlaw. *Tir hallt*, neu dir hollol ddiffrwyth, fel y mae yr ymadrodd yn arwyddoccâu, gwel Deut. 29. 23. Salm 107. 34. Zeph. 2. 9. W. LOWTH. Yr oedd cyffiniau y Môr Marw a'r Môr Côch, a rhan fawr o Arabia Garegog, yn ddiffrwyth oblegyd yr hâl a gynnwysent. CALMET. Pa le bynnag y ceir halen, mae y fan hono yn ddiffrwyth, heb gynnyrchu dim. PLINY'*s Natural History, Lib.* 13, *ch.* 21, *&c* —*Efe a fydd megis pren wedi ei blanu wrth y dyfroedd*, gwel Sal. 1. 1. a'r sylwadau.

Adn. 9, 10. *Y galon*, hyny yw, tueddiadau a dymuniadau enaid rhesymol. SCOTT.—*Drwg ddiobaith ydyw;* neu, "y mae yn ddrwg iawn." BOOTHROYD. Y golygiad yw, fod y galon gan faint ei llygredd yn anobeithiol ei chyflwr o ran pawb ond Duw ei hunan; yr hwn yn unig a ddichon ei hadferu i uniondeb; cym. Preg. 7. 30. Rhuf. 8. 4.—*Myfi yr Arglwydd sydd yn chwilio y galon;* trwy ei oruchwyliaethau rhagluniaethol, y mae efe yn dynoethi ansawdd foesol dyn, ac yn profi hyd yn nod ei feddyliau tufewnol, yr hyn a arwyddocceir wrth yr ymadrodd *profi yr arennau;* gwel pen. 11. 20. a 12. 2.

Adn. 11. Mae yr holl ddysgedigion diweddar hyd y gwelais I, o'r farn nad petris ein gwlad ni a olygir wrth y geiryn a gyfieithir *petris* yn y testyn hwn: ond rhyw aderyn a eisteddai ar wyau aderyn arall, yr hwn pan ddychwelai a'i curai ymaith, o'r nyth a dreisiodd, a'r cyfryw aderyn, wedi ei fwrw allan felly sydd dra darluniadol o ddyn isel ei amgylchiadau, wedi cael trwy ryw lwybr anweddus, feddiant dros amser o eiddo un arall, ond yn cael ei orfodi i ollwng ei afael o honaw, cyn gallu elwa dim oddiwrtho. DR. SHAW.

Adn. 12. *Gorsedd ogoneddus, ddyrchafedig o'r dechreuad.* Mae y prophwyd yma yn gwrth gyferbynu dïogelwch y rhai a ymddiriedant yn yr Arglwydd, a'r rhai a ymddiriedant yn eu golud a gasglwyd ar gam ganddynt: mae ei orsedd ef wedi ei hamgylchynu â gogoniant, er amddiffyn ei addolwyr a dyrysu a gwarthruddo ei elynion ef a hwythau. Gwel Esa. 61. 1. Ezec. 42. 7.

Adn. 13. *Ysgrifenir yn y ddaear y rhai a giliant oddiwrthyf;* bydd eu coffa yn hawdd iawn i'w ddilëu; nid yn y graig, yn llyfr y bywyd, y bydd eu henwau wedi eu hysgrifenu; cymh. Ezec. 13. 9. Ond y mae eraill yn darllen y geiriau yn wahanol, "cofrestrir hwynt yn y ddaiar fel gwrthryfelwyr." BAYLEY, BOOTHROYD.

Adn. 15—18. *Pa le y mae gair yr Arglwydd?* gwrthddadl dra chyffredin gydag anffyddwyr, pan fyddo Duw heb gyflawni ei air yn fuan; gwel Esa. 5. 19. Amos 5 18. 2 Pedr 3. 4. W. LOWTH.—*Ni phrysurais rhag bod yn fugail ar dy ol di.* Yma y mae y prophwyd yn sicrhau iddynt na ddysgasai efe na mwy na llai na'r hyn a archasai Duw iddo. Mae y gyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth braidd yn porfäau lle y'u harweinid gan eu bugail. Mae yntau yn tystio na phrysurasai i redeg i ddim o flaen gair yr Arglwydd.

Adn. 19—27. Cymh. Neh. 13. 15—22. Oddiwrth y cyfarchiad yma gyda golwg ar gadwraeth y Sabbath, mae yn eglur fod y gyfraith am gadwraeth y Sabbath yn cael ei throseddu yn dra digywilydd a chyffredinol, a'i droi at wasanaeth masnach fydol, yr hyn a brofai mor hynod galed mewn annuwioldeb oedd y bobl hyn. BOOTHROYD.

## PEN. XVIII.

Adn. 1-4. Gwel pen. 16. 2—4. Mae yn eglur oddiwrth y cymhwysiad o'r arwydd prophwydoliaethol yma, ei fod yn perthynu i bob rhyw genedl cystal a'r Iuddewon. Yr Arglwydd yw Perchenog ac Arglwydd goruchaf pawb oll, i'w trefnu fel y byddo da yn ei olwg ei hunan; tra mae ei holl oruchwyliaethau tuag attynt yn cael eu rhëoli gan ddoethineb a chyfiawnder anfeidrol. Tybir yn gyffredin fod y ffeithiau a grybwyllir yn y bennod hon, pen. 19. a phen. 20. 1—6, wedi cymeryd lle yn nheyrnasiad Jehoiacim.—*Ar droellau,* neu yn llythyrenol, "ar y meini;" canys felly y gwneid troellau y crochenydd yn gyffredin o ddau faen, yr isaf yn sefydlog, a'r llall yn troi arno.

Adn. 5—10. Gwel Rhuf. 9. 19—23. Amcan y geiriau hyn oedd dysgu yr Iuddewon i gydnabod mawredd Duw, yr hwn a allai eu cosbi a'u hadferu fel y mynai a phan y gwelai yn orau.—*Myfi a edifarhaf,* hyny yw, y mae ei oruchwyliaethau rhagluniaethol tu ag at ddynion yn cyfnewid yn ol natur eu hymddygiadau hwy. Mae y bwriad Dwyfol yn annewidiol, a'r holl amlygiadau o'i

ewyllys yn deillio oddiar ei gariad perffaith at gyfiawnder. Gyda golwg ar gennedloedd, y mae ei gyfiawnder pur ef yn cael ei ddangos yn eu gwobrwyad yn y byd hwn; parir llwyddiant tymhorol ar y teyrnasoedd hyny a barchant ei ewyllys ef yn ol eu cyfleusdra i'w adnabod, ac aflwyddiant tymhorol ar y rhai a ddiystyrant ei awdurdod ef. DAVIDSON.

Adn. 11—17. *Wele fi yn llunio drwg i'ch erbyn*; trwy gynghor a gweithrediad eu gelynion, Nebuchodonosor a'i gynghoriaid. Dywedir fod pob peth yn cael ei wneyd gan yr Arglwydd, am mai efe a ddug bawb i fod, ag sydd yn eu cynnal mewn bod wrth ei ewyllys ei hun yn hollol, pan mewn gwirionedd y mae pob drwg yn cael ei gyflawni gan offerynau drygionus; gwel Diar. 16. 4. Rhuf. 9. 17—19. *Nid oes obaith*, gwel Nod. ar pen. 2. 25. Esa. 57. 10.—*Y forwyn Israel;* gelwid y genedl felly, am ei bod wedi ei neillduo oddiwrth y byd paganaidd, i wasanaethu Duw yn unig; pen. 31. 4. 2 Cor. 11. 2. Pan dröent at eilun-addoliaeth, yr oeddynt yn euog o anffyddlondeb i Dduw, yr hwn a'u dywedd-iasai âg ef ei hun fel eu Priod. Ystyr adn. 14 yw, y dysgai synwyr cyffredin ddyn i ddewis dyfroedd pur y mynyddoedd, o flaen y cyfryw a ellid gael mewn dyfr-gistoedd, neu byllau, mewn gwlad frwd, o fath Palestine; eto y cyfryw ydoedd ymddygiad Israel yn ymwrthod â'r Duw byw am eilunod, y rhai nid ydynt ddim yn y byd. Mae BOOTHROYD yn darllen y geiriau yn wahanol, ac i'm tyb I yn eglurach o lawer; "A edy un eira Libanus am graig y maes? A wrthyd dynion y ffrydiau oerion am ddyfroedd dieithr?" Hyny yw, A adawai dyn ddwfr eira oer, adfywiol Libanus, am graig sech a diffrwyth, lle ni cheid dwfr? A wrthyd un y ffrwd oer redegog, i gyrchu dwfr o bell? A esgeulusa efe yr hyn sydd oreu a hawsaf ei gyrhaedd am beth a fo gwaeth, ac anhawdd ei gael?

Adn. 18—23. *Canys ni chyll y gyfraith gan yr offeiriad, &c.*, fel pe dywedasent, "Y mae genym offeiriaid eraill heblaw Jeremiah; mae genym lywodraethwyr a barnwyr doethion, mae genym broffwydi a broffwydant cystal a Jeremiah. GILL.—*Tarawn ef â'r tafod*, gadewch i ni ddweyd cymmaint o ddrwg am dano ag a allom. GILL—Cosbwn ef nes rhoddi taw arno. BOOTHROYD. Gellid meddwl fod y prophwyd wrth fyfyrio mor anhaeddiannol o'r driniaeth galed yma ydoedd; ac yn ymwybyddus o'i fod ef wedi ceisio eu diogelwch hwy hyd y gallai, trwy ei weinidogaeth gyhoeddus, a'i eiriolaeth ddirgelaidd, yma yn datgan yr aflwydd a ddisgynai arnynt; a dylem gofio nad yw y cyfryw ymadroddion a ddefnyddir gan ddynion ysbrydoledig yn arwyddoceâu ysbryd ymddïal; ond eu crediniaeth sicr o'r oraclau y'u cyfarwyddid i'w cyhoeddi yn erbyn yr annuwiol.

## PEN. XIX.

Adn. 1. *Henuriaid*, gwŷr pennaf y ddinas, o'r rhai y gwneid y

Sanhedrim i fynu. GILL. Cymh. pen. 26. 17. Ezec. 8. 11. Am offeiriaid hefyd gwel, 1 Cron. 24. 4.

Adn. 3—6. Bod y clustiau yn merwino, a ddynoda fod dychryn a synnedigaeth dirfawr wedi dal y cyfryw un, 1 Sam. 3. 11. 2 Bren. 21. 12. CALMET.—*Na breninoedd Judah*, hyny yw, yr un duwiol o honynt, megis Dafydd, Asa, Jehosaphat, Hezeciah, a Josiah. GILL.—*I losgi eu meibion*, gwel Lef. 18. 21. a 2 Bren. 23. 10.—*Ond Dyffryn y lladdfa*, mewn canlyniad i'r fuddugoliaeth a gai y Caldeaid ar yr Iuddewon yno. BOOTHROYD.

Adn. 7—9. *A mi a wnaf yn ofer gynghor Judah*, eu penderfyniad i beidio talu teyrnged i'r Caldeaid mae yn debyg a olygid wrth y cynghor yma.—*A mi a baraf iddynt fwytta cnawd eu meibion*, yr hyn a wiriwyd yn llythyrenol. Galar. 2. 20—22. a 4. 10.; ond y mae JEROME yn sylwi i hyn gael ei gwblhau yn fwy helaeth o lawer, pan warchaëid ar Jerusalem gan Fespasian a Thitus.

Adn. 10—15. *Yna y torrir yr ystên;* yr oedd torri llestr pridd yn gyffelybiaeth brïodol o ddinystr hollol, canys wedi ei dorri unwaith, ni's gellir ei wneyd yn ddefnyddiol mwyach. W. LOWTH.—*O herwydd yr holl dai y rhai yr arogl darthasant ar eu pennau.* Yr oedd pennau tai yr Iuddewon yn wastad, ac arferai duwiolion ymneilldio i bennau tai i weddïo ar Dduw weithiau; Act. 10. 9. Yr un modd yr arferai yr Iuddewon losgi arogldarth i'r haul, y lloer, a'r ser, ar eu pennau. GILL.—*Yn nghyntedd tŷ yr Arglwydd*, sef cyntedd allanol y deml, lle yr arferai yr holl bobl gyfarfod. GILL. Yr oedd yn angenrheidiol i'r prophwyd, nid yn unig ddangos i henuriaid y bobl a'r offeiriaid, pa beth yr oedd Duw ar fedr ei wneuthur, ond hysbysu y bobl yn gyffredinol hefyd, fel na byddai ganddynt esgus am eu hanwireddau.

## PEN. XX.

Adn. 1. Darfu i Dafydd ddosbarthu yr offeiriaid i bedwar cylch ar hugain, ac yr oedd pen pob cylch yn meddu llywyddiaeth holl achosion y deml dros yspaid amser gwasanaeth y cylch; 1 Cron. 24. 5. Yr unfed ar bymtheg o'r cylchoedd hyn oedd yr eiddo *Immer;* a *Phasur*, yr hwn ydoedd un o'i hiliogaeth ef, oedd pen y cylch y pryd hwn. Yr wyf o'r farn mai yr un fath swyddwyr oedd pennaethiaid y cylchoedd yma, a'r rhai a elwid yn y Testament Newydd, "yr offeiriaid penaf," y rhai oeddynt yn nesaf mewn urddas ac awdurdod i'r archoffeiriad. BOOTHROYD.

Adn. 3. *Ni alwodd yr Arglwydd dy enw di Pasur, ond Magormissabib.* Mae yr enw yr ydwyf fi yn ei roddi i ti, yn arwyddocau ofn, neu ddychryn o amgylch o gylch, a thi dy hunan a fyddi yn esampl ofnadwy o'r adfydau sydd yn dyfod. W. LOWTH.

Adn. 5. *Holl olud*, neu yn hytrach, "holl nerth" *y ddinas.* Meddyliai BLAYNEY ac amryw ddysgedigion eraill, fod *nerth* yn cael ei roddi trwy draws enwad ar y rhyfelwyr, *llafur*, am y dos

barth llafurus a chynnyrchiol; *a phob dim gwerthfawr*, am eu gwŷr mawr, a'r graddau uchaf yn eu mysg. Felly hefyd y barnai BOOTHROYD.

Adn. 7. *O Arglwydd ti a'm hudaist*, neu, "Ti a'm perswadiaist," yr hyn yw yr ystyr fwyaf priodol i'r geiryn yma, medd y beirniaid goreu. Mae yn dra thebyg fod y prophwyd yn cyfeirio yma at ei anmharodrwydd i gymeryd arno y swydd brophwydoliaethol ar y dechreu, oddiar ymwybyddiaeth o'i waeledd a'i annghymhwysder i'r gwaith. Gorchfygodd yr Arglwydd y cyndynrwydd yma trwy y rhesymau cryfaf, a mwyaf calonogawl, ac fel hyn, fe'i perswadid i ymafael yn ei waith, ac i ddal atto yn nghanol llawer o rwystrau; gwel pen. 1 5—10. a 15. 15, 16. Gan hyny, os yw yr adnod hon yn cynnwys un math o gŵyn, mae yn amlwg mai cyfeirio at ei ddiffygion ei hun yr oedd y llefarydd, gan addef tiriondeb arbenig Duw tuag atto yn yspaid ei weinidogaeth.

Adn. 8. Mae amryw o'r Beirniaid yn darllen yr adnod hon beth yn wahanol i'n cyfieithiad arferedig;—"Canys pa bryd bynnag y llefaro, os gwaeddaf yn erbyn trais, neu os cyhoeddaf anrhaith, y mae gair yr Arglwydd yn cael ei droi i'm herbyn, yn waradwydd a dirmyg beunydd." BOOTHROYD.

Adn. 9. Yma cawn y prophwyd Jeremiah fel pe penderfynai yn ei ddigalondid a achlysurid gan y gwrthwynebiad cryf a gyfodid iddo, na lefarai mwyach yn enw yr Arglwydd; ond yr ysbrydoliaeth Ddwyfol mor rymus yn ei gymhell, a'i gydwybod yntau mor dyner, fel na's gallai ymattal er maint a erlidid arno; cymh. Salm 39. 3. 1 Cor. 9. 16, 17.

Adn. 10 *Mynegwch, meddant, a ninnau a'i mynegwn;* neu, "Mynegwch dychryn o amgylch, meddant, a ninnau a'i mynegwn." Ei elynion a geisient ei ddychrynu, trwy gyfodi a thaenu chwedlau am beryglon a'i cylchynent yn mhob man, fel y byddai yn sicr o gael ei dorri ymaith yn fuan; ac yr oedd hyd yn nod ei gyfeillion yn ofni y byddai efe yn cael ei ddystewi yn fuan. BOOTHROYD.

Adn. 14. *Melldigedig fyddo y dydd y'm ganwyd arno, &c.* Galarnad mewn dull barddonawl, cyffelyb i'r eiddo Job, pen. 3; a'r fath ag a arferid eu canu gan y galar-wragedd yn y gwledydd dwyreiniol; felly yma, gellir ystyried yr ymadroddion hyn fel datganiad tra barddonawl o ofid dwys, a galar ingawl. Ond y mae SCOTT yn sylwi na ddichon unrhyw ryddid barddonol gyfiawnhau dyn i arfer ymadroddion annyoddefol ac anniolchgar, a chyhoeddi melldithion ar rai nad oeddynt erïoed wedi ei niweidio. Gall hyn fod yn oddefol mewn ysgrifenwyr *cyffredin*, ond nid mewn pryddyddion *ysbrydoledig*. Mae yn ddïau mai dyben yr Ysbryd Glân yn cyhoeddi y fath hanes yw dangos pa fath ydyw y goreu o feibion dynion pan y'u gadewir iddynt eu hunain; ac er cadw dynion duwiol yn mhob oes rhag anobeithio pan y byddont yn cael

eu tueddu i'r fath agwedd, a'u blino a'r fath brofedigaethau. Gwel 1 Bren. 19. 1—4. Salm 73. 12—17. Jonah 1. 2, 3. a 4. 1—11. Diau na ddylem fwyhau beiau gweision Duw, nac ychwaith eu hesgusodi; eithr dylem yn hytrach ddilyn anmhleidgarwch yr ysgrifenwyr sanctaidd. I un person yn unig y mae yr Ysgrythyrau yn priodoli nodweddiad di bechod; yr oedd pawb eraill yn barod i addef eu bod hwy yn llithro mewn llawer o bethau; ac ni's gall dim daioni ddeillio o ymgais ofer i'w hamddiffyn.

## PEN. XXI.

Adn. 1. Mae yn amlwg fod y bennod hon wedi ei chamgyflëu yn y fan hon; ac yr ydym yn cael lle i ddeall oddiwrth yr adnodau cyntaf ynddi, fod cynnwys y bennod hon wedi ei draddodi mewn attebiad i gennadwriaeth a anfonasid gan Sedeciah, pan oedd Brenin Babilon yn dyfod allan yn ei erbyn, yr hyn a fu yn y 9fed flwyddyn o'i deyrnasiad. Dylasai yr holl brophwydoliaethau a draddodwyd yn ystod teyrnasiad Jehoiacim, a'r wyth mlynedd gyntaf o deyrnasiad Sedeciah, ragflaenu hon. Nid gelyn Jeremiah oedd y *Pasur* yma, canys mab Melchiah oedd hwn, ac nid mab Immer. BOOTHROYD.

Adn. 3—7. Mae yr atteb yma yn eglur a pheudant, eto yr oeddynt yn parhau i ymgyndynnu yn eu gwrthryfel, gan ymddiried ar gadernid eu dinas, a'r cymmhorth a ddysgwylient ei gael gan frenin yr Aipht.

Adn. 8—10. Yma mae y prophwyd yn dangos mai yr unig ffordd iddynt i achub eu bywydau, oedd trwy gilio o'r ddinas hon, at y Caldeaid a warchaëent arnynt. Mae yn ddiau fod gelynion drygionus y prophwyd yn ddigon parod i gymeryd achlysur oddiwrth natur cennadwri y prophwyd, yn eu rhybuddio i beidio ymladd, i dduo y prophwyd yn ngolwg y bobl, fel un nad oedd yn bossibl ei fod yn was i Dduw, tra y gwaharddai i'w bobl amddiffyn ei deml ef; ac na's gallai fod yn wir gyfaill i'w gyd-wladwyr, pan gynnygiai eu rhoddi i fynu i frenin Babilon, fel defaid i'r lladdfa. A chymerent fantais i haeru mai bradwr oedd yn ddïau, yspïwr dirgelaidd i'r gelyn.

Adn. 11—14. Perthynai gweinyddu barn i'r brenin, fel y prif farnwr; ond yr oedd efe a'i dywysogion yn euog o wyrdroi awdurdod, ac esgeuluso dyledswydd; eithr annogir hwy yma i wneuthur cyfiawnder, ac achub y gorthrymedig, yn ddiwyd a dïoed, yn y boreu, fel eu llafur cyntaf, pan fyddai eu llysoedd barn yn eistedd, Job 38. 13, 14. Sal. 101. 7.—*Yr hon wyt yn preswylio y dyffryn, a chraig y gwastadedd;* wrth y *dyffryn* y golygid Jerusalem, yr hon oedd yn gorwedd ar ddyffryn, wedi ei hamgylchu gan y mynyddoedd; ac wrth *graig y gwastadedd*, y golygid y rhan hono o'r ddinas oedd ar fynydd Sïon, pen. 17 3. Sal. 125. 2 —*Mi a gynneuaf dan yn ei choedwig;* enwad cyffelybiaethol ar ddinas

a'i phreswylwyr lluosawg, a'i hadeiladau uchel a theg, y rhai a wnelsid gan mwyaf o gedrwydd Libanus; gwel pen. 22. 7. Esa. 37. 24. Ezec. 20. 46. Zech. 11. 1. W. LOWTH.

## PEN. XXII.

Adn. 1. Mae yn amlwg fod y brophwydoliaeth hon, wedi ei thraddodi yn nheyrnasiad Jehoiacim, canys lleferir ynddi am ei ragflaenydd ef, fel un wedi ei ddwyn i gaethiwed eisoes; a rhagfynegir marwolaeth Jehoiacim ei hunan. BLAYNEY.

Adn. 4. *Trwy byrth y tŷ hwn;* gwel pen. 17. 25, lle y dywedir "pyrth y ddinas hon." W. LOWTH.

Adn. 6. *Gilead wyt i mi,* neu "trwof fi; trwy osodiad Dwyfol y teyrnasa breninoedd, pen. 15. 8.—*A phen,* neu "grib" *Libanus.* Gilead oedd y rhan ffrwythlonaf o'r wlad, a Libanus oedd y mynydd uchaf yn Israel, yn yr hyn yr ydoedd yn ddarlun priodol o'r teulu breninol, y rhai a ddyrchafasid i'r sefyllfa uchaf yn y wladwriaeth. BLAYNEY.

Adn. 7. *Dy ddewis gedrwydd,* tai a thrigolion. W. LOWTH. Gwel Nodau ar pen. 21. 14. Y teulu breninol yn hytrach, a ddynodid yma drwy gedrwydd Libanus. BOOTHROYD.

Adn. 10. *Nac wylwch dros y marw, &c.* sef Josiah, dros yr hwn y cyfodid galar mawr, 2 Cron. 35. 25. Zech. 12. 11. Y mae Josiah yn ddedwydd; ond wylwch am Jehoahaz, *yr hwn sydd yn myned,* neu wedi myned i gaethiwed. Cyfododd y bobl Jehoahaz i'r llywodraeth ar farwolaeth ei dad, 2 Bren. 23. 30. 2 Cron. 36. 1; ond efe a ddiorseddwyd yn mhen tri mis, ac a gaethgludwyd i'r Aipht, lle y bu efe farw, 2 Bren. 23. 24. POOLE. Mae yn debyg mai Sallum oedd ei enw cyn iddo esgyn i'r orsedd, ac iddo ar yr achlysur hwnw gymeryd arno yr enw Jehoahaz, megis y darfu i'w frodyr Eliacim a Mattaniah, gymeryd arnynt yr enwau Jehoiacim, a Sedeciah, 2 Bren. 23. 34. a 24. 17. Deallwn oddiwrth 1 Cron. 3. 15, fod i Josiah fab arall o'r enw Johanan; ond gan na chrybwyllir am dano mwyach, mae yn debyg iddo farw yn ieuanc.

Adn. 13—19. *Gwae yr hwn a adeilado ei dy trwy anghyfiawnder:* gwrthddrych y wae hon oedd Jehoiacim, yr hwn oedd yn teyrnasu y pryd hyny. GILL. Gellid casglu oddiwrth yr hyn a ddywedir yn yr adnodau hyn, fod Jehoiacim yn frenin tra gormesol; yn gorfodi y bobl i'w wasanaethu yn ehangiad ac addurniad ei lys, heb eu gwobrwyo yn gyfiawn am eu gwasanaeth.—*A gei di deyrnasu am i ti ymgau mewn cedrwydd?* Yr addysg a gludir trwy yr ymadroddion hyn, yw, nad ar wychder a mawredd daearol y mae dedwyddwch neb yn ymddibynu, ond ar y perchenogaeth o wir grefydd, fel yr amlygwyd yn Josiah, tad y gwr hwn.—*A chladdedigaeth asyn y cleddir ef:* hyny yw, ni's cleddir ef o gwbl, neu, fe'i cleddir yn annhrefnus a dirmygus. POOLE. Dyw-

aid JOSEPHUS i Jehoiacim gael ei ladd, pan gymerodd Nebuchodonosor y ddinas, a bod y buddugoliaethwr wedi erchi i'w gelain gael ei thaflu o'r tu allan i'r muriau heb ei chladdu. Mae yn amlwg oddiwrth Ezec. 19. 8, 9; fod Jehoiacim wedi ei gymeryd yn garcharor, a'i draddodi i ddwylaw Nebuchodonosor, ac iddo yntau farw oddiwrth ei archollion, efallai, tra yn garcharor gan frenin Babilon, yr hwn er amlygu ei gasineb tuag atto, a dychrynu ei olynwr a barodd fwrw ei gorff ar wyneb y maes, o'r tu allan i furiau Jerusalem. Cymh. pen. 36. 30. BOOTHROYD.

Adn. 20—28 *Dring i Libanus, &c.* Libanus a Basan oeddynt fryniau a edrychent tuag Assyria, o'r lle y dysgwyliai yr Iuddewon am gymmhorth, ac y'i caent weithiau, fel y gwelwn yn 2 Bren. 16. 7; ac yma annogir Jerusalem mewn modd gwawdiaethol i fyned i bennau y bryniau uchaf, a gwaeddi am gynnorthwy. BLAYNEY, POOLE.—*Canys dinystrwyd y rhai oll a'th garant,* y rhai oll yr ymddiriedent ynddynt, oeddynt wedi eu llwyr annalluogi i weini ymwared iddynt. DAVIDSON.—*Ti yr hon wyt yn trigo yn Libanus, yn nythu yn y cedrwydd.* Yr oeddynt yn tybied eu bod mor ddiogel yn Jerusalem, a'r eryr yn ei nyth yn mrig cedrwydd Libanus, a chan hyny yr oeddynt yn dirmygu gair yr Arglwydd: ond yr oedd dinystr yn dyfod arnynt fel gwewyr ar un a fo beichiog; ac yn yr amgylchiad hwnw, byddai iddynt ddangos rhyw faint o barch i'r Arglwydd, a chymeryd arnynt ymddangos yn ostyngedig, yn grefyddol, a bod yn drugarog wrth eu brodyr gorthrymedig; ond ni byddai i hyny ragflaenu eu dinystr. SCOTT.

Adn 24--30 Gwel gyflawniad y brophwydoliaeth yma yn 2 Bren. 24. 8—16. Efallai mai *Coniah* ydoedd enw Jeconiah ar y cyntaf a bod sill wedi ei hychwanegu at ei enw pan y'i gwnaed ef yn frenin. Fel yr oedd efe yn un o linach tŷ Dafydd, gallesid tybied y buasai i'r Arglwydd ofalu am dano mewn modd neillduol; ond efe a dyngodd iddo ei hun, pe buasai Coniah iddo ef fel modrwy freninol ar law brenin, ei addurn a'i arwydd pennaf o awdurdod (Hag. 2. 20—23) y buasai yn ei dynu ac yn ei fwrw ymaith gyda dirmyg. SCOTT.—*Bwriaf dithau hefyd, a'th fam a'th esgorodd,* hwyrach fod hyn yn rhoi ar ddeall i ni, nad oedd ganddo wraig na phlant, pan y'i caethgludwyd. Fe sonir am Salathiel fel ei fab ef (1 Cron. 3. 17.); ond hwyrach mai oblegid mai efe ydoedd ei etifedd cyfreithlawn, y'i gelwid felly. Luc 3. 27, 31. DAVIDSON.—*Ysgrifenwch y gwr hwn yn ddiblant.* Mae y gorchymyn i ysgrifenu, yn dynodi sicrwydd y peth, Esa. 30. 8. Gall hyn ei olygu ef fel brenin, ac arwyddoccâu na byddai i neb o'i hiliogaeth esgyn i'w orseddfainc, yr hyn oedd yn hollol wirioneddol; canys os meddyliwn fod Zorobabel o'r un linell, nid oedd efe namyn gwas i frenin Persia; ac yr oedd Mair, o'r hon y ganwyd y Messiah, yn perthynu i gangen arall o dŷ Dafydd.

## PEN. XXIII.

Adn. 1, 2. Mae yn amlwg mai prophwydoliaeth newydd ydoedd hon, yr hon yr oedd ei phrif wrthddrych yn mhell, fel y gellid casglu yn naturiol oddiwrth rai ymadroddion ynddi. Wrth y bugeiliaid y golygid swyddogion gwladol ac eglwysig.

Adn. 3, 4. *A mi a gasglaf weddill fy mhobl o'r holl wledydd lle y y gyrrais hwynt.* Mae yr adnodau hyn yn cynnwys addewid o adferiad i'r gweddill o'r Iuddewon, a'u hail sefydliad yn eu gwlad eu hunain; ac o'u cynnydd a'u llwyddiant dan lywodraeth a hyfforddiad Zorobabel, Josuah, Ezra, a Nehemiah, y rhai oeddynt yn eu llywodraethu hwy yn ofn Duw, ac o dan lywodraeth pa rai yr oeddynt yn byw mewn gradd o heddwch a hyder: eto, rhaid fod hollol gyflawniad y brophwydoliaeth, yn cyfeirio at amseroedd yr efengyl, a gwir ddefaid Crist; ac i'w diogelwch hollol, a'u hyder sanctaidd ynddo ef.

Adn. 5, 6. Dyma un o'r prophwydoliaethau pwysicaf am y Messiah dan y nodweddiad o Frenin, Barnwr, a Gwaredwr. Mae yn ddïau mai Crist a olygir yma wrth y *blaguryn cyfiawn*, am yr hwn y dywedid mewn man arall, ei fod yn wïalen o gyff Jesse, a blaguryn o'i wraidd ef.—*Yr Arglwydd ein cyfiawnder.* Er ei fod ef yn disgyn o Dafydd o ran y cnawd, dïau ei fod yn Jehofah, Duw mewn undeb â natur dyn, yn un a'r Tad: ac yn cael ei alw gan yr holl gredinwyr, "Ein Cyfiawnder;" canys y maent yn cael eu gwneuthur ynddo ef yn gyfiawnder Duw, 1 Cor. 1. 26. 2 Cor. 5. 18—21. SCOTT.

Adn. 7, 8. *Wele y dyddiau yn dyfod*, ar ddyfodiad y Blaguryn cyfiawn, a'r iachawdwriaeth a weithredid drwyddo ef; annghofid y waredigaeth o'r Aipht fel peth dystadl mewn cydmariaeth. BOOTHROYD.

Adn. 9, 10. Mae y prophwyd yma yn cwyno oblegid ymddygiadau twyllodrus y gau brophwydi.—*Fy holl esgyrn a grynant*, yr oedd y gwir brophwydi yn teimlo yn ddwys yn aml gan frawychu o herwydd y bygythion y'u gelwid i'w cyhoeddi uwchben eraill, gwel pen. 15. 18. Esa. 15. 5. Heb. 3. 6.—*O herwydd llwon y gofidiodd y ddaear*, wrth yr hyn yn benaf y golygir annudoniaeth yma, Hos. 4. 2.

Adn. 11, 12. *Yn fy nhy hefyd y cefais eu drygioni hwynt;* sef eu heilun-addoliaeth; pen. 6. 13. a 7. 10, 30. a 8. 10. a 14. 18. Salm 35. 6. a 73. 18.

Adn. 13, 14. *Ar brophwydi Samaria y gwelais hefyd beth diflas*, neu ffolineb; cydmara y prophwyd bechodau y prophwydi hyn â phechodau prophwydi Jerusalem, a thystia fod yr olaf yn fwy erchyll na'r blaenaf.—*Prophwydasant yn Baal*, neu yn enw Baal, neu trwy Baal.—Cynnorthwyo dwylaw y drygionus, a olygai eu nerthu i wrthod pob rhybuddion, a'u calonnogi mewn pechod trwy addewidion o dangnefedd a diogelwch. DAVIDSON.

Adn. 18. *Pwy a safodd yn nghyfrinach yr Arglwydd?* Hyny yw, pwy yn mysg y gau brophwydi a all ymhonni o'u bod yn cael amlygiad o gyfrinach yr Hollalluog.

Adn. 19, 20. *Corwynt;* gwel pen. 4. 11, 12.—*Digofaint yr Arglwydd ni ddychwel nes iddo wneuthur, &c.* Ymadrodd wedi ei fenthycca oddiwrth ddull cennadwr yn dychwelyd yn ol heb gyflawni ei gennadwriaeth.—*Yn y dyddiau diweddaf y deallwch hyny yn eglur*; sef pan y'ch goddiweddir gan y farnedigaeth hon. COBBIN.

Adn. 21, 22. Pe buasai y gau brophwydi yma yn gyfarwydd ar gynghor Duw, ac yn traethu ei feddwl ef yn ddiragrith i'r bobl; nid suo iddynt i gysgu mewn gau heddwch y buasent, ond rhybuddio pechaduriaid i ddychwelyd at yr Arglwydd mewn edifeirwch.

Adn. 23, 24. Mae Duw yma yn dwyn tystiolaeth i'w berffeithiau ei hunan, gan dystiolaethu ei fod ef yn llanw pob lle, yn mhell ac yn agos; fel na's gall gweithredwyr anwiredd gael un lle i ymguddio, pa mor awyddus bynnag y gallont fod am hyny.

Adn. 25—32 *Breuddwydiais, &c.* Yr oedd Duw weithiau yn arfer amlygu ei ewyllys mewn breuddwydion, a thrwy weledigaethau; a chymerai y gau brophwydi yma arnynt hwythau, eu bod yn mwynhau breuddwydion prophwydoliaethol; ond dangosai yr Arglwydd trwy yr amcan oedd ganddynt, na's meddent un sail i'w honiadau, canys amcanent wneyd i'w bobl anghofio ei enw ef, ac ymlynu wrth Baal. Ond nid oedd yr hyn a ddywedent namyn peiswyn, neu us, mewn cydmariaeth i'r gwenith, sef gwir air Duw.

Adn. 33. *Beth yw baich yr Arglwydd?* Yr oedd yr oraclau Dwyfol yn cael eu galw baich gair yr Arglwydd, yn aml; a chïpiai y gau brophwydi afael yn y gair, gan ei droi yn wawd, a cheisio dywedyd am Jeremiah, megys Ahab gynt, na phrophwydai efe ddaioni ond drygioni; am ba achos y mae y prophwyd yn cael cennadwriaeth i'w hargyhoeddi hwy.—*Pa faich?* neu, yn ol llawer o'r hen gyfieithiadau, "chwi yw y baich." Yr ydych chwi yn faich annïoddefol ar yr Arglwydd, oddiwrth yr hwn yr ymysgydwa efe yn fuan. Mae BOOTHROYD yn dadleu yn gryf dros gyfaddasrwydd y darlleniad hwn, yr hwn a gair drwy ddosbarthiad gwahanol ar yr un llythyrenau ag a wnant i fynu y darlleniad arall. DAVIDSON.

Adn. 36. *Canys baich i bawb fydd ei air ei hun.* Ei eiriau anrasol, a'i ymadroddion pechadurus, a dŷn farnedigaeth dïaledd Dwyfol arno. POOLE.

## PEN. XXIV.

Adn. 1—3. Mae yn debyg y gellir priodoli amseriad y brophwydoliaeth hon i'r rhan flaenaf a mwyaf heddychol o frenhiniaeth

Sedeciah.—*Ddau gawell o ffigys*, y fath ag yr arferent ei offrymu fel blaenffrwyth ger bron yr Arglwydd yn y deml; gwel Deut. 26. 2. W. LOWTH.—*Gyd a'r seiri a'r gofaint*, sef y prif gelfyddydwyr: mae yn debyg mai y prif achos o alltudio y rhai hyn o'r wlad ydoedd, fel na's gwnelent arfau i'r bobl i wrthryfela yn erbyn eu harglwyddi newyddion. BLAYNEY.—Sonia Dr. SHAW am dri math o ffigys, y cyntaf, a'r gorau, yn aeddfed yn Mehefin, yr ail heb fod yn aeddfed cyn Awst, a'r trydydd yr hwn ni's aeddfeda o gwbl oddieithr bod y gauaf yn dra thymherus, a'r pryd hyny fe'u cesglir yn y gwanwyn. *Y ffigys drwg iawn* oeddynt yn y naill gawell, mae yn debyg a olygent y rhyw olaf a nodwyd, ac felly oeddynt yn llwyr annghyfaddas i'w hoffrymu i'r Argwydd, gan eu bod wedi eu casglu cyn eu bod yn aeddfed.

Adn. 5—7. Yr oedd llawer o Iuddewon duwiol wedi eu caethgludo gyda, neu o flaen Jeconiah, yn mysg y rhai yr oedd Daniel, Ezeciel, &c Gwel Ezra 1. 1—3. Dan. 1. 1—7. Yr oedd cystuddiau y caethion wedi eu cymhwyso i'w tywys hwy i edifeirwch, tra yr oedd y rhai a adawid ar ol yn cael eu caledu yn fwy. SCOTT. —*Rhoddaf hefyd iddynt galon i'm hadnabod*, cyflawnwyd hyn mewn mesur yn yr amserau wedi y caethgludiad, pan lynai yr Iuddewon wrth eu crefydd yn ddïanwadal, ac y gofalent yn fawr am ymgadw rhag eilun addoliaeth. Ond cwblheir y brophwydoliaeth yma yn llawer perffeithiach ar adferiad cyffredinol yr Iuddewon. W. LOWTH.

Adn. 8—10. Dangosir yn y geiriau hyn y byddai i'r rhai a gymeradwyent ymddygiad Sedeciah yn gwrthsefyll Nebuchodonosor, a hyny yn groes i orchymyn yr Arglwydd, gael eu dyfetha gan ei farnedigaethau ef. Na ddychwelai yr un o honynt i Judea, cymh. Ezec. 5. 12. Ond ymddygai Duw tuag attynt megis at eu hynafiaid gwrthryfelgar yn yr anialwch o'r blaen.

## PEN. XXV.

Adn. 1. Mae y bennod hon yn dilyn pen. 23. mae yn debyg, yn ol trefn amseryddol. Dywedir yma i'r prophwyd gael y datguddiad a gynnwysa yn y flwyddyn gyntaf i Nebuchodonosor, hyny yw yn ol dull yr Iuddewon o gyfrif, y rhai a gyfrifent o'r amser y'i cyfodwyd i gyfrannogi a'i dad yn y freniniaeth, cyn iddo gychwyn ar ei ryfel-gyrch Syriaidd; ond ni's cyfrifa y Babiloniaid fod ei freniniaeth wedi dechreu, hyd yn mhen dwy flynedd ar ol hyn, pan fu farw ei dad.

Adn. 4—7. *A'r Arglwydd a anfonodd attoch chwi ei holl weision y prophwydi*; yr oedd Sephaniah, a Habacuc hwyrach, a Huldas y brophwydes, yn cyfoesi â Jeremiah, pen. 26. 20—23. 2 Bren. 22. 14.—Yr oedd Duw wedi defnyddio llaweroedd fel offerynau i'w haddysgu, i'w galw i edifeirwch; eto yr oedd y bobl yn parhau yn eu heilun addoliaeth.

Adn. 9. *Holl deuluoedd*, neu dylwythi *y gogledd;* gwel Nod. ar pen. 1. 13.—*Tragywyddol*, maith iawn, eto terfynol, fel y mae y gair yn arwyddoccâu, Exod. 21. 6.

Adn. 10. Mae yr adnod yma yn cynnwys darluniad o annghyfannedd-dra trwyadl: annifyrus fydd dystawrwydd y boreu, a phruddaidd fydd cysgodau yr hwyr. Cymh. Dat. 18. 22, 23. BOOTHROYD.—*Swn y meini melinau*, yw yr arwydd cyntaf yn y boreu o deulu byw yn y ty. Gwaith y boreu yw malu ŷd; canys yn ol fel y byddo yr eisiau yn unig y maent yn arfer parotoi eu hymborth yn y gwledydd dwyreiniol, a phobant eu bara bob dydd yn ei ddydd. Gan hyny, y mae absenoldeb goleuni a swn malu, yn y boreu, yn un o arwyddion amlycaf o annghyfannedd-dra ac anrhaith blin. Gwel Nod. ar Esa. 47. 1, 2. Dat. 18. 23. DAVIDSON.

Adn. 11. *A'r cenhedloedd hyn*, yr Iuddewon, a chenedloedd eraill o'r Aipht, &c. A. CLARKE.—*A wasanaethant frenin Babilon;* mae y gair brenin yn cael ei arfer yn aml am res olynol o freninoedd, o'r un tylwyth neu freniniaeth. W. LOWTH.—*Ddeng mlynedd a thrugain*, gan gyfrif o amser y brophwydoliaeth hono, y bedwaredd flwyddyn i Jehoiachim, pan gaethgludwyd Daniel ac eraill, Dan. 1. 1—5; hyd y flwyddyn gyntaf i Cyrus. GILL.

Adn. 13. *Cwbl ag sydd yn ysgrifenedig yn y llyfr hwn:* yr hyn a arwyddoccâ y prophwydoliaethau mewn perthynas i ddarostyngiad Babilon, o'r hyn y gwneir crybwylliad byr yn rhan olaf o'r bennod hon; ond fe ddadblygir y llyfr yn llawn yn pen. 40—51, y rhai a gyfleir yma yn nghyfieithiad y LXX.

Adn. 14. *Cenhedloedd lawer a breninoedd mawrion*, sef y Persiaid a'u cyngrheirwyr lluosawg dan Cyrus.

Adn. 15—18. Dyma esampl benderfynol fod rhyw bethau y gorchymynid i'r prophwydi eu gwneuthur, yn cael eu cyflawni mewn modd gweledigaethol yn unig; canys pwy a feiddia ddychymygu fod Jeremiah wedi teithio yn llythyrenol at yr holl genhedloedd hyny gan ddwyn phïol o win ganddo i'w chyflwyno iddynt fel yr yfent o honi? Er hyny efe a allai gyflwyno y phïol hon i'w cenhadon a'u cynnrychiolwyr; neu yn hytrach eiliad o'r llyfr hwn, yr hwn yn allegawl a elwir yn gwpan; cymh. pen. 27. 3.—*Gwin y digofaint.* Gwel pen. 13. 12—14. Mynych y mae yr hyn a gyfansodda dda a drwg y fuchedd ddynol, yn cael ei ddarlunio fel gwaelodion phïol, yr hwn y mae yr Arglwydd fel meistr y wledd yn ei gymmysgu a'i gyfrannu i'r holl westdeiwyr, fel y gwelo yn orau ei hunan, gwel Esa. 51. 17. Matt. 20. 22. Dat. 14. 10. a 16. 19. "Phiol digofaint," sydd ddarluniad cyffredin o farnedigaethau Duw.—Mae *chwibaniad* yn arwyddoccâu dirmyg, pen. 18. 16.—*Fel y mae heddyw*, efallai mai y prophwyd ei hunan a ychwanegodd yr ymadrodd yma wedi i'r brophwydoliaeth yma gael ei chyflawni; canys efe a fu byw i weled hyny.

Adn. 19—28. *Yr holl bobl gymmysg;* dyeithriaid y rhai a drigent yn yr Aipht, efallai; gwel Exod. 12. 38; neu genhedloedd cymmysg, y rhai a aneddent ar gyffiniau Mor y Calondir, a'r Mor Coch. BLAYNEY, W. LOWTH.—*I holl freninoedd gwlad Us:* y breninoedd hyn oeddynt fân dywysogion; ac y mae y geiryn Hebraeg a gyfieithir Brenin, yn brïodol, yn arwyddo neb un a fyddo mewn awdurdod.—*Gwlad Us,* oedd yr hen wlad lle y trigai Job gynt, yr hon oedd ran o Arabia, ar dueddau Idumea. A. CLARKE —*A gweddill Asdod,* yr hon a wanychasid gymmaint gan Psammaticus, brenin yr Aipht, mewn gwarchau o naw mlynedd ar hugain, fel y'i cymerodd, nad oedd yn nemmawr gwell nac ysgerbwd treuliedig.—*I freninoedd yr ynysoedd y rhai sydd dros y môr,* neu freninoedd y gwledydd arforawl, y rhai a orweddent ar lannau Mor y Canoldir, &c.—*I holl freninoedd y gogledd,* megis Syria, Bactria, Hyrcania, y rhai oeddynt i'r gogledd o Judea. Yr oedd yr holl genhedloedd amrywiaethol hyn un waith, yn ddarostyngedig i ymerodraeth Babilon, yr hon a elwir *Sesech* yma, ac yn pen 51. 41. Ond wedi gorphen ei gwaith, yr oedd hithau i yfed hefyd o'r un phïol, ac i suddo fel na's cyfodai mwy. Fe farna rhai mai yr achos y gelwid Babilon yn *Sesach* weithiau, oedd mewn cyfeiriad at un o'i hen freninoedd, o'r enw hwnw, yr hwn wedi ei farw a wnaethant hwy yn dduw, i'w addoli. A. CLARKE.

Adn. 30—38. Mae yr Arglwydd yn cael ei ddarlunio yn aml fel llew cyffrous, a pharod i ddifa ei ysglyfaeth, er dynodi yn fwy grymmus effeithiau ei ddigofaint; ac fe wneir y gyffelybiaeth yn fwy effeithiol fyth yma, yn gymmaint a bod y geiriau yn cael eu cyfeirio at flaenoriaid y byd a'u deiliaid, dan y darluniad o fugeiliaid a'u praidd, y rhai oeddynt ar gael eu dyfetha o herwydd eu drygioni.—*Ar ei drigle,* "yn erbyn ei drigle," Jerusalem a'r deml ynddi. BOOTHROYD. *Ar,* neu fel y mae y geiryn yn aml yn arwyddo, "ar gyfrif," neu "er mwyn," ei drigle, neu ei amddiffynfa, ei Eglwys, Salm 132. 14; ac y mae yn debyg mai dyma yr ystyr fwyaf priodol iddo yma; canys y mae yn amlwg fod wyneb y barnedigaethau a gyhoeddir yma, yn erbyn *yr holl genhedloedd, a'r rhai drygionus—Bloedd fel rhai yn sathru grawnwin.* Pan fyddo y dwyreinwyr yn gorphen cynhauaf eu grawnwin, bydd eu bloeddiadau gorfoleddus yn uchel dros ben; ac at y cyfryw floeddiadau y cyfeirir yma. Gwel Esa. 16. 9, 10. Exod. 32. 17, 18.—*Chwi a syrthiwch fel llestr dymunol,* neu werthfawr, yr hwn wedi syrthio a fydd yn llwyr annefnyddiol, oblegid ei fod wedi torri yn y codwm.—"A chwi a dorrir, pan syrthiwch, fel llestr gwerthfawr." BOOTHROYD. "Chwychwi, y rhai a fawrygir gymmaint fel llestr grisial gwerthfawr a faluir.—*Efe a wrthododd ei loches fel cenaw llew:* fel llew yn gadael glanau gorlifawl yr Iorddonen, ac yn rhuthro yn llawn cynddaredd ar draws y wlad gyfanneddol, gan ruo ac ysglyfaethu pawb o'i flaen. A. CLARKE

## PEN. XXVI.

Adn. 2. *Saf yn nghyntedd ty yr Arglwydd:* y cyntedd allanol mawr, lle yr arferai y bobl ymgynnull ar y gwyliau arbenig, ar un o ba rai, gwyl y pebyll, efallai, y traddodwyd y brophwydoliaeth hon; canys ar y cyfryw achlysuron yn unig y gallasai y prophwyd ei lefaru wrth *yr holl ddinasoedd*, hyny yw yr holl drigolion.

Adn. 6. *Yna y gwnaf y ty hwn fel Siloh*; gwel pen. 7. 12. Gwrthodasai Duw babell Siloh, (Salm 78. 60.) ac felly y byddai iddo ef wrthod y deml yn Jerusalem hefyd. BOOTHROYD.—*Yn felldith i,* neu "yn mysg" *holl genhedloedd y ddaear.* Gwel Esa. 65. 15.

Adn. 7—11. Mae yn debyg i'r geiriau hyn gael eu llefaru ger bron cynnulleidfa o'u pennaethiaid: y Sanhedrim, efallai, yr hon a sefydlasid, Num. 11. 16, ac adferasid gan Jehosaphat, 2 Cron. 19. 8. Yn eu presenoldeb hwy y darllenasai Baruch y rhól, pen. 36. 12. Yr oedd prophwydi mewn enw yn lluosog yn eu plith, ac ysgolion wedi eu sefydlu i'w dwyn hwy i fynu i'r swydd, ond er fod yn eu plith rai prophwydi gwirioneddol, yr oedd y rhan fwyaf oeddynt dan y wisg gyssegredig, yn twyllo y bobl, 1 Bren. 18. 4. a 22. 6. Yr offeiriaid a'r prophwydi oeddynt gyhuddwyr y prophwyd; y tywysogion, neu gynghorwyr y brenin, a phrif swyddogion y wladwriaeth, oeddynt yn gwneyd i fynu y llys barn, a'r bobl oeddynt y gwrandawwyr. GILL.

Adn. 13. *Gwellewch yn awr eich ffyrdd a'ch gweithredoedd.* Yr oedd iaith ac ymddygiad Jeremiah yn gweddu i'w nodweddiad sanctaidd; efe a arddelwai ei gennadwriaeth ddwyfol, a'u galwai hwy i edifeirwch; ac a'u sicrhai o'i ddiniweidrwydd ei hunan. BOOTHROYD.

Adn. 18. *A erddir fel maes:* fel yr arferai yr hen fuddugoliaethwyr gynt wneuthur â dinas yr hon y penderfynent ei llwyr ddyfetha. Gwel Barn. 9. 45. Mica 3. 8—12. Matt. 24. 1, 2. Apeliai yr *henuriaid* at ymddygiad Hezeciah dduwiol tuag at Micah, fel anghraifft er dangos y priodoldeb iddynt hwy i ddïeuogi Jeremiah.

Adn. 20—24. *Ac,* neu "Ond" *yr oedd hefyd wr, &c.* Prïodola yr ymadroddion hyn i blaid arall, y rhai drwy enghraifft wrthwynebol a ddadleuent dros y prïodoldeb o gollfarnu Jeremiah; ond y mae yn debycach fod yr henuriaid wedi terfynu eu hymadrodd yn adn. 19, a bod ysgrifenydd yr hanes yn myned rhagddo i sylwi yn ei berson ei hun, er yr engrhaifft o Micah a grybwyllasid o Micah, bod un arall ddiweddarach, wedi cymeryd lle yn y freniniaeth yma, yr hon a allasai effeithio yn dra anffafriol i achos Jeremiah, oni buasai i Ahicam mab Saphan, ddefnyddio ei ddylanwad a'i awdurdod i'w waredu. BOOTHROYD. Gellir casglu oddiwrth 2 Bren. 22. 12, fod yr Ahicam hwn wedi bod yn un o

gynghorwyr Josiah, ac efe oedd dad Gedaliah, yr hwn a wnaethpwyd yn llywydd y wlad pan gymerwyd y ddinas gan y Caldeaid, gwel pen. 39. 14. a 40. 5. POOLE. Yr oedd claddu prophwyd yn meddau y cyffredin, yn anfri nid bychan arno. Gwel 2 Sam. 17. 23. a 1 Bren. 2. 24.

## PEN. XXVII.

Adn. 1. Mae yn eglur fod y bennod hon yn perthynu i amser Sedeciah, gwel adn. 3, a 12; ac y mae yn debyg mai trwy esgeulusdra yr ysgrifenyddion y daeth Jehoiacim i fewn i r testyn yn lle Sedeciah. W. LOWTH.—Sedeciah ydyw y gair yn y Syrïaeg, yr Arabaeg, ac amryw Gyfysgrifau eraill; ac felly y barnai HOUBIGANT, BLAYNEY, DAHLER, SCOTT, BOOTHROYD, CLARKE, *Esgob* HALL, POOLE, ac amryw feirniaid enwog eraill y dylai y gair fod.

Adn. 2—11. Yr oedd cenhadon wedi eu hanfon oddiwrth freninoedd yr amrywiol genhedloedd a enwir yma, i gyfarch Sedeciah ar ei esgyniad i orsedd Judah, ac i geisio ganddo ymuno mewn cyngrhair â hwy yn erbyn brenin Babilon. Traddodid y brophwydoliaeth hon i'r cenhadon hyny, i'w chludo ganddynt bob un i'w gwlad ac at eu cenedl; a gallwn ddysgu oddiwrth hyn ac amryw engreifftiau eraill, y mynasai Duw i'r cenhedloedd hyn ei adnabod ef a'i addoli. Ac yn wir, dyma oedd un prif amcan ganddo yn neillduo Israel, ac yn eu cyfleu yn nghanol y byd adnabyddus y pryd hyny. Mae yn ddiau mai ffaith ofidus yw, fod eu hymddygiad gwrthryfelgar hwy wedi peri i'r paganiaid dramgwyddo: ond tragywyddoldeb yn unig a ddengys pa mor ehang y bu y duwiolion yn eu plith yn offerynol i wneyd ei enw ef yn adnabyddus ac anrhydeddus yn mhlith y cenhedloedd. Eithr un peth sydd sicr, fod llawer o brophwydi ffyddlawn yn adnabyddus i'r cenhedloedd cymmydogawl. Bu Uriah, a Jeremiah yn yr Aipht; Eliseus yn Syria; Jonah yn Ninefeh; Daniel, Ezeciel, Nehemiah, ac Ezra, yn Caldea; ac nid ydym heb dystiolaeth, fod llawer o'r cenhedloedd yn achlysurol wedi dyfod yn broselytiaid.—*Gefynau*, math o fforch bren, a rwymid am yddfau drwg weithredwyr, neu gaethion yn aml; ac wrth y rhai y rhwymid eu breichiau hefyd weithiau; gwisgai y prophwyd iau o'r fath yma, er arwyddocâu y byddai i'r holl genhedloedd gael eu darostwng dan Nebuchodonosor.—*Ac anfon hwynt.* Mae yn debyg fod y prophwyd yn gwisgo rhwymau a gefynau neillduedig i ddynodi pob un o'r cenhedloedd a enwir, ac yn y rhwymau a'r gefynau hyny, yn traddodi ei gennadwri i glyw, ac wrth gynnrychiolwyr yr amrywiol freninoedd a gwledydd, ac mai yn y dull hwnw yr oedd efe yn anfon ei efynau; canys nid yw yn debyg iawn y buasai y cenhadon yn cymeryd y gwaith arnynt o gludo y rheffynau a'r gefynau hyn bob un i'w wlad bell, er y gallant fod yn awyddus i ddwyn y

gennadwri bob un i'w gartref, ac yn ofalus i ddarlunio yn gywir i'w cyd wladwyr, ddull rhyfeddol y prophwyd yn ei thraddodi.—*Nes dyfod gwir amser ei wlad ef.* Yr oedd amser yn cael ei ragweled gan Dduw, yn yr hwn y byddai i Babilon gwympo, ac i'w brenin a'i phobl hithau gael eu darostwng yn gaethion. Gyda chwymp wŷr Nebuchodonosor y dymchwelwyd yr amherodraeth Fabilonaidd hefyd, Dan. 5. 30.

Adn. 16—22. Yr oedd Nebuchodonosor wedi cymeryd amryw o lestri dewisol y deml i Babilon pan gymerodd efe y ddinas, a phan osododd efe Sedeciah ar yr orsedd, ac yr oedd y gau brophwydi yn cymeryd arnynt ragfynegi y byddai i'r rhai hyn, yn nghyd a'r bobl a gymerasid yn gaethion, gael eu hadferu yn fuan; ond y mae y prophwyd yn rhybuddio y bobl i beidio rhoddi coel arnynt; ac yn eu beiddio hwythau i brofi dwyfoldeb eu cennadwriaeth trwy eiriol na byddai i'r gweddill o lestri ac addurniadau drudfawr y deml gael eu dwyn ymaith.

## PEN. XXVIII.

Adn. 1—4. Ni allasai dim fod yn fwy cydnaws a dymuniadau y bobl na'r rhith brophwydoliaeth yma; canys yr oeddynt yn ystyried Jeconiah fel eu brenin cyfreithlawn, ac nid oeddynt yn golygu ei ewythr Sedeciah namyn fel rhaglaw i frenin Babilon. Ac yr oedd yn ddymunol iawn ganddynt glywed hefyd, fod llestri cyssegredig y deml i gael eu hadferu.

Adn. 5—9. *Ië, y prophwyd Jeremiah a ddywedodd, Amen.* Dengys hyn fod y prophwyd Jeremiah yn ceisio heddwch a llesiad y wladwriaeth yn ddiffuant; a'i fod yn barod i ganiattáu honiadau Hananiah i'r nodweddiad o wir brophwyd, os cyflawnid ei ragfynegiad yn ol yr hyn a ddywedasai Duw, Deut. 18. 22.

Adn. 10, 11. Yr oedd gwaith Hananiah yn cymeryd y gefyn oddi am wddf Jeremiah, ac yn ei dorri, yn dangos hyfdra mawr; ac nid yw yn anhebyg fod y dyn wedi meddwl cymmaint am y peth, nes ei berswadio ei hun y byddai megis y dywedasai efe.

Adn. 12—14 *Yna y daeth gair yr Arglwydd at Jeremiah:*—Rhoddai Duw sicrwydd i'r prophwyd fod yr hyn a lefarasai Hananiah yn dwyllodrus; ac mor wir ag iddo ef dorri gefynau pren, y rhoid rhai haiarn ar eu gwarrau yn eu lle; ac y byddai i'r holl genhedloedd cylchynol gael eu cadw eto dan iau brenin Babilon. Yna efe a ragfynegai farwolaeth Hananiah.

Adn. 17. *Yn y seithfed mis.* Wrth gydmaru y geiriau hyn a'r adnod gyntaf, nyni a welwn fod Hananiah wedi marw yn mhen dau fis ar ol i'r prophwyd ragfynegi hyny iddo yn ngŵydd y bobl. Pe buasai y gwirionedd yn cael unrhyw argraff ar eu meddyliau, buasent yn credu ac yn edifarhau; ond yr oeddynt wedi penderfynu gwrthryfela yn erbyn gair yr Arglwydd.

## PEN. XXIX.

Adn. 1—4. *Dyma eiriau y llythyr.* Cynnwysir y llythyr yma yn yr hyn a ganlyn o adn. 4, hyd y 24ain; ac mae yn eglur mai llythyr arall yw y gweddill, a ysgrifenwyd ar ol hwn. Yr oedd GROTIUS yn meddwl fod y cenhadon a grybwyllir yn adn. 3, wedi dychwelyd, a dwyn llythyr Semaiah gyda hwy o Babilon; gwel adn. 24—29. Y mae un traws-gyflëad yn ein cyfieithiad ni; canys dylai adn. 15, ragflaenu adn. 21, fel y mae yn y cyfieithiad Groegaidd. BOOTHROYD.—*Ac at y prophwydi:* Ezeciel a Daniel efallai, canys ni's gwyddom am unrhyw wir brophwyd arall yn mysg y gaethglud pan ysgrifenodd Jeremiah atynt. DAVIDSON.

Adn. 5—14. *Adeiledwch dai.* Yr oedd gau brophwydi yn Mabilon yn prophwydo y byddai i gaethion Juda gael eu dychwelyd i'w gwlad yn fuan; ond yr oedd Duw yn eu sicrhau trwy y prophwyd Jeremiah, y parhai y caethiwed dros ddeng mlynedd a thriugain, ac wedi yr yspaid hyny y byddai iddo ef ymweled â hwy mewn trugaredd, a'u dychwelyd yn ol i'w tir eu hunain.

Adn. 16—20. *Y rhai nid aethant allan gyda chwi i gaethglud.* Mae y prophwyd yn yr ymadroddion hyn yn dangos fod y tywysog a'r bobl i gael eu rhoddi i fynu i bob rhyw adfyd oblegid eu hanufudd-dod parhaus i'r cynghorion dwyfol a roddid iddynt. Crybwyllir hyn er cymhell y caethion i ufuddhau i'r annogaethau a roddid iddynt yn y rhan flaenaf o'r llythyr.

Adn. 22. *Fel Sedeciah ac fel Ahab, y rhai a rostiodd brenin Babilon wrth y tân.* Y rhai hyn mae yn debyg oeddynt y gau brophwydi, y cwynai Jeremiah o'u herwydd yn adn. 9; ac yma y mae efe yn diweddu ei lythyr trwy ragfynegi eu dinystr. Nid yw yn annhebyg iddynt gynhyrfu y bobl i wrthryfela, am ba achos y'u daliwyd, ac y'u lladdwyd, gan losgi eu cyrph, neu iddynt gael eu cosbi yn y modd yr amcenid gwneyd a Sadrach, Mesech, ac Abednego, Dan. 3. 20, 21.

Adn. 24. Gellid casglu oddiwrth y geiriau hyn fod Semaiah wedi gwrando neu ddarllen y llythyr a anfonasai Jeremiah i Babilon: ac iddo gymeryd arno fod yr Arglwydd wedi symmud Jehoiadah, fel y byddai i Sephaniah, yr hwn oedd yn nesaf i'r archoffeiriad, yn nghyd ac eraill, gosbi yr holl gau brophwydi, neu eu carcharu; ac efe a'u cymhellai i ymddwyn felly at Jeremiah, ar gyfrif y llythyr a anfonasai efe i Babilon. Dywedir mai Seraiah oedd yr offeiriad pennaf, a Sephaniah oedd yr ail, pan gymerwyd Jerusalem, pen. 52. 24; ond ni's cawn air o son yno am Jehoiadah. Darllenai Sephaniah y llythyr yma i Jeremiah, ac yntau a ragfynegai ddinystr Semaiah a'i holl hil.

## PEN. XXX.

Adn 1—4. Rhagfynegir adferiad Israel i'w tir eu hunain, ac

ail osodiad eu sefydliadau gwladol a chrefyddol i fynu, mewn amrywiol rannau o'r Hen Destament. Mae yn anhawdd penderfynu amser pendant traddodiad y brophwydoliaeth hon; ond y mae yn ddigon cymhwys ei chyfleu yn ddilynol i'r bennod flaenorol.—*Canys wele y dyddiau yn dyfod*, yn gyntaf ar derfyniad y deng mlynedd a thriugain; ac yn ail, a mwy cyflawn dan deyrnasiad y Messïah.—*Israel*, y deg llwyth, a gaethgludasid gan frenin Assyria, ac a wasgarasid yn mysg y cenhedloedd.—*A Judah*, y bobl a gaethgludasid i Babilon, ar ddau amser gwahanol, yn gyntaf, dan deyrnasiad Jeconiah, ac yn ail dan Sedeciah, gan Nebuchodonosor. CLARKE.

Adn. 5, 6. *Llef dychryn, ac nid heddwch.* Cyfeiriai y prophwyd at gyflwr y bobl ar ddynesäad y fyddin Galdeaidd, a honiadau y gau brophwydi, y rhai a geisient berswadio y bobl mai heddwch fyddai iddynt; ond yn wyneb arllwysiad y farn arnynt, yr oedd y dewraf yn bloeddio fel gwraig mewn gwewyr; a'u hwynebau a ddangosai eu hing tufewnol, a'u gwedd welw a ddangosai eu hofn a'u braw.

Adn. 7. *Amser blinder yw hwn.* Ni buasai un dydd arnynt cyffelyb i'r dydd yn yr hwn y dinystriwyd eu dinas a'u teml, ac yr arweiniwyd hwythau yn gaethion i wlad y gelyn; eto addawid yma na's llwyr ddystrywid hwynt yno, ond y'u hadferid yn ol drachefn i'w tir eu hunain.

Adn. 9. *A Dafydd eu brenin*, sef y Messiah, yr hwn a elwir felly yn aml, am mai ynddo ef yr oedd yr holl addewidion a wnaethid i Dafydd i gael eu cyflawni Gwel Esa. 55. 3, 4. Ezec. 34. 23. a 37. 24. Hos. 3. 5. W. LOWTH. Mae y brophwydoliaeth hon yn aros i'w chyflawni yn fwy hollawl yn y dyddiau diweddaf dan deyrnasiad y Messiah. Mae yn wir fod gan yr Iuddewon arweinydd yn eu dychweliad o Babilon, sef Zorobabel, un o u cenedl eu hunain, ac o dylwyth Dafydd, ond y naill a'r llall dan warogaeth i'r llywodraeth Bersiaidd A phan y dylynwyd hono gan yr unbennaeth Roegaidd, yr oeddynt hwy yn y cyffelyb gyflwr; ac o'r diwedd hwy a syrthiasant dan iau y Rhufeiniaid, er pa amser y mae eu cyflwr wedi bod y fath, fel na's medda neb un sail i haeru fod yr adferiad addawedig yma wedi cymeryd lle eto. BLAYNEY.

Adn. 11. *Er i mi wneuthur pen am yr holl genedloedd lle y'th wasgerais.* Diflanodd ymerodraethau Assyria, Persia, Groeg, a Rhufain, tra y galluogwyd yr Iuddewon, er nad oeddynt ond pobl fychain, waradwyddedig, orthrymmedig, ac erlidiedig, i orfucheddu eu holl adfeilion hwy. *Esgob* HORNE.

Adn. 12—17. *Anafus yw dy yssigdod.* Mae y prophwyd yma yn enw yr Arglwydd yn darlunio cyflwr adfydus Judah, a'r achos o hono. Yr oedd y genedl yn gyffelyb i un wedi ei yssigo a'i

archolli yn drwm, nes ei fod o'r braidd yn anobeithiol ei gyflwr, heb neb yn cymhwyso moddion meddygyniaeth priodol atto; a hyn oll a ddaethai arni am ei haml droseddau. BOOTHROYD.—*Dy holl gariadau*, yr Aiphtiaid a'r Assyriaid ond odid, y rhai a gynnorthwyasent Israel lawer gwaith.—*Y rhai oll a'th yssant a yssir.* Y Caldeaid, y rhai a'th ddifäant di, a ddifëir gan y Mediaid a'r Persiaid.—*A'th anrheithwyr di a fyddant yn anrhaith:* yr Assyriaid i'r Babiloniaid; y Babiloniaid i'r Mediaid a'r Persiaid, yr Aiphtiaid a'r Persiaid i r Groegiaid dan Alexander. CLARKE.

Adn. 18. Y golygiad mwyaf hygoel yw, bod *y ddinas*, a'r *llŷs*, yn dynodi dinasoedd Judah yn gyffredinol, a llysoedd, neu balasau y mawrion a'r pendefigion drwy y wlad.

Adn. 21. *Canys pwy yw hwn, a lwyr roddodd ei galon i nesau attaf fi?* Mae y cyf destyn yn tueddu ein meddyliau i olygu y llywodraethwr, am yr hwn y dywedasai yr Arglwydd yn y rhan flaenaf o'r adnod hon y parai efe iddo nesau a dyfod atto ef. Canys pwy yw yr hwn a lwyr roddodd ei galon fel hyn i nesau at yr Arglwydd, i ufuddhau iddo a'i wasanaethu ef, heb ei dynu i hyny gan ddylanwad Dwyfol? Cymh. Ioan 6. 44, 45. BOOTHROYD. Cynnwysa y geiriau hyn ddarluniad nodedig o'r Messiah; cymh. Heb. 2. 10—17. a 10. 7—10. Mae y gair gwreiddiol a gyfieithir *llywiawdwr*, yn arwyddo y Cadarn, Salm 93. 4. Esa. 10. 34. Efe a nesäodd at yr Arglwydd fel yr Archoffeiriad mawr, Lef. 16. 5. DAVILSON.

Adn. 23, 24. Mynych y mae y gyffelybiaeth o *gorwynt*, neu dymhestl yn cael ei defnyddio i ddynodi barnedigaethau llymion; gwel Esa. 21. 1. Mae barnedigaethau Duw ar y drygionus, yn dilyn adferiad eglwys Dduw o'i halltudiaeth yn yr anialwch.

## PEN. XXXI.

Adn. 1. *Yr amser hwnw.* Mae yn sicr fod y rhagfynegiadau hyn yn golygu adferiad dyfodol Israel i'w tir eu hun, canys fe rag nodir amryw amgylchiadau yma, y rhai yn ddïau ni's cyflawnwyd ar ddychweliad yr Iuddewon o gaethiwed Babilon; ac na's cawsant eu cwblhau eto. BLAYNEY.—*Byddaf Dduw i holl deuluoedd Israel.* Ni chafodd nemmawr, os cafodd neb o'r deg llwyth eu hadferu o'r caethiwed, ond fe'u dychwelir hwythau, gyda llwythau Judah a Beniamin i freniniaeth y Messiah; Rhuf. 11. 25, 26. DAVIDSON

Adn. 2. Mae iaith y geiriau hyn yn eglur yn cyfeirio at yr Israeliaid yn yr anialwch, y rhai fel cenedl a waredwyd gan Dduw yn yr anialwch rhag y dinystr arswydus a amcanai eu gelynion erlidgar iddynt, megis Pharaoh, yr Amaleciaid, a'r Amoriaid, ac a arweiniwyd i lonyddwch neu orphwysfa gwlad Canaan.

Adn. 3. *Er ys talm yr ymddangosodd yr Arglwydd i mi*, neu drosof fi. Dyma iaith Israel, yn diolchus goffäu daioni a ffafr

Duw iddynt yn yr hen amserau, i'r hyn y mae yr Arglwydd yn atteb yn yr ymadroddion nesaf, gan sicrhau tragwyddoldeb ei gariad, a'u hysbysu o'r hyn a wnelai efe eto dros ei bobl Mae lle i gasglu fod y prophwyd wedi cael yr hyn a gofnodir ganddo yma, mewn gweledigaeth, yn yr hon y rhag ddangosid iddo gan yr Arglwydd ei hunan, ansawdd ddyfodol yr Eglwys. Ac at hyn y cyfeiria efe drachefn yn adn 26, "Ar hyn y deffroais, &c."

Adn. 4—6. *O forwyn Israel*, nid puttain, y'i dynodir yma, fel y gwnelid yn aml; ond yr oedd y rhai a gyferchid fel hyn, wedi ymgyssegru yn wirioneddol i wasanaeth yr Arglwydd yn unig. Ac fe'i gelwid fel hyn i ddynodi y llawenydd a gai hi ei fwynhau, canys morwynion a arferent ddawnsio ar amserau llawenydd arbenig, 1 Sam. 18. 6. Exod. 15. 20. Barn. 11. 34. POOLE. Yr Israeliaid yn gyffredinol a elwid yn forwyn, oblegid eu bod wedi eu hadferu i'w purdeb gynt. COBBIN.—*Ac a'u mwynhant yn gyffredin:* cyfeiriad at y gyfraith yn nghylch prennau ffrwyth, trwy yr hon y gwaherddid i'r plannydd fwytta o ffrwyth ei goed a blanasai, hyd y bummed flwyddyn wedi eu plannu; Lef. 19. 23—25. Yr oedd y ddeddf mewn perthynas i'r rhai hyn i gael ei difodi, yr hyn oedd yn awgrym nodedig fod yr eglwys i gael ei dodi dan ddeddfwr newydd: yr hwn a blannai a gai fwynhau ffrwyth ei lafur ei hunan, ac ni's cáai ei orfodi i'w adael i eraill am lawer o flyneddoedd.—*Gosod gwylwyr ar fynydd Ephraim*, a gyfeiriai at yr arferiad o osod rhai ar lëoedd uchel i gyhoeddi unrhyw newyddion yn y berthynas a'r rhai y byddai pawb yn cyfrannogi, gwel Barn. 9. 7. 1 Cron. 13. 4 Esa. 40. 9.

Adn. 8. *O dir y gogledd*, sef Babilon, a gwlad y Caldeaid.—*Ystlysau y ddaear*, gwledydd pell Palestine; yr oedd y deg llwyth wedi eu cludo ymaith, rhai i Assyria, gan Tiglath-pileser, a rhai i Mesopotamia, a Media, gan Salmaneser, 2 Bren. 15. 29. a 17. 6. A. CLARKE.—*Y dall a'r cloff, &c.*, y llesgaf, a'r rheidusaf.

Adn. 9. Mae y geiriau hyn yn cynnwys addewid y byddai i'r bobl pan y'u dychwelid, fod yn edifeiriol iawn, ac y mwynhaent yn helaeth o ysbryd gweddi. Cymh. Sal. 126. 5, 6. Esa. 43. 19, 20.

Adn. 10—14. Mae y prophwydoliaethau am ddychweliad yr Iuddewon, yn deilwng o sylw neillduol y Cenhedloedd oll, gan fod eu troedigaeth hwythau i gymeryd lle yr un pryd. Fe ddangosir y ddau amgylchiad pwysig yma yn y prophwydoliaethau yn gyssylltiedig a'u gilydd yn wastadol. Gwel Rhuf. 11. 25.—*Gwenith, gwin, olew*, a dïadellau, oedd yn cyfansoddi golud Palestine a'r gwledydd cymmydogawl, am hyny y'u defnyddir fel delweddau o lwyddiant a dedwyddwch yn aml. DAVIDSON.

Adn. 15—17. *Ramah*, yr oedd amryw drefydd yn cael eu galw wrth yr enw hwn, ond y dref a olygid yma oedd yn llwyth Beniamin, tua chwech neu saith milldir o Jerusalem, yn agos i'r hon

y claddwyd Rahel. Fe'i darlunir yma mewn dull barddonawl godidog, fel pe deuai allan o'r bedd, gan ddwys alaru am ei phlant lladdedig a chaethgludedig. Cymhwysa yr Efangylydd y geiriau hyn at gyflafan plant Bethlehem gan Herod, Matt. 2. 17, 18. BLAYNEY. Rhagfynegir adferiad yr Iuddewon yn yr adnodau blaenorol, a dilynol, yr hyn oedd i'w lwyr gwblhau yn eu dychweliad at y Messiah; yr oedd hyn i ddechreu ar ei ymddangosiad ef; ond nid oedd hyn i fod yn annysgaredig oddiwrth ddyddiau gofid i'r genedl, nid oedd eu cystudd fel cenedl i derfynu hyd oni lwyr gyflawnid y brophwydoliaeth am eu dychweliad hwy at y Messiah; felly y dygir ger ein sylw yma yr amgylchiad galarus hwnw, a achlysurwyd gan eiddigedd brenin yr Iuddewon, rhag y byddai i lywodraeth y genedl gael ei chymeryd o'i deulu ef. Mae yn wir fod yr ymadroddion hyn yn cael eu deongl yn gyffredinol fel prophwydoliaeth o gaethgludiad yr Iuddewon i Babilon; ac mai eu benthyca yn unig a wneir gan yr Efangylydd, oblegyd eu cyfaddasrwydd i'w cymhwyso at gyflafan Bethlehem. Ond pa ham y detholir Rama mwy na rhyw dref arall i alaru ei cholled am ei meibion trwy y caethgludiad? Os i gynnrychioli holl drefydd a llannerchau y wlad wedi eu gwaghau o drigolion, oni buasai Jerusalem yn gyfaddasach i'r perwyl hwnw. Pa ham y darlunir Rahel fel y prif alarydd, ac na's cyssylltir Leah â hi? mae yn ddiau fod plant yr olaf yn perthyn i'r eglwys mor wirioneddol a'r eiddo y flaenaf, a'u bod mor ddarostyngedig a'r lleill i ddrygau alltudiaeth. Ond caniattäer fod y geiriau hyn yn brophwydoliaeth union-gyrchol o'r adfyd mawr cyntaf a gyfarfu â'r genedl mewn cyssylltiad â'u hymddygiad at y Messiah ar ei ymddangosiad, ac yna y mae y cyfan yn ymddangos yn eglur a diorchudd. Yn y geiriau hyn, darlunir Rahel, yr hon a gladdesid yn agos i Ramah, fel yr un hynottaf o hynafiaid y trigolion, yn cynnrychioli holl fammau y babanod a lofruddiwyd yn Methlehem, mewn wylofain a galar am yr alarus; ond fe elwir ar y cyfryw i ymattal a'u wylofain trwy y rhesymau mwyaf dyddanus; *y mae tâl i'th lafur*, hyny yw, ti a gei ganfod eto, nad yn ofer y goddefaist boen yn ymddwyn plant ac yn eu magu; ond y deuant eto *o dir y gelyn*, neu y bedd, tiriogaeth angeu, y "gelyn diweddaf."—*Yn dy ddiwedd*, pan fyddo pawb yn derbyn yn ol y gweithredoedd a wnaethpwyd ganddynt yn y corph:—*Y dychwel dy blant i'w bro eu hun*, eu gwlad eu hun, y Ganaan nefol. Mae yr addewid werthfawr hon, yn pelydru yn siriol o amgylch beddau babanod; ac yn cyfatteb yn hynod i eiriau yr hwn y lladdwyd plant Bethlehem er ei fwyn, "Eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." DAVIDSON.

Adn. 18—20. Nid am y deg llwyth yn unig y dywedir hyn, ond am holl Israel y rhai a ddychwelasant o'r caethiwed, ac megys mai Ephraim a gaethgludwyd yn gyntaf am ei bechod a'i eilun-

addoliaeth, felly efe a ddarlunir wrth ei enw yn edifarhau. Yr oedd taro y forddwyd, ac y mae eto yn mysg y dwyreinwyr, yn ddull cyffredin o arwyddo galar dwys, a gofyd ysbryd. Ezec. 21. 12.—*Ai mab hoff genyf yw Ephraim?* Ymadrodd mewn modd ymofynol, er dynodi yr ystyr gadarnhäol yn rymusach; felly y mae yr ymadroddion hyn yn dangos hoffder mwyaf Duw at Ephraim er ei holl gildynrwydd, ei dosturi atto er ei fod yn gorfod ei geryddu am ei gamweddau; a'i barodrwydd i faddeu iddo.

Adn. 21. *Cyfod it arwyddion ffordd.* Mae yn amlwg mai ystyr gyffredinol y geiriau hyn yw, Nad oedent ddychwelyd at yr Arglwydd; ond nid yw mor hawdd esbonio pob ymadrodd yn yr annogaeth.—*Arwyddion ffordd*, colofnau, neu brennau hirion, a osodid i fynu er cyfarwyddyd i'r teithwyr pa ffordd i gyfeirio, mewn gwledydd annghyfanneddol, a lleoedd anial. Meddylia rhai fod y prophwyd yn y geiriau hyn yn galw ar y gaethglud i ystyried yn ddyfal y ffordd y'u dygid i Babilon, fel y gallent wybod pa fodd i ddychwelyd yn ol i'w gwlad.

Adn. 22. *Pa hyd yr ymgrwydri?* y troi yn dy feddwl y ffordd hon neu y ffordd arall, y petrusi o herwydd yr anhawsderau ar ffordd cyflawniad y fath daith faith, a'r gelynion lluosog y bydd raid i ti ymryson â hwy.—*Yr Arglwydd a grëodd beth newydd ar y ddaear.* Cyferchir yr Iuddewon yn y llinell gyntaf fel *merch wrthnysig*, neu wrthgiliedig, yn petruso gan ofn; ac yma y mae Duw yn addaw creu peth newydd, hyny yw, gwneuthur rhyw wyrth, a'r peth newydd neu y wyrth hon yw, yr hyn a gynnwysir yn y llinell olaf, *Benyw a amgylcha wr*, wrth yr hyn yr wyf yn meddwl y golygid, y byddai i Israel, er nad oedd ond gwan megis benyw, a i bod yn petruso gan ofn, gael eu galluogi gan Dduw i orchfygu pob rhwystrau, a gyru pawb a fynai eu lluddias i ddychwelyd i'w gwlad, ac ail ymsefydlu ynddi, i gilio. BOOTHROYD. Nid oes un perthynas rhwng arwyddocäad gyffredinol y gair a gyfieithir *amgylchu*, ag ymddwyn, neu feichiogi, ond y mae yn arwyddocâu troi oddiamgylch, troi un yn ol, neu wrthdroi gelyn; ac y mae y gair a gyfieithir *gwr*, yn arwyddo yn briodol, "gwron," "un cadarn;" gan hyny mae yn debyg fod yr addewid yn gyfystyr a hono yn Esa. 41. 14—16, yr hyn ni's gellid ei gyflawni ond trwy gyfryngiad grasol, gallu o'r fath ag a grëodd y byd. DAVIDSON. Nid oes un sail i'r golygiad a briodola rhai i'r ymadrodd yma, fel pe cyfeiriai at genhedliad goruwch naturiol yr Arglwydd Iesu, nid yw y gair *amgylchu* un amser yn cael ei arfer am feichiogi, a phe buasai, ni buasai dim rhyfedd mewn ymddwyn ar wryw, tra nad oes yma un cyfeiriad at forwyn. WILLIAMS, GATAKER. Mae yn ddiddadl genyf nad oes y fath ystyr i'r geiriau, ac na's gellir eu gwneyd yn deg oddiwrthynt; yr ystyr fwyaf naturiol yw, fod yr Iuddewon yn eu cyflwr di amddiffyn, fel benyw lesg ddigymmorth, a'r Caldeaid fel gwr cadarn creulawn, ond

er yr holl annghyfartalwch, y byddai i Dduw beri i'r fenyw amgylchu, neu orchfygu y cadarn, y Babiloniaid galluog. Mae yn dra thebyg mai ymadrodd diarebol ydoedd. A. CLARKE. Mae amryw feirniaid enwog eraill yn meddwl fod yma gyfeiriad at genhedliad goruwch naturiol dynoliaeth Crist, ac o'r cyfryw y gellir nodi POOLE, GILL, PEARSON, a SUTCLIFFE.

Adn. 26. *Yna y deffrouis*, yr oedd y prophwyd wedi ei adnewyddu gan y weledigaeth hon, fel yr adnewyddir gwr blinedig gan gwsg melus. W. LOWTH. Efallai mai mewn breuddwyd y rhoddwyd y datguddiad hwn i'r prophwyd. POOLE, CLARKE, WILLIAMS.

Adn. 27. Hau tŷ Israel a thŷ Judah â had dyn ac â had anifail, a ddynoda gynnydd a lluosogiad dyn ac anifail yn eu plith, neu ffyniant a llwyddiant yn mhob ystyr yn y wlad.

Adn. 29. *Y tadau a fwytasant, &c.;* hyny yw, y tadau a bechasant, a'r plant a gosbir. Yr oedd Duw wedi bygwth ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant, yr hyn a fu yr achlysur o'r ddiareb hon a gynnwysir yn yr adnod yma; ac yn y caethgludiad yr ydoedd yn cael ei chymhwyso at gyflwr y caethion, a'r cystudd a ddyoddefent, yn benaf am anwiredd eu tadau, gwel Galar. 5. 7. Ezec. 18. 2. Ond pan symmudid y farn hòno, yna darfyddai yr arferiad o'r ddihareb hon; ond yna byddai pob un farw am ei anwiredd ei hunan. W. LOWTH. CLARKE.

Adn. 31. *Y gwnaf gyfammod newydd*, yr oruchwyliaeth Gristionogol. A. CLARKE.—Newydd, mewn cariad digyffelyb, mewn doniau a grasusau, ac wedi ei gadarnhau trwy waed Iesu Grist. SUTCLIFFE.

Adn. 32. *Nid fel y cyfammod, &c.* Gwnaethpwyd y cyfammod hwnw a'r Iuddewon ar Sinai, ac yr oedd yn ddiffygiol oblegid eu gwendid hwy; â'r Iuddewon yn unig y gwaethid hwnw, ond hwn a'r Iuddewon a'r Cenhedloedd.—*Er fy modI yn briod iddynt;* er ei fod yn cyflawni dyledswyddau priod tuag attynt, trwy eu cynnal a'u amddiffyn, fel y gwna gwr a'i wraig.

Adn. 33, 34. Gan ddywedyd, *Adnabyddwch yr Arglwydd.* Yr ystyr yw, fod pob un a dderbyniodd y cyfammod newydd yn adnabod yr Arglwydd, ac yn ei gydnabod ef fel ei unig Arglwydd a Gwaredydd. Ni's rhaid iddo ddysgu o neb ef am y gwrthddrych yma o wybodaeth; yn wir ni's gall y naill gyfranu y wybodaeth yma i'r llall, gwel Ioan 6. 45. 1 Cor. 12. 3. Matt 16. 17. a 11. 25—27. Mae hyn yn rhagorfraint berthynol i'r holl wir gredinwyr yn Nghrist, canys y maent oll wedi eu dysgu gan Dduw, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf, cymh. 1 Ioan 2. 12—14, 27. Nid addysg gyffredinol a olygir yma, er fod hyny yn angenrheidiol i dderbyniad y wybodaeth oruwch-naturiol hono a addawir yma; canys ni all neb adnabod yr Arglwydd, heb feddu y datguddiad a roddes Duw o honaw ei hun; Rhuf. 10. 14. Ac am hyny, un o'r

addewidion penaf dan y cyfammod newydd yw, " Dy lygaid a welant dy athrawon."

Adn. 35—37. Ni's gallasid darlunio annewidiolrwydd y cyfammod newydd yn rymmusach nac y gwneir trwy y cyffelybiaethau tra barddonawl hyn. DAVIDSON.—*Yna had Israel a baid a bod yn genedl;* a baid a bod yn bobl wahanol; a pha mor wasgaredig bynnag a fyddont o ran lle, eto byddant wedi eu cyfrwymo yn un genedl. Ac y mae hyn wedi ei gwblhau mewn modd rhyfeddol hyd yn hyn. Er eu bod wedi eu bwrw ymaith fel eglwys, eto fe'u diogelir fel pobl yn hynod, ac ni lwyr wrthodwyd yr holl had, i'r rhai y mae doniau a galwedigaeth Duw yn ddïedifarus.

Adn. 38—40. Yn y geiriau hyn fe sicrheid y byddai i'r ddinas gael ei hail adeiladu ar ol dychweliad y bobl o'r caethiwed; ond y mae yn dra thebyg fod yma gyfeiriad at gyflwr perffeithiach eto sydd yn aros eglwys Dduw, yr hon mewn mannau eraill a enwir "Dinas Duw," a'r "Jerusalem Newydd;" ehangder yr hon a ddarlunir yn allegawl yn Ezec. 41. 30, &c. Dat. 21. 10, &c.

## PEN. XXXII.

Adn. 1—3. Bu byddin y gelyn yn gwarchae ar y ddinas ddeunaw mis cyn ei chymeryd, pen. 39. 1, 2. Gan hyny nid yw yn rhyfedd fod y trigolion yn meddwl am dani ei bod yn anorchfygol, yr hyn a fu yn fagl iddynt, gan fod hyny wedi peri iddynt ddirmygu eu cyfeillion goreu, a'u cyfrif fel eu gelynion gwaethaf. Felly y bwriwyd Jeremiah, y gwladgarwr gwresocaf, i'r carchar gan y brenin, yr hwn a ddylasai fod y cyntaf i'w anrhydeddu ef.

Adn 4. Mae aml un yn mhlith darllenwyr arwynebol yr Ysgrythyrau wedi barnu fod y geiriau hyn yn annghyson â'r hyn a ddywedir yn Ezec. 12. 13, y byddai i'r brenin gael ei ddwyn i Babilon, ond na's gwelai hi. Ond fe gyflawnwyd y ddwy brophwydoliaeth yn llythyrenol; gwel 2 Bren. 25. 5—7. Efe a welodd Nebuchodonosor, yr hwn a dynodd ei lygaid yn ei dir ei hun, ac yna a'i hebryngodd i Fabilon. DAVIDSON.

Adn. 5. *Hyd oni ymwelwyf fi ag ef,* nid Sedeciah yn bersonol, ond yn ei had, neu ei ddeiliaid,—dull tra chyffredin o ymadroddi yn yr ysgrythyrau. Felly yr addawai Duw ddwyn Jacob, o'r Aipht, pan y mae yn amlwg mai ei hiliogaeth a olygid, Gen. 46. 4, a gelwir y cyflawniad o'r addewid am y Messiah, " y drugaredd i'r tadau," Luc 1. 72. DAVIDSON.

Adn. 6—9. Gwel Lef. 25, 25. Num. 27. 11.—*Saith sicl a deg darn o arian,* neu "saith sicl o aur, a deg o arian." BOOTHROYD. Yr hyn oedd tua phedair punt ar ddeg, yr hyn, pan ystyriwn na's byddai y tir i'w fwynhau hyd wedi y caethgludiad a allai fod yn bris rhesymol am y maes ; ond, os dau sicl ar bymtheng o arian ydoedd, fel y barna rhai, am nad yw y gair " aur" i mewn yn y

testyn, ar ol y *saith sicl*, ni buasai hyny yn fwy na thua deugain swllt, yr hyn gan ei fod mor ychydig i feddwl ei fod yn bwrcas maes, a barai i rai o'r beirniaid mwyaf craffus farnu fod y gair "aur," wedi colli o'r testyn yn rhywfodd. Er hyny, hwyrach fod bychander y swm yn cael ei nodi er dangos mor ddiwerth yr ystyrid pob meddiannau ar y pryd, oblegid fod y wlad yn meddiant goresgynwr barbaraidd.

Adn. 10—12. Yr oedd y prophwyd trwy y gorchwyl yma o'i eiddo yn dangos ei grediniaeth yn ngwirionedd ei ragfynegiadau ei hunan, ac amcenid trwy y weithred arwyddocâol hon, ddyddanu y duwiolion oeddynt wedi eu cymeryd yn gaethion i Babilon.—*Yr hwn oedd wedi ei selio a'r hwn oedd yn agored.* Mae yma gyfeiriad ond odid at y dull y cedwid y cyfryw weithredoedd, ar yr hyn y sylwa *Syr* J. CHARDIN. Wedi y gwneler pryniad yn y dwyrain, mae y prynwr ei hunan yn cadw ysgrif y pryniad, a'r ysgrifenydd neu y cyfreithiwr yn gwneuthur eiliad *(copy)* o honi, yr hon a law noda, ac a geidw ef ei hunan, heb ei selio, ond yn agored i'r sawl a fyno ymofyn i'w gweled. Eraill a farnant fod yma gyfeiriad at ddull arferedig yn rhai o'r gwledydd dwyreiniol, o ysgrifenu y prif bethau cyssylltiedig â diogeliad eiddo y prynwr ar un wyneb i'r rhòl, yr hon ar ol hyny a blygid i fynu ac a selid â seliau y pleidiau, neu sêl y swyddog gwladol, fel na s gellid cyfnewid ei chynnwys; ac ar y gwaelod, neu y tu allan i'r rhòl, ysgrifenid yr hyn a fyddai yn angenrheidiol i'w wybod bob amser, fel y byddai yn agored i'r neb a ewyllysiai edrych arno.

Adn. 14. Yr oedd gwaith y prophwyd yn rhoddi gweithredoedd y pryniad i'w cadw *mewn llestr fel y parhaont ddyddiau lawer,* yn dangos crediniaeth ddiysgog y prophwyd yn yr oraclau a draddodasai efe

Adn. 16—25. Yn yr adnodau hyn mae y prophwyd fel pe buasai wedi ei lenwi a syndod gan yr amlygiadau o'r bwriadau Dwyfol, yn tywallt ei enaid mewn addoliad ger bron Duw, ac yn addef uniondeb ei oruchwyliaethau mwyaf ofnadwy ef tu ag at ei bobl ddewisedig. Mae yn mawrygu Duw fel ffynnonell bod, a grym, a bywyd; nad oes dim yn anhawdd iddo ef i'w gyflawni, ei fod yn Dduw annherfynol ei drugaredd, a pherffaith ei gyfiawnder. A pha drallod bynnag a'n cyferfydd ninnau yn bersonol neu berthynasol, gallwn ymgysuro â'r ystyriaeth o fod Duw yn ei ganfod ac yn gwybod pa fodd i weini gwaredigaeth o'i afael. Nid ymddadleu yn erbyn ewyllys Duw sydd yn gweddu i ni; ond llafurio am ei adnabod yn well.—*Peiriannau ergydio,* neu y gwrthgloddiau a gyfodid cyfuwch a muriau y ddinas, er mantais i'r gwarchaewyr ergydio eu saethau i fewn i'r ddinas.

Adn. 29. Byddai y Dwyreinwyr yn treulio llawer o'u hamser ar bennau gwastad y tai, ac yn cyflawni eu defodau crefyddol yno, 2 Bren. 23. 12. Zeph. 1. 5. Act. 10. 9.

Adn. 31. *I'm digofaint ac i'm llid y bu y ddinas hon;* neu, "Fy nigofaint a'm llid a gyffröodd y ddinas hon." BOOTHROYD.

Adn. 35. *I wneuthur i'w meibion a'u merched fyned trwy y tân i Moloch.* Gwel Nod. ar 2 Bren. 23. 10. Mae yn debyg mai dal eu plant uwch ben y tân, fel math o gyssegriad arnynt y byddai rhïeni tyner, tra fyddai eraill yn eu llosgi yn y tân. W. LOWTH, BLAYNEY.

Adn. 36—44. Cynnwysa y geiriau hyn brophwydoliaeth fer o'r un natur a'r hon a gawn ni yn helaethach yn pen. 30; ac y mae y gweddill a achubwyd o Israel yn gof golofnau o'i gwirionedd; ond y mae yn ddiddadl fod ei chyflawniad hollawl eto yn ol.—*Un galon ac un ffordd,* sydd yn dynodi undeb ysbryd ac ymddygiad trwyadl, llwyr wahanol i nodweddiad y deuddeg llwyth, Esa. 11. 13; ac i ymddygiad dynolryw yn gyffredinol, Tit. 3. 3.

## PEN. XXXIII.

Adn. 1—3. Dyma esampl nodedig o waith Duw yn ymrwymo i ddoniaw ei was ag ysbryd prophwydoliaeth mewn attebiad i weddi; ac y mae yn ddiau y bydd iddo efoleuo meddyliau ei bobl a geisiant hyny mewn gwir ffydd ganddo, i ddeall y prophwydoliaethau a roddes efe i'w eglwys. Cynnwysa y bennod hon yr ail brophwydoliaeth a gafodd Jeremiah tra yn y carchar.—*Yr hwn a'i gwnaeth,* neu, fel y mae y gair yn arwyddo, "ei wneuthurwr," sef yr hwn a gwblhai yr hyn yr oedd efe yn awr ar ei addaw. CLARKE, DAVIDSON.—*Y rhai ni's gwyddost,* wrth yr hyn y golygid mae yn debyg, "y rhai nid oeddit yn eu gwybod, ac ni's gellit, ond trwy ddatguddiad." BLAYNEY.

Adn. 5. *Y maent yn dyfod i ymladd a'r Caldeaid,* sef yr Iuddewon, neu eu cyngrheirwyr, ond yn lle ymladd, rhaid fyddai iddynt droi i gladdu eu lladdedigion, y rhai a fyddent yn cael eu lladd mor ddisymmwth, neu mor luosawg, fel ag i amlygu llaw Duw yn hytrach na llaw dyn. Efallai fod cyfeiriad yn y geiriau hyn at anrhaith y newyn a'r haint yn y ddinas yn yspaid y gwarchae, pen. 32. 24.—*Am i mi guddio fy wyneb;* sef attal yr arwyddion arferol o'i ffafr i Israel. DAVIDSON.

Adn. 6—9. *Myfi a ddygaf iddi hi iechyd a meddyginiaeth.* Yn nghanol bygythion o anrhaith, y mae Duw yn dirion yn addaw gweithredu gwaredigaeth ryfeddol drachefn i Sion a'i dinasyddion, nid mewn ystyr wladwriaethol yn unig, ond mewn ystyr ysbrydol hefyd, gan faddau iddynt eu pechodau, a'u puro fel y byddent yn foliant yr holl ddaear. BOOTHROYD.

Adn. 10—13. *Clywir eto yn y lle hwn.* Cwynai rhai am yr anrhaith a fygythid, ac mewn anobaith, penderfynent mai yn y cyflwr hwnw y gadewid y wlad, heb ddyn ac heb anifail; ond fe'u sicrheid gan y prophwyd, y llenwid y tir eto a thrigolion, ac

â diadellau; ac yr arferid gwasanaeth y deml drachefn, a moliant i rymmus Dduw Jacob.

Adn. 14—16. *Fel y cyflawnwyf y peth daionus a addewais i dŷ Israel.* Yr hyn a addewir yn y geiriau canlynol, y cyfodid i dŷ Dafydd Flaguryn cyfiawnder, &c. BOOTHROYD.—Dyfodiad y Messiah, yr addewid a wnaethpwyd i'r tadau, Act. 13. 32. DR. BEVERIDGE. Terfyniad y caethiwed, Mic. 7. 9, &c., Zeph. 3. 10, &c., Jer. 16. 15. a 23. 3, &c. A. CLARKE.

Adn. 17, 18. *Ni phalla i Dafydd ŵr yn eistedd ar frenin-fainc tŷ Israel.* Darlunir gorsedd fainc neu freniniaeth Dafydd gan y prophwydi fel yn gysgodol o eglwys Dduw, neu deyrnas nefoedd; ac yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid yn gysgodau o holl ddilynwyr Crist; gwel Esa. 66. 22. Dat. 1. 6. a 20. 6. DAVIDSON. Arwyddai y geiriau hyn y byddai i freniniaeth Dafydd a'r offeiriadaeth barhau. Wedi y caethgludiad yr oedd Zorobabel o linach Dafydd, ac y mae yn dra thebygol fod y rhan fwyaf o'r archoffeiriaid o'r un llinell ar yr ochr fenywaidd, hyd pan gymerodd Herod Fawr brif lywiad pethau yn mysg yr Iuddewon i'w law ei hun, debygid, ac fel hyn y cadwyd y freniniaeth a'r offeiriadaeth, hyd oni ddaeth y Gwaredwr, yn yr hwn y'u parheir; ac er darfod o'r freniniaeth dymhorol, a'r offeiriadaeth gysgodol, y mae y freniniaeth a'r offeiriadaeth ysbrydol a gwirioneddol yn parhau. BOOTHE.

Adn. 22. *Had Dafydd*, wrth yr hyn yn ddiau y golygir Crist a'i had ysbrydol. CLARKE.

Adn. 24. *Pa beth y mae y bobl hyn yn ei lefaru;* gelynion yr Iuddewon; neu yr Iuddewon drygionus eu hunain.—*Y ddau deulu*, y ddwy freniniaeth, Israel a Judah, neu, yn hytrach, teuluoedd Dafydd ac Aaron. POOLE.

## PEN. XXXIV.

Adn. 1. *Yn rhyfela yn erbyn Jerusalem.* Cynnwysa y bennod hon ddwy brophwydoliaeth wahanol; y gyntaf a amserid pan oedd Nebuchodonosor yn gwarchae ar Jerusalem, a dinasoedd Lachis ac Azecah, tua diwedd y nawfed flwyddyn i Sedeciah, mae yn debyg; gan mai yn y degfed mis o'r flwyddyn hono y dechreuwyd y gwarchae. Yr ail brophwydoliaeth a draddodwyd yn mhen rhyw yspaid ar ol hyny, pan oedd y Caldeaid wedi cyfodi y gwarchae, a myned ymaith i gyfarfod byddin yr Aipht, yr hon a ymddangosai fel pe bwriadasai gynnorthwyo Jerusalem. BOOTHE.

Adn. 2. *Efe a'i llysg hi â thân;* gwel y cyflawniad, 2 Cron. 26. 19.

Adn. 3. *Diau y'th ddelir*, gwel 2 Bren. 25. 4—6.

Adn. 5. *Hwy a losgant beraroglau i ti*, yn ol y dull yr arferai yr Iuddewon ar gladdedigaeth eu breninoedd, er amlygu eu parch iddynt, 2 Cron. 16. 14. Mae yn wir na's gellir profi trwy hanes-

yddiaeth i hyn gael ei gyflawni yn llythyrenol; ond nid oes dim yn anhygoel yn y peth, pan ystyriom y dylanwad mawr a feddai Daniel, Sadrach, Mesech, ac Abednego (heb son dim am eraill o'r Iuddewon) yn llys Babilon. *Esgob* WATSON.

Adn. 8—10. Cymh. Exod. 21. 2. Deut. 15. 12—18, &c. Mae yn anhawdd penderfynu pa beth a barai i Sedeciah ymddwyn fel hyn, pa un a'i rhyw gyffröad ar ei gydwybod a barai iddo wneyd, ynte dichell, i edrych a fyddai hyny yn foddion i beri i'r holl ddinaswyr ymegnïo yn fwy i amddiffyn y ddinas. Gwnelid y cyfammod yma, nid rhwng y gwŷr mawr a'u brenin, ond brenin a deiliaid a wnaent y cyfammod â Duw, trwy lŵ difrifol, ac aberth; mae yn debyg iddynt ddyfod i'r penderfyniad daionus yma tra yr oedd y Caldeaid yn gwarchae y waith gyntaf ar y ddinas; ac iddynt ail gaethiwo eu gweision a'u morwynion wedi'n pan giliodd y fyddin a'u gadael yn llonydd am yspaid; cymh. pen. 37. 5—10.

Adn. 14. *Yn mhen saith mlynedd;* neu, "O fewn saith mlynedd." Chwe blynedd gyflawn oedd yr yspaid y goddefid i unrhyw Hebrewr fod yn gaethwas i'w frawd; yr oedd yn rhaid ei gyhoeddi yn rhydd can gynted ag y gellid yn y seithfed flwyddyn. DAVIDSON.

Adn. 17. Dyma awgrym ofnadwy iddynt fod yr Arglwydd ar eu cyfarfod â thaledigaeth am eu hymddygiadau rhagrithiol ac anufudd; mae y defnydd a wneir o'r gair rhyddid yn y fan hon, ar unwaith yn brydferth, ac yn dra arswydlawn. Mae fel pe rhoddai ryw amnaid i ni fod holl ddrygau naturiol ein heinioes, megys yn rhwym mewn carchar gan yr Arglwydd, a'u bod yn barod pan welo efe yn dda eu gollwng, i ruthro ar ei elynion, a chyflawni ei ddialedd arnynt.

Adn. 18. Arferai y Groegiaid a'r Rhufeiniaid gadarnhau eu cyfammodau trwy ddefod gyffelyb i'r eiddo yr Iuddewon, y rhai a offryment fustach ieuanc, a'i holltent ar ei hyd yn ddau, ac a gerddent rhwng y darnau, er dynodi, mae yn ddiau, eu bod yn cydsynio i gael eu dryllio yn ddarnau, a'u rhoddi i'w difa gan adar neu fwystfilod ysglyfaethus, oni's cadwent lŵ y cyfammod. Yr oedd y ddefod yma o ymgyfammodi mewn arferiad cyn dyddiau Moses, gwel Gen. 15. 9—18.

## PEN. XXXV.

Adn. 1—5. Mae yn amlwg fod yr holl brophwydoliaethau blaenorol o'r 26, yn perthynu i oes Sedeciah, tra y mae y bennod hon, a'r nesaf, a'r 45, yn amlwg yn perthynu i oes Jehoiachim, ac felly i fod o ran cyflead o flaen y lleill. Gorchymynir i'r prophwyd yn y geiriau hyn geisio dysgu a cheryddu yr Iuddewon trwy esampl y Rechabiaid, y rhai nid oeddynt o had Israel, ond estroniaid o hiliogaeth arall a drigent yn eu plith. Gellir casglu oddi-

wrth 1 Cron. 2. 55, mai Ceniaid oeddynt, sef pobl a wladychasant ar y dechreu yn y rhan hono o Arabia, a elwid tir Midian, ac y mae yn dra thebygol eu bod o hiliogaeth Jethro, tad yn nghyfraith Moses, neu Hobab, yr hwn a elwir "Ceni," neu "y Cenead." Cymh. Num. 10. 29—32. a Barn. 1. 16. a 4. 11. Y Jonadab a grybwyllir yma yw yr hwn y dangosai Jehu y fath barch iddo, 2 Bren. 10. 15. Mae yn ymddangos ei fod ef yn dra eiddigeddus dros burdeb moesau ei bobl, ac am hyny efe a archodd iddynt lwyr ymattal oddiwrth win.—Yr oedd lluaws o ystafelloedd yn gyssylltiedig â thŷ Dduw, at wasanaeth yr offeiriaid a'r Lefiaid yn bennaf; ac i un o'r ystafelloedd cyhoedd hyn, *yr hon oedd wrth ystafell y tywysogion*, llywodraethwyr y bobl, neu y Sanhedrim, yr oedd y prophwyd i ddwyn *holl deulu y Rechabiaid*, neu eu holl gynnrychiolwyr, i wneyd y prawf yma arnynt, fel y byddai yr addysg a'r ceryydd yn hysbys i fawrion Jerusalem, a phennaethiaid gwladol a chrefyddol y genedl, y rhai er eu bod dan rwymedigaethau llawer mwy i ufuddhau i orchymynion Duw nac ydoedd y Rechabiaid i gadw gorchymynion eu tad, oeddynt er hyny yn llwyr ddibris o honynt.

Adn. 19. *Ni phalla i Jonadab mab Rechab wr i sefyll ger fy mron yn dragywydd.* Mae yr ymadrodd yma wedi ei fenthyca oddiwrth ddefodau llysoedd brenhinol, ac yn cynnwys cyfeiriad at y dull arferedig o ddywedyd fod y gweision anrhydeddusaf yn sefyll ger bron y Brenin; gwel Deut. 1. 38. 2 Bren. 10. 8. Defnyddir y gair yn gyffredin yn yr Hen Destament, am yr offeiriaid a'r Lefiaid yn gwasanaethu Duw yn y deml; ond nid oedd un cenedl ddyn i gael ei dderbyn i swyddau sanctaidd y cyssegr. Gan hyny fe'm tueddir i feddwl fod y gair yma yn dynodi diogeliad y tylwyth yma o oes i oes; ac hefyd, efallai, y byddai i rai o honynt o oes i oes, wasanaethu Duw mewn ysbryd a gwirionedd. Dywedai y teithydd enwog NIEBUHR, ei fod wedi cael hanes llwyth o Iuddewon a breswylient y mynyddoedd ar y tu gogledd-ddwyreiniol i Medina, y rhai a adwaenid wrth yr enw Beni Kheiber, i'r rhai yr oedd tywysogion annibynol o'r eiddynt eu hunain, a'r rhai oeddynt wedi eu dosbarthu i dri llwyth, ond heb gynnal un math o gyfathrach a'r Iuddewon eraill ydynt yn wasgaredig drwy Asia. Yr hanes yma a dynodd sylw JOSEPH WOLFF, y cenhadwr Iuddewig enwog, a phan ydoedd yn Jerusalem, efe a ymholodd âg Iuddew tra chyfarwydd o'r enw Rabbi Mose Secot, a wyddai efe rywbeth am yr Iuddewon oeddynt yn preswylio yn agos i Medina, y Rabbi yn ddioed a attebodd y gwyddai, ac mai y Beni Kheiber oeddynt. Yna Wolff a ofynodd iddo yn mhellach, a fyddent hwy un amser yn dyfod i Jerusalem, attebodd yntau na's byddent, ond iddynt fod yno yn amser y prophwyd Jeremiah; a phan ofynwyd iddo pa fodd y gwyddai efe hyny, efe a gyfeiriai at y bennod hon, a hwy a gyd-ddarllenas-

ant yr un ar ddeg adnodau cyntaf. Ar hyn y mae MR. WOLFF yn sylwi yn ychwanegol,—"Chwi a ganfyddwch wrth hyn fod y Rabbi dywededig yn ddiysgog yn ei feddwl mai hiliogaeth y Rechabiaid oedd y rhai hyn. Ac hyd y dydd hwn nid yfant win, ac nid oes ganddynt na gwinllan na maes, na had, ord y maent yn trigo mewn pebyll fel yr Arabiaid, ac yn llwythi crwydredig. Maent yn credu ac yn cadw cyfraith Moses trwy draddodiad. Y Rabbi dywededig hefyd a ystyriai yr enw Kheiber yr un a Heber, yr hyn a ddynoda eu deiliaid o'r Cenead hwnw.

## PEN. XXXVI.

Adn. 2. *Cymmer i ti blyg llyfr.* Cyfeiriad at ddull yr henafiaid o ysgrifenu ar grwyn, y rhai a blygent yn rholau i'w cadw.—*Er dyddiau Josiah*, ac yn y drydedd flwyddyn ar ddeg o deyrnasiad yr hwn y i galwesid i'r swydd brophwydoliaethol, felly yr oedd efe wedi prophwydo yn bresenol dros yspaid tair blynedd ar hugain: ac yma fe orchymynir iddo gasglu yr holl brophwydoliaethau a draddodasai efe o fewn yr yspaid dywededig o amser, a'u hysgrifenu yn un llyfr. Gwel pen. 1. 1—3. a 25. 1—7. a 30. 1—3.

Adn. 5. *Cauwyd arnaf fi.* Meddylia rhai fod Jeremiah yn garcharor, neu ei fod dan ryw attalfa dreisgar; ond ni's darllenwn am ei garchariad yn y bedwaredd flwyddyn i Jehoiachim. POOLE. Yr oedd efe wedi cau arno gan afiechyd, neu ei attal rhag myned i'r deml gan ryw aflendid seremoniol, megis marwolaeth yn ei deulu, &c. WILLIAMS.

Adn. 9. *Yn y bummed flwyddyn.* Treuliasai peth amser, cyn i Baruch gael cyfleusdra cyfaddas i ddarllen y plyg llyfr. E dybir fod yr ympryd hwn yn y nawfed mis yn cael ei gadw, o herwydd mai ar yr amser hwnw y flwyddyn flaenorol y cymerasai Nebuchodonosor y ddinas.

Adn. 10. *Yn ystafell Gemariah.* Mae yn debyg mai y prif achos i Baruch ddewis yr ystafell hon oedd, am y gallai efe ddarllen cynnwysiad y plyg llyfr o ffenestr yr ystafell hon yn fwy hyglyw i'r bobl a ymdyrent yn finteioedd i'r cyntedd islaw iddi, nac o un ystafell arall.

Adn. 12—19. *Yr holl dywysogion*, sef cyfrin gynghorwyr y brenin. Yr oedd rhai yn ystyried yr hyn a ddarllenasai Baruch yn niweidiol i'r wladwriaeth, ac yn ei gyfrif yn fradwriaeth, efallai; eto yr oedd y tywysogion yn teimlo gradd o barch i'r prophwyd, yr hwn a dystiai eu cydwybodau am dano mai gwir brophwyd ydoedd, ac am hyny cynghorent Baruch ag yntau i ymguddio rhag ofn iddynt syrthio yn ebyrth i gynddaredd y brenin.—*A minnau a'u hysgrifenais hwynt yn fy llyfr ag inge;* neu yn hytrach, yn ol y beirniaid medrusaf, "mewn llyfr ar ei ol ef," hyny ydyw, "Ysgrifenais yn hollawl fel y dywedai wrthyf, heb ychwanegu atto, na thynu oddiwrtho."

Adn. 22. *A'r brenin oedd yn eistedd yn y gauaf-dŷ.* Yr oedd gan freninoedd eu haf-dai a'u gauaf-dai, gwel Amos 3. 15. GILL. Ystafell gynnes, gyfaddas i'r tymhor. Mae eira ar y ddaiar yn mis Rhagfyr yn aml yn Palestine, er nad erys yn hir.

Adn. 23, 24. *Tair dalen neu bedair,* wrth yr hyn yn ddiau y golygir colofnau, neu adranau o'r plyg llyfr. W. LOWTH, BLAYNEY..—*Yna efe a'i torodd,* sef Jehudi a'i torodd wrth orchymyn y brenin; yr oedd digofaint y brenin wedi ennyn, ac efe a ddangosai ei ddiystyrwch ar eiriau y prophwyd, a'i annghrediniaeth o honynt, trwy beri llosgi y llyfr bob yn ddarn, a hyny yn erbyn taer ddeisyfiad tri o'i gynghorwyr; ac am y lleill o'i gynghorwyr, mae yn ymddangos eu bod hwy mor anmharchus o air Duw ag oedd eu meistr; canys nid ofnasant, ac ni rwygasant eu dillad yn arwydd o alar am y fath ymddygiad.

Adn. 26. *Ond yr Arglwydd a'u cuddiodd hwynt;*—Cuddiodd Duw hwynt yn ei ragluniaeth fel na chafodd y cenhadon hyd iddynt; a chyn pen hir llanwyd meddyliau y brenin *â* gofalon eraill, fel y gadawodd efe lonydd i'r prophwyd a'i was.

Adn. 30. *A'i gelain ef a fwrir allan i wres y dydd, ac i rew y nos.* Yn Syria, a pharthau eraill o'r dwyrain, y mae y dyddiau yn frwd, a'r nosweithiau yn rhewlyd. HARMER. Gwel 31. 40, a'r Nodiadau.

## PEN. XXXVII.

Adn. 1—3. Yn y rhan flaenaf o'r bennod hon, y mae amryw ffeithiau rhagarweiniol yn cael eu hadrodd, er nodi yr amser a'r achlysur o ail gennadwriaeth Zedeciah at Jeremiah, adn. 1—5. Yr oedd Passur yn un o'r rhai a anfonasid. Derbyniasai Zedeciah y freniniaeth gan Nebuchodonosor, yr hwn a aethai i gyfammod âg ef, wedi ei gadarnhau trwy lw yn enw Duw Israel. Yr oedd efe dan rwymau i aros dan deyrnged i frenin Babilon, oddiwrth yr hyn ni's gallai gael ei ryddhau, oddieithr trwy ganiattäad Brenin Babilon, neu ddatganiad o ewyllys y nef; gwel 2 Cron. 36. 13. cymh. Sal. 15. 4.

Adn. 5. Mae yn dra thebyg mai y gyfathrach a ffurfiasai brenin Judah *â* Pharaoh Hophra, neu Apires, fel y'i gelwir gan Herodotus, a fuasai y prif achos i'w hudo ef i feiddio y Babiloniaid; gwel Ezec. 17. 15. Ymddangosai y fyddin Aiphtaidd fel pe bwriadasai ddyfod rhagddi i gyfodi y gwarchae oddiar Jerusalem, ond hwy a ymddygent yn fradwrus at Zedeciah, canys dychwelasant i'r Aipht yn fuan, heb feiddio ymladd â Nebuchodonosor. Fe'u beïir am eu twyll, ac a'u rhybuddir o gosbedigaeth sicr, Ezec. 29. 6, 7.

Adn. 10. *Ond gwyr archolledig,* neu, fel y mae y gair yn arwyddo, "rhai wedi eu trywanu," hyny yw, wedi eu harcholli yn farwol. Pa fodd y gellid cael ymadroddion cryfach i ddangos yr

anmhossiblrwydd i'r Iuddewon ddianc rhag dialeddau Duw trwy y Caldeaid? Yn lle gwrando gweddiau dros ei bobl, cynt y gwnai Duw wyrthiau dros eu gelynion y rhai a bennodasai efe i gyflawni ei farnedigaethau cyfiawn. DAVIDSON.

Adn. 11—15. *I ymlitho oddiyno yn nghanol y bobl;* neu "I fyned i dir Beniamin, i'r etifeddiaeth oedd ganddo yn mysg y bobl." BOOTHROYD. Nid oes genym un sail i feddwl fod Jeremiah wedi encilio gydag eraill i un rhyw berwyl drwg; ond fe allai ei fod yn awyddus i ymweled â'i dreftadaeth yn Anathoth, ac i gasglu peth o'i chynnyrch tuag at ei gynnaliaeth yn Jerusalem; yr oedd dyledswyddau swydd y prophwyd yn gofyn iddo ef fod lle byddai y brenin a'r tywysogion, at y rhai yr oedd ei brophwydoliaethau yn cael eu cyfeirio gan mwyaf.—*Iriah* ydoedd wyr i Hananiah, marwolaeth yr hwn a ragfynegasai Jeremiah; ac efallai iddo ymddwyn yn llymach tuag at y prophwyd ar y cyfrif hyny.—*O herwydd hwnw a wnaethent hwy yn garchardy.* Sylwa DR. CLARKE fod un ystafell yn gyffredin yn ngwledydd Asia, yn perthyn i dŷ gweinyddwyr y gyfraith, i garcharu pawb a ddygir dan gyhuddiadau o'u blaen. Yr oedd Jonathan yn ysgrifenydd breninol, a phan y'i gosodasid yn y swydd hono, gwnaed ei dŷ yn garchardy.

Adn. 16. *I'r daeardy, ac i'r cabanau.* Wrth gydmaru y lle hwn â pen. 38. 6, y mae yn ymddangos yn debyg mai pydew dwfn oedd y daeardy, wedi ei gloddio yn syth fel ffynnon, yn nghanol y cyntedd agored, oddiamgylch i'r hwn yr oedd tai mawrion wedi eu hadeiladu; ac yn ei ystlysau, yn agos i'r gwaelod, yr oedd celloedd wedi eu cloddio, tebyg i gabanau llong, fel y gwasanaethent yn ystafelloedd gwahanol i'r trueiniaid anffodus a ollyngid i waered yno. Mae yr un gair yn arwyddo bedd hefyd, o herwydd bod celloedd o'r fath yn cael eu cloddio yn hen gladdfeydd y meirw gynt ond odid; gwel Esa. 16. 16.

Adn. 17—21. Yr oedd y prophwyd yn parhau i gyfarch y brenin yn ffyddlawn, ac yn y geiriau hyn eto nyni a'i cawn yn ei sicrhau y byddai iddo ef gael ei wneyd yn garcharor. Gellid casglu fod gan y brenin beth parch iddo, a'i fod ar yr achlysur yma wedi dangos peth ffafr iddo, gan gyfnewid ei garchar am un ychydig mwy cysurus, gan beri iddo gael ei ddwyn i gyntedd y carchardy, nid cyntedd carchardy Jonathan, ond yr eiddo y brenin, gwel pen. 32. 2.—*Heol y pobyddion*, wrth yr hyn ond odid y golygid arlwyfa gyffredin y brenin, o'r lle y cynhelid y milwyr â dognau pennodol o fara ddydd yn ei ddydd.

## PEN. XXXVIII.

Adn. 1. Yn y bennod hon y cawn ni hanes y gennadwriaeth brophwydoliaethol olaf a draddodwyd gan y prophwyd cyn i'r ddinas gael ei chymeryd. Mae yn eglur y dylasai y pedair adnod

olaf o'r bennod nesaf fod wedi eu cyssylltu â'r bennod hon, o herwydd y cyssylltiad agos sydd rhwng eu cynnwys.

Adn. 2—4. Ni buasai nemmawr o wlad-lywiawdwyr yn ymddwyn yn wahanol i'r rhai hyn; ond ni's lleihäai hyny ddim ar eu heuogrwydd hwy; oblegid yr oeddynt wedi cael profion digonol o ddwyfol ysbrydoliaeth Jeremiah trwy y cyflawniad manol a fuasai ar amryw o'i brophwydoliaethau. Gan hyny, yr oeddynt yn amlwg yn ymladd yn erbyn Duw, wrth wrthod cennadwri ei was ef.

Adn. 5. Yr oedd y brenin eisoes wedi dangos cryn barch i'r prophwyd, ac amlygu dymuniad i ymddwyn yn dyner tuag atto, pen. 37. 21; ond yr oedd y tywysogion wedi penderfynu ei garcharu os nid ei ddystrywio; ac nid oedd y brenin yn wr digon dïanwadal i amddiffyn Jeremiah, fel y barnai yn gydwybodol y dylasai, ond efe a'i rhoddes i fynu i ddwylaw ei dywysogion.

Adn. 7—13. *Ebedmelech, yr Ethiopiad.* Mae ymddygiad yr eunuch hwn, a pharodrwydd y brenin i ganiattau ei ddymuniad, yn dangos fod y ddau yn credu ei eiriau ef i ryw raddau. Meddylia amryw mai Negro a ddygasid yn gaethwas i'r brenin, oedd yr Ebedmelech yma.—*Cymer oddiyma ddeng wr ar hugain gyda thi;* gellir casglu oddiyma fod y brenin yn penderfynu mynu cyfodi y prophwyd o'r daeardy yma trwy rym, os buasai y tywysogion yn cynnyg gwrthwynebu hyny.

Adn. 14. *I'r trydydd cyntedd.* Mae yn dra thebyg mai yr esgynfa o dŷ y brenin i'r deml a olygir yma, am yr hon y crybwyllir yn 1 Bren. 10. 5; canys y mae yn anhygoel y buasai y brenin yn cymeryd Jeremiah, yr hwn oedd yn ngharchar yn nghyntedd y llŷs, gyd ag ef i un o'r prif fynedfäau i'r deml er mwyn annghyoeddusrwydd, pan y llenwid y mynedfäau hyny yn wastadol gan yr offeiriaid a'r bobl.

Adn. 15. *Oni wrandewi,* neu yn hytrach, " Ni wrandewi di arnaf." Yr oedd paräad y gwarchae yn effeithio ar feddwl y brenin, yr hwn oedd yn awyddus a thra phryderus am wybod beth fyddai y canlyniad; eto yr oedd y prophwyd yn sicr na's gwrandawai efe ar ei gynghor ef.

Adn. 16—23. *Fel mai byw yr Arglwydd yr hwn a wnaeth i ni yr enaid hwn.* Wedi i'r brenin sicrhau i'r prophwyd trwy lŵ o'r fath fwyaf difrifol na's niweidid ef am draddodi y gwirionedd, y mae y prophwyd yn rhagfynegi yr hyn a gymerai le. Os ymroddai y brenin i r Caldeaid, yr arbedid y ddinas; ond, os amgen, y'i cymerid ac y'i llosgid, ac y gwnelid ei wragedd a'i blant yntau yn gaethion. Gellid meddwl ar yr ymddiddan fod y brenin yn cael ei dueddu i wneuthur yn ol cynghor y prophwyd; ond trwy gyndynrwydd y blaenoriaid, efe a berswadiwyd i ymgyndynu hyd oni ddaeth digofaint Duw ar y ddinas i'r eithaf.

Adn. 24—28. *Na chaffed neb wybod y geiriau hyn* Mae hyn yn dangos fod y brenin yn ofni y tywysogion mewn gwirionedd

a'i fod yn ofni y buasai iddynt wneyd rhyw gynnygiad i ddwyn bywyd y prophwyd, pe y gwybuasent pa beth a ddywedasai efe. Mae yn debyg ddarfod i Jeremiah yn ystod yr ymddiddan ddymuno cael peidio ei fwrw i'r daeardy neu i garchardy Jonathan drachefn; cymh. pen. 37. 15; a bod y brenin wedi cymeryd gafael yn hyn i'w roi yn ngenau y prophwyd fel attebiad i'r tywysogion, pan glywent am yr ymddiddan yma. Buasai attebiad y prophwyd felly yn wirionedd, er na fuasai yn cynnwys yr holl wirionedd.

## PEN. XXXIX.

Adn. 1, 2. *Y degfed mis*, a gyfattebai i'n Ionawr ni. Parhaodd y gwarchae ddeunaw mis, yr hyn oedd brawf eglur o gadernid y ddinas, yn yr hon yr ymddiriedai y dinaswyr, ond yn gwbl ofer, am fod Duw wedi eu gwrthod.—*Y torwyd y ddinas:* yr oedd y fath fylchau wedi cael eu gwneyd yn muriau y ddinas, fel yr oedd y gelynion yn cael mantais i ruthro i mewn yn finteiodd digon lluosog i gymeryd y ddinas rhag blaen.

Adn. 3. *I n y porth canol.* Yr oedd y ddinas yn gorwedd ar ddau fryn, Sion ar y tu deheuol, ac Acra ar y tu gogleddol, rhwng y rhai yr oedd dyffryn dwfn; a meddylir mai cyfrwng cymundeb rhwng y ddwy ran o'r ddinas, yr hwn oedd yn nghanol y dyffryn, ydoedd y *porth canol.* Aeth y Caldeaid i mewn drwy y rhan ogleddol o'r ddinas, a rhuthrasant yn mlaen hyd y porth canol, lle y gosodasant eu hunain, ac y daethant yn feistriaid trwyadl ar yr holl ddinas; gan hyny nid oedd dim gan y brenin a'i fyddin i'w wneyd, yn enwedig gan fod eu harlwyon wedi darfod, ond dianc trwy y porth deheuol. Crybwyllir enwau amryw bennaethiaid yma, y rhai oeddynt brif faeslywyddion y Caldeaid, debygid.

Adn. 4, 5. *Rhwng y ddau fur*, crybwyllir dau fur yn 2 Cron. 32. 5. hefyd. Galluogid y brenin a'i ganlynwyr i ddianc rhwng y ddau fur yma, heb fod neb yn eu gweled nes cael rhyw ddrws (dirgelaidd ond odid) i'r gwastadedd agored.—*Riblah*, yr un, tebygid, ag Antioch, yr hon a ail adeiladwyd, neu a adgyweiriwyd gan Seleucus.--*Hamath*, oedd ddinas fawr yn Syria, Gen. 10. 18.—*Lle y rhoddodd efe y farn arno.* Efe a'i profodd mewn barn fel un euog o fradwriaeth, trwy dorri ei lw ô ffyddlondeb; gwel 2 Cron. 36. 13. Ezec. 17. 16, 18.

Adn. 6—8. Nyni a welwn yn y geiriau hyn y modd y cyflawnid pob rhan o brophwydoliaethau Jeremiah am Zedeciah, er mor wrthwyneb i'w gilydd y gallai rhai o honynt ymddangos. Efe a welodd frenin Babilon, ac a gludwyd i'r ddinas fawr hono, lle y bu efe farw, eto ni's gwelodd hi, gwel pen. 32. 4. Ezec. 12. 13.

Adn. 9. *A gaethgludodd i Babilon weddill y bobl a adawsid yn y ddinas*, y rhai nid enciliesant o'r ddinas yn yspaid y gwarchae.

Adn. 11. *A roddodd orchymyn am Jeremiah.* Hwyrach fod

cyflawniad prophwydoliaethau Jeremiah, cystal a'i gynghor i Zedeciah, wedi cael ei hysbysu i Nebuchodonosor gan rai o'r encilwyr, neu rai a gymerasid yn gaethion wedi hyny. CLARKE, COBBIN, GILL.

Adn. 15—18. Traddodwyd y brophwydoliaeth ddyddorawl yma i'r ystafellydd caredig cyn cymeryd y ddinas, yn ddïoed ar ol gwarigaeth Jeremiah o'r daeardy y mae yn debyg. E ddichon y gallai fod Ebedmelech yn ofni y cawsai deimlo oddiwrth ymddial y tywysogion, a bod yn angenrheidiol iddo am y dyddanwch a weinyddir yma er tawelu ei feddwl. Mae yr Arglwydd yn sicr o anrhydeddu y rhai a anrhydeddant ei weision ef. Mae yn ddymunol adfyfyrio ar y ffaith yma, fod yr unig ddau a'u hynodasant eu hunain drwy zel dros Dduw yn ystod y gwarchae, sef Jeremiah ac Ebedmelech, yn wrthddrychau arbenig y gofal Dwyfol.

## PEN. XL.

Adn. 1. Nid yw yn ymddangos fod Nebuzaradan yn Jerusalem, pan y'i cymerwyd; ond yr ydwyf yn meddwl oddiwrth adn. 13, o'r bennod flaenorol, iddo anfon at y pennaethiaid eraill, i erchi arnynt gymeryd gofal am Jeremiah, neu os tybiwn ei fod yn Jerusalem, fe allai ei fod ef wedi ymadael ar ol Sedeciah, ac ar ol iddo ei arwain ef hyd Riblah, iddo ddychwelyd i Ramah, ac anfon am y prophwyd i'w ddwyn atto yno, fel y gallai efe roddi ei gyflawn ryddid iddo: ac e ymddengys iddo gael ei arwain yno fel y caethion eraill. BOOTHROYD.

Adn. 3. *Am i chwi bechu:* nid Jeremiah, ond ei gydwladwyr. GILL.

Adn. 5. *Ac efe eto heb ddychwelyd;* neu, yn ol rhai beirniaid, "Tra yr oedd efe eto heb roddi un attebiad."—*Dychwel at Gedaliah;* oddiwrth yr hyn y gallwn gasglu ei fod ef wedi ymuno â Gedaliah o'r blaen, cyn y cyfymweliad yma rhyngddo â thywysog y llu.—*A roddodd iddo ef luniaeth a rhodd; lluniaeth,* sef yr arlwyon angenrheidiol i'w gynnal ar y daith i Mizpah.—*A rhodd,* yr hyn oedd arwydd o barch mawr.

Adn. 6. Yr oedd amrywiol drefydd o'r enw Mispah; ond yn mreniniaeth Judah yr oedd yr un a nodir yma; gwel adn. 12. Gellid meddwl ei bod yn perthynu i lwyth Beniamin, a'i bod yn gorwedd tua deunaw milldir i'r deheu o Jerusalem; a bu unwaith yn enwog fel prif eisteddle addoliad crefyddol, yn enwedig yn nyddiau Samuel. E ddichon mai hyn yn benaf a barai i Gedaliah roddi y blaenoriaeth iddi yn bresenol, yr hwn gan ei hystyried fel lle cyssegredig, a'i dewisai i drigo ynddi yn awr, pan oedd y ddinas sanctaidd yn garneddau. Gwel pen. 41. 5. a 1 Bren. 15. 22. 2 Cron. 16. 6. Efallai nad oedd efe yn meddwl y byddai yn gyfreithlawn cynnal addoliad cyhoedd namyn yn y cyfryw le. Nid oes genym un esampl eglur, o ddynion sanctaidd Duw

yn ei addoli ef yn gyhoeddus dan yr Hen Destament, yn enwedig trwy aberth, mewn unrhyw le na's cyssegrasid ar ryw adeg trwy ryw arwydd o bresenoldeb Duw. DAVIDSON.

Adn. 7. Yr oedd y fyddin Iuddewig wedi ffoi, pen. 39. 4; ac ymwasgaru ar led y wlad; ac er nad yw yn ymddangos fod llawer o honynt heb gwympo i ddwylaw y Caldeaid, mae lle i ddeall oddiwrth yr hanes ganlynol fod yspryd y tywysogion yn llwyr anmhlygedig eto; a'u bod yn llawn gwrthryfel yn erbyn Duw a brenin Babilon eto; gan briodoli goresgyniad eu gwlad yn fwy i'r rhai a ymroisent i frenin Babilon yn hytrach nac i'w pechodau eu hunain neu bechodau eu cenedl.

Adn. 10—16. Mae yr hanes alarus a gynnwysa y bennod hon a'r un ganlynol mor eglur, fel nad oes angen am lawer o nodiadau eglurhaol; y prif anhawsder yw, cael allan pa beth a dueddai Ismael i ymddwyn yn y fath fodd. Ond gan ei fod, fel y dysgwn oddiwrth pen. 41. 1, o'r had breninol, efallai fod eiddigedd wrth ganfod un heb fod o'r had breninol yn cael ei ddyrchafu i lywodraethu y wlad, wedi gymhell yn gyntaf oll. Hwyrach ei fod yn meddwl fod ganddo ef ei hunan well hawl na Gedaliah i'r dyrchafiad yma: ac efallai ei fod yn meddwl ond cael Gedaliah o'r ffordd, y gallasai lwyddo i'w sefydlu ei hunan yn ei le ef: ac eddichon mai y prif achos na buasai rhyw beth o'r fath yn cymeryd lle, oedd iddo gael ei arwain gan amgylchiadau yn mhellach nac yr amcanai. Efallai mai yr hyn a achlysurodd laddedigaeth y Caldeaid, oedd eu bod hwy wedi cynnyg amddiffyn, neu ddïal Gedaliah ar ei fradwyr; ond gallesid meddwl na buasai brenin Babilon yn esgeuluso dïal am y cyfryw ysgelerder, ac am hyny ymollyngai Ismael i gyflawni cymmaint o draha ag a allai. Ond wedi y cwbl nid yw yn annhebyg mai offeryn yn llaw brenin Ammon ydoedd Ismael, yr hwn a ennynai ynddo syniadau o'r teimladau a nodasom uchod, tra nad oedd efe yn amcanu dim trwy lofruddiaeth Gedaliah, ond lluddias adferiad y gweddill o'r Hebreaid i gyflwr cymhariaethol o lwyddiant a dedwyddwch, trwy ymddygiad doeth y dyn caredig hwnw.

## PEN. XLI.

Adn. 1. *Seithfed mis*, sef yn mhen tri mis ar ol cwymp y ddinas pen. 39. 2., cymh. Zech. 7. 2, 3.—*Pendefigion y brenin* efallai oeddynt gyfrin gynghor Sedeciah, y rhai ni syrthiasent i ddwylaw brenin Babilon; pen. 36. 12, 21. a 38. 4. Nid oes un lle i ammeu oddiwrth lwyddiant eu bwriad bradwrus, fod lluaws o ddilynwyr iddynt.—*Hwy a fwytasant yno fara* gyda Gedaliah, yr hyn a ystyrid y prawf mwyaf cyssegredig o gyfeillgarwch gan bob cenedl, ac nid gan neb yn fwy na phreswylwyr Palestine a'r gwledydd cylchynol; ac wrth hyn y gwelir anfadrwydd bradwriaeth, a barbareidd-dra anwar y dynion, yn nghyda rheswm paham

yr oedd y trueiniaid a syrthiasant yn ysglyfaeth iddynt mor bell o ddrwg dybio am danynt: cymh. Gen. 31. 54. a 2 Sam. 13. 28, 29.

Adn. 4, 5. *Heb neb yn gwybod;* wrth yr hyn y deallwn fod y gyflafan wedi bod mor drwyadl, fel na's gallodd cymmaint ac un o blaid Gedaliah, y rhai oeddynt yn Mispah, ddianc, i wneyd y peth yn hysbys.– *Sichem, Siloh,* a *Samaria,* oeddynt drefydd mawrion, ac y mae lle i gasglu wrth neges y pedwar ugeinwr, eu bod hwy o leiaf yn mysg y rhai mwyaf rhinweddol o'r trigolion. Yr oeddynt wedi ymuno mewn adduned, debygid, i ymprydio, gweddio, ac offrymmu aberthau ar gyfrif aflwydd eu cenedl; cym. Act. 21. 23, 24. Heblaw y dull cyfreithlawn o amlygu gofid a galar, yr oeddynt wedi gwneyd toriadau yn eu cnawd yn ol dull y paganiaid;—defod waharddedig gan yr Arglwydd i'w bobl. Gwel pen. 16. 5—7. 1 Bren. 18. 28. Deut. 14. 1. Hwyrach fod y dynion hyn yn myned trwy Mispah i Jerusalem i aberthu ar garneddau y deml; ond meddylia eraill mai lle yr allor a olygid wrth *dŷ yr Arglwydd;* a meddylient fod Gedaliah wedi cyfodi allor i'r Arglwydd yn Mispah, yn ol dull yr hen farnwyr gynt, y rhai a gyfodent allor i'r Arglwydd yn y man yr eisteddent i farnu y bobl. DAVIDSON.

Adn. 6—10. *Gan gerdded rhagddo ac wylo.* Mor ragrithiol ac annuwiol ydoedd yr adyn yma, pan allai efe gymeryd arno gyd alaru â'r gwyr hyn, a thywallt dagrau rhagrith, pan nad oedd ond llofruddiaeth yn ei galon!—*Y mae genym ni drysor yn y maes.* Cyfeiriad at ddefod sydd eto yn arferedig yn y dwyrain o guddio ŷd ac olew, yn y maes, mewn cuddfeydd tan-ddaiarol mawrion Matt. 13. 4. Diar. 2. 4.—*Y pydew a wnaethai y brenin Asa, rhag ofn Baasa.* Mae yn rhaid fod y pydew hwn yn fawr, canys efe a wnaethid gan y brenin Asa i guddio yr holl drysorau gwerthfawr a berthynent i'r orsedd a'r deml ynddo. DAVIDSON. Efe a'i gwnaethai yn hytrach i dderbyn dwfr gwlaw a'i gadw, fel na byddai diffyg dwfr ar drigolion Mispah, yn y gwarchae a ofnai Asa oddiwrth Baasa brenin Israel, pan gadarnhaodd efe Mispah: cymh. 1 Bren. 15. 16—22. Esa. 36. 6.—*Merched y brenin;* mae yn debyg mai merched Sedeciah oedd y rhai hyn, y rhai a adawsid dan ofal Gedaliah, pan laddwyd eu brodyr. Y rhai hyn wedi hyny a ddilynasant Johanan i'r Aipht; gwel pen. 43. 4—7. a 22. 28—30.

Adn. 17. *Yn nhrigfa Cimham,* rhandir a roisai Dafydd i Cimham, mab Barzilai, 2 Sam. 19. 38, 40.

## PEN. XLII.

Adn. 1—6. *Felly holl dywysogion y llu.* Gallem feddwl wrth y gennadwriaeth yma a anfonai y tywysogion at y prophwyd, fod y bobl o fychan i fawr wedi eu darostwng bellach, ac y byddai iddynt yn ddiau ufuddhau i orchymyn Duw fel yr addawent wneyd

yn y modd mwyaf difrifol: ond hynod mor dwyllodrus yw y galon ddynol; yr oedd eu hymlyniad wrth yr Aipht yn llawer mwy na'u dymuniad am ryngu bodd i Dduw. Yr oeddynt hwy wedi arfer dros yspaid ymddiried yn yr Aipht, ac yn meddu tueddfryd cryf at ddefodau eilunaddolgar, a moesau afreolaidd yr Aiphtiaid.

Adn. 7. *Ac yn mhen y deg niwrnod.* Yr oedd yr oediad yn drugaredd, canys trwy hyny yr oeddynt yn cael hamdden i ystyried eu sefyllfa a'u hamgylchiadau; ac yr oedd yn fanteisiol i gynnyrchu ystyriaethau difrifol ynddynt, gan nad arferai Duw fod yn hir heb wrandaw ei bobl.

Adn. 10. *Y mae yn edifar genyf*, nid am ei fod wedi ymddwyn yn annghyfiawn, canys nid ydoedd y radd leiaf o annghyfiawnder yn ei ymddygiadau; ac nid am ei fod wedi cyfnewid ei feddwl y dywedai efe fel hyn; ond am ei fod yn tosturio wrthynt, ac yn bwriadu cyfnewid yn ngoruchwyliaeth ei ragluniaeth tuag attynt.

Adn. 12. *Ac y dygo chwi drachefn i'ch gwlad eich hun*; neu yn hytrach, "a'ch sefydla chwi yn eich gwlad eich hun," yr hyn sydd ddarlleniad a gefnogir gan y Syriaeg a'r *Vulg*; ac sydd yn fwy cyson â'r dybiaeth a gynnwysir am y gwrthddrychau a gyferchir, fel rhai nad oeddynt i adael eu gwlad eu hun.

Adn. 17. *Felly y bydd i'r holl wyr*, sef cynnifer ag a fynasant fyned i'r Aipht er pob rhybuddion i'r gwrthwyneb. Ond trwy fod y nifer luosocaf felly, a'r rhai mwyaf galluog hefyd, hwy a orfodasant amryw i fyned gyda hwy, er fod eu calonau yn tueddu i ufuddhau i'r prophwyd. Felly y gwelwn iddo ef ei hunan a Baruch gael eu cludo fel caethion gan y pennaethiaid. Gan hyny yr oedd y cyfryw rai yn rhydd oddiwrth y bygythion dwyfol; gwel pen. 44. 28.

Adn. 20. *Canys rhagrithiasoch yn eich calonau.* Neu, "Yn ddiau, gwnaethoch dwyll yn erbyn eich eneidiau eich hunain." Nid oedd ond ofer iddynt feddwl y caent hwy watwar yr Arglwydd fel hyn yn ddigerydd; byddai eu twyll a'u dichell yn sicr o ddymchwelyd arnynt hwy eu hunain; ac angau a'u goddiweddai yn anocheladwy. DAVIDSON.

## PEN. XLIII.

Adn. 2. *A'r holl ddynion beilchion*, y rhai a feiddient weithredu yn ol eu synwyr eu hunain, er gwrthwynebu awdurdod Duw trwy hyny. Effaith eu hannghrediniaeth oedd eu balchder, a rhwydd y llunient esgus dros eu hymddygiadau trwy gyhuddo y prophwyd o gyhoeddi celwydd yn enw yr Arglwydd. Nid oedd yr holl brofion o ddwyfol gennadwriaeth y prophwyd yn ddigon i'w hargyhoeddi hwy; mor benderfynol oeddynt yn eu rhagfarn.

Adn. 8—10. Taphanes oedd brif ddinas yr Aipht y pryd hwn;

ac yr oedd gwaith yr encilwyr Iuddewig yn myned yno, yn dangos yr ymddiried oedd ganddynt yn nhiriondeb Pharaoh, a'u hyder ar ei garedigrwydd tuag attynt; ac am a wyddom ni, ni chawsant eu siommi. Dywaid traddodiad i Jeremiah gael ei labyddio i farwolaeth yn y fan yma.—*A chuddia hwynt yn y clai, yn yr odyn briddfaen.* Priddfeini oeddynt y prif ddefnyddiau a arferai yr Aiphtiaid yn eu hadeiladau er yn fore iawn. Ex. 1. 14. Er fod eisiau odyn briddfaen yn wastadol yn agos i lys Pharaoh, eto, e ddichon ei bod gryn bellder oddiwrth ei drigias ef; yr oedd llysoedd breninoedd mawrion yn yr hen amseroedd, agos mor ehang ag yw dinasoedd yr oesoedd diweddar. Dywedir fod llys Babilon yn bedair milldir o amgylchedd. Yr oedd y prophwyd er ei orfodi i ddilyn ei gydwladwyr anffodus, yn parhau i'w rhybuddio, ïe, yn yr Aipht. Rhaid oedd i'w waith yn rhoddi cerrig mawrion yn yr odyn briddfaen a berthynai i Pharaoh, fod yn deffroi sylw, a chyffroi ymholiad y rhai oeddynt gydnabyddus a'i ddull o'u dysgu trwy gyffelybiaethau; er na buasai yr Aiphtiaid yn cymeryd nemmawr sylw o hyny, neu, os buasent, na's cyfrifasent y cyfryw namyn ymddygiad gwr gorphwyllog.

Ann. 11—13. *A mi a gynneuaf dan;*—Dywedir yn wastad am yr Arglwydd, ei fod ef yn gwneyd yr hyn y mae yr offerynau pennodedig ganddo ef i gyflawni y gwaith, yn ei wneyd trwy ei allu cynnaliaethol ef; gwel pen. 17. 27. a 21. 14 a 49 27. a 50. 32.—*Ac a'u caethgluda hwynt.* Dangosir gwagedd ac ynfydrwydd eilunaddoliaeth mewn modd tra dwys trwy fod yr eilunod eu hunain i gael eu caethgludo a'u dystrywio; cymh. Esa. 46. 1—7. —*Efe a ymwisg â gwlad yr Aipht fel y gwisg bugail ei ddillad;* hyny yw, e fydd i Nebuchodonosor gymeryd gafael yn ngolud yr Aipht, a thrwyddo arddangos ei wychder, cadarnhau ei lywodraeth, ac estyn ei fuddugoliaethau, mor rwydd ag y parottoa bugail i borthi a gwylied ei braidd. Ac wedi iddo ymlwytho megis, â golud yr Aipht, efe a ddychwelai yn dawel i wylio ei bobl ei hun, fel y gwasg bugail ei wisg am dano, ac y dychwel i wylio ei braidd; gwel Ezec. 29. 19.

## PEN. XLIV.

Adn. 1—10. Y dinasoedd a enwir yma, oeddynt oll yn gedyrn iawn; ac am hyny y'u dewisid gan y pennaethiaid Iuddewig beilchion i drigo ynddynt; ond fe'u rhybuddir yma yn ddifrifol mai llwyr ofer a fyddai iddynt ddisgwyl y gallai dim droi heibio farn y Goruchaf rhag disgyn arnynt. Meddylia rhai mai Magdolus, dinas oedd ar y fynedfa i'r Aipht o Ganaan, a olygid yma; a chan fod sefyllfa hono yn agos i Taphanes, neu Daphnæ, nid yw y dyb yn anhygoel. Yr oedd yr Iuddewon yn cydffurfio âg arferion eilunaddolgar y preswylwyr, er fod y barnedigaethau mwyaf ofnadwy yn gorphwys ar eu gwlad eu hunain am ddrygioni eu brodyr.

Adn. 11—19. Yr oedd y gwragedd yn hynod yn eu zel dros eilunaddoliaeth, a deuai eu gwyr yn mlaen i'w hamddiffyn yn eu hanwiredd, gan ddywedyd yn ngwyneb gwas Duw, *Gan wneuthur y gwnawn ni bob peth ar a ddelo allan o'n genau ;* ac mor galed yn eu hanwireddau oeddynt, fel y beiddient gyfiawnhau eu penderfyniad trwy ddadleu ymddygiadau eu gwyr mawr drwy yr oesoedd a aethent heibio ; a dadleu celwydd mai tra fuant hwy yn parhau i ddilyn arferion y cenhedloedd yn unig, y'u bendithiwyd â llwyddiant tymhorol. A'r gwragedd hwythau a ddadleuent, gan ofyn, *Ai heb ein gwyr y gwnaethom ni iddi hi deisenau i'w haddoli hi?* Yn ol cyfraith Moses ni's gallai gwragedd neu ferched, addunedu adduned i fod yn rhwymedig arnynt heb yn wybod i'w gwyr neu eu rhieni ; ac y mae yn debyg mai at hyny y cyfeirient hwythau yma, gan ddadleu eu bod hwy yn ymddwyn yn gyfiawn yn eu cyflawniadau eilunaddolgar, gan eu bod yn eu cyflawni trwy gydsynied eu gwyr.

Adn. 26. *Na elwir fy enw I mwyach o fewn holl wlad yr Aipht, yn ngenau un gwr o Judah.* Mae llw yr Arglwydd yn dynodi sicrwydd perffaith y peth y tyngir am dano, ac felly ystyr yr adnod hon yw, y byddai i bob Iuddew yn yr Aipht gael ei ddystrywio, gan ei fod wedi arfaethu na's goddefai i neb o honynt halogi ei enw trwy gyffesu yn rhagrithiol iddo ef. Cym. pen. 42. 17.

Adn. 29. Yr arwydd, er sicrhau gwirionedd y gair prophwydoliaethol, oedd diorseddiad annysgwyliadwy Pharaoh Hophra, gan Amasis, yr hwn a gadarnhawyd gan Nebuchodonosor fel un dan warrogaeth iddo ef yn y llywodraeth : fel y dywaid HERODOTUS. Meddylir fod brenin Babilon wedi caethgludo yr holl Iuddewon a gafwyd yn yr Aipht, ar gyfrif eu hymlyniad wrth Pharaoh Hophra. DAVIDSON.

## PEN. XLV.

Adn. 1—5. Mae yn debyg i'r brophwydoliaeth fer addysgiadol hon gael ei llefaru wrth Baruch, pan ysgrifenai efe y plyg llyfr, neu yn fuan iawn ar ol hyny. Yr oedd efe yn llawn o arswyd, wedi clywed prophwydoliaethau Jeremiah ; a llefarid y geiriau hyn wrtho er ei gysuro, yn y rhai y'i sicrheid o ddiogelwch iddo ei hunan ; felly mae yn amlwg y dylasai y bennod hon fod wedi cael ei chysylltu â pen. 36. BLAYNEY. *Myfi a ddygaf ddrwg ar bob cnawd ;* datganiad o amcan Duw i gosbi ei holl elynion, ond odid yw y geiriau hyn.—*Ond mi a roddaf i ti dy einioes yn ysglyfaeth*, sydd fath o ymadrodd diarhebol, yn dynodi ffafr fawr arbenig, wedi ei rhoddi yn annysgwyliadwy ; ac fel hyn yr oedd Baruch a'r gweddill oeddynt yn ymroddi yn ddiffuant i wasanaeth Duw i gael eu diogelu, pan fyddai i'w holl frodyr annghrediniol feirw, neu gael eu caethgludo gan y Babiloniaid. Onid allai fod dylanwad Jeremiah gyda Nebuchodonosor wedi gweinyddu fel moddion er cyflawniad y brophwydoliaeth hon. Yr oedd Bar-

uch trwy gynnorthwyo Jeremiah mor ffyddlawn, wedi tynu cynddaredd Jehoiachim yn ei erbyn ei hunan. Yr oedd y trallodau yr oedd efe danynt yn gwasgu ei feddwl yn rhy ddwys, trwy siomiant ei fwriadu uchelfrydig, am goledd pa rai y lled feiir arno. Efe a obeithiasai debygid y buasai yn ymddyrchafu i anrhydedd a golud trwy yr arferiad o'i dalentau godidog. Ond yr oedd y cyfryw obeithion yn dynodi ysbryd anmhriodol, ac yr oeddynt yn llwyr afresymol gan nad oedd ond anrhaith a thrueni yn toi y wlad; canys yr oedd ganddo ddigon o achos i fod yn ddiolchgar am ddiogelwch personol mewn tymhor o'r fath adfyd cyffredinol, ac fe sicrha Duw y fendith hon iddo rhagllaw, yn mha le bynnag y byddai efe yn ymdeithio o hyny allad. DAVIDSON.

## PEN. XLVI.

Adn. 1. *Gair yr Arglwydd.* Yr adnod hon yw teitl cyffredinol y prophwydoliaethau a gynnwysir yn y bennod hon, a'r pump canlynol, y rhai a draddodwyd gan y prophwyd ar wahanol amserau.—*Y cenhedloedd*, yw y rhai a grybwyllir yn pen. 25 19—26.

Adn. 2. *Yn erbyn yr Aipht.* Traddodwyd y brophwydoliaeth hon yn erbyn yr Aipht, pan oedd Pharaoh Necho wedi dyrchafu y freniniaeth i uchafiaeth mawr. Yr oedd efe wedi gorchfygu byddin Judea yn ddiweddar, a lladd Josiah, 2 Cron. 35. 20—27. Efe a aeth yn ddioed i wrthwynebu rhuthr Nebuchodonosor i Syria. Wedi cyrhaedd Carchemis, dinas fawr ar lannau yr Euphrates yn agos i'w hymuniad â'r afon Chebar, cyfarfuwyd ef gan y fyddin Babilonaidd, a gorchfygwyd ei fyddin ef, gan ei dryllio â lladdfa arswydus. Rhagfynegir yr amgylchiad yma yn y brophwydoliaeth hon, er rhybudd i'r Iuddewon rhag rhoddi eu hymddiried yn yr Aiphtiaid.

Adn. 3—6. Ychydig iawn o'r prophwydoliaethau sydd yn rhagori mewn godidowgrwydd iaith, ac arliwiad barddonol. Yn y drydedd a'r bedwaredd adnod, darlunir y parottoadau mawrion a wneid gan yr Aiphtiaid i'r rhyfel; neu ynte, gelwir mewn dull gwawd-ieithol arnynt i barottoi i'r rhyfel; ac ar yr un pryd rhoddir awgrym yma mai ofer fyddai holl ymdrechion y fyddin, a holl fost Pharaoh Mae difrifoldeb yn ngwawdiaith yr Ysgrythyrau yn wastadol, a'r amcan yw troi dynion oddiwrth anwiredd. Gwel Preg. 11. 9.

Adn. 7—9 Mae yn amlwg oddiwrth y geiriau hyn fod gan Pharaoh Necho amherodraeth ehang, yr hon yr amcanai ei hestyn ar bob llaw. Cyffelybir ei allu i ryw afon fawr yn gorlifo gwlad, nid fel ei Nil ei hunan, i ffrwythloni, ond i anrheithio y ffordd yr elai.

Adn. 10. *Canys dydd Arglwydd Dduw y lluoedd yw hwn.* Mae y gair yma yn aml yn arwyddo fel yn y lle hwn, ryw amser pen-

nodol gan Dduw i gyflawni ei farnedigaethau ar ei elynion; ac fel hyn mewn modd arbenig y gelwir amser y farn ddiweddaf. Yr Aiphtiaid oeddynt hen elynion pobl ddewisedig Duw, ac yn ddiweddar hwy a'u twyllasent. Yr oedd amser eu cosbedigaeth gerllaw,—yr hyn oedd brawf amlwg nad oedd had Abraham, er eu ceryddu yn llym, wedi eu llwyr fwrw ymaith gan Dduw. Gelwir lladdedigaeth byddin Pharaoh yn *aberth*, am ei fod yn amlygiad o uniondeb cyfreithiau y Goruchaf. Defnyddir yr ymadrodd yn yr ystyr yma yn aml, gwel Esa. 34. 6. Ezec. 39. 17.

Adn. 11. *Dos i fynu i Gilead.* Gwel Nod. ar pen. 7. 17—22. a 30. 12—15. Gelwir yr Aipht yn *forwyn*, o herwydd y bostiai hi na's gorchfygasid hi erioed; gwel Esa. 47. 1. cymh. 2 Bren. 19. 21. Ai tybed fod yr alwad yma arnynt i fyned i ymofyn balm o Gilead, wedi ei hamcanu i ddysgu y rhai a gyferchid, mai yn mysg yr Iuddewon y caid yr unig feddyginiaeth a allai eu gwella,—sef gwybodaeth ac addoliad y gwir Dduw?

Adn. 13. Cyflawnwyd yr hyn a ragfynegir yn y brophwydoliaeth hon yn mhen tuag un flynedd ar bymtheg ar ol dinystr Jerusalem; pan oedd Jehoiachim wedi bod saith mlynedd ar hugain yn y caethiwed; cymh. Ezec. 29. 17.

Adn. 15. *Pa ham y syrthiodd dy rai cryfion?* neu, "Pa fodd y dymchwelwyd dy gadarn? ni safodd, am i'r Arglwydd ei wthio ef i lawr." Efallai mai Apis, prif eilun y genedl a olygid wrth "y cadarn" yn y lle hwn. Ond y mae eraill yn barnu mai y brenin a olygir wrtho.

Add. 17. Y mae y cyfieithiad cyffredinol o'r testyn hwn yn lled dywyll, gan hyny y mae BLAYNEY a BOOTHROYD yn darllen y geiriau fel y canlyn,—"O Pharaoh brenin yr Aipht, terfysg a attaliodd y cyfarfod appwyntedig." Y rhai a grybwyllir yn yr adnod flaenorol a anfonasant gennadwriaeth at Pharaoh, gan hysbysu pa beth a'u lluddiasai i'w gyfarfod yn y lle a'r amser pennodedig.

Adn. 18. *Efe a ddaw*, sef Nebuchodonosor. Yr oedd *Tabor* a *Charmel* yn mysg yr uchaf o fynyddoedd Palestine, yr olaf oedd y Pentir arforawl uchaf yn y wlad: ond, er fod yr Aipht mor anoresgynawl a chrib Tabor, ac yn cael ei hamddiffyn gan y môr fel Càrmel, rhaid iddi gwympo o flaen Nebuchodonosor.

Adn. 19. *Gwna i ti offer caethglud:* hyny yw, gwna dy hun yn barod i fyned i gaethiwed. Yr oedd gan yr Aiphtaid helaethrwydd o olud, ond rhaid oedd iddynt yn fuan brofi holl drueni caethion dan awdurdod goresgynwr anwar; cymh. Esa. 20. 4. a 47. 2, 3.

Adn. 20. *Yr Aipht sydd anner brydferth*, neu fuwch ieuanc, cyfeiriad, yn ol barn rhai at Apis, eu prif dduw, yr hwn oedd darw prydferth. Ond yr oedd ei thegwch yn ei gwneyd yn wrthddrych mwy dengar i'r dinystrydd.

Adn. 21. *Fel lloi pasgedig*, wedi eu porthi yn dda; y rhai y gellid dysgwyl iddynt ddangos gwroldeb a nerth; ond hwy a droisant eu cefnau, ac a'i gadawsant.

Adn. 22. *Fel sarph*, yn chwythu wrth ei hymlid; nid, fel llew, yn rhuo. Efallai fod yma gyfeiriad at swynwyr, yr hyn sydd ystyr digon naturiol i'r geiryn gwreiddiol; ac os felly, mae y bygythiad yn gyfattebol i Esa. 29. 4. Eu griddfannau a glywid, ac nid bloeddio i'r gâd.

Adn. 23. *Ei choed hi.* Cyffelybiaeth gyffredin i ddynodi gwyr mawr, neu ddinasoedd mawrion gwlad. Yr oedd gan yr Aiphtiaid 1020 o ddinasoedd, medd GROTIUS; ond yma rhagfynegir, neu yn hytrach gorchymynir, canys yn y modd gorchymynol y mae BOOTHROYD, ac eraill, yn darllen y geiriau, iddynt gael eu dystrywio, er lluosoced oeddynt, ac er mor annifeiriol oedd eu trigolion.

Adn. 25. *Wele, myfi a ymwelaf â lluaws Nô;* neu "âg Ammon Nô." Thebes yw y ddinas a olygir, yn yr hon yr oedd teml wedi ei hadeiladu i Jupiter Hammon, un o brif dduwiau yr Aipht. Yr oedd ef a Pharaoh wedi ei bwriadu i'w dystrywio, yn nghyd a'r rhai oll a ymddiriedent ynddynt. Gwel pen. 30, 15. Nah. 3. 8.

Adn. 26. Adferwyd ei hannibyniaeth i'r Aipht yn mhen deugain mlynedd wedi ei chwymp, ond nid adferwyd iddi ei gogoniant blaenorol. Ezec. 29. 13.

## PEN. XLVII.

Adn. 1. *Cyn i Pharaoh daro Gaza.* Pan oedd Philistia mewn diogelwch ymddangosiadol, mae yn debyg i Gaza gael ei dystrywio gan Pharaoh yn fuan wedi ei fuddugoliaethau yn Meggiddo a Charchemis, pan ddug efe Judea dan warrogaeth iddo. W. LOWTH. E ddywaid yr Iuddewon mai yn yr wythfed flwyddyn i Sedeciah y bu hyn; ond y mae yn fwy tebyg mai ar ol i Pharaoh Necho ladd Josiah y bu. GILL.

Adn. 2—4. Darlunir gallu Nebuchodonosor dan y gyffelybiaeth o afon fawr yn gorlifo gwlad, cym. pen. 46. 7, 8.—*Gwendid dwylaw*, sydd arwyddlun priodol o ofn mawr ac annuwioldeb, 2 Sal. 4. 1. Esa. 35. 3. Ezec. 7. 17. Heb. 12. 12. Mor ofnadwy oedd y dychryn a lethai serchiadau natur! Ond y fath ydoedd y braw a gynnyrchid gan swn dynesäad byddin Babilon; wrth yr hyn y gallwn ni weled fod dinaswyr Gaza yn ddigon cydnabyddus â chreulonderau rhyfel yr hen amseroedd.—*Ac i ddinystrio o Tyrus a Sidon bob cynnorthwywr ag y sydd yn ngweddill.* Yn mysg y rhai, debygid oddiwrth yr ymadrodd hwn, y gellid cyfrif y Philistiaid. Mae yma gyfeiriad at warchaead Tyrus gan Nebuchodonosor, yr hyn a barhaodd dair blynedd ar ddeg. Mae yn debyg mai rhyw bryd yn yspaid yr amser hwnw y goresgynwyd Gaza gan y brenin hwnw, yr hwn yr oedd yn eithaf rhesymol dysgwyl

iddo ymosod ar holl gyngrheirwyr Tyrus a Sidon, er torri pob cymmhorth tramor oddiwrthynt.

Adn. 5. *Moelni a ddaeth ar Gaza.* Cyfeiriad at yr arferiad o eillio pennau mewn adfyd, yn arwydd o alar dwys. Gwel pen. 41. 5. a 48. 37. W. LOWTH.—*Ascelon*, un arall o ddinasoedd y Philistiaid, tua deuddeng milldir o Gaza, yn agos i'r môr, mewn dyffryn hardd a ffrwythlawn iawn.

Adn. 6, 7. *O gleddyf yr Arglwydd.* Mae yn amlwg mai ymadroddion y prophwyd yw y rhai hyn, yn ymdorri mewn galarnad a thosturi yn yr olwg ar y trueni a ddisgynai ar wrthddrychau ei brophwydoliaeth, er eu bod yn elynion annghymmodlawn i'w bobl ef. Gelwir brenin Babilon yma yn gleddyf yr Arglwydd, megis y gelwid yr Assyriaid mewn man arall yn wialen ei lid ef, Esa. 10. 5; gan fod y cyfryw fuddugoliaethwyr yn weinyddwyr appwyntediedig y barnedigaethau dwyfol, cymh. Ezec. 14. 17. a 21. 3.

## PEN. XLVIII.

Adn. 1. *Yn erbyn Moab.* Tybir fod y prophwydoliaethau hyn am y Moabiaid, yr Amoniaid, a'r Edomiaid, yn nghyd a'r cenhedloedd cymmydogawl eraill, wedi eu cyflawni tua'r un amser a'r brophwydoliaeth am y Philistiaid yn y bennod flaenorol, sef yn ystod y gwarchae ar Tyrus. Gwelir yma lawer o ymadroddion cyffelyb i'r eiddo Esaiah yn pen. 15 a 16, ac y mae yn sicr mai trwy gydmaru yr hyn a draddodwyd gan y ddau brophwyd am yr amgylchiadau hyn, y byddis sicraf o gael gafael ar wir ystyr pob un. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth gan Esaiah, trwy Salmaneser; ond hon, gan Nebuchodonosor, yn mhen tua phum mlynedd wedi cwymp Jerusalem, medd JOSEPHUS.—*Nebo*, oedd ddinas yn llwyth Reuben, yr hon a gymerasid gan y Moabiaid, gwel Num. 32. 38.—*Misgab*, neu yr amddiffynfa uchel; ni's cyfarfyddwn â'r gair yma yn un man arall fel enw priodol, ac y mae yn debyg y dylid ei gyfieithu yma fel ansoddair yn hytrach, trwy yr hwn y dynodir lle cadarn trwy natur a chelfyddyd; ac y mae rhai yn meddwl mai Ciriathaim ei hunan a olygir yma.

Adn. 2—6. *Ni bydd ymffrost Moab mwy:* neu, "Hesbon ni bydd yn ymffrost i Moab mwy." MICHAELIS.—*Yn rhiw Luhith.* Meddylir mai yn Luhith yr oedd mynydd-dir Moab yn dechreu; ac fe ddarlunir y bobl yma fel pe'd esgynent y rhiw yn finteioedd wylofus yn eu ffoedigaeth o flaen eu gelynion, ac yn Honoraim drachefn, disgynent i'r gwastadedd, Cym. Esa. 15. 5.

Adn. 7—10. *Chemos*, y duw yn yr hwn yr ymddiriedent yn fawr, oedd i gyfrannogi o warthrudd, a thrychineb y pennaethiaid, yr offeiriaid, a'r bobl, y rhai a ddygid i gaethiwed, pen. 43. 12, 13. A cyhoeddir melldith ar y sawl na chyflawnent ddialedd Duw ar y Moabiaid, yr hyn a ddynodai benderfyniad diffuant i

gyflawni ei fygythiad yn eu herbyn. Ac yn wir, gan fod brenin Babilon wedi penderfynu eu dystrywio, pe buasai un o'i filwyr heb gyflawni ei orchymynion yn ffyddlawn, ni buasai ei ran ond gwael.

Adn. 11, 12. *Moab a fu esmwyth arni.* Er nad oedd y genedl hon ond bechan, yr oedd yn hen, yn anymddibynol, ac yn llwyddiannus. *Hi a orphwysodd ar ei gwaddod*, fel y mae gwin yn cryfhau wrth heneiddio ar ei waddod, felly yr oedd grym gwladol y Moabiaid wedi cynnyddu trwy yr hir lonydd a gawsai oddiwrth derfysgiadau a gorthrymderau; ond yn awr rhoddid hwythau i fynu i'r Caldeaid, y rhai a'u mudent o'u trefydd fel gollwng gwin o'u llestri, gan ddryllio y costrelau, neu losgi a difwyno y dinasoedd.

Adn. 18. *Dibon* a roddid gan Moses i'r Reubeniaid, y rhai a'i rhoisant i'r Gadiaid, Jos. 13. 9, 17. *Eistedd mewn syched*, hyny yw, mewn truenusrwydd, ac angenoctyd, yr hyn a ddynodir trwy y gyffelybiaeth o syched.

Adn. 19—21. Yr oedd *Aröer* wedi ei rhoddi i Gad, Num. 32. 34.—*A barn a ddaw.* Yr oedd pechodau Moab yn lluosawg, a'u hymddygiad tuag at Israel yn enwedig wedi galw am farn Duw i ddisgyn arnynt; ac yn awr yr oedd Duw yn myned i dalu iddi am ei holl bechodau, ac yn enwedig am ei chasineb at bobl ddewisedig yr Arglwydd; gwel Zeph. 2. 8—11.

Adn. 25 *Corn Moab a ysgythrwyd*; arferid corn yn aml yn arwyddlun o awdurdod freninol; ac ysgythru y corn a ddynodai ddiosg un o'r awdurdod hono.

Adn. 26, 27. Gwel Pen. 25. 15. Hab. 2. 16.—*A gafwyd ef yn mysg lladron?* Nid arferai Israel anfon minteioedd o yspeilwyr i ysbeilio Moab nac un genedl arall, ac eto gwatwarai y Moabiaid blant Israel pan ddisgynodd eu gofwy arnynt, fel pe buasent haid o ladron wedi dyfod i'r ddalfa.

Adn. 33. *Eu bloddest ni bydd bloddest*, ni bydd y cyfryw floddest llawen yn eu plith ag yn amser cynhauaf, a chynnulliad eu grawnwin. POOLE. Ond yn lle hyny, bloeddiadau ofnadwy ysbeilwyr milwraidd a'u syfrdanai. PARKHURST.

Adn. 36 *Am hyny y lleisia fy nghalon am Moab*, yma y mae y prophwyd fel pe personolai y bobl yn eu cwynfanau am anrhaith y wlad.—*Fel pibellau*, a arferid mewn angladdau. POOLE, GILL.

Adn. 37—39. Gwel Esa. 16. 2, 3. Matt. 9. 23. Marc. 2. 4.

Adn. 40. *Wele efe a eheda fel eryr*, Nebuchodonosor a gyffelybir yma i eryr, pen. 49. 22. Deut. 28. 49.

Adn. 43, 44. Gwel Esa. 24. 17.—*Ei hymweliad.* Mae y gair ymweliad yn cael ei ddefnyddio yn aml am dymhor arbenig o weinyddiad trugaredd, neu farn Ddwyfol. Esa. 10. 3. Luc. 19. 44. 1 Pedr 2. 12 Exod. 20. 5.

Adn. 45. Gellir casglu oddiwrth yr ymadroddion hyn a'u cyff-

elyb, mai Hesbon oedd yr amddiffynfa gryfaf yn Moab, yn erbyn yr hon y cyfeiriai y gelyn ei rym penaf; am ba achos y bu yn achos o ddystryw y torfeydd oeddynt wedi ymgasglu iddi.

Adn. 47. Meddylir fod yr addewid raslawn hon yn golygu eu rhyddhâd o'r caethiwed pan gymerwyd Babilon gan Cyrus. GILL. Nid adferwyd hwy mwy na'r Iuddewon byth i'w bri gwladwriaethol; a rhaid mai eu dychweliad i'r ffydd Gristionogol yw prif amcan y brophwydoliaeth hon. CLARKE. Mae yn eglur fod Jeremiah wedi benthyca llawer o ymadroddion a gynnwysir yn y bennod hon o Esaiah. SUTCLIFFE.

## PEN. XLIX.

Adn. 1—6. Pan gosbwyd y deg llwyth am eu pechodau, trwy eu caethgludo, daeth eu gwlad yn eiddo cyfiawn y ddau lwyth a weddillasid; ond cymerwyd rhan o honi gan yr Ammoniaid, yr hyn oedd, nid yn unig yn weithred annghyfiawn iawn, ond hefyd yn weithred anniolchgar iawn; canys caniattasid iddynt hwy fyw yn dawel yn y perchenogaeth o'u tir eu hunain, trwy orchymyn Duw i Israel, i'r hwn y rhoddes efe Ganaan yn etifeddiaeth. Gan hyny, fe elwir ar y prophwyd i gyhoeddi dinystr ar yr Ammoniaid, a'u hysbysu y rhoddid eu gwlad hwy eu hunain i'r Iuddewon, a ddifeddiannasent hwy.—*Ai*, nid yr un a'r hon a gymerwyd gan Josuah, pen. 8, yr hon oedd ar y tu gorllewinol i'r Iorddonen; canys yr oedd holl wlad Ammon yn gorwedd ar y tu dwyreiniol. Pan ddinystrid Ai, byddai yn llawn bryd i Hesbon, prif ddinas Ammon, udo gan ei pherygl.—*Gwibiwch gan y gwrychoedd:* neu, ceisiwch ymguddio yn y llwyni a'r gwrychoedd.—*Oblegid eu brenin*, neu "Melcom," eu prif eilun, fel yr oedd Chemos yn brif eilun y Moabiaid, *a â i gaethiwed.*—*Pa ham yr ymffrosti yn y dyffrynoedd?* Y cyfryw ydoedd rhandir Gad, yr hwn a feddiannai un hanner Gilead, bro fras yn y parth gogledd-ddwyreiniol o Ganaan;—gwrthddrych digon hudolus i'w cymmydog Ammon. Ond, er ffrwythloned ei dyffryn, a helaethed ei thrysorau, y gelyn a'i hysbeiliai, er na's cäai ei llwyr ddyfetha.

Adn. 7. Yr oedd hiliogaeth Esau yn hynod am eu doethineb, yn enwedig y rhai a breswylient *Teman*, gwel Obadiah 8.; ond yr oeddynt hwythau wedi ymhyfrydu yn adfydau Israel, ac am hyny y'u traddodid hwythau i ddwylaw Nebuchodonosor. Yr oedd eu doethineb hwy wedi *methu*, wedi troi yn ffolineb, a chynnyrchu balchder a hunanolrwydd, yr hyn a barai iddynt wrthod doethineb ddwyfol.

Adn. 8. *Dedan*, oedd barth o Arabia, ar dueddau Idumea, ac yr oedd yn dra naturiol i drigolion Dedan frawychu wrth glywed fod y gelyn yn anrheithio gwlad Edom, ar gyffiniau yr hon yr oeddynt hwy yn trigiannu. Am hyny, hwy a annogir i breswyl-

io yn isel; mewn cyfeiriad mae yn debyg at ddull yr Arabiaid, y rhai can gynted ag y gwelont berygl yn nesau, a godant eu pebyll, a lwythant eu camelod, ac a giliant i ddyfnderoedd yr anialwch, i'r tywod-leoedd poethlyd, lle na's dilynir hwynt gan neb. Meddylia eraill mai i'r ogofeydd dyfnion y'u hannogid i ffoi rhag y gelyn, lle yr arferai pobl y wlad hono ymneillduo ar y fath achlysuron. Gwel Barn. 6. 2. 1 Sam. 13. 6. Esa. 2. 10, 19.

Adn. 11. *Gad dy amddifaid, myfi a'u cadwaf hwynt yn fyw.* Mae yn lled anhawdd penderfynu pa beth yw ystyr yr adnod hon, yn enwedig wrth ei hystyried yn ei chyssylltiad â'r cyfdestyn. BLAYNEY a ddarllenai y geiriau mewn modd ymholiadol, "A ddiogelaf fi fywyd dy amddifaid? neu, a ymddirieda dy weddwon ynof fi?" Ond BOOTHROYD a farnai yn hytrach fod Edom yma yn cael ei gyfarch fel un o hiliogaeth Abraham, a'i annog i gyflwyno ei amddifaid a'i weddwon i ofal a thrugaredd yr Arglwydd; gan y byddai i'w tadau a'u gwŷr gwympo o flaen y gelyn.

Adn. 12. *Wele, y rhai nid oedd eu barn i yfed o'r phiol;* yr Iuddewon, y rhai y buasid yn meddwl y gallasent ddysgwyl trugaredd; er bod yr Iuddewon yn teilyngu eu cosbi, eto yr oedd ganddynt hwy well sail na neb arall i ddysgwyl trugaredd, gan eu bod wedi eu dewis mewn modd neillduol gan Dduw, i dderbyn ei ddoniau ac i fod yn fendith i'r byd. Ac os oedd eu pechodau hwy wedi eu darostwng i orfod yfed o'r phïol, pa fodd y gallai cenhedloedd cyffelyb i Edom, y rhai a lwyr wrthodasent yr Arglwydd, ddysgwyl y gallent hwy ddianc; cymh. Diar. 11. 31. 1 Pedr 4. 17, 18.

Adn. 16. *Ti yr hon ydwyt yn aros ynghromlechydd y graig, ac yn meddiannu uchelder y bryn.* Mae pob teithydd a fu yn alluog i dreiddio trwy Idumea, ac i olrhain adfeilion gorwych ei phrif ddinas, yn cyd uno i dystio eu syndod gan yr olygfa. Arweinir i eisteddle yr hen ddinas orwych ar hyd rhyw nant gul drofäus; ac yna y mae olion yr hen ddinas yn ymdorri ar yr olygfa yn eu gorwychder ysplenydd, wedi ei hamgylchynu â'r clogwyni ysgythrawg ac anhygyrch, ac anneddau, beddrodau, a themlau, wedi eu naddu yn ystlysau y creigiau nes ei bod yn olygfa synedig dros ben. Gelwir prif ddinas Edom mewn gwahanol ieithoedd, dan enw sydd yn dynodi CRAIG.

Adn. 19, 20. *Fel llew y daw i fynu oddiwrth ymchwydd yr Iorddonen.* Byddai y bwystfiod gwylltion yn cael lloches yn y coedydd a dyfent ar lannau afonydd; ac felly y mynychid glannau yr Iorddonen gan lewod; ond pan fyddai yr afon yn ymchwyddo dros ei cheulenydd byddai y bwystfilod hyny yn encilio yn nes i drigfeydd dynol, ac yn peri dychryn a dinystr yn mysg y preswylwyr; ac i hyny y cyffelybir dyfodiad Nebuchodonosor i oresgyn y wlad.—*Eithr mi a wnaf iddo redeg yn ddisymmwth oddiwrthi hi;* neu yn hytrach, "Paraf iddo redeg yn ddisymmwth

arni hi." BOOTHROYD.—*A phwy sydd wr dewisol, a osodwyf fi arni hi?* neu, "A'r hwn sydd ddewisedig a anfonaf fi yn ei herbyn hi." DAVIDSON.—*Yn ddiau y rhai lleiaf o'r praidd a'u llusgant hwy;* yr hyn a ddynoda y rhwyddineb â pha un y darostyngid Edom, fel y byddai y milwr gwanaf a mwyaf cyffredin yn gallu eu trin fel y mynont, a'u llusgo i ddinystr neu gaethiwed, fel yr arfera cwn lusgo ysgerbwd cyn ei ddifa. *Esgob* HALL, W. LOWTH.

Adn. 21, 22. *Yn y Môr Coch,* yr hwn oedd yn mhell oddiwrthynt, ac felly mae yr ymadrodd yn dynodi dwysder eu gofidiau.—*Bozrah,* un o'u prif ddinasoedd.

Adn. 23. Yma y mae Syria eto yn cael ei dwyn o flaen y frawdle, a dedfryd o ddymchweliad ofnadwy yn cael ei chyhoeddi uwch ei phen hithau. Damascus oedd ei phrif ddinas, Esa. 7. 8. a 17. 3. Darlunir dinystr gwlad yn aml trwy un neu fwy o'i phrif ddinasoedd, cymh. adn. 13. Amos 1. 8.—*Y mae gofal ar y môr,* neu, "fel ar y môr," pan fyddo y llong yn suddo, a'r morwyr heb ddim ond angau o flaen eu llygaid. SCOTT.

Adn. 25. *Dinas moliant.* Damascus, yr hon oedd yn hynod yn ei henafiaeth, ei golud, ei gwychder, a'i nerth. Pa fodd nad arbedid y fath ddinas a hon gan y gelyn? GILL, *Esgob* HALL.

Adn. 27. *Benhadad,* enw cyffredin ar freninoedd Syria, efallai, fel yr oedd Pharaoh ar freninoedd yr Aipht. BLAYNEY.

Adn. 28. *Cedar* oedd fab i Ismael, yr hwn a ymsefydlodd yn Arabia Garregog, Gen. 25. 13; ac efe a roddes ei enw i lwyth galluog. CLARKE, GILL.—*Hasor:*—Yr oedd dinas o'r enw Hasor yn ngwlad Canaan, Jos. 11. 10. Barn. 4. 2; ond Pætra, prif ddinas Arabia Garregog oedd hon. GILL.—Yr oedd y wlad dan fân dywysogion, am hyny y'i gelwir yn *deyrnasoedd.* W. LOWTH.—*Meibion y dwyrain* y gelwir yr Arabiaid yn yr Ysgrythyrau.

Adn. 29. *Eu llenni,* sef llenni eu pebyll; canys Arabiaid crwydredig oeddynt. WILLIAMS, W. LOWTH.

Adn. 31. Traddodwyd y brophwydoliaeth hon ddeng mlynedd cyn cymeriad Jerusalem; ac hwyrach fod y prophwydoliaethau blaenorol, y rhai oeddynt am fuddugoliaethau Nebuchodonosor wedi eu traddodi tua'r un amser. DAVIDSON.

Adn. 35—39. Yr oedd Elam yn freniniaeth anymddibynol mor forau a dyddiau Abraham, Gen. 14. 1: ond yn mhen llawer o oesoedd wedi hyny, ffurfiai ran o amherodraeth Persia. Cyfrifid trigolion Elam yn enwog iawn fel saethyddion. Gwel Esa. 32. 6.—*A mi a osodaf fy nheyrngadair yn Elam,* hyny yw, efe a'i hamlygai ei hunan yn Frenin brenhinoedd ac Arglwydd yr arglwyddi, trwy weinyddu ei farnedigaethau cyfiawn ar Elam; cymh. Dan. 7. 9.

## PEN. L.

Adn. 1—3. Yr oedd Babilon yn amherodraeth alluog, yn helaethu ei hadnoddau, ymledu ei thiriogaethau, yn ychwanegu ei galluoedd, ac yn ymddyrchafu i enwogrwydd yn brysur, pan oedd Esaiah a Jeremiah yn cyhoeddi ei dystryw trwyadl. Yr oedd tua chwech ugain mlynedd o amser Hezeciah, pan ddechreuodd Esaiah brophwydo, hyd y flwyddyn gyntaf i Nebuchodonosor, pan y cyrhaeddodd Babilon uchder ei llwyddiant. Gan hyny, y mae o bwys i ni i gydmaru y prophwydoliaethau hyn, ac ystyried eu cyflawniad manol, yr hyn sydd, fel yr addefir, yn dystiolaeth anwadadwy i wirionedd Dwyfol ddatguddiad.—*Goresgynwyd Babilon.* Cyhoeddir yr amgylchiad yma fel peth wedi ei wneyd, er mai ar yr un pryd y rhoddid gorchymyn i gyfodi yr arwydd neu y lluman oedd i gynnull yn nghyd y fyddin a gyflawnai y gwaith. Mae hyn yn arferedig mewn prophwydoliaeth, oblegid fod gair Duw yn anffaeledig.—*Gwaradwyddwyd Bel,* neu Baal, prif eilun y dwyrain.—*Merodach* hefyd ydoedd eilun enwog, ar ol yr hwn yr enwid eu gwŷr mawr, yn ol dull y Caldeaid. Pan ragfynegir cwymp y cenedloedd paganaidd, fe ddangosir yn arbenig ddinystr eu prif eilunod, er argraffu ar feddyliau dynion ystyriaethau dwysach o'u diddymdra.

Adn. 4—8 *Yn y dyddiau hyny,* sef amser dadymchweliad yr Unbenaeth Fabilonaidd.—*Dan gerdded ac wylo yr ânt.* Mae Ezra a Nehemiah yn tystio i gyflawniad y brophwydoliaeth hon yn edifeirwch yr Iuddewon, a'u hadferiad i'w gwlad eu hunain ar yr amser nodedig yn y brophwydoliaeth.—*Glynwn wrth yr Arglwydd trwy gyfammod tragywyddol.* Fe aeth yr Iuddewon i gyfammod i ufuddhau i ddeddf Duw yn amser Nehemiah; Neh. 9. 38. a 10. 1, &c.; efallai fod yma gyfeiriad yn y gair "cyfammod tragywyddol," at y cyfammod yr aethai Josuah a'r bobl iddo, yr hwn a annghofiwyd ac droseddwyd yn fuan ganddynt, 2 Bren. 23. 3; ac yma y rhagfynegir y byddai iddynt adnewyddu y cyfammod hwnw, gyda phenderfyniad i beidio a'i annghofio mwyach.—*Fy mhobl a fu fel praidd colledig.* Mae yr Arglwydd yn cael ei ddarlunio yn y geiriau hyn fel pe byddai yn tosturiol ystyried trallodau blaenorol ei bobl; gan feio ar eu llywodraethwyr a'u dysgawdwyr, y rhai yn lle gofalu am danynt a'u porthi fel praidd Duw, fel y dylasent, a'u llithiasent i eilunaddoliaeth, ac felly a fuasent yn brif achlysur o'u caethgludiad, pen. 23. 13—15. Esa. 9. 13—17. Ezec. 21. 25—31.—*O fynydd i fryn, &c.* Yr oeddynt wedi eu troi ar gyfeiliorn oddiwrth uniawn addoliad yr Arglwydd yn Jerusalem, i aberthu i eilunod ar y mynyddoedd a'r uchelfeydd; ac yn y modd hyn yr oeddynt wedi eu rhoddi yn agored, fel defaid cyfrgolledig, i gael eu dyfetha gan eu gelynion, y rhai oeddynt yn gyffelyb i fwystfilod ysglyfaethus, ac nid oeddynt yn meddwl

dychwelyd i'w gorweddfa sef, at addoliad Duw. SCOTT.—*Yn erbyn yr Arglwydd, trigle cyfiawnder;* sef yr Arglwydd, *gobaith eu tadau,* neu yn ol BLAYNEY, a BOOTHROYD.

"Canys hwy a bechasant yn erbyn yr Arglwydd
Y gorlan gyfreithlawn, a gobaith eu tadau."

Yn pen 40. 2, cawn achwyniad cyffelyb gan Nebuzaradan.—*A byddwch fel bychod o flaen y praidd.* Meddyliai SUTCLIFFE fod y rhan flaenaf o'r adnod hon, yn cynnwys annogaeth i'r Iuddewon a fyddent yn Mabilon, ochel aros yn y ddinas pan warchaëid arni gan Cyrus; ac yn y rhan olaf, annogir hwy i galonogi y naill y llall, i dynu yn mlaen tua Sion, heb ymdroi yn Babilon oddiar unrhyw hoffder at grefydd nac arferion y Caldeaid.

Adn. 9, 10. *Cynnulleidfa cenhedloedd mawrion o dir y gogledd.* Yr oedd byddin Cyrus yn gynnwysedig o Fediaid, Persiaid, Armeniaid, &c. oll wedi eu byddino dan y Mediaid o du y gogledd i Babilon. COBBIN.

Adn. 11. Mae gormeswyr yn cael eu cyffelybu i wartheg porthiannus, er dynodi mae yn debyg, nad ydynt dan lywodraeth cyfiawnder, Hos. 10. 11. Amos 4. 1. Ond y mae eraill yn darllen y rhan olaf o'r adnod beth yn wahanol, "Am eu bod yn chwareu fel anner mewn glaswellt, ac yn gweryru fel meirch;" wrth yr hyn debygid y golygir eu hymddygiadau trahaus tuag at bobl yr Arglwydd.

Adn. 12. *Eich mam,* Babilon, eich prif ddinas, Esgob HALL. Neu, "Eich gwlad:" POOLE.—*Wele yr olaf o'r cenhedloedd yn anialwch.* Gall mai ystyr y geiriau yw, "Hi a fydd yn olaf o'r cenhedloedd, yn anialwch, &c." SCOTT, BOOTHROYD.

Adn. 13. *Ni's preswylir hi.* Neu, ni's ailadeiladir hi. Yr oedd Jerusalem i gael ei hailadeiladu, a'r teyrnasoedd a oresgynasid gan unbennaeth Babilon oeddynt i gael eu hadferu; ond ni's ail adeiladid Babilon, ac nid adferid llywodraeth a mawredd iddi hi byth.—*Hi a fydd i gyd yn annghyfannedd.* Mae helaethrwydd y wlad, a ffrwythlonrwydd y tir wedi diflannu mor llwyr, a phe buasai wedi ei hysgubo âg ysgubell anrhaith o'r gogledd i'r dehau. Mae yr holl wlad oddiamgylch Babilon, can belled ag y gallo y llygaid graffu, yn ddiffeithwch gwyllt, heb un lleccyn cyfanneddol am laweroedd o filldiroedd. *Sir* R. K. PORTER's *Travels.*

Adn. 14, 15. *Oblegid hi a bechodd yn erbyn yr Arglwydd.* Hi a fu mewn modd tra nodedig yn elynol i Dduw a gwir grefydd, fel y gwelir yn amlwg yn hanes Daniel am ei breninoedd, a'i llys.—*Hi a roddes ei llaw;* hi a roddes i fynu i'w gelynion, gwel 1 Cron. 29. 4. Galar. 5. 6. Yr oedd muriau Babilon wedi eu hadeiladu o briddfeini: ac nid yw yn anhawdd i ni ddychymygu y canlyniad naturiol o adael mur o'r fath yma yn esgeulusedig heb ei adgyweirio; rhaid y'u llwyr ddystrywid mewn oesoedd gan

y gwlawogydd: ac felly fu i furiau Babilon, y rhai oeddynt yn ddau càn troedfedd o uchder, a hanner cant o led; nid oes o honynt heddyw ond bryncyn afluniaidd o adfeilion.

Adn. 16. *Torrwch ymaith yr hauwr o Babilon.* Yr oedd Babilon yn debycach i wlad wedi murio oddiamgylch iddi, na dinas; a dywed HERODOTUS fod y rhagfur a'i hamgylchai yn dri ugain milldir o hyd; neu, yn ol STRABO, yn wyth a deugain; ac yr oedd llawer iawn o dir o fewn yr amgylchiad hwn yn cynnyrchu ŷd; fel y dywedai Q. CURTIUS fod digon o ŷd yn cael ei gynnyrchu o fewn ei muriau i gynnal ei thrigolion yn amser gwarchae. Ond yn awr, fel y gwelir oddiwrth y sylwadau blaenorol, y mae yr hauwr wedi ei dorri o Babilon, gan ei bod yn ddiffaethwch llwyr, anrheithiedig.

Adn. 17. *A'i diesgyrnodd*, neu, a gnöodd ei esgyrn, fel llew, Seph. 3. 1—4.

Adn. 18. *Fel yr ymwelais â brenin Assyria;* nid Salmaneser, yr hwn a gaethgludasai y deg llwyth, ond un o'i olynwyr. *Chyniladanus*, brenin olaf Assyria, yr hwn a laddwyd pan gymerwyd Babilon, yr hyn a fuasai cyn i'r brophwydoliaeth hon gael ei thraddodi. GILL. Y pryd hyny symmudwyd eisteddle y llywodraeth o Ninefeh i Babilon, a gelwid yr amherodraeth, y Fabilonaidd, ac nid yr Assyriaidd mwyach. W. LOWTH.

Adn. 20. *Ac yn y dyddiau hyny.* Mae yn debyg mai amserau yr efengyl a ddynodir yma, a'r gweddill a achubir yn ol etholedigaeth gras; cymh. pen. 31. 34 a 33. 8. Esa. 59. 20. Rhuf. 11. 5, 26, 27. BLAYNEY.

Adn. 21. *Gwlad Merathaim.* Mae y gair *Merathaim* yn arwyddoccau gwrthryfelwyr, neu chwerwderau; a'r gair *Pecod* yn arwyddo ymweled, neu ymweliad. Mae yn debyg os oedd y geiriau hyn yn enwau priodol ar ryw fröydd neu ddinasoedd, eu bod wedi eu dewis oblegyd eu harwyddocäad i'w cymhwyso yma at Babilon, ac mai yr hyn a arwyddoceir trwyddynt yw, fod yr amser i ymweled â'r gwrthryfelwyr wedi dyfod. SCOTT.

> "Yn erbyn tir y *chwerwderau* dos i fynu.
> Arno ef a'i drigolion, *ymwêl*, O gleddyf." BLAYNEY.

> "Dos yn erbyn y wlad dra gwrthryfelgar,
> Ac yn erbyn ei thrigolion sydd yn haeddu cosbedigaeth."
> DAHLER.

—*Ar eu hol hwynt;* neu eu hiliogaeth hwynt, Esa. 14. 21—23.

Adn. 23—27. Cymh. Esa. 45. 1—3. a 13. 19—22. *Gordd yr holl ddaear*, sef Babilon, yr hon a ddinystriodd yr holl genhedloedd eraill. WILLIAMS. *Myfi a osodais fagl i ti*, cyfeiriad at y modd y parodd Duw i ystryw Cyrus fod yn llwyddiannus i gymeryd y ddinas, pan nad oedd y brenin na'r bobl yn dysgwyl am y fath beth.—*Dyrnwch hi fel pentwr yd, a llwyr ddinystriwch*

*hi*. Gwel Esa. 28. 23—29. Cymerodd Cyrus y ddinas trwy droi dyfroedd yr afon Euphrates, yr hon a lifeiriai trwy ganol y ddinas; ac efe a aeth i fewn i'r ddinas yn y nos, ar hyd gwely sych yr afon. Gan nad adferwyd yr afon wedi hyny i'w rhedfa brïodol, hi a orlifodd yr holl wlad fel nad oedd yn nemmawr gwell na morfa neu gors yn fuan; a hyn yn nghyd a lladdfa fawr y trigolion, a chanlyniadau niweidiol eraill o gymeriad y ddinas, a fu y cam cyntaf at ddinystr y lle: a'r rhai a ddaethant yn feistriaid arni wedi hyny a'i dinystriasant, neu a'i hesgeulusasant, nes ei dwyn mor isel o'r diwedd, fel nad ystyrid mo honi yn dda i ddim ond i fod yn helfaes i freninoedd Persia; ac mor drwyadl fu ei dinystr, fel na's gellir penderfynu gyda llawn sicrwydd yn bresenol pa le y safai y ddinas fawr hono. Felly y dystrywir holl elynion Duw a'i bobl.—*Bustych*, cyffelybiaeth gyffredin o bennaethiaid gormesol, Salm 22. 13.

Adn. 28 *Llef y rhai a ffoisant, &c.*, sef yr Iuddewon a ffoisant ar ddynesäad byddin Cyrus, ac a brysurasant i adrodd y newydd i'w brodyr yn Judea. DAVIDSON.—Yr Iuddewon ar eu dychweliad o'r caethiwed, wedi eu rhyddäad gan Cyrus, yn llawen ddatgan dïal Duw ar Babilon. POOLE.

Adn. 32. *A mi a gynneuaf dân yn ei ddinasoedd, ac efe a ddifa ei holl amgylchoedd ef.* Bu Cyrus yn anrheithio tiriogaethau Babilon dros ugain mlynedd cyn ei chymeryd hi.

Adn. 36. *Ac ar ei thywysogion;* y rhai a laddwyd, yn nghyd a'u brenin Belsassar, mewn gwledd, gwel pen. 51. 39. Dan. 5. 2—30.

Adn. 36. *Cleddyf sydd ar y celwyddog*; y rhai yn dwyllodrus a gymerant arnynt wybod am amgylchiadau dyfodol, cymh. pen. 48. 30, âg Esa. 44. 25.

Adn. 38—40. *Sychder sydd ar ei dyfroedd hi.* Mae yn anhawdd i ni sydd yn byw mewn gwledydd o hinsawdd oeraidd, amgyffred gwerthfawrogrwydd ei dyfroedd i Babilon. Y mae yr Euphrates yn llifeirio dros ei cheulennydd yn yr hâf, fel y Nilus, trwy doddiant yr eira oddiar fynyddoedd Armenia; ac er mwyn lleihau y dylifiad, a chludo y dyfroedd ymaith, parasai Nebuchodonosor wneyd dwy ddyfr-ffos fawr, tua chàn milldir uwchlaw y ddinas, y cyntaf ar yr ochr ddwyreiniol, a elwid Naharmalca, trwy yr hon y gollyngid llawer o ddyfroedd yr Euphrates i'r Tigris; y llall ar y tu gorllewin, a elwid Pallacopas, trwy yr hon y cludid y dyfroedd gormodol i lyn mawr, deugain milldir ysgwar, yr hwn a wasnaethai i gadw dwfr at ddyfrhau y wlad ddiffrwyth ar gyffiniau Arabia. Ond Cyrus trwy droi yr holl afon i'r llyn yma, a wnai y ffos, ar hyd yr hon y llifeiriai yr afon trwy y ddinas, agos yn sech; fel yr aeth ei fyddin i fewn i'r ddinas o'r tu uchaf ac o'r tu isaf iddi, heb fod y dwfr yn cyrhaedd uwchlaw hanner y cluniau. Trwy y swm dirfawr o ddwfr a ollyngwyd i'r llyn uchod,

drylliwyd yr argaeau, a dinystriwyd y dyfr ddorau, a chan nad adgyweiriwyd mo honynt mwyach, ymdaenodd y dwfr dros yr holl wlad o'r tu isaf i'r llyn, nes ei gwneyd yn fath o gors yn ol y brophwydoliaeth.

Adn. 42. *Creulawn ydynt.* Ar ail gymeriad Babilon, archodd Darius i dair mil o'i gwŷr pennaf gael eu rhoddi i farwolaeth. *Esgob* NEWTON.

Adn. 43—46. *Wele fel llew y daw i fynu.* Mae yr un ymadroddion ag a ddefnyddiwyd o'r blaen am frenin Babilon fel gweinyddwr dialedd Duw ar Edom, yn cael eu defnyddio yma am Cyrus, fel yr oedd ef yn cael ei roddi ar waith, i gyflawni gwasanaeth cyffelyb yn erbyn Babilon, Esa. 14. 24—27. a 46. 10, 11. Dan. 4. 34—37.

## PEN. LI.

Adn. 1. *Yn erbyn y rhai sydd yn trigo yn nghanol y rhai a godant yn fy erbyn i;* sef yn erbyn holl breswylwyr Babilon, yr hon oedd ganol barth yr amherodraeth, ac yn cynnwys prif wrthwynebwyr y Duw byw; gwel pen. 50. 29.—*Gwynt dinystriol,* yw y gyffelybiaeth a ddefnyddir yma i ddynodi grym dinystriol byddin fuddugoliaethus yn goresgyn gwlad. Gwel pen. 4. 11, 12.

Adn. 2. *Nithwyr*, neu wyntyllwyr, y rhai a ysgarent yr ŷd oddiwrth yr us, yr hwn a ddygai y gwynt ymaith. Fel hyn byddai i Cyrus ddwyn gelynion Duw o Babilon, pen. 15. 7.

Adn. 3. Mae rhai yn darllen y rhan flaenaf o'r adnod hon yn wahanol i'n cyfieithiad arferedig ni;—"Yr hwn sydd yn annelu ei fwa, ni annela ef mwyach, ac nid ymddyrcha yn ei lurig." SCOTT.

Adn. 5. *Er bod eu gwlad hwynt yn llawn o gamwedd:* neu, "Ond eu gwlad hwynt sydd yn llawn o gamwedd yn erbyn Sanct yr Israel;" sef gwlad y Caldeaid y rhai oeddynt yn awr wedi cyflawni mesur eu hanwiredd. Ond nid oedd Israel a Judah wedi eu gwrthod yn y tir hwn BOOTHROYD.

Adn. 6. *Yn ei hanwiredd hi:* yn hytrach, "Yn ei chosbedigaeth hi," fel y mae y gair yn arwyddocau yn aml.

Adn. 7. *Phiol aur oedd Babilon,* neu offeryn gorwych o ddialedd Duw ar genhedloedd eraill; cymh. pen. 25. 15; a chan fod y rhai hyn oll wedi dyoddef trwyddi, fe u darlunir oll yn barod i ymlawenychu wrth ganfod fod ei thro hithau i ddyoddef wedi dyfod.

Adn. 8, 9. Gelwir ar gyngrheirwyr Babilon i gwyno iddi a'i chynnorthwyo; y mae hithau yn atteb eu bod hwy wedi gwneyd eu gorau, ac nad oedd ganddynt hwy ddim i'w wneyd bellach ond dychwelyd i'w cartrefi.

Adn. 10. *Yr Arglwydd a ddug allan ein cyfiawnder ni:* hyny yw, fe amddiffynodd Duw ein hachos; canys efe a ddangosodd

yn amlwg yn ei waith yn cosbi y Babiloniaid, na's gwnaethant hwy yn gyfiawn wrth ddarostwng a gorthrymmu yr Iuddewon, y rhai na's gwnaethent un cam â hwy. SCOTT, DAVDSON, CLARKE.

Adn. 11, 12. Yr oedd y Babiloniaid wedi penderfynu ymosod ar y Mediaid, y rhai a ymbarottoent i'w hamddiffyn eu hunain trwy geisio cymmhorth Persia, yr hon nid oedd ond lled anhysbys hyd y pryd hwn. Am hyny y gelwir y breninoedd oeddynt yn blaenori y byddinoedd, yn freninoedd y Mediaid, am mai ar eu cyfrif hwy yr oedd y rhyfel, ac mai hwynt-hwy oeddynt y bobl fwyaf adnabyddus y pryd hyny. Cynnorthwyai Cambyses o Persia hwynt â byddin o ddeng mil ar hugain o wŷr, dan dywysiad ei fab ei hun, Cyrus, yr hwn a ymunai â'i ewythr, Cyaxares, a elwir yn yr ysgrythyrau, Darius y Mediad.—*Dyrchefwch faner ar furiau:* neu yn hytrach, "o flaen muriau Babilon;" canys y fyddin a warchaeai Babilon a gyferchid, mae yn debyg, yn y geiriau.

Adn. 13. *Yr hon ydwyt yn aros ar ddyfroedd lawer,* yr afon fawr Euphrates, y llynoedd a'r morfëydd cymmydogawl mawrion, yn nghyd a'r dyfr-ffosydd lluosawg oeddynt wedi eu gwneuthur er rhwyddau dyfrhâd y wlad oddiamgylch.

Adn. 14. *Megis â lindys,* hyny ydyw, yn aneirif, Neh. 3. 15, 16.

Adn. 15—19. Gwel pen. 10 12—16, lle mae y cyffelyb syniadau yn cael eu defnyddio i ddangos y sicrwydd y bydd i eilunaddoliaeth gael ei ddinystrio. Mae yma y rhesymau cryfaf yn cael eu rhoddi i gefnogi ein hymddiried yn Nuw, ac i sicrhau i ni y bydd iddo ef, mewn amser dyladwy, amddiffyn ei awdurdod yn erbyn pob gormes, addoliad eilunod, a gau grefyddau. LOWTH.

Adn. 20—23. *Ti wyt forthwyl i mi:* wrth yr hwn y meddylia llawer y golygid Cyrus, a'r byddinoedd dano, y rhai oeddynt ei offer ef i gyflawni ei ddedfryd aethus ar Babilon, ac ar y Caldeaid. Meddylia eraill mai Babilon, neu frenin y Caldeaid yw yr hwn a elwir yma eto yn forthwyl, fel y'i gelwir yn y bennod flaenorol yn ordd, gan fod Duw wedi ei ddefnyddio yn offeryn ofnadwy i ddryllio y cenhedloedd; ond os felly, y mae Duw yma yn datgan y byddai iddo ef wedi gorphen ei waith trwy y Caldeaid, eu cosbi hwythau am eu traha yn erbyn Sïon, cystal ag am eu heilunaddoliaeth, a'u hanwireddau. Mae eraill yn meddwl mai yr eglwys a gyferchir gan Dduw yma fel ei forthwyl ef, o flaen yr hon y bydd iddo ddystrywio yr holl awdurdodau a'r teyrnasoedd hyny sydd yn gwrthwynebu ei wirionedd ef a'i bobl. Fe gyflawnir hyn mewn modd arbenig, yn ngwymp Babilon gyfriniol, pan y dryllia teyrnas Dduw holl deyrnasoedd y ddaiar, yn ninystr y gweddill o'r bedwaredd unbennaeth. LOWTH, SCOTT. Dan. 2. 34, 35, 44, 45. Mica 5. 7—15. Zech. 12. 2—8. Dat. 19. 11—21.

Adn. 25. *Mynydd,* sydd gyffelybiaeth gyffredin o ryw wrthddrych galluog, neu freniniaeth rymmus. Mynydd *dinystriol,*

megis llosg-fynydd, a ddynoda y fath freniniaeth a Babilon gyda phriodoldeb hynod, yr hon drwy ei zel dros eilun-addoliaeth a lygrai eneidiau, a thrwy ei thrais a'i chreulondeb a ddystrywiai gyrff torfeydd lawer. Cymh. Esa. 64. 1. Dan. 2. 45.

Adn. 26. Mae yn beth cyffredin yn y dwyrain gweled tai yn cael eu hadeiladu o ddefnyddiau hen adfeilion; ond ni's gadewid yn ei hadfail hi gymmaint ag un garreg gymhwys i'w defnyddio.

Adn. 27. *Ararat a Minni.* Armenia fwyaf a lleiaf. Wrth *Aschenaz* y deallai BOCHART, Phrygia a Throas; rhan o'r wlad a elwid gan HOMER, *Ascania.* Dywedai XENOPHON fod Armeniaid a Phrygiaid yn myddin Cyrus.—*Cyn amled a'r lindys blewog:* yn lluaws dirfawr, yn dinystrio pob peth o'u blaenau. SCOTT.

Adn. 31. *Rhedegwr a red i gyfarfod â rhedegwr.* Yr oedd yr ymosodiad i gael ei wneyd o bob tu i'r ddinas. Parodd Cyrus i'w fyddin ymranu yn ddwy fintai, a myned i mewn i'r ddinas, un ran o'r naill du ar hyd gwely yr afon, a'r llall y tu arall ar hyd gwely yr afon, nes y cyfarfyddent yn y canol, ac yna torri i fewn i'r ddinas trwy y pyrth pres oedd yn arwain o'r amrywiol hëolydd i'r afon; ac felly brawychid y trigolion yn amryfal gyrau y ddinas ar unwaith, ac anfonid rhedegwyr gyda brys mwyaf o bob parth lle y gwelid y Persiaid i hysbysu y brenin eu bod wedi dechreu cymeryd y ddinas, a chan fod y llys yn nghanol y ddinas, byddai y cennadon yn cyfarfod â'u gilydd yno, ac yn cael eu synu, y naill gan gennadwri y llall, wrth ganfod fod y ddinas wedi ei chymeryd ar bob parth. Dywaid HERODOTUS fod rhanau pellaf y ddinas wedi eu cymeryd cyn i'r rhai oeddynt yn preswylio yn ei chanol wybod eu perygl. Hynod mor fanol y rhagnodwyd amgylchiadau cymeriad y ddinas fawr gan Ysbryd Duw trwy ei weision y prophwydi! Amlwg yw, mai hysbys i Dduw ei weithredoedd oll erioed.

Adn. 33. *Amser ei dyrnu hi a ddaeth.* Yr arferiad yn y dwyrain yw dyrnu yr ŷd yn y maes, yn y fan wedi ei dorri i lawr: a'r modd yr arferant ei ddyrnu yw trwy lusgo mèn ddanneddog drosto, neu, drwy yru ychain i'w fathru, am hyny y mae amryw yn cyfieithu y geiryn yn y fan hon, "Amser ei sathru hi a ddaeth." CALVIN, PISCATOR. At hyn y meddyliai GILL hefyd fod cyfeiriad y geiriau.

Adn. 34--36. Yn y geiriau hyn personolir yr Iuddew yn cwynfan rhag gormes Nebuchodonosor; a'r Arglwydd yn sicrhau iddo y dialai efe ef ar Babilon.

Adn. 37—43. Yma darlunir gloddest a meddwdod y Babiloniaid, yr hyn a fu yn achlysur eu dinystr.—*Yn eu gwres,* sef pan fyddont wedi ymwresogi gan win, myfi a osodaf wledd o natur arall iddynt. POOLE. Gwel Dan. 5. 1, 40.—*Sesach,* gwel Jer. 25. 26.—*Y môr,* sef gelynion lluosawg ac anorfodol, *a ddaeth i fynu ar Babilon.*

Adn. 44. *A mi a dynaf o'i safn ef yr hyn a lyncodd.* Wrth yr hyn y golygid yr offrymmau a wnaethid iddo o yspail y gwledydd a oresgynasid, ac yn fwyaf neillduol, y llestri cyssegredig a gymerasid o'r deml yn Jerusalem, 2 Cron. 36. 7. Dan. 1. 2.

Adn. 45. *Rhag llid digofaint yr Arglwydd:* wrth yr hyn y golygid y barnedigaethau oeddynt ar ddisgyn ar Babilon; yr achos yn cael ei enwi am yr effaith.

Adn. 46. *A'r naill flwyddyn y daw chwedl newydd, ac ar ol hyny chwedl newydd y flwyddyn arall.* Yr oedd yr Arglwydd yn ei dosturi anfeidrol yn rhybuddio ei bobl trwy ei oruchwyliaethau rhagluniaethol, i ddianc o Babilon cyn i'r dinystr cyflawn ddisgyn arni. Yn gyntaf mewn amrafaelion cartrefol. Llofruddiwyd mab Nebuchodonosor gan un a fynasai draws-feddianu yr orsedd; ond lladdwyd hwnw wedi'n, a chyfodwyd yr etifedd cyfreithlawn i'r orsedd. Yna daeth y newydd am ddyfodiad Cyrus i oresgyn yr amherodraeth; efe a orchfygodd Belsassar flwyddyn cyn y gwarchae, a'r flwyddyn ar ol hyny, cwympodd y ddinas i ddwylaw y gelynion. DAVIDSON.

Adn. 50. Yma y mae yr Iuddewon gwaredol yn cael eu cyfarch, a'u hannog i gofio addewid yr Arglwydd am eu dychweliad yn ol drachefn i Jerusalem: mae y gair *Deued Jerusalem yn eich cof chwi*, yn arwyddo cymeryd meddiant o'r meddwl; bod yn brif wrthddrych eu dymuniadau; cymh. pen. 3. 16. a 7. 31. a 44. 21.

Adn. 55. *Ac a ddinystriodd y mawrair allan o honi*, neu "y trwst uchel:" pan fyddo dinasoedd yn boblogaidd, y maent o ganlyniad yn drystfawr, gwel Esa. 22. 2. Gan hyny y mae distawrwydd yn ddynodiad priodol o annghyfannedd-dra, Dat. 18. 22, 23.

Adn. 58. *A'r bobl a ymboenant mewn oferedd, a'r cenhedloedd mewn tân, a hwy a ddiffygiant.* Hyny yw, hwy a ymboenant gyd a'r hyn ni bydd ond cynnud i'r tân: ac felly y bu gyda Babilon; llosgwyd a difawyd ei muriau, ei hamddiffynfeydd, a'i golud.

Adn. 59–64. Y bedwaredd flwyddyn o dyrnasiad Sedeciah oedd amseriad y pryd y cyflwynodd lyfr yn cynnwys ailiad *(copy)* o'r brophwydoliaeth hon, yr hyn oedd un flynedd ar bymtheg a deugain cyn i Cyrus gymeryd y ddinas.—*Pan oedd efe yn myned gyda*, neu yn hytrach "dros" *Sedeciah*, i ddwyn y deyrnged arferol i frenin Babilon, fel cydnabyddiaeth o'i ddarostyngiad iddo ef: canys nid oes gedym un lle i feddwl fod Sedeciah ei hunan wedi myned yno y pryd hwn. BOOTHROYD, DAVIDSON. Ac felly y mae BLAYNEY ac amryw feirniaid yn darllen y geiriau, *A Seriah oedd dywysog llonydd*, yn wahanol, gan ddwyn rhesymau cryfion dros eu cyfieithiad, "A Seraiah oedd yn dwyn anrheg."—*A bwrw ef i ganol Euphrates.* Yr oedd y weithred hon, a'r geiriau a'i dylynent er sicräad i'r Israeliaid o gyflawniad sicr y rhagfynegiad, Dat. 18. 21.—*Hyd hyn y mae geiriau Jeremiah.* Mae yn

debyg i'r geiriau hyn gael eu hychwanegu gan ysgrifenydd y bennod ganlynol; yr hwn, fel y barnai amryw, oedd Ezra. GILL, W. LOWTH, BOOTHROYD.

## PEN. LII.

Adn. 1. Mae yn amlwg fod y bennod hon wedi ei hychwanegu at lyfr prophwydoliaethau Jeremiah, ar ol amser y prophwyd enwog hwnw ei hun, gan Ezra efallai. Cynnwysa hanes byr am y caethgludiad, bron yn yr un geiriau ag yn 2 Bren. 24. 18—20; a phen. 25; gyd ag ychydig ychwanegiadau.

Adn. 12. *Ar y degfed dydd o'r mis.* Yn 2 Bren. 25. 8, dywedir mai y seithfed dydd ydoedd; ceisia rhai gysoni hyn trwy dybied mai ar y seithfed y cychwynodd Nebuzaradan o Riblah, ac mai ar y degfed y cyrhaeddodd efe Jerusalem;—eraill, ei fod ef wedi dyfod i'r ddinas ar y seithfed, ond na roddes efe yr adeiladau ar dân hyd y degfed.

Adn. 24—27. *Seraiah,* offeiriad oedd hwn, ac nid yr un ag yr ysgrifenasai Jeremiah atto, pen. 51. 59. SUTCLIFFE. Efe a gymerwyd o'r deml, lle yr oedd efe yn gwasanaethu, neu lle y ffoisai efe am ddiogelwch. GILL.

Adn. 28, 29. Nyni a gawn hanes am y caethgludiadau hyn yn 2 Bren. 24. 12, &c; er fod gwahaniaeth mawr yn y rhif; ond efallai mai y prif achos o hyny yw, na chrybwyllir yma ond am y dynion pennaf yn unig, a bod y bobl gyffredin yn cael eu golygu yno. DAVIDSON. Ond y mae eraill yn tybied mai tri caethgludiad llai, a gwahanol i'r rhai a grybwyllir yn Llyfr y Breninoedd, a olygir yma. Caethgludwyd rhai yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad ef, Dan. 1. 3—6, a llawer yn yr wythfed flwyddyn, 2 Bren. 24. 12—16; a chymerwyd Jerusalem yn y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg o'i deyrnasiad ef: ond y rhai a grybwyllir yma, a gaethgludwyd yn y seithfed, y ddeunawfed, a'r drydedd flwyddyn ar hugain o'i deyrnasiad ef; ac felly ni's gall mai yr un oeddynt a'r rhai a grybwyllir uchod. BOOTHROYD.

Adn. 32—34. Yr oedd gan y mân freninoedd oeddynt yn garcharorion yn Babilon orseddfeinciau breninol, oddiar ystyriaeth o'u hurddas blaenorol mewn rhan, efallai; ond yn benaf mae yn debyg, er mwyn gosod allan ogoniant brenin Babilon yn rhagorach; ond cyfodid gorsedd Jehoiachin yn uwch na'r eiddo y lleill, fel arwydd o barch iddo. GILL.—*Ac efe a newidiodd ei garcharwisg ef.* Efallai i r brenin roddi gwisg newydd iddo ef, fel yr arfera breninoedd a phendefigion y dwyrain wneyd â'r sawl yr ewyllysiont ei anrhydeddu. Caniatteid iddo yr anrhydedd hefyd o fwytta ar y bwrdd breninol, a gofalid am ddogn o luniaeth gwastadol i'w deulu ar draul y brenin.

# GALARNAD JEREMIAH.

*Mae y Llyfr hwn wedi cael ei enw oddiwrth ei gynnwys, sef Galarnad. Mae yn eglur oddiwrth amryw ymadroddion ynddo mai wedi dinystr Jerusalem y'i cyfansoddwyd. Dosbarthwyd y Llyfr hwn yn dra phriodol i bump o bennodau; pob pennod yn cynnwys galarnad gyfan ynddi ei hunan, wedi ei dosbarthu i ddau ar hugain o bennillion, yn ol nifer llythyrenau y wyddor Hebreig; a phob pennill yn y pedair pennod gyntaf yn dechreu yn ol trefn y wyddor, yn gyffelyb i Salm 119. Yn y ddwy bennod gyntaf, dechreuir pob pennill â'i lythyren briodol, a chynnwysa dair braich. Yn y drydedd bennod, cynnwysa pob pennill dair o adnodau, pob un yn dechreu â'r un lythyren, fel y mae yr holl gylch gwyddorawl yn cynnwys chwech a thriugain o adnodau. Y bedwaredd bennod sydd gyffelyb i'r tair flaenorol o ran mesur, ond yn unig mai deublyg yw ei phennillion. Y bennod olaf nid yw wedi ei chyfansoddi yn ol trefniad gwyddorawl, ond y mae yn gyfansoddedig o bennillion dwy fraich ar fesur byrach na'r pennodau blaenorol.*

## PEN. I.

Adn. 1. Mae yr ymadroddion canlynol wedi eu rhagddodi at yr adnod hon gan y LXX. "A bu wedi i Israel gael eu caethgludo, a gwneuthur Jerusalem yn annghyfannedd, i Jeremiah eistedd gan wylo a galaru â'r alarnad hon uwchben Jerusalem, gan ddywedyd."—*Pa fodd y mae y ddinas aml ei phobl, &c.* Defnyddir y ddinas i gynnrychioli y genedl, yr hyn sydd ddull tra chyffredin a phriodol mewn barddoniaeth.—*Yn eistedd ei hunan,* agwedd dwys alarwyr, gwel Nod. ar Esa. 3. 25, 26. Ei hunigrwydd a ddynodai ei bod wedi colli ei merched, neu y dinasoedd ymddibynol arni, a'i thrigolion ei hunan hefyd, Esa. 16. 2. Num. 21. 25.—*Pa fodd y mae y liosog,* neu, "yr un oedd yn fawr" *yn mhlith y cenhedloedd,* i'r hon y buasai Philistia, Moab, Syria, ac Edom, dan deyrnged yn nyddiau Dafydd a Solomon, fel y gallesid ei galw yn *dywysoges y taleithiau.—Megis yn weddw:* ei brenin, yr hwn oedd ei phen a'i phriod, wedi ei ddwyn oddiarni; a Duw, yr hwn a ystyrid mewn modd arbenig fel priod y genedl Iuddewig, wedi ei gadael.—*Dan deyrnged,* yn gyntaf i Pharaoh Necho, brenin yr Aipht: yna i frenin Babilon, yn amser Jehoiachim, ac yn olaf yn amser Sedeciah. GILL.

Adn. 2. *Ei holl gyfeillion a fuant annghywir iddi.* Mae lle i feddwl fod amryw o'r tywysogion cymmydogawl wedi anfon eu cennadon at Sedeciah, Jer. 27 3, &c., i'w berswadio ef i ymuno â hwy yn y cydfrad yn erbyn gallu brenin Babilon. Ond darfu iddynt, nid yn unig ballu, a llwyr adael Judah yn ei chyfyngder, ond y rhan fwyaf o honynt a droisant yn ei erbyn, gan gymmer-

yd pleser mewn mwynhau ei hanffodion. Gwel Jer. 48. 27. Sal. 137. 7. Ezec. 25. 3—15. BOOTHROYD.

Adn. 3. *Judah a fudodd ymaith gan flinder.* Ffŏodd lluaws mawr ar ddynesäad y Caldeaid, at y cenhedloedd cymmydogawl, yn enwedig i'r Aipht, gan ddysgwyl cael gorphwysdra yno; ond gan eu bod wedi gwrthod eu hunig Noddwr, yr oedd cyfyngderau a gwasgfeuon yn cau am danynt yn mhob man.

Adn. 7. *Ac a chwarddasant am ben ei sabbothau.* Yr oedd y cenhedloedd yn arfer cyhuddo yr Iuddewon o ddiogi a ffolineb, yn eu gwaith yn cadw y Sabboth; gan haeru eu bod trwy hyny yn afradu y seithfed ran o'u hamser. Nid ystyriai y cenhedloedd y tueddiadau llesol oedd yn gyssylltiedig â'r dyddiau o orphwysfa sanctaidd a bennodasai yr Arglwydd; ac eto yr oedd eu harferion hwy eu hunain yn dangos yr anmrhriodoldeb iddynt hwy wawdio yr Iuddewon, canys y mae crefydd y paganiaid yn gyffredin yn galw arnynt i neillduo llawer mwy o ddyddiau, nid yn unig i seguryd, ond i annghymedroldeb, a phob rhyw bleserau anghyfreithlawn.

Adn. 9. Er bod arwyddion amlwg o'i haflendid arni, a'i bod wedi halogi y tir, nid oedd hi yn meddwl am y canlyniadau. BLAYNEY.

Adn 11. *Hwy a roddasant eu hoff bethau am fwyd i ddadebru yr enaid.* Yr oedd eu cyfyngder y fath, fel yr oeddynt yn ewyllysgar i ymadael â'u tlysau, a'r pethau mwyaf dymunol a feddent am dammaid i dorri eu newyn.

Adn. 12. Yma y mae Sïon, yn eistedd fel un yn galaru, megis y'i darlunir yn adn. 1, 2; yn galw ar y sawl a elent heibio iddi i dosturio wrthi yn ei chaledi. Mae ymdoriad sydyn y cyfarchiad yma, yn dra phriodol i osod allan ddwysder ei gofid; fel pe dywedasai, "A oes modd i neb ganfod fy nghofid heb deimlo tosturi tuag attaf." Neu ynte, efallai ei bod hi yn eu galw hwy i ystyried ei chyflwr hi ar eu cyfrif hwy eu hunain, gan fod mawredd ei dyoddefiadau hi a'r achos o honynt, yn rhybudd tra uchel i bawb i ymwrthod ag eilun addoliaeth. Gan na's diangodd Sïon rhag cosbedigaeth, mae gan bob troseddwr achos i ofni. Meddyliai SANCTIUS fod cyfeiriad yn y geiriau at yr hyn a argreffid ar feddrodau, gan ddechreu gyda galwad ar y teithydd i sefyll a darllen; ac mai beddargraff Jerusalem yw yr hyn a ganlyn. GILL.

Adn. 14. *Rhwymwyd iau fy nghamweddau.* Mae *iau* weithiau yn dynodi cosbedigaeth, ond yn fwyaf cyffredin, gerydd, neu gosbedigaeth, Deut. 28. 48. 1 Bren. 12. 4. Jer. 28. 14. Yr oedd yr iau, nid yn unig wedi peri iddi gwympo, ond mor ormesol, fel na's gallai gyfodi dani. DAVIDSON.

Adn. 15. Mae digofaint yr Arglwydd yn cael ei ddarlunio trwy y gyffelybiaeth o *winwryf* yn fynych, er gosod allan mor ofnadwy yr effeithiau o hono, Esa. 63. 3. Dat. 14. 19, 20. a 19. 15. W LOWTH.

Adn. 20—22. *Megis marwolaeth sydd gartref;* wrth farwolaeth yma y golygir haint. Mae marwolaeth megis pe cäai ei bersonoli, a'r prophwyd yn ei ganfod yn anrheithio y ddinas. BOOTHROYD. —*Y dydd a gyhoeddaist,* sef y dydd pan fyddai i'r gelyn bostgar yr un modd gael ei ddarostwng; y dydd a ragfynegwyd mor fynych gan y prophwyd. J. COBBIN.

## PEN. II.

Adn. 1. *Ac na chofiodd leithig ei draed, &c.* Gelwir arch y cyfammod yn droedfainc Duw, 1 Cron. 28. 2. Salm. 99. 5. a 132. 7. Mor fawr raid fod y digofaint hwnw a amlygid gan yr Arglwydd, pan ymddygai fel pe byddai wedi annghofio ei deml, ei orsedd, a'i droedfainc!

Adn. 3. *Y torrodd efe holl gorn Israel,* yr holl arwyddion o urddas a mawredd a berthynai i'r genedl; gwel Luc 1. 69.—*Efe a dynodd ei ddeheulaw yn ei hol oddiwrth y gelyn,* naill ai ei ddeheulaw ei hun, pan beidiai a'u hamddiffyn mwyach rhag eu gelynion, neu ddeheulaw Israel, yr hwn ni's meddai rym mwyach i sefyll yn erbyn y gelyn. GILL. Yr olaf yw golygiad BOOTHROYD.

Adn. 5, 6. *Efe a lyncodd Israel;* fel bwystfil rheibus yn difa ei ysglyfaeth.—*Efe a anrheithiodd ei babell fel gardd:* neu "Efe a symmudodd ei fagwyr, fel magwyr gardd" Mae nodded Duw yn cael ei ddarlunio trwy y gyffelybiaeth yma yn aml: a thynu ymaith y nodded a feddylir wrth ddryllio, neu symmud y fagwyr a wnaethai efe. Cymh. Salm 80. 12. Esa. 5. 2—5.

Adn. 7—10. *A wrthododd ei allor, &c.* Gadawodd i'r gelyn ei dymchwelyd, a myned i mewn i'w lys a'i gyssegr a'u llosgi.—*Rhoddasant floedd yn nhy yr Arglwydd:* y gelyn wedi cymeryd y deml, a ddyrchafai ei lef mewn bloedd buddugoliaeth, a chabledd, gan waradwyddo Duw. POOLE.—*Efe a estynodd linyn:* fel saer yn estyn ei linyn i fesur pa mor bell i dynu yr hen adeiladau i lawr. GILL, SUTCLIFFE.—*Heb gyfraith y mae.* Nid yw y gyfraith yn cael ei darllen mwy, na'i haberthau gosodedig a'i gwyliau yn cael eu cadw mwyach.—*A eisteddant ar lawr.* Darlunir yr Henuriaid yn eistedd ar lawr, fel rhai wedi gorlenwi â galar a syndod, fel na's gallant ddywedyd dim; fel tri chyfaill Job gynt. SUTCLIFFE.

Adn. 11. Yr oedd yr henafiaid yn barnu fod yr ymysgaroedd, a'r bol yn gyffredinol yn eisteddle y nwydau tyneraf, megis, cariad, tosturi, a chydymdeimlad; a'r afu yn eisteddle y nwydau llymach; gwel Diar. 7. 21—23. Gan hyny, golyg-ddrych y prophwyd yw, bod yr holl enaid wedi ei lanw gan ofid, fel na's gallai gymeryd un sylw o ddim arall. Neu ynte, efallai mai ystyr yr ymadrodd yw, fod gofid a chyfyngder oblegid yr hyn a ganfyddai, wedi toddi ei afu megis, gan mor anngerddol ydoedd, nes peri gorlifiad y bustl. Yn gyffelyb y dywedai Job hefyd, pen. 16. 13.

Adn. 12. *Pan dywalltent eu heneidiau yn mynwes eu mammau:* hyny yw, pan drengent ar eu mynwesau, a hyny, ond odid, pan yn ceisio sugno bronau oeddynt wedi sychu i fynu gan y newyn. O mor alaethus oedd y fath olygfa i fammau tyner.

Adn. 13. *Canys y mae dy ddinystr,* neu "dy rwygiad" *yn fawr.* Yr oedd yr archoll a gawsai Sïon, yn nghyfrif y prophwyd yn llydan ac yn ddwfn, fel y môr mawr, yr hwn a ymddangosai i'r henafiaid, mewn lled a dyfnder yn anfesurol, ac anchwiliadwy i ddyn; cymh. Deut. 30. 13. Da y gallai efe ofyn yn ei alar, *Pwy a'th iacha?* Neb. Cymh. Jer. 30. 12—18.

Adn. 14. *Eithr hwy a welsant i ti feichiau celwyddog, ac achosion dëol:* neu, "Hwy a ragfynegasant i ti feichiau oferedd, pan oeddit wedi dy fwrw allan." BOOTHROYD. Mae beichiau weithiau yn arwyddo prophwydoliaethau trymion, (gwel Jer. 23. 33.) ond, y mae hefyd yn arwyddocau prophwydoliaeth, yn y cyffredin. Mae yn ddiau mai meddwl y prophwyd oedd, fod gau brophwydi wedi cyfodi hyd yn nod yn mysg y gaethglud yn Mabilon; gwel Jer. 29. 8, 21, 25, 32: ond nid oedd y rhai hyn yn offerynol i iachau Sïon; canys celwydd a diflasrwydd oedd eu prophwydoliaethau —*Ni ddatguddiasant dy anwiredd:* neu, "Nid agorasant dy anwiredd," cyfeiriad at yr archoll a grybwyllwyd yn adn. 13, yr hwn a gymerai y gau brophwydi arnynt ei feddyginiaethu, heb symmud yr achos o'r drwg.

Adn. 15, 16, *Y rhai oll a dramwyant y ffordd, &c.* Mor isel raid fod cyflwr Israel, pan oedd pawb fel hyn yn cyduno a'u gelynion i'w gwaradwyddo! Mae yn deilwng o sylw fod y mawrfri a roddai yr Iuddewon ar eu dinas ragor pob dinas arall, a hyny o herwydd rhagoriaeth eu gosodiadau crefyddol a berthynent i'w teml ar baganiaeth; yn adnabyddus trwy y gwledydd. Er hyny, yr oedd yn ymddygiad gwael a drygionus yn eu gelynion, ac yn enwedig mewn dieithriaid i ddannod iddynt yn eu hiselder, y fost a arferent am eu dinas, yn nyddiau eu llwyddiant; cymh. Salm 48. 2, a 50. 2.

Adn. 17. *Ac a gyflawnodd ei air.* Dyma brawf amlwg fod hen brophwydoliaethau Moses am yr adfyd a gyfarfyddai â meibion Israel yn cael eu deall yn nyddiau Jeremiah, a bod amgylchiadau gofidus a'u cyfarfyddai yn yr oes hono; yn cael eu golygu yn gyflawniad o honynt.

Adn. 20. *A fwytty y gwragedd eu ffrwyth eu hun?* Wrth gydmaru hyn â pen. 4. 10, nyni a welwn fod Duw wedi dwyn arnynt y farn a fygythiasai efe, Lef. 26. 29. Deut. 28. 53. Jer. 19. 9. W. LOWTH.—*Plant o rychwant o hyd:* math o ymadrodd diarhebol, efallai, am rywbeth bychan. DAVIDSON.

## PEN. III.

Adn. 1. *Myfi yw y gwr a welodd flinder, &c.* Mae y prophwyd

yn adgoffa i'w gydwladwyr ei fod ef wedi gweled a phrofi cymmaint o gystudd a neb o honynt, ac o ganlyniad ei fod ef yn deilwng o'u gwrandawiad hwythau yn eu hadfyd, gan ei fod yn meddu gwybodaeth brofiadol o dywydd garw iawn.

Adn. 3. *Y trodd efe, ac y mae efe yn troi ei law, &c.* Nid un waith y tarawodd efe fi, ond drachefn a thrachefn, gan barhau i'm gwialenodio ar hyd y dydd.

Adn. 5. Yma mae y prophwyd yn ei ddarlunio ei hun fel dinas warchaedig, a Duw fel y gwarchaewr, yn adeiladu gwrthgloddiau ac amddiffynfeydd o'i amgylch i ymosod arno: ond *bustl*, neu drueni a *blinder* yw y gwrthgloddiau hyn.

Adn. 6. *Mewn tywyll leoedd, &c.* Ymadroddion yn dangos dwysder ei gyfyngder, o'r hwn ni's gall un dyn weini ymwared, mwy nac y gall gyfodi y marw o'r ceufedd tywyll.

Adn. 8. *Efe a gau allan fy ngweddi.* Ymddangosai yr Arglwydd ei hunan, trwy ei oediad i atteb, fel pe buasai yn attal gweddi rhag cyrhaeddyd gorsedd ei drugaredd. Ond nid yw y cyfryw gwynion o angenrheidrwydd yn arwyddo anymddiried yn nghariad a gallu Duw, fel y mae yn eglur oddiwrth ansawdd meddwl yr Ysgrifenydd, ac yn llawer eglurach oddiwrth Salm 22, 1, 2. Job 19. 7; cymh. âg adn. 23—27. Dylid golygu yr ymadroddion yn unig fel iaith gofid dwys, a galar chwerw, yn deillio o galonau dwys deimladwy o'r rhagorfraint anmhrisiadwy o dderbyn arwyddion o gariad Duw, pan wedi eu hamddifadu o'r unrhyw. DAVIDSON.

Adn. 9. Mae y cyffelybiaethau a arferir yma, yn dangos y rhwystrau anorfod oeddynt yn ei ffordd; Job 19. 8. Yr oedd rhagluniaeth wedi cau i fynu yr hyn a ymddangosai yn llwybr dyledswydd iddo ef, fel na's gallai fyned rhagddo mwy nac ymdeithydd ar hyd y ffordd wedi ei chau i fynu â cherrig nadd; neu, yr oedd yn ymddangos mor gam a dyrus iddo, fel y tybygai fod yn anmhossibl ei ganlyn. Meddylia rhai fod y cyffelybiaethau yn yr adnod hon a'r un flaenorol wedi eu hamcanu i ddarlunio ei gyflwr a'i brofiad pan yn garcharor yn y daiardy; Jer. 20. 1—9 a 37. 15, 16. a 38. 6.

Adn. 11. *Efe a wyrodd fy ffordd:* neu "A drodd yn gyflawn arnaf." BLAYNEY, BOOTHROYD. Fel arth neu lew, yn ei osod ei hun yn ffordd teithydd, fel na's gallo fyned rhagddo.

Adn. 16. *Efe a dorrodd fy nannedd â cherrig, &c.* Yr oedd ei fara fel pe buasai wedi ei gymmysgu â graian, yr hwn ydoedd yn torri ei ddannedd, ac yn peri poen dirfawr iddo pan gynnygiai ymborthi arno, yn lle bod yn ymborth blasus a magwriaethol iddo: ac yr ydoedd wedi ei orchuddio â lludw, fel un yn galaru ac yn dwyn penyd gwastadol. SCOTT.

Adn. 17. *Annghofiais ddaioni,* gan mor hir y buasai yn ddieithr iddo; cymh. Gen. 41. 30.

Adn. 18. *Darfu am fy nerth a'm gobaith oddiwrth yr Arglwydd;* neu, "Yr Arglwydd a ddinystriodd fy nerth a'm gobaith." Yr oedd rhagluniaeth Ddwyfol wedi ei ymddifadu o foddion arferol ei gynhaliaeth, a'i obaith am lwyddiant yn y fuchedd hon; yr hyn yw y peth oedd ganddo mewn golwg fel y gwelir yn amlwg oddiwrth y cyfdestyn; ac nid nerth ysbrydol, a gobaith am ffafr Ddwyfol mewn byd arall fel y barna rhai; canys y mae yn amlwg oddiwrth yr hyn a ddywedir yn mlaen, fod ei enaid yn llwyddo yn ddiau dan ei brofedigaethau tymhorol lluosawg, amrywiol, a mawrion. DAVIDSON.

Adn. 19. *Cofia fy mlinder a'm gafid;* neu, "Y mae cofio fy nghystudd a'm darostyngiad, yn wermod a bustl."

Adn. 21. *Hyn yr ydwyf yn ei adgofio.* Mae y prophwyd yma yn dechreu ymafael mewn defnyddiau amynedd a dyddanwch: mae yn ddiau mai y pethau a ganlyn oedd *hyn*, ac yr oedd ei galon wedi ymlenwi o honynt mor llawn, fel y sonia am danynt yma megis pe buasai wedi eu henwi o'r blaen; ac nid heb achos, canys yr oeddynt yn ddigonol i gadw ei enaid yn dawel ac ymostyngar i ewyllys penarglwyddiaethol Duw ei iachawdwriaeth. DAVIDSON.

Adn. 27. *Da yw i wr ddwyn yr iau yn ei ieuenctyd.* Mae ymarferion daionus, a dysgyblaeth foreuol, yn annrhaethol werthfawr. A. CLARKE. Da yw i un gael ei arfer yn brydlawn i attaliadau buddiol. Mae pob ymadrodd yma yn ein harwain i feddwl fod y prophwyd wedi gwellâu yn fawr o ran ei enaid yn ei brofedigaethau blaenorol llymion. Wrth ddwyn yr iau yma y golygir yn ddiau, ansawdd ymostyngar y galon i Dduw mewn cystudd, ac nid dioddef cystudd, canys yr oedd llaweroedd o gydwladwyr y prophwyd yn gorfod goddef cystudd, y rhai er hyny ni chawsent unrhyw brawf neillduol o raslonrwydd Duw. Yr oeddynt yn parhau yn anhywaith megis eidion anarferedig â'r iau. DAVIDSON.

Adn. 28—30. *I edrych a oes gobaith,* neu, "am fod gobaith." Mae yr ymadrodd yn arwyddo pryder yn hytrach nac amheuaeth, medd JUNIUS; cydwybodolrwydd o annheilyngdod mawr, nid unrhyw amheuaeth o helaethder Dwyfol ras; cymh. Exod. 32. 30. Jos. 14. 12. 1 Sam. 14. 6. Joel 2. 14.—*Efe a lenwir â gwaradwydd:* efe a ymostynga yn dawel dan bob rhyw ddyoddefiadau oddiwrth ddyn; ac yn ddi rwgnach y dygir yr iau gan y rhai y mae yr Arglwydd yn raslawn iddynt. Ond y mae rhai yn cyfieithu yr holl ymadroddion hyn fel cynghorion, "Eistedded ei hunan a thawed a son, &c." J. COBBIN.

Adn. 31—33. Yn yr adnodau hyn, fe nodir seiliau ymostyngiad ac amynedd; fel annogaeth i'r cyflawniad o'r ddyledswydd hon. BOOTHROYD.

Adn. 34—36. Crybwyllir amryw weithredoedd o annghyfiawnder yn yr adnodau hyn, o'r rhai y mae dynion yn euog; ond y

cyfryw na's gall Duw eu cymeradwyo, llawer llai ymddwyn yn debyg tuag at ddynion.

Adn. 37—39. Yn y geiriau hyn eto mae y prophwyd yn addef penarglwyddiaeth Duw, ac yn sylwi fod da a drwg, llwyddiant ac aflwyddiant yn deillio o'i law ef, ac na fedd un dyn byw sail i gwyno yn herwydd yr olaf, gan nad yw yn derbyn cymmaint ag ahaeddai ei gamweddau; oblegyd "cyflog pechod yw marwolaeth."

Adn. 40—51. *Ceisiwn a chwiliwn ein ffyrdd.* Mae y prophwyd yma yn cyfeirio at y llwybr i gymmodi â Duw, trwy wir edifeirwch a gweddi, yn nghydag addefiad gostyngedig o bechod, ac o gyfiawnder Duw yn ei holl oruchwyliaethau, ac yna y mae y prophwyd yn cwyno o herwydd yr adfyd a'r gofid a ddylifasai i'w phiol ef, o ofidiau ei bobl.

Adn. 52. Mae y prophwyd yma yn dechreu datgan y waredigaeth a gawsai ef ei hunan o'i beryglon blaenorol, ac oddiwrth hyny y mae efe yn casglu moddi ymddiried yn yr un Duw da, am ei gynnorthwyo a'i waredu rhagllaw, gan ddial ar ei erlidwyr presenol.

Adn. 53. *Torrasant ymaith fy einioes yn y pwll.* Hyny oedd eu hamcan pan y'i bwriasant ef i'r daiardy, a hyny a feddyliodd yntau fuasai y canlyniad, fel y dywaid yr yr adnod nesaf. Ac y mae yn dra thebyg fod yr hyn a ddyoddefodd efe yno wedi dystrywio grym ei gyfansoddiad, cymh. adn. 4.

Adn. 54. *Y dyfroedd a lifasant dros fy mhen.* Cyffelybiaeth wedi ei chymeryd oddiwrth un ar foddi, er dynodi perygl a chyfyngder dirfawr. Gwel Salm 69. 1, 2. a 124. 4, 5.

Adn. 64—66. *Tal y pwyth iddynt.* Neu, "Ti a deli y pwyth iddynt." Mae y prophwyd yma yn ei sicrhau ei hunan y byddai Duw yn amddiffyn iddo, ac y rhoddai efe daledigaeth gyfiawn i'w elynion annghyfiawn a diachos. BOOTHROYD.—*Dod iddynt ofid calon,* neu, "Rhoddi hwynt i fynu i gyndynrwydd calon." Mae y gair cyfattebol yn y cyfieithiad Arabaidd, yn arwyddo gorphwylldra, neu wallgofrwydd yn ei ffurf waethaf.—*Erlid,* neu yn hytrach, "Ymlidi" *hwynt, &c.*

## PEN. IV.

Adn. 1. *Pa fodd y tywyllodd yr aur?* Cyfeiriad at y deml, fel yr ymddengys oddiwrth y llinell nesaf. Yr oedd tŷ yr Arglwydd fel aur yn mysg rhanau eraill Jerusalem; ond och! yn awr, yr oedd wedi ei anurddaw, a'i meini sanctaidd yn bentwr o adfeilion maluriedig. BOOTHROYD. Mae yn fwy priodol meddwl fod aur yma yn cynnrychioli pennaethiaid Israel, y rhai a fuant unwaith yn enwog am wir grefydd a gwir wladgarwch; yn gyssegredig i Dduw a'u cenedl. Hwynt-hwy oeddynt brif feini cyssegr neu eglwys Dduw; cymh. Salm. 102. 14. 2 Tim. 2. 19—21.

Adn. 3—6. Nid yw y prophwyd yn cyhuddo ei bobl o farbareidd-dra annghyffredin, o ran tueddiadau naturiol, fel y mae yn amlwg oddiwrth adn. 10; ond dangos y mae efe fod y dyoddefiadau hyn mor fawr, fel ag i ddiwreiddio, neu, o leiaf i ddarostwng a llethu greddfau cryfaf, a nwydau tyneraf y natur ddynol. —*Y dreigiau*, anghenfilod y môr; SCOTT. Yr un gair yw ag a gyfieithir yn Gen. 1. 21. "Morfeirch mawrion." Mae yn debyg fod y gair yn golygu yr holl forfilod hyny, a weinyddant gynhaliaeth i'w rhai bach trwy sugn. Mae yr *estrys* yn nodedig am ei hymadawiad o'i nyth, ar ryw achosion bychain iawn o ofn, ac weithiau ni's dychwela o gwbl, neu erys mor hir oddiyno, fel y bydd y wyau wedi myned yn llwyr ddiles. Gwel Job 39. 14—16. —*Y rhai a feithrinwyd mewn ysgarlad*, y lliw a wisgid gan y teulu breninol, Esth. 8. 5.—*A gofleidiant y tommenydd*, gan orwedd arnynt hwy yn lle eu carpetau a'u glythau ysgarlad gorwych.—*Yr hon ni safodd*, neu "ni flinodd" *llaw arni*. Nid ei chosbi â gormes neu ryfel oddiwrth ddyn a gafodd Sodoma; ond tân Duw o'r nef a'i difäodd. Dinystriwyd Sodoma ar unwaith, yn ddisymmwth, ond Jerusalem a'r Iuddewon trwy hir warchae â newyn tost, fel y buasai cosbedigaeth Sodoma o'r ddau yn fwy dewisol.

Adn. 7. Rhoddid mawr fri ar y *Nazareäid* yn gyffredinol, ac efallai fod eu dull cymhedrol hwy o fyw, yn tueddu yn fawr i chwanegu at eu hiechyd a'u harddwch hwy. DAVIDSON. Ond y mae eraill yn barnu mai y pendefigion, neillduedig oddiwrth y werin o ran dygiad i fynu, golud, ac urddas, a olygid yma wrth y geiryn *nazar*, neillduol. BOOTHROYD, BLAYNEY, POOLE.

Adn. 12. *Ni choeliasai breninoedd y ddaear.* Wrth ystyried cadernid Jerusalem trwy natur a chelfyddyd, ac yn enwedig wrth ystyried ei hanesyddiaeth flaenorol, yr hon a gofnodai arwyddion sicr fod Arglwydd lluoedd y nefoedd yn noddwr iddi. Mae lle i feddwl oddiwrth yr ymadroddion hyn fod y farn yn lled gyffredin yn mysg pennaethiaid y gwledydd cymmydogawl, fod Jerusalem yn anorchfygol; ac o ganlyniad, yr oedd llwyddiant y rhai a warchaëent arni, bron yn annysgwyliadwy iddynt hwy eu hunain. DAVIDSON.

Adn. 13. *Am bechodau*, neu, "Hyn sydd am bechodau," &c. Mae y prophwyd yn dangos am ba ochos yr oedd Jerusalem yn cael ei rhoddi i fynu i'w hanrheithio. BOOTHROYD.

Adn 14. *Gwibiasant fel deillion yn yr heolydd*; pan oeddynt yn ffoi am eu bywyd, ni's gwyddent i ba le i fyned.—*Ymddifwynasant gan waed*. Llychwinid hwynt gan waed, o herwydd amled oedd y lladdedigion, ac felly fe'u halogid mewn ystyr ddeddfol, gwel Num. 19. 16. W. LOWTH. Camdriniasant brophwydi yr Arglwydd ac a'u lladdasant, 2 Cron. 36. 16 ; a halogasant y cyssegr â'r cyfryw halogedigaeth na's gellid glanhau oddiwrtho ond

trwy waed y troseddwyr. SUTCLIFFE. Yr ystyr yw, bod yr offeiriaid a'r prophwydi, gan eu bod yn ddeillion ysbrydol, yn gwibio yn yr heolydd fel deillion, gan ymhalogi â gwaed; naill a'i gwaed y plant a laddasant, neu waed y rhai cyfiawn y sonir am danynt yn yr adnod flaenorol. POOLE.

Adn. 15. *Ciliwch*; *aflan yw*; neu, "Gwaeddai dynion arnynt, Ciliwch rai aflan: ciliwch, ciliwch, na chyffyrddwch. Pan y ffoisant, ac y crwydrasant; dywedai dynion yn mhlith y cenhedloedd ni chant aros yma. "Gan eu bod wedi bod mor euog o dywallt gwaed, ni chaniattai y paganiaid nodded iddynt; hwy a ddywedent, "Nid chant aros," hyny yw, gyda ni. BOOTHROYD.

Adn. 16. Mae yn debyg mai y rhai cyfiawn a grybwyllir yn adn. 13, yw y rhai a olygir wrth yr *offeiriaid* a'r *henafgwyr* yn y geiriau hyn, y rhai a erlidid hyd angau gan y prophwydi a'r offeiriaid annuwiol.

Adn. 17—20. *Wrth genhedlaeth ni allai ein hachub*, yr Aiphtiaid, yn y rhai yr ymddiriedent. Mae yn debyg fod gan yr Iuddewon wylwyr ar uchelfannau y wlad, yn dysgwyl am ddynesâad yr Aiphtiaid i gyfodi y gwarchae; a bod y gwylwyr hyn i gyfodi arwyddion can gynted ag y'u canfyddent yn dyfod, er calondid i'r Iuddewon; ond eu siommi yn ofidus a gawsant; gwel Jer. 37. 1—10.—*Ein dyddiau ni a gyflawnwyd*, sef yr amser i'w cosbi a ragfynegasid gan y prophwyd wedi ei gyflawni.—*Y maent yn ein herlid ni ar y mynyddoedd;* sef y Caldeaid, y rhai a arferent bob ystryw i flino a dinystrio yr Iuddewon, yn yspaid y gwarchae.—*Eneiniog yr Arglwydd*, sef y brenin, yr hwn oedd megis bywyd y wladwriaeth, nerth yr hon a ymadawai pan y'i cymerwyd ef.—*Y byddwn ni byw yn mysg y cenhedloedd:* wrth yr hyn y golygir mae yn debyg, parhau i fod yn eu cymeriad gwladwriaethol, fel un o'r cenhedloedd oedd o'u hamgylch. BOOTHROYD.

Adn. 21, 22. *Bydd lawen a hyfryd, merch Edom.* Cyfarchiad gwawdiaethol yw y geiriau hyn, tebyg i hwnw yn Preg. 11. 9 Yr oedd yr Edomiaid wedi bod yn gorfoleddu ar ddinystr eu brodyr yr Iuddewon; ond yn awr y mae y prophwyd yn rhagweled eu phiol hwythau wedi ei llenwi. Gwel Salm 137. 7. Obad. 10—12.

## PEN. V.

Adn. 1—3. Yma y mae y prophwyd gan gynnrychioli ei genedl, neu yn benaf y gweddill a adawsid yn y wlad gan y Caldeaid, yn cwynfan gan eu gofidiau, ac yn attolygu ar yr Arglwydd am edrych o hono arnynt mewn tosturi; a'u hadferu trwy ei gadarn allu.—*I estroniaid*, sef y Caldeaid, y rhai yn bresenol a feddiannent dir yr addewid.

Adn. 4, 5. *Ein dwfr am arian, &c.* Efallai fod hyn yn cyfeirio at sefyllfa y rhai a adawsid yn Judea a'r rhai a gaethgludasid, y

rhai a orfyddent brynu eu coed a'u dwfr, yr hyn a ddangosai gyflwr tra thruenus.—*Ein gwarrau sydd dan erlid*; neu "A'r iau y'n llwythir yn barhaus." Yr oedd y Caldeaid yn eu gorfodi i brynu dwfr o ffynonau a wnaethent hwy eu hunain, a choed o'r gwigfëydd a blanasent hwy eu hunain; ac ar yr un pryd yn gwneyd iddynt weithio fel eu caethweision. Yr oedd coed a dwfr yn cynnrychioli prif angenrheidiau bywyd.

Adn. 6. *Rhoisom ein llaw i'r Aiphtiaid.* Hyny yw, bu raid i'r rhai a ddïangasent rhag y lladdfa gyffredinol ymroddi yn weision neu gaethion i'r Aiphtiaid, neu yr Assyriaid, er mwyn cynhaliaeth. BOOTHROYD.

Adn. 7. *Ninnau sydd yn dwyn eu cosp hwynt.* Cymh. 2 Bren. 21. 11—16. a 23. 26, 27, &c. Nid oeddynt yn dywedyd hyn i'w hesgusodi eu hunain, ond i alaru am bechodau eu tadau cystal a'r eiddynt eu hunain. BOOTHROYD.

Adn. 9. *Mewn enbydrwydd am ein heinioes, &c.* Mae yn debyg mai yr ychydig a adawsid yn y tir a olygid yma, y rhai o herwydd eu bod mor anaml ac mor weiniaid, oeddynt mewn perygl parhaus oddiwrth ruthriadau yr Arabiaid yspeilgar, a drigiannent yr anialwch, a'r rhai y gellid yn briodol eu galw, *cleddyf yr anialwch*.

Adn. 11—15. Darlunia y prophwyd mewn iaith dra effeithiol, drueni y bobl pan gymerwyd Jerusalem; gwragedd a morwynion a dreisid; tywysogion a henuriaid a lofruddid ac a grogid, a'r gwŷr ieuainc a ddarostyngid i'r gwasanaeth gwaradwyddusaf, a'r plant i'r caledwaith creulonaf, nes bod prudd-der ac annghyfanedd-dra yn llanw y tir.

Adn. 19—22. *Ti Arglwydd a barhei byth.* Dyma oedd cysur y prophwyd, fod yr Arglwydd yn annewidiol; na's gellir dymchwelyd ei orsedd ef; ac oddiar hyn y mae efe yn gweddio ar iddo eu cofio hwynt, eu dychwelyd atto hunan, a'u gwaredu.

# LLYFR Y PROPHWYD EZECIEL.

***Yr oedd Jeremiah ac Ezeciel yn prophwydo yr un amser, ac am yr un pethau. Caethgludwyd y prophwyd hwn i Babilon gyda Jehoiachim brenin Judah, ac fe'i sefydlwyd ar lannau yr afon Chebar, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Euphrates. Yr oedd Ezeciel fel Jeremiah yn offeiriad; ond o deulu gwahanol, gwel pen. 1. 3. Efe a ddechreuodd brophwydo yn y bummed flwyddyn o'i gaethgludiad, a bu yn cyflawni y swydd brophwydoliaethol am oddeutu ugain mlynedd.***

## PEN. I.

Adn. 1. ***Yn y ddegfed flwyddyn ar hugain, yn y pedwerydd mis, &c.,*** o ddechreuad teyrnasiad Nabopolassar, tad Nebuchodonosor, mae yn debyg, yr hyn sydd brif nôd a ddilynir gan PTOLEMY, ac ysgrifenwyr eraill ar hanesyddiaeth Babilon,

a'r Persiaid. Yn yr adnod nesaf y mae Ezeciel yn crybwyll yr amser yn ol dull yr Iuddewon o gyfrif, gan ddweyd mai y bummed flwyddyn o gaethgludiad Jehoiachim ydoedd hi.—*Afon Chebar*, yr un yn ol barn amryw ag a elwir eto wrth yr enw Khabour, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Euphrates yn agos i Carchemis, tua dau càn milldir i'r gogledd o Babilon. Gwel pen. 3. 15. a Nod ar Jer. 46. 2.—*Agoryd y nefoedd:* neu eu harddangos i olwg y prophwyd, yr hyn oedd yn anhebgorol mewn trefn i'w alluogi i ganfod y Cerubiaid, neu y Secinah, yr arwydd-lun o ogoniant y Duwdod. Pe buasai efe yn archoffeiriad, efe a allasai gael ei weled unwaith yn y flwyddyn; ond ni's gallasai un dyn ei weled ar lan afon Chebar, nac yn un man arall o fewn gwledydd y cenhedloedd, oddieithr i'r nefoedd gael eu hagoryd. Mor fawr oedd ymostyngiad Duw, ac mor ragorol ei drugaredd tuag at y prophwyd, a thrwyddo ef i'w eglwys yn mhob oes! DAVIDSON.

Adn. 2. *Y bummed flwyddyn o gaethgludiad y brenin Jehoiachim*, oedd tua chwe blynedd cyn dinystr y deml, yr hyn a fu yn yr unfed flwyddyn ar ddeg i'w olynwr Sedeciah, 2 Bren. 25. 2. Yr oedd yn werthfawr iawn i'r caethion gael gweledigaethau y pryd hwn, i'w cymmodi â'u halltudiaeth, canys yr oedd hyn yn brawf nad oedd eu Duw hwy wedi ei gyfyngu o fewn y tir sanctaidd, ond y gallai efe yn hawdd wneuthur gwledydd paganaidd mor gyssegredig a'r deml yn Jerusalem.

Adn. 4. Dylid cymhwyso egwyddor deongliad dammegion, cysgodau, a chyffelybiaethau, yn fanol at weledigaethau o arwyddluniau. Dylem lafurio am wybod pa beth yw y prif wirionedd neu wirioneddau a osodir allan ynddynt, a chofio y gall llawer o iaith gael ei defnyddio er perffeithio ac addurno yr olygfa a ganfyddai y prophwyd. Mae yn debyg nad oes dim a bair gymmaint o attalfa i gynnydd gwybodaeth o'r rhanau cyffelybiaethol o'r Ysgrythyr Lân, a'r awydd i gymhwyso rhyw ystyr bwysig i bob ymadrodd, yn lle chwilio pa beth yw nod ac amcan yr Ysbryd wrth arfer y cyfryw ymadroddion. Mae coron yn arwydd-lun o freninoliaeth; ond oferedd a fyddai ceisio cael rhyw ystyr arwyddocäol yn mhob un o'i haddurniadau, y rhai a amrywir wrth ewyllys yr hwn a'i dangoso. Mae y sylw a wnai yr enwog NEWCOME ar y bennod hon, yn dra phriodol gyda golwg ar bob rhyw weledigaethau; "Ni's gwiw i ni allegu amgylchiadau y weledigaeth odidog hon yn rhý fanol. E ddichon mai unig wasanaeth llawer o honynt oedd llanw gwychder yr olygfa, er fod ystyr bwysig i lawer o honynt yn ddiau, y rhai y dylid eu nodi allan mewn barn bwyllog, ac nid mewn dychymyg ynfyd." Gwel Nod. ar Matt. 13. 3.—*Wele yn dyfod o'r gogledd gorwynt*, yr hyn yn ol barn rhai a ddynodai yr adfydau oeddynt ar ddyfod ar yr Iuddewon o Caldea.—*A chwmmwl mawr:* byddin Nebuchodonosor, medd rhai, Y corwynt, y cwmmwl, a'r tân, oeddynt gyffelyb i'r ymddangos-

iadau ar Sinai, ac a arwyddoccäaent fod yr un Duw yn dyfod i dalu cosbedigaeth i droseddwyr ei ddeddf. SCOTT. Mae eraill yn barnu yn hytrach mai amlygu trugaredd oedd yr amcan yn y weledigaeth, gan mai hyny a amlygid yn y Cerubiaid, neu ogoniant Duw wedi ei ddatguddio i ddynion. Mae gwynt yn arwydd-lun arferol o rymmusder yr Hollalluog, yr hwn a fuasai yn achos gwreiddiol, nid yn unig o'r hyn oll a amlygid yn yr olygfa hon; ond hefyd o holl weithredoedd grasol a thrugarog y Goruchaf. Anadl yr Arglwydd a ffurfiai y *cwmmwl mawr*, yr arwydd-lun priodol o'i ogoniant, yn enwedig pan fel yma, yn gynnwysedig o un fflam gyflawn o oleuni. Gwelai y prophwyd, yn gyntaf, gwmmwl mawr, yn cael ei yrru gan wynt cryf; ac yna y cwmmwl hwnw yn ymdorri ar unwaith yn fflam danbaid, fel yr aur dysgleiriaf yn nghanol y goleuni cryfaf. Mae y cwmmwl rhyfedd hwn, yn teilyngu ein hystyriaeth fwyaf difrifol, ar gyfrif ei bwysfawredd yn y weledigaeth hon; canys y mae yn amlwg i bob sylwedydd ystyriol, na buasai dim o'r pethau rhyfedd a ddatguddiwyd yn y weledigaeth hon, yn weledig hebddo: ac felly y mae yr holl bethau a gynnrychiolir yn y weledigaeth, yn ddyledus am eu bôd gweledig i ogoniant yr Arglwydd, yr hyn a amlygwyd mewn rhan yn yr addewidion a wnaethpwyd i'r tadau, ac yn eglur yn mherson ein Harglwydd Iesu Grist, 2 Cor. 4. 6. Heb. 1, 3. Ac y mae yn ofynol i ni gadw mewn côf nad ymddangosai y cwmmwl yn ddysglaer un amser, ond fel arwydd o'r ffafr Ddwyfol. Pan oedd y cwmmwl arwyddoccâol yn dynodi digofaint, megis i'r Aiphtiaid yn y Môr Coch, yr oedd yn dywyllwch. DAVIDSON.

Adn. 5. *Cyffelybrwydd i bedwar peth byw.* Arwydd-luniau o'r angelion, y rhai ydynt ysbrydion gwasanaethgar i Dduw yn mhedwar parth y byd. SCOTT. Nid angelion a olygir, ond yn hytrach gweinidogion yr efengyl. Gwel Dat. 4. 6—8; ac adn. 22, lle dywedir fod y ffurfafen ar eu pennau, neu oddiarnynt, tra mae yr angylion yn y drydedd nef. GILL. *Dull dyn oedd iddynt*, wrth yr hyn yr arwyddoccëid mai creaduriaid rhesymol a deallus oeddynt, o'r hyn y mae ffufr ddynol yn arwydd i ni, SCOTT.

Adn. 6. *A phedwar wyneb i bob un*, wrth yr hyn y dynodid eu doniau a'u nodweddiadau.—*A phedair aden i bob un*, yr hyn a arwyddoccäi eu cyflymder a'u bywiogrwydd mawr yn ufuddhau i orchymynion Duw. SCOTT.

Adn. 7. *A'u traed yn draed uniawn*, wrth yr hyn y dynodid symledd diniweidrwydd, ac uniondeb; a gwadn eu traed yn fforchogi *fel troed llo*, neu anifail *glân* arall, i arwyddoccâu eu purdeb perffaith, a'u sancteiddrwydd.—*A gwreichioni yr oeddynt fel lliw efydd gloyw*, trwy yr hyn yr arddangosid eu harddderchawgrwydd a'u hurddas goruchel. SCOTT.

Adn. 8. *Yr oedd dwylaw dyn odditan eu hadenydd*, er dangos

eu medrusrwydd a'u deheuder yn eu holl wasanaeth, ac ar yr un pryd, nad oeddynt yn wag ogoneddgar.

Adn. 9. Wrth fod eu hadenydd *wedi eu cyssylltu*, yr arwyddoceëid, mae yn debyg, eu hunfrydigrwydd perffaith; a'u bod yn myned yn uniawn, heb droi, a ddynodai eu dianwadalwch a'u paräad mewn ufudd-dod.

Adn. 10. Yr oedd bod ganddynt *wyneb dyn*, yn dangos eu bod yn meddu gwybodaeth, rhagwelediad, doethineb, tosturi, a dyngarwch:—*Wyneb llew*, yn arwyddo eu hyfdra a'u grym yn nghyflawniad ewyllys Duw.—*Wyneb ŷch*, oedd yn arwyddo eu nerth, eu diwydrwydd diflino, a'u dianwadalwch.—*Wyneb eryr*, eu doethineb ysbrydol, a'u serchiadau nefolaidd, â'r rhai yr ymddyrchafent goruwch pob gwrthddrychau crëedig at y ffynnonell ddigrëedig o sancteiddrwydd a dedwyddwch. SCOTT.

Adn. 11. *Wedi eu dosbarthu oddiarnodd;* neu "eu lledu i fynu," yn ol y Saesoneg, yn arwyddo eu parodrwydd i gyflawni gorchymyn eu Meistr; a'r ddwy a guddiai eu cyrph, oedd yn arwyddo eu bod yn ystyried eu gwaeledd a'u hanmherffeithrwydd yn ei bresenoldeb gogoneddus ef. SCOTT.

Adn. 12. *I'r lle y byddai yr ysbryd ar fyned, yno yr aent.* Yr oedd y creaduriaid byw hyn, yn cael eu bywioli gan un ysbryd; ac ufuddhaent i'w ewyllys ef can gynted ag y'i datguddid iddynt. BOOTHROYD. E ddichon hefyd fod hyn yn arwyddoccâu bod eu gweinidogaeth yn îs wasanaethgar yn llywodraethiad rhaglunaethol y byd, er mwyn achos crefydd, a llwyddiant yr eglwys. SCOTT.—*Ni throent pan gerddent.* Nid oedd hyn yn angenrheidiol i ba gyfeiryd bynnag yr wynebent, gan fod pob un o honynt yn meddu pedwar wyneb.

Adn. 13, 14. *Eu gwelediad oedd fel marwor tân yn llosgi*, i ddynodi eiddigedd a chariad gwresog, yn nghyda gwybodaeth a doethineb. Bod y goleuni *yn ymgerdded rhwng y pethau byw*, a allai fod yn arwyddo fod y Ffynnonell o oleuni yn cyfrannu i bob un o honynt ar wahan, fel y gwelai efe yn dda: a'r tân dysglaer oedd yn dyfod allan fel *mellt*, a ddynodai effeithiau aethus eu gweinidogaeth ar wrthddrychau dialedd Dwyfol; neu ynte, eu cyflymder mewn dyledswydd. SCOTT.

Adn. 15. *Wele ar lawr, yn ymyl y pethau byw, un olwyn, gyd a'i bedwar wyneb*, nid wedi ymgodi, fel y crybwyllir yn adn. 19. Yr oedd un olwyn yn croesi y llall yn llwyr draws, a'r pedwar cyfran a ffurfid fel hyn, a elwid yn bedwar wyneb; gwel adn. 16, 17. Mae yr Iuddewon yn arfer galw y weledigaeth hon, "y cerbyd." BOOTHROYD.

Adn. 16. *Dull yr olwynion*, y rhai oeddynt yn arwyddoccau goruchwyliaethau dirgelaidd rhagluniaeth Duw. *Esgob* NEWCOMBE.—*Fel lliw beryl*, gem o liw gwyrdd-las; a thybir fod eu cyfansoddiad odiaeth, a phrydferthwch eu lliw, yn arwyddo cyf-

iawnder, uniondeb, gwirionedd, a daioni llywodraeth rhagluniaethol Duw. SCOTT.

Adn. 17. *Ni thröent pan gerddent.* Nid aent byth yn eu hol, er dynodi nad yw rhagluniaeth yn gwneuthur dim yn ofer, ond ei bod yn wastad yn cyflawni ei hamcan. W. LOWTH. Tybir fod yr olwynion yn dynodi chwyldroadau rhagluniaeth Duw, y rhai ydynt yn rhëolaidd, er ymddangos yn ddyrus. BOOTHROYD.

Adn. 18. *Eu cantau hefyd oeddynt gyfuwch, ac yr oeddynt yn ofnadwy;* arwydd-lun amlwg o amcanion eang rhagluniaeth.—*A'u cantau oedd yn llawn llygaid oddiamgylch,* mae yn debyg fod yr olwg arnynt fel pe buasent wedi eu britho oddiamgylch â'r gemmau godidoccaf a gwerthfawroccaf. A dyma yr hyn a dynai sylw y prophwyd yn fwyaf o ddim debygid; wrth yr hyn y dynodid mae yn debyg, y wybodaeth a'r ddoethineb anfeidrol sydd amlygedig yn holl oruchwyliaethau rhagluniaethol Duw, BOOTHROYD, SCOTT.

Adn. 19—21. Fel yr oedd y pethau byw i fyned lle byddai yr Ysbryd i fyned, felly yr ydoedd yr olwynion yn eu canlyn, canys yr un ysbryd oedd yn cynhyrfu y pethau byw a'r olwynion: ac er fod yr olwynion i'w gweled ar y cyntaf ar y llawr, yr oeddynt yn fynych yn ymddyrchafu i fynu, yr hyn a all fod yn arwyddo fod goruchwyliaethau yr Arglwydd ar y ddaiar, yn gyssylltiedig â dybenion nefol, ac oll yn îs wasanaethgar i achosion yr eglwys. SCOTT. Nid all ail achosion ysgogi o honynt eu hunain; ond y mae holl ysgogiadau yr holl olwynion, yn ddarostyngedig i'r ysbryd. COBBIN

Adn. 22. *Fel lliw grisial ofnadwy,* neu "yr iâ ofnadwy." GREENHILL, BOOTHROYD. Yn eglur, yn fawreddig, a dysglaer, ac yn gymhwys i wneyd argraff o ddifrifwch a braw ar y meddwl. Efallai hyn hefyd arwyddo fod gweinidogaeth angelion yn hollol ddarostyngedig ac anfeidrol islaw mawrhydi a gallu Duw. SCOTT.

Adn. 24, 25. *Fel swn dyfroedd lawer.* Tra yr ydoedd y pethau byw yn cyflawni eu cennadwri dan y ffurfafen, yr oedd swn eu symmudiad yn gyffelyb i dwrf dyfroedd nerthol, neu daranau arswydus, a elwir yma yn swn yr Hollalluog, neu floedd llu, yr hyn sydd yn rhoddi i ni ddrychfeddwl am nerth a lluosawgrwydd yr ysbrydion gwasanaethgar hyn; ond wedi iddynt gyflawni eu cennadwri, a llaesu eu hadenydd, yr oedd llais i'w glywed oddiar y ffurfafen; yr hyn efallai sydd yn arwyddo cymeradwyaeth Dwyfol o'u gwasanaeth, neu roddiad cennadwri iddynt drachefn. SCOTT.

Adn. 26—28. Wedi arddangos arwydd-luniau o weinyddwyr bwriadau rhagluniaethol Duw Israel, y mae rhyw gip olwg ar ei ogoniant Dwyfol yn cael ei roddi yma; ond y mae yn fwy aneglur na'r hyn a fu eisoes dan ystyriaeth. Nid oedd y prophwyd

yn gweled gorseddfainc yn wirioneddol; ond cyffelybrwydd i un, sef, darlun o awdurdod benarglwyddiaethol y Jehofah ar bob peth, ar yr holl fyd a'r eglwys: ac yr ydoedd *fel gweledigad maen saphir*, sef yn dra phrydferth a godidog.—*Ac ar gyffelybrwydd yr orseddfainc yr oedd—megis gweledigad dyn*, neu "Adda," yr hwn yn ddiau a a ddynodai y Tragywyddol Fab, yr Ail Berson yn y Drindod sanctaidd, yr hwn wedi hyny a gymerodd natur dyn; yr Ail Adda, yr Arglwydd o'r nef. SCOTT.—Yr oedd gweledigad ei gorff o'i lwynau i fynu, yn llewyrchedig fel yr aur dysgleiriaf yn nghanol y goleuni tanbeidiaf, gwel adn 4; a'i aelodau, o'i lwynau i waered, oeddynt gyffelyb yr olwg arnynt i golofnau o dân; a dysglaerdeb cyffelyb i'r *bwa*, yn ei ffurf a'i olygiad perffeithiolaf; ac yn ddiau y mae yr Hwn y portreasid ei berson, ei swydd, a'i ogoniant, fel hyn, yn cynnwys ynddo ei hunan amlygrwydd o fawrhydi anfeidrol yr Arglwydd, yn nghyd a goludoedd ei drugaredd a'i ras tuag at ddyn; cymh, Dat. 1. 13—16. a 4. 1—3 a 10. 1. Esa. 54. 6--10. Yr oedd hwn yn frenin ar ei orseddfainc, ac yn archoffeiriad a phrophwyd anffaeledig; gwel pen. 2. 1. a 9. 1—7. a 10. cymh. Ioan 1. 14. Heb. 1. 1—3. Ni buasai yr un amlygiad o'r arwydd o'r gogoniant yn Israel erioed yn cyfatteb i hyn. Yr arwydd gweledig oedd gwmmwl dysglaer yn aros ar y drugareddfa; ac ar rai achlysuron annghyffredinol, yn llanw y deml â gogoniant: ond y mae yn debyg nad oedd y gogoniant dysglaer yma ond bach mewn cydmariaeth i'r hyn a welodd Ezeciel. Ond pa faint bynag mwy neu lai y llewyrchai y cwmmwl arwyddoccäol, yr oedd e bob amser o natur ddysglaer, annïoddefol i olygon gweiniaid dyn ddal yr olwg arno; canys yr oedd yn arwyddlun o fawrhydi, cyfiawnder, a gallu y Duw mawr, ac ni's gallai neb sefyll o'i flaen; ac ni's gallai neb ddymuno dynesâu atto, heb gael sicrwydd fod y bod ofnadwy a breswyliai ynddo, yn aros ar y drugareddfa. ac yn cadw y cyfammod âg Abraham, Isaac a Jacob. Gan hyny, mae yn rhaid fod gweled yn y dysglaerdeb a amgylchynai yr orsedd, a'r Dyn a eisteddai arni, oleuni tyner a phrydferth y bwa, yn chwanegu synedigaeth y prophwyd. Ni's gwelsid amlygiad cyffelyb o ogoniant yr Arglwydd yn Israel. A pho mwyaf a feddyliai Ezeciel a'i frodyr am yr olygfa, mwyaf raid fod y tangnefedd, y llawenydd, a'r gobaith, a gynnyrchid trwy hyny yn eu hysbrydoedd trallodedig; canys hwy a wyddent o'r cynoesoedd, fod ymddangosiad y bwa ar ddiwrnod gwlawog, yn un o'r amlygiadau mwyaf nodedig o drugaredd a chariad annewidiol eu Duw. Ymddangosai fel pe buasai wedi eu gwrthod, ond gweled fod hyny yn anmhossibl, gan eu bod yn gweled fod bwa ei gwmwl yn ei ddysglaerdeb; ei arwydd ef ei hunan o garedigrwydd tragywyddol i ddynion. Pe buasai Israeliad goleuedig yn dwys ystyried y rhan yma o'r weledigaeth, efe a allasai gasglu, fod trugaredd yn nghadw i'r byd, cystal ag i'w

genedl ef ei hunan; canys dyma oedd yr addysg a gyfrenid er dyddiau Noah, trwy ymddangosiad y bwa: yr oedd yn arwydd gwirioneddol yn mhob oes a gwlad, o gymmwynasgarwch cyffredinol y Duwdod. A chan ei fod yn amgylchynu yr orsedd, a'r Dyn oedd arni, nid oedd y casgliad yn mhell nac annaturiol, ei fod ef yn gyfaill i ddynolryw, a bod ei orsedd wedi ei sefydlu er gweinyddu daioni, heddwch, a thrugaredd, i holl dylwyth y ddaiar oddiarni. A thra yr ymresyment fel hyn, rhaid fod ymddangosiad y bwa yn gynnorthwy mawr i'r rhai doethion yn mysg yr Israeliaid i ddeongli yr amrywiol brophwydoliaethau am y Messiah fel Gwaredwr y Cenhedloedd, cystal a'r Iuddewon. Canys iaith eglur yr olygfa hon oedd, "Ar y ddaiar tangnefedd, i ddynion ewyllys da." DAVIDSON. Yr oedd y weledigaeth hon yn arddangosiad amlwg o'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, cnawdoliaeth yr hwn ydyw sail y cyfammod o drugaredd Duw tuag at ddynion; ac yr oedd yr enfys, arwydd o ras neu drugredd, yn hynod o brïodol i'w chanlyn, Dat. 10.1. LOWTH.—Y *bwa*, ydoedd arwyddlun adnabyddus o'r cyfammod gras, yn yr hwn y cynnrychiolid trugaredd a chariad cyfammodol Duw i'w bobl, mewn cymmod perffaith â'i gyfiawnder a'i burdeb ofnadwy; a bod ei freniniaeth yn cael ei gweinyddu, gyda golwg ar, a gofal am gyflawni y cyfammod newydd. SCOTT, &c.

## PEN. II.

Adn. 1, 2. *Mab dyn.* Gelwir Daniel wrth yr enw yma un waith; ond Ezeciel yw yr unig brophwyd a gyferchir yn gyffredinol dan yr enw yma. Yr oedd efe megis wedi ei dderbyn i gymdeithas yr ysbrydion, ger bron yr orseddfainc; ond nid oedd hyny yn achos iddo annghofio mai mab dyn ydoedd, plentyn i Adda, creadur pechadurus, marwol, a thrancedig. SCOTT. Llefarai yr Arglwydd Iesu am dano ei hunan yn aml fel "Mab y dyn," i ddynodi ei fod ef wedi cymeryd y natur ddynol i'w berson, ac mai efe oedd yr hwn y prophwydasai Daniel am dano. BOOTHROYD.—*Ac a'm gosododd ar fy nhraed.* Yr oedd y prophwyd wedi cwympo ar ei wyneb yn ol dull y dwyreinwyr; ond efe a nerthid gan ysbryd, neu "allu" Duw, fel y mae y geiryn yma yn arwyddo, fel y gallai wrando a gwneuthur yr hyn a orchymynid. Cymh. Luc 1. 35. 1 Bren. 18. 12. 2 Bren. 2. 8.

Adn. 5. *Cant wybod fod prophwyd yn eu mysg hwynt.* Bydd y canlyniadau yn atteb i'th rag ddywediadau di, ac yn gwneyd dy awdurdod yn ddiamheuol, a hwythau yn ddiesgus am beidio gwrando ar dy rybuddion di. LOWTH.

Adn. 6. *Gwrthryfelwyr a drain*, yn nghyd ag *ysgorpionau*, oeddynt gyffelybiaethau cyffredin i ddarlunio y rhai gwaethaf a mwyaf annuwiol yn mysg dynion; gwel Mica 7. 4. Esa. 27. 4. Cysylltir ysgorpioniau a drain a mieri, am eu bod i'w cael yn eu plith yn aml; a gorfod byw yn mysg y cyfryw rai oedd brofed-

igaeth fawr yn ddiau; am hyny y rhybuddir y prophwyd i ymarfogi â chalondid ac âg amynedd.

Adn. 8, 9. *A bwytta yr hyn yr ydwyf yn ei roddi i ti;* hyny yw, derbyn yn awyddus a chroesawgar y datguddiad Dwyfol, fel ymborth yr enaid: ond y mae y cyfdestyn yn rhoddi ar ddeall i ni na byddai y cwbl o gynnwys y datguddiad yma yn beraidd i'r archwaeth, na dymunol i deimladau y prophwyd; cymh. Jer. 15. 16, 19, 21. Dat. 10. 9, 10.

Adn. 10. *Ac yr oedd efe wedi ei ysgrifenu wyneb a chefn.* Arferid ysgrifenu yr hen lyfrau gynt ar femrwn neu ryw ddefnyddiau eraill, a'u plygu am bren crwn, neu ifori, ac yn dra chyffredin, o'r tu fewn yn unig y byddent wedi eu hysgrifenu; ond yr oedd hwn wedi ei ysgrifenu oddiallan hefyd, i arwyddo yn ddiau fod llawer o'r amgylchiadau a barent *alar, a griddfan, a gwae,* ar gymeryd lle.

## PEN. III.

Adn. 1—3. Mae yr un weledigaeth yn parhau, ac efe a ddychymygai ei fod yn bwytta y plyg llyfr, a'i fod yn felus yn ei safn. Mae KIMCHI yn sylwi fod yr ymadroddion hyn a lefarid wrth y prophwyd, yn rhoi ar ddeall iddo y dylai efe fyfyrio yn ddyfal ar yr hyn a fynegid iddo gan Dduw.

Adn. 8. *Gwnaethum dy wyneb yn gryf,* fel na's cywilyddid ac na's llwfrheid ef ger eu bron, pa fodd bynnag yr ymddygent hwy tuag atto ef. Cymh. Jer. 1. 18. BOOTHROYD.

Adn. 12—15. *Yr ysbryd a'm cymerodd,* mewn gweledigaeth, medd rhai; ond y mae yn debyg iddo gael ei gipio mewn gwirionedd trwy yr awyr, a'i ddodi i lawr wrth drigias y gaethglud; cymh. Act. 8. 30. 2 Cor. 12. 3. Tra yr oedd yn cael ei ddwyn ymaith fel hyn, efe a glybu *swn cynnwrf mawr.* Mae rhai yn tybied fod y twrf yn arwydd o'r chwildroadau mawrion yr oedd efe ar ddechreu rhagfynegi am danynt. Yr ydoedd y swn yn dyfod oddiwrth y pethau byw, y lluoedd o angelion, y rhai ar yr un pryd oeddynt yn clodfori gogoniant yr Arglwydd o'i le, neu, yn mawrygu yr amlygiadau o'i ogoniant ef yn y goruchwyliaethau a'r gosodiadau hyn.—*A mi a aethum yn chwerw yn angerdd fy yspryd.* Y llawenydd a brofasai ar y dechreu, wrth dderbyn y gennadwri Ddwyfol, a drowyd yn ing a braw iddo, yn yr olwg ar y blinderau oedd i ddyfod ar y bobl; ac efallai, oblegyd y gwrthwynebrwydd yr ydoedd yntau i'w gyfarfod oddiwrthynt. Ond yr oedd efe yn analluog i wrthsefyll y gallu Dwyfol oedd yn myned ag ef yn mlaen. felly efe a ddygwyd at y gaethglud oedd yn *Tel-abib,* yr hon, ond odid, oedd Drefedigaeth wahanol i'r un a grybwyllir yn pen. 1. 3. Efe a arhosodd yma saith niwrnod yn eu plith, heb draethu ei gennadwri, gan sylwi ar ymddygiadau y gaethglud; neu, fel y tybia rhai, i aros y Sabboth, fel yr oedd yn

amser mwyaf manteisiol i lefaru wrthynt. Ond efe a lanwyd â syndod a braw, gan yr hyn yr oedd yn ei weled ac yn ei glywed. SCOTT, LOWTH, BOOTHROYD, DAVIDSON.

Adn. 16—21. Os oedd y prophwyd yn drallodus a phryderus gan ofn y profedigaethau oeddynt i'w gyfarfod yn ei swydd, yr oedd cyfaddasrwydd neillduol yn y gennadwri hon i gyffroi holl alluoedd ei feddwl; os byddai yn ffyddlawn, mawr fyddai ei wobrwy; ond os yn anffyddlawn, mor ofnadwy a fyddent y canlyniadau! Mae rhai yn ceisio defnyddio yr ymadroddion yma er cefnogi eu golygiad y dichon i rai wedi eu gwir adgenhedlu, gwympo i bechod yn y fath fodd ag i fod yn golledig yn y diwedd; ond y mae yn anmhossibl cyssoni y fath olygiad â natur y cyfammod tragywyddol, dwyfol effeithioldeb yr Ysbryd a'r gwirionedd yn nghalonnau plant Duw, yr addewidion neillduol a roddir iddynt, a thystiolaethau pendant gair Duw; gwel Jer. 32. 39—41. Ioan 10. 28. 1 Pedr 1. 3—5. 1 Ioan 2. 27. a 3. 9. Heb. 6. 16—20. Phil. 1. 6. Ac y mae yn dra hawdd egluro yr ymadroddion a gynnwysir yn y cyfarchiad yma yn eithaf cyson â'r golygiad o baräad y saint yn y ffydd, hyd angau. Felly nyni a allwn olygu Duw yn llefaru yma, fel y gwna yn gyffredin, am y rhai a'u proffesent eu hunain yn gyfiawn, yn ol eu hymddangosiad ger bron dynion. E addefa pawb, fod llawer a welwyd mor debyg i bobl Dduw, nes eu cyfrif gan eu holl gydnabod fel perchenogion crefydd dda, wedi gwrthgilio, a meirw yn eu pechodau. Ac y mae eu gwrthgiliad yn brawf, nid o'u bod wedi eu gwir ddychwelyd, ond naill ai eu bod hwy wedi eu twyllo eu hunain, neu geisio twyllo eu cyd-ddynion; cymh. Ioan 15.23. 1 Ioan 2 19. Heblaw hyny, hwyrach na's gall neb fod yn eithaf pendant, fod yr einioes a'r angau a sonir am danynt yma, yn dragywyddol. Tra fu yr eglwys dan oruchwyliaeth cyfryngiad gwyrthiol y gallu Dwyfol, yr hwn yn achlysurol a roddid ar weithrediad i gyfrannu bendithion arbenig, neu weinyddu barnedigaethau neillduol, ar ei haelodau; yr oedd iechyd a hir einioes yn cael ei addaw yn anammodol i'r ufudd; ac afiechyd ac angau yn cael ei fwgwth ar yr anufudd; ac nyni a wyddom am rai a syrthiasant dan yr olaf, heb fod yn golledig dragywyddol, megis Miriam, Aaron, a Moses. DAVIDSON,—*Gan farw y byddi farw*, o angau anamserol, os nid trwy lofruddiaeth a thrais. BOOTHROYD.—*A rhoddi o honof dramgwydd o'i flaen*, y cyfryw demtasiwn, neu achlysur i bechod, ag sydd yn cymeryd lle yn aml yn ngoruchwyliaeth rhagluniaeth, a'r hyn y gallem, ac y dylem eu gochelyd. Felly y mae adfyd a hawddfyd, yn profi o ba ysbryd y mae dyn, ac er fod y cyfryw bethau ynddynt eu hunain yn meddu cyfaddasrwydd i fod yn wir lesol i ddyn, eto trwy fod ei galon ef mor drofäus a chyndyn, y maent yn achlysuron i'w daflu i ffosydd ffiaidd pechod yn aml, ac i beri iddo adael gwir grefydd; gwel Rhuf. 11. 7—10.—*A'i gyf-*

*iawnder, yr hwn a wnaeth efe ni chofir*, gan y'i cyfrifir yn annheilwng o le yn mysg gweithredoedd da. Gwel Galar. 2. 1.—*Ond ei waed ef a ofynaf ar dy law di.* Nyni a allem feddwl fod cyfeiriad yma at swydd Dïalydd y gwaed dan y ddeddf, Gen. 9. 5. Num. 35. 12; ac yn gosod allan yn dra grymmus, dosturi anfeidrol yr Arglwydd, a'i ofal digyffelyb am ddedwyddwch dyn. Efe yw y cyfathrachwr agosaf i bob un o feibion dynion, ac mor hynod yr amlygodd ei hawlion digyffelyb i'r berthynas yma, trwy anfon ei anwyl unig anedig Fab, i amddiffyn achos y rhai a'i derbynient ef fel Gwaredwr dynolryw, Iachawdwr y byd! A'r Prynwr hwn yw y Barnwr hefyd, yr hwn a ofyn gan bob dyn, waed y dyn yma, ei frawd; a'r cyfryw yw pob dyn yr hwn ni's rhybuddiodd efe i ffoi oddiwrth y digofaint sydd ar ddyfod. DAVIDSON.

Adn. 22—27. *A dos i'r gwastadedd,* neu y dyffryn, yr hwn a ddewisid ar gyfrif ei annghyoeddusrwydd, mae yn debyg, fel y byddai iddo gael datguddiad pellach o ogoniant Duw a'i ewyllys. Ac efe a gyfarwyddwyd i fyned a chau ei hunan i fynu yn ei dŷ; a dysgwyl yno am hyfforddiadau mwy neillduol, mewn ymneillduaeth, gweddi, a myfyrdod.—*Wele hwy a roddant rwymau arnat.* Naill ai fe'i rhwymid gan ei dylwyth, wrth ei orchymyn, neu gan ei elynion, yn erbyn ei ewyllys; y mae y perwyddiad yn anmhersonol yn y testyn gwreiddiol,—"Wele rhwymau a ddodir arnat, a thi a rwymir â hwynt." BOOTHROYD. Mae eraill yn barnu mai yr un gallu ag a'i tarawodd â mudandod dros dymhor, gan wneuthur ei beirianau ymadrodd yn ddirym, a'i rhwymodd ef hefyd, cymh. pen. 4. 8. Os felly, yr oedd cyflwr darostyngedig y prophwyd, wedi ei gau allan o gymdeithas dynion, a'i amddifadu o'r mwynäad o gennadwri oddiwrth Dduw, trwy gyfyngiad gwyrthiol y Nef, yn ddarluniad nodedig o gyflwr carcharorion wedi eu gadael gan Dduw a dyn; i'r hwn gyflwr yr oedd Duw wedi penderfynu dwyn Israel am eu pechodadau. DAVIDSON.

## PEN. IV.

Adn. 1—3. Fe roddwyd yr arwydd rhagfynegol hwn pan oedd pob peth yn dangnefeddus, o leiaf bedair blynedd cyn dechreu y gwarchae ar Jerusalem, a phan na's gallasai un synwyr dynol ragweled y cyfryw amgylchiad. Yr oedd y priddlechau â'r rhai yr adeiladai yr henafiaid eu tai yn y gwledydd Dwyreiniol yn lled fawrion yn gyffredin, rhai o honynt yn ddwy droedfedd o hyd, troedfedd o led, a thua phedair modfedd o drwch, ac o ganlyniad yn ddigon eu maint i bortreiadu y pethau a grybwyllir arnynt. —*Warchglawdd*, neu dwr.—*Offer rhyfel,* math o beiriant a ddefnyddid i dorri bylchau yn muriau dinasoedd. Eu dull cyffredin oedd fel y canlyn; dodid dau bren praff yn syth mewn gwadn gref, a thrawst mawr o'r naill i'r llall; yna o'r trawst hon yr oedd

cadwyn haiarn yn crogi, wrth yr hon y sicrheid darn mawr o bren, tebyg i fôn coeden, a'i ben o haiarn, a chyrn fel cyrn hwrdd arno, wrth yr hwn y rhwymid rhaffau, yn y rhai y cydiai y milwyr i'w dynu yn ol, gan ei ollwng i daro y pen haiarn ar y muriau, ac felly y gwneid adwyon yn y muriau cadarnaf.—*Padell haiarn*, o'r fath a arferid i grasu teisenau arni ond odid, yr hon yr oedd i'w harfer fel arwydd o ddiogelwch byddin y Caldeiaid, yn eu gwarchaëedigaeth ar Jerusalem, oddiwrth bob rhuthriadau o'r ddinas: neu ynte, i arddangos yr ysgariad trwyadl a fyddai rhwng Duw a'r gwerchaëedig.

Adn. 4—8. *Gorwedd hefyd ar dy ystlys aswy;* yr oedd efe i wneuthur hyn yn ei dŷ ei hun, pen. 3. 24. Nid ydys i ddeall fod yn rhaid iddo orwedd yn yr ystum yma yn ddiball, dros gymmaint o amser ag a nodir yma, ond yn unig yn y cyflawniad o'i swydd brophwydol, dros y rhan hyny o bob dydd, ag y byddai dynion yn debyg o sylwi ar ei ymddygiad ef.—*A gosod anwiredd*, neu tystia wrthynt dy fod trwy hyny yn arddangos eu cosbedigaeth. Yr oedd y *tri chan niwrnod, a deg a phedwar ugain*, pob diwrnod yn cynnrychioli blwyddyn, yn gosod allan yn fanol yr yspaid o'r flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Jeroboam, pan ddechreuodd eilunaddoliaeth fel pechod gwladol yn Israel, 1 Bren. 12. 33, hyd y flwyddyn y cymerwyd Jerusalem gan Nebuchodonosor. BOOTHROYD, NEWCOMBE, SCOTT, &c. *Y deugain niwrnod* y gorfyddai y prophwyd orwedd drachefn ar ei ystlys ddehau, oedd yn dynodi y deugain mlynedd o amser y diwygiad gan Josiah, hyd hollol annghyfanneddiad y wlad, a'r achos mwyaf uniongyrchol o'r gwrthdro aethus hwnw.—SCOTT.—*A'th fraich yn noeth*, i ddynodi parodrwydd i frwydr. W. LOWTH. Gwel Esa. 52. 10. Amcan yr ymadrodd yw dangos mor barod, diwyd, a chyflym, y byddai y Caldeaid yn dwyn y gwarchae yn mlaen, hyd oni chymerent y ddinas. GILL. *Rhoddais rwymau arnat.* Dywedir fod Duw yn gwneyd yr hyn a wnaed mewn canlyniad i'w orchymyn ef. Gwel ar pen. 3. 25. BOOTHROYD. Yr oedd agwedd y prophwyd yn dangos mewn modd tra grymmus, mor anobeithiol fyddai cyflwr y gwarchaëedig; y rhai ni's gallent eu gwaredu eu hunain mwy nac y gallasai dyn wedi ei gadwyno gan yr Arglwydd ei hunan. DAVIDSON.

Adn. 9—17. Gorchymynir yma i'r prophwyd ragddangos y newyn a oresgynai drigolion y ddinas yn yspaid y gwarchae, ac yn mysg y caethion, trwy y lluniaeth oedd i'w gymeryd tra yn gwneyd yr arwydd iddynt. Yr oedd yn rhaid iddo wneyd ei fara, yr hwn oedd ei gynnaliaeth bennaf, o amrywiol fath o rawn, a ffacbys wedi eu cydgymmysgu; ac anfynych y defnyddid rhai o'r grawn hyny i wneyd bara, oddieithr ar amserau o galedi dirfawr. Heblaw hyny, nid oedd efe i gymeryd o'r bara garw, anflasus

yma, ond ychydig mwy na deng wns yn y dydd, ac ni chaniattëid iddo yfed ond tua hanner peint yn dydd o ddwfr, heb unrhyw wlybwr arall, er dangos y byddai iddynt gael eu darostwng yn yspaid y gwarchae i'r fath gyfyngder, fel nas gallent gael ond cyfran fechan iawn o'r ymborth garwaf, ac y byddai raid iddynt ddyoddef llawer o herwydd newyn a syched. SCOTT.—*Ti a'i cresi hefyd wrth dail tom dyn.* Yr oedd biswail anifeiliaid wedi ei sychu yn cael ei arfer yn danwydd yn y Dwyrain yn gyffredin, fel y'i harferir gan dlodion llawer parth o'n gwledydd ninnau; ond yr oedd y gorchymyn yma a roddid i'r prophwyd wedi ei amcanu i arwyddo y byddai i breswylwyr y ddinas gael eu darostwng i'r fath gyfyngder am danwydd yn yspaid y gwarchae, fel, gan nas gallant fyned allan i'r wlad i gasglu biswail anifeiliaid, y'u gorfodid i ddefnyddio tom ddynol wedi ei sychu yn danwydd. A. CLARKE.—*Ni halogwyd fy enaid;* hyny yw, ni throseddasai efe un amser y cyfreithiau o barth ymborth glân ac aflan; ond nid oedd y ddeddf seremonïol yn dywedyd dim yn nghylch y peth hwn y cwynai y prophwyd yn ei erbyn; eto tosturiai yr Arglwydd wrth deimlad tyner ei was. DAVIDSON.

## PEN. V.

Adn. 1—4. Yr oedd y dwyreinwyr yn rhoddi mawr fri ar eu gwallt, 2 Sam. 10. 5; ac ni oddefid i offeiriad eillio ei ben ar un cyfrif, hyd yn nod ar dymhor galar; gwel pen. 44. 20. Lef. 21. 5 Yr oedd Jerusalem wedi bod yn ben dinas i genedl Israel, ac wedi ei haflonyddu yn fwy na holl ddinasoedd y ddaiar; ei thrigolion lluosog oeddynt ei haddurn a'i nerth, fel y mae gwallt yn addurn y pen, a'r farf yn arwydd o ddynoliaeth. Ond yr oedd y ddinas i gael ei hannghyfanneddu, a'i gwneyd yn wastad â'r llawr; ac felly yr oedd ei nherth a'i haddurn i gael eu cymeryd ymaith; hyd oni byddai, fel y Nazaread wedi ei eillio yn diddymu ei adduned, Num. 6. 5; felly, mae yn debyg fod hyn yn arwyddo fod ei chyssegriad hithau i Dduw, wedi ei ddinystrio trwy ei phechodau. Yr oedd pwyso y gwallt yn arwyddo y cyfiawnder cywir, a'r doethineb manwl, oedd wedi rhoi trigolion Jerusalem i fynu i'w hamrywiol gosbedigaethau. Y trydydd rhan o'r gwallt oedd i gael ei losgi ar ganol y darlun o'r ddinas, ar ddiwedd y dyddiau y bu y prophwyd yn gorwedd o'i blaen, oedd yn arwyddo y byddai i lawer o'r Iuddewon a gymerent noddfa yn Jerusalem, feirw trwy newyn, haint, neu losgiad, yn yspaid amser y gwarchae ar y ddinas, neu ar ei derfyn; a'r rhan a darewid â'r gyllell neu â'r cleddyf, a arddangosai y rhai a leddid gan y gwarchaewyr wrth geisio ffoi o'r ddinas; a'r rhan oedd yn cael ei thaenu gyd a'r gwynt, ac arddangosai y rhai a fföent, neu a gaethgludid i wledydd eraill, y rhai a erlynid gan gyfiawnder Duw, a chreulondeb eu gelynion, yn mhob man. Yr ychydig wallt y gorchym-

ynwyd i'r prophwyd ei rwymo yn ei odre, fel pe buasai i'w gadw, ond fod rhan o hono eilwaith i gael ei fwrw i'r tân, oedd yn arwyddo, y gweddill a adawwyd yn y wlad dan Gedaliah, ac yn ymddangos fel pe buasent wedi eu sefydlu mewn diogelwch, hyd oni laddwyd Gedaliah, a'r gweddill yn ffoi i'r Aipht, yr hyn a siommodd eu holl obaith am heddwch. SCOTT.

Adn. 5—10. Yr oedd cenedl Israel wedi ei neillduo oddiwrth y cenhedloedd eraill, a'i chyfleu megis yn nghanol y byd adnabyddus y pryd hyny; ac iddynt hwy y rhoisai Duw ei oraclau sanctaidd, gan amlygu y tiriondeb mwyaf tuag attynt, a chyflawni erddynt y gweithredoedd rhyfeddaf, fel yr adnabyddid ei enw drwy yr holl ddaiar. Gan eu bod wedi eu cymhwyso mor ragorol fel hyn i lewyrchu i'r cenhedloedd oeddynt yn eistedd mewn tywyllwch, yr oedd eu hymddygiad annuwiol a rhagrithiol yn fwy pechadurus a dinystriol.—*A hi a newidiodd fy marnedigaethau i ddrygioni yn fwy na'r cenhedloedd*, neu "A hi a wrthryfelodd yn ddrygionus yn erbyn fy marnedigaethau yn fwy na'r cenhedloedd." BOOTHROYD. —*Am i chwi amlhau yn fwy na'r cenhedloedd sydd o'ch amgylch.* Yr oeddynt wedi myned yn mhellach oddiwrth orchymynion Duw, ac amlhau eu ffieidd-derau yn fwy na'r cenhedloedd eu hunain. SCOTT.—"Am i chwi amlhau eich pechodau yn fwy na'r cenhedloedd." VULGATE.—*Ac na wnaethoch yn ol barnedigaethau y cenhedloedd;* hyny yw, nid oedd eu hymddygiad hwy mor gysson a zelog dros y wir grefydd, ag a fuasai y cenhedloedd dros un gau, cymh. pen. 16. 47. Jer. 2. 10, 11, W. LOWTH.—*A gwnaf ynot yr hyn ni's gwnaethum, ac ni's gwnaf ei fath mwy.* Yr oedd dyoddefiadau yr Iuddewon oddiwrth Nebuchodonosor, Titus, ac Adrian, yn ddigyffelyb. NEWCOMBE.—*A fwytant y plant, &c.* Gwel hyn yn cael ei fygwth yn Lef 26. 27. Deut. 28. 53, 55, 57; a'r cyflawniad yn 2 Bren. 6. 28, 29; yn ystod gwarchaedigaeth Nebuchodonosor, Galar. 4. 10; a'r gwarchae dan Titus Vespasian. Gwel JOSEPHUS *ar ryfeloedd yr Iuddewon.*

Adn. 12. *Dy draian*, neu drydedd ran, gwel adn. 2, a phen. 6. 12. Jer. 15. 2. a 21. 9.—*A thynaf gleddyf ar eu hol hwynt;* wrth yr hyn y dywedir y byddai i gleddyf Duw eu dilyn hwynt yn barhaus.

Adn. 13. *Ac ymgysuraf;* benthycir ymadroddion o'r fath yma oddiwrth ymddygiadau a theimladau dynion, y rhai ydynt megis yn cael esmwythäad i'w teimladau wrth ymddïal ar eu gelynion. Nid oes genym ni yr un synied cywir am briodoliaethau naturiol Duw, ei hanfod pur, ei ddull o fod, a'i ddull o weithredu; gan hyny, pan fynem ymdrin â'r pethau hyn, yr ydym dan angenrheidrwydd i'w darlunio drwy wrthddrychau adnabyddus i'n syniadau anianol. Pan fyddo dyn wedi cael cam a dianrhydedd mawr, fe'i cysurir, neu fe esmwythêir ei feddwl, pan allo olchi ymaith y cyfryw ddïanrhydedd. Yr oedd yr Iuddewon wedi di-

anrhydeddu Duw yn ddirfawr, a pheri i'r cenhedloedd gablu ei enw sanctaidd ef; ond yr oedd ei farnau ef arnynt yn amlygu ei fawrhydi, ei sancteiddrwydd a'i gyfiawnder, yn cau geneuau ei gablwyr, ac yn dychwelyd anrhydedd i'w ddeddf a'i addoliad. DAVIDSON.

Adn. 16. *Pan anfonwyf arnynt ddrwg saethau newyn.* Dyma ddull barddonawl godidog o lefaru. Gallasai newyn gael ei anfon drwy amrywiol ffyrdd, trwy locustiaid, cenllysg, tymhestloedd, sychder, &c. BOOTHROYD.

## PEN. VI.

Adn. 1—3. *Mynyddoedd Israel.* Cyferchir y mynyddoedd mewn modd arbenig, fel eisteddleoedd cyffredinol eilunaddoliaeth. ROSENMULLER. Wedi i'r deg llwyth gael eu caethgludo, mae Judah yn cael ei galw *Israel*, o herwydd eu bod hwy yn meddiannu rhan fawr o dir eu brodyr caethgludawl. SECKER. Mae yr holl wlad yn hytrach yn cael ei chyfarch yn ei thrigolion, a gynnrychiolir yma trwy gyffelybiaethau; y *mynyddoedd* a'r *bryniau* a ddynodent y gwŷr mawr; y *nentydd* a'r *dyffrynoedd* a arwyddocäent y tlodion a'r rhai iselradd. Yr oedd gwlad Judea ar y cyfan yn fynyddig, ac yn cael ei chroesi gan ddyffrynoedd, a'i britho â nentydd, Exod. 15. 17. Deut. 3. 25. Esa. 5. 1. DAVIDSON.

Adn. 4. *Eich haul ddelwau*, y rhai a gyfodasid er anrhydedd i'r haul. W. LOWTH.—*O flaen eich eilunod.* Lle y cyflawnent hwy eilunaddoliaeth, yno eu lleddid. GILL. Hwyrach eu bod yn ffoi at yr eilunod am nodded. CALMET.

Adn. 9. *Am fy nryllio â'u calon buteinllyd*; neu, "Pan dorwyf eu calon, yr hon gan grwydro a ymadawodd oddiwrthyf."—BOOTHROYD.

Adn. 11. *Taro â'th law, a chur â'th droed, &c.*, gweithredoedd arwyddocäol o ddigofaint, anfoddlonrwydd, a thrallod. POOLE.

Adn 14. *Diblath;* yr un fel y tybir ag a grybwyllir yn Num. 33, 47, a Jer. 48. 22; yr hon oedd randir o Moab, ac a wnai i fynu ran o'r anialwch diffaeth yr oedd yn rhaid i Israel fyned drwyddo, Deut. 8. 15.

## PEN. VII.

Adn. 2, 3 Wedi prophwydo o'r blaen yn erbyn mynyddoedd Israel, mae y prophwyd yma yn tystio fod diwedd gerllaw ar yr holl dir, ac y byddai i'r gelyn anrheithio pob rhan o honaw. BOOTHROYD.

Adn. 4. *A'th ffieidd-dra fydd yn dy ganol di.* Ymadrodd yn dynodi cyhoeddusrwydd y barnedigaethau o herwydd eu llymder, eu nifeiri, a'u maint, pen. 5. 5. Diar. 5. 14. Zech. 5. 4. Byddai eu ffieidd-derau yn amlwg yn eu cosbedigaeth.

Adn. 5. *Drwg, drwg unig*; neu drwg di eilfydd, un a gynnwysa yr holl adfydau eraill, 1 Sam. 26. 8. Mae llawer yn darllen.—"Wele drwg a ddaw ar ol drwg." DAVIDSON.

Adn. 6, 7. Mae geiriau yr ail adnod yn cael eu hail adrodd yma, *Diwedd a ddaeth, daeth diwedd*, ac ynddynt y mae *diwedd* fel pe byddai yn cael ei bersonoli.—*Y mae yn gwylio*, neu wedi deffroi am danat. Yr oedd yr amser a arfaethasid ac a ddatguddiasid gan y Nef, pan fyddai i gospedigaeth ddisgyn arnynt, wedi bod yn ymddangos megis pe buasai yn cysgu; ond yr awrhon yr oedd wedi deffroi fel gweinydd cyfiawnder wrth orchymyn ei arglwydd, ac yn sefyll yn barod i gyflawni yr hyn a erchir iddo.—*Ac nid adsain mynyddoedd*, cyfeiriad, hwyrach at un gwyliedydd yn galw ar y llall i'w hysbysu o ysgogiadau y gelyn, neu ansawdd y wlad, hyd oni byddai i'r nesaf i'r brif ddinas roddi yr hysbysiad i'r llywodraeth: ac y mae yn debyg mai ystyr y geiriau yw, bod pob rhybuddio ar ben, am fod yr ymrysonfa olaf drosodd, a'r gelyn wedi llwyr fuddugoliaethu. DAVIDSON.

Adn. 10, *Blodeuodd y wialen, &c.* Nebuchodonosor oedd wïalen llid Duw, (Esa. 10. 5.) a thywysog balch; ac yr oedd efe bron yn barod i gael ei ddefnyddio fel offeryn Duw. GILL.—Yn hytrach, gwialen traha a drygioni, (adn. 11.) sydd yn ffynnu yn mysg yr Iuddewon, a'u balchder yn cynnyddu. NEWCOMBE. Mae yn debyg fod yr ymadroddion hyn yn arwyddoccâu cynnydd gormes ac annghyfiawnder yr Iuddewon, yn nghyd a'u balchder annuwiol, yr hyn a'u haddfedodd i'w cosbedigaeth. COBBIN.

Adn. 12. *Na lawenyched y prynwr;* canys ni cha fwynhau nemmawr o'i feddianau:—*ac na thristâed y gwerthwr;* canys ni's gallasai gadw yr hyn a werthodd nemmawr yn ei feddiant.

Adn. 13. *Y rhai ni ddychwelant, &c.* Yn ol y gyfraith, byddai y tiroedd a werthid yn dychwelyd i'w perchenogion cyntefig yn mlwyddyn y Iubili; ond fe âi blwyddyn y Iubili heibio yn yspaid deng mlynedd a thriugain y caethgludiad. GILL.—*Ac nid ymgryfha neb yn anwiredd ei fuchedd*; ni's gall neb ei amddiffyn ei hun, a diogelu ei feddiannau, yn erbyn y bygythion hyn trwy ei gydynrwydd a'i bechod, neu trwy unrhyw ddyfais bechadurus. POOLE.

Adn. 14. *Nid â neb i'r rhyfel,* hwy a fyddant oll darn farn o annewrder. NEWCOMBE.

Adn. 16. *Fel colomenod y dyffryn yn griddfan.* Mae y colomenod er trigo yn y mynyddoedd, yn hoff o fynychu y dyffrynoedd er mwyn cael dwfr; ac y mae eu swn yn gyffredin yn gwynfanus. HARMER.

Adn. 17. *A ânt yn ddwfr.* Gan faint eu braw, hwy a ymdoddant mewn chwŷs.

Adn. 19. *Eu harian a daflant i'r heolydd*, gan eu bod yn ddiles mewn newyn, ac yn rhwystr iddynt i ffoi. GILL. Neu, hwy a'u taflant i'r heolydd, i geisio ennill bodd y milwyr gelynol i arbed eu bywydau. SUTCLIFFE —Meddylia eraill fod y geiriau yn gol-

ygu eu heilunod aur ac arian, y rhai a ddirmygid ganddynt wrth weled na's gallent eu hachub yn eu cyfyngder. KIMCHI. Ac y mae hyny yn cael ei gadarnhau trwy yr hyn a ddywedir yn niwedd yr adnod,—*O herwydd tramgwydd eu hanwiredd ydyw.*

Adn. 20. *A thegwch ei harddwch ef a osododd efe yn rhagoriaeth.* Mae yn dra thebyg mai at ogoniant a gwychder y deml y cyfeirir yma, yr hon a elwir mewn man arall, "prydferthwch ei sancteiddrwydd ef;" yr oeddynt wedi halogi y lle hwn âg eilunaddoliaeth, am hyny y'i rhoddwyd i'r cenhedloedd i'w halogi. W. LOWTH.

Adn. 22. *Fy nirgelfa;* wrth yr hyn yn ddiau y golygir y cyssegr sancteiteiddiolaf yn y deml; cymh. Salm 81. 7. a 91. 1. a 27. 5.—*Anrheilhwyr a ddaw iddi*; sef y Babiloniaid, y rhai a elwir felly, am iddynt gymeryd yr hyn nid oedd eiddynt.

Adn. 23. *Gwna gadwyn*, i ragddangos dynesäad y caethgludiad, pan gludid y brenin a'r bobl mewn cadwynau i Babilon; gwel 2 Bren. 25. 7. Jer. 40. 1.

Adn. 24. *Rai gwaethaf y cenhedloedd;* neu "genhedloedd creulawn;" gwel pen. 30. 24. Y Caldeaid oeddynt y pryd hyny yn ormeswyr a dychryn y byd; gwel pen. 27. 7. a 30. 11. W. LOWTH.

Adn. 25—27. *Yna y ceisiant weledigaeth gan y prophwyd.* Ceisiant wybod pa hyd y bydd yr adfydau hyn i barhau. BOOTHR.

## PEN. VIII.

Adn. 1, 2. Mae yn ymddangos i Ezeciel gael y gweledigaethau a gynnwysir yn y bennod hon a'r tair pennod canlynol, tua phedwar mis ar ddeg yn ddiweddarach na'i weledigaethau cyntaf; ac felly, o fewn yspaid yr amser yr oedd efe i orwedd ar ei ystlysau; ac yn wir, y mae lle i feddwl iddo gael yr holl brophwydoliaethau blaenorol o fewn yr yspaid hwnw. DAVIDSON.—*Wele gyffelybrwydd fel gwelediad tân*, neu "fel gweledïad dyn," yn ol darlleniad BOOTHROYD, yr hyn sydd yn ddiau yn gosod y synwyr allan lawer yn well na'r darlleniad arferedig; felly hefyd y mae yn nghyfieithiad y LXX.

Adn. 3—5. *Ac a'm cymerodd erbyn cudyn o'm pen.* Meddyliodd rhai Esbonwyr fod y prophwyd wedi ei symmud yn weithredol, fel Elias a Phylip, (1 Bren. 18. 2. 2 Bren. 2. 16. Act. 8. 39,) ond y mae yn debycach fod yr hyn oll a ddarlunir oddiyma hyd pen. 11. 24, wedi eu hamlygu i'r prophwyd mewn gweledigaeth tra yr oedd efe yn ei dŷ ei hun, ac o flaen yr henuriaid.—*Lle yr ydoedd eisteddfa delw yr eiddigedd;* y safle a barottoisid i ryw eilun gwael, Baal efallai, neu Moloch, yr hwn a elwid yn ddelw yr eiddigedd am ei fod yn cyffroi Duw i eiddigedd; megis y cyffroid eiddigedd gwr trwy odineb digywilydd ei wraig yn ei dŷ ef. SCOTT.—*Yn y gwastadedd*, gwel pen. 3. 22, 23.—*Wrth borth yr allor;* a elwid

felly efallai er dyddiau Ahab, yr hwn a barasai symmud allor bres y poethoffrwm, a'i gosod o'r tu gogleddol i'r allor a wnaethai efe yn ol cynllun yr un a welsai efe yn Damascus, 2 Bren. 16. 14. BOOTHROYD. Yr oedd hyn yn brawf amlwg o annuwioldeb a rhyfyg yr offeiriaid a'r bobl, y rhai a feiddient osod eilun yn ymyl allor yr Arglwydd, fel yr oedd raid i bawb a fynent nesau at yr allor, ddyfod heibio i'r ddelw, ac felly gael eu temtio i ymostwng i'r eilun. DAVIDSON.

Adn. 8—12. *Cloddia yn y pared.* Yr oedd y twll yn rhy fach i ollwng goleuni i mewn nes ei wneuthur yn ehangach; pe buasai yn angenach ni buasai yr ystafell yn gyfaddas i'r amcan oedd ganddynt mewn golwg, sef cyflawni defodau ffiaidd paganiaeth. Yr oedd y twll hwn yn arwain i ystafell dywell, a luniasid ar ddull ogofeydd, neu guddfeydd y paganiaid, lle y cyflawnent eu defodau mwyaf dirgelaidd, rhai o ba rai oeddynt o natur rŷ ffiaidd i oddef y goleuni; gwel Esa. 45. 19. Eph. 5. 11, 12.—*A holl eilunod ty Israel wedi eu portreiadu ar y pared, o amgylch ogylch.* Mae DIODORUS wedi rhoddi darluniad i ni o un o feddrodau breninoedd yr Aipht, yr hyn a ddyru ryw ddarluniad i ni o weledigaeth y prophwyd; yr oedd tramwyfa o hono i lawer o ystafelloedd, ar furiau y rhai yr oedd lluniau heirdd o'r holl greaduriaid cyssegredig yn mysg yr Aiphtiaid. Ac y mae y cyffelyb olygfeydd i'w cael eto yn mysg adfeilion y wlad hóno, mewn cynrghair â pha un yr oedd Israel ar amser y weledigaeth hon.—*Ar eu cyfer hwynt,* sef ar gyfer yr eilunod, y rhai oeddynt wedi eu portreiadu neu eu cerfio ar y mur, nid er addurn yn unig, ond i'w haddoli; nid gan yr holl bobl; ond gan y deg henuriad a thriugain, y rhai, ond odid, a wnaent i fynu gynghor mawr y genedl. Yr oedd y rhai hyn oll yn gweithredu fel offeiriaid, yr hyn efallai oedd yn peri fod eu camwedd dirgelaidd yn fwy ysgeler; gan fod rhai, os nad y cwbl o honynt, wedi trawsgymeryd y swydd. DAVIDSON.

Adn. 13, 14. *Yn wylo am Tammuz.* Yr oedd gwragedd yr oes hon yn dra thueddol i gofleidio paganiaeth, ac i ymhyfrydu yn ei ddefodau ffiaidd.—*Tammuz,* yn ol barn JEROME, oedd yr enw Hebreaidd ar eilun Syriaidd, a elwid *Adonis,* yr hwn a ddarlunir gan ddwyf-draith baganaidd fel gwr ieuanc teg, a gerid gan *Venus,* ond a laddwyd gan faedd gwyllt yn Libanus, lle y tarddai yr afon Adonis. Cynhelid cylchwyl flyneddol gan wyr a gwragedd, i rith alaru wrth y coffadwriaeth o'i laddiad ef, ac yr oedd llawer o'r defodau ffieiddiaf yn cael eu harferyd ar yr achlysuron hyny: y gwragedd nad ymostyngent i gymeryd eillio eu penau, a orfyddent ymostwng i fod yn buteiniaid i ddyeithriaid am arian, y rhai a gyssegrid at wasanaeth Venus. Mae enw y gau dduw hwn, *cuddiedig,* yn rhoddi awgrym gref i ni o anmhurdeb ei addolwyr; y rhai a gyflawnent yr ysgelerderau ffieiddiaf fel cyflawniadau crefyddol.

Adn. 15, 16. Prin y gellid meddwl am ysgelderau ffieiddiach na'r rhai a grybwyllir yn yr adnodau blaenorol; ond pan feddyliom pwy a welir yma, efallai bod euogrwydd eu hymddygiadau yn waeth na'r eiddo y lleill. Canys nid yw yn annhebyg mai yr archoffeiriaid, a phennaethiaid y pedwar cylch ar hugain o offeiriaid, y rhai a weinient beunydd yn y deml, a olygid; y rhai hyn oeddynt a'u *cefnau ar y deml*, i ddynodi eu dirmyg ar y gwir Dduw, a'u hymostyngiad i'r haul ar ei gyfodiad, mewn anufudddod i'w gyfreithiau sancteiddiaf ef. DAVIDSON.

Adn. 17, 18. *Wele hwy yn gosod blaguryn wrth eu trwyn.* Cyfeiriad at ryw ddefod eilunaddolgar yn ddiau; yr oedd y tân-addolwyr Magiaidd yn arfer dal tusw bach o flagur ieuainc yn eu llaw pan yn gweddio o flaen y tân sanctaidd. STRABO. Pan fyddai y paganiaid yn addoli eu duwiau, hwy a fyddent yn dal cangenau o'r coed cyssegredig yn eu dwylaw. SPENCER, ROSENMULLER.—" Y maent fel rhai yn gwatwor " SCOTT.

## PEN. IX.

Adn. 1, 2 *Llefodd hefyd*, sef yr un gwrthddrych ag a ymddangosasai o'r blaen, ac a lefarasai trwy y prophwyd. SCOTT. Gwel pen. 8. 2—4.—*Perwch i swyddogion y ddinas nesau.* Yr oedd gan y chwe gwr, bob un arf dinystr yn ei law; ond ymddangosai mai arf i amddiffyn yn hytrach nac i ddystrywio oedd yr eiddo un o honynt, gan mai diogelu y gweddill o'r bobl ddewisedig oedd ei swydd arbenig ef. Fe ddarlunir y swyddogion hyn, fel rhai a gofal y ddinas arnynt dros yr Arglwydd, ac nid dros y bobl; canys eu gwaith oedd amddiffyn ei enw ef, trwy gospi y drygionus a gwaredu y cyfiawn. Mae rhai yn meddwl mai angelion oeddynt, ac nyni a wyddom fod angelion wedi eu pennodi i gyflawni y bwriadau Dwyfol; Dan. 10. 13. Ond y mae y rhan fwyaf yn eu golygu yn gynnrychiol o dywysogion byddin y Caldeaid, y rhai a ddaethant i'r Tir Sanctaidd o'r gogledd gwel Jer. 39. 3. Efallai fod y rhif *chwech* yn cael eu nodi, er cyfatteb i nifer pyrth y ddinas.—*A chorn du ysgrifenydd wrth ei glun.* Yn mysg y Twrciaid a'r Arabiaid hyd y dyddiau hyn, y mae yr *Holijahs*, neu yr ysgrifenyddion, yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth eraill trwy fod corn du ysgrifenydd, arwyddlun eu swydd, yn crogi wrth eu gwregysau. DR. SHAW.—*Ac a safasant wrth yr allor bres*; i ddynodi efallai mai eu gwaith oedd lladd mewn amddiffyniad i gyfiawnder, purdeb, a mawrhydi Duw. Mae dinystr pechaduriaid yn cael ei ddarlunio yn yr ysgrythyrau yn aml dan y golyg-ddrych o aberth, gwel pen. 39. 17. Esa. 34. 2, 5. Eraill a farnant eu bod yn sefyll yma, i dderbyn bob un ei gennadwriaeth neillduol. DAVIDSON.

Adn. 3. *Oddiar y cerub.* Yr oedd hyn yn arwyddo fod yr Arglwydd ar adael ei le, ei drugareddfa; ac am gyhoeddi, fel o'i

orsedd farnol, ddedfryd o farnedigaeth ar y bobl; a chilio o'i deml, a Jerusalem; a'u rhoddi hwy i fynu i gael eu hanrheithio a'u halogi gan eu gelynion. SCOTT.

Adn. 4. *A noda nôd ar dalcenau y dynion, &c.* Mae llawer o ddadleuon difudd wedi bod yn yr oesoedd a aethant heibio, pa beth a allasai y nod yma fod. Efallai fod yma gyfeiriad at Ex. 12. 13, lle y'n dysgir fod y gwaed oedd wedi ei daenellu ar byst drysau tai meibion Israel, yn arwydd o'u diogelwch, pan oedd yr angel yn tramwyo trwy wlad yr Aipht. Neu, efallai ei fod yn cyfeirio at arferiad tra chyffredin yn mysg cenhedloedd paganaidd o ddwyn yn eu talcenau nôd y Duw a addolent; fel y gellir yn hawdd wahaniaethu rhwng addolwyr y naill eilun ag addolwyr y llall yn India hyd y dydd hwn. DAVIDSON, *Maurice's Indian Antiquity.*

Adn. 6. Gwel Jer. 39. 11—18. a 45. 4, 5. *Ac ar fy nghyssegr y dechreuwch*; hyny yw, dystrywiwch yr henuriaid yn gyntaf, yn mysg pa rai y cynnwysid yr offeiriaid, y rhai trwy awdurdod ac esampl a annogent y bobl i bechu: cymh pen. 8. 8—12.

Adn. 8. *O Arglwydd Dduw, a ddyfethi di holl weddill Israel?* Effeithia yr olwg ar y lladdedigaeth ar y prophwyd, ac efe a ofnai y byddai i'w holl bobl gael eu tori ymaith: ac yn yr adnodau nesaf y mae yr Arglwydd yn atteb, mai mawredd eu drygioni a ddygasai hyn arnynt; ac yn y cyfamser, er cysur i'r prophwyd, dychwelai y swyddog oedd gyda'i gorn du yn nodi y duwiolion, gan ddywedyd ei fod ef wedi gwneyd megis y gorchymynasid iddo. BOOTHROYD.

## PEN. X.

Adn. 1. *Yn y ffurfafen*, mae Duw yn trigo yn y goleuni, Sal. 104. 2. 1 Tim. 6. 16, &c.; felly darlunir gorsedd Duw yma, wedi ei gwneyd i fynu o oleuni. W. LOWTH,

Adn. 2. Mae yr Esbonwyr yn gyffredinol yn golygu taeniad marwor tanllyd ar y ddinas, yn arwyddocäol o'i llosgiad â thân gan y Caldeaid: ond mae DAVIDSON yn golygu yn wahanol, ac yn dadleu yn gryf dros ei olygiad. Efe a sylwa mai fel gweinidog bendith yn unig yr ymddangosai y gwr oedd wedi ei wisgo â lliain, ac iddo dderbyn yn pen. 9. 4, gennadwriaeth o drugaredd, â'r hyn y cyfattebai ei wisg offeiriadol yn rhagorol: cym. Lef. 16. 4. Gan mai dyeithriaid oedd y chwe swyddog hyn, mae yn eglur nad oedd yr offeiriad hwn o urdd Aaron; ei holl waith oedd trugaredd; efe a seliai yr holl ffyddloniaid; ac wedi i'r swyddogion eraill ladd yr holl rai annuwiol, efe a burai y ddinas â thân. Heblaw hyny, fel y sylwai HORSLEY yn briodol, "yr oedd yn fwy cyfaddas i swydd offeiriad achub na dystrywio; a phuro oedd ddyledswydd berthynol i'w swydd ef mewn modd arbenig." Heblaw hyny dylem gofio fod y tân hwn yn cael ei roddi o orsedd

trugaredd, ac o ganlyniad tân sanctaidd puredigaeth ydoedd; gwel adn. 7. Esa. 6. 5, 6 Tueddai y weledigaeth hon mewn modd tra neillduol i galonogi y prophwyd a'i frodyr i ymddiried yn yr Arglwydd, yr hwn a fyddai yn sicr o ofalu am ei bobl gan iddo eu selio, ac adfern Jerusalem yn ei amser priodol, gan iddo ei phuro.

Adn. 3, 4 *A'r cwmmwl a lanwodd y cyntedd.* Yr oedd yr Arglwydd, trwy y fath ymddangosiad, wedi cymeryd meddiant o'i deml, Exod. 40. 34—38. Lef 16. 2. 1 Bren 8, 10—14. 2 Cron. 5, 12, 13; ac yn awr trwy yr un arwydd, efe a ddangosai ei fod ar ymadael o honi. Yr oedd y gogoniant gweledig ar yr un pryd wedi ymsymmud i riniog y tŷ; yna fe lanwyd y cyntedd â dysgleirdeb, yn goleuo y cwmmwl, efallai. Mae rhai yn meddwl fod y cyntedd nesaf i mewn wedi ei lenwi â chwmmwl tywyll, i arwyddo y byddai i'r Arglwydd adael yr Iuddewon mewn tywyllwch, ac anfon ei oleuni i'r Cenhedloedd. SCOTT, W. LOWTH, POOLE.

Adn. 5. *Swn adenydd y cerubiaid,* a allai fod yn dynodi eu gwaith yn gorfoleddus fawrygu cyfiawnder a sancteiddrwydd Duw, yn y goruchwyliaethau ofnadwy hyn; neu y son a wneid am danynt yn mysg cenhedloedd pell. SCOTT.

Adn. 12. Wrth fod y crëaduriaid byw yn llawn llygaid cystal a'r olwynion, (pen. 1. 18.) gellir dyall eu gwyliadwriaeth ddiysgog, eu treiddgarwch, doethineb, a'u pwyll. SCOTT.

Adn. 13. *O olwyn!* neu, "symmud oddiamgylch." Yr oeddynt i ddilyn eu dyledswydd yn wastadol; canys yr oedd yr olwynion a'r crëaduriaid byw, yn gweithredu oddiar yr un egwyddor o ddëalltwriaeth a symmudiad, pen. 1. 19—21. LOWTH. Yn ol ein cyfieithiad ni, yr oedd yr alwad ar y pedair olwyn fel un, yn arwyddo undeb dyben a'r gweithrediad sydd yn ffurf aneirif oruchwyliaethau rhagluniaeth, mewn un cynllun goruchel a chysson. SCOTT.

Adn. 18. *Ac a safodd ar y cerubiaid.* Nid ar y drugareddfa, canys ni's dychwelodd yno; ond ar y cerubiaid, neu y creaduriaid byw, a welid yn y weledigaeth, y rhai oeddynt dan yr orsedd yn ffurfafen y nefoedd. GILL.

Adn. 20. *A gwybum mai y cerubiaid oeddynt;* naill ai trwy ddarllen neu glywed am y rhai oeddynt yn y cyssegr sancteiddiolaf; neu trwy ddatguddiad Dwyfol. BOOTHROYD.

Adn. 22. *Eu dull hwynt a hwythau,* Yr oeddynt nid yn unig yn un mewn ymddangosiad, ond mewn gwirionedd hefyd.—BOOTHROYD.

## PEN. XI.

Adn. 1—3, *Ac wele bum wr ar hugain yn nrws y porth.* Mae yn amlwg wrth yr hyn a ddywedir yn yr adnod ganlynol fod y

rhai hyn yn wŷr o urddas ac awdurdod uchel; meddylia rhai mai yr un gwŷr oeddynt ag a grybwyllir yn pen. 8. 16; a bernir eu bod o gynghor y brenin, ac wedi ymgynnull i un o'r pyrth, i ymgynghori yn nghylch amgylchiadau y genedl.—*Nid yw yn agos*, hyny yw, dinystr y ddinas, am yr hyn y rhagfynegai y gwir brophwydi ei fod yn agos ar y drws.—*Hi yw y crochan a ninnau y cig*: cyfeiriad gwawdlus, debygid, at weledigaeth y crochan berwedig gan Jeremiah, Jer 1. 12—14. Ne ynte, yr oedd y geiriau hyn yn ddiareb a arwyddocai eu bod hwy yn penderfynu cymeryd eu cyfran gyda'r ddinas, deued a ddeuai i'w cyfarfod. Cymh. pen 24. 2—14.

Adn. 5—12. *Amlhasoch eich lladdedigion, &c.* Wrth y rhai y golygid mae yn debyg, y rhai a ddystrywiasid, neu a laddesid trwy benderfyniadau barnwyr annghyfiawn; nifer pa rai oeddynt luosawg mae yn ddiau, gan eu bod yn cael eu crybwyll mor aml gan y prophwydi; gwel pen. 7. 23. a 9. 9. Jer. 2. 30. Ond y mae eraill yn meddwl fod cyfeiriad neillduol yn yr ymadrodd yma at waith y tywysogion yn cadw i fynu ymrysonfa waedlyd â Babilon, trwy yr hyn y dyoddefasai torfeydd o'r Iuddewon yn barod, ac am y rhai y gellid dweyd o ganlyniad yn briodol, mai lladdedigion eu tywysogion oeddynt.—*Dygaf chwi hefyd allan o'i chanol.* Mor gywir a manol y cyflawnwyd hyn, gwel Jer. 52 27.—*Ar derfyn Israel.* Felly yr oedd Riblah, yr hon, er ei bod yn perthyn i Syria, oedd ar derfyn Palestine, ac o fewn y tir a ganiattasid i Israel yn y cyfammod Abrahamaidd.

Adn. 13. Tra yr oedd y prophwyd mewn gweledigaeth yn traddodi y gennadwri hon i'r tywysogion, bu farw Pelatiah, un o honynt, yn ddisymmwth. Yr oedd marwolaeth ddisymmwth un o bennaethiaid y bobl yn un o'r amgylchiadau mwyaf priodol i brofi bod y prophwyd mewn gwirionedd dan ddylanwad ysbryd prophwydoliaethol ar yr achlysur hwn. Pa beth a ellid ei chwilio allan yn haws? Priodolir amser ei farwolaeth, debygid i adeg cyfarfyddiad y cyngor yn y porth dwyreiniol yn y boreu: ac ni buasai raid bod un Iuddew yn y ddinas yn anhysbys o'r fath ffaith gyhoeddus.

Adn. 15, 16. *A holl dŷ Israel yn gwbl;* wrth y rhai y golygir mae yn debyg, y caethion oeddynt eisoes yn Mabilon, oddieithr meddwl o honom fod dinaswyr Jerusalem wedi myned mor hynod o hunanol a llygredig, a cholli pob gofal am y gweddill o breswylwyr Judea.—*Ymbellhewch oddiwrth yr Arglwydd.* ymadrodd yn dangos eithaf diffyg o gariad at eu brodyr, a diofalwch am eu llesäad yn y byd hwn a'r hwn a ddaw. Cyfeiria yr iaith at y deml, fel y lle yr ymhyfrydai Duw ei amlygu ei hunan ynddo; bod yn mhell oddiwrthi oedd yr adfyd mwyaf â'r hwn y gallai Israeliad cywir gyfarfod. Salm 42. 1—4. a 63. 1—3. a 137. Y rhai a waradwyddid gan ddinaswyr Jerusalem fel hyn, oedd y rhai a

gaethgludasid gyda Jeremiah; ac os sylwn ni yn fanol ar y crybwyllion a wneir am danynt, nyni a gawn le i feddwl mai hwynt hwy oedd y rhai duwiolaf o'u cenedl; gwel Jer. 24. 6, 7.—*Etto byddaf yn gyssegr bychan iddynt:* neu dros ychydig, hyny yw, efe a fyddai yn nawdd ac amddiffyn iddynt dros yr amser yr arfaethwyd iddynt fod yn y caethiwed; cymh. Esa. 8. 14. Fel hyn addawai yr Arglwydd fod iddynt hwy yn lle ei gyssegr, o'r hwn y'u halltudiasid. DAVIDSON.

Adn. 17—20. Cafwyd mwy o brawf o wir dduwioldeb yn y rhai a ddychwelwyd o'r caethiwed i Judea, nac a gawsid mewn un genhedlaeth er oes Josuah, fel y mae yn eglur oddiwrth yr hanes a gawn ni yn llyfrau Ezra a Nehemiah. Ac fe ddiwreiddiwyd eilun addoliaeth paganaidd o fysg yr Iuddewon byth wedi yr adferiad yma Ond y mae llawer o Esbonwyr yn golygu yr ymadroddion hyn yn addewid am ddychweliad dyfodol yr Iuddewon i'r eglwys dan oruchwyliaeth yr efengyl.

Adn. 22—25. Mae y weledigaeth hon yn brawf nodedig o hir ymaros Duw; yr hwn a ymadawai â'i bobl o fesur ychydig ac ychydig. Dr. CLARKE.—*A safodd ar y mynydd sydd o'r tu dwyrain i'r ddinas.* Mynydd yr Olewwydd, 2 Sam. 16. 36. Zech. 14. 14. Pan ymadawodd gogoniant yr Arglwydd o'r deml, efe a ymddangosai fel pe buasai yn aros dros yspaid ar y mynydd hwn; ac e gasglai yr Iuddewon oddiwrth hyn y byddai i'r Messiah pan ddelai fynychu y mynydd hwnw, megys hefyd y gwnaeth, Luc 21. 37. a 22. 39. BOOTHROYD.

## PEN. XII.

Adn. 2. Gwel Jer. 29. 8, 22, 24, 25; a'r Nodiadau yno.

Adn. 3—5. *Offer caethglud*, pob peth angenrheidiol i fyned i daith faith. Mudo liw dydd, a allai fod yn arwyddo y byddai i'r rhan fwyaf o'r Iuddewon gael eu caethgludo o'u tir mewn modd cyhoeddus gan y gelynion, tra y gallai fod gwaith y prophwyd yn myned allan yn yr hwyr, ac yn cloddio trwy y mur, yn darlunio Sedeciah a'i filwyr yn ceisio ffoi yn ddirgelaidd. Gwel Jer. 39. 2—4.

Adn. 6. *Ar dy ysgwydd y dygi*, i ragddangos tlodi dirfawr y rhai a ddiangent.—*Dy wyneb a guddi*, i ddynodi y cywilydd a fyddai wedi eu toi, a'r tristwch a fyddai yn eu llethu. Gwel Jer. 14. 1—6.

Adn. 9, 10. Mae yn debyg fod yr ymddygiad yma wedi tynu sylw cyffredinol y dinaswyr, a bod llawer o honynt yn gofyn i'r prophwyd yn wawdus, pa beth yr oedd efe yn ei wneyd? neu pa beth oedd ei amcan trwy y cyfryw ymddygiad dieithriol? y mae yntau yn cael ei ddysgu gan Dduw i ddywedyd mai *baich*, neu oracl *i'r tywysog*, sef Sedeciah, ydoedd hyn. W. LOWTH.

Adn. 12. *Cloddiant trwy y mur i ddwyn allan trwyddo.* Mae

llawer o'r muriau yn y gwledydd dwyreiniol wedi eu gwneyd o glai, ac nid yw yn anhawdd cloddio trwyddynt. DAVIDSON. Gwel Jer. 39 4. a 52. 7. 2 Bren. 25. 4.

Adn. 13 *Mi a daenaf fy rhwyd arno ef.* Cyfeiriad at y dull o ddala gwylltfilod, yn enwedig adar. Newyn oedd y rhwyd yn yr hon y daliwyd llys breninol Judah.—*Ac ni wel efe hi:* canys e dynwyd ei lygaid ef yn Riblah, 2 Bren; 25. 7. DAVIDSON.

Adn. 16. *Fel y mynegont eu holl ffieidd-dra yn mysg y cenhedloedd.* Fel y cyffesont yn yr holl wledydd lle y'u gyrir hwynt fod y barnedigaethau a'u goddiweddodd wedi eu teilyngu yn gyfiawn trwy eu ffieidd-dra dirfawr yn eu holl anwireddau. BOOTHROYD, LOWTH.

Adn. 18. Yma dysgir y prophwyd i arfer arwyddion eraill, er dangos y braw, y prinder, a'r trueni, a oddiweddai ei gydgenedl yn yspaid y gwarchae. CALMET.

Adn. 22—28. *Y dyddiau a estynwyd, a darfu am bob gweledigaeth.* Fel pe dywedasent, Y mae Duw yn arfer oedi cyflawni ei fygythion; a chyffelyb fydd am y weledigaeth hon, nid yw yn debyg y'i cyflawnir yn ol ei llymder: ond y mae Duw yn atteb gan ddywedyd y byddai i'r hyn oll a ddywedasai efe trwy ei was gael eu cyflawni ar frys.

## PEN. XIII.

Adn. 2. *A brophwydant o'u calon eu hun;* hyny yw, y rhai nid oeddynt wedi eu hysbrydoli na'u danfon gan Duw, Cymh. Neh. 6. 8. BOOTHROYD.

Adn. 3. *Ac heb weled dim;* sef heb gael un weledigaeth gan yr Arglwydd. Nyni a gyfarfyddwn â'r unrhyw ddull ymadrodd yn Esa. 30. 10. Galar, 2. 4.

Adn. 4. *Fel llwynogod yn yr anialwch.* Meddylia amryw mai y creadur a elwir *jackal*, neu y "llwynog bychan," a olygir yma; y rhai a wnaent eu llochesau mewn hen adfeilion. Megis yr arferai y rhai hyn dori i'r gwinllanoedd, ac ymborthi ar eu cynnyrch, felly yr oedd y gau brophwydi hyn yn dystrywio y bobl, gwinllan Duw, â'u celwyddau. Jer. 12. 10. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Ni safasoch yn yr adwyau.* Ymadroddion wedi eu benthyca oddiwrth arferion milwraidd; ac yn darlunio y prophwydi hyn fel rhai heb geisio dïogelwch y bobl trwy eu cynghori i wellâu eu ffyrdd a dychwelyd at yr Arglwydd.

Adn. 9. *Yn nghyfrinach*, neu "Yn nghynnulleidfa fy mhobl ni byddant," hyny yw, fe dderfydd am danynt, ac ni bydd iddynt had yn mysg pobl yr Arglwydd.—*O fewn ysgrifen tŷ Israel nid ysgrifenir hwynt;* cyfrifid hwynt fel paganiaid, yn annheilwng o'u cofrestru yn mysg pobl ddewisedig yr Arglwydd; ac os oedd unrhyw aflwydd mwy a allai eu cyfarfod, eu cau allan o dir Israel oedd hyny, â'r hyn hefyd y'u bygythir.

Adn. 10—16. *Un a adeiladai bared, &c* Wrth yr hyn y golygid ymdrechiadau y bobl i wrthwynebu ewyllys datguddiedig Duw, trwy ffurfio cyfathrach â'r cenhedloedd a'u hamgylchynai, ac felly geisio ymnerthu yn erbyn y Caldeaid, â'r rhai y bygythiai Duw eu cosbi; a'r gau brophwydi a briddent eu pared â phridd heb ei dymheru, trwy wenieithio iddynt y caent hwy fwynhau ffafr Duw, yr hyn a barai i'w parottoadau amddiffynol fod yn effeithiol: ond yn y gyffelybiaeth hon. yr hon a gymerid oddiwrth y math gwaelaf a mwyaf bregus o bared, darlunir mor ofer ac aneffeithiol a fyddai eu holl ymdrechiadau.

Adn. 17. *Gosod dy wyneb yn erbyn merched dy bobl;* sef y prophwydesau gau; canys fel yr oedd merched mewn rhai oesoedd yn meddu gwir ysbryd prophwydoliaeth, megis Miriam, Deborah, a Huldah, felly yr oedd eraill a gymerent arnynt eu bod yn ei feddiannu er na's meddent, megis Noadiah yn amser Nehemiah, (Neh. 6. 14.) ac y mae yn ymddangos fod amryw o'r cyfryw ferched rhagrithiol yn nyddiau Ezeciel. GILL, CALMET.

Adn, 18. Megis y cyfranai y gwir brophwydi eu haddysgiadau trwy arwyddion, felly y rhai hyn hefyd a fynent ymdebygu iddynt, ac fel arwydd o'r heddwch a'r diogelwch a addawent i'r bobl, hwy a wnïent glustogau dan eu penelinoedd, ac wrth benelinoedd y rhai a ymgynghorent â hwynt. Hwy a weithient *foledau* hefyd *am ben pob corpholaeth*, cadachau, neu orchuddiau am ben rhai o bob maint. Mae yn debyg mai math o gadachau sidan harddwych oedd y moledau hyn; wedi eu cyfaddasu i'w gwisgo gan rai o bob maint; a meddylia rhai eu bod yn cael eu defnyddio fel math o gyfareddion neu swynion a ddiogelent fywydau y sawl a'u gwisgent; pa un bynnag yr oeddynt wedi eu hamcanu i lithio dynion i eilun-addoliaeth. Mae CALMET yn sylwi fod y gair a gyfieithir *moledau*, yn arwyddo "rhwydi hela;" yr hyn a gyfatteba yn dda â'r hyn a ddywedir, eu bod yn cael eu defnyddio *i hela eneidiau*.

Adn. 19. *Er dyrneidiau o haidd.* Prophwydent heddwch i'r drygionus, a chyhoeddent farnedigaethau ar y cyfiawnion, am y gwobrwyon lleiaf; ond y mae yr Arglwydd yn eu sicrhau ei fod ef i'w herbyn hwynt ac y gwnai efe derfyniad prysur ar eu hudoliaethau twyllodrus, gan wneyd ei allu a'i ogoniant yn adnabyddus i bawb y perthynai iddynt ei wybod.

## PEN. XIV.

Adn. 3. Gellid meddwl wrth yr hyn a ddywedir am yr henuriaid hyn, fod eu trosedd yn gynnwysedig, nid mewn llwyr ymadawiad â chrefydd Moses, ond yn hytrach yn eu gwaith yn halogi crefydd y gwir Dduw âg ymarferiadau eilun-addolgar. WARBURTON. Ond y mae lle i feddwl wrth yr hyn a ddywedir am danynt eu bod wedi rhoddi *tramgwydd eu hanwiredd ar gyfer*

*eu hwynebau*, eu bod nid yn unig yn gogwyddo yn gryf at eilunod, ond wedi eu gosod yn eu tai, o flaen eu hwynebau, fel y'u haddolent. BOOTHROYD. Mae yn wir y dylai pob dyn ymofyn à Duw; ond y mae mor wir na fydd dim cyfathrach rhyngddo ef à neb a garo unrhyw wrthddrych arall yn fwy nac ef. DAVIDSON.

Adn. 4. *Attebaf yr hwn a ddelo, yn ol amlder ei eilunod;* hyny yw, fel y teilyngai y fath eilunaddolwr gael ei atteb. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Yn eu calonau:* neu, yn eu cydwybodau eu hunain. NEWCOMBE.

Adn. 6—8. Yma fe'u rhybuddir mai yr unig ffordd i ochel y barnedigaethau ofnadwy a gyhoeddid ar yr anedifeiriol, oedd drwy edifarhau a dychwelyd at yr Arglwydd a'i wasanaeth; ac am bob un a ymgaledai mewn annuwioldeb er pob rhybuddion, y gwnelid y cyfryw yn siampl ac yn ddiareb i bawb a'i hadwaenent o dostur farn Duw ar ei elynion.

Adn. 9—11. *Myfi yr Arglwydd a dwyllodd y prophwyd hwnw*, neu a oddefodd iddo gyfeiliorni, gan ei adael yn gyfiawn i'w ddallineb ei hunan. POOLE. Ac fel yr oedd y rhai a ymofynent â'r gau brophwyd, yn unig am gefnogaeth i aros yn eu heilunaddoliaeth a'u hannuwioldeb, ac fel yr oedd gelyniaeth eu calonau yn erbyn Duw yn eu parottoi i dderbyn yn groesawus yr hudoliaethau twyllodrus hyn, felly byddai i'r Arglwydd eu cosbi mewn digofaint aethus, a dwyn arnynt faich eu heuogrwydd ysgeler, yr hyn a suddai y prophwyd twylledig a'r ymofynydd rhagrithiol. yn yr un dinystr ofnadwy. Etto byddai i'r fath doster at bersonau neillduol fod yn fendith i dŷ Israel, drwy eu rhybuddio i ochel eilunaddoliaeth ac anwiredd, ac ymroddi yn adnewyddol i fod yn bobl i Dduw. SCOTT.

Adn. 12—20. Pan fyddo trigolion gwlad wedi cyflawni mesur eu hanwiredd, ni's gall yr ychydig gyfiawnion a fyddo ynddi eu gwaredu; ïe, pe byddent y cyfryw ddynion ag ydoedd Noah, Daniel, a Job. Yr oedd Noah yn rhagori ar bawb yn ei oes am ffydd, uniondeb, duwiolfrydedd, ac ufudd-dod trwyadl; Gen. 7. 1. Ac fe lwyddodd ei ffydd a'i ufudd-dod ef i achub ei dŷ, er na arbedwyd yr hen fyd, a sicrhawyd iddo na's deuai diluw mwyach ar y ddaiar, Gen. 6. 8—17. a 7. 1, 20—23. a 9. 9—17. Heb. 11. 7. Fe dderbyniwyd aberth ac eiriolaeth Job dros ei gyfeillion, Job 42. 7—9: ac fe lwyddodd Daniel gyda Duw i gael datguddiad o freuddwyd Nebuchodonosor, trwy yr hyn yr arbedwyd bywyd ei gyfeillion, a doethion Babilon. Dan. 2. Yr oedd yn anrhydedd mawr i Daniel, yr hwn oedd yn y caethiwed er's pedair blynedd ar ddeg, eto nad oedd y pryd hwn oddiar ddeng mlwydd ar hugain oed, gael ei restru yn mysg y seintiau enwog hyny i Dduw, a anrhydeddasid mor arbenig âg attebiad i'w gweddiau gan Dduw.

Adn. 21—23. *Pa faint mwy!* Os cyfiawn ydyw gyda golwg ar wledydd eraill, fod i'r rhai cyfiawn ynddynt yn unig gael diano

rhag cosbedigaeth, pa faint mwy gyda golwg ar Jerusalem, wedi cynnifer o rybuddion a chynghorion dwysion a gawsai? BOOTHROYD. Neu, Oni's gallai y tri wyr sanctaidd a enwyd waredu y cenhedloedd y trigent yn eu plith, pa faint mwy afresymmol oedd meddwl y gallai preswylwyr Jerusalem a Judea ddianc, y rhai a ragorent mewn annuwioldeb ar bob cenedl; ac ni's meddent yn eu mysg neb cyffelyb mewn duwioldeb i'r enwogion crybwylledig. Cymh. Nod pen. 3. 5, 6. a 5. 5, 6. Yr oedd ffyrdd a gweithredoedd y gweddill achubedig yn ddaionus, ac felly cysurid y sawl a sylwai arnynt, wrth edrych ar eu hysbryd a'u hymddygiad, a'u clywed yn addef eu heilunaddoliaeth gynt, a thueddid hwy i fawrygu yr Arglwydd am arbed neb; gan y gwelent eu bod oll wedi gwir deilyngu eu torri ymaith ganddo yn llwyr. DAVIDSON, BOOTHROYD.

## PEN. XV.

Adn. 1—5. Rhagfynegodd Ezeciel ddymchweliad Jerusalem trwy luaws o gyffelybiaethau amrywiaethol, megis trwy ddarlun o warchaëedigaeth, pen. 4; trwy eillio ei wallt, a thorri rhan o honaw yn ddarnau, a llosgi y rhan arall, pen. 5; trwy y crochan yn yr hwn y berwid cig, pen. 11; trwy barottoi offer caethglud, pen. 12; ac yma, trwy goed y winwydden.—*Beth yw coed y winwydden?* Y winwydden yw yr odidoccaf o'r prennau tra y mae yn dwyn ffrwyth, ond os y'i torrir i lawr ni's gellir gwneyd dim gwaith â i choed meddal; nid yw yn gymhwys i ddim ond i'w llosgi yn gynnud tân.

Adn. 6—8. Yma y cawn ni gymhwysiad y gyffelybiaeth; yr oedd trigolion Jerusalem yn gyffelyb i winwydden anffrwythlawn, ac fel y cyfryw, wedi eu happwyntio i'w difa; fel os diangant o'r naill dân, y byddent yn sicr o gwympo i un arall. BOOTHROYD.

## PEN. XVI.

Adn. 2. *Gwna i Jerusalem adnabod*, trwy lythyr efallai, megys ag yr hysbysodd Jeremiah ewyllys Duw i'r caethion yn Mabilon, Jer. 29. 1. W. LOWTH.

Adn. 3. *Dy drigfa a'th enedigaeth sydd o wlad Canaan.* Darlunir Jerusalem yma fel maban truan, yr hwn y darfu i Dduw ei waredu rhag dystryw. NEWCOMBE. Yr oedd Abraham a Sarah, hynafiaid Israel, yn eilunaddolwyr unwaith, fel yr Hethiaid a'r Amoriaid, ac ymddangosai yr Israeliaid trwy eu nodweddiad a'u hymarweddiad, fel pe buasent yn hiliogaeth y cenedloedd eilunaddolgar y meddiannasent eu gwlad, yn hyttrach na hiliogaeth y patrieirch duwiol. SCOTT.

Adn. 4. Yma darlunia y prophwyd gyflwr truenus yr Israeliaid yn yr Aipht trwy y gyffelybiaeth o blentyn newydd ei eni, yn cael ei adael yn ddïymgeledd, heb un cyfaill i dosturio wrtho, na chym-

eryd y gofal lleiaf am dano. W LOWTH.—*Nïth gyweiriwyd chwaith â halen.* Dywaid yr hen feddyg enwog GALEN bod yr henafiaid yn arfer golchi mabanod mewn dwfr yn yr hwn y toddasid halen, er mwyn gwneyd eu crwyn yn galettach.

Adn. 6. *Dywedais wrthyt yn ei waed, Bydd fyw.* Pan ydoedd y baban hwn yn gorwedd yn halogedig yn ei waed, yn agored i gael eu sathru, ac ar drengu, yn wrthddrych gresynus, ac yn ffiaidd yr olwg arno; daeth yr Arglwydd heibio iddo, edrychodd arno mewn tosturi, ac a ddywedodd wrtho, *Bydd fyw*. Ex. 2, 5—9. Luc 10 30—37. Ac fe ailadroddir hyn i'r dyben o dynu sylw dwysach y darllenydd. SCOTT.

Adn. 8. *Wele dy amser yn amser serchawgrwydd.* Bellach, meddyliais ei bod yn amser priodol i mi dy ddyweddio â mi fy hunan. Mae gwaredigaeth Israel o'r Aipht yn cael ei ddarlunio mewn man arall, fel amser eu dyweddïad gan Dduw âg ef ei hunan. Gwel Jer. 2.2, &c. Hos. 2, 15, 19.—*Yna y lledais fy aden drosot;* hyny yw, cymcrais di dan fy nawdd fel y cymmer gwr ei wraig i'w harddu a'i hamddiffyn. W. LOWTH.—*Ac aethum mewn cyfammod â thi*; yr hyn a fu wrth Horeb, ac felly hwy a ddaethant yn bobl broffesedig i'r Arglwydd. BOOTHROYD.

Adn. 9–14 *A mi a'th olchais, &c.* Arferid golchi ac eneinio morwynion oeddynt i gael eu dyweddïo yn fuan. Gwel Eph. 5. 25, 26. Oddiyma hyd adn. 14, yr ydys yn cael darluniad o bobl Israel fel boneddiges wedi ei harddu â'r tlysau gwychaf a arferid yn yr oes hono i addurno y wyryf ddyweddïedig; trwy yr hyn yr arddangosir y cymmwynasgarwch a'r daioni grasol a amlygwyd mewn modd mor dra nodedig gan Dduw tuag at Israel, yn eu gwaredigaeth o'r Aipht, eu sefydliad yn Nghanaan, a'r llwyddiant a'r harddwch nodedig a roddwyd arnynt yn enwedig yn nheyrnasiad Dafydd a Solomon.

Adn. 15—22. Yr oedd godineb ar bob achlysur yn cael ei ystyried yn fai echryslawn yn mhob gwlad, ac yn drosedd marwol yn ol deddf Duw; ond y mae yn neillduol o atgas mewn gwraig a godwyd ac a ddyrchafwyd yn y modd a ddarluniwyd. Felly, gellir golygu eilunaddoliaeth yn *butteindra* ysbrydol mewn eraill, ond yr ydoedd yn *odineb* yn Israel, yn drosedd o'r cyfammod priodasol, ac anniolchgarwch gwrthun yn ei ganlyn, ac yn brawf o agwedd halogedig y galon; yn ddïanrhydedd anrhaethadwy i Dduw, pan yr oeddynt yn dyrchafu yn fwriadol yr eilunod gwaelaf yn fwy nac ef; yn ei annog i eiddigedd, yn dïofrydu holl freintiau y genedl, ac yn arwain i bob math o annuwioldeb arall.—SCOTT.

Adn. 26. Ffurfiodd yr Israeliaid gyfathrach â'r Aiphtiaid, y rhai oeddynt yn rhagori ar yr holl genhedloedd o'u hamgylch am goelgrefydd ac eilun addoliaeth. Ymffrostiai yr Aiphtiaid eu bod o ysbryd mawr, yn ddoethion a galluog; ond *mawr o gnawd* oedd-

ynt hwy, dan ddylanwad cnawdolrwydd o'r fath ffieiddiaf fel y dangosai natur eu crefydd yn amlwg.

Adn. 27—29. *A phrinheais dy ran*; hwyrach fod yma gyfeiriad at amseroedd Ahaz, pan oresgynodd y Philistiaid ddinasoedd y gwastadedd, a deheubarth Judea, gan ddarostwng breniniaeth Judah yn fawr, 2 Cron. 28. 18, 19. GILL.—*Merched y Philistiaid*, a ddefnyddir yma i ddynodi y Philistiaid, megis y mae merched Samaria, Sodom, a'r Syriaid, yn sefyll am bobl y gwledydd hyny, adn. 46, 48, 57; gan ddwyn y gyffelybiaeth yn mlaen, a darlunio y cwbl fel merched anllad, yn puteinio gyd ag eilunod; eto y rhai hyn a gywilyddient am ffordd ysgeler yr Iuddewon, gan na's darfu iddynt hwy wadu eu crefydd, i fyned ar ol un ddieithr, fel y gwnaeth yr Iuddewon. W. LOWTH.

Adn. 38—40. Yr oedd godineb eilun-addoliaeth, a llofruddiaeth yn bechodau a gosbid â marwolaeth yn ol y gyfraith, Exod. 21. 12. Lef. 20. 10. Deut. 17. 2—7.—*A rhoddaf i ti waed mewn llidiowgrwydd ac eiddigedd;* cyfeiriad at y dwfr eiddigedd a roddai gwr i'w wraig a ddrwg dybid o fod yn anffyddlawn iddo; ond yn lle dwfr, rhoddai Duw waed i Jerusalem i'w yfed; hyny yw, efe a'i trochai ac a'i mwydai mewn gwaed. BOOTHROYD.—*Ac a'th labyddiant â meini:* dyma ydoedd cosbedigaeth yr odinebwraig; ac e debygid hefyd fod yma gyfeiriad at y peiriannau milwraidd a ddefnyddaid yn y gwarchae ar Jerusalem.

Adn. 41. *Yn ngolwg gwragedd lawer*, sef cenhedloedd lawer, oddiamgylch iddi. Mae yr alleg yn dra chyfaddas hefyd, canys nid oes neb yn ffieiddio puteiniaid yn fwy na gwragedd; ac ni's gallant lai nac ystyried eu cosbedigaeth lem yn gyfiawn. DAVIDSON.

Adn. 42. *Ac ni ddigiaf mwy.* Nid ymadroddion yn arwyddo cymmodiad yw y rhai hyn; ond rhai yn arwyddo y boddlonder a gâ un mewn ymddïal yn nghyd a'i esgeulusdra o wrthddrych ei ddïaledd wedi hyny. DAVIDSON. Nid ymdrafferthaf mwyach gyd a'th ymddygiad, gan nad fy eiddo i ydwyt mwy. POOLE. Fel gwr wedi gwrthod ei wraig yn hollol, a llwyr ysgaru â hi. GILL.

Adn. 43. *Ac na chofiaist ddyddiau dy ieuenctyd:* y daioni a roddais i ti, a'r cyfammodau a wnaethum â thi. *Esgob* HALL.

Adn. 44—47. Mae yn eglur oddiwrth yr ymadroddion hyn fod brodorion Sodom, a'r dinasoedd bychain oeddynt gyssylltiedig â hi, a elwir *ei merched*, a'r Hethiaid a'r Amoriaid, wedi bod unwaith yn proffesu y wir grefydd, yn addef yr Arglwydd yn Briod, neu Ben crefyddol iddynt: ond hwy a'i gadawsant ac a ymwrthodasant ag ef. Ychydig olion o eilun-addoliaeth a ganfyddwn ni yn mysg y Canaaneaid yn nyddiau Abraham, Isaac, a Jacob, ond yn mhen cant neu ddau o flwyddi wedi'n ni a ganfyddwn eu trefniant coelgrefyddol wedi cyrhaedd perffeithrwydd annuwioldeb.

Gelwir Samaria yn chwaer henaf ar gyfrif ei gradd, ac nid ei hoedran; yr oedd hi yn brif ddinas breniniaeth fawr mewn cydmariaeth i Sodoma. DAVIDSON.

Adn. 48—50. *Amlder seguryd;* neu yn hytrach, "gorphwysdra llwyddiannus."—*Ac ni chryfhaodd hi law yr angenog a'r tlawd,* trwy weinyddu i'w cysuro, Esa. 35. 3, 4. Eu hysbryd anllettygar a chreulawn, a dystia i wirionedd y darluniad yma. Gelwir pechod arswydus Sodom yn ffieidd dra, Lef. 18. 22. Nid oes genym un prawf fod preswylwyr y gwastadedd yn eilun-addolwyr, yn hytrach ymdebygent i'r cynddulîwiaid cnawdol, ac i anffyddiaid Ewrop, y rhai a ymysgydwent yn llwyr oddiwrth ofn Duw a pharch i ddyn, cymh. Matth. 24. 38. Jud. 7, 8. DAVIDSON.

Adn. 51, 52. *Ac a gyfiawnheaist dy chwiorydd.* Hyny yw, tydi a ddangosaist nad yw eu heuogrwydd hwy gymmaint a'r eiddot ti; a'u bod yn fwy teilwng o'u harbed na thydi. BOOTHROYD Nid oedd neb mwy parod i farnu a chondemnio y Sodomiaid, y Samariaid, a'r Canaaneaid, na'r Iuddewon, er bod eu hymddygiadau hwy yn fwy ysgeler na'r rhai a farnent; ac felly yr oeddynt yn eu condemnio eu hunain: cymh. Rhuf. 2. 1, 2. a 3. 19.

Adn. 53. *Pan ddychwelwyf eu caethiwed hwynt, &c.* Yma y dechreua prophwydoliaeth am adferiad yr Iuddewon a'r Cenhedloedd at Dduw a'i wasanaeth trwy gredu yr efengyl. Wrth Sodom yr ydym i ddeall hiliogaeth yr ychydig drigolion a ddiangasant rhag y farn a ddisgynodd ar ddinasoedd y gwastadedd, yn enwedig y Moabiaid a'r Ammoniaid; cymh. Esa. 15. 9. a Jer. 48. 47. DAVIDSON.

Adn. 56. *Canys,* neu "er nad" *oedd mo'r son am Sodom dy chwaer yn dy enau yn nydd dy falchder.* Nid oeddit yn meddwl am y farn amlwg a ddygais I ar Sodom, dy chwaer, pan oeddit yn ymfalchio mewn hunan ddiogelwch yn amser dy lwyddiant. COBBIN, BOOTHROYD.

Adn. 60. *Fy nghyfammod.* Er eu bod hwy wedi torri eu cyfammod âg ef, y mae efe yn addaw yn raslawn gadw ei gyfammod â hwy. BOOTHROYD.

Adn. 61. *Pan dderbyniech dy chwiorydd, &c.* Y rhai gan y'u dychwelir gyda thi, a ymunant â thi; cyflawnwyd hyn mewn rhan dan y Maccabeaid, ac yn enwedig trwy bregethiad yr efengyl; at yr hyn, tebygwyf, y mae yr adnodau nesaf yn cyfeirio. BOOTHROYD.

Adn. 63. *Pan ddyhudder,* neu "pan heddychir fi â thi."

## PEN. XVII.

Adn. 2. *Dychymyg,* cyffelybiaeth, aralleg. Mae y geiryn gwreiddiol yn arwyddoceau rhywbeth ag y mae yn rhaid wrth graffder i gael allan ei ystyr guddiedig, COBBIN, DAVIDSON.

Adn. 3. *Eryr mawr,* sef Nebuchodonosor, gwel Jer. 48. 40. a

49. 22. Dan. 7. 4.—*Mawr ei adenydd*, i arwyddo ehangder ei amherodraeth.—*Hir ei asgell*, i arwyddo ei gyflymder yn ei fuddugoliaethau.—*Llawn plu*, i ddynodi lluosogrwydd ei ddeiliaid.—*Amryw liwiau*, pobl o wahanol genhedloedd.—*A ddaeth i Libanus*, a ddaeth yn erbyn Judah.—*Ac a gymmerth frigyn uchaf y gedrwydden*, y brenin Jehoiachim, pen y wladwriaeth Iuddewig.—DAVIDSON.

Adn. 4. *Torodd frig ei blagur hi, &c.* Tywysogion ieuainc Judah, y rhai a gaethgludodd efe *i dir marsiandiaeth*, sef Caldea, gan eu cyfleu yn *ninas y marchnadyddion*, sef Babilon, yr hon oedd enwog am ei thrafnidiaeth â gwledydd pellenig, trwy gyfrwng y Tigris, yr Euphrates, a'r culfor Persiaidd.

Adn. 5, 6. *Had y tir*, Sedeciah, brawd Jehoiachim, fel yr eglurir yn adn. 13. *Esgob* HALL, W. LOWTH. Cymerodd Nebuchodonosor hwn, ac a'i gwnaeth yn frenin ar Judea dan deyrnged iddo ei hun. DAVIDSON.

Adn. 7. *Yr oedd hefyd ryw eryr mawr.* Dyma eryr mawr arall, yr hwn a gynnrychiolai frenin yr Aipht, wrth yr hwn y dysgwyliai Sedeciah am gynnorthwy yn erbyn brenin Babilon: am hyny yr oedd y winwydden, sef Sedeciah, yn plygu ei gwraidd ac yn bwrw ei cheinciau tuag atto. BOOTHROYD.

Adn. 9. *Oni thyn efe ei gwraidd hi?* trwy ddiorseddu ei brenin. —*Ei ffrwyth*, plant Sedeciah.—*Dail ei brig*, y pendefigion. A. CLARKE.—*Ac nid trwy fraich mawr.* Gwan oedd y gwrthsafiad a allodd Sedeciah ei wneuthur. CALMET.

Adn. 10. Mae *gwynt y dwyrain*, neu wynt tymhestlog, yn arwyddlun priodol o fyddin fuddugoliaethus Nebuchodonosor, pen. 13. 11, a 38. 9.—*Yn rhigolau ei thwf y gwywa.* Yr oedd y winwydden hon i gael ei tharo gan y tymhestlwynt niweidiol, a'i dadwreiddio o'i daiar ei hunan; ac felly y bu i Sedeciah o herwydd ymddiried o honaw yn yr Aipht, a bod yn anffyddlawn i Nebuchodonosor, fe ddygwyd ei goron oddiarno, nid mewn brwydr, ond yn agos i'w brif ddinas ac i'w orsedd. BOOTHROYD, DAVIDSON.

Adn. 12—15. Mae y prophwyd yma yn eglurhau yr alleg flaenorol, a chyda grym tra mawr yn dynoethi pechadurusrwydd ymddygiad Sedeciah.

Adn. 16. *Gydag ef*, sef Nebuchodonosor;—*y bydd efe marw*, ac felly y bu, fel y cofnodir yn Jer. 52. 9—11. GILL.

Adn. 18. *Efe a roddasai ei law*, ymadrodd cyffredin, yn arwyddo cyttundeb cyflawn, 2 Bren. 10. 15. Ezra 10. 19.

Adn. 22—24. *Brig y gedrwydden uchel.* Er fod tŷ brenhinol Dafydd i gael ei gosbi, eto nid oedd i gael ei ddystrywio; ond yr oedd un i darddu o honaw, a'i lywodraeth i fod yn gyffredinol, a'i allu yn anwrthwynebol. Ni's gellir cyssoni yr hyn a ddywedir am hwn â nodweddiad neb ond ein Harglwydd Iesu Grist; canys ni chyfododd yr un brenin ar ol caethgludiad tŷ Dafydd, yn meddu

y fath lywodraeth. BOOTHROYD.—*Sychu y pren ir*, a all fod yn dynodi darostyngiad gallu ac awdurdod Sedeciah, yr Aiphtiaid, y Caldeaid, neu unrhyw allu daiarol a fyddo yn wrthwyneb i gyfreithiau y Goruchaf.—*y pren crin*, efallai a arwyddocäai yr un a'r blaguryn tyner, yr hwn y rhaid iddo flaguro mewn ireidd-dra tragywyddol; cymh. Salm 72. 16—20. DAVIDSON.

## PEN. XVIII.

Adn. 1, 2. *Pa ham genych arferu y ddihareb hon?* Mae yr ymholiad yma yn cynnwys tybiaeth gref nad oedd efe wedi rhoddi un achos iddynt i arferu y cyfryw ddiareb yn yr ystyr y'i harferid ganddynt hwy; gwel Jer. 31. 27—30. Y bygythiad i ymweled ag anwireddau y tadau ar y plant, a olygai adfydau tymhorol yn unig; ac fe'i cyfyngir yn bendant i'r sawl a ddilynant anwiredd fel eu tadau. DAVIDSON.

Adn. 3. *Ni bydd i chwi mwy arferu y ddihareb hon yn Israel.* Yn y dinystr trwy y Babiloniaid, fe waredodd Duw y rhai a'i gwasnaethent ef yn ffyddlawn, ac nid neb arall, pa mor agos bynnag y perthynent iddynt, gwel pen. 9. 4, 6. a 14. 14, 20, 21. BOOTHR.

Adn. 4. *Wele, yr holl eneidiau, eiddof fi ydynt.* Creaduriaid i mi yw y naill fel y llall, o ganlyniad myfi a ymddygaf tuag attynt yn llwyr ddiragfarn ac anmhleidgar. W. LOWTH.

Adn. 5—9. *Canys os bydd gwr yn gyfiawn, &c* Mae y dyledswyddau a'r rhinweddau a grybwyllir yma o ryw wladol, a gellid eu cyflawni, fel y gwnelid hefyd yn aml, gan rai na's meddent unrhyw egwyddor wir grefyddol. Trwy gyflawni y pethau hyn yr oedd dyn yn gyfiawn, can belled ag yr oedd y cyfreithiau gwladol hyny yn cyrhaeddyd; a Duw fel brenin Israel yn ymrwymo i'w diogelu.—*Heb fwytta ar y mynyddoedd*, sef bwytta o'r aberthau a offrymmid i'r eilunod yno; *na chyfodi ei lygaid attynt*, mewn gweddi arnynt neu addoliad iddynt.—*Na nesau at wraig, &c.* Gwel Lef. 20. 18.—*Na gorthymu neb*, Ex. 22. 21, 25. Lef. 19. Deut. —*Ganfyw efe a fydd byw*, h. y., medd GROTIUS, efe a ddiogelir rhag y cleddyf, rhag haint, a rhag newyn. BOOTHROYD. Mae eraill yn dadleu yn gryf fod y *cyfiawn* yma yn golygu un wedi ei gyfiawnhau trwy ffydd yn y Messiah addawedig, yn profi ei gwirionedd o hyny trwy ei ufudd-dod trwyadl i lywodraeth y Duw cyfiawn; i'r hwn y mae bywyd tragywyddol yn addawedig. DAVIDS.

Adn. 10. *Yn lleidr*, mae y geiryn yn arwyddo un yn torri trwy furiau i dai; ac yn torri holl gyfreithiau Duw a dyn i gael porthi ei chwantau ysgeler.

Adn. 13. *Ei waed a fydd arno ei hun;* tywelltir ei waed am ei gamweddau; neu fe'i dihenyddir yn ol dedfryd cyfiawnder; ni bydd neb i'w feiaw ond ei hunan am ei ddystryw ef.

Adn. 22. *Ni chofir iddo;* ni chyfrifir i'w erbyn, neu ni chosbir arno; byddant megis wedi eu hanghofio. POOLE.

Adn. 24. *Ond, pan ddychwelo y cyfiawn oddiwrth ei gyfiawnder.* Pa gyhyd bynnag yr ufuddhao dyn i'r ddeddf, pan y'i troseddo, trwy ddyfod yn eilun-addolwr, yn yspeiliwr, yn odinebwr, &c., ni's gwna ei ufudd dod neu ei gyfiawnder blaenorol ei achub, ond efe a ddioddefa am ei anwiredd. BOOTHROYD. Mae rhai wedi bod yn ceisio dirdynu yr adnod hon i brofi y gall un gwir gyfiawn gwympo i bechod, a bod yn golledig dragywyddol wedi'n: ond y mae y cyfryw synied yn wrthwyneb i'r tystiolaethau mwyaf eglur yn ngair Duw; gwel Jer. 32. 39—41. Ioan 10. 27—29. Heb. 6. 9—20. 1 Pedr 1. 5. Phil. 1. 6, 7. 1 Ioan 2. 27. a 3. 4—9. E ddylid cofio fod y prophwyd yn son am fywyd a marwolaeth ysbrydol, a'r cyfryw yn cael ei ddyfarnu i bob un yn ol ei weithredoedd; ac o ganlyniad, efe a lefara am ddynion yn amlygu trwy y gweithredoedd hyn, eu bod yn gyfiawn neu yn ddrygionus. Ni's medda yr hwn sydd o ymddangosiad yn gyfiawn un rheswm i obeithio am fywyd, oddieithr parhau o honaw hyd ddiwedd ei ddyddiau i brofi nefol darddiad ei egwyddorion trwy ei weithrediadau. Ond ni's gwnaed hyn gan amryw a ymddangosent yn gyfiawn, ac am y cyfryw oll, y mae yn ddiammeu y datgenir eu gweithredoedd yn annigonol i brofi eu hawlion o'r nodweddiad a gymerasent i fynu; ac o ganlyniad, na's gellir eu golygu felly gan Farnydd cyfiawn yr holl ddaiar; gwel 2 Pedr 1. 8, 9. Ioan 15. 1—8. Heb. 3. 12—14. a 6. 6—8. DAVIDSON.

Adn. 31. *Bwriwch oddiwrthych eich holl gamweddau.* Nid yn unig peidiwch â phechod; ond bwriwch ef ymaith mewn digofaint, fel peth ffiaidd a niweidiol, neu faich a'ch suddai. POOLE. Effallai mai gwell fyddai esponio hyn am fwrw ymaith eu heilunod trwy y rhai y camweddent, gwel pen. 20. 7, 8. GILL.—*A gwnewch i chwi galon newydd:* un o brïodolderau edifeirwch diffuant yw, ei fod yn gosod y galon yn erbyn ei phechodau ei hunan. POOLE. Gorchymynid i'r Israeliaid wneuthur y pethau hyn fel y'u hargyhoeddid o'u llygredigaeth, eu hanallu, a'u trueni eu hunain, ac y dysgent werthfawrogi a dadleu addewidion Duw. Mae y cyfryw gynghorion yn gyffelyb i'r eiddo Crist i'r claf o'r parlys i gymeryd ei wely i fynu, a rhodio; gan ymddibynu ar gynnorthwy yr hwn a roddai y gorchymyn, efe a gynnygiai ufuddhau, ac a'i canfyddai ei hun yn alluog i gyflawni yr hyn a orchymynasid. SCOTT. Mae y geiriau yn cynnwys amnaid o'u dyledswydd i weddio ar i Dduw roddi i ni galon newydd, megis Dafydd, Salm 51. 10, canys pan y mae Duw yn gorchymyn yr hyn sydd anmhossibl i ni i'w gyflawni, y mae yn ein cyfarwyddo i ofyn gadddo ef ei wneyd i ni; ac am hyny mewn lleoedd eraill efe a addawa roddi i ni galon newydd: gwel pen. 36. 26. BOOTHROYD.

## PEN. XIX.

Adn. 2. *Llewes,* darluniad cyfaddas i freniniaeth Judah, yr hon

a fu yn mysg y cenhedloedd cylchynol yn hynod am ei hanymddibyniaeth, ei nerth, a'i dewrder, fel llewes yn mysg bwystfilod y goedwig. Gwel Gen. 49. 9.

Adn. 3. *Un o'i chenawon*, sef Joaz, yr hwn a gaethgludwyd i'r Aipht: gwel 2 Bren. 23. 33, 34.

Adn. 4. *Y cenhedloedd*, yr Aiphtiaid a'u cynghreirwyr.—*a glywsant son amdano*, ei fod yn frenin drygionus, ac o ganlyniad yn un na's byddai yn anhawdd iddynt ei ddarostwng, gan nad oedd ynddo annogaeth ddigonol i beri i'w bobl ei gefnogi yn bybyr.

Adn. 5—7. *Un arall*, sef Jehoiachim, yr hwn oedd ormeswr creulawn.

Adn. 8. Darllener yr hanes yn 2 Bren. 24. 3. a 2 Cron. 36. 6, &c, lle y cair yr esponiad goreu ar eiriau y prophwyd.

Adn. 10. *Fel gwinwydden yn dy waed di.* Yma y mae y prophwyd dan gyffelybiaeth arall yn darlunio cyflwr dedwydd a blodeuog ei wlad unwaith. Yr oedd yn ffrwythlawn, yn mwynhau ei breninoedd a'i deddfau ei hun; a'r pryd hyny yr ydoedd fel gwinwydden ffrwythlawn: ond yn awr, yr oedd hi fel un o brennau yr anialwch, yn wywedig a nychlyd.—Yn yr adnod olaf cyfeirir at Sedeciah. BOOTHROYD.

## PEN. XX.

Adn. 1. *Y seithfed flwyddyn* o gaethgludiad Jeconiah, a theyrnasiad Sedeciah, o'r hwn gyfnod y mae gweledigaethau a phrophwydoliaethau Ezeciel wedi ei hamseru.—*I ymgynghori â'r Arglwydd.* Ni hysbysir ni am ba beth yr oeddynt yn dyfod i ymgynghori: ond y mae lle i gasglu oddiwrth yr hanes, mai yn nghylch rhyw beth anmhrïodol os nad pechadurus. BOOTHROYD.

Adn. 4. *A ferni*, neu "Oni ferni di hwynt?" Oni ddadleui di â hwynt, gan eu ceryddu a'u condemnio am eu heilun-addoliaeth a'u pechodau lluosawg?

Adn. 5—9. Yr oedd eu tadau yn wrthfyfelgar ac eilun-addolgar yn yr Aipht; eto yr Arglwydd a'u harbedai ac a'u hachubai er mwyn ei enw ei hun. BOOTHROYD. Mae yn eglur oddiwrth y geiriau hyn fod Israel yn dra thueddol at eilun-addoliaeth yr Aiphtiaid; ac fe ellid casglu iddo fygwth eu diwreiddio am hyny. Mae yn wir na's crybwyllir yr amgylchiadau hyn gan Moses, ond nyni a wyddom fod yr Arglwydd wedi cyfodi prophwydi yn eu mysg hwy yn yr Aipht, megis Joseph, rhieni Moses, a Moses ei hunan; ac yr oedd eu gwaith yn gwneyd y llô ac yn ei addoli yn yr anialwch yn brawf o duedd y bobl at eilun-addoliaeth yr Aiphtiaid. DAVIDSON.

Adn. 10—17. Rhoddasai Duw ei ddeddfau sanctaidd a da iddynt yn yr anialwch, ac a sefydlasai ei ordinhadau yn eu plith, ac a'u neillduasai oddiwrth y cenhedloedd eraill iddo ei hunan; ond hwy a wrthryfelasant, ac a aethant ar ol eu heilunod: ac am hyny,

er iddo eu harbed fel cenedl, efe a'u dyfarnodd i farw yn yr anialwch. BOOTHROYD.

Adn. 21—26. Yr oedd y genedl a anesid yn yr anialwch yn fwy ufudd na'u tadau; er hyny yr oeddynt hwythau yn aml yn euog o wrthryfel, fel y bu raid i Moses hysbysu iddynt y byddai i'w had gael eu caethgludo at yr holl genhedloedd am eu heilunaddoliaeth. Gwel Lef. 26. 33. Deut. 29. 1, &c.—*Minnau hefyd a roddais iddynt ddeddfau nid oeddynt dda*; neu a'u rhoddais i fynu i ddeddfau nid oeddynt dda; efe a'u rhoddodd hwynt i fynu, a hwythau a ymroisant i ddefodau ac ordinhadau y paganiaid.—BOOTHROYD, A. CLARKE.—*Ac a'u halogaist hwynt*, trwy eu goddef i ymhalogi. HEWLETT.

Adn. 27—31. Mae Duw yn adgoffa i'r rhai a ymofynent âg ef, eilun-addoliaeth eu tadau yn eu tir eu hunain, ac yn edliw eu hymlyniad hwythau wrth eilun-addoliaeth, er pob rhybudd a gawsent i'r gwrthwyneb; fel yr oeddynt yn ddigon digywilydd yn cyhoeddi enw eu huchelfa ffiaidd, ac yn cyrchu yno yn lle myned i gyssegr Duw. BOOTHROYD.

Adn. 32—38. *Eich bwriad ni bydd ddim.* Yr oeddynt hwy yn bwriadu llwyr ymwrthod â Duw eu tadau, ac ymroddi yn hollawl i ddilyn eilunod y cenhedloedd o'u hamgylch; ond y mae efe yn tystio y mynnai efe ei ddangos ei hunan yn Dduw iddynt trwy eu cosbi.—*Anialwch y bobloedd*, sef yr anialwch oedd yn nghymmydogaeth y Caldeaid a'r cenhedloedd eraill, i fysg y rhai y dëolwyd yr Israeliaid, medd MICHAELIS, BOOTHROYD. Ond, oni all yr ymadrodd fod yn dynodi cystuddiau yn gyffredinol, y rhai a ddefnyddiai yr Arglwydd i ddwyn ei bobl ato ei hun? a dyma ydyw ystyr arwydd-luniol "anialwch y bobloedd" yn y Testament Newydd, neu anialwch yr eglwys Gristionogol, Dat. 12. 14. DAVIDSON.—*I rwym y cyfammod*, neu yn ol y Syriaeg, i ddysgyblaeth y cyfammod; yr hyn a arwyddocäai y byddai i Dduw eu ceryddu a'u dysgu yn ol natur ei gyfammod â hwy. BOOTHROYD.—*Ac i wlad Israel ni ddeuant.* Mae llawer yn meddwl mai y gwrthryfelwyr a ffoisant i'r Aipht ar ol llofruddiaeth Gedaliah yw y rhai a olygir yma. Caethgludwyd rhai o'r rheiny i Caldea gyd a'r Aiphtaid; Jer. 43. 11; ond yr oedd y rhan fwyaf o honynt i gael eu llwyr ddyfetha, Jer. 44. 12.

Adn. 39—44. Yma eto y mae yr Arglwydd, gan gyfeirio at y bwriad a grybwyllwyd yn adn. 32, yn eu cyfarch, gan ragfynegi pa mor eilunaddolgar bynnag oeddynt yn awr, y'u dygid i edifarhau, ac i gydnabod eu camweddau blaenorol, a'i drugaredd ef tuag attynt, ar eu hadferiad. BOOTHROYD.

Adn. 45—49. *Tua choed maes y dehau*, sef Judea, yr hon oedd i'r dehau o Caldea, lle yr oedd y prophwyd yn awr yn traddodi ei brophwydoliaeth; canys yr oedd efe y pryd hyn yn trigo yn ngogledd-dir Caldea. NEWCOME. Darlunid Judea dan y gyff-

elybiaeth o goedwig; ond yr oedd yr Arglwydd yn myned i gynneu tân ynddi, a losgai bob pren o'i mewn. BOOTHROYD. Defnyddir yr un gyffelybiaeth mewn mannau eraill i ddarlunio cenedl wedi ei hanrheithio, Esa. 37. 24. Jer. 46. 23. Zech. 11. 2.—*Onid dammegion y mae hwn yn eu traethu?* Mae yn debyg eu bod hwy yn ymesgusodi am eu hanystyriaeth o'r hyn a lafarai y prophwyd trwy gymeryd arnynt nad oeddynt yn deall yr hyn a ddywedai efe: ac yr oedd hyn yn ei ofidio ef yn ddwys, yr hyn a ddangosai ei gariad at ei bobl, ac hefyd nad o honaw ei hun yr oedd efe yn llefaru, ond fel y'i cynhyrfid gan yr Ysbryd Glân. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon pan gymerwyd Jerusalem. DAVIDSON.

## PEN. XXI.

Adn. 1—7. Yma y mae y prophwyd yn cyhoeddi yr hyn a ddarluniasai o'r blaen trwy y gyffelybiaeth o goedwig, heb gyffelybiaeth; ac yn dweyd yn eglur y byddai i gleddyf y gelyn gael ei ddynoethi, ac i'r cyfiawn a'r drygionus, y pren îr a'r pren sych gwympo tano yn yr un modd.

Adn. 10. *Y mae efe yn dirmygu gwialen fy Mab fel pob pren.* Nid yw yn gwneyd gwahaniaeth rhwng y deyrnwialen a choed cyffredin; rhwng cangenau o'r teulu breninol, a ddisgynasent o Dafydd, ac a arddelwid gan Dduw fel ei feibion, (2 Sam. 7, 14. Salm 89. 26.) a'r gwaelaf o'r bobl. J. COBBIN.

Adn. 11, 12. *I'w roddi yn llaw y lleiddiad,* Nebuchodonosor neu ei fyddin.—*Taro law ar forddwyd,* arwydd allanol o ofid dwys, Jer. 31. 19.

Adn. 13. *Canys profiad yw,* hyny yw, byddai i farnedigaethau Duw trwy y Caldeaid brofi yr Iuddewon, pa un a wnaent ai edifarhau ai peidio: ac os dirmygai y cleddyf deyrnwialen Sedeciah, pa beth a fyddai y canlyniad ond terfyniad i freniniaeth dymhorol Dafydd? Eraill a ddarllenant, "Canys profedig yw;" yr oedd y cleddyf wedi ei brofi yn llym ac o ddefnydd da, wrth ddystrywio cenhedloedd eraill, ac os byddai i'r lleiddiad ddiystyru teyrnwialen Judah, rhaid fyddai i'r freniniaeth beidio oddiyno. NEWCOME, BOOTHROYD.

Adn. 14—17. *Taro law wrth law,* arferid hyn weithiau yn arwydd o ofid, pen, 6. 11.—o gynddaredd, Num. 24. 10,—o syndod, pen. 22. 13; ond y mae llawer yn meddwl ei fod yma yn arwydd o galonogiad i'r Caldeaid. NEWCOME. Mae taro y dwylaw yn nghyd, yn y Dwyrain, yn cyfatteb i lŵ er sicrwydd o ryw beth; a thrwy yr arwydd hwn dangosid fod y gair wedi myned allan, ac na's gelwid yn ol. ROBERTS.—*A dybler y cleddyf y drydedd waith;* neu, "a dwg y cleddyf ddwywaith; ïe dwg ef deirgwaith." BOOTHROYD.—*Yn myned i'w hystafelloedd,* lle y ffoisent am eu bywyd, gwel 1 Bren. 22. 25. W. LOWTH. Darfu i fyddin y Caldeaid oresgyn Judea dair gwaith. DAVIDSON.

Adn. 19—22. *Gosod i ti ddwy ffordd.* Yr oedd brenin Caldea

i deithio yn ei dir ei hun hyd oni ddeuai hyd at yr anialwch: ac yno byddai i'r ddwy ffordd hyn dynu ei sylw; un yn arwain i brif ddinas yr Ammoniaid, a'r llall rhag blaen i Jerusalem. Yma gan hyny efe a ddewiniai wrth ei saethau, yr hyn a wnelid yn gyffredin trwy roddi tair saeth (heb edyn arnynt) mewn cwd, ar un y byddai yn ysgrifenedig, "Gorchymyn fi Arglwydd;"—ar y llall "Gwahardd fi Arglwydd; a'r drydedd a adewid heb ddim yn ysgrifenedig arni; yna tynid un o'r rhai hyn allan ar antur, ac felly terfynid y ddadl; ond os yr un oedd heb ddim yn ysgrifenedig arni a dynnid, byddai raid gwneyd prawf drachefn. Ar achlysur tebyg i hwn, ysgrifenid enwau yr amrywiol ddinasoedd yr amcenid ymosod arnynt ar gynnifer o saethau gwahanol, y rhai a roddid mewn cawell; ac yna pa un bynnag a dynid allan gyntaf, a derfyna y peth ar ba ddinas i ymosod gyntaf. ST. JEROME.—*Delwau*, ar lun dynion, y rhai oeddynt wedi eu llunio yn y fath fodd fel y gallai eu hoffeiriaid cyfrwys roddi attebiad i'r ymofynwyr trwyddynt, a'r fath yma oeddynt yr oraclau paganaidd.—*Edrychodd mewn afu*, llo, mŷn, neu oen, a laddesid i'r perwyl; os byddai rhyw ran o'r afu yn ddiffygiol, neu yn afiach, neu ei fod wedi ei glwyfo wrth ei agor, ystyrid hyny yn arwydd o aflwydd; ond os yn ddyblyg, &c., ystyrid fod hyny yn arwyddoccau llawenydd, dedwyddwch, a llwyddiant. GILL.—*Yn ei law ddehau yr oedd dewiniaeth Jerusalem.* Neu, "Tua'i law ddehau y disgynai dewiniaeth yn erbyn Jerusalem." BOOTHROYD. Yr oedd ei holl ddewiniaeth yn ei gyfeirio tua'i ddeheulaw, yn erbyn Jerusalem. GILL, DATHIUS.

Adn. 23. *Fel dewinio dewiniaeth gwagedd, &c.* Ni chredai yr Iuddewon y deuai efe rhagddo i ddystrywio eu dinas; ond y mae y prophwyd yn sicrhau y deuai efe ac y cosbai y rhai a dorrasant eu llŵ o ffyddlondeb iddo ef. BOOTHROYD.

Adn. 24. *Y'ch delir â llaw*, mor rwydd ag y cymerir aderyn â llaw o'r fagl. GILL.

Adn. 25—27. Mae y prophwyd yn llafaru yn eofn am berson a nodweddiad Sedeciah, tywysog oedd yn gwir deilyngu y diwedd adwythus a ddaeth iddo. Yr oedd efe i golli y goron a'r freniniaeth, ac nid oedd mwyach i feddu y gallu a feddai i gyflawni yr anwiredd o ormes ac eilun-addoliaeth. Yr oedd yr awdurdod freninol i ddarfod hyd oni ddeuai un yr oedd ei hawl i orsedd Dafydd yn ddiamheuol; wrth yr hwn y golygid y Messiah. Cymh. Gen. 49. 10. BOOTHROYD.

Adn. 28-32. *Am feibion Ammon:* er fod brenin Babilon y pryd hwn wedi troi ei arfau yn erbyn Jerusalem, yr oedd y prophwyd yn sicrhau yr Ammoniaid y deuai dydd eu cosbedigaeth hwythau yn fuan. BOOTHROYD.

## PEN. XXII.

Adn. 1, 2. *A ferni*, neu, "Oni ferni" *di ddinas y gwaed?* Yr oedd y ddinas sanctaidd wedi dyfod yn ddinas creulondeb a llof-

ruddiaeth, canys yr oedd y camweddau hyn yn gyffredin ynddi. Cymh. pen. 20. 4. a pen, 23. 37, 45. a 24. 6, 9. 2 Bren. 21. 16.

Adn. 4. *A daethost hyd at dy flynyddoedd.* Yr oedd amser ei dïaledd a'i chosb wedi dyfod yn gyfiawn; canys yr oedd cwpan ei hanwiredd yn llawn. DAVIDSON.

Adn. 6. *Bob un yn ei allu i dywallt gwaed*, neu, "Pob un yn ol ei allu oedd yn tywallt gwaed ynot." BOOTHROYD.

Adn. 9. *Athrodwyr oedd ynot*, hyny yw, rhai yn dyfeisio gau gyhuddiadau yn erbyn y diniwed. DAVIDSON.

Adn. 10. *Y datguddient noethni eu tad*, trwy halogi ei wraig. DAVIDSON.

Adn. 13. *Tarewaist fy llaw wrth dy gybydd-dod*, yn arwydd o syndod a digofaint o'r herwydd. NEWCOME.

Adn. 16. *A thi a etifeddi ynot dy hun*, neu, "A chymeraf di yn feddiaeth" *yngwydd y cenhedloedd.* LXX, JEROME, BOOTHROYD. Ni's gallai efe wneuthur hyn hyd oni's purai hwynt, yr hyn oedd ei eithafnod yn ei ymdriniaethau â hwynt. DAVIDSON.

Adn, 17—22. Yn yr adnodau hyn dangosir mai amcan Duw yn ei farnedigaethau oedd tynu ymaith yr anmhuredd, a chasglu y sylwedd gwerthfawr. Yr oedd drygioni cyffredinol y genedl wedi ei wneuthur yn dra angenrheidiol i'r fath oruchwyliaeth buredigawl gael ei rhoddi mewn gweithrediad, fel y mae yn eglur oddiwrth yr adnodau canlynol.

Adn. 24. *Sydd heb ei buro*, neu, "Heb ei ddyfrhau â chawodau. LXX, BOOTHROYD.

Adn. 25. *Ei phrophwydi*, ei gau brophwydi, y rhai efallai a gydunent i gefnogi prophwydoliaeth eu gilydd; gwel pen. 13 11, 12. CALMET.

Adn. 26—31. *Ei hoffeiriaid.* Yr oedd y rhai hyn yn rhwym wrth eu swydd i gadw y gyfraith a'i gosod mewn grym, ond anwybodaeth dwfn, ac esgeulusdra camweddus a ffynai yn eu plith. Y tywysogion oeddynt fleiddiau; pob dosbarth o gymdeithas yn eu plith oeddynt wedi ymlygru, a'r holl gorff gwladol mewn anhwylder, fel na cheid neb yn eu plith y gallai ei eiriolaeth drostynt gyd a'r Arglwydd fod yn llwyddiannus i droi ei ddigofaint cyfiawn ef oddiwrthynt, gwel pen. 13. 5. a 14, 14—20.

## PEN. XXIII.

Adn. 2. *Dwy wraig oedd ferched i'r un fam*, sef Samaria a Jerusalem, neu Israel a Judah, y rhai a berthynent i'r un tir, ac a blannesid â'r un genedl: gwel pen. 16. 46. Jer. 3. 7, 8.

Adn. 4. *Aholah ac Aholibah.* Yr enw cyntaf, "ei phabell," a ddynodai Samaria, yr hon a osododd ei phabell ei hun i fynu mewn gwrthwynebiad i drigfa yr Arglwydd yn Jerusalem. BOOTHROYD. Gelwir hon *yr hynaf*, o herwydd fod y deg llwyth yn lluosocach, galluocach, a chyfoethocach na Judah. GILL.—*Aholib-*

*ah*, "fy mhabell sydd ynddi," am fod Duw wedi gwneyd Jerusalem yn eisteddle addoliad iddo ei hunan. BOOTHROYD.

Adn. 5—10. *A butteiniodd*, a drodd at eilun-addoliaeth.—Y rhai *a wisgid â glâs*, neu liw yr awyr, lliw nad arferid gan neb ond rhai o'r gwaed breninol, neu y pennaethiaid uchelaf yn yr hen amseroedd. DAVIDSON. Ymgyssylltai Samaria â'r Assyriaid, ac a gofleidiai ei harferion eilun-addolgar, er cymeryd arni berchi Duw Israel; am hyny Duw a'i rhoddes i fynu i'w chariadau, y rhai a'i gwaradwyddent ac a ddatguddient ei chywilydd. BOOTHROYD.—*A hi a aeth yn enwog yn mysg gwragedd*, hyny yw, yn hynod am ei drygioni, ac yn nodedig fel esampl o farnedigaethau Duw yn mysg y cenhedloedd.

Adn. 11—20. Ni ddarfu i'r pläau a'r barnau a dywelltid ar Israel effeithio i arwain Judah i edifarhau, ond hi a ragorodd yn ei hynfydrwydd eilun-addolgar ar ei chwaer, gan gofleidio eilun-addoliaeth y Caldeaid a'r Aiphtiaid, yn gyssylltiedig â'r hwn y cyflawnid yr ysgelerderau ffieiddiaf.

Adn. 23. Meddylir mai parthau o'r ymerodraeth Fabilonaidd oedd Pecod, Soa, a Coa; ond nid ydys yn adnabyddus o'u sefyllfa yn bresenol. Gwel Jer. 1. 31. DAVIDSON.

Adn. 24. *Rhoddaf o'u blaen hwynt farnedigaeth:* hyny yw, trefnaf bethau yn y fath fodd, fel y bydd y Babiloniaid megis barnwyr yn penderfynu dedfryd Israel. DAVIDSON.

Adn. 25. Yma y mae yr Arglwydd yn cyfeirio at y cosbedigaethau a roddid yn gyffredin am butteindra yn yr amseroedd gynt, er dangos gyfiawned y gosb a ddygid arnynt hwy am eu heilun-addoliaeth.—Difa drwy dân, oedd ddull arall o gosbi rhai yn mysg y Caldeaid, Dan. 3. 22. Neu hwyrach fod y geiriau yn dynodi ei hysbeilio o'i holl harddwch. COBBIN.

Adn. 29. *Dy holl lafur*, neu ffrwyth dy lafur.

Adn. 32. *Y mae llawer yn genni ynddo:* neu, "y mae yn cynnwys llawer." *Saes.*

Adn. 34. *Drylli hefyd ei ddarnau ef:* cyfeiriad at y meddwon, y rhai wedi yfed hyd feddwdod, a dorrant eu gwydrau, neu eu cwpanau.—*Ac a dynni ymaith dy fronnau dy hun*, i arwyddo y byddai iddynt rwygo eu cnawd eu hunain gan ing a gofid fel y cenhedloedd. DAVIDSON.

Adn. 38—42. Mae yn eglur oddiwrth y geiriau hyn fod yr Iuddewon yn tywallt gwaed eu plant eu hunain, pan y'u hoffrymment i Moloch ac i eilunod cyffelyb; a phan y byddent wedi ymhalogi drwy y fath ysgelerder, yn myned i deml Duw, fel pe buasent yn bobl iddo ef.—*Ar wely anrhydeddus.* Mae y prophwyd yn ol defod y dwyrain, yn darlunio teml rhyw eilun trwy y gyffelybiaeth hon, ac Aholibah wedi ymwisgo fel priodferch yn eistedd yno, ac yn cyflwyno y cyfryw offrymmau iddynt ag a ddylasai offrwm i'r Arglwydd. BOOTHROYD.

Adn. 45—47. *A'r gwyr cyfiawn,* sef y Babiloniaid, a elwid felly, nid oblegid rhagoriaeth eu nodweddiad, ond oblegid eu bod wedi eu happwyntio gan Dduw i gyflawni ei farnedigaeth ar ei bobl wrthgiliedig.

## PEN. XXIV.

Adn. 1, 2. *Ysgrifena enw y dydd hwn.* Yr oedd hyn yn angenrheidiol fel y gwelai y bobl fod yn rhaid mai trwy ysbrydoliaeth Duw yr oedd efe gynnifer o filldiroedd o Jerusalem yn gallu dywedyd pa beth yr oedd Nebuchodonosor yn ei wneuthur yno ar y pryd hwnw. Cymh. 2 Bren. 25. 1. Jer. 39. 1. a 52. 4.

Adn. 3—5. Fel yr oedd Ezeciel yn offeiriad yr oedd efe yn gyfarwydd gyd a'r dull o barottoi yr aberthau, oddiwrth yr hyn mai yn debyg y cymerwyd cyffelybiaeth y crochan berwedig gyntaf; gwel 1 Sam. 2. 13, 14.

Adn. 6. *Na syrthied coelbren arno*; i achub rhai a dystrywio y lleill, fel y mae yn bod mewn rhyfel weithiau; ond byddai y dystryw yma yn gyffredinol. Gwel 2 Sam. 8. 2. Joel 3. 2.

Adn. 7. *Ar goppa craig y gosododd hi ef.* Cyfeiriad efallai at yr arferiad o offrymmu aberthau dynol i'r eilunod ar uchelfeydd creigiog y mynyddoedd. A'u gwaith yn esgeuluso ei guddio â llwch yn ol y gyfraith, a ddangosai mor ddibris oeddynt o fywyd dynol. Gwel. Jer. 2. 34. Lef. 17. 13.

Adn. 8 *Rhoddais ei gwaed ar goppa craig,* drwy yr hyn y dangosai Duw ei fod ef yn penderfynu gwneyd ei chosb mor amlwg a'i chamwedd. W. LOWTH.

Adn. 9—11. Yr oedd tân mawr i gael ei ennyn, yr esgyrn i gael eu llosgi, a'r berwedydd pres i fod yn arwydd-lun, y byddai nid yn unig i'r trigolion, ond i'r ddinas ei hunan hefyd gael ei dystrywio.

Adn. 12—14. *Nid aeth ei hyscum mawr allan o honi.* Er fod Jerusalem wedi dyoddef llawer, eto nid oedd wedi ei phuro; am hyny y mae Duw yn bygwth ei llwyr ddystrywio.

Adn. 16—18. *Dymuniant dy lygaid,* sef gwraig y prophwyd, yr hon oedd fenyw brydferth a hawddgar e ddichon.—*A dyrnod,* y parlys mud efallai: ac er mor ofidus i feddwl y prophwyd oedd y tro, nid oedd wiw iddo ymddangos yn alarus dano. Amcenid amgylchiadau fel hyn i gyffroi y bobl i ystyried eu cyflwr peryglus, ac edifarhau am eu camweddau lluosog.—*Na fwytta chwaith fara dynion,* neu fara galar, y cyfryw ag a anfonid gan eu cyfeillion i alarwyr, er lloni eu hysbrydoedd. Yr oedd y prophwyd drwy hyn i roddi ar ddeall iddynt y byddai i bob galar personol gael ei lyncu i fynu yn yr adfyd cyffredinol, gan mor fawr fyddai trychineb y genedl; neu y byddai y dyrnod tu hwnt i bob galar.—WILLIAMS, CLARKE.

Adn. 19—24. Mewn attebiad i'w hymofynion, mae y prophwyd yn tystio y byddai i'w teml, yr hon yr oeddynt mor hoff o honi, ac

yn yr hon y cyflawnasent eu defodau eilun-addolgar, gael ei halogi a'i dinystrio gan Dduw, ac eto na's goddefid iddynt arllwys eu galar ar yr achlysur.

Adn. 27. Mae yn ymddangos i Ezeciel fod yn fud fel prophwyd o leiaf, heb gael un datguddiad prophwydoliaethol newydd o'r pryd hwn hyd oni ddaeth cennad atto i'w hysbysu fod Jerusalem wedi ei chymeryd, yn mhen tua deunaw mis ar ol hyn. GILL, &c.

## PEN. XXV.

Adn. 1, 2. Mae yr hyn a ddywedir yn y bennod hon yn arwyddo fod Jerusalem wedi ei chymeryd, a bod hyny wedi peri llawenydd yn mysg y cenhedloedd cylchynol; gan hyny y mae y bennod hon o ran trefn amgylchiadau i ddilyn pen. 34. BOOTHROYD, USHER.

Adn. 4. *I feibion y dwyrain*, yr Arabiaid efallai; oblegid pan gaethgludwyd y trigolion o'r tu hwnt i'r Euphrates, rhuthrodd yr Arabiaid i feddiannu eu gwlad. CALMET. Yr oedd yr Arabiaid yn gwneyd i fynu ran o fyddin Nebuchodonosor, ac efallai iddo roddi gwlad yr Ammoniaid iddynt yn wobrwy am eu gwasanaeth. GILL. —*Palasau*, neu gestyll; ond e ddichon y gair hefyd fod yn arwyddo gwersylloedd; ac y mae yr hyn a ddywedir am eu pebyll, a'u dïadellau yn gweddu yn fwy prïodol i nodweddiad yr Arabiaid, na'r eiddo y Caldeaid. Mae y teithydd enwog BUCKINGHAM yn un o'i ddydd-lyfrau yn crybwyll ei fod wedi bod yn gorphwyso yn nghanol diadellau o ddefaid a geifr, gerllaw adfeilion Ammon.

Adn. 7. *Dinystriaf di.* Mae y wlad hon, a fu unwaith yn boblog a blodeuog, wedi ei chyfnewid yn ddiffaethwch maith yn bresenol. *Seetzen's Travels, p.* 34. Y mae gwastadedd ffrwythlawn yn nghymmydogaeth Ammon, wedi ei fritho â bryniau isel, y rhai a orchuddir gan mwyaf â hen adfeilion. *Buckhart's Syria.*

Adn. 8, 9.—*Moab a Seir.* Yr oedd y ddwy genedl yma yn trigiannu yn agos y naill i'r llall; wrth yr olaf y golygir yr Edomiaid, neu hiliogaeth Esau, y rhai a feddiannasant fynyddoedd Seir. GILL, CALMET.—*Wele dŷ Judah fel yr holl genhedloedd*, yn ddarostyngedig i gael eu goresgyn gan y buddugoliaethwyr fel cenhedloedd eraill; trwy y cyfryw ymadroddion, ond odid, yr edliwiai Moab, nad oedd yr Arglwydd, yr hwn yr ymffrostiai Israel ei fod yn Dduw iddynt, yn fwy galluog i amddiffyn ei addolwyr nac ydoedd duwiau y cenhedloedd; ïe, efe a ymddangosai fel pe buasai yn llai ei diriondeb neu ei allu na duwiau Moab, yr hon a gawsai ddianc hyd yma rhag syrthio i grafangau y buddugoliaethwyr Caldeaidd. Nyni a wyddom fod y cenhedloedd yn coledd y cyfryw feddyliau gwaelion am Dduw mewn canlyniad i ddyoddefiadau llymion ei bobl ddewisedig ef; cymh. Sal. 79. 10, a 42. 3, 10. Joel 2. 17.—*Agori ystlys Moab*, trwy roddi y prif amddiffynfeydd ar y terfyn i ddwylaw y goresgynydd. CALMET.

Adn. 10. *I feibion y Dwyrain yn nghyda meibion Ammon.* Darostyngodd Nebuchodonosor yr Ammoniaid a'r Moabiaid.—NEWCOME.

Adn. 12—14. Mae yn ymddangos fod yr Edomiaid wedi dinystrio yr ychydig ffoaduriaid a ddïangasent rhag cleddyfau y y Babiloniaid, ac yr oeddynt hwy eu hunain i gael eu torri ymaith am hyn, ïe, yr oedd yr Israeliaid eu hunain i ad-dalu iddynt wedi eu hadferiad, ac felly y bu iddynt gael eu darostwng dan y Maccabeaid. BOOTHROYD, GILL, DAVIDSON.

Adn. 15—17. Yr oedd llawer ymrysonfa waedlyd wedi bod rhwng y Philistiaid a'r Israeliaid, a hen gâs greddfol ynddynt tuag attynt er pan y'u gorchfygid gan Dafydd, ac wedi'n yn ddiweddarach gan Hezeciah. Hwyrach eu bod hwy yn lloni yn nghwymp yr Iuddewon, gan ddysgwyl y byddai hyny yn fantais iddynt hwy ymddyrchafu i'w sefyllfa alluog flaenorol; ond yr oedd y cyfryw ddysgwyliad yn llwyr ofer.

## PEN. XXVI.

Adn. 1. *Yn yr unfed flwyddyn ar ddeg;* mewn un hen Ysgrif darllenir "y ddeuddegfed," ac ychwanegir, "ar y dydd cyntaf o'r mis cyntaf," yn unol a dull cyffredinol Ezeciel o amseru ffeithiau. Traddodwyd y brophwydoliaeth hon ar ol cymeriad Jerusalem, yr hyn a wnaed yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o'r caethgludiad, ac o deyrnasiad Sedecïah.

Adn. 2. Yr oedd Tyrus yn golygu Jerusalem fel ei gwrthymgeisydd mewn masnach, ac am hyny y llawenychai gymmaint o herwydd dystryw y ddinas hono. BOOTHROYD.—*Pyrth y bobloedd,* lle yr ymgyfarfyddent yn dorfeydd mawrion ar ei huchelwyliau arbenig. W. LOWTH.—*Trodd attaf fi: fo'm llenwir.* Pan gymmerwyd Jerusalem cludwyd yspail y ddinas, a rhai o'r caethion hefyd efallai i Tyrus, i'w gwerthu, gwel pen. 37. 15. cymh. Joel 3. 4, 5, 6.

Adn. 4. *Minnau a grafaf ei llwch o honi,* wrth yr hyn y dynodir dinystr trwyadl. GILL.

Adn. 5. *Yn daenfa rhwydau y bydd.* Nid yw y trigolion presenol namyn trueiniaid tlodion yn byw ar bysgotta yn benaf. MAUNDRELL. Mae y pridd a gludasai yr hen drigolion trwy lafur dybryd i orchuddio wyneb creigaidd Tyrus âg ef, wedi ei symmud er's oesoedd, a'r lle yn bresenol yn cyfatteb yn berffaith i'r rhagddarluniadau hyn.

Adn. 6. *Ei merched hefyd y rhai sydd yn y maes;* wrth yr hyn mae yn debyg y golygid Tyrus a Sidon, a lleoedd eraill ymddibynol ar Tyrus, ar y cyfandir. DAVIDSON.

Adn. 7—14. Dywaid JOSEPHUS bod Nebuchodonosor wedi bod yn gwarchae ar yr hen Dyrus dair blynedd ar ddeg, a phan y'i cymerodd ffoodd y trigolion yn eu llongau, ac ni's cafwyd

nemmawr o yspail ynddi. Yr oedd Duw wedi ordeinio ei dinystr trwyadl, ac felly nid ail adeiladwyd yr hen ddinas. BOOTHROYD.

Adn. 15—21. *Oni chryn yr ynysoedd wrth swn dy gwymp?* Yr oedd gan Tyrus a Sidon amryw drefedigaethau ar arfordiroedd ac ynysoedd Môr y Canoldir, ac yr oedd cyssylltiad masnachol rhwng y trigolion â chenhedloedd pellenig, fel y parai y newydd am ei chwymp ofid ac ofn mewn gwledydp tramor, fel yr eisteddai eu pobl ar y ddaiar yn ol yr arferiad mewn galar trwm. BOOTHROYD. —*A rhoddi o honof ogoniant yn nhir y rhai byw;* rhoddi gogoniant i'th orchfygwr Nebuchodonosor, yn mysg y cenhedloedd dwyreiniol BOOTHROYD. Adferu dinasoedd gorchfygedig eraill. W. LOWTH. Israel, medd eraill. Eglwys Dduw. GILL.

## PEN. XXVII.

Adn. 1, 2. Ymdrinir yn helaeth yn y bennod hon yn nghylch trafnidiaeth ehang Tyrus, o'r hyn y deilliai ei golud a'i gwychder mawr; a'r hyn a barai ei bod yn meddu y fath ddylanwad yn mysg y cenhedloedd. DAVIDSON.

Adn. 4. *Dy derfynau sydd yn nghanol y môr*, sef yr hen ddinas, yr hon oedd wedi ei hadeiladu ar ynys. Gwel pen. 26. 5—19.

Adn. 5—8. Yma y mae y prophwyd yn darlunio y ddinas a'i thrafnidiaeth dan y gyffelybiaeth o long hardd, mewn dull tra manol a godidog.—*Minteioedd yr Assyriaid a wnaethant dy feingciau o ifori;* neu, "Gwnaethant dy feinciau o ifori wedi ei osod mewn pren bocs," *o ynysoedd Chittim*, sef Corsica, &c., lleoedd oeddynt enwog am y pren bocs a gynnyrchid o honynt. BOOTHROYD, JARCHI, POOLE.

Adn. 10, 11. *Lud*, efallai oedd drefedigaeth Aiphtaidd. NEWCOME.—*A'r Phutiaid*, neu y Libyaid, pobl o Affrica, tra enwog fel saethyddion, Esa. 66. 19. GILL.—*Gammadiaid*, preswylwyr Gamale, un o ddinasoedd y Pheniciaid; ond y mae eraill yn barnu yn hytrach mai math o ddelwau bychain a olygir wrth y gair. DAVIDSON.

Adn. 12. Y dysgedigion a gydunant i farnu mai Tartessus, dinas berthynol i'r Hispaen, yr hon oedd wrth safn yr afon Baetis, a olygid; o'r lle y dygai y Pheniciaid helaethrwydd mawr o aur ac arian gynt, yn yr hwn y masnachent.

Adn. 13. *Jufan, Tubal, a Mesech*; wrth Jufan y golygid Groeg, yn enwedig y rhan o honi a elwid Ionia, oddiwrth Jafan mab Japhet, Gen. 10. 2. GILL, W. LOWTH, &c. Tubal a Mesech hefyd oeddynt feibion Japhet; o'r cyntaf yr hanai yr Iberiaid a'r Albaniaid; ac o'r olaf y deilliai y Capadociaid.

Adn. 14. Nid ydys yn sicr pa le ydoedd *Togarmah;* yr oedd MICHAELIS yn barnu mai Armenia a olygid, yr hon oedd enwog yn yr hen amseroedd am ei meirch da; ac y mae llawer yn cyduno â'i farn yn hyn.

Adn. 15. *Dedan*, dinas ar fin y Culfor Persiaidd, a elwir Dadan yn bresenol. BOCHART, MICHAELIS.

Adn. 17. *Marchnattasant yn dy farchnad, &c.* Neu, "Ystorasant dy farchnad â gwenith, caws, balm, mŷr, rhesin, ac olew." DAVIDSON.

Adn. 18. *Helbon*, yr un tebygid ag Aleppo, a elwid gan y Twrciaid "Haleb." Yr oedd gwin y lle hwn mor enwog yn yr hen amser, fel nad yfai brenin Persia ddim ond efe.

Adn. 19. *Dan a Jafah.* Tybiai MICHAELIS ac amryw feirniaid eraill mai dinasoedd perthynol i Arabia Felix oedd y ddwy yma. Yn lle *Dan hefyd a Jafah yn cynniwair*, darllena BOOTHROYD, "Dan hefyd a Jufan o Uzal;" yr hwn hefyd a sylwa y gellid swnio Jufan yn Yeoman; a bod Uzal yn ddinas o'r rhandir hono. Gen. 10. 27.

Adn. 20—23. *Dedan.* Yr amryfal lwythau a drigent yn Arabia Garregog, cystal ac yn Arabia Felix, oeddynt yn arfer mynychu y porthladdoedd a'r marchnadoedd Tyriaidd.

Adn. 24. *Wedi eu rhwymo â rhaffau, a'u gwneuthur o gedrwydd.* Wedi eu rhwymo i fynu yn ofalus mewn cistiau o gedrwydd, er rhoddi arogl da i'r gwisgoedd hyn, a'u cadw rhag gwaethygu. W. LOWTH.

Adn. 25. *Yn canu um danat yn dy farchnad.* Hyny yw, yr oedd llongau masnachol y môr yn gyffredin, neu eu morwyr, yn datgan ei mawredd yn mhob lle. GILL.

Adn. 26, 27. *Y rhai a'th rwyfasant a'th ddygasant i ddyfroedd lawer.* Hyny yw, yr oedd llywodraethwyr Tyrus wedi eu dwyn i'r fath amgylchiadau dyrus a chyfyng, fel nad oedd ganddynt un modd i wrthwynebu grym Babilon, ymosodiad pa un a fyddai yn ofnadwy fel ystorm o *wynt y dwyrain.* Darlunir Tyrus trwy yr alleg o long odidog, ddigyffelyb ei gwychder o ran ei hadeiladaeth, ei morwyr, a'i llwythi;—Y mae hon yn cyfarfod â thymestl, yr hon sydd yn ei suddo yn y cefnfor; lle yr ymgladda o'r golwg am byth, fel na's gwelir dernyn o honi mwyach. DAVIDSON.

Adn. 28—36. Darlunir gwaedd y rhai sydd yn y llestr suddedig yn cyrhaedd y tir; ond heb fod gan neb fodd i'w cynnorthwyo: ïe, y rhai a deimlent fwyaf drostynt, ni's gallent wneuthur dim ond galaru o'u herwydd; ac y mae arwyddion y galar yn gyffredinol; yn y ddinas a'r maesdrefi, yr oedd pawb yn galaru am gyfeillion, neu olud, neu bob un o'r ddau. DAVIDSON.

## PEN. XXVIII.

Adn. 2. *Wrth dywysog Tyrus*, a elwid Ithobal, medd JOSEPHUS. Mae yn ymddangos oddiwrth yr hyn a ddywedir yma ei fod yn ddyn trahaus a balch, yr hwn a farnai am dano ei hunan ei fod wedi ei ddyrchafu mor uchel na's gallai neb fod yn gydradd ag ef; ac yr oedd yr arglwyddiaeth fawr a feddai Tyrus, trwy ei sefyllfa fasnachol flodeuog, yn fanteisiol i feithrin y fath dyb ynddo.

Adn. 3—6. Mae yn ddiau mai gwawdiaeth sanctaidd yw y geiriau hyn; ond y mae yn cynnwys tybiaeth fod Ithobel wedi clywed am ddoethineb Daniel, ei fod yn credu mewn Dwyfol ysbrydoliaeth, ac hyd yn nod, ei fod yn cymeryd arno ei fod wedi ei ddonio â gwybodaeth o amgylchiadau dyfodol yn well na'r prophwyd. Cymh. pen. 14. 14. Yr oedd balchder, hunan-ddigonedd, a thrahausder y brenhinoedd Dwyreiniol bron yn annghredadwy; cymh. Esa. 47. 10.—*Fel calon Duw*, yn annewidiol, yn dawel, ac uchlaw cael ei throi.

Adn. 7—10. *Dyeithriaid*, rhai o'r tu allan i gylch masnach y Tyriaid, a'r rhai o ganlyniad na's meddent un cydymdeimlad â thywysog Tyrus; yn enwedig gan mai *y trawsaf o'r cenhedloedd* a fyddent, sef dynion a drochasent bob cenedl mewn trueni, nes yr oedd eu harswyd ar bawb o'u hamgylch; a'r cyfryw ydoedd y Babiloniaid.—*A byddi farw o farwolaeth yr archolledig yn nghanol y môr;* wrth yr hyn y lledarwyddir, efallai, mai ar y môr y byddai efe farw, fel na's cäai gladdedigaeth, yr hyn yn ol barn y Dwyreinwyr oedd yn adfyd blin, a gwarthruddiad mawr. Ond y mae eraill yn meddwl nad yw yr ymadrodd yn golygu dim mwy nac y byddai i'r brenin gael ei ladd yn ei balas ei hun, yr hwn a gylchynid gan y môr. Mae yma darawiad tra grymmus ar ei falchder ef, pan ofynir iddo a feiddiai efe ymhoni o'i Ddwyfoldeb pan fyddai y lleiddiad yn dwyn ei fywyd oddiarno.

Adn. 11—15. E farna rhai mai parhad o'r cyfarchiad gwawdiaethol yw y geiriau hyn; ond y mae yn fwy tebyg mai darluniad godidog o fawredd ac urddas blaenorol tywysog Tyrus, gwrthddrych yr alarnad, yw y geiriau.—*Ti seliwr nifer*, neu, "Ti ydwyt fel sêl, wedi ei cherfio yn gywrain." Meddylir fod cyfeiriad yn yr ymadrodd at Adda, wedi ei ffurfio ar ddelw Duw; a'u bod yn arwyddo fod tywysog Tyrus yn ei gymeriad swyddol yn ymddangos yn nelw, gallu, a mawredd y Duwdod. Am yr un fath reswm y gelwir barnwyr yn dduwiau. Hwyrach fod brenin Tyrus yn cael ei gyfarch yma fel cynnrychiolydd y llywodraeth yn Tyrus, yn hytrach nac fel tywysog yn ei gymeriad personol; a bod yr hyn a ddynodir yn perthynu i orsedd a llywodraeth y freniniaeth hòno, yn hytrach nac iddo ef yn bersonol. Rhaid fod llawer o ragoriaeth yn perthyn i lywodraeth Tyrus cyn y buasai cenedl mor fechan mewn cydmariaeth yn cyraedd y fath fawredd, gallu, golud, a dylanwad anfesurol, goruwch yr holl hen genhedloedd ac amherodraethau. A chyda golwg ar nodweddiad gyffredinol y llywodraeth, gan gynnwys y tywysog a'i gynghoriaid, y dywedir *Llawn o ddoethineb, a chyflawn o degwch.* DAVIDSON.—*Ti a fuost yn Eden*, dy sefyllfa oedd mor ddiogel a dedwydd a phe buasit yno. GILL. —*Pob maen gwerthfawr a'th orchuddiai*, yr oedd gorchudd ei orseddfainc, neu ei wisgoedd wedi eu-gorchuddio â phob maen gwerthfawr. BOOTHROYD.—*Cerub enneiniog ydwyt:* neu, "Gwn-

aethum di fel cerub enneiniog gorchuddiedig." Mae y prophwyd yma yn benthycca cyffelybiaethau o'r deml i ddarlunio tywysog Tyrus. Yr oedd y cerubiaid yn rhan o'r arch, ac am hyny yn enneiniedig, Exod. 25. 18, 21. a 30. 26. Eu hadenydd a orchuddiai y drugareddfa; ac y mae y prophwyd yn myned rhagddo yn y gyffelybiaeth, ac fel pe dywedai, "Y fath oedd dy odidowgrwydd, fel pe buasit wedi dy osod fel y cerubiaid yn nheml Duw, ar ei fynydd sanctaidd ef, ac megis pe buasit yn preswylio yn nghanol dysglaerdeb dwyfronneg yr archoffeiriad." Cyfeirir at ei feddwl uchelfrydig am dano ei hunan ei fod yn rhywbeth mwy na marwolddyn, wrth yr hyn a ddywedir yn y geiriau hyn am dano ei fod fel Adda yn Eden, neu y cerubiaid mewn lle na's gellid dyfod atynt.

Adn. 16. Mae Duw yn eu gwrthod ar gyfrif eu hanwiredd, ac yn eu diosg o'u holl urddas a'u rhagorfreintiau; a'u goleuni yn cael ei droi yn dywyllwch.

Adn. 17. *Llygraist dy ddoethineb o herwydd dy loywder:* neu, "Dy ddoethineb a dderfydd yn nghyd a'th degwch." DAVIDSON.

Adn. 18. *Dygaf dân allan o'th ganol, hwnw a'th yssa,* hyny yw, y ddinas, cystal a'r brenin. Magai ymrysonau ac ymraniadau yn eu plith, y rhai a dueddent i'w dystrywio. Hwyrach fod yma ryw amnaid y byddai i frad yn ysbaid y gwarchae, brysuro cwymp y ddinas.

Adn. 20—23. Yr oedd Sidon yn ddinas flodeuog yn mhell o flaen Tyrus. ac un o'i threfedigaethau hi ydoedd Tyrus; ond yr oedd y ferch wedi dyfod i lywodraethu y fam yn fuan. Nid ydys yn sicr a gyd gwympodd y ddwy ai peidio; ond y mae haneswyr yn tystio i Ochus brenin Persia lwyr ddinystrio y ddinas hon. CALMET.

Adn. 24. *Ysbyddaden bigog:* gwel Num. 33. 55. Yr oedd y dinasoedd hyn, y rhai gan mwyaf a boblogasid gan gỳn drigolion Canaan, yn blino Israel yn fawr. SCOTT.

## PEN. XXIX.

Adn. 1, 2. Dylid astudio y bennod hon a'r ddwy ganlynol mewn cyssylltiad âg Esa. 19. a Jer. 26. a chyfeirwn y darllenydd i edrych y Nodiadau a wnaed ar y rhanau hyny. Traddodwyd y brophwydoliaeth hon yn y ddegfed flwyddyn o freniniaeth Sedeciah, a chaethgludiad Jeconïah; ac yn y fan efallai wedi i'r Aiphtiaid yn groes i'w cyngrhair, ac i bob egwyddor anrhydeddus, gefnu ar yr Iuddewon, a gadael eu hachos. Gelwir y Pharaoh oedd yn teyrnasu y pryd hwn, yn Pharaoh Hophra, Jer. 44. 30.

Adn. 3. *Y ddraig fawr,* neu y crocodil, yr hwn a arferai yr hynafiaid yn arwydd-lun o'r Aipht, fel y'i gwelir ar yr hen fathau Rhufeinig.—*Yn nghanol ei afonydd,* hyny yw, y saith ffrwd trwy ba rai yr arllwysai y Nîl ei dyfroedd i'r cefnfor; neu hwyrach fod y gair yn dynodi y dyfr-ffosydd lluosawg oeddynt mewn cyssyllt-

iad a'r afon.—*Mi a'i gwneuthum hi i mi fy hun.* Breninoedd yr Aipht a wnaethent y llyn mawr Maris, a llawer o ddyfr-ffosydd mawrion i reoleiddio gorlifiant yr afon, ac i wasanaethu er dyfrhau y tir pan fyddai yr afon wedi encilio o'r tu fewn i'w cheulannau ei hunan. Yr oedd y gweithfeydd hyn o'r gwasanaeth mwyaf er diogelwch a ffrwythlondeb yr Aipht pan oedd gwlaw yn anadabyddus yno o'r bron. Ond y mae yr iaith yn arddangos balchder a gwagedd y brenin, am yr hwn y tystiai yr hen hanesydd HERODOTUS hefyd ei fod mor uchelfrydig fel y meddyliai na's gallasai un duw ei yspeilio o'i freniniaeth.

Adn. 4. Gwel 2 Bren. 19. 28. a Job 41. 1, yn nghyd a'r Nodiadau. Mae yr Arglwydd yn defnyddio offerynoldeb dynion neu alluoedd natur yn ol ei ewyllys ei hunan i gyflawni ei fwriadau, i ddynoethi ffolineb, a chosbi cyndynrwydd a gwrthwynebiad ei elynion. Trwy y cyffelybiaethau hyn darlunir gwrthryfel yr Aiphtiaid dan Pharaoh Hophra, neu Apries, y rhai a gyhoeddasant eu maeslywydd Amasïah yn frenin, ac a orfodasant eu brenin i ffoi i'r Aipht uchaf; yr hwn wedi hyny a gymerwyd yn garcharor ac a dagwyd gan Amasiah. Gwel Jer. 44. 29, 30. DAVIDSON.

Adn. 5. *A mi a'th adawaf yn yr anialwch*, cyfeiriad, mae yn debyg at enciliad dyfroedd y Nil wedi gorlifiant mawr. Ond y mae y gyffelybiaeth yn arwyddo y byddai i'r brenin a'i bobl gael eu gosod mor agored i ddystryw ag a fuasai creaduriaid yr afon pe buasai ei dyfroedd wedi eu sychu i fynu yn llwyr.

Adn. 6, 7. *Yn ffon gorsen i dy Israel*, hyny yw, yn gymhorth aneffeithiol. Cyfeirir yma at y cyrs a dyfent ger glanau y Nil, y rhai os pwysai dyn arnynt, a dorrai dan ei law; felly yr Aiphtiaid a addawsent gyfodi y gwarchae oddiar Jerusalem, a chynnorthwyo yr Iuddewon; ond hwy a'u siommasant; ac a fuant hyd yn nod yn niweidiol yn lle yn gynnorthwyol iddynt.

Adn. 10. *O dwr Syeneh hyd yn nherfyn Ethiopia*, neu yn fwy priodol yn ol y beirniaid craffaf, "O Migdol hyd Syeneh;" sef yr holl freniniaeth. Yr oedd Migdol ar y terfyn gogleddol, tua deuddeng milldir o Pelusium, a Syeneh ydoedd ar y terfyn deheuol, yr un fel y meddylir a'r lle a elwir yn bresenol Essuan, y dref olaf ar y ffordd i Ethiopia; yr hon sydd enwog am ei ffynnon i'r hon y bydd pelydr yr haul yn disgyn yn union-syth ganol dydd. DAVIDSON.

Adn. 11, 12. Pan oresgynodd Nebuchodonosor yr Aipht, efe a'i hanrheithiodd, ac a gaethgludodd lawer o'r trigolion: ond efe a ganiattaodd i Amasïah lywodraethu y wlad; yr hon er hyny nid adferwyd dros ddeugain mlynedd. Ond y mae hanesyddiaeth yn ddystaw am ei chyflwr yn yr yspaid yma; gan na chofnododd HERODOTUS hanesydd yr Aipht, mo'i hadfydau, o herwydd na's mynegai yr offeiriaid Aiphtiaidd ddim iddo ef a dueddai yn ol eu tyb hwy i ddianrhydeddu eu cenedl.

Adn. 13—15. *Pathros*, y rhan a elwir *Thebais*, neu yr Aipht uchaf. BOCHART. Meddylir fod yr hyn a fynegir yma wedi ei gyflawni gan Cyrus, yr hwn a gyhoeddodd ryddid i'r Iuddewon, ac i rai cenhedloedd eraill. BOOTHROYD.—*Isaf fydd o'r breniniaethau*, math o freniniaeth dan deyrnged i eraill; ac felly y mae gwlad yr Aipht wedi bod er's dros ddwy fil o flyneddau yn gwirio y brophwydoliaeth hon, dan deyrnged olynol i'r Babiloniaid, i'r Persiaid, i'r Groegiaid, i'r Rhufeiniaid, i'r Saraceniaid, y Mameluciaid, a'r Twrciaid. *Esgob* NEWTON.

Adn. 16. *Yn dwyn ar gof eu hanwiredd.* Yr oedd pob cyngrhair a wnelai Israel a'r Aiphtiaid yn annog Duw i gofio eu hanwireddau eraill. POOLE.

Adn. 16. *O'r seithfed flwyddyn a'r hugain*, o gaethgludiad Jeconiah, a phymtheng mlynedd wedi cymeriad Jerusalem. A. CLARKE.

Adn. 18. *Pob pen a foelwyd, &c.* Yr oedd gwisgo helmau dur am yspaid tair blynedd ar ddeg amser y gwarchae, wedi gwneyd pen pob milwr yn foel, a'u llafur caled a dybryd yn cludo beichiau i wneyd y gwrthgloddiau wedi gwneyd eu hysgwyddau yn noethion, a gwisgo y croen oddiarnynt. W. LOWTH, ROBERTS.—*Ond nid oedd am Tyrus gyflog iddo;* canys dug y Tyriaid eu holl olud yn eu llongau i ynysoedd eraill: felly pan gymerwyd y ddinas gan Nebuchodonosor, ni chadd ynddi ddim yn gyfattebol i'w lafur mawr yn ei chymeryd: am hyny y rhoddwyd yspail yr Aipht iddo. BOOTHROYD, &c.

Adn. 21. *Yn y dydd hwnw*, dydd adferiad Israel, medd rhai, ond eraill gyda mwy o briodoldeb a farnant mai dydd darostyngiad yr Aipht a olygir. DAVIDSON.—*Y gwnaf i gorn ty Israel flaguro.* Mae *corn* yn aml yn arwyddo awdurdod freninol, neu hiliogaeth freninol. Ac e ddichon fod yr ymadrodd yma yn arwyddo rhyddäad a dyrchafiad Joachin i ffafr freninol, 2 Bren. 25. 27. Neu ddyrchafiad Daniel, neu Zorobabel, Dan. 2. 48, 49. Yr arwyddion hyn o'r ffafr ddwyfol a galonogai y prophwyd yn y cyflawniad o'i swydd. Gellir meddwl fod yma ryw awgrym at y Messïah. Luc 1. 68, 69. Jer. 23. 5. Salm 132. 17.

## PEN. XXX.

Adn. 1—3. Mae yn debyg i'r brophwydoliaeth hon gael ei thraddodi yn agos i'r un amser a'r un flaenorol. DAVIDSON.—*Amser y cenhedloedd*, yr amser appwyntiedig i Nebuchodonosor i'w darostwng. BOOTHROYD.

Adn. 4—8. Yma y rhagfynegir y byddai i'r Aiphtiaid a'u holl gynnorthwywyr gael eu dinystrio a'u darostwng o flaen byddinoedd buddugawl y Caldeaid.

Adn. 9. Wrth y cenhadau a aent allan mewn llongau y mae amryw yn barnu y golygir llynges a anfonodd Nebuchodonosor i

fynu yr afon Nîl, yr hyn a gyffrôodd ofnau yr Ethiopiaid yn ddirfawr. DAVIDSON. Mae rhai yn meddwl fod yr Ethiopiaid hyn yn golygu y Cussiaid, a anneddent yn Arabia Garregog.

Adn. 12. *Gwnaf hefyd yr afonydd yn sychdir.* Yr oedd ffrwythlonder yr Aipht yn ymddibynu ar orlifiant y Nîl, ac y mae y geiriau hyn yn arwyddo y byddai i'r anffawd o ryfel gael ei dilyn â newyn.—*Y drygionus*, sef y Babiloniaid trahaus a chreulawn.

Adn. 13—18. *Noph*, Memphis, a elwir yn awr Cairo Fawr, a gelwir hi eto gan y brodorion Menoph. HEWLETT. Gwel Esay 19. 13. Mae prif ddinasoedd y deyrnas yn cael eu henwi yma, i ddangos y byddai yr annghyfannedd-dra yn hollawl dros y wlad.

Adn. 21. *Torrais fraich Pharaoh.* Mae yr Arglwydd yn llefaru yma fel pe buasai y peth wedi ei wneyd eisioes, am ei fod yn sicr o gael ei ddwyn i ben; felly yn Jer. 48. 20. ac Esa. 21. 9, llefarir am amgylchiad dyfodol fel peth mynedol. Wrth ei fraich y golygir ei gryfder; ac wrth beidio ei rhwymo y golygir nad adferid ei nerth yn ol iddo, Jer. 48. 25. Esa. 16.

Adn. 22—26. *Mi a dorraf ei freichiau ef.* Darllener 2 Bren. 24. 7, er gweled y cyflawniad o'r hyn a ddywedir yma.

## PEN. XXXI.

Adn. 1, 2. Yr oedd Pharaoh yn gwag obeithio fod ei diriogaethau ef yn rhŷ ehang i gael eu goresgyn; ond y mae y prophwyd yn y brophwydoliaeth hon yn ei rybuddio o'i berygl, yn darlunio mawredd gallu yr amherodraeth Assyriaidd, ac fel pe buasai yn appelio at Pharaoh, a feddyliai efe fod ei freniniaeth ef yn gyfattebol i hòno: ac am hyny, gan fod Nebuchodonosor wedi gallu dymchwelyd hono, nid oedd yn debyg y gallai yr Aipht ei wrthsefyll yn hir.

Adn. 4. *Dyfroedd a'i maethasai.* Fel y mae prennau yn y gwledydd dwyreiniol yn tyfu yn rhagorol wrth ddyfroedd; felly yr oedd trafnidiaeth yr afon Tigris, ar làn pa un y gorweddai Ninefeh yn ei gwneuthur yn dra goludog a phoblogaidd. W. LOWTH.—*Bwriodd ei ffrydiau at holl goed y maes:* cyfeiriad at y dyfr-ffosydd celfyddydawl, drwy ba rai y cludid dyfroedd er ffrwythloni gerddi a phlanfeydd yn y dwyrain. DAVIDSON.

Adn. 11. *Cadarn y cenhedloedd.* Cyrus, medd rhai. POOLE, Nabopolassar brenin Babilon. W. LOWTH. Nebuchodonosor. yr hwn a gymerodd Ninefeh yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad. A. CLARKE.

Adn. 13. Dangosir yma y byddai i'r breniniaethau a wnaent i fynu yr amherodraeth aros, er y byddai yr awdurdod oruchaf wedi ei symmud i ddwylaw cadarn y cenhedloedd. DAVIDSON

Adn. 16. *A ymgysurant yn y tir isaf.* Y tywysogion trancedig a deimlant radd o liniariad ar eu gofidiau pan ganfyddant y gallu hwn wedi ei ddwyn mor isel. W. LOWTH, GILL.

Adn. 17. *I uffern*, i Hades, neu i ddinystr anfeddygyniaethol. A. CLARKE.

Adn. 18. *Dyma Pharaoh a'i holl luaws:* ei dynged a fydd fel yr eiddo brenin Ninefeh a'i ddeiliaid.

## PEN. XXXII.

Adn. 1, 2. Yn y bennod flaenorol y mae cyflwr Assyria fel cedrwydden yn cael ei thori i lawr yn cael ei ddefnyddio i ddarlunio cwymp yr Aipht; yn y bennod hon mae yr un peth yn cael ei ddarlunio trwy y cyffelybiaethau ëofn o ddinystr llew a morfil neu y crocodil, y naill yn frenin y goedwig, a'r llall yn bennadur dyfroedd yr afonydd.

Adn. 3—6. Mae pob ymadrodd yma yn dangos nad am ryw grëadur cyffredin y mae y prophwyd yn llefaru; dyru awgrym o'i nerth drwy y gynnulleidfa angenrheidiol i'w rwydo. Efallai fod yma gyfeiriad at y dull a arferid i ddal y crocodil; yn Siam, a rhai mannau eraill, taenant amryw rwydau a'r draws yr afon, fel os dichon iddo ddianc rhag y naill y gallo y llall ei ddal.—Mor fawr raid fod y creadur! ei gnawd yn ddigon i ddiwallu holl ehediad y nefoedd, a bwystfilod ysglyfaethus yr holl ddaear, gan chwyddo yr afonydd hyd bennau y mynyddoedd a'i waed!

Adn. 7. *Nefoedd*, breniniaeth.—*Sêr*, tywysogion, pendefigion, a mawrion y tir.—*Yr haul*, y pennadur.—*Y lleuad*, naill ai y frenines, neu yr offeiriadaeth. I. COBBIN.

Adn. 9. *Pan ddygwyf dy ddinystr*, neu yn ol y LXX, ac amryw eraill, "Pan ddygwyf dy gaethion." BOOTHROYD.

Adn. 13. *Difethaf hefyd ei holl anifeiliaid hi oddiwrth ddyfroedd lawer.* Y meirch, am y rhai yr oedd yr Aipht yn enwog, a fyddent yn yspail werthfawr i'r Caldeaid. Eu hychain a'u defaid a arferent bori gyda glanau y Nil. GILL.

Adn. 14. *Yna y gwnaf yn ddyfnion eu dyfroedd hwynt, a gwnaf i'w hafonydd gerdded fel olew.* Efallai mai y golygiad yw, na byddai na masnach na thrafnidiaeth mwyach ar y Nil na'i changenau i beri un cyffroad ar ei dyfroedd. DAVIDSON.

Adn. 17, 18. Yn y brophwydoliaeth hon gelwir sylw at lawer o genhedloedd mawrion wedi eu gorchfygu gan Nebuchodonosor, a darlunir eu pennaethiaid a'u byddinoedd yn mysg y meirw.—*Merched*, neu ddinasoedd *y cenhedloedd enwog*, y rhai a enwir yn mlaen yn y bennod, ac a nodir yn neillduol efallai, am y byddai i'r rhyfel wasgu yn drymaf arnynt hwy. DAVIDSON.

Adn. 21. *O ganol uffern*, lle y meirw. Yno derbynir Pharaoh gan ryfelwyr cedyrn, a'i gynnorthwywyr ei hunan y rhai a ddisgynasent yno eisioes. Gwel pen. 31. 14—17.

Adn. 27. *Y rhai a ddisgynasant i uffern a'u harfau rhyfel.* Y rhyfelwyr a fyddent feirw yn fuddugoliaethus, neu yn eu gwlad eu hunain trwy achosion naturiol, a gleddid yn eu harfogaeth yn gyffredin, a'u meirch gyda hwynt yn aml: ond nid oedd y cyfryw

anrhydedd wedi ei fwriadu i'r Aipht, nac i'r cenhedloedd eraill y sonir am danynt yn y brophwydoliaeth hon.—*Eithr eu hanwireddau fydd ar eu hesgyrn hwy:* neu "A chosbedigaeth eu pechod fydd arnynt."

Adn. 31. *Pharaoh a'u gwel hwynt ac a ymgysura yn ei holl luaws.* Bydd yn rhyw radd o gysur iddo ef i ganfod mai megis eraill y bydd yntau yn cwympo. BOOTHROYD.

Adn. 32. *Canys rhoddais fy ofn yn nhir y rhai byw.* Yr Arglwydd oedd yn cosbi y cenhedloedd fel hyn, gan gyfodi y neb y myno i weinyddu ei farnedigaethau cyfiawn. DAVIDSON.

## PEN. XXXIII.

Adn. 1. Mae yn eglur i'r brophwydoliaeth hon gael ei thraddodi cyn i Jerusalem gael ei chymeryd: ond ni's gellir bod yn sicr pa faint cyn hyny. BOOTHROYD.

Adn. 2. *O'i chyrrau,* un oedd yn byw ar eu cyffiniau, ac yn fwyaf hysbys o honynt, cyfeiriad at yr hen arferiad o osod dynion teilwng o ymddiried i wylio mewn lleoedd uchel, lle y gallent ganfod dynesäad gelyn tua chyffiniau eu gwlad o bell; gwel pen. 3. 16—21.

Adn. 3. *Os gwel efe gleddyf,* neu, os gwel efe y gelyn yn dyfod.

Adn. 10. *Os yw ein hanwireddau a'n pechodau arnom.* Nyni a gawn yr un syniadau oddiyma hyd adn. 20, ag a gawn ni yn pen. 18; ar yr hon gwel y Nodiadau. Nid oedd y llefarwyr yn teimlo eu bod yn dihoeni yn eu pechodau; ac nid oes genym un prawf eu bod hwy yn priodoli eu dyoddefiadau i'w pechodau fel yr achos o honynt. Nid galaru am eu bod wedi tynu y fath drallodion arnynt eu hunain yr oeddynt; ond ymliw a'r prophwyd, ac a'r Arglwydd i'r hwn yr oedd efe yn enau, am geisio yr hyn oedd anmhossibl, os gwir yr hyn a ddywedai efe. Efe a gyhoeddasai lawer gwaith eu bod hwy yn gorwedd dan ddigofaint Duw ar gyfrif eu pechodau; a'u bod yn dihoeni fel cenedl ac fel unigolion, heb un gobaith ymwared wedi ei amlygu iddynt. Yna, fel pe dywedasent, Os gwir hyn, pa fodd y gallwn ni fyw? ni's gall un ymdrech o'r eiddom ni ein gwaredu: y mae ein cyflwr yn anobeithiol, ac nid oes dim i ni i'w wneyd ond dilyn ein tueddiadau a'n dychymygion ein hunain.

Adn. 12—20. *Cyfiawnder y cyfiawn, &c.* Gwel Nodau ar pen. 18. 1—30. Tra mae y gwrthgiliwr yn sicr o gyfarfod â gwobr ei wrthgiliad annghyfiawn, y mae y troseddwr edifeiriol yn sicr o gael maddeuant. Mae y dyn a ymddiriedo mewn rhyw gyfiawnder tybiol, ond er hyny a fyddo yn euog o ryw drosedd amlwg, yn sicr o farw am hyny tra mae yr hwn a dderbynio rybudd gan Dduw, ac a ddangoso ei edifeirwch trwy ei weithredoedd, yn sicr o gael byw. BOOTHROYD.

Adn. 24. Dyma yr egwyddorion ar ba rai y gweithredai y bobl dlodion a adawsai Nebuchodonosor yn y tir dan Gedaliah, gwel

Jer. 40. 6. 7; ac y mae yr iaith yn bradychu balchder ac anwybodaeth mawr; canys yr oeddynt yn meddwl fod Abraham wedi derbyn y tir ar gyfrif rhyw ragoriaeth personol oedd ynddo ef, yr hyn a drosglwyddasai i'w holl hiliogaeth. Ac os rhoddwyd y tir iddo ef, yr hwn nid oedd ond un, llawer mwy y gallent hwy y rhai oeddynt yn llawer ei ystyried yn eiddo iddynt hwy; gan fod eu rhinweddau unol hwy yn rhoddi hawl gryfach iddynt. DAVIDSON.

Adn. 25, 26 Mae y prophwyd yma yn ymliw â hwy am nad oeddynt wedi diwygio trwy eu holl ddyoddefiadau: ond eu bod yn para i ddilyn yr arferion mwyaf anmhur; *yn bwytta ynghyd a'r gwaed*, yr hyn oedd hollol wrthwynebol i ddeddf Moses, ac i'r ddeddf Batriarchaidd hefyd, Gen. 9. 4; drwy yr hyn y dangosid eu hesgeulusdra hollawl o'r gorchymynion Dwyfol.—*Sefyll yr ydych ar eich cleddyf*, fel yr arferai dewiniaid pan yn cyflawni defodau dewiniaeth, a'u cleddyfau yn noethion, i gadw y drychiolaethau arswydus draw, tra byddent yn cyflawni y defodau ysgeler

Adn. 30. *Sydd yn siarad i'th erbyn wrth y parwydydd, &c.* Er pelled yr oedd y bobl hyn wedi encilio oddiwrth Dduw, y mae yn ymddangos eu bod yn mawrygu hyawdledd y prophwyd, ac yn caru gwrando ei addysgiadau. Y tlodion a eisteddent ar feinciau wrth y parwydydd er cysgod rhag gwres yr haul; a'r rhai goludog o fewn drysau eu tai, neu le neillduedig i hyny a adeiladasant o flaen drysau eu tai. Dyma arferiad y Dwyreinwyr mewn llawer gwlad hyd heddyw. Pa un bynnag ai yr hyfrydwch a fwynhaent wrth wrando grym hywawdledd y prophwyd, ynte y chwilfrydedd oedd ynddynt am glywed pa beth a ddywedai efe oedd eto i ddyfod, y mae yn amlwg eu bod yn parau yn anniwygiedig er gwrandaw arno.

## PEN. XXXIV.

Adn. 1. Hwyrach i'r brophwydoliaeth hon gael ei rhoddi i'r prophwyd yn ddioed ar ol yr un flaenorol. Yr oedd y prophwyd wedi derbyn gorchymyn, ar, neu cyn dyfodiad y gennad gyda'r newydd fod Jerusalem wedi ei chymeryd, i gyhoeddi barnedigaethau Duw yn erbyn yr offeiriaid a'r llywodraethwyr; ac i roddi i'r bobl addewid am eu dychweliad. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Bugeiliaid*, enw cyffredin ar lywodraethwyr gwladol neu eglwysig.—*Y rhai sydd yn eu porthi eu hunain*, ymadrodd sydd yn arwyddo, nid yn unig eu bod yn ceisio eu lles eu hunain, ond eu bod yn ei fynu heb un gofal am les y bobl. DAVIDSON.

Adn. 3. *Y bras a leddwch*, yr oeddynt yn dwyn achwyniadau yn erbyn y goludog, ac yn eu rhoddi i farwolaeth dan rith cyfiawnder, fel y gallent hwy gael eu golud.

Adn. 5. *O eisiau bugail.* Er fod ganddynt fugeiliaid mewn enw, nid oeddynt yn deilwng o'r enw, canys eu dystrywio ac nid eu diogelu a wnaent.

Adn. 7—10. Yma y mae yr Arglwydd yn tystio trwy y prophwyd ei fod ef yn parhau i ofalu am ei braidd, a'i fod yn penderfynu galw y rhai a ddylasai fod yn gofalu am danynt i gyfrif am eu hesgeulusdra o honynt.

Adn. 11—16. Mae yr Arglwydd yma yn datgan ei ofal neillduol am ei bobl, ac yn addaw eu ceisio a'u gwaredu.—*Ar y dydd cymmylog a thywyll*, sef amser adfyd blin, a chystudd trwm.—*Dygaf hwynt o fysg y bobloedd*, gan eu cyrchu o'r holl diroedd lle y'u gyrid trwy eu caethgludiad truenus. *Esgob* HALL.—*Eithr dinystriaf y fras a'r gref:* sef llywodraethwyr a gormeswyr galluog a chyfoethog. COBBIN. Mae amryw o'r hen Gyfieithiadau yn darllen y rhan yma o'r testun yn wahanol; "A chadwaf y fras a'r gref," yr hyn a ddywedir am Dduw yn wrthgyferbyniol i'r bugail drwg, yr hwn a laddai y bras.—*A barn*, neu "A synwyr" *y porthaf hwynt.* Trwy driniaeth dyner, a gofal effro a gwastadol i gael dwfr ac ymborth priodol iddynt; cymh. Gen. 33. 13, 14. Esa. 40. 11. BOOTHROYD.

Adn. 17. Yma y mae Duw yn cyfarch y praidd, gan eu sicrhau y bydd iddo ef farnu rhwng yr hyrddod a'r bychod; y rhai a dreisient y praidd gweiniaid.

Adn. 18—22. Yma darlunir ymddygiadau anmhriodol gau grefyddwyr, yn enwedig llywodraethwyr ac athrawon cyfeiliornus, y rhai a wyrant y gwirionedd i wasanaethu i'w dybenion hunanol hwy eu hunain, fel y mae yn anhawdd i wir addolwyr Duw yn aml gael golwg arno yn ei symylrwydd cynhenid, a mwynhau ei gysuron, a'i ddylanwadau cyssegredig; pen. 22. 25, 26. Mal. 2. 4—9. Matt. 15. 3—6.

Adn. 23, 24. *Un bugail—Dafydd.* Yr oedd Dafydd wedi marw er's tua 400 mlynedd; ac ni chyfodasai brenin o'i enw ef byth wedi hyny: mae yn amlwg mai y Messiah ei hunan a olygid yma, ac fe'i gelwid ef yn aml ar enw Dafydd. Gwel Jer. 30. 9. a 37. 24, ac Esa. 37. 35. Hos. 3. 5.—*A'm gwas Dafydd yn dywysog*, gelwir y Messiah ar enw Dafydd, am mai ynddo yr oedd yr holl addewidion a wnaethid i Dafydd i gael eu cyflawni, Esa. 53. 3. Jer. 30. 9. Hos. 3. 5. Ac e ddichon fod yn y golygddrych o fugail a phraidd gyfeiriad at orchwyl cyntaf Dafydd. W. LOWTH.

Adn. 25. *Gwnaf i'r bwystfil drwg beidio o'r tir*, yr hyn a gyflawnwyd yn llythyrenol ar y dychweliad o Fabilon. Yr oedd y wlad a adawsid yn annghyfanneddol wedi ei goresgyn gan fwystfilod ysglyfaethus yn yspaid y caethiwed; ond ar eu dychweliad i ail feddiannu y tir, fe ymlidwyd y rhai hyn o hono yn fuan.

Adn. 26. *Hwynt hefyd, ac amgylchoedd fy mryn, &c.* Hyny yw, bendithir y rhai a ddeuant i fynydd Sion, eglwys y Duw byw. GILL.

Adn. 29. *Cyfodaf iddynt hefyd blanhigyn enwog.* Crist, y blaguryn, a "phren y bywyd" a olygir, yr hwn a ddaeth yn dra en-

wog trwy ledaeniad yr efengyl. SCOTT, GILL. Mae eraill yn cyfieithu y geiryn "planfa i enw;"—i enw Crist:—eglwys Gristionogol. A. CLARKE. "Planfa enwog." BOOTHROYD.

## PEN. XXXV.

Adn. 1—4. Mae y prophwyd yma yn cyhoeddi melldith dialedd Dwyfol ar Edom, yr hon ni ddangosai un gêd na thrugaredd i Israel, ond a feithriniasai y casineb mwyaf tuag atynt; ac am hyny na's gallai ddysgwyl trugaredd a ffafr.

Adn. 5. *Am fod genyt alanastra tragywyddol*, neu hen gasineb, cyfeiriad yn ddiau at gasineb Esau yn erbyn ei frawd Jacob.—*Yn amser diwedd eu hanwiredd hwynt*, pan fydd eu hamser enbyd wedi dyfod, yn yr hwn y bygythid eu difodiad, am na ddyoddefai Duw eu gwrthgiliadau yn hwy. Darfu i'r Edomiaid a'r cenhedloedd cylchynol eraill, ruthro ar wlad Israel pan oedd wedi ei goresgyn gan yr Assyriaid a'r Babiloniaid; ac y mae yn debyg eu bod wedi lladd rhai o'r brodorion a allasent fod yn wasgaredig ar led y wlad.

Adn. 6. *Mi a'th wnaf di yn waed*, neu "a'th barottoaf di i waed;" cyfeiriad mae yn ddïau at y gosodiad Dwyfol o offerynau i'w cosbi. Mae yr iaith yn cael ei defnyddio yn aml am barottoi creadur i fod yn aberth,—*Gan na chashei waed*; mae bod heb gashau yn iaith yr Ysgrythyrau yn arwyddo caru y peth hwnw.

Adn. 9. *A'th ddinasoedd ni ddychwelant*. Nid oedd yr Edomiaid i gael eu hadferu fel cenedl ar ol y caethgludiad. A'r gwirionedd oedd, er iddynt ddychwelyd i'w gwlad, i'r Iuddewon eu gorchfygu, a'u gorfodi i gymmeryd eu henwaedu, fel y'u cyd-gorfforid a'r genedl Iuddewig.

Adn. 10. *Er fod yr Arglwydd yno*. Gobeithiai yr Edomiaid y caent hwy etifeddu eu tir, a meddu llywodraeth ar yr ychydig a fyddai yn weddill o honynt, heb gofio fod yr Arglwydd yno, a'i fod ef wedi addaw cadw eu gwlad iddynt, a dychwelyd ei bobl i'w tir eu hun drachefn.

Adn. 11. Cymh. Obad. 15, 16. Matt. 7. 1, 2.—*Fel y'm hadwaener yn eu mysg hwynt*. Gwnaf i'm pobl weled nad ydwyf wedi eu llwyr fwrw hwynt ymaith, pan ddïalwyf eu cam arnat ti. LOWTH.

Adn. 14. *Pan lawenycho yr holl wlad, mi a'th wnaf di yn anghyfannedd*. Cyfeiriad at lawenydd holl Israel ar eu hadferiad i'w bro eu hunain: y pryd hyny y cymmerodd a mgylchiadau le i ddinystrio mynydd Seir.

## PEN. XXXVI.

Adn. 1. *Prophwyda wrth fynyddoedd Israel*. Cyfarchai y prophwydi wrthddrychau difywyd yn aml i ddeffroi sylw y bobl; felly y gwnai Moses, Deut. 32. 1. ac Esa. 1. 2. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Aeth yr hen uchelfäon hefyd yn etifeddiaeth i ni*. Cyfeir-

iad, naill ai at yr amddiffynfeydd oeddynt ar y bryniau, neu at Jerusalem ei hunan yr hon oedd wedi ei hadeiladu ar fynydd. HEWLETT.

Adn. 3. *Yn etifeddiaeth i weddill y cenhedloedd*, y cenhedloedd oeddynt etto heb eu gorchfygu gan y Babiloniaid. COBBIN. Neu ynte y gweddillion a adawsai Nebuchodonosor yn y gwledydd a oresgynasai efe a elwir yn weddill y cenhodloedd; ac yr oedd y rhai hyn yn barod i waradwyddo yr Iuddewon trwy ruthro i'w gwlad.

Adn. 5. *I'w yrru allan yn yspail.* Nid oedd y Tir Sanctaidd yn ngolwg gelynion Israel ddim amgen nac yspail, y gallai y neb a fynnai ei feddiannu os medrai. DAVIDSON.

Adn. 8—15. *A chwithau mynyddoedd Israel, &c.*, yr oedd y rhai hyn i gael eu trin eto, ac i ddwyn ffrwyth; a cheir dynion ac anifeiliaid arnynt. Ni byddant mwyach yn waradwyddedig am eu diffrwythder, ond bydd yr holl dir yn ffrwythlawn ac wedi ei orchuddio â dynion fel diadelloedd. BOOTHROYD.

Adn. 20. *Pan ddywedwyd wrthynt;* neu "pan ddywedodd am danynt." Mae yn ddiau fod llawer o'r paganiaid yn barod i briodoli drygioni yr Iuddewon i duedd naturiol eu crefydd, ac nid i eu bod hwy yn ymddwyn yn annghysson a'u crefydd; ac yr oeddynt yn golygu eu gofidiau, nid fel cosbedigaeth eu pechodau, ond fel prawf nad oedd eu Duw yn alluog i'w hamddiffyn. Fel hyn yr oedd enw Duw yn cael ei gablu, a buasai ei waradwydd yn aros arno pe buasai Duw yn goddef i'w elynion ffynu yn barhaus yn erbyn ei bobl. DAVIDSON.

Adn. 23. *A mi a sancteiddiaf fy enw mawr:* hyny yw, efe a'i neillduai yn llwyr oddiwrth bob duwiau; ac a barai i'w nodweddiad ei hunan ymddangos yn ardderchog yn mhob goruchelder mawrhydi a phurdeb, ac yn yr holl ymostyngiad o drugaredd a gras annherfynol. Megis y dywedid am bethau a neillduid i berwylion cyssegredig eu bod yn sanctaidd; felly byddai i Dduw trwy ei waith yn achub, sefyll ei hunan megis yn y byd, yn Sant Israel, heblaw yr hwn nid ymddangosai Duw nac Iachawdwr arall. Cymh. Lef. 10. 3.

Adn. 25—31. *Ac a daenellaf arnoch ddwfr glan:* y mae cyfeiriad yn y geiriau hyn at ddefod puredigaeth yn ol cyfraith Moses. Gwel Num. 8. 7. a 19. 13; ond y mae yn eglur oddiwrth yr hyn a ganlyn mai purdeb moesol a olygid yma; cymh. pen. 11. 19. a Jer. 31. 33. BOOTHROYD. Y gwir ddwfr puredigaeth,—dylanwadau yr Ysbryd Glan, a gysgodid trwy ddwfr, etifeddiaeth yr hwn yw y galon. A. CLARKE.—*Calon newydd*, cymh. Ezec. 11. 19. Naws enaid newydd: tueddfryd y meddwl wedi ei gyfnewid o fod yn bechadurus i fod yn sanctaidd.—*Calon garreg*, meddwl anhydyn, dideimlad, ac ystyfnig. POOLE. *Rhoddi calon gig*, gwneuthur y galon yn dyner ac yn ystwyth. GREENHILL. Rhoddi

i ni galonnau a allent deimlo a mwynhau; teimlo cariad at Dduw ac at bob dyn, a bod yn breswylfod briodol i'r bywiol Dduw.—*Yna y cofiwch eich ffyrdd drygionus.* Yna y deuant yn wir edifeiriol, ac y cydnabyddant ddiriondeb a thrugaredd Duw tuag atynt hwy yn wyneb annheilyngdod. BOOTHROYD.

Adn. 33—36. *Y dydd y glanhawyf chwi.* Bydd i adferiad y bobl, diwylliad adnewyddol y tir, a'i cyflwr blodeuog i'r hwn y'u dygir, dynu sylw y gwledydd o'u hamgylch.

Adn. 37. *Ymofynir a mi eto.* Mae hyn yn dangos y byddai efe yn barod i wrando eu gweddiau, ac i wneuthur erddynt yr hyn a ddymunent; yn enwedig i'w cynnyddu a'u lluosogi. BOOTHROYD.

## PEN. XXXVII.

Adn. 1. Mae yn debyg i'r prophwyd gael y weledigaeth a gynnwysir yn y bennod hon yn ddioed ar ol y brophwydoliaeth a gynnwysid yn y bennod flaenorol, gan mai yr un yw y testyn sef adferiad Israel. BOOTHROYD. Yn y weledigaeth hon y mae adferiad y genedl Iuddewig o gyflwr o annghyfannedd-dra trwyadl yn cael ei ddarlunio trwy adferiad yr esgyrn sychion i fywyd. Fel hyn darfu i Dduw yn fynych wneyd amlygiad gogoneddus o'i allu, ei ras, a'i ffyddlondeb yngwaredigaeth ei bobl o gyfyngderau tu hwnt i gyrhaeddiad gallu na doethineb dynol i'w gwaredu. Y mae egniadau ei allu, gweithrediadau ei Ysbryd, a grym ei air ef yn anwrthwynebol. DAVIDSON.

Adn. 2. *Sychion iawn oeddynt;* darluniad tra phriodol o gyflwr anobeithiol Israel fel cenedl. Yr oeddynt wedi bod yn gaethion rai blynyddoedd eisioes, ond yr oedd eto hanner can mlynedd o'u blaen o gaethiwed; ac nid oedd ganddynt un rheswm oddieithr yn yr addewidion Dwyfol i ddysgwyl am unrhyw ymwared y pryd hyny ychwaith.

Adn. 3. *O Arglwydd Dduw ti a'i gwyddost.* Mae yr atteb yma yn dangos fod Ezeciel eto heb ddirnad y weledigiaeth; canys pe gwybuasai mai adferiad ei bobl a ddangosid trwy hyn, efe a fuasai yn atteb yn ddibetrus, "Diau y bydd byw yr esgyrn hyn!" oblegid nid oes genym un lle i feddwl fod y radd leiaf o amheuaeth ynddo yr adferid Israel. DAVIDSON.

Adn. 4. *Prophwyda am yr esgyrn hyn:* hyny yw, Cyhoedda y bwriad o'r ewyllys Dwyfol i'r esgyrn hyn, a gorchymyn yn enw yr Arglwydd iddynt fyw.

Adn. 7. *Asgwrn at ei asgwrn:* cymerai pob asgwrn ei le priodol yn y corph; yn yr hyn y mae cyfeiriad amlwg at gyfansoddiad rhyfeddol y corph dynol, trwy yr hyn y mae i bob asgwrn un arall i gyfatteb iddo. DAVIDSON.

Adn. 9, 10. *Prophwyda tu a'r gwynt.* Mae yn anhawdd ffurfio golygddrych mwy ardderchog ar y ddaiar na phrophwyd i'r Arglwydd; canys y mae fel pe bai wedi ei ddoniaw â phob gallu i

gyflawni pob peth. Meddylier am y darluniad a gawn ni o Ezeciel yn y bennod hon; dacw ef yn galw ar esgyrn sychion, gwasgaredig, a'r rheiny wrth ei orchymyn yn ymuno, ac yn derbyn cnawd a gwaed, a chroen. Wele ef yn galw ar bedwar gwynt y nefoedd i fywhau y cyrph difywyd hyn, a dacw hwythau yn y fàn nid yn unig yn dyfod yn fyw, ond yn ymddangos fel pe buasent wedi eu trefnu gan ddoethineb, a'u parottoi i frwydr. DAVIDSON.—*Tyred oddiwrth y pedwar gwynt:* trwy yr hyn yr arddangosid adferiad y genedl Iuddewig o'r amrywiol wledydd i'r rhai y'u gwasgaresid; gwel pen. 5. 10. a 12. 14. W. LOWTH.

Adn. 11—14. *Wele fi yn agori eich beddau.* Mae yn hawdd casglu oddiwrth y crybwylliad yma fod athrawiaeth yr adgyfodiad yn addefedig yn mysg y bobl hyn y pryd hwn, onite ni's defnyddiasid y cyfryw gyffelybiaeth er arddangos adferiad y genedl Iuddewig. BOOTHROYD.

Adn. 16. Yr oedd torri llythyrenau ar ffon neu gangen o bren yn hen ddull cyntaf o'r braidd i gadw coffa o ryw beth. Efallai fod cyfeiriad yn yr ymadrodd at yr hyn a grybwyllir yn Num. 17. 2; lle y gorchymynid i Moses gymeryd deuddeg o wïail, un am bob llwyth, ac ysgrifenu enw y llwyth ar y wïalen. W. LOWTH.

Adn. 19. *Pren Joseph,* sef breniniaeth Israel, yr hon oedd yn gynnwysedig o'r deg llwyth, o'r rhai yr oedd Ephraim yn benaf. —*Pren Judah:* breniniaeth Judah.—*Fel y byddont yn fy llaw yn un:* cyflawnwyd hyn mewn rhan yn y dychweliad o Babilon, pan yr ymunodd amryw o'r deg llwyth â Judah a Beniamin, ac y daethant yn un genedl dan un tywysog hyd ddyfodiad Crist. Ond y peth pennaf a arddangosir yn hyn yw, uniad yr Iuddewon yn eu dychweliad at Dduw yn y dydd diweddaf. Gwel Esa. 11. 13. Jer. 50. 4. Hos. 1. 11. a 3. 5. Zephan. 3. 9. GILL.

Adn. 23. *O'u holl drigfäon*; neu "o'u holl wrthgiliadau."—BOOTHROYD.

Adn. 26. *A gosodaf hwynt:* neu yn ol HOUBIGANT, "Ac arweiniaf hwynt."

Adn. 27, 28. *A'm tabernacl fydd gyda hwynt.* Mae yn amlwg mai mewn iaith allegawl y mae y brophwydoliaeth hon wedi ei thraddodi; canys fel y mae yn ddiddadl ei bod yn golygu oes y Messiah, Dafydd, gwas yr Arglwydd; y mae yn sicr na bydd dan ystod ei deyrnasiad ef unrhyw deml neu dabernacl arbenig i'w ddilynwyr addoli ynddo, efe ei hunan yw y cyssegr a'r tabernacl yn yr hwn y preswylia Duw yn dragywydd; a rhaid cyfeirio pob gweddi at Dduw trwy ffydd ynddo ef; neu â'r meddwl wedi ei sefydlu arno ef fel teml Dduw. Gan hyny, gellir golygu y brophwydoliaeth flaenorol fel yn cynnwys nid yn unig yr Iuddewon, ond pobl ddewisedig Duw o fysg pob cenedl. Gwel Rhuf. 11. 25, 26. DAVIDSON.

## PEN. XXXVIII.

Adn. 1. Mae yn ddiddadl fod y brophwydoliaeth a gynnwysir

yn y bennod hon a'r un ganlynol yn perthynu i'r dyddiau diweddaf; pan ddychweler Israel i'w tir eu hunain, pen. 39. 25, 26. Gan hyny y mae yn gweddu fod yn dra gwyliadwrus rhag rhyfygu wrth gynnyg eu hastudio, a dysgwyl yn amyneddgar hyd oni ddattoder y seliau gan Ben mawr yr eglwys yn ngoruchwyliaeth ei ragluniaeth.

Adn. 2. *Yn erbyn Gog, tir Magog:* neu "Gog, o dir Magog.' *Gog,* yw enw y tywysog, a *Magog,* ei brif ddeiliaid, ond cynnwysai ei amherodraeth bobl eraill, enwau y rhai a grybwyllir. Dywedir mai Gog oedd enw cyffredin breninoedd Scythia, neu Tartari, fel yr oedd Pharaoh yn enw cyffredin i freninoedd yr Aipht. Buant yn llywodraethu beth amser dros Media; ac o honynt hwy yr hanodd y Rwssiaid a'r Twrciaid. Gelwir prif elynion Duw a'i bobl yn y bennod hon ar enwau meibion Japheth, Gen. 10. 1—5; i'r rhai y rhoddwyd ynysoedd y cenhedloedd yn etifeddiaeth; wrth yr hwn ymadrodd debygid y golygir ynysoedd Môr y Canoldir, a'r taleithiau Ewropaidd hyny a gylchynir ac a wahenir gan y Môr hwnw. Yr oedd cyn-drigolion y gwledydd hyn yn dra enwog am bob cymhwysderau angenrheidiol i'w hynodi mewn gorchestion milwraidd. Yr oedd trigolion Persia, Eithiopia, a Lybia, cynnorthwywyr Gog mor nodedig am eu medrusrwydd a'u dewrder fel milwyr ag ydoedd trigolion Seba, Dedan, a Tarsis am eu cybydd-dod, yr hyn a'u cynhyrfai i ymdrechu trwy bob moddion i ledu eu masnach; ac o ganlyniad ceisient trwy weniaeth ennill ffafr y cenhedloedd mwyaf galluog a goludog, heb ofalu pa un ai cyfiawn a'i annghyfiawn a fyddai yr achos a gefnogid gan y naill neu y llall. Gan hyny fe'u darlunir fel rhai yn cyfarch gelynion Duw ar y tebygolrwydd y byddai iddynt ennill y fuddugoliaeth, Oni ddichon fod yr holl bobl a grybwyllir yn y brophwydoliaeth hon yn cynnrychioli rhai tebyg o ran eu hysbrydoedd, eu talentau, a'u hymarferiadau yn hytrach na'u disgynyddion llinachol, ac yn wir, y mae agos yn anmhossibl gwybod yn benderfynol pwy yw y rhai hyny yn yr oesoedd diweddar hyn. Mynych iawn y mae un genedl neu fwy, y rhai a ddangosasant elyniaeth neillduol at eglwys Dduw, yn cael eu defnyddio i ddynodi gelynion Duw yn gyffredinol; Esa. 25. 10. a 63. 1. Rhai o nodweddiad cyffelyb i'r hen genhedloedd a grybwyllir yn y brophwydoliaeth hon, yw yr unig offerynau cyfaddas i gyflawni y gwaith a briodolir iddynt. Yn y dyddiau diweddaf hwy a gasglant eu lluoedd yn nghyd, ac a ymunant yn benderfynol i ddarostwng y bobl ddewisedig, fel y gallont eu cyfoethogi eu hunain â'u golud.

Mae yr esponwyr yn amrywio llawer iawn yn eu golygiadau ar y geiriau hyn, ond yr un uchod yw y mwyaf dewisol a boddhaol genym ni.

Adn. 4. *Dychwelaf di hefyd:* neu troaf di o'r neilldu, dyrysaf

dy amcanion, a rhoddaf attalfa ar dy lwyddiant.—*A rhoddaf fachau yn dy fochgernau:* wrth yr hyn y golygid y byddai i'r Arglwydd oruwchreoli ysgogiadau y gelyn fel y myno.

Adn. 6. *Gomer,* mab hynaf Japheth, Gen. 10. 2; o'r hwn y poblwyd y rhan fwyaf o Asia Leiaf; o'r lle yr ymfudodd ei hiliogaeth nes pobli yr Almaen, Ffrainc, a Brydain. Y rhai hyn a elwid y Celtiaid, &c. CALMET.—*Torgamah,* &c. Dyma oedd enw trydydd mab Gomer, ei hiliogaeth ef a wladychasant ar y parth mwyaf dwyreiniol i genedl Gomer, ac yn union i'r Gogledd o Judah; o'r diwedd galwai y Groegiaid y wlad hon yn Cappadocia. WELLS. Mae *ystlysau y gogledd* yn iaith yr Ysgrythyrau yn golygu taleithiau Mesopotamia, ac hyd yn nod Caldea, Mesopotamia, Syria, â Babilon. CALMET.

Adn. 8. *Yn y blynyddoedd diweddaf,* yr un peth a "dyddiau diweddaf," ymadrodd a ddefnyddir mewn modd neillduol i ddynodi amseroedd adferiad yr Iuddewon i'w tir eu hunain, gwel Deut. 4. 30. Jer. 30. 24. Hos. 3. 5. LOWTH.—*I dir wedi ei ddwyn yn ol gan y cleddyf,* hyny yw, Judea, perchenogion priodol yr hon a fydd ynddi yn bresenol, y rhai a gadwyd allan o honi flynyddoedd lawer gan gleddyf eu gelynion. Gwel Jer. 31. 1 GILL.

Adn. 13. *Llewod ieuainc,* eu prif fasnachwyr efallai, y rhai a ddarlunir fel cynnifer o dywysogion, Esa. 23. 8; ac a elwir yn llewod o herwydd eu hannghyfiawnder a'u gormes mewn trafnidiaeth masnachol. W. LOWTH. Gwŷr ieuainc, sychedig am waed, a mwy sychedig am anrhaith, a ymgynnullant at Gog i gyfrannogi o'r yspail. POOLE.

Adn. 18—23. Pan fyddo Gog a'i lu yn dyfod i fynu o'r gogledd, ennynir digofaint Duw, ac efe a ddyfetha y gelyn yma mewn modd ofnadwy. BOOTHROYD.

## PEN. XXXIX.

Adn. 1. Mae y bennod hon yn barâad ar destyn yr un flaenorol: yma darlunir dinystr Gog yn fwy cyflawn; ac y rhoddir rheswm pa ham y cystuddiai Duw ei bobl yn yr amser a aethai heibio; a'i fwriad i beidio eu gadael byth, na phallu i'w bendithio a'i bresenoldeb ac âg arweiniad ei Ysbryd ar ol eu hadferiad o'u gwasgariad presenol.

Adn. 2. *Ac ni adawaf o honot ond y chweched ran.* Nid yw hyn yn arwyddo y byddai i'r chweched ran o'r fyddin ddianc rhag y dialedd; canys y mae yn ymddangos y byddai i'r holl fyddin gael ei dystrywio: ond ar yr hynt yma, ni's gadewid ond y chweched ran ar ol; byddai i bump o bob chwech ei ddilyn, mor luosawg fyddai ei fyddin, ac mor lwyr y lloffid ei wlad trwy yr anturiaeth yma. GILL, POOLE.

Adn. 6. *Anfonaf dân,* sef barnedigaethau llymion.—*Y rhai a breswyliant yr ynysoedd yn ddifraw,* sef trigolion ynysoedd a gwled-

ydd arforawl Mor y Canoldir, neu y Môr Coch, neu y Mor Du. Gwel pen. 38. 13. NEWCOME, BOOTHROYD.

Adn. 8, 9. Gellid casglu fod y gelynion hyn i gael eu dinystrio yn wyrthiol, gan na's soniram y bobl yn myned allan i ymladd a hwy, ond i losgi eu harfau. Yr oedd yn ddefod arferedig yn mysg y cenhedloedd paganaidd i gasglu yr arfau ar faes y gwaed, a'u llosgi yn bentyrau fel offrwm i'r duw a dybid yn rhoddwr y fuddugoliaeth; ac arferai y Rhufeiniaid hyny fel arwyddlun o heddwch, yn yr hyn y mae yn cyfatteb yn rhagorol i amcan y prophwyd yn y fan hon. Arferai yr Israeliaid yr un ddefod hefyd yn arwyddlun o fuddugoliaeth neu heddwch; Jos. 11. 6. Salm 46. 9. Esa. 9. 5. Neh. 2. 13.—*Llosgant hwynt yn tân saith mlynedd.* Neu, "Gwnant danwydd o honynt saith mlynedd." Gallai hyn fod yn wirioneddol yn llythyrenol, wrth ystyried mor lluosawg y fyddin, a chàn lleied o danwydd sydd ofynol mewn gwledydd poethion: ond y mae saith yn nifer a arferir am ddigonolrwydd neu berffeithrwydd, ac e all ei fod yma yn dynodi amser maith. DAVIDSON.

Adn. 11. *Le bedd:* bedd a gaiff efe, lle y dysgwyliai gael yspail.—*Dyffryn y fforddolion o du dwyrain y môr,* sef llyn Genesareth, ar hyd yr hwn ddyffryn yr oedd ffordd trafnidwyr rhwng Syria a'r Aipht.—*Hammon-Gog:* neu dyrfa Gog.

Adn. 12—16. Gorchymynid i'r Iuddewon gladdu eu meirw, a chan fod cyffwrdd â chorff neu ag asgwrn un marw yn halogi dyn, yr oedd yn angenrheidiol glanhau y tir trwy gladdu y sawl a geffid.—*Ac enw y ddinas fydd Hamonah:* neu, "Ac yno hefyd y bydd dinas Hamonah." Mae rhai yn meddwl fod hyn yn arwyddo y byddai i'r Israeliaid adeiladu dinas yn arwydd neu goffadwriaeth o'u gwaredigaeth: ond hwyrach nad yw y gair yn arwyddo dim mwy nac y byddai i'r fan y gwersyllai y gelyn gael ei alw wrth enw y dyffryn. DAVIDSON.

Adn. 17—20. Mae y gyffelybiaeth odidog yma wedi ei defnyddio oddiwrth y ddefod o wahodd rhai i wleddoedd ar ol aberthau; gwel 1 Sam. 16. 3. Zeph. 1. 7. Esa. 34. 2. Dat. 19. 17—21.—*Hyrddod,* &c. Breninoedd, tywysogion, duciaid, llywodraethwyr, a phendefigion, a gyffelybir i anifeiliaid breision Basan, am eu maint, eu nerth, a'u golud. JARCHI, KIMCHI, GILL, NEWCOME.—*A meirch a cherbydau,* neu "â meirch a'u marchogion." NEWCOME, BOOTHROYD.

Adn. 23. *Mai am eu hanwiredd eu hun y caethgludwyd tŷ Israel:* nid am nad oedd genyf allu i'w gwaredu, neu ewyllys i dosturio wrthynt. CALMET.

Adn. 29. *O herwydd tywelltais fy ysbryd ar dŷ Israel:* yr hwn sydd yn ysbryd sancteiddiad i'w puro, yn ysbryd nerth i'w cadarnhau mewn sancteiddrwydd; ac ysbryd mabwysiad i wneyd ufudd-dod yn beraidd iddynt; fel na's mynant ymadael a mi mwy

yn ol yr addewidion; pen. 11. 19, 20. a 36. 25—27. a 37. 23—28. Jer. 31. 31, &c. a 32. 37—40. POOLE.

## PEN. XL.

Adn. 1. *Y bummed flwyddyn'ar hugain o gaethgludiad* Jehoiachin, oedd y bedwaredd ar ddeg wedi cymeriad Jerusalem. NEWCOME.

Adn. 2. *Ar fynydd uchel iawn;* gellid dywedyd felly am Moriah; ond yr oedd MICHAELIS o'r farn y gallai fod yn ddynodawl o Jerusalem, ac y byddai i wir addoliad Duw gael ei ddyrchafu yn ddirfawr, a'i wneyd yn dra adnabyddus i'r byd. Gwel Esa. 2. 2.

Adn. 4. *Ha, fab dyn gwel a'th lygaid,* &c. Gelwir ar y prophwyd i sylwi yn astud ar yr hyn a ddatguddid iddo, fel y gallai efe ddarlunio yr unrhyw i'w genedl yn y caethiwed. Mae y dysgedigion yn amrywio llawer iawn yn eu barn ar y weledigaeth hon; rhai yn barnu fod y weledigaeth hon i wasanaethu fel cynllun i adeiladaeth yr ail deml; eraill nad yw y bennod yn cynnwys un brophwydoliaeth; ond yn unig y darlunir ynddi pa beth a allesid ei wneuthur pe buasai yr holl lwythi yn defnyddio eu cyfleusderau i ddychwelyd: ond mwy dewisol genym ni yw y syniadau canlynol o eiddo y *Parch.* W. LOWTH. "Dyben neillduol gweledigaeth teml Ezeciel oedd, trwy roddi addewid o adferiad teml Solomon, gadw yr Iuddewon rhag eu halogi eu hunain âg eilun-addoliaeth yspaid y caethiwed; ac i'w calonogi pan y deuai i ben, i ddychwelyd adref ac ail adeiladu eu teml; ac ufuddhau i'r deddfau a'r gosodiadau a ragnodwyd gan Moses i gyflawni addoliad Duw yno, yr hyn nad ydoedd yn gydradd i deml Solomon yn mhob ystyr cyn dyfodiad y Messiah, eglwys yr hwn ydoedd i fod yn gyffelyb i deml Solomon mewn cymmesuredd a harddwch, mewn cadernid a pharäad, mewn trefn a rheolaeth, ac addoliad prydferth y gwir Dduw, ac mewn ymddangosiad o'r Dwyfol bresenoldeb, yn gyntaf drwy ddoniau gwyrthiol yr Ysbryd Glan, a byth wedi hyny trwy gynnorthwyon, cysuron, ac amddiffyniad yr un Ysbryd. Nid oes dim yn fwy arferol nac i'r prophwydi ddarlunio ansawdd yr eglwys Gristionogol drwy gyffelybiaethau wedi eu cymeryd oddiwrth y deml a'r gwasanaeth Iuddewig."

Adn. 5. *Ac wele fur o'r tu allan i'r tŷ;* i wahanu rhwng y tir sanctaidd a'r tir cyffredin. W. LOWTH.—*A chorsen fesur yn llaw y gwr, yn chwe chufydd o hyd.* Fe gyfrifir fod y gorsen a'r hon yr oedd cyfarwyddwr y prophwyd yn mesur, yn agos i bedair llath o hyd, er y tybia rhai mai cufydd cyffredin yr Iuddewon a feddylir, ac nad oedd y gorsen uwchlaw tair llath o hyd. SCOTT.

Adn. 6—8. Yr oedd yr angel yn myned trwy gyntedd y cenedloedd heb ei fesur, Dat. 11. 2; i arwyddo, efallai, na ellid cynnwys mewn un mesur na rhif y lluaws cenhedloedd a ddylifant i'r eglwys. Mae y gair *Saph,* a gyfieithir *rhiniog,* yn arwyddo cappan y drws, cystal a'r rhiniog, neu y rhan isaf i'r porth. Yr

oedd y rhai hyn yn gydradd mewn mesur i dewder y mur. SCOTT. Mae yn ymddangos fod y fynedfa i'r cyntedd allanol trwy borth, a drws wrth bob pen iddo; ac ar bob tu i'r porth yr oedd tair o ystafelloedd bychain yn gorsen neu dair llath ysgwâr o faintolaeth, a mynedfa o bum cufydd neu ddwy lath a hanner rhyngddynt LOWTH, BOOTHROYD. Yr ystafelloedd hyn a fwriedid at wasanaeth y porthorion; Cymh. 1 Cron. 9. 18, 23, 24. a 26. 12, 13, 18.

Adn. 13. *Y porth—yn bum cufydd ar hugain o led.* Y ddwy ystafell oedd chwe chufydd bob un; at y deuddeg yma ychwaneger deg, sef lled cyntedd y porth, a lled y mur yn dri chufydd, yr hyn a wna yn y cyfan bum cufydd ar hugain. BOOTHROYD.

Adn. 16. *A ffenestri cyfyng oedd i'r ystafelloedd.* Yr oedd i'r pyst a grybwyllir yn adn. 10, ffenestri, cyfyng oddiallan, a llydain oddifewn. BOOTHROYD.

Adn. 17—19. Gelwid cyntedd Israel, i'r hwn yr arweiniai y porth a ddarluniwyd o'r blaen, '*y cyntedd nesaf allan,*' nid am mai efe y oedd y cyntaf yr elid i fewn iddo, canys cyntedd y cenhedloedd oedd hwnw, ond mewn cyferbyniad i'r cyntedd nesaf i fewn, adn. 23.—*Ac wele yno ystafelloedd.* Y mae gair gwahanol yn cael ei ddefnyddio am yr ystafelloedd hyn i'r hwn a gyfieithid o'r blaen yn ystafelloedd bychain, ac mae yn ymddangos eu bod yn rhai gwahanol i'r rheiny. Tybir fod y cyntedd hwn yn amgylchynedig â rhodfeydd colofnog, oddiar y rhai yr oedd yr ystafelloedd hyn wedi eu hadeiladu i fod yn ystordai i'r Offeiriaid a'r Lefiaid i gadw yr offrymmau.—*Y porth isaf* a arweiniai i'r cyntedd nesaf allan, a'r uchaf i'r cyntedd nesaf i fewn; canys yr oedd yr holl fynedfa i'r deml yn un esgynfa barhaus. DAVIDSON.

Adn. 23. Oddiyma hyd ddiwedd y bennod nyni a gawn ddarluniad o'r cyntedd nesaf i fewn; pyrth gogleddol a dwyreiniol yr hwn, debygid oeddynt ar yr un llinell yn union a'r eiddo y cyntedd nesaf allan, a'r pellder rhyngddynt yn gán cufydd. Y cyntedd nesaf i fewn oedd i'r offeiriaid, ac ystafelloedd y porth tufewnol oedd i'r cantorion; yr ystafelloedd eraill oeddynt i olchi yr aberthau; yr hyn oedd yn rhan arbenig o waith yr offeiriaid, trwy yr hyn y dangosir mai dyledswydd arbenig holl weision yr Arglwydd yw ei wasanaethu ef mewn pob sancteiddrwydd a chyfiawnder holl ddyddiau eu bywyd. Adn. 38, 44. DAVIDSON.

Adn. 39—43. Nid oes genym hanes am fyrddau i ddal yr ebyrth yn nhabernacl Moses, na theml Solomon: ac efallai fod eu presenoldeb yn nheml Ezeciel yn arwyddo fod goruchwyliaeth newydd a mwy ysbrydol ar ddyfod. SCOTT.— Oddi fewn i'r porth, neu y fynedfa i'r ochr ogleddol, yr oedd barrau heiyrn, i ddal yr anifeiliaid ydoedd i'w haberthu, i'w blingo. LOWTH, LIGHTFOOT.

Adn. 45. *Ceidwaid cadwraeth y tŷ;* yr oeddynt hwy yn gofalu

am y llestri sanctaidd, ac yn cadw gwyliadwriaeth wastadol, gwel 1 Cron. 9, 23. Salm 134. 1. W. LOWTH.

## PEN. XLI.

Adn. 6. Yr oedd oddiamgylch i fur teml Solomon yn ol JOSEPHUS gelloedd o dri uchder, pob uchder yn cynnwys deg ar hugain o gelloedd. Tybir fod deuddeg ar du y gogledd i'r deml, deuddeg ar du y dehau, a chwech ar du y dwyrain. Hwyrach mai at y rhai hyn y cyfeiriai ein Harglwydd, Ioan 14. 2.—*Nid oeddynt yn nglyn o fewn pared y tŷ;* canys nid oedd trawstiau yr ystafelloedd wedi eu gosod yn mur penaf y deml, ond yr oeddynt yn gorphwys ar atteg-byst o'r mur allanol, yr hwn oedd yn culhau bob uchdwr ystafell. HEWLETT.

Adn. 7. *O herwydd tro y tŷ oedd yn myned i fynu,* &c. Yr oedd cymmaint o'r lled yn cael ei chwanegu at yr ystlys ystafelloedd ag oedd yn cael ei gymeryd o dewder y mur; felly yr oedd y llofft ganol yn un cufydd, a'r uchaf yn ddau gufydd helaethach na'r ystafelloedd isaf. A'r grisiau tro, y rhai oeddynt yn ymhelaethu fel yr ystafelloedd, oeddynt yn myned i fynu rhwng dwy ystafell, o'r gwaelod i'r pen uchaf: ac yr oedd o ddrysau yn mhen uchaf pob par o risiau, un drws yn agor i un ystafell, a'r llall yn agoryd i'r hon ydoedd gyferbyn a hi, 1 Bren. 6. 8. W. LOWTH.

Adn. 18, 19. Y cerubiaid a'r palmwydd oeddynt o'r un uchder a'r porth, ac wedi eu cerfio ar furiau y deml oddiamgylch, 1 Bren. 6.29. Y cyntaf oedd arwydd-luniol o bresenoldeb yr Arglwydd; a'r olaf ond odid, o nodweddiad ei wir addolwyr. Mae y balmwydden yn un o'r gwrthddrychau harddaf o fewn naturiaeth, yn tyfu yn uchel ac yn syth, a chyflawnder o ddail arni, y rhai a barânt yn wyrddlas drwy y flwyddyn. Fe'i defnyddid yn allegawl i arwyddoccau gwirionedd, paräad mewn sancteiddrwydd, a buddugoliaeth. Gwel Salm 92, 12. Can. 7. 7. Dat. 7. 9. DAVIDSON.

Adn. 22. *Yr allor bren*, mae yn ddiau mai allor yr arogldarth a olygid. Yr oedd yr allor a wnaethid gan Moses, a'r un a wnaeth id gan Solomon i losgi arogldarth arnynt wedi eu gwisgo âg aur; ond ni sonir am aur nac arian yn y deml a ddarlunir yma gan Ezeciel, trwy yr hyn y dangosid, efallai, mai gogoniant o natur fwy ysbrydol oedd yn cael ei osod allan yn y darluniadau hyn.—SCOTT.

Adn. 25, 26. Yr oedd ystyllwaith o fyrddau wedi eu sicrhau yn mhen y trawstiau mawrion, y rhai oedd yn cyrhaedd allan y tu hwnt i fur y porth. Yr oedd y rhai hyn wedi eu gosod fel yr oeddynt yn addurn-dalaeth dros y fynedfa i borth y dwyrain. Yr oedd llun y palmwydd wedi eu cerfio ar yr ystyllwaith. LOWTH.

## PEN. XLII.

Adn. 1. *Cyntedd nesaf allan.* Cyntedd yr offeiriaid, yr hwn

gyda golwg ar y deml a elwir yn gyntedd nesaf allan, ond yr oedd cyntedd y bobl o'r tu allan i hwn. A. CLARKE, HOUBIGANT, NEWCOME, CALMET, BOOTHROYD.

Adn. 13, 14. *Canys y lle sydd sanctaidd;* nid oedd yn rhydd i neb ond yr offeiriaid fyned iddynt, ac yno y bwyttaent y rhanau o'r offrymmau a neillduasid iddynt yn ol y gyfraith, ac yno y cadwent eu gwisgoedd sanctaidd.

Adn. 15—20. Dangosir yma fod y deml a'i hadeiladau wedi eu hadeiladu ar ysgwâr o filldir seis'nig o leiaf bob ystlys, neu bedair milldir o amgylchiad; yr hyn oedd yn cynnwys llawer mwy o le na theml Solomon, na'r un a adeiladwyd ar ol y caethiwed; a diau nad oedd y mynydd ar yr hwn y safai y deml yn ddigon helaeth i gynnal yr adeiladaeth yma, yn ol y darlun a rydd yr ysgrifenwyr Iuddewig o honaw; yr hyn a ddengys nad oedd y weledigaeth hon yn golygu unrhyw deml a adeiladwyd hyd yn hyn, nac unrhyw gyssegr naturiol; felly y mae yn rhaid ei chymeryd yn gyffelybiaethol ac yn gyfriniol. SCOTT.

## PEN. XLIII.

Adn. 1—5. Nid oes un hanes fod gogoniant Duw wedi meddiannu yr ail deml yn weledig fel yr oedd yn y tabernacl, ac wedi hyny yn nheml Solomon pan y'i cyssegrwyd hi. Gan hyny rhaid edrych heibio i ddychweliad yr Iuddewon o Babilon am gyflawniad y prophwydoliaethau hyn. Yr oedd y prophwyd yn gweled gogoniant Duw Israel yn dyfod o'r dwyrain. Crist ydyw Haul Cyfiawnder: ac fel y mae yr haul naturiol yn cyfodi yn y dwyrain, felly yntau a gyfododd yn yr ardaloedd dwyreiniol, ac a lewyrchodd ei oleuni oddiyno i'r byd gorllewinol. Ni hysbysir fod cwmmwl tywyll yn canlyn y gogoniant gweledig hwn, fel yr oedd yn canlyn yr un dan yr hen oruchwyliaeth; canys y mae goleuni cyflawn yr efengyl yn gwasgaru y tywyllwch oedd yn aros o'r blaen ar bethau nefol. Ond yr oedd llais yn ei ganlyn fel swn llawer o ddyfroedd; yr hyn a all fod yn arwyddo effeithioldeb yr efengyl yn brawychu ac yn dychwelyd pechaduriaid, neu fygythion o ddialedd Duw ar holl wrthwynebwyr ei bobl, y rhai a ddadymchwelir ganddo fel rhuad angerddol rhyw lifeiriant mawr. Yr oedd gogoniant Duw a welodd y prophwyd yn gyffelyb i'r hyn a ymddangosasai iddo o'r blaen. Ond y pryd hyny yr oedd efe yn rhagfynegi dinystr Jerusalem gyda'r fath fanylrwydd, fel y gellid dywedyd ei fod yn dyfod i'w dyfetha hi: eithr yn awr yr oedd efe yn rhagfynegi dychweliad yr Arglwydd yn ol i'r ddinas, a'i llwyddiant; ac yr oedd efe yn cael adnewyddiad o'r un weledigaeth ag a barodd iddo ymdrôi yn y llwch i ryfeddu y mawrhydi Dwyfol. Yn y modd hyn yr oedd gogoniant Duw yn llenwi y deml; ac fe arweiniwyd y prophwyd gan yr Ysbryd sanctaidd i'r cyntedd nesaf i mewn i weled yr oruchwyliaeth hono. SCOTT.

Adn. 7—9. *Dyma le fy ngorseddfa.* Cymh. Esa. 6. 15. Efallai fod yr ymadrodd yma wedi ei fenthyca oddiwrth yr amgylchiad o fod y cerubiaid yn sefyll oddiar y drugareddfa, yr hon oedd orseddfa Duw.—*Na thrwy gyrph meirw ein breninoedd yn eu huchelleoedd.* Gall fod celanedd eu breninoedd yn arwyddo, naill ai yr eilunod oedd yn cael eu haddoli gan freninoedd Judah, y rhai oedd mor ddifywyd a ffiaidd ger bron Duw a chelanedd llygredig neu gyrph meirw y plant yr oeddynt yn eu haberthu i'w heilunod ffiaidd ar yr uchelfeydd oeddynt wedi eu cyfodi yn ngolwg y deml. Ond, yr oeddynt hwy wedi dwyn eu delwau hyd yn nod i'r cyssegr ei hun, fel yr oedd rhiniogau a cholofnau yr adeiladau a gyfodasent i eilun-addoliaeth yn sefyll yn agos at, neu gyferbyn a rhiniog, colofnau, a physt y deml: ac nid oedd ond mur rhwng y Duw gogoneddus, o ran ei bresenoldeb, a'i gydymgeiswyr dirmygus a ffiaidd, ac yn y modd hyn yr oeddynt wedi ei gyffrôi ef yn y fath fodd hyd onid ydoedd efe wedi eu hysu yn ei ddigofaint.

Adn. 10—12. *Dangos y ty i dŷ Israel,* os gweli un arwydd o edifeirwch yn eu mysg, darlunia yr ail deml hon iddynt; ei mesurau, a'i hordinadau, fel y coleddont obaith am eu hadferiad, ac y gwybyddont pa beth a fyddaf fi yn ei ofyn ganddynt pan y'u hadferer.—*Dyma gyfraith y ty, &c.* Prif gyfraith y tŷ yw, fod yr holl arwynebiad a ddarluniwyd yn cael ei neillduo yn hollol, ac na byddo un ran o honaw yn cael ei ddefnyddio i ddyben cyffredin. SCOTT.

Adn. 13—17. Yr ystolion oeddynt at wasanaeth yr offeiriaid i sefyll arnynt pan yn gwasanaethu wrth yr allor. Arferent esgyn ar y rhai hyn o'r dwyrain, fel y gallent edrych tua'r deml a'r gorllewin pan yn gweinyddu, yn groes i ddefod y paganiaid, y rhai a addolent eu duwiau a'u hwynebau tua chodiad haul. Allor y poethoffrwm a olygir wrth yr un a ddarlunir yma. BOOTHROYD.

Adn. 18—27. *Dyma ddeddfau yr allor.* Mae dull puredigaeth, a chyssegriad yr allor hon yn gwahaniaethu mewn ychydig bethau oddiwrth yr hyn a ddarllenwn ni am gyssegriad yr allor a wnaed i'r tabernacl, Exod. 29. 36, &c. BOOTHROYD. Y mae yn beth nodedig fod y prophwyd yn cael ei gyfarch fel pe buasai i arolygu y gwasanaeth yn bersonol, yr un modd a Moses pan y cyfododd efe y tabernacl, ac Aaron a'i feibion pan y'u cyssegrwyd: eto nid ydoedd efe mewn unrhyw orchwyl yn nghyssegriad yr allor neu y deml wedi y caethiwed, ac y mae yn debyg ei fod ef wedi marw cyn yr amser hwnw. SCOTT.

## PEN. XLIV.

Adn. 1—3 *Arglwydd Dduw Israel a aeth i mewn trwyddo ef.* Yr oedd gogoniant Duw Israel wedi myned i mewn trwy y porth dwyreiniol. Gwel Nod. ar pen 43. 1—7. Ac er y pryd hyny yr oedd y porth hwn i'w ystyried yn gyssegredig i dywysog Israel yn

unig; wrth yr hwn yn ol barn rhai y golygid yr Archoffeiriad, ac eraill, y tywysog gwladol, megis Zorobabel, neu Nehemiah: ond y mae yn amlwg mai Crist a olygir wrth y tywysog mewn amryw o'r prophwydoliaethau blaenorol. Gwel pen. 34. 24. a 37. 25: a pha beth bynnag a olygir yn brophwydoliaethol, y mae yr archiad yn rhoi ar ddeall i ni na ddichon i neb fyned i'r nefoedd, y gwir gyssegr, fel yr aeth Crist yno, sef trwy rinwedd ei deilyngdod, sancteiddrwydd, cyfiawnder, a nerth personol ei hunan. Efe, yr hwn sydd yn "ddysglaerdeb gogoniant yr Arglwydd," a aeth i mewn y ffordd hono; ond y mae wedi ei chau yn bresenol o flaen yr holl hil ddynol; ac y mae yn rhaid i ni oll fyned i mewn fel pechaduriaid, drwy ffydd yn ei waed ef, a thrwy dderbyn o'i ras ef. SCOTT.

Adn. 5. *Gosod dy feddwl ar ddyfodfa y ty.* Y oedd y prophwyd i sylwi yn ofalus nad oedd neb i ymwneyd â'r addoliad Dwyfol heb ymgadw at gyfreithiau y tŷ. DAVIDSON.

Adn. 6—9. Yr oedd llawer o ddiofalwch gyda golwg ar gyfreithiau y cyssegr, yn flaenorol i'r caethgludiad, a dieithriaid o waed a chrefydd yn cael eu goddef i ddyfod i'r cyssegr, a chyfrannogi o'r offrymmau.—*Eithr gosodasoch i chwi eich hunain geidwaid, &c.*, hyny yw, rhai a'u boddiai hwy eu hunain, pa un bynnag a fyddent hwy yn gymeradwy gan Dduw ai peidio. DAVIDS.

Adn. 10—14. Yr oedd, nid yn unig y dienwaededig i gael eu cau allan o'r deml hon,ond hefyd y Lefiaid hyny a fuant yn ymarfer â defodau eilunaddolgar, a gauid allan o gyfrannogaeth yn rhagorfreintiau eu hynafiaid duwiol. Ni's byddent namyn porthorion a gweision i eraill. BOOTHROYD.

Adn. 15, 16. *Meibion Sadoc;* gellid meddwl oddiwrth hyn fod rhai o feibion Sadoc, yr hwn oedd yn archoffeiriad pan adeiledid y deml gyntaf, wedi parhau yn eu huniondeb; ac y maent yn gynnrychiolion addas o'r rhai a anrhydeddir gan Dduw â galwad i swyddau pwysig yn ei eglwys.

Adn. 17. *Yn mhyrth y cyntedd nesaf i mewn;* lle yr oedd ystafelloedd neillduedig at eu gwasanaeth; gwel pen. 40. 38, 39.—BOOTHROYD.

Adn. 19. *Diosgant eu gwisgoedd.* Gan fod y gwisgoedd hyn yn gyssegredig nid oedd wiw iddynt eu gwisgo yn un man ond yn y cyssegr; cymh. Lef. 6. 10. a 14. 23. *Yr un.*

Adn. 20—23. *Eu pennau hefyd ni eilliant;* gan y byddai hyny yn gydffurfiad ag arferion yr offeiriaid paganaidd, yn enwedig offeiriaid yr Aipht. Yr archoffeiriaid yn unig a waherddid i briodi *gweddw*, Lef. 21. 13, 14; ond y mae yr un rhwymedigaeth yn cael ei wasgu ar bob offeiriad yma; wrth yr hyn y rhoddir amnaid o oruchwyliaeth burach; ond nid yw i'w ddeall yn llythyrenol, mwy na gorchymynion eraill yn y gweledigaethau hyn. Y gwirionedd a ddysgir yw, y dylai pobl Dduw ymgadw yn eithaf

pell oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd, 2 Cor. 6. 14—18. a 7. 1. DAVIDSON.

## PEN. XLV.

Adn. 1—8. *A phan rannoch y tir wrth goelbren.* Y mae hyn yn gwahaniaethu oddiwrth y rhaniad a wnaethpwyd gan Josuah; ac ni's gwnaed y cyfryw raniad pan ddychwelodd yr Iuddewon o Babilon; rhaid gan hyny ei fod yn golygu yn gyfriniol freniniaeth Crist, ar offrymiad pobl sanctaidd, a neillduedig oddiwrth y byd. GILL. Mae y gweledigaethau hyn yn golygu amserau dedwyddach nac a ganfyddodd Israel eto. SUTCLIFFE.—Nid yw y gair *corsenau* yn y testun gwreiddiol, ond fe'i chwanegwyd yma gan y cyfieithwyr, oddiar ystyriaeth mai â chorsen yn gyffredin y mesurid tir, ac mai corsen a welsai y prophwyd yn llaw ei gyfarwyddwr yn y rhan flaenaf o'r gweledigaethau hyn. Mae yn ddiau na allasai gwlad Canaan oddef i gyfran mor helaeth o dir gael ei ganiattau i'r cyssegr, yn nghyd a'r offeiriaid a'r Lefiaid; ond y mae yn debyg fod hyn yn fwriadol i arddangos dirfawr helaethiad yr eglwys Gristionogol ragor eglwys Israel, yn enwedig yn yr amseroedd gogoneddus hyny a ragfynegir yma yn gyffelybiaethol. Yn ol y mesuriad yma, fe gynnwysai y rhan gyssegredig hon o leiaf ddeugain milldir ysgwâr ar bob ystlys; ac yr oedd cyfran ar y tu gogleddol i'r ysgwâr hwn, oddeutu un filldir ar bymtheg o led, ac uwchlaw deugain o hyd, yn cael ei roddi yn feddiant pentrefol i'r offeiriaid, ac yn nghanol hwn gyfran o dir tua milldir ysgwâr i'r cyssegr, wedi ei gau oddiamgylch â mur. Gwel pen. 42. 15—20. Lle i'w tai ydoedd hwn gan nad oedd dinasoedd mewn rhanau eraill o'r wlad i'r offeiriaid a'r Lefiaid, megis yr oedd dan y ddeddf. Yn nesaf at hwn o'r tu dehau, yr oedd y Lefiaid eraill i gael eu rhan o'r un fesurau a chyfran yr offeiriaid a'r cyssegr. Ac yn ddeheuol i hwn yr oedd rhan y ddinas i gael ei dynodi allan, o'r un hyd a'r rhanau oedd yn cael eu pennodi i'r offeiriaid a'r Lefiaid, eithr nid ydoedd ond hanner y lled. Y rhanau hyn a wnaent ysgwâr o bum mil ar hugain o gorsenau, a'r hyn oedd yn cael ei bennodi i'r tywysog (am led hwn ni chrybwyllir) ydoedd yn cyrhaedd mewn hyd yn gydradd i led y rhanau a grybwyllwyd o'r blaen o'r gogledd i'r dehau, ac ar ystlysau dwyreiniol a gorllewinol yr ysgwâr. Yn yr amser rhag ddywededig bydd darpariaeth gyfleus a haelionus yn cael ei wneyd tuag at addoliad Duw a'i weinidogion; bydd tywysogion yn alluog ac ewyllysgar i dalu holl draul y llywodraeth heb orthrymmu eu deiliaid, ac yn eu llywodraethu mewn cywirdeb a thynerwch fel rhaglawiaid Crist: a'r bobl a ymostyngant iddynt yn gydwybodol, ac a fyddant byw yn heddychol, llwyddiannus, a duwiol. Y mae y pethau hyn yn cael eu harddangos yma mewn iaith wedi ei chymeryd oddiwrth arferiad yr amseroedd, yn y rhai yr oedd y prophwyd yn ysgrifenu. Nid oes

yma, nac yn un rhan o'r weledigaeth ddim son am ddegymau, yr hyn sydd yn dangos na bydd deddf seremonïaidd Moses mewn grym yn yr amseroedd hyny. SCOTT.

Adn. 11. *Homer*, nid yr un fesur oedd hwn a'r Omer a grybwyllir yn Exod. 16. 36, yr hwn nid oedd ond degfed ran o ephah; tra nad yw ephah onid degfed ran *homer*. Dywed rhai fod yr *homer* hwn yn nghylch deg bwysel o'n mesur ni, neu bedwar ar hugain galwyn mewn gwlyb fesur, COBBIN, LOWTH.

Adn. 15. *I wneuthur cymmod*, neu ddyhuddiant; hyny yw, yr hyn sydd yn gorchuddio, neu yn dilëu euogrwydd pechod.

Adn. 16, 17. *Efe a ddarpara bech aberth.* Gellir casglu oddiwrth y geiriau hyn fod y tywysog i weinyddu fel offeiriad. Yr oedd efe i dderbyn offrymmau gan y bobl, ac i roddi offrymmau ei hunan, ond efe oedd i ddarparu y cwbl. Nid oedd un rhyw drefniadau o'r fath yma yn nghyfraith Moses; ond fe welir pa mor briodol ydynt gyda golwg ar y Messiah yn Heb. 10. 1—22. a 13. 10—16. DAVIDSON.

Adn. 20. *Yr ehud*, un o feddwl gwan, hawdd ei hudo o'r iawn ar gyfeiliorn, a elwir *yr ehud*.

## PEN. XLVI.

Adn. 1—3. Yr oedd y prophwyd wedi sylwi o'r blaen fod ffordd y cyntedd nesaf allan, yr hon oedd yn edrych tua'r dwyrain, wedi ei chau; ac fe ddangoswyd iddo nad oedd i'w hagoryd ond i'r tywysog; pen. 44. 1—3, Eithr porth y cyntedd nesaf i mewn o'r tu dwyrain a olygir yma; yr hwn oedd i'w gau ar ddyddiau yr wythnos, ond i'w agoryd ar y Sabbathau a'r newydd loerau hyd y prydnhawn. Yn ol hyn mae yn ymddangos nad oedd neb i fyned i'r cyssegr un amser trwy borth dwyreiniol y cyntedd allanol ond y tywysog yn unig; a bod yn rhaid i'r offeiriaid a'r Lefiaid fyned i'r cyntedd nesaf i mewn trwy borth y gogledd, neu y dehau, oddieithr ar y Sabbathau a'r newydd loerau: efallai ei fod yn ganiataol iddynt fyned i'r cyntedd nesaf i mewn trwy borth y dwyrain, wrth fyned i'r cyntedd nesaf allan trwy borth y gogledd neu y dehau: neu yr oedd yn rhaid iddynt ei agoryd fel yr elai y tywysog i mewn, ac y gallai y bobl addoli o'i flaen, a'r allor a'r aberthau yn y golwg yn gyflawn. SCOTT.

Adn. 4—7. Yr oedd yn ofynol i'r tywysog barottoi aberthau erbyn y Sabbath ac uchel wyliau eraill. Yr oedd hon yn ordinäad newydd, a nifer y creaduriaid, a chyfran yr offrymmau yn wahanol i'r hyn a ofynid gynt; cymh. adn. 4, 6, 7, 14, a Num. 28. 9, 11, 12, 15. W. LOWTH.—*A rhodd ei law;* hyny yw, yr hyn a welo efe yn dda ei roddi; dan y ddeddf yr oedd yr offrwm wedi ei benodi; ond yn awr y mae i fod yn rhydd a gwirfoddol, yn ol gallu y rhoddwr. GILL.

Adn. 8, 9. Caniatteid i'r tywysog ddychwelyd ar hyd yr un

ffordd ag y daethai; ond rhaid oedd i'r bobl fyned allan trwy y porth gwrthwynebol i'r hwn y daethent i fewn trwyddo.

Adn. 16—18. Cymh. Ioan 17. 22—24. Mae meibion y tywysog i dderbyn eu rhan am byth; gwel Heb, 2. 13. Ond ni chaniatteid i'r tywysog drosglwyddo meddiannau yn y dull yma i'w weision, hyd flwyddyn y Jubili yn unig y gallant hwy eu mwynhau. BOOTHROYD.

Adn. 20. *Fel na ddygont hwynt i'r cyntedd nesaf allan i sancteiddio y bobl.* Efallai fod y cyfarwyddyd yma yn arwyddo nad yw breintiau neillduol credinwyr i'w caniattau; neu eu gadael yn agored i bersonau annychweledig; ac na ddylid eu goddef i gydgyfrannogi yn Swper yr Arglwydd, gan fod hyny yn eu tueddu i dybied eu bod yn ddynion sanctaidd, ac nad rhaid iddynt wrth dröedigaeth; ac felly yn achlysur i lawer o ofergoelion a thwyll. SCOTT.

## PEN. XLVII.

Adn. 1. *Ac wele ddwfr yn dyfod allan oddi tan riniog y tŷ tua'r dwyrain.* Mae yn ddiau fod teml Solomon yn cael ei chyflenwi yn dda â dwfr, yr hwn a ddygid iddi mewn pibellau, i wasanaethu i olchi yr aberthau, a'r cyffelyb wasanaeth; ond y dyfroedd hyn oeddynt yn tarddu yn wreiddiol o'r deml, nid fel dyfroedd cyffredin, eithr fel afon hyfryd yn ffrwythloni. Yr oedd y dyfroedd hyn yn tarddu oddi gerllaw yr allor; ac yr oeddynt yn arddangosawl o bregethiad yr efengyl, ac anfoniad yr Ysbryd Glân o'r nefoedd i'w gwneyd yn effeithiol; gan ddwyn bywyd ac iechyd i'r holl genhedloedd. Mae bendithion yr efengyl maddeuant, cyfiawnhad, purdeb, a bywyd tragywyddol, yn cael eu cyfranu i ddynion ar gyfrif aberth gwaedlyd y Messiah. Gwel Rhuf. 5. 21. a 4. 23—25.

Adn. 2—5. Mae bod y ffrwd hon yn ymchwyddo yn afon rymmus heb gymhorth ffrwd na ffynnon arall, yn arddangosiad gwych o gynnydd graddol yr efengyl heb gymhorth doethineb na gallu dynol; gwel Esa. 2. 2—4. Dan. 2. 34, 35, 44, 45. Matt. 13. 31, 32. Mae y tywalltiad o ddoniau yr Ysbryd Glân ar y rhai a gredant yn Nghrist, yn cael ei osod allan dan y gyffelybiaeth o ddyfroedd, gwel Esa. 55. 1. Joel 3. 18. Zech. 14. 8. Ioan 7. 3. cymh. Ioan 19. 34, 35. DAVIDSON.

Adn. 6, 7. Golygir y coed hyn yn arwydd luniau o'r cyfiawn, y rhai ydynt ddyledus am eu holl ffrwythlondeb mewn gweithredoedd da i ddylanwad Ysbryd Duw trwy yr efengyl; gwel Sal. 1. 3. a 92. 13. Esa. 44. 3, 4. a 55. 11, 13. 1 Cor. 3. 6, 7.—DAVIDSON.

Adn. 8, 9. *Ac wedi eu myned i'r môr,* sef môr Sidon, a elwir weithiau Môr heli, o herwydd fod ei ddwfr yn cynnwys tuag un ran o bedair o'i bwysau o halen; a Môr marw, am y dywedir nad oes un creadur yn byw ynddo, na llysiau yn tyfu ar ei lannau. Dywedir ei fod uwchlaw deng milltir a thriugain o hyd, a thuag

wyth o led.—*Ac wedi eu myned i'r môr yr iacheir y dyfroedd.* Cyfnewidia y dyfroedd bywiol yr holl fôr, gan iachau ei ddyfroedd, fel y bydd helaethrwydd o bysg ynddo, trwy yr hyn yr arwyddocceir rhinwedd iachusol gras Duw i feddyginiaethu dryg-au a llygredigaethau dynion annuwiol. LOWTH, NEWCOME.

Adn. 10, 11. *Engedi*, neu Hazazon-Tamar, oedd ar un pen i'r Llyn neu y Môr Marw; ac *Eneglaim* ar y pen arall, yn agos i'r lle yr oedd yr Iorddonen yn arllwys ei dyfroedd iddo. Bod yr holl lenydd wedi eu meddiannu gan bysgodwyr, a'r pysgod yn lluosawg fel pysgod y môr mawr, neu Fôr y Canoldir, a arwyddocäai luaws aneirif o bregethwyr a dychweledigion; gwel Matt. 4. 18, 19.—*Ei lleoedd lleidiog*, &c. Byddai cors diroedd, cilfachau, a siglenau, i'r rhai ni chai y dyfroedd hyn fynedfa; a gadewid y lleoedd hyny yn anfeddyginiaethol, diffrwyth, a diddefnydd. SCOTT. Y lleoedd lleidiog, pwdr, sigledig hyn, y rhai nid ydynt na môr na thir safadwy, ydynt arddangosiad priodol o ragrithwyr. POOLE. Cyflwr gwrthodwyr yr efengyl a arddangosir yn hyn. NEWCOME, SCOTT.

Adn. 12. Gwel Dat. 22. 1—3. Y prenau ymborth hyn yn wastad yn cynnyrchu ffrwyth, a'u dail yn feddyginiaethol, a arddangosant yr arlwyon goludog a dibrin y mae Duw wedi ei ddarparu i ddynion yn yr efengyl. DAVIDSON.

Adn. 13, 14. *Dyma y terfyn.* Mae y prophwyd yma drachefn yn dychwelyd at raniad y tir, oddiwrth yr hyn y'i troisid drwy ddyfodiad gwahanol ddatguddiedigaethau, pen. 45. 1—8. Gan na bu y fath rannu ar wlad Canaan ar ol y caethiwed, mae yn rhaid i ni ddeall fod yma gyfeiriad at ddygwyddiadau dyfodol. SCOTT.

Adn. 18. *Hyd fôr y dwyrain*, neu lyn Sodoma.

Adn. 22, 23. Yr oedd y deg llwyth i gael rhan gyflawn o'r etifeddiaeth, cystal a Judah a Benjamin; ac y mae yn ymddangos fod hyny yn arwyddo fod adferiad Israel i wlad yr addewid yn cael ei ragfynegi yma: ac y mae fod dyeithriaid a ymdeithient yn y wlad yn cael cyfrannogi o'r etifeddiaeth, yn arwyddo yn amlwg alwad y Cenhedloedd i'r eglwys, a'u cyfrannogiad â'r Iuddewon yn mreintiau yr efengyl a dedwyddwch y nef. SCOTT.

## PEN. XLVIII.

Adn. 1—7. Mae y rhaniad hwn ar y tir yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth yr hyn a wnaed yn nyddiau Josuah; ac nid ydyw yn debygol y bydd iddo byth gymeryd lle yn *llythyrenol*; ond efallai ei fod yn arwyddo y cydraddoldeb mewn breintiau sydd yn mysg y gwaredigion, pa fath bynnag oedd eu nodweddiad o'r blaen, a phurdeb eu cymdeithas â'u gilydd. SCOTT. Ac nid yw yn annheilwng o sylw fod y rhifiant yn dechreu yn y gogledd, gyda Dan, y gwaelaf a'r mwyaf euog o'r llwythau; yn yr hyn yr ar-

ddangosid yn dra phriodol yr oruchwyliaeth hòno a hynodir trwy yr amlygiad cyflawn a gynnwysa o drugaredd i faddeu, a gras a gallu i waredu oddiwrth bob pechod. DAVIDSON.

Adn. 8. *Ar derfyn Judah*, yr oedd hwn i fod yn gydiol â rhandir Judah, ar y gogledd, ac i redeg gyd ag ef ar ei hyd.

Adn. 9. *I'r Arglwydd*, at wasanaeth ei gyssegr a'i offeiriaid ef. Cymh. pen. 45. 1, &c.

Adn. 11. *Megis y cyfeiliornodd y Lefiaid;* wrth y rhai y golygir y rhai hyny o hiliogaeth Lefi a droisent at eilunaddoliaeth. Pen. 44. 10, 11.

Adn. 18. *Yn ymborth i weinidogion y ddinas*, Y rhai oedd yn cyflawni y swyddau isaf yn y ddinas. LOWTH. Y Nethiniaid efallai oeddynt. T. JONES.

Adn. 19. Pa un bynnag ai budd ai baich y cyfrifid y gwasanaeth yma, yr ydoedd i'w ranu yn gyfartal rhwng yr holl lwythi. POOLE.

Adn. 30—35. *Dyma hefyd fynediad allan*, neu borth y ddinas. Yr oedd y ddinas i fod yn ysgwâr perffaith, pob ystlys i fesur 4500 cufydd; ac ar bob ystlys i'r ysgwâr yma dri o byrth, y rhai a enwid ar ol deuddeg llwyth Israel. Gwel Dat. 21. 16, &c. BOOTHROYD. Yr oedd y ddinas yn ddeugain milldir o amgylchedd; arddangosiad nodedig o ehangiad yr eglwys dan y Messiah. Gwel Eph. 3. 17—19. DAVIDSON.—*Yr Arglwydd sydd yno.* Gelwid y ddinas ar yr enw rhyfedd yma o'r dydd y'i hadeiladid; a hi a bery felly yn dragywydd, i gadw ei henw, a'r hyn oll a arwyddocâ. DAVIDSON. Mae hyn yn arwyddoccau mai presenoldeb galluog a grasol yr Arglwydd gyda'i eglwys yw ffynnonell ei holl heddwch, diogelwch, cysur, a sancteiddrwydd; ac y bydd i'r bendithion hyn gael eu gweinyddu yn helaeth, a'i bresenoldeb a'i ogoniant ei amlygu yn nodedig yn mysg ei bobl. SCOTT.

## LLYFR DANIEL.

*Fe dybir gyda llawer o briodoldeb, fod Daniel yn deillio o un o'r cangenau ieuengaf o'r teulu breninol. Efe a gaethgludwyd i Babilon pan nad oedd ond ieuanc; ac o herwydd tegwch ei berson, a doniau ei feddwl, efe a ddewiswyd yn nghyd ag eraill i'w roddi dan addysg er ei gymhwyso i wasanaethu ar y brenin. Efe a ennillodd ffafr a chyfeillach y pen ystafellydd yn fuan; oc yr oedd ei ddyrchafiad cyflym yn cyfatteb i'w gyrhaeddiadau rhagorol mewn doethineb, dysgeidiaeth, a duwioldeb.*

*Dosberthir y llyfr i ddwy ran yn gyffredin; y chwe phennod gyntaf a gynnwys y dosbarth cyntaf, a'r chwech olaf yr ail ddosbarth. Y rhan gyntaf sydd gan mwyaf yn hanesyddol; ac yn cynnwys darluniad o ryw freuddwydion hynod, ac amgylchiadau eraill, y rhai a ddeonglai Daniel. Yr ail ran sydd yn brophwyd-*

*oliaethol; ac yn cyfeirio at amserau pell'yn mlaen. Mae yn agos i hanner y llyfr hwn wedi ei ysgrifenu yn y Caldaeg, am ei fod yn ymdrin âg amgylchiadau Caldeaidd, ac felly y gallai fod yn fuddiol i'r genedl hono.*

## PEN. I.

Adn. 1. *Yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Jehoiachim.* Cyfodasid y brenin hwn i'r orsedd gan frenin yr Aipht, ac efe a fu yn deyrngedawl iddo ef am dair blynedd; ond yn y bedwaredd, yr hon hefyd oedd y gyntaf i Nebuchodonsor, yr olaf a lwyr orchfygodd yr Aiphtiaid, ac yna Jehoiachim a ddygwyd dan deyrnged i Babilon. Yn mhen tair blynedd efe a wrthryfelodd; ond gan fod gan Nebuchodonosor lon'd ei ddwylaw o waith arall, ni's dymchwelodd ef hyd ben tair blynedd ar ol hyny, yr hon oedd yr unfed flwyddyn a'r ddeg, a'r olaf i Jehoiachim, gwel 2 Bren. 23. 34—36. a 24. 1. Jer. 25. 1. a 46. 2, CLARKE.

Adn. 2. *Yntau a'u dyg hwynt,* sef y llestri, ac nid Jehoiachim a'r llestri; canys yn ol Jer. 22. 12, efe a laddwyd yn agos i Jerusalem; ond nid hyd wedi y gwarchae, yn yr unfed flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad, gwel 2 Bren. 24. 1, 2. BOOTHROYD.—*Sinar* oedd hen enw Babilon, gwel Gen. 11. 2. A. CLARKE.—*Ei dduw,* sef Jupiter Belus, Jer. 50. 2. GILL. Yr oedd yn perthynu i'r hen demlau paganaidd gynt, drysordai wedi eu neillduo i dderbyn yr yspail a gymerid oddiar y gelynion, ac a gyssegrid i'r duwiau perthynol i'r cyfryw demlau. WINTLE.

Adn. 4. *Fechgyn,* sef gwyr ieuainc o bymtheg hyd ugain mlwydd oed, GILL. Bernir yn gyffredin fod Daniel oddeutu ugain mlwydd oed y pryd hyn. SCOTT.—*Dim gwrthuni,* yn gyfaddas mewn corff a meddwl i fod yn y llŷs. W. LOWTH.—*I'w dysgu ar lyfr ac yn iaith y Caldeaid.* Yr oedd y Caldeaid yn dra chyfarwydd yn yr amrywiol wybodau, yn enwedig mewn serydd-iaeth; megis y dysgodd Moses ddoethineb yr Aipht, felly Daniel a ddysgodd ddoethineb Babilon, fel y byddai yn wasanaethgar i'w bobl. BOOTHROYD.

Adn. 6, 7. *O feibion Judah,* i'w gwahaniaethu oddiwrth y deg llwyth, y rhai hefyd oeddynt dan lywodraeth y Caldeaid yn bresenol. BOOTHROYD.—*Daniel,* ystyr yr hyn yw, "Duw fy marnwr."—*Hananiah,* "Gras yr Arglwydd." SCOTT.—*Misäel,* "A ofynwyd gan yr Arglwydd," efallai. GILL.—*Azarïah,* "Yr Arglwydd sydd gymhorth." SCOTT.—*A osododd arnynt enwau,* fel yr arferai breninoedd dwyreiniol er anrhydedd i'w dewisolion. GRAY. Heblaw hyny, yr oedd yn anhawdd i'r Caldeaid swnio yr enwau Hebreaidd. SUTCLIFFE.—*Beltesassar,* "trysorydd Bel."—*Sadrach,* "cennad y brenin," neu "cennad yr haul," mae yn debyg. GILL. —*Mesach,* "un a berthyna i'r dduwies Sesach," eilun enwog yn mysg y Babiloniaid.—*Abednego,* "gwas Nego," un o'u duwiau, Iau neu Gwener. A. CLARKE.

Adn. 8. *Nad ymhalogai efe trwy ran o fwyd y brenin.* Yr oedd hyn yn dangos parch mawr Daniel i Dduw ei dadau, a'i ofal am ufuddhau i'w gyfraith ef can belled ag y gallai. Efe a allasai ei halogi ei hunan trwy fwytta o ran y Brenin, oblegid y gallasai fod yn gynnwysedig mewn rhan o gnawd anifeiliaid gwaharddedig gan y gyfraith, megis aflan, neu, ynte, er y gallasai fod yn fwyd cyfreithlawn ynddo ei hunan, am y gallasai fod yn annghyfreithlawn i addolwr y Gwir Dduw gyfrannogi o honaw o herwydd ei fod wedi ei aberthu i eilunod y Caldeaid. Gwel 1 Cor. 8. 10. Ezec. 4. 13.

Adn. 10. *Ofni yr ydwyf fi fy arglwydd y brenin.* Yr oedd y tywysog yn awyddus i gyflawni dymuniad Daniel, ond efe a ofnai os canfydddai y brenin fod ei orchymyn ef gyda golwg ar ymborth y bechgyn wedi ei droseddu, y collai efe ei ben; ac efe a ofnai y byddai i effeithiau ymborth salwach ei amiygu ei hun yn eu hwynebau. SCOTT.

Adn. 11. *Melsar*, oedd swyddog a osodasai Aspenas oddi tano ei hunan yn oruchwyliwr ar ymborth a gwisgoedd y caethion breninol. CLARKE.

Adn. 12. *Ffa;* dywedir fod y geiryn a gyfieithir yma *ffa*, yn dynodi unrhyw beth a hauir; pob math o wreiddiau, llysiau, a ffrwythau. GILL.

Adn. 15. *Eu gwedd hwynt yn deccach, ac yn dewach o gnawd, &c.* Nid yw llwyr ymwrthod â gwinoedd, ac â bwydydd danteithiol y gwledydd hyny yn un niwed i degwch nac i iechyd pobl, â gwyddai Daniel yn brofiadol am effeithiau daionus cymedroldeb manol; eto mae yn debyg y dylem ni gofio fod bendith neillduol Duw yn gorphwys ar yr ymborth garw yma i Daniel a'i gyfeillion, am eu bod hwy yn ei gymeryd o gydwybod grefyddol. HARMER, CLARKE.

Adn. 17. *A Daniel a hyfforddiodd efe yn mhob gweledigaeth a breuddwydion* Nid rhai achlysurol a damweiniol, ond rhai anfonedig o'r nef; canys dyma oedd un llwybr drwy ba un y cyfrannai Duw ei feddwl gynt i ddynion. Gen. 36. 5—11. a 40. 5—23.

Adn. 20. *Yn ddeg gwell*, hyny yw, yn llawer gwell;—*na'r holl ddewiniaid*, sef y rhai oeddynt gyfarwydd mewn anianyddiaeth. BOOTHROYD.

Adn. 21. *A bu Daniel hyd y flwyddyn gyntaf i'r brenin Cyrus.* Felly efe a fu byw hyd oni ddinystriwyd yr amherodaeth Fabilonaidd gan Cyrus, pan gyflawnwyd y brophwydoliaeth o eiddo Esaiah, pen. 45. 28. a 44. 1; a hyd derfyn y caethiwed Babilonaidd pan ddiweddodd y deng mlynedd a thriugain, am y rhai y rhagfynegasai Jeremiah; ac y mae yn dra thebyg mai trwyddo ef y perswadiwyd Cyrus i roddi cyhoeddiad o ryddid i'r Iuddewon. Efe a fu fyw ar ol hyny o leiaf ddwy neu dair blynedd. SCOTT.

## PEN. II.

Adn. 1. Yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad Nebuchodonosor, yn ol y cyfrif Caldeaidd, yr hwn a arferai Daniel yn naturiol pan yn dechreu son am amgylchiadau a berthynent yn uniongyrchol i'r amherodraeth hòno, ac am yr un rheswm y dechreua efe yn adn. 4. ysgrifenu yn yr iaith Galdeaidd. Ond yr oedd yr Iuddewon yn ystyried Nebuchodonosor yn frenin rai blyneddoedd yn gynt am ei fod yn cyd deyrnasu â'i dad; gwel Jer. 25. 1.—*Freuddwydion*, neu freuddwyd; canys nid yw yn ymddangos iddo gael ond un breuddwyd ar yr achlysur yma; ond arferir y lluosair i ddynodi pwysigrwydd yr olygfa, neu ynte, oblegyd fod olyniad parhaus o amryfal amgylchiadau wedi eu dwyn trwy ei feddwl.

Adn. 2. *Hudolion*, rhai a ymhonant eu bod yn meddu cyfathrach âg ysbrydion ymadawedig. WINTLE.—*Caldeaid*, enw cyffredin, debygid, ar yr holl rai a astudient ysgogiadau a dylanwadau y cyrff wybrenol; yr oedd ser-ddewiniaeth mor gyffredin yn mysg y bobl hyn, fel yr arferid y gair Caldeaid, yn gyfystyr â ser-ddewinwyr gan y Groegiaid a'r Rhufeinwyr. W. LOWTH.

Adn, 4. *Yn Syriaeg*, neu y Caldaeg, sef eu mamiaith. GILL. Yr iaith hon a ysgrifenir gan Daniel oddiyma hyd ddiwedd pen, 8; yr hyn a allai fod yn annogaeth gref i'r Babiloniaid i ddarllen yr hyn yr oedd o'r fath bwys iddynt ei wybod.

Adn. 5, 6. *Aeth y peth oddiwrthyf*, neu, "Dyma y peth a arfaethais." BOOTHROYD. Prin y goddefa y cyf-destyn i ni feddwl fod y Brenin wedi annghofio ei freuddwyd; ond y mae yn amlwg ei fod yn penderfynu na's gwnelai ei ddatguddio; ac yn wir yr oedd ei ymresymiad yn iawn, os oedd efe yn casglu y gellid dysgwyl yn rhesymol i'r rhai a allent roddi deongliad anffaeledig ar freuddwydion, wybod y breuddwydion, heb i neb eu hysbysu, gan nad oedd y wybodaeth o hyn yn fwy goruwchnaturiol na'r hyn oedd angenrheidiol i roddi deongliad arnynt. DAVIDSON.—*Gwneir chwi yn ddrylliau:* cosbedigaeth a arferir eto yn Abyssinia.--BRUCE.—*A'ch tai a osodir yn dommen*, neu a ddïofrydir i'w harwerthu yn gyhoeddus. HOUBIGANT. Wedi i Hannibal ffoi at Antiochus, y Carthaginiaid yn ol defod y Dwyreinwyr a ddïofrydasant ei eiddo, ac a ddystrywiasant ei dŷ, gan ei ddymchwelyd o'i sylfaeni.—*Cornelius Nepos*.

Adn. 9. *Nes newid yr amser.* Nes y byddai i ryw achlysur arall dynu ei sylw ef oddiar yr ymholiad difrifddwys a lanwai ei feddwl ef yn bresenol. *Esgob* HALL.

Adn. 11. *Y rhai nid yw eu trigfa gyda chnawd;* mae yn amlwg oddiwrth hyn eu bod yn credu yn modoliaeth ysbrydion. DAVIDSON.

Adn. 14, 15. *Yna yr attebodd*, neu yn ol amryw feirniaid, "yr ymofynodd Daniel mewn cyngor a doethineb âg Arioch. BOOTHROYD.—*Distain y brenin;* neu bennaeth ei ddihenyddwyr, swydd anrhydeddus yn y gwledydd dwyreiniol, gwel Gen. 37. 36. a Jer. 39. 9. a 52. 12. DAVIDSON.

Adn. 16. Mae mynediad Daniel i wyddfod y brenin yn cyfatteb yn rhagorol â'r hanes a gawn ni am y ffafr fawr a ennillasai efe gydag ef, pen. 1. 19. DAVIDSON.

Adn. 17, 18. Yr oedd Daniel yn hyderus y byddai i'r Arglwydd yr hwn yr oedd efe yn ei wasanaethu, hysbysu y breuddwyd hwn iddo; eto tra yr oedd efe yn erfyn amser gan y brenin, efe a attolygai ar yr Arglwydd i fynegi y dirgelwch iddo ef. BOOTHROYD.

Adn. 19—23. Clybu Duw ei weddi, ac er amlygu ei hun i'r Caldeaid, efe a amlygodd y breuddwyd i Daniel; ac am hyny y mae Daniel yn yr adnodau hyn yn ei foliannu fel Llywydd a Threfnwr pob peth oll. BOOTHROYD.

Adn. 24—30. Wedi i Daniel gyflwyno ei ddiolchgarwch i Dduw, efe a aeth at Arioch, ac a ddygwyd i wydd y brenin Mae ei attebiad i'r brenin yn arwyddo doethineb a duwiolfrydedd mawr; ac y mae yn tywys y brenin i adnabyddiaeth o Dduw, yr hwn yn unig a allai ddatguddio y fath ddirgelwch iddo.—*Ond o'u hachos hwynt, y rhai a fynegant y deongliad i'r brenin*; neu, "Ond fel y gwneler y deongliad yn hysbys i'r brenin, fel y gellit wybod meddyliau dy galon." BOOTHROYD, WINTLE.

Adn. 31—35. *Ac wele ryw ddelw fawr.* Y ddelw hon, yr hon a gyfansoddid o bedwar o wahanol feteloedd, a arddangosai gorff o bedair cenedl fawr, a fyddent yn llywodraethu ar y ddaiar yn olynol, y Babiloniaid, y Persiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid. *Esgob* NEWTON.—*Pen y ddelw*, Babilon, adn. 38; y gyntaf a'r ogoneddusaf o'r breniniaethau hyn; am ba achos y dywedir ei fod o aur. GILL. Yr oedd Babilon wedi ei llanw â golud a gymerasai wrth anrheithio cenhedloedd eraill, neu a elwasai yn ei masnach ehang. Yr oedd yr amherodraeth hon yn ymestyn dros ranau ehang o Ewrop ac Affrica, hyd yn nod at gulfor Gibraltar. SUTCLIFFE. Dechreuwyd yr amherodraeth hon gan Nimrod, O B. 1771; a diweddodd O. B. 3166, C. C. 538, wedi parhau yn agos i 1700 o flyneddoedd. A. CLARKE.—*Ei dwyfron a'i breichiau:* y Mediaid a'r Persiaid, y rhai fel dwy fraich oeddynt yn cyfarfod yn Cyrus fel y fynwes.—*O arian*, yr hwn nid oedd mor werthfawr a'r aur.—*Ei bol*, yr amherodraeth Roegaidd, yr hon oedd hynod am ei hannghymedroldeb a'i moethau; a'i *morddwydydd*, efallai, a ddynodent olynwyr Alexander yn y breninoedd Syriaidd a'r rhai Aiphtaidd, y rhai oeddynt gyffelyb i bres gan eu henwogrwydd trystfawr. GILL.—*Coesau o haiarn*, yr amherodraeth Rufeinig, yr hon oedd grefach a mwy nag yr un o'r rhai blaenorol. *Esgob* NEWTON.—*Ei thraed*, bysedd ei thraed a arddangosent y deg breniniaeth i ba rai y rhanwyd yr amherodraeth orllewinol.—*Peth o honynt o haiarn a pheth o honynt o bridd:* hyny yw, rhai yn gryfion, ac eraill yn weinion, gan fod y bysedd rai o honynt o bridd, a rhai o haiarn, canys ni chymmysga haiarn â phridd. GILL.—*Torrwyd allan garreg, nid trwy waith dwylaw,*

yr hyn a eglurir gan Daniel yn adn. 44, 45.—Yr oedd yr Ysgrifenwyr Iuddewig yn gyffredin o'r farn mai y Messiah a olygid wrth y garreg hon.—Breniniaeth Crist, medd NEWTON.—*Nid trwy waith dwylaw*, wedi ei ffurfio mewn modd goruwch-naturiol. J. BROWN. Heb gymmhorth dynol; gwel Col. 2. 11. WILLIAMS. Gallai hyn fod yn cyfeirio at enedigaeth wyrthiol ein Harglwydd, neu at ei freniniaeth ysbrydol ef. CLARKE.—*A hi a darawodd y ddelw ar ei thraed;* yr hyn sydd yn golygu peth sydd eto i'w gyflawni gan Grist, pan ddarostyngo ac y dystrywio efe y deg breniniaeth a roddwyd i Annghrist, ac yntau ei hunan hefyd. COBBIN. —*A'r garreg a aeth yn fynydd mawr.* Breniniaeth Crist a gynnyddodd o ddechreuad bychan, ac a gynnydda fwy fwy, nes y byddo yr holl ddaiar wedi ei ddasostwng iddi.

Adn. 36. *Dywedwn hefyd ei ddehongliad.* Yr oedd yn ddigon addas i Daniel draddodi y dehongliad yn enw ei frodyr cystal ac yn ei enw ei hun, gan ei fod wedi cael y deongliad mewn attebiad i'w cydweddïau; ac yr oedd e yn hyn yn amlygu ei wylder yn nodedig fel y sylwai SCOTT. DAVIDSON.

Adn. 37. *Ti—wyt frenin brenhinoedd;* gan fod llawer o freninoedd dan deyrnged iddo. GILL. Mae breninoedd Abyssinia yn arfer y cyfryw deitl goruchel eto. BRUCE.

Adn. 39. *Breniniaeth arall is na thi;* breniniaeth y Mediaid a'r Persiaid, y rhai a ddynodid trwy y ddwy fraich arian. Yr oedd Cyrus yn ŵyr i Astyages brenin Media, ac yn fab i Cambyses tywysog Persia; ac wedi uno byddinoedd y breniniaethau hyn dano ef, y gorchfygwyd y Caldeaid, ac felly y rhoddwyd terfyn ar yr amerodraeth Assyriaidd; ond yr oedd yr amherodraeth a gyfodwyd dan Cyrus yn is na'r un Assyriaidd, os nid mewn ehangder tiriogaethau, eto mewn paräad; canys ni pharäodd onid dau gant a hanner o flynyddoedd, yn ol rhai haneswyr, neu yn ol eraill, ddim ond cant a hanner. Mae y prophwyd wedi gwneyd crybwylliad esmwyth o'r ail freniniaeth, yn prysuro at y drydedd heb wneyd un sylw ar ddinystr y rhai cyntaf.—*A thrydedd o bres*, yr hon oedd yr amherodraeth Roegaidd a seiliwyd gan Alexander Fawr, gwel pen. 8. 21. Y Groegiaid a wisgent arfogaeth pres, am ba achos y'u gelwid *Halcohitones*, neu y fyddin bres-wisgawl. Dywaid Haneswyr fod Alexander wedi rhoddi gorchymyn allan ar ei alw yn frenin yr holl ddaiar, a bod ei gyfeillion yn arfer ei gyfenwi Brenin y ddaiar a'r môr. DAVIDSON. Dywedir nad ymladdodd Alexander ag un gelyn erïoed heb ei orchfygu; efe a ddarostyngodd Groeg, a gymerodd Tyrus, a orchfygodd yr Aipht, ac a aeth rhagddo i'r India can belled a'r Ganges, a thrwy ddymchweliad daionus Codomanus yn O. B. 3673, a chyn Crist 331, efe a roddes derfyn ar yr unbennaeth Bersiaidd. CLARKE.

Adn. 40—43. *Bydd hefyd y bedwaredd freniniaeth*, sef yr un

Rufeinig, gwel adn. 33. Bu amherodraethau eraill mor fawr neu fwy na'r rhai hyn, megis y Tartariaid, y Saraceniaid, y Twrciaid, &c.; ond yr oedd y rhai hyn yn dwyn perthynas neillduol âg eglwys a phobl Dduw, y rhai a fuant yn ddarostyngedig i'r naill a'r llall o honynt yn eu tro: am hyny y rhagfynegid yn neillduol am danynt hwy. *Esgob* NEWTON.—*Breniniaeth ranedig fydd.* Meddyliai rhai fod hyn yn cyfeirio at ei rhaniad i'r amherodraeth ddwyreiniol a'r un orllewinol; ond y mae yn fwy tebyg ei fod yn golygu rhaniad yr un orllewinol i ddeg breniniaeth. COBBIN.—*Ymgymmysgant â had dyn,* neu "â dynion o unrhyw genedl;" canys y Rhufeiniaid a arferent roddi y rhyddfraint ddinasawl i'r rhai a orchfygent, ac felly y cydgorfforent yr holl genhedloedd. BOOTHROYD.

Adn. 44, 45. *Yn nyddiau y breninoedd hyn,* sef y deg brenin. GILL. Yn amser y bedwaredd amherodraeth.—*Y cyfyd Duw y nefoedd freniniaeth*; ni chyfodwyd yr un freniniaeth i fod yn amherodraeth yn amser y Rhufeiniaid, ond breniniaeth Crist. SUTCLIFFE.—*Ni adewir i bobl eraill,* fel y gadawwyd yr unbennaeth Fabilonaidd i'r Mediaid a'r Persiaid, a'r rheiny drachefn i'r Groegiaid, &c. GILL.—*Ond hi a faluria ac a dreulia yr holl freniniaethau hyn*; felly bydd i bregethiad a dylanwad Cristionogaeth ddystrywio eilunaddoliaeth yn gyffredinol. A. CLARKE.—*A hi a saif yn dragywydd,* trwy amser yn y byd hwn, ac i dragywyddoldeb mewn byd arall. GILL.—*Y breuddwyd sydd wir,*, oracl Duw ydyw, wedi ei anfon o'r nef.—POOLE.—*A'i ddeongliad yn ffyddlawn.* Ni's gallai adroddiad manol Daniel o'r breuddwyd lai na chadarnhau meddwl y brenin fod y deongliad o honaw yn ffyddlawn. *Esgob* NEWTON.

Adn. 46—49. Meddylia rhai fod y brenin dan y fath argraffiadau dwysion o ddoethineb goruwch-naturiol Daniel, fel yr addolai efe ef megis duw, a chyfeiriant at ymddygiad y Lycaoniaid fel engraifft cyffelyb, Act. 14. 11—14. Ond y mae eraill yn dadleu nad oedd yr holl arwyddion hyn o barch a ddangosid i Daniel, yn ddim amgen nac a oedd yn gyffredin yn y gwledydd dwyreiniol, ac fe ellid meddwl hyny wrth fod Daniel yn goddef y fath ymddygiad oddiwrth y brenin; ac yn yr adnod ganlynol mae y brenin yn dangos math o barch i Dduw Daniel, gan wahaniaethu yn amlwg rhyngddo ef a'i wasanaethwr. COBBIN.—*Holl dalaeth Babilon.* Yr oedd yr holl unbennaeth wedi ei dosbarthu yn wahanol daleithiau, dan lywodraeth rhaglawiaid, o ba rai yr oedd Babilon yn bennaf, am ei bod yn cynnwys y brif ddinas. GILL.—*Ac yntau a osododd Sadrach, &c.,* fel rhaglawiaid dan Daniel ar dalaeth Babilon.—*Ond Daniel a eisteddodd yn mhorth y brenin,* fel y byddai yn agos ac ac yn barod at brif wasanaeth y brenin. POOLE. Efe oedd brif gynghorwr y brenin. A. CLARKE. Dywaid y teithydd enwog SHAW fod prif farnydd Algiers yn arferol o eis-

tedd yn mhorth y palas i weinyddu barn yn absenoldeb y pennadur. Gwel Diar. 22. 22.

## PEN. III.

Adn. 1. *A wnaeth ddelw*, o'i dad, Nabopolassar; o honaw ei hunan; neu o'i brif eilun Bel.—*Aur*, hwyrach mai o bren ceuawl y gwneid y ddelw, a'i gwisgo âg aur. GILL. Efallai nad oedd y ddelw hon ar ffurf dynol, neu o aur sylweddol, ond yn hytrach mai colofn ydoedd, a delw Bel ar ei phen uchaf. CLARKE. Dywaid *Diodorus* fod Xerxes wedi cymeryd delw aur, ddeugain troedfedd o uchder, o deml Belus yn Babilon, pan y'i hanrheithiodd, ac nid yw yn annhebyg mai hono oedd y ddelw a grybwyllir yma. PRIDEAUX.—*Gwastadedd Dura*, yr hwn oedd gerllaw y Tigris, fel y bernir, a ddewisid o herwydd fod y cyfryw wastadedd ehang yn fwy cyfleus i'r fath dorf fawr ymgyfarfod ynddo. DAVIDSON.

Adn. 2. Mae yn debyg mai amcan mwyaf y brenin ar yr achlysur yma oedd cael unffurfiad crefyddol trwy yr holl amherodraeth; ac yr oedd y llwybr a gymerodd i hyny yn dra thebyg o arwain i'r cyfryw ddyben; gan fod y werin yn wastad yn hynod o dueddol i ddilyn esampl rhai mewn awdurdod. Gwysid pob rhyw swyddog trwy yr holl amherodraeth i addoli y ddelw hon; ac nis cäai neb fwynhau unrhyw swydd yn y llywodraeth heb ufuddhau yn rhwydd i'r gorchymyn yma; ie, gwnelid hyny yn ammod goddefiad i fyw. Mae yn anhawdd i neb yn yr oes bresenol allu cael allan yn hollol ac yn fanol pa beth a olygid wrth yr amryfal enwau swyddol a arferid yn yr hen oesoedd. DAVIDSON.

Adn. 4. *Wrthych chwi, bobloedd, genhedloedd, a ieithoedd y dywedir*; dull o ymadrodd yn dynodi ehangder yr amherodraeth Fabilonaidd, yr hon yr oedd deiliaid iddi o gynnifer o wahanol ieithoedd. W. LOWTH.

Adn. 6. *Yr awr hono*; dyma y crybwylliad cyntaf o oriau a gawn ni yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd; ac y mae yn dra thebyg mai y Caldeaid a ddechreuasant ranu y dydd yn oriau; a dywaid *Herodotus* mai oddiwrthynt hwy y derbyniodd y Groegiaid y trefniad yma. GILL.

Adn. 8. *Ac a gyhuddasant yr Iuddewon*, hyny yw, a roisant achwyniadau cenfigenus ac anghyfiawn i'w herbyn; hwyrach eu bod yn haeru bod yr Iuddewon yn elynion i'r brenin, o herwydd eu bod yn gommedd addoli ei ddelw ef: cymh. Esth. 3. 8. Efallai fod llawer o'r Iuddewon wedi eu cyhuddo o hyny, mai yr ymadrodd cyffredinol a ddefnyddir yn rhoddi rhyw awgrym felly i ni, debygid: os felly, nid yw yn rhyfedd na's clywem am achwyniad yn cael ei wneyd yn erbyn Daniel yn y peth yma; canys tra y dichon fod y Caldeaid yn edrych ar gorff y genedl Iuddewig yn ddirmygus, efallai eu bod yn ei ofni ef fel y gŵr mwyaf yn yr amherodraeth; o ganlyniad, pa faint bynnag a allasai

eu cas neu eu cenfigen atto ef fod, gallasai pendefigion Babilon ddewis symmud ei hoff gyfeillion o'r ffordd yn gyntaf, cyn cynnyg ffurfio bradwriaeth yn ei erbyn ef. DAVIDSON.

Adn. 11. Yr ydoedd yn arferiad gyffredin mewn amryw o'r gwledydd dwyreiniol i ddihenyddio drwg-weithredwyr trwy eu bwrw i bydewau tanllyd.

Adn. 16. *Nid ydym ni yn gofalu am atteb i ti yn y peth hyn.* Fel pe dywedasent, nid ydym ni yn pryderu yn nghylch dy allu, pa un a elli di orchfygu y duwiau ai peidio; ond nyni a allwn sicrhau i ti, ein bod yn cwbl gredu y dichon y Duw yr ydym ni yn ei wasanaethu, ein gwaredu, &c. Mae yr atteb yma yn wylaidd, eto yn ddiysgog; ac yn amlygu eu hymostyngiad a'u gobaith.

Adn. 19.—23. *Dywedodd am dwymno y ffwrn seithwaith mwy, &c.* Yr oedd ei falchder wedi ei glwyfo, am hyny efe a benderfynai ymddïal yn helaeth ar yr Iuddewon anufudd hyn. Detholid y dewraf o'i filwyr i'w rhwymo a'u bwrw i'r ffwrn; ond wrth gyflawni y gwasanaeth hwnw hwy a gollasant eu bywydau eu hunain. BOOTHROYD.

Adn. 25. *Sydd debyg i fab Duw.* Ni's gwyddom ni pa faint o wybodaeth a feddai y cenhedloedd o ddatguddiad dwyfol; ac ni's gallwn benderfynu pa un a'i iaith ei gredo crefyddol ei hun, ynte yr eiddo yr Iuddewon a lefarid gan y brenin yma; yr olaf, yn fwyaf tebyg; canys y mae yr ymadroddion a ddefnyddia am y Duwdod, yn Iuddewig yn amlwg, ac nid Babilonaidd; gan hyny efe a olygai wrth fab Duw, angel, megis yn adn. 28, os nad angel y cyfammod, yr hwn a adnabyddid dan yr Hen Destament wrth yr enw Mab Duw: ac y mae yn dra thebyg mai y tragwyddol Fab ydoedd, ac nid angel crëedigol.

Adn. 26. *Y Duw goruchaf;* addefiad cyflawn o oruchelder ac undod y Duwdod; fel y mae y brenin yma yn amlygu syniadau llawer mwy golau am yr Arglwydd, nac yn ei addefiad blaenorol.

Adn. 27—30. Er fod yr hanes yma yn dilyn deongliad breuddwyd y brenin gan Daniel, yn uniongyrchol, yr oedd tuag ugain mlynedd rhwng y ddau amgylchiad, ac yn y cyfwng yma o amser te dybir fod Nebuchodonosor wedi annghofio ei addunedau i Dduw Israel. USHER.

## PEN. IV.

Adn. 1—3. Mae y rhan yma mewn cyssylltiad â'r bennod flaenorol mewn amryw argraffiadau, a chyfieithiadau; ond y mae yn ymddangos ei fod yn ddigon priodol fel arweiniad i mewn i gyhoeddiad Nebuchodonosor. Ni chawsai yr un pennadur paganaidd erioed gymmaint o addysg ddwyfol; ac ni bu neb erioed yn fwy penderfynol yn ei wrthwynebiad i argyhoeddiadau gan y gwirionedd; canys wedi ei ddwyn unwaith i gyffesu ffydd yn y gwir a'r bywiol Dduw, efe a ymgyndynai mewn eilun-addoliaeth,

ac a aeth rhagddo waeth waeth, gan lunio bradwriaeth yn erbyn rhyddid gwladol a chrefyddol dynolryw DAVIDSON. Mae yn debyg i'r cyhoeddiad yma gael ei anfon allan gan y brenin hwn wedi ei adferiad, yn y flwyddyn olaf o'i deyrnasiad, efallai.—BOOTHROYD.

Adn. 4. Mae yr ymadroddion a gyfieithir *esmwyth* a *hoyw*, yn arwyddo sefyllfa dawel a chysurus, yn dilyn hir lwyddiant. Ac fe dybir yn gyffredin fod Nebuchodonosor y pryd hwn wedi gorphen ei fuddugoliaethau, a chyflawni ei amcanion, y rhai a luniasai er addurnaw y brif ddinas, a chadarnhau yr amherodraeth; a'i fod yn awr yn uchder ei ogoniant, eto fel Solomon, efe a gafodd allan mai gwagedd yw pob peth. Mae LOWTH yn sylwi yn dra phriodol ar yr amgylchiad yma, fod barnedigaethau neillduol Duw yn aml yn gyffelyb i'r farn gyffredinol, yn eu dyfodiad disymmwth ac annysgwyliadwy, pan fyddo dynion yn eu tybied eu hunain yn y diogelwch mwyaf.

Adn. 8. *Beltesassar*, gwel Nod. ar pen. 1. 7,—*Yspryd y duwiau sanctaidd:* neu, "Y Duw sanctaidd;" canys fe ellir arfer y gair yn y rhif unigol, ac y mae yn ddiau mai yr unig wir Dduw oedd gan y brenin mewn golwg yn bresenol. WINTLE.

Adn. 9. *Dywed weledigaethau fy mreuddwyd, &c.:* neu, yn ol y *Sept.* a'r Arabaeg, "Sylwa ar weledigaethau, &c." Nid oes genym un sail i feddwl fod y brenin y tro hwn fel y tro o'r blaen, wedi galw ar Daniel i hysbysu y weledigaeth a'i hystyr; canys y mae y brenin ei hunan yn myned rhagddo i adrodd yr hyn a welsai. DAVIDSON.

Adn. 10—12. *Ac wele bren:* dan yr un delweddiad y bu Ezeciel yn darlunio breniniaeth yr Aipht, pen. 31.; ac Esaiah yn darlunio breniniaeth Babilon, pen. 14. BOOTHROYD.

Adn. 13. *A wele wyliedydd, &c.*, Angel, nad yw byth yn huno, ond sydd yn wastad yn gwylio i gyflawni gorchymynion Duw. ABEN EZRA, JARCHI, BEN MELECH.—Angelion gwarcheidwawl. T. WILLIAMS.—Y personau yn y Duwdod a olygir, "gwyliedydd," i ddynodi manylrwydd eu rhagluniaeth gyffredinol, a "sanct," i ddynodi sancteiddrwydd goruchel eu natur. Dechreuai hyn oll yn eu harfaeth hwynt, adn. 17, a chyflawnid y cyfan wrth eu gorchymyn. HORSLEY, PARKHURST.—I gyflawni yr hyn a arfaethasai y Goruchaf yn unig y daethai yr angelion hyn. T. WILLIAMS.

Adn. 14, 15. *Torrwch y pren*, hyny yw, "Y pren a dorrir;" canys mynych yr arferir y modd gorchymynol am yr un dyfodol. BOOTHROYD.—*Gadewch foncyff ei wraidd ef yn y ddaear:* yr hyn a ddynodai na's llwyr ddinystrid ef, ond yr adnewyddai ac y dygai ffrwyth drachefn.—*Mewn rhwym o haiarn a phres:* wrth yr hyn yr arwyddid y byddai i'r pren aros yn ei le, er pob rhyw driniaethau dinystriol y'i darostyngid danynt. Ond y mae rhai yn meddwl fod cyfeiriad yn y geiriau hyn at yr arferiad o gadwyno bwystfilod aflywodraethus: eithr nid yw y deongliad yn cyfiawn-

hau y cyfryw olygiad. Mae yn ddïau fod y rhan olaf yn cynnwys delweddiad newydd, ac ymddengys fod y pren yn cael ei drawsnewid yn y fàn i ddyn; neu fod yr olaf yn cymeryd lle y blaenaf yn nychymyg y brenin; yr hwn a ddarlunid trwy y naill a'r llall; *a bydded ei ran gyda'r bwystfilod.*

Adn. 16. *A rhodder iddo galon bwystfil,* wedi ei amddifadu o wasanaeth rheswm; ei lywodraethu gan syniadau anianol, &c. GILL.—*Saith amser,* saith mlynedd, fel y mae yr ymadrodd yn cael ei arfer yn pen. 7. 25. a 12. 7. JARCHI, GILL, W. LOWTH.

Adn. 17. *O ordinäad y gwiliedyddion,* cymh. adn. 24;—*a'r dymuniad,* neu "y gair." Ni's darllenwn mewn un man arall am ordinäad angelion, ac y mae yr enwedigydd lluaws-rif yn cael eu defnyddio am y Duwdod mewn man arall, gwel Jos. 24. 19. Diar. 9. 11. Preg. 12. 1. Fe barodd hyn i rai feddwl mai y Bugail, Sanct Israel, ac nid yr angelion, yw yr hwn a ordeiniodd, ac a roddes y gair mewn perthynas i Nebuchodonosor.

Adn. 19. *A synnodd dros un awr.* Mae yn debyg fod y gair a gyfieithir *un awr* yma, yn arwyddo rhyw yspaid byr o amser; yr oedd y prophwyd wedi ei synu debygid yn yr olwg ar y farn a ragnodid, gan mor annghyffredin ac ofnadwy ydoedd o ran ei natur.—*A'i feddyliau a'i dychrynasant ef.* Wrth ystyried nodweddiad crefyddol a chymdeithasol Daniel, gallem feddwl fod hyny yn cael ei achlysuro gan ei dosturi a'i ofid yn herwydd ei frenin, yr hwn a'i hanrhydeddasai ef mor fawr, yn hytrach nac oddiar unrhyw ofn perygl, i'r hwn y gallai deongliad ffyddlawn o'r weledigaeth ei wneuthur ef yn agored; ac am hyny y dywedodd efe, *Deued y breuddwyd i'th gaseion, a'i ddeongliad i'th elynion,* yr hyn sydd yn arwyddo parch mawr i'r sawl a gyferchid, er nad yw yn dangos teimlad maleisus at ei elynion, gwel 1 Sam. 25. 22. DAVIDSON.

Adn. 25. *Canys gyrrant di,* neu "Tydi a ei o fysg dynion, ac a wnei dy drigfa gyda bwystfilod y maes, a thi a ymborthi ar wellt fel eidionau, ac fe'th wlychir a gwlith y nefoedd." Felly y darllenir y geiriau gan *Wemyss,* ac y mae y cyfryw ddarlleniad yn fwy cyson â'r hanes; yn yr hon ni's cawn yr un awgrym o fod ei ddeiliaid wedi ei yru ef o'r llys, ond yn hollawl i'r gwrthwyneb, canys fe gadwyd y freniniaeth iddo, ac yntau a adferwyd i'w fawredd drachefn, ïe, a anrhydeddwyd yn fwy nac o'r blaen. Gan hyny nyni a allwn gasglu bod gwyliadwriaeth ofalus yn cael ei gadw ar y brenin, tra y'i goddefid i grwydro o fewn ei goedwigoedd helaeth, ac i fyw fel y bwystfilod: ac y mae yn ddïau y gallai gwybodaeth o'r brophwydoliaeth hon gryfhau penderfyniad y pennaethiaid i ofalu drosto fel hyn. Darllener adn. 32, 33, a pen. 5. 21. yr un modd. DAVIDSON.

Adn. 26. *Mai y nefoedd sydd yn llywodraethu:* neu yn ol WINTLE, "Mai o'r nefoedd y mae yr awdurdodau;" yr ystyr yw,

mai oddiwrth Dduw y mae pob llywodraeth ac awdurdod.

Adn. 30. *Onid hon yw Babilon fawr?* Mae yr holl hen ysgrifenwyr yn cydunaw i addef fod y ddinas hon yn un dra enwog am ei maint, ei nerth, a'i gwychder. Gwel Nod. ar Esa. 45. 1—3. Dywedir fod amgylchedd y ddinas dros bum milldir a deugain, a'i muriau, ei gerddi, a'i hadeiladau oeddynt fawr a gorwych iawn. BOOTHROYD.—*A adeiledais i*, neu a adgyweiriais, a ehangais, neu a gadarnheais i. Mae yn debyg fod y ddinas hon mor ddyledus i Nebuchodonosor ag ydoedd Rhufain i Augustus, yr hwn a arferai fostio iddo ei chael yn ddinas o bridd-feini, a'i gwneyd o gerrig nadd. Dywaid HERODOTUS fod talaeth Babilon yn meddu golud ac adnoddau, cyfartal i'r drydedd ran o holl Asia. DAVIDSON.

Adn. 33. *Yr awr hono y cyflawnwyd y gair ar Nebuchodonosor, &c.* Mae Esbonwyr yn amrywio llawer yn eu barn am yr amgylchiad yma; ac er mwyn y Cymmro uniaith dodwn y barnau amrywiol i fewn yma yn ngeiriau y gwahanol awdwyr:—Mae yn eglur mai y dduegwst *(hypochondriasis)* oedd arno; dan ddylanwad yr anhwyldeb efe a redai yn wyllt i'r maesydd, gan ddychymygu am dano ei hunan ei fod yn ŷch, ac ymborthi ar wellt fel y gwna ŷch. Mae pethau a gyflawnir gan Dduw mewn tynerwch, fel yn achos Heseciah, neu mewn dïaledd, fel yma, yn cael eu cyflawni trwy weithrediad cyfryngol achosion naturiol yn aml. DR. MEAD. Myfi a adwaenwn ddyn wedi ei gyfnewid fel hyn yn ei galon, neu yn ei ddychymyg; efe a ddychymygai am dano ei hun weithiau ei fod yn arth, ac yna efe a ymdebygai i'w rhuadau. DR. A. CLARKE. Yr wyf yn meddwl mai yr hyn oll a olygir yma, yw, ei fod ef yn myned allan yn mysg yr anifeiliaid, ac yn byw ar lysiau y maes fel hwythau; a thra yr oedd efe yn y cyflwr gorphwyllog ac anwar yma, fe dyfai ei wallt yn fawr, a'i ewinedd fel crafangau adar, gan droi i fewn. BOOTHROYD.—*A gwlychwyd ei gorph ef gan wlith y nefoedd.* Dyma un amgylchiad a chwanegai yn ddirfawr at drueni y brenin, wedi i'w chwysdyllau gael eu hagoryd gan yr haul tanbaid dros ddeuddeg awr, i'w gorph wedi'n gael ei wlychu â gwlith oer y nôs. Mor niweidiol yr effeithiai hyn ar y cyfansoddiad dynol! ROBERTS.

Adn. 34. *Ac yn niwedd y dyddiau, &c.* Fe fernir yn gyffredin na bu Nebuchodonosor fyw dros flwyddyn ar ol ei adferiad. SCOTT. Efe a fu farw tua'r ail flwyddyn ar bymtheg ar hugain o gaethgludiad Jehoiachin, wedi teyrnasu dair blynedd a deugain. WINTLE. Cyffelyb hefyd oedd golygiadau USHER, PRIDEAUX, a WHISTON. Ond barnai A. CLARKE ei fod ef wedi byw dwy flynedd ar bymtheg ar ol hyn. Ar ei adferiad efe a barodd wneuthur y cyhoeddiad yma yn hysbys trwy yr holl amherodraeth. HORSLEY.

## PEN. V.

Adn. 1. *Belsassar.* Gan mai hwn oedd yr olaf o'r breninoedd Babilonaidd, rhaid ei fod yr un ag a elwir Nabonnedus gan BEROSUS, a Naboundelus gan JOSEPHUS. *Hyn. Llyfr* 10. *pen.* 11. Gwel PRIDEAUX. Nid y brenin hwn ond Evil-Merodach oedd dilynwr union-gyrchol Nebuchodonosor. GILL. Mae yn ymddangos mai fel hyn yr oedd yr olyniaeth o ran trefn.—Nebuchodonosor, Evil-Merodach ei fab, yr hwn a deyrnasodd ddwy flynedd, Neriglissar, yr hwn a laddodd ei ragflaenydd, a'i frawd yn nghyfraith, ac a deyrnasodd bedair blynedd; Laborasoarchod, mab yr olaf, a deyrnasodd naw mis, a Belsassar, mab Evil-Merodach yr hwn a deyrnasodd ddwyflynedd ar bymtheg, ac a laddwyd gan Cyrus. USHER, &c. Y trefniad ysgrythyrol yw, Nebuchodonosor, Evil Merodach, a Belsassar, gwel Jer. 27. 7; ond nid yw yr Ysgrythyr yn cymeryd sylw o Neriglissar a'i fab, gan nad oeddynt ond treiswyr. CLARKE.—*A wnaeth wledd fawr*, rhyw wledd flyneddol mae yn debyg, canys fe ddywaid *Herodotus* a *Xenophon* fod Cyrus yn gwybod am dani yn mlaen llaw: efallai mai gwledd er anrhydedd i'w dduwiau ydoedd, canys e ddywedir fod y rhai hyn yn cael eu moliannu ar y pryd, a dygid llestri aur teml Dduw i'w halogi ar yr achlysur hwn; adn. 2, 3, 4. Rhagfynegasai Esaiah am dani, pen. 21. 5. GILL.—*I fil o'i dywysogion:* pan ystyriom arferion y dwyrain, nid oedd hyn yn fwy nag a ellid eu cynnwys yn hawdd, yn enwedig yn nghyntedd y palas; gwel Esther 1. 3, &c. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Yfasant win*, &c. Gwnaent hyn o ddirmyg ar Dduw Israel, ac er anrhydedd i dduwiau Babilon; gwel 2 Bren. 24. 13. a 2 Cron. 36. 18. BOOTHROYD.

Adn. 5—8. *Bysedd llaw dyn,* a ymddangosasant fel pe buasent yn gynnulledig oddiamgylch i'r ysgrifell, yn y weithred o ysgrifenu. A. CLARKE.—*Yna y newidiodd lliw y brenin.* Mae y darluniad yma o ddychryn y brenin yn dra godidog; a Daniel wedi dywedyd mewn ychydig eiriau gymmaint ag a ellid ei ddywedyd. BOOTHROYD.—*Efe a wisgir â phorphor*, &c. Yr oedd porphor yn lliw a neillduid i'r duwiau, y tywysogion, neu wŷr mawr, yn yr hen oesoedd, gwel Barn. 8. 26. Jer. 10. 9. Luc 16. 19.—*Cadwyn aur*, arwydd o'r parch uchaf, cystal a rhan o swydd-addurniadau; cymh. Gen. 41. 42. Ezec. 16. 11.—*A chaiff lywodraethu yn drydydd*: mae yn debyg fod holl swyddogion yr amherodraeth dan dri o lywyddion, megis y bu wedi hyny yn amser Darius, pen. 6. 2, a meddyliai GROTIUS, ac amryw wŷr call eraill, mai y brenin oedd y cyntaf, a'i fab yr ail.—*Ond ni fedrent ddarllen yr ysgrifen*, yr hon oedd wedi ei hysgrifenu, mae yn debyg, yn y llythyrenau Samariaidd, yr hon oedd y wir Hebraeg; ac nid y llythyrenau Caldeaidd, fel yr arferid ysgrifenu Hebraeg y pryd hwn; am hyny ni's gallai doethion Babilon ei ddarllen. CLARKE, W. LOWTH, BOOTHROYD.

Adn. 10, 11. *Y frenines*, gweddw Evil-Merodach, mam Belsassar, efallai; yr hon a allasai fod yn gyfarwydd yn hanes amgylchiadau teyrnasiad Nebuchodonosor, yr hwn nid oedd wedi marw er's mwy na phedair blynedd ar hugain. Fe dybia eraill mai gweddw Nebuchodonosor ei hun ydoedd. DAVIDSON.—*Y mae gŵr yn dy deyrnas*, ni ddywedir ei fod yn y llys: efallai ei fod ef wedi ei symmud o'i swyddau yn amser un o'r breninoedd blaenorol. GILL. Mae yn debyg ei fod ef wedi ei ddiswyddo ar farwolaeth rhyw frenin blaenorol, canys y mae yn ddefod arferedig yn y dwyrain symmud y physygwyr a'r ser-ddewiniaid o'u swyddi yn y llys breninol, y naill am na fuasai yn gyru angau ymaith, a'r llall am na buasai yn ei ragfynegi. HARMER.

Adn. 12. *A dattod cylymmau*, mae yr ymadrodd y cyfryw ag a arferir yn y dwyrain i ddynodi barnwr rhagorol mewn doethineb a medrusrwydd. A. CLARKE.

Adn. 13, 14. Nid yw yr ymadroddion hyn yn rhoi ar ddeall i ni fod Daniel yn llwyr anadnabyddus i'r brenin; ond yr oedd y fath wahaniaeth yn eu nodweddiad fel nad oedd le i feddwl eu bod yn dra chydnabyddus. DAVIDSON.

Adn. 17. *Bydded dy roddion i ti*:—Ni's mynai Daniel roddion am draddodi cennadwri mor ddifrif-ddwys. POOLE. Ac ni's gallent fod o unrhyw ddefnydd, gan fod y ddinas i gael ei chymeryd a'i hanrheithio yn mhen ychydig oriau. CLARKE. Mae Esbonwyr yn dyrysu wrth geisio cael allan pa ham y dywedir yn yr adnod hon i Ddaniel wrthod anrhegion y brenin, ac yn adn. 29, iddo eu derbyn; ond y mae yn eglur ei fod yn gwrthod yr anrhydedd a gynnygid iddo, er dangos nad oedd rhoddion a gwobrwyon yn cael y dylanwad lleiaf ar ei feddwl ef; er ei orfodi drachefn fel deiliad i ymostwng i orchymyn y brenin. DAVIDSON.

Adn. 25. *Mene, Mene, &c.* Yr ystyr llythyrenol yw, debygid, "Efe a rifodd, Efe a rifodd; Efe a bwysodd, a hwy a ranant." SCOTT. Ail adroddir y gair i ddangos sicrwydd y peth. W. LOWTH. Duw yn ddïau a rifodd yn fanol ac yn berffaith. GILL. Gwel Job 14. 5.

Adn 27. TECEL, *ti a bwyswyd*. Mae dynion drygionus yn cael eu cyffelybu yn aml i arian anmhur, y rhai a gair yn rhy ysgafn yn y cloriannau, gwel Jer. 6. 30. Ezec. 22. 18. W. LOWTH. —PERES, ac UPHARSIN, yr un gair mewn gwahanol ffurf yn arwyddo rhanu: PERES hefyd ydoedd enw prïodol Persia, ac felly yn cynnwys cyfeiriad eglur at ei ddiorseddiad gan y Mediaid a'r Persiaid, y rhai a sylfaenasant amherodraeth fawr ar adfeilion yr un Fabilonaidd.

Adn. 29. Mae yn debyg i Daniel gael ei gyfodi i swydd yn y fan Yr oedd gan y pennaduriaid Dwyreiniol helaethrwydd o wisgoedd wrth law yn wastad i'w rhoddi fel anrhegion; a chyflawnent eu gosodiadau yn dra buan; gwel Esther 6. 10, 11.

Adn. 30, 31. Nid oes genym un sicrwydd bod Belsassar na'i dywysogion wedi cymeryd addysg i edifarhau a dychwelyd at Dduw mewn canlyniad i'r rhybudd difrifol yma: ond cyn i'r noswaith hon fyned drosodd, cymerodd Cyrus, llywydd byddinoedd y Mediaid a'r Persiaid y ddinas trwy ddichell, lladdwyd Belsassar, rhoddwyd terfyn ar yr amherodraeth Fabilonaidd; a dygwyd y trigolion yn ddarostyngedig i dywysog tramor, sef Darius, ewythr, a thad yn nghyfraith Cyrus. Gwel Nod. ar Esaiah 13. a 45. 4—8. 46. 1, 2. Jer. 50. 11.

## PEN. VI.

Adn. 1. *Darius*, neu Cyaxares, yr hwn oedd fab i Astyages brenin Media; efe a elwir Ahasferus yn pen. 9. 1. Efe a fu yn llywodraethu ar yr amherodraeth Fediaidd a Phersiaidd ddwy flynedd, ac yn y cyfamser mae yn debyg yr oedd Cyrus yn arwain y fyddin gyfunol i ehangu neu sefydlu yr amherodraeth newydd; a thrwy i Cyrus briodi unig ferch y Darius hwn, efe a ddaeth yn ettifedd diddadl o orsedd Media a Phersia. Yr oedd y *chwech ugain tywysogion*, i fod bob un yn rhaglaw ar dalaeth; ond y mae yn ddiau i'w nifer gael eu chwanegu pan yr ehangwyd yr amherodraeth, ac y'i rhanwyd i gant a saith ar hugain o daleithiau. Gwel Esther 1. 1.

Adn. 2, 3. Nid oes un achos i ni ryfeddu fod Daniel wedi ei dderchafu i'r awdurdod uchaf yn y llywodraeth, pan ystyriom ei fod wedi cadw i fynu ei gymeriad uchel fel deddfwr rhinweddol, am agos i bum mlynedd a thriugain bellach mae yn debyg. Yr oedd ei ddoethineb a'i dduwioldeb rhagorol yn adnabyddus trwy yr holl wledydd dwyreiniol.—*A'r brenin a feddyliodd:* gellid meddwl fod y gwreiddair yn arwyddo pa beth a wnaethai y brenin, yn hytrach na'r hyn a fwriadai efe ei wneyd; yr oedd efe wedi gosod Daniel yn brif weinidog. DAVIDSON.

Adn. 4—9. *O ran y freniniaeth:* o ran dygiad yn mlaen amgylchiadau y deyrnas. Mae dyn o dalentau rhagorach, pan y'i dyrchefir i anrhydedd, yn nod cenfigen yn aml. Mae yn anrhydedd i goffadwriaeth Daniel na's gallai y rhaglawiaid cenfigenus yma gael dim o'i le yn ei weinidogaeth gyhoeddus i sylfaenu eu hachwyniad arno; ond eu bod yn gorfod gwneyd ymosodiad arno yn herwydd ei grefydd. Yr oedd y cynnygiad yma yn wenieithgar i wagedd Darius, ac efe a berswadiwyd i gydsyniaw âg ef yn rhwydd, heb ganfod y dichell oedd ganddynt hwy yn hyny.—BOOTHROYD.

Adn. 10—17. *Pan wybu*, neu, "er gwybod" *selio yr Ysgrifen*. Yr oedd Daniel yn canfod yr amcan oedd gan y gwŷr hyn mewn golwg; etto ni's pallai a gweddio; ac ni's gwnelai hyny mewn dull mwy annghyoedd nac yr arferasai o'r blaen.—*Ei ystafell*, neu, yn ol y LXX, "Ei oruwch ystafell." Mae yn ymddangos fod gwŷr

duwiol o'r Iuddewon yn arfer neillduo rhyw oruwch ystafell yn eu tai yn ystafell weddi, er cael mwy o lonyddwch a dystawrwydd. PEARSON.—*A'i ffenestri yn agored tua Jerusalem:* Pan fyddai yr Iuddewon yn gweddio mewn gwledydd pellenig hwy a fyddent yn troi eu hwynebau tua Jerusalem, a phan yn Jerusalem, byddent yn wynebu tua'r deml. A. CLARKE. Cymh. weddi Solomon, 1 Bren. 8. 48. Salm 5. 7. a Jonah 2. 4.—*I ffau y llewod.* Yr oedd llewod yn cael eu cadw gan yr hen freninoedd gynt er difyrwch i'r bobl, a byddai drwgweithredwyr yn cael eu bwrw iddynt i ymladd a hwy, ac i fod yn ymborth iddynt. SUTCLIFFE.—*A dygwyd carreg ac a'i gosodwyd ar enau y ffau,* yr hyn a brawf mor benderfynol oedd gelynion Daniel am ei ddystrywio. Ni's gadawent un ffordd o ddihangfa iddo: fel y byddai yn anmhossibl iddo gael ei waredu mewn un modd oddieithr yn wyrthiol.—BOOTHROYD. Mae eraill yn meddwl fod y garreg wedi ei rhoddi ar enau y ffau, a'i selio â sêl y brenin, yn ol dymuniad Darius ei hunan, er diogelu Daniel rhag dialedd ei elynion os diangai rhag dannedd y llewod. GILL, COBBIN.

Adn. 18—20. Mae yn debyg fod Darius yn hysbys o'r hyn a wnaethai yr Arglwydd er gwaredu cyfeillion Daniel, a gallai hyny feithrin rhyw obaith gwannaidd ynddo y gwnelid gwyrth i waredu Daniel.

Adn. 22. *Ac a gauodd safnau y llewod:* mae cyfeiriad at yr ymadrodd yma, debygid, yn 2 Tim. 4. 17. Heb. 11. 33. Yr oedd bwrw rhai yn ysglyfaeth i lewod, yn gosbedigaeth arferedig yn mysg y Rhufeiniaid cystal a'r Asiaid.—*O herwydd puredd,* neu, "ddiniweidrwydd" *a gaed ynof,* yr oedd efe, fel pe galwasai y brenin yn dyst, ei fod ef wedi gwasanaethu ei Dduw a'i frenin, yn ddiwyro ac yn ddiball; nid oedd un duedd yn ei wasanaeth i'r naill i niweidio y llall. Nid yw yr iaith ar un cyfrif yn arwyddo fod Daniel yn ystyried ei waredigaeth fel gwobrwy haeddiannol; ond fel tystiolaeth o fod yr Arglwydd yn caru cyfiawnder.

Adn. 24. Yr oedd hyn yn gosbedigaeth gyfiawn ar y rhaglawiaid drygionus hyn; a gallai beri attalfa yn ffordd eraill i gamgynghori eu brenin, a chamgyhuddo eu cyd-ddeiliaid. Ond nid oedd dinystr eu gwragedd a'u plant, yn gyfiawn er ei fod yn ddefod gyffredin y pryd hyny; ond yr oedd yn groes i ewyllys sanctaidd Duw, Deut. 24. 16. BOOTHROYD. Efallai fod gwragedd a phlant y dynion yma wedi bod yn eu cymhell a'u hannog i'r peth hyn: ac felly fod cyfiawnder Duw wedi eu cyfarfod hwy yn gyfiawn. GILL, COBBIN.

Adn. 26. *I bawb grynu ac ofni rhag Duw Daniel;* hyny yw, bod iddynt barchu ac ofni y Duw yr oedd Daniel yn ei wasanaethu ac yn ei addoli. GILL.

Adn. 28, *Ac yn nheyrnasiad Cyrus y Persiad,* yr hwn ar far-

wolaeth Darius a feddiannodd y llywodraeth ar y Mediaid a'r Persiaid, yr hon oddiwrtho ef a elwid yr unbennaeth Persiaidd. Yr oedd Daniel yn fyw yn y drydedd flwyddyn i Cyrus, yn gyflawn o fywiogrwydd meddwl, gwresogrwydd duwioldeb, a chariad at ei genedl ei hunan, gwel pen. 10. 1—3. Teyrnasodd Cyrus bedair blynedd yn hwy; ond ni's gwyddom pa hyd y'i gorfucheddwyd gan Daniel: mae enwau y ddau wedi bod yn enwog yn mhob oes trwy yr holl barthau dwyreiniol. DAVIDSON.

## PEN. VII.

Adn. 1. *Yn y flwyddyn gyntaf i Belsassar;* mae y rhan olaf o'r llyfr hwn yn gynnwysedig o weledigaethau Daniel dros yspaid o 21 neu 22 o flyneddoedd, o'r flwyddyn gyntaf i Belsassar, hyd y drydedd flwyddyn i Cyrus, pen. 10. WINTLE. Mae yr amseriad yma yn ein taflu ddwy flynedd ar bymtheg yn ol cyn amser yr hanes a gynnwysir yn y bennod flaenorol. W. LOWTH.

Adn. 3. *Pedwar bwystfil mawr;* ail gyflëad o brophwydoliaeth y pedair amherodraeth yw y weledigaeth, ac yn cynnwys ynddi amryw ychwanegiadau at yr hyn a ddatguddiasid mewn perthynas iddynt o'r blaen. *Esgob* NEWTON.—*O'r môr* ; y môr mawr, ar yr hwn yr ymrysonai y pedwar gwynt,—o ganol cyffröadau gwladol. KEITH.

Adn. 4. *Y cyntaf oedd fel llew*; felly y gelwir Babilon, Jer. 4. 7.—*Ac iddo adenydd eryr,* felly Babilon, Jer. 48. 40; ac Ezeciel 17. 3, 12. Y llew yw brenin y bwystfilod, a'r eryr, yr adar, gan hyny y maent yn ddelweddion priodol o allu a chyflymder. *Esgob* NEWTON.—*Hyd oni thynwyd ei adenydd,* neu dorri ymaith y cenhedloedd oeddynt dan warrogaeth i'r unbennaeth Fabilonaidd, oddiwrth ei chorff. KEITH. Fe dynwyd rhai o'i phlu pan gwympodd y Mediaid a'r Persiaid ymaith, ac y codasant ryfel yn ei herbyn, a phan wrthryfelodd taleithiau cyfain, megis yn amser Efil-Merodach, Neriglissar, a Belsassar. Fe feddylia amryw feirniaid mai cyflymdra buddugoliaethau Nebuchodonosor yw yr hyn a osodir allan trwy yr adenydd yma; eraill, mai yr ychwanegiad cryfder a gafodd yr unbennaeth Fabilonaidd, trwy ddarostyngiad Assyria, a chymeriad Ninefeh; llwyr ddinystr yr hon o'r bron gan Sardanapulus, a led-grybwyllir yn yr ymadrodd a arferir am dynu yr adenydd. Ond pa fodd bynnag fe ymddyrchafodd yr amherodraeth drachefn, dan Nebuchodonosor, ac a gyrhaeddodd fwy o nerth nac o'r blaen, yr hyn a ddynodir trwy fod y bwystfil yn sefyll ar ei draed fel dyn, ac wedi derbyn calon dyn: cymh. 1 Bren. 2. 2. DAVIDSON.—Mae Mr. C. TAYLOR yn esponio y brophwydoliaeth hon fel y canlyn,

| DARLUNIAD CYFFELYBIAETOL. | ADRODDIAD HANESYDDOL. |
|---|---|
| 1. Gwelais lew. | 1. Yr amherodraeth Fabilonaidd. |
| 2. Yn meddu adenydd eryr. | 2. Ychwanegu Ninefeh atti,—ond |
| 3. Tynnwyd ei adenydd. | 3. Bu agos i Ninefeh gael ei dinystrio ar gwymp Sardanapalus. |
| 4. Efe a gyfodid oddiwrth y ddaear. | 4. Ei chyfodi drachefn; ond trwy foddion celfyddydol. |
| 5. Gwneid iddo sefyll ar ei draed fel dyn. | 5. Sefyll mewn ystum annaturiol |
| 6. Rhoddi iddo galon (synwyr) dyn, | 6. Trwy wlad-ddysg, a llywodraeth dda ei brenin, Nebuchodonosor, efallai. |

Adn. 5. *Ac wele anifail arall*, breniniaeth y Mediaid a'r Persiaid *Esgob* NEWTON. Mae olyniad y breniniaethau yn ol breuddwyd Nebuchodonosor yn pen. 2. yn arweiniad da i ddëongli y weledigaeth hon. COBBIN.—*Yr ail, yn debyg i arth*, yn greulawn ac ysglyfaethgar, yn anrheithio y gwledydd a ddarostyngent. KEITH, GROTIUS, *Esgob* NEWTON.—*Ac efe a gyfododd ar y naill ystlys*, neu, fel ar ymyl y ddalen, " efe a gyfododd un lywodraeth; hyny yw, efe a wnaeth un lywodraeth o gyd alluoedd Media a Phersia. W. LOWTH.—*Ac yr oedd tair asen yn ei safn ef*, sef Babilon, Lydia, a'r Aipht. *Syr* I. NEWTON. *Esgob* CHANDLER. Gellid eu galw yn asenau, oblegid fod eu darostyngiad wedi cyfnerthu yr amherodraeth Bersiaidd yn fawr.—*Rhwng ei ddannedd*, fe'u gorthrymmid, ac fe'u baeddid yn dost gan y Persiaid. *Esgob* NEWTON. Fe'u hysbeilid ganddo, fel pe buasent yn cael eu malu rhwng ei ddannedd, KEITH.

Adn. 6. *Un arall megis llewpard*, breniniaeth y Macedoniaid, neu y Groegiaid, y rhai dan dywysiad Alexander Fawr a orchfygasant y Persiaid, ac a lywodraethasant yn nesaf ar eu hol hwynt. Mae y llewpard yn nodedig am ei gyflymder, gwel Hab. 1. 2, am y tanbeidrwydd â pha un y rhuthra i'w ysglyfaeth ; ac yr oedd Alexander a'r Macedoniaid yn dra chyflym a rhuthrawg yn eu buddugoliaethau.—*Ac iddo bedair aden aderyn ar ei gefn*, yr hyn a ddynodai yr un peth hefyd, tra na's meddai yr amherodraeth Fabilonaidd ond dwy aden.—*Y pedwar pen* a ddynodant y pedair breniniaeth i'r rhai y rhanwyd yr amherodraeth, gan bedwar o gadlywyddion Alexander ar ei farwolaeth ef, sef Macedon a Groeg; Thrace a Bithynia yr Aipht, a Syria. *Esgob* NEWTON.

Adn. 7. *Ac wele bedwerydd bwystfil* ; yr amherodraeth Rufeinig. *Esgob* NEWTON, GILL, KEITH. Arwydd-lun yr amherodr-

aeth hon yw *haiarn* yn y weledigaeth hon eto.—*Ofnadwy, ac erchyll*, ei harfau a grëai arswyd yn mysg yr holl genhedloedd, a bu Rhufain baganaidd a'r un Babaidd, yn ofnadwy i Gristionogion drwy erledigaethau. GILL.—*Ac yr oedd yn bwytta ac yn dryllio.* Macedon, Pergamus, Syria, yr Aipht, a llawer o freniniaethau a thalaithiau eraill a ddarostyngwyd ganddi. *Esgob* NEWTON.—*Ac yn sathru y gweddill, &c.*, cyfeiriad at gynddaredd bwystfilod gwylltion, y rhai a darawant a'u troed yr ysglyfaeth ni's gallant ei ddifa. W. LOWTH.—*Yr ydoedd efe yn amryw*, yn ei ddechreuad, ei iaith, ei gyfreithiau, ei ddefodau, a'i ffurf lywodraeth. GILL.—*Deg o gyrn*, sef deg brenin neu ddeg breniniaeth, fel yr eglurir yn adn. 24. Gwel hefyd adn. 17, lle y mae breninoedd yn golygu breniniaethau. *Esgob* NEWTON. Yr un peth a ddangosid trwy y deg cyrn i Daniel yn y weledigaeth hon, ag a ddangosid trwy ddeg bysedd traed y ddelw i Nebuchodonosor yn y weledigaeth a gafodd efe, a'r un hefyd a'r deg brenin a ddynodir yn Dat. 17. 12. GILL. Mae deg yn yr ysgrythyr yn dynodi tyrfa anmhennodol, ac y mae i'w gymeryd yma yn dynodi torf anmhennodol o freniniaethau oeddynt i gael eu gosod i fynu gyd a'r bwystfil o fewn terfynau yr amherodraeth Rufeinig. CRESSENER *ar y Datguddiad.* Llaweroedd ydynt y rhestrau o freniniaethau a luniwyd gan ddynion dysgedig er ceisio pennodi y deg breniniaeth hyn. Parhaodd yr amherodraeth Rufeinig yn ei mawredd a'i gogoniant hyd amser Theodosius Fawr; ond yn fuan ar ol hyny fe'i rhanwyd i ddeg breniniaeth, y rhai a nodir fel y canlyn gan MACHIAVAL, "Y Fisgothiaid yn Panonia; yr Ostogothiaid yn Mesia; y Sueviaid a'r Alaniaid yn Gascoine a'r Hispaen; y Fandaliaid yn Affrica, y Ffranciaid yn Ffrainc; y Burgundiaid yn Burgundi; yr Heruliaid a'r Turiogiaid yn yr Eidal; y Saxoniaid a'r Brythoniaid yn Mrydain, yr Huniaid yn Hungary, a'r Lombardiaid ar lannau y Danube, ac wedi hyny yn yr Eidal. Y rhai a ganlyn a olygir gan amryw yn gwneyd i fynu y deg breniniaeth yn y dyddiau presenol. Rafenna, Lombardi, Rhufain, Naples, Sardinia, Ffrainc, Awstria, yr Hispaen, Portugal, a Phrydain. BICKERSTETH.—Y mae y pedwar bwystfil yn fyw eto, er fod llywodraeth y tri cyntaf wedi ei chymeryd oddiarnynt; cenhedloedd Caldea ac Assyria ydynt yn gwneyd i fynu y bwystfil cyntaf eto; trigolion India a Phersia a wnant i fynu yr ail; preswylwyr Macedonia, Groeg, Thrasia, Asia Leiaf, Syria, a'r Aipht, yw y trydydd, a thrigolion Ewrop o'r tu yma i Groeg, yw y pedwerydd; gan hyny rhaid i ni chwilio am yr un corn ar ddeg i'r pedwerydd bwystfil, yn mysg y cenhedloedd o'r tu yma i Groeg. *Syr.* J. NEWTON.

Adn. 8. *Ac wele cyfododd corn bychan arall.* Nid unrhyw berson neu frenin unigol, ond breniniaeth neu arglwyddiaeth, fel y mae y cyrn yn arwyddo breniniaethau; ni chyfododd yr un

lywodraeth arall allan o'r amherodraeth Rufeinig a gyttuna â'r corn bychan yma, ond llywodraeth y Pab. GILL.—*A thynwyd o'r gwraidd dri o'r cyrn cyntaf*, sef yr Heruliaid, yr Ostrogothiaid, a'r Lombardiaid, y rhai a ddiwreiddwyd yn olynol, ac a unwyd â gorsedd y Pab, fel y daeth y Pab i feddu arglwyddiaeth dymhorol. HALES.—*Ac wele lygaid fel llygaid dyn*, i arwyddo dichell fawr, a rhagolygiad grymmus. W. LOWTH.—*A genau yn traethu mawrhydri*, y teitlau o "ei sancteiddrwydd, ein Harglwydd Dduw y Pab, Duw arall ar y ddaiar," a'r honiad o anffaeledigrwydd, o hawl i roddi cyfreithiau Duw o'r nailldu, i faddeu pechodau, ac i werthu gollyngdod i'r nefoedd, a allant wasanaethu fel cynlluniau o'r mawrhydri a lefarai y genau hwn. SCOTT.

Adn. 9—14. *Edrychais hyd oni fwriwyd y gorseddfeydd i lawr*, breniniaethau y byd hwn. POOLE. Nid oes gan yr Asiaid na chadeiriau nac ystolion; ond mewn trefn i dderbyn gwŷr o urddas, byddant yn "bwrw i lawr," neu yn gosod clustogau o amgylch yr ystafell i eistedd arnynt, at yr hyn y cyfeirir yma mae yn debyg; gwel Matt. 19. 28. a Dat, 20. 4. WILLIAMS. Gellid cyfieithu y gair, "A gorseddau osodwyd i lawr," i dderbyn y Duwdod, a'r saint a eisteddant gydag ef, gwel Matt, 19. 28. a Dat. 4. 4.—WINTLE. Yn y modd hyn y'i darllenir hefyd mewn lluaws o'r hen gyfieithiadau, megis y *Sept.* y *Vulg.* y *Syriaeg*, a'r *Arabaeg*.—*Yr Hen Ddihenydd*, Crist, Brenin a Barnwr pawb, a elwir yr Hen Ddihenydd oblegid ei dragywyddol Dduwdod, heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes. POOLE. Mae yr Athraw J. P. SMITH yn golygu yr holl adran yma yn ddarluniad allegawl o gymeriad natur isel a gwael mab dyn, i undeb agos a thrwyadl a'r Mawredd Tragywyddol, ac mai yr undeb yma yw gosail swydd y Messiah fel Penarglwydd ac Iachawdwr y byd. Mae efe yn sylwi hefyd fod y gair am Hen, yn arwyddo nid yn unig oedranus, ond hefyd parhaus, annewidiol, ac annhreuledig; ac efallai y buasai y golyg-ddrych yn cael ei osod allan yn eglurach trwy yr un gair hwnw, YR ANFARWOL. Ystyr wreiddiol y gair *dwyn at*, yw cyssylltiad agos, ac y mae y gair yn ei wahanol foddau yn cael ei ddefnyddiaw yn aml am gyssylltiad, ymbreswyliad, ac undeb, o'r fath agosaf ar sydd yn hanfodi yn mysg dynion; gwel Gen. 25. 22. Esa. 8. 3. Lef. 1. 13, Salm 5. 9. a 49. 11.—*Y farn a eisteddodd, ac agorwyd y llyfrau.* Mae y cyfeiriad yn amlwg at ddull llysoedd barn yn mysg yr Iuddewon: meddylia rhai fod y darluniad yma yn golygu y farn ddiweddaf; ond y mae BOOTHROYD yn sylwi na's gall mai y farn ddiweddaf a olygir yma, ond yn hytrach un i gymeryd lle yn rhagluniaeth Duw, trwy yr hon y bernir yr amherodraeth olaf, ac y rhoddir y freniniaeth i Fab y dyn. Felly hefyd y mae DAVIDSON yn sylwi nad yw golygu yr ymadrodd yn ddarluniadol o'r farn ddiweddaf yn gyson â'r hyn a ddywedir am roddi einioes i'r bwystfilod *dros yspaid ac amser:* o ganlyniad,

mae yn ddïau mai yr adeg a olygir yw, pan fyddo i'r Arglwydd ymweled yn farnol â'r *corn bychan*, a elwir hefyd *y bwystfil*, yr hwn yw sylwedd y brophwydoliaeth hon, ac felly y mae yn gyfystyr â dymchweliad annghrist cyn llwyr ddystrywiad yr holl deyrnasoedd gan ba rai y'i cynhelid, gwel Nod. ar Dat. 16. 17—21; neu o'i lwyr ddifreiniad o allu i lywodraethu y byd, ar yr hyn y sylwir yn y Nodiadau ar Dat. 19. 17—21.—*A'r rhan arall o'r bwystfilod*, meddylia rhai fod yma gyfeiriad at amherodraethau blaenorol Babilon, Persia, a Groeg; ond y mae yn ddiau fod y rhai hyn wedi darfod a bod, ac nad oedd pennaduriaid gwledydd Asia yn yr oesoedd diweddar yn wrthddrychau prophwydoliaeth, am nad oeddynt mewn perthynas agos a'r eglwys Gristionogol; gan hyny nyni a allem feddwl mai yr un gwrthddrychau a olygir wrth y bwystfilod hyn ac wrth y *deg corn*, ac ystyr yr hyn a ddywedir am danynt mae yn debyg yw, y byddai i'r cyfryw o honynt a orfucheddent Annghrist, gael caniattâad i fod dros yspaid, ond y'u llwyr analluogid i roddi cyfreithiau, hyd yn nod i'w tiriogaethau eu hunain. Bydd i freniniaeth Crist gael yr oruchafiaeth yn yr holl barthau hyny a fuant gynt yn ddeiliaid i Annghrist: ïe, bydd yr holl freniniaethau yn ddarostyngedig fel un freniniaeth iddo Ef.—*Megis Mab y Dyn oedd yn dyfod*, nid yw y gwreiddair yma yn arwyddo rhyw un urddasol ac anrhydeddus, am yr hyn y defnyddir geiriau eraill; ond un nodedig gan waeledd, trallodion, a marwoldeb y natur ddynol, a defnyddiai ein Harglwydd mawr yr ymadrodd yn gymhwysiadol atto ei hunan yn sefyllfa ei ddarostyngiad. DAVIDSON.—*Ac at yr Hen ddihenydd y daeth;* ei Dad, oddiwrth yr hwn, fel dyn a Chyfryngwr, y derbyniai ei freniniaeth gyfryngol, a chan yr hwn y'i gosodid i'w gweinyddu. GILL. Mae hyn yn golygu esgyniad Crist; canys er ei fod Ef yn Frenin o'r blaen, eto y pryd hyny y derbyniodd efe awdurdodiad neillduol i weini ei swydd er nawdd i'w eglwys, ac attaliad ar ei gelynion; pen. 2. 44. Act. 1. 9—11. Matt. 2. 2. a 28. 18. 1 Cor. 15. 25. POOLE, WILLIAMS.

Adn. 15—18. Mae yn ddïau nad oedd y prophwyd yn ammeu dim o wirionedd y weledigaeth, neu y pethau a ddarlunid ynddi; ond yr oedd yn ei gael ei hun yn anwybodus am eu natur, ac am hyny efe a ymofynai *ag un o'r rhai a safent gerllaw*, un o'r angclion, y rhai oeddynt yn gweini o flaen yr orseddfainc, debygid.

Adn. 19. Gwel Nod. ar adn. 7.—*A'i ewinedd o bres*, sydd ychwanegiad yma at y darluniad blaenorol a gawsom o'r bwystfil ofnadwy hwn.

Adn. 20. *A'r olwg arno oedd yn arwach na'i gyfeillion;* er fod y corn bychan yn ymddangos yn ddigon dirmygus unwaith yn ngolwg breninoedd y ddaiar, eto efe a gynnyddodd yn raddol nes myned yn fwy na hwynt oll.

Adn. 21, 22. At ba allu heblaw Annghrist, neu lywodraeth

Babaidd yr oesoedd tywyll, y gellir cymhwyso yr esponiad yma o'r corn bychan? Mae yn ddïau mai deiliaid breniniaeth y Mesiah yn gyffredinol a olygir wrth *y saint;* cymh. adn. 18. Anfynych mewn cydmariaeth y cyfarfyddwn ni a'r ymadrodd yn yr Hen Destament, oddieithr yn Llyfr y Salmau ac y mae y gair yn arwyddo yn brïodol, rhai wedi eu neillduo i addoliad y Goruchaf. Felly mae yr enw yma yn arwyddo ymgyssegriad trwyadl i ddwyn breniniaeth Crist yn mlaen; ac y mae y cymhwysder yma yn anhebgorol yn ei holl ddeiliaid ef, Matt. 10. 32—42. Yn awr gellir gofyn pa Allu ar y ddaiar, wedi deillio o'r amherodraeth Rufeinig, a ryfelodd ac a ffynnodd yn erbyn y saint hyd oni ddaeth yr Hen Ddihenydd i farn? Caent orphwysfa achlysurol, a llonyddwch dros dymhor yn mhob man lle na's meddai offeiriaid yr eglwysi eilun-addolgar hyn yr uwchafiaeth; ond pa le bynnag y byddai y rhai hyn yn rhëoli, yno y byddai y saint yn cael eu herlid, eu lladd, neu eu halltudio.

Adn. 25, 26. *Ac a ddifa saint y Goruchaf,* trwy gyfodi rhyfeloedd ac erledigaethau. W. LOWTH. Mae yn debyg fod y Waldensiaid a'r Albigensiaid yn cael eu golygu mewn modd neillduol wrth *saint y Goruchaf* yma.—*Ac a feddwl newidio amseroedd a chyfreithiau,* gan bennodi ymprydiau a gwyliau, cannoni seintiau, caniattau maddeuant pechodau, sefydlu ffurfiau newydd o addoliad, gosod erthyglau cred, a rhëolau ymarferiad newyddion, a gwyrdroi cyfreithiau Duw a dyn wrth ei ewyllys. *Esgob* NEWTON.—*Hyd amser, ac amseroedd, a rhan amser,* cydsynir yn gyffredin fod *amser* yn arwyddoccau blwyddyn; *amseroedd,* dwy flynedd, a *rhan amser,* hanner blwyddyn, yn y cwbl dair blynedd a hanner, yr un a'r 1260 nyddiau, neu y dau fis a deugain; canys yr oedd misoedd yr Iuddewon gynt yn gynnwysedig o ddeng niwrnod ar hugain bob un. Mae diwrnod yn iaith y prophwydi yn golygu blwyddyn; Ezec. 4. 6; ac addefir mai wythnosau o flyneddoedd ydynt y deng wythnos a thriugain yn y 9fed o Daniel; o ganlyniad, mae y deuddeg cant a thriugain o ddyddiau, yn 1260 o flyneddoedd. Dros gyhyd y bydd i'r corn bychan, neu yr awdurdod babaidd barhau: ond yr anhawsder yw penderfynu yn ddi betrus amser dechreuad y dyddiau hyn. GILL, KEITH, *Esgob* NEWTON. Cyfrifir yn gyffredin fod y 1260 mlynedd yn dechreu yn y flwyddyn 606 pan ddarfu i'r amherawdwr Phocas wneuthur esgob eglwys Rhufain yn esgob cyffredinol, a phen goruchaf yr Eglwys Gristionogol mewn enw; os felly fe fydd terfyniad yr yspaid o 1260 o ddyddiau yn y flwyddyn 1860.

Adn. 26. *Yna yr eistedd y farn, &c.* Yr unbennaeth olaf a ddystrywir, a bydd diwedd ar ansawdd bresenol pethau; a phob awdurdod, a gallu, a llywodraeth ddynol a ddarfyddant, 1 Cor. 15. 24; a breniniaethau y byd a wneir yn freniniaeth i Grist. Dat. 11. 15. W. LOWTH.

## PEN. VIII.

Adn. 1. Nid yw y prophwydoliaethau canlynol yn dwyn un berthynas uniongyrchol a'r Caldeaid, yr hyn a allai fod yn un rheswm paham y gadawai yr Ysbryd prophwydoliaethol y Caldaeg yma, gan arfer yr Hebraeg o hyn hyd ddiwedd y gweledigaethau hyn.

Adn. 2. *Yn Susan y brenhinllys:* Susan oedd prif ddinas Persia, am hyny y barnodd rhai mai mewn gweledigaeth yn unig yr oedd Daniel yno, fel yr oedd Ezeciel yn Jerusalem pan ddangoswyd ansawdd y deml iddo ef; Ezec. 8. Meddylia eraill gan fod y ddinas hon wedi ei chymeryd gan daid Belsassar, a'i gwneyd yn dalaeth o Ymerodraeth Caldea, y gallasai Daniel fod yn trigo yn ei brenhinllys fel rhaglaw y dalaeth. Eraill a farnant fod y lle y pryd hwn yn meddiant y Persiaid, ac felly y gallai Daniel fod yno yn bresenol fel cenhadwr oddiwrth Belsassar i lys Cyrus.

Adn. 3, 4. *Hwrdd.* Yr amherodraeth a gyffelybid i arth yn y weledigaeth blaenorol a ddarlunir trwy y gyffelybiaeth o hwrdd yma.—*A deugorn iddo*, yr hyn a eglurir yn adn. 20, fel yn dynodi y Mediaid a'r Persiaid. Yr oedd y darluniad yn dra phrïodol; canys yr oedd breninoedd Persia yn arfer gwisgo pen hwrdd wedi ei wneyd o aur yn lle coron. *Esgob* NEWTON.—*Ac un yn uwch na'r llall,* Media oedd y fwyaf ar y dechreu, a hi oedd y frenhiniaeth henaf; ond cyfododd Persia i'r uchafiaeth dan Cyrus ac enw Media a lyncwyd i fynu yn enw yr amherodraeth Bersiaidd. KEITH, *Esgob* NEWTON.—Ymwthiodd Cyrus gan ledaenu ei awdurdod tua'r *Gorllewin* hyd for Ægea, a'i olynwyr a ddarostyngasant Armenia a chenhedloedd eraill i'r *gogledd*, a Chambysses a ddarostyngodd yr Aipht i'r *dehau*.

Adn. 5—8. Gwel Nod ar pen. 7. 6.—*Wele hefyd fwch geifr,* brenin Groeg, gwel adn. 21. Yr arwydd lun ar luman y Groegiaid oedd y gafr, oddiwrth Caranus. yr hwn gan ganlyn dïadell o eifr, a arweiniwyd i Edessa, dinas berthynol i Macedonia, yr hon a gymerodd efe.—*O'r gorllewin,* sefyllfa Macedonia o Caldea.—*Ar hyd wyneb yr holl ddaear;* i arwyddo ehangder yr amherodraeth Roegaidd.—*Heb gyffwrdd a'r ddaear,* i arwyddo cyflymder buddugoliaethau Alexander.—*Corn hynod;* Alexander, brenin cyntaf y Groegiaid; gwel adn. 21.—*Ac efe a ddaeth at yr hwrdd, &c.,* Alexander a aeth i mewn i freniniaeth y Mediaid a'r Persiaid. —*Yn sefyll wrth yr afon;* y frwydr gyntaf, a'r brif frwydr yn yr hon y dymchwelodd efe y Persiaid, a ymladdwyd wrth afon Granicus, yn Phrygia.—*Ac wedi ei gryfhau, torodd y corn mawr,* yr oedd yr amherodraeth yn ei chyflawn rym pan fu Alexander farw o glefyd yn Mabilon.—*A chododd pedwar o rai hynod yn ei le ef:* wedi i'r llinach freninol ddarfod yn marwolaeth Alexander, cymerodd llywodraethwyr y taleithiau y teitl o freninoedd, a thrwy iddynt orchfygu Antigonus yn mrwydr Ipsus, lleihawyd eu nifer

i bedwar, sef Cassander, Lysimachus, Ptolemeus, a Seleucus, y rhai a ranasant diriogaethau Alexander cyd-rhyngddynt yn bedair breniniaeth. *Esgob* NEWTON.

Adn. 9—12. *Ac o un o honynt y daeth allan gorn bychan.* Mae llawer o ddadleuon wedi bod rhwng dysgedigion yn nghylch pwy a olygid wrth y corn bychan yma; ond y golygiad mwyaf cyffredin a hygoel yw, mai Antiochus Epiphanes a olygid, yr hwn oedd yn frawd ieuengaf, ond a lwyddasai i ymwthio i'r orsedd, ac a *dyfodd* yn ddirfawr *tu a'r hyfryd wlad,* sef tir Judea; gwel Ezec. 20. 6, 15. Salm 48. 2. Wrth lu y nefoedd y golygir haul a ser y wladwriaeth Iuddewig, neu eu blaenoriaid gwladol ac eglwysig, ar y rhai yr ymosododd gan eu bwrw i lawr; a chymerwyd ymaith yr offrwm gwastadol, gan na's goddefai iddo gael ei offrymmu, fel yr adroddir yn 1 Mac. 1. 30—40.—*Oddiarno ef,* sef yr archoffeiriad; felly yr halogwyd, neu y bwriwyd yr offrwm beunyddiol i lawr, a'r un modd y bwriwyd gwirionedd ei hun i lawr; canys diddymwyd cyfreithiau Moses, a sefydlwyd defodau paganaidd trwy drais, o herwydd camweddau pobl Dduw. Llwyddodd y corn hwn dros yspaid. BOOTHROYD, POOLE.

Adn. 13, 14. Yr oedd yr amgylchiadau hyn yn dwyn perthynas arbenig a'r saint, gan hyny nid oedd mor rhyfedd eu bod yn dangos y fath awydd i'w dëall. Os y golygir y 2,300 diwrnodiau yma yn ddyddiau naturiol hwy a wnant i fynu dair blynedd a hanner o amser; a meddyliai CAPELLUS eu bod wedi dechreu pan halogodd Antiochus y deml, a therfynu pan ddarfu i Judas Maccabeus orchfygu a lladd Nicanor; yr hyn yn ol ei gyfrifiad ef a wnai 2,300 o ddyddiau. Y beirniad craffus MICHAELIS oedd o'r farn fod yn anmhossibl i ni yn bresenol eu cyfrif yn fanol, er y dichon fod yn ddigon hawdd eu cyfrif yn ddibetrus y pryd hyny.—BOOTHROYD.

Adn. 23, 24. Dyma ddëongliad adn. 9—12. Yr oedd yr amherodraeth Roegaidd mewn bod pan gyfododd Antiochus, ond yr oedd yn agos i'w diwedd; canys darostyngwyd holl Roeg gan y Rhufeiniaid cyn y flwyddyn y gosododd efe yr eilun i fynu yn y deml.—*Pan gyflawner y troseddwyr,* neu y troseddiadau;" fe allai fod hyn yn golygu y pedair breniniaeth; ond bernir yn gyffredin eu bod yn rhyw awgrym y byddai yr Iuddewon wedi gwrthgilio cymmaint oddiwrth gyfreithiau, fel na's byddai iddo ymattal yn hwy heb dywallt ei ddialedd arnynt.—*Wyneb greulon,* i ddynodi digter a chreulondeb mawr.—Yn deall damhegion, yr hyn a all fod yn arwyddo dichell i dwyllo; ac yr oedd Antiochus yn hynod am ei ystrywiau, trwy y rhai y llwyddodd efe i ennill plaid gref i gefnogi ei amcanion drygionus yn erbyn y genedl; a thrwy eu cymhorth hwy yn hytrach na thrwy ei nerth ei hun y darostyngodd efe y genedl dros amser. Cyfnerthid ef yn fawr hefyd gan

freninoedd eraill, y rhai oeddynt eiddigus o ddylanwad cynnyddol Rhufain. DAVIDSON.

Adn. 25. Mae GROTIUS yn sylwi fod Antiochus wedi darostwng llawer o genhedloedd trwy ei weniaith a'i dwyll, gan ehangu ei diriogaethau; a than rith awydd am heddwch, efe a ormesai yr annichellgar, a dinystriai laweroedd. Gwel 1 Mac. 1. 30.—*Ond efe a ddyllir heb law.* Mae POLYBIUS, JOSEPHUS a haneswyr eraill yn sicrâu i Antiochus farw yn wallgof, a than ddylanwad ofn drychiolaethau ac ysbrydion drwg, yn ofnadwy ei sefyllfa.—DAVIDSON.

Adn. 26. *Selia dithau y weledigaeth,* sef cof-lyfr y weledigaeth. Mae y gorchymyn yma yn rhoddi ar ddeall fod amser cyflawniad y weledigaeth eto yn mhell, fel y mae yr ymadrodd, *dros lawer o ddyddiau;* gwel Esa. 24. 22. Jer. 32. 14. Ezec. 38. 8. DAVIDSON.—Gan hyny y mae amryw yn barnu mai yr Annghrist Mahometanaidd a olygid wrth y corn bychan yn y brophwydoliaeth hon. Y mae cyfodiad Mahometaniaeth a dechreuad pabyddiaeth, yn cael eu dangos fel y canlyn gan Mr. WHITTAKER. "Y mae Daniel yn dangos y byddai cyfodiad Mahometaniaeth, pan gyflawnid y troseddwyr. Ac y mae St. Paul yn dywedyd yr afonid amryfusedd y dyn pechod yn gosb ar ddynion am na chredant y gwirionedd, ond ymfoddloni mewn annghyfiawnder, pan yn ddiammheuol y mae yr un amser, (yn yr hwn yr oedd pechodau dynion yn galw am farn,) yn cael ei nodweddu i gyfodiad y ddau awdurdod. Yn awr y mae Ioan yn dynodi yr un amser o barhad i bob un o honynt, ac yn llefaru am amser eu diweddiad yr un; ac o ganlyniad yr oedd yn rhaid eu bod yn dechreu yr un amser mewn cydweddiad manwl â hysbysiadau pob un o'r ddau ysgrifenydd ar ei ben ei hun. Y mae y fath gydweddiad yn y prophwydoliaethau, o'r hyn nad ydyw yn ymddangos fod eu hysgrifenwyr eu hunain yn hysbys, yn profi yr un modd ag mewn hanesiaeth, fod yr ysgrifenwyr yn cael cynnorthwy gwreiddiol gyda'r unig wahaniaeth, fod yn rhaid i'w hysgrifeniadau gael eu tarddiad o ddechreuad goruwch dynol, sef oddi wrth weithrediad yr un yspryd, ag sydd yn cyfrannu i bob dyn ar wahan, fel y gwelo yn oreu." *Fab,* vol. i. 525.

## PEN. IX.

Adn. 1. Gwel Nod. ar pen. 6. 1.

Adn. 2. *Wrth lyfrau,* gelwir amrywiol brophwydoliaethau Jeremiah felly; gwel Jer. 25. 13. a 29. 1. W. LOWTH.—*Ddeng mlynedd a thriugain,* y flwyddyn gyntaf i Darius oedd yr 68 o'r caethiwed. WINTLE.

Adn. 4. *Attolwg Arglwydd Dduw mawr ac ofnadwy.* Yr oedd Jeremiah wedi hysbysu y bobl, os ceisient yr Arglwydd hyd yn nod mewn gwlad estronol, y gwrandawai efe eu gweddi, ac yma

cawn Daniel yn ymroi i gyflawni y ddyledswydd hon drosto ei hun a'i gydwladwyr gyd a'r zel a'r duwiol-frydedd mwyaf. Gwel Jer. 29. 12. Cymh. Neh. 1. 5. a 9. 1, &c. BOOTHROYD.

Adn. 5—8. *Pechasom, &c.* Mae yr amryfal ymadroddion yn dangos yn eglur ddwys deimlad y prophwyd o bechodau mawrion yr Iuddewon, ac o gyfiawnder Duw yn ymddwyn tuag attynt fel y gwnaethai. Cymh. 1 Bren. 8. 47. BOOTHROYD.

Adn. 7. *Megis heddyw.* Er ei fod ef ei hunan yn uchel mewn anrhydedd, efe a deimlai gyda'r holl Iuddewon cywir galon, edifeirwch dwys, a chywilydd pan y'u gwaradwyddid gan eu gelynion y rhai a ofynent gyda llawer o reswm, "Pa le yn awr y mae eu Duw hwynt?" Gwel Salm 137.

Adn. 11. *Am hyny y tywalltwyd arnom ni y felldith, &c.* Mae Dr. CLARKE yn meddwl fod cyfeiriad yn yr ymadrodd yma at un dull o gosbi drwg-weithredwyr trwy dywallt metel toddedig arnynt.

Adn. 12. Gwiriai dïoddefiadau yr Iuddewon felldithion eu deddf mewn modd tra ofnadwy; fel yr oedd Daniel, yr hwn mae yn ddiau oedd mor hyddysg yn hanesiaeth dynolryw a neb yn ei oes, yn cyfrif cystuddiau ei genedl yn ddigyffelyb. DAVIDSON.

Adn. 14. *Am hyny y gwyliodd yr Arglwydd ar y dialedd,* fel llywydd ffyddlawn, yr hwn a ddoeth ystyria y moddion mwyaf priodol i sicrhau ufudd dod ei ddeiliaid, a'r amser mwyaf cyfaddas i gyflawni dedryd lemaf ei gyfraith gyfiawn; cymh. Jer. 31. 28. a 44. 27.

Adn. 15. *Ac a wnaethost i ti enw,* trwy yr amlygiad o'i fawredd, yn nghosbedigaeth ei elynion, a diogeliad ei bobl; yr hyn a gydnabyddid, hyd yn nod gan y paganiaid, gwel 2 Sam. 8. 13. Esa. 43. 12. Jer. 32. 20, 21. a 40. 2, 3.

Adn. 16. *Yn ol dy holl gyfiawnderau,* &c. Gan fod Duw wedi addaw yma gwaredu ac adferu ei bobl, yr oedd cyflawni hyny mewn rhyw ystyr, yn weithred o gyfiawnder. SCOTT.

Adn. 17. *Er mwyn yr Arglwydd,* y Messiah, yr hwn a adwaenid gan yr Iuddewon wrth yr enw yr Arglwydd; gwel Salm 110. 1. Mae holl addewidion Duw yn cael eu cyflawni yn, ac er mwyn Crist, 2 Cor. 1. 20. Cymh. Salm 80. 17, 19.

Adn. 20. *Dros fynydd sanctaidd fy Nuw;* enw a roddid ar y deml, yr hon a adeiladasid ar fynydd Moriah, ac a gyssegrasid i'r Arglwydd, at ei wasanaeth Dwyfol ef; gwel Salm 48. 1—3.—DAVIDSON.

Adn. 21. *Mewn gweledigaeth yn y dechreuad,* cyfeiriad amlwg at pen. 7, yn yr hon y cofrestrir y weledigaeth gyntaf a gawsai Daniel: mae yn wir na's crybwyllir enw Gabriel hyd y weledigaeth nesaf yn pen. 8. 16; ond fe sonir am dano yno fel un adnabyddus i'r prophwyd o'r blaen; ac er fod angelion eraill yn bresenol pan gafodd Daniel y weledigaeth gyntaf a'r lleill, mae y

yn debyg mai Gabriel oedd yr unig un a ymddiddanai âg ef.—*A gyffyrddodd a mi yn nghylch pryd yr offrwm prydnhawnol*, yr hyn oedd y nawfed awr, neu tua thri o'r gloch y prydnhawn; 1 Bren. 18. 36. Meddylia rhai fod yr amser yma wedi ei ddethol i ddatguddio y brophwydoliaeth ganlynol, oblegid mai ar yr awr hono yr oedd y Messiah i farw ar y groes. DAVIDSON.

Adn. 23. *Yr aeth y gorchymyn allan*, sef gorchymyn Duw i'r angel i ddysgu Daniel; cyflawniad nodedig o'r addewid yn Esa. 65. 24.

Adn. 24. *Deng wythnos a thriugain*, wythnosau o flyneddoedd, fel y blyneddoedd Sabbathawl; pob diwrnod am flwyddyn; felly yn mhen 490 o flyneddoedd yr oedd y pethau hyn mewn perthynas i Daniel, a'i bobl, a'i ddinas sanctaidd i gael eu cwblhau.—*A derfynwyd, &c.* Mae Gabriel yma yn hysbysu i'r prophwyd waredigaeth o gaethiwed arall, a ddechreuai gyda mynediad y gorchymyn allan am adferu ac ail adeiladu Jerusalem, ac a ddiweddai gyda marwolaeth y Messiah, y Tywysog, a diddymiad hollol yr aberthau Iuddewig. CLARKE.—*I ddibenu camwedd*, "I attal camwedd." STONARD.—Fel y rhodder attalfa ar bechod, a diwedd ar gamweddau. HOUBIGANT. Rhoddwyd attalfa ar bechod trwy bregethiad yr efengyl, a thywalltiad o'r Ysbryd Glan. PRIDEAUX, CLARKE. Efallai fod *dibenu camwedd* yn golygu cyflawniad y camwedd mawr o ladd Crist. SCOTT. "I wneyd iawn am gamweddau ei bobl."—"I ddyhuddo." POOLE.—"I gyflawni pob cyfiawnder, a gwneuthur iawn cyflawn dros bechodau ei bobl." J. BROWN.—*Ac i selio pechodau;* cyfeiriad at selio unrhyw beth i fynu mewn côd. WILLIAMS.—I wneuthur diwedd ar offrymmau dros gamwedd, yr hyn a wnaeth Crist pan offrymmodd efe ei hun un waith dros bechodau.—*Ac i wneuthur cymmod dros bechodau;* i wneyd iawn, neu ddyhuddiant. CLARKE, PRIDEAUX, BLAYNEY, WINTLE.—*Ac i ddwyn cyfiawnder tragywyddol.* Y cyfiawnder trwy yr hwn y cyfiawnhawyd saint yr holl oesoedd, a'r hwn a bery yn oes oesoedd. GILL.—*Ac i selio y weledigaeth, &c.*, neu ac i orphen neu gwblhau y weledigaeth, &c. Yr oedd y prophwydi hyd Ioan, ac yna hwy a beidiasant wedi amser yr Iesu. GILL. I roddi terfyn ar yr angenrheidrwydd am ychwaneg o ddatguddiad trwy gwblhau y prophwydoliaethau am ei berson, ei aberth, a'i ogoniant ef. COBBIN.—*Ac i enneinio y sancteiddiolaf* Mae llawer o'r farn mai cyssegriad y Messiah, y Sanct, gan yr Ysbryd i'w waith cyfryngol fel Prophwyd, Offeiriad, a Brenin, yw yr hyn a olygid yma, gwel Col. 2. 9. Heb. 8. 2. Matt. 3. 16, 17. Ni's gall fod yn golygu enneiniad llythyrenol teml yr Iuddewon, canys ni's meddent hwy oleu cyssegredig er pan y'i dystrywiasid gyntaf, ac ni's gallent wneyd dim o honaw yn gyfreithlawn, Exod. 30. 32, 33. Y peth mwyaf tebyg yw, ei fod yn golygu cyssegriad yr Eglwys Gristionogol, yr hon a elwir yn fynych yn deml, neu gorff

Crist, trwy enneiniad, neu dywalltiad yr Ysbryd Glan, 1 Ioan 2 27. DAVIDSON.

Adn. 25· Gan fod diwedd yr yspaid yma yn cael ei nodi yn yr adnod nesaf pan dorrir ymaith y Messiah, rhaid i ni ymofyn am fynediad y gorchymyn allan i gyfatteb i hyny. Mae llawer yn cyfrif dechreuad yr yspaid yma yn yr 20fed flwyddyn i Artaxerxes; ac yr oedd o'r pryd hyny hyd farwolaeth Crist 480 o flynyddoedd, yn cyfatteb i ddyddiau y naw wythnos a thriugain, a chyfrif 360 o ddyddiau mewn blwyddyn yn ol arferiad y Caldeaid ac eraill. Pan dderbyniodd Nehemiah ei gommissiwn olaf, efe a ail sefydlodd y gosodiadau eglwysig a gwladol yn gyflawn yn mysg yr Iuddewon, yr hon a barhaodd felly hyd yr amser terfynedig yma. Eraill a gyfrifant yr yspaid yma o'r seithfed flwyddyn i Artaxerxes, yr amser yr awdurdodwyd Ezra i osod barnwyr trwy yr holl dir, a llywodraethu y bobl yn ol cyfraith Duw a'r brenin, gan gyfrif yn ol blyneddoedd heulawg, ac nid lloeraidd; ac un ddadl gref dros y cyfrifiad yma yw, fod y gorchymyn hwn wedi ei roddi saith wythnos neu 49 mlynedd cyn i furiau y ddinas gael eu hadeiladu; a dadleua rhai o'r amseryddwyr medrusaf mai 490 union o flyneddau heulaidd oedd o'r pryd hwn hyd groeshoeliad y Messiah. BOOTHROYD, SCOTT.—*Sef mewn amseroedd blinion*, gwiriwyd hyn yn gyflawn fel y gwelwn yn eglur yn hanes yr Iuddewon ar ol eu dychweliad o'r caethiwed, gan Ezra a Nehemiah. Mae WINTLE yn cyfieithu y geiriau hyn "yn nghyfyng derfyn yr amseroedd," wrth yr hyn y barnai efe y golygid bod yr *heol* sef y ddinas, a'r *mur*, i'w hadeiladu o fewn yr yspaid byraf o amser a nodir, sef y saith wythnos; mae hyn yn ddigon i brofi mai wythnosau o flyneddoedd ac nid o ddyddiau a olygir yma; canys y mae yn ddiau nad oedd dinas a mur a adeiladid mewn naw mlynedd a deugain i gael eu hadeiladu mewn cynnifer a hyny o ddyddiau. DAVIDSON.

Adn. 26. *Ond nid o'i achos ei hun.* 1 Pedr 3. 18. Yr hyn yn llythyrenol yw, "A dim, neu neb iddo Ef." WILLIAMS.—"Er na bydd bai ynddo." BOOTHROYD.—"A hwy (yr Iuddewon) ni byddant yn bobl iddo mwyach." BLAYNEY, FABER. "Ni bydd neb drosto." WINTLE, STONARD.—*A phobl y tywysog yr hwn a ddaw*; neu yn ol BOOTHROYD, "Am hyny pobl y tywysog, yr hwn a ddaw a ddinystriant y ddinas a'r cyssegr;" sef am i'r Iuddewon ladd y Messiah. Y Rhufeiniaid dan Titus a olygir.—*A'i ddiwedd fydd trwy lifeiriant.* Mae rhyfeloedd yn cael eu cyffelybu yn aml i lifeiriant, Esa. 8, 8. Jer. 47. 2; ac mor ofnadwy yr anrhaith a wnaed yn Judea gan Titus a'i fyddinoedd! Nid rhyfel am fuddugoliaeth ydoedd hon, ond er llwyr ddiwreiddiad y genedl Iuddewig. Ni's nodir amser y goresgyniad yma mor eglur â'r amgylchiadau eraill, ond ymddengys oddiwrth y crybwylliad ei fod i gymeryd lle rhwng marwolaeth y Messiah a'r un wythnos oedd

i ddilyn. Ni's datguddiwyd hyn yn eglurach gan Grist ei hunan, gwel Marc 13. 14, 32. DAVIDSON. Yr un wythnos oedd yn ol o'r 70 a olygai y saith mlynedd rhyfel, yr hon a derfynodd yn niddymiad y gyfraith, a llwyr ddinystr y deml a'r ddinas. Yn yspaid y tymhor hynod hwn, cadarnhawyd *y cyfammod*, neu yr addewid o ddiogelwch a roisid gan Grist i'w ddysgyblion; canys ni's gallent lai na chanfod arwyddion yr amseroedd, o'r hyn y'u rhagrybuddiasid, a ffoi o'r ddinas gollfarnedig; ac e ddichon, pan oedd barnau yn dyfod ar y tir, fod llawer wedi dysgu cyfiawnder, edifarhau, a chredu yr efengyl. DAVIDSON. Ond y mae eraill yn dadleu mai y tywysog a nodid yn yr adnod flaenorol yw hwn, a sicrhai y cyfammod; ac wrth ymgynghori â'r haneswyr cywiraf, nyni a ganfyddwn fod y Rhufeiniaid wedi gwneyd cyngrhair neu gyfammod â'r Mediaid, y Parthiaid, a chenhedloedd cymmydogol eraill, fel y caent hamdden i ganlyn ar y rhyfel Iuddewig. Eraill a farnant mai yr hyn a olygir yw, y byddai iddynt roddi pob annogaeth i'r Iuddewon i encilio attynt hwy, a gwneyd cyfammod am eu diogelu. BOOTHROYD.—*Ac yn hanner yr wythnos y gwna efe i'r aberth a'r bwyd offrwm beidio.* Dywaid JOSEPHUS bod yr offrymmau wedi peidio cyn i'r ddinas gael ei chymeryd, ac ni ail sefydlwyd mo'nynt byth wedi'n. BOOTHROYD. Mae eraill yn gwneyd y sylwadau canlynol er ceisio cysoni y rhaniadau hyn o amser, a'r deg wythnos a thriugain a grybwyllir yn adn. 24. Yma yn gyntaf rhoddir saith wythnos, neu 49 mlynedd tuag at ail adeiladu y deml, &c., a 62 wythnos, neu 434 mlynedd tuag at wneyd i fynu yr yspaid rhwng ail adeiladiad y deml, âg amser y Messiah, neu ddechreuad cyhoeddiad yr Efengyl trwy weinidogaeth Ioan Fedyddiwr, yn ol barn rhai; ac yna y mae genym un wythnos, neu saith mlynedd, yn ystod y rhai y byddai i oruchwyliaeth yr efengyl gael ei dwyn i fewn, y cyfammod gras ei sicrhau, a thorfeydd eu galw i gyfrannogi o'i fendithion.

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7 | wythnos........ | 49 | o flyneddoedd. |
| 62 | eto .......... | 434 | eto |
| 1 | eto .......... | 7 | eto |
| | | 490 | o flyneddoedd prophwydoliaethol. |

Mae y rhan fwyaf o esponwyr yn barnu fod y deng wythnos a thriugain yn diweddu gyda marwolaeth Crist; ac felly y maent yn tybied fod pregethiad Ioan wedi cymeryd i fynu yspaid tair blynedd a haner cyn i Grist ddechreu ar ei swydd brophwydoliaethol, gan ddeall wrth *haner yr wythnos*, yr haner olaf o honi, pan y darfu i Grist trwy ei un offrymmiad o hono ei hunan, roddi terfyn tragwyddol ar yr holl aberthau a offrymmid yn y deml Iuddewig. W. LOWTH, SCOTT, COBBIN.—*A thrwy luoedd ffiaidd yr anrheithia efe hi*, hyny yw, y lluoedd Rhufeinaidd a ddygent eu

llumanau eryraidd, y rhai a gyfrifid gan yr Iuddewon yn ffieidd-dra, i'r lle sanctaidd, gan anrheithio y deml.—*Hyd oni thywallter y diben terfynedig ar yr anrheithiedig;* hyny yw, fe erys y llumanau ffiaidd hyn yn y lle y'u gosodir, hyd oni lwyr ddinystrier y ddinas a'r deml; neu, fe bery anrhaith y tir hyd oni chyflawner dialedd Duw ar y genedl drofäus hon. GILL.

## PEN. X.

Adn. 1. *Yn y drydedd flwyddyn i Cyrus,* ar ol marwolaeth Darius, gyd a'r hwn y bu yn teyrnasu dros ddwy flynedd; gwel Nod. ar pen. 6. 1. Ni's gallai Daniel fod islaw deng mlynedd a phedwar ugain oed y pryd hwn; ond y mae yn eglur ei fod eto yn fywiog o gorff a meddwl.—*Ond yr amser nodedig oedd hir,* mae y geiryn Hebraeg yn arwyddo "amser rhyfelgyrch," ac e debygid fod yr ymadrodd yn golygu yn neillduol yr ymryson hir a chaled a fyddai rhwng eglwys y Duw byw a gelynion galluog a chreulawn yn olynol. SCOTT.

Adn. 2, 3. Yr oedd ansawdd eglwys Dduw mor agos at galon Daniel, fel y'i cawn yma, yn ei hen ddyddiau, yn galaru, ac yn ymprydio dros dair wythnos, gan ymattal oddiwrth pob bwyd danteithiol, a gwin, a phob rhyw foethau arferol i'w sefyllfa uchel, ac a gyfrfiid yn angenrheidiol i'w oedran mawr ef. Mae yn debyg mai y prif achos o'i alar oedd gweled ei gyd genedl mor hwyrfrydig i gymeryd mantais ar gyhoeddiad Cyrus i ddychwelyd i'w gwlad; ac efallai ei fod yn ofni iddynt gamddefnyddio ei esiampl ef yn gwasanaethu Brenin Persia. Mae yn ddiau hefyd ei fod yn clywed newyddion digalon o bryd i bryd, am yr anhawsderau yr oedd ei frodyr yn eu cyfarfod yn eu ffordd; a meddylia llawer fod dichellion yn cael eu harfer y pryd hwn yn llŷs Persia, i geisio bwrw ychwaneg o rwystrau yn eu ffordd. Gwel Ezra 4. SCOTT.

Adn. 4—9. Mae lle cryf i gasglu oddiwrth y darluniad a gawn ni o'r Person gogoneddus yma, nad oedd efe neb amgen na Mab Duw ei hunan. Gwel Dat. 1. 10—20.—*Wedi ei wisgo â llian,* fel archoffeiriad. Gwel Ex. 28. 4, 39. a 29. 5. W. LOWTH. Gallai hyn fod yn arwydd-lun o'i burdeb, cystal ag o uniondeb ei weinidogaeth, ac ardderchawgrwydd ei waith cyfryngol;—ei *wregys o aur coeth,* a allai fod yn arwyddoccau ei ffyddlondeb i'w air, a'i barodrwydd i gwblhau pob peth a ymgymerodd efe i'w wneyd dros ei eglwys.—*Ei gorph fel maen beryl,* gem o liw gwyrddlas, neu liw yr awyr, a ddynodai ei degwch a'i odidowgrwydd nefol.—*Ei wyneb fel mellten, a'i lygaid fel fflammau tân,* a allai ddynodi mor ofnadwy ei ŵg, yn nghyd a'i graffder digyffelyb, a'i adnabyddiaeth o galonnau pawb, a phob amgylchiad.—*Ei freichiau a'i draed fel lliw pres gloyw,* a allai fod yn dynodi ei allu gogoneddus i amddiffyn a chynnal ei bobl, ac i sathru eu gelynion.—*A sain ei eiriau fel sain tyrfa,* a allai arwyddo effeithiolrwydd dirfawr ei eiriau i achub neu i ddystrywio. SCOTT.

Adn. 12. *O herwydd dy eiriau di y daethum i;* hyny yw, mewn attebiad i'w weddiau .GILL.

Adn 13. *Ond tywysog teyrnas Persia a safodd yn fy erbyn, &c.* Yr oedd yr angel wedi bod dros yspaid y tair wythnos y buasai Daniel yn ymprydio ac yn gweddio, yn gwylied yn erbyn y drwg oedd yn cyfodi yn erbyn ei bobl ef yn llys Persia. Ni's gall mai Cyrus a olygid wrth y tywysog yma, canys yr oedd efe yn ffafriol i'r Iuddewon; ond ei fab, Cambyses, yr hwn a lywiai achosion y llywodraeth, tra yr oedd ei dad yn absenol ar ryw ryfelgyrch efallai, a meddylir fod hwn wedi ei gyffroi yn erbyn yr Iuddewon gan eu gelynion; a buasai yr angel dros gyhyd o amser yn gwylio ar ei amcanion er eu gwrthdroi. Mae yn ymddangos mai angel oedd hwn ydoedd yn ymddiddan â Daniel, ac nid yr un ag a ddarlunir yn adn. 5. 6; canys y mae yn rhoi ar ddeall i Daniel ei fod yn methu ffynu i wrthdroi drwg amcanion gelynion yr Iuddewon yn y llys Persiaidd hyd oni ddaeth *Michael, un o'r tywysogion pennaf, i'w gynnorthwyo;* wrth yr hwn y mae llawer yn meddwl y golygir Crist. SCOTT, CLARKE, HORSLEY.—*Gyda breninoedd Persia,* brenin Persia, a'i bendefigion. GILL.

Adn. 17. *Ac nid arhodd ffum,* neu anadl *ynof,* gan faint ei drallod yr oedd braidd yn methu anadlu. CLARKE.

Adn. 20, 21. Mae yr angel yma yn adgoffa Daniel mai dyben ei gennadwriaeth ef atto oedd eu hyfforddi ef am y pethau a gyfarfyddent â'i bobl; ond pan y darfyddai efe gyflawni y gwasanaeth hwnw, y dychwelai efe yn ol i wrthsefyll gweithrediadau galluoedd y tywyllwch yn, a thrwy freninoedd Persia yn erbyn yr Iuddewon, hyd oni roddid terfyn ar yr unbennaeth hono, trwy yr hyn yr attelid llawer o effeithiau niweidiol, ac y gwrthdroïd llawer o drallodion. A phan gwblheid hyn, deuai tywysog Groeg, neu yr amherodraeth Roegaidd, dan Alexander Fawr, a'i olynwyr, ac y cyfodai gelynion i'r Iuddewon o'r parth hwnw hefyd. Gyda golwg ar y drygau a'r erlidiau a gyfodent oddiwrth y Groegiaid, mae yr angel yn hyspysu Daniel o'r hyn oedd ysgrifenedig *yn ysgrythyr y gwirionedd,* neu derfynedig yn nghyngor Duw. Sicrheir Daniel yn mhellach, nad oedd iddo un cyfaill yn llys Persia a gydweithredai â'r angel i ddwyn amcanion y prophwyd yn mlaen ar ran ei bobl, *ond Michael eu tywysog hwy:* a bod yn rhaid iddo ymddibynu arno ef yn unig am siommi yr amcanion a lunid i'w herbyn. SCOTT, BOOTHROYD.

## PEN. XI.

Adn. 1. Dylasai yr adnod hon fod wedi ei chydio â'r un olaf o'r bennod flaenorol, "Ac nid oes un yn ymegnïo gyda mi yn hyn, ond Michael eich tywysog chwi; yr hwn y darfu i mi yn y flwyddyn gyntaf i Darius y Mediad, sefyll i'w gryfhau ac i'w nerthu ef." BOOTHROYD. Mae eraill yn meddwl mai Darius a ol-

ygid, cadarnäad yr hwn yn ei swydd oedd o ganlyniad mawr i'r Iuddewon.

Adn. 2. *Wele tri brenin eto a safant o fewn Persia.* Cyrus, seiliwr yr amherodraeth oedd yn teyrnasu y pryd hwn, a dilynid ef gan Cambyses, Ahasferus yr Ysgrythyrau, Smerdis y Magiad, a Darius mab Hystaspes. *Esgob* NEWTON, BOOTHROYD, WINTLE. —*A'r pedwerydd*, Xerxes ;—*A fydd cyfoethoccach*, yr oedd efe yn meddu holl gyfoeth ei ragflaenoriaid, at yr hyn yr ychwanegodd yn ddirfawr.—*Fel yr ymgadarnhao efe yn ei gyfoeth*, yr hyn yw gewynau rhyfel. GILL.—*Y cyfyd efe bawb yn erbyn teyrnas Groeg.* Mae yr hanesydd *Herodotus*, yn enwi tywysogion ei fyddinoedd o fwy na deugain o genhedloedd, y rhai a gynnullasid o holl gylch y tiriogaethau Persiaidd. Ac yn ol cyfrifon yr hanesydd hwnw, yr oedd ei fyddin a'i lynges yn cael ei gwneyd i fynu o bum mil o filoedd, a dau gant a phedwar ugain a thri o filoedd, a dau cant ac ugain o eneidiau, pan aeth efe ar ei ryfelgyrch yn erbyn y Groegiaid. KEITH, GILL. Ei lynges o Asia a gynnwysai 12 cant o longau, ac efe a logodd y Carthaginiaid i ymuno âg ef, a chafodd longau a milwyr o'r Hispaen, a Ffrainc, a'r Eidal am ei aur a'i arian. KEITH.

Adn. 4. *A phan safa efe* ; hyny yw, pan fyddo efe yn uchder ei lwyddiant. LOWTH, WILLIAMS.

Adn. 5. *Yna y cryfha brenin y dehau*, sef yr Aipht, yr hon sydd yn gorwedd i'r dehau o Judea. Ptolemeus Lagus, un o gadlywyddion Alexander, i'r hwn y disgynasai yr Aipht yn gyfran, a deyrnasodd ar yr Aipht, Lybia, Cyrene, Ethiopia, Arabia, Phenicia, Cœlo Syria, Cyprus, ac amryw eraill o ynysoedd y môr Ægëaidd, yn nghyda llawer o ddinasoedd Groeg. Ond y mae yn ymddangos fod un arall o dywysogion Alexander, Saleucus Nicator i fod yn gryfach nac ef; canys efe a orchfygodd y gorchfygwyr, ac a ennillodd yr oruchafiaeth arnynt, ac a ennillodd iddo ei hun gyfran helaeth o diriogaethau Alexander.

Adn. 6. Seleucus Nicator a olynwyd gan Antiochus Soter, ac yntau a ddylynwyd gan Antiochus Theus yn llywodraeth Syria, a Phtolomeus Philadelphus a deyrnasodd ar yr Aipht yn lle ei dad Ptolomeus Lagus; ac yn nyddiau y breninoedd hyn yr oedd ymladdfeydd blinion a mynych cyd rhyngddynt ; ond o'r diwedd hwy a wnaethant gyfammod heddwch, er cadarnhau yr hwn y cyttunai Antiochus i roddi ymaith ei wraig Laodice a'i meibion, a phriodi Berenice, merch Ptolomeus ; ac felly y daeth *merch brenin y dehau at frenin y gogledd i wneuthur cymmod.* Ond yn mhen amser hi a gollodd ei dylanwad ar Antiochus, ac ni chadwodd nerth y braich ; canys efe a anfonodd am ei wraig flaenorol yn ol, a hithau wedi ei hail sefydlu yn ei ffafr, gan ofn cyfnewidiad eilwaith, a wenwynodd ei gŵr, ac a barodd ladd Berenice a'i gweinidogion, fel y sicräai yr orsedd i'w mab Callinicus.—*Rhoddir hi i*

*fynu*, sef Berenice, a'r rhai a'i *dygasant hi*, sef y boneddigesau Aiphtaidd a weinient arni, y rhai a laddwyd wrth ei hamddiffyn. —*A'r hwn a'i cenhedlodd hi*, neu yn ol y Beirniaid craffaf, "A'r hwn a ymddug hi," sef ei mab, yr hwn a lofruddiwyd wrth orchymyn Laodice: ac ni's gallai ei thad ei chynnorthwyo, canys bu yntau farw tu a'r un amser.

Adn. 7—9. *Un allan o flaguryn ei gwraidd hi*, sef Ptolomeus Energetes, brawd Berenice, yr hwn a gyfododd fyddin fawr, ac a brysurodd i gynnorthwyo ei chwaer, ond, pan glybu efe ar y ffordd am ei llofruddiaeth, efe a benderfynodd ymddial ar ei lleiddiaid, ac felly efe a ruthrodd ar amddiffynfeydd Syria, gan ffynnu yn erbyn Callinicus yn mhob ymryson; a phan fu raid iddo ddychwelyd adref drachefn o herwydd brad a gyfodasid i'w erbyn yno, efe a ddug luaws mawr o'r Syriaid, a'u pendefigion, a'u duwiau gydag ef yn gaethion ac yspail rhyfel: dywedir iddo ddwyn dros ddwy fil a hanner o'u heilunod yn yspail i'r Aipht, yn nghyda thrysorau annifeiriol eraill; ac efe a barhaodd, neu a fu fyw bedair neu bum mlynedd yn hwy na brenin Syria, gan fwynhâu ei freniniaeth ei hunan yn ddidrais. SCOTT.

Adn. 10—12. Ymunodd meibion Callinicus yn erbyn yr Aipht: ond gan i un o honynt gael ei wenwyno, gwnaed y llwybr yn rhydd i'r llall, sef Antiochus Fawr, ymenwogi; ac efe a aeth rhagddo fel llifeiriant, gan anrheithio tiriogaethau Philopater, brenin egwan yr Aipht, yr hwn o'r diwedd a gyffröwyd i ymegnio, ac a gyfododd fyddin fawr, ac ymladdwyd brwydr fawr yn agos i Raphia, dinas gaerog gadarn yn Nghoelosyria, yn ffiniau yr Aipht, yn yr hon y gorchfygwyd Antiochus, ac y lladdwyd llawer o filoedd o'i wŷr. Philopater wedi ymlenwi o falchder drwy y fuddugoliaeth hon, a ddychwelodd i'r Aipht, ac a ymroddes i bob rhyw rysedd pechadurus, a gormes gwaedlyd. Dywedir iddo ladd deugain mil o Iuddewon, er ymddïal am yr anfri y tybiai iddo ei gael yn Jerusalem, lle ni's caniattâi yr archoffeiriaid iddo fyned i'r cyssegr sancteiddiolaf. DAVIDSON.

Adn. 13—16. Yn mhen tua phedair blynedd ar ddeg ar ol y rhyfel uchod, cychwynodd Antiochus gyda byddin gref drachefn yn erbyn yr Aipht, gan gael ei gynnorthwyo gan Phylip o Macedonia; a llawer o ddeiliaid yr Aipht, a'r taleithiau ymddibynol arni a bleidient y goresgynwyr, ac o'r cyfryw, yr oedd llawer o Iuddewon, nid yn unig yn yr Aipht, ond yn Judea hefyd.—*A'r yspeilwyr o'th bobl*, mae y geiryn gwreiddiol yn dynodi gwrthryfela. 1 Sam. 25. 10. Yr oedd Judea dan deyrnged i'r Aipht; ond cymerodd y cyfleusdra i ymryddhau oddiwrth ei hiau, pan oedd y wlad yn nghanol y dyryswch hwn. Fe'u darostyngwyd gan Scopius, yr hwn a feddyliai ennill gorsedd yr Aipht. Wedi hyn fe aeth Antiochus i Jerusalem, ac a gospodd y gwrthryfelwyr; ond efe a anrhydeddai gorph y genedl. Efe a barhaodd i ffynnu,

ac a wasgodd yn y fath fodd ar fyddin Scopius, fel y bu raid iddynt eu cau eu hunain i fynu yn Sidon, yr hon ar ol hir warchaëedigaeth a gwympodd, a'r parth deheuol o Syria gyda hi.

Adn. 17—19. Wedi i Antiochus ennill y buddugoliaethau blaenorol, efe a roddes ei fryd ar gymeryd breniniaeth yr Aipht:—a'r Iuddewon, y rhai a elwir *y rhai uniawn*, er eu gwahaniaethu oddiwrth y milwyr eilunaddolgar, a'i cefnogent ef; ond wedi iddo dywys ei fyddinoedd hyd Raphia, cyfarfu y brenin ieuanc Ptolomeus âg ef yno, ac a dderbyniodd *Cleopatra* ei ferch yn wraig; gelwir hon yma, *merch gwragedd*, o herwydd prydferthwch ei thegwch yn bennaf mae yn debyg; ac y mae yn ddïau fod ei thad cyfrwys yn amcanu llywodraethu yr Aipht trwyddi hi yn ol ei ewyllys ei hunan; ond hi a brofodd yn ffyddlawn i'w gwr, ac ni safodd ar du ei thad.—Mae y gair a gyfieithir *ynysoedd*, yn golygu y gwledydd a derfynant ar lannau Môr y Canoldir, cystal a'r ynysoedd. Wedi i Antiochus gael ei siommi yn ei ymosodiad ar yr Aipht, efe a geisiodd feddiannu rhai o'r ynysoedd a'r trefydd Groegaidd, yr hyn a gyffröodd ddigofaint y Rhufeiniaid yn ei erbyn, ac ymrysonfa waedlyd â hwy yn agos i Magnesia, islaw mynydd Lipylus, a derfynodd yn andwyol iddo ef, fel y'i darostyngwyd dan warogaeth iddynt; a dattröwyd y *gwarth* a amcanai efe arnynt hwy, arno ei hunan. Ar ol hyn efe a ddychwelodd i'w amddiffynfa ei hun, Antiocha, yn Syria, a thra yr oedd efe yn anrheithio teml enwog Iou yn Elymais, efe a laddwyd gan y dyrfa gynddareddawl.

Adn. 20. *Ac yn ei le ef y saif un a gyfyd drethau yn ngogoniant ei deyrnas.* Seleucus Philopater, ei fab, yr hwn a ddaeth yn ei le ef, gan ei fod dan orfod i dalu teyrnged flyneddol drom i'r Rhufeiniaid, nid ymenwogodd mewn dim ond mewn codi arian oddiar ei ddeiliaid, i hyn ac i berwylion eraill, yr hyn a dywyllodd ogoniant ei freniniaeth, ac *o fewn ychydig ddyddiau*, neu flyneddoedd, (canys efe a deyrnasodd ddeuddeng mlynedd,) efe a laddwyd gan Heliodorus, yr hwn a osodasai efe ar waith i yspeilio teml Duw yn Jerusalem; ac felly efe a *ddistrywiwyd, nid mewn dig, nac mewn rhyfel;* ond mewn bradwriaeth. SCOTT.

Adn. 21. *Y saif un dirmygus*, Antiochus Epiphanes, yr hwn nid oedd yn etifedd o'r orsedd, ond a ddaethai iddi trwy holl ddichellion gweniaith ac addewidion gweigion. BOOTHROYD.

Adn. 22. *A breichiau llifeiriant*, neu "breichiau y tir gorlifawl a orlifir o'i flaen ef;" sef yr Aipht, byddin yr hon wedi ymuno dan Heliodorus a orchfygwyd gan Antiochus —*A thywysog y cyfammod hefyd*, wrth yr hwn y barna y rhan fwyaf o esponwyr, y golygir yr archoffeiriad Iuddewig, tywysog pobl gyfammodol Duw; canys cun gynted ag yr esgynodd Antiochus i'r orsedd, efe a fwriodd Onias o'r archoffeiriadaeth, ac a werthodd y swydd i Jason, ei frawd ieuengach, am swm mawr o arian, ac Onias a lof-

ruddiwyd yn greulon yn fuan wedi hynv trwy orchymyn Antiochus. SCOTT.

Adn. 24—28. Wedi i frenin Syria fyned i fewn i daleithiau breision yr Aipht, efe a ymddygodd gyda mwyneidd-dra a haelioni y fath nad arferid gan ei deulu ef, tuag at weision brenin yr Aipht; ac wedi gwneyd yn sicr o'u cefnogaeth yn ei feddwl, efe a amcanodd at lywodraeth y freniniaeth: ac efe a fu yn fwy llwyddiannus yn ei ail ymosodiad ar yr Aipht trwy fod amryw o swyddogion a gweision Ptolomeus yn ei gynnorthwyo ef yn ddirgelaidd, fel y bu raid i frenin yr Aipht ar ol brwydr dost, gymeryd arno ymostwng iddo, a chydwleddai y ddau wrth yr un bwrdd fel cyfeillion. Ar ei ddychweliad i Syria y pryd hwn, y tywalltodd efe ei lid gyntaf ar yr Iuddewon. SCOTT, DAVIDSON.

Adn. 29, 30. Mae yn ymddangos i Antiochus wneyd trydydd ymosodiad i ddarostwng yr Aipht, yn yr hyn y bu aflwyddiannus trwy i'r Rhufeiniaid gymmeryd plaid yr Aiphtiaid. Wedi ei siommi yn yr Aipht, efe a ruthrodd ar Jerusalem, a thrwy ymblaid o Iuddewon bradwrus, efe a wnai ymgais grymmus i sefydlu paganiaeth drwy holl dir Judea.—*Chittim*, oedd enw a roddid ar wledydd Ewropaidd yn gyffredinol, gwel Gen. 10. 4. Ezec. 27. 6; ac yr oedd y Rhufeiniaid dan angenrheidrwydd o arfer llyngesau mawrion yn eu hynt i Asia. DAVIDSON.

Adn. 31, Oddiyma hyd ddiwedd y bennod, y mae yr amherodraeth Rufeinig yn cael ei dwyn i sylw arbenig o herwydd ei chyssylltiad agos â'r eglwys.—*Breichiau* a arferir yn mhob rhan o'r brophwydoliaeth hon am allu milwraidd breniniaeth. *Esgob* NEWTON. *Ac a halogant gyssegr yr ymddiffynfa.* Mae JOSEPHUS yn sylwi fod pob peth a allai celfyddyd wedi ei ddefnyddio i ddiogelu y cyssegr: ond y Rhufeiniaid a'i halogasant, gan roddi attalfa ar yr aberth beunyddiol, a gosod eu llummanau, a elwir yn ffieidd-dra anghyfanneddol, yn y lle sanctaidd. Gwel pen. 9, 26, 27.

Adn. 32, 33. Mae yr adnodau hyn yn cynnwys y darluniad mwyaf bywiog o ddyoddefiadau yr eglwys Gristionogol, yn yr oesoedd cyntaf, oddiwrth Rufain baganaidd. Tra y parhaodd yr Iuddewon yn eu cymeriad gwladol, caniatteid iddynt eu defodau crefyddol eu hunain dan y Rhufeiniaid, ac felly cyfrifid dilynwyr Crist fel un o'u sectau; o herwydd paham nid oeddynt yn agored i erledigaeth lem-dost oddiwrth y galluoedd amherodrawl hyd oni ddarfu i'r Iuddewon trwy eu hysbryd gwrthryfelgar gyffroi cynddaredd eu meistri yn eu pennau: ond o hyny allan bu dyoddefiadau y ffyddloniaid yn annarluniadwy fel y tystia hanesyddiaeth. Arferai yr amherawdwyr Rhufeinig bob moddion i geisio denu y cyn Gristionogion i wadu eu ffydd; ond y rhai oeddynt ddiffuant o honynt, ac a adwaenent eu Duw, a ymgadarnhasant, ac a lynasant wrth eu cyfammod, heb fynu gwadu y ffydd ar un cyfrif.—

*A'r rhai synhwyrol yn mysg y bobl a ddysgant lawer,* sef yr apostolion, ac eraill o weinidogion y gair, y rhai a lafuriant lawer i ddysgu y bobl, ac a gant weled ffrwyth o'u llafur; eto llawer o'r athrawon a'r bobl a gwympant gan y cleddyf.

Adn. 34, 35. Mae hyn yn cael ei gymhwyso yn gyffredinol at yr amser y darfu i'r llywodraeth fabwysiadu Cristionogaeth mewn enw, a'i llygru yn ddirfawr, yn amser Cwstenyn a'i olynwyr. Ymddangosai Cristionogaeth fel pe buasai yn cael ychydig gymmhorth y pryd hwn, ond ei llwyddiant a fu yn fagl iddi.—*A rhai o'r deallgar a syrthiant,* nid i gyfeiliornad neu bechod; ond i gystuddiau, debygid, a'r rhai hyny yn aml yn terfynu yn angeuol; yr hyn a gesglir yn rhesymol oddiwrth y dyben, *eu puro,* ac nid eu dystrywio. Gan fod torfeydd wedi cydymffurfio a Christionogaeth yn rhagrithiol, daeth gwir Gristionogion yn agored i erledigaeth oddiwrth rai a broffesent yr un grefydd a hwythau. Yr oedd y ffurf o Gristionogaeth yn boblogaidd er amser Cwstenyn; ond casëid Cristionogaeth bur gan yr annuwiol a'r anufudd lawn cymmaint ag erioed.

Adn. 36. Mae WINTLE yn cyssylltu y rhan olaf o'r adnod flaenorol â'r adnod hon, fel hyn, "Canys eto dros amser nodedig brenin a wna wrth ei ewyllys ei hun." Mae y gair brenin yn gyffredin trwy lyfr Daniel yn golygu breniniaeth neu deyrnas, ac nid yw nodau y freniniaeth hon yn gweddu cystal i un freniniaeth ag i'r un a ddarlunid yn fanylach gan Ioan dan yr enw Babilon Gyfriniol. DAVIDSON. Y meddwl yw y cyfodai rhyw allu annghristaidd o fewn yr amherodraeth Rufeinig, yr hwn a weithredai yn y modd mwyaf trahaus a gormesol, 2 Thess. 2. 3, 4. BOOTHROYD.

Adn. 37. *Nid ystyria efe Dduw ei dadau,* sef yr apostolion, dylynydd y rhai y cymerai y Pab arno ei fod; ni ddangosai barch i'w ewyllys, ond efe a'i gwrthwynebai.—*Na serch ar wragedd;* ceisiai groesi deddf natur, a gwahardd priodas;—*ie nid ystyria un duw,* neb uwch na hwy eu hunain, na barnwr na brenin, y rhai a elwir yn dduwiau weithiau; a da y gŵyr pawb cyfarwydd mewn hanesiaeth fel yr ymddyrchafai y Pabau mewn balchder, gan ddarostwng neu ddyrchafu, coroni neu ddïorseddu breninoedd wrth eu hewyllys.

Adn. 38. Ac efe a anrhydedda Dduw y nerthoedd yn ei le ef. Yn y llywodraeth annghristaidd y cyfodid math o dduwiau llwyr amddifaid o holl briodoliaethau Duwdod, ond a ddefnyddid yn unig er cadw i fynu ymhoniadau yr offeiriaid pabaidd o'u bod yn feddiannol ar ddoethineb ac awdurdod ddwyfol. Mae yn ddiau fod y gair a gyfieithir yma *Duw y nerthoedd,* ag sydd yn brïodol yn golygu galluoedd amddiffynol, yn golygu angelion neu seintiau, y rhai a gyhoeddid yn feddiannol ar allu i ddystrywio ac i waredu. Yr oedd y rhai hyn yn adnabyddus yn yr eglwys Gristionogol, gwel Colos. 2. 18. DAVIDSON, BOOTHROYD.

Adn. 39. Yr oedd cyrph meirw y rhai a gyfrifid yn saint yn cael eu galw gan yr offeiriaid pabaidd enwoccaf mor foreu a'r bedwaredd ganrif, yn "dyrau uchel, y rhai a ddiffynent ddinasoedd yn well na muriau anhydraidd o Adamant." Ac o'r diwedd mynai pob gwlad, dinas, a thref, angel gwarcheidawl, neu sant noddedawl; a chyflwynid eglwysi plwyfol bob un i'w noddedydd priodol, i'r hwn y gwnelid addunedau, ac y telid gwasanaeth crefyddol; fel hyn aeth dylanwad y duwiau hyn yn fawr yn eu plith, a rhoddid rhanau mor helaeth o'r gwledydd i'r offeiriaid, fel yr oedd un ran o dair o diriogaeth y rhan fwyaf o wledydd Ewrop yn perthyn i'r lleenorion Pabaidd, a'r hanner mewn rhai gwledydd. DAVIDSON.

Adn. 40. *Ac yn amser y diwedd*, sef yr amser pennodedig.—*Brenin y dehau*, neu y Saraceniaid, y rhai oeddynt yn preswylio i'r dehau o Rufain, yn enwedig y parth dwyreiniol o'r deyrnas. O'r parth yma yr arweiniwyd y Saraceniaid gan Mohammed a i ddilynwyr yn fuddugoliaethus dros lawer o wledydd a elwid yn Gristionogaidd; a bygythient lwyr ddystrywio yr enw Cristionogaeth o'r amherodraeth Rufeinig yn y Gorllewin cystal ag yn y Dwyrain: ond ymddangosodd bwystfil arall mwy galluog yn y Gogledd, sef y gallu Twrcaidd, yr hen Dartariaid, neu y Scythiaid, y rhai a ddymchwelasant y gallu Saracenaidd, a gymerasant Gaer cwstenyn, a oresgynasant yr amherodraeth ddwyreiniol, ac a wnaethant lawer o ymosodiadau llwyddiannus ar yr orllewinol. Darlunir pybyrwch y buddugoliaethwr gogleddol hwn, a chyflymder ei fuddugoliaethau, trwy yr amrywiol gyffelybiaethau hyn.—BOOTHROYD.

Adn. 41—43. Y Twrciaid a feddiannasant Balestine, yr Aipht, a'r parthau a elwir Libya; ac Ethiopia yn Affrica, naill a'i a geisient gael dod i gyngrhair â hwynt, neu a ymgostyngent i dalu teyrnged iddynt. Ond y gwledydd a feddiennid gan Moab, Edom, ac Ammon yn yr hen amser, a barhasant yn annibynol, gan gael eu meddiannu gan yr Arabiaid, heddwch pa rai a bwrcasai y tywysogion Twrcaidd yn aml, hyd yn nod pan oeddynt yn uchder eu gogoniant.

Adn. 44—45. Y mae yn ddiammheuol fod y rhan yma o'r brophwydoliaeth yn perthynu i ddigwyddiadau dyfodol. Y mae rhai yn tybied y bydd i'r Persiaid, y rhai sydd yn terfynu tu a'r dwyrain i'r llywodraethau Mahometaniaid, a'r Rwssiaid, y rhai sydd yn ogleddol, ymuno yn erbyn y Tyrciaid; ac y bydd i'r rhai olaf, (sef y Tyrciaid,) sefydlu eu gwersyll mewn ymffrost mawr yn ngwlad Canaan, a myned i ryfel mewn tanbeidrwydd dirfawr: ac mai yno y cânt y fath ddarostyngiad ag a rydd hollol ddadymchweliad i'w llywodraeth. Ond, efallai, ei fod yn cyfeirio at ddigwyddiadau a grybwyllwyd o'r blaen, sef adferiad yr Iuddewon i'w gwlad eu hunain, wedi eu tröedigaeth; a'r cynnorthwy a

roddir iddynt gan awdurdodau Cristionogol Ewropaidd: y fath chwedlau o'r dwyrain a'r gogledd yn ddiammheuol a drallodant y tywysogion Tyrcaidd yn ddirfawr, y rhai sydd yn meddiannu y wlad honno, sydd i'w hadferu etto i'r Iuddewon. Ac yn y modd hyn yn myned allan mewn tanbeidrwydd mawr i ymladd yn erbyn yr Iuddewon; ac wedi sefydlu eu gwersylloedd rhwng Môr y Canoldir a'r Môr Marw, yn mynyddoedd Judea, ac yn cael eu gorchfygu a'u dinystrio yn aruthrol, heb un cynnorthwy nac adferiad. Ac felly ni bydd dinystr Annghrist y dwyrain yn bell, o ran amser, oddiwrth ddinystr yr un gorllewinol; yr hyn a ymddengys sydd yn cael ei ragfynegi yn y bennod hon am bob un o'r ddau.—[*Cyf. Nod.* 40—43. Ezec. 38.] Y mae y gair a gyfieithir difrodi, yn arwyddo *melldithio,* neu *gyflwyno i hollol ddinystr,* ac a all fod yn arddangos mai ar achos crefyddol y bydd y rhyfel.

## PEN XII.

Adn. 1. *Yn yr amser hwnw,* yr un amser ag y cyfeiriwyd ato yn barod yn adn. 44, 45, o'r bennod flaenorol, pan fyddo y ddau fwystfil annghristaidd ar gael eu dystrywio;—*Y saif Michael,* sef Crist. LIGHTFOOT, GILL, HORSLEY, SCOTT, FABER.—*Amser blinder,* gan gynnwys yr hyn oll a ddyoddefodd yr Iuddewon er croeshoeliad Crist hyd y dydd hwn, a'r hyn sydd yn aros iddynt i'w ddyoddef eto hyd eu dychweliad at Grist, a'u hadferiad dylynol i hyny, yr hyn a fu mor fawr a pharhaus, fel nad oedd yr hyn oll a ddyoddefasant yn yspaid eu caethiwed yn yr Aipht, ac yn Mabilon, ac o'r dechreuad hyd ddyfodiad Crist yn deilwng i'w gydmaru a'u dyoddefiadau hyn. Eto, yr oedd yn nyddiau yr apostolion, ac y mae er hyny yn mhob oes, "weddill yn ol etholedigaeth gras," y rhai a waredwyd rhag pechod y genedl o annghrediniaeth, a rhag y cosbedigaethau a ddisgynodd ar eu cenedl o herwydd hyny.

Adn. 2, 3. Barna SCOTT mai yr adgyfodiad cyffredinol a olygir yma; ac nid adgyfodiad cyffelybiaethol, neu ysbrydol, o'r fath a ddarlunir gan Ioan, Dat. 20. 4—6. Mae yn ddiau fod y gair *llawer* yma yn gyfystyr a phawb, fel yn Rhuf. 5. 15, 19.

Adn. 4. *Selia y llyfr.* Dyma ymadrodd sydd yn dangos yn eglur nad oedd y grophwydoliaethau a gynnwysai y llyfr i'w cyflawni dros amser maith; ac mai amser yn unig a'u dadlena yn deg: eto yn amser y diwedd, fe gyflawnir gwirionedd yr ysgrifen yma. BOOTHROYD.—*Llawer a gynniweiriant, &c.* Dyma ddarluniad byr o nodweddiad yr oes hono, pan y llwyr ddifrodir Annghrist oddiar y ddaiar. Gwel. Dat. 11. 15, 19.

Adn. 5—7. Mae yn ymddangos fod yr amser pennodol pan adferir yr Iuddewon, neu y dychwelir hwy yn nghyd a chyflawnder y cenhedloedd, yn anadnabyddus hyd yn nod i'r angelion, a pha mor awyddus bynnag y dichon eu bod am ei wybod, yr unig beth

a sicrheir iddynt yw, y bydd i'r peth gymeryd lle yn sicr yn yr amser gosodedig gan Dduw; gwel Nod. pen. 7. 25.

Adn. 8, 9. Rhaid i brophwydoliaeth fod yn ddirgeledig hyd oni's cyflawner, pe amgen temtid dynion i geisio prysuro neu attal ei chwblhad.—*Dos Daniel*, hyny yw, gwna y defnydd gorau o'r hyn a ddatguddiwyd i ti gan yr Ysbryd, ymostwng i ewyllys y nef, a gwna y gwaith a neillduwyd i ti; gan fod yn sicr y cwblha Duw ei holl ewyllys DAVIDSON.

Adn. 10. Gallem feddwl fod y geiriau hyn yn cynnwys nodweddiad arbenig oes y gwrthgiliad; y *llawer* a ymunant â Christ yn un ysbryd, *a burir, a gennir, ac a brofir*. Mae WINTLE yn sylwi, fod yr ymadrodd cyntaf wedi ei fenthycca oddiwrth y modd y glanheir gwenith oddiwrth yr ûs; yr ail oddiwrth gániad brethyn gan y pannwr; a'r trydydd oddiwrth ysgariad aur oddiwrth y sothach. Ond byddai pob dysgyblaeth yn aneffeithiol i gyfnewid meddwl y drygionus, y rhai a lynant wrth Babilon gyfriniol: hwy a arhöent yn anedifeiriol er fod barnedigaethau y Nef yn ymbentyru arnynt. Gwel Dat. 16. 9, 11, 22. a 21. 11. DAVIDSON.

Adn. 11—13. Y mae yn ymddangos fod gosodiad i fynu y ffieidd-dra anrheithiol yn ymadrodd cyffredinol, ac yn cynnwys cyfeiriad at amrywiol ddigwyddiadau. Y mae yn cael ei gymhwyso gan ysgrifenydd llyfr cyntaf y Maccabeaid, (i. 54,) i waith Antiochus yn halogi y deml, a gosodiad i fynu ddelw Jupiter Olympius ar allor yr Arglwydd. Y mae yn cael ei gymhwyso gan ein Hiachawdwr, (Mat. 25. 15,) i ddinystr y deml a'r ddinas gan y Rhufeiniaid. Ar yr un sail gellir ei gymhwyso i waith Adrian, yr ymherawdwr Rhufeinig, yn adeiladu teml i Jupiter Capitolinis, yn y fan y buasai teml Dduw yn sefyll; a'r trueni a oddiweddodd yr Iuddewon yn y canlyniad. Gellir gyda rheswm cydradd gyfiawn, ei gymhwyso i ruthrgyrch anrheithiol y Mahometaniaid ar y gwledydd Cristionogol, a'u gwaith yn troi yr eglwysydd yn *mosques*; ac y mae yn ymddangos mai hyny a feddylir yn neillduol yn y gyfran hon. Os ydyw y golygiad hwn yn gywir, fe barha crefydd y Mahometaniaid yn y dwyrain, ddeuddeg cant a thriugain mlynedd: wedi hyny fe fydd chwyldroad gogoneddus; efallai mai yr amser hwnw y dadymchwelir Aunghrist, ac yr adferir yr Iuddewon. Ond bydd chwyldroad mwy gogoneddus fyth yn canlyn hyny: ond beth a all hyny fod yn amgen na chyflawn ddychweliad y cenhedloedd i eglwys Crist; a dechreuad y mil blynyddoedd, a theyrnasiad y saint ar y ddaiar, gyda Christ? Gwŷn ei fyd a ddisgwylio, ac a ddêl hyd y mil tri chant a phymtheg ar hugain o ddyddiau. *Esgob* NEWTON. Matt. 24. 15—18. Y mae yn rhaid cyfrif y deuddeg cant a deg a phedwar ugain dyddiau o'r un amser; neu dair blynedd a hanner, neu ddau fis a deugain, neu ddeuddeg cant a thriugain mlynedd: a deng mlynedd ar hugain yn mhellach. Y mae yn debygol y dadymchwelir

teyrnas Anughrist babaidd, ac y dinystrir gorseddfa y bwystfil, a'r dwyll Fahometanaidd, (Dat. 18. 19,) tua diwedd y deuddeg cant a thriugain mlynedd; ac mewn yspaid deng mlynedd ar hugain o amser yn mhellach y diwreiddir yn hollol bob awdurdod Anughristaidd; ac y mae yn debygol fod y rhifedi diweddaf o dri chant ar ddeg, a phymtheg ar hugain o flyneddoedd, yr hyn sydd yn cyrhaedd pum mlynedd a deugain yn mhellach drachefn, yn rhagddangos amser dechreuad cyflawn y mil blyneddoedd, pan y "llenwir y ddaear â gwybodaeth gogoniant yr Arglwydd, fel y toa y dyfroedd y môr." Dat. 9. 15–18. a 20. 1—6. Wedi i Daniel gael hysbysiaeth am y pethau hyn, fe'i cyfarwyddwyd i barottoi i farw, canys efe a safai yn ei ran, yn sanct wedi ei ogoneddu, i weled cyflawniad y rhagddywediadau hyn. Esa. 58. 1, 2. Luc 2. 26—32. Dat. 14. 12, 13. Bydded i ryw un gymharu yn ofalus yr ymadroddion a'r dyddnodiadau yn y ddwy bennod ddiweddaf hyn yn Daniel â'r ysgrythyrau y cyfeirir attynt yn y *cyfeiriad*, a'r cyfeiriadau ar y nodiadau ar y pennodau y buom yn eu hesbonio o'r blaen; y mae yn annhebyg yr ammheua efe, fod Daniel a'r Apostol Ioan, yn y Datguddiad, yn llefaru am yr un goruchwyliaethau. Y fath brophwydoliaeth ryfedd ydyw hon, yn cynnwys hysbysiaeth am gynnifer o wahanol ddigwyddiadau, ac yn cyrhaedd drwy gymmaint o wahanol oesoedd; o ddechreuad sefydliad cyntaf ymherodraeth Persia, a hyny uwchlaw pum cant a deg ar hugain o flynyddoedd cyn dyfodiad Crist, hyd yr adgyfodiad cyffredinol! P faint mwy enwog a dyrchafedig y mae yn rhaid fod yr ystyr, a mwy teilwng i fod yn hysbys gan ddynion, ac o gael ei datguddio gan Dduw, wrth ei chymmeryd yn y golygiad ehang hwn, a'i chymhwyso i'r fath restr rheolaidd o oruchwyliaethau, drwy gyfansoddiad hawdd a naturiol, na phan y cyfyngir i amseroedd a gweithredoedd Antiochus, er na ellir ei chymhwyso iddo ef drwy unrhyw ddeongliad annaturiol a chyfyng. *Esgob* NEWTON.

## HOSEA.

*Tybir gyda llawer o briodoldeb fod Hosea wedi bod yn ei swydd brophwydoliaethol dros driugain mlynedd: ac os felly, rhaid ei fod ef wedi ei alw yn ieuanc fel Samuel, a pharhau yn ei swydd nes ydoedd yn dra hen. Er ei fod yn ddiweddarach nac Amos, rhaid eu bod dros ryw yspaid yn gyfoeswyr. E dybir iddo ddechreu ar ei swydd brophwydoliaethol tua 790 mlynedd cyn Crist, a'i fod wedi marw yn gynnar yn oes Hezeciah, tua 724. Felly, tra yr oedd efe yn prophwydo yn Israel yr oedd Esaiah yn prophwydo yn Judah. Mae Hosea wedi ysgrifenu mewn dull cryno a byr eiriog, a chan ei fod yn fynych yn gadael allan y cyssyllteiriau, yr hyn sydd yn peri fod yn anhawdd deall ambell ran o honaw.*

## PEN. I.

Adn. 2. *Dos, cymmer i ti wraig o odineb*, &c. Mae y gorchymyn yma yn un tra rhyfedd, a meddyliodd llawer mai mewn gweledigaeth y'i rhoddwyd ac y'i cyflawnwyd; ond y mae yn rhaid i ni addef na's gwelwn ni ddim yn yr hanes yn tueddu i gefnogi y golygiad hwnw. Ond nid yw o gymmaint pwys pa un ai mewn gwirionedd ai mewn gweledigaeth yr oedd, y mae yn eglur mai gweithred arwyddoccäol ydoedd, ac mai yr un yw y peth a arwyddocceir drwyddi: ac ni's gall fod un anhawsder i ni i ddeall yr hyn a arwyddocceir, gan fod yr Ysbryd Glân wedi datguddio hyny pan roddes efe y gorchymyn. Y prif reswm sydd gan rai dros farnu mai mewn gweledigaeth yn unig y bu hyn, yw ei fod yn ymddangos yn annghysson â nodweddiad y Duwdod i ofyn i brophwyd wneyd yr hyn a gyhoeddasai efe eisoes yn annghyfreithlawn i'r offeiriaid. Lef. 21. 7. I hyn y mae eraill yn atteb y gallai yr hyn oedd anmhrïodol yn y cyntaf, fod yn oddefol yn yr olaf, yn enwedig pan ystyrier mawredd yr achlysur, a phwysigrwydd y dyben. Heblaw hyny, pa beth bynnag oedd anmhriodol i'w orchymyn a'i wneyd mewn gwirionedd, yr oedd yn annghymwys hefyd i'w gyflwyno i feddylddrych y prophwyd yn ei weledigaeth sanctaidd fel peth gorchymynedig a gwneuthuredig. Yr oedd y berthynas newydd i'r hon y'i gelwid wedi ei hamcanu fel cysgod o berthynas Israel â Duw. Er i'r wraig fod wedi bod yn un odinebus, eto, os proffesai edifeirwch, ac os ymwystlai i fod yn ffyddlawn i'r prophwyd rhagllaw, yr hyn a wnelai trwy gydsynio i fod yn wraig iddo ef, yna, yr oedd y brïodas yn arwyddlun perffaith o Israel, ac yn ddigon cyfreithlawn i Israeliad, fel y gellir casglu oddiwrth hanes Rahab y buttain, a Ruth y Foabëes. Ac y mae yn ddiau fod y gorchymyn, os y'i rhoddid, yn ddigonol i sancteiddio y weithred.—*Y mae y wlad gan butteinio yn putteinio*, dull o ymadrodd yn dynodi fod eilunaddoliaeth yn ymarferiad beunyddiol a pharhaus. Cwympai Judah i eilunaddoliaeth weithiau; ond ymroddai Israel i'r ffieidd-dra yma yn barhaus er dyddiau Jeroboam mab Nebat. DAVIDSON.

Adn. 3—5. *Ar fyrder y dialaf waed Jezreel*, nid dialedd Jehu ar dylwyth Ahab, a olygir, canys yr oedd hyny yn gymeradwy gan yr Arglwydd, 2 Bren. 10. 30; ond y creulonderau a gyflawnasai efe pan yn trigo yn Jezreel, dinas yn llwyth Issachar, Jos. 19. 18, lle yr oedd llys gan freninoedd Israel, 1 Bren. 21. 1. BOOTHR.

Adn. 6. *Am na chwanegaf drugarhau*, fel ag i'w cadw yn freniniaeth wahanol a galluog; ni ddangosai y drugaredd neillduol hono tuag attynt, a berthynai i'w etifeddiaeth ddewisedig ef. Mae y geiryn gwreiddiol yn dynodi na byddai iddo eu meithryn mwy â thynerwch tadawl. Pan beidio Duw a maddeu, y mae dystryw yn anocheladwy; gan y rhaid i ddialedd cyfiawn gael ei ffordd.

Adn. 7. *Eto mi a drugarhaf wrth dŷ Judah.* Cyflawnwyd yr addewid hon mewn rhan pan y darfu i'r Goruchaf waredu breniniaeth Judah yn wyrthiol oddiwrth y gelynion hyny a ddarostyngasent Israel wrthnysig, gwel Esa. 37. 36. Ond y mae y iaith gref a ddefnyddir debygid yn golygu yr iachawdwriaeth a wnaed i Judah, gan Iesu mab Dafydd; canys i'r llwyth hwn y'i hanfonwyd mewn modd arbenig. Gwel Luc 1. 32, 69.

Adn. 8—10. *Lo-ammi*, a arwyddoccai, "nid fy mhobl," yn gymmaint ag nad oedd Israel wedi ceisio neu gael trugaredd, nid arddelwai Duw hwynt mwyach fel ei bobl; gadewid hwynt yn hollawl i ymwrthod â'i addoliad, ac efe a'u bwriai allan o gylch ei nawdd neillduol. Eto ni thorrai efe ei addewid a wnaethid i'w tadau, byddai nifer meibion Israel eto " fel y tywod ar fin y môr." Ymunai lluoedd o'u llwythau â'r Iuddewon, neu fe'u cyd ddychwelid gyda hwy at Grist; a minteioedd aneirif y cenhedloedd, y rhai a wnelid yn blant i Dduw trwy ffydd yn Nghrist, a fyddent mewn gwirionedd yn wir Israeliaid, a "had Abraham,' trwy eu bod wedi eu huno â'r un Had hwnw, i'r hwn y gwnaethid yr addewidion.

Adn. 11. Fe ddichon fod yma gyfeiriad at uniad yr Israeliaid â'r Iuddewon, y rhai a ddaethant o'r caethiwed dan Zorobabel; nid oeddynt yn rhanedig fel o'r blaen; ond " gosodasant iddynt un pen;" neu dywysog arnynt eu hunain; a mawr fyddai y dydd pan fyddai i Dduw eu hau yn eu tir eu hunain.

## PEN. II.

Adn 1. Wedi yr addewid rasawn a roisai Duw iddynt yn y bennod flaenorol, "A bydd yn y man lle y dywedwyd wrthynt, Nid pobl i mi ydych chwi, y dywedir yno wrthynt, Meibion y Duw byw ydych;" wrth yr hyn y golygid galwad y Cenhedloedd, a dychweliad yr Israeliaid gwasgaredig i'r eglwys, yma fe gynghorir yr Iuddewon i'w cydnabod fel brodyr, a'u cyfarch gan eu galw *Ammi*, "fy mhobl," a *Rec hamah*, " a gafodd drugaredd." Fe'u cynghorid i ymddwyn tuag at bawb a gawsai drugaredd, ac a dderbyniasid i fod yn bobl Dduw, fel brodyr a chwiorydd; a'u llongyfarch ar eu dygiad i'r cyflwr dedwydd yma.

Adn. 2. *Dadleuwch â'ch mam.* Chwi rai duwiol, ewch i fath o ddadlyddiaeth farnol â'ch mam, tŷ Israel, dïarddelwch ei hymddygiadau, a gwrthdystiwch yn eu herbyn, canys nid wyf fi yn ei hystyried fel fy ngwraig.—*Bwried hithau ei phuteindra*, ei chariadau o'i gwyddfod;—*a'i phuteindra*, neu buteinwyr *oddi rhwng ei bronau*, wrth yr hyn y golygir pob rhyw eilunod, a'u cynghreiriau â'r cenhedloedd paganaidd. Y oedd ymlyniad wrth y naill neu y llall yn annghyson â meddwl mawr am Dduw, cariad atto a pharch i'w ordinhadau. BOOTHROYD, DAVIDSON.

Adn. 3, 4. Mae yr iaith a arferir yn yr adnodau hyn yn dynodi

yn eglur, os byddai i Israel adael eu heilunod, rhoi heibio bob cyfathrach ansanctaidd, a dychwelyd at yr Arglwydd, y derbyniai efe hwynt mewn tosturi a chariad; ond os parhau mewn anwiredd a wnaent, bod eu dinystr yn anocheladwy. Darlunir hyn trwy y gyffelybiaeth o fenyw wedi ei dynoethi, ei darostwng, a'i gwaradwyddo gan fuddugoliaethwr anwar; Gwel Esa. 3. 17. Ezec. 16. 39. a 23. 26.—*A'i gwneuthur fel anialwch*, yn wrthddrych amddifad o ddim dymunoldeb, wrth yr hyn e ddichon y golygir y byddai y wlad, trwy dymhorau diffrwyth, a rhyfeloedd, yn cael ei llwyr anrheithio, ac y byddai i Israel fel eglwys fod yn hollol anffrwythlawn, wedi colli y dylanwadau ysbrydol.

Adn. 6, 7. *Mi a gauaf i fynu dy ffordd di â drain.* Yr oedd Duw yn penderfynu cau o'i hamgylch ag anhawsderau, fel na's gallai ddianc.—*Fel na chaffo hi ei llwybrau;* mae y gair a gyfieithir *llwybrau* yma yn arwyddo adwyon wedi eu gwneyd mewn gwrychoedd drain, neu fagwyrydd cerrig, wrth fynych ddringo drostynt yn yr un lle. BOOTHROYD, COBBIN. Yr oedd yr Arglwydd yn penderfynu cosbi ei bobl wrthgiliedig â'r fath farnedigaethau trymion ag a'u cadwai rhag myned yn llwyr eilun-addgar.—*Af a dychwelaf at fy ngwr cyntaf,* dyma yn ddiau fu effaith dedwydd cystuddiad y deg llwyth ar lawer o'r bobl, y rhai a ymunasant â'u brodyr o Judah yn amser Hezeciah, ac ar lawer o'r Iuddewon a gaethgludasid i Babilon; ond fe fydd yr iaith yn llawer mwy cyfaddas i genedl Israel, pan, yn nghyd a chyflawnder y cenhedloedd, y'u dychwelir at yr Arglwydd.

Adn. 8, 9. *Ac ni wyddai hi*; ni fynai wybod; anwybodaeth gwirfoddol a ddinystriodd Israel; canys yr oedd Duw wedi arlwy digon o foddion iddynt hwy i ddeall am ei nodweddiad ef fel Arglwydd goruchaf pawb oll.—*Am hyny y dychwelaf, &c.* Mae HORSLEY yn barnu fod yma gyfeiriad at farnedigaethau oeddynt eisoes wedi dechreu, parâad a chynnydd y rhai a ddarlunir yn yr adnod nesaf. Mae yr holl brophwydi, yn enwedig Amos a Joel, yn darlunio barnedigaethau Duw yn dechreu ar Israel mewn tymhorau anffrwythlawn, a gorchuddiad y wlad gan bryfed niweidiol, yr hyn a achlysurai brinder mawr o ddefnydd ymborth, yn cael ei ddilyn gan afiechyd yn mysg dynion ac anifeiliaid, heintiau a marwolaeth. DAVIDSON.

Adn. 13. *Baalim*, enw yn cynnwys amrywiol o eilunod a addolid gan Israel dan yr enwau Baal-berith, Baal-peor, Baal-zebel, &c.

Adn. 14. *Mi a'i denaf hi.* Mae y gair yma yn arwyddo perswadio, neu ennill trwy gymhelliadau priodol ei air a'i ragluniaeth.—*Ac a'i dygaf i'r anialwch*; mi a'i harweiniaf o'r gwledydd pell i'r rhai y'i caethgludwyd, adref yn ddiogel trwy yr anialwch megis cynt. NEWCOME. Neu, yn hytrach, hwy a'u gwelant eu hunain mewn anialwch diffrwyth fel eu tadau, ac wedi eu dwyn i wasgfa a chaledi efe a'u dyddanai, ac a'u calonogai i ymddiried

yn ei ras, ei drugaredd, a'i ragluniaeth. SCOTT.—Yr oedd *dyffryn Achor* yn gorwedd ar ffiniau Canaan, ac yn hynod am ei ffrwythlonrwydd; ac yno yr adnewyddodd Duw ei addewidion i Josuah, i ddarostwng trigolion y tir o flaen Israel, Jos. 7. 26. a 8. 1. Esa. 65. 10. DAVIDSON.

Adn. 16, 17. *Issi,* "fy ngwr." Wedi i Israel gael eu hadferu, addefant Dduw fel eu Duw, a gochelant grybwyll yr enw *Baal*, er fod ystyr dda i'r gair, am ei fod wedi cael ei ddefnyddio i ddynodi yr eilunod. BOOTHROYD.

Adn. 18. Mae y cyffelybiaethau a ddefnyddir yma yn dra godidog a chyfaddas i'r perwyl y'u defnyddir, ac yn darlunio gyda phrydferthwch a grym rhagorol gyflwr o ddiogelwch a dedwyddwch perffaith. Cymh. Mich. 4, 3, 4. Maent wedi eu benthyca oddiwrth wledydd a fyddont wedi eu gwrteithio a'u pobli mor dda, fel na's byddai nodded i fwystfilod ysglyfaethus o'u mewn, nac un tebygolrwydd y byddai raid iddynt ymostwng i drawslywodraeth gelyn. Effaith uniongyrchol dychweliad cyffredinol at Grist, fydd ffyniant heddwch.

Adn. 19, 20. "Yr wyf yn meddwl" medd BOOTHROYD, mai yn had ysbrydol Israel yn unig y gellid cyflawni yr addewidion hyn yn berffaith; canys y rhai hyny a ddyweddïir gan Dduw âg ef ei hun yn dragywydd.

Adn. 21, 22. *Ar y nefoedd y gwrandawaf,* y rhai a fyddant fel yn gofyn am ganiattad i dywallt gwlaw ar y ddaiar.—*A wrandawant ar y ddaear,* yn griddfan, megis, am y gwlaw. NEWCOME. Fe wrendy pob creadur ar ddymuniadau, ac a weiniant i angenion fy mhobl. W. LOWTH.—*A hwy a wrandawant ar Jezreel,* hwy a gyflawnant eu rhan er y JEZRAEL, y bobl a haua Duw drachefn yn ei dir. BOOTHROYD.

Adn. 23. *A mi a'i hauaf hi,* cyfeiriad at yr ymadrodd blaenorol, a dynodawl o gyrchfa ddirfawr dychweledigion newyddion o fysg cenhedloedd yn y dyddiau diweddaf, Rhuf. 11. 12, 15. HORSLEY.

## PEN. III.

Adn. 1—5. *Dos eto, &c.* Y golygiad mwyaf rhesymol ar y geiriau hyn yw, mai parhad ydynt o hanes y prophwyd am yr amgylchiad â pha un y dechreuodd ei weinidogaeth brophwydoliaethol, yr hwn oedd yn ddarluniad o ymwneuthuriad Duw â'i bobl Israel. Efe a briodasai wraig o nodweddiad ddrwg, ac a ymddygasai tu ag atti â thynerwch ac â serchawgrwydd; er hyny hi a butteiniasai oddiwrtho ef wedi hyny. Hi a fuasai yn *hoff gan ei chyfaill* a'i gwr, eto profasai yn anffyddlawn iddo ef: er hyny efe a barhäai i'w charu hi, ac efe a gyfarwyddid i fyned a dangos ei gariad yn ei ymddygiad tuag atti hi. Yn lle myned i'w chosbi trwy erlyniad cyhoedd yn ol cyfraith y tir, neu ysgariad cyfrinachol, efe a gynnygiai ammodau heddwch iddi, gan ofyn yn unig iddi aros

mewn sefyllfa o ymneillduaeth oddiwrtho ef am "lawer o ddyddiau," sef yspaid digonol i brofi diffuantrwydd ei hedifeirwch, ac na's byddai iddi adnewyddu ei phutteindra mwyach, ond ymgadw yn bur am dano ef; yna efe a addawai ei ystyried ei hun fel ei gwr, ac o'r diwedd ei chymeryd yn ol atto ei hun. Yr arian a'r haidd, â pha rai y prynai efe hi oedd yn gydunol â defodau yr amserau hyny pan roddid gwaddol am wraig yn aml, yn lle derbyn gyda hi. 1 Sam. 18. 23—27. Arwyddai hyn hefyd fod y briodas mewn gwirionedd wedi ei thorri trwy ei phutteindra hi, ac efallai ei fod wedi ei amcanu at ei chynhaliaeth dros ddyddiau ei neillduaeth. Mae hyn yn fwy cyson â'r hyn a arwyddocceir, na'r dybiaeth o fod y prophwyd wedi ysgaru â'i wraig Gomer, am yr hon y sonir yn y pennodau blaenorol, ac wedi priodi un arall yma; canys ni ddarfu i'r Arglwydd ysgaru â'i bobl erioed, gwel Esa. 1. 1—3. Hwy a ymadawsant âg ef, ac eto mewn trugaredd, efe a'u derbyn hwynt drachefn. DAVIDSON, SCOTT.

## PEN. IV.

Adn. 2. *Gwaed a gyffwrdd â gwaed:* hyny yw, llofruddiaethau a gyflawnir yn barhaus. Nid rhyfedd fod cwyn rhwng yr Arglwydd a hwy yn nghanol y fath dwyll, a gormes, a chreulondeb.

Adn. 3. *Y galara y wlad;* dywedir fod gwlad yn llawenhau pan fyddo y bobl yn llwyddo, a'i bod yn galaru pan fyddo barnau Duw ar y trigolion. Mae yn debyg fod yma gyfeiriad at y newyn a'r sychder a ragfynegodd Amos, pen. 3. 2.

Adn. 4. *Canys dy bobl sydd megis rhai yn ymryson â'r offeiriaid.* Mae NEWCOME yn cyfieithu y geiriau ychydig yn wahanol i'r cyfieithiad awdurdodedig, a thrwy hyny yn rhoddi y synwyr allan yn eglurach, debygid. "Eto nid oes neb yn ymryson, na neb yn ceryddu; fel y mae cyffröad yr offeiriad, felly y mae eiddo y bobl." Yr oedd y bobl mor ddrygionus a dideimlad a'u hoffeiriad eilunaddolgar, y rhai oeddynt yn ymryson yn erbyn yr Arglwydd. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Am hyny ti a syrthi.* Cyferchir yr offeiriad yma, a dywedir y bydd iddo syrthio pan fyddai yn dysgwyl hyny leiaf, yn nghyd a phob gau brophwyd, a'r fam ddinas Samaria.

Adn. 6. *O eisiau gwybodaeth,* adnabyddiaeth o gyfraith yr Arglwydd.—*Am i ti ddiystyru gwybodaeth;* mae y prophwyd yma yn cyfarch yr offeiriaid, ac yr oedd anwybodaeth y bobl i'w briodoli i raddau mawr i'w hanwybodaeth hwy.

Adn. 7. *Fel yr amlhasant.* Fel yr ymddyrchafai yr offeiriaid mewn urddas ac awdurdod uwchlaw y gweddill o'r bobl, yr oeddynt yn rhagori ar eraill mewn annuwioldeb. HORSLEY. Am hyny yr oedd Duw yn penderfynu dwyn yr offeiriadaeth oddiarnynt. GILL.

Adn. 8. *Bwytta y maent bechod fy mhobl,* neu bech-aberth; ac

yr oeddynt yn dymuno ar fod i'r bobl bechu, fel yr amlheid yr offrymau dros gamwedd. A. CLARKE, *Dr.* POCOCKE.

Adn. 9. *A bydd yr un fath bobl ac offeiriad*; nid at gyffelybrwydd nodweddiad, ond at gyffelybrwydd cosbedigaeth y mae y cyfeiriad yma. Mae yn wir eu bod yn gyffelyb y naill i'r llall mewn pechu; ond y mae yn amlwg mai yr hyn y cyfeiriai y testyn atto oedd, eu bod i ddïoddef yn nghyd.

Adn. 11. *A ddwg y galon ymaith*, yr oedd eilun-addoliaeth ac ymarferiad â phleserau anianol wedi dwyn synwyr a barn oddiar yr offeiriaid a'r bobl, a gwneuthur eu calonnau a'u cydwybodau yn ddideimlad, ac yn hollawl annghyfaddas i ddim da. SCOTT.

Adn. 14. *Nid*, neu, yn ol NEWCOME, BOOTHROYD, ac eraill, "Onid" *ymwelaf, &c.?*

Adn. 15—19. *Etto na pheched Judah*, mae y prophwyd yma yn troi at Judah, lle yr oedd mwy o barch i gyfraith Duw hyd yma.—*Beth-afen*, yr un a Bethel; ond a elwir yma "Tŷ yr anwiredd," oblegyd yr eilun-addoliaeth a arferid yno, ac nid "Tŷ Dduw" fel y'i gelwid gynt. BOOTHROYD.—*Mewn ehangder*, cyfeiriad at y wasgarfa fawr â pha un y'u gwasgarwyd; ac y mae yn rhaid ei bod yn fawr, pan ydys hyd heddyw heb allu cael y deg llwyth allan. Dangosid trueni eu cyflwr trwy y gyffelybiaeth hon, gan y byddent mor agored i berygl ag oen unigol a diamddiffyn yn nghanol bwystfilod ysglyfaethus yr anialwch erchyll. Yr oedd Ephraim, neu freniniaeth Israel wedi ymroi i gofleidio eilunod, am hyny y penderfynai yr Arglwydd na's byddai i'r bobl gael eu blino mwyach gan rybuddion y prophwydi, ond y'u gadewid i addfedu i ddystryw. Gwel Sal. 81. 11, 12. Matt. 15. 12—14.—*Surodd eu diod*, hyny ydyw, yr oedd eu diod offrwm yn ddiflas ac annymunol fel gwin wedi marw, yn annymunol i'r archwaeth a niweidiol i'r iechyd. DAVIDSON. Mae BOOTHROYD a rhai beirniaid eraill yn cyfieithu y geiriau hyn yn dra gwahanol.—"Efe a aeth ar ol eu gwin. Hwy a aethant ar grwydr yn barhaus; eu llywodraethwyr a garasant gywilydd. Gwynt a'u cyfynga yn eu terfynau, a hwy a gywilyddir am eu hallorau." Trwy y gyffelybiaeth o wynt yn gwasgu ar adenydd mawrion, y darlunir gallu anwrthwynebol buddugoliaethwr creulawn, yn eu dwyn ymaith i gaethiwed, ac yn eu gwasgaru i bedwar pegwn y byd. DAVIDSON.

## PEN. V.

Adn. 1, 2. *Mispah*, a *Thabor*, oeddynt fynyddoedd yn mreniniaeth Israel; y cyntaf ar y terfyn deheuol, a'r llall ar y terfyn gogleddol. Megis yr arferai helwyr daenu eu rhwydau ar y mynyddoedd hyn i ddal eu hysglyfaeth, felly yr arweiniai llywodraethwyr Israel eu deiliaid i ymadael â Duw, trwy roddi y llo aur yn Dan a Bethel. Yr oedd yr holl genedl yn gynnwysedig o dri dosparth, yr offeiriaid, y bobl, a thŷ y brenin, neu y tylwyth

freniniol. DAVIDSON. Mae rhai yn meddwl eu bod yn gosod ysbiwyr i wylied rhag i neb o'r bobl fyned i fynu i Jerusalem i addoli; ac felly yn eu maglu i'w cosbi.

Adn. 4. *Ni roddant eu gwaith,* neu, "Eu gweithredoedd ni's goddef iddynt droi at Dduw." Maent wedi ymarfer cymmaint âg eilunaddoliaeth fel na's gallant droi at Dduw, a'i addef ef yn Arglwydd. BOOTHROYD.

Adn. 5. *A balchder Israel a ddwg dystiolaeth, &c.* Eu hymddygiadau balchaidd yn erbyn Duw a dystiolaetha yn eu herbyn. POCOCKE. Balchder Israel yw Duw ei hunan, yr hwn mewn man arall a elwir "Ardderchawgrwydd Jacob." HORSLEY.

Adn. 6. *A'u defaid, ac â'u gwartheg y deuant i geisio yr Arglwydd.* Daw amser, pan offrymmant aberthau iddo ef, ond yn gwbl ofer, canys ni chymer efe sylw o honynt. BOOTHROYD.

Adn. 7. *Canys cenedlasant blant dieithr;* meithrinant eppil ddrwg ac estronaidd oddiwrth Dduw.—*Mis*, neu "locust," *bellach a'u difa hwynt.* BOOTHROYD, felly hefyd y cyfieithwyr Groegaidd.

Adn. 8. *Cenwch y corn yn Gibeah.* Gibeah a Ramah oeddynt ddinasoedd yn llwyth Beniamin. A gorchymynai yr Arglwydd trwy y prophwyd yma i'r gwylwyr eu rhybuddio fod y gelyn yn neshau.—*Ar dy ol di Beniamin.* Rhybudd sydyn, fel pe dywedasid, "Beniamin, ffo am dy einioes, y mae y gelyn gerllaw."

Adn. 9. *Yn nydd y cerydd.* Cyflawniad y barnedigaethau a fygythid yma ar y bobl, a argyhoeddai holl Israel o'r gwirionedd, ac o'u ffoledd a'u heuogrwydd eu hunain yn diystyru rhybuddion y prophwydi ffyddlawn. DAVIDSON.

Adn. 10. Yr oedd y tywysogion neu y llywodraethwyr yn gybyddlyd, gormesol, a chreulawn, fel y rhai a symmudant derfyn eu cymmydogion gweiniaid, gan draws feddiannu eu tiriogaethau, gwel Deut. 27. 17. Mae rhai yn meddwl mai math o gyffelybiaeth yw y geiriau, yn dynodi fod y llywodraethwyr wedi symmud terfynau uniondeb a chamwri. BOOTHROYD.

Adn. 11. *Am iddo yn ewyllysgar fyned ar ol y gorchymyn,* neu "Ar ol deddfau Omri, i addoli eilunod gweigion." BOOTHROYD.

Adn. 13. *Llesgedd* ac *archoll,* sydd yn dynodi anhwylderau y corph gwladol. Gwel Es. 1. 6.—*Brenin Jareb,* mae yn amlwg oddiwrth Cron. 28. 16, fod Jareb naill ai yn enw personol ar frenin Assyria a gymerai efe oddiwrth ryw le ond odid, neu enw a roddid iddo gan y prophwyd am ei fod i ddadleu dros Dduw â'r ddwy genedl yma. BOOTHROYD.

Adn. 14, 15. *Fel llew,* darluniad o allu dialeddawl y Duwdod, yr hwn sydd anwrthwynebawl, pen. 13. 7, 8. Galar 3. 10, 11.—*Af, a dychwelaf i'm lle,* mae yr un gyffelybiaeth yn cael ei chadw i fynu, fel y mae llew wedi cymeryd gafael yn ei ysglyfaeth yn dychwelyd i'w loches, felly y mae Duw, nid yn unig am gosbi ei

bobl ddewisedig, ond am eu gadael dros yspaid maith i ddioddef y gosbedigaeth.

## PEN. VI.

Adn. 1, 2. Gellid golygu y geiriau hyn yn gyssylltiedig â'r bennod flaenorol, ac os felly, gweddi Israel ydyw, wedi eu deffroi gan gyfyngder i synied priodol o'u heuogrwydd. Prophwydoliaeth yw y geiriau am eu hadferiad.—*Efe a'n drylliodd*, maent yn cydnabod fod eu holl drallodau yn dyfod o'i law ef, yn gospedigaeth am eu pechodau.

Adn. 2. *Ar ol deuddydd:* math o ymadrodd diarhebol yn darlunio amgylchiad a gymerai le yn fuan. Rhoddir dau am ychydig, Bren. 17. 12. Un a dau am ychydig, Es. 7. 21. Jer. 3. 14; a dau neu dri am ychydig, Esa. 17. 6, BOOTHROYD.

Adn. 3. *Yna yr adnabyddwn*, sef pan fyddwn fyw ger ei fron ef.—*Ei fynediad*, ei ymddangosiad fel ein gwaredydd sydd wedi ei bennodi fel y boreu, &c. BOOTHROYD.

Adn. 4. Dyma gwyn tyner oblegid eu hanwadalwch. Yr oeddynt weithiau yn ymddangos fel pe buasent yn edifeiriol, yn dwyn rhai ffrwythau da, ond yn newid yn fuan wedi hyny, ac yn cwympo yn ol i'w ffyrdd blaenorol.

Adn. 5. *Am hyny y tarewais hwynt trwy y prophwydi*, gweithredais arnynt yn ddifrifol ac yn ddyfal, fel yr adeiladydd yn naddu y meini i'w adeilwaith, gan fygwth anrhaith a marwolaeth yn eu plith; neu fel cymmynydd coed yn teneuo coedwig, fel y byddo yn fwy cynnyrchiol.—*A'th farnedigaethau sydd fel goleuni yn myned allan.* Neu, yn ol HORSLEY, "A'r addysgiadau a roddais i ti fel goleuni yn myned allan," yn eglur yn eu natur, ac yn gwasgaru gyda dedwyddwch yn mhob lle y cyrhaeddant.

Adn. 6. *Canys ewyllysiais drugaredd*, mae y geiryn gwreiddiol a gyfieithir trugaredd yma, yn dynodi pob rhyw ardderchawgrwydd moesol, cariad at Dduw a dyn. Mae yr unrhyw ystyr ehang i'r gair trugarog mewn amryfal fannau; gwel Luc 6. 36. cymh. Matt. 5. 48. a 9. 13.

Adn. 7. *Fel dynion*, neu yn ol y beirniaid mwyaf craffus, "Fel Adda;" yr hyn sydd yn dangos fod yr athrawiaeth o gwymp Adda yn cael ei deall a'i haddef y pryd hyny.

Adn. 8. *Wedi ei halogi gan waed*, neu, wedi ei nodi gan gamrau gwaedlyd, yr hyn yw arwyddocäad rymmus y geiriau yn wreiddiol, wrth yr hyn y canfyddwn mor hynod o annghyfiawn oedd y Gileadiaid.

Adn. 9. *Fel y mae mintai o ladron, &c.* Y Gilead hon oedd un o'r dinasoedd noddfa, ac y mae yn debyg mai yr hyn a ddysgir yn y geiriau hyn yw, fod yr offeiriaid mor ddinystriol a mintai o yspeilwyr wedi ymwasgaru dros y freniniaeth, fel na's gallai neb fod yn ddiogel oddiwrth eu cynlluniau llofruddiawg, hyd yn nod

yn y dinasoedd hyny a drefnasid i ddiogelu gwrthddrychau dialedd. Mae ysgelerder eu hymddygiad i'w weled yn mhellach, pan ystyriom mai eneidiau y bobl a leddid pan y'u hudid i eilun-addoliaeth.

Adn. 11. *Gosododd hefyd gynhauaf i tithau Judah.* Mae cynhauaf yma yn arwyddo amser cosbedigaeth, a'u haeddfedrwydd i'r gosb, cymh. Jer. 51. 33. Joel 3. 13. Dat. 14. 15—19. Mae amryw feirniaid yn cyssylltu y rhan olaf o'r adnod hon â'r bennod nesaf. MOERLIUS, MICHAELIS, BOOTHROYD.

## PEN. VII.

Adn. 1, 2. Mae llawer fel y crybwyllwyd o'r blaen yn cyssylltu y rhan olaf o'r bennod flaenorol â'r bennod hon, gan ddarllen fel hyn, "Pan fynaswn I ddychwelyd caethiwed fy mhobl; pan fynaswn I iachâu Israel." Wrth iachâu y golygir maddeu. Mae yma gyfeiriad at amser debygid, pan oedd Duw yn dewis dangos amlygiadau nodedig o'i ffafr i Israel; ond ni chafodd hyn un effaith ddaionus arnynt hwy, canys y brenin a barhai mewn eilun-addoliaeth. Yr amser a olygid yma, debygid, a fu yn nheyrnasiad Jeroboam yr ail,—*Gwnaethant ffalsder*, wrth yr hyn y golygir, debygid, y dichellion a arferwyd i sefydlu gau grefydd.—*Y lleidr a'r yspeilwyr* a allant fod yn golygu Pul, yr hwn a ganiattâodd heddwch iddynt am swm o arian; a byddinoedd Tiglath-pileser, gwel 2 Bren. 15. 19, 20, 29. 1 Cron. 5. 26.

Adn. 3. *A'u celwyddau*, eu heilunod, neu eu defodau twyllodrus trwy y rhai y cyflawnent eilun-addoliaeth. HEWLETT.

Adn. 4. *Fel ffwrn*, yn llosgi gan chwantau aflan.—*Yr hwn a baid a chodi wedi iddo dylino y toes*; neu, "Yr hwn a baid a'i gwylio," &c. BOOTHROYD. Wedi i'r pobydd dwymno y ffwrn, y mae efe yn gadael y tân ynddi hyd oni byddo y toes yn barod, felly y maent hwythau yn parhau yn wresog fel ffwrn gan chwantau i eilun-addaliaeth a godineb.

Adn. 5. *Yn niwrnod ein brenin.* Ei ddydd genedigaeth, neu ryw ddiwrnod arbenig pan fyddo y lluaws yn cyrchu i'r llys brenhinol.—*Estynodd ei law gyda gwatwarwyr*, efe a anrhydedda brif wawdwyr gwir grefydd a dirmygwyr gweision ffyddlawn Duw, â'r nodau pennaf o'i ffafr.

Adn. 6, 7. *Y boreu y llysg fel fflam dân.* Mae y gyffelybiaeth o ffwrn a ddechreuid yn adn. 4, yn cael ei dwyn yn mlaen trwy adn. 5, 7, 8. Er fod y pobydd wedi ymneillduo i orphwyso, eto tybir fod ei ffwrn yn dyfod boethach boethach; ac felly yr oedd eu chwant hwythau at eilun-addoliaeth yn myned yn gryfach gryfach, fel yr oedd trefniadau coelgrefydd yn eu dyfeisio yn decach decach. Ond yn nghyd a'u chwant at eilun-addoliaeth, yr oedd pob rhyw nwydau afrëolaidd yn cael eu hennyn ynddynt,

ac ymdorrent allan yn fflamau nes dinystrio pawb a geisient eu darostwng, a'u llywodraethu. Wedi poethi eu nwydau hunanol gan win, hwy a lofruddient eu barnwyr a'u breninoedd, y naill ar ol y llall; eto nid oedd y bobl, nac un o'u breninoedd, yn ceisio ymwared gan yr Arglwydd yn nghanol y cynhyrfiadau hyn i gyd. Yr oedd holl freninoedd Israel yn eilun-addolwyr, a llawer o honynt yn euog o ysgelerderau mawrion eraill. SCOTT, &c.

Adn. 8—10. *Ephraim*, neu freniniaeth y deg llwyth, a ymgymmysgasai â'r cenhedloedd o'u hamgylch, trwy gyfathrach a chymmundeb mewn eilun-addoliaeth; eto yr oedd yn cymeryd arni addoli y gwir Dduw, ac felly yr oedd *fel teisen heb ei throi*, y naill hanner wedi llosgi, a'r hanner arall yn does, ac felly heb fod yn dda i ddim. Rhyw gymmysgedd didrefn o eilun-addoliaeth âg addoliad y gwir Dduw. Ond, yr oedd yn awyddus i anwiredd, ac yn glaiar, a rhagrithiol yn ngwasanaeth Duw, a hannerog yn mhob cynnygiad at ddiwygiad. Yr oedd duwiau dieithr, a chyfathrachau paganaidd yn ei wanhau bob dydd; a'r cenhedloedd cylchynol trwy eu rhuthriadau gelynol yn difa ei rym: eto nid oedd efe yn canfod un perygl, nac wedi ammeu yr achos o'i nychdod unwaith, sef bod llaw Duw wedi ei dyrchafu i'w erbyn. Yr oedd arwyddion dynesäad dinystr arno mor amlwg ag y mae penwyni yn arwyddo henaint, a nychiad y cyfansoddiad: ac yr oedd y prophwydi yn gweled hyn yn amlwg, ac yn dangos yr arwyddion i Ephraim, ond ni chymerai efe sylw o honynt. Deilliai hyn oddiar ei falchder, yr hwn a dystiolaethai yn ei erbyn yn amlwg, gan nad oedd na barnau, rhybuddion, na thrugareddau yn ei ennill i ddychwelyd a cheisio yr Arglwydd. SCOTT.

Adn. 11, 12. Mewn golygiad arall yr oedd Ephraim fel *colommen ynfyd*, nid mewn diniweidrwydd a boneddigeiddrwydd; ond mewn ffolineb ac anwroldeb.—*Heb galon*, heb ddeall, gwroldeb, na phenderfyniad. Dychrynid ef gan bob ymddangosiad o berygl, ond yn lle ffoi at Dduw am noddfa, fel y ffŷ colomenod i'w ffenestri, yr oedd Ephraim fel colomen ynfyd yn ffoi yma a thraw am noddfa, nes ei chymeryd yn rhwyd yr heliwr, i'r hon y'i denid yn rhwydd.—*Fel y clybu eu cynnulleidfa*, naill ai pan ddarllenid Moses bob Sabbath, neu, pan lefarai y prophwydi ffyddlawn, y rhai a gyhoeddent fygythion Duw i'w clywedigaeth yn onest.—SCOTT, DAVIDSON.

Adn. 13. *Hwy a ddywedasant gelwydd arnaf fi;* a'm darluniasant fel un caled a chreulawn, a'm gwasanaeth fel yn anfuddiol.—A. CLARKE.

Adn. 14. *Am ŷd a melyswin yr ymgasglasant*, o flaen eu heilunod, ac felly cilient oddiwrth Dduw, a gwrthryfelent yn erbyn yr Arglwydd cyfiawn, yr hwn oedd yn rhoddi eu hŷd a'u cwbl iddynt. DAVIDSON.

Adn. 15, 16. Pa un bynnag ai eu cosbi ai dangos ffafr iddynt

a wnelai Duw, eto hwy a'i gwrthodent ef, ac a dröent at eu heilunod. BOOTHROYD.

## PEN. VIII.

Adn. 1. *At dy safn â'r udgorn;* galw yn egnïol, cyfeiriad at y ddefod o alw y bobl yn nghyd â sain udgorn. Yma y mae y prophwyd yn cael gorchymyn fel gwyliedydd Israel i chwythu yr udgorn; i roddi rhybudd o ddyfodiad brenin Assyria yn gyflym ac yn greulawn fel eryr yn erbyn y bobl yn mhlith pa rai y preswyliasai Duw; oblegyd eu bod yn awr wedi ei annog ef i'w gadael, trwy dorri ei gyfraith, a throseddu ei gyfammod.

Adn. 2—4. Pan fyddai Israel yn cael gwasgu arnynt gan yr Assyriaid, hwy a waeddent ar Dduw, gan honni perthynas âg ef a chymeryd arnynt ymroddi i'w nawdd ef fel rhai a'i hadwaenent ac a'i haddolent ef: ond ni wneid un sylw o'u honiadau, am eu bod hwy wedi bwrw heibio ddaioni, wedi gadael yr Arglwydd, ei deml, a'i addoliad; wedi dirmygu ei brophwydi, a mathru ei gyfreithiau trwy eu heilunaddoliaeth a'u hanwireddau, a hyny dros oesoedd lawer; am hyny eu gelynion a ffynent, ac a'u herlidient. Gosodent i fynu freninoedd a thywysogion o'u dewisiad eu hunain yn lle yr had a ddewisasai Duw, teulu Dafydd; nid ymgynghorent â'u Brenin nefol yn nghylch gosodiad eu breninoedd daiarol: a hwynt-hwy, eu breninoedd, a'u tywysogion, a ddefnyddient eu trysorau i wneyd eilunod, fel pe buasent yn ymwneyd i annog Duw i'w torri ymaith. SCOTT.

Adn. 5, 6. *Dy lô a'th fwriodd heibio,* ni's gall fod o un cymhorth i ti yn bresenol. POCOCKE. "Bwrw ymaith dy lô, O Samaria!" NEWCOME.- *Canys o Israel y mae, y saer a'i gwnaeth,* yr oedd yr oll o'r addoliad hwn o ddyfais meibion Israel, er yr amser y gwnaed y llô aur yn yr anialwch, yn groes i orchymyn pendant Duw, Exod. 32. 2--6. 1 Bren. 12. 26—29. SCOTT.

Adn. 7, 8. *Canys gwynt a hauasant, &c.* Ymadrodd dïarhebol yn arwyddo mai yn ol gwaith un y byddai ei wobrwy, Diar. 22. 8. Hwy a gant fedi ffrwyth chwerw eilun-addoliaeth. W. LOWTH, NEWCOME.—*Corsen ni bydd iddo.* Y meddwl yw, os llwyddent, y byddai i'r gelyn eu hyspeilio o'r oll a feddent.—*A lyncwyd,* fel un wedi ei ddifa gan fwystfilod ysglyfaethus. GILL.—*Fel dodrefnyn heb hoffder ynddo;* yn llwyr ddiddefnydd a gwrthodedig. Mae y cyfeiriad at hen gostrelau crwyn, y rhai a fyddant wedi eu gwychu âg addurniadau, ond wedi heneiddio, llwydo, a braenu, y maent yn dra anolygus yr olwg arnynt.

Adn. 9. *Aethant i fynu i Assyria,* at frenin Assyria, i geisio ffurfio cynghrair ag ef, gwel 2 Bren. 15. 19. GILL.—*Yn asyn gwyllt unig iddo ei hun.* Er fod asynod gwylltion i'w canfod yn finteioedd, y maent yn aml yn rhedeg wrthynt eu hunain. POCOCKE. Mae rhai yn prïodoli y darluniad yma i Assyria, yr hon

oedd yn greulawn, cyflym, a thrahaus; eraill i Israel, yr hon oedd yn wyllt, ac anhywaith. POOLE.

Adn. 10. *Tristant o herwydd baich brenin y tywysogion.* Hwy a aethent i Assyria ar negeseuon eilun addolgar, ac yn awr yr oedd Duw ar eu dwyn yno yn gaethion; a hwy a deimlent oddiwrth ormes brenin Assyria, yr hwn a ymgyfenwa yn frenin breninoedd, am fod llawer o dywysogion dan deyrnged iddo. BOOTHR.

Adn. 11. *Allorau fydd ganddo i bechu* Fel yr oedd efe wedi cyfodi llawer o allorau i eilunod, efe a ddygid i wlad lle ni's canfyddai onid y cyfryw allorau yn unig.

Adn. 12. *Fel dieithr beth y cyfrifwyd:* fel peth annheilwng o'u sylw, am nad oedd un berthynas rhyngddynt â hwy.

Adn. 13. *Dig a aberthant*; yr oedd bwytta o'r poeth offrymau yn gyssegr yspeiliad o'r fath uchaf, gan eu bod i gael eu llwyr losgi ar yr allor, a'u diofrydu yn gwbl i'r Arglwydd.—*Dychwelant i'r Aipht.* Dywaid LOWTH, mai ymadrodd dïarhebol oedd hwn, er dynodi trueni dirfawr, gwel pen. 9. 3. Ond y mae yn debyg ddarfod i lawer o'r Israeliaid ffoi i'r Aipht pan gymerwyd eu gwlad gan yr Assyriaid: ac y mae yn ddiau eu bod wedi hyny wedi cyfrannogi yn nyoddefiadau eu brodyr o Judah, y rhai hefyd a geisient noddfa yno; gwel pen. 12. 16. a Nod. ar Jer. 44.

Adn. 14. *Temlau*, neu leoedd addoliad, wedi eu hamcanu i dynu y bobl o deml yr Arglwydd, megis preswylfeydd neu demlau y lloi yn Dan a Bethel. DAVIDSON.

## PEN. IX.

Adn. 1. *Na orfoledda gan lawenydd fel pobloedd eraill.* Meddylia amryw fod y bregeth hon wedi ei thraddodi ar dymhor o wledda a llawenydd cyffredinol, ar gyfrif cynhauaf toreithiog, neu ryw amgylchiad llwyddiannus arall, yr hyn a fuasai yn destynau priodol o lawenydd i genhedloedd yn gyffredinol; ond nid oeddynt felly iddynt hwy, gan fod y barnau trymaf yn crogi uwch eu pennau, yn barod i ymdywallt arnynt.—*Gwobrau a hoffaist,* cyfeiriad at wobrwy puttain; yr oeddynt yn cyfrif ffrwyth cynnyrchiol eu tir, fel gwobrau eu zel dros eilunod, megis yr haul, y lloer, a'r ser, y rhai a addolent fel rhoddwyr eu tymhorau ffrwythlawn iddynt.—Nid oedd llawr dyrnu yn y gwledydd dwyreiniol yn ddim amgen na darn crwn o dir, wedi ei gau allan, ond heb do arno, o fewn yr hwn y gyrrid ychain i fathru yr ŷd, am ba achos y'u dewisid weithiau fel lleoedd priodol i adeiladu allor ynddynt, ac offrymu aberthau arnynt gan bobl Dduw, cyn adeiladu y deml, Barn. 6. 37. 2 Sam. 24. 18—25. Ond nid ystyrid pob rhyw lawr dyrnu yn addas i gyfodi allor arno cyn i'r allor yn y deml gael ei phennodi fel yr unig le cyfreithlawn i offrymu i'r Arglwydd; canys nid oes genym un esampl o wir addolwyr yr Arglwydd yn cyfodi allor i'r Arglwydd, oddieithr ar le lle y cawsid rhyw arwydd gweledig o'r presenoldeb Dwyfol. DAVIDSON.

Adn. 2. Y farn a fygythir yw, y byddai i gynnyrch y tir gael ei wneyd yn afiachus ac annefnyddiol, os parhaent i lynu wrth eilun-addoliaeth.

Adn. 4. *Bara galarwyr*. Cyfeiriad at ddefod oedd yn arferedig gan y rhai a ymwelent â thŷ galar, o ddwyn ymborth gyda hwy i geisio perswadio eu cyfeillion galarus i fwytta; a chan y tybid y gallasai yr ymborth yma gyffwrdd â'r marw, fe'i hystyrid yn halogedig. Gwel Jer. 16. 5—8. Ezec. 24. 16—18.—*Bara dros eu heneidiau*, neu fwyd eu dymuniad. Wrth fara dros eu heneidiau, y golygir yr offrymau a ddylynid â'r Mincha, neu y bwyd-offrwm, er iawn neu ddyhuddiad dros gamwedd eu heneidiau. GILL.—*I dŷ yr Arglwydd*. Yn amser y caethgludiad, nid oedd tŷ i'r Arglwydd, i'r hwn y'i dygid; neu nid oedd Duw yn ei gyfrif ond fel bara cyffredin. GILL.

Adn. 6. *Aethant ymaith gan ddinystr*, neu anrhaith, yr oedd y bobl yn ffoi rhag y creulonderau a gyflawnid gan y goresgynwyr.—*Hyfryd-leoedd eu harian hwynt*. Eu tai hyfryd, a brynasant â'u harian, danadl a'u meddiannant. BOOTHROYD.

Adn. 7, 8. *Prophwyd, gwr ysbrydol, a gwyliedydd*, ydynt wahanol enwau a roddir yn yr ysgrythyr yn ddiwahaniaeth i'r holl ddosbarth lluosawg hwnw a wnaent i fynu ysgol y prophwydi: canys yr oeddynt yn cymeryd arnynt ac yn cael eu hystyried fel dynion wedi eu donio âg ysbrydoliaeth Dwyfol i ragfynegi pethau dyfodol er addysg i'r genedl. Y rhan fwyaf o honynt oeddynt *ffol*, analluog i adnabod arwyddion yr amserau, neu *ynfyd*, canys os oeddynt yn canfod y perygl oedd ar ddisgyn ar y genedl, yr oeddynt yn gwenieithio iddynt nad oedd un niwed yn agos.—*Am amlder dy anwiredd, a'r cas mawr*, at Dduw, ei wir weinidogion, a'i ordinhadau.—*Gwyliedydd Ephraim a fu gyd a'm Duw;* yn amddiffyn ei achos; wrth yr hwn y golygir y gwir brophwydi, megis Elias, Eliseus, Micaiah, a'r cyfryw, buant hwy yn meddu cymmundeb â Duw, yn mwynhau ei bresenoldeb a'i gymhorth gyda hwy yn ei waith, a thrwyddo, llwyddasant i droi llawer i gyfiawnder; ond y rhith wyliedyddion, a'r gau brophwydi hyn, oeddynt yn eu holl ffyrdd fel rhwyd yr heliwr i faglu dynion i ddinystr; a thrwy chwanegu casineb yn erbyn Duw a'i dŷ a'i addoliad, yr oeddynt yn tynu dialedd arnynt eu hunain a'r bobl, trwy eu heilun-addoliaeth a'u rhagrith. SCOTT.

Adn. 10. *Fel grawnwin*. Yr oedd Israel mor ddymunol i Dduw y pryd hyny, ag a fyddai y ffrwythau hyn i deithydd mewn anialwch, mewn cydmariaeth i'r hyn ydynt yn awr; neu fel y ffigys cynnaraf, y rhai am eu bod yn brinion ydynt yn fwy gwerthfawr. Eto llawer o honynt hwy a ddenwyd gan y Midianesau i fynychu teml Baal-peor, ac i ymddidoli oddiwrth ordinhadau Duw, at y ffiaidd eilun-addoliaeth hwnw; ac er hyny hyd yn awr, hwy a aethant ar ol y cyfryw eilunod ac arferion ffiaidd, ag oedd fwyaf dymunol gan eu calonau trofäus. SCOTT.

Adn. 14. *Dyro iddynt.* Gweddi dosturiol o eiddo y prophwyd yw y geiriau hyn, na byddai i'r plant gael eu geni a'u magu i'r lleiddiad. GILL, *Esgob* HALL.

Adn. 15. *Bwriaf hwynt allan o'm tŷ,* neu "o'm teulu." Yr oedd Duw yn penderfynu eu bwrw hwynt ymaith am na's gwrandawsent arno ef. SCOTT.

## PEN. X.

Adn. 1—3. *Gwinwydden wag yw Israel.* Cydmarwyd Israel lawer gwaith i winwydden, yr hon nid yw yn werthfawr ar un cyfrif ond ar gyfrif ei ffrwyth; ond yma cwynir fod y genedl wedi myned yn winwydden wag, na's dygai ffrwyth i berffeithrwydd. Yr oeddynt nid yn unig yn treulio eu llawnder arnynt eu hunain; ond yr oedd y pethau a ellid gyfrif yn weithredoedd da yn deillio oddiar egwyddorion hunanol, ac nid unrhyw ofal am ogoniant ac ewyllys Duw. Yn ol cynnydd eu golud, trwy gynnyrch eu tir da, yr oeddynt yn lluosogi allorau a delwau, yn yr hyn yr oedd rhyw rith gwych o grefydd, ond yr hyn oedd yn ffieidd-dra yn ngolwg yr Arglwydd, am hyny yr oedd efe yn amcanu dystrywio eu hallorau a'u delwau trwy yr Assyriaid; a'u gadael heb frenin na phen i'w hamddiffyn, nes y byddai yn rhaid iddynt gyffesu mai am nad ofnasant yr Arglwydd y'u dygasid i'r fath sefyllfa, fel na's gallai un brenin eu hamddiffyn hwy yn effeithiol rhag eu distrywio. SCOTT.

Adn. 4. *Gan dyngu annudon, &c.* Er eu bod wedi cymeryd llw o ffyddlondeb i Moses, y mae yn ymddangos oddiwrth y geiriau hyn nad oeddynt yn ffyddlawn.—*Tarddodd barn,* neu gosbedigaeth,—*Megis wermod.* Cosbedigaeth yn dilyn camwedd yn ddisymmwth, ac yn ei ddilyn mor gyffredin ag y tŷf wermod yn rhychau y maesydd. BOOTHROYD.

Adn. 5. *A ofnant,* rhag na bydd gan eu lloi dduwiau allu i'w hamddiffyn eu hunain. W. LOWTH.

Adn. 6. *Efe a ddygir i Assyria,* sef y llô aur, eu heilun, yn nghyda golud ei deml, a ddygwyd yn anrheg i frenin Assyria.

Adn. 7. *Ei brenin a dorrir ymaith,* yr oedd llawer o'u breninoedd wedi eu torri ymaith trwy ddwylaw y lleiddiaid; ac fe dorrid Hosea ymaith yn fuan gan frenin Assyria, fel na's meddai allu i'w wrthsefyll. BOOTHROYD.

Adn. 8. Gwel Nod. ar Esa. 2. 13—22. Luc 23. 30.

Adn. 9, 10. *Er,* neu yn fwy nac yn *nyddiau Gibeah;* cymh. Barn. 20. 22—48. Y pryd hyny, beiddiodd llwyth Beniamin ei hunan amddiffyn *plant anwiredd,* neu y pechaduriaid mwyaf ysgeler; ond yn awr, yr oedd yr holl genedl wedi ymlygru yn drwyadl. Er i'r Beniaminiaid ddyoddef yn chwerw yno, eto dihangodd llaweroedd o honynt, ac arbedwyd torfeydd o bechaduriaid trwy y tir; ond yn y farn oedd ar ddisgyn ar Israel, yr oedd pawb i

gael eu gwrthod, a phawb i gael eu bwrw o'r tir.—*Pan ymrwymont yn eu dwy gwys;* neu, "pan eu cosbir am eu dau anwiredd." BOOTHROYD, gan ddilyn y *Sept.* y *Vulg.* y Syriaeg, a'r Arabaeg. Y ddau anwiredd hyn mae yn debyg a ddynodai loi Dan a Bethel.

Adn. 11. Yr oedd yr Israeliaid yn caru rhagorfreintiau a manteision allanol pobl Dduw, fel y mae yn dda gan anner wedi ei dysgu i gerdded trwy yr ŷd, yr hyn nid oedd waith caled, ac o'r hwn y caent ryddid i fwytta; ond nid oeddynt yn caru llafur caled, a hunan-ymwadiad yn ngwasanaeth yr Arglwydd. Ceisiasai Duw eu dysgu i ufudd-dod trwy ffordd esmwythach, fel yr arfera yr ammaethwr roi yr iau yn dyner ar wddf teg yr anner ieuanc, i'w pharottoi at waith. Ond gan nad oedd hyny yn atteb y dyben, efe a'u darostyngai i galedi mwy, fel a oddefir gan yr anifeiliaid a ddefnyddir i farchogaeth, yr asyn, y march, a'r camel; a dygid Judah, a holl dŷ Judah i gaethiwed gan yr Assyriaid, a'r Caldeaid, fel pe buasent yn cael eu gosod i aredig a thorri y cwŷsi; gan eu bod yn ymryson yn erbyn iau esmwyth gorchymynion Duw. SCOTT.

Adn. 12, 13. *Canys y mae yn amser.* Mae cyffelybiaeth y testyn yn rhoi ar ddeall fod yr Arglwydd yn eu galw i edifeirwch yn bresenol; ac mai dyma oedd yr amser priodol iddynt i edifarhau, er gochel y barnau dwyfol. Ond yn lle hyny, arddu drygioni a wnaethant hwy.

Adn. 14. *Beth-arbel,* nid oes genym un hanes bendant am y ffaith a grybwyllir yma, ond y mae rhai yn meddwl mai Salmanesser a feddylir wrth y *Salman* hwn, ac yr oedd amryw drefydd yn cael eu galw *Arbel,* at un o ba rai y dichon fod yma gyfeiriad. GILL. Beth-arbel oedd le yn Armenia, enwog wedi hyny, am mai yno y gorchfygwyd Darius, brenin olaf Persia, gan Alexander.

Adn. 15. *Ar foreu gwaith,* yn sydyn, ac annysgwyliadwy. Wedi nos o adfyd, pan ddisgwylient am foreu o lwyddiant dan deyrnasiad Hosea, efe a dorrid ymaith yn ddisymmwth, a gadewid y bobl yn ddigymhorth yn nwylaw eu gelynion.

## PEN. XI.

Adn. 1. *Pan oedd Israel yn fachgen,* yn mabandod ei gyflwr gwladol ac eglwysig yn yr Aipht, ac yn yr anialwch. POOLE, GILL, LOWTH, CLARKE.—*Mi a'i cerais ef, ac a elwais fy mab o'r Aipht.* Er mai Israel a olygid yma yn gyntaf, mae yn ddiau fod yma amnaid gan yr Ysbryd Glân at alwad y bachgen Iesu o'r un wlad. Cymh. Matt. 2. 15. JEROME, HORSLEY.

Adn. 2. *Fel y galwent arnynt,* &c. Mae y cyfieithiad cyffredinol yn ymddangos yn dra thywyll, ac y mae y cyfieithiad canlynol o eiddo BOOTHROYD lawer yn oleuach;—"Pan alwn arnynt hwy a gilient oddiwrthyf," &c.

Adn. 3. *A ddysgais i Ephraim gerdded,* cyfeiriad at ddall y

fammaeth yn dysgu ei baban i gerdded, felly yr ymddygasai Duw hyd yn nod at y deg llwyth gwrthryfelgar yn y modd tyneraf, gan eu cadw rhag cwympo, ac iachau eu harchollion, eto ni chydnabuont ef yn ddiolchgar fel eu Hiachawdwr.

Adn. 4. *A rheffynau dynol*, fel y tynir plant serchog, felly tynnais innau chwithau â nerth cariad.—*Codi yr iau*; cyfeiriad at ddull yr amaethwr yn cyfodi yr iau i esmwythau ar wddf y creadur llafurus; ac ynddynt dynodir fod Duw wedi rhoddi gorphwysdra ac esmwythdra iddynt hwy.—*A bwriais attynt fwyd*, neu, "A gogwyddais attynt, arweiniais hwynt."

Adn. 5. *Ni ddychwel efe i wlad yr Aipht.* Dygasai Duw hwynt o'r Aipht; ac ni chaent ddychwelyd yno: ond wedi colli nawdd Duw, fe'u caethgludid i Assyria. CLARKE.

Adn. 6. *Ei geinciau ef*, cyffelybiaeth drwy yr hon y darlunid pennaethiaid y wlad, a'u dewiniaid.

Adn. 7. Yr oedd y fath gyndynrwydd mewn gwrthgiliad yn eu meddyliau, fel na's ufuddhaent i alwadau taeraf y prophwydi arnynt at addoliad y Goruchaf, ac na's dyrchafent ef, ond mawrygu eu heilunod yn ei le ef.

Adn. 8—11. Yr oedd cyfiawnder manol yn gofyn i Israel gael eu gwneyd fel Admah a Seboim, y rhai a ddinystriwyd gyda Sodoma a Gomorrah â thân o'r nef, fel na's diangodd neb o honynt; ond yr oedd trugaredd fel yn dadleu yn erbyn y cyfiawnder llym yma, canys pa fodd y gallai yr Arglwydd roddi ei Israel i fynu i'r fath ddistryw ofnadwy?—*Ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim*, yr hyn a led arwyddai y dychwelai i achub.—*Ac nid af i mewn i'r ddinas*; neu, "Ac ni ddeuaf mewn llidiawgrwydd i'th erbyn."—SCHROEDER, DATHE, MICHAELIS, BOOTHROYD. Cyfarch Ephraim y mae Duw yn y geiriau hyn, ac nid oes yma un cyfeiriad at ddinas yn yr ymadroddion blaenorol na dylynol, ond addewid o ffafr a thiriondeb, pa fodd bynnag y ceryddai Duw hwynt, na's gwnai ddiwedd hollawl ar ei bobl.—*Ar ol yr Arglwydd yr ânt.* Pan amlyga Duw ei allu yn eu gwaredigaeth, hwy a ymattaliant oddiwrth eilunaddoliaeth.—*Yna meibion o'r gorllewin a ddychrynant*; neu, "yna y prysura eu meibion o'r gorllewin, prysurant fel aderyn o'r Aipht. Bu feirw y tadau yn yspaid y deng mlynedd a thriugain, ond y meibion a fuant fyw, a dychwelodd llawer o honynt o'r Aipht, ac o Assyria ar gyhoeddiad Cyrus. BOOTHROYD.

Adn. 12. *Mae Judah eto yn llywodraethu gyda Duw*, yn cadw cyfreithiau Duw, yn glynu wrth ei addoliad proffesedig ef, ac yn bobl ffyddlawn mewn cydmariaeth i Israel. BOOTHROYD.

## PEN. XII.

Adn. 1. *Yn ymborthi ar wynt*, yn mabwysiadu cynghorion gweigion a niweidiol. Gwel Job 15. 2. Yr oedd y dwyreinwynt yn ddeifiawl ac afiachus. BOOTHROYD.

Adn. 4. ***Wylodd ac ymbiliodd.*** Nid yw yr Hanesydd yn son dim am hyn yn Gen. 32; ond y mae yn ddiau fod yr amgylchiad y cyfryw ag a barai i un wylo ynddo; ac efe ei hunan a alwai yr adeg yma ar ei einioes yn ddydd ei gyfyngder, gwel Gen. 35. 3. —*Yno yr ymddiddanodd â mi*, oblegid fod yr hyn a ddatguddiodd Duw i Jacob, yn perthynu i'w had cystal ag iddo ef ei hunan. Yr angel oedd yr ymddiddanydd; ond fe chwanegir am dano, *sef Arglwydd Dduw y lluoedd ;* o ganlyniad rhaid mai Angel y cyfammod, y Messiah, ydoedd efe; canys ni's gellir galw un angel arall ar enw annghyfrannogol y Duwdod, 'Arglwydd Dduw y Lluoedd.' —*Yr Arglwydd yw ei goffadwriaeth*, ei enw cyfaddas, parhaus, a neillduedig. Gwel Exod. 3. 15, Salm 135. 13.

Adn. 6 Dyma gasgliad tra phriodol oddiwrth y ffeithiau at ba rai y cyfeiriwyd yn adn. 3—5. Gan fod yr Arglwydd wedi bod mor oludog mewn gras i'w tad Jacob, mai doethineb yr Isräeliaid oedd ymdebygu i'w tad, trwy ddychwelyd at yr Arglwydd âg wylofain a deisyfiadau, mewn ufudd-dod i'r ddeddf Ddwyfol yn nghylch cyfiawnder a thrugaredd. DAVIDSON.

Adn. 7–9. *Marsiandwr yw efe.* Mae y geiryn yn ammwys, a gellid ei gyfieithu "Canaanead". BOOTHROYD. Nid yw yn ddim amgen na Chanäanead twyllodrus, mab y felldith, nid Jacob, y duwiol, ettifedd yr addewid. HORSLEY. Yr oedd trigolion Canaan neu Phenicia, yn ymwneyd llawer iawn â masnach, fel yr oedd yr enw Canaanead neu drafnidiwr yn cael eu harfer yn gyfystyr; am fod yr Israeliaid yn arfer trafnidio ar egwyddorion Canaaenaidd, yn gybyddlyd ac anwireddus, gan arfer cloriannau twyll â charu gorthrymmu, y'u gelwir wrth yr enw hwn. Eto yr oedddynt hwy yn ymwenieithio iddynt eu hunain er maint a gondemnid arnynt gan y prophwydi na's gellid eu dal yn euog o arfer unrhyw ddichellion anwireddus i gynnyddu mewn golud, yr hyn a ellid yn briodol ei alw yn bechod, ac a deilyngai lid Duw; ac yn tybied y gellid esgusodi yr hyn ni's gellid ei gyfiawnhau yn hollawl. Ond yr Arglwydd, yr hwn fel eu Duw a fuasai mor dirion o honynt er pan y'u gwaredwyd o'r Aipht, a u bwriai o'u tai teg, i breswylio mewn pebyll gwaelion fel crwydraid yn mysg y cenhedloedd. SCOTT, HENRY, BOOTHROYD. Mae eraill yn meddwl mai addewid ac nid bygythiad yw y geirian, y byddai i'r Arglwydd roddi iddynt feddiant tawel o wlad Canaan, eu tir eu hunain, drachefn, lle y byddai iddynt gydnabod eu gwaredigaeth o'r Aipht, a'u sefydliad yn ngwlad yr Iuddewon, yn ddiolchgar, yr hyn oedd y dyben o gadw gwyl y pebyll. LOWTH.

Adn. 10, 11. Mae yr adnodau hyn yn gyssylltiedig, a'r ystyr debyccaf yw, fod y bobl yn ymgyndynu mewn eilunaddoliaeth, er i'r Arglwydd ddefnyddio ei weision y prophwydi, i'w rhybuddio. BOOTHROYD.

Adn. 12—14. Dygir esampl Jacob yn mlaen eto er dangos ffieidd-dra ymddygiad ei hiliogaeth. Efe a ymneillduodd yn alltud, er mwyn gochel ymuno â'r eilunaddolwyr oeddynt yn nhir yr addewid, hwythau a ymgyfathrachent âg eilunaddolwyr gwledydd pell, er eu rhybuddio o'r gosbedigaeth a ddisgynai arnynt o herwydd hyny. A phan oedd hiliogaeth Jacob wedi eu darostwng yn fawr yn yr Aipht, trwy brophwyd, sef Moses, y darfu i Dduw eu gwaredu, felly yn ddiau ni ddylasent hwy ddiystyru y prophwydi. SCOTT.

## PEN. XIII.

Adn. 1. Mae darlleniad BOOTHROYD o'r adnod hon yn gosod y synwyr allan lawer yn rhagorach na'r Cyfieithiad cyffredin;—fel hyn y mae,— "Pan lefarodd Ephraim yn grynedig, efe a ymddyrchafodd yn Israel." Tra fu efe yn anrhydeddu yr Arglwydd, efe a fawr berchid gan ei frodyr; ond yr oedd eilunaddoliaeth y llwyth hwn fel rhyw bla marwol, a'u dug i ddystryw trwyadl.

Adn. 2. *Cusanant y lloi.* Cusanu eilun oedd y dull mwyaf difrifol o gyflwyno addoliad iddo. HORSLEY. 1 Bren. 19, 18. Job 31. 27.

Adn. 5. *Mi a'th adnabum,* neu, "a'th addefais," *yn y diffaethwch;* efe a ddangosodd serchawgrwydd tadawl tuag attynt, a gofal am danynt y pryd hyny, pan oeddynt yn isel iawn eu cyflwr.

Adn. 6. Mae yn debyg mai y prif beth a ddangosir yn yr adnod hon yw, eu bod yn cael eu diwallu mor helaeth yn yr anialwch, ag y gallasent gael yn Nghanaan; a bod hyny wedi bod yn achlysur iddynt i annghofio Duw. DAVIDSON.

Adn. 7, 8. Mae y cyffelybiaethau a ddefnyddir yma yn dangos mor ofnadwy y cosbai Duw hwynt o'r diwedd am eu heilunaddoliaeth, a'u gwrthgiliad cywilyddus.

Adn. 11. *Rhoddais it' frenin, &c.* Mae rhai yn priodoli hyn i Hosea; 2 Bren. 17. 1; ond y mae môr wirioneddol am y swydd freninol yn y ddwy freniniaeth. Caniattäodd Duw i'r swydd freninol gael ei sefydlu yn y naill a'r llall o herwydd caledrwydd eu calonnau hwy, ac yn ei lidiawgrwydd y rhoddes derfyn arni, gwel 1 Sam. 8. 9—22.

Adn. 13. *Mab anghall yw efe*: hyny yw, ffol, difeddwl, anystyriol, onite efe a fuasai yn y fan yn arfer moddion priodol er ei waredigaeth. Rhaid i'r baban drengu, oni's dianga mewn pryd o'r groth; a thrwy y gyffelybiaeth yma dysgai y prophwyd Ephraim, fod yr adeg wedi dyfod pan yr oedd yn rhaid iddynt fyned i gaethiwed neu ddychwelyd at yr Arglwydd. Gwel Esa. 37. 3.

Adn. 14. *O law y bedd yr achubaf hwynt.* Er mor anobeithiol y gallai eu cyflwr fod, byddai i Dduw eu gwaredu yn ei amser ei hunan; gwel Salm 56. 13. a 71. 20. a 86. 13. Ond y mae i'r

geiriau ystyr arall, mwy gorwych ac ysbrydol. y cyfryw draws-symmudiad ag sydd gyffredin gan y prophwydi,—gwaredigaeth drwyadl y saint odditan awdurdod pechod a marwolaeth, yr hyn a berffeithir gan Grist. 1 Cor. 15. 54. W. LOWTH.—*Cuddir edifeirwch o'm golwg;* hyny yw, ni byddai yn edifar gan Dduw benderfynu eu hachub hwy, byth, neu, fod ei fwriad i lyncu angau, a hoi tranc ar y bedd trwy y Messïah, yn annewidiol; ond y mae eraill, ac yn eu mysg yr enwog HORSLEY, yn cyssylltu y geiriau nyn â'r adnod ganlynol, gan ei ddarllen fel cwyn o herwydd ymddygiad anedifeiriol y genedl yn wyneb pob triniaeth:—"Nid oes edifeirwch yn weledig i'm llygaid." Nid oedd y bygythion mwyaf arswyd-lawn o farnedigaethau, a'r addewidion graslonaf o drugaredd, yn effeithio ar Israel; ni's gwelai yr Hwn yr oedd eu meddyliau cystal a'u gweithrediadau yn amlwg iddo, un arwydd edifeirwch ynddynt. DAVIDSON.

Adn. 15, 16. *Er ei fod yn ffrwythlawn,* y lluosoccaf a'r grymmusaf o'r deg llwyth.—*Gwynt y dwyrain,* brenin Assyria, yr hwn oedd i'r dwyrain o Judea, a ddaw a byddin ddinystriol fel y deifwynt dwyreiniol yn dyfod dros y diffeithwch, ac a'i difa, fel y gwywa, ac y derfydd am ei ffrwythlondeb. W. LOWTH.

## PEN. XIV.

Adn. 1. *Ti a syrthiaist trwy dy anwiredd.* Yr oeddynt wedi cwympo i'r cyflwr iselaf; canys yr oeddynt wedi eu hamddifadu o'u rhyddid, ac wedi tynu arnynt eu hunain euogrwydd mawr, fel ag yr oeddynt ar ddarfod am danynt am byth. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Cymerwch eiriau gyda chwi.* Ni's gofynir iddynt ddwyn aberthau ac offrymmau gyda hwy, ond gweddïau edifeiriol ffrwyth y gwefusau, ac nid yn unig y gwefusau, ond y galon hefyd, os amgen nid yw geiriau ond gwegi. HENRY.—*A thalwn i ti loi ein gwefusau,* neu "ffrwyth ein gwefusau." *Sept, Arab,* MEDE, LE CLERC, BOOTHROYD. Defnyddir gwefusau yma yn draws enwawl am y moliant a draethir â'r gwefusau. HORSLEY.

Adn. 3. *Assur,* neu Assyria, ar y rhai yr ymddibynnai meibion Israel lawer yn oes y prophwyd.—*Ni farchogwn ar feirch,* gwaherddid i freninoedd Israel luosogi iddynt eu hunain feirch, Deut. 17. 16. Esa. 31. 1. Mae y rhai hyn ac eilunod yma, yn dynodi pob gwrthddrychau crëedig o ymddiried dynol.—*Amddifaid,* gair yn arwyddo bod yn llwyr ddi nodded. Gwel Ioan 14. 18. DAVIDSON.

Adn. 4. *Meddyginiaethaf eu hymchweliad,* ni chwympasant i eilunaddoliaeth byth ar ol y caethgludiad i Babilon. BOOTHROYD. Mae y geiriau hyn yn cynwys addewid o faddeuant a dychweliad iddynt. Gwel Salm 103. 3.

Adn. 5, 6. *A flodeua fel y lili;* fe fydd y maesydd yn nghyffinau Aleppo yn bwrw y lili allan yn lluosawg ar ol y gwlawogydd

cyntaf yn niwedd y flwyddyn. RUSSEL—*A leda ei wraidd megis Libanus*, fel y coed a dyfent arno. POCOCKE, W. LOWTH. Neu efallai fod y geiriau yn dangos y byddent mor ddiysgog ag oedd mynydd Libanus.

Adn. 7. *Dan ei gysgod ef*, hyny yw, dan nawdd y Goruchaf, Salm 91. 1.—*A ddychwelant*; hyny yw, A adferir i fywyd newydd. *Fel gwin Libanus*, yr oedd yr henafiaid yn rhoddi bri mawr ar y gwinoedd a gynnyrchid yn nghyffiniau Libanus. DAVIDSON.

Adn. 8. *A ddywaid*, fel y gall y darllenydd cyffredin ganfod wrth ei fod wedi ei argraffu mewn llythyrenau Italaidd, sydd chwanegiad at y testyn gwreiddiol, gan y rhai a farnent mai penderfyniad Israel ddychweledig yw y geiriau. Meddyliai HORSLEY mai yr Arglwydd oedd y llefarydd yn y geiriau, ac fel y canlyn y cyfieitha efe y geiriau; "Ephraim! Pa beth sydd i mi a wnelwyf âg eilunod mwyach? Attebais ef, a pharaf iddo flaguro fel ffynidwydden îr; o honof fi y ceir dy ffrwyth." Efe a farnai mai math o ymorfoleddiad o eiddo yr Arglwydd ar eilunod oedd y geiriau; "Ephraim! ïe, efe a ddychwelodd attaf fi. Nid oes ymrysonfa rhyngof â g eilunod mwyach; y maent wedi eu dymchwelyd yn drwyadl. Mae fy Nuwdod yn addefedig!"

Adn. 9. *Pwy sydd ddoeth, &c.* Pwy yn eich mysg a iawn ystyria y pethau hyn, fel y gallant eu gwybod yn wirioneddol? E addefa y cyfryw fod ffyrdd yr Arglwydd yn uniawn, yn y rhai y rhodia y cyfiawn; ond y troseddwyr a dramgwyddant yn nghanol y goleuni a ddylasai eu cyfarwyddo. BOOTHROYD. Wrth ffyrdd yr Arglwydd y golygir y datguddiad a wnaeth efe i gyfarwyddo dynion; a'i lywodraeth foesol drwy yr hon y cyflawna efe ei amcanion, yn ngogoniant ei enw ei hun, a dedwyddwch y rhai oll a'i haddolant ef mewn ysbryd ac mewn gwirionedd. Mae y rhai hyn yn uniawn ac yn esmwyth, Esa. 35. 8.—*Ond troseddwyr a dramgwyddant ynddynt*, neu yn hytrach gwrthryfelwyr, rhai cyndyn mewn anedifeirwch, gelynion annghymmodlawn Duw. Mae y rhai hyn yn tramgwyddo yn ffordd Duw; trwy eu calon a'u hymddygiadau trofäus, mae hyd yn nod trefn rasol Duw yn Nghrist yn cael ei defnyddio yn achlysur o gyfeiliornad a dinystr anocheladwy iddynt, gwel 2 Cor. 2. 17, 18. Heb. 10. 26—31. DAVIDS.

## JOEL.

*Ni's gellir bod yn sicr pa un ai cyn ai gwedi anrheithiad Israel yr oedd Joel yn byw. Meddyliai Drusius a Newcome ei fod yn byw yn yspaid teyrnasiad maith Manasseh, a chyn ei dröedigaeth 2 Cron. 33. 13; fel ag yr oedd efe yn prophwydo tra yr oedd breniniaeth Judah eto yn sefyll. Mae ei brophwydoliaeth fer yn cynnwys tri pheth yn bennaf:—Barn gyffredinol trwy locustiaid yn yn cael ei rhoi ar y bobl;—ymddangosiad rhyfedd breniniaeth y*

*Messiah, ar ei gyfodiad; a'i buddugaliaeth drwyadl ar ei gelynion o'r diwedd. Mae y synwyr yn dywyll weithiau oddiwrth natur ei destunau, ond nid yw felly byth oddiwrth ei ddull, iaith, yr hon y cyduna y beirniaid i'w chanmol fel un ragorol berffaith.*

## PEN. 1.

Adn. 1. *Gair yr Arglwydd yr hwn a ddaeth.* Dyma yr ymadrodd a arferir yn gyffredinol fel arweiniad i ddatguddiad neu brophwydoliaeth newydd, ac y mae yn ddigonol i wrthdaro y dyb mai gwneyd defnydd ymarferol o amgylchiad mynedol yr oedd Joel, yn hytrach na rhag-hysbysu yr hyn oedd i gymeryd lle.

Adn. 2, 3. Ni's gwelsid yr un adfyd gan yr henaf yn fyw, ac ni's gwelid eto dros dair cenhedlaeth o'u hiliogaeth, mor ofnadwy yr olwg arno, ac mor ddinystriol ei effeithiau. Mae hyn wedi peri i rai feddwl mai arwyddluniol o fyddinoedd dinystriol y Caldeaid neu y Rhufeiniaid oedd y locustiaid hyn. A pha mor ofnadwy bynnag a fyddai y farn trwy yr hon y difëid pob gwyrddlysiau, mae yn ddïau fod y farn a ddisgynodd ar y wlad trwy Nebuchodonosor, yn amlygiad grymusach o ddigofaint y Nef. DAVIDSON.

Adn. 4. Meddylir yn gyffredin fod yr amrywiol enwau yma yn dynodi gwahanol rywiau o'r locustiaid, yr oedd y DR. CLARKE yn gryf o'r farn mai dynodi gwahanol ansoddion y locust o ddechreuad ei fodoliaeth hyd ei lawn dŵf y mae yr enwau gwahanol hyn. *Ylindys*, yn Hebraeg a arwyddocca, torri yn fyr:—*y locust*, lluosogi:—*pryf y rhwd*, llyfn:—*y ceiliog rhedyn*, bwytta i fynu, neu ddifa.

Adn. 5. *Deffrowch, feddwyr.* Gellir casglu fod meddwdod yn bechod tra chyffredin yn mysg y genedl y pryd hyn. POCOKE.—*Am y gwin newydd*, niweidiai y locustiaid y gwinwydd, nes peri anmhariad ar y gwin dros rai blyneddoedd. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Cenhedlaeth gref*, y mae pryfed yn cael eu personoli fel hyn yn fynych; ac efallai fod y locustiaid yn cael eu galw fel hyn yn enwedig, oblegid eu lluosowgrwydd a'u trefnusrwydd; gwel Diar. 30. 25, 26.—*A ddaeth i fynu*, mae y prophwyd yn llefaru fel un a fuasai wedi gweled eu hanrheithiadau dinystriol, ac felly y sonir am amgylchiad dyfodol yn aml fel peth mynedol. BOOTHR.

Adn. 8. *Uda fel gwyryf*, neu briodferch ieuanc, galar yr hon am golli ei gwr a fyddai yn dra dwys, mewn cyfartaledd i'w llawenydd ar ddydd ei phriodas. Darlunir y ddau deimlad fel y mwyaf o'u rhyw; gan hyny y mae y gyffelybiaeth yn arwyddo fod y cystudd trymaf ar syrthio ar Israel.

Adn. 9—13. Darlunir y prinder mor fawr, fel na byddai dim wedi ei adael tuag at yr offrwm beunyddiol, a gelwir ar weinidogion y cyssegr i alaru yn anad neb. Yr oedd Duw wedi

gwneyd addewidion arbenig i dŷ Aaron; ac yr oedd bod yr offeiriaid yn cael eu gadael heb ymborth, a'r deml heb offrymmau, yn arwydd cryf o'i anfoddlonrwydd a'i ddigofaint; yr oedd yn arwydd hefyd y byddai i'r anifeiliaid drengu o eisiau ymborth. Yr oedd ŷd, gwin, ac olew, yn gwneyd i fynu brif gynhaliaeth preswylwyr Canäan, gwel Sal. 4 7. Jer. 31. 12.—*Ymwregyswch*, â sachlian, yr hyn oedd gwisg gyffredin galarwyr.

Adn. 14, 15. *Cyssegrwch*, neu neillduwch amser pennodol i gadw *ympryd*. Mae y prophwyd yn y geiriau hyn yn cyfeirio at yr unig ffordd trwy ba un y gallent ddisgwyl i'r barnedigaethau hyn gael eu troi draw, sef trwy ymostwng o honynt yn edifeiriol ger bron Duw.—*Dydd yr Arglwydd sydd yn agos.* Mae dydd yr Arglwydd weithiau yn arwyddo tymhor yn yr hwn y gwneir amlygiad nodedig o ogoniant Duw yn nghosbedigaeth yr anufuddion, a dyrchafiad ei bobl; gwel Esa. 13. 6, 9. Ezec. 30. 3. Mal. 4, 5. 1 Cor. 5. 5. Fe'i priodolir yn bennaf at amser gwrthodiad yr Iuddewon, a'r farn ddiweddaf; hwyrach mai y cyntaf yw yr hyn a olygir yma, cymh. pen. 2. 1, 28, 31; ond y mae y rhan fwyaf o Esbonwyr yn ei briodoli i'r farn drwy locustiaid: a meddyliant fod y cyfryw olygiad yn cael ei gefnogi drwy yr hyn a ddywedir am dano ei fod *yn agos*; ond fe ddefnyddir y cyfryw ymadrodd am amserau pell, fel y gwelir yn Matt. 24. 32—35.

Adn. 16. *Oni thorrwyd yn ngwydd ein llygaid?* yr hyn a arwydda fod y ddaiar wedi dwyn peth ffrwyth, ond ei fod wedi cael ei ddifa cyn cyflawn addfedu. Yr oedd y llawenydd a'r digrifwch wedi ei dorri oddiwrth dy Dduw, hyny yw, nid oedd yr un wyl yn cael ei chadw, am na feddai yr offeiriaid ddim i'w offrymmu yn aberth.

Adn. 17, 18. Ychwanegid at bla y locustiaid, sychder mawr, fel yr oedd yr ŷd a'r llysiau yn gwywo o ddiffyg gwlybwr, a'r anifeiliaid yn trengu o eisiau ymborth a dwfr. BOOTHROYD.

Adn. 19. *Y tàn a ddifäodd*, wrth yr hwn y golygir y sychdwr angerddol, *Esgob* HALL, SCOTT, HEWLETT. Gwneid tânau mawrion yn aml i attal difrod y pryfaid hyn, a'r tânau hyny a wnaent lawer o niwed. T. WILLIAMS.—*Porfeydd yr anialwch*, y llannerchau hyny yn yr anialwch lle y gallasai dïadellau ymborthi, Sal. 65. 12. NEWCOMBE.

## PEN. II.

Adn. 4. Mae yn ymddangos yn lled eglur oddiwrth y geiriau hyn fod Joel yn cyfarch breniniaeth Judah, ac am hyny nid yw yn annhebyg fod y deg llwyth eisoes wedi eu caethgludo. Arferai yr offeiriaid chwythu mewn udgyrn i wysio y bobl yn nghyd i addoli, neu i ryfel: efallai mai at yr olaf y cyfeirir yn y geiriau hyn; yr hyn a arwyddai fod perygl dirfawr gerllaw, gwel Amos 3. 6. Hos. 5. 8. Ezec. 23. 3, 5. Arferid pob moddion naturiol i

attal difrod y locustiaid, megis cloddio pydewau a ffosydd, cynneu tânau mawrion, a'r cyffelyb ddyfeisiau.

Adn. 2, 3. Oddiyma hyd adn. 11. Darlunir difrod y locustiaid; a'u dystryw, adn. 20.—*Diwrnod tywyll, &c.* darluniadau priodol o luosogrwydd y locustiaid, y rhai yn heidiau mawrion a dywyllent yr awyr, fel cymmylau olynol; a sonia teithwyr am y cyfryw gymmylau o locustiaid, y rhai a attalient belydr yr haul ar ddeuddeng milldir o dir.—*Fel y wawr wedi ymwasgaru*, cyfeiriad at ymddangosiad disymmwth y locustiaid neu gyflymdra eu hysgogiadau. Dystrywiant daleithiau cyfain mewn amser byr anhygoel o'r bron, a phob moddion i'w hattal a ganfyddir yn ofer. Heidiau a ddylynant heidiau, y rhai blaenaf ni ofalant am berygl, a'r rhai olaf a wasgant arnynt fel na's gallant encilio. Maent yn annifeiriol, a phan fyddo un hiliad wedi cychwyn, y mae un arall yn cael ei ddëor i fyned i loffa ar eu hol: anrheithid y tir ganddynt megys gan dân, a'r hyn oedd y dydd o'r blaen fel Eden, a ddeuai yn bresenol fel anialwch. DAVIDSON.

Adn. 4, 5. Dywaid naturiaethwyr fod cyffelybrwydd mawr rhwng pen y locust a phen y march; a dywedir y clywir swn byddin o honynt dros chwe' milldir o ffordd; ac y mae eu trwst pan yn bwytta, fel trwst fflam a yrrir o flaen y gwynt. Mae ymsymmudiad rhai rhywogaethau o honynt yn debyccach i lammiad nac i ehediad. DAVIDSON.

Adn. 6—9. *Er eu syrthio ar y cleddyf nid archollir hwynt.* Maent wedi eu gorchuddio â math o gèn fel arf wisg, fel na's gellir eu dinystrio â'r cleddyf; neu efallai fod y geiriau yn arwyddo aneffeithiolrwydd unrhyw foddion dynol i roi attalfa arnynt.

Adn. 10. *O'u blaen y cryn y ddaear.* Daeargrynfäau, a thywylliad goleuadau y nef ydynt gyffelybiaethau tra nodedig o annghyfannedd-dra, dychryn, a chyfyngder dirfawr.

Adn. 11. *A'r Arglwydd a rydd ei lef o flaen ei lu.* Fel cadfridog, efe a rydd ei orchymyn i'w fyddin hon, ac a bair i'r dosparth dystadlaf o'i greaduriaid fod yn offerynau effeithiol o'i ddïaledd. W. LOWTH,

Adn. 12—14, *A'ch holl galon*, na fydded yn rhanedig rhwng Duw ac eilunod. POCOKE.—*Rhwygwch eich calon, ac nid eich dillad.* Yr oedd hi yn ddefod arferedig i alarwyr rwygo eu dillad yn arwydd o'u galar, ond fe'u gelwir yma i rwygo eu calon, hyny yw i ddychwelyd at yr Arglwydd yn edifeiriol a diffuant.—*A gweddill bendith ar ei ol*, neu a gadael bendith, neu rodd haelionus ar ei ol. BOOTHROYD.

Adn. 16. *Cyssegrwch y gynnulleidfa*, drwy roi y gorchymyn am fwrw ymaith yr eilunod, mewn grym, ac ymlanhau yn ol y ddeddf; gwel Gen. 35. 2. Exod. 19. 14, 15.—*A'r rhai yn sugno bronnau*, canys yr oedd y babanod i gael eu dwyn i'r cynnulleidfäoedd cy-

hoeddus, 2 Cron. 20. 13.—*Deued y priodfab allan o'i ystafell*, galwad neillduol i hunan ymwadiad, neu ymattaliad hyd yn nod oddiwrth bob pleserau cyfreithlawn. DAVIDSON.

Adn. 17. *Rhwng y porth a'r allor* oedd sefyllfa briodol yr offeiriaid, dyledswydd pa rai oedd offrymmu aberthau a gweddïau dros y bobl, y rhai a safent yn y cyntedd agored, 2 Cron. 8. 12. Yr oedd y prophwyd yn eu rhybuddio yn y geiriau hyn fod y farn yn dyfod, ac am hyny na's dylent golli dim amser i ymdrechu i ffoi rhagddi a'i gochel: ond dylai gweinidogion a phobl ymuno mewn ympryd a gweddi.

Adn. 18—20. *Yna yr Arglwydd a eiddigedda*, ar eu hedifeirwch diffuant fe drugarha Duw wrthynt, ac a enfyn iddynt dymhorau ffrwythlawn, gan symmud y gogleddlu, sef y locustiaid, y rhai a flinent Syria, yr hon oedd yn gorwedd ar y tu gogleddol i Judea. Mae yn ddïau mai gwynt gogleddol a'u dygasai i Judea, canys y mae Duw yn addaw newid y gwynt a gyru y llu difäol yma *i dir sych a diffaeth*, sef Arabia,—*Môr y Dwyrain*, y Môr Marw, yr hwn oedd i'r dwyrain o Jerusalem.—*Y môr eithaf*, sef Môr y Canoldir, gwel Deut. 11. 24.—*A'i ddrewi a gyfyd*, oddiwrth y cyrph meirw a olchid i'r lán gan donnau y môr. Dywaid JEROME fod yn ei amser ef heigiau o locustiaid yn Judea, y rhai wedi eu gyrru i'r môr, a gludid yn ol gan y llanw ac a adawid ar y glannau, a'u harogl drwg a achlysurai haint yn y wlad. Felly hefyd y mae yr hanesydd LIVY yn tystio i amgylchiad cyffelyb gymeryd lle yn Affrica. Minteioedd mawrion o locustiaid, y rhai a ddifäent bob gwyrdd-lesni a gludid gan wynt cryf i'r môr, y rhai wedi eu bwrw yn ol i'r làn, a lygrasant yr awyr, ac a fagasant haint mor ofnadwy fel y lladdwyd pedwar ugain mil o wyr yn mreniniaeth Masinissa, a deng mil ar hugain o warchawdlu Utica. DAVIDSON.

Adn. 21—27. Mae y prophwyd yma yn annog ei bobl i adnewyddu eu hymddiried yn yr Arglwydd, a'u llawenydd ar symmudiad y fath elyn, ac yn cyhoeddi addewidion gwerthfawr oddiwrth yr Arglwydd iddynt.—*A chewch wybod fy mod i yn nghanol Israel*, yn amlwg, ac yn gyrhaeddadwy iddynt oll, fel eu Duw, eu Hamddiffynydd, a'u Harweinydd. Ni's byddai mwyach fel un ymguddiedig yn eu mysg, wedi ei amgau â llen o fewn rhyw un lle cyfyng. Mae y gair "yn nghanol," yn fynych yn arwyddo eglurder neu gyhoeddusrwydd; Deut. 23. 14. Salm 46. 5. a 110. 2. a 116. 19. Diar. 5. 14. Ezec. 28. 22. Hos. 5. 4.

Adn. 28. *A bydd ar ol hyny*. Er y gallasai y bobl ymorfoleddu ac ymlawenychu yn adferiad ffrwythlonrwydd tymhorau y flwyddyn, ond y mae y prophwyd yn eu sicrau fod gan Dduw fendithion llawer mwy yn aros i'w roddi iddynt eto; canys deuai diwrnod, yn yr hwn y tywalltai efe o'r nef, nid cawodydd o wlaw yn unig, ond ei Ysbryd, yn y fath helaethrwydd, fel y byddai eu meibion a'u merched, eu henafgwyr a'u gwyr ieuainc yn prophwydo, Act. 2. 17. BOOTHROYD.

Adn. 30. *A gwnaf ryfeddodau yn y nefoedd.* Mae cyfeiriad yn yr adnod hon a'r un nesaf at ddinystr Jerusalem, a bod yr haul, y lloer, a'r ser yn cael eu troi yn waed, a arwyddocäai y byddai i'r tywysogion a blaenoriaid y bobl gael eu lladd. Cymh. Matt. 24. 29, &c. Luc. 21. 25 BOOTHROYD.

Adn. 32. Mae rhai yn meddwl mai diogelwch y Cristionogion yn yspaid y rhyfel Iuddewig yw yr hyn a olygir yma, ond haws genyf fi eu golygu gyd a'r apostol, yn arwyddo y waredigaeth oddiwrth bechod a thrueni a gafwyd trwy ein Harglwydd, ac a bregethir gan ei weision ef, Rhuf. 10. 13.

## PEN. III.

Adn. 1. *Yn y dyddiau hyny,* yspaid breniniaeth y Messiah, yr hyn a elwir weithiau, "Y dyddiau diweddaf." Mae yr Arglwydd yn addaw y bydd iddo fel gwystl o'r hyn a ragfynegwyd, adferu ei bobl i'w gwlad eu hun, a darostwng eu gelynion. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Casglaf hefyd yr holl genhedloedd.* Naill ai Twrciaid, am y rhai y prophwydwyd dan yr enw Gog a Magog yn Ezec. 38. 39, a thorfeydd o genhedloedd eraill gyda hwynt, y rhai a gynnullir yn erbyn yr Iuddewon, i geisio adennill gwlad Judea oddiarnynt, yr hon a feddiannant hwy ar eu hadferiad; neu ynte yr holl freninoedd a'r cenhedloedd annghristaidd, y rhai a gesglir i frwydr dydd mawr Duw Hollalluog, Dat. 16. 14. GILL.—*Dyffryn Jehosaphat.* Nid oedd yr un dyffryn o'r enw yma, am hyny y mae yn debyg mai enw arwyddluniol yw, o'r fan y bwriadai Duw lwyr ddymchwelyd gwrthwynebwyr ei eglwys ynddo. DR. CLARKE. Mae y gair o'i gyfieithu yn arwyddo "Dyffryn barnedigaeth Duw," yr hyn sydd gyffelyb i'r enw arall a roddir ar y lle, "Glyn terfyniad."—*Dadleuaf a hwynt,* sef trwy ei farnedigaethau. Cymh. Ezec. 17. 20. a 20. 35. a 38. 22. W. LOWTH.

Adn. 3. Mae yr holl ymadroddion yma yn cyfeirio at ymddygiad buddugoliaethwyr yr Iuddewon tuag at eu caethion, y rhai ni roddent un pris arnynt, ond yn unig fel moddion i borthi eu chwantau anianol eu hunain.

Adn. 4. *A delwch i mi y pwyth?* Ystyr yr hyn debygid yw. A ydych chwi yn cosbi fy mhobl am niweidiau y tybiwch i mi eu gwneuthur i chwï trwy eu hanrhydeddu hwy, pan y'u codais i urddas a gallu? DAVIDSON.

Adn. 5. *Fy nhlysau dymunol,* wrth yr hyn ond odid y golygid y pethau a offrymmid yn y deml. DAVIDSON. Hwyrach fod rhai o ddodrefn y deml wedi eu gwerthu i fasnachwyr Tyrus a Sidon. W. LOWTH.

Adn. 6. Yr oedd y Groegiaid yn trafnidio llawer â Thyrus, Ezec. 27. 13. DAVIDSON.

Adn. 8. *I'r Sabeaid,* gwel Esa. 45. 14. Job 1. 15. Pan gymmerodd Alexander Tyrus, efe a ddarostyngodd y bobl gyffredin

a'r merched, i gaethiwed; a dywaid un hanesydd fod deng mil ar hugain o honynt wedi eu gwerthu yn gaethion. Dinystriodd Artaxerxus Ochus, Sidon, a dinasoedd eraill Phœnicia, ac yn yr holl ryfeloedd hyn, nid esgeulusai Iuddewon, y rhai a ufuddhäent i'r Persiaid, brynu y caethion Phœniciaidd, y rhai a werthent hwy drachefn i'r Sabeaid, neu yr Arabiaid. CALMET, A. CLARKE.

Adn. 10. Cymh. Esa. 2. 4.—*Dyweded y llesg, Cryf ydwyf*, hyny yw, ni cha neb ymesgusodi o'r rhyfel yma, ni's gwiw dwyn yr esgusodion cyffredin rhag ymuno â'r fyddin ar yr achlysur hwn.—DAVIDSON.

Adn. 11. *Yno disgyn, O Arglwydd, &c.*, neu "Yno y disgyn yr Arglwydd dy gedyrn." BOOTHROYD.

Adn. 12. *Yr holl genhedloedd o amgylch*, sef y cenhedloedd paganaidd a ymunent i ddystrywio yr Eglwys. DAVIDSON.

Adn. 13. Mae dinystr gelynion Duw yn cael ei ddarlunio yma trwy y gyffelybiaeth o fedi y cynhauaf, a chynnull y grawnwin i'w sathru yn y gwasg-gafnau. A. CLARKE.

Adn. 14. *Torfeydd, torfeydd*, neu dorfeydd mawrion.—*Glyn terfyniad*, neu "y torriad," mae yr ymadrodd yn arwyddoccau torri ymaith, Lef. 22. 22. Job 14. 5.

Adn. 15. Mae y cyffelybiaethau hyn yn dynodi cyfnewidiad llywodraeth trwyadl yn mysg y cenhedloedd a ddarostyngid; cymh. pen. 2. 2, 30—32. Mae yn ddiau y bydd i'r rhai na's diwreiddir, gael eu darostwng i Grist; a'r golygiad yma a gadarnheir trwy yr hyn a ddywedir yn mlaen. DAVIDSON.

Adn. 16, 17. *A rua o Sion*. Tra fyddai yr Arglwydd yn llefaru ac yn dymchwelyd y cenhedloedd amgylchynol, efe a amddiffynai ei bobl ei hun; ac e wiriwyd hyn mewn mesur helaeth trwy Alexander Fawr, yr hwn a ddangosai ffafr a nodded i'r Iuddewon. BOOTHROYD.

Adn. 18. *Bydd i'r mynyddoedd ddefnynnu melyswin*. Darluniad barddonawl o ffrwythlonrwydd mawr.—*Ac a ddyfrha ddyffryn Sittim*, yr hwn oedd yn ngwastadedd Moab, tu hwnt i'r Iorddonen, Num. 33. 49. Jos. 3. 1, ond gan na's gallai unrhyw ffrwd ddwfr gyrhaedd y fan yma o'r deml, mae yn amlwg mai allegawl yw y geiriau hyn fel dyffryn Jehosaphat. Arwyddocäad y gair Sittim yw drain, ac e ddichon fod y geiriau hyn yn arddangos y byddai i'r anwareiddiaf a'r creulonaf o drigolion y ddaiar dderbyn Efengyl Crist, a chael eu gwareiddio a'u hachub trwyddi. A. CLARKE. Neu, efallai fod pellder y dyffryn hwn o Jerusalem, yn dynodi ehangder bendithion Duw. POCOKE.

Adn. 19. Gelynion galluoccaf a mwyaf annghymmodlawn y cyfiawn a ddiflanant, gan gael eu dystrywio, neu eu hennill i fod yn gyfeillion addefedig iddi.

Adn. 21. *Glanhaf*, neu "Dïalaf waed y rhai ni's dïelais."—BOOTHROYD. Sef gwaed ei weision, yr hwn a dywalltasai eu gelynion.

# AMOS.

*Y prophwyd hwn oedd frodor o Tecoa, dinas yn llwyth Judah, eto efe a breswyliai yn Israel ac a gyfeiriai ei brophwydoliaethau gan mwyaf yn erbyn y freniniaeth hono. Nid oedd efe yn un o'r prophwydi a ddygasid i fynu yn yr ysgolion a sefydlasai Samuel i feibion y prophwydi, ond bugail defaid ydoedd. Efe ydoedd y prophwyd nesaf o ran amser i Jonah, gan ei fod yn prophwydo yn amser Uzziah, yr hwn a deyrnasodd ar Judah, o'r flwyddyn cyn Crist* 809 *hyd y flwyddyn* 758. *Defnyddiai lawer o'i gyffelybiaethau oddiwrth amgylchiadau bywyd bugeilaidd, a chymhwysai hwynt yn dra medrus. Y cyfeiriadau at Amos yn y Testament Newydd ydynt, Act.* 7. 42, 43. *a* 15. 15—17. 1 *Cor.* 8. 10. *Ioan* 15, 15.

## PEN. I.

Adn. 1. *Y ddaeargryn*, cyfeirir at hyn yn Zechariah, 14. 5, ac yn ol barn LOWTH mai at yr unrhyw y cyfeiriai Esaiah, pen. 5 25. Darlunia JOSEPHUS rai o'i heffeithiau, ac a'i priodola o ran yr achos o honi, i waith Uzziah yn traws-gymeryd y swydd offeiriadol. BOOTHROYD.

Adn. 2—5. *Yr Arglwydd a rua o Sïon.* Mae yr un fath ymadodd i'w ganfod hefyd yn Joel 3. 16. Gwel hefyd Jer. 25. 30. Yr ystyr yw, y byddai i Dduw wasgaru dychryn yn fuan, fel bwystfilod gwylltion pan ruont, pen 3. 8. NEWCOME.—*A chyfanneddau y bugeiliaid a alarant*, neu "borfeydd y bugeiliaid," yn ol amryw gyfieithwyr. o herwydd eu dystrywio gan y sychder. GILL.—*Am dair*, neu, "Am anwireddau lawer Damascus." Mae yn ddiau mai yr ystyr yw llawer, neu amryw, ac nid rhyw dair neu bedair o anwireddau pennodol. BOOTHROYD.—*Am iddynt ddyrnu Gilead*, sef trigolion Gilead. Yr oedd y wlad yma yn gorwedd o'r tu hwnt i'r Iorddonen, ac yn cael ei phreswylio gan y Reubeniaid, a'r Gadiaid, a hanner llwyth Manasseh, y rhai a drinid yn dra chreulawn gan Hazael brenin Syria, fel y rhagfynegasai Eliseus, 2 Bren. 7. 12; nid yn llythyrenol, fel yn 2 Sam. 12. 31, ond efe a ymosodai arnynt, a'u blinai, a'u gorthrymai, ac a'u gwasgai megis y gwesgir ŷd yn y llawr-dyrnu. GILL.—*Anfonaf dân i dŷ Hazael*, sef barnedigaethau Duw. LOWTH. Crybwylla HARMER y niweid mawr a wneir trwy dân yn yr ŷd a'r porfeydd dwyreiniol; a'u bod yn arferol o flino eu gelynion trwy roddi y porfeydd a'r manwydd ar dân, felly y mae yn dra thebyg fod cyfeiriad yn y geiriau hyn at hyny. COBBIN.—*Dylliaf drosol*, neu, "drosolion Damascus, yr oedd pyrth a barrau yr hen ddinasoedd gynt yn dra chryfion, am hyny yr oeddynt yn wag hyder i'r bobl yn aml.—*Dyffryn Afen*, neu, "y gwagedd," a *thŷ Eden*, neu, "yr hyfrydwch," wrth y rhai, yn ol barn BOCHART ac amryw eraill, y golygid y dyffryn bras ar yr hwn y gorweddai Damascus.

Adn. 6—8. *Am iddynt gaethgludo y gaethiwed gyflawn*, neu, "lawer o honynt yn gaethion." Yr oedd hyny ei hunan yn anffawd fawr ar Israel, ond chwanegwyd at eu hadfyd pan ddarfu i'r Philistiaid eu gwerthu i'r Edomiaid, eu gelynion creulon. Hwyrach mai at yr amgylchiad a grybwyllir yn 2 Cron. 21. 16, 17, y cyfeirir yma. DAVIDSON.

Adn. 9, 10. *Y cyfammod brawdol.* Yr oedd y Tyriaid hwythau yn euog o'r un traha a'r Philistiaid, sef rhoddi i fynu gwbl o'r gaethiwed i Edom, ac yr oedd eu camwedd hwy yn ffieiddiach, yn gymmaint a'i fod yn ffrwyth torriad cyfammod a chyngrhair o'r fath ddifrifolaf a wnaethid rhyngddynt hwy â'r Israeliaid, yr hwn a elwir yn *gyfammod brawdol*, hwyrach am ei fod wedi gwreiddio mewn cyfeillach gynnes, yn hytrach nac wedi ei achosi gan angenrheidiau gwladol, cymh. 2 Sam. 5. 11. 2 Bren. 5. 7—12. DAVIDSON.

Adn. 11, 12. Gwel Esa. 21. 11, 12. Jer. 49. 7—22. Ezec. 25. 12—14, a 35. Obad. 1—16; a'r Nodiadau. Er fod yr Edomiaid o had Jacob, yr oeddynt yn coledd y casineb creulonaf tuag at eu brodyr yr Israeliaid, ac yn cofleidio pob cyfleusdra i'w drygu, am yr hyn y cwynai y prophwydi yn fynych, ac at yr hyn y cyfeirir yn 2 Cron. 28. 17. DAVIDSON.

Adn. 13—15. Gwel Zeph. 2. 8—11. Ezec. 25. 1—7. Jer. 49. 1—6.—*Eu brenin*, neu, "Eu Milcom," yr eilun yn yr hwn yr ymddiriedent.—*A'i bennaethiaid*, neu ei offeiriaid, efallai.

## PEN. II,

Adn. 1. *Am iddo losgi esgyrn brenin Edom, &c.* Meddylia rhai mai am weithred o greulondeb y dïelir yma; eraill, mai anmharch i gorph marw brenin yw yr hyn a olygir; ond, y mae yn llawn mor debyg mai rhyw weithred eilunaddolgar yw y peth a olygir, rhywfath o aberth arswydlawn i'w gau dduwiau. COBBIN.

Adn. 2, 3, *Fydd marw mewn terfysg*; mae yr amrywiol ymadroddion hyn yn arwyddo ymryson a cynhwrf milwyr, yn llawn awydd am feddiannu yspail buddugoliaeth.—*Y barnwr*, neu ei phenllywodraethwr, yr hyn ond odid a arwyddai nad oeddynt mwyach yn cael eu llywodraethu gan freninoedd. Cymh. 2 Bren. 3. 4, 26. DAVIDSON.

Adn. 4, 5 Mae y prophwydoliaethau am ddymchweliad Judah yn dra lluosawg; ac yn wir yr oedd troseddau Judah o natur wahanol i'r eiddo y cenhedloedd oedd o'u hamgylch, esgeuluso cyfraith Duw, a throi at eilunod, yw y pethau a nodir fel achlysuron i'r farn ddisgyn arnynt hwy. BOOTHROYD.

Adn. 6—8 *Am iddynt werthu y cyfiawn, &c.* Gwyro eu hachos, a rhoddi barn annghyfiawn er gwobrwy bychan, cymh. pen. 5. 11, 12. a 8. 6. W. LOWTH.—*Er pâr o esgidiau*, hyd yn nod am beth mor ddiwerth a hyny. NEWCOME. Dywedir fod swyddogion

gwladol y Twrciaid yn cael eu gwisgoedd gwychaf eu hunain, a'r eiddo eu gwragedd, trwy lwgr-wobrwyaeth.—*Y rhai a ddyheuant, &c.*, neu, "y rhai a archollant ben y tlawd yn llwch y ddaiar."—NEWCOME.—*Ac a wyrant ffordd y gostyngedig*, trwy eu cadw yn anwybodus o'u iawnderau naturiol efallai, neu ommedd iddynt gael dadleu eu hachos eu hunain. Gwel pen. 5. 12. Esa. 10. 1, 2. a 29. 21.—*Ac ar ddillad wedi eu rhoi*, neu, "eu cymeryd" *yn ngwystl y gorweddant*, yr hyn oedd hollol groes i'r ddeddf Ddwyfol, Exod. 22. 26, 27.—*A gwin y dirwyol a yfant*, hyny yw, gwin a gawsid yn llwgr-wobrwyaeth am wyro barn yn annghyfiawn, neu trwy ddirwyon a roddid ar rai a gam-gyhuddid. Mae yn ddiau eu bod nid yn unig yn yfed y gwin, ond hefyd yn ei dywallt yn ddïod-offrwm i'w heilun.

Adn. 9—12. Mae y prophwyd yn y geiriau hyn yn cyfarch Israel, Fel y mae Amoriad yn cael ei roddi am holl genhedloedd Canaan, felly y mae y *prophwydi a'r Nazareaid*, yn cynnwys yr holl rai oeddynt wedi ymroddi mewn modd neillduol at wasanaeth cyssegredig a'r rhai oll oeddynt wedi eu doniaw yn wyrthiol â chymhwysderau i ddysgu llywodraethu, ac amddiffyn y genedl, megis llwyth Lefi, y llinellau olynol o freninoedd, barnwyr, a phrophwydi. Gwaherddid gwin i'r Nazareaid, am y rhai, gwel Num. 6. 1—21. DAVIDSON.

Adn. 13—16. *Wele fi wedi fy llethu danoch, &c.* Mae y rhan fwyaf o'r Beirniaid diweddar mwyaf canmoladwy, yn darllen y geiriau yn wahanol, yn ol yr hen gyfieithiadau Syriaeg a Chaldaeg, "Wele fi yn eich llethu yn eich lle, fel y lletha y fen ddyrnu lwythog yr ysgubau." NEWCOME, BOOTHROYD.—*A metha gan y buan ddïanc.* Hyny yw, gwna Duw eu holl adnoddion a'u hymdrechion i ddïanc yn llwyr aneffeithiol. DANAEUS.

## PEN. III.

Adn. 2. *A adnabum*, neu a addefais yn bobl i mi fy hun, trwy fy natguddio fy hun i chwi, a'ch amddiffyn. NEWCOME.—*Am hyny ymwelaf â chwi;* yr oedd Duw wedi penderfynu gwneyd siampl o honynt hwy yn eu cosbedigaeth, oblegid fod eu pechodau hwy yn ymddyrchafu yn erbyn goleuni eglurach, a rhwymedigaethau cryfach. W. LOWTH.

Adn. 3. *A rodia dau yn nghyd, &c.* Pa fodd y gwnant oddieithr eu bod wedi cyttuno ar yr amser i gyfarfod, a'r ffordd yr amcanant gymeryd? Oddieithr eu bod mewn cyflwr o gyfeillgarwch, pa fodd y gallant gyd rodio yn gysurus? Nid oes gyfeillach heb gymdeithas. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Heb ganddo ysglyfaeth*, mewn golwg neu mewn meddiant. Dywaid anianyddion nad yw y llew byth yn rhuo ond pan fyddo ei ysglyfaeth yn ei olwg, neu pan fyddo yn chwareu âg ef. BOOTHROYD.

Adn. 5—7. *A'syrth yr aderyn?* &c. Mae y cwestiynau hyn yn dangos mai megis y rhua y llew uwch ben ei ysglyfaeth, y cwympa yr aderyn yn y fagl, neu fel yr ofna y bobl pan arwyddocca sain yr udgorn ddynesäad gelyn buddugoliaethus; felly cyhoeddai Duw ei farnedigaethau trwy y prophwydi, i gyffroi sylw ei bobl cyn ei bod yn rhy ddiweddar. BOOTHROYD.

Adn. 9. *Cyhoeddwch o fewn*, neu, "ar y palasau," ar y nennau gwastad, o ba le y cyhoeddent unrhyw newyddion pwysig yn y dyddiau gynt yn ngwledydd y Dwyrain, Matt. 10 27.—*Deuwch yn nghyd*, &c. Gelwir y Philistiaid a'r Aiphtiaid i ddyfod a gweled yr annghyfiawnder a'r trais a arferid gan yr Israeliaid yn Samaria. BOOTHROYD. Neu ynte, gelwir hwy i gyduno yn erbyn Samaria, yr hon oedd yn gorwedd ar fryncyn difyr, ac yn cael ei hamgylchynu gan fryniau. Dylynid y terfysgiadau o fyddin y gelyn, gan yspeiliadau gorthrwm i'r dinaswyr. DAVIDSON.

Adn. 10, *Tyrru y maent drais.* Rhoddir yr achos am yr effaith yma. Yr oeddynt yn ymgyfoethogi trwy weithredoedd o annghyfiawnder a chreulondeb, cymh. pen. 2. 6—8.

Adn. 12. *Y ddwy-goes, neu ddarn o glust*- Mae yn debyg mai y meddylddrych mwyaf naturiol i'r geiriau yw, y byddai dïangfa unrhyw Israeliad o'r perygl dyfodol mor ryfedd ac a fuasai i fugail lwyddo i achub y rhanau mwyaf diwerth o ddafad o ddannedd y llew.—*Y rhai sydd yn trigo yn Samaria mewn cwrr gwely, ac yn Damascus mewn gorweddle.* Mae y *divan*, neu yr orweddle yn y gwledydd Dwyreiniol wedi ei gyfodi oddiar y lloriau ger ystlysau yr ystafelloedd, ac mewn tai da fe'u gorchuddir â charpedau, ac a'u defnyddir yn y dydd yn lle cadeiriau, y *gongl* a ystyrid y lle mwyaf anrhydeddus yn y gorweddleoedd hyn; felly y mae yn amlwg fod cyfeiriad uniongyrchol yn y bygythiad yma, at y goludog a'r moethus yn mysg y genedl, fel y rhai a fyddent yn wrthddrychau pennaf y farn. Yr oedd Damascus y pryd hyn yn ddarostyngedig i Israel, gwel Pen. 1. 1. cymh. 2 Bren. 14. 28. ac y mae yn ddïau y tueddid llawer Israeliad cyfoethog i breswylio yno, oddieithr bod rhyw berthynas arbenig rhyngddo â'r llys breninol yn peri iddo aros yn Samaria. Yr oedd Ahab hefyd wedi cael caniattad gan Benhadad, hyd yn nod i adeiladu heolydd yn Damascus, yn y rhai y preswyliai Israeliaid yn ddïau. DAVIDSON.

Adn. 14. *Y gofwyaf*, neu yr ymwelaf âg neu am *allorau Bethel.* Gwel pen. 5. 5. 1 Bren. 12. 29, 32. Exod 27. 2. Sal. 118. 27.

Adn. 15. Bygythir yma wneyd yr amryfal drigfannau gwychion a fwynhai y pendefigion, yn garneddau. BOOTHROYD.

## PEN. IV.

Adn. 1. *Gwartheg Basan*; yr oedd Basan yn enwog am frasder ei phorfeydd; a'i gwartheg yn gyffredin yn dewion ac anhywaith.

Cydmarai Dafydd ei elynion yn aml i deirw Basan, ac yma y mae y prophwyd yn cydmaru yr Israeliaid moethus a beilchion i anifeiliaid porthiannus y fro hono. BOOTHROYD.—*Yn dywedyd wrth eu meistriaid, Dygwch ac yfwn.* Mae Dehonglwyr yn amrywio yn eu hesboniad o'r geiriau hyn, y naill yn meddwl mai y gwragedd moethus a olygir yma, dan y gyffelybiaeth o wartheg Basan, ac a ddarlunir yn cyfarch eu gwyr gan eu cymell i ddwyn ac yfed. Eraill a dybiant mai gorthrymwyr eu brodyr a olygir, y rhai gan gymeryd achlysur o'u tlodi, a'u gwerthent i gaethiwed, gan ofyn i'w meistri a'u prynasent selio y cyttundeb â gwin. COBBIN.

Adn. 2. *A bachau pysgotta;* Neu offer pysgotta. Cydmerir yspeilwyr mewn man arall i bysgodwyr, gwel Jer. 16. 16. Hab. 1. 15. W. LOWTH. NEWCOME.

Adn. 3. A *chwi a ewch allan i'r adwyau*, yr agoriadau yn yr offer pysgotta; yr wyf yn meddwl fod y gyffelybiaeth â'r hon y dechreuid yr adnod flaenorol yn cael ei pharhau yn hon. BOOTHROYD. Mae yn debyg mai yr ystyr yw, y byddai i ychydig o'r Israeliaid ddianc o afael y dystryw pan ddeuai yr Assyriaid ar y wlad a chymeryd ei thrigolion yn ysglyfaeth megis y delir pysgod mewn rhwyd. DAVIDSON.

Adn. 4, 5. *Deuwch,* neu "Ewch" *i Bethel* lle y gosodasai Jeroboam un o'i loi i fynu, 1 Bren. 12. 29.—*Gilgal,* yr hon nid oedd yn mhell o Jericho, oedd hefyd yn orsaf eilunaddoliaeth. Pen. 5. 5. Hos. 4. 15. a 9. 15. a 12. 11. Math o wawdiaith sanctaidd yw y geiriau, fel yn Preg. 11. 9.—*A'ch degymmau wedi tair blynedd o ddyddiau,* yn gyffelyb i'r hyn a ordeinid yn nghyfraith yr Arglwydd, Deut. 14. 22—29. HUTCHESON.

Adn. 6—8. *Glendid dannedd,* wrth yr hyn yr arwyddoceid newyn. Mae yn debyg mai y newyn a ragfynegid gan Eliseus a olygid yma, 2 Bren. 8. 1. GILL.

Adn. 10. *Megis yn ffordd yr Aipht.* Hyny yw, haint o'r fath fwyaf dinystriol. Yr oedd y tawch afiach a gyfodai dros wlad yr Aipht oddiar y llaid a adawai yr afon Nilus ar ei henciliad, yn achlysuro heintiau mynych yn y wlad, gwel Deut. 7. 15.—WILLIAMS.

Adn. 12, 13. *Bydd barod Israel i gyfarfod â'th Dduw.* Mae y cyfarchiad yma yn dra grymmus, a'r darluniad o'r priodoliaethau Dwyfol a ddylyna, a dueddai i'w tywys i adfyfyrio ar y Duw a adawsent, ac ar y cyfrif oedd ganddynt i'w roddi i fynu iddo ef.—BOOTHROYD.

## PEN. V.

Adn. 1. *I'ch erbyn,* neu, "drosoch;" mae yn amlwg fod yma gyfeiriad at y galarnadau a wneid ar gladdedigaethau, gwel adn

16. Jer. 9, 17. Ezec. 19. 1. a 27. 2. Felly y cwynfanai y prophwyd uwch ben cyflwr breniniaeth Israel, fel un colledig anadferedig. W, LOWTH.

Adn. 3. *Y ddinas a aeth allan â mil, &c.* Ni's gall y ddinas a anfonai fil o filwyr allan gynt, anfon mwy na chant yn bresenol; ac felly mewn cyfartaledd yr oedd holl boblogaeth y wlad. DAVIDS.

Adn. 4—10. *Ceisiwch fi, a byw fyddwch.* Tra yr oedd y prophwyd yn eu rhybuddio o'r pethau hyn, efe a alwai arnynt i geisio Duw, ac nid eilunod; fel yr unig ffordd i ochel dystryw trwyadl. Duw yn unig sydd yn llywodraethu ar bob peth, am hyny efe yw unig wrthddrych priodol ofn a gobaith. Efe a luniodd lu y nef, ac sydd yn llywio eu holl ysgogiadau; dydd a nos a ufuddhânt i'w orchymyn; y cymmylau a dywalltant allan eu trysorau i ddiwallu angenion ei bobl, neu gyflawni cosbedigaeth gyfiawn ar ei elynion ef. Efe sydd yn cyfodi y gorthrymedig uwchlaw eu gorchfygwyr balchaidd, amddiffynfeydd cadarnaf pa rai a fyddant yn annigonawl i'w diogelu rhag dïaledd y rhai a gyffroisant trwy eu creulondeb. Gan hyny, nidoes i'r genedl y bydd o'r Hollalluog yn nodded iddi, ddim i'w ofni. Efe a'i ceidw rhag pob drwg, ac a'i gwared oddiwrth ei holl elynion.—*Y saith seren, ac Orïon.* Crybwyllir y cyfseryddion hyn yn Job 9. 9. a 38. 31. Yr oedd dynion yn yr hen oesoedd, yn cyssylltu galluoedd cynnyrchiol y gwanwyn, â gwres a gwlaw, a'r blaenaf; ac oerni, eira, rhew, ac ystormydd, â'r olaf. DAVIDSON.

Adn. 11, 12. *Sathru y tlawd,* cyfeiriad at sathru'r ŷd o'r dywysen, a darluniad o orthrwm mawr, gwel pen. 1. 3—5.—*Y beichiau gwenith,* neu y rhoddion o wenith, hyny yw, llwgr-wobrwyaeth, cynnwysedig o wenith; yr unig beth ond odid a'u cynhaliai yn fyw.—*Yn troi heibio y tlawd yn y porth,* hyny yw, yn gommedd barnu ei achos yn gyfiawn; gwel pen. 2. 6—8.

Adn. 13 *Y neb a fyddo call a ostega yr amser hwnw.* Fe ystyria dyn doeth mai ofer cwyno, na's gall efe gael cyfiawnder heb lwgr-wobrwyaeth, ac ni's medd yntau arian i'w rhoddi. CLARKE.

Adn. 16, 17. *Galwant yr arddwr i alaru,* oblegyd fod ffrwyth y ddaiar wedi methu gan y sychder mawr.—*A'r neb a fedro alaru;* sef rhai arferol o alaru fel eu celfyddyd am gyflog.—*Tramwyaf trwy dy ganol di;* fel barnwr i weini cosb; efallai fod cyfeiriad yn yr ymadrodd at yr amlygiad o gyfiawnder Duw yn yr Aipht, pan dramwyai yr angel dinystriol trwyddi. DAVIDSON.

Adn. 18. *Dydd yr Arglwydd,* amser taledigaeth cyfiawn, fel y mae yr ymadrodd yn arwyddoccau yn aml. Yr oedd y prophwydi wedi bod yn datgan yn aml fod y cyfryw adeg yn nesâu; ac y mae yn ddiau nad oedd neb mor galed a dymuno iddo brysuro, oddieithr gwawdwyr, y rhai mewn dirmyg ar y prophwydi a allasent fod yn barod i ofyn, Pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef? Cymh. Jer. 17, 15. Ezec. 12, 22. 2 Pedr 3. 4. DAVIDSON.

Adn. 19, 20. Yr oedd dydd yr ymweliad i'r deg llwyth yn un nos o adfyd digymmysg; càn gynted ag y byddai un dòn drosodd, yr oedd y llall yn ei dilyn yn ddioed.

Adn. 21—24. *Nid aroglaf yn eich cymynfaoedd*, hyny yw, Nid ymhyfrydaf ynddynt. Yr oedd eu cymmanfäoedd crefyddol yn gyssegredig i'w heilunod; am hyny yr oedd eu holl offrymmau a'u caniadau yn gas gan Dduw. BOOTHROYD.

Adn. 25. *A offrymmasoch chwi i mi?* Mae yn eglur fod y prophwyd yn rhoddi y cwestiwn hwn iddynt i'w hadgofio nad oedd Duw yn cael ei foddloni âg aberthau, cymmaint ac â chyfiawnder a duwioldeb, 1 Sam. 15. 22, 23. Salm 1. 8, 9. Esa. 1. 11, &c. Ond hwy a offrymmasant i'r llo aur, ac i eilunod eraill yn y diffaethwch.

Adn. 26. *Ond dygasoch babell eich Moloch, &c.* Mae yn debyg mai teml fechan, yn yr hon y gosodent y ddelw, yw yr hyn a olygent wrth y babell yma. Addolid Moloch yn nhir Isreal; ac y mae yn ymddangos mai yr haul oedd yr eilun yma, a *Chïwn* a gynnrychiolai y seren Sadwrn. W. LOWTH. Efallai fod llun seren yn nhalcen yr eilun, i ddangos ei fod i gynnrychioli un o'r cyrph wybrenol; fel y gwelir ar lawer o hen fathau; gwel Act. 7. 43.

Adn. 27. *Tu hwnt i Damascus*, sef i Assyria a Media. Gwel 2 Bren. 15. 29. a 17. 6. WILLIAMS.

## PEN. VI.

Adn. 1. *Gwae y rhai esmwyth arnynt yn Sion*, neu, "y rhai mewn balchder a ddiystyrant Sïon," *Sept., Syriaeg, Arabaeg.*—*Y rhai a enwir yn bennaf o'r cenhedloedd*, sef Sïon neu Jerusalem, a Samaria, y rhai oeddynt orsafau llywodraeth y ddwy freniniaeth, Judah ac Israel. W. LOWTH. —Mae yn golygu eu pendefigion. HUTCHESON.—"A enwir ar ol y pennaf o'r cenhedloedd." Gwel Esa. 44. 5. Mae yn debyg eu bod yn ymgyfenwi ar enwau duwiau poblogaidd, neu wroniaid enwog. WILLIAMS

Adn. 2. *Chalneh, Hemath*, a *Gath*, oeddynt ddinasoedd enwog, newydd eu gorchfygu a'u hysbeilio; y ddwy flaenaf gan Assyria, Esa. 10. 10.; a'r olaf, 2 Cron. 27. 6.—*Ai gwell ydynt*, neu, "ai gwell ydych" *na'r teyrnasoedd hyn?* A feddwch chwi fwy o hawl ar nodded Dwyfol na'r rhai hyn? A ydych chwi yn fwy galluog nac oeddynt hwy i wrthsefyll Assyria?—*Ai helaethach eu terfyn hwy na'ch terfyn chwi?* yr ystyr mae yn debyg yw, a yw eich gwlad chwi yn llai cymhwys na'u gwlad hwy i dynu sylw gelyn uchel-frydig? DAVIDSON.

Adn. 3. *Yn nesâu eisteddle trais.* Yn defnyddio pob moddion i achlysuro ymgyfreithio; canys y mae yn ddiau mai llys cyfreithiol a olygir wrth eisteddle trais, a elwir felly ar gyfrif y creulondeb a'r trais a arferid gan y barnwyr yno; cymh. pen. 2. 6—S. a S. 5, 6. DAVIDSON.

Adn. 4—6. *Bwytta yr wyn a'r lloi,* sydd yn arwyddoccau eu bod wedi ymroddi i lythineb a moethau, heb un gofal ganddynt am lwyddiant y genhedlaeth oedd yn codi.—*Dychymygasant iddynt eu hunain offer cerdd megis Dafydd.* Yr oedd Dafydd yn cyfansoddi caniadau, ac yn dyfeisio offerynau newyddion i foliannu yr Arglwydd drwyddynt; ond y rhai hyn i wasanaeth llawenydd cnawdol. GILL.—*Ond nid ymofidiant am ddryllio Joseph.* Hyny yw, nid oeddynt yn ymostwng o herwydd y barnedigaethau oeddynt yn cael eu dwyn ar Israel, a elwir yma Joseph; gwel pen. 5. 6, 15. W. LOWTH.

Adn. 8. *Odidawgrwydd Jacob;* yr hyn yr ymfawrygai Israel a Jacob fwyaf ynddo.

Adn. 9, 10. Yr ystyr debygid, yw, er y gallai teulu fod yn dra lluosawg, na's gweddillid cymmaint ag un berthynas nês nac *ewythr;* ac y byddai i'r cyfryw orfucheddwr unig gael ei amgylchynu â'r fath drallodion, fel na chaffai y boddäad o gladdu y meirw, a galaru ar eu hol; cymh. Jer. 16. 1—8. Disgyn i ran ewythr, neu ryw garenydd pell, i losgi yr esgyrn yn lladradaidd, canys pe y'i canfyddid gan y milwyr yspeilgar yn y tŷ, hwy a ruthrent i fewn yn ddioed. Mae yn debyg mai at y perygl yma, y mae y gorchymyn caeth *Taw*, yn cyfeirio. Arfera galarwyr yn gyffredin waeddi allan yn chwerwder eu hysbryd.—*Am na wasanaetha cofio enw yr Arglwydd,* neu "Taw, hyn a ddaeth am na chofiasant enw yr Arglwydd." BOOTHROYD.

Adn. 11. *Efe a dery y tŷ mawr, a'r tŷ bychain;* hyny yw, cosbi pob graddau, yn gyntaf y goludog a'r galluog, yna y tlawd a'r egwan. DAVIDSON.

Adn. 12. Buasai ceisio rhedeg meirch ar y graig, neu ei haredig âg ychain, yn rhesymol mewn cydmariaeth i ymddygiad y bobl hyn, y rhai a wnaent orseddfa cyfiawnder, ac ymarferion crefyddol yr hyn a elwir *ffrwyth cyfiawnder,* yn wasanaethgar i'w tueddiadau hunanol, cybyddlyd, a dïalgar. DAVIDSON.

## PEN. VII.

Adn. 1—3. *Ac wele adladd wedi lladd gwair y breninoedd.* Anfynych iawn, os byth, yr arferir gwneyd gwair yn y gwledydd hyny, am hyny y mae rhai beirniaid deallus o'r farn y gall y geiryn a gyfieithir *lladd,* fod yn dynodi "pori i lawr," ac mai y tyfiant wedi y porfäad cyntaf gan anifeiliaid y brenin a ddifawyd gan y lindys. HARMER. Mae hyn yn golygu yn llythyrenol y barnedigaethau trwy y locustiaid, neu yn gyffelybiaethol yr anrhaith a barhaodd dros un mlynedd ar ddeg, o farwolaeth Jeroboam hyd sefydliad ei fab ar yr orsedd. DAVIDSON.

Adn. 4—6. Mae y *tân* yma yn golygu naill ai y sychdwr mawr a barodd newyn trwm a phrinder yn y wlad, pen. 4. 6—8, neu y rhyfel arswydus, oedd eisioes wedi anrheithio y wlad, 2 Bren. 15. 29. DAVIDSON.

Adn. 7—9. Mae barnedigaethau Duw yn cael eu darlunio weithiau trwy *linyn*, i ddynodi uniondeb perffaith ei oruchwyliaethau, gwel 2 Bren. 21. 13. Esa. 28. 17. Defnyddir yr un offerynau ag a arferir i adeiladu wrthynt, weithiau i nodi y lleoedd a amcenir eu tynu i lawr neu eu dystrywio, gwel 2 Sam. 8. 2. Esa. 34. 11. Galar. 2. 8.—*Uchelfeydd Isaac, a chysegrau Israel.* yr allor a'r llwyni yn Beerseba, lle y buasai Isaac yn trigiannu. ac yr adeiladasai allor, Gen. 26. 25. a 46. 1; a'r llëoedd eraill a neillduasid i eilunaddoliaeth, megis Bethel, a Gilgal, pen. 3. 14. a 5. 5, W. LOWTH.

Adn. 13. *Capel y brenin, &c.*, neu gyssegr y brenin, a theml y freniniaeth. DAVIDSON.

Adn. 14. *Nid prophwyd oeddwn i:* wrth yr hyn y golygai mae yn debyg, na buasai efe un amser yn perthyn i ysgol y prophwydi, gwel 1 Sam. 19. 20. 2 Bren. 2. 3, 5.

Adn. 17. *A'th dir a rennir wrth linyn;* a fesurir i'w ddinystrio. DAVIDSON.

## PEN. VIII.

Adn. 1—3. *Ffrwythydd yr haf,* y rhai y rhaid eu bwytta cyn gynted ag y byddont yn aeddfed; gan na's gellir eu cadw. Felly yr oedd Israel yn aeddfed i ddinystr, ac nid oedd yn gweddu i'r Mawrhydi Dwyfol oddef eu camweddau yn hwy; cymh. pen. 7. 8. Joel 3. 13.

Adn. 4—6. *Llyncu yr angenog,* fel bwystfilod rheibus yn llyncu eu hysglyfaeth; ymadrodd cyffredin i ddarlunio gorthrymwyr; gwel Salm 56. 1, 2. Yr oedd bydolrwydd y bobl hyn mor ofnadwy fel yr oeddynt yn ystyried y Sabbath, a'r gwyliau crefyddol yn faich arnynt, am eu bod yn torri ar eu trafnidiaeth annghyfiawn hwy. HEWLETT.

Adn. 7. *I ragor-fraint Jacob,* yr hwn oedd yr Arglwydd ei hunan. Gwel Exod. 15. 7. Deut. 33 26, 29. DAVIDSON.

Adn. 8. *A bwrir hi ymaith, a hi a foddir.* Cydmerir cyfodiad a gostyngiad y ddaiar fel tonnau, yr hyn a achlysurir gan ddaiargryn, yn dra phrydferth a phriodol i orlifiad ac enciliad y Nil. BOOTHROYD.

Adn. 11—14. Arferai yr Iuddewon ymofyn â'r prophwydi am gynghor yn eu cyfyngderau; ond yn awr ni chaent yr un; gwel pen. 2. 11. Ezec. 14. 7. a 20. 1. W. LOWTH.—*A hwy a grwydrant o fôr i fôr,* gan chwilio pob lle am brophwyd, o Fôr Tiberias neu Galilea: neu o'r Môr Marw, neu y Môr Coch ar y dehau, i'r Môr Mawr ar y Gorllewin. GILL.—*A ddiffoddant o syched,* am wybodaeth oruwchnaturiol. DAVIDSON.—*Pechod Samaria,* sef yr eilun gwladol, y llo a gyfodasid yn Bethel. HEWLETT.

## PEN. IX.

Adn. 1. *Ar yr allor;* a gyfodasid yn Bethel. BOOTHROYD, GILL.

W. LOWTH, A. CLARKE.—Allor y poeth-offrwm o flaen y deml yn Jerusalem. POOLE, T. WILLIAMS, SUTCLIFFE.—*Taro gappan y drws*, y rhai galluoccaf i gynnal y deml a'r genedl. STOKES.—*Yn y pen*, sef y brenin, y tywysogion, y pendefigion, a'r offeiriaid.—GILL.—*Y rhai olaf o honynt*, y werin gyffredin, neu y rhai a adawsid o honynt. ABEN EZRA, KIMCHI.

Adn. 2—4. *Carmel*, mynydd uchel, yn yr hwn yr oedd ogofäau nodedig fel llochesau diogel, cymh. Esa. 2. 19, 20. Y meddwl yw, y byddai i law Duw eu cael allan o bob rhyw loches.—DANAEUS.

Adn. 6. *Ei esgynfeydd*, cyfeiriad at ystafell uchaf y deml, efallai, yr hon oedd wedi ei gwisgo ag aur, 2 Cron. 3. 9. Yr ystafelloedd uchaf yn nhai y mawrion a addurnid wychaf yn wastadol, gwel Jer. 22. 14. Mae gwychder y nefoedd yn datgan y gogoniant Dwyfol, a'r holl ddaiar yn dwyn tystiolaeth i'w ddaioni ef.—*Ac a sylfaenodd ei fintai ar y ddaear*, neu "ei ystordy yn y ddaiar." Efallai fod yma gyfeiriad at yr arferiad o guddio trysorau mewn pydewau mawrion, y fynedfa i ba rai a guddid yn ofalus. DAVIDS.

Adn. 7. Mae yn debyg mai yr ystyr yw, nad oedd wiw iddynt ymddiried yn eu hynafiaid, na dysgwyl paräad o'r ffafr Ddwyfol o herwydd eu bod unwaith wedi derbyn profion anmhrisiadwy o honi; gan fod cenhedloedd eraill, a fuant unwaith yn meddu seiliau cyffelyb i fostio, yn awr wedi eu dwyn i gaethiwed.—*Meibion yr Eithiopiaid*, neu yr Arabiaid, y rhai er eu bod yn bobl gryfion, oeddynt ddianrhydeddus iawn. BOCHART. Yspeilwyr y diffaethwch, a threiswyr y gweiniaid oeddynt, ac felly yr oedd yr Israeliaid wedi myned yn gyffelyb iddynt.

Adn. 8—10. *A ogrynnaf dŷ Israel.* Ymadrodd cyffelybiaethol yw y geiriau hyn, er arwyddo y byddai i Dduw yn awr lwyr ysgaru yr ûs oddiwrth y gwenith, cymh. Matt. 3. 12; a thra fyddai i'r ûs, sef yr annuwiolion gael eu dyfetha, ni's collid un dyn dâ a chyfiawn. BOOTHROYD.

Adn. 11, 12. *Y codaf babell Dafydd*, sef adferu y freniniaeth i dŷ a thylwyth Dafydd; ac y mae yn eglur fod yma gyfeiriad at amserau yr efengyl. Gwel Act. 15. 16, lle y cawn ni esponiad anffaeledig ar y geiriau hyn.

Adn. 13—15. *Y goddiwes yr arddwr a'r medelwr*, darluniad bywiog o ffrwythlonrwydd y cynhauaf, yr hwn a fyddai mor helaeth, fel y byddid yn ei gynnull, NEWCOME, LOWTH.

## OBADIAH.

*Ni's gwyddis ddim am y prophwyd yma heblaw ei fod wedi cael ei anrhydeddu â'r weledigaeth hon am ddiwedd yr Edomiaid. Y farn fwyaf cyffredin yw, ei fod ef yn gyd oeswr â Jeremiah ac ag Ezeciel. Cyfeirir at ddywediadau Obadiah yn Dat.* 11. 15. *ac* 18. 17.

## PEN. I.

Adn. 1. *A chennad a hebryngwyd, &c.*, yn ol defod tywysogion daiarol, darlunir y Duw Hollalluog yma fel pe byddai yn gwysio byddinoedd yn nghyd, ac yn eu gosod yn drefnus i frwydro yn erbyn y bobl yr amcanai eu dystrywio. W. LOWTH. Hwyrach fod yma gyfeiriad at y cenhadon a anfonid o lys Babilon i wysio y byddinoedd yn erbyn Edom. BOOTHROYD.

Adn. 2. *Mi a'th wneuthum yn fychan;* nid oedd gwlad Edom ond bechan mewn cydmariaeth i lawer o wledydd eraill; ac nid oedd yn un o'r rhai mwyaf dymunol, gan ei bod yn greigiog a mynyddig.

Adn. 3. *Yn holltau y graig*, neu ogofeydd y mynyddoedd, rhai o ba rai a allent fod yn naturiol, a rhai yn gelfyddydol, wedi eu llunio er diogelwch yn amser rhyfel.

Adn. 4. Yr oedd Edom yn ei balchder yn ymddiried yn ei hamddiffynfeydd, ac mor ddiogel yn ei dychymyg ei hun a phe buasai *yn mhlith y ser;* eto rhaid oedd ei thynu i lawr oddiyno, Jer. 49. 16. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Ei guddfeydd ef.* Cyfeiriad at yr arferiad o guddio eu trysorau gwerthfawroccaf mewn pydewau dyfnion, neu ogofäau dirgel. Mae bod y gelyn yn cael hyd i drysorau a guddiasid mor ddiogel debygid, yn arwyddo y byddai iddynt ymledu dros bob cwr o'r wlad. Mae NEWCOME, BOOTHROYD, ac amryw o'r Beirniaid yn traws symmudo y rhan o'r bummed adnod sydd rhwng cromfachau, i ddechreu y chweched adnod, yr hyn sydd yn peri i'r testyn ddarllen yn llawer mwy eglur a chyson.

Adn. 7. *A'th yrrasant hyd y terfyn.* Eu cyngrheirwyr, wedi eu dilyn hyd derfyn y tir a'u gadawsant, neu, hwyrach, a droisant i'w herbyn.—*Bwyttawyr dy fara*, y rhai a groesawid ar dy fwrdd, neu dy filwyr y rhai a dderbynient eu cyfluniaeth gwastadol genyt. —*A roddasant archoll*, neu, yn ol y Beirniaid craffaf, "a daenasant fagl *danat.*"—Pa faint bynnag allasai ymffrost Edom fod, yr oedd efe yn gweithredu fel un llwyr amddifad o ddeall. BOOTHR.

Adn. 10—14. *Am dy draha yn erbyn dy frawd Jacob.* Efallai fod yma gyfeiriad at ymddygiad Esau tad yr Edomiaid at Jacob gynt, Gen. 27. 41. Ac yr oedd y meibion yn wastad yn barod i yspeilio Israel yn ddi drugaredd, a'u bradychu yn waradwyddus. —Pan gymerwyd Jerusalem gan y Caldeaid, yr oedd yr Edomiaid yn ymlawenychu yn adfyd yr Iuddewon, ac hyd yn nod mor greulawn a llofruddio y rhai a ddiangasent rhag cleddyf y Caldeaid, ac a ffoisent attynt hwy am ymwared. BOOTHROYD. DAVIDS.

Adn. 16. Mae amryw Esbonwyr yn meddwl fod y prophwyd yn y geiriau hyn yn troi i gyfarch ei bobl ei hun ; ond y mae yn ymddangos yn fwy tebyg i mi mai yr Edomiaid a gyferchir yn barhaus. Nid anfynych y cawn ni yr un gair yn cael ei ddefnyddio

wahanol ystyriaethau; felly megis y gwleddasent, ac yr ymorfoleddasent hwy ar fynyddoedd Judea, ac hwyrach, yn Jerusalem ei hunan, felly yn ddiau y byddai iddynt hwy a'r holl genhedloedd a ymlawenychent yn nghwymp Israel, yfed o gwpan digofaint ofnadwy yr Arglwydd.

Adn. 17—21, *Y bydd ymwared*, neu y rhai gwaredol, hyny yw, y gweddill achubedig o adfydau y caethgludiad Babilonaidd, a feddiannant Fynydd Seion eto.—*A berchenogant eu perchenogaeth hwynt*, sef gwlad yr Edomiaid; ac e fu hyny hefyd yn yr oes ddylynol i adferiad yr Iuddewon. Darostyngasant ysbrydoedd yr Edomiaid mor drwyadl, fel y cymerasant eu henwaedu, yr ymgorphorasant i'r genedl Iuddewig, ac y darfuant a bod yn bobl wahaniaethol. Gwel 1 Mac. 5. 3—5, 65.—2 Mac. 10. 15—23. Y mae JOSEPHUS hefyd yn cadarnâu yr un gwirionedd, ac yn yr hanes a ddyru ef o'i genedl, ymddengys yr Iuddewon fel tân, yn yssu eu gelynion blaenorol oll. Adfeddiannasant holl Ganaan, gan gynnwys Edom ar y dehau, Ephraim i'r gogledd, Philistia i'r gorllewin, a Gilead i'r dwyrain. Addewir yma y byddai i'r rhai a fuasent yn gaethion gan y Canaaneaid, feddiannu tir y Canaaneaid, a'r rhai a fuasent yn gaethion gan yr Edomiaid, feddiannu tir Edom, &c. W. LOWTH BOOTHROYD.—*A gwaredwyr*, &c. E ddichon fod y rhai hyn yn arwyddo blaenoriaid a buddugoliaethwyr Iuddewig, y rhai trwy eu doethineb a'u dewrder, a sicrhaent heddwch eu gwlad yn erbyn yr holl genhedloedd hyny; fel Barn. 3. 9. Esa. 19. 20; neu yn ysbrydol, pregethwyr yr efengyl, cymh. adn. 17. ag Amos 9. 12. W. LOWTH.

# JONAH.

*Yr oedd y prophwyd hwn o lwyth Zabulon, ac efe a anwyd yn Gath-hepher, yn nhiriogaeth y llwyth hwnw. Gwel 2 Bren. 14. 25. Jos. 19. 13. Tybir ei fod yn ei flodau yn nheyrnasiad Joas a Jeroboam II.: ac efe a ragfynegasai y byddai i'r olaf adennill terfyn Israel. Meddyliai yr* Esgob LLOYD *ei bod yn dra thebyg iddo ddechreu teyrnasu tu a'r rhan olaf o deyrnasiad Jehu. Meddylia rhai mai ychydig lwyddiant a fu ar ei weinidogaeth yn Israel, ac iddo yn y canlyniad gael ei anfon i Ninefeh, prif ddinas yr amherodraeth Assyriaidd. Mae y rhan fwyaf o'r llyfr hwn yn hanesyddol. Cyfeirir atto yn Matt.* 12. 39—41. *Luc* 11. 30—32. *a Heb,* 13. 15.—*Jonah yw y pummed o'r prophwydi lleiaf, ond e fernir gan lawer mai efe yw yr hynaf o honynt ag y mae ei ysgrifenadau ar gael.*

## PEN. I.

Adn. 1, 2. Mae yn debyg mai Ninefeh oedd prif ddinas gyntaf, yr amherodraeth fawr gyntaf ar y ddaiar; ac y mae rhai o hen haneswyr yn dadleu na fu yr un ddinas ar ei hol yn gyffelyb iddi mewn maintioli a gwychder.

Adn. 3. *A Jonah a gyfododd i ffoi i Tarsis.* Mae yn ymddangos fod Jonah yn golygu y gennadwriaeth hon yn un beryglus. Yr oedd ei dymher a'i ymddygiad yn dra anweddus.—*I Tarsis:* gan fod Jonah wedi myned i waered i Joppa, a hwylio oddiyno, y mae yn ymddangos mai Tarsus yn Cilicia, neu Tartessus yn yr Hisbaen oedd hon, ac nid Tarsis Indiaidd, i'r hon yr arferent hwylio o Ezion-Gaber, ar y Môr Coch.

Adn. 4—7. Mae yn ddïau i'r amgylchiad yma gael effaith ddaionus ar y morwyr; canys er eu trafnidiaeth â'r Iuddewon, y mae yn ymddangos eu bod wedi bod hyd yma yn anwybodus mai Duw Israel oedd y Duw goruchaf; ond yr hyn a welsant ar yr achlysur yma a'u gadawai yn llwyr ddïesgus am hyn: ac y mae y parch a amlygasant i'r Arglwydd a'i wasanaeth ar y tro hwn, yn peri i ni gredu nad ymattalient mwyach i gyhoeddi yn mha le bynnag yr elent, yr hyn a welsant ac a brofasant yn y tro rhyfedd hwn o drugaredd, gallu, cyfiawnder, sancteiddrwydd, a mawrhydi Duw, yr hyn a dueddai i gynnyrchu yr effaith oreu. Mae lle rhesymol i ni i gasglu fod yr ystorm hon yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth drefn natur, naill ai yn y tymhor ar ba un y cymmerai le, neu yn ei grym arswydlawn, tu hwnt i ddim a ganfuasant o'r blaen. DAVIDSON.

Adn. 9. Efe a ddatguddiai iddynt o ba genedl yr oedd, a phwy oedd gwrthddrych ei addoliad crefyddol, *Duw y nefoedd, &c.*, ac a gyffesai ei bechod hefyd. BOOTHROYD.

Adn. 11. *Beth a wnawn i ti?* Er eu bod yn gwybod trwy y coelbren a'i gyffes ei hunan mai efe oedd yr un euog; eto gan mai prophwyd ydoedd, ni's mynid wneyd dim iddo heb ei gynghor. BOOTHROYD.

Adn. 14—16. Mae yr adnodau hyn yn cynnwys cyffes odidog y morwyr o'u hargyhoeddiad o ragoroldeb Duw Israel. Hwy a welent yn awr mai ewyllys yr Arglwydd oedd eu hachub hwy trwy fwrw ei was i'r môr; canys yr oeddynt yn ystyried cynghor Jonah fel cyfarwyddyd o'r nef; ac am hyny, er y dymunasent yn fawr gadw y prophwyd, hwy a ymostyngent i'r amlygiad yma o fwriad yr Arglwydd; a hwy a brofasant ddiffuantrwydd eu proffes trwy offrymmu aberth, ac addunedu adduned iddo Ef, ac nid i'w heilunod eu hunain.

Adn. 17. Y mae math o forfilod *(whales)* i'w canfod weithiau yn Môr y Canoldir, lle y bwriwyd Jonah; ond nid ydynt hwy yn alluog i lyncu dyn. Pa fodd bynnag, y mae math o forgi *(shark)* yn gyffredin yn y môr hwnw, yr hwn a allai lyncu dyn yn gyfan. Mae yn ymddangos i gadweidiaeth gwyrthiol y prophwyd ymdaenu yn mhell, hyd yn nod i Groeg, oddiar yr hyn, fel y sylwodd amryw ddysgedigion, y deilliodd darluniad ffugiol ysgrifenwyr y wlad hono, o Hercules, yr hwn wedi torri y llong dano, a lyncwyd

gan bysgodyn, o fol yr hwn y diangodd yn fyw.—*A Jonah a fu yn mol y pysgodyn dri diwrnod a thair nos.* Sylwodd amryw y gallasai y pysgodyn gyrhaedd glan mewn llawer llai o amser; ond y mae yn debyg iddo gael ei dueddu i nofio tua môr *Euxine*, a bwrw Jonah ar y lan agosaf i Ninefeh.

## PEN. II.

Adn 1. Mae y prophwyd yma yn adrodd profiad ei enaid pan ydoedd efe yn mol y pysgodyn; yn datgan ei ddiolchgarwch am ei waredigaeth fawr a thrugarog, ac yn dysgu pawb oddiar a brofasai ei hunan, mai ynfydrwydd oedd i neb i bwyso ar eu doethineb eu hunain, nac ymddiried mewn eilunod. DAVIDSON.

Adn. 2. *O fol uffern*, y bedd, neu y dyfnder mawr. Yr oedd bol y pysgodyn megis bedd i Jonah.

Adn. 4. *Bwriwyd fi o wydd dy lygaid.* Hyny yw, efe a feddyliai na's byddai byw yn hwy, ac na chai weled Duw yn ei deml sanctaidd; eto efe a edrychai yn ei galon tua'r lle sanctaidd hwnw o'r fan yma. BOOTHROYD.

Adn. 5. *Hyd yr enaid*, neu, hyd berygl bywyd. BOOTHROYD.—*Ymglymodd yr hesg am*, neu yn ol WEMYSS, "Ceulai dystryw uwch *fy mhen.*

Adn. 6. *Y ddaear a'i throsolion oedd*, neu, a fuasai *o'm hamgylch, &c.* Yr oedd efe yn mysg rhanau cryfaf y ddaiar, lle y dysgwyliai y byddai raid iddo aros; ond Duw o'i drugaredd a'i gwaredodd oddiyno. BOOTHROYD.

Adn. 8. *Y neb a gadwant oferedd celwydd*, neu, "a wasanaethant oferedd twyllodrus," sef eilunod, Deut. 32. 21. Salm 31. 7.

Adn. 9. *Iachawdwriaeth sydd eiddo yr Arglwydd.* Fel hyn y mae y prophwyd yn terfynu gan briodoli ei waredigaeth ryfeddol i'r Arglwydd, o wydd yr hwn y ceisiasai ffoi. BOOTHROYD.

## PEN. III.

Adn. 1—4. Rhoddir yr un gorchymyn i Jonah yma ag a roisid o'r blaen; ac erchir iddo draddodi cennadwri Duw yn ffyddlawn. Y pryd hwn efe a ufuddhaodd i'r gorchymyn, ac a brysurodd i gyflawni y gennadwriaeth a dderbyniasai.—*Y ddinas fawr*, mae y cyfrifon lleiaf a feddwn o faintiolaeth Ninefeh yn ei gwneyd yn driugain milldir o amgylchedd; fel na's gallasai Jonah amgylchynu ei muriau gan gyhoeddi ei gennadwriaeth arswydus, Deugain niwrnod fydd eto, a Ninefeh a gwympir, mewn nemmawr lai na thri diwrnod.

Adn. 5—10. *A greadasant i Dduw.* Hyny yw, a gredasant mai Duw oedd awdwr y cyhoeddiad hwn, fel y'u hysbysid gan Jonah mae yn ddiddadl. Nid yw yn annhebyg fod y bobl hyn wedi clywed son o'r blaen am Dduw Israel, a'i brophwyd ef, a'u bod yn casglu oddiwrth ymddygiad rhyfedd Jonah, ei fod ef yn un o'r

cyfryw brophwydi: a'r ystyriaeth o'i fod ef wedi dyfod cán belled i gyhoeddi ei gennadwri arswydlawn a barai iddynt roddi gwrandawiad rhwyddach iddi. Effeithiai cennadwri y prophwyd ar y bobl yn gyntaf; ac wedi i'r brenin glywed am y peth, efe a archodd gadw ympryd manol trwy yr holl wlad. Meddyliai USHER, ac amryw Amseryddwyr enwog eraill, mai Pul oedd y brenin yma, yr hwn a oresgynodd Israel yn nheyrnasiad Menahem; 2 Bren. 15. 19, tua thair blynedd ar ddeg ar ol marwolaeth Jeroboam yr ail; ond y mae yn fwy tebyg mai ei ragflaenydd oedd y brenin a olygir yma.—*Na phrofant ddim.* Dull y Dwyreinwyr o ymprydio, oedd peidio profi dim hyd yr hwyr, yr hyn yn nghyd a sachlian a lludw oeddynt yr arwyddion mwyaf dynodawl o alar. Gwel Jer. 6. 26. 2 Sam. 1. 12. NEWCOME, DAVIDSON.—*Ac edifarhaodd Duw,* hyny yw, efe a gyfnewidiodd yn ngoruchwyliaeth ei ragluniaeth tuag attynt.

## PEN. IV.

Adn. 1. *A bu ddrwg iawn gan Jonah:* y mae hyn yn dangos tymher hunanol y prophwyd, canys efe a anfoddlonid gan yr hyn a ddylasai roddi y pleser mwyaf iddo. BOOTHROYD.

Adn. 3. *Gwell i mi farw na byw,* dan y cyhuddiad o fod yn gau brophwyd. W. LOWTH

Adn. 4. *Ai da yw y gwaith ymddigio o honot?* A yw hyn yn gweddu i'th nodweddiad a'th swydd di? Fel hyn y mae Duw yn ymostwng mewn modd tirion a thyner iawn i alw ystyriaeth ei was at anmhrioldeb ei dymher a'i ymddygiad. BOOTHROYD.

Adn. 6—8. Wedi i Jonah draddodi ei gennadwri, efe a ymadawodd o'r ddinas, gan benderfynu dysgwyl hyd ddiwedd y deugain niwrnod i edrych beth a fyddai y canlyniad. Efe a wnaeth yno ryw fath o loches iddo ei hun, i'w gysgodi ynddo rhag y gwres; ac fe barodd Duw i ryw blanhigyn llydain ei ddail dyfu yn wyrthiol oddiar y lle, er gwneyd ei sefyllfa yn fwy cysurus, yr hyn a fwynhäodd Jonah dros un diwrnod. Meddylia rhai mai y pren a elwid y *Palma Christi,* oedd y *cicaion* hwn; ond pa fodd bynnag, os bu ei dwf yn brysur, yr oedd pryf yn bwytta ei rannau bywydol, ac ebrwydd y diflannodd.

Adn. 10, 11. Mae yr Arglwydd yn appelio mewn modd tra godidog yn y geiriau hyn at reswm a chydwybod Jonah. Os mynai efe arbed y planhigyn oblegyd ei degwch a'i odidowgrwydd, cystal ag o herwydd ei ddefnyddioldeb, pa ham nad arbedai Duw bobl edifeiriol? a dinas fawr, yn yr hon yr oedd cynnifer o fabanod a *deuddeng myrdd,* neu chwech ugain mil, *y rhai ni wyddent ragor rhwng eu llaw ddehau a'u llaw aswy:* ac os cyfrifwn ni y plant yn gwneyd i fynu y bummed ran o nifer y trigolion, gallwn gasglu fod holl nifer poblogaeth y ddinas yn chwechàn mil o eneidiau. BOCHART.

# LLYFR MICAH.

*Er mai un o brophwydi Judah oedd Micah, y mae ei brophwydoliaethau yn perthynu i Judah ac i Israel. Yr oedd efe yn gydoeswr ag Esaiah a Hosea, ond hwyrach iddo or-oesi y ddau. Efe a ragfynegai gaethgludiad ei genedl, ac er cysur i'r duwiolion, efe a brophwydai am ymgnawdoliaeth y Messiah, lle ei enedigaeth, ei swyddau, a gogoniant yr Eglwys yn y dyddiau diweddaf. Mae cyfeiriadau at rannau o Lyfr Micah mewn amryw rannau o'r Testament Newydd, Matt.* 2. 6. a 7. 15. *Luc* 1. 33, 72, 73. *Ioan* 1. 1. a 7. 42. a 10. 21, 35, 36. *Ephes.* 5. 16. *Heb.* 13. 13, 14. Dat. 9. 15.

## PEN. I.

Adn. 1, 2. Gwel Nod. ar Esa. 1. 12. *Y Morasthiad,* hyny yw, brodor o Maresah, lle yn neheu-barth Judah. Jos. 15. 44. 2 Cron. 11. 8. BOOTHROYD.—*Y ddaear,* sef gwlad Canaan, ac nid yr holl ddaiar.—*A bydded yr Arglwydd Dduw yn dyst i'ch erbyn,* trwy ei air,—ei gyfraith—ei brophwydi,—a'i farnau. POOLE.—*O'i deml sanctaidd,* wrth yr hon y golygir yn gyffredin, y nefoedd, a elwir felly Sal. 11. 4. POCOCKE, W. LOWTH, GILL.

Adn. 3, 4. *Wele yr Arglwydd yn dyfod o'i le;*—Dywedir fod Duw yn dyfod o'r nefoedd pan fyddo efe yn peri amlygiad anarferol o'i drugareddau neu ei farnedigaethau ar y ddaiar. GROTIUS.—*Ac a sathr ar uchelderau y ddaear,* gan ddarostwng y llëoedd cadarnaf, a phlygu dynion o'r graddau uchelaf; gwel Am. 4. 13. W. LOWTH. Efallai fod yma gyfeiriad at y lleoedd yr addolid eilunod ynddynt. GILL.—*A'r mynyddoedd a doddasant tano ef, &c.* Trwy y cyffelybiaethau hynod hyn y dangosid, y byddai i holl anian ymostwng i'w Pherchen goruchaf yn wirfoddol neu yn orfodol, mor sicr ag y tawdd cwyr gan wres, neu y disgyn ffrydiau ar y llethrau. DAVIDSON.

Adn. 5. *Beth yw anwiredd Jacob?* Pa anwiredd a'i hynoda? Yr atteb yw, *Onid Samaria?* drygioni Samaria, llo Samaria, fel yn Hos. 7. 1. a 8. 6.—*Pa rai yw uchel-leoedd Judah?* Pwy a'u cyfododd, gan gefnogi eilun-addoliaeth? *Onid Jerusalem?* y brenin y tywysogion, a'r offeiriaid, a drigant yn Jerusalem. GILL.

Adn. 6, 7. *Yn garnedd faes dda i blannu gwinllan.* Gwnaf hi yn bentwr o adfeilion. cymh. pen. 3. 12. 2 Bren. 19. 25. Neh. 4. 2. fel pentyrau o gerrig wedi eu casglu yn nghyd mewn maes newydd ei aredig, neu mewn gwinllan newydd ei phlannu; cymh. Hos. 12. 11. Esa. 5. 2. W. LOWTH.—*A'i holl wobrau,* neu y rhoddion a offrymai y bobl i eilunod, y rhai oeddynt luosawg, a thra gwerthfawr yn aml hefyd. Dygid yr holl olud a gasglasai offeiriaid Samaria oddiarnynt gan yr Assyriaid, y rhai oeddynt hwythau yn eilunaddolwyr. Efallai fod y gair *gwobrau* yn cynnwys holl feddiannau a golud Israel; canys yr oeddent hwy yn

priodoli y cwbl i ffafr eu duwiau, ac felly yn dirmygu yr Arglwydd. DAVIDSON.

Adn. 8. *Cerddaf yn noeth*, hyny yw, heb ei wisg uchaf, ni's gofalai yn nghylch ei wisg, yr hyn oedd defod galarwyr. BOOTHROYD.—*Dreigiau*, neu lwynogod *(Jackals,)* Dywedir fod udfäau y creaduriaid hyn yn y nos, yn gwynfanus dros ben.—*Cywion y dylluan* neu yn hyttrach, "cywion yr estrys;" y rhai a wnant ryw swn griddfannus, fel pe byddent mewn ing dirfawr yn y nos. NEWCOME, SHAW, A. CLARKE.

Adn. 10—12. *Ymdreigla mewn llwch yn nhŷ Aphrah*, neu, "yn *Beth Aphrah*," yr hon oedd yn llwyth Beniamin, yn mhellach oddiwrth y Philistiaid, ac fel na thynnant sylw eu gelynion, fe erchir iddynt alaru yn ddystaw yn y llwch. POCOCKE, W. LOWTH.—*Preswylferch Sophir*, neu y ddinas deg, wrth yr hon y meddylia rhai y golygid Samaria; eraill, Jerusalem. POCOCKE.—*Ni ddaeth preswylferch Zaanan allan y'ngalar Beth-esel.* Gellid meddwl mai ystyr y geiriau hyn ydyw hyn. Pan gymerwyd Beth-esel, ni ddaeth trigolion Zaanan allan i gwyno iddynt a'u cysuro; ond safent ar eu gwyliadwriaeth eu hunain, a dysgwylient y cyffelyb adfyd.—*Efe a dderbyn genych ei sefyll-fàn*; hyny yw, fe gaiff y gelyn yn eich yspail dderbyn gwobrwy ei amser a'i lafur yn gwarchae arnoch. POCOKE.—*Maroth*, dinas yn llwyth Judah, Jos. 15. 59

Adn. 13. *Dechreuad pechod yw hi*, fel yr oedd Lachis yn gorwedd ar ffiniau y deg llwyth, yr oedd hi yn gyntaf o ddinasoedd Judah a ymroddes i eilunaddoliaeth Jeroboam. COBBIN.

Adn. 14. *I Moreseth-gath*, i Philistiaid y fro hòno, am ddïogelwch a nodded.—*Tai Achrib*, tref o'r enw yma, Jos. 15. 44. Y lle hwn a gyfettyb i'w enw, ac a siomma freninoedd Israel, y rhai a ymddiriedent ar ei nerth am gymhorth. W. LOWTH.

Adn. 15. *Mi a ddygaf etifedd i ti*, sef gelyn, yr hwn a ymddygai tuag attynt fel ei etifeddiaeth. POCOCKE.—*Gogoniant Israel*, a elwid felly oblegyd ei sefyllfa, ei chadernid, neu ei thegwch. *yr un.*

Adn. 16. *Ymfoela*, &c., yn ol defod rhai mewn dwys alar.—*Fel eryr*, pan yn bwrw ei blu. GILL.

## PEN. II.

Adn. 1. *Ar eu gwelyau.* Yr oded grym eu dymuniadau am ymgyfoethogi neu ymddial mor fawr, fel yr oeddynt yn colli eu cwsg i lunio y ffordd i gyrhaedd eu hamcanion. DAVIDSON.

Adn. 3. *Yr hwn ni thynwch eich gyddfau o hono*; cyfeiriad at ddarostyngiad trwyadl yr eidion anhywaith dan iau gref; byddent yn llwyr analluog i ymryddhau o'u cyfyngderau.

Adn. 5. *Ni bydd i ti a fwrio reffyn coelbren*, &c., hyny yw, ni bydd i chwi un gyfran; ond fe'ch llwyr symmudir, ac a'ch gwneir yn alltudiaid. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Ond ni phrophwydant iddynt na dderbyniont gywilydd;*

neu, "Ni phrophwydant i'r rhai hyn. Eu cywilydd nid ymedy." Mynai Israel i'r prophwydi ffyddlawn dewi; ac y mae Duw yn tystio nad anfonai brophwyd mwyach ond y gadawai efe hwynt i ddilyn eu *cywilydd*, neu eu heilunod; cymh. Hos. 9. 10. a 4. 17. DAVIDSON.

Adn. 7. *A fyrhawyd ysbryd yr Arglwydd?* A ydyw tosturi a thrugaredd Duw wedi lleihau? A all y fath bethau ag a ddywedir genych chwi fod ei weithredoedd ef? Yma mae yr Arglwydd yn atteb yn y geiriau olaf o'r adnod, gan dystio y gwnelai ei eiriau ef, a lefarwyd gan ei weision ffyddlawn y prophwydi, lesäad eto i'r rhai uniawn

Adn. 8 Yr oeddynt yn dangos eu gelyniaeth at Dduw trwy eu creulondeb a'u trais, gan yspeilio y rhai a ddiangasant o beryglon brwydrau, ac a'u hystyrient eu hunain yn ddiogel. BOOTHROYD.

Adn. 9. *Gwragedd fy mhobl,* wrth yr hyn y golygir gweddwon, y rhai a ormesent, gan ddwyn eu heiddo oddiarnynt.— *dygasoch oddiar eu plant hwy fy harddwch byth;* Mae rhai yn meddwl mai y golygiad yw, fod pechodau y llywodraethwyr wedi bod yn achos iddynt hwy gael eu gyru o'u gwlad ac o gyrhaedd eu holl ragorfreintiau; ac y mae yr hyn a ddywedir yn yr adnod ganlynol yn cadarnhau y golygiad hwn. BOOTHROYD.

Adn. 11. *Am win,* yr hwn a roddir yn draws enwawl am bob danteithion yn aml. Yr hwn a addawai y pethau hyn iddynt hwy, a gymeradwyid ganddynt fel gwir brophwyd. Ond y mae eraill o'r farn mai am win fel gwobrwy yr oeddynt yn prophwydo; cymh. pen. 3. 5.

Adn. 12, 13. Mae rhai esponwyr yn meddwl mai prophwydoliaeth yw y geiriau hyn am adferiad Israel dan y Messiah; ond y mae yn fwy tebyg mai yr ystyr yw, y byddai i'r brenin a'r bobl gael eu dwyn i gaethiwed fel dïadell o braidd.—Mae y gair a gyfieithir *Rhwygydd,* yn golygu un drwg yn gyffredin, Exod. 19. 22—24. Barn. 21. 15. Salm 17. 4. Jer. 7. 11; ac yma yn ddarluniad o fyddin y gelyn, wedi ei chynnull trwy osodiad Dwyfol, i'r hon yr ymddangosai yr Arglwydd ei hun yn arweinydd; cymh. Esa. 14. 1—4.

## PEN. III.

Adn. 1—4. *Onid i chwi y perthyn gwybod barn?* Pwy a ddysgwylid i wybod barn a'i gwneuthur, oni's gwyddai pennaethiaid y bobl farn? Ond er eu holl fanteision yr oeddynt yn waeth na'r paganiaid, gwel Jer. 2. 11—13.—*A fwyttant gig fy mhobl,* ymadrodd cyffelybiaethol yn arwyddo yr annghyfiawnder, a'r annynoliaeth mwyaf; gwel Ezec. 22. 27. Zeph. 3. 3. POOLE. Yr oeddynt yn ymddwyn yn debyccach i fwystfilod gwylltion nac i fugeiliaid ffyddlawn. COBBIN.—*A'u hesgyrn a ddrylliant,* fel y gwna cogyddion i gael y mêr allan. GILL.

Adn. 5—7. *Am y prophwydi* gau, a drygionus, y rhai a brophwydent er mwyn eu cynhaliaeth eu hunain. BOOTHROYD.

Adn. 10. *Adeiladu Sïon y maent â gwaed*, hyny yw, yr oeddynt yn cyfodi adeiladau gwychion yn y ddinas, â'r elw a gasglent trwy orthrwm; gwel Amos 4. 6.

Adn. 11. *A'i hoffeiriaid a ddysgant er cyflog*, yr hyn oedd groes i ewyllys Duw, yr hwn a wnaethai arlwy digonol i'r offeiriaid.

Adn. 12. A *mynydd y tŷ fel uchel-leoedd y goedwig*. Yr oedd y fan lle safai Sïon i gael ei aredig fel maes, yr hyn a gwblhawyd mewn mesur pan ddinystriwyd Jerusalem gan y Caldeaid; ac yn gyflawnach pan y'i dinystrwyd gan y Rhufeiniaid, ac yr arddwyd Sïon yn llythyrenol gan Terentius; ac wedi hyny fe'i gwnaed yn ddiffaethwch na's cynnyrchai ddim ond coed, manwydd, a mïeri. Gwel. Matt. 24. 1, 2.

## PEN. IV.

Adn. 1. Gwel Esa. 2. 2. Meddyliai *Esgob* LOWTH fod prophwydoliaeth Esaiah wedi ei hysgrifenu yn gyntaf, ac mai dyfyniad o hono gan y Prophwyd Micah, yw y geiriau hyn. Ond, gan fod y ddau yn cael eu dylanwadu gan yr Ysbryd, nid yw yn rhyfedd eu bod yn cael eu cynhyrfu i lefaru mor debyg er cadarnhau tystiolaeth y naill y llall, pe na buasai y naill yn gwybod dim am brophwydoliaethau y llall. J. COBBIN.

Adn. 4. *Ac eisteddant bob un dan ei winwydden*, ymadrodd diarhebol, yn dynodi tawelwch, diogelwch, a mwynaad o feddiannau. GILL.

Adn. 5. *Canys yr holl*, neu, "Er i'r holl," &c. Na fydded i ni eu dilyn yn eu heilunaddoliaeth; ond bod yn ddianwadal yn ngwasanaeth yr Arglwydd. BOOTHROYD.

Adn. 6, 7. *Yn y dydd hwnw*, amser y Messiah. Felly mae yn eglur fod y brophwydoliaeth yn golygu, adferiad yr Iuddewon i'r eglwys Gristionogol, ac nid eu dychweliad o gaethiwed Babilon. DAVIDSON. Mae y gair a gyfieithir *y gloff*, yn arwyddo un yn myned ar led ochr, heb fod yn uniawn, ac felly yn gymhwys i ddynodi rhai wedi cilio o ffyrdd Duw, heb rodio yn ol y gair Dwyfol, yr hyn sydd ddarluniad prïodol o'r Iuddewon yn eu gwrthgiliad presenol. GILL.

Adn. 8. *Twr y praidd*, wrth yr hyn mae yn debyg y golygid mynydd Sïon. Arferai y bugeiliaid mewn porfëydd ehang iawn, adeiladu twr lled uchel, o'r hwn y gwylient y praidd. Ystyrir Sïon yma fel Gwylfa y freniniaeth. T. WILLIAMS.—*Yr Arglwyddiaeth bennaf*, neu flaenaf. Bydd y freniniaeth hon fel arglwyddiaeth flaenaf Israel yn amser Dafydd a Solomon, ac a ragora ar bob breniniaeth arall. Deuai Mab Dafydd i Jerusalem, ac a sefydlai ei freniniaeth, a'i dylanwad a ymleda oddiyno i genhedl-

oedd eraill; ac er fod y ddinas i gael ei dinystrio yn fuan ar ol hyny, eto byddai yr eglwys efengylaidd, y Sïon ysbrydol yn aros, yn yr hon y teyrnasa Crist er llesaad ei bobl, a rhaid i'w achos lwyddo hyd ddiwedd y byd. SCOTT.

Adn. 9, 10. Gellid meddwl fod Babilon yn cael ei dwyn i mewn yma fel mewn prophwydoliaethau eraill, yn arwyddluniawl; gwel Zech. 5. 9—11. Goddefodd yr eglwys greulonderau anhygoel oddiwrth Babilon ysbrydol. Ond yn ei hawr gyfyngaf, pan oedd pethau allanol fel pe dywedasent nad oedd ganddi un Duw, hi a waredwyd. Dan. 7. 21, 22. Ac mor annysgwyliadwy oedd yr arwydd cyntaf o'i gwaredigaeth, fel mai pan oedd Annghrist wedi cyrhaedd pinacl ei uchel frydedd satanaidd yr ymddangosodd. Cymh. Nod. ar Dat. 14. 6—20. DAVIDSON.

Adn. 11—13. Dyma ddarluniad byr, ond bywiog o fuddugoliaeth orfoleddus yr Eglwys ar y cenhedloedd Annghristaidd,—buddugoliaeth dra phwysig, fel y gellir casglu drwy ei bod yn destyn cynnifer o brophwydoliaethau, fel y gwelir yn ddiau pan y'i cyflawnir. DAVIDSON.

## PEN. V.

Adn. 1. *Yr awr hon ymfyddina, merch y fyddin.* Mae amryw feirniaid yn cydio yr adnod hon â'r bennod flaenorol, ac wrth *ferch y fyddin* yn golygu yr Assyriaid, neu y Rhufeiniaid; ond y mae yn fwy tebyg mai yr Eglwys, neu bobl Dduw a olygir, y rhai a ddarlunir yn fynych fel byddin, maes buddugoliaeth yr hon yw y byd. Gwel Can. 6. 4. Sal. 149. 6—9. Gelwir arnynt i *ymfyddino* neu ymuno fel un gwr yn erbyn y gelyn cyffredin; ac y mae y ddadl a ddefnyddir i gefnogi yr annogaeth hon yn dra grymus. —*Tarawant farnwr Israel â gwialen ar ei gern,* gweithred o anmharch dirfawr, gwel Nod. ar Act. 22. 2—5. Esa. 50. 6. Mae yn debyg ei fod yma yn golygu yr holl waradwyddiadau a'r gofidiau a oddefodd y Messïah oddiwrth satan a'i genhadon; ac fel na byddai i'w ganlynwyr lwfrhau o herwydd y pethau hyn, bod cariad atto ef, ac at y naill y llall yn dra angenrheidiol. DAVIDSON.

Adn. 2. Mae y brophwydoliaeth hon am y Messiah yn un o'r rhai mwyaf nodedig yn yr Hen Destament, a'r fwyaf cynhwysfawr am ei berson a'i weithrediadau ef.—*Miloedd Judah,* cyfeiriad at raniad y llwythi i filoedd, dan dywysogion pennodol y rhai a'u harweinient i faes y frwydr, 1 Sam. 23. 23. Nid oedd Bethlehem ond bechan mewn cydmariaeth i lawer o ddinasoedd, ac ni's gallai roddi nemmawr o gynnorthwy tuag at ffurfio byddin; ond fe'i hanrhydeddid goruwch y cwbl trwy iddi gael ei dewis yn lle genedigaeth Tywysog, sef Barnwr Israel.—*O'r dechreuad, er dyddiau tragywyddoldeb.* Mae y geiriau gwreiddiol am y ddau ymadrodd yma, o'u cymeryd ar wahan, weithiau yn cael eu defnyddio i

ddynodi amser dyfodol, i'r hwn y bydd terfyn, eto maith a chudd-iedig yn bresenol i amgyffredion dynol; ond ystyr briodol y ddau ymadrodd yw, TRAGYWYDDOLDEB GWIRIONEDDOL, ac mae y ddau ymadrodd yn eu sefyllfa gyllystiadol fel hyn yn gwneyd y darluniad cryfaf o hyny a ddichon yr iaith Hebraeg ei osod allan. Gwel Gen. 21. 33. 1 Cron. 29. 10. Sal. 90. 2. a 25. 6. a 103. 17. DAVIDSON.

Adn. 3. *Am hyny*, neu "Er hyny, hyd enedigaeth y person hwn fe ddyru yr Arglwydd yr Iuddewon i fynu i drallod a chyfyngder." GILL, NEWCOME, HALES.

Adn. 4. *Ac efe a saif*, sef y llywydd a grybwyllwyd yn adn. 2. —*A nerth yr Arglwydd*; bydd yn amlwg ei fod yn feddiannol ar allu ac awdurdod Dwyfol.—*A hwy a drigant*, neu, "A hwy a droïr," trowyd llawer o'r Iuddewon trwy ei weinidogaeth ef ei hunan, a mwy trwy weinidogaeth ei genhadon ef. BOOTHROYD.

Adn. 5. *A hwn fydd yr heddwch*. BOOTHROYD ac amryw o'r dysgedigion a gyssylltant y rhan flaenaf hon o'r adnod â'r rhan olaf o adn. 4, gan ei ddarllen fel y canlyn, "Ac efe a fydd yn awdwr heddwch." Ac yna y maent yn dechreu gwahanran newydd yn y geiriau nesaf.—*Yna y cyfodwn*, neu "y cyfodir," *saith fugail*, tywysogion y Mediaid a'r Babiloniaid, y rhai a ymosodasant ar Ninefeh, ac a'i cymmerasant hi. BOOTHROYD. Wedi Cyrus, cyfyd saith bugail *Persiaidd*, y rhai a geisiant gynnorthwy ac ewyllys da fy mhobl. SUTCLIFFE. Dan ei lywodraeth ef, nyni a gawn ddigon o dywysogion i wrthwynebu anturiaethau y gelyn. COBBIN.

Adn. 7—9. Yr Iuddewon gwasgaredig ar eu dychweliad a fyddant yn foddion i droi y cenhedloedd, a gwneyd y ddaiar yn ffrwythlawn mewn ystyr foesol.—*Yr hwn*, sef y gwlith, *nid erys ar ddyn*, fel ffynhonau a dwfr-ffosydd yn y gwledydd dwyreiniol, o'r rhai y dyfrheid y ddaiar trwy lafur dynol. W. LOWTH.—*Fel llew*, pan ddychwelodd yr Iuddewon i'w gwlad eu hunain buant yn bobl gryfion dan y Maccabeaid, ac ennillasant lawer o fuddugoliaethau nodedig ar eu gelynion. BOOTHROYD. Pan y'u dychwelir at Gristionogaeth amddiffynant yr achos hwnw mor bybyr, nes y ffynna dros yr holl ddaiar.

Adn. 10—15. *A bydd i mi—dori ymaith dy feirch o'th ganol di*; addewid o heddwch a diogelwch, ac annogaeth i ymddiried ar Dduw yn unig. POCOCKE.—Efe a dynnai ymaith bob dynol ymddiried, HUTCHESON.—*Torraf i lawr dy luniau cerfiedig*, ni byddi mwyach yn bobl eilunaddolgar. A. CLARKE. Meddylir yn gyffredin fod yr adnod olaf yn cynnwys prophwydoliaeth am ddinystr gelynion yr Eglwys, yr Assyriaid, a'r Cenhedloedd eraill oeddynt mewn gelyniaeth i Israel, medd rhai, y galluoedd annghristaidd, y rhai a fuant yn gormesu eglwys Crist, medd eraill.

## PEN. VI.

Adn. 1. *Ymddadleu a'r mynyddoedd.* Mae Duw yn fynych yn apelio at greaduriaid difywyd am gyfiawnder ei ymddygiadau, ac felly yn ceryddu hurtrwydd dyn; gwel pen. 1. 2. Deut. 4. 26. a 32. 1. Sal. 1. 4. Esa. 1. 2. W. LOWTH. Apelir at y mynyddoedd a'r bryniau, am mai arnynt hwy mewn modd arbenig y buasent hwy yn pechu yn erbyn Duw. POOLE.

Adn. 4. *Moses, Aaron, a Miriam;*—Deddfwr, Offeiriad, a Phrophwydes. GILL.

Adn. 6. *O Sittim hyd Gilgal.* Mae yr alleirydd Caldaeg yn darllen o flaen yr ymadrodd yma, "Oni wnaethpwyd pethau mawrion eroch chwi," ac y mae yn dra eglur fod yma gyfeiriad at yr holl ryfeddodau a wnaethai Duw erddynt, o'r amser y ceisiasai Balaam eu melldithio yn Sittim, hyd oni chyrhaeddasant Gilgal, a chymeryd meddiant o wlad yr addewid; Num. 25. 1. Jos. 3. 1. a 4. 20. Meddylia rhai fod yma gyfeiriad at symudiad Balaam o le i le, gan ddysgwyl cael rhyw le a chysegredigaeth digonol ynddo i wneyd ei aberthau yn gymeradwy i'r Duwdod, ac i ffynnu gydag ef i felldithio Israel: ond efe a orfodid yn mhob man i'w bendithio.

Adn. 6, 7. A *pha beth y deuaf*, &c. Mae y prophwyd yma yn dwyn un o'r bobl yn mlaen yn enw y lleill, fel pe byddai yn gofyn pa fodd y gallai ddyhuddaw digofaint Duw, ac ennill ei ffafr. Yr unig bethau a gynnygiai oedd offrymmau ac aberthau; ond ni soniai ddim am edifeirwch na diwygiad.—*Dyniewaid*, neu loi blwydd; yr offrymmau a roddid dros yr archoffeiriad, ac a nodir yma fel y gorau o offrymmau, Lef. 9. 2.—*Fy nghyntaf anedig*, yr anwylaf o'm hiliogaeth. Mae yn hysbys yr arferai y Phœniciaid a'r Canäaneaid offrymmu eu plant, a dylynid eu hesampl arswydlawn gan rai Iuddewon eilunaddolgar, o herwydd yr hyn yr ymliwiai y prophwyd â hwynt yn aml.

Adn. 8. *Dangosodd efe i ti, &c.* Mae y prophwyd yn atteb ymholiadau y bobl, trwy ddwyn ar gof iddynt yr hyn a ddysgasai Duw iddynt o'r blaen yn ei ddeddf, a thrwy ei brophwydi eraill, fod pob rhyw aberthau yn ofer, oni's dilynid hwy gan edifeirwch a diwygiad. BOOTHROYD.

Adn. 9. *Llef yr Arglwydd, &c.* Mae BOOTHROYD a rhai beirniaid eraill yn darllen y geiriau beth yn wahanol i'n cyfieithiad arferedig ni,—"Llef yr Arglwydd a lefa ar y ddinas, a'r hwn sydd ddoeth a ofna ei enw; gwrandewch O lwythau, yr hwn sydd yn tystiolaethu." Yr hyn a dystiolaethir gan Dduw sydd yn canlyn oddiyma i ddiwedd y bennod.

Adn. 13—16. *A'th glwyfaf wrth dy daro*, neu, "Am hyny y dechreuaf dy daro."—*A'th ostyngiad fydd yn dy ganol dy hun*, neu, "A bydd yn dywyllwch yn dy ganol." *Sept. Arabaeg.* Y

darlleniad hwn a gymeradwyir gan HOUBIGANT, NEWCOME, a BOOTHROYD. Mae adfyd yn cael ei ddarlunio yn fynych trwy y gyffelybiaeth o dywyllwch, Job 18. 6. Esa. 59. 9,—*Deddfau Omri*, gwel 1 Bren. 16. 16—23. Efe a adeiladodd Samaria, ac a noddai eilunaddoliaeth, a'r bobl a ddylynent ei siampl ef.—*Wrth fy mhobl*, sef y gwarth a deilyngai eu hymddygiad rhagrithiol, fel ei bobl broffesedig ef; cymh. Jer. 31. 19.

## PEN. VII.

Adn. 1, 2. Fel na's gellir cael y ffigysen gynnar flasus yn mhell yn yr haf, na swp o rawnwin dewisol wedi y cynhauaf gwin, felly ni's gellid cael dyn duwiol a da yn Israel er chwilio yn fanol am dano. BOOTHROYD, NEWCOME.

Adn. 3. *A'r ddwy ddwylaw yn egniol;* yr oeddynt yn rhoddi eu holl nerth ar waith i wneyd drwg. DAVIDSON.

Adn. 4. *Dydd dy wylwyr*, yr adeg briodol iddynt i rybuddio y genedl o'u perygl.—*A'th ofwy*, neu ymweliad cosbedigaethawl.

Adn. 5, 6. Gwel Matt. 10. 34, 35.

Adn. 7—10. *Am hyny mi a edrychaf ar yr Arglwydd.* Mae y prophwyd yma yn llefaru yn enw yr eglwys, gan benderfynu ymddiried yn Nuw yn unig mewn ffydd a gweddi. GILL.—*Dioddefaf ddig yr Arglwydd*, sef y profedigaethau, y rhai oeddynt yn gyffredin yn arwyddion o anfoddlonrwydd yr Arglwydd.—*Efe a'm dwg allan i'r goleuad*, neu i'r goleuni; hyny yw, ei gwaredu o'i hadfyd, yr hwn a ddarlunir yn fynych dan y gyffelybiaeth o dywyllwch.—*Fy llygaid a'i gwelant hi, &c.* Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon pan gymerwyd Babilon, ac y dinystriwyd amherodraeth yr Assyriaid gan y Mediaid a'r Persiaid; Dan. 5. 30, 31. POCOCKE.—*Bellach y bydd hi yn sathrfa, &c.* Cyfeiriad mae yn dra thebyg at ddefod yn mysg y Dwyreinwyr, yn enwedig yr Aiphtiaid, o dynu lluniau eu gelynion ar wadnau eu sandalau, fel y gallent eu mathru yn nhom yr heolydd. DAVIDSON.

Adn. 11—13. *Adeiledir dy furiau*, ehangir yr Eglwys. Gwel Am. 9. 8—10. Sal. 102. 13—18.—*Yr ymbellha y ddeddf*, neu "yr estynir y ddeddf;" cyhoeddiad Cyrus a'i olynwyr am adferu Jerusalem a'r deml, yr hwn a ledaenid trwy yr holl daleithiau. BOOTHROYD. Eraill a farnant fod yma gyfeiriad at fwriad Duw i ddyrchafu y Messiah trwy gyhoeddiad yr efengyl, Sal. 2. 7, 8. Cadarnheir y golygiad yma trwy yr hyn a ganlyn; bydd i bob cenedl, ïe, hyd yn nod gelynion galluoccaf Crist, y rhai a ddynodir trwy Assyria, ymostwng i'w lywodraeth ef. Ond er yr holl ogoniant yma a addawid i'r ffyddloniaid, yr oedd Judea i fod yn anrhaith.—*O fynydd i fynydd*, o Libanus i fynydd Seir;—*O fôr i fôr*, o Fôr y Canoldir, i'r Môr Coch; hyny yw, byddai i'r holl wledydd a gyfanneddid gan y gwir Israel dderbyn yr efengyl. DAVIDSON.

Adn. 14—17. Mae rhai yn meddwl fod y rhan gyntaf yn cynnwys gweddi y prophwyd dros ei bobl fel rhai mewn unigedd yn y caethiwed yn gyntaf, ac yna fel rhai adferedig, yn ettifeddu Gilead, &c., a'r ddwy adnod olaf a ystyrir fel attebiad Duw iddo. BOOTHROYD.

Adn. 18—20. Mae y prophwyd yn diweddu ei lyfr gyda mawrygiad o drugaredd Ddwyfol tuag at ei bobl bechadurus. BOOTHR.

# NAHUM.

*Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hynod hon, yn mha un y rhagfynegid cwymp yr amherodraeth Assyriaidd, mewn modd tra nodedig yn mhen tua chan mlynedd ar ol ei thraddodi, a deng mlynedd ar hugain cyn dinystr Jerusalem. Mae rhai yn casglu oddiwrth pen.* 2. 2, *fod Nahum yn prophwydo wedi caethgludiad y deg llwyth.* JOSEPHUS *a'i cyflea yn nheyrnasiad Jotham, ond meddylia eraill fod y brophwydoliaeth wedi ei thraddodi yn nheyrnasiad Hezeciah, ac yn lled fuan ar ol darostyngiad Israel gan Salmaneser. Cyfeirir yn Rhuf.* 10. 15, *at pen.* 1. 15, *ac yn Dat.* 18. 2, 3. *at pen.* 3. 4.

## PEN. I.

Adn. 1. *Yr Elcosiad*, a elwid felly am ei eni yn Elcosa, pentref bychan yn Galilea. GRAY.

Adn. 8. *A llifeiriant yn myned drosodd, &c.* Y mae gorlifiad afon yn cael ei ddefnyddio yn gyffelybiaethol o farnedigaethau an wrthwynebol yn aml. Efallai fod yma gyfeiriad at y modd y cymerwyd Ninefeh, canys fe ddywaid yr hanesydd DIODORUS fod yr Euphrates wedi chwyddo dros ei cheulannau pan oeddid yn gwarchae ar Ninefeh, ac wedi gorlifo rhan o'r ddinas, a dymchwelyd rhan fawr o'r mur, yr hyn a barodd i'r brenin anffodus syrthio i'r fath anobaith fel y llosgodd efe ei hunan, ei balas, a'i drysorau. NEWCOME.

Adn. 9—11. *Ni chyfyd blinder ddwywaith;* yr ymosodiad chagddywededig ar y ddinas, a barai dranc ar y gallu Assyriaidd, fel na byddai raid wrth adfyd newydd i beri hyn, gwel pen. 2. —13.—*Tra yr ymddyrysont fel drain*, i wneyd gwrych neu gae drain, darluniad cyffelybiaethol o fyddin wedi ei chyfodi i amddiffyn y ddinas, gwel Hos. 2. 6.—*A thra y meddwont fel meddwon*, wedi meddwi gan falchder a hunandyb am eu doethineb, eu golud, a'u gallu, yr hyn a'u hannghymwysai fel meddwdod i ymddwyn yn synhwyrol; cym. pen. 3. 1—4.—*Cynghorwr drygionus*, Senacherib, neu Rabsache. GILL, WILLIAMS. Y cyfryw hefyd oedd Pul, 2 Bren. 15. 19. Tiglath-pileser, 2 Bren. 15. 29. Salmanaser, 17. 6. NEWCOME.

Adn. 12, 13. Os golygir yr addewid yma yn perthynu i Israel

yn ol y cnawd yn unig, yr unig beth a all ddynodi yw, na byddai i'r Arglwydd eu cosbi mwyach drwy yr Assyriaid; ac felly gellir casglu fod Nahum yn prophwydo ar ol dymchweliad gwyrthiol y Assyriaid, y rhai a waradwyddent Hezeciah, ac a gablent Dduw Israel.—*Pe byddent heddychol ac felly yn aml*, ymadrodd yn arwyddo y byddai i'r gelyn ruthro ar Ninefeh ar ganol tymhor heddychol a llwyddiannus; cymh. pen. 2. 5, a 3. 16—18. Wrth o*iau*, yr ydys yn golygu y deyrnged a gyfodai yr Assyriaid ar Judah, 2 Bren. 18. 14. DAVIDSON.

Adn. 14. *Na hauer o'th enw mwyach.* Brenin Assyria a gyferchir yn y geiriau hyn, wrth yr hyn yr arwyddocceid na's byddai iddo wneyd dim nodedig mwyach trwy yr hyn y byddai coffa ei enwogrwydd trwy y gwledydd. BOOTHROYD, W. LOWTH. Mae eraill yn meddwl mai paräad o'r addewid i Judah yw y geiriau hyn, na byddai i'w henw gael ei hau neu ei wasgaru yn watwargerdd i'r cenhedloedd cylchynol mwyach. A. CLARKE.—*Gwnaf dy fedd*, terfynaf dy drallod.—*Canys gwael ydwyt*, wedi dy ddarostwng gan y gelyn, a'th ddïosg o'th odidowgrwydd. DAVIDSON.

## PEN. II.

Adn. 1. *Daeth y chwalwr i fynu*, sef byddin y Mediaid a'r Persiaid. BOOTHROYD.—Y Caldeaid a'r Mediaid. NEWCOME, DAVIES.

Adn. 2. *Fel ardderchowgrwydd Israel*, mae yn debyg mai yr ystyr yw, y byddai i Dduw ymddwyn tu ag attynt mewn modd gweddus i'r enw Israel, yr hyn a ddynodai, 'tywysog gyda Duw,' er eu bod y pryd hwn wedi eu dyhysbyddu a'u caethgludo. Y casgliad yw, y byddai i ddarostyngiad Ninefeh fod yn waredigaeth i Israel. BOOTHROYD.

Adn. 3. Yma darlunir arfogaeth y rhai a ymladdent yn erbyn Israel, yr oedd eu tariannau yn gochion, a'u gwisg o ysgarlad.—BOOTHROYD.—*A'r ffynidwydd*, sef eu gwaywffyn a'u piccellau a wnelid o ffynidwydd. W. LOWTH.—*A ysgydwir yn aruthrol* wrth yr hyn y golygid y byddai iddynt gael eu hergydio gyda nerth ofnadwy y pryd hwnw. A. CLARKE.

Adn. 5. Yn ol ein cyfeithiad ni, gellid meddwl mai ymdrechion aneffeithiol y gwarchaëedig i'w hamddiffyn eu hunain a olygir yma; ond y mae rhai beirniaid manyl-graff o'r farn mai darluniad sydd yma o'r gelyn yn cyfrif ei gedyrn, a'r rhai hyny yn bwrw pob rhwystrau i lawr o'u blaen, gan brysuro at y gaer; a'r gwarchaëedigion yn parottoi yr amddiffynfa. DAVIDSON.

Adn. 6—9. *Pyrth y dwfr a agorir*, gwel Nod. ar pen. 1. 8—*Hussab*, sef Ninefeh, yr hwn a elwid felly gan ei thrigolion, y rhai a'i cyfrifent yn anorchfygol; mae y geiryn yn arwyddo, "yr hyn a sefydlwyd."—*A Ninefeh sydd er's dyddiau fel llyn o ddwfr* neu "A dyfroedd Ninefeh ydynt fel llyn o ddwfr." Gorlifiad yr afon, yn nghyd a'r dyfr-ffosydd a wnaethai y Ninefeaid yn am

ddiffyn i'w dinas, a'i gwnaethai fel llyn o ddwfr, a'r canlyniad fu iddi gael ei gwneyd yn gorsle ddiffaith ac annghyfanneddol.—NEWCOME, DAVIDSON.

Adn. 10—13. Mae y geiriau hyn yn cynnwys darluniad tra effeithiol o'r darostyngiad mawr a fyddai ar Ninefeh; ac y mae y teithwyr manylaf yn tystio fod y rhagfynegiadau hyn wedi eu cyflawni mor berffaith, fel y mae yn anmhossibl i neb benderfynu yn ddiammheuaeth, pa le y safai y ddinas fawr hon.—*Trigfa y llewod*, mynych iawn y mae buddugoliaethwyr yn cael eu cyffelybu i *lewod*, ac ni bu neb erioed mwy creulawn a gormesol na thennaduriaid Ninefeh. Cymh. pen. 3. 1—4.

## PEN. III.

Adn. 1—3. Meddyliai NEWCOME fod y tair adnod yma yn ddarluniad o'r hyn ydoedd Ninefeh yn amser y prophwyd, yr hyn sydd ddarluniad tra chywir hefyd o ansawdd waedlyd gormesol a chreulawn, buddugoliaethwyr yr oesoedd boreuol.

Adn. 4. *Meistress swynion*, dyma gyfeiriad at y dichellion a arferai hi i geisio cadarnhau ei hawdurdod, trwy hudo y cenhedloedd a ddarostyngai i ymuno â hi yn addoliad ei duwiau. BOOTHR.

Adn. 5—7. Yma bygythir y byddai iddynt gael eu darostwng i'r sefyllfa iselaf a gwaradwyddusaf o gaethwasanaeth; cymh. Esa. 20. 6. a 15. 2—4. DAVIDSON.

Adn. 8—10. *No dylwythog*, mae BOCHART, a BUCKHINGHAM yn gryf o'r farn, mai Diospolis, neu Thebes, yn yr Aipht, a olygid wrth y *No* hon, yr hon y mae afon y Nil yn dolennu trwyddi, a'r cyfr-ffosydd lluosawg trwy y rhai y dyfrheid y wlad, yn ei hamgylchynu.—*A'r môr yn rhagfur iddi*, gellir dywedyd fod y môr yn rhagfur i wlad yr Aipht.

Adn. 11. *Tithau hefyd a feddwi*. Dywaid yr hanesydd *Diodorus* fod y pennadur Assyriaidd wedi ymfalchio cymmaint gan lwyddiant a ddilynasai ei arfau i ddarostwng y Bactriaid gwrthryfelgar, fel yr ymroddes efe i loddest, gan roddi pob rhyddid i'w fyddinoedd hefyd i yfed ac ymloddesta, ac encilwyr a fynegasant i'r gelyn am feddwdod ac esgeulusdra y Ninefeaid, yr hwn a achubodd y cyfle manteisiol ac a gymerodd y ddinas.

Adn. 13 *Yn wragedd*, yn annewr heb rym ynddynt i wrthsefyll y gelyn.

Adn. 15—17. Mae y locustiaid yn farwaidd iawn ar ddiwrnod oer, yn llechu yn y gwrychoedd, am hyny gall oerni eu cadw mewn bro wedi y darfio iddynt ddifa pob gwyrddlysiau; ond pan gynted ag y dychwelo y tes, hwy a brysurant ymaith i ryw le mwy manteisiol. Felly yr oedd masnachwyr lluosawg, a gwŷr mawr Assyria yn cyrchu i'r brif ddinas, tra yr oedd gobaith am gyfoeth, anrhydedd, a diogelwch yn eu tynu yno; ond pan siomwyd eu dysgwyliad hwy a brysurasant i ffoi. DAVIDSON.

Adn. 18. Wrth *fugeiliaid*, mae yn debyg y golygir llywodraethwyr y taleithiau; ac wrth bendefigion y golygir prif weinidogion y brenin, y rhai a'i cynnorthwyent ef yn y llywodraeth.—BOOTHROYD.

# LLYFR HABACCUC.

*Ni's meddwn un hanes benderfynol am y prophwyd hwn; ond y mae y nifer amlaf o'r Amseryddwyr Ysgrythyrol enwoccaf yn ei gyfleu yn nheyrnasiad Jehoiachim, rhwng y blynyddoedd* 606, *a* 598 *cyn Crist. Mae ei fod yn son am y Caldeaid; ond yn ddystaw am yr Assyriaid yn peri fod cryn debygolrwydd fod Ninefeh wedi cwympo yn ei amser ef; ac fel y mae efe yn rhagfynegi caethgludiad Judah, gellid meddwl ei fod yn gyfoeswr a Jeremiah ac Ezeciel. Cyfeirir at ysgrifenadau Habaccuc yn Act.* 2. 4. *a* 13. 41. *Rhuf.* 1. 17. *Heb.* 10. 37, 38.

## PEN. I.

Adn. 5. *Gwelwch yn mysg y cenhedloedd;* dyma atteb yr Arglwydd i gŵyn y prophwyd, neu yr hyn y'u cyfarwyddid ef gan Dduw i'w ddywedyd wrth yr Iuddewon euog o'r camweddau y cwynid o'u herwydd, y rhai ni's dihangent yn ddigosp yn hir. GILL. Mae NEWCOME yn cyfieithu y geiriau "Gwelwch chwi droseddwyr."—BOOTHROYD, "Ddirmygwyr;" gwel Act. 13. 40—47.

Adn. 6. *Cenedl chwerw a phrysur,* yr hyn a'u dynodai fel rhai sydyn yn eu hymosodiadau, a chreulawn wrth y gorchfygedig.—BOOTHROYD.

Adn. 7. *O honynt eu hun y daw allan eu barn a'u rhagoriaeth,* hyny yw, a ennillwyd trwy eu dewder eu hun, yn ymryddhau oddi tan yr iau Assyriaidd, ac yn disodli y gallu hwnw. NEWCOME, DAVIDSON.

Adn. 8. *Na'r llewpartiaid,* creaduriaid cryfion, creulawn; ond rhai a ddofid, ac a arferid i hela (meddir) yn Mhalestina, y rhai yr oedd eu sydynrwydd yn disgyn ar eu hysglyfaeth yn ddiarhebol; a dywedir y llamment ddwy ar bymtheg neu ddeunaw troedfedd ar unwaith. DAVIDSON.—*Eu marchogion hefyd a ymdaenant.* Sonia *Baron de Tott* am fyddin o Tartariaid yn ymranu yn wahanol finteioedd, a phob mintai yn ffurfio adraniadau drachefn, nes gorchuddio y wlad a oresgynid ganddynt, llosgi ei phen trefydd, yr ŷd, a'r porthiant, a chaethgludo y trigolion a'u hanifeiliaid. Gall hyn roddi eglurâad ar y testyn. HARMER.

Adn. 9. *Ar gyfer eu hwyneb y bydd,* neu, "Sugniad eu hwynebau a fydd fel y gwynt dwyreiniol." BOOTHROYD. Hyny yw, hwy a sugnant ac a ddystrywiant eu gelynion yn brysur, megis y sycha ac y gwywa y gwynt dwyreiniol lysiau. NEWCOME.

Adn. 10. *Ac a gasglant lwch,* hyny yw, a gyfodant wrthgloddiau, ar y rhai y gosodent yr offer rhyfel i ymosod ar gaerau eu gelyn-

ion. Eraill a farnant fod yr ymadrodd yn dynodi y byddai cymeryd amddiffynfeydd cedyrn yn orchwyl mor hawdd iddynt hwy, fel yr ymddangosai megis chwareu. DAVIDSON.

Adn. 11. *Yna y newidia ei feddwl.* Mae y geiriau hyn yn dynodi mewn modd tra grymmus effaith niweidiol llwyddiant parhaus ar feddwl pennaduriaid Babilon. Hwyrach eu bod hwy yn ofni Duw Israel hyd oni chawsant feddiant o Judah, yr hyn a'u balchiodd gymmaint, fel yr ymroisant i eilunaddoliaeth, gan fawrygu eu duwiau; cymh. Jer. 39. 11, 12. a 40. 3, 4. Dan. 5. 1—4. a 3. 1—8. a 4. 29—37.

Adn. 12, 13. Yma y mae y prophwyd yn ymgyssuro yn yr ystyriaeth o briodoliaethau y gwir Dduw, gan gasglu na chaent eu llwyr ddyfetha, gan nad oedd y rhai hyn namyn offerynau yn llaw Duw, i farnu yr euog, a cheryddu y sawl a arbedir ganddo. BOOTHROYD. Ac na's gallai fod eu hanwireddau hwythau yn llai ffiaidd yn ngolwg Duw na'r eiddo yr Iuddewon; ac y byddai iddo yn ddiau ddwyn cosbedigaeth gyfiawn arnynt hwythau. Yr oedd y Babiloniaid yn llwyr ddrygionus, ac yn caethiwo cenhedloedd na roisent iddynt un achos rhesymol i'w cyfiawnhau am y fath ymddygiad; ac er gwaethed oedd yr Iuddewon, yr oeddynt yn gyfiawn mewn cydmariaeth i'w gelynion; yr hyn debygid yw ystyr y rhan olaf o adn. 13. DAVIDSON.

Adn. 14—17. Yr ystyr yw, fod yr Arglwydd fel pe bae wedi rhoi y cenhedloedd i fynu yn ysglyfaeth o'r fath rwyddaf i'r Babiloniaid, y rhai a wag fostient fod eu llwyddiant i'w briodoli yn hollawl i'w doethineb a'u gallu milwraidd rhagorach hwy eu hunain.—*A gant hwy gan hyny dywallt eu rhwyd?* A ddilynir eu dyfeisiau â llwyddiant yn barhaus? Mae yn ddiau nad ymholiad o amheuaeth ydoedd hwn, canys fe wyddai y prophwyd yn sicr nad oedd eu llwyddiant i fod ond dros fyr amser; ond y mae y geiriau yn dynodi gofid meddwl y prophwyd uwch ben yr adfydau yr oedd efe yn cael ei ysbrydoli i'w cyhoeddi. DAVIDSON.

## PEN. II.

Adn. 1. *Safaf,* neu, "Sefais,"—*ar fy nysgwylfa,* neu, "ac edrychais."—*Beth a ddywed efe wrthyf,* "ynof, neu trwof fi."—HOUBIGANT, NEWCOME. Cyfeiriad at swydd gwyliedydd yn amser rhyfel, gwel 2 Bren. 9. 17. W. LOWTH.—*A pha beth yr attebaf pan y'm cerydder.* Neu, "A pha beth a ettyb efe i'm hymddadl." BOOTHROYD.

Adn. 2. *Fel y rhedo yr hwn a'i darlleno.* Cyfeiriad at yr arferiad o grogi penderfyniadau neu gyfreithiau gwladol ar golofnau, neu adeiladau cyhoedd, y rhai a ysgrifenid mor eglur, fel y gallai yr hwn na's cymerai ond cipolwg arnynt eu darllen a'u deall.—BOOTHROYD.

Adn. 3. *Dros amser gosodedig,* y mae Duw wedi pennodi yr am-

ser nodedig i'w chyflawni, cymh. Dan. 8. 19. a 11. 27, 35, 36.—*Hi a ddywed ac ni thwylla*, y cyflawniad o honi a eglura ystyr y brophwydoliaeth yn berffaith, fel na chywilyddir neb a'i credo.—*Nid oeda*, fynyd dros amser gosodedig Duw, Dan. 4. 34, 35.

Adn. 4. *Yr hwn a ymchwydda, nid yw uniawn ei enaid ynddo*, neu, "ni chymer sylw;" meddylia rhai mai y Caldeaid a gyferchir yma yn y rhif unigol, gwel pen. 1. 7, 12. 15—17; neu hwyrach fod yma gyfeiriad at Nebuchodonosor a Belsassar.—NEWCOME.—*Ond y cyfiawn*, yr hwn a gredo fy mhrophwydi, ac a ufuddhäo i'w cyfarwyddiadau, a fydd byw yn amser y goresgyniad Babilonaidd, gwel Jer. 21. 9. a 38. 2, 17, 18. a 42. 7, &c. Cymhwysir y geiriau yn y Testament Newydd at ansawdd yr Iuddewon; y rhai beilchion, rhagrithiol o honynt, a ddirmygent y prophwydoliaethau; ond nid felly y cyfiawn, y rhai oeddynt yn byw trwy ffydd yn nhrugaredd, gras, addewid, a rhagluniaeth Duw, ac yn y prynedigaeth trwy y Gwaredwr addawedig. SCOTT.

Adn. 5. Mae yn dra thebyg mai darluniad o'r Breninoedd Caldeaidd, eu nodweddiad, eu pechodau, a'u cosb, a gynnwysir oddiyma hyd ddiwedd y bennod. Gallwn weled engrhaifft nodedig yn mhenaduriaid Caldea, o ddylanwad gwlybyroedd meddwol yn cynnyrchu ymchwydd a thrahausder, Dan. 5. 17—23. A pha beth yw meddwyn yn amgen na gwallgofddyn peryglus ac aflywodraethus?—*Heb aros gartref*, heb ymfoddloni ar ei feddiannau cyfreithlawn.—*Fel uffern*, neu y bedd, cymh. Diar. 27. 20. a 30. 16.

Adn. 6. *Y clai tew*, y golud a gymerasai oddiar y cenhedloedd a orchfygasai, yn nghyd a'r gwystlon o'u hufudd-dod rhagllaw,—BOOTHROYD.

Adn. *Y garreg a lefa o'r mur*, yr hyn a all ddynodi sicrwydd y peth a ragfynegir, gwel Nod. ar Luc 19. 39, 40; neu, efallai ei fod yn arwyddo y byddai i ddymchweliad ei balasau amlygu mawredd y dinystr a'i daliai. DAVIDSON.

Adn. 12—14. Yn y geiriau hyn dangosir y byddai i'r holl drafferth a gymmerai y Caldeaid arnynt i ehangu a phrydferthu Babilon, fyned ar goll yn y tân yn fuan. READING.

Adn. 15, 16. *Yr hwn wyt yn rhoddi iddo dy gostrel*, iaith gyffelybiaethol hollawl yw y geiriau hyn, yn dangos y byddai i'r rhai oeddynt yn rhoddi gwin digofaint i eraill, orfod yfed o honaw eu hunain yn fuan.

Adn. 17. *Trais Libanus, ac anrhaith yr anifeiliaid*, sef yr anrhaith a'r gwaed a ddygwyd ar freniniaeth Judah, yr hwn a ymledasai dros ei mynyddoedd a'i dyffrynoedd. Er fod y trallodau hyn wedi eu trefnu gan Dduw, yn gosbedigaeth ar ei bobl, eto yr oedd yr offerynau dynol yn cael eu cynhyrfu i hyny yn benaf gan eu huchelfrydedd, eu casineb at y gwir Dduw, a'u dirmyg ar ei addolwyr ef; ac am hyny yr oedd yr hyn a wnaethent yn erbyn Judah yn gwneyd i fynu eu prif gamweddau, ac yn prysuro eu dystryw. cymh. Jer. 1. 17, 18, 29, 33, 34. DAVIDSON.

## PEN. III.

Adn. 2. *Clywais O Arglwydd, dy air, ac ofnais,* y mae yma yn cyfeirio, debygid, at yr hyn a ddatguddiasai Duw iddo yn pen. 1. 5—11. a phen. 2. 5—20. BOOTHROYD, *Esgob* HALL.

Adn. 3—6. Wedi i'r prophwyd fod yn myfyrio gyda dychryn ar drueni dyfodawl ei genedl, a rag-hysbysasid trwy ysbryd prophwydoliaeth, y mae yn adgofio y gwaredigaethau a weithredasai yr Arglwydd i'w tadau, yr hyn oedd yn gymhwys i ddeffroi moliant, a chynhyrfu gobaith. Yr oedd yr hwn a'u gwaredasai o'r blaen yn alluog i, ac yn sicr o waredu y sawl a obeithient ynddo ef eto.—*Teman* a *Paran* oeddynt barthau o Arabia, yn lled agos i Sinai, lle y gwnaethai y Goruchaf y fath amlygiad o'i ogoniant.—*Ei ogoniant a dodd,* neu, "a orchuddiodd" *y nefoedd a'r ddaear a lanwyd o fawl,* canys yr oedd miloedd o angelion gydag ef, a holl Israel yn cydnabod ei bresenoldeb gydag ofn a dychryn.—*Yr oedd cyrn iddo, yn dyfod allan o'i law,* hyny yw, yr oedd pelydr o oleuni yn dyfod allan o'i law, fel arwyddion o'i allu.—*Yno yr oedd cuddiad ei gryfder,* hyny yw, nid oedd yr holl ogoniant dysglaer a amlygid ar Sinai, namyn *cuddiad* gogoniant hanfodol presenoldeb a gallu y Duwdod. BOOTHROYD. Meddyliai NEWCOME fod yma gyfeiriad at y Sechinah, Exod. 16. 7—10.—*Aeth yr haint o'i flaen ef,* pan oedd Duw yn arwain yr Israeliaid o'r Aipht i Ganaan, efe a barodd i'r haint fyned o'i flaen, ac felly efe a barottodd le i'w bobl. POOLE. Efe a ddefnyddiai yr haint weithiau i gosbi ei elynion, megis Pharaoh, &c. Gwel Num. 11. 33. a 14. 37. a 16. 46. W. LOWTH.—Ac weithiau i geryddu Israel am eu camweddau.—*Ac aeth marwor tanllyd wrth ei draed ef,* neu, "A fflammau tân ar ei ol ef." Gwel Lef. 10. 2. Num. 11. 1. a 16, 35, Lef. 9. 24. NEWCOME.—*A mesurodd y ddaear,* rhanodd dir yr addewid rhwng y deuddeg llwyth, fel buddugoliaethwr yn rhanu gwlad a oresgynasai rhwng ei ganlynwyr, Salm 60. 6. BOOTHROYD.—*Y mynyddoedd tragywyddol hefyd a ddrylliwyd,* cyfeiriad, debygid, at y ddaiargryn a ddylynai ddisgyniad y Goruchaf ar Sinai, gwel Exod. 19. 18. A. CLARKE. Efallai fod yr ymadrodd yn cael ei ddefnyddio yma yn gyffelybiaethol i ddynodi dymchweliad tywysogaethau cedyrn Canaan. DAVIDSON.

Adn. 7, *Gwersylloedd Cuwsan,* rhai o lwythi crwydredig Arabia, ac yn ddiau yr oedd ymddangosiad mawreddawg Duw ar Sinai, a'i amddiffyn rhyfedd i'w bobl, wedi dal llawer o genhedloedd â dychryn, gwel Num. 31. 3. Exod. 23. 27. Jos. 2. 9—11. DAVIDS.

Adn. 9. *Llwyr noethwyd dy fwa,* arferai y dwyreinwyr ddwyn eu bwa yn gyffredin mewn gorchudd yn grogedig wrth eu gwregys; ac oddiwrth hyn y defnyddir yr ymadrodd. Darluniad yw y geiriau hyn o ryfelwr yn penderfynu darostwng ei elynion. Gwaredai Duw Israel yn ol ei *lwon i'r llwythau,* sef yn ol ei *air,* neu yr addewid a wnaethpwyd i'r tadau. Yr oedd ei ofal am ei

lwon, a'i ffyddlondeb i'w addewid, yn rheswm digonol am ei anfoddlonrwydd ymddangosiadol at y Môr Coch a'r Iorddonen, pan y'u hagorai i waredu ei bobl ddewisol.

Adn. 11. Wrth *saethau* a *gwaywffon*, y golygir holl offerynau distryw a ddefnyddid gan Dduw, gwel Jos. 10. 11; neu gellid galw yr arfau rhyfel a ddefnyddid gan Israel, yn saethau yr Arglwydd, oblegid eu bod yn ymladd dan awdurdodiad yr Arglwydd.

Adn. 12, 13. *Ynghyd a'th enneiniog*, sef Josuah yr offeiriad.—*Torraist y pen allan o dŷ yr anwir*, wrth yr hyn ond odid y golygid y cyntaf-anedig yn nheuluoedd yr Aipht.—*Gan ddynoethi y sylfaen hyd y gwddf*, neu, "dynoethaist y sylfaen hyd y graig," wrth yr hyn y golygir, debygid, fod dinystr y cyntaf-anedigion wedi dymchwelyd tai, neu deuluoedd yr Aiphtiaid.

Adn. 14. *Trywenaist ben ei faesdrefydd a'i ffyn ei hun;* neu, "Trywenaist bennau ei bentrefydd a'th ffon," fel y darllenir mewn llawer o hen gyfysgrifau, wrth yr hyn y golygir cleddyf yr angel dinystriol yn lladd y cyntaf-anedig yn y pentrefi cystal ag yn y brif ddinas.—*Rhyferthwyasant i'm gwasgaru*, sef Pharaoh a'i fyddin, y rhai a ruthrasant mor ddisymmwth i ymlid ar ol Israel, gan ymlawenychu yn y gobaith o allu eu dinystrio trwy ymosod arnynt mor annysgwyliadwy.

Adn. 16. Yn y rhan gyntaf o'r adnod mae y prophwyd yn darlunio y gofyd dirfawr a ymaflodd ynddo pan ddatguddiodd yr Arglwydd iddo y barnedigaethau yr oedd efe ar eu cyflawni ar Israel trwy y Caldeaid. Cymh. Jer. 23. 9. Galar. 1. 13. a 3. 4. Diar. 14. 30. Ac y mae amryw yn meddwl fod y rhan olaf o'r adnod yn gyssylltiedig a'r rhan ganlynol o'r bennod; gan ei bod yn cynnwys awgrymiad o'i obaith am fwynhau heddwch os gelwid ef i fod yn dyst o'r adfyd a fygythid. DAVIDSON.

Adn. 17—19. Yn y ganiad odidog hon, y mae y prophwyd yn datguddio y ffynnonell o ba un y disgwyliai y prophwyd y gallai dynu cysur yn nydd y cyfyngder. Efe a wyddai pe sychid ffrydiau daioni daiarol, y byddai ffynnonell ei ddedwyddwch ef yr un, gan ei fod yn ymddiried yn yr Arglwydd fel Duw iachawdwriaeth, yr hwn sydd annewidiol mewn doethineb, daioni, gallu, a thrugaredd.

# SEPHANIAH.

*Yr oedd y prophwyd hwn yn cydoesi a Jeremiah, ac fel yntau efe a ragfynegai ddinystr trwyadl Jerusalem a Judah trwy luoedd y Caldeaid. Cyfeirir at rannau o'r Llyfr hwn mewn amryw rannau o'r Testament Newydd, megis Ioan* 4. 21. *Heb*. 12. 12. *Iago* 2. 5. *a* 5. 1. *Dat*. 19. 17—19.

## PEN. I.

Adn. 1—6. Meddylia rhai fod y farn a fygythir ar eilunaddolwyr yn y bennod hon wedi ei chyflawni yn amser Josïah, pan oedd

y brenin duwiol hwnw yn diwygio y genedl; ond y mae yn fwy tebyg oddiwrth lawer o'r ymadroddion a ddefnyddir, mai dymchweliad breniniaeth Judah gan Nebuchodonosor yw yr hyn a olygir. Yr oedd y deg llwyth wedi eu caethgludo eisoes.—*A'r tramgwyddiadau*, sef yr eilunod, y rhai a ddystrywid, ynghyd a'r annuwiolion a'u haddolent.—*Gweddill Baal*, wrth yr hyn y golygir y rhai a lynasent wrth addoliad Baal, er y gwrthwynebiad a wnelid iddynt gan yr Archoffeiriad oedd yn llywodraethu yn nyddiau cyntaf Josiah; 2 Bren. 22. 8—14.—*Ac enw y Chemariaid*, neu, "Ac enw yr aberthwyr a'r offeiriaid." Sef yr offeiriaid eilunaddolgar a'r Lefiaid, y rhai a ymunent â hwy yn aml yn eu heilunaddoliaeth 2 Bren. 23. 5. Hos. 10. 5.—*Malcham*, neu Moloch, oedd dduw yr Amoniaid, fel yr oedd Baal yn dduw y Sidoniaid; 1 Bren. 11. 5. a 16. 31. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon mewn modd nodedig, canys diflannodd eilunaddoliaeth o fysg yr Iuddewon wedi y caethgludiad. DAVIDSON.

Adn. 7—9. *Arlwyodd yr Arglwydd aberth*, sef lladdfa y bobl.—*Gwahoddodd ei wahoddedigion*, sef y Babiloniaid, a elwir felly am eu bod hwy i gyfrannogi o'r wledd a ddylynai yr aberth, sef yr ysbail.—*Gwisgoedd dieithr*, sef y cyfryw a ddefnyddid i wasanaeth eilunaddolgar, gwel Deut. 22. 11.—*A neidiant ar y rhiniog*, wrth yr hyn y golygir rhyw ddefod eilunaddolgar, cyffelyb i'r un a arferid yn nheml Dagon, gwel 1 Sam. 5. 5. W. LOWTH. Efallai fod yma gyfeiriad at arferiad gweision y pennaethiaid o farchogaeth i dai y deiliaid, a'u gorfodi i dalu symiau o arian iddynt, yr hyn sydd yn dra chyffredin yn Arabia a Phersia, HARMER, BOOTHROYD.

Adn. 10, 11. Y mae yn anhawdd, os nid anmhossibl penderfynu am bob rhan o'r ddinas a enwir yma; ond y mae yn amlwg mai yr ystyr yw, y byddai pob rhan o honi, o un cwr i'r llall, yn gorfod goddef oddiwrth yr anrheithwyr. DAVIDSON.

Adn. 12, 13. *A llusernau*, hyny yw, yn fanol a thrwyadl, yr hyn a ddangosai y byddai i'r Caldeaid gael allan y llochesau mwyaf cuddiedig, y rhai a werthfawrogid fwyaf, fel nawdd-leoedd diogel, neu guddleoedd trysorau gwerthfawr. Mae tawelwch dïofal dynion annuwiol yn eu llwyddiant, yn debyg i wyneb llyfn gwin wedi y darfyddo ymweithio, yn ceulo ar *ei sorod*. Jer. 48. 1, Amos 6. 1.

Adn. 17. *A hwy a rodiant megis deillion*, heb wybod i ba le i droi am ddiogelwch. Cymh. Deut. 28. 29, Esa. 59. 10. LOWTH.

## PEN. II.

Adn. 1—3. Mae yr adnodau hyn yn dwyn perthynas yn fwyaf neillduol a'r bennod flaenorol, ac yn cynnwys galwad daer ar y duwiolion yn mysg y genedl i weddïo am eu dïogelu yn nydd mawr digofaint yr Arglwydd. Yr oedd bywyd wedi ei addaw iddynt yn y cyfryw dymhorau trallodus; ond yr oedd i'w gael yn unig mewn attebiad i weddi daer, gwel Esa. 26. 20, 21. Jer. 45. 5.

Adn. 4—7. Gwel Nod. ar Am. 1. 6—8. Ezec. 25. 15—17—*Hanner dydd*, ar adeg annysgwyliadwy; canys ni byddai i un fyddin o'i bodd ymladd ar wres poeth canol y dydd yn yr hinsoddau poethion hyny; gwel Jer. 15. 8.

Adn. 8—10. Gwel Nod. ar Amos. 1. 13—15 a 2. 1—3. Jer. 48. a 49. 1—6. Yr oedd Moab ac Ammon i gael eu gofwyo am eu creulondeb a'u balchder, a byddai y farn a ddisgynai arnynt mor drwm fel na's adferid hwy mwyach i'w cyflwr blaenorol. BOOTHROYD.

Adn. 11. *Efe a newyna holl dduwiau y ddaear*, Dyma addewid am gwymp eilunaddoliaeth, trwy ledaeniad yr efengyl, yn enwedig yn Asia Leiaf, Groeg, ac Ewrop. BOOTHROYD.

Adn. 12. *A'm cleddyf*, sef Nebuchodonosor, trwy yr hwn yr oedd Duw yn darostwng ei elynion, gwel Sal. 17. 13. W. LOWTH.

Adn. 13—15. *Y gogledd*, sef yr Assyriaid, a elwir felly am yr arferent ruthro ar Palestine trwy Syria, o'r gogledd. NEWCOME. Gwel Nod ar Nahum. 2. 10—13. lle y dangosir cyflawniad y brophwydoliaeth hon.—*Holl anifeiliaid*, neu, "pob rhyw o anifeiliaid y cenhedloedd," yn enwedig gwylltfilod y byd. GILL.

## PEN. III.

Adn. 1. *Gwae y fudr*, neu wrthryfelgar, ac aflywodraethus.—*a'r halogedig*, trwy waed ac eilunaddoliaeth. DAVIDSON. Mae y prophwyd yma yn cyfarch Jerusalem, a chyda rhyddid mawr yn ei cheryddu am ei chamweddau, ac yn enwedig am beidio gwrando ar lais prophwydi Duw.

Adn. 5—7. *Yn fore y dwg ei farn i oleuni*, cyfeiriad at y ddefod o weinyddu barn yn y borau. W. LOWTH. Yr oedd Duw beunydd yn dangos ei anfoddlonrwydd i'r annuwiol ac yn eu cosbi, eto nid oedd hyn oll yn cael yr effaith ddymunol ar yr *anwir*. Ac er iddo alltudio y deg llwyth, a dystrywio llawer o genhedloedd eraill trwy offerynoliaeth yr Assyriaid, i edrych a dderbyniai gwŷr Judah addysg, i ymattal oddiwrth eilunaddoliaeth, gan ofni Duw a'i addoli mewn gwirionedd, eto yn llwyr anneffeithiol y bu hyn oll tuag attynt hwy.

Adn. 8. Mae Duw yn datgan oddiyma i ddiwedd y bennod, ei benderfyniad i gyfodi breniniaeth y Messiah yn mysg yr holl genhedloedd, gan ddystrywio trwy ei farnedigaethau y rhai oll a gyfodent yn ei erbyn ef. DAVIDSON. Rhoddid awgrym yn niwedd yr adnod flaenorol, mai y canlyniad o ymlygriad cyffredinol yr Iuddewon fyddai eu cwymp a'u caethgludiad; ac yma fe'u dysgir fod gan Dduw drugaredd yn nghadw iddynt hwy eto. BOOTHROYD.

Adn. 9. *Yno*, "wedi hyny," NEWCOME. Cyfeiriad at y dyddiau diweddaf, gwel Zech. 14. 9. W. LOWTH. At ddychweliad yr Iuddewon dan yr efengyl. A. CLARKE.

Adn. 10. *Merch fy ngwasgaredig*, sef yr Iuddewon adferedig, y

rhai y mae eu dychweliad yn cael ei ddarlunio mewn cyssylltiad â ffyniant cyffredinol yr efengyl. DAVIDSON.

Adn. 11. *Y neb sydd hyfryd ganddynt dy falchder*, wrth yr hyn y golygir y gau brophwydi mae yn debyg, y rhai a ymffrostient yn ymostyngiad trwyadl Israel i eilunod, yr hyn a ddeilliai o'u balchder.—*Fel nad ymddyrchafoch mwyach yn fy mynydd sanctaidd*, nad ymffrostient yn eu rhagorfreintiau allanol, fel y gwnai eu tadau yn y deml, Jer. 7. 4. DAVIDSON.

Adn. 12, 13. *Gadawaf hefyd ynot*, ni buasai y Caldeaid yn arbed yr un, oni buasai i Dduw gadw gweddill o *bobl druain dlodion*, wrth y rhai yr arwyddocceid y rhai a achubid trwy ras yn amser y brofedigaeth oedd ar ddyfod ar yr holl gendedloedd, adn. 8. 19. Zech. 14. 16. DAVIDSON.

Adn. 16. *Nac ofna*, felly y dywedai y prophwydi Haggai a Zechariah, y rhai a annogent y bobl i fyned rhagddynt gan ymddiried yn yr Arglwydd eu Duw. BOOTHROYD.

Adn. 17. *Efe a lonydda*, neu " a ymadnewydda" *yn ei gariad*.

Adn. 18. *Casglaf y rhai sydd brudd am y gymmanfa.* Mae BOOTHROYD, gan ddilyn y Cyfieithydd Caldeaidd, yr hwn hefyd a gymeradwyid gan GROTIUS, DATHE, a dysgedigion eraill, yn darllen yr adnod hon yn dra gwahanol i'r Cyfieithiad arferedig,—" Y rhai a ddygasant y gwyliau gosodedig ymaith, a symmudais yn mhell oddiwrthyt. Gwae y rhai a ddygasant waradwydd arnat." Yn ol y darluniad yma, y Caldeaid a fygythir, y rhai a symmudasant y gwyliau gosodedig, ac a ddygasant waradwydd ar bobl Dduw yn mysg y cenhedloedd; ond yr oeddynt hwy i gael eu gwaredu yn fuan, fel y dywedir yn yr adnod nesaf. BOOTHROYD.

# HAGGAI.

*Haggai oedd y prophwyd cyntaf a anfonwyd at yr Iuddewon a ddychwelasent o Babilon. Yr oedd yn byw tua 520 mlynedd cyn Crist, ac oddeutu 15 mlynedd wedi i Cyrus ganiattâu i'r Iuddewon ryddid i ddychwelyd i'w gwlad, ac ail adeiladu eu teml; ond hwy, gan ymdrafferthu gyd a'u tai eu hunain, ni's gwnaethent braidd ddim tuag at gael y deml yn mlaen, nes y darfu i Dduw eu cyffroi trwy y prophwyd hwn, Ezra 7. 11, &c. Y cyfeiriadau at y Llyfr hwn yn y Testament Newydd, ydynt, Math. 28. 20. Rhuf. 8. 31. a Heb. 12. 26.*

## PEN. I.

Adn. 1. *At Zorobabel*, yr hwn oedd ŵyr i Jechonïah brenin Judah, gwel Matth. 1. 12.—*Josuah mab Josedec*, oedd ŵyr i Seraiah, yr hwn oedd yn archoffeiriad pan gymerwyd Jerusalem, ac a laddwyd yn Riblah, 1 Cron. 6. 14. a 2 Bren. 25. 18—21. BOOTHR.

Adn. 2—4. Yr oedd y bobl hyn wedi gosod sylfeini y deml er's pymtheng mlynedd cyn yr ymliwiad yma trwy Haggai; cawsant

eu lluddias yn y gwaith ar y cyntaf gan y Samariaid, a'u hunanoldeb hwythau a barodd iddynt ei adael wedi hyny yn annghyfanneddol ac adfeiliedig, Ezra 3. 8.

Adn. 5, 6. *Casglu cyflog i gôd dyllog*, hyny yw, yr oedd afiechyd ac amrywiol amgylchiadau croesion eraill a gyfodid gan Dduw yn eu herbyn yn ei oruchwyliaeth ragluniaethol, yn treulio yn annysgwyliadwy y golud yr oeddynt mor ymdrechgar i'w geisio ar draul Duw a dyn. DAVIDSON.

Adn. 8. *Esgynwch i'r mynydd*, yr oedd Cyrus wedi caniattâu cedrwydd o Libanus i'r Iuddewon tuag at adeiladu y deml, gwel Ezra 3. 7. a 6. 3, 4. PARKHURST.

Adn. 9. *Edrychasoch am lawer, &c.* Yr oeddynt hwy yn dysgwyl cynhauaf toreithiog, ond yn y diwedd, er mor addawol a fuasai yr olwg arno, ychydig oedd i'w gael. GILL.—*Chwythais arno*, deifiais ef yn y maes, fel mai llwch oedd, yn lle grawn da; cymh. pen. 2. 16.

Adn. 12—15. *Yna y gwrandawodd, &c.* Bu y cyfarchiad yma o eiddo y prophwyd, yn nghyd a'u cystuddiau presenol hwythau, yn foddion i'w cyffroi; a hwy a ddechreuasant ar y gwaith o orphen tŷ yr Arglwydd yn ddïoed. BOOTHROYD.

## PEN. II.

Adn. 1. Traddodid y bregeth hon, yr hon a fwriadasid fel y mae yn eglur i galonogi y bobl a ufuddhasent i lais yr Arglwydd, yn mhen dau fis ar ol yr un flaenorol, ac yn mhen mis ar ol iddynt ddechreu ar eu llafur.

Adn. 3. Mae yn ddiau mai ychydig oedd yn fyw y pryd hwn o'r rhai a welsant y deml flaenorol, gan fod mwy na deng mlynedd a thriugain o'r pryd y'i dystrywiasid, hyd nes gorphenwyd yr ail deml, yn mhen tua phedair blynedd wedi i Haggai lefaru y geiriau hyn; cymh. Ezra 6. 15. Eto yr oedd rhai o honynt yn fyw, a'u hoedran a barai bod eu tystiolaeth yn fwy grymmus. DAVIDSON.

Adn. 6, 7. *Ysgydwaf y nefoedd a'r ddaear*, cyfeiriad at y chwyldröadau gwladol a chrefyddol oeddynt ar gymeryd lle, cymh. adn. 21, 22. Matth. 24. 29. Heb. 12. 26—28. NEWCOME.—*A dymmuniant yr holl genhedloedd a ddaw.* Yr oedd yr Iuddewon tuag amser ymgnawdoliaeth Crist yn dëongli y testyn am y Messiah, ac efe a elwid ganddynt yn gyffredin, "Y gobaith," "y gobaith gwynfydedig," "gobaith Israel," &c. 1 Tim. 1. 1. Tit. 2. 13. Act. 28. 20. a 26. 7, 8. Gal. 3. 14. CHANDLER, GILL, BOOTHROYD. Mae eraill yn barnu mai goreuon y cenhedloedd yn cael eu dwyn i eglwys Crist, yw yr hyn a olygir. A. CLARKE, HOUBIGANT, &c.—*Llanwaf hefyd y tŷ hwn â gogoniant*, er i'r tŷ hwn gael ei gyfoethogi a'i harddu yn fawr mewn amser, ni bu byth yn gyffelyb i deml Solomon, ac y mae yn hysbys i ni bod llechau y

gyfraith, y crochan aur a'r manna, ac uwchlaw y cwbl, y Sechinah, neu y gogoniant dwyfol yr hwn a lanwai y deml gyntaf, heb fod yn y deml hon; gan hyny y mae yn anmhossibl dywedyd pa fodd y byddai iddi gael eu llenwi a gogoniant, neu fod ei gogoniant yn rhagorach na'r deml gyntaf, oddieithr trwy bresenoldeb y Messiah ynddi. BOOTHROYD.

Adn. 10—14. Mae lle i gasglu oddiwrth yr ymadroddion hyn, fod zel y bobl i adeiladu y deml yn dechreu oeri wedi dim ond dau fis o lafur gyda'r gwaith. O leiaf y mae yn sicr eu bod yn cael eu cyhuddo yma o wneyd eu holl weithredoedd yn ddiwerth ger bron Duw, trwy eu diffyg o gariad trwyadl atto ef, ac ymröad hollawl i'w wasanaeth ef. Tra y gweithredent oddiar ysbryd bydol hunanol, yr oedd eu holl gyflawniadau yn eu gwneuthur yn annghymwys i wasanaeth yr Arglwydd, cymmaint ag unrhyw weithred a'u gwnelai yn aflan yn ol deddf Moses. Ni's gallai *cîr gwisg* yr offeiriad drosglwyddo unrhyw rinwedd seremoniol i'r hyn y cyffyrddai ag ef, er cynnwys ynddi y cig sanctaidd oddiar yr allor, yr hwn a sancteiddiai ba beth bynnag y cyffyrddai ag ef. —*Byddant aflan*, yr oedd pa beth bynnag y cyffyrddai un aflan ag ef yn cael ei wneyd yn aflan, Lef. 19. 22. GILL.—*Felly y mae bobl hyn*, yn aflan trwy eu harferion pechadurus; ac am hyny y mae eu holl addoliad, a'u holl fucheddau dan un nodweddiad o anmhurdeb, yn halogi eu holl galon, a'u holl enaid. SUTCLIFFE.

Adn. 20—22. Golygai VITRINGA yr adnod hon a'r nesaf atti, yn rhagfynegiad o'r adfyd a ddisgynai ar Babilon yn ystod teyrnasiad Darius, a buddugoliaethau Alexander yn Persia, &c. Yn yr amgylchiadau hyn dymchwelwyd breniniaethau, a gwnaed lladdfa fawr, a'r rhai a orchfygasent eraill, a gawsant eu gorchfygu eu hunain. BOOTHROYD.

Adn. 23. Mae yn ddiau fod Sorobabel yma yn gysgod o Grist, at yr hwn y cyfeiriai bys y brophwydoliaeth yn bennaf. SCOTT. Ni's gallai y pethau hyn gael eu cwblhau yn Sorobabel yn bersonol, yr hwn yn ol pob tebygolrwydd ni bu fyw nemmawr flynyddoedd ar ol gorpheniad adeiladu y deml, ac felly ni's gallai weled yr un o'r cyfnewidiadau mawrion a ragfynegid yma; gan hyny rhaid mai y Messiah a ddarlunir yma dan enw Sorobabel, megis y'i darlunir mewn mannau eraill dan enw Dafydd. COBBIN.—*A'th wnaf fel sêl*, gan dy ddoniaw a'm hawdurdod fel pen fy eglwys, a barnwr y byd. Felly yr arferai breninoedd Persia yn enwedig, awdurdodi eu rhaglawiaid trwy roddi sêl iddynt, gwel Esth. 3. 10. a 8. 2. Neu fe ddichon yr ymadrodd arwyddo, un hynod o agos at Dduw ac anwyl ganddo ef, gwel Jer. 22. 24. Can. 8. 6. W. LOWTH.

## LLYFR ZECHARIAH.

*Yr oedd y prophwyd hwn yn gydoeswr a Haggai; ac y mae y rhan gyntaf o'i brophwydoliaeth ef fel yr eiddo yntau yn annogaeth-*

*ol i'r Iuddewon i ymegnïo gyd a'r gwaith o adeiladu y deml*; *y rhan olaf a gynnwysa ragfynegiadau eglur am ddioddefiadau, angau, a breniniaeth Crist. Y cyfeiriadau at Zechariah yn y Testament Newydd ydynt luosawg, ac a ganfyddir yn Math.* 16. 18. *a* 21. 4, 5. *a* 26. 31. *a* 27. 3—10. *Marc* 14. 27. *Ioan* 1. 14, 45. *a* 12. 14, 15. *a* 19. 34—37. *Rhuf.* 8. 33. *Eph.* 2. 19—22. *Heb.* 3. 1—3. *a* 13. 20. *Dat.* 1. 7. *a* 5. 6. *a* 6. 2—4.

## PEN. 1.

Adn. 1. Wrth gydmaru yr hyn a ddywedir yma â Hag. 1. 1 nyni a ganfyddwn fod y prophwyd hwn wedi dechreu ar ei waith yn mhen tua dau fis ar ol Haggai.

Adn. 5, 6. *Eich tadau, pa le maent hwy?* Mae y cwestiwn yn cynnwys awgrym fod eu tadau wedi eu torri ymaith trwy newyn, trwy ryfel, trwy haint, ac mewn caethiwed fel y dywedasai y prophwydi; a bod, hyd yn nod y prophwydi hyny wedi meirw cyn i'w prophwydoliaethau gael eu cwblhau; eto fod geiriau Duw wedi eu cyflawni. BOOTHROYD.

Adn. 7. *Sebat*, enw Caldeaidd, neu Syriaidd; mis yn cyfatteb i rannau o Ionawr a Chwefror. NEWCOME, BLAYNEY.

Adn. 8—11. *Gwelais noswaith.* Nyni a gawn oddiyma hyd pen. 6. 15, wyth o ddarluniadau gweledigaethol gwahanol o ansawdd pethau, ac o'r amgylchiadau oeddynt i gymeryd lle. Yn y weledigaeth hon, gwelir angelion ar wedd ddynol, un yn eistedd ar farch coch, a'r lleill ar feirch cochion, brithion, a gwynion. BOOTHROYD. Wrth y gwr yn marchogaeth ar farch coch, y darlunir mawrhydi a gogoniant Crist, fel brenin, neu dywysog llu, yn yr hwn y marchogai yn llwyddiannus, gwel Sal. 45. 4. Dat. 6. 2. a 19. 11, 14. GILL.—*Sefyll rhwng y myrtwydd*, ni cheir mo'r coed hyn ond mewn lleoedd ffrwythlawn, ac fe'u mawrygir fel coed deiliog tewfrig; defnyddir hwy yn brïodol yn arwyddluniau o heddwch, llawenydd, a buddugoliaeth, ac felly addurnent eu pebyll a hwynt ar wyl y pebyll. Neh. 8. 15. Yr oedd gan yr angelion ereill eu meirch, i ddangos eu cadernid a'u cyflymdra; a'r meirch hyny o wahanol liwiau, i ddynodi eu gwahanol oruchwyliaethau. NEWCOME, BLAYNEY. Yr angel a safai rhwng y myrtwydd gyd a'i gymdeithion, a arwyddai eu hymadferthiad mewn dyffryn cysgodfawr, oddiwrth ludded rhyfel. Mae y weledigaeth yn dynodi yr heddwch a ddylynodd wedi i Darius gyflawni dïaledd Duw ar breswylwyr Babilon, a chymeryd eu dinas. I. COBBIN.—*Wele yr holl ddaear yn eistedd, ac yn llonydd*, yr amherodraeth Bersiaidd, a'r cenhedloedd eraill oeddynt mewn cyssylltiad a Judea, y rhai oeddynt yn mwynhau heddwch y pryd hyny: ond yr oedd cyflwr yr Iuddewon yn ansefydlog, yr hyn a achlysurai yr eiriolaeth ganlynol. NEWCOME.

Adn. 15. *Hwythau a gynnorthwyasant y niweid,* triniasant fy

mhobl a'r creulondeb mwyaf. Mae Duw yn llefaru yn ol dull dynion, fel pe buasai yn cwyno eu bod wedi myned tu hwnt i'w commissiwn fel offerynau ei ddialedd yn erbyn yr Iuddewon, gan weithredu yn hollawl fel y'u cymhellid gan eu balchder a'u creulondeb eu hunain, cymh. Esa. 47. 6. W. LOWTH.

Adn. 18. *Ac wele bedwar corn*, cyrn ydynt arwyddluniau adnabyddus o alluoedd cryfion, ac fe'u defnyddir i'r ystyr hyny yn fynych gan yr ysgrifenwyr sanctaidd. Efallai fod pedwar yn cael ei enwi i ddynodi llawer, gwel Mica 5. 5. Yr oedd gan yr Iuddewon lawer o elynion y rhai a ymunent i'w gwasgaru hwy.—BOOTHROYD. Y Samariaid, yr Arabiaid, yr Ammoniaid, a'r Philistiaid, y rhai a fwrient y rhwystrau mwyaf ar ffordd adeiladaeth y deml, gwel Neh. 4, 7. W. LOWTH.

Adn. 20, 21. *Bedwar saer hefyd*, y rhai oeddynt i adgyweirio y rhwygiadau a wnaethai y cyrn. W. LOWTH. Zorobabel, Josuah, Ezra, a Nehemiah, medd LIGHTFOOT, ond nid oedd y rhai hyn fel y sylwa SUTCLIFFE, namyn gweinyddwyr dan dywysogion Persia. —1. Nabopolassar, tad Nebuchodonosor, yr hwn a ddymchwelodd yr unbennaeth Assyriaidd. 2. Cyrus, yr hwn a ddinystriodd amherodraeth y Caldeaid. 3. Alexander Fawr, yr hwn a ddymchwelodd amherodraeth y Persiaid. 4. Ptolomeus, yr hwn a'i gwnaeth ei hunan yn feistr yr Aipht; yr oedd rhai o'r rhai hyn wedi eu bwrw i lawr eisioes, a'r lleill i'w dilyn yn fuan. CALMET

## PEN. II.

Adn. 1–5. Mae y gorchymyn i *redeg*, yn arwyddo fod y gennadwri mor ddyddorawl i'r Iuddewon, fel na's gallent ei gwybod yn rhŷ fuan.—*Wrth y llanc hwn*, mae yn debyg fod Zechariah y pryd hwn rhwng ugain a deg ar hugain oed. BLAYNEY.—*A Jerusalem a gyfanneddir fel maes-drefi*, fe luosoga y trigolion gymmaint, fel na's dichon y tai o fewn y muriau eu cynnwys. W. LOWTH.—*Byddaf iddi yn fur o dân*, cyfeiriad amlwg at y ddefod o gynneu tân o amgylch gwersyll yn y gwledydd dwyreiniol yn y nos, er cadw draw y gwylltfilod rheibus, rhag rhuthro o honynt ar y fintai. COBBIN. Rhaid fod y gyffelybiaeth yma yn adgofio yr Iuddewon o'r golofn dân, amddiffyn rhyfedd eu hynafiaid.—*A byddaf yn ogoniant yn y canol*, cyfeiriad at yr arwydd o'r presenoldeb Dwyfol yn y cyssegr sancteiddiolaf, Rhuf. 9. 4 NEWCOME.

Adn. 6. *O wlad y gogledd*, sef Babilon, mae y geiriau yn cael eu cyfeirio at y gweddill o'r Iuddewon a arhosasent yno. BLAYNEY.

Adn. 8. *Ar ol y gogoniant*, neu, "Ar ol addaw gogoniant i chwi, efe a'm hanfonodd at y cenhedloedd a'ch yspeiliodd chwi."

Adn. 9. *A byddant yn ysglyfaeth i'w gweision*, ac felly y bu y Babiloniaid i'r Mediaid a'r Persiaid, yn enwedig pan gymerodd Darius Babilon, ac y'i hyspeiliodd, gwel Hag. 2. 23. Meddyliai rhai gan fod yr amgylchiad yma wedi cymeryd lle yn fuan, fod yr Iuddewon yn Mabilon wedi eu rhagrybuddio am y peth, ac wedi

gadael y ddinas cyn i'r aflwydd ddisgyn arni, fel y'u gwahoddid adn. 6, 7.

Adn. 10—13. Yr oedd Duw yn penderfynu bod yn nodded a diogelwch i Sion yn nghanol yr holl gynhyrfiadau, nes llanw ei holl elynion â braw, am hyny y gelwir arni hi i lawenychu a chanu. BOOTHROYD.

## PEN. III.

Adn. 1. *Ac efe a ddangosodd i mi Josuah yr archoffeiriad, &c.* Ar yr archoffeiriad yr oedd gofal y deml yn gorphwys fwyaf, ac y mae yn ddiau ei fod ef yn teimlo pryder mawr yn nghylch ei hail adeiladaeth; a lluddias hyn oedd yr amcan mawr a erlynid gan elynion yr Iuddewon, canys hwy a wyddent yn dda mai y deml oedd canol-bwynt undeb y genedl, yr hon, os y'i gorphenid unwaith, a dynnai yr holl Iuddewon alltudiedig yn nghyd. Gan hyny, yr oedd yn dra dymunol i Josuah gael ei galonogi tra yr oedd dan lwyth o ofalon a phryder fel hyn; a meddylir yn gyffredin mai dyna amcan y weledigaeth hon. Ond ni's gallwn weled cyflawniad y brophwydoliaeth yn eglur, heb ystyried Josuah fel cynnrychiolydd addolwyr ffyddlawn Duw mewn amser dyfodawl, y rhai a elwir yn "freninol offeiriadaeth, cenedl sanctaidd, pobl brïodol," 1 Pedr 2. 9. Y rhai hyn a wnaent i fynu y wir eglwys, ac a olygid ond odid wrth gorph Moses, am yr hwn y dywaid Judas fod y ddadl yn y bennod hon, gwel Judas 9. DAVIDSON. Hwyrach fod *Josuah* yma yn cynnrychioli holl bobl yr Iuddewon. —*Angel yr Arglwydd,* y Messiah.—*Satan,* y prif gyhuddwr.— Testyn y ddadl, debygid, oedd corph Moses, nid ei gorph naturiol, ond corph cyfreithiau Moses, y rhai a dorrasai y bobl, trwy gymhelliad y temtiwr, yr hwn yn awr a ddeuai yn mlaen i'w cyhuddo ac edliw iddynt. A. CLARKE.

Adn. 3—5. Mae y rhai a ddëonglant y geiriau hyn, fel yn golygu Josuah, yn ystyried y *dillad budron* yn ddarluniadol o'r driniaeth greulawn a gafodd ef a'r Iuddewon oddiar ddwylaw eu gelynion, fel y cofnodir yn llyfr Ezra, ac o'i euogrwydd yn goddef i'w feibion briodi gwragedd paganaidd, Ezra 10. 18. Ond e ddichon y *dillad budron* fod yn dynodi y cyfryw ag a wisgir gan alarwyr a chaethion, yr hyn a ddarluniai yn brïodol gyflwr darostyngedig a chystuddiedig y wir eglwys rhwng y caethgludiad a'r oes apostolaidd; a'r dillad gwychion a roddid am dano yn eu lle, oeddynt yn dra chyfaddas i ddarlunio dyrchafiad ysbrydol pobl Dduw, pan gyhoeddid yr efengyl yn llwyddiannus dros y byd, gwel Esa. 52. 1—6.

Adn. 7. *Rhoddaf i ti hefyd leoedd i rodio yn mysg y rhai hyn sydd yn sefyll yma,* sef yr angelion, yn mysg y rhai y ca holl weision ffyddlawn yr Arglwydd gydfwynhau dedwyddwch didrai o bresenoldeb yr Arglwydd i dragywyddoldeb.

Adn. 8. *Gwŷr rhyfedd yw rhai hyn,* ar gyfrif eu gwaredigaeth ryfedd o Babilon, ac ar gyfrif eu llwyddiant yn ail adeiladiad y

ddinas a'r deml; ond yn fwy felly, fel y gwreiddyn, o'r hwn yr oedd yr un a elwid y BLAGURYN i ddeillio, wrth yr hwn yn ddiddadl y golygid y Messiah, gwel pen. 6. 12. BOOTHROYD.

Adn. 9. *Wele, y garreg*, cyffelybiaeth arall o'r Messiah, fel sylfaen ei eglwys, wrth yr hyn y'i hadwaenid yn mhob oes; gwel Gen. 49. 24. Salm 118. 22. Esa. 28. 16. Dan. 34, 35, 44, 45.—*Ar un garreg y bydd saith o lygaid*, wedi eu cerfio yn y garreg, yn arwydd-luniol o ddoethineb a gwybodaeth perffaith y Duwdod, a amlygwyd yn ei raslonrwydd yn ymostwng i ddarpar y sylfaen ryfedd yma, ac yn ymhyfrydu yn yr adeilad fywiol a gyfodai arni; a'i ffyddlondeb yn eu cadw yn y lle i'r hwn y'u cyfodasai.—*Wele fi yn naddu ei naddiad hi*, meddylia rhai fod, nid yn unig y saith lygaid wedi eu cerfio ar y garreg, ond y cyhoeddiad graslawn a ganlyn hefyd, "*A mi a symmudaf ymaith anwiredd y tir hwnw mewn un diwrnod*," hyny yw, gwneyd iawn dros anwiredd y tir mewn un diwrnod, canys y ffordd hono yn unig y gellid symmud anwiredd y tir, megis y mae yn ysgrifenedig, "Heb ollwng gwaed nid oes maddeuant," Rhuf. 6. 10. Heb. 9. 26, 28. a 10. 10.

Adn. 10. *Dan y winwydden*, mae y darluniadau hyn yn dynodi sefyllfa o heddwch a diogelwch. Mae yma gyfeiriad at arferiad Dwyreinwyr mewn amserau heddychol, o wledda dan gysgod coed cauadfrig, 1 Bren. 4. 24, 25, lle y gwahoddent y mynedolion yn rhwydd i gyfranogi o'r wledd. DAVIDSON.

## PEN IV.

Adn. 1—3. Mae yn ymddangos fod y prophwyd wedi cael ei adael gan yr angel dros beth amser i fyfyrio ar y gweledigaethau a gawsai efe o'r blaen; y rhai debygid, oeddynt wedi llanw ei feddwl a'r fath syndod, fel ag i ddwyn ei feddwl oddiar bob gwrthddrych arall yn hollawl. Yr oedd efe fel un yn cysgu, ac y mae yn debyg na's gallasai dim llai na phresenoldeb yr angel fod yn ddigonol i dynu ei sylw ar weledigaeth newydd.—*Canwyllbren i gyd o aur*, mewn cyfeiriad at yr un oedd yn y deml gynt, ac yn arwyddluniol o Eglwys Dduw.—*A dwy olewydden wrtho*, y rhai mewn modd dirgelaidd a gludent olew i ddiwallu y llusernau, gwel adn. 6. W. LOWTH.

Adn. 6, 7. *Nid trwy lu, ac nid trwy nerth*, &c. Megis yr oedd yr olew yn cael ei arlwyo i lusernau y canhwyllbren hwn mewn modd goruwch naturiol, felly y dangosid y byddai i'r deml hon gael ei gorphen trwy allu Duw yn fwy na chymhorth dynol; a'r un modd yn neillduol am y deml ysbrydol. Cawsid cyhoeddiad cyntaf Cyrus trwy weithrediad dirgelaidd Duw ar ei feddwl; acfelly y dylanwadai Duw feddyliau Darius ac Artaxerxes yn gyffelyb i'w ffafro eto; ond yn enwedigol, ni byddai i'r offerynau a ddefnyddid gael eu doniaw â rhyw awdurdod fawr, ond âg Ysbryd yr Arglwydd, i'w gwneyd yn hynod am eu duwioldeb, doethineb, sancteiddrwydd, ffydd a zel. SCOTT.—*Y mynydd mawr*, y rhwystrau a gyfodid ar ffordd adeiladu y deml; y mae dymchwelyd myn-

yddoedd a'u gwneyd yn wastadedd, yn ymadroddion darluniadol o orfodiad y rhwystrau cryfaf, gwel Esa. 40. 4. Matt. 21 21.

Adn. 10. *Ddydd y pethau bychain*, cyflwr tlawd, egwan a digymorth yr Iuddewon. CLARKE.– *Gyd a'r saith hyny*, sef llygaid yr Arglwydd, am y rhai y crybwyllid yn pen. 3. 9. WILLIAMS. Mae y cyfeiriad yma, naill ai at ragluniaeth neillduol yr Arglwydd, neu, at yr ysbrydion gwasanaethgar hyny a wasanaethent er mwyn yr Iuddewon. CLARKE.

Adn. 11. *Beth yw y ddwy olewydden hyn?* wrth yr hyn efallai y golygid y ddwy oruchwyliaeth, sef y ddeddf a'r efengyl, dan y rhai y rhoddid oraclau gwerthfawr y datguddiad Dwyfol, trwy y rhai y goleuir yr enaid BLAYNEY.

Adn. 14. *Dyma y ddwy gainc olewydden*, neu "ddau fab yr olew." y "ddau enneiniog." Mae yn anhebyg fod y ddwy olewydden, na'r canghenau hyn yn arwyddoccau yr holl eglwys, nac unrhyw ddosbarthiadau, neu bersonau enwog ynddi, gan eu bod yn wahaniaethol oddiwrth y canhwyllbren, arwyddlun prïodol yr Eglwys ac yn ei gyflenwi ag olew, heb yr hwn ni's rhoddai oleuni, ond ffynhonell yr holl oleu yn yr Eglwys ydynt; ac y mae yn ddiddadl nad yr Eglwys yw ffynhonell ei goleuni ei hunan; y mae yn derbyn hwn oddiwrth Ysbryd a gair Duw. DAVIDSON.

## PEN. V.

Adn, 1—4. *Mi a welaf blyg llyfr yn ehedeg*. Yr oedd holl weledigaethau y prophwyd hyd yn hyn wedi bod yn gysur-lawn, ond yn awr y mae efe yn dangos barnedigaethau yr Arglwydd ar ladron ac anghyfiawnion. Yr oedd y plyg llyfr yma fel yr un a welsai Ezeciel, pen, 2. 9, 10, yn llawn melldithion i'r cyfryw rai. Yr oedd yn fawr, ac yn ehedeg, i ddangos mawredd a chyflymder y drwg oedd ar ddisgyn arnynt. BOOTHROYD.

Adn. 6. *Ephah ydyw, Ephah* oedd lestr mesur Iuddewig, cyffelyb ei ffurf i'n bwsiel ni, ond o gynnwys saith galwyn o fesur gwin; yr oedd arwyddlun y felldith a welai y prophwyd hwn ar lun Ephah; ond yn llawer mwy, gan y gallai gynnwys gwraig ynddi. BOOTHROYD.

Adn. 8. *Anwiredd yw hon*, neu, "Dangos anwiredd yr holl dir y mae hon;" BOOTHROYD.—*Ac efe a'i taflodd hi*, neu a'i gorfododd hi i ymgyfyngu o fewn y llestr. NEWCOME. Gellid meddwl fod hyn yn dynodi rhyw radd o attalfa yn cael ei roddi ar bechaduriaid, fel na's gallont fyned i bob eithafoedd y mynnent.—*A bwriodd y pwys plwm ar ei enau*, er cadw y wraig o fewn yr Ephah, a'i phwyso i lawr yn y llestr, trwy yr hyn y dynodir barn Duw ar bechaduriaid, ac y dangosir na's gellir dïanc o afael dïaledd Dwyfol, a'i fod yn disgyn yn drwm lle y delo. GILL. Gelwir y canad plwm yma yn *dalent*, am ei fod yn deisen gron fel talent o ran llun, ond nid o ran pwysau, canys ni buasai pwys talent o blwm yn gorchuddio llestr o'r fath a ddarlunir.

Adn. 9—11. *Ac wele ddwy wragedd*, y rhai oeddynt offerynau i gyflawni y weledigaeth arwyddluniol, ac fel yr oedd ganddynt esgyll hwy a allent gludo yr Ephah yn brysur i'r lle pennodedig iddi. BOOTHROYD.—*I adeiliadu iddi dŷ*, &c. Mae yn debyg mai ystyr y weledigaeth hon yw, fod y caethgludiad Babiloniaidd wedi cymeryd lle o herwydd drygioni y bobl; ac y byddai i'r cyffelyb wasgarfa ddyfod i'w rhan os dychwelent at y cyffelyb gamweddau; ac felly y mae yr holl bennod yn rhybudd difrifol, y byddai i anwiredd gwladol dynu melldithion lluosawg, gwasgariad, a chaethgludiad yn gosb ar y genedl. BOOTHROYD.

PEN. VI,

Adn. 1—8. Mae y cyffredin o'r Esbonwyr yn meddwl gyda llawer o brïodoldeb, fod y *mynyddoedd pres* yn arwyddo rhaglun-iaethiad ac amcanion digyfnewid Duw, yn ol y rhai y llywodraetha efe y ddaiar, Sal. 37. 6. Y *meirch* yn y gwahanol gerbydau a ddynodent yr amryfal freniniaethau mynedol, presenol, a dyfodol yn eu dylanwad ar amgylchiadau pobl Dduw. Ni ddywedir dim am y *meirch cochion*, y rhai, hwyrach, a ddynodent yr amherodraeth Assyriaidd waedlyd, adn. 2, oblegid bod hon wedi myned heibio yn bresenol. Gellid meddwl fod y *meirch duon* yn dynodi yr Amherodraeth Bersiaidd, yr hon a ddarostyngasai y Caldeaid, gwlad y rhai oedd i'r gogledd o Judeah, a'r amgylchiad hwnw a lonyddodd Ysbryd Duw gyda golwg ar Caldea. Y *meirch gwynion* a ddynodent yr amherodraeth Facedonaidd, yr hyn a all gyfeirio at fuddugoliaethau Alexander, a'i dynerwch at yr Iuddewon. *Y meirch brithion a gwineuon*, a olygir yn arwyddoccau yr amherodraeth Rufeinig, yn ei hamryfal ffurf o lywodraeth, yr hon a dreiddiodd i'r un gwledydd, ac ni's gellid ei chadw o fewn cylch terfynau cymedrol, y rhai hyn a geisiasant fyned i gynniwair trwy y ddaiar. BOOTHROYD. NEWCOME. GILL, WILLIAMS.

Adn. 9—11. Mae yn ddiau fod y personau a enwid yma oll yn offeiriaid, ac felly yn gysgodau priodol o "freninol offeiriadaeth." Y coronau oeddynt *bedair*, nifer yn arwyddo perffeithrwydd. Nid oedd un angenrheidrwydd am y coroniad yma gyda golwg ar Josuah yn bersonol, canys yr oedd efe wedi ei osod yn y swydd archoffeiriadol eisoes; gan hyny, mae yn eglur mai yr hyn ydoedd mewn golwg oedd cynnrychioli y Messiah, pan y'i haddefid mewn gwirionedd yn frenin yr holl fyd. DAVIDSON.

Adn. 12, 13. Gwel Nod. ar pen. 3. 8—10. Nid Josuah a elwir *Y Blaguryn*, ond wedi i'r prophwyd roddi y goron ar ei ben ef, efe a ragfynegai am ddyfodiad y Messiah, am yr hwn y rhagfynegasid o'r blaen fel Blaguryn o wreiddyn Dafydd. BOOTHROYD. —*Ac efe a adeilada deml yr Arglwydd*, gelwir Eglwys Crist yn "deml Dduw," 1 Cor. 3. 16, 2 Cor. 6. 16. "Tŷ ysprydol." 1 Pedr. 2. 5, &c.—*Ac efe a ddwg y gogoniant*, yr anrhydedd a'r awdurdod perthynol i bennadur. BLAYNEY. Efe a dderbyn ogoniant ac addoliad nefoedd a daiar.—*Bydd yn offeiriad hefyd ar ei frenin-fainc*, gan y bydd urddas yr offeiriadaeth a'r freniniaeth wedi eu

huno ynddo ef, ni fydd un gwrthdarawiad rhwng gweinyddiad y naill swydd a'r llall. W. LOWTH.—*A chynghor hedd fydd rhyngddynt ill dau*, yr oedd CALFIN, POOLE, GILL, ac eraill, o'r farn mai pethau ac nid personau a olygid yma, ac mai at uniad y ddwy swydd yn mherson ein Harglwydd y cyfeirid, trwy yr hyn y gwnaed cymmod dros anwiredd, ac y darostyngir ein gelynion, yr hyn yw hanfod yr efengyl. BOOTHROYD. Y bwriad i sefydlu heddwch rhwng nefoedd a daiar, wedi ei gadarnhau mewn cynghor rhwng y Tad a'r Mab. A. CLARKE.

Adn. 14 *A'r coronau fydd*, &c. Yr oedd y pedair coron i'w rhoddi un i bob un o'r offeiriaid hyn, y rhai oeddynt i'w gosod yn y deml fel cofnodau o'r hyn y'u galwesid hwy yn dystion o honaw dros holl Israel. DAVIDSON.

## PEN. VII.

Adn. 2, 3. *Sereser*, a *Regem-melech*, nid ydys yn hysbys pwy oedd y gwŷr hyn; ond y mae yn ddiau eu bod yn wŷr blaenaf yn mysg y bobl, gan y rhai y'u hanfonid i ymgynghori â'r offeiriaid, ac â'r prophwydi yn nghylch pethau crefyddol. Yr oeddynt hyd yn hyn wedi bod yn arfer cadw pedair o wyliau neu ymprydiau yn flyneddol, yn ol gosodiad eu blaenoriaid iddynt yn y caethiwed; un yn y pedwerydd mis, er cof am ddrylliad mur Jerusalem, yr ail yn y pummed mis, er coffadwriaeth o losgiad y deml, Jer. 52. 6—12; y drydedd er cof am lofruddiaeth Gedaliah, yn y seithfed mis, Jer, 41. 2; a'r bedwaredd yn y degfed mis, er coffadwriaeth am ddechreuad y gwarchae ar Jerusalem. Cedwid ympryd y pummed mis yn hynod o fanol; ond a oedd yn weddus ei chadw yn hwy, gan eu bod wedi dechreu ail-adeiladu y deml yn bresenol? Mae y prophwyd yn atteb, trwy yn gyntaf, ddangos natur ymprydiau cymeradwy, a'r achosion o'r drygau a ddyoddefasent, ac yna yn yr 8fed bennod y mae yn sylwi y dylai y dyddiau hyn gael eu cadw, nid fel ymprydiau, ond fel dyddiau diolchgarwch.—

Adn. 6. A *phan fwyttasoch*, *&c.* Pan offrymmasoch aberthau, ar ol yr hyn yr arferech wledda, onid oeddych yn y cyflawniad crefyddol hwnw yn gofalu mwy am danoch eich hunain nac am Dduw? BOOTHROYD.

Adn. 7. *Oni ddylech*, &c., neu, "Oni ddylasech." Hwyrach fod yma gyfeiriad at Esa. 58. 6. Amos 5. 24, &c. Mae yr hyn a ddywedasant hwy, ac anufudd-dod y bobl yn cael ei ddarlunio yn y rhan ganlynol o'r bennod. BOOTHROYD.

Adn. 11. A *rhoddasant ysgwydd anhydyn*, neu tynasant eu hysgwydd ymaith, fel anifeiliaid a wrthodant yr iau. Cymh. Neh. 9. 29. Hos. 4. 16.

Adn. 12. *Adamant*, maen caled, a arferid i gaboli gemmau.

## PEN. VIII.

Adn. 3. *Dinas y gwirionedd*, bydd eto yn orsaf gwirionedd a chyfiawnder. W. LOWTH. Ei dinaswŷr a garant ac a lafarant y

gwirionedd; hwy a addolant mewn gwirionedd calon, cystal ag yn y gwir ddull a ofynir ganddynt; ac a ettifeddant wirionedd yr addewidion. Mae y geiriau hyn yn gyffelyb i Ezec. 37. 23, 24. POOLE. Mae yr hyn a ddywedir am y ddinas hon yma, yn gweddu i'w gymhwyso at y Jerusalem ysbrydol yn unig, gan na bu yr un lythyrenol byth yn enwog am wirionedd na sancteidd-rwydd ar ol adferiad y bobl o'r caethiwed; yn yr Eglwys Gristionogol yn unig y cyflawn gwblheir hyn. DAVIDSON.

Adn. 6—8. Er y gallai rhai o'r bobl dlodion a ddychwelasant o'r caethiwed, yn yr olwg ar y ddinas gan mwyaf eto yn adfeiledig, a'r bobl ond anaml iawn, fod yn barod i ammeu a rhyfeddu wrth yr hyn a glywent; eto a allai hyn fod yn rhyfedd yn ngolwg Duw yr hwn a ganfyddai beth a fyddai ar ol hyn. BOOTHROYD.

Adn. 9—15. Cymh. Mica 5. 7, 8.—*Oblegid gyrraist yr holl ddynion bob un yn mhen ei gymmydog*, goddefais i'r tir fod yn faes ymryson, cynhen, ac yspail, yr hyn a welid dros yspaid deng mlynedd a thriugain y caethgludiad; canys yr holl genhedloedd cylchynol, yn enwedig yr Arabiaid, a flinent yr ychydig drigolion a'i meddiannent yn ddiball; a'r Samariaid a orthrymment yn dost y rhai a ddychwelasent gyntaf o Babilon, gwel Ezra 4. 1—4.

Adn. 20—23. Gwel Esa. 2. 2—5. Mae yn ddiddadl fod y geiriau hyn yn cynnwys prophwydoliaeth am ddychweliad yr holl genhedloedd at y Messiah.—*Deg o ddynion*, nifer pennodol am nifer anmhennodol. W. LOWTH.—*Iuddew* yma, sydd yn dynodi addolwr y gwir Dduw; gwel Nod. ar Rhuf. 2. 28, 29. Esa. 3. 6. a 4. 1. DAVIDSON.

## PEN. IX.

Adn. I. *Hadrach*, un o'r enwau a arferid am ddyffryn Damascus. BOCHART.—*Fydd ei orphwysfa ef*, y rhan fwyaf o'r adfyd yma a ddisgynai ar Damascus; mae digofaint Duw yn gorphwys ar y rhai a gosbir ganddo ef, Ezec. 5. 13. a 16. 42. a 24. 13.—

Adn. 2. *A Hamath hefyd a derfyna wrthi*, neu, "yr hon a derfyna arni." Yr oedd breniniaeth Hamath yn cyrhaedd o dir Canaan, neu o freniniaeth Rehob ar y dehau, hyd ddinas Epiphaniah ar y gogledd, ac yn ymledu o oror Mor y Canoldir ar y Gorllewin, hyd freniniaeth Damascus neu Syria ar y tu dwyreiniol, fel y gellir casglu oddiwrth Ezec. 46. 16—26, gwel 2 Bren. 23. 33.

Adn. 4. Wedi i'r buddugoliaethwr gymeryd Tyrus, efe a archodd ei rhoddi ar dân; diangodd pymtheng mil o'r Tyrciaid mewn llongau, ac heblaw y torfeydd mawrion a laddwyd yn greulawn, gwerthwyd deng mil ar hugain o honynt i gaethiwed. KEITH.

Adn. 7. *A mi a gymeraf ymaith ei waed o'i enau*, arferion ffiaidd ac eilunaddolgar y Philistiaid a ddarfyddant. Cymerir y gyffelybiaeth oddiwrth fwystfilod gwylltion y rhai a ymlanwent ar waed, medd NEWCOME. Yr oedd yr holl ddinasoedd hyn wedi eu darostwng unwaith gan Nebuchodonosor; ond hwy a ymadferasant drachefn, ar ol cwymp Babilon; ac ar ol llawer o flynyddoedd, Al-

exander Fawr a'u darostyngodd eilwaith, ac a gyflawnodd y brophwydoliaeth hon o eiddo Zechariah. DAVIDSON.

Adn. 8. A *gwersyllaf o amgylch fy nhŷ*, &c. Mae yn debyg fod yma gyfeiriad at y nawdd a roddwyd i'r ddinas hon gan Alexander Fawr. Trwyddo ef darfu i Dduw ei dïogelu, ac attal i un gormeswr fyned trwyddi dros dymhor. BOOTHROYD.

Adn. 9, 10. Dyma brawf nodedig fod llygaid yr Arglwydd yn wastadol ar ei Eglwys. Yr oedd y Messiah i gymeryd y llywodraeth arno yn bersonol, ac er mai dirmygus a fyddai yr olwg arno yn nghyfrif mawrion y ddaiar yr oedd ei freniniaeth i ddyfod yn un gyffredinol, a'i holl elynion i gwympo o'i flaen ef. Gwel Matt. 21. 1–8. Ioan 12. 1—16. Act. 4. 23–33. 2 Cor. 10. 4, 5. DAVIDS.

Adn. 11. *Trwy waed dy ammod*, &c, Sylwa LOWTH fod y rhagenw yma yn y rhyw fenywaidd; a mynych y mae yr Eglwys yn cael ei darlunio fel benyw, ac yma fel un wedi ei chau mewn carchar, a heb ddwfr, yr hyn oedd yn gyflwr tra gresynus yn y gwledydd poethion hyny. Ei gwaredigaeth sydd gyflawniad o'r *cyfammod*, neu yr addewid a wnaethpwyd i'r tadau; cyfammod wedi ei gadarnhau trwy dywallt gwaed, fel yr arferid gynt yn nghadarnhad cyfammodau; gwel Nod. ar Jer. 34. 18. Heb. 8. 9. 16—20. DAVIDSON.

Adn. 12. *I'r amddiffynfa*, Jerusalem, yr hon oedd yn awr wedi ei hadeiladu, a'i chadarnhau mewn mesur. BOOTHROYD.—Yr Eglwys, lle mae Duw yn amddiffyn pawb a ymddiriedant yn ngwaed y cyfammod, cymh. Esa. 26. 1—3.—*Carcharorion gobeithiol*, er eu bod yn garcharorion, yr oeddynt yn meddu gobaith cryf am waredigaeth, yn deillio oddiar addewid Ddwyfol. DAVIDSON.

Adn. 13 *Pan annelwyf Judah*, neu, "Pan wnelwyf Judah yn fwa, ac Ephraim yn saeth i mi." LOWTH.—*Ac y cyfodwyf dy feibion di Sion*, bydd i mi, nid yn unig alluogi yr Iuddewon i wrthsefyll, darostwng, ac ymlid eu gelynion Groegaidd a Thyrcaidd, â lladdfa fawr, ond trwy bregethwyr o Iuddewon, myfi a af allan i ddarostwng y cenhedloedd i Grist. J. BROWN. Efallai fod yr addewid hon i'w chyflawni eto yn helaethach ar berchenogion presenol Groeg, Macedonia, a rhan o Asia Leiaf. I. COBBIN.

Adn. 14. *A'r Arglwydd a welir drostynt*, i'w hamddiffyn a'u hadnewyddu, fel yr oedd y cwmmwl yn cysgodi y gwersyll yn yr anialwch, ac fe'u darostyngir yn y fath fodd ag a ddengys fod Duw yn ymladd dros ei ganlynwyr.

Adn. 15. *Ac a ddarostyngant gerrig y dafl*, neu, "â cherrig y dafl," yr oedd y dafl-ffon yn offeryn grymmus yn nwylaw yr Hebreaid; Barn. 20. 15. Y rhan olaf o'r adnod dan y gyffelybiaeth o wledd ar aberth, a ddarlunia lawenydd buddugoliaethwyr, ac a rydd amnaid y byddai iddynt yn eu gwledd, gydnabod yr Arglwydd fel awdwr eu buddugoliaeth, trwy dywallt dïod-offrwm o win, ac offrymmau yr aberthau oeddynt gymeradwy ganddo ef o'i flaen. DAVIDSON.

Adn. 16. *Meini coron*, neu, "feini coronawg," hyny yw, hwy a

fyddent yn dystion cyhoeddus o anfeidrol ras a gallu Duw. Mae y cyfeiriad at gof golofnau wedi eu henneinio neu eu gwisgo â choron bleth, er anrhydedd i fuddugoliaethwyr, Gen. 28. 16—22.

Adn. 17. *Ei ddaioni ef*, neu, "Eu llwyddiant hwy." Y golygddrych yw, y byddai i'r fuddugoliaeth gael ei dilyn â llwyddiant cyffredinol, cyffelyb i'r hyn a fwynheir gan genedl ddïogel oddiwrth elynion allanol, ac arlwyedig â helaethrwydd o foddion cynhaliaeth, Hos. 2. 9. Sal. 4. 7.

## PEN. X.

Adn. 1. *Ddysglaer gymmylau*, neu fellt, fel y mae ar ymyl y ddalen, a Job 28. 26. Mae gwlaw mawr yn dilyn taranau a mellt, gwel Jer. 10. 13. W. LOWTH.

Adn. 2. A *ddywedasant wagedd*, sef trwy y gau brophwydi, y rhai a addawent, ond ni's gallent gyflawni.

Adn. 3. *Fel ei hardd-farch*, &c. Y prif ddefnydd a wnelai yr Iuddewon o feirch oedd mewn rhyfel, gwel Diar. 21. 31. Esa. 31. 1, 2. LOWTH. Mae hyn yn dynodi dewrder, a nerth. BLAYNEY.

Adn. 4. Yr ystyr yw, y byddai i Judah gyfodi o honi ei hunan yr holl swyddogion a'r milwyr angenrheidiol er llywodraethiad a dïogeliad y genedl.—*Gorthrymmwr*, neu yn hytrach llywodraethwr, neu flaenor; mae y geiryn gwreiddiol yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr dda yn Esa. 60. 17, ac yma hefyd, fel y mae yn eglur oddiwrth y cyf destyn. DAVIDSON.

Adn. 6--8. Dyma un o'r addewidion mwyaf nodedig y bydd i had Abraham gael eu hadferu i Eglwys Dduw, a bod *fel pe na's gwrthodasid hwynt*, ni chofir eu hanwireddau na'u gwrthgiliadau, bydd eu maddeuant yn gyflawn, a'u mwynäad o freintiau plant Duw yn drwyadl. Rhuf. 11. 25—32. DAVIDSON.

Adn. 9, 10. *Ac mewn gwledydd pell y'm cofiant*, hyny yw, fe'u dychwelir at yr Arglwydd tra yn trigo mewn gwledydd estronol, cymh. Sal. 22. 27.—*Ac ni cheir lle iddynt*, hyny yw, hwy a luosogant yn ddirfawr. *Yr un.*

Adn. 11, 12. *Ac efe a dramwya trwy y môr mewn blinder*, cyfeiriad at y fynedfa gynt trwy y Môr Coch a'r Iorddonen, ac addewid y'u gwaredid eto trwy yr unrhyw allu mawr. BLAYNEY.—*Ac yn ei enw ef yr ymrodiant*, dygant eu holl oruchwylion dinesig a milwraidd, gwladol ac eglwysig yn mlaen yn ei enw ef, trwy awdurdod, nerth, a doethineb oddiuchod, yn ol cyfraith yr Arglwydd, ac er ei ogoniant ef. POOLE, W. LOWTH.

## PEN. XI.

Adn. 1. Gellir meddwl fod y deml yn cael ei galw *Libanus*, trwy drawsenwad, am fod ei phrif addurniadau wedi eu gwneyd o gedrwydd enwog y mynydd hwnw; ac efallai fod y geiriau hyn yn cynnwys rhyw amnaid o'r ffaith arswydus y byddai i'r cyssegr sancteiddiolaf fod yn agored i bawb, gelynion neu gyfeillion, fel na byddai mwyach yn sanctaidd i'r Arglwydd. DAVIDSON.

Adn 2, 3. Yn cyffelybiaethau a ddefnyddir yn yr adnodau hyn a ddarluniant gwymp gwŷr mawr Judah, ac na's gallent gael unrhyw loches rhag gallu creulawn y Rhufeiniaid.

Adn. 4—6. *Portha ddefaid y lladdfa*, y mae yr Arglwydd yma yn cyfarch y prophwyd, gan ei annog i gyflawni gwaith bugail da, a phorthi y bobl hyn ag addysg fuddiol. CHANDLER, BOOTHR. Yn hytrach y Messiah a elwir i borthi ei bobl. GILL.—*Eu perchenogion* oedd y Rhufeiniaid, y rhai a gymerent ac a werthent luaws afrifol o Iuddewon yn gaethion, ac y mae yn ymddangos nad oedd y rhai a'u prynent yn rhoddi nemmawr o fri arnynt. BOOTHROYD.—*Bob un i law ei gymmydog, ac i law ei frenin*, dystrywid yr Iuddewon mewn rhan trwy greulondeb a thrais eu llywodraethwyr eu hunain, trwy eu hymrysoniadau tufewnol, a thrwy yr amherawdwr Rhufeinig, yr hwn a arddelwent fel eu brenin, mewn gwrthwynebiad i Grist Iesu. J. BROWN.

Adn. 7. *Hyfrydwch*, i ddynodi mor hyfryd fyddai y tir pcd ufuddhai y bobl i Dduw.—*Rhwymau*, i arwyddocau yr undeb a ddylai fod rhwng holl gorph y bobl. BOOTHROYD.

Adn. 8. A *thorrais ymaith dri bugail mewn un dydd*. Mae yr ymadrodd yn arwyddo torri ymaith o gymdeithas y gwir Israel, Exod. 12. 15. a 23. 23. Ezec. 14. 8.—*Tri*, nifer pennodol am nifer anmhennodol, wrth yr hyn yr arwyddocceir llywodraethwyr yr Iuddewon, medd rhai; blaenoriaid eu prif sectau, medd eraill; y tri dosparth o lywodraethwyr, offeiriaid, ac ysgrifenyddion, medd eraill.—*Mewn un mis*, amser byr.

Adn. 9. Pan ystyriom nodweddiad y bugail da, pwy a all ddirnad y trueni annrhaethol a osodir allan drwy yr ymadroddion hyn! Yr oedd y praidd mor wrthnysig fel yr oedd pob gobaith am wneuthur lles iddynt yn ymddangos ar ben. Rhaid iddo eu rhoddi i fynu, pa mor anewyllysgar bynnag a fyddo i hyny, i farw, i'w dystrywio, neu i ddystrywio y naill y llall; cymh. Luc 19. 41—44.

Adn. 10, 11. *I dorri fy nghyfammod*, hyny yw, i ddangos fod fy mherthynas gyfammodol âg Israel wedi ei dorri; cymh. Matt. 21. 28—46. DAVIDSON.

Adn. 12, 13. *Dygwch fy ngwerth*, fy hûr, neu gyflog, a hwy a'i prisiasant yn ddirmygus, deg ar hugain o ddarnau arian, pris caethwas. A. CLARKE. Mae y dyfynnodiad a wneir yn y Testament Newydd, yn penderfynu adeg y brophwydoliaeth hon i amser ein Harglwydd, a'r cyflawniad o honi yw yr egluräad gorau arni, gwel Nod. ar Matt. 26. 14, 15. a 27. 10, 11. DAVIDSON.

Adn. 14. Ni ddigwyddodd un amgylchiad i'r bobl wedi eu dychweliad o Babilon, at yr hyn y gellir cymhwyso hyn, oddieithr eu triniaeth o'r prophwyd mawr, ein Harglwydd, a'r hyn a ddylynodd hyny, sef llwyr ddymchweliad eu hansawdd wladol, Matt. 27. 7. BOOTHROYD.

Adn. 15—17. *Offer bugail ffol*, neu y bugail drwg, yr hwn a ofala fwy am ei bleser a'i elw ei hun, nac am lesâad y praidd. Mae

yr hyn a ddywedir yn yr adnodau hyn yn ddarluniad tra chyfaddas o nodweddiad blaenoriaid gwladol ac eglwysig yr Iuddewon yn y cyfrwng rhwng esgyniad ein Harglwydd a dinystr y deml, gwel Nod. ar Matt. 24, yr hyn a eglura lawer o rannau o'r brophwydoliaeth hon. Meddylia eraill mai yr amherawdwr Rhufeinig a'i swyddogion a olygir, ond y mae yr adnod nesaf yn tueddu yn hytrach i gefnogi y golygiad cyntaf.—*Eilun bugail*, neu y bugail ofer, diles; disgynodd y wae hon mewn modd ofnadwy ar lywodraethwyr yr Iuddewon, canys ni bu bobl mewn awdurdod erioed mor amryfus a di amcan i'w hachub eu hunain a'r genedl na hwynt. DAVIDSON.—Braich, y llywodraeth wladol.—Llygad dehau, yr awdurdod eglwysig. A. CLARKE.

## PEN. XII.

Adn. 1. *Baich gair yr Arglwydd i Israel*, mae y bennod hon yn cynnwys prophwydoliaeth am ddiffyniad, nawdd, a gwaredigaeth i eglwys Dduw, a thywalltiad o'r Ysbryd; ac o droedigaeth yr Iuddewon yn y dyddiau diweddaf. GILL. Mae yn debyg fod yma gyfeiriad at amgylchiadau a ddarlunir yn helaethach yn Ezec. 38. a 39. W. LOWTH.

Adn. 2. *Phïol gwsg*, byddant yn yr un cyflwr a rhai wedi eu gorchfygu gan wlybwr meddwol, ac felly eu difwyno o nerth a deall. W. LOWTH.

Adn. 3. *Yn faen trwm i'r, &c.* Dywaid JEROME y byddai yn mhob dinas a thref trwy Palestine faen trwm, sef "Maen gorchest," yr hwn yr ymorchestai gwŷr ieuainc i'w godi, y naill a'i cyfodent hyd y gliniau, y lleill hyd y ddwyfron, ac eraill cyfuwch a'u pen; ond os byddai i ddyn dan y cyfryw amgylchiadau geisio codi maen rhy drwm i'w nerth, efe a fyddai mewn perygl o gael ei yssigo dano; felly y byddai i'r holl genhedloedd a wrthwynebent lwyddiant eglwys Dduw. JEROME.

Adn. 4, Mae llawer o'r farn mai y byddinoedd Twrcaidd a olygir, y rhai a wneir i fynu gan mwyaf o feirch luoedd, y bydd i'r rhai hyn ymosod yn erbyn i'r Iuddewon gael meddiannu Jerusalem a'r tir sanctaidd; ond y bydd i'r Arglwydd ymddangos yn amlwg dros ei bobl, a dyrysu amcanion eu gelynion. A. CLARKE.

Adn. 6. *Fel aelwyd o dân*, trwy y cyffelybiaethau hyn dangosid y byddai iddynt ffynu a dystrywio llawer o'u gelynion. BOOTHR.

Adn. 7. A *geidw bebyll Judah yn gyntaf*, a ddyru lwyddiant i'r rhai a wersyllant yn y wlad agored, fel na byddo i'r rhai a ddiffynant Jerusalem oddifewn gael eu chwyddo i fynu. W. LOWTH.

Adn. 10. *Ysbryd gras a gweddiau*, cyflawnwyd y brophwydoliaeth hon mewn mesur helaeth ar ddydd y Pentecost, Act. 2. 17, 18. Ioan. 19. 37. COBBIN. Fe bechodd yr Iuddewon trwy ladd y Messiah, am ba achos y gyrodd Duw hwynt o'u tir, ac ni's bydd iddo eu hail sefydlu ynddo, hyd oni edifarhäent am eu pechod. Darfu i Dduw eu hadferu o'r caethiwed Babilonaidd ar edifeirwch digon arwynebol; ni bu eu pechodau yn fwy yn eu gwasgariad presenol nac o'r blaen, ond yn llai o gymmaint a'u bod yn rhydd

oddiwrth y pechod o eilunaddoliaeth; ond er eu bod yn galaru llawer ac yn ymprydio, nid yw Duw yn eu gwrando; y mae hyn yn dangos yn eglur eu bod yn euog o ryw bechod am yr hwn nid edifarhasant eto; y pechod hwnw a nodir yma gan Zechariah.

Adn. 12. *Teulu tŷ Ddafydd*, y llinach frenhinol.— *Tŷ Nathan*, y prophwydi.—*Tŷ Lefi*, yr archoffeiriaid, yr offeiriaid, a'r lleill o'r Lefiaid, a'u hiliogaeth.—*Ty Simei*, neu Simeon, yr Ygrifenyddion a'r Phariseaid, a'u hiliogaeth. WELLS, LOWTH. Mae yn debyg mai y prif ystyr yw, y byddai i holl deuluoedd yr Iuddewon gael eu llenwi a'r teimlad yma.

## PEN. XIII.

Adn. 1. *Yn y dydd hwnw*, yr hyn a ddengys mai parâad o'r brophwydoliaeth flaenorol yw y geiriau hyn. Nid yn ofer y bydd i'r rhai edifeiriol hyn alaru; canys yr Arglwydd a sych ymaith eu holl ddagrau, trwy faddeu eu holl bechodau, a'u cymhwyso i sefyll yn gymmeradwy yn ei olwg ef. Os y croeshoeliad a olygid yn adn. 10, o'r bennod flaenorol, mae yn ddiau mai at yr un peth y mae y cyfeiriad yma. Dywedir fod gwaed Crist yn glanhau oddiwrth bob pechod; oddiwrth ei euogrwydd a'i halogrwydd. Pan adgyfododd Crist, ei orchymyn i'w ddysgyblion oedd, ar fod iddynt bregethu maddeuant pechodau yn ei enw ef, gan ddechreu yn Jerusalem; ac fe ganfuwyd effeithiau cyntaf ei farwolaeth ef yn nychweliad lliaweroedd, ac yn sefydliad yr eglwys efengylaidd, Luc 24. 46, 47. BOOTHROYD.

Adn. 2. *I mi dorri enwau yr eilunod allan o'r tir;* efallai fod hyn yn golygu diddymiad eilunaddoliaeth yr eglwysi Groegaidd a Lladinaidd, cystal a'r Iuddewon. W. LOWTH.

Adn. 3. Ni's gellir meddwl am un arwydd cryfach o ufudd-dod trwyadl i ewyllys yr Arglwydd na'r enghraifft grybwylledig.

Adn. 4—6. Ystyr yr ymadroddion hyn yw, na's byddai rhagrith yn un o nodweddion eglwys Crist. Gwisgid *crys o rawn* gan wŷr enwog yn mysg y prophwydi. ac ymdebygolai gau ymhonwyr i'r ysbryd prophwydoliaethol iddynt yn eu gwisg. Gwel Nod. ar Matt. 3. 1—4.—*Gwelliau hyn, &c.* Mae cyfeiriad eglur yn y geiriau hyn at ddwy hen ddefod, y naill o eiddo y prophwydi eilunaddolgar, y rhai a geisient dynu sylw eu duw trwy eu torri eu hunain, 1 Bren. 18. 28; a defod arall arferedig gan alarwyr, y rhai a'u torrent eu hunain yn arwydd o'u gofyd a'u galar am eu caredigion trancedig, Jer. 16. 6. Y torriadau hyn a wnelid ar y dwylaw yn neillduol; am hyny y cawn ni y gwr hwn, pan ofynid iddo pa beth a barai fod y creithiau a welid ar ei ddwylaw, a ddywedai nad oddiar unrhyw achos eilunaddolgar y deilliasent, gan gymeryd arno mai archollion a roisai iddo ei hun am golli ei garedigion oeddynt. BLAYNEY.

Adn. 7. Mae y prophwyd yma eto yn dychwelyd at ein Harglwydd a'i ddyoddefiadau, gan ddangos, er mai dynion o falais drwg a fu yn ei wanu ef, fod hyn yn gyflawniad o ragderfyniad

Dwyfol, ac mai cyfiawnder Dwyfol a gyflawnai y swydd. Iawn y gallai yr offerynau, a annogid i'r weithred ysgeler gan falais eu calon ddrygionus, alaru yn yr olwg ar erchyildra eu bai; ond, fe oruwch rëolai Duw eu drygioni i gyflawni y gogoneddusaf o'i holl amcanion doethion, cyfiawn, a haelfryd. Cymh. Act. 2. 23.—

Adn. 8, 9. Ar ol peth amser bydd i amgylchiad tra ofnadwy gymeryd lle, sef torriad ymaith ran fawr o'r genedl Iuddewig trwy farn Ddwyfol.—*A'r drydedd a adewir,* yr holl Iuddewon a dderbyniasant yr efengyl, ac a wrthodasant ymladd â'r Rhufeiniaid. Byddai y rhai hyn yn agored i ddyoddefiadau llymion; ond fe'u purid trwy y rhai hyn, a Duw a'u harddelwai fel ei bobl ei hun.

## PEN. XIV.

Adn. 1. ***Wele, ddydd yr Arglwydd,*** yr hwn a drefnodd efe i gosbi pechodau ei bobl ynddo, yn dyfod ar yr Iuddewon, y rhai a ddirmygasant ac a laddasant y Messiah. POOLE.

Adn. 2. *Yr holl genhedloedd,* fel yr oedd y Rhufeiniaid yn arglwyddi y byd adnabyddus, yr oedd nerth yr holl genhedloedd yn unol yn eu lluoedd. W. LOWTH.—*A hanner,* neu "ran o'r ddinas," fel y mae yr un geiryn yn cael ei gyfieithu yn Barn. 9. 43. Dan. 11. 4. NEWCOME. Mae rhai esponwyr o'r farn fod y rhagfynegiadau a gynnwysir yn y bennod hon, yn golygu amgylchiadau sydd eto yn ddyfodol; ond y mae yn debyg eu bod wedi dechreu gyda dinystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid, ac yn ymestyn yn raddol hyd at yr amgylchiadau a gymerasant le yn ol hyn gyda golwg ar yr Iuddewon, eglwys Dduw a'u gelynion. SCOTT.

Adn. 4. *A'i draed a safant—ar fynydd yr Olewydd.* Y golygiad mwyaf rhesymol ar yr ymadroddion hynod hyn a allwn ni ei gasglu oddiwrth opiniynau yr amryfal Esbonwyr yw, eu bod yn golygu cyfryngiad rhyfeddol o eiddo ein Harglwydd yn nychweliad olaf yr Iuddewon, yr hwn y dywedir ei fod yn sefyll ar fynydd yr Olewydd, yr hwn o herwydd ei sefyllfa, ei uchder, a'i agosrwydd i'r deml, a ddynodai le manteisiol i gyflëu cynnorthwyon. Darlunir daiargryn hefyd, megis yn cael ei chynnyrchu gan bresenoldeb yr Arglwydd, fel ar Sinai. I. COBBIN, POOLE, CLARKE. Mae eraill yn meddwl mai cyfeiriad sydd yma at yr adgyfodiad; a chan fod y Prynwr i sefyll ar y ddaiar yn y diwedd, ac i ddyfod i waered o'r nef fel yr aeth efe i fynu, mae yn dra thebyg y disgyna efe ar yr un rhan o'r ddaiar ag yr esgynodd efe oddiarni, Job 19. 25, 26, 27. Act. 1. 11, 12. GILL.

Adn. 6, 7. *Dydd hwnw—un diwrnod,* wrth yr hyn y dynodir holl yspaid teyrnasiad y Messiah, at yr hyn y mae yr hyn oll a ddywedir yma, ac yn y ddwy adnod nesaf, yn gymhwysiadol. Yr oedd goleuni gwirionedd Dwyfol i lewyrchu yn barhaus, ond i gael eu tywyllu gan gyfeiliornad a thwyll, pechod a thrueni, hyd tua diwedd y dydd, pan y bydd i'r gwirionedd fuddugoliaethu, fel y trawsnewidir ei hwyr megis hanner dydd. DAVIDSON.

Adn. 10, 11. Dyma addewid o symmudiad pob rhwystrau o

ffordd llwyddiant yr efengyl; caiff dderbyniad cyffredinol, a chynnyrcha ffrwythau cyfiawnder yn helaeth. DAVIDSON.

Adn. 12, 13. Haint a gwrthryfel cyffredinol, a lwyr ddinystria y fyddin elynol hon, gwel Esa. 34. 2, 3. a 66. 24. Ezec. 38. 21, 22.

Adn. 16—19. A *bydd i bob un a adawer o'r holl genhedloedd.* Fe ennillir llawer drwy yr amlygiad o allu a daioni Duw, i gofleidio y gwirionedd a'i addoli ef;—Y cenhedloedd cylchynol a olygir.—*I gadw gwyl y pebyll,* trwy yr hyn y cynnrychiolir gosodiadau Crist yn gyffredin, neu fawl a diolchgarwch. Y mae cadwraeth yr ŵyl ei hunan yn annghydweddol â natur yr oruchwyliaeth Gristionogol, yr hon a ddirymmai osodiadau Moses. DAVIDSON.

Adn. 20, 21. *Sancteiddrwydd i'r Arglwydd.* Anrhydeddir enw Duw yn mhob peth, y ddinas, ei phreswylwyr, a phob peth a gynnwysa a ystyrir yn sanctaidd i'r Arglwydd, wedi ei bod yn halogedig iawn. BOOTHROYD.

# LLYFR MALACHI.

***Mae yn ymddangos fod y prophwyd hwn yn gyfoeswr â Nehemiah, neu ei fod wedi ysgrifenu yn fuan ar ol amser llywodraethiad y gwr hwnw, pan oedd zel a duwioldeb llawer wedi marweiddio, a'r bobl a'r offeiriaid yn euog o amryw bechodau ysgeler. Mae y prophwyd yn eu ceryddu ac yn eu bygwth am hyn: ac yna y mae yn llefaru yn eglur am ddyfodiad y Messiah, a'i ragredegydd, Ioan y Bedyddiwr, hyd ba'r adeg yr oeddynt i gadw y ddeddf, gan nad oedd wiw iddynt ddysgwyl prophwydi mwyach yn eu mysg.***

## PEN. I.

Adn. 2, 3. *Eto Jacob a hoffais,* yr oedd Duw wedi dagnosmwy o ffafr i Jacob a'i had, yr Israeliaid, nac i Esau a'r Edomiaid; yr oeddynt wedi cael gwell tir, a rhagorach rhagorfreintiau crefyddol.

Adn. 4, 5. *Minnau a fwriaf i lawr,* hyny yw, dyrysaf eu holl amcanion a'u hymdrechion i ymadnewyddu, yr hyn a gyflawnwyd. Gwel Obadiah 17—21.—*Oddiar derfyn Israel,* neu o'r tu hwnt i ffiniau Canaan; efallai fod amcan Duw i'w fawrygu ei hunan tu hwnt i Ganaan, yn cyfeirio at ddychweliad y cenhedloedd, trwy yr hyn yr amlygid ei fawrhydi gogoneddus a'i ras, cymh. Ephes. 2. 7.

Adn. 6. Oddiyma hyd pen. 2. 9; fe geryddir yr offeiriaid yn neillduol am eu rhagrith, ac fe'u rhybuddid onid edifarhaent y byddai iddynt hwythau fel Esau gael eu gwrthod, a'u hamddifadu o ragorfreintiau yr offeiriadaeth. DAVIDSON.

Adn. 7. *Fara halogedig.* Efallai mai y bara gosod a olygir, Exod. 25. 30;—neu y bwyd offrwm, Exod. 29. 41. Lef. 2. Num. 28. 5; neu, mewn ystyr ehangach, yr hyn oll a offrymmid i'r Arglwydd. POOLE.

Adn, 8. *Cynnyg ef yr awrhon i'th dywysog, &c.* Y mae yn ddefod arferedig yn y gwledydd dwyreiniol, i'r tlodion wneyd anrhegion o ŵyn a defaid i'w harglwyddi, y rhai ydynt yn gwneyd

dyhuddiant dros gamweddau yn fynych. *Syr* J. CHARDIN. Oni bydd anrheg yn gymhesur i raddau âg urddas yr hwn yr ymwneir ag ef, amgylchiadau yr hwn a fydd yn ei hoffrymmu, a gwerth y ffafr a geisir, fe'i gwrthodir. HARMER.

Adn. 10. A *phwy o honoch?* neu, "Diau cauir y dorau i'ch erbyn; ac ni's cynneuwch dân fy allor yn ofer." NEWCOME.

Adn. 11. Er i ddefodau Moses ddarfod, cynnyddai aberthau; canys e dystiai yr Arglwydd yma, y byddai yn lle un genedl, yr holl genedloedd yn nesau at ei allor, ac fel hyn yn addef ei fawredd a'i ras; gwel Ezec. 43. 18—27.

Adn. 14. *I mae yn ei ddiadell wrryw,* sef un cymhwys, a pherffaith yn ol y ddeddf i fod yn aberth. Trwy droseddu y ddeddf, ac offrymmu yr hyn oedd waharddedig, yr oeddynt yn tynu anfoddlonrwydd Duw yn eu pennau. Gwel Lef. 22, 19, &c.

PEN. II.

Adn. 2. *Eich bendithion chwi,* rhan yr offeiriad a olygir, pen. 3. 10, 11. Joel 2. 14. BOOTHROYD.—*Ië, myfi a'u melldithiais eisoes,* cyfeiriad at dymhorau anffrwythlawn, neu y newyn a gymmerodd le tu a'r pryd hwn, gwel Hag. 1. 6—11. CLARKE.

Adn. 3. Yr oedd taenu tom ar eu hwynebau, yn arwyddo y byddai iddynt gael eu gorchuchio â gwarthrudd. Yn lle derbyn ysgwyddog, a photten yr aberth yn ol y ddeddf, Deut. 18. 3, dom a fwrid arnynt; ïe, a mwy na hyny, hwythau eu hunain hefyd a fwrid gydag ef i'r dommen, *Ac un a'ch cymer chwi atto,* neu, "a'ch dwg chwi gydag ef." DAVIDSON.

Adn. 4, 5. *Y gorchymyn hwn,* a gynnwysid yn adn. 2.—*Fy nghyfammod,* sef cyfammod yr offeiriadaeth, gwel Exod. 32. 28. Num. 25. 10—15.

Adn. 6. *Cyfraith gwirionedd oedd yn ei enau ef,* er fod cyfeiriad neillduol at Aaron a Phineas, eto mae yn debyg y golygir yr holl lwyth. BOOTHROYD.

Adn. 7. A *gadwant wybodaeth,* a'i trysorant ac a'i cadwant i'w ddosbarthu fel y byddo achlysuron ac amgylchiadau yn gofyn. Bydd i'r bobl ymofyn ag ef am ystyr y gyfraith, a'i chymhwysiad.

Adn. 10. Mae y prophwyd yn ceryddu y bobl a'r offeiriaid am ymgymmysgu â'r cenhedloedd trwy brïodasau annghyfreithlawn; gwel Deut. 7. 3, ac ysgariaeth hefyd, Ezra 9. 1. Neh. 13. 23.

Adn. 13. *Gan orchuddio â dagrau allor, &c.* Mae yn debyg mai dagrau y gwragedd a ddygid o flaen yr offeiriaid i dderbyn llythyr ysgar a olygid; bod yr allor wedi ei gorchuddio â dagrau, a arwyddai fod y nifer a ysgarid yn lluosawg. DAVIDSON.

Adn. 15, 16. *Onid un a wnaeth efe?* Un gwr, ac un wraig; eto, er fod yr ysbryd yn weddill ganddo; hyny yw, fod pob gallu a doethineb ganddo, fel y gallasai wneyd ychwaneg pe buasai yn dewis i un gwr gael llawer o wragedd, neu i un wraig gael ychwaneg nac un gwr.—*I geisio had duwiol,* fel y teimlai rhieni ddyddordeb priodol yn addysg a llesiant eu plant, ac yn enwedig mamau, yr hyn ni's gallent pe yn agored i'w hysgaru wrth ewyllys eu gwyr.

## PEN. III.

Adn. 1. *Fy nghennad*, Ioan Fedyddiwr. POOLE. Gwel Matt. 2. 10. Marc. 1, 2. Luc. 7. 27, 28.—*Yr Arglwydd*, y Messiah, am yr hwn y mawr ddisgwyliai yr holl dduwiolion. Anfonodd Duw lawer *angel* neu gennad o bryd i bryd; ond dyma yr angel mawr, i'r hwn yr ymddiriedwyd y gwaith o gyhoeddi y cyfammod newydd trwy ei weinidogaeth, a'i selio trwy ei angau, fel y rhagfynegasid erys talm gan y prophwyd efengylaidd Esaiah, pen 40. a 52. a 53.

Adn. 3. *Efe a bura meibion Lefi*, wrth y rhai y golygid y rhai a weinyddant yn eu lle dan y cyfammod newydd, cystal a'r rhai hyny o'r offeiriaid a gredasant. BOOTHROYD.

Adn. 4. *Offrwm Judah*, offrwm ysbryd rhai a burwyd gan athrawiaeth a gras Crist, &c., canys Duw a gosba y rhai a baraant yn eu camweddau mewn modd nodedig. YR UN.

Adn. 7—12. Yn yr adnodau hyn, beïir y bobl am attal y degwm a'r offrymmau cyfreithlawn, am yr hyn y'u tarewid â melldith Duw; ond y mae Duw yn addaw os dychwelent at y gyfraith, y byddai iddo eu bendithio, fel y'u cyfrifid yn ddedwydd gan genhedloedd eraill.

Adn. 13—15. Mae y darluniad a gynnwysir yn yr adnodau hyn yn dra chywir o nodweddiad y genedl Iuddewig pan ymddangosodd yr Iesu, Angel y Cyfammod, yn eu mysg. Mae yn amlwg fod y Saduceaid yn meddu cryn ddylanwad, a bod y Phariseaid yn cenfigenu llawer wrth eu llwyddiant, gan feddwl nad oedd eu hympyrdiau a'u gweddiau hwy yn cael eu gwobrwyo yn gyfaddas.

Adn. 16. *A lefarasant bob un wrth ei gymmydog*, gan gadarnhau y naill y llall mewn duwioldeb, yn erbyn y cyfryw ymosodiadau maleisus, W. LOWTH.—*Ac ysgrifenwyd*, cyfeiriad at yr arferiad o ysgrifenu cof-lyfrau gan freninoedd, gwel Esth. 6. 1. NEWCOME.

Adn. 17. *Y dydd y gwnelwyf brindoledd*, neu, "fy nhlysau priodol," yr ystyr yw, Er fod y gwerthfawr a'r gwael yn nghyd yma, y daw dydd i'w hysgaru cyn hir. POCOCKE.

## PEN. IV.

Adn. 1. Dyma ddarluniad o'r farn ddiweddaf ar yr Iuddewon yn eu dinystr, ac o'r farn gyffredinol ar holl ddynolryw. POCOCKE.

Adn. 2, 3. Dyma brophwydoliaeth nodedig am ogoniant cynnyddol y Messiah yn ei freniniaeth, a buddugoliaeth drwyadl ei ddylynwyr.

Adn. 4—6. Rhoddir y cynghor hwn gyda phriodoldeb mawr, gan yr olaf o'r prophwydi ag y mae ei ddatguddiad ar gael yn nghyflyfr sanctaidd yr Hen Destament, a da fuasai i Israel pe buasent wedi ufuddhau iddynt yn briodol, gwel Ioan 5. 45—47. Annog y bobl i ddyfod i ufuddhau i gyfraith Moses, oedd prif amcan gweinidogaeth Ioan y Bedyddiwr, yr hwn a elwir yma Elias.—*A dry galon y tadau at y plant*, neu, "efe a ddychwel galon y tadau gyda'r plant." NEWCOME, BOOTHROYD. Dychwelwyd lluaws mawr y pryd hyny, ac fe'u gwaredwyd mewn modd nodedig rhag y felldith fygythiedig. T. WILLIAMS.

I its useful doctrine,
II its wise design
say that nature &
humanity etc are
insufficient to satisfy
the rational soul.

The things most remarkable – the offence of nature – structure of the human frame and its humility decay

